

PROPHWYD Y JUBILI

NEU,

SEREN Y SAINT;

YN CYNNWYS

HANES SEFYDLIAD "GORUCHWYLIAETH CYF-
LAWNDER YR AMSEROEDD,"

YNGHYD AG

ERLIDIGAETHAU, MERTHYRDOD, AC ALLTUDIAETH EI
HUFYDDION, A'U LLWYDDIANT,
&c., &c.

"SE ARGLWYDD IOR A LEFARODD, PWY NI PHROPHWYDA? CANYN NI
WNA YR ARGLWYDD DDIM, A'R NA DDANGOSO EI GYFRINACH
I'W WEISION Y PROPHWYDI."

CYFROL I.

MERTHYR-TYDFIL:

CYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES;

AC AR WERTH HEFYD

GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL, A LLAWER
O LYFRWERTHWYR.

1846.

'HHAGYMA DRODD.

RHAID fod gan bob sect ei horacl—ei misolyn, ei chyhoeddiad amddiffynol, yn yr oes a'r wlad ymofyngar hon; felly y rhaid fod genym ninnau. Wele ni wedi cyhoeddi chwech rhifyn o'r PROPHWYD. Ceir ynddo ein heglurhad ar amryw o'n hegwyddorion, ein hamddiffyniad yn ngwyneb cyhuddiadau anwireddus ac annheg ein gwrthwynebwy, hanesion am ein llwyddiant ac ymdrechadau ein pregethwyr a'n haelodau yn ngwahanol barthau y byd, ynghyd â phroffion allan o ranau athrawiaethol a phrophwydoliaethau yr Ysgrythyr Lân o'n dwyfol sefydliad, awdurdod, a chefnogiad.

Dechreu profi, eglurhau, ac amddiffyn ein hunain a'n hegwyddorion yr ydym; ond dysgwyliwn estyniad oes a chyfleusdra, a chefnogaeth i fyned yn mlaen, nes argyhoeddi ein cydwladwyr yn gyffredinol o'n Cristionogaeth a'n goruchwyliaeth nefol a phwysig.

Nad beth a ddywedir am danom *ni*, ac am ein *hegwyddorion*, ac am ein *harferiadau*, sicr yw y rhaid i bawb, er ammau ein proffesiadau ar hyn, gyfaddef mai yn ein phiol ni y ceir yr holl brofiadau apostolaidd ag a addawyd drwy erlidiau dros y ffydd. Rhaid iddynt addef hefyd fod llawer o wirioneddau pwysig a ymguddient dan fantell y ddunos, yn ymddysclaerio drwy ddalenau y PROPHWYD; ac felly y parhant i syllu yn llygaid pawb a'u darllo, nes llenwi ein gwlad â gwawl y Jubili.

CYNNWYSIAD.

	TUD.		TUD.
Adolygiad ar Bregeth y Parch W. R. Davies, Dowlais, ar y Gwyrthiau 70, 107, 128, 156		Gweinidogaeth Angylaidd yn Ysgrythyrol	14
Alltudiaeth Tri Chan Mil o'r Saint o'u Gwlad am eu Crefydd!	109	Gwrth-annogiad	56
Amddiffyniad y Saint <i>versus</i> Cyhuddiadau Thos. Jones, Merthyr, ac ereill	148	Hanes Boreuol Joseph Smith Hanes Cyfieithiad y Llafnau	17 39
Anerchiad y Cyhoeddwr at ei Gydgenedl	1	Llyfr Mormon--ei ddesgrifiad	41
At Olygwyr y <i>Bedyddiwr</i> ..	24	Llythyr o Wersyll Israel....	111
Awdurdodiad Joseph Smith'i bregethu, bedyddio, &c... 93		Llwyddiant Gwirionedd	112
Arwyddion yr Amserau 119		Mae yr Esbonwyr gyda Ni!	85
Australia	164	Pa beth yw Mormoniaeth?..	39
Cenadiaeth Americanaidd i Frydain	134	Preswylwyr Iuddewig Ame- rica	44
Corff neu Eglwys Crist 141		Profion o Eirwiredd Llyfr Mormon	63, 95
Cyfarchiad y PROPHWYD .. 3		Sefydliad y Saint yn Kirt- land, a'r Erlidigaeth yn Missouri	120
Cyflawniad Prophwydoliaeth Cyn-breswylwyr America .. 43		Traddodiadau Indiaidd 68	
Cymmanfa Flynyddol Man- chester	47	Tymghed y Corff Dynol 89	
Cymmanfa Manchester 136		Tystiolaeth Haneswyr Eg- lwysig ynghylch Gwyrth- iau.	57
Cymmanfa Sir Fynwy..... 160		Tystiolaethau am Lyfr Mór- mon	60
Cysur dan Erlidigaeth 115		Tystiolaethau ychwanegol am eirwiredd Llyfr Mormon.. 91	
Dadguddiad y Llafnau Aur 19, 35		Y Bodau Angylaidd a'u Dy- lanwadau	58
Desgrifiad o'r Llafnau 37		Y Dial Du	119
Dinas Nauvoo..... 140		Y Genadiaeth yn Siroedd Cymru	161
Elias..... 142		Y Gyfraith a'r Efengyl 116	
Egwyddorion Cyntaf Crist- ionogaeth..... 38		Y <i>Diwygiwr</i> yn Formoniad.. 118	
Englynion Anerchiadol 28		Y Gymdeithas Farsiandiol.. 132	
Epistol Demetrius	101	Ynysodd Môr y De	164
Erlidigaeth yn nghylch y Llafnau	39	Yr Efengyl yn Lloegr, Scot- land, &c.	163
Galwad ar Bechaduriaid .. 140		Yr Adgyfodiad Cyntaf..... 164	
Golygydd y <i>Bedyddiwr</i> 78		Ysbryd Cyhuddiadol	113
Gweinidogaeth Angylaidd yn Rhesymol..... 6			

BLAEN-DAL, 3c.]

[OL-DAL, 3½c.

ATOCN deuaſ etto,—a gwir wedaſ,
Cewch gredu neu heidio;
Er pob daint, nad faint a fo,
Ni pheidiaſ a phrophwydo.

PROPHWYD Y JUBILI,

NEU

SEREN Y SAINT.

“YB AEWLWYDD IOB A LEFARODD, PWY NI PHROPHWYDA? CANYB NI
WNA YB AEWLWYDD DDIM, A'R NA DDANGOSO EI GYFRINACH
I'W WBISION Y PROPHWYDI.”

RHIF. 1.]

GORPHENAF, 1846.

[CYF. I.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Anerchiad y Cyhoeddwr at ei Gyd-genedl	1
Cyfarchiad y PROPHWYD	3
Gweinidogaeth Angylaidd yn Rhesymol	6
Gweinidogaeth Bresennol Angylion yn Ysgrythyrol	9
Y Bodau Angylaidd a'u Dylanwadau	12
Gweinyddiaeth Bresennol Angylion	14
Hanes Boreuol Joseph Smith	17
Dadguddiad y Llafnau Aur	19
Cyflawniad Prophwydoliaeth	22
Atebiad i Ysgrif y Parch. W. R. Davies, o Ddowlais, yn y <i>Bedyddiwr</i> am Fawrth	24
At Olygwyr y <i>Bedyddiwr</i>	26
Englynion Anerchiadol	28

~~~~~

### MERTHYR-TYDFIL:

CYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES;

AC AR WERTH HEFTD

GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL, A LLAWER  
O LYFRWERTHWYR.

1846.

## AT Y DERBYNWYR.

**GYDWLADWYR HOFF**,—Ni alwyd eich sylw o'r blaen at Gyhoeddiad mor newydd ei gynnwysiad â hwn. Nid yw am hyny yn sier o fod yn wir deilwng, mwy nag yn annheilwng o'ch derbynriad. Ein harwyddair yw, "Profweh bob peth; deliweh yr hyn sydd dda." Ni all y sawl a'ch anercho â'r cyfryw ciriau eich niweidio. Yr ydym yn gwybod fod ein crefydd o Dduw, ac yn gwybod oddi ar brofion anwadadwy, a'r profion hyny nid amgen i brofion crefydd apostolaidd eich Bibl chwi a ninnau. Pa fantais, meddweh chwi, a gawsom i dalu am dwyllo ein cydwladwyr? Ystyriwch yn ddifrifol, pa beth all fod yn ein cynhyrfu? Rhaid ein bod yn credu ein hathrawiaeth ein hunain. Tystied ein dyoddefiadau dros hyn. Nid oedd genym un llwybr i gadw ein cymmeriadau uwchlaw pob dyfnais, athrod, a chelwydd, heblaw, fel chwithau, drwy gyfrwng yr argraffwasg. Gwyddoch fel ein cyhuddwyd o bob drwg, twyll, ie, ac o bob dwlni. Anfonasom, yn y dull mwyn-ciddiaf, at y misolion a'n cyhuddent, lythyrâu argyhoeddiadol o'n diniwcidrwydd. Ond, a gawsant ymddangos? Naddo! A gyhuddwyd ni yn yr *Amserau*, *Seren Gomer*, *Dysgedydd*, *Bedyddiwr*, &c.? Do, do. A fenthyciwyd lle i ni glirio ein hunain? Naddo, naddo! chwiliwyd am bob gwaeledd o esgus yn hytrach. Pa beth a wnawn? A ym ni yn hõni mwy nag y mae pob sect arall yn ei hõni? Onid ynt bob un yn hõni eu bod yn iawn? Onid yw hyny yn gondemniad ar neillduolrwydd pob sect arall? Nid y'm ninnau yn damnio neb; a phe byddem, gallem grafu digonedd o eng-hreiffitiau allan o lyfrau eisoes yn yr iaith, pa sut i eirio ein condemniion. A gaiff pawb godi eu *magazine* ond nynt? A glõir y wasg rhagom? Ai hyny yw rhyddid Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg? A glowyd y misolion? Ni a agorwn fisolyn ein hunain, ynte. A halogwyd y wasg drwy ein hathrõdi? ni a'i glanhawn drwy amddiffyn ein hunain, ynte. Ac yn enw pob rheswm ac hanesiaeth, pa berygl all ddygwydd i neb? Os anwir ein cenadwri, anwir yw cenadwri holl Gristionogion ein gwlad, canys Cristionogaeth yw ein baich, a'n braint, a'n gwobr.

## AT Y SAINT.

**ANWYL FRODYR**,—Gwyddom y gwnewch chwi eich goren tung at ledaenu ein Cyhoeddiad. Cewch ynddo o bryd i bryd hanes sefydliad eich goruchwyliaeth, helyntion a llwyddiant eich brodyr, yn mhob cwr o'r ddaear. Cewch hefyd erthyglau cadarnhaol i'ch daliadau, eich dyscyblaeth, a'ch cyfundrefn oll. Caiff pob un a ddarlleno yn ddiragfarn, fantais drwyddo i weled pa beth ydym—nad rhyw anwiriad diegwyddor, a plwy ydym—nad rhyw ddwsir neu ddau yma ac acw yn Nghymru. Cânt oll weled, nad yw y grefydd, yr hon a geblir gan y sawl nid ynt yn ei hadnabod, yn un

(Gwel tud. 3 o'r Amlen.)

o sectau cyffredin y ddacar—nad yw yr hon a ennillodd, mewn dwsin o flynyddau, dros hammer miliwn o ganlynwyr, yn rhywbeth i chwerrhin am ei phen. Amnogwch eich **PROPHWYD** arnynt, frodyr, fel nad arosont mwy yn y tywyllwch am danom.

### AT EIN HATHRODWYR.

**WERTHFAWR ENEIDIAU**,—Nid yw y **PROPHWYD** yn bwriadu *settle* y cyfrif â chwi. Mae Un arall wedi cynmeryd y gorchwyf dwys hwnw arno! Ni chewch genym ni namyn tystiolaethau noeth i'r byd dros ein cymmeriadau, a gweddiau taerion i'r nef drosoch chwithau. Maddeugarwch a chariad brawdol a goncwerodd y byd unwaith yn yr oes apostolaidd. Maddeugarwch a chariad brawdol sy'n ei brysur goncwero yn eich oes chwithau. Concwera hyn chwithau hefyd. Try eich casineb yn gariad, a'ch enllib yn weddiau. Nesêwch, frodyr, ac edrychwch arnom. Mynwch ein hadnabod yn drwyadl cyn troi ymaith. Cablu yr hyn nis gwyddoch yr ydych. Nid ydym *berffaith*. Ein cyfundrefn bïa'r cymmeriad hwnw. Ymosodwch arni hi, a ni a'ch cynnorthwyrwn cau gynted ag y profwch hi yn dwyll, neu ein hadnabyddiaeth o honi yn annheilwng.

### AMMODAU.

I. Cynnwysa y **PROPHWYD** Draethodau ar Athrawiethau a Dyscybliaeth y Saint, Hanes am eu helyntion yn mhob cwr o'r byd, ynghyd â phob hanes arall fo'n dwyn perthynas â'u cenadwri, neu obeithion.

II. Daw allan yn fisol, ac oddeutu diwedd y mis, fel y cynnwyso bob peth anghenrheidiol fo'n perthyn i'r mis sydd enwedig ar y rhifyn.

III. Y Pris fydd Tair Ceiniog i'r Rhag-dalwyr, a Thair a Dimai i'r Ol-dalwyr.

IV. Gofelir am Ragymadrodd â Myngeir i'r **PROPHWYD** yn flynyddol, fel y galler ei rwymo yn llyfr cryno at arferiad parhaus.

### AT Y DARLLENWYR.

*Y Gymmanfa Flynyddol*.—Cynnaliwyd eleni yn yr *Hall of Science*, Manchester. Methwyd cael lle i'w hanesiad yn y Rhifyn hwn, ond ceir yn y nesaf.

Adolygiad ar Bregeth Mr. Davies o Ddowlais, ar y *Gwyrthiau*, yn y nesaf.

"Yr Ymfudiad i California," yn y nesaf.

CYHOEDDIADAU SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF.

I.

*Cyhoeddwyd yn ddiweddar, Pris Chwecheiniog,*

Y FARW WEDI EI CHYFODI YN FYW!

NEU

YR HEN GREFYDD NEWYDD.

TRAETHAWD

YN DANGOS

ANGHYFNEWIOLDEB TEYRNAS DDUW.

GAN CAPT. D. JONES.

\*\* Nid oes ond ychydig gopïau o'r Traethawd heb eu gwerthu.  
Gellir ei gael gyda'r Prophwyd.

II.

*Newydd ei Gyhoeddi, gan yr un, Pris Tair Ceiniog yn unig,*

ATEBYDD

Y GWRTHDDADLEUN A DDYGI'R YN FWYAF CYFFRE-  
DINOL DRWY Y WLAD

YN ERBYN

SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF,

*A'r Athrawiaeth a broffesant ;*

MEWN FFURF O YMDDYDDAN RHWNG MEISTRIAID TRADD-  
ODIAD, SECTARIAD, A SAINT.

III.

*Cyhoeddwyd yn ddiweddar, gan yr un, Pris Ceiniog a Dimai.*

ANERCHIAD

Y

DEUDDEG APOSTOL AT HOLL FRENINOEDD, CYNG-  
HORWYR, BARNWYR, A PHOBL Y BYD.

IV.

*Newydd ei Gyhoeddi, gan yr un, Pris Dwy Geiniog*

Y GLORIAN,

YN YR HON Y GWELIR

DAVID YN PWYSO WILLIAMS, A WILLIAMS YN  
PWYSO DAVID ;

NEU

*David Williams, o Abercarnaid, yn gwrthddecyd ei hun, wedi ei ddal yn  
ei dwyll, a'i Crofi yn euog o Ddeistiaeth.*

# PROPHWYD Y JUBILI.

“MAE Y DEYRNAS WEDI DYFOD.”

RHIF. 1.]

GORPHENAF, 1846.

[CYF. I.

## ANERCHIAD Y CYHOEDDWR AT EI GYD-GENEDL.

DDARLLENYDD ANWYL,—Wele ddechreuad cyfnod newydd, yn ein hoes ni! i.e. a'r un hynotaf a fu erioed, mwyaf rhyfeddol yn ei darpariadau, daionus yn ei gweithrediadau, a gogoneddus yn ei heffeithiau, o bob oes flaenorol! Unwaith yn rhagor, ymddiriedwyd i ddynion yr agoriadau euraidd o'r nef, er agor pob trysorau, datgloi pob dirgeledigaethau, ac fel y dad-ddryser pob cyfeiliornadau yn mhlith dynion. Eisoes gwelir drysau y tragywyddolgyd yn agoryd ar eu pegynau rhydlyd: ei berlau cuddiedig, a'i drysorau hen a newydd, sydd unwaith etto yn dechreu dysclaerio ar lygaid dynolion, megys yn nyddiau yr Iôr! Llawenyched preswylwyr y ddaear, a rhodded pob Cymro glust o ymwrandawriad i'r newyddion da o lawenydd mawr a udgenir drwy yr udgoru diweddaf hwn.

Fy esgusawd dros ddyfod â'r "PROPHWYD" newydd a dyeithr hwn i'ch plith ydyw, oherwydd fy mod yn gwybod fod ganddo lawer o newyddion gwirioneddol, gogoneddus, a llesol, i'w traethu i'ch clywedigaeth, pa rai sydd yn deilwng o ystyriaeth pob dyn—pethau a ddygant oleuni, gwybodaeth, a llawenydd, i bob un a'u derbynio, a lles digymmysg i bawb. Nid oes ynddo dueddiad i niweidio neb; ond y mae ei galon yn fflam enynol o gariad at bob dyn. ac yn enwedig at lesoli ei frodyr a'i chwiorydd unwaed.

Ni ddichón dwyllo neb, oherwydd dwg bob amser glorianau didwyll—*rheswm* yn y naill law, a safon dwyfol anffaeledig y gyfrol santaidd ei hun yn y llaw arall, yn rheol benderfynol i bwysu pob gosodiad a dddwg o'ch blaen; a'r neb a ysgrifeno "*Mene, Mene, Tekel,*" ar ei dalcen, heb ei gael yn "brin" yn y clorianau cywir hyu, a wua gam ag ef ei hun, a wrthyd ddanteithion nefolaidd,



manna angylaid, a blasus seigiau oddiar y ford oddi fry,—y rhai a gynnigia efe ddwyn yn ddysglicidiau blasus o farclnadoedd goreu nef a daear, a'u gosod er eich bord bob newydd-loer, am cyn rhated â thair ceiniog yr un!

Er mor rhyfedd yw, mae yn ddigon gwir, fod i bob prophwyd a fu erioed, o'r lleiaf hyd y Prophwyd mawr ei hun, luoedd o elynion; ond hyderwn na fydd neb, hyd y nod o'r rhai hynny a gasânt enw pob un o'r teulu prophwydol, yn ymarllwys eu digllonedd yn ngwynneb prophwyd ar bapyr; a chan fod llid y byd yn gomedd i neb o'r enw hwn fyw, gwell cael un ar bapyr, na bod heb yr un. Nid rhaid ond edrych i'w hanes, er gweled mai pa fwyaf o wir a brophwydent, anlaf a chreulonaf eu gelynion hyd eu hoecs; ond, wrth farw dan eu dwylaw, lladdai bron bob un yn ei dro ei holl elynion—nid fel Samson ychwaith, ond drwy fod eu plant, a phlant ei plant, yn dyfod yn fwy adnabyddus o waith y merthyron duwiol, wedi i'w tadau eu lladd, ie, o barch iddynt addurnent eu beddau, a merthyrent y neb a ddywedai air yn ddirmygus am eu coflad-wriaeth; ac ar yr un amrantiad, "cyflawnent fesur eu tadau," gan ferthyru y rhai duwiolach a gyd-oesai â hwy. O ryfedd ddallineb traddodiadol pob oes flaenorol; etto, fe'm siomir i, os gwell yr oes hon na hwythau. Ond, na chauwch eich drysau ar yr olaf hwn sydd yn dyfod i amddiffyn cymmeriadau ac athrawiaeth ei hynafiaid; canys yr hwn a dderbynio brophwyd yn enw prophwyd, a dderbyn wobr prophwyd, medd y Prophwyd geirwiraf a fu erioed.

Nid ymdrechodd prophwyd erioed o blaid gwirionedd, yn fwy nag yr ymdrecha hwn, yn ol ei allu a'i fanteision; ac y mae yn ymfrostio peth yn y pwnc olaf hefyd, oherwydd ei gysylltiad â'r ffynnonell, o ba un y tynai ei frodyr henaf y ffrydiau peraidd a ffrwythlonent ac a wyrddlasent eu gwinllanocedd, a pha rai a addurnant etto gopâu mynyddoedd Cymru, ues blodeuo hyd waelodion ei dolydd, fel gardd paradwys, a dyferu diliau mêl oddiar bob blodeuyn, i'r sawl a'i derbynia i'w ddefnyddio.

Nid yw ei dystiolaeth ef i'w gwrthod fel cyfeiliornad, oherwydd fod Traddodiad a'i holl weision, Rhagfarn a'i mil tafodau, yn haeru mai felly y mae; canys felly yn uniongyrchol y dywedent hwy am ei frodyr o'i flaen, ie, am bob un o'r teulu daionus hyn, fel y mae yn ysgrifenedig, "Gwyn eich byd chwi pan ddywedw pawb yn idrwyg am danoch, ac y'ch erlidiant, canys felly y gwnaent hwy i'r l

prophwydi o'ch blaen chwi." Nid gwir yw un peth o anghenrhaid, am fod y mwyrif yn haeru hyny; onide, nid gwir oedd fod y ddaear yn troi yn amser Galileo, y philosophydd, canys efe oedd yr unig un yn ei ddydd a gredai ei bod yn troi. Ac er ei holl fawredd a'i ddoethineb, bwriodd Rhagfarn ef i'r carchar am ddweyd hyny. Nid ar dystiolaeth Rhagfarn yr ymddibyna geirwiredd eich PROPHWYD, ond anturia i'ch plith yn clyn ikli hi a'i holl had, ac ar awdurdod ei genadwri, a nerth ei anferth fwa, a'i darian ddwyfol ei hun, yr ymesyd ar ei chestyll, ac yr ymlid ei holl gewri i dir anghof, gan ðllwng ei charcharorion yn rhydd.

### CYFARCHIAD Y *PROPHWYD*.

YN rhol y llyfrau y mac yn ysgrifenedig am danaf, ac yn nghyflawnder yr amseroedd priod yr ydwyf yn talu ymweliad â chwi. Fy nghanadwri—rhyfeddod y rhyfeddodau ydyw—newyddion da. Cenadwri o hedd a gynnygiat i bob Cymro â'm gwrandawo. Peth newydd a dycithr a wnaed ar y ddaear yn y dyddiau diweddaf hyn!—peth na ddeallodd nemawr o henoeh etto am dano, am na thraethwyd ef i chwi, er ei fod yn rhyfeddod penaf yr oes, yn wrthrych a bair syndod i'r byd, ac yn destup gorfoledd i deulu y nef, a holl drigolion daear; ië, y mac dedwyddwch tymmorol ac ysbrydol, a gogoniant tragwyddol, yr holl hil ddynol sydd yn awr, neu etto a enir, yn gyssylltiedig anwahanol â chael gwybodaeth o'i athrawiaethau, eu credu, ac ufyddhau iddynt. Mwy gwerthfawr yw fy nghanadwri nâ pherlau Ceylon, nag aur yr India, nâ holl drysorau daear; mewn gair, nid yw y bydyssawd a'i gyflawnder oll ond megys gwagedd, mewn cymharïaeth iddi. Ni cheir gan dywysogion na breninoedd y ddacar, ni thriga yn mhalasau y mawrion, ofer treiddio i ddyfnderau llyfrgelloedd y duwinyddion er chwilio am dani, oherwydd nid yw yno. Ni ddichon doethineb anneallus philosophyddion, dewiniaid, a doethion y byd, ddirnad ei chylch, na chael allan ei hachau na'i thrigle. Ei ffyrdd, i bob doethineb ddynol, mor anolrheiniadwy ydynt! Diolch i'w Hawdwr am guddio oddiwrth y doethion a'r mawrion, a dadguddio i wael bethau y byd unwaith etto, gelfyddyd y celfyddydau, a'r achos-cynhyrfiöl o bob daionus effaith. Amlygodd y Goruchaf i'n daear ni y pegwn mawr ar ba un y troa holl olwynion moesol nef a daear, y fu, y sydd, ac a ddaw.

Mae yn wir fod llawer o ddynion doethion, doniol, a threiddiol,

wedi cael allan lawer o ddyfeisiadau daionus, o gelfyddydau cywrain, ac o beiriannau gwyrthiol o'r bron yn yr oes oleu hon; hyd onid yw y byd trigiannol yn prysur fwynhau effeithiau eu meddyliau treiddiol, eu cyrhaeddiadau dyfnion, a'u hastudrwydd diflino: ond, pan fwynheir effeithiau rhagorach y gwrthrych y cyfeiriaf ato, teifl holl philosophyddion Groeg a Rhufain, duwinyddion yr oes, a doethion y byd, eu holl ragoriaethau, fel pethau diwerth wrth ei draed, gan mor fawr y prisiant ef.

Mawr y cynhwrf, y dwndwr, a'r berw, y bwrir ein byd iddo ar brydiau, pan y dywedo yr astronomyddion iddynt weled drwy eu hyspienddrychau anferth, yn awr ac eilwaith, ryw blaned yn neidio o dywyllwch i fodoliaeth, gan chwyldroi drwy y bydoedd seryddol yn eu huchel gylchoedd, nes y gellid meddwl eu bod yn gweled y teulu wybrenol yn dawnsio o lawenydd, ac yn cadw gwyl gyda'r delyn a'r ddawns, o groeso i ddyfodiad eu chwaer i ychwanegu at eu llu aneirif. Ond, ymguddia goleuni yr holl blanedau yn yr eigion planedol, dan *eclipse* tragywyddol fel pethau a fu, o flaen tanbeidrwydd dwyfol y dysclae-fyd gogoneddus yr amcanaf ei arddangos, pan dywyna yn ei ddysclae-derb a'i ogoniant hanfodol. Erbyn hyn, meddyliaf y gallaf brophwydo fod awydd yn meddwl y darlennydd i ofyn, Beth ydyw y goleuni newydd a hynod hwn? Atebaf mai perl, i.e. perl y perlau oll ydyw—y perl a gododd y rhai a'i meddiannent o ddyfnderoedd y tloedi a'r trueni dyfnaf, i'r llawnder a'r cyfoeth mwyaf. Pendefiges yw a gymmerodd rai o'r carcharau tywyllaf, ac a'u gosododd hwy yn y palasau gwychaf a feddai y byd: achubodd rai allan o ffrydiau diluwiol yr elfen foddawl, pryd y suddai miloedd o'n deutu i eigion tragywyddol-fyd! Cofleidiodd ereill yn y fflemiau, gan eu dwyn yn garuaidd yn ei chôl, heb ddeifio gwallt eu pen. Mewn gair, gwna bob cymmwynas i bawb a'i derbyn, ac ni raid bod eisieu dim daioni, nefol na daearol, ar y rhai a'i carant hi. Ac onid ydyw y perl hwn uwchlaw pris? Pwy na ddymunai ei gael, i.e. pe costiai yr oll a feddant? Da fyddai genyf glywed pawb yn holi yn awyddus am dano; dangosai hyny ysbryd gwrol ac ymofyngar. Ond ofnaf fod credöau ffurfiedig Traddodiad mor rymus, a llyfetheiriau Rhagfarn mor gryfion am eneidiau lluoedd, hyd y nod yn Nghymru, nes cloi eu meddyliau i fyny, megys cnewyllyn mewn plisgyn. Ni chredant fod yn bosibl iddynt hwy gael y fath bethau yn yr oes hon. Mae yn hen ddywediad "fod yn hawdd cael gan ddyn gredu yr hyn a ewyllysia;" ond mae y ffaith yn profi yn groes i hyny yn hyn. Mae y peth hwn yn newydd rhy dda i fod yn wir yn ngolwg rhai, a hyny o herwydd fod eu dysgawdwyr yn am-

ddifad o'r wybodaeth am dano, am na wyddant y ffordd i'w gyrhaedd. Gan mai eich lles chwi, ddarllenwyr, sydd mewn golwg, onid gwell hwyr na hwyrach i chwi gael mwynhau y pethau yr ymddifadwyd chwi o honynt? Ond, er mor llesol a rhesymol ydyw y newyddion hyn, nid wyf yn ammau na fydd amrywiol farnau am danynt, fel pob peth newydd a daionus arall. Ymddangosant yn anhygoel a chyfeiliorus i rai, yn wirioneddol a chysson i ereill; yn afreidiol yn ngolwg y naill, ond yn anhebgorol yn ngolwg y llall: twyll drygionus yw i gyd, medd y naill; y newyddion goreu a glywsom erioed, medd y lleill. Nid oes dim ag y mae mwy o wahanol farnau o'i blegid, ar yr olwg gyntaf, nâ'r pethau hyn; ac anturiaf ddweyd nad oes dim ychwaith, a ddyry fwy o foddlonrwydd i bawb a'u profant, am eu hawdurdod. Ceisir hwynt ar gost pob peth arall, pan ddeallir eu gwerth; ac wedi unwaith eu meddiannu yn iawn, rhoddid einioes yn aberth gwirfoddol drostynt, gan mor fawr y cerid hwynt; a phe gallwn ddesgrifio y filfed ran o'u gwerth, ni byddai yn ormod gan freninoedd roddi eu coronau, ac amherawdwyr eu gorseddau, am danynt. Ddarllenwyd hoff, a ydwyt ti yn barod i glywed beth ydynt, erbyn hyn, i wneyd chwarae teg â thi dy hun, drwy chwilio i mewn iddynt, fel am drysorau cuddiedig? Os ydwyt, crynhoa dy feddyliau crwydredig, llonydda bob nwyd draddodiadol, a dywedaf beth ydynt; wedi hyny, crynhoa dy holl resymau cadarnaf i'w gwrthbrofi, os gelli ar dir rheswm neu ysgrythyr. Na ryfedda wrthi. Boneddiges freiniol yw hi oddifry, hardd odiaeth, o waed breiniol, ac achau dwyfol—dyma yw; a MORMONIAETH, oddiar anfri, y gelwir hi gan ei holl eynion anwybodus o honi. Ac nid oes neb a'i difria, ond y rhai nad adwaenant hi. Dwg MORMONIAETH, fel ei gelwir, er mor wael y dywedir am dani, yn ei llaw agoriadau y nef, ysgol yr hen dad Jacob, gwialen Duw (yr hon a roed i Moses), yspienddrych y prophwydi, tarian Paul, cleddyf Pedr, helm yr iechedwriaeth, yr efengyl dragywyddol o fynwes Duw i'n daear ni, drwy anfon rhai o'r teulu nefol atom. Na ddychryna, ddarllenwyd; mae yn ddigon gwir dirio o angylion g'ân o'r drydydd nef ar ein daear ni, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg; a dyma eu cenadwri—adferu y trysor gwerthfawr hwn i ni. Dyma y newyddion da y cyfeiriwn atynt, a phwy na orfoledda ynddynt? Yn awr dywedais, a gwyddost beth yw: na wrthod fy nhystiolaeth, canys gwir yw, ac amser a ddengys hyny. Ac yn awr, pwyser y dystiolaeth bwysig hon, yn y clorianau cywir, sef *rheswm* ac *ysgrythyr*; canys sicr wyf y deil y pwysau yn ol fy addewid. Cyfaddefaf fod y gosodiad yn anmhoblogaidd, fod y cyfryw genadon i ymweled â'n daear ni yn yr oes hon—

ei fod yn groes i gredoau y wlad, ac yn ol yr esboniadau cyffredin, yn cael ei ystyried yn anysgrhythol; ond nid yw hyny, o aughenrhaid, yn profi ei fod felly: ac, ond ei ddala yn ngwyneb y drych cywir ac ysgrythyrol, agorir holl ddorau pres traddodiad, dryllir cadwyni haiarn-aidd rhagfarn fel edau wlan, efe a chwal y tywyllwch dudew, nes ymddyscleirio yn]amlwg yn nghanol y ffurfafen hon; dryllia galed-rwydd creiglyd galonau Phariseaidd yr oes, nes bo ffrydiau o lawenydd a gwybodaeth yn dylifo i'r rhai gonest o galon. Ond cael tegwch, gyr ymaith o'i flaen y mynyddau a'i gwrthwynebant, fel peiswyn o flaen corwynt; i.e, ymdaith yn anluder nerth dwyfol, gan sathru pob peth a'i gwrthwyneba i'r llawr fel mân lwch y clorianau. Ac am y maes hwn, llyfr y llyfrau, yma y gwelir ei achau, yma y dyscleiria ei fân berlau, gan fritho ei ddalenau fel *diamonds* yn mysg ceryg glanau y môr. Os na chredir, wedi profi o eiriau dwyfol yn llyfr Duw, fod angylion i ymweled â'n daear ni, mor ddiweddar â'r dyddiau hyn, ofer i'r cyfryw wario geiriau i haeru eu cred i ddim a ddywed; ond, os o'r ochr arall yr addefir geirwiredd y gyfrol santaidd, yr wyf yn sicr o brofi y gosodiad, drwy fwy nâ dau neu dri, i.e, nâ deg o dystion.

### GWEINIDOGAETH ANGYLAIDD YN RHESYMBOL.

Y MAE yn hollol afresymol i wadu gweinidogaeth angylaidd yn awr, tra yn addef fod yn rhesymol iddynt ddyfod yn y cyn oesoedd at ddyinion, megys at y patriarchiaid a'r prophwydi—bwyta ac yfed gydag Abraham, Lot, gwraig Manoah, &c., heb brofi fod gagendor wedi ei sicrhau, fel na allant ddyfod, neu ryw brofion ereill ar y pwnc. Ni welais i neb, hyd yn hyn, o'r rhai a wadant y gwir hwn, yn cynnyg un prawf nac esgus, heblaw nad oes eu heisieu; ac am na ddeuant atynt hwy, ni chânt ddyfod at neb arall; a llefain, "Twyllwyr," "gau brophwydi," "pw, pw!" Dyma ydyw unig lais Traddodiad, fel coru yr helyddwr—yr un *dune* bob amser, nes y mae y cŵn hela i gyd wedi ei dysgu; neu fel ystori y parot—yr hyn a glywo efe bawb yn barablu, a barabla yntau. Addefir hefyd fod angel wedi dyfod at Zachariah, Mair, a llawer ereill o weision Duw, yn y cyn oesoedd. Pwy ond angel a roddes genadwri i Ioan fyned allan i fedyddio? a phaham nas gall angel wneyd yr un peth yn yr oes hon? Addefant fod y rhai a broffesant hyn y pryd hyny, yn bobl eirwir a duwiol, a'u proffes o hyny yn ddigon rhesymol, heb le i neb ddweyd yn amgen; ond dyma y cwestiwn, paham na all fod mor rhesymol i'r un peth fod yn ein hamscr ninnau? A ydyw amser yn cyfnewid gwirionedd rhesymol y naill oes, i fod yn gyfeiliornad cableddus mewn oes arall? O na, yr un ydyw rheswm yn mhob oes; ond y mae rhai yn cymmeryd traddodiad ymarferol yn lle rheswm dynol. Mor afresymol collfarnu a lladd Saint y Dyddiau Diweddar, am eu bod yn derbyn yr ymweiwyr

nefolaidd; ac ar yr un amrantiad yn addurno beddau saint y dyddiau cyntefig, y rhai a laddwyd am yr un peth! ond, meddant, yr oeddynt hwy yn dweyd y gwir, ond nid ydych chiwi yn derbyn fel hwynt-hwy. Wel, pa fodd y profir hyny? nid yw'r haerriad yn ddigon i wrthsefyll tystiolaeth resymol cannoedd. Heblaw hyny, onid felly y dywedai y rhai oedd yn cyd-oesi â'r hen saint? Hwy oedd y twyllwyr y pryd hyny, bob un yn ei fywyd; a'r lleill oedd wedi marw er ys oesoedd, oedd y rhai geirwir, er eu bod yn profesu yr un peth! A phwy a'n condemniant ni yn waeth am broffesu gweinidogaeth angylaid, nâ'r rhai oedd er ys ychydig flynyddau yn ol yn credu ac yn profesu yr un peth, ie, yn gweddio yn gyhoeddus am dano? Nid oes nemawr flynyddau er pan y dywedai cannoedd eu bod yn clywed y cantorion nefolaidd, yn canu haleliwia yn yr awyr, uwchben eu cyrddau, o Bedd-gelert hyd derfynau y dywysogaeth; ac nid wyf yn ammau na chredid yr un ystori etto, pe dywedid ar *Green* y Bala; eithr gwylied neb *arall* rhag profesu hyny. Clywais bregethwyr yn haeru o'r pwlpuadau uwchben cannoedd, fod angylion yn dyfod â bendithion o'r nef yn awr, ac yn cyfeillachu ag ambell hen wreigan yn ei bwthyn, &c.; eithr, os profesa ereill yr un peth, gwae iddynt: "twyll i gyd," meddant, A phan ofynir iddynt am y modd y gall y broffes o'r peth fod yn dwyll yn y naill, heb fod felly yn y llall, "O, nid ydym ni (meddant) yn meddwl ein bod yn gweled angylion â'n llygaid o gnawd, ond rhyw ymddangosiad dirgelaidd ydyw," fel y "llef ddystaw fain!" ac onid yw hyn yn ffolineb o'r fath sfolaf, ie, yn wrth-ddywediad? Pwy a welodd angel crioed, ac etto heb ei weled? A pha fodd y gallai neb weled angel ond â'u llygaid? Dyma y modd y gwelai y saint hwynt yn y cyn oesoedd; byddent hwy yn edrych yn eu llygaid hwythau, yn llefaru wrthynt, yn bwyta ar yr un ford, yn cyd-gerdded law yn llaw, ac weithiau yn ymdrechu gyda hwynt, nes cael prawf o'u cryfder. Y mae cenedl yn awr yn fyw a dystiant y gwirionedd o hyn, gan na fwytant "gysswilt y forddwyd," o goffadwriaeth am yr anaf a gafodd eu tad, yn ei ymdrech ag angel; ac er na welai ereill hwy ar y pryd, nid yw hyny yn profi nad oeddynt yno, ond prawf mai dawn o rodd Duw yw gweinidogaeth angylaidd; ac os nad oeddynt yno, pa fodd y gwelent hwynt? os nad oeddynt yn eu gweled, twyllwyr oeddynt am haeru hyny! O na, nid rhyw *witchcraft* a arferai y saint cyntefig, mwy nâ'ninnau, ond angylion a welent pan ddywedent hyny, sef personau o fydoedd ereill, o amrywiol raddau; a'r achos na welai ereill hwynt oedd, am nad oeddynt wedi cael tynu y gorchudd oddiar eu llygaid, drwy dderbyn y ddawn hōno; ac hyny, efallai, am nad oeddynt mor dduwiol â'r lleill, neu am nad oedd cenadwri y cyfryw angel atynt hwy yn bersonol. Y mae yn gwestiwn, pa un a feiddia un angel amlygu ei hun i neb, heb ganiatâd; ac wedi hyny, a ganiateir iddo ymddangos i neb ond i'r hwn y danfonir ef atto, sydd amheus, oherwydd "*gweision* gwasanaethgar ydynt hwy." Y maent yn ddeiliaid cyfreithiau yn eu cylchoedd, ac nid ydynt yn dyfod ar negeseuan gwael ac afreidiol, er boddio llygaid na mympwy dynion. Gwelir mai gwrth-ddywediad yw, fod un yn gweled angel, ac etto heb ei weled, ond ei weled yn ddirgelaidd heb llygaid ei gnawd.

Y mae yn afresymol gwadu gweinidogaeth angylaidd yn yr oes hon;

ac y mae y cyfryw a'i gwadant yn addef eu hunain yn ddyinion drwg, oherwydd y maent yn addef fod y rhai oeddynt euog o'r un gwadu yn ddyinion drwg yn mhob oes flaenorol. Ni phroffesodd y Saint weled angel erioed, debygaf, heb dderbyn yr un condemniad; a pha fwyaf y sêl dros grefydd y tadau, pa hiraf y wyneb, ac amlaf y synagogau, a meithaf y rhith weddïau, creulonaf y ddeddfryd bob amser. Beth a enynodd lid y gau brophwydi a'r gau athrawon yn fwy yn erbyn y patriarchiaid, y prophwydi, a'r saint, yn mhob oes, nâ hyn. Ystyria y gelynon hyn yn gabledd yn erbyn eu Duw, ac yn sarhad ar grefydd eu tadau; haws ganddynt lyncu camel nâ chredu hyn, ac nid oedd dim i'w wneyd ond eu lladd, os na thawent â son am eu hangylion, eu dadguddïadau, a phob peth yn wir, a'r nad oeddent hwythau yn eu meddu. Os cydunent â hwynt i "wadu ei grym hi," cerddent yn llaw-law â hwynt yn burion; ond, "ni allwn ni beidio a thraethu y pethau a welsom, a glywsom, ac a deimlasom" yw amddiffyniad cenadon Duw yn mhob oes, pe costiai eu traethu eu bywyd iddynt. Felly y bu gyda Zecharias; lladdwyd ef yn y d'empl. Cenadwri yr angylion at y bugeiliaid a enynodd genfigen Herod, i ladd yn greulon gannoedd o fabanod diniwed. Pan y dywedodd Stephen iddo weled Iesu Grist yn eistedd ar ddeheulaw ei Dad, dyna gawod o geryg ar ei ben. Gwrandawai crefyddwyr yr oes ar Paul yn dweyd ei ystori yn burion, hyd iddo ddweyd ei fod wedi gweled angel, a dyna ddigon; dyna ei fywyd ar ben o'u rhan hwy; tyngasant, na fwytaent fwyd nes ei ladd. Gwrandawai y torfeydd ar Grist yn burion hyd oni wnai wyrth, neu gyfeirio at ei anfoniad o fyd arall; ac yn y fan y deuai y geiriau o'i enau dihalog, dyna hawb â'i gareg yn ei law. Pe buasid yn gofyn iddynt, onid oeddynt yn credu y prophwydi, dywedasant y byddent foddlon i farw mewn amddiffyniad i'w tadau duwiol; a phan ofynir i'r oes hon, onid dynion drwg oeddynt hwy, er eu proffes fawr? O, îe, meddant, gwaeth nâ'u tadau. Am ba beth? Onid am anghredu eu cyd-oesolion duwiol, a'u herlid? Wel, ddarllenwydd hoff, gwylia rhag mai "ti yw y gwr" sydd yn "cyflawni mesur dy dadau," yn yr oes hon; os felly, "pa fodd y diengi di rhag barn uffern?" Er cymmaint sydd o esiamplau yn yr ysgrhythrau yn profi yr afresymoldeb o erlid am y peth hyn, felly y gwna y plant ar ol y tadau, a phlant eu plant ar eu hol hwythau. "O na haent ddoethion, na ddeallent hyn!"

Y mae yn afresymol i'r rhai a broffesant fod yn blant i Dduw yn y naill oes, wadu gweinidogaeth angylion Duw i'w blant mewn oes arall, a phroffesu ei fod ef yn anghyfnewidiol! Nid yw efe dderbyniwr wyneb, ond yn mhob oes y rhai a weithredant gyfiawnder sydd gymmeradwy ganddo; canys y mae rheswm yn dweyd fod hyny yn wrth-ddywediad, ac mor annhosibl i fod ag a fyddai i dad naturiol, a fyddai ganddo gynnifer o feibion yma a thraw drwy'r byd yn ei wasanaethu, ymweled â. neu anfon cenadon at y naill, ac heb anfon gair na chenad byth at y lleill, a fyddent yn ei wasanaethu fel hwythau. Byddai y fath dad â hwn yn dderbyniwr wyneb yn ngolwg pawb; felly, ynte, y rhaid fod y llall, os na ddenfyn ei angylion â'r genadwri at y brodyr ieuengaf yn yr oes hon, fel y gwnai at eu brodyr henaf yn y cyn oesoedd. Iaith rheswm yw hon. Ond, meddant, erbyn hyn, pe byddem ni mor dduwiol â'n brodyr hynaf, caem ninnau gwunni angyl-

ion fel hwythau. Ac yn wir, rhaid addef hyn yn awr, neu fyned i waeth dyryswch: os addefir hyn, hyny fyddai diwedd y ddadl, drwy addef gweinidogaeth angylaidd yn rhesymol yn yr oes hon; canys y rhesymoldeb o'r pwnc, ac nid y ffaith, oedd mewn dadl.

Y mae digon wedi ei ddweyd am y tro hwn er profi nad *rheswm*, ond *traddodiad* yr oes, sydd yn gwadu dyfodiad angylion yn ein hamser ni; ac y mae rheswm yn mhob dull, ond iddo gael tegwch, yn profi y cyssondeb o'r gosodiad; a phob ymarferydd rheswm a greda dystiolaeth gysson am ddyfodiad angel i'n daear ni, yn awr fel cynt, ac a ymddwyn yn gyfatebol.

Yn nesaf, pwyswn y gosodiad hwn yn y glorian ysgrythyrol: os ceir yn brin yno, gwylier rhagddo—ni ddymunwn i neb ei gredu; ond, o'r ochr arall, os deil y pwysau yn y dafol gywir hon, hyderaf y bydd yn dda gan bawb ei gredu a'i dderbyn.

### GWEINYDDIAETH BRESENNOL ANGYLION YN YSGRYTHYROL.

Y *tyst* cyntaf a brawf fod angel i ddyfod i'n daear ni, mor ddiweddar â'r oes hon, ydyw Ioan. Pan yr oedd efe ar ynys Patmos, "ar ddydd yr Arglwydd," ac "yn yr Ysbryd," tua'r flwyddyn 96, O.C., "dangosodd yr Arglwydd iddo y pethau a fyddent *ar ol hyny*." A'r peth mwyaf nodedig oedd y "bwystfil" rhyfeddol oedd i godi, ac i "ryfela â'r saint, nes eu *gorchfygu* hwynt," drwy eu lladd. Yna byddai teyrnas Dduw, sef yr eglwys apostolaidd, yn myned i'r diffeithwch am amser, amseroedd, a hanner amser, yn mha dymmor ni byddai Duw yn awdurdodi gweision i wneyd gwaith drosto. Er y gallai fod yn y byd fwy neu lai o ddynion da, doniol, a moesol, yn ofni Duw, ac yn ei addoli goreu ag y gallent, ac yn gymmeradwy ger ei fron yn ol y goleuni a gawsent; nid yw hyny yn profi y byddai hyd y nod y goreu o'r cyfryw yn weision anfonedig oddiwrth Dduw, yr hyn beth ni allent fod, oddieithr eu hanfon gan Dduw; "canys nid oes neb yn cymmyrd yr anrhydedd hwn iddo ei hun, oddieithr ei alw gan Dduw, niegys Aaron," sef trwy ryw fath o ddadguddiad. A hyn y cytuna Paul—"Pa fodd y pregethant, onis danfonir hwy?" sef gan Dduw, wrth reswm. A chan nad anfonodd Duw genadwri at ein hynafiaid cyn eu marw, nid ydynt dan gondemniad fel pe y gwrthodasent genadwri oddiwrth Dduw drwy ei anfonedigion.

Ac wedi bod yr holl fyd yn y sefyllfa gymmysglytl a rhanedig a ddysgrifia Ioan, am yr yspaid hwnw o amser, dangosir iddo (yn Dad. xiv, 6) yr anfonai Duw angel i adferu yr hyn a gollasid, sef hawl neu awdurdod effeithiol i bregethu yr efengyl dragywyddol—nid efengyl newydd, ond goruchwyliaeth newydd i bregethu yr hen efengyl, yr hon yw cyfreithiau teyrnas Duw. Drwy y modd yma y derbynient yr awdurdod, nid yn unig i adferu ac i weinyddu ordinadau ei dy, ond i awdurdodi ereill i hyny hefyd. Rhaid addef yr anghenrheidrwydd am hyn, er mwyn cyflawni gwaith mawr y dyddiau diweddaf. Rhaid addef hefyd yr anmhosiblwrwydd hyd y nod i'r Hollalluog ei hun, gyda phob parch y dywclaf, auron gwas byth i wneuthur un dim drosto, heb



ddadguddio hyny iddo drwy y naill gyfrwng neu y llall. Yr oedd ganddo amryw ffyrdd i anfon gweision, er dechreuad y byd; drwy ei lais ei hun, drwy anfon ei Fab, neu drwy ei angylion. Y mae ganddo hawl i ddewis ei ffordd, a'i amser ei hun; ac er nad yw ei ffyrdd ef yn boddio dynion bob amser, yn ol ei gynghor a'i bwrpas ei hun y gwna, er dywedyd o holl bobl y byd i'w erbyn. Drwy anfon angel y dywed Ioan y dechreuai y gwaith mawr hwn; a chan fod holl dduwinyddion a doethion y cyn oesoedd, er ys canrifoedd, a'r a glywsom am danynt, yn gwadu na ddaeth angel ar y fath genadwri atynt, ofer i ni, na neb o'u holynwyr, haeru yn groes iddynt. Dysgwylw'n, ynte, am gyflawniad o'r brophwydoliaeth werthfawr hon, a byddwn barod i'w derbyn. Gwyddom fod llawer o wahanol feddyliau gan ddynion yn nghylch y brophwydoliaeth nodedig hon, fel am o'r bron bob un arall. Dywed rhai ei bod yn cyfeirio at y Fibl Gymdeithas; ereill, mor addas, mai y Gymdeithas Genadol, neu yr *air balloons*, &c. Rhyfaith fyddai olrhain ffurwythlon ddychymmygion dynion ar y peth hwn; a chan fod pawb yn myned ar ol ei esboniwr ei hun, af finnau ar ol Ioan ei hun. *Angel* a ddywed Ioan; a dweyd rhyw beth yn amgen, ydyw, yn ol fy null i o esbonio, "ychwanegu at eiriau llyfr y brophwydoliaeth hon." Y mae prawf cadarn o'r dirywiad y byddai y byd ynddo hyd yr amser hwn, yn ngwaith yr angel yn dyfod o'r nef ar y fath genadwri; a rhaid addef, naill ai yr anghenrheidrwydd am dani, neu ynte fod yr angel yn dyfod ar neges afreidiol. Os byddai gan y rhai a fyddent yn trigo ar y ddaear, naill ai yr efengyl bur, neu yr hawl i'w gweinyddu, yna afreidiol fyddai i angel ddyfod â pheth iddynt o'r nef, ag yr oeddynt yn feddiannol arno eisoes. Y mae gan bob un ei ryddid i ddewis yr esboniad a fyno.

Peth arall sydd yn amlwg yn y brophwydoliaeth hon ydyw, yr amser y deuai yr angel hwn. Y mae yr un genadwri yn ein hysbysu—"Canys daeth awr ei farn ef." sef ar ol i'r efengyl dragywyddol a gyflwynai yr angel hwn i ddynion gael ei phregethu "i'r holl rai sydd yn trigo ar wyneb y ddaear; i bob llwyth, iaith, pobl, a chenedl:" nid ar ol i ryw athrawiaethau ereill gael eu pregethu i'r holl fyd, ond *yr efengyl hon* a ddygid gan yr angel hwn y pryd hyn. Y mae adn. 8 yn profi hefyd mai gwaith mor ddiweddar a'n hamser ni a fyddai, drwy fod yr angel nesaf yn dywedyd, "Syrthiodd, syrthiodd Babilon, y ddinas fawr hono." Cytuna pob Protestaniad a'r a welsom, mai "mam puteiniaid y byd," fel ei gelwir, yw hon; a gwyr pawb nad yw hi wedi cwmpo hyd yn hyn, ond yn ymwroli fel pe bai am fyw yn dragywydd; ond nid oedd llawer o amser rhwng dyfodiad yr angel a soniwyd gyda'r efengyl dragywyddol, a chwmp Babilon—dim ond digon o amser i drigolion daear glywed, deall, credu, ac ufyddhau i'r genadwri, nid o enau yr angel, ond o eneau dynion; canys arfer Duw ydyw "rhoddi y trysor hwn (*yr efengyl*) mewn llestri pridd," yn mhob oes flaenorol. Dyma yw tystiolaeth Ioan am ddyfodiad angel yn yr amseroedd diweddaf. Pe na bai un tyst arall ar gael, y mae y gosodiad yn llawn bwysau yn y dafol ysgrythyrol; cystal â'r un rhesymiadol. Ond, er egluro y peth yn amlycach, gweler Math. xxiv, 31, "Ac efe a ddenfyn ei angylion â mawr sain udgorn, a hwy [*yr angylion*] a gasglant ei etholedigion ef ynghyd, o'r pedwar gwynt." "Ei etholedigion," anturiaf ddweyd, yw

yr Iudlewon erwydredig; a phrofas hyn etto. "I'w casglu ynghyd." I ba le, tybied, heblaw i'r wlad a dyngodd Duw trwy lw i'w rhoddi i'w tadau. Nid i'r awyr—nid i blaned arall—nid i ddaear amgen nâ hon; canvs yma y daw "Mab y dyn," eu Messia, i fod yn Frenin arnynt byth. Daw ar gymylau y nef, a'i holl saint gydag ef. Nid ar gymylau y nef yr crys efe na hwythau, ond dyna fyddant eu cerbydau i ddyfod "i deyrnasu gydag ef ar y DDAEAR." "am fil o slynyddau." Dyma dystiolaeth Mab Duw ei hun ar y pwne, a dywed yn eglurach yn adn. 14—"A'r efengyl HON am y deyrnas a BREGETHIR [ni ellid gwneyd hyny heb awdurdod ddwyfol, yr hyn ni ellid ei gael heb dladguddiad drwy angel, neu rywfodd] trwy yr holl fyd, ER TYSTIOLAETH, ac yna y daw y diwedd." Prawf etto, nad at yr oruchwyliacth a roddodd i'r apostolion y cyfeiria efe yma. canys nid *er tystiolaeth o'r diwedd* y pregethasent lwy hi, ac ni allai fod cyssondeb yn hyny er ys 1800 mlynedd, a'r diwedd heb ddod etto; canys diwedd y byd afluniaidd a phechadurus hwn y sonia efe am dano, a hyny mewn atebiad i gwestiwn ei ddyscyblion a welir yn adn. 3. Ac nid yw adn. 34 yn un rhwystr i hyn ychwaith; os meddylir ei fod, adn. 33 a'i symud ymaith yn y fan, drwy un gair, "pan weloch hyn oll," sef chwi, y rhai a fyddwch byw yn yr oes hono y cymmerant le ynddi—pan *weloch* hwynt, nid â eich hoes chwí heibio hyd oni chwblhaer oll. Ond, i fod yn fyr, cynharer y ddau dystion geirwir hyn â'u gilydd. "A'r efengyl hon," medd Crist; "yr efengyl dragywyddol," medd Ioan. "A bregethir," medd Crist, h. y., myfi a roddaf hawl drwy dladguddiad i hyny; "Mi a welais angel," medd Ioan. "I efengylu," "*er tystiolaeth*, ac yna daw y diwedd," medd y naill; "daeth awr ei farn ef," medd y llall. Gwelir fod y ddau yn cydgorodio air yn ngair, er profi fod addewidion yn llyfr Duw am ddyfodiad angylion mor ddiweddar â'n hamser ni. Os oes gan ryw un wrthwynebiad i hyny yn lwy, bydded rhyngddo ef â'r Bibl; yr ydwyf fi wedi ei brofi yno, yn ol fy addewid; ac oni bai ofn bod yn rhy faith, denwn ag anryw dystion ereill i brofi yr un peth. Ond am y tro hwn, awn yn mlaen i chwilio yn mhellach i'r un drych cywir, er cael gweled pa fath bersonau ydyw yr angylion. Wrth fod cymmaint sôn am danynt, efallai, ond cael eu hadnabod yn weil. a deall eu natur, eu cyfansoddiadau, a'u gwaith, y bydd hyny yn foddion i ladd peth o'r gwrthwynebiad a greodd rhagfarn yn en herbyn, ac y boddlonai dynion iddynt gael dyfod i'n plith weithiau ar eu tro, traethu eu cenadwri, a dychwelyd yn ol mewn heddwch. Neu, ynte, cymmerwn rybydd oddiwrth yr hyn a ddygwyddodd yn nyddiau Lot; canys "yr un modd hefyd ag y bu yn nyddiau Lot, felly y bydd yn y dydd y dadguddir Mab y dyn." Diammau fod Lot druan yn pechu yn anfaddeuol yn ngolwg y Sodomiaid, wrth sôn fod angylion yn dyfod i'r ddaear; ond os oedd y broffes o'r fath beth yn eu creuloni yn ei erbyn, gwaeth fyth yr aethant pan yr oedd eu llygaid yn eu gorfodi i gredu gweinidogaeth angylaid. Ceisiasent eu dinystrio! Rhyfedd, onide, na chredasent ar ol gweled? Nid mor rhyfedd, ychwaith, pan ystyriom nad llygaid ydyw yr arweinyddion goreu i gael Duw; ond ffydd, oddiar dystiolaeth resymol, ydyw'r moddion a drefnodd Efe. "PREGETHU Crist croeshoeledig" oedd y ffordd apostolaidd, ac nid cyhoeddi eu hunain yn feddygon gwyrthiol mawrion i'r byd.

## Y BODAU ANGYLAIDD A'U DYLANWADAU.

YN ol a ddeallwn oddiwrth yr Ysgrythyrau, y mae tri, os nad ychwaneg, o fathau o angylion. 1. Yr arch-angylion y sonia Paul a Judas am danynt, sef yr uchaf mewn awdurdod, a'r cadarnaf mewn nerth. 2. Yr angylion, neu y cyn-saint hyny a gawsant adgyfodiad, ac o ganlyniad ydynt yn bersonau corfforol. neu fel Enoch ac Elias, y rhai a gyfnewidiwyd. Sonir yn Gen. xviii am angylion yn bwyta ac yn yfed gydag Abraham a Lot; ac nid rhyw ffug fwyta a wnaethant, onide i ba le yr aeth y llo, y teisenau, a'r llaeth? 3. Yr angylion a elwir yn "ysbrydion gwasanaethgar;" a phe chwilid yn fanwl, efallai y gellid profi fod y trydydd dosparth hwn o fodau ysbrydol yn cyfansoddi dau ddosparth yn y bydoedd nefolaidd. Dywed y Salmydd ddarfod i Dduw greu dyn "ychydig yn îs nâr angylion:" cyssyllter hyn â'r hyn a ddywed Paul yn yr iawn gyfieithiad—"Yr hwn sydd yn gwneuthur, [neu yn anfon] ei ysbrydion gwasanaethgar, ei angylion [cenadon], yn fflam, neu mewn fflam dân." Gwnelai y cyfryw y pedwerydd dosparth o angylion. Profir yn mhellach fod dosparth o angylion yn bwyta, oddiwrth yr hyn a ddywed Paul—"Nac anghofiwch lettygarwch, canys wrth hyny y lletyodd rhai *anyllion* yn ddiarwybod." Dywedir hefyd yn y Salmau, fod dyn yn bwyta bara angylion. Bwytaodd Crist cyfodedig fara, a physgod wedi eu rhostio ar dân a gynneusai efe ei hun ar làn y môr. Os nad oedd ganddo gnawd ac esgyrn, paham y dywedai wrth Thomas, "Estyn dy law, a dyro yn fy ystlys, a'th fys yn ôl yr hoelion," &c.? Beth sydd amlycach yn y Bibl, nag y fod bodau angylaidd yn feddiannol ar gnawd ac esgyrn, yn bwyta ac yn yfed fel dynion, a chyda dynion; ac os *yma*, paham nad gartref? er na allwn ni nodi eu hymborth yno. Nid yw y gair hwnw a ddywed, "Ni ddichon cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw," yn gwrthdaro hyny; canys y mae gwahaniaeth mawr rhwng dweyd "cig a *gwaed*," a dweyd "crawd ac *esgyrn*:" a'r gwahaniaeth hwn sydd yn dyrys meddyliau llawer. Ac er lleied o wahaniaeth a feddylir rhyngddynt, y mae cymmaint ag oedd rhwng Crist wedi adgyfodi â Christ cyn marw, i.e. cymmaint ag a fydd rhwng y "marwol hwn" ag "anfarwoldeb." A chan fod y fath bersonau yn bod, beth fyddai yn afresymol ynddynt, pe cymdeithasant â dynion yn awr megys cynt?

Oddiwrth yr esiamplau hyn, ac ereill a ellid nodi, gwelir fod bodau angylaidd, adgyfodedig—mai y rhai hyny sydd yn dyfod ar negeseuon oddiwrth Dduw at ddynion, ac ysbrydion yn gweinyddu i ysbrydion. Syrthiodd Ioan wrth draed un angel, ar fedr ei addoli, ond dywedodd yntau wrtho, "Gwel na wnelych hyn; cyd-was ydwyf i ti, ac i'th frodyr, y rhai sydd ganddynt dystiolaeth Iesu. Addola Dduw; canys tystiolaeth Iesu ydyw ysbryd y brophwydoliaeth." Gellid meddwl oddiwrth y geiriau hyn, yn enwedig y Saesneg o honynt—"One of thy brethren the prophets," y gallai yr angel hwn fod yr hen Ddaniel dduwiol, neu ryw un o'r prophwydi a adgyfodasai gyda Christ.

Dywed Satan mai gwylieddyddion y saint yw'r angylion; ac ni feiddiai yntau ddweyd celwydd wrth fab Duw. Ebe efe—"Efe a orchymyn i'w angelion am danat ti, rhag un amser i ti daro dy droed wrth gareg." Y mae yn ymddangos i mi, oddiar ymchwiliadau manwl i'r Ysgry-

thyrau, fod yr angylion, pan y bo gan Dduw saint teilwng o hyny ar y ddaear, yn aros ar y ddaear gyda hwynt, i'w diogelu rhag niwed, os adnabyddant, a gwrandaw ar eu llais. Y mae amryw dystion a brofant hyn, megys Esay, Abraham, &c., heblaw fod gelynyon yr Arglwydd, megys Hagar, Balaam, ac ereill, yn tystio hyn. Gwelwn eu bod hwy yn adnabod awdurdod a swyddau angylion ar y ddaear i raddau helaeth. Ond, o'r holl ddirgeledigaethau a berthynent i angylion, meddyliaf mai eu dylanwadau ar ddynion, heb iddynt eu gweled, na chlywed eu geiriau, ydyw y dirgelwch mwyaf annealladwy yn ngolwg yr oes hon. Mae rhai yn gwadu hyn, am nad allant ei amgyffred; ac y mae dosparth arall o ddynion i'w cael yn myned i'r eithafion arall o anghyssondeb, gan ddweyd fod rhai pethau yn "dirgeledigaethau i'w credu, ond nid i'w hamgyffred"—fod yn rhyfyg i ddynion chwilio i mewn iddynt, na thraethu eu barn arnynt; ac y mae yn ormod gorchwyl i mi ddangos pa un o'r ddau ddosparth yw'r mwyaf afresymol. Ond ni wn am ddim a ddalguddiodd Duw erioed, a'r nad ei ewylls ef yw i ddynion ei ddeall. Beth ond hyny oedd ei ddyben yn ei amlygu? Ni ddichon un creadur nefol na daearol ymgyrhaedd at fwy o wybodaeth ar y ffordd iawn, nag a ewyllysia Duw, sef y ffynnonell o oleuni a gwybodaeth, iddo gael; "Yr hwn sydd yn ewyllysio dyfod o bawb i wybodaeth o'r gwirionedd;" i.e, o radd i radd, "hyd oni chyflawner (dyn) â holl gyflawnder Duw."

Ond i ddychwelyd. Pa fodd y mae angylion yn dylanwadu mor ddirgelaidd ar feddyliau dynion? medd llawer un sy'd eisoes yn deall dirgeledigaethau dyfion philosophy, *astrology*, a *phiiology* yr oes hon, i raddau helaeth. Y mae eu hanwybodaeth o hyn yn profi eu dyeithrwech i iawn ymchwiliad.

Cyfeiriaf yn gyntaf am oleuni ar hyn, at yr ysgol a welodd Jacob, y y naill ben wedi ei osod ar y ddaear, a'r pen arall yn cyrhaedd i'r nefoedd, ac angylion Duw yn disgyn ac yn esgyn ar hyd-ddi. Hefyd, breuddwyd Pharaoh, a deongliad Joseph o hono. Pa fodd y gallai y deongliad fod yn sicr, oddieithr fod cymdeithas rhwng angel Pharaoh ag angel Joseph? Etto, breuddwyd Nebuchodonoser am y ddelw fawr ag oedd wedi myned o'i feddwl erbyn deffro. Drwy y gymdeithas ddirgelaidd hanc rhwng eu hangylion â'u gilydd, gallai Daniel ddwyn, nid yn unig y ddelw, ond ei deongliad hefyd i'r goleuni. Dywed Daniel—"Y mae Duw yn y nefoedd yn dadguddio dirgeledigaethau," nid drwy ddyfod o'r nefoedd i amlygu y breuddwyd a'i ddeongliad, ond drwy anfon ei angylion, "ei ysbrydion gwasanaethgar," i egluro y dirgelwch iddynt. Cawn fod y doethion o'r dwyrain "wedi eu rhybyddio gan Dduw mewn breuddwyd, na ddychwelent at Herod." Ac wedi eu myned hwy ymaith, "wele angel yr Arglwydd a ymddangosodd i Joseph mewn breuddwyd." Mae yr esiamplau hyn yn ddigonol i brofi fod ysbryd yn gweinyddu i ysbryd, ac felly yr ydym yn breuddwydio dadguddiadau, oherwydd fod yr angylion da neu ddrwg yn amlygu i'n hysbrydoedd ni beth i'w freuddwydio; a dyma un ffordd sydd gan y nefoedd a'i llu i gymdeithasu â thrigolion daear!

"Pechodau rhyw ddynion sydd amlwg o'r blaen," cyn yr elont hwy eu hunain o flaen y Barnwr, "yn rhagflaenu i farn:" oherwydd ni chiawsant faddeuant o honynt cyn marw; "eitir rhai sydd yn eu can-

lyn hefyd." "Yr un ffunud hefyd y mae gweithredoedd da yn amlwg o'r blaen; a'r rhai sydd amgenach, nis gellir eu cuddio." Amlwg yw fod hyn yn cael ei wneyd drwy fod ysbrydion oddiwrth Dduw, yn adrodd y cyfan a wnawn. "Y mae tri yn tystiolaethu yn y nef, y Tad, y Gair, a'r Ysbryd Glân; a'r tri hyn un ydynt." "Ac y mae tri yn tystiolaethu ar y ddaear, yr Ysbryd, y dwfr, a'r gwaed; a'r tri hyn yn un y maent yn cyduno." Nid rhyfedd, ynte, fod pechodau rhai yn myned i'r farn o'u blaen—fod yn rhaid rhoddi cyfrif yn y farn "am bob gweithred a wnelom yn y cnawd, pa un bynag a fyddo ai da ai drwg;" canys swm y cyfan yw hyn:—Y mae ein gwaed, yr hyn yw ein bywyd—ein hysbryd, yr hwn sydd anfarwol—a'r dwfr, yn yr hwn ein bedyddir "er maddeuant pechodau," yn tystiolaethu i Dduw o'n gweithredoedd yn y cnawd, ac "angylion ein presennoldeb" yw y cenadon sydd yn tystio hyny iddo; ac ni a wobrwyr, neu a gospir, yn gyferbyniol. Pechodau yr annuwiol ydynt yn eu canlyn erbyn y cyfrif; a chan fod eu "haf wedi darfod, a chynauaf eu henaid wedi myned heibio," derbyniant "am bob trosedd gyflawn daledigaeth."

Y mae yr angylion yn myned yn, a thrwy awdurdod Duw, fel y mae yn amlwg yn ngwaitli Jacob yn yndrechu gyda Duw. "A phan adawyd Jacob ei hun, fe ymdrechodd *dyn* ag ef hyd doriad y dydd;" a phan na lwyddodd, gofynodd "enw y *gwr*;" am hyny y galwodd "enw y lle Penuel, wyneb Duw." Cadarnheir hyn hefyd, gan "Gadben llu yr Arglwydd," yn dyfod at Joshua, ac yn amlygu iddo, yn hollol, y dull i gymmeryd Jericho, ei thynged, a phob peth oedd yn anghenrheidiol iddo eu gwybod, er cyflawni gwaith yr Arglwydd. Er profi hyn etto yn eglurach, darllener tystiolaeth Ioan ar vnys Patmos—"Dadguddiad Iesu Grist, yr hwn a roddes Duw iddo EF [Iesu Grist], i ddangos i'w wasanaethwyr y pethau sydd raid eu dyfod i ben ar fyrder; a chan *ddanfôn*, drwy EI ANGEL, efe a'i hysbysodd i'w wasanaethwr Ioan." Y mae hyn wedi ei brofi yn eglur ddigon weithian; ond efallai y dywedir fod rhai nad ydynt yn breuddwydio dim, ac ereill yn cael breuddwydion drwg. Gellir addef hyny hefyd yn ddigon cysson â'r hyn a ddywedwyd. Y mae rhai dynion heb gredu mewn Duw, angel, nac ysbryd. Y mae ereill yn credu y naill a'r llall; ond heb ymddwyn yn ol eu cred. Y mae ysbrydion drwg a da yn ymdrin ag ysbryd dyn yn nghwsg ac yn effro, ac yn dylanwadu arno i'r graddau y gadawo iddynt; ond nid oes iddynt allu arno, ond drwy ei ber-swadio. Maent yn hollol groes i'w gilydd yn eu heffeithiau, gyda'r eithriad pan yr ymrithia y drwg fel "angel y goleuni." Gyda golwg ar allu dyn i'w gwrthsefyll, cyn iddynt gael meddiant rhy gryf o hono, y dywed yr Apostol, "Profwch yr ysbrydion, ai o *Dduw* y maent." "Gwrthwynebwech ddiadol, ac efe a ffy oddiwrthyach." Gwneied pawb felly, fel na thristâoch ysbryd Duw.

### GWEINYDDIAETH BRESENNOL ANGYLION.

WEDI profi mor fanwl, yn y traethawd blaenorol, fodoliaeth, swyddau, a dylanwadau angylion ac ysbrydion ar ddynion, awn yn mlach gyda chyfeirio y darlennydd at rai addewidion a roddir i ni gan Dduw,

drwy ei weision, y caffai y cyfryw weinidogaethau, drwy y cyfryw fodau, ie, hyd y nod "yn y dyddian diweddaf" hyn. Darllener Act. ii, 17, 18. Er mor eglur y dywedir yma, esbonia pawb o'r bron fod hyn yn cyfeirio at ddydd y Pentecost; ie, er fod Pedr yn dweyd yn groes—er fod Duw yn dweyd mai "*yn y dyddiau diweddaf*;" ac felly y dywed Joel ii, 28—"*A bydd ar ol HYN.*" Darllener yr adnodau blaenorol, a gwelir fod y prophwyd yn sôn am y gwaith mawr a wnelid ar y ddaear (adn. 21), pan y byddai plant Seion yn gorfoleddu (adn. 23). Wedi adferu yr Iuddewon yn ol i feddiannu eu gwlad (adn. 27)—pan y byddai Crist yn teyrnasu yn nghanol Israel yn dymmorol ac ysbrydol, *ar ol eu hadferiad OLAF* o'u gwasgariad *diweddaf*, yr hwn a fyddai am iddynt "wrthod gwrandaw ar lais Sanct yr Israel," yr hyn a brofir yn y geiriau hyn—"A'm pobl nis gwaradwyddir BYTH." Ar ol hyny, dywed Joel. y cyflawnir y brophwydoliaeth uchod; ac, ond edrych ar y geiriau, ni ddichon neb rhesymol feddwl eu bod wedi eu cyflawni y pryd hyny; "cans bydd YMWARED, fel y dywedodd yr Arglwydd, yn mynydd Seion, ac yn Jerusalem" (adn. 32). Pa YMWARED a fu y pryd hyny? Onid hollol groes i *ymwared* a fu y pryd hyny, ac hyd yn awr? "Wele, yr ydwyf yn gadael eich ty i chwi yn anghyfanccdd," ebe Crist. Gwasgariad oedd y pryd hyny; *ymwared* a fydd y pryd hyn ag y cyfeiria Joel, Pedr, a Duw ato; sef, "Yn y dyddiau diweddaf"—"O flaen dyfod mawr ac ofnadwy ddydd yr Arglwydd" (adn. 31)—"Y tywalltaf o'm Hysbryd ar bob cnawd, a'ch meibion a'ch merched a brophwydant; eich gwyr ieuanc a welant weledigaethau, a'ch henafgwyr a freuddwydiant freuddwydion," &c.

Yr angylion ydynt yr offerynau a ddefnyddia Duw er *casglu* ei ethol-digion i'r manau hyny a ddarparodd efe iddynt yn *ymwared*, pan dywelltir "phialau" ei ddigofaint ar yr annuwiol, cyn ei ddyfodiad i deyrnasu ar y ddaear gyda ei saint am fil o flynyddau. Yr angylion ydynt filwyr y nef, er mynegi y pethau a wna dynion, ac a ddewisa Duw iddynt eu gwneuthur; y rhai hyn a *gasglant* ei wenith i'w ysgubor, cyn y bydd iddo losgi "yr us â than anniffoddadwy." A thrwy ddylanwadu arnynt yn y modd a nodwyd, sef rhoddi iddynt ddadguddiadau, ysbryd y brophwydoliaeth, &c., y gwneir hyny. Y rhai hyn sydd yn dwyn o flaen yr orsedd, ac yn costrelu mewn "phiolau aur," "weddiau y saint!" Erbyn hyn, gwelir fod gweinidogaeth angylaidd, nid yn unig mor rhesymol ac ysgrythyrol yn yr oes hon ag un oes flaenorol, ond yn fwy anghenheidiol, yn ol y gwaith mwy a wna Duw ar y ddaear. O, mor ddefnyddiol ydynt! Mor drugarog ydyw y Duw grasol yn eu hanfon "yn ngoruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd" hyn, yn yr hon y "CRYNHOA EFE YNGHYD bob peth yn Nghrist Iesu." Diolchwn iddo am y fath fendithion nefolaidd. Na chaffer neb yn yr oes hon "yn cyflawni mesur eu tadau." ie, y tadau hyny a gondemniant am wrthod y pethau hyn yn yr oesau gynt. Ac oni ddylai tystiolaeth y rhai sydd yn awr yn fyw, ie, cannoedd o rai rhagrol y ddaear, sydd yn gwybod mewn gwirionedd, ddyfod o angylion glân i'n daear ni yn yr oes hon, gael rhyw effaith ar feddyliau dynion i greu hyn? Ni ddichon eu bod hwy oll wedi eu twyllo, yn yr hyn a welodd eu llygaid, a glywodd eu clustiau, a deimlodd eu dwylaw, ac a wyddant drostynt eu hunan. Os twyllwyd ni yn *hyn*, twyllwyd ein rhesyman, ein clustiau, a'n llygaid. Ac os twyll yw hyn yn awr, yr un peth a fyddai haeru mai twyll oedd

yr holl hanes am y cyfryw bethau rhyfedd a ddygwyddent yn y cyn oesoedd; ac yr wyf yn foddlon i gael fy nhwyllo i gredu yr ysgrythyr, fel y cafodd y saint yn y cyn oesoedd; a goreu pa fwyaf o'r fath dwyll â hyny. Twyllir ni felly i'w cwmni hwy yn y diwedd, a thyna fy nymuniad i. Ni ddichon i ni dwyllo ereill yn hyn; canys os ufyddhânt i'r un gyfundrefn nefol, prawf ei hun yn wir i bawb gonest eu hegwyddor o honynt, yn mhob cwr o'r byd; ie, y mae eisoes wedi, ac yn gwneyd hyn i gannoedd yn awr yn Nghymru, drwy gyfrauu bendithion nefolaidd, y doniau ysbrydol iddynt; nid er mwyn iddynt gredu, ond fel cynt, *wedi* credu ac ufyddhau, er eu cadarnhau, eu santeiddio, a'u perffeithio. A'r neb a brofa egwyddorion "Mormoniaeth," fel ei gelwir, "a gaiff wybod am y ddysgidiaeth, ai o Dduw y mae, ai myfi o honof fy hun sydd yn llefaru." Prawf ei hun yn wirionedd dwyfol, yn "cfengyl dragwyddol," yn "allu Duw er iachawdwriaeth;" a dyma paham y dywedais, na ddichon dwyllo neb. Paid a'i hofni, ddarllenydd; prawf hi; a sicrhaf, os cywir dy ddyben, nad edifarhci am hyny byth. Wedi darparu y ffordd, drwy synud ymaith y rhwystrau blaenorol, meddyliaf eich bod yn awyddus i ofyn, I bwy yr ymddangosodd yr angel hwnw? Gofynaf finnau, a ydyw cywirdeb yr hanes yn ymddibynu ar gymmeriad y person yr ymddangosodd iddo? Os felly, pe dywedwn iddo ddyfod at Mahomed, gwrthodai yr holl fyd Cristionogol ef. Pe at y Pab o Rufain, a gredai Protestaniaid hyny? Neu, pe daethai yr angel â'r genadwri hon at un o'r gwyr penaf, duwiolaf, ac uchaf ei gymmeriad, sydd yn blaenori rhyw sect yn awr, efallai y credai y blaid hono; ond diammiau genyf y gwrthodai yr holl rai ereill ef a'i dystiolaeth megys twyll, a dywedent bob drygair am ei gymmeriad ef a'i ganlynwyr. Achosai hyny y fath elyniaeth a chenfigen atynt, nes eu lladdent, pe gallent. Pe gofynid iddynt paham y gwnânt hyny, eu hateb fyddai, "Haeddant farw; y maent yn twyllo meddyliau gweiniaid, ac y maent cystal â dweyd nad oes neb yn iawn ond hwy; ni allwn ni oddef i neb roddi un math o sarhad ar y crefyddau a roddodd ein tadau duwiol i ni, dan gredu pa rai y buant hwy feirw yn dduwiol!" Oni allai plant pob tadau yn mhob oes a gwlad amddiffyn eu crefyddau mor addas â hyn? Clywsom gan yr Hindwaid cystal rheswm â hyna drws addoli Juggernaut! "O, na," meddant, "crefydd y Bibl sydd genym ni; nid ei'un-addoliaeth." Ond, y mae gwahaniaeth mawr rhwng *proffesu* a *chreäu* crefydd y Bibl, canys crefydd y Bibl ydyw *gweinidogeth awgylion* yn mhob oes o'r byd. Mewn gwirionedd, nid yw cywirdeb, na defnyddiechdeb y peth hyn, yn ymddibynu cymmaint ar y gymmeriad a ddyry poblogrwydd yr oes i'r person y gafodd y fraint fawr o'i dystio; canys Duw sy'n dewis ei offerynau, a gwael bethau y byd a ddewisodd efe yn y cyn oesoedd, "fel y byddai godidogrwydd y gallu o Dduw, ac nid o ddynion." Gogoniant ei enw, a lles dynolryw yw ei ddyben.

Gan ein bod yn gydnabyddus am flynyddau â'r person hwnw a gafodd y fraint oruchel o fod yn offeryn yn llaw Duw, i sefydlu ei deyrnas ar y ddaear, yn y dyddiau diweddaf hyn; wedi clywed yr hanes o'i enau ei hun; wedi gweled ei fuchedd a'i ymarweddiad; wedi cymdeithasu ag ef yn y dirgel a'r cyhoedd, a chyda ei deulu ar ei aelwyd heddychlawn; wedi bod wrth ei ochr yn nghanol terfysgluoedd o eynion creulon a geisient ei fywyd, oherwydd ei dystiolaeth hon; wedi bod gydag ef yn y carchar am y seithfed waith a deugain

iddo ef gael ei gaethiwo am ei grefydd; wedi clywed ei dystiolaeth yn nyfnder y carchar, o fewn i'r dorau cedyrn, lle y bwriwyd ef ar gyhuddiad o fradwriaeth yn erbyn y llywodraeth, am bregethu oddiar Dan xi, 44. Gan fy mod, meddaf, yn gwybod iddo, heb na *judge na jury* arno, selio y dystiolaeth â'i waed—o ddyfod angel â'r genadwri hon iddo: gan i mi glywed hyny o'i enau yn ei awr olaf, pa fodd yr amheuaif hi? Daeth cannoedd o ddynion creulon, a meddwon gan mwyaf, wedi duo eu gwynebau cyn rhuthro arno, a lladdasant ef a'i frawd yno, heb gael un arholiad i'w achos yn ol cyfraith y wlad. Saethwyd cannoedd o fwledi atynt i'r ystafell drwy y ffeuestri a'r drws. Aeth pedair drwyddo ef, a'r un nifer drwy ei frawd; a gwybod yr wyf ddarfod iddynt farw yn ferthyron hollol ddiuog o'r holl gyhuddiadau. a daenir am danynt ar hyd a lled y byd. Os gwaith y diafol a'i offerynau ydyw erlid, lladd, a chynllunio celwyddau yn mhob oes, yn erbyn pa fath ddynion y rhyfela y cyfryw? "Os bydd teyrnas wedi ymranu yn ei herbyn ei hun, ni saif hono." Felly y dywed pob dyn rhesymol. Gan i mi gael yr holl fanteision hyn, a gwybod y pwysfawrogrwydd o'r peth hyn i raddau helaeth; onid yw yn bechod ynof i beidio agor llygaid fy nghydwladwyr gyferhyn â'r gwirioneddau, newydd, rhyfedd, dwyfol, a daionus hyn? Rhoddaf, yste, dalfyriad byr y waith hon, a helaethach y tro nesaf, o'r dull, y modd, a'r amser y cafodd Joseph Smith y fraint fawr hon. Na ryfedda, ddarllenwyd; canys dyna ei enw: neu, "yr hen Joe Smith, y gau brophwyd, y twyllw drygionus, rhyfygus, ffol, dichellgar," &c., &c., fel ei geilw gelynion y gwirionedd a theulu lliosog rhagfarn. Pa leiaf yr adnabyddant ef, mwyaf eu gelyniaeth ato; ac yn wir, felly fy hunan i raddau, nes gorfod credu, drwy fanwl ymchwiliad a chymdeithasu ag ef, nad oedd efe y dyn drwg a ddychymmygaswn ei fod. Ac yr ydwyf yn atebol am wirionedd yr hanes canlynol, pe dywedai holl dduwinyddion a doethion Cyuru i'w erbyn. Heriaf yr holl oes, yn ol ysgrythyr a deddfau cyffredin dystiolaeth, i wrthbrofi fy nhystiolaeth.

### HANES BOREUOL JOSEPH SMITH.

GANWYD Joseph Smith yn nhref Sharon, swydd Windsor, talaeth Vermont, yn Unol Daleithiau yr Amerig, ar y 23ain o fis Rhagfyr, 1805. Pan oedd efe yn ddeng mlwydd oed, symudodd ei rieni a'u teulu i Palmyra, yn nhalaeth New York. Trigasant yn y swydd hon tuag un mlynedd ar ddeg; y rhan olaf o'r tymor yn nhref Manchester. Amaethwyr oeddynt o alwedigaeth. Yr oedd manteision Joseph, ac o ganlyniad ei wybodaeth am wahanol gangenau dysgeidiaeth, yn fach iawn, yn cyrhaedd yn unig at allu darllen, ysgrifenu, ac ychydig o rifyddiaeth. O'r bedwaredd-ar-ddeg hyd y bymthegfed flwydd o'i oedran, dechreuodd ddwys fyfyrio ar yr anghenrheidrwydd o ddarparu erbyn ei sefyllfa ddyfodol; ond pa fodd i wneuthur hyny, oedd yn gwestiwn heb ei ateb i foddolrwydd i'w feddwl. Ymddangasai yn gwestiwn o bwys annhraethlon yn ei olwg, yn gymmaint â bod iachawdwriaeth ei cnaid yn ymddibynu ar gael gwybodaeth gywir o hono. Os na chaffai afael yn y ffordd gywir i hyny, gwelai fod yn anmhosibl



iddo rodio ynddi, oddieithr ar ddamwain—gan anturio tua'r Barnwr cyfiawn, ac ymorphwys yr oll a feddai ar ddygwyddiad. Hyn oedd beth na foddlonai i'w wneuthur. Os ynholai gyda'r gwahanol bleidiau crefyddol, cyfeiriai y naill a'r llall o honynt ef at eu credoau neillduol eu hunain, gan ddweyd, "Dyma'r ffordd, rhodia ynddi." Canfyddai lawer o bethau ganddynt yn hollol groes i'w gilydd. Ymddangosai yn rhesymol iddo, na threfnodd Duw ond un ffordd i fod yu gadwedig drwyddi; ac o ganlyniad, ni allai efe feddwl fod, o'r holl wahanol eglwysi yn y byd, namyn *un* yn wir eglwys i Dduw, ac y rhaid fod hōno wedi ei hadeiladu ar yr un sylfaen, yn credu yr un athrawiaeth, yn arferyd yr un ordinhadau, yn rhwymyn yr un Ysbryd, ac yn dilyn yr unrhyw ffrwythau, â'r eglwys gyntefig, cyn y cymmeradwyai Duw hi yn yr oes hon. A chan na allai ymddiried am fywyd tragwyddol ar seiliau mor gyfnewidiawl a gwahanol, penderfynodd chwilio yr ysgrythyrau yn fanwl a diduedd. Parhaodd felly am ysbaid o amser, gan gredu yr hyn a ddarllenai. Yn mhlith yr amrywiol wirioneddau godidog a frithent ei ddalenau, ac a lawenhaent ei galon, nid nemawr un a ennillai ei sylw yn fwy nâ'r hyn a ganlyn:—"Od oes ar neb eisieu doethineb, gofynod gan Dduw, yr hwn sydd yn cyfranu yn haelionus i bawb, heb ddannod; a hi a roddir iddo." Anhawdd traethu y fath orfoledd a barodd yr addewid werthfawr hon iddo, pan y gwelodd fod y fraint i bob dyn o gael gofyn, i.e. gyda sicrwydd hefyd o gael derbyn gan Dduw, y wybodaeth oedd mor anghenrheidiol er iawn droedio yn ffordd y gwirionedd, a therfynu y ddadl galed oedd yn ei feddyliau. Yr oedd hyn fel goleuni yn llewyrchu mewn lle tywyll, i'w dywys i'r ffordd y dymunai rodio ynddi; ac o ganlyniad, penderfynodd ymneillduo i'r dirgel yn y goedwig, ychydig oddiwrth dy ei dad, i weddio ar Dduw am gyflawni yr addewid werthfawr hon, a dangos iddo pa un o'r holl enwadau crefyddol oedd eglwys Iesu Grist. Wedi penlinio yno, a dechreu ar y gorchwyl pwysig o alw ar yr Arglwydd â'i holl galon, temtid ef (mae yn debyg) gan nerthoedd y tywyllwch. mewn llawer modd, i feddwl na wrandewid ei weddi, ac nad yw y fath beth i'w gael yn awr; ond parhai yntau yn daerach, daerach, am waredigaeth, nes i'r tywyllwch ddechreu gwasgaru o'i feddwl, ac iddo yntau allu gweddio megys yn nerth yr Ysbryd, ac mewn ffydd ddiysgog. Tra yn parhau i dywallt ei enaid fel hyn o flaen Duw am atebiad i'w weddi, yn mhen yspaid gwelai oleuni yn dysclaerio yn rhyfeddol yn yr wybr uwch ei ben; yntau a ymgnïodd fwy-fwy i weddio, a'r goleuni oedd yn dyfod i wared yn raddol tuag ato, ac fel yr agosâi, cynnyddai mewn dysclaerder a mawredd, nes, erbyn iddo gyrhaedd brigau y coed, ymddangosai y goedwig wedi ei goleuo yn ddysclaer a gogoneddus oddi amgylch iddo. Ar y meddwl cyntaf, dysgwyliai weled y cangenau a'r dail yn cael eu deifio o'i amgylch. Ond gan na chafodd yr effaith hōno arnynt, ymwrolodd i allu dal yn ngwyneb y dysclaerdeb. Parhaodd felly i ddisgyn yn araf, nes cyrhaedd y ddaear, gan ei hollol amgylchynu yntau. Pan y cyffyrddodd ag ef gyntaf, achosodd deimladau rhyfedd drwy ei holl gyfansoddiad, ac yn y fan cipiwyd ei feddwl ymaith oddiar y gwrthrychau a'i hamgylchent, fel mewn gweledigaeth nefolaidd. Gwelai adau berson gogoneddus, yn tebygoli i'w gilydd o ran pryd a gwedd.

Dywedasant wrtho fod ei bechodau wedi eu maddeu. Hysbyswyd ef ynghylch yr hyn y gofynai am dano, ag ydoedd wedi achosi cymmaint o dristwch i'w feddwl—fod yr holl bleidiau crefyddol yn y wlad yn credu athrawiaethau anmherffaith, i raddau mwy neu lai; ac, o ganlyniad, nad oedd Duw yn arddel yr un o honynt yn eglwys iddo ef; er fod llawer o honynt yn selog, yn ddyunion cydwybodol, yn ofni Duw, yn cilio oddiwrth ddrygioni, ac vn ei addoli yn ol y goleuni oedd ganddynt. Gorchymynwyd iddo beidio ymuno â neb o honynt. Cafodd addewid yr adferid iddo y wir athrawiaeth—cyflawnder yr efengyl, mewn amser dyfodol; ac wedi y pethau hyn, diflanodd y weledigaeth, gan adael ei feddwl wedi ei orlenwi â thawelwch a llawenydd annesgrifiadwy. Yn mhen amser wedi cael yr amlygiadau dwyfol hyn, goddiweddwyd ei feddwl i raddau gan chwantau ieuentyd, yr hyn a barodd iddo edifeirwch dwys ger bron Duw wedi hyny.

### DADGUDDIAD Y LLAFNAU AUR.

Ar yr 21ain o fis Medi, 1823, gwelodd y Duw trugarog a graslawn yn dda, nid yn unig i wrandaw, ond ateb gweddiau Joseph Smith yu ychwanegol. Wedi iddo ddychwelyd i orphwys, fel arferol, yr oedd ei feddwl wedi ei sefydlu mewn taer weddi, a gwir ddymuniad ei enaid i gael cyndeithas rhyw genadydd dwyfol, gyda hysbysiad iddo o'i gymmeradwyaeth gerbron Duw, ac i amlygu iddo egwyddorion crefydd Crist, yn ol yr addewid a gafodd yn y weledigaeth flaenorol. Pan oedd yn parhau fel hyn gerbron gorsedd gras, gan ymdrechu i ymarferyd ffydd yn yr addewidion oedd mor felys i'w enaid, yn ddisymwth llewyrchodd goleuni fel goleu-ddydd, ond yn llawer mwy pur, tanbeidiawl, a gogoneddus, i'r ystafell. Ymddangosai y ty, ar yr olwg gyntaf, fel pe buasai wedi ei lenwi â thân ysol! Parodd ymddangosiad mor ddisymwth o oleuni mor-ddysclaer ergyd i'w holl gorff; ond dilynwyd ef yn fuan gan y fath lawenydd a gorfoledd, nes yr oedd o galon yn dymuno cyfeillachu â'r achos o hono. Yn y fan, ymddangosodd person gogoneddus o'i flaen. Ac er mor ddysclaer oedd y goleuni a lanwai yr ystafell, yr oedd rhyw belydrau dwyfol o oleuni mwy tanbeidiol a gogoneddus eilwaith yn amgylchu y person hwn! Er fod ei wynebpryd fel mellten, etto yr oedd cariad a diniweidrwydd wedi ei argraffu arno mor ddealladwy, nes symud pob ofnau o'r meddwl, a gorlenwi yr enaid â'i ddelw. Ei gorffolaeth oedd ychydig yn fwy nâ'r cyffredin o ddyinion yn ein hoes ni: ei wisg oedd mor garaid â'r eira, ac nid ymddangosai un math o wniad ynddi. Llefaroedd y bod dysclaer hwn wrtho, gan ddywedyd mai angel Duw oedd, drwy orchymyn wedi ei anfon i hysbysu iddo fod ei bechodau wedi eu maddeu, fod ei weddiau wedi cael eu gwrandaw, ac hefyd i ddyfod â'r newyddion da o lawenydd mawr iddo; sef. fod yr amser gerllaw i'r Arglwydd gwblhau y cyfammod a wnaeth ag Israel gynt, mewn perthynas i'w hâd;—fod y mawr, y rhyfeddol, a'r dyeithr-waith a addawsai Duw gyflawni ar y ddaear, fel rhag-barotoad i ail ddyfodiad y Messiah, ar ddechreu; ac hefyd, fod yr amser gerllaw i'r efengyl gael ei phregethu yn ei chyflawnder i'r holl genedloedd, er darparu

pobl santaidd a ffyddlon, i fod yn deilwng o gael mwynhau ei orphwysfa ogoneddus, yn ei deyrnasiad buddygoliaethus ar y ddaear newydd ac adferedig.

Hysbyswyd iddo hefyd ei fod ef wedi ei ddewis a'i alw, i fod yn offeryn yn llaw Duw er dwyn yn mlaen waith rhyfeddol yr oruchwyliaeth ogoneddus hon. Amlygwyd iddo fod yr "Indiaid Americanaidd" yn weddillion Israel; eu bod, pan y daethant gyntaf ar y cyfandir, yn hobl hardd a dymunol yr olwg arant, yn meddu gwybodaeth o'r unig wir Dduw, yn ei ffafr, ac yn derbyn bendithion neillduol oddiar ei law; fod y prophwydi a'r ysgrifenyddion ysbrydoledig oedd yn eu plith, wedi ysgrifenu hanes y pethau hynotaf o oruchwyliaethau Duw tuag atynt, o oes i oes, am lawer o genedlaethau, hyd oni oddiweddyd hwynt gan farnau Duw am eu drygioni, ac y difethwyd y mwyrif o honynt; ond fod yr oraclau a gynnwysai eu hanes (trwy orchymyn Duw i un o'u prophwydi diweddaf) wedi eu cuddio, er eu diogelu rhag y dynion drygionus a geisient eu difetha. Dywedodd fod yr oraclau hyn yn cynnwys llawer o ddadguddiadau dwyfol, yn dwyn perthynas ag efengyl y deyrnas; heblaw prophwydoliaethau am y pethau nodedig, gogoneddus, ac ofnadwy a gyflawnid yn y dyddiau diweddaf. Ac, fel y cyflawnai Duw ei addewidion i'w hynafiaid a wnaethent yr oraclau hyn, a chwblhau ei amcan yn eu hadferiad, &c., y dygid yr oraclau hyn i'r amlwg. Os byddai efe yn ffyddlon, caffai y fraint o fod yn offeryn i ddwyn y dirgeledigaethau santaidd hyn i'r goleuni. Rhybyddiai ef yn ddwys i gofio bob amser, am wneuthur pob peth er gogoniant i Dduw. Nad ymddiriedid yr oraclau hyn i neb, a geisiai ei dderchafiad, ei ogoniant, a'i les ei hun drwyddynt. Wedi ei gynghori i fyw yn gyflawn, bod o egwyddor uniawn yn gwasanaethu Duw, ac amlygu iddo lawer o bethau mynedol a dyfodol, rhy faith i'w traethu yma, ymadawodd yr angel, a chiliodd y goleuni, a gogoniant Duw gydag ef, gan adael meddwl Joseph yn dawel a llon, i fyfyrto ar y pethau a glywodd ac a welodd. Ond cyn y boreu, adnewyddwyd y weledigaeth ddwywaith, gan ei hyfforddi ef yn mhellach ac yn fanylach, mewn perthynas i'r gwaith mawr a rhyfeddol yr oedd Duw ar ddechreu ei wneuthur ar y ddaear.

Yn y boreu, aeth at ei orchwyl fel arferol; ond yn fuan adnewyddwyd y weledigaeth iddo drachefn, ac ymddangosodd yr angel o'i flaen; a chan ei fod wedi cael gwybodaeth eisoes, yn y gweledigaethau blaenorol, am y fan lle yr oedd yr oraclau yn guddiedig, gorchymynodd iddo fyned yno yn ddioid i'w gweled. Yn y fan, gan adael ei orchwylion, efe a aeth i'r man lle y gorchymynwyd iddo.

Rhoddaf ddesgrifiad byr o'r fan hono lle gorweddai yr oraclau, mewn geiriau boneddwr o'r cwu Oliver Cowdery, yr hwn a ymwelodd â'r fan wedi hyny. "Ar yr ochr ddwyreiniol i'r ffordd gyffredin sydd yn arwain o dref Palmyra, swydd Wayne, i Canandaigna, swydd Ontario, yn nhalaith Caerefrog Newydd (U. D. A.), oddentu pedair milltir cyn cyrhaedd tref fach Manchester, y mae mynydd mawr—mawr, meddaf, oherwydd ei fod cymmaint, os nad yn fwy, nag un arall yn y cylchoedd hyny." Wedi rhoddi desgrifiad manwl o'r mynydd, ychwanega—"Yn agos i'r pen uchaf iddo, ar yr ochr ddwyreiniol, y darganfyddwyd yr oraclau [cyfeiriedig]. Pan ymwelais â'r

fan yn y flwyddyn 1830, yr oedd yno amryw goedydd yn tyfu, digon i roddi cysgod rhag gwres yr haf, ond nid mor lliosog ag i rwystro glaswellt i dyfu. Pa mor ddwfn yn y ddaear y cuddiasid yr oraclau, y mae yn anhawdd dweyd; ond oddiwrth y faith eu bod wedi bod yn gorwedd yno, ar ochr myndd mor serth, am oddeutu pedwar cant ar ddeg o flynyddau, gellid meddwl eu bod amryw droedfeddi dan y wyneb pan roddwyd hwy yno, gan fod yn naturiol i'r wyneb dreulio, mwy neu lai, mewn cymmaint o amser; er na threuliai gymmaint mor agos i'r copa, ag yn îs i lawr, efallai. Yn y man hwn yr oedd twll wedi ei dori. Yr oedd careg, â'r ochr uchaf iddi yn llyfn, yn llanw y gwaelod; o amgylch ei hochrau yr oedd math o *cement*, yn yr hwn y rhoddasid pedair o geryg teneuon ar eu hochrau, ac oddi allan i ochrau y gareg isaf. Yr oedd y cyfan wedi eu gosod fel hyn, yn gwneyd cist, a'r conglau wedi ei llanw yn gywrain â *cement*, fel na allai dim gwlybwr oddi allan dreiddio i mewn. Ochrau mewnol y ceryg ereill oedd-ynt wedi eu llyfnhau hefyd. Yr oedd y gist hon yn ddigon o faint i gynnwys dwyfroneg, fel y gyfryw a arferai yr hynafiaid i amddiffyn y fynwes rhag saethau y gelynion. O waelod y gist, yn sefyll ar y ddwyfroneg, yr oedd tair colofn, wedi eu gwneuthur o'r *cement* ag oedd yn yr ochrau. Ar y tair colofn hyn y gorweddaï yr oraclau. Yr oedd careg arall, â'i gwyneb isaf yn llyfn, a'r wyneb uchaf yn goronog, yn caud ar y gist. Pan ymwelodd Mr. Smith â'r lle ar foreu yr 22ain o Fedi, 1823, yr oedd wyneb uchaf y gareg yn weledig, ond ei hochrau yn guddiedig gan ddaear a glaswellt; fel y mae yn amlwg, er na wyddys pa mor ddwfn eu cuddiwyd ar y cyntaf, eu bod wedi bod yno ddigon o amser i'r ddaear dreulio oddi arnynt, a dod â hwynt i'r amlwg. Ond wedi ei gyfarwyddo, hawdd oedd iddo eu cael, er nad oeddynt mor nodedig â thynu sylw neb a elai heibio. Wedi cyrhaedd i'r fan gydag ychydig o ymdrech, cododd y gareg uchaf, ac er ei syndod mawr, sylodd â'i lygaid ar gynnwysiad rhyfeddol y gist. Pan oedd yn syllu ar y trysor santaidd hwn, gan ryfeddu a myfyrïo ar yr hyn a glywsai gan yr angel yn flaenorol, wele angel yr Arglwydd, yr hwn a ymddangosasai iddo o'r blaen, yn sefyll ger ei fron, a'i enaid a lanwyd o orfoledd fel yn yr hwyr blaenorol, ac efe a gyflawnwyd o'r Ysbryd Glân, a gogoniant yr Arglwydd a ddysclaeriodd oddiamgylch iddo, ac a orphwysodd arno. Pan yn y sefyllfa ddedwydd hon, yn syllu ar yr olygfa ogoneddus o'i flaen, yr angel a ddywedodd wrtho, "Edrych!" ac fel yr oedd yr angel yn llefaru, gwelai dywysog y tywyllwch a'i lu enirif oddiamgylch iddo. Wedi i'r rhai hyn fyned heibio o'i olwg, ychwanegodd yr angel lefaru, gan ddywedyd, "Dangoswyd i ti hyn oll—y da a'r drwg, y santaidd a'r aflan, gogoniant Duw a gallu y tywyllwch—fel yr adnabyddit y naill a'r llall, ac na'th oddiweddid gan y drwg. Wele, pob peth a'r sydd yn tueddu at, ac yn tywys i ddaioni, o Dduw y mae; a phob peth sydd yn groes i hyny, o'r un drwg y mae: efe sydd yn llanw calonau dynion â drygioni, i rodio mewn tywyllwch, ac i gablu Duw; gwel o hyn allan fod ei ffyrdd ef yn arwain i ddinyst, ond ffyrdd santeiddrwydd ydynt heddwch a llawenydd. Ni elli y pryd hwn gael meddiant o'r oraclau hyn, oherwydd manylrwydd gorchymyn Duw yn eu cylch. Rhaid eu ceisio cyn eu ceir, trwy weddi daer a ffyddlondeb yn cadw gorchymynion yr

Arglwyddd. Ni ddiogelwyd mo honynt yma i'r dyben o elwa oddi-wrthynt, nac er hunan-glod; ond seliwyd hwynt dan weddi'r ffydd, oherwydd y wybodaeth a gynnwysant; ac nid ydynt o nemawr ddefnydd i neb, ond yn unig am y gwybodaethau a gynnwysant. Y maent yn dadguddio cyflawnder efengyl Iesu Grist, megys ei rhoddwyd i'w bobl gynt yn y tir hwn.

[I'w barhau.]

## CYFLAWNIAD PROPHWYDOLIAETH.

GAN fod cymmaint o waeddi am *arwydd* yn y dyddiau hyn, er nad ydym ni, mwy na'n brodyr hynaf, yn profesu rhoddi arwydd o honom ein hunain i neb, gobeithiwn y boddlonir pawb ar yr arwydd nodedig a roddodd yr angel; a hyn yw efe—"Pan y dechreuant glywed ddarfod i Dduw amlygu y pethau hyn i ti, gweithredwyr anwiredd a geisiant dy ddadymchwelyd; traethant a chyhoeddant ystoriau a chyhuddiadau celwyddog am danat, i ddrygu dy gymmeriad; a hwy a geisiant dy fywyd yn ddiachos, ac o ganlyniad hwy a erlidiant y rhai a gredant yr un gyfundrefn. Achosa [y darganfyddiad o'r oraclau] i'r rhai pur o galon lawenhau, ac i'r drygionus a'r cenfigenus gyn-ddeiriogi; gan y naill y bydd yn barchus ac yn anrhydeddus, a chan y lleill yn wawdus a dirmygus." Arwydd digon eglur i bawb, onide? Dengys gymmeriad pob dyn yn ol ei weithredoedd. Pwy ddyn â llygaid agored, a all ammau gwirionedd y brophwydoliaeth eglur hon, yr hon a gyhoeddwyd i'r byd cyn ei chyflawni? Os oes y fath un i'w gael, coelied ei glustiau ei hun yn tystio y cyflawniad llythyrenol o honi, pan eu gorlenwir â'r ystoriau anwireddus, ffol, a disail a glywo, nid yn unig o'r pwpudau, ond oddiyno hyd eithaf y wlad. Ac os na choelia ei glustiau, efe a goelia ei lygaid ei hun, gobeithiwn, pan ddarlino y cam-gyhuddiadau, y croes-haeriadau, a'r celwyddau dyfeisiol a gyhoeddwyd, ac a gyhoeddir o bryd i bryd, yn nghyhoeddiadau "y rhai a broffesant y gwirionedd." Yn mhlith ereill, nid y lleiaf yw *Seren Gomer*, yr *Amserau*, y *Bedyddiwr*, y *Dysgedydd*, &c. Yn ol tystiolaeth lliosog y gelynion hyn, rhaid addef dwyfoldeb y brophwydoliaeth uchod. Oni bai fod y drefu hon o Dduw, nid wyf yn meddwl y buasai dynion drygionus yn trafferthu cymmaint i'w cham-ddarlunio, ac i wneyd cynnifer o wyr gwellt mor wahanol i'w gilydd, gan eu galw hwy oll yn *Formoniaeth*, er mwyn y difyrwech a gânt yn dirdynu ac yn gwawdio eu gwaith eu hunain. Drwg yw dweyd, mae yn wir, fod y cyfryw wedi halogi hyd y nod yr argraff-wasg Gymreig, gan lychwino ei gwisgoedd gwychion, a'u bod trwyddi yn llenwi swyddau uchel yn myddin y fall, i gyflawni y brophwydoliaeth uchod, ac i rododi rhwystrau ar ffordd eu cydgenedl i chwilio am y gwir, er medru eu rhwymo, druain, yn dynach â'u credoau rhagfarnllyd, a'u cadw mewn tywyllwech. Ond, rhag ofn bod un anffyddiwr yn y wlad, yn ammau cyflawniad y brophwydoliaeth eglur hon yn hwy, cyfeiriwn at rifynau y *Gwir Fedyddiwr* am y ddwy neu dair blynedd diweddaf, ac anturiaf ddweyd, os boddlonir ef â *ffeithiau*, y caiff yno ddigonedd, er symud pob gronyn o ammheuaeth am wirionedd yr hyn a brophwydodd yr

angel. Ond rhag i neb feddwl ein bod yn ddideimlad ac anniolchgar am y gymmwynas leiaf a wneler i ni, diolchwn yn fawr i'r cyfryw; i'e, maent yn deilwng o ystyriaeth pawb o garwyr y gwirionedd, am eu llafur caled, ac am eu ffyddlondeb, yn gwario cymmaint o arian, a thrafferthu mewn gwaith mor ddaionus â didwyllo'r werin, drwy ddangos ar gyhoedd, ac addef mor ddiragrith, pwy ydynt; "cans wrth eu ffrwythau, yr adnabyddwch hwynt." Ac y mae yn hyfryd dweyd fod eu diwydrwydd eisoes wedi ei goroni â llwyddiant, nes rhoddi hollol foddlonrwydd, aehygaf, i bawb a foddlonir â ffeithiau, o ddwyfoldeb y brophwydoliaeth uchod, ac o'n crefydd ninuau; heblaw amryw o brophwydoliaethau Crist, megys, "Gwyn eich hyd chwi pan ddywedo'r hyd yn ddrwg am danoch;" "Nid ydych chi o'r byd, am hyny y byd a'ch casâ chi," &c. Ac onid ydynt wedi llafurio yn galed i gyflawni yr ysgrhythr a ddywed, "Y neb a fyddo fyw yn gyfiawn yn Nghrist Iesu, a erlidir?" A'r neb ni foddlonir ar eu hymdrechiadau blaenorol i gyflawni y prophwydoliaethau uchod, dylent fod heb eu boddloni; cans y mae yn druenus fod y "gweithredwyr anwiredd" hyn yn dinystrio eu cymmeriadau, ac yn poeni eu hymenyddion yn hwy; ac wrth feddwl fod eu llwyddiant yn eu gwaith yn costio iddynt eu heneidiau anfarwol, byddai yn druenus ceisio ganddynt wingo yn hwy yn erbyn y symbylau dwyfol, a gwaith Duw; cans, er i Grist ddywedyd, "Anghenrhaid yw dyfod rhwystrau," dywed hefyd mai "gwae y rhai hyny drwy ba rai y deuant." A phwy na thosturia wrth yr erlidwyr hyn, yn ngwyneb yr hyn a ganlyn—"Gwell fuasai iddo, pe rhoddasid maen melin o amgylch ei wddf, a'i suddo yn eigion y môr, nag iddo rwystro un o'r rhai bychain hyn." Druain ydynt, plant y tywyllwch; gresyn eu bod yn dewis ffyrdd Baalam mab Bosor, yr hwn a garodd wobr anghyfiawnder. "O, na baent ddoethion, na ddeallent hyn, nad ystyrient eu diwedd." Y mae y profion lliosog a roddasant eisoes o ddwyfoldeb Mormoniaeth (cans canmoliaeth iddi yw drygair pobl fel hyn am dani), yn rhy dda i'w colli; a chan na ellir dysgwyl i'w ffynonell chwerw barhau i fwrw allan y fath ffrydiau lawer hwy, rhoddwn i'n darllenwyr drwy enau y PROPHWYD lymaid o honynt yn awr ac eilwaith, wedi eu dosranu, fel y galler deall eu cyfansoddiad a'u heffeithiau ar y meddylfryd. A'r cyntaf un a ddygir o flaen y frawdle yw y cadfridog professedig ar y fyddin. Gan fod ei ddewrder a'i ddiwydrwydd yn y fyddin hon tuhwnt o lawer i'w gyfeillion, dylai gael bod ar y blaen. Pan ymladdai y tuhwnt i'r berth, newidiai ei enw mor aml ag y cyfnewid y *chameleon* ei liw, ond erbyn hyn y mae ei wyneb fel y gallestr. Am na wneir barn am weithred-oedd drwg yn fuan, y mae ei galon yn ymhyfhau i wneyd drygioni. Ond gwir yr hen ddiareb, "Mwrddwr a ddaw allan;" felly hwn o'r diwedd a law-arwydda, "W. R. Davies," o Ddowlais, yn rhifyn Mawrth o'r *Bedyddiwr*, gan wirio ystoriau, o ba rai y mae tystiolaethau yn awr yn ein meddiant, y rhai a ddeuant allan yn eu hamser, er profi y cyfryw yn hollol gelwyddog; er iddo eu cyhoeddi o'r blaen, dan arrywiol ffug-enwau. Y mae efe yn ofni fod rhyw un wedi eu hanghofio erbyn hyn, a daw â hwy allan yr ail waith yn dameidiau melys. Methu *manufactro* rhai newydd mor erchyll yr oedd, debygwn, tra rhaid cael rhywbeth. Ond diolch iddo, daeth i'r fagl yn awr; caiff

ei osod dan *spectacles* y PROPHWYD yn awr ac eilwaith. Nid mor hawdd cau genau Prophwyd, ag oedd cau genau yr argraff-wasg, rhag ein hamddiffyn. Ceir gweled yn awr gan hwy mae'r gwir.

Nid ydym yn chwennyech yngeceru â dynion llygredig fel hyn, canys pregethu Crist croeshoeliedig yw ein gwaith ni, er fod hyny i'r dynion hyn yn dramgwydd ac yn ffolineb. Fel eu brodyr gynt, ceisio arwydd a doethineb ddynol y maent. Ond y mae yn ddyled i'r cyhoedd, wedi ein bod yn ddystaw am flynyddau, i amddiffyn y gwirionedd yn awr, fel y byddo eu drygion hwy yn amlycach i bawb a garant y gwir. Nid oeddem ni yn bwriadu i'r pethau canlynol gael eu cyhoeddi i'r hyd, mwy nâ'r cannoedd ereill o fendithion a fwynheir yn ein plith; canys ni ddysgwylwn i'r rhai a wadant yr ysgrythyr mor haerllug, gredu y fath bethau. Ond y mae ffolineb a gelyniaeth Satan a'i offerynau yn dod i'r amlwg yn eu gwaith hwy yn eu cyhoeddi, ac yn eu cam-ddarlunio mor erchyll. Mae'r amddiffyniad o'r gwirionedd yn anlygu eu celwyddau hwy a mawrion weithredoedd Duw. Mae yn anhawdd gan ddyinion gredu fod neb yn Nghymru, o'r rhai a broffesant fod yn blant i Dduw, heb sôn am haeru eu bod yn fugeiliaid ar braidd yr addfwyn Iesu, mor ddwrwg, mor greulawn, mor ddiogwyddor a cheiwyddog, â gwau y fath dusw o gamgyhuddiadau, mor ffol â'r hyn a ganlyn, am ereill, o herwydd gwahaniaeth barn am grefydd. Peth pwysig yw cyhuddo y cyfryw o fod yn euog o gynllunio celwyddau gwybodus, yn bwrpasol i dwyllo, ac i foddio eu nwydau drwg; ond y maent wedi eu cyhoeddi yn ngwyneb goleuni, gwybodaeth, barn a Barnwr, a phob peth arall a ddylai eu llanw ag arswyd a dychryn wrth feddwl am y fath waith. Rhaid fod eu cydwybodau wedi eu serio â haiarn poeth, pan gyhoeddent y fath bethau yn ngwyneb ugeiniau a channoedd o dystion, y rhai a wyddant mai celwyddau ydynt. A'r neb a amnheuo ddyfnderoedd llwgr dynoliaeth, caiff brofion digonol o hyny, er ei ofid a'i syndod, wrth ddarllen y *Bedyddiwr* am fis Mawrth, tud. 111, fel y canlyn:—

“GWYRTH! GWYRTH! O'R DIWEDD!”

Addefaf na welsom erioed o'r blaen draethawd hanper cymmaint â hwn wedi ei gyhoeddi, yn enwedig mewn cyhoeddiad a broffesa fod yn grefyddol, na buasai fwy nag un gosodiad o hono yn wirionedd, yn rhyw gwr neu gilydd. Os gwelodd rhyw un arall y fath beth, dymunwn wybod; ond, o'n rhan ni, meddylwn, er cymmaint a wawdia y “*Quick yn Dwr*” a'i hysgrifenodd ar wyrthiau Duw, gwrth o'i eiddo ei hun yw hon! Rhaid fod ei lidiawgrwydd yn llawn, ac yn rhedeg drosodd, cyn iddo ddechreu, canys nid yw hyd y nod y gair cyntaf yn wir. “Profesodd y SATANIAID,” ebc ef. A phwy yw y “Sataniaid” hyn ganddo? Na ddigia wrtho, ddarllenydd hoff; nid yw y rhai a eilw efe yn “Sataniaid,” yn amgen nâ saint y Goruchaf Dduw. A gwaeth etto, dyn sy'n profesu bod yn weinidog yr efengyl gyda'r Bedyddwyr, a'n galwodd ar yr enw hwn! Cywilyddied hyd y nod Dowlais, wrth weled dyn sy'n profesu bod yn was i Dduw, yn dringo eu pwlpuadau, ac mewn “ffair” ffol a chableddus, yn dysgu ei gyd-fforddoliau tua barn fanwl, i “heidio a galw” rhai sydd yn addoli Duw y nefoedd, yn credu yn Nghrist yn ol yr ysgrythyrau, “yn Saint, ond galwch hwy

(ebe efc) yn Sataniaid y Dyddiau Diweddfaf." O ddynoliaeth, dyma warth arnat! Ei enw—paham rhaid gofyn? pwy na wŷr mai y Parch. W. R. Davies yw tad yr enw hwn? Onid yw ei "leferydd yn ei gyhuddo." Gwaded, os gall; neu ynte, cywilyddied. "*Sataniaid*," aie, syr? Y maë efe yn lladd dan aderyn, heblaw ei hunan, â'r ergyd hwn. Cyflawna brophwydoliaeth yr angel yn llawn, a gwiria yr hen ddiareb, "Lleidr sy'n gwaeddi lleidr gyntaf." Satan sy'n gwaeddi Sataniaid gyntaf; a gweision hacrllucaf Beelsehub a waeddi Beelsehub gyntaf, hyd y nod ar Fab Duw ei hun. Nid ydym ni yn rhoddi yr enw hwnw arno, ond "ei enau ei hun sy'n ei fwrw yn euog." "Proffesodd y SATANIAID lawer o'u gwyrthiau," ebe y "Quick yn Dwr" hwn. Wele, rhifa, ddarllenydd; dyma y celwydd cyntaf yn y crynswth erchyll hwn. Ni phroffesodd y Saint eu bod yn gwneyd gwyrthiau, hyn yn hyn. "*A thwyllasant* fagad." Dyma'r ail, ac heb gynyg un prawf o hono! "O ddynionach diddysg, digrefydd, a di bob peth da," medd efc. Dyma y trydydd, eisoes. "Llwyddasant i hudo bageidiach o wehilion Merthyr ar eu hol." Os gwir hyn, ymffrostiwn o hono, canys prawf ein tebygolrwydd i'n brodyr, saint y dyddiau gynt. Dywedai rhagrithwyr a deistiaid yr oes hono am danynt hwythau, mai "ysgubion y byd, a sorod pob dim" oeddynt. Etto, ebe ef—"Yr oeddynt yn myned yn mlaen â'u twyll yn lled dda, hyd nes daeth yr apostol clodwiw." Dyma y pedwerydd; oherwydd ni ddaeth hyd yn hyn yr un *apostol* i'w plith, ac nid oes, ac ni bu, neb yn honi nac yn cael y swydd na'r enw hwn yn eu plith yn Nghymru. Un o fwganod Mr. Davies o Ddowlais yw hwn hefyd; a syndod fel y gwawdia efe ef ar ol ei wneyd! Trueni na bai y dyn hwn yn gwybod bellach fel y mae dynion egwyddorol a rhesymol yn ei ddiystyru, a'i ffeiddio ef a'i gelwyddau; ac yna tewi, rhag cywilydd! "Yma i'w cadarnhau yn y ffydd, ac i werthu math o *bamphlet* ynfyta a welwyd erioed, islaw sylw pob dyn yn ei synwyrâu," ebe efc. Y mae ei waith ef yn sylwi cymmaint arno, yn ei brofi ef allan o'i synwyrâu, ynte, yn ol ei addefiad ei hun. Ond, clyw ychwaneg o'i ddoethineb ef:—"Cyhoeddwyd hwn gan ryw greadur bach." Pwy nad ymffrostiai o gael ei anmharchu gan Mr. Davies? "Haera y traethawd hwn allu y Sataniaid i gyflawni gwyrthiau." Dyma y punmed, o leiaf. Ai tybied y gŵyr efe y gwahaniaeth rhwng Duw a dyn? "Ymddyddan â'r tylwyth teg. &c." Dyna'r chwechfed. Onid oes miloe'd o'n traethodau drwy Gymru yn awr, a ddangosant i bawb a'u daileno, ryfŷg y parchedig hwn yn haeru y fath bethau? Beth na ddywed? Pwy a ddichon goelio y fath ddyd â hwn? Nid neb a garant y gwir, debygaf! Ofer ccisio sylwi ar ei holl haeriadau ffol ac anghywir yn awr. Ond cymharer ei haes ef o'r anffawd a ddygwyrddedd i ddyn o'r enw William Hughes, Collier's Row, â thystiolaeth y dyn ei hun, ac ereill a welsant y peth.

Dywed "QUICK YN DWR:"—"Un o'r Sataniaid yw. Torodd asgwrn BACH ei goes yn y gwaith. Anfonwyd y Dr. Davies ato, yr hwn a'i rhoddodd yn ei lle, ac a'i rhwymodd i fyny, &c. Yna dilynwyd ef mewn ymweliad gan yr apostol clodwiw, a bagad o'r Sataniaid gydag ef. a thynasant y rhwymyn (*bandage*) yn rhydd, a gosododd yr apostol ei law ar y man, gan ddynwared gweddio." Dyma nid yn



unig y seithfed a'r wythfed, ond cryn gabledd hefyd. "Ac yr oedd y Sataniaid yn haeru, yn y modd mwyaf cadarn, eu bod yn gweled y chwydd yn cilio ac yn diflanu dan ei law, &c." Dyma addefiad mor gadarn â thystiolaeth llygad-dystion, fod y chwydd yn cilio, ynte!! Pwy a wyddai yn well nâ hwy, ai gwir ai peidio a ddywedent, pan yr oedd eu llygaid yn tystio hyny? Pa reswm fuasai iddynt haeru hyny, oni buasai felly? Pwy a'u credasai, pan y buasant yn gweled yn amgen, os nad gwir oedd? Gweler rhagfarn ac afresymoldeb yr athrodwr hwn, yn gwadu heb un sail, tra yr addefa fod tystiolaeth "bagad" o lygad-dystion yn profi fod yr iachâd yn ffaith? O, ffolineb! "Cyhoeddwyd y pethau hyn [medd efe] trwy yr holl lefydd." Do, gan ein gelynion yn llu, ac nid gan ddau yr un fath, braidd. A fuasant yn gwneyd hyn oll, oni bai fod rhywbeth ynddo? A phwy a gam-ddarluniai, ac a gondemniai, ond y rhai sydd yn proffesu eu bod yn credu y Bibl, yr hwn sy'n llawn o'r fath hanesion? Ond dyma yr addefiad cadarnaf o wirionedd y peth, gan yr hanesydd ei hun; sef— "Dyweddodd wrth ymadael â'r dŷn, am iddo ddod i'r cwrdd er dangos ei hun dranoeth, ei fod wedi ei hollol iachâu." Nid wyf yn addef fod hyn oll yn wir; ond y mae yr hanesydd yn profi gormod yn ei erbyn ei hun, nes dangos fod y dyn wedi ei hollol iachâu, cyn y buasai neb, â'i lygaid yn agored, yn gorchymyn iddo ddod i'r cwrdd dranoeth, dros filtir o ffordd!! Diolchwn iddo am hyn. Ac oni wyddai y claf ei hun, a'i frodyr yn ei ymyl, yn well nag anghredadyn o rywle draw o Dowlais? "Dranoeth [medd efe] galwodd y Dr. Davies i'r dyben o weled y dyn, ac er ei fawr syndod canfu ef lawer gwaeth nâ'r dysgwyliad, a'i goes wedi chwyddo; yntau yn boenus iawn, &c." Yn awr, ddarllenwyd, rhifa y ceiwyddau, os gelli; canys y mae yr un nifer o honynt ag sydd o eiriau yn yr haeriad. Nid oes dim cynmaint ag un sill o hono yn wir! Ond gweler yn mhellach etto—"Y meddyg yn methu dirnad pa fodd yr oedd pethau fel hyn; ond, er ei syndod, wrth edrych ei goes, gwelodd fod rhyw ffol wedi agor y rhwymyn a ddodasai ef am dani y dydd o'r blaen, yr hyn a achosai yr oll a nodwyd; ac wedi holi, cyfaddefodd y dyoddefydd y cyfan oll, ac y mae yr adyn penffol heb wella hyd heddyw." Dyma waith rhifo etto, a gwna pob gair o'r haeriadau hyn un yn ychwaneg at y rhestr gywilyddus, fel y gwelir wrth ddarllen tystiolaethau llygad-dystion diduedd a geirwir. Cymharer y naill â'r llall, ac yna ffurfied y darllenwyd ei farn am yr athrodwr fel y myno ei hun. Ac os na oddefa gyflawniad rhyfeddol prophwydoliaeth yr angel a nodwyd, a dwyfoldeb Mormoniaeth, caiff ychwaneg o brofion o hyny yn y rhifyn nesaf.

Wele gopi o'r hyn a anfonwyd at Olygwyr y *Bedyddiwr*, ond a wrthodasant gyhoeddi:—

\* "At Olygwyr y *BEDYDDIWR*.

"Syrs,—Gan eich bod wedi cyhoeddi yn rhifyn Mawrth o'r *Bedyddiwr*, ohebiaeth rhyw dŷn a eilw ei hun "Quick yn Dwr," o barthed i'r anffawd a ddygwyddodd i ddyn o'r enw William Hughes, Collier's Row, pan, fel y dywed eich hanesydd, iddo "dôri asgwrn bach ei goes," a chan ei fod wedi eich twyllo chwi a'r cyhoedd, drwy roddi cam-ddarluniad o'r amgylchiad hwnw; ersyniwn arnoch wneyd

chwarae teg â'ch cyhoeddiad, a'i ddarllenwyr, drwy roddi lle yn un o'ch rhifynau nesaf, i'r tystiolaethau canlynol hefyd, pa rai a roddir gan lygad-dystion o'r peth.

“Dyma yn gyntaf *dystiolaeth William Hughes ei hun* :—

“Dydd Sadwrn, Ionawr 18fed, syrthiodd pwysau mawr arnaf yn ngwaith glo y Gyfarthfa; ac wedi fy rhyddhau odditano gan ereill, cafwyd fod dau asgwrn fy nghoes chwith wedi tòri yn y crymp. Dygwyd fi i'm ty, a daeth Dr. Allday (yr hwn a berthyn i'r gwaith), ac a'i rhoddes yn ei lle, ac estyll, &c., oddiamgylch iddi, ac a aeth ymaith, gan fy ngadael mewn poen dirfawr. Yn yr hwyr daeth un o henuriaid yr eglwys yr wyf yn aelod o honi, ac a eneiiodd fy nghoes ag olew cyssegredig, ac a arddododd ddwyllaw arnaf, ac a weddiodd ar i'r Arglwydd symud ymaith y boen, &c. Ac yr wyf yn tystio, mewn geiriau sobrwydd, ddarfod i mi gael esmwythâd hollol o'm poen yn y fan; a pharhâis yn ddioben. Prydnawn ddydd Mawrth canlynol, daeth henuriad arall, sef Capt. Jones, wrtho ei hun, i ymweled â mi; yua daeth anryw o'm cymmydogion, ag oeddynt yn anghredu ein crefydd, i mewn. Ar fy nymuniad, gweinyddodd efe yr ordinhad hon arnaf, yn ol yr ysgrythyrau, sef—“Od oes neb o honoch yn glaf, galwed ato henuriaid yr eglwys, ac eneiinant ef ag olew yn enw yr Arglwydd; a gweddi'r ffydd a iachâ y claf,” &c. Ac yr wyf yn tystio yn ddifrifol, o flaen Duw a dynion, ddarfod i mi yn y fan, i.e. pan oedd ei ddwyllaw etto arnaf, dderbyn iechyd mawr gan Dduw, ac nid dyn; tynais ymaith yr estyll a'r cyfan, a chyn pum mynyd, neidiais o'r gwely i'r llawr yn eu gwydd hwy oll, gan foli Duw am ei ddaioni. Rhai o'n gelynyon oedd yn gwrandaw yn yr ystafell nesaf, a phan glywsant ein llawenydd, daethant i mewn, ac a gredasant mai trwy allu Duw y'm hiachâwyd. Ac er mor rhyfedd yr ymddengys, y mae yn ddigon gwir, fod y goes arall yn boenus pan gerddwn, a'r goes doredig yn ddioben. Cerddais oddiamgylch yn mhen tri diwrnod. Dydd Iau canlynol daeth Capt. Jones i ymweled â mi drachefn, gan ei fod yn cychwyn tua'r Gogledd. Dranoeth (sef Gwener) gwelais Dr. Davies yn dyfod tua'r ty, ac ar frys mawr rhwymais yr estyll yn eu lle, a gorweddais ar y gwely rhag iddo feio arnaf. Wedi edrych fy nghoes, dywedodd ei fod yn rhyfeddu yn fawr fod y chwydd wedi gostwng, a'i bod yn gwella cystal. Dywedodd hefyd ei bod wedi tòri yn y gwddwg a'r swrn, heblaw dau asgwrn y crymp; ac os parhai i wella mor dda, y gallwn godi yn fuan. Wedi ei fyned i bant, teflais yr estyll ymaith, a chodais o'r gwely. Ar y pummed dydd daeth y doctor drachefn, ond ni'm gwelodd, oherwydd yr oeddwn wedi myned oddi cartref. Arferwn ffon am rai dyddiau wrth fyned oddi amgylch, nid o herwydd gwendid fy nghoes, ond gwendid fy ffydd, yr hyn a brofwyd yn eglur drwy i mi eu gadael gartref heb ddim anghyfleusdra. Methais gael gwaith; a chan ein bod yn dlodion, aeth fy ngwraig yn erbyn fy ewyllys at y *relieving officer* am gymhorth. Yn y cyfamser yr oedd cynhwrf nid bychan drwy'r gymmydogaeth, a llawer o ystorïau disail yn cael eu taenu am y peth, ar adenydd yr awel; rhai yn haeru na thorwyd yr esgyrn, ereill a dystient eu bod hwy wedi eu gweled a'u teimlo wedi tòri; hacrai rhai nad oeddwn wedi gwella, ond yn waeth, a bod y doctoriaid am dōri fy nghoes i bant, &c.: ac efallai mai oddiar

rai o'r seiliau hyn yr ysgrifennodd eich gohebwr yr hanes. Er esiampl o'r celwyddau a ddywedid am danaf, yr hyn a ganlyn a foddiona :— Daeth dyn i dy cynnydog, o fewn deugain llath i'm ty i, ac a ddechreuodd ei ystori am y peth hyn; mai celwydd a ddywedid fod y claf wedi gwella; ei fod ef wedi bod yn gweled y claf ei hun heddyw—ei fod ar ei gefn ar ei wely, yn waeth o lawer, a bod y doctoriaid ar dori ymaith ei goes, &c. Yr oedd fy ngwraig i yno ar y pryd yn clywed, er na wyddai efe; a chan ei bod hi wedi fy ngweled yn dychwelyd i'm ty o'r gwaith eisoes, daeth i'm cyrchu i'w wyneb; ond yn y fan y dealodd y dyn hyn, ymaith ag ef nerth ei draed, a minnau ar ei ol. —Ni buaswn yn ceisio y gymmwynas hon genych, oni bai eich bod wedi rhoi lle i'r ohebiaeth wrygam hōno; a gallaf gael degau o dystion geirwir i brofi fod yr hanes uchod yn wir.

WILLIAM X HUGHES, HANNAH X HUGHES.  
HUGH X JONES,

“Yr ydym ni yn tystio fod yr hanes uchod yn wir, hyd eithaf ein gwybodaeth. Gwyddom fod coes Wm. Hughes wedi tōri; clywsom y doctor yn dweyd hefyd yn y fan a'r lle, fod y ddau asgwrn wedi tōri yn hollol; ac er nad ydym ni yn proffesu, nac yn credu yn nghrefydd Saint y Dyddiau Diweddaf, etto yr hyn a deimlodd ein dwylaw, ac a welodd ein llygaid, yr ydym yn ei dystiolaethu, er rhoi chwarae teg i'r gwir.

THOMAS X DAAYDD, RICHARD X HUGH,  
JAMES X HARRIS, WILLIAM X DAVIES.

“Yr ydwyf finnau yn tystio fod William Hughes wedi tōri ei goes; oherwydd yr hyn a deimlais ac a welais yr wyf fi yn ei dystiolaethu, a'm cyfeillion.

EDW. T. EDWARDS, DAVID X JENKINS,  
DAVID X VAUGHAN, CATHARINE X THOMAS.

### ENGLYNION ANERCHIADOL.

CEIR rhyw hîl hen wehilion,—yn wancus  
Am bynciau newyddion;  
Ereill wrach, saith salach sôn,  
A'n helant heb arholion.

Hoffant fod ddigon diffaith—i luddio,  
Neu ladd nodwedd talaeth!  
Gwarth eu bod heb neb a wnaeth  
Rywiog ladd ein hathrawiaeth.

Doed pob mawr, erfawr, â'i arfaeth—yn chwerw,  
A chured Formoniaeth:  
Ceisio'n briw, pa wiw, pa waeth,  
Nes delio â'n tystiolaeth?

Aflwydd wna'i waith yn gyflym,—a rhwyfa;  
Ond rhyfedd mor ddirym!  
Codi croes yr oes yr y'm—  
Rhedeg a llwyddo 'r ydym.

BLAEN-DAL, 3c.]

[OL-DAL, 3]c.

ATOCU deunf etto,—a gwir wedaf,  
Cewch gredu neu heidio;  
Er pob daint, nad faint a fo,  
Ni phŷdiaf a phrophwydo.

# PROPHWYD Y JUBILI, NEU SEREN Y SAINT.

"YE ARGLWYDD IOR A LEFARODD, FWY NI PHROPHWYDA? CANTS NI  
WNA YE ARGLWYDD DDIM, A'R NA DDANGOSO EI GYFRINACH,  
I'W. WREISION Y PROPHWYDI."

RHIF. 2.]

AWST, 1846.

[CYF. I.]

## CYNNWYSIAD.

|                                         | TUD. |
|-----------------------------------------|------|
| Pa beth yw Mormoniaeth? .....           | 30   |
| Egwyddorion Cyntaf Cristionogaeth ..... | 33   |
| Dadguddiad y Llafnau Aur (parhad) ..... | 35   |
| Desgrifiad o'r Llafnau .....            | 37   |
| Erlldigaeth ynghylch y Llafnau .....    | 39   |
| Hanes Cŷfieithiad y Llafnau .....       | 39   |
| Llyfr Mormon—ei ddesgrifiad .....       | 41   |
| Cyn-breswylwyr America .....            | 43   |
| Preswylwyr Iuddewig America .....       | 44   |
| Cymmianfa Flynyddol Manchester .....    | 47   |
| Hanes Cymmianfa Merthyr-Tydfil .....    | 50   |
| Gwrth-annogiad .....                    | 56   |

## MERTHYR-TYDFIL:

CYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES;

AC AR WERTH HEFYD

GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL, A LLAWER  
O LYFRWERTHWYR.

1846.

## AMMODAU.

I. Cynnwysa y **PROPHWYD** Draethodau ar Athrawlaethau a Dyscyblaeth y Saint, Hanes am eu helyntion yn mhob cwr o'r byd, ynghyd â phob hanes arall fo'n dwyn perthynas â'u cenadwri, neu obeithion.

II: Daw allan yn fisol, ac oddeutu diwedd y mis, fel y cynnwyso bob peth anghenrheidiol fo'n perthyn i'r mis sydd enwedig ar y rhifyn.

III. Y Pris fydd Tair Ceiniog i'r Rhag-dalwyr, a Thair a Dimai i'r Ol-dalwyr.

IV. Gofelir am Ragymadrodd a Mynegir i'r **PROPHWYD** yn flynyddol, fel y galler ei rwympo yn llyfr cryno at arferiad parhaus.

---

### AT EIN DERBYNWYR.

Addawsom hanes California, eithr gan fôd petlâu ereill yn gwasgu, gorfu arnom oedi hwnw etto dros fis neu ddau.

Adolygiad ar y bregeth o Ddowlais a ddaw yn y *nesaf* yn ddiiffael, a cheir gweled y gwawdiwr balch heb ei orchudd. Oll yn oll daw ein gwawdwyr i gyd i ddeall, bob yn ychydig, mai gwell ein gadael yn llonydd. Tra bo gwasg yn rhydd, caiff celwydd ei ddadguddio.

Edryched ein gelynion dros gyfrifon ein llwyddiant yn y rhifyn hwn. Darllenant hanesion ein cymmanfaoedd; a chymharant hwy â hanesion cymmanfaoedd y Bedyddwyr a'r Annibynwyr; i.e, y naill a'r llall âg eiddo yr apostolion, ac ar ol hyny tystiant ar bwy y mae delw yr Oen a'i ganlynwyr, ac ar bwy y mae delw y bwystfil a'r cyn terfysgus. Bared y wlad bawb, i.e Mormon, wrth ei ffrwyth! Neu, gwneled a syno, gall Mormon apelio at Farnydd a wna hyny maes o law.

CYHOEDDIADAU SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF.

I.

*Cyhoeddiwyd yn ddiweddar, Pris Chwecheiniog,*

Y FARW WEDI EI CHYFODI YN FYW!

NEU

YR HEN GREFYDD NEWYDD.

TRAETHAWD

YN DANGOS

ANGHYFNEWIOLDEB TEYRNAS DDUW.

GAN CAPT: D. JONES.

\*\* Nid oes ond ychydig gopiau o'r Traethawd heb eu gwerthu.  
Gellir ei gael gyda'r Pwofhwyd.

II.

*Newydd ei Gyhoeddi, gan yr un, Pris Tair Ceiniog yn unig,*

ATEBYDD

Y GWRTHDDADLEUON A DDYGI'R YN FWYAF CYFFRE-  
DINOL DRWY Y WLAD

YN ERBYN

SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF,

*A'r Athrawiaeth a broffesant;*

MEWN FFURF O YMDDYDDAN RHWNG MEISTRIAID TRADD-  
ODIAD, SECTARIAD, A SANT.

III.

*Cyhoeddiwyd yn ddiweddar, gan yr un, Pris Ceiniog a Dimai.*

ANERCHIAD

Y

DEUDEG APOSTOL AT HOLL FRENINOEDD, CYNG-  
HORWYR, BARNWYR, A PHOBL Y BYD.

IV.

*Newydd ei Gyhoeddi, gan yr un, Pris Dwy Geiniog*

Y GLORIAN,

YN YR HON Y GWELIR

DAVID YN PWYSO WILLIAMS, A WILLIAMS YN  
PWYSO DAVID;

NEU

*David Williams. o Abercanaid, yn gwrthddwyed ei hun, wedi ei ddal yn  
ei dwyll, a'i bwrw yn euog o Ddeistiaeth.*

**REUBEN HEDLOCK,**  
**AMERICAN EMIGRATION, COMMISSION, FORWARDING,**  
 AND  
**GENERAL SHIPPING AGENT,**  
**STANLEY BUILDINGS, BATH-STREET, PRINCE'S DOCK,**  
**LIVERPOOL.**

Y GWR a enwir yma sydd swyddog dros y Gymdeithas Ymfudawl a gymmeradwyir genym o bryd i bryd yn y PROPHWYD.

Trosoglwyddir nwyddau o bob math. gauldo, i bob man yn yr Unol Daleichiau, Canada, Deheubarth America, yr India Ddwyr-einiol a Gorllewinol, China, Bombay, Calcutta, Australia, Zealand Newydd, &c., &c.

Trosoglwyddir ymfudwyr yn y llongau mwyaf a diogelaf i New York, Boston, Philadelphia, Baltimore, Charleston, New Orleans, Mobile, Quebec, Montreal, &c., ar yr ammodau iselaf; a gwneir pob darpariaeth gogyfer â chysur a chyfleusdra i ymfudwyr, ag a all fod yn y prif longau uchaf eu pris ar y llwybr.

Gofynir un bunt i lawr am bob ymfudwr o oedran, tuag at yr ymfudiad, er mwyn sicrhau lle i'r cyfryw yn y llong.

Cyfeirir pob llythyr, wedi talu y doll, i *Reuben Hedlock, Licensed Emigration Agent, Stanley Buildings, Bath Street, Prince's Dock, Liverpool*, a cheir atebiad dihoced yn y fan.

\* \* Yr ydym ni yn gwybod drwy brofiad trist, fod dynion i'w cael yn ein porthladdoedd, yn gwisgo gwyrneb teg, a thafod tirion, yn denu dycethriaid i ymfudo mewn llongau peryglus, ynghyd ag i sugno dwbl yr arian ag a fyddai raid o'u llogellau. Mae, y fynydd hon, gannoedd o Gymry gwirion, yn ymborth i bysg y Werydd, o achos diosafwch dechreuau eu mordaith. Nid yw Mr. Hedlock yn un o'r cyfryw. Ceir ei ammodau yn is, ei ymborth, cyfleusdra a diogelwch yn gyfartal i'r llongau goreu allan o Liverpool.

**MERTHYR-TYDFIL.**

**G**WAHODDIR y Cymry i NEUADD Y CYMREIGYDDION (*White Lion*), yn y dref hon, i glywed y GREFYDD APOSTOLAIDD, fel ei hadferwyd drwy Weinidogneth Angylaid.—Traddodir Darlithoedd bob Sul am 11 o'r gloch, ac yn yr hwyr am 6, er profi y Pynciau Athrawiaethol a ganlyn yn ysgrythyrol a rhesymol:—Ffydd yn Mab Duw fel digonol Waredwr—Edifeirwch—Bedydd er maddeuant pchodau—Arddodiad dwylaw er derbyn yr Ysbryd Glân—Adferiad y Doniau Ysbrydol—Adferiad yr Iuddewon i Palestina—Yr Adgyfodiad cyntaf—Teyrnasiad personol Crist ar y Ddaear am Fil o Flynyddoedd—Y Farn Gyffredinol—Y Nef a'r Ddaear newydd, a thrnglhedfen dragywyddol y Bydlyssawd a'i Drigolion!!!

*D.S. Y mae croesaw i barb ddysod i mewn heb dalu dim.*

# PROPHWYD Y JUBILI.

"MAE Y DEYRNAS WEDI DYFOD."

RHIF. 2.]

AWST, 1846.

[CYF. I.

## BETH YW "MORMONIAETHI?"

MOR fynych y gofynir y cwestiwn hwn, fel nad oes genym amser i ateb pob un a'i gofyna; ac etto, dewiswn i bob un drwy y byd, ond yn enwedig yn Nghymru, wybod *pa beth yw Mormoniaeth*; a chan mai dyben y cyhoeddiad hwn yw egluro ardderchogrwydd y gyfundrefn ogoneddus hon, caiff y PROPHWYD hwn ateb drosto ei hun, a gosod y pethau canlynol o flaen ei ddarlennwyr:—

"Y mae fy achau o lwyth Joseph, yr hwn a werthwyd i'r Aifftiaid. Daeth fy nhadau allan o Jerusalem yn amser y brenin Zedekiah, tua chwech cant o flynyddau cyn ei dinystr, a chaethgiudiad ei thrigolion gan Salmaneser: daethant â phum llyfr Moses, a phrophwydoliaeth Elias gyda hwynt. Wedi teithio yn yr anialweh am flwyddyn a hanner, fel eu harweinid gan yr Arglwydd eu Duw, tirlasant ar gyfandir [a elwir yn awr yn Amerig]; a chan ei fod yn wlad odidog a rhagorol i drigo ynddi, dechreusant ei llafurio, a sefydlu ynddi, yn ol gorehymyn yr Arglwydd eu Duw; a thra y buont fyw yn ffyddlon, gan gadw gorehymynion yr Arglwydd, a gwrandaw ar lais ei brophwydi y rhai oeddynt yn eu plith, yr oeddynt yn llwyddo, gan amlhan yn ddirfawr; a phan y troseddent ei orchymynion, anfonai farnedigaethau arnynt. Ar rai prydiau gwrthryfelent â'u gilydd nes dyfetha lluoedd o'u gilydd; ar brydian ereill cyfodai Duw brophwydi i'w dysgu, a ffynent. Fel hyn y buont byw am gannoedd o flynyddau, gan gadw o oes i oes hanes y pethau hynotaf o oruchwyliaethau Duw tuag atynt, hyd onid aethant i ddirywiad mawr, oddeutu pedwar cant o flynyddau wedi geni Crist. A myfi Mormon oeddwn y prophwyd diweddaf a fu yn eu plith, ac yr oeddynt yn ceisio fy einioes innau; ond ymguddiais oddiwrthynt, a gwnaethum dalfyriad o hanes fy henafiaid oddiar y



llafnau a gefais gan fy nhad, ac a'u hargreffais ar lasnau aur, yn ol gorchymyn Duw i'm tadau; ac wedi eu gorphen myfi a'u rhoddais i'm mab Moroni i'w cuddio yn mhen mynydd uchel, hyd oni chyflawnid y prophwydoliaethau am fy mrodyr, fel y dangosodd Duw y byddai iddynt fyned i ddirywiad hollol, nes colli gwybodaeth o'u hynafiaid, a derbyn yn ddwbl o law yr Arglwydd am eu pechodau; ac amlygodd Duw y byddai iddo ymweled â hwynt drachefn mewn trugaredd yn ei amser da ei hun, a rhoddodd addewid i mi, a'm tadau, yr amlygai y llyfr hwn i'r Cenedloedd, ac oddiwrthynt hwy i weddill fy mhobl yn y dyddiau diweddaf, a hyny pan y byddai ar eu hadferyd yn ol i feddiannu y wlad, i gael eu gwareiddio a'u sefydlu yn y wlad hon a roddasai Duw mewn addewid i'm tadau; a gwybydded fy mrodyr yn ddian pan ddadguddio Duw yr oraclau hyn i ddynion, ei fod yn gosod ei law yr ail waith i gasglu gweddill ei bobl o bedwar cwr y byd, yr Iuddewon i wlad Canaan, a gweddillion Israel ar y cyfandir hwn. Ei fod y pryd hyny, trwy ddadguddio y pethau hyn, yn dechreu cyflawni ei addewid i'n tad Abraham. Dyma y faner a gyfyd efe i'r Cenedloedd o bell; y pryd hyn y dechreua efe adeiladu Seion yn y dyddiau diweddaf, drwy adferyd cyflawnder yr efengyl dragwyddol i ddynion. Am hyny gwybydded y rhai a fydd byw ar y ddacar, pan y delo y pethau hyn i'r amlwg, mai yr Arglwydd a'i dechreuodd, ac efe a'i ewblha; ic, er gwrthryfela o holl freninoedd y ddacar i'w erbyn. Tyngodd yr Arglwydd trwy lw wrth ein tadau na throai ei law yn ol nes ei orphen. Ac wrth Moses y dywed am Israel, Pe y'th wthid hyd eithaf y nefocdd, oddiyno y'th gasgl yr Arglwydd dy Dduw; efe a wna â thy Jacob gyfammod newydd yn y dyddiau diweddaf, a gesyd ei ofn yn eu calonau, fel na chiliont oddiwrtho mwyach byth ac yn dragywydd; ac efe a fydd frenin arnynt byth, a bydd ei gysegr yn eu plith yn dragywydd. Gwyn fyd y rhai a fyddant byw pan ddechreuo yr Arglwydd y gwaith hwn, os ufyddbant iddo, ond gwae y rhai a wrthryfelant i'w erbyn."

Dyma ychydig o hanes y prophwyd Mormon, a'i dystiolaeth; ac y mae miloedd o ddynion yn awr yn fyw, yn tystio mai gwir a ddywed, fod Duw wedi dadguddio yr oraclau cyfeiriedig yn yr oes hon; ei fod wedi dechreu y gwaith mawr hyn trwy rododi goruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd i ddynion, yn yr hon y crynhoa efe bob peth yn Nghrist Iesu; ei fod wedi sefydlu ei deyrnas drwy allu

dwyfol unwaith yn rhagor, yn ol cynllun ei Fab ; ac anfon gweision i wahodd pawb a ddel i swper neithior yr Oen, canys y mae efe yn awr yn darparu ei briodferch erbyn ei ddyfodiad, drwy iddi ufyddhau i'r ammodau canlynol i ddechreu :

I. Nad oes ond un efengyl neu gyfundrefn wirioneddol wedi ei dadguddio dan y nefoedd yn mhlith dynion, drwy yr hon y gellir cymmodi pechadur â Duw, ei santeiddio, a'i ddarparu i gael rhan yn y "mabwysiad, sef prynedigaeth y corph," i gael mwynhau cymdeithasly rhai cyntaf-anedig, a'r holl saint wedi eu perffeithio ; pan y byddant yn teyrnasu gyda'n Harglwydd dros fil o flynyddoedd, ac wedi hyny i gael preswyllo yn dragwyddol yn mhresenoldeb yr Hwn sydd yn dân ysol, ac yn llosgfeydd tragwyddol i bob peth amherffaith. Fod y gyfundrefn hon yn berffaith, fel ei Hawdwr, wedi ei chynllunio yn y cynghor dwyfol cyn bod y byd, ei bod fel yr Awdwr o honi yn anghyfnewidiol, yn gweithredu yn ol y cynllun hwnw yn ei holl ranau, a'i hysgogiadau, yn dwyn yr un ffrwythau, neu yn ateb y cyfryw ddybenion yn mhob oes o'r byd, yn y rhai y mae wedi bod, yn bod, neu i fod. Fod Iesu Grist, yr hwn sydd wir Fab Duw, wedi ei emi o wraig, a boddloni cyfiawnder dwyfol, trwy ei offrymu ei hun ar y groes yn offrwm difai a chymmeradwy gan Dduw, ac adgyfodi o'r bedd, yn ol yr ysgrythyrau, yn nghyflawnder yr amseroedd rhagderfyndig yn y cynghor boreu, a thrwy hyny drefnu neu agor y ffordd, a sefydlu y gyfundrefn berffaith hōno, na ddichon ei fod wedi sefydlu un arall, heb wneyd y naill neu y llall yn afreidiol, ac o ganlyniad yn amherffaith, a bod y gyfundrefn hōno i'w ehredu ac ufyddhau iddi yn mhob peth, yn ol ei gynllan ; na ellir eynnewid na gwrthod un iod, nac un gosodiad, na difodi dim o honi, heb fod yn amherffaith, ac o ganlyniad yn aneffeithiol i ddwyn " bywyd ac anllygredigaeth i'r goleuni."

II. Fod yr un gyfundrefn berffaith hon wedi cael ei hamlygu gan y Creawdwr daionus a Thad yr hil ddynol, i'w blant yn y dechreuad, ganddo ef ei hun, gan ei angylion anfonedig, trwy weledigaethau, ysbryd y brophwydoliaeth, a dadguddiadau mewn llawer dull a modd.

III. Fod yr un gyfundrefn berffaith hon wedi cael ei llygru a'i chyfnewid gan ddynion, mewn llawer oes o'r byd i'r fath eithafion, nes yr oedd yn anghenrheidiol i'w hawdwr, sef Creawdwr a Chynnal-

iwr y byd a'i breswlyddion, ei hadferyd yn ol, drwy y cyfryw offerynau, ac yn yr un dull ag y scfydlwyd hi ar y cyntaf. Dyma yr achos y rhoddwyd y gwahanol oruchwyliaethau i'r byd, mewn gwahanol oesoedd o hono, fel y profir yn y gyfrol santiaid.'

IV. Fod Iesu Grist, y Messia, ar ol ei adgyfodiad wedi ymddangos, a gweinyddu yn bersonol i'r Iuddewon yn Palestina, i lwyth Joseph yn yr America, i weddillion Israel yn nhar y gogledd, i'r ysbrydiou yn ngharchar, y rhai gynt a fuont feirw heb gael cynyg o'r gyfundrefn hon, 1 Pedr iii, 19, 20; iv, 6. "Defaid ereill sydd genyf, y rhai nid y'nt o'r gorlan hon, y rhai sydd raid iddynt glywed fy llais." Nid y Cenedloedd, canys ni chlywsant hwy ei lais ef; nid *defaid* y galwent hwy neb arall ond hâd Abraham: *cwn* oedd y lleill. A'i fod ef wedi sefydlu y gyfundrefn berffaith a gogoneddus hon yn y parthau hyny o'r byd.

V. Fod y Cenedloedd wedi eu gwneyd yn gyfranogion o'r gyfundrefn hon, yn mhên rhai blynyddau wedi i Grist esgyn i'r uchelder, nid trwy ei weinidogaeth bersonol ef ei hun, ond trwy ei weision, a thrwy yr Ysbryd Glân, yr hwn oedd yn tystiolaethu iddynt hwy o'i eirwiredd, ei adgyfodiad, a'i ddyrchafiad ar ôdheulaw y Mawredd yn Dywysog ac yn Iachawdwr.

VI. Fod y gyfundrefn berffaith hono wedi ei chyfnewid a'i dirywio gan ddynion i'r fath raddau, er's cannoedd o flynyddau, fel nad yw i'w chael yn ei grym, ei phurdeb, a'i gogoniant hanfodol mwyach yn mhlith Iuddewon, Cenedloedd, nac Israeiliaid; a dyma yr achos o'r holl wahanol bleidiau a sectau sydd yn gorlenwi y byd, trwy fod dyaion yn ceisio dyfod o hyd i'r gyfundrefn hono yn ol; ac, wedi methu, gwnant rai eu hunain mor debyg iddi ag y gallant, a rhoddant yr enw arnynt, gan wadu ei grym hanfodol hi, yn ol y prophwydoliaethau am y dyddiau diweddaf.

VII. Fod yr un gyfundrefn berffaith hono wedi ei hadferyd yn ol i'r ddaear, a'i sefydlu yn yr oes hon, yn yr un dull, a thrwy yr un offerynau, ag yn mhob goruchwyliaeth flaenorol; sef, trwy lais Duw y nefoedd, trwy weinidogaeth angylaidd, gweledigaethau, a dadguddiadan oddiwrth yr Arglwydd. Y mae hon yn oruchwyliaeth newydd, nid cyfundrefn newydd, ond hollol adferiad o'r gyfundrefn gyntefig, sef yr hon a hwrcaswyd yn y cynghor tragwyddol, a sefydlwyd gan y patriarcibiaid, y prophwydi, gan Grist, a'r apostolion,

ac yn y tro diweddaf hwn, sef yr unfed awr ar ddeg, er dwyn i mewn “ogoniant y dydd diweddaf,” “cyflawnder y Cenedloedd,” “adferiad Judah,” a “gweddillion Israel,” i.e. fel y delo “yr amseroedd adferiad pob peth” a lefarodd Duw trwy enau ei holl sant-aidd brophwydi erioed, er darparu y ffordd i ail ddyfodiad y Messia i deyrnasu yn fuddugoliaethus ar ei holl elynion mewn gogoniant, am fil o flynyddau. Os dyma y wir grefydd, pa ganlyniadau pwysig sydd yn dilyn ei derbynriad a’i gwrthodiad!

### EGWYDDORION CYNTAF CRISTIONOGAETH.

Yr egwyddorion cyntaf yn nghyflawnder yr efengyl dragywyddol yn yr oes hon, fel yn mhob oes flaenorol, ydynt:—

*Yn Gyntaf*,—Credw yn Iesu Grist, fel Iachawdwr ac iawn croeshoelidig ac adgyfodedig.

*Yn Ail*,—Edifarhau am eu holl bechodau, a’u gadael, gan rodiö bywyd newydd, gwneuthur cyflawnder â phob dyn, a gwasanaethu Duw.

*Yn Drydydd* (ond nid yn gyntaf nac yn ail),—Cymmeryd ei gladdu mewn dwfr a’i gyfodi, gan un o weision anfonedig Duw, yn enw Iesu Grist, er maddeuant pechodau. Gwel Act. xi, 38, a xxii, 16; 1 Pedr iii, 21, &c.

*Yn Bedwerydd*,—Derbyn yr Ysbryd Glân, trwy arddodiad dwylaw henuriaid eglwys Iesu Grist, *Saint y Dyddiau Diweddaf*. Gwel Act. viii, 17, 18, 20, a xix, 6; 1 Tim. iv, 14; 2 Tim. i, 6; Heb. vi, 1, 2.

*Yn Bummed*,—Credw yn, a gweddiö am gael mwynhau y doniau ysbrydol, a’r bendithion daionus, a fwynheid gan y rhai a ufyddhaent i’r gyfundrefn nefolaidd hon yn y cyn-oesoedd; megys, ymadrodd doethineb—ymadrodd gwybodaeth—ffydd wyrthiol—dawn iachâu, a derbyn iechyd, trwy enneinio ag olew cyssegredig yn enw yr Arglwydd, gweddi’r ffydd, ac arddodiad dwylaw. Gwel Iago v, 14, 15; Marc xvi, 18. Hefyd, ymdrechu cael dawn y brophwydoliaeth, gwahaniaeth ysbrydoedd, llefaru â thafodau dycithr, cyfieithu yr unrhyw, cael dadguddiadau oddiwrth Dduw, gweinigogacth angylaidd, cymdeithas ysbrydion daionus o’r byd tragwyddol mewn gweledigaethau, &c., a phob bendithion creill sydd yn addawedig yn yr ysgrhythrau i blant Duw. Gwel 1 Cor. xii, a xiv, 1, 5, 18, 39; Act. ii, 39, a xix, 6; Marc xvi, 17, 18; Eph. iv, 11—14, &c.

*Yn Chweched*.—Dylai pob un a broffesa y gyfundrefn hon, fyw yn santaidd a chyfiawn, gan weddio â phob rhyw weddi, megys y rhoddo yr Ysbryd iddynt ymadrodd; gwneyd daioni i bawb, yn enwedig i deulu y ffydd; gweddio dros y rhai a wnel niwed iddynt, ac a'u herlidiant; ymddidoli oddiwrth yr holl Babel-ffurfiau, a phob ffurf o athrawiaeth afiachus, gan gofio fod y cyfryw yn llygru moesau da; deuwech allan o Babilon, na fyddwch gyfranog o'i phechodau, rhag i chwi dderbyn o'i phlâau.

*Ac yn olaf*.—Dylai y rhai a ddeuant mewn i rwymyn y cyfammod newydd hwn, a chyflawnder yr efengyl, wyllo a gweddio, fel nad elont i brofedigaeth, ond bod yn barod, gan ddysgwyl am ddyfodiad Mab y Dyn; canys efe a ddaw yn ddisymwth a diatreg ar blant y tywyllwch, pan ddywedant, Heddwch, heddwch; pan y byddant hwy, wedi yr holl rybyddio, fel yr oedd yn nyddiau Noah, yn bwyta ac yn yfed, yn priodi a rhoi i brïodas, a bwrw y dydd drwg yn mhell oddi wrthynt; am hyny, yn yr awr ni thybiant y daw Mab y Dyn.

Dyma ydyw y darluniad cywir o'r gyfundrefn efengylaidd yn ol yr ysgrythyrau, ac fel y mae gan Saint y Dyddiau Diweddaf, a phob peth a'r sydd yn groes i hyn o'r drwg y mae; ac os daw neb atoch, gan broffesu bod yn weision i Dduw, heb ddwyn yr athrawiaeth hon—ie, "pe bai angel o'r nef yn efengylu i chwi yn amgen nâ'r pethau hyn, bydded anathema." Fel y dywed Ioan, y dywedwn ninnau—"Od oes neb yn dyfod atoch, ac heb ddwyn y ddysgeidiaeth hon, na dderbyniwch ef i dy, ac na ddywedwch Duw yn rhwydd wrtho; canys yr hwn sydd yn dywedyd Duw yn rhwydd wrtho, sydd gyfranog o'i weithredoedd drwg ef." Mynych y cyhuddir ni o bregetha efengyl newydd, gan dafu yr ysgrythyrau hyn i'n gwyneban, ie, gan rai mor gydwybodol â Dafydd gynt, pan roddes y ddedfryd arno ei hun; ac nid addasach i Nathan ddweyd wrtho ef, "Tydi yw y gwr," nag a fyddai i ninnau ddweyd yr un peth wrth ein cyhuddwyr hyn. A'r neb a gymmero y drafferth o gymharu ein profes â'r ysgrythyrau a welant yn eglur, mai camgyhuddiad hollol yw hyny, ac mai y gyfundrefn dragwyddol sydd genym ni—mai ein cyhuddwyr sydd yn pregethu efengylau newyddion, pe baent efengylau hefyd. Gymro mwyn, paid a'u coelio, heb chwilio drosot dy hun; canys gwell gan rai o'r cyfryw dy weled ti yn colli dy fywyd, râ gweled gobaith eu helw eu hunain yn pallu; ac yna gwaeddant yn groch, Ymaith â'r bobl hyn, y maent yn dweyd yn erbyn ein "duwies fawr," yr hon y mae ein taclau wedi bod yn addoli.

## DADGUDDIAD Y LLAFNAU AUR.

[PARHAD O DUD. 22.]

AR y pryd ei dygir i'r amlwg drwy allu Duw, lluoedd o'r cenedloedd a'i derbyniant; ac wedi hyny y dygir gweddill Israel i gorlan eu Gwardwr, drwy ufyddhau iddo hefyd. Deisyfodd y rhai hyny a gadwasant orchymynion yr Arglwydd ar y tir hwn, y pethau hyn ganddo, a thrwy weddi ffyddiog derbyniasant yr addewid, os byddai i'w plant droseddu, a myned i ddirywiad, yr adferid yr oraclau hyn i'w hâd. Pethau santaidd yw y rhai hyn, a rhaid eu cadw felly; canys rhaid cwblhau addewid yr Arglwydd yn eu cyflawniad. Ni ddichon neb eu derbyn oddieithr ei fod o galon bur, o herwydd eu bod yn cynnwys pethau santaidd. Trwyddynt y gwna yr Arglwydd waith mawr a rhyfeddol. Doethineb y doethion a balla, a deall y rhai deallgar a ymguddia, o herwydd yr amlygir gallu Duw. Y rhai a broffesant y gwirionedd, ond a rodiant mewn twyll, a ymgynddeiriogant i'w erbyn gan lid; ond trwy arwyddion a rhyfeddodau, trwy roddion iachâu—amlygiadau o allu Duw, a thrwy yr Ysbryd Glân, y dyddenir calonau y ffyddloniaid. Ti a welaist yn awr allu Duw, a nerth Satan; gwel nad oes dim dymunol yn ngweithredoedd y tywyllwch; ni allant ddwyn dedwyddwch, a thruenus fydd y rhai a oddiweddir ganddynt: tra, o'r ochr orall, y rhai cyfiawn a fendithir ag etifeddiaeth yn nheyrnas Dduw, a llawenydd annhraethol a'u hamgylcha. Yno y gorphwysant, tuhwnt i gyrhaedd gelynyon y gwirionedd, lle nid aflonydda y drwg hwynt. Yn wastadol eu coronir â gogoniant Duw, y gwleddant ar ei ddaioni, ac y mwynhant wedd ei wyneb. Wele! er i ti weled yr amlygiadau hyn o'r fath allu mawr, fel y gelli bob amser adnabod yr un drwg; etto, mi a roddaf i ti arwydd arall, fel pan ei cyflawnir y gwybyddi mai yr Arglwydd sydd Dduw, ac a deyrnasa; efe a gwblha ei friadau, ac a ddwg y wybodaeth a gynnwysa yr oraclau hyn i bob cenedl, llwyth, iaith, a phobl dân yr holl nefoedd. Hyn yw'r arwydd: pan y dechreuant glywed ddarfod i Dduw amlygu y pethau hyn i ti, gweithredwyr anwiredd a geisiant dy ddadymchwelyd. Traethant a chyhoeddant ystoriau, a chyhuddiadau celwyddog am danat, i ddrygu dy gymmeriad, a hwy a geisiant dy fywyd yn ddiachos; ond cofia hyn, os byddi ffyddlon, gan barhau i gadw gorchymynion yr Arglwydd o hyn allan, efe a'th wareda o'u dwylaw, ac a'th alluoga i ddwyn gwybodaeth o'r oraclau hyn i ddyinion; canys mewn amser cyfaddas y dyry Duw orchymyn ar i ti eu derbyn. Wedi eu cyfieithu, rhydd yr Arglwydd yr offeiriadaeth santaidd i rai, a hwy a ddechreuant gyhoeddi yr efengyl hon, gan fed-

yddio mewn dwfr er maddeuant pechodau, ac wedi hyny derbyniant awdurdod i gyfranu yr Ysbryd Glân drwy arddodiad dwylaw. Yna, eynnydda yr erlidigaeth fwy-fwy, o herwydd amlygir twyll dynion drygionus; a'r rhai nad ydynt wedi adeiladu ar y graig a geisiant ddadymchwelyd yr eglwys, ond hi a gynnydda po fwyaf ei gwrthwynebir, ac a ymladaena yn eangach, gan gynnyddu mewn gwybodaeth hyd oni pherffeithir, a derbyn o honi ei hetifeddiaeth, pan y bydd gogoniant Duw yn gorphwys arni. A phan y cymmer y pethau hyn le, ac y bydd pob peth yn barod, dadguddir deg llwyth Israel yn ngwlad y gogledd, yn mha le y maent yn trigo er's amseroedd maith; a phan gyflawner hyn oll, y daw i ben yr hyn a ddywedodd y proffwyd,—' Y Gwaredwr a ddaw i Seion, ac a dry ymaith annuwioldeb oddiwrth Jacob, medd yr Arglwydd.' Ond, er i weithredwyr anwiredd geisio dy ddyfetha, braich yr Arglwydd a'th amddiffyna, ac a'th wna yn fuddygoliaethus arnynt oll, i ddwyn y pethau hyn i'r amlwg, os cedwi ei orchymynion. Dy enw a adnabyddir yn mhlith y cenedloedd, canys y gwaith a wna yr Arglwydd drwyot a achosa i'r rhai pur o galon lawenhau, ac i'r drygionus a'r cenfigenus gynddeiriogi; gan y naill y bydd yn barchus ac yn anrhydeddus, a ehan y llall yn wawdus a dirmygus; er hyny, iddynt hwythau y pâr ddychryn ac arswyd, o herwydd y gwaith mawr a rhyfeddol a ganlyna ddyfodiad cyflawnder yr efengyl hon i'r byd. Yn awr, dos ymaith yn llawen; cofia, pa bethau mawrion a wnaeth yr Arglwydd i ti. Bydd ddyfal i gadw ei orchymynion, ac efe a'th wared rhag temasiynau, maglau, a chyfrwysdra y drygionus, nes eyslawni dy waith. Nac anghofia weddio, fel y cryfhaer dy feddwl, fel pan ddadguddio efe i ti, y galluoger di i ddiane rhag y drwg, ac i dderbyn yr oraclau gwerthfawr hyn."

Rhoddlwyd llawer ychwaneg o gynghorion a gwybodaethau, drwy enau yr angel i Mr. Smith, y rhai y'nt rhyfaith i'w cyhoeddi yna. Yn nghorff y pedair blynedd ganlynol cafodd lawer o ddadguddiadau o bryd i bryd, drwy enau cenadon nefolaidd; ac ar foreu yr 22ain o fis Medi, 1827, angel yr Arglwydd a gyflwynodd yr oraclau i'w ddwylaw. Ac yn awr, ddarllenwyd, beth mewn gwirionedd sydd yn gwneuthur i'r gwirioneddau hyn ynkddangos yn fwy afresymol neu anhygoel yn eindyddian ni, nag oedd i'r cyfryw genadon nefolaidd wneuthur pethau eyffelyb i creill yn y cyn-oesoedd? Anturiaf ddweyd na ddichon neb a gredant y naill gael allan un ateb, na chynyg un wrthddadl i'r llall, ond ystorïau disail traddodiad a rhagfarn. Etto, nid ydym ni yn gofyn i neb ymorphwys ar dystiolaeth Joseph Smith yn unig am y gwirionedd o hyn, ddim niwy nag y gwnawn ninnau; ond y mae cannoedd o

floedd yn awr yn fyw yn mhedwar cwr y byd, a channoedd yn Nghymru yn awr, wedi cael tystiolaethau digonol gan Dduw yn ol ei addewid, mai gwir yw; ac nid hyn yn unig ychwaith, ond caiff pob un gonest ei galon a ufyddhao i'r efengyl dragwyddol hon, dystiolaethau hefyd o'r un man iddynt eu hunain. Dyma addewid werthfawr, onidê? Yna, prawf hi, a gwel mai gwir yw.

### DESGRIFIAD O'R LLAFNAU.

WEDI profi yn y rhifyn blaenorol o'r PROPHWYD fod gweinidogaeth angyliaidd, yn y dyddiau diweddaf hyn, yn rhesymol, ysgrythyrol, ac yn ffaith wirioneddol; rhoddasom ychydig o hanes ymweliad cenadon santaidd â Mr. Joseph Smith yn yr America, eu cenadwri, darganfyddiad rhyfeddol o hen oraclau gwerthfawr, a'r modd eu traddodwyd i'w ddwyllaw; ac yn ol ein haddewid rhoddwn ddesgrifiad o honynt, y modd y cyfieithwyd hwynt, tystiolaethau y rhai a'u gwelsant â'u llygaid, a'u teimlasant â'u dwyllaw, ac o ganlyniad a wyddent y pethau y tystient o'u herwydd. Rhoddwn hefyd grynodedb byr o gynnwysiad yr oraclau hen, defnyddiol, a gogoneddus hyn. Y mae ein hadnabyddiaeth brofiadol o ragfarn a'i heffeithiau andwyol, yn ddigonol i'n hesgusodi am rybyddio y darllynydd hynaws i beidio â barnu yr hanes ganlynol, yn ol yr ystorïau disail sydd eisoes wedi gorlenwi y wlad o'r bron am dano. Ac, er ei fwyn ei hun a'r gwirionedd, na phwysed ef ychwaith yn nghlorïanau credoawl yr oes. Pe na buasai dim a wnelai angylion â'r darganfyddiad o'r oraclau cyfeiriedig, diammau y buasai haneswyr doethion a mawrion y wlad yn ei gymmeradwyo fel y peth gwerthfawrocaf a gymmerodd le ar y cyfandir er ei sefydliad cyntefig; cawsai yr astell nesaf i'r uwchaf yn llyfrgelloedd y duwinyddion, a gwelsid ef wedi ei oreuro, ac yn ei le priodol ar ford penaethiaid y ddaear; i.e., buasai yn achosi cyfnod newydd yn hanesyddiaeth y byd! O'r fath wrthwynebiad mawr sydd gau y teulu dynol i'r angylion gyfrinachau â hwynt yn ein dyddiau ni! Pa le y mae yr egwyddor hanfodol a grewyd mewn dyn, er ei addasu i gymdeithasu â'i frodyr oddifry? A ydyw wedi diflannu yn hollol o'r hil ddynol, erbyn hyn? Pe le y mae rheswm? Ai traddodiad a'i llyncodd yn llwyr? Cafwyd allan lawer o bethau ereill mwy anhygoel ar y cyfandir, a manau ereill, nâ'r pethau dan sylw; ond coelir y naill yn gyffredinol, a gwedir y lleill yn ngwyneb ffeithiau anwrthwynebadwy a dwyfol! Cofus genym am un amgylchiad nodedig a ddaeth dan ein sylw tra yno; er enghraifft, i brofi yr hyn a ddywedwyd, ac i ddangos afresymoldeb a grym rhagfarn. Ar yr 16eg o Ebrill, 1843, breuddwydiodd dyn o'r enw Robert Wiley, marsiandwr yn Kinderhook, swydd Pike, talaeth Ills, fod rhyw drysorau cuddiedig mewn moel-glawdd adnabyddus iddo yn y gymnydogacth;



ac wedi tirio am oddeutu tair troedfedd ar ddeg o'r wyneb, cafodd chwech o lafnau pres, pedair modfedd o hyd, modfedd a thri chwarter eu lled yn y naill ben, a dwy fodfedd a thri chwarter eu lled yn y pen arall; pedair rhestr o llythyrenau (*hieroglyphics*) ar bob ochr iddynt. Ar un o'r llafnau mae llun tri phenglog, y mwyaf yn y canol, wedi eu hamgylchu â phelydrau cyffielyb i'r hyn a welir yn amgylchu pen ein Hiachawdwr yn y darluniau a wueir o hono yn awr. Odditau y ddau leiaf y mae llun dau bren, a'u cangenau; ar un o'r llafnau y mae llun pen mawr, a llun dwy law yn cyfeirio ato. Gwelsom y llafnau hyn, a chyhoeddwyd y peth drwy'r newyddiaduron, ac ni chlywais fod neb yn anghredu; ond pe buasai yr hwn a'u cafodd yn ynganu gair, fod dim a wnelai angylion â'r peth, nid y'm yn meddwl y buasai yntau yn cael ei goelio am hyn, yn gynt nag y coelir Joseph Smith, ddarfod iddo yntau gael llafnau aur. Felly y mae rhagfarn mor gref yn erhyn angylion, fel y gwell gan bobl gredu tystiolaeth y deist profsedig hwn, nâ'r dyn duwiol arall. Y mae pob arwyddion yn profi fod y llafnau hyn wedi bod yn guddiedig yno er's oesoedd lawer, canys yr oedd coed o ddwy droedfedd a hanner o drwch yn tyfu ar ben y moelydd celfyddydol hyny. Y mae doethion y byd wedi bod yn dychymmygu llawer o barthed i ddechrenad y moelydd hyn, a llawer o weddillion ereill o adciladau yr henafiaid; ond y mae eu hanes a'u gwneuthurwyr, a phob peth arall a berthyn iddynt, yn hollol anwybodus i'r byd; ond yr hyn a amlygir ar y llafnau a ddygir i'r amlwg o bryd i bryd. Ac onid yw y darganfyddiad o'r naill ag a addefir yn gyffredinol (a'r neb a ammheuo, a all weled y darlun o honynt yma), yn addefiad hefyd o'r llall? Ac onid yw y ffaith, fod y Joseph Smith annysgedig hwnw wedi cyfieithu y naill lafnau, tra mae gwybodaeth o'r *hieroglyphics* wedi ei cholli o'r byd, o'r bron er's oesoedd, oddieithr rhai llythyrenau o honynt, yn profi hefyd ddarfod iddo gyfieithu yn gywir y lleill a rôddwyd iddo yntau drwy weinidogaeth angylaid. Diammau eu bod, at y lluoedd ereill a ellid nodi, yn ffeithiau anwrthwynebol yu ngolwg pob dyn rhesymol.

Ond i ddychwelyd at yr hanes am y llafnau aur, canys ymddangosent fel y cyfryw. Yr oedd yr *hieroglyphics* wedi eu cerfio arnynt, o bob tu. Maint y llafnau oedd o saith i wyth modfedd o hyd a lled, ac yn deneuach nâ'r *tin* cyffredin, wedi eu rhwymo yn gyfrol, a thair o fodrwyau drwy dyllau yn y naill ymyl i'r cyfan. Yr oedd y gyfrol oddeutu chwe modfedd o drwch, a rhan o honi yn seliedig. Yr oedd y llythyrenau ar y rhan anseliedig yn fychain a chywrain iawn. Yr oedd pob arwyddion yn arddangos henafiaeth y llyfr hwn, a chywreirwydd mawr yn ei gerfiadaeth. Gyda'r oraclau hyn, cafwyd offeryn rhyfedd, a elwid gan yr henafiaid yn *Uriu* a *Thummim*, yr hwn a gynnwys ddwy 'gareg dryloywou mor ddysclaer â'r grisial, wedi eu gosod un yu mheb ochr i fwa. Arferid yr offeryn hwn yu y cynoesocdd gau y "gwylicd-

yddion," a thrwyddo y dadguddid iddynt bethau mynedol a dyfedol, yu mhell ac yn agos.

### ERLIDIGAETH YN NGHYLCH Y LLAFNAU.

PAN ddeallodd y cymmydogion fod Mr. Smith wedi gweled gweledigaethau nefolaidd, a chael yr oraclau santaidd hyny, dechreuasant ei wawdio a'i erlid; hyd y nod pan oedd yn eu dwyn i'w dy, ymosododd dau ddyn arno yn y goedwig, pa rai oeddynt wedi bod yn llechu yno yn bwrpasol, i ddwyn yr oraclau oddiarno ar ei ddychweliad yn ol; canys yr oedd cynhwrf mawr drwy'r cylchoedd hyny er yr amser yr hysbyswyd iddo y caffai hwynt, a phawb mewn dysgwyliad neu ofnau; tarawodd un o'r ddau Mr. Smith â phastwn cyn iddo eu gweled; ond gan ei fod yn ddyn cryf iawn, ac yn fawr o gorffolaeth, drwy ymdrech galed cafodd ei hun yn rhydd o'u gafaelion, a rhedodd tua char-tref, a hwythau yn ei ddilyn hyd at dy ei dad o'r bron, ac wedi methu cael gafael ynddo drachefn, diangasant ymaith, a rhag ofn eu dala, cilia-sant o'r wlad dan glwyfau, ac ni chlybuwyd son am danynt inwy; ond ddarfod i wraig un o honynt, yn mhen pymtheg mlynedd, ddygwydd bod mewn cwmni yn Lloegr lle yr oeddid yn traethu ystoriau am y gwaethaf am y saint, ac addef mai ei gŵr hi oedd un o'r ddau uchod, na fu byth yn iach wedi hyny, ond ei fod wedi marw o herwydd y peth, ac mai dyna'r achos iddi hithau adael y wlad. Ond cyn i'r ddau ddyn aur, a buan yr aeth y swm drwy'r cylchoedd hyny, ac y dechreuasant ddyfaisio ystoriau celwyddog. a changyhuddiadau er drygu ei gymmeriad, yu ol yr hyn a ddywedodd yr angel wrtho yn flaenorol; ac nid yn unig yr oedd pob math a rhywogaeth o chwedlau yn ehedeg ar aden-ydd yr awel am dano, ond mynych yr ymosodai terfysglu o ddynion drwg ar y ty yn y nos. Amryw weithiau y saethwyd ato, ac y bu mewn perygl mawr am ei fywyd. Pob dyfais a chynllwyn drwg ag a allent ddyfaisio, a gynygiwyd er cael y llafnau oddiarno. Gan fod ei fywyd mewn perygl o hyd oddiwrth y fath gynghorfa o ddynion creulon a dryg-ionus, penderfynodd ymadael o'r lle hwnw, a symud i Pensylfania; ac o ganlyniad rhoddodd yr ychydig nwyfau a fwriadai gymmeryd gydag ef mewn pedrolfen, gan guddio y llafnau yn ngwaelod barilaid o ffa. Nid aeth efe neppell cyn i ddyn ei oddiweddyd, a gorchymyn iddo sefyll, fod ganddo *search warrant* i chwilio ei bedrolfen, er na ddywedai am ba beth; ond gwyddai Mr. Smith mai ei amcan oedd cael gafael ar y llafnau; ac wedi chwilio pob man ond y lle yr oeddynt, aeth ymaith mewn siomedigaeth fawr. Wedi iddo fyned yn mlaen, daeth un arall yn yr un modd, a chyda'r un dyben, ac wedi troi y cyfan o'r bron y tu arall allan, aeth yntau ymaith yn ddigllon o herwydd ei siomedigaeth. Wedi hyny aeth Mr. Smith yn mlaen, heb neb i'w aflonyddu nes cyrhaedd cwr gogleddol Pennsylvania, ar gyfer yr afon Susquehanah, lle y bwriadasai fyned wrth gychwyn.

### HANES CYFIEITHIAD Y LLAFNAU.

WEDI i Joseph Smith ddarparu iddo ei hun gartrefle, dechreuodd gyfieithu yr oraclau, drwy gymhorth Duw, ac offerynoldeb yr urim a'r

thumim. Gan nad oedd efe ond ysgrifenydd anfedrus, cyflogodd ddydd yn ysgrifenu y cyfieithiad o'i enau ei hun. Yn y cyfamser, copiwyd ychydig o hen lythyrenau y llafnau yn fanwl gan Mr. Smith, pa rai, ynghyd â'r cyfieithiad o rai o honynt, a ddygwyd gan foneddwr o'r enw Martin Harris, i ddinas Caerefrog Newydd, yr hwn a'u dangosodd i ieithwr dysgedig o'r enw Dr. Anthon, yr hwn a broffesai ei fod yn deall llawer a ieithoedd hen a diweddar. Wedi syllu arnynt yn fanwl am yspaid, dywedodd na allai eu cyfieithu yn gywir, ond cyfieithodd ambell rai yma a thraw, gan eu hysgrifenu ar bapyr; yna dywedodd, pe dygid y llyfr iddo, y gallai fod yn gynnorthwy i'w cyfieithu. Holai Mr. Harris yn eu cylch, gan bwy ac yn mha le y cafwyd; dywedodd mai *Egyptian hieroglyphics* hen iawn oeddynt, ac na wyddai am neb a allai eu cyfieithu yn gywirach nâ'i hunan. Gwrandawai yn astud iawn ar Mr. Harris yn adrodd yr hanes, hyd nes iddo ddywedyd mai angel a'u rhoddodd i ddydd ieuanc o'i gydnabod. Neidiodd y Doctor ar ei draed mewn gwylltineb, pan glywodd am yr angel. "Twyll, twyll i gyd," ebe ef; "sôn am angel yn awr yn wir!—celwydd i gyd—ymaith â chwi," ebe ef; a than waeddi "Pw, pw!" taflodd yr hyn a gyfieithasai y tu cefn i'r tân; ond bu Mr. Harris ddigon heinyf i'w cipio oddi yno cyn eu difa; ac er cymmaint ei ragfarn, cyhoeddwyd y cyfan yn y papyrâu newyddion yno, ynghyd â'r ymddyddan a fu rhwng y ddau, a chyfaddefodd y Doctor wed'yn i'r gwirionedd o hono. A'r neb a gred y Bibl, a gaiff hollol foddlonrwydd wrth gymharu y pethau hyn â'r hyn a welir yn Isaiah xxix, 11—"A gweledigaeth pob un o honynt sydd i chwi fel GEIRIAU llyfr seliedig, yr hwn os rhoddant ef at un a fedr ar lyfr, gan ddywedyd, Darllen hwn, attolwg; yna y dywed, Ni allaf; canys seliwyd ef." Adn. 12—"Os rhoddir y LLYFR at yr hwn ni fedr ar lyfr, gan ddywedyd, Darllen hwn, attolwg; yna y dywed, Ni fedraf ar lyfr." Wele gyflawniad llythyrenol o brophwydoliaeth hynod, yn mhen dros ddwy fil o flynyddoedd wedi ei chyhoeddi, a thair gwaith cynnifer â hyny o filltiroedd o'r fan lle ei thraddodwyd! Onid yw yn dystiolaeth gadarn? Gwelir mai GEIRIAU y llyfr oedd i'w rhoddi i'r dysgedig, i.e., geiriau y llyfr "seliedig" hwnw. Ond rhoddid y LLYFR ei hun "i'r hwn ni fedrai ar lyfr," sef Joseph Smith; ac felly y gwnaed. Efallai y rhyfedda rhai o rai "ofnadwy" a "gwatwarus" yr oes hon ein bod yn anturio profi geirwiredd Llyfr Mormon drwy yr ysgrythrau, ond ni raid iddynt mwyach; canys oni bai fod y Bibl yn ei brofi yn wir, ni chredid mo hono genym ni mwy nâ hwythau. O, ýdynt; mae y prophwydi wedi dweyd yn eglur am dano mewn llawer oes, ynghyd â'r gwaith mawr a gogoneddus a wnelai Duw ar y ddaear, pan yr amlygai Llyfr Mormon i'r byd: gwel adn. 14 o'r un bennod—"Am hyny, wele fi yn myned rhagof i wneuthur yn rhyfedd yn nysg y *bobl hyn*, sef *gwyrthiau* a *rhyfeddodau*; canys dyfethir doethineb eu doethion hwynt, a deall eu rhai deallgar hwynt a ymguddia." Er gweled pa bryd yr oedd y pethau hyn i gymmeryd lle, dilyner "*y bobl hyn*" yna. Gwel yr adnod flaenorol—"Oherwydd bod y *bobl hyn* yn nesáu ataf â'u geneau, ac yn fy anrhydeddu â'u gwefusau, a phellhau o'u calon oddiwrthyf, a bod eu hofn tuag ataf fi wedi ei ddsygu allan o athrawiaethau dynion." "*Y bobl hyn*" fydd yn cyd-oesi â dyfodiad "*y llyfr seliedig*" i'r amlwg. Pe buasai y prophwyd yn byw yn y

bedwaredd ganrif ar bymtheg, ai tybied y gallasai roddi desgrifiad manylach a chywreiniach o honi, nag a roes yma?

Dywed rhai fod y pethau hyn wedi eu cyflawni yn y cyn oesoedd; ond darlened y cyfryw hi etto, er deall yn well, yn enwedig adn. 17—“Onid ychydig bach fydd etto [sef ar ol dechreu y gwaith mawr, pan amlygir “y llyfr seliedig”], hyd oni throir Libanus [anialwch eang yn Palestina] yn ddoldir, a'r doldir a gyfrifir yn goed.” Adn. 18—“A'r dydd hwnw, y rhai byddar a glywant *ewiau y LLYFR*, a llygaid y deillion a welant allan o niwl a thywyllwch.” Dyna wyrthiau mawr, ouide? etto, nid mwy nag a gyflawnwyd eisoes er pan ddaeth y llyfr seliedig hwn i'r amlwg; h. y., os gwir a dystia y llygaid hyn i mi. Amlwg yw, drwy y bennod hon, ond yn neillduol adn. 22, mai gwaith mor ddiweddar a'n hoes ni yw hwn, pan y bydd yr Arelwydd yn cyflawni ei gyfammod ag Abraham, sef—“Myfi a roddaf i ti, ac i'th hâd, wlad dy ymdaith yn etifeddiaeth byth ac yn dragywydd;” ac yma dywed, “Weithian ni chywilyddir Jacob [ei hâd yn mhlith y cenedlloedd], ac ni lasa ei wyneb ef.” Paham hyny? Adn. 23 a ctyb—“Eithr pan welo ei feibion, gwaith fy nwyllaw, o'i fewn [yn meddiannu “gwlad ei ymdaith,” wedi eu gwsgariad diweddar], hwy a santeiddiant fy enw; ie, santeiddiant *Sanct Jacob* [Iesu Grist, eu Messiah], ac a ofnant Dduw Israel.” Am wrthod “Sanct yr Israel,” eu gwsgared i bedwar cwr y byd. Gan mai yr un yw Jacob ac Israel, yr un yw Sanct y naill enw a'r llall; a gŵyr pawb nad yw holl Israel yn santeiddio enw Mab Duw hyd yn hyn, ond ei wrthod am dwylwr; ond pan gwblheir y brophwydoliaeth uchod, credant ynddo, er nad cyn eu casglu yn ol i'w gwlad ychwaith, ond wedi hyny. Felly, y mae yn ddigon eglur fod Isaiah, heblaw llawer o brophwydi ereill, yn profi dwyfoldeb Llyfr Mormon, y rhai a ddygir yn mlaen yn eu pryd; ond am y tro hwn, awn yn mlaen gyda'r hanes.

Parhaodd Mr. Smith i gyfieithu, mor ddiwyd ag y caniatâi ei amgylchiadau iddo wneyd, hyd nes gorphen y rhan anseliedig o'r llafnau, yr hyn a enwir yn “*LLYFR MORMON*,” ac a gynnwysa yn agos gymmaint o ddarllen a'r Hen Destament.

### LLYFR MORMON—EI DDESGRIFIAD.

Yr ydym wedi rhoddi hanes byr, yn y bennod flaenorol, am darddiad y llyfr rhyfeddol hwn, ag sydd wedi peri y fath gynhwrf, llawenydd, celwyddau, a gwirioneddau, wedi achosi y fath chwykdroad annhracthol drwy bedwar cwr y byd, nes y mae yr holl bobloedd o'r bron eisoes yn ymfyddino o'i blaidd, neu i'w erbyn. Er pan ymddangosodd gyntaf i'r byd, ymosododd bugêiliaid a phenaethiaid y bobl i'w erbyn â holl nerth eu pen; cipiodd awduron eu chwedlau dyfeisiol hwythau, nes y mae clustiau y bobloedd yn merwino, gan sŵn eu clychau yn tinciau, “Twyllwyr, gau-athrawon, gau-brophwydi, ffyliaid, dichellwyr cyfiwys, celwyddwyr,” &c., &c.; ac y mae hyny yn adleisio oddiar flaenau tafodau crefyddwyr, meddwon, cablwyr dysgedig ac annysgedig. Y maent erbyn hyn wedi lleisio ac adleisio nes syfrdanu y byd o'r bron, a bod yn ddefnyddiol, er o'u hanfodd, i rybyddio y bobloedd am dano;

ac yn nghanol y dwndwr i gyd, y mae y rhai gonest eu hegwyddor, sydd yn chwilio am y gwir, yn gofyn iddynt, beth yw yr achos o'r holl gynhwrf rhyfedd hwn? Paham yr ymuna pawb, o hob plaid a diblaid, mawr a bach, boneddig a gwreng, yn mhob gwlad, i wrthwynebu y bobl hyn? Yr unig ateb a ellid gael ganddynt fyddai:—"O, ni wyddom ni yn iawn beth yw y mater, ond fod rhyw ddynionach twyllodrus a diddysg wedi dyfod i'n plith, fel yr apostolion gynt; gan dystiolaethu fod angylion wedi ymddangos i ryw ddynion yn y dyddiau hyn; proffesant gael dadguddiadau, gwyrthiau, &c., fel pe bai eisieu adferu crefydd y cyn-oesoedd, a'r ffydd hono unwaith a roddwyd i'r saint, i'n plith ni yn yr oes oleu hon; a thrwy hyny peryglant yr holl grefyddau a'r sectau lliosog a roddes ein tadau duwiol i ni, pa rai ydynt wedi eu goruwch adeiladu ar sail doethineb duwinyddion a mawrion y byd i gyd, yn annibynol ar Ysbryd Duw, a'i holl feithiau; dyma yr achos" (meddant); ac yna yn unllaf dyrchafant eu llais, gan waeddi, "Mawr yw doethineb ddynol, mawrion ac ardderchog yw ffurfiau newyddion credoau duwinyddol yr oes hon; mawr yw medrusrwydd ein bugeiliaid anysrydoledig, y rhai ni fynant wybod dim ond eu dychymmygion a'u hopiniynau eu hunain, a rhyfedd fel y boddiant ni â geiriau denu o ddoethineb ddynol heb fod yn eglurhad yr Ysbryd a nerth, canys nid oes eisiau hyny yn awr; onide byddai ein ffydd yn sefyll ar allu Duw yn lle bod ar ddoethineb y doethlion." Nid rhyfedd, ynte, fod mor anhawdd cael gan y werinos, yn nghanol y fath ddwndwr a syfrdandod, wrandaw na chredu hyd y nod y newyddion goreu, melysaf, a hynotaf a gynygiwyd iddynt erioed.

Ni fu un llyfr erioed, debygaf, a gafodd ddweyd cymmaint i'w erbyn gan rai oeddynt yn gwybod cyn lleied am dano, â Llyfr Mormon. Yn mhob gwlad lle yr elo, gorlenwir clustiau y werinos ag ystoriau a ehwedlau mor lliosog ac amrywiol â'u hawdwyr, ac o ganlyniad yn croesi eu gilydd; llawer o honynt wedi eu cyhoeddi a'u pregethu gan rai na welsant y llyfr erioed; ereill gan rai a darawsant eu trem yma a thraw ynddo, yn bwrpasol i bigo gwallau; ac nid anfynych y gwelir dyfyniadau o hono wedi eu gŵyrdroi a'u dirdynnu yn fawr. Desgrifia rhai ef fel dyfais-ehwedl; dywed ereill mai Bibl newydd, i ddifuddio yr hen ydyw. Condemnia y naill ef am y tusw o ffolineb mwyaf disylw a welsant; ereill, mai y cywreiniaf o dwyll oedd yn bosibl ei wneyd yw. Beia rhai arno o herwydd ei fod yn rhy debyg i'r Bibl, yn eyd-dystiolaethu ag ef, ac yna yn afreidiol; ond hacra y lleill mai twyll yw, o herwydd nad yw yn tebygu digon i'r Bibl. Condemnia rhai yr egwyddorion a gynnwysa am eu bod yn anfoesol, hollol ddrygionus, a chabledus; ond cyhoedda ereill o'u brodyr yn eu hwynebau, fod yr egwyddorion yn dysgu moesoldeb, diweirdeb, a santeiddrwydd, fel pe bai wedi ei gyfansoddi yn bwrpasol o dwyllo y ffordd hyny. Yn mhlith ereill, traferthodd un gweinidog dysgedig gymmaint ag i gyhoeddi traethawd yn 60 tud., yn erbyn Llyfr Mormon, &c., gan ei gyhuddo yn ddiârbed o fod yn gynnwysedig o ryw gymmysgedd rhyfeddol o ifol, "*o ffydd a gweithredoedd, o drugareddau Duw, ac o ofyn rhyddod gan ei greaduriaid.*" Cyhoeddodd rhai o wyr mawr yr oes fod ei briod-ddull, ei iaith, a'i gynnwysiad yn profi ei henafiaeth; ac ereill o'r un dosbarth, ei fod yn dwyn pob nodwedd o ffig-waith diweddar. Y

mac rhai yn methu dirnad pa ddefnydd a ddlechon fod, na'r modd i brofi ei eirwiredd, o eisieu na bai ynddo ryw brophwydoliaethau i gael eu cyflawni, wrth ba rai y gallent brofi ei ddwyfoldeb; dyfyna ereill yn helaeth o'r prophwydoliaethau sydd ar gael eu cyflawni, a chondemnant ef am fod yn rhy eglur: nid felly y gwnei yr hen brophwydi, meddant.

Yn awr, yn ngwyneb y fath amrywiaeth o groes-haeriadau am beth mor angenrheidiol i'w iawn ddeall, byddai nid yn unig yn fuddiol iawn, ond dyledus i'r cyffredin i roddi crynoded o gynnwysiad Llyfr Mormon o'u blaen, hyd nes y gallo'n ei argraffu yn y Gymraeg; er nad, fel ein cyhuddir. *yn lle nac i ddfuddio* y Bibl cyssegrlau, mewn un dull na modd. Nid oes un gair ynddo yn croesi y Bibl, ond y mae yn profi dwyfoldeb y Bibl yn anwadadwy, fel na raid ond ei ddarllen, er symud ymaith nid yn unig y caugyluddiad yna, ond pob un arall, a chredu ei eirwiredd ef a'r Bibl hefyd.

### CYN-BRESWYLWYR AMERICA.

Yn y gyfrol werthfawr hon y ceir hanes cyntefig y cyfandir American-aidd, er ei sefydliad borcuol gan drefedigaeth a ddaethant iddo eddiwrth yr ysgariad mawr a gymmerodd le wrth dwr Babel, hyd ddechreu y bunmed ganrif o'r oes Gristionogol. Dengys yr oraclau hyn fod America yn y cyn-oesoedd wedi cael ei sefydlu gan ddwy hiliogaeth o frodorion; y gyntaf a ddaeth yn uniongyrchol o dwr Babel, ac a elwid Jarediaid; yr ail a ddaeth o ddinas Jerusalem, oddentu chwe chant o flynyddau cyn Crist; Israeliad gan nwyaf o lwyth Joseph. Dys-trywiwyd y genedl gyntaf, sef y Jarediaid, oddentu yr amser y daeth yr Israeliad o Jerusalem, y rhai a feddiannasant y wlad ar eu hol hwynt. Tua diwedd y bedwaredd ganrif lladdwyd y nwyrif o'r ail genedl drwy ryfel, a'r gweddill a adfeiliasant yn raddol i anwareidd-dra, nes ymranu yn llawer o genedloedd, pa rai a enwir yn awr gan Ewropiaid, "Yr Indiaid Americanaidd."

Hysbysa yr hen lyfr hwn ni hefyd, fod y Jarediaid yn hobl gyfiawn, ddarfod iddynt gael ffafr yn ngolwg yr Arglwydd, fel na chymmysgwyd eu hiaith hwy fel ereill; ond o herwydd eu cyfiawnder, fod yr Arglwydd wedi eu harwain oddiwrth y tŵr hyd y môr mawr, a gorchymyn iddynt adeiladu llongau, yn mha rai yr hwyliasant dros y môr mawr, ac y ticiasant ar gyfandir Gogledd America. Tyngodd yr Arglwydd wrthynt yn ei lid, os na wasanaethai y rhai a etifeddent y wlad addewedig hon ef, yr unig wir Dduw mewn cyfiawnder, y dyfethai efe hwynt yn ei ddigllonrwydd, pan gyflawnt fesur eu hanwiredd. Ond addawodd, os cadwent ei orchymynion, y gwnelai hwynt y genedl fwyaf a grymusaf o holl genedlaethau y ddaear.

Yn mhen amser cynnyddasant yn ddirfawr, nes dod yn hobl lliosog a nerthok, yn gwladychu dros ran fawr o'r wlad, gan adeiladu dinasoedd mawrion a lliosog, a bod yn bobl wareiddiol a chysurus. Yr oeddynt yn deall amaethyddiaeth a pheiriannau celfyddydol i radclau helaeth. Yr oedd llawer o brophwydi, a phob masgnach yn blodeuo ar hob llaw; ond er hyny, ymwelai yr Arglwydd â hwynt yn aml yn ei farnedigaethau, o herwydd eu drygioni. Llawer o brophwydi a gyfodwyd yn eu plith o

oes i oes, y rhai a rybyddiasant y hobloedd i adael eu ffyrdd drygtonus, ac a brophwydasant am y barnau a'r dinystr a fyddai yn eu goddiweddyd onid edifarhäent. Weithiau ymwelid â hwynt drwy beintiau a phläau; dro arall drwy newyn a rhyfel, nes o'r diwedd (wedi iddynt fod yn trigo yn y wlad am oddeutu un cant ar bymtheg o flynyddau) i'w drygioni amlhau, hyd oni fygythiodd yr Arglwydd drwy enau ei brophwydi, eu diddymu yn hollol oddiar wyneb y wlad. Er hyny nid ystyriasant, nes i'r Arglwydd gwblhau ei air, a'u llwyr ddyfetha, gan adael eu tai, eu dinasoedd, a'u meddiannau yn anghyfanedd. Eu horaclau santaidd, pa rai a gedwid ar y llafnau aur, a guddiwyd gan un o'u prophwydi diweddaf, nes eu darganfod gan weddillion Joseph, pa rai a ddaethant yno o Jerusalem, yn fuan wedi hyny, i etifeddu y wlad.

### PRESWYLLWYR IUDEWIG AMERICA.

ARWEINIWYD y gweddill hyn o lwyth Joseph, mewn modd gwyrthiol, o Jerusalem, yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad Zedekiah, brenin Judah. Arweiniwyd hwynt yn gyntaf i'r ochr ddwyreiniol i'r Môr Coch, ac oddiyno ar hyd ei ochr tua'r de-ddwyrain, ac wedi hyny i'r dwyrain, hyd nes dyfod o honynt hyd y Môr Mawr. Yno yr adeiladasant long, yn ol gorchymyn Duw, yn yr hon y dygwyd hwynt drosto yn ddiogel, gan dirio ar yr ochr ddwyreiniol o gyfandir America. Yn yr unfed flwyddyn ar ddeg o deyrnasiad Zedekiah, oddeutu yr amser y caethgludwyd yr Iuddewon i Babilon, daeth ychwaneg o bobl o Jerusalem, ac yn eu plith raf o lwyth Judah, y rhai a diriasant yn ngogledd-barth America, ac a dramwyasant hyd ochrau gogleddol y deheu-barth, a thrigasant yno, hyd oni chafwyd hwynt allan gan weddill Joseph tua phedwar cant o flynyddau wedi hyny.

Drwy yr oraclau hyn canfyddir fod gweddillion Joseph wedi ymranu yn ddwy genedl, yn fuan wedi dyfod drösodd i'r wlad. Achoswyd yr ymraniad drwy i'r naill fan, yn eu drygioni, erlid ac ymlid y rhan arall ag oeddent gyfiawnaeth nâ hwynt, nes dyfod o honynt i barthau gogleddol y deheu-barth, a gadael y rhanau canol a deheuol yn meddiant y genedl ddrygionus. Enw y genedl gyntaf oedd Nephiaid, oherwydd yr arweinid hwynt gan brophwyd o'r enw Nephi. Gelwid y genedl arall Lamaniaid, oherwydd eu harwain gan ddyn drygionus o'r enw Laman. Yr oedd y Nephiaid yn meddu copi o bun llyfr Moses, ynghyd ag ysgrifeniadau y prophwydi santaidd hyd Jeremiah, yn nyddiau yr hwn y gadawsant Jerusalem; pa rai oeddent wedi eu cerfio ar lafnau, yn y llythyrenau Aifftaid. Yn fuan wedi iddynt ddyfod i'r wlad, gwnaethent hwythau lafnau hefyd, gan gerfio amynt eu hanes, ynghyd â llawer o'r prophwyd-oliaethau, gweledigaethau, a'r dadguddiadau a gawsant. Cedwid yr oraclau cyssegredig hyn gan ddynion santaidd ac ysbrydoledig, pa rai a'u traddodasant i wared o genedlaeth i genedlaeth. Rhoddodd yr Arglwydd iddynt yr holl gyfandir mewn addewid, fel yr etifeddent ef, a'u had ar eu hol, ar yr ammodau o ufydd-dod i'w orchymynion; neu, os anuffyddhaent, y torid hwynt ymaith o'i wyddfod. A'r Nephiaid a ffynasant yn y tir yn gymmesur i'w cyfiawnder, ac a amlhasant yn ddirfawr, gan ymestyn tua'r dwyrain, gorllewin, a gogledd: adciladasant ddinasoedd, synagogau, a themlau, ynghyd â thyrâu, cestyll, gwrth-

gloddiau, ac amddiffynfau cedyrn, i'w dlogeln rhag eu gelynion. Llafuriasant y ddacar, a chodent gnydau amrywiol a thoreithiog; meddiannent ddiadelloedd mawrion, a llawer o anifeiliaid gwasanaetlugar; hyd onid oeddent yn bobl ddedwydd, ac wedi ymgyfoethogi, gan aulder eu hair, arian, copr, alcam, haiarn. Yr oeddent yn gywrain iawn mewn celfyddydau; gwnaent amryw heiriannau cywrain a defnyddiol; gwnaent amrywiaeth o frethynau, &c. Cleddyfau, bidogau, a llawer math o arfau rhyfel, heblaw tarianau ac estyleh, a wncid, ac a ddefnyddid ganddynt, i ynladd â'u gelynion. Ac yn nyddiau eu cyfiawnder, yr oeddynt yn bobl waraidd, medrus, a dedwydd.

Ond, o'r oehr arall, darfu i'r Lamaniaid, o herwydd caldrwydd eu calonau a'u hanufydd-dod, ddwyn barnau Duw ar eu penau mewn llawer o ffyrdd; etto, ni ddyfethwyd hwynt o fod yn genedl, ond melldithiodd yr Arglwydd Dduw hwynt, nes iddynt ddirywio a myned yn bobl annheg yr olwg, eu lliw, a'u harferion; ie, yn bobl sfiائد, yn bobl anwaraidd, greulon, a gwaedlyd; yn clyniacthus iawn i'r Nephiaid, pa rai a geisient oresgyn a dyfetha. Mynych y casglent eu byddinoedd lliosog yn eu herbyn i ryfel; ond gyrid hwynt yn ol gan y Nephiaid bron bob amser, er nad heb golled fawr o'r ddeutu; ac nid anghynych y lleddid miloedd yn eu brwydrau, pa rai a bentyrid yn gelaneddau, ac a orchuddid â phridd, yr hyn a brofir yn wirioneddol drwy y moelydd lliosog a geir yn neau a gogledd America hyd heddyw, yn llawn o esgryn dynion, &c.

Yr ail drefedigaeth a ymadawsant â Jerusalem un mlynedd ar ddeg ar ol gweddill Joseph, a drigasant yn y gogledd, ac wedi hyny a dramwyasant i'r deau, hyd oni chafwyd hwynt gan y Nephiaid; y rhai hyn a elwid pobl Zarahemla. Yr oeddent hwythau wedi myned i ddirywiad mawr, ac yr oedd rhyfel cartrefol yn eu plith er ys blynyddau, ac ni ddygasent hwy oraclau gyda hwynt; felly, yr oedd eu hiaith hefyd wedi llygru a chyfnewid yn fawr. Gwadent y bôd o Dduw; ac er yn bobl lliosog, nid oeddent ond mewn gradd amherffaith o wareidd-dra, pa ymwelodd y Nephiaid â hwynt. Ond yn mhcn amser, wedi i'r Nephiaid ymuno â hwynt, dysgasant iddynt yr ysgrythrau oedd yn eu meddiant; gwareiddiasant hwynt, ac a'u gwnaethant yn un genedl â hwy eu hunain. Yn mhcn yspaid o amser, adeiladodd y Nephiaid longau yn agos i Isthmus Dorien, yn y rhai yr ymfudodd llawer o honynt tua'r gogledd, ac a wladychasant yno. Trefedigaethan ereill a dramwyasant ar hyd y tir i'r un man; ac felly, yn mhcn cannoedd o flynyddau, poblogwyd y cyfandir oll o'r bron. Yr oedd y gogledd-barth y pryd hyn yn amddifad iawn o goed, oherwydd fod y brodorion cynteg wedi eu dystrywio; sef y rhai hyny a ddaethant yno gyntaf oddiwrth dwr Babel, fel y soniwyd; ac o herwydd byny gorsuwyd y Nephiaid i adeiladu eu tai, gan mwyaf o *cement*: cludent llawer o goed yno hefyd o'r deheu-barth, a phlanasant amryw fathau o goeddydd yno befyd, y rhai a ddygid o'r deheu-barth, fel y tyfent i ddiwallu eu hanghenrheidiau yn yr amser dyfodol. Felly, adeiladwyd dinasoedd mawrion, nid yn unig gan y Nephiaid, ond gan y Lamaniaid hefyd, yn mhcn amser. Cedwid cyfraith Moses gan y rhai cyntaf, a chododd Duw brophwydi yn eu plith o bryd i bryd drwy y cenedlaethau. Cedwid llawer o oraclau mawrion ganddynt, yn cynnwys pethau hanesyddol a phrophwydoliaethol, pa rai a gerfid ar lasnau aur, cyfdd, ac amryw ddefnyddiau ereill. Daethant o hyd hefyd i oraclau y genedi gyntefig a ddyfethwyd cyn iddynt lwy



ddyfod yma, y rhai oedd wedi eu cerfio ar lasnan anr; cyfieithasant hwynt i'w hiaith eu hunain, drwy allu Duw, ac offerynoldeb yr urim a'r thumim. Cynnwysent hanes o greadigaeth y byd hyd dwr Babel, ac oddiyno hyd eu dinystr eu hunain, sef mil a phedwar neu bump cant o flynyddau. Cynnwysent hefyd anryw brophwydoliaethau mawrion a rhyfeddol, yn cyrhaedd yn mlaen mewn anseryddiaeth hyd ddiwedd anser y nef a'r ddaear newydd, a thynghedfen dragywyddol pob peth.

Prophwydi y Nephiaid hefyd a brophwydasant bethau mawrion, ac amlygwyd iddynt ddirgeledigaethau y tragywyddolfyd; rhagwelsant ddyfodiad y Messiah yn y cnawd, y pethau rhyfedd a mawrion a gymmerent le yn yr oesoedd dyfodol; y bendithion a'r gogoniant an-nhraethol a fwriada Duw i'w hâd hwy yn y dyddiau diweddaf, yn ol ei arfaeth dragywyddol yn y cyngor boreu. Torent allan mewn ffrydiau o lawenydd a chân, wrth syllu drwy eu hyspienddrychau dwyfol, ar sefydliad llywodraeth yr heddl, teyrnasiad heddychlon cyfiawnder, pan y byddai y hyd wedi ei adferu yn lân. Cofus genym fel y tarawyd y cyhoedd â syndod yn ddiweddar, drwy fod rhyw astronomiyd cyfoethog wedi adeiladu yspieन्द्रych anferthol o faint, er gweled yn mhellach i'r eigion serenol, a deall eu rhifedi, eu cylchoedd, a'u trefn. Ond testid hwnw ac un Hershell hefyd i dir anghof, pe ceid diu ond cip-olwg drwy yr yspieन्द्रych ardderchog hwnw, drwy ba un y gwelai yr hen brophwydi dauwiol hyny, nid yn unig gylehoedd a gogoniant y cyrff lleuadawl ac agos, ond hefyd gyfansoddiad a sefydliad y bydoedd cyn canu o sêr y boreu, ac i feibion Duw lamu o lawenydd,—gwynfydedigrwydd anamgyffredadwy, a gogoniant anol-rheiniadwy y trigfanau tragywyddol hyny, nas gwelodd llygaid, nas clywodd elustian, ac na ddaeth i galon dyn eu dychymmygu. Hefyd, pan edryhent drwy y pen arall iddo, gwelent ddesgrifiad manwl a chywir o derfysgoedd cenedloedd, rhyfelocedd, heintiau, nodau, a phlâau—barnedigaethau Duw ar amherodraethau, dacargrynfaâu, a chwyldroadau; gwelent freninoedd yn ymdreiglo yn y llwch, ac amherawd-wyr ar y tomenau. Ac, yn mhellach etto, gwelent saint y Goruchaf yn meddiannu y freniniaeth, a mawredd y freniniaeth, dan yr holl nefoedd—dyfodiad yr hen Ddihenydd, â'i ben fel gwlan, ac adferiad allweddau yr holl oruchwyliaethau i'w law—mawredd, gogoniant, ac ardderchogrwydd yr Ail Aidda, yn dyfod yn fuddygoliaethus, a'i goron ar ei ben, ei deyrnwialen amherodraethol yn ei law, a'i holl saint gydag ef, yn eu cerbydau awyrawl a hardd;—ie, dangosid iddynt yn awr ac eilwaith yn eu tro, hyd oni welent Frenin y breninoedd yn marchog ar ei farch gwyn, fel ar fôr o wydr, torf ancirif gydag ef mewn gogoniant, a mil myrdd yn tafu eu coronau wrth ei draed, gan ei wasanaethu a'i foli ef, yr hwn a'u carodd, ac a'u prynodd, ac a'u golechodd yn ei waed, o bob llwyth, iaith, pobl, a chenedl dan y nef, ac a'u gwnaeth iddo ef yn freninoedd ac yn offeiriad i deyrnasu *gydag Ef* ar y DDAEAR bertfaith a dihalog. Drwy yr yspieन्द्रych ardderchog hwnw, gwelodd y Nephiaid enedigaeth, croeshoeliad, ac adgyfodiad Mab Duw yn ngwlad eu henafiaid, a chyd-dystiaeth yr elfennau wybrenol a daearol ar y pryd, wirionedd prophwydoliaethau eu tadau. Ond er hyn oll, hwy a gwympasant i ddrygioni mawr, a erlidiasant saint Duw, a'r prophwydi, gan ladd a llabyddio y rhai a anfonai

Duw atynt. Am hyny, oddentu yr amser y croeshoellwyd Mab Duw, tywalltodd Duw ei farnau arnynt. Tywyllwch y fagddu a amdôdd y cyfandir am yspaid, y ddaear gan ing a gofid dan eu canwedd a riddfanai yn erehyll, gan neidio fel bad o flaen cyuddeiriog donau y weilgi; y calch-greigiau gan dlychryn a holltent yn ysgyriou, gan ergydio yn dlarnau yn mhell oddiyno; mynyddoedd cedyrn a suddent i'r llawr, i guddio eu penau mewn cywilydd, ac yn eu cynddaredd digofus berwent nes dyrchafu gwaelodion eu dolydd breision i amdoi eu penau â gorchudd cymylawg, i aros yn gofadail i dystio i'r oesoedd a ddel fel y teimlai yr elfenau eithafion ing a gofid arteithiawl, pan yrid yr hoelion dur i ddwyllaw glân yr lwn a'u gwnaeth; i.e. cydymdeinlent fel pe buasai brathiad y bicell lem a hir yn cyrhaedd drwy eigion eu hymysgaroedd hwythau, pan drywanai calon Creawdwr nef a daear. Llaweroedd o ddinasoedd mawr ar y pryd a beidiasant a bodoli; eu synagogau a'u temlau gwychion a ymrwygasant yn llarpiau; eu seiliau, ynghyd â'u dinasoedd a'u trigolion wrth y miloedd mewn manau yn gyflafan a lynwyd o fod, i eigion tir angof—yno, i gofio ac addef cyflawniad llythyrenol prophwydoliaethau dwyfol eu tadau, yn ol Llyfr Mormon; ac yn Yucatan, Guatimala, Mexico, a llawer o fanau ereill ar y cyfandir, y mae llynau brwmstanaidd a heilltion—adfeiliadau eu cestyll, eu dinasoedd caerog, a llu o ffeithiau ereill, yn aros hyd heddyw, yn dystion geirwir o gyflawniad prophwydoliaethau hynafiaid yr Indiaid Americanaidd, ac o ganlyniad o Lyfr Mormon. Drwy farnau ofnadwy dyfethodd yr Arglwydd y mwyrif o'r Nephiaid a'r Lamaniaid, fel na byddai gwaed y saint a'r prophwydi a laddasant, yn gwaeddi arno am ddial yn hwy.

### CYMMANFA FLYNYDDOL MANCHESTER,

Y SULGWYN, Mai 31, 1846. Cynnaliwyd y Gymmanfa hon eleni yn yr *Hall of Science*, Manchester. Agorwyd y cyfarfod cyntaf am 10 o'r gloch y boreu, drwy ganu a gweddio. Galwyd R. Hedlock, Ysw., i lywyddu; a Thomas Ward a John Banks yn is-lywyddion. Rhifwyd y swyddogion presennol fel y canlyn: Henuriaid, 107; offeiriaid, 63; dysgawdwr, 24; diaconiaid, 7; a thua 5000 o wrandawwyr. Hysbysodd y Llywydd mewn duil syml ac eglur ddyben y cyfarfod, pwysfawrogrwydd a gogoniant y gwaith mawr o'n blaen, a thaer ddymunodd i gael rhan yn ngweddiau y Saint, ar fod Ysbryd y goleuni yn ein tywys i bob gwirionedd, fel y gwnelid pob peth er adeiladaeth yr eglwys, a gogoniant yr llwn a'i pia. Yna galwodd ar Gynnrychiolwyr yr holl Gynadleddau drwy Frydain, i hysbysu nifer eu swyddogion, eu haelodau, a pha nifer a feddyddiwyd er y Gymmanfa ddiweddaf; a chafwyd 29 o Gynadleddau, yn cynnwys 10,345 o aelodau, 224 o henuriaid, 637 o offeiriaid, 323 o ddysgawdwr, 178 o ddiaconiaid, 2268 wedi eu bedyddio er y Gynadledd ddiweddaf.

D. S. Y mae pump o Gynadleddau lliosog na chynnrychiolwyd yn y Gymmanfa, ac o ganlyniad nid ydynt yn gynnwysedig yn y cyfrif uchod; ond gwelir yma brofion digonol fod yr holl rai hyny a ddywedant ein bod yn "marw o'r darfodedigaeth, y bendro, y cholera, a

phob haint" a allant ddyfelfio, yn au-brophwydi hyd yn hyn. Y mae nid yu unig Lloegr, ond Cymru hefyd, yn cael eu blino gauddynt, i'e pan yr ydym yn fwy llwyddiannus nag un enwad arall; ond prophwydant hwy eu hewyllys eu hunain, a llwyddwn ni nes llaw y byd.

Yn y cyfarfod prydnawnol gweinyddwyd Swper yr Arglwydd i tua thair mil o Saint, oll mewn undeb a chariad. Anerchwyd hwynt gan amryw o'r swyddogion ar amryw faterion pwysig; a diau fod y Dyddanydd yn llanw calonau pawb â llawenydd drwy y lle. Cyfododd amryw o'r Cynnrychiolwyr i hysbysu ansawdd gyffredinol eu Cynnadleddau, a niawrion weithredoedd Duw yn eu plith: ni bu amser a mwy o undeb a llwyddiant yn gyffredinol nâ'r amser hwn.

Yn y cyfarfod hwyrol, anerchwyd y cyfarfod gan y llywydd Hedlock. Rhoddodd addysgiadau buddiol ar amryw faterion, ond yn neillduol am y casgliad ynghyd yn ol gorchymyn Duw, yr anghenrheidrwydd o hyny, y gwaredigaethau a'r bendithion mawrion sydd i'w derbyn drwy hyny, ynghyd â'r ffordd fwyaf cyfleus a mauteisiol i wneyd hyny. Dangosodd yn eglur y byddai y "*British and American Commercial Joint Stock Company*," yn foddion i ddwyn yr amcan mawr hwn i ben, ac y galluogai y tylodion o bob gwlad, y rhai ni allant gasglu gyda'r Saint mewn un ffordd arall, i gael mwynhau y fraint fawr hon. A dangosodd fod y Gymdeithas uchod yn awr mewn gweithrediad, wedi ei sefydlu yn ol yr *Act of Parliament*, ac annogodd bawb i gydweithredu er ei llwyddiant. Helathodd yr is-lywyddion yn wresog a hyawdl ar yr un materion, a dilynwyd hwynt gan yr Henuriaid C. Kimball, Samuel Downe, a D. Jones; yna cauwyd y cyfarfod trwy weddi a chanu, ac, ond barnu oddiar sirioldeb y gynnulleidfa, aethant ymaith gyda hollol foddlonrwydd a mawr lawenydd.

Dydd Llun am 10, dechreuwyd y cyfarfod gan John Banks; yna gosodwyd a threfnwyd y Llywyddion ar y gwahanol Gynadleddau am yr amser dyfodol. Sefydlwyd rhai o'r newydd; yn mhlith ereill cyngiwyd gan D. Jones, ac eiliwyd gan y Llywydd, ar i unarddeg o'r eglwysi sydd yn Sir Fynwy fod yn Gynadledd berthynol i Gymru, a bod John Morris i lywyddu drosti, yr hyn a benderfynwyd yn unfrydol. Yna hysbysodd y Llywydd Hedlock, fod D. Jones wedi ei anfon o'r America gan yr awdurdod uchaf yn yr eglwys, i lywyddu dros yr holl Gynadleddau drwy Gymru, ac mai ei ddyledswydd ef ydyw trefnu pob materion ynddynt, a threfnu y mesurau goreu er lledaenu y gwaith drwy Gymru, &c. Yna terfynodd y cyfarfod.

An hanner awr wedi dau o'r gloch, dechreuwyd y cyfarfod prydnawnol fel arferol. Penderfynwyd rhai materion a berthynai i Gynadleddau Scotland, a'r Isle of Man, ac anfonwyd amryw bregethwyr i gynnorthwyo y llywyddion oedd yno, a rhai manau yn Lloegr. Cyngiwyd gan J. Johnson fod Cynadledd Garaway i gael ei chysylltu â Chymru, dan lywyddiaeth D. Jones; cefnogai y Llywydd hyny yn fawr, a dymunodd ar D. Jones anfon llywydd dros Garaway. Mewn atebiad arwyddodd yntau ei foddlonrwydd i ufyddhan i'w cynghor, er fod ganddo gymmaint i'w arolygu eisoes; ond dywedodd fod yr adferiad crefyddol presennol yn ei adgoffa am y dirywiad gwladol er's llawer dydd, pan y cydunwyd i roddi i'r gormeswyr tramor un swydd o Gymru pob canrif a'r fod bron yn meddwl mai "amseroedd adferiad pob peth" yw

y dyddiau dŵeddaf hyn, drwy fod Cynnadledd yn y flwyddyn yn cael ei hadferu i'r dywysogaeth; ac addawodd wneyd a allai er lles a chysur y rhai oedd dan ei ofal. Cyn diwedd y cwrdd llysbysodd y llywydd ei fwriad i osod y *Commercial Joint Stock Co.* ger en bron yn y cyfarfod nesaf, fel y gallent gyd-drefnu y mesurau goreu i'w dwyn yn mlaen.

Dydd Mawrth, agorwyd y cyfarfod am ddeg o'r gloch gan D. Jones. Yna, yn ol ei addewid, dygodd y Llywydd faterion y *Joint Stock Co.* o flaen y Gynnadledd, a dangosodd fod y Gymdeithas hon wedi ei sylfaenu ar gyfreithiau Prydain, wedi ei chofrestru yn gyflawn yn y *Chancery*, a bod pob mesur i gael ei gario yn mlaen gan ddeunaw o ddirprwywyr a etholwyd gan y mwyrif o'r aelodau, a bod y cyfryw wedi eu rhwymo dan feichniaid i ymddwyn yn ol yr *Act of Parliament*, ac er y lles mwyaf i'r aelodau, yn annibynol ar yr eglwys, o herwydd fod cannoedd o aelodau, i.e. a rhai o honynt wedi cymmeryd cannoedd o ranau, heb eu bod yn yr eglwys; etto, dangosodd fod y Gymdeithas mewn llawer ffordd yn tueddu er lles i'r eglwys, yn enwedig gyda golwg ar sefydliad y Saint yn California, masnachu â lwynt, drwy fod ein llongau ein hnnain yn myned â llwythi o bob math o nwyfau a marsiandiaeth o Loegr a manau ereill, ag sydd nid yn unig yn anghenrheidiol, ond yn ennillawl, i fyned i wlad mor newydd a phell oddiwrth farchnadoedd y byd marsianadiol. Bwriada y Gymdeithas anfon un o'i llongau yna tua diwedd y flwyddyn hon, â llwyth o farsandiaeth, a'r ymfudwyr hyny a ddewisant fyned yno. Bwriadant hefyd fyned ag amrywiol beiriannau i sefydlu *manufactories* i wneyd dillad, &c., a sefydlu y gwahanol gangenau o'r celfyddydau, a phob peth a fydd arnynt eisieu er eu cynnalïaeth, eu cysur, a'u llywyddiant yn y baradwys orllewinol hño, yn nghyda rhai ereill a ewyllsiant fyned yno, yn mlaen y cânt lonyddwch i addoli eu Duw yn gydwybodol, heb fod terfysgluoedd o'r rhai a enwant eu hunain yn Gristionogion, yn eu merthyru, eu carcharu, eu gormesu, a'u hyspeilio o'u meddiannau, gan losgi eu tai uwch eu penau wrth yr ugeimau, a'u halltudio o fan i fan, fel y maent wedi parhau i wneyd heb un achos, am yr un mlynedd ar byn-theg diweddaf. Dangosodd y llywydd fod y Saint yn mhob sefydliad a wnaethant wedi bod yn cyfoethogi eu gelynyon, pa rai wedi cael eu hârian a droent yn aml yn fradwyr iddynt, ac wedi myned ynïaith a'u camddarlunient yn fawr, er codi erlidigaeth arnynt; ond trwy y gymdeithas hon galluogir y Saint i ddiwallu eu hanghenrheidiau eu hunain ar lwybr cyfiawnder, ac i ddwyn elw i'r gymdeithas hefyd yn annibynol ar eu gelynyon. Dangosodd ddybenion amrywiol a daionus y gymdeithas ardderchog hon, a dilynwyd ef gan Mrd. Ward, Jones, Wiley, ac ereill, y rhai a helaethent ar ddybenion a galluoedd y gymdeithas i lesoli nid yn unig ei haelodau, ond y Saint hefyd, canys undeb yw gallu; ac ni ddechreuodd y Saint un gwaith hyd yn hyn, pa mor annhosibl bynag yr ymddangosai ar y cyntaf, ar na lwyddasant drwy gymhorth eu Duw i'w orphen; i.e. er bod yr holl fyd a'r diafol yn gosod pob rhwystr a allent ar eu ffordd. Dywed ein gwrthwynebwyr ein bod wedi cael ein rhwystro i adeiladu y deml yn Nauvoo; nid yw hyny yn wir, o blegid y mae hño wedi ei gorphen er y cwbl, a miloedd wedi cael eu cynysgaethiad ynddi, ac amryw o honynt wedi cyrhaedd i Loegr wedi hyny.

Dywed ereill ein bod wedi ein halltudio o "*wlad yr addewid*," oherwydd i ni gael ein halltudio o Nauvoo, ac o'r Unol Daleithiau; nid yw llyny wir ychwaith, canys ni feddylasom erioed mai Dinas Nauvoo, ydyw "*Gwlad yr Addewid*." Oni wyr ein cyluddwyr y gwahaniaeth rhwng *dinas* a "*gwlad*?" Eu geiriau hwy yw y rhai hynny; ac nid yw eu gwaith hwy yn alltudio y Saint o'r naill gwr i'r llall yn y wlad hòno, yn profi fod y Saint wedi eu siomi yn eu dysgwylad, ac ni siomir mo houynt yn hynny, mwy nag yn eu hufydd-dod i'r gorchymynion ereill o eiddo eu Harglwydd a'u Duw.

Dangosent hefyd mai y gymdeithas hon fyddai yn offeryn dan fendith Duw, i ddwyn yr amcanion hynny yn mlaen gyda llwyddiant a phrysurddeb mawr, er syndod yn ddiau i'n gwrthwynebwyr.

Wedi hynny, gohiriwyd y cyfarfod hyd y prydawn.

Am ddau o'r gloch, agorwyd y cyfarfod, a dilynwyd yn mlaen gyda materion y *Joint Stock Company*. Ar yr 17eg o Ebrill diweddfar yr ardystiwyd gweithredoedd y gymdeithas hon yn y *Chancery*; y mae caniatâd i werthu deng mil o ranau, am bunt yr un, gyda hawl i'w cynnyddu, ac y mae eisoes dros wyth mil wedi eu dosranu, a thros bedair mil ereill ar gofres yr ymgeiswyr; a dymunir ar lywyddion y gwahanol gynnadleddau ac eglwysi yndrechu i werthu cynnifer o ranau ag a allant, fel y gellir prynu llong newydd sydd gan y *Directors* mewn golwg, a'i hanfon allan eleni tua California.

Cynigiwyd gan D. Jones, dros y *Directors*, eu bod nid yn unig yn cymmeradwyo yr hyn a wnaethwyd gan y Llywydd yn eu habsennoldeb, ond ei fod yn deilwng o'u diolchgarwech am ei ddiwydrwydd a'i fedrusrwydd, a'u bod yn eidd-jawentiau â'r gymdeithas yn ei lwyddiant anarferol i sefydlu y gymdeithas dan lawer o anfanteision, heb syrthio i un camgymeriad, nac anghyfreithlonrwydd a achosa ddirwy y gyfraith. Cymmeradwywyd hyn yn unfrydol.

Cynigiwyd hefyd gan D. Jones, a chymmeradwywyd yn wresog gan bawb,—Fod y Gymnanfa yn cymmeradwyo ymddygiad blaenorol y Llywydd Hedlock, a'i gynghorwyr, dros yr eglwysi yn Mhrydain, ac y parhawn i'w cynnorthwyo drwy ein ffydd a'n gweddiau.

Dychwelodd y Llywyddion eu diolchgarwech yn dra serchog, gyda taer weddi ar i'r Arglwydd ein harwain â'i ysbryd bob amser, fel y parhaom yn undeb y ffydd hòno un waith a roddwyd i'r Saint; ac felly terfynodd y gynnadledd liosocaf, hyfrytaf, a mwyaf llesol, debygwn, a gynnaliwyd genym yn Mhrydain.

Hysbyswn ychwaneg am y *Joint Stock Company* i'n darllenwyr, ynghyd â'i rheolau, ei gweithrediadau, a'i llwyddiant, drwy gyfrwng y PROPHWYD, o bryd bwy gilydd; ond byddai rhy faith yn y rhifyn hwn.

Cawsom fel hyn gynnadledd gysurus, a phob argoelion, drwy ein hundeb, sel, a phenderfyniad, o fod y gwaith yn llaw ein Duw, i fyned yn y blaen hyd lwyddiant cyffredinol.

#### HANES CYMMANFA MERTHYR TYDFIL.

AR ddydd Sul, y 12fed o Orphenaf, cynnaliwyd cymmanfa yn Neuadd y Cymreigyddion, yn y dref uchod. Decineuodd y cwrdd boreuol am

dddeg o'r gloch, a galwyd Capt. D. Jones i fod yn llywydd, a William Davies o Rumni, ac Edward Edwards, yn ysgrifenyddwr.

Wedi canu a gweddio, galwodd y Llywydd ar lywyddion y gwahanol gangenau drwy Gymru, i adrodd eu sefyllfa bresennol, rhif eu swyddogion, aelodau, a'u cynnydd yn y tri mis diweddfaf; a chafwyd fel y canlyn:—Rhif y cangenau, 34; aelodau, 670; henuriaid, 22; oifeiriaid, 42; dysgawdwyr, 25; diaconiaid, 15. Wedi eu bedyddio yn nghorff y tri mis diweddfaf 110. D.S. Y mae tri o bregethwyr ac amryw Saint yn sir Benfro, heblaw y nifer uchod.

Anerchwyd y gynnulleidfa yn wresog gan amryw o'r henuriaid, yn nghylch mawredd y gwaith hwn, gogoniant "goruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd," yr anghenrheidrwydd am undeb a ffyddlondeb, a chymhorth Ysbryd Duw dan bob erlidigaethau, er parhau yn ffyddlon hyd y diwedd. Dangosent sefyllfa gyffredinol y cangenau yn o gysurus a llwyddiannus. Yna sefydlwyd cangenau sir Fynwy yn gynnadledd, a'r brawd John Morris, Victoria, i lywyddu drosti. Cydnabyddwyd y Saint cynnulleidig yn Llan-y-byddar, Machynlleth, Harlech, Ffestiniog, Hirwaun, a Cefn-coed-cymer yn gangenau o'r gynnadledd hon am yr amser presennol. Yna gohiriwyd y cwrdd hyd ddau o'r gloch.

Am ddau, cynnaliwyd cyfarfod y Saint. Dechreuwyd drwy ganu a gweddio, gan y llywydd. Wedi hyny dangosodd ein dyledswydd i ufyddhau i'r ordinhad o Swper yr Arglwydd; a'i dybenion, sef i wneuthur coffa am farwolaeth yr Arglwydd: parhad yr ordinhad, sef "hyd oni ddelo" yn ei deyrnas, mewn nerth a gogoniant; a dedwydd sefyllfa y rhai a barhant yn gwneuthur hyny yn deilwng, y cânt fyned i mewn i lawenydd eu Harglwydd, "i swper neithior yr Oen;" y dywédir wrthynt, "Deuwch, chwi fendigedion fy Nhad, etifeddwch y deyrnas," &c. Pan y bydd eu Brenin yn eu plith, wedi darparu iddynt "wledd o ddanteithion breision, ac o loyw-wîn puredig," neu fel y dywed ef ei hun, "hyd onid yfwyf ef yn newydd *gyda chwi* yn nheyrnas fy Nhad," &c. Dangosodd yr anghenrheidrwydd am i bob un gymmodi â'u gilydd, os oedd rhyw anghydfod rhyngddynt, cyn y gallent fwyta nac yfed yn deilwng. Wedi hyny gweinyddwyd yr ordinhad i oddeutu pump neu chwe chant o Saint, oll yn llawenhau yn undeb yr Ysbryd a chwllwun tangnefedd. Wedi hyny tvstiolaethodd amryw, yn neillduol y cenadon a ddychwelasant o bregethu yr efengyl drwy Wynedd, am y sicrwydd sydd ganddynt, a'u penderfyniad i fyned yn mlaen gyda'r gwaith, gan ymorphwys ar eu Tad nefol am nerth yn ol y dydd, a llwyddiant ar eu llafur, er gogoniant ei enw, adeiladaeth ei deyrnas, ac achubiaeth eneidiau eu cydgenedl. Mewn tua thri mis bedyddiodd Abel Evans dros ugain yn siroedd y Gogledd, amryw o ba rai ni chlywsent yr efengyl o'r blaen; sefydlwyd pedair o eglwysi newydd yno, oll yn mwynhau doniau a bendithion yr Ysbryd Glân, mwy neu lai, ac mewn amryw fanau y cleifion yn derbyn iechyd drwy allu Duw. Dywedai y brawd Robert Evans o Arfon ei fod wedi bod yn pregethu yr efengyl i gynnulleidfa oedd lliosog gan mwyaf, o Gonwy hyd Rhuddlan, Newmarket, ac hyd Rhosllanerchrugog; ac yn mhob man fod y rhai gonest eu calon yn chwilio yr ysgrythrau, ac yn cael y pethau a bregethir "felly," yn eu credu, ac mewn rhai manau yn ufyddhau iddynt; fod y cynauaf yn wir yn fawr, ac yn addfed, ond y gweithwyr yn anaml. Eliezer Edwards

hefyd, o sir Gaerfyrddin, a'n hysbysai fod amryw fanau yn awyddus am glywed pregethu ein hegwyddorion, o herwydd eu bod wedi blino yn darllen a chredu yr ystoriau a bregethir ac a gyhoeddir yn ein herbyn; fod dynion rhesymol yn gweled y rhaid fod genym fwy o grefydd na'n herlidwyr, cyn y caffem nac y dyoddefem ein herlid mor greulon a diachos; felly y mae y camgyhuddiadau a'r croes-haeriadau yn cael eu goruwch-lywodraethu, i fod er llwyddiant i'r efengyl, a dwyn gŵarth ar eu dyfeiswyr. Dywedai y brawd Ebenezer Morris, fod amryw bregethwyr gydag ef yn myned yn mlaen yn llwyddiannus yn Pont-y-pridd, Dihewyd, Llantrisant, &c., ac amrywiol wedi eu bedyddio er y gymmanfa ddiweddaf, a chanddynt obaith am laweroedd etto yn fuan. Cydunai y cyfan mai gan bregethwyr a phroffeswyr y sectau y caffent yr erlidigaeth greulonaf; ac mewn rhai manau, mai dynion digrefydd a'u rhwystrai i gael eu llabyddio gan y crefyddwyr. Terfynwyd y cwrdd trwy weddi, am i Arglwydd y cynauaf symud y rhwystrau o'r ffordd, ac anfon gweithwyr i'w gynauaf.

Am hanner awr wedi cwmweli, ar ol agoryd y cwrdd fel arferol, dangosodd y llywydd yn fyr a chynnwysfawr, odiogrwydd yr efengyl dragwyddol, mai trwyddi hi y dygir "bywyd ac anllygredigaeth i'r goleuni," ei haughyfnewidioldeb, &c. ac wedi hyny tystiolaethodd fod goruchwyliaeth wedi ei rhoddi i ddynion, yn y dyddiau diweddaf hyn, i bregethu yr efengyl drwy allu Duw, a'i fod Ef yn cydweithio ac yn cadarnhau y gair trwy y nerthoedd a'r rhyfeddodau y rhai sydd yn canlyn. Dilynwyd ef gan y brawd John Morris, yn Saesonaeg, ar yr un mater pwysig. Wedi hyny dangosodd Robert Evans yn eglur yr anhosibl-rwydd oedd i LYFR awdurdodi neb i bregethu, i weinyddu ordinhadau ty Dduw, nac i anfon allan weision dros Dduw, heb eu bod wedi eu galw gan Dduw ryw fodd, a'u hordeinio gan ei weision. Profodd hefyd yr anghenrheidrwydd am yr holl swyddau a'r ordinhadau, ynghyd â'r holl ddoniau ysbrydol, er gwneyd corff neu eglwys Crist yn berffaith, oddiwrth y cyffelyb anghenrheidrwydd am yr holl aelodau (yn ol y gymhariaeth a arferodd Paul yn 1 Cor. xii) er gwneydy corff dynol yn berffaith; ac yna tystiodd yn ddiifrifol ac eofn ei fod ef wedi cael gafael ar y fath eglwys yn awr, yn meddu yr holl aelodau, sef y doniau; a thaer erfyniai ar bawb o'r gwrandawwyr ddyfod i mewn iddi ar frys, cyn cau y drws. fel y cydfwynhaent y hendithion hyn, ac yr etifeddent fywyd tragwyddol. Wedi diweddu y cwrdd bedyddiwyd dau, ac ymadawodd y dyrfa hosog, yn ol pob arwyddion, wedi cael boddlonrwydd mawr.

Dydd Llun am ddeg. dechreuwyd y cwrdd drwy ganu a gweddio. Hysbysodd y llywydd mai dyben mwyaf neillduol y cwrdd, oedd i neillduo ac ordeinio swyddogion, gan ddangos y gwahaniaeth rhwng y ddwy offeiriadaeth, yr anghenrheidrwydd am y naill a'r llall yn yr eglwys, ynghyd â'r holl swyddau a berthynant iddynt, cyn y gellir gweinyddu yn gyfreithlon mewn un swydd. Dangosodd y cyfrif manwl a raid roddi am y talentau gwerthfawr hyn, oddiwrth esiampl y gwas "anfuddiol," yr hwn a dafwyd i'r tywyllwch eithaf, Meroz, &c. Dangosodd y perygl o, a'r gosp am, gamddefnyddio eu talent, neu beidio ei defnyddio ar hob cyfleusdra, ei bod yn berl uwchlaw pris, yr hon gyda dyddlondeb a sieŷha i'w pherchenog fywyd tragwyddol, a choron au-

niflanedig i'w gwisgo; ac o'r ochr arall, os camddefynyddid hi, y byddai yn arogl marwolaeth i farwolaeth. Dangosai y mawr anghen sydd am weithwyr yn y winllan, a thaer annogai ei gydswyddwyr i ymwroli gyda'r gwaith, i achub pob cyfleusdra i wneuthur daioni, gan ofalu bod yn "llestri glân" wrthi drin pethau mor gysegredig ag ordinhadau ty Dduw, ac ymorphwys arno ef yr hwn a bïa y gwaith, i'n nerthu o ddydd i ddydd, er adeiladu ei deyrnas, derchafu enw ei Fab Iesu, ac achub cin cydgenedl. Annogai bawb o'r Saint, ond yn enwedig y swyddwyr, i fod yn amyneddgar a phwylllog pan eu gwrthwynebid gan grefyddwyr y wlad; peidio â digio, ond tosturio wrthynt, a gweddio drostynt, gan mai felly y bu rhai o honom ninnau hyd oni oleuwyd ni; peidio "â dadleu ynghylch geiriau, ac anmhwylo yn nghylch cwestiynau," ond o gariad atynt, ymdrechu drwy dystiolaeth ac esiamplau da eu hen-nill i deyrnas Dduw; canys druanid ydynt, ni wyddant beth y maent yn eu wneuthur, na pha bethau y maent yn wrthwynebu; fod canuoedd a miloedd o rai gonest eu calon, yn ewyllysio cael gafael ar bethau sylweddol yr efengyl, ond er hyny yn eu hanwybodaeth yn cymmeryd eu camarwain gan eu bugeiliaid ar y ffyrdd y tueddant hwy, heb ymchwilio i'r peth yn aml; yn awyddus i greu'r ystoriau gwarthus am danom a ewyllysient fod yn wir, hyd nes y gwelir nod y bugail erlidgar ar ei braidd yn rhy aml o lawer; ond er hyny dilynwn esiampl ein Bugail mawr, yr hwn pan ei ddifenwyd ni ddifenwodd drachefn, canys gair arafaid a ddestry lid; am hyny, frodyr awyl, "yn eich amynedd meddiennweli eich eneidiau," "mewn iawn bryd y medwn ninnau oni ddiffygiwn." Cofiw'n mai gwyn ein byd ni pan ddywedo pawb yn ddrwg am danom er mwyn Crist a'r efengyl, canys felly y dywedent am ein brodyr o'n blaen. Ac â llawer o gynghorion ereill yr annogai y llywydd ei frodyr i fyned yn mlaen yn wrol a gwresog, a ni yn gwybod nad yw ein llafur yn ofer yn yr Arghwydd. Wedi hyny gwnaethpwyd sylwadau eglurhaol a chymhwysiadol ar y materion dan sylw, gan y brawd Thomas Pugh, Cwmbach. Dangosodd ardderchogrwydd y drefn hon rhagor y credoau dynol ag y bu efe yn en pregethu yn ei anwybodaeth, am flynyddau. Penderfynai fyned yn mlaen, gan ei fod wedi cael gafael ar grefydd a "gryn" ynddi, yr hon a ddygai iddo fwy o oleuni, gwybodaeth, a llawenydd, mewn ychydig oriau, nag a ddygodd yr hyn oedd ganddo o'r blaen mewn blynyddau meithion. Yna galwyd ac ordeiniwyd deg o'r offeiriaid yn henuriaid. Galwyd tri ar hugain o offeiriaid ereill, unarddeg o ddysgawdwyr, a phedwar o ddiaconiaid, perthynol i'r gwahanol gangenau drwy Gynir. Tystiodd y rhai a alwyd eu gwybodaeth o'r gwirionedd, a'u penderfyniad i ymdrechu cyflawni eu gwahanol swyddau, gan ymorphwys ar Dduw am gymhorth ei Ysbryd i'w tywys i bob gwirionedd, er gogoniant ei enw a lles dynion.

Wedi hyny diweddwyd y cwrdd, er rhoddi lle i'r chwirydd lliosog a charedig oeddynt eisoes yn dysgwyl am gael darparu y wledd odidog yn yr Hall, yn ol yr hysbysiad blaenorol; ac erbyn dau o'r gloch yr oedd yr olygfa wedi cyfnewid yn hynod ragor y cyrddau blaenorol—gwelid y byrddau ar hyd a lled yr Hall wedi eu gorlwytho â danteithion o amryw liwiau, lluniau, a blas. Yr oedd y llestri yn rhagorol o hardd a threfnus, y tē yn flasus a da, a'r gymdeithas yn hynod o siriol a llawen. Yn nghorff y prydawn, eisteddodd tna saith cant wrth y



byrddau, y rhai oeddynt wedi cael tocynau, a daeth rhai cannoedd ereill, gan dalu heb docynau, am nad oedd digon wedi eu parotoi. Os iawn barnu yn ol pob ymddangosiadau, meddyliem oddiwrth yr undeb, y llawenydd, a'r cariad, fod pawb wrth eu bodd. Daeth cannoedd o'n cyfeillion parchus o'r byd i gydwlledda â ni, a hoff iawn genym eu gwmi. Drwy y cyfan, rhedai ein meddyliau yn ol ac yn mlaen, o'r amser dedwydd y gwleddai ein rhieni cyntaf ni oll, mewn undeb a hapusrwydd, heb elyn, heb ofid, poen, na gwall, ond oll yn siriol. Ond beth am y dedwydd ddydd sy'n dod, o'r hwn nid yw gwleddoedd fel hyn ond megys defnyddau mewn cymhariaeth i'r môr. Henffych i'r "amseroedd adferiad pob peth a lefarodd Duw trwy enau ei holl santaidd brophwydi erioed;" yna—

"Yr hen flaidd a welir yn wirion a diddig,  
Yn serchog gynhesu'n garuaidd ryw oenig;  
Yr hydd a'r hen lew o wir serch a gyd-lyfant,  
Ac yna mewn gwely o flodau 'mddigrifant.

"Y mudan a'r byddar a hyfryd gyd-ganant,  
A'r cloff a'r anafus o'u deutu a ddawnsiant;  
A llygaid y deillion a welant oleuni,  
A hwythau gyd-unant i neidio a moli.

"Bydd wyneb y ddaear yn frith o addolwyr,  
Ac enw yr Iesu yr uchaf a enwir;  
Ac yna ceir gwled y ffyddlon genedloedd,  
Yn fyrdd a myrddiynau'n dod i'r cymmanfaoedd;  
Yr ager gerbyddau a'r llongau yn llawnion  
O feibion a merched awyddus am Seion.

"O eithaf y ddaear daw Ephraim a Juda,  
Yn llon i roesawu yr Iesu'n Fessia:  
Os bu eu gwrthodiad o hono yn chwerw,  
Cânt deimlo'u dychweliad yn fywyd o feirw.

"Cyd-gesglir hen falais a theulu cenfigen,  
Ac ysbryd rhyfela, a chwyno, a chynhen;  
Ac hunan, a balchder, a fflaidd gybydd-dod—  
A bwir y cyfan i anghof a drewdod.

"Yr eglwys ymbura yn ol ei rheolau,  
Nes blysia seraphiaid fod ynddi'n aelodau;  
A'i phriod mor aml ei chwmi ymofyn,  
Nes denu angylion yn filoedd i'w ganlyn.

"Llawenydd a mawl, a serchogrwydd cynnyddol,  
A leinw hob mynwes drwy'r dyrfa ddedwyddol:  
Boed moliant, gogoniant, amien, haleliwia,  
Gan saint ac angylion i enwi'r Jehofa."

Am hanner awr wedi saith, symudwyd y byrddau a gweddill y wledd, a chymmerodd y Llywydd y gadair; ac wedi canu, gwnaethwyd amryw odlau ar yr achlysur o'r gymmanfa, y wledd, llwyddiant yr

achos, ac annogwyd y Saint i barhau mewn brawdgarwch, ac i fyw yn heddychlon â phob dyn hyd y gallant.

Dangosodd y Llywydd yr anghenrheidrwydd am anfon cenadon i bregethu yr efengyl drwy'r dywysogaeth, yr anhawsderau mawrion a lliosog sydd ar y ffordd, yn enwedig wrth ystyried nad llawer o'r doethion a'r mawrion bydol sydd etto wedi eu galw yn Nghymru—fod Duw yn awr, fel cynt, wedi dadguddio y pethau mawrion hyn i wael bethau Cymry, fel y byddai godidogrwydd y gallu o Dduw, ac nid o honom ni. Ac er ein bod yn pregethu yr efengyl yn rhad i'r byd, ni ellir gwneyd hyny heb fwyd a dillad mwy na chynt, yn enwedig yn nghanol y genedlaeth drofaus ac anghrediniol hon. Nid yw Duw yn dysgwyl hyny, canys teilwng i'r gweithiwr ei fwyd a'i ddillad; a chan bwy y dysgwylir hyny, yn fwy na chan y rhai ydynt wedi teimlo blas maddeuant, wedi profi melysder y wledd, wedi dyfod yn blant y goleuni, a derbyn o Ysbryd Crist, yr hwn sydd yn fflam enynol o gariad at achubiaeth pob dyn.

Yna cynygiodd y Llywydd, ciliwyd, a chymmeradwywyd yn unfrydol gan y dyrfa liosog, fel y canlyn:—

“Fod Cymdeithas Genadol i gael ei sefydlu heno, unig ddybenion yr hon a fydd er cynnorthwyo y cenadon a anfonir oddi yma drwy'r wlad, i'r lleoedd nad oes Saint i ddiwallu eu hanghenrheidiau.

“Fod cyfeisteddfod i gael ei ffurfio, yn cynnwys llywyddion yr holl wahanol gangenau drwy Gymru, a'u bod hwy i ddewis eu llywydd, trysorydd, ac ysgrifenydd; a cha y mwyrif o honynt hawl i newid unrhyw swyddwr neu aelod o'r gyfeisteddfod, pan farnont hyny yn anghenrheidiol.

“Fod i'r trysorydd roddi meichiau am yr arian yn ei feddiant, ac na fydd iddo dalu dim o arian y gymdeithas i neb, heb gael tocyn wedi ei law-arwyddo gan y llywydd drwy orchymyn y mwyrif o'r gyfeisteddfod; a'i fod i gymmeryd dangoseg am yr hyn a dalu, wedi ei thanysgrifio gan y derbynnydd.

“Fod gan y llywydd awdurdod i alw y gyfeisteddfod ynghyd pan farno hyny yn anghenrheidiol, drwy roddi i bob aelod ddeg diwrnod o rybydd.

“Fod yr ysgrifenydd i gadw cyfrif o weithrediadau a chyfrifon y gymdeithas, i ddangos ei gyfrifon ar bob gwyl o'r gymdeithas yn gyhoeddus, heblaw mor aml ag y gofyna y mwyrif o'r gyfeisteddfod ganddo.

“Fod y gweddill o'r arian a ddeillia oddiwrth y *tea party* hwn, wedi talu pob costiau, i'w defnyddio at wasanaeth y gymdeithas yn unig.

“Fod llywydd pob cangen i gynnal cyfarfod bob nos Lun gyntaf o'r mis, i weddio ar i Dduw lwyddo ymdrechadau y gymdeithas, yno i hysbysu hynt y cenadon, ac annog pawb i gyfranu yr hyn a allant ar y pryd, er cynnorthwyo y gymdeithas; a'i fod i anfon yr hyn a gesglir i'r prif drysorydd, y cyfleusdra gyntaf wedi pob cwrdd, ac i gael dangoseg ganddo am danynt.”

Dewiswyd y Llywydd i fod yn llywydd y gymdeithas; William Phillips, Merthyr, yn drysorydd; a William Davies, Rumni, yn ysgrifenydd, ac Edward Edwards, Abercanaid, i'w gynnorthwyo.

Rhoddodd Robert Evans ac Abel Evans adroddiad cynnwysfawr a

difyrus o'u teithiau drwy y Gogledd, gan daer ddymuno ar eu brodyr yn Merthyr ddyfod allan i'r frwydr, i'w cynorthwyo yn myddin Duw Israel yn erbyn y cedyrn gewri sy'n adeiladu muriau Babel fawr.

Yna galwodd y Llywydd ar y pregethwyr hyny oedd yn bresennol a allent drefnu eu hamgylchiadau fel y gallent fyned i'r winllan amyspaid, i arwyddo hynt drwy godi ar eu traed; ac wele, pymtheg a safasant ar eu traed, gan arwyddo, "Wele ni, anfon ni;" y rhai a arwyddent eu parodrwydd a'u penderfyniad i fyned allan i'r winllan, rhai am dri mis, rhai am bump, ac ereill nad oedd neb yn ymddybenu arnynt am gynnalïaeth, a gyssegrasant eu holl amser i bregethu yr efengyl. Penderfynodd y gyfeistdeddfod eu cynnorthwyo hyd eu gallu o'r drysorfa, yn ol eu hangheurheidiau.

Yna rhoddodd William Phillips gyfrif manwl o'r hyn a dderbynwyd, a chostiau y wledd hon, a chafwyd fod £22 10s. o ennill.

Talwyd diolchgarwch gan y Saint i'w cyfeillion o'r byd am eu cwmni, eu sirioldeb, a'u boneddigeiddrwydd, drwy'r gymmanfa a'r wledd.

Talwyd diolchgarwch y gynnulleidfda i Mr. Hopkins, perchenog y Neuadd, am ei gymwynasgarwch a'i sirioldeb yn caniatâu pob cyfleusdra a ofynid iddo. Ac yna terfynodd y Llywydd y gymmanfa a'r *tea party* mwyaf liosog, llwyddiannus, a boneddigaidd a welsom yn Nghymry, drwy weddi am i Ddluw fendithio ein gwaith, a'n cadw ni oll yn ffyddlon hyd oni orphenom ein gyrfa mewn llawenydd tragwyddol. Amen.

### GWRTH-ANNOGIAD.

- I ba ddyben ein herlidir oddi yma, oddi draw?
- .. I ba ddyben ein hathrodir ar dafodau pawb a ddaw?
- I ba ddyben chwala'n cyrddau, ceisio cau ein genau'n llwyr?
- Os oes dyben dan y cwbl, pa beth ydychw? pwy a'i gwyr?

- Beth! ai attal llanw'r dyfnfor? beth! ai troi y dwfr i'r lan?
- Beth! ai attal ffrwd *volancô* sy'n eich golwg, deulu gwan?
- .. Ceisiwch attal hynt y cwmwl, ceisiwch attal tonau'r môr;
- i. Haws rhoi attal ar y rhei'na, na rhoi taw ar Saint yr Ior.

- Os achubodd Crist ein bywyd, os rhoes in' ei Ysbryd Glân—
- Os yw hwnw'n llon'dd ein henaid, ac yn llosgi fel y tân—
- Os yw golud addewidion draw yn aros ffyddlon saint—
- O! pa fodd y gallwn dewi, gyda'n bri, a chyda'n braint?

- Pwy fa'n ceisio, ond eich brodyr, osod taw er's llawer dydd
- Ar y saint a'r apostolion—cedyrn cyntaf ieddai'r ffydd?
- Os methasant hwy'r pryd hyny, pan yn ngwres y frwydr fawr,—
- Os rhoi heibio fu eu diwedd, rhoddwch chwithau heibio'n awr.

BLAEN-DAL, 3c.]

[OL-DAL, 3½c.]

ATOCH deuaſ etto,—a gwir wedaf,  
Cewch gredu neu beidio;  
Er pob daint, nad faint a fo,  
Ni pheidiaſ a phrophwydo.

# PROPHWYD Y JUBILI,

NEU

## SEREN Y SAINT.

“YE ARGLWYDD IOR A LEFARODD, FWY NI PHROPHWYDA? CANYN NI  
WNA YE ARGLWYDD DDIM, A'R NA DDANGOSO EI GYFRINACH  
I'W WEISION Y PHROPHWYDI.”

---

---

RHIF. 3.]

MEDI, 1846.

[CYF. I.

---

---

### CYNNWYSIAD.

|                                                                                      | TUD. |
|--------------------------------------------------------------------------------------|------|
| Tystiolaeth Haneswyr Eglwysig ynghylch Gwyrthiau ....                                | 57   |
| Ymddangosiad Crist i'r Indiaid Americanaidd—eu Rhy-<br>feloedd—ac Hanés Mormon ..... | 58   |
| Tystiolaethau am Lyfr Mormon .....                                                   | 60   |
| Proffon o Eirwiredd Llyfr Mormon .....                                               | 63   |
| Tystiolaeth Traddodiadau Indiaidd .....                                              | 68   |
| Adolygiad ar Bregeth y Parch. W. R. Davies, Dowlais,<br>ar y Gwyrthiau .....         | 70   |
| Golygydd y <i>Gwir Fedyddiwr</i> .....                                               | 78   |

---

### MERTHYR-TYDFIL:

CYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES;

AC AR WERTH HEFYD

GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL, A LLAWER  
O LYFRWERTHWYR.

1846.

## AT EIN DARLLENWYR.

DYMUWYN dynu sylw ein darllenwyr at wall a bassiodd arnom yn nhud. 78 o'r rhifyn hwn. Yn y drydedd linell o'r deryn a elwir "Golygydd y Gwir Fedyddiwr," dywedir fod copi o lythyr dan sylw yno, i'w gael yn MHROPHWYD Gorphenaf; yr hyn sydd yn feius, oblegid yn y deryn uchod y dylai y llythyr crybwylledig ymddangos; ond gan bod hyn wedi dianc ar eir sylw, wele rhoddwn gopi o hono yn y lle hwn:—

### "AMDDIFFYNIAD Y SEINTIAU.

"MR. GOLYGYDD,—Yn ddiweddar daeth rhifyn Mawrth o'r "Bedyddiwr" i'n dwylaw, a gwelem, er mawr syndod a thristwch, ein henwau ni wedi eu tan-ysgrifenu wrth ryw lythyr, yr hwn a ddywed y Parch. W. R. Davies, Dowlais, ddarfod i ni ysgrifenu ato ef, yn galw arno i ddadleu a'n "hapestol clodwiw, y Capt. D. Jones," &c. Ond yr ydym ni yn tystio mewn sobrwydd a gwirionedd, yn ngwydd Duw a dynion, na ddarfod i ni ysgrifenu, nac achosi i'r llythyr cyfeiriedig gael ei ysgrifenu, nac un ysgrif arall at y gwr hwnw erioed; ac es ysgrifennodd rhywun y llythyr hwnw ato ef, yr ydym ni yn hollol anwybodus o hyn. Yr oll a wyddom am ddim yn debyg iddo yw, ddarfod i ni glywed fod y Parch. W. R. Davies yn dangos rhyw lythyr go debyg i'r un uchod i'w gymmydogion mewn dirmyg, ac enw y Capt. D. Jones wrtho, tua thri mis yn ol, a bygythiai ei gyhoeddi, &c., yr hyn a achosodd i Mr. Jones hysbysu yn gyhoeddus ar y pryd, os deuai y cyfryw lythyr yn mlaen, ar i'r cyhoedd beidio ei goelio, ac mai *foegery* oedd pob gair o hono. Anfonwyd hefyd i hysbysu hyn i Mr. Davies, a dysgwylwyd fod y peth wedi myned i dir anghof hyd oni welsom y llythyr cyfeiriedig yn y "Bedyddiwr," a'n henwau ni wrtho. Hawdd i bob dyn a wyr rywbeth am danom weled mai flug yw y llythyr hwnw. Nid ydym ni, ac nid yw y Capt. D. Jones ychwaith yn hōni bod yn "apostol," ac nid oes neb yn Mhrydain, a'r a wyddom am danynt, yn hōni, nac yn cael y teitl o apostol yn ein plith.

"Dysgwylwn y rhoddwch le i'r amddiffyniad hwn yn un o'ch rhifynau nesaf. Teg i bawb gael y gwir boed ei farn a fyddo. Casem gael benthyg eich colofnau i sylwi ar atebiad Mr. Davies i'r llythyr cyfeiriedig, a hyderwn na fuasech chwî, na Golygydd un cyhoeddiad crefyddol arall yn Nghymru, yn cyhoeddi y fath bethau am neb o'ch cydgenedl, oddicithr eich bod yn foddlon i gyhoeddi yr amddiffyniad hefyd. O'r hyn lleiaf, nid ydym yn gwneyd mwy na'n dyledswydd trwy roddi i chwî yr hysbysiad hwn, fel y galloch, os dewiswch, alw y cabldraethau yn ol, fel na orfoder ni o'r diwedd i arferyd moddion creill i gael y cyflawnder a'r rhyddid a ganiater i'n cymeriadau gan gyfreithiau ein gwlad.

Yr eiddych yn barchus,

"ABEL EVANS,  
"WILLIAM HENSHAW."

## AMMODAU.

I. Cynnwysa y PROPHWYD Draethodau ar Athrawiaethau a Dyscybl-aeth y Saint, Hanes am eu helyntion yn mhob cwr o'r byd, ynghyd â phob hanes arall fo'n dwyn perthynas â'u cenadwri, neu obeithion.

II. Daw allan yn fisol, ac oddeutu diwedd y mis, fel y cynnwysob. peth anghenrheidiol fo'n perthyn i'r mis sydd enwedig ar y zhifyn.

III. Y Pris fydd. Tair Ceiniog i'r Rhag-dalwyr, a Thair a Dimai i'r Ol-dalwyr.

IV. Gofelir am Ragymadrodd a Mynegeir i'r PROPHWYD yn flynyddol, fel y galler ei rwymo yn llyfr cryno at arferiad parhaus.

# THOMAS WARD,

AMERICAN EMIGRATION, COMMISSION, FORWARDING,

AND

GENERAL SHIPPING AGENT,

STANLEY BUILDINGS, BATH-STREET, PRINCE'S DOCK,

LIVERPOOL.

Y GWR a enwir yma sydd swyddog dros y Gymdeithas Ymfudawl a gymmeradwyr genym o bryd i bryd yn y PROPHWYD.

Trosoglwyddir nwyddau o bob math ganddo, i bob mian yn yr Unol Daleithiau, Canada, Deheubarth America, yr India Ddwyr-einiol a Gorllewinol, China, Bombay, Calcutta, Australia, Zealand Newydd, &c., &c.

Trosoglwyddir ymfudwyr yn y llongau mwyaf a diogelaf i New York, Boston, Philadelphia, Baltimore, Charleston, New Orleans, Mobile, Quebec, Montreal, &c., ar yr ammodau iselaf; a gwneir pob darpariaeth gogyfer â chysur a chyfleusdra i ymfudwyr, ag a all fod yn y prif longau uchaf eu pris ar y llwybr.

Gofynir un bunt i lawr am bob ymfudwr o oedran, tuag at yr ymfudiad, er mwyn sierhau lle i'r cyfryw yn y llong.

Cyfeirir pob llythyr, wedi talu y doll, i *Thomas Ward, Licensed Emigration Agent, Stanley Buildings, Bath Street, Prince's Dock, Liverpool*, a cheir atebiad dihoced yn y fan.

\*\* Yr ydym ni yn gwybod drwy brofiad trist, fod dynion i'w cael yn ein porthladdoedd, yn gwisgo gwyneb teg, a thafod tirion, yn denu dgeithriaid i ymfudo mewn llongau peryglus, ynghyd ag i sugno dwbl yr arian ag a fyddai raid o'u llogellau. Mae, y fynydd hon, gannoedd o Gymry gwirion, yn ymborth i bysg y Werydd, o achos diogelwch dechreuad eu mordaith. Nid yw Mr. Ward yn un o'r cyfryw. Ceir ei ammodau yn is, ei ymborth, cyfleusdra a diogelwch yn gysfartal i'r llongau goreu allan o Liverpool.

## MERTHYR-TYDFIL.

**G**WAHODDIR y Cymry i NEUADD Y CYMREIGYDDION (*White Lion*), yn y dref hon, i glywed y GREFYDD APOSTOLAIDD, fel ei hadferwyd drwy Weinidogaeth Angylaidd.—Traddodir Darlithoedd bob Sul am 11 o'r gloch, ac yn yr hwyr am 6, er profi y Pynciau Athrawiaethol a ganlyn yn ysgrythyrol a rhesymol:—Ffydd yn Mab Duw fel digonol Waredwr—Edifeirwch—Bedydd er maddeuant pechodau—Arddodiad dwylaw er derbyn yr Yshryd Glân—Adferiad y Doniau Ysbrydol—Adferiad yr Iuddewon i Palestina—Yr Adgyfodiad cyntaf—Teyrnasiad personol Crist a'r Ddaear am Fil o Flynnyddoedd—Y Farn Gyffredinol—Y Nef a'r Ddaear newydd, a thynghedfen dragywyddol y Bydyssawd a'i Drigolion!!!

D.S. Y mae croesaw i bawb ddyfod i mewn heb dalu dim.

CYHOEDDIADAU SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF.

I.

*Cyhoeddwyd yn ddiweddar, Pris Chwecheiniog,*

Y FARW WEDI EI CHYFODI YN FYW!

NEU

*YR HEN GREFYDD NEWYDD.*

TRAETHAWD

YN DANGOS

ANGHYFNEWIOLDEB TEYRNAS DDUW.

GAN CAPT. D. JONES.

\*\* Nid oes ond ychydig gopiau o'r Traethawd heb eu gwerthu.  
Gellir ei gael gyda'r PROPHWYD.

II.

*Newydd ei Gyhoeddi, gan yr un, Pris Tair Ceinog yn unig,*

A T E B Y D D

Y GWRTHDDADLEUON A DDY GIR YN FWYAF CYFFRE-  
DINOL DRWY Y WLAD

YN ERBYN

SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF,

*A'r Athrawiaeth a broffesant ;*

MEWN FFURF O YMDDYDDAN RHWNG MEISTRIAID TRADD-  
ODIAD, SECTARIAD, A SANT.

III.

*Cyhoeddwyd yn ddiweddar, gan yr un, Pris Ceiniog a Dimai.*

A N E R C H I A D

Y

DEUDEG APOSTOL AT HOLL FRENINOEDD, CYNG-  
HORWYR, BARNWYR, A PHOBL Y BYD.

IV.

*Newydd ei Gyhoeddi, gan yr un, Pris Dwy Geiniog*

Y G L O R I A N,

YN YR HON Y GWELIR

DAVID YN PWYSO WILLIAMS, A WILLIAMS YN  
PWYSO DAVID ;

NEU

*David Williams, o Abercanaid, yn gwrthddweyd ei hun, wedi ei ddal yn  
ei dwyll, a'i brofi yn euog o Ddeistiaeth.*

# PROPHWYD Y JUBILI.

"MAE Y DEYRNAS WEDI DYFOD."

RHIF. 3.]

MEDI, 1846.

[CYF. I.

## TYSTIOLAETH HANESWYR EGLWYSIG YNGHYLCH GWYRTHIAU.

DYWED ein gwrthwynebwy'r i'r gwyρθiau ddarfod gyda, neu yn fuan ar ol, yr oes apostolaidd; ond y mae eu haneswyr eglwysig eu hunain yn eu herbyn. Wele enghraifft allan o "Hanes Eglwys Iesu Grist," gan y Parch. Dr. Barth, yr hwn a gyhoeddwyd gan Gymdeithas y Traethodau Crefyddol yn Llundain. Yn awr, os parhâodd gwyρθiau fel hyn hyd ganol a diwedd y drydedd ganrif, pa beth heblaw llygredigaeth Cystenyn yn cysylltu crefydd â gwladwriaeth, &c., a bellhaodd Ysbryd Duw yn ei doniau oddiwrthynt?

"Er fod yr amryw swyddau eglwysig yma yn arwain i'r gwahan-iaethiad rhwng llên a lleyg; ni allasai gymmeryd lle yn gyflawn tra yr oedd doniau gwyρθiol yr Ysbryd yn parhau; canys nid oedd y doniau yma yn cael eu cyfyngu i un dosparth. Y mae amryw o brofion credadwy na ddarfu y doniau neillduol hyny efo'r oes apostolaidd. Y mae Justin Ferthyr yn ysgrifenu at amherawdwr Rhufain, yn nechreu yr ail ganrif, fel hyn:—'Y mae lliaws, trwy'r byd yn gyffredin, ac yn y ddinas hon (Rhufain), wedi eu glanhau oddiwrth ysbrydion aflan, pryd nad allasant gael un gwellhad gan eich dewiniaid a'ch tynghedyddion chwi, yn unig trwy i ni, Gristionogion, ddefnyddio enw Iesu a groeshoeliwyd dan Bontius Pilat; ac y mae yr un peth yn cael ei wneyd hyd y dydd hwn; canys y mae ysbrydion aflan yn cael eu bwrw allan yn wirioneddol o ddynion.' Yn rhan olaf y ganrif yma (sef yr ail) y mae Irenæus, esgob Lyons, yn ysgrifenu:—'Y mae rhai, mewn gwirionedd, yn bwrw allan gythreuliaid yn enw Iesu: ac yn aml, y mae y rhai a waredir oddiwrth ysbrydion aflan yn dyfod yn



gredinwyr, ac yn cael eu derbyn yn aelodau o'r eglwys. Y mae gan ereill y ddawn o ragwybod pethau; ac o freuddwydion a rhagfynegiadau prophwydoliaethol. Y mac ereill yn iachau pob math o afiechyd trwy arddodiad dwylaw. Ië, y mae hyd y nod meirw wedi eu codi yn fyw, ac wedi bod yn eu plith wed'yn am flynyddocdd. Pwy all rifo y rhoddion grasol y mae Duw yn gyfranu i'w eglwys yn mhob rhan o'r byd, y rhai sydd yn cael eu rhoddi bennydd yn rhad, trwy enw Iesu, er gwaredigaeth y cenedloedd! Yn niwedd y ganrif hon (yr ail) y mae Tertulian yn herio holl raglawiaid Rlufeinig y taleithiau, gan ddweyd, 'Gadewch i ryw un dieffig gael ei ddwyn gerbron eich brawdle, a chwi gewch weled â'ch llygaid, trwy i Gristion ddweyd ond gair, fod pob ysbryd oedd o'r blaen yn gau-ymhoni ei fod yn dduw, dan rwymau i gydnabod nad yw ond cythraul.' Yn wir y mae yr holl ysgrifenywyr Cristionogol bron hyd amser Eusebius, yn nechreu y bedwar-edd ganrif, yn dweyd eu bod eu hunain yn dystion o weled a chlywed y ffaith, ei bod yn arferiad cyffredin yn mhlith Cristionogion o weled ysbrydion drwg yn cael eu bwrw allan yn enw Iesu; bod ereill o'u brodyr yn gwybod yn oruwch-naturiol am bethau dyfodol, trwy weledigaethau a dadguddiadau dwyfol; a bod ereill yn iachâu yn wyrthiol trwy arddodiad dwylaw."

---

#### YMDDANGOSIAD CRIST I'R INDIAID AMERICANAIDD— EU RHYFELOEDD—AC HANES MORMON.

WEDI i Grist adgyfodi o feirw, gorphen ei waith yn Jerusalem, ac esgyn ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwch-leoedd, efe a ymddangosodd i'r rhai cyfiawnaf o'r Nephiad, pan oeddent wedi ymgynnull oddi amgylch eu teml yn yr ochr ogleddol i ddeheubarth yr Amerig. Dangosodd iddynt ôl yr hoelion yn ei ddwyllaw a'i draed, a'i ystlys rwygiedig; diddymodd gyfraith Moses, gan sefydlu ei efengyl yn ei lle; efe a ddewisodd o honynt ddeuddeg o ddyscyblion i'w phregethu, a gweinyddu ei hordinhadau, ynghyd â'r sacrament. Gweddiodd dros, a bendithiodd eu plant; iachodd eu cleision, eu deillion, eu byddariaid, eu hanafusion, a'r holl rai cystuddiol o bob afiechyd. Dangosodd ei allu yn eu plith, drwy roddi bywyd i'r marw; eglurhaodd iddynt yr ysgrhythrau a roddasid iddynt o'r dechreuad hyd y pryd hynny, ac amlygodd iddynt hefyd y pethau mwyaf nodedig a

gogoneddus a gyflawnai efe yn eu plith hwy, a'u had ar eu hol, hyd oni ddeuai efe yn nghyflawnder yr amseroedd mewn gogoniant; ac o'r pryd hyny, hyd y diwedd, pan gesglid pawb, o bob llwyth, iaith, pobl, a chenedl, o bob oes a gwlad, gerbron gorsedd-faine Duw, i'w barnu yn ol y gweithredoedd a wnaethant yn y cnawd, pa un bynag a fyddent ai da ai drwg, hyd onid elai y nef a'r ddaear heibio, a bod nef a daear newydd. Yr holl ddadguddiadau hyn o eiddo Crist a gerfiwyd ar lafnau; ac y mae Llyfr Mormon yn cynnwys dyfyniadau o rai o honynt, ond y mae y mwyrif o honynt o lawer yn guddiedig hyd heddyw, ac i gael eu dadguddio i'r Saint yn amser da Duw, er cyflawni ei amcauion. Nid y'm yn ammau, nad ystyrir yn beth rhyfedd, ac efallai yn ammheus gan rai, fod Iesu Grist wedi ymddangos yn bersonol ar y cyfandir; ac etto, ni allaf ddirnad pa wrthddadl a ddichon, hyd y nod Rhagfarn ei hun, ddwyn i'w wrthbrofi. Pe gofynid i'r cyfryw, at bwy y cyfeiriai Crist pan y dywedodd, "Defaid ereill sydd genyf, y rhai nid ynt o'r gorlan hon; y rhai hyny hefyd sydd raid i mi eu cyrchu, a'm llais i a wrandawant; a byddant un gorlan" (Ioan x. 16). Nid y Cenedloedd a feddylia, oherwydd nad *defaid* y galwai hwynt, na neb arall ond "defaid cyfrgolleddig ty Israel." Dywedodd na ddaeth ond at y "*defaid*," i.e. defaid hefyd o ryw "gorlan" [gwlad] arali, heblaw Palestina. Paham, ynte, nad ellir addef mai at y "gweddillion Joseph" hyn y cyfeiria? Ni ddichon yma gyfeirio at y Cenedloedd ychwaith, oherwydd dywed, "A'm *llais* i a wrandawant." Nid llais ei weision, ond ei lais *ef*, fel y clywodd y defaid hyny ei lais yn Judea. Pan brofir nad atynt hwy y cyfeiria Crist yn y dywediad rhyfedd hwn, deawn ag adnodau ereill a brofant yn eglurach yn gadarnhaol; ond hyd hyny, rhaid addef fod Iesu Grist ei hun, i.e. yn ein Bibl ni, yn profi geirwiredd Llyfr Mormon!

Wedi i Iesu Grist orphen ei weinidogaeth yn mhllith y Nephiaid, efe a esgynodd i'r nefoedd yn eu gwydd hwy oll; a'r deuddeg dyscybl a anfonasai efe, a aethant allan drwy'r wlad, gan bregethu ei efengyl ef, a bedyddio y rhai a edifarhaent, er maddeuant pechodau; ac wedi hyny, derbynient yr Ysbryd Glân drwy arddodiad dwylaw y dyscyblion. Llauer o wyrthiau mawrion a wnaethwyd drwyddynt hwy ac ereill yn yr eglwys, hyd onid ufyddhaodd y gweddill o'r Nephiaid a'r Lamaniaid o'r bron drwy y de a'r gogledd; a hwy a barhasant yn ffyrdd cyfiawnder am yn agos i dri chan mlynedd: ond tua dechreu y bedwaredd ganrif o'r oes Gristionogol, gwrthgiliasant oddiwrth ffyrdd yr Arglwydd, hyd oni thywalltodd efe ei farnau dinystriol arnynt drachefn. Trigai y Nephiaid y pryd hyn yn y gogledd, a'r Lamaniaid

yn neheubarth yr Amerig. Bu rhyfeloedd creulon rhyngddynt am flynyddau, nes dadymchwel y Nephiaid, a'u dyfetha o fod yn genedl. Dechreuodd y rhyfeloedd hyn oddeutu gwddf-dir Darien, nes yn mhen amser gyrwyd y Nephiaid o flaen eu gelynyion tua'r gogledd a'r tu dwyreiniol iddo, y rhai a barhasant i'w hymlid, hyd oni chasglasant yr holl rai oedd yn ngweddill o'u cenedl, yn wyr, gwragedd, a phlant, ac a wersyllasant oddiamgylch mynydd Cumorah, yn yr hwn y darganfyddwyd yr oraclau gan Joseph Smith, fel y nodwyd eisoes. Yma hefyd yr ymlidiodd y Lamaniaid ar eu hol; ac wedi casglu eu byddin-oedd lliosog ynghyd, ymosodasant arnynt, ac a'u tarawsant â lladdfa galed am ddyddiau lawer, gan dori i lawr yn ddiarbed yr hen, yr ieuanc, a'r canol-oed, yn ddiwahan. Lladdwyd cannoedd o filoedd o bob tu, ac holl genedl y Nephiaid a lwyr-ddyfethwyd oddiar y ddaear, oddieithr ychydig a ddiangasant at y Lamaniaid, rhai a ddiangasant i'r deheubarth, a'r ychydig a adawwyd yn archolledig ar y maes am feirw. Yn mhllith yr olaf yr oedd Mormon, a'i fab Moroni, y rhai oeddynt yn wyr cyfiawn.

Yr oedd Mormon wedi gwneyd talfyriad o oraclau ei gyn-dadau ar lafnau, yr hwn a alwodd efe yn "*Llyfr Mormon*;" ac yn ol gorchymyn Duw, cuddiodd holl oraclau cysegredig ei dadau oedd yn ei feddiant, yn mynydd Cumorah; a Llyfr Mormon yn unig a roddodd, efe i'w fab Moroni i'w gwblhau.

Bu Moroni fyw am ychydig flynyddau wedi y dinystr hyn ar ei genedl, ac a barhaodd yr oracl, yn yr hwn y dywed, ddarfod i'r Lamaniaid ymlid yr ychydig Nephiaid a ddiangasant o'r lladdfa anhraethol ar fynydd Cumorah, a'u lladd, ond y rhai a ffoisent at y Lamaniaid; ei fod ef wedi ei adael yn unig, a'i fod yn ymguddio, oherwydd eu bod yn lladd pob Nephiad na wadai Grist, hyd y nod ar ol y rhyfel. Dywed hefyd fod rhyfel cartrefol yn mhllith y Lamaniaid, hyd onid oeddent yn yspeilio a lladd eu gilydd dros wyneb y wlad. Parha ei hanes hyd yr ugeinfed flwyddyn a phedwar cant ar ol Crist, yn niha amser y cuddiodd Moroni yr oraclau yn mynydd Cumorah yn ol gorchymyn yr Arglwydd, a buont yn guddiedig yno, hyd oni ddad-guddiwyd hwy, drwy weinidogaeth angylaidd, i Mr. Smith, yr hwn a'u cyfieithodd i'r Saesneg, drwy allu Duw, drwy'r urim a'r thumim, fel y mae yn hysbys.

#### TYSTIOLAETHAU AM LYFR MORMON.

WEDI rhoddi o bryd i bryd grynodedb o gynnwysiad Llyfr Mormon,

y mae yn naturiol yn awr i ofyn, onid yw yn lyfr gwerthfawr? Dywed llawer, pe buasent yn gweled y llafnau ar ba rai y mae yn gerfiedig, y credent mai gwir yw: ond yr un peth i'r cyfryw ddweyd y credant fod Duw yn bod; pan welant ef; neu, y credent fod Crist wedi adgyfodi, pe buasent hwy wedi ei weled. Haera rhai y dylent gael gweled y llafnau hyny, cyn y dylent ei gredu. Dim ond ystyried ychydig, deuid i weled ei fod yn beth nesaf i anmhosiblwydd i bawb yn mhob parth o'r byd, gael eu gweled. Pa hyd o amser, a pha faint a fuasai y gost, i'r un rhai fyned a dangos y llafnau i bob un o'r chwe chan miliwn o'r lil ddynol, canys ni allent eu dangos mewn ychwaneg nag un fan ar unwaith! Dywedai pob dyn rhesymol fod hyny yn anmhosibl. Wel, ynte, mor afresymol i'r cyfryw ofyn eu gweled, mwy nâ'r holl rai ereill. Os yw yn rhesymol i ryw un gredu tystiolaeth am hyn, heb eu gweled, felly pob un ynte. Beth yw y naill ddyn yn well nâ'r llall yn ngolwg Duw? Nid yw efe dderbyniwr gwyneb. Onid oedd ganddo cystal hawl i ddewis ei dystion i'r peth hyn, ag oedd gan Fab Duw i ddewis ei dystion o'i adgyfodiad? Y rhai a wrthodant dystiolaeth am hyn, ydynt yn efelychu y Phariseaid anghrediniol hyny a wrthodent dystiolaeth am adgyfodiad Crist, oherwydd na welsant hwy ef. Nid ydym ni yn dysgwyl i neb gredu Llyfr Mormon, nac un dadguddiad arall, a broffesa ddyfod oddiwrth Dduw, heb ddigonedd o dystiolaethau; canys ni wnawn ni hyny ein hunain. Ond, efallai y meddylia rhai fod yn rhyfyg i ni ddweyd, ein bod yn cynyg iddynt gymmaint ag sydd ganddynt i brofi geirwiredd yr ysgrythrau; eithr anturiaf ddweyd, er fod digon o dystiolaethau anwrthwynehol er profi dwyfoldeb y gyfrol santaidd, yr hon yr ydym ni yn gredu yn drwyadl, etto y mae genym ychwaneg o brofion o wirionedd Llyfr Mormon nâ hyny!. Ond, meddant, onid tystion pleidiol yw'r cyfan sydd genych; a pha beth yw gwerth tystiolaeth y Saint eu hunain am y peth sydd mewn dadl? Gofynaf finnau, Pa dystion sydd genym i brofi gwirionedd y Testament Newydd? Ni wn i am un tyst ond rhai hollol bleidiol, na dim ond chwech o'r rhai hyny, sef Mathew, Marc, Luc, Ioan, Pedr, a Phaul. Onid oeddent hwy yn bleidiol yn yr hyn oll a ysgrifenasant? ac a ydyw eu tystiolaeth hwy yn llai ei grym, oherwydd eu bod yn bleidiol yn y peth? Os nad yw, paham y mae tystiolaeth y tystion hyny a dystiant mor gadarn am wirionedd Llyfr Mormon, yn ddirym, ynte? O'm rhan i, addefaf nad allaf ddirnad pa fodd y ceir un tyst anmhleidiol am y naill na'r llall; oddi eithr fod rhyw rai yn dywedyd eu bod hwy yn gwybod mai gwir yw Llyfr Mormon, ond er hyny y boddlonant hwy i

golli eu lieneidiau yn hytrach nâ'i dderbyn, er mwyn bod yn dystion anmhleidiol, fel y credai ereill ef! Pwy a ddywedai yr anghredai ef y Testament Newydd, er bod yn dyst i ereill o'i wirionedd, ac yntau drwy hyny yn amddifadu ei hun o fywyd tragwyddol? Mor ffol a fyddai hyn; etto nid ffolach nâ dysgwyl cael tyst diduedd o Lyfr Mormon; canys yn y fan pan gredai ef, deuai yn bleidiol o anghenrhaid; ac oni wrthodid y cyfryw dyst pleidiol, am fod ei haeriad yn croesi ei *esiamp*, yr hyn yw'r tyst cywiraf o'r cyfan? "Onid yw'r gwyrthiau yn profi gwirionedd y Testament Newydd?" medd rhai; "ac onid oes lluoedd o'r rhai oedd i mewn ac allan o'r eglwys yn tystio eu gwirionedd?" Atebaf, o'r holl luoedd hyny, nid oes gymmaint ag un wedi rhoddi eu tystiolaeth i ni am hyny, ond yn unig y chwech pleidiol hyny. Y mae gwahaniaeth rhwng cael tystiolaeth y cyfryw eu hunain, a chael tystiolaeth ereill am danynt hwy! Os ateba y darlennydd y cwestiynau canlynol, yna, meddyliaf, y deawn i'r un farn am hyn:—A welodd eich llygaid chwi y gwyrthiau yn cael eu gwneyd? A glywodd eich clustiau chwi hwy yn llefaru â thafodau? A welsoch ryw dyst â'u gwelodd hwy yn iachau gymmaint ag un claf? A ddarllenasech dystiolaeth gymmaint ag un tyst anmhleidiol allan o'r eglwys, a ddywed iddo eu gweled yn cyflawni un wyrth? Os credir y Testament Newydd heb gymmaint ag un tyst anmhleidiol, paham na ellir gwneyd felly â Llyfr Mormon? Yr ydym ni yn addef tystiolaeth y dystion pleidiol hyny yn ddigon i brofi gwirionedd y Testament, a dylai fod yn ddigon i bawb. Ond gwelir fod y rhai a wrthodant Lyfr Mormon, am fod y dystion yn bleidiol, yn gwrthod y Testament Newydd, yn ol yr un resymeg!

Oddiwrth yr hyn sydd wedi bod dan sylw yn flaenorol, y mae yn amlwg i bob meddwl diragfarn fod mwy o dystiolaethau yn bodoli dros eirwiredd y llyfr crybwyllig nag sydd dros y Testament Newydd, yn gymmaint a bod cannoedd yn awr yn fyw, ag sydd wedi dyfod i wybodaeth o wirionedd Llyfr Mormon, yn tystiolaethu am danø, pan nad oes neb yn fyw yn awr a allant dystio am wirionedd y Testament Newydd. Y mae genym ychwaneg o brofion a thystiolaethau i ddwyn gerbron ein darlennyddion, ond gadawn heibio yn awr, gan addaw rhoddi yn ein rhifyn nesaf dystiolaethau y rhai hyny a welsant ac a deinlasant lafnau aur y llyfr, y rhai a eglurwyd iddynt trwy allu Duw, ac a wyddant mewn sicrwydd am danynt eu bod yn wir, ac wedi deilliaw oddiwrth yr henafiaid a grybwyllwyd yn flaenorol.

"Cyd-dystia pob-peth yn dra chllir,  
Fod Llyfr Mormon oll yn wir."

## PROFION O EIRWIREDD LLYFR MORMON.

EPALLAI y rhyfedda rhai pan yr anturiaf brofi o'r Ysgrythyrau, fod y fath lyfr â "LLYFR MORMON" mewn hen addewid i gael ei amlygu i'r byd; ond pa un bynag, y mae yn amlwg i mi, fod hyny i gymmeryd lle; ac ymdrechwn yn awr i brofi yn ysgrythyrol, mai yn yr oes hon yr oedd i gael ei amlygu, ac mai yr America oedd y fan.

1. Profwn fod cyfandir yr America wedi ei addaw gan Dduw i had Joseph, sef dau hanner llwythi Ephraim a Mannasseh; sef, y dadguddiai Duw ei feddwl a'i ewyllys iddynt hwy yno, megys ag y rhoddasai ddadguddiadau ein Bibl ni i'r Iuddewon, ac hefyd y cyssylltid y llyfrau a gynnwysai y pethau hyny â'u gilydd yn y dyddiau diweddaf.

Yn gyntaf, sylwer ar y fendith a ddyry Jacob i ddau fab Joseph, yn Gen. xlviii, 16. "Heigiant hefyd yn lliaws yn nghanol y wlad." Yn yr un fendith dywed am Ephraim, "A'i had ef fydd yn lliaws o genedloedd." Cyssyllter hyn, a gwelir y byddai Ephraim yn lliaws o genedloedd yn nghanol y ddaear. Ar ben Joseph, dywedodd Jacob (Gen. xlix). "Joseph fydd gangen ffrwythlawn—cangen ffrwythlawn wrth ffynnon, ceinciau yn cerdded ar hyd y mur. A'r saethyddion fuont chwerw wrtho ef, ac a saethasant ac a'u casasant ef. Er hyny, arhodd ei fwa ef yn gryf," &c. Dywed etto, "Rhagorodd bendithion dy dad ar fendithion fy rhieni, hyd derfyn brynïau tragywyddoldeb; byddant ar ben Joseph, ac ar goryn yr hwn a neillduwyd oddiwrth ei frodyr."

Gofynaf, pwy oedd tadau Jacob, a pha fendithion a addawwyd iddynt? Abraham ac Isaac oedd ei dadau, a'r fendith a addawsant hwy i Jacob oedd gwlad Canaan; dim llai na mwy nag a addawodd Duw i Abraham, sef, "Myfi a roddaf i ti ac i'th had, wlad dy ymdaith [Canaan] yn etifeddiaeth byth." Ond, "*rhagorodd*" bendith Joseph ar fendith ei dadau; i.e., rhagorodd gymmaint ag a ragora "terfyn brynïau tragywyddoldeb" ar wlad Canaan. Yn yr Aifft yr oedd Jacob ar y pryd hyn, a pha le y gellid edrych am "derfyn brynïau tragywyddoldeb" yn fwy rhesymol nâ thua'r *Andes*, neu fynyddoedd creiglyd y Cyfandir? Dywed y Prophwyd hefyd, mai yn y gorllewin y byddent, "canys pan rua yr Arglwydd, cryna meibion Ephraim o'r gorllewin." Y mae yn amlwg oddiwrth yr hyn a ddywedwyd, fod Ephraim i fod yn lliaws o genedloedd yn nghanol y ddaear, ac i fod Joseph i etifeddu y wlad eangaf a ffrwythlonaf dan haul, yn y gorllewin; i.e., can belled â'r America. Ac er chwilio y byd o begwn i begwn, ni cheir lliaws o genedloedd, pa rai oedd yn bossibl iddynt

darddu o Ephraim, ond yn yr America. Er fod gwahanol genedlaethau mewn rhai gwledydd ereill, etto, y maent mor gymmysgedig, ac mor wahanol eu tarddiad, fel na ddichon eu bod yn cyflawni y brophwydoliaeth uchod; pan, o'r ochr arall, y gwelir yn yr America ugeiniau o genedlaethau, yn trigo mewn gwlad eang, yr hon sydd yn cynnwys brasder y byd, ac "yn dwyn bendithion y ddaear isod." Ac y mae pob hanesydd a fu yn teithio yn eu plith, yn addef eu bod o un tarddiad dechreuol. Rhaid addef mai gweddillion Joseph yw yr Indiaid Americanaidd, neu wadu y brophwydoliaeth hon, am na all fod yn cyfeirio at neb arall.

Y peth nesaf a brofw'n ydyw, fod y prophwydi yn arddangos y rhoddai Duw ddadguddiadau i Ephraim a Manasseh yn yr America. Gwel Hosea viii, 12. Pan yn llefaru dan ysbryd prophwydoliaeth, dywed, "Mi a ysgrifenis iddo bethau mawrion fy nghyfraith, ac fel dyeithr beth y cyfrifwyd." Dywed Ezeziel hefyd yn mhen 37, nid yn unig y byddai gan Ephraim lyfr yn cynnwys dadguddiadau Duw i'w brophwydi cystal ag y byddai gan Juda, ond y rhoddid y ddau lyfr hyn ynghyd, pan y byddai Duw ar eu dychwelyd yn ol i feddiannu eu breintiau addawedig (adn. 16). "Tithau, fab dyn, cymmer it' un pren, ac ysgrifena arno, I Juda, ac i feibion Israel, ei gyfeillion. A chymmer it' bren arall, ac ysgrifena arno, I Joseph, pren Ephraim, ac i holl dŷ Israel, ei gyfeillion; a chydia hwynt y naill wrth y llall yn un pren i ti, fel y byddont yn un pren yn dy law di. A phan lefaru meibion dy bobl wrthynt ti, gan ddywedyd, Oni fynegi i ni beth yw hyn genyt? Dywed wrthynt, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, Wele fi yn cymmeryd pren Joseph, yr hwn sydd yn llaw Ephraim, a llwythau Israel, ei gyfeillion; a mi a'u rhoddaf hwynt gydag ef, sef, gyda phren Juda, ac a'u gwnaf hwynt yn un pren, fel y byddont yn un pren yn fy llaw i. A bydded yn dy law o flaen eu llygaid hwynt, y prenau yr ysgrifenynt arnynt; a dywed wrthynt, Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, Wele fi yn cymmeryd meibion Israel o fysg y cenedloedd yr aethant atynt, a mi a'u casglaf hwynt o amgylch, ac a'u dygaf hwynt i'w tir eu hun. A gwnaf hwynt yn un genedl o fewn y tir yn mynyddoedd Israel, ac un brenin fydd yn frenin iddynt oll: ni byddant hefyd mwy yn ddwy genedl, ac ni renir hwynt mwyach yn ddwy freniniaeth."

Y mae yn hysbys i bob hanesydd, na fu meibion Israel yn un genedl neu freniniaeth ar fynyddoedd Israel, nac un man arall, er yr amser y rhanwyd hwynt yn ddwy freniniaeth dan Rehoboam, fab Solomon, a Jeroboam, fab Nebat. Etto, hysbysa y prophwyd ni, y dwg Duw

hwynt yn un freniuaeth; i.e. yn eu gwlad eu hun, sef yn nysg mynyddoedd Israel. Cyflawnir hyn drwy fod Duw yn eu casglu o blith yr holl genedloedd yr aethant atynt.

Dechreuia y casgliad hwn yn uniongyrchol wedi i'r Arglwydd gymmeryd pren Joseph, yr hwn sydd yn llaw Ephraim, a'i roddi gyda phren Juda, ac y deuant yn ei law eif yn un pren. Sylwer, ar y naill o'r prenau hyn, byddai yn ysgrifenedig drwy orchymyu Duw ryw bethau i Juda, ac ar y pren arall i Ephraim (canys gelwir ef yn bren Ephraim cystal ag yn bren Joseph), a gofynaf pa bethau a orchymynai Duw eu hysgrifenu arnynt, ond yr hyn bethau a ddywedodd Hosea, "Mi a ysgrifenaiddo [Ephraim] bethau mawrion fy nghyfraith," sef, er llywodraethu y ddwy gangen hyn o dŷ Israel, ac o ganlyniad, cynnwysent brophwydoliaethau am y pethau a ddygwyddai iddynt yn yr amser dyfodol, canys cynnwysa yr holl ysgrifeniadau a orchymynodd Duw eu hysgrifenu at bob llwyth, iaith, a chenedl, hyny; ac felly mae yn rhesymol i ni ddysgwyl y cynnwysai pren Joseph neu Ephraim "bethau mawrion cyfraith Duw," er eu dysgu, eu llywodraethu a mynegi iddynt eu tynghedfen, fel i'w cyfeillion. Cynnwysai pren Judah bethau mawrion ei gyfraith i Judah (sef i lwyth Judah). Ond paham y gelwir hwy yn *brenau*, ebe y darlennydd? Atebaf, nad oedd y gelyfddydd o wneuthur papyr yn adnabyddus yn nyddiau Ezekiel; o ganlyniad, byddai raid iddynt ddarparu rhyw beth arall i'r pwrpas hyny. Weithiau ysgrifenuent ar grwyn wedi eu taniò yn llyfu, pa rai a alwent yn femrwn. Weithiau defnyddient risgl coed i'r perwyl, a alwent *papyrus*; ac weithiau naddent brenau yn llyfu i'r dyben hyn. Y rhai olaf hyn oeddent hawddaf i'w darparu; ac oherwydd hyny, gorchymynodd Duw i'r prophwyd ddarparu dau bren yn y fan, er eu dangos i'r bobl, i fod yn siampl neu arwydd iddynt y cyssylltai Duw lwythau Israel, fel, ac ar y pryd y cyssylltir y ddau lyfr hyny â'u gilydd. Dyma yr achos, debygaf, y gelwir hwynt yn brenau yn lle llyfrau.

Y gofyniad mwyaf naturiol i ymholwr awyddus yw, Yn mha le y ceir yr oraclau hyn? Dywed y prophwyd fod pren Joseph eisoes yn meddiant meibion Ephraim, ac y byddai i Dduw ei gymmeryd oddi-yno, a'i symud at bren Judah, fel y deuent yn un yn ei law. Er nad hysbysir yn mha le y mae pren Judah, cyfeiria nad yw efe i gael ei symud fel y llall, o'r mau y mae; yna deallwyf fod pren Judah eisoes yn meddiant trigolion y byd; a chan fod pren Ephraim yn guddiedig, cymmer Duw o'r fan lle y mae, dwg ef i'r amlwg a gesyd ef gyda phren Judah. Nid yw yn newydd i'r darlennydd weithian mai y Bibl yw pren Judah; canys ni chynnwysa hanes un llwyth na phobl erei.



ond hwy, er y gwasgariad crybwyllledig, ond fel y mae hanes creill mewn cysylltiad â hwynt.

Cynnwysa bethau mawrion Duw wedi eu hysgrifenu i lwyth Juda, gan brophwydi ac apostolion o dy Juda. Cynnwysa hefyd brophwydoliaethau am y pethau dyfodol, pa rai ydynt eisoes yn meddiant cenedloedd y byd. Yn awr, gan ein bod wedi cael allan bren Juda, awn yn mlaen i chwilio allan bren Joseph, gan gofio pan gaffom ef, y rhaid ei fod yntau yn cynnwys pethau mawrion cyfraith Duw i Ephraim; yn rhoddi hanes y gangen hon o dy Joseph, wedi ei ysgrifenu gan brophwydi ac apostolion yn olynol o lwynau Joseph, fel y mae pren Juda o'r eiddo yntau. Hefyd, cynnwysa y byddai y llyfr hwn yn guddiedig yn nghyffiniau y wlad lle y trigai meibion Ephraim ar y pryd y dygai Duw ef i'r amlwg, canys cymmerir ef o law Ephraim; ac megys yr arwydda y gair Ephraim yma ei hiliogaeth a darddent o'i lwynau, felly "o law" a arwydda o feddiant, neu o'r wlad lle y mae yr Ephraimiaid yn trigo. Gan ein bod wedi profi eisoes y byddai "Ephraim yn lliaws o genedloedd yn nghanol y ddaear," yn y "gorllewin" o Jerusalem, "hyd derfyn y bryniau tragwyddol," sef cyfandir yr America; canys pe cymmerid taith o'r gorllewin i Jerusalem hyd oni ddelid o hyd i liaws o genedloedd o'r un tarddiad, ni cheid ddim yn debyg hyd oni chroesid y Môr Werydd. a thua lledred Charlestown, Carolina Ddeheuol, Unol Daleithiau yr America. Meddylid yr ystyriai y teithiwr ei orchwyl ar ben pan y cyrhaeddai yma, a chael y fath liaws o genedloedd ar gyfandir yn cyrhaedd o'r bron o'r cylch gogleddol hyd y deheuol; a dywedai, dyma yr Ephraimiaid yn gyflawniad manylaf o'r prophwydoliaethau am danynt; ac yna rhaid cael y *pren* [llyfr cyfraith] Ephraim yma yn eu plith hwy, ac ni ddichon un llyfr a gaffer yn un man arall ateb y desgrifiad manwl hwn. Wel, a welwyd y fath lyfr ag a ddesgrifir, yn eu meddiant, gan rywun? medd y darlennydd. A gellid meddwl pe ceid gafael ar y fath lyfr yn eu plith yn rhoddi hanes eu tarddiad a'u helyntion, y byddai hyny yn ffaith anwrthwynebol, ac yr addefai hyd y nod yr anffyddwyr caletaf eirwiredd y naill lyfr a'r llall, canys gwell dau dyst nag un. Yna, chwiliwn yn fanylach yn eu plith am y fath lyfr, canys gwir a ddywedodd y prophwydi; a chan mai y rhai hyn yw yr Ephraimiaid, rhaid fod y fath i ddyfod i'r amlwg o'u plith hwy; a dylai yr holl rai a fynant amddiffyn geirwiredd y Bibl [sydd yn tystio am lyfr Ephraim] nid yn unig llawenhau, gan gredu y cyfryw pan y ceir, ond ymdrechu rhoddi gwybodachth o hono i bawb. Y neb a ddirmygo neu a wrthyd y dystiolaeth [y llyfr hwn] sydd yn gwrthod y tyst am dano [sef y Bibl], am gelwydd.

Gan nad oes neb o'r Indiaid hyn, a'r a welwyd, yn gallu darllen, nid ellir braidd dysgwyl y byddai llawer o lyfrau yn eu plith yn awr, ond nid yw hyny yn profi na fuont yu meddu llyfrau rywbyrd, yn gallu eu darllen a'u hysgrifenu, mwy nag y prawf dymchweliad hollol Babilon, a dinasoedd mawrion yr Aifft a manau ereill, ynghyd â hollol ddirywiad eu trigolion, na fuont yu eu hamser yn brif athrofeydd neu *Thebes* y byd. Ac fel llawer o'r rhai hyny, nid oes gan yr Indiaid Americanaidd yn awr, ond cyfeirio yr ymdeithydd am atebiad i'w gwestiynau at yr adfeiliadau ardderchocaf o'r dinasoedd mwyaf eu maint, cywreiniaf eu celfydd-waith, a chadarnaf eu hamddiffynfeydd, a welwyd yn y byd. Y gweddillion hyn a lefarant yn eglur ac yn barhaus, mewn llawer dull, am gywreinerwydd eu tadau, ac a ddangosant y dirywiad hollol sydd wedi goddiweddyd eu plant. Addefa teithwyr diweddar fod yr hen ddinasoedd, y temlau mawrion a lliosog, y colofnau anferth, y muriau uchel, yr amddiffynfeydd cedyrn, a'r dinasoedd caerog, yn profi eu bod nid yn unig cyn hyned, ond o'r cyffelyb gelfyddydau ag eiddo yr Aifftiaid, pan yn eu rhwysg a'u grym. Pwy a'u gwnaeth, pa bryd, a pha beth yw eu haues, nid oes neb o'r teithwyr yn eu plith wedi cael ateb i'w boddlonrwydd, a'r atebion a geir gan y brodorion anwaraidd eu hunain yw'r traddodiad a ddysgwyd o dad i fab, ac y maent yn hynod am argraffu y pethau hynotaf a fu yn eu plith ar gof y plant ieuainc. Difyrus fu genyf weled yr hen wyr penllwyd yn eistedd wrth eu *Wigman*, a'r bechgyn bach o'r bedwaredd genedlaeth yn eistedd ar eu gliiniau, i gael eu dysgu yn eu hanesyddiaeth, yn enwedig eu rhyfeloedd, hanes dewrion eu teulu eu hunain, a chwedlau traddodiadol eu prophwydi, pa rai a alwant eu *Medicine man*. Gwna hyn fagu cariad yn y plant at eu llwyth eu hunain, gan achosi iddynt eu hefelychu hwy mewn gwroldeb; ac nid anfynych y negir cenfigen drwy ddysgeidiaeth fel hyn at lwyth arall, o'u mebyd. Gorchwyd yr henafiaid yw dysgu i'r rhai ieuainc y traddodiadau a ddysgwyd iddynt hwy gan eu cyn-dadau, pan y bydd y dlynion heinyf yn hela, y gwroniaid yn ymladd, a'r llanciau a'r merched ieuainc yn eu chwareuyddiaethau, ac yn dysgu saethu â bwa, palfu y *war club* a'r *tamahawk* am y cyflymaf, yr hyn a wnant gyda chywreinerwydd mawr wrth swm eu hoffer cerdd, eu symbalau, a nifer o bibellau. Mae ganddynt fath o ddawns cyn myned i ryfel, a math arall wedi dychwelyd yn ol, os yn fuddygoliaethus, ynghyd ag amryw deulliau er eu difyrwech cartrefol. Pan y byddant hwy ar ymosod ar eu gelynion, y mae ganddynt arferiad o waeddi yn unllaf mor groch ac mor ofnadwy ag y gallant, er gwroli y naill y llall, a chodi arswyd ar eu gelynion; ac nid

yw yn annhebyg eu bod wedi dilyn yr arferiad hwn er's oesoedd, canys "cyffelyb yw i ruad plant Israel pan orchfygent." Ond rhag bod yn rhy faith, awn heibio y ffeithiau lliosog sydd drwy y wlad yn profi eu henafiaeth, a rhoddwn ddesgrifiad o'r dinasoedd a'r moel-gloddiau, &c., mewn rhifyn arall.

### TYSTIOLAETH TRADDODIADAU INDIAIDD.

OND er cael hanes y Cof-lyfr, sef "*pren Ephraim*" yn eu plith, gofynaf sylw diduedd y darlennydd at yr hanesion canlynol, pa rai a gyhoeddwyd i'r byd ychydig flynyddoedd yn ol, gan ddyinion diduedd, ac o gynmeriad uchel, ac a brofant fod traddodiad yn mhlith y gwahanol lwythau drwy'r cyfandir, yn lled debyg i'w gilydd ynghylch y llyfr nodedig dan sylw.

Mr. Boudinot a ddyry'r hanes a ganlyn am yr Indiaid y bu efe yn eu plith:—"Y mae traddodiad yn mhlith eu penaethiaid, fod gan eu cyn-dadau lyfr lled debyg i'r llyfr sydd gan y bobl wynion yn awr [y Bibl], eu bod yn bobl ddedwydd, gwaraidd, a llwyddiannus. Dywedant hefyd, y meddai eu tadau ddoethineb a galluoedd goruwch-naturiol oddiwrth 'yr Ysbryd Mawr,' drwy yr hyn eu galluogid i ragfynegu pethau dyfodol, ac i oruwch-lywyddu tyngled cenedloedd; yr hon wybodaeth a gyflwynasant i'w plant, ar yr ammod o fod iddynt ufuddhau i'r cyfreithiau santaidd a gynnwysai y *lyfr hunw*; a darfod iddynt drwy hyn y dderbyn llawer o fendithion a-gwaredigaethau mawrion, hyd onid oeddynt yn bobl wynfydedig; ond, fod y galluoedd hyny wedi eu colli o'u plith er ys llawer o amser bellach."

Col. James Smith a ysgrifena yn hanes ei daith, pan gymmerwyd ef yn eu plith,—“Y mae ganddynt draddodiad o fod yr angylion, neu 'drigolion y nefoedd,' fel' eu galwant, yn ymweled â'u cyn-dadau yn fynych pan sefydlasant gyntaf ar y cyfandir, y llefarent wrthynt, gan eu dysgu pa fodd i weddio ar yr Ysbryd Mawr; ac mae llawer o bethau ereill nad ydynt hwy yn awr yn cael gwybod dim am danynt."

Mr. Boudinot, yn ei sylwadau ar eu hiaith, a ddywed,—“Y mae eu hiaith, yn ei gwreiddiau, ei phriod-ddull o frawddegau, a'i chyfansoddiad neillduol, yn dangos holl gymeddfau yr Hebraeg; a pheth sydd dra hynod, ac yn deilwng o sylw neillduol yw, ei bod yn cynnwys y rhan fwyaf o bethau neillduol yr iaith hono, yn enwedig yn y pethau y gwahaniaetha oddiwrth ieithoedd ereill. Clywais draddodiad gan hen wr o lwyth *Stockbridge*, fod eu cyn-dadau yn meddu *Llyfr Santaid*, yr hwn a draddodwyd i wacred o genedlaeth i genedlaeth, ac o'r diwedd a guddiwyd yn y ddaear, a byth er hyny eu bod hwy wedi bod yn cael eu sathru dan draed eu gelynyion; ond fod yr oraclau hyny i gael eu hadferyd iddynt, ac y caent y pryd hyny oruchafiaeth ar eu gelynyion, meddiant o'u gwlad, a mwynhau eu hiawnderau a'u breintian cyntefig.” Wedi traethu llawer o draddodiadau cyffelyb i'r uchod, sylwa Mr. Boudinot, “A ddichon rhyw ddynt wedi darllen yr hanes am y traddodiadau Indiaidd hyn, pa rai a geir yn mhlith tylwythau y gwahanol genedloedd hyn, o'r gorllewin i'r dwyrain, ac o'r gogledd i'r deau, ar wahan hollol oddiwrth eu gilydd, wedi eu hysgrifenu gan wahanol haneswyr o wybodaeth a chymmeriadau uchel, yn meddu y manteision goreu, mewn gwa-

hanol fanau, ac ar wahanol amseroedd, heb fod yn bosibl iddynt gymdeithasu â'u gilydd; a ddichon rhywun, meddaf etto, anghredu eu tystiolaeth, gan feddwl fod hyn oll yn tarddu oddiar ddamwain, neu fwriad i dwyllo, tra na byddai neb ar ei ennill wrth hyny?"

Oddiwrth y traddodiadau hyn, gwelir fod gan y bobl yma yn y cynoesoedd "Lyfr Cyssegredig," neu santaidd, yn cynnwys cyfreithiau cyssegredig [neu bethau mawrion cyfraith Duw], wedi eu hysgrifenu iddynt gan eu cyn-dadau, trwy ddylanwad goruwch-naturiol Ysbryd Duw, trwy yr hwn yr oeddynt yn prophwydo. Hysbysant ni fod y llyfr hwn wedi ei draddodi o dad i fab, hyd nes y cuddiwyd ef yn y ddaear, eithr nid i aros yno byth ychwaith, ond i gael ei amlygu yn nghyflawnder yr anser y gwelai Duw yn dda, 'er bendith fawr, ac i fod yn foddion i'w casglu hwythau yn ol i feddiannu eu gwlad. Ac onid yw hyn yn hollol gydfynedol â'r hyn a brophwydodd Ezekiel mewn perthynas i "bren Joseph?" sef y cymmerai Duw ef o'r fan lle y cuddiwyd ef yn mysg yr Ephraimaid, ac y rhoddai efe ef gyda phren Juda, sef y Bibl, ac wedi hyny y cymmerai efe feibion Israel o blith yr holl genedloedd yr aethent atynt, ac a'u casglai i'w gwlad eu hunain.

Dywed y prophwyd Jeremia yn amlwg am y casgliad olaf hwn i'w gwlad, pen. xxxi, 8,—“Wele, mi a'u harweinias hwynt [ei bobl Israel] o dir y gogledd, ac a'u casglaf hwynt o ystlysau y ddaear, y dall, y cloff, y feichiog, a'r hon sydd yn esgor ar unwaith] gyda hwynt; cynulleidfa fawr a ddychwelant yma; oblegid myfi sydd dad i Israel, ac Ephraim yw fy nghyntaf-anedig,” sef yn y casgliad neu yr adferiad olaf i'w gwlad a addawsai Duw i'w tadau. Felly rhesymol yw dysgwyl y byddai Duw yn dechreu y gwaith yn eu plith hwynt. Yn adn. 18, dywed—“Gan glywed y clywais Ephraim yn cwynfanfel hyn: Cospaist fi, a mi a gopwyd, fel llo heb ei gynnefino â'r iau; dychwel di fi, a mi a ddychwelir; oblegid ti yw yr Arglwydd fy Nuw.” Mor debyg yw hyn i gwynfan yr Ephraimaid yn bresennol, yn ol y traddodiadau blaenorol, onide? ac y mae yr adnod nesaf yn dangos mai gwaith ofer a wna cenadon y sectau, yn ccisio gan yr Indiaid Americanaidd edifarhau ac ufyddhau i'w ffurfiau, a'u dynol gredoau hwy; canys, “Yn ddiau wedi i mi ddychwelyd, ni a edifarheais [ac nid cyn hyny]; ac wedi i mi wybod [fod y llyfr hwnw wedi dod i'r amlwg], mi a darewais fy morddwyd, myfi a gywilyddiwyd, ac a waradwyddwyd hefyd, am i mi ddwyn gwarth fy ieucenyd;” sef y dirywiad oherwydd eu hanufydd-dod i'r “llyfr cyssegredig” hwnw, a guddiesid oddiwrthynt yn y ddaear. Etto, fe'i hadferir iddynt, canys y mae yr adnod nesaf yn dangos hyny,—“Ai mab hoff genyf yw Ephraim? ai plentyn hyfrydwch yw? canys er pan lefarais i yn ei erbyn, gan gofio y cofiaf ef etto; am hyny fy mherfedd a ruant am dano ef; gan drugarhau y trugarhaf wrtho ef, medd yr Arglwydd.” Gwelwn fod y drugaredd i ddechreu o du yr Arglwydd—nid trwy anfon cenadon i bregethu “pren Judah” iddynt, ond trwy adferyd iddynt eu *pren* eu hun, y “llyfr cyssegredig” a guddiwyd oddiwrthynt, yn ol eu dysgwyliad eu hunain. Nid rhyfedd ynte fod y miloedd, os nad y miliynau, o arian a wastraffwyd ar genadon i bregethu iddynt ond colled, a gwaeth nâ cholled, drwy eu caledu, a rhwymo yr ychydig a ddichon fod yn eu credu [er na welais i un o'r miloedd a'u gwrandaent wedi eu credu etto] yn dynach â rhesynau credoawl, fel na byddant mor barod i dderbyn eu “llyfr cyssegredig,” pan y dadguddia Duw ef iddynt.

Erbyn hyn yr ydym wedi dod o hyd i Ephraim yn ddiau yn "lluoedd o genedloedd yn nghanol y ddaear," "i'r gorllewin o Jerusalem," yn nghyda llawer o draddodiadau yn eu plith eu hunain, fod pren Joseph, "y llyfr cyssegredig" oedd gan eu cyn-dadau, wedi ei guddio yn y ddaear yn rhyw gwr o'u gwlad; ac nid yn unig hyny, ond tystiant hefyd eu bod yn dysgwyl ei adferiad yn ol i'w meddiant, ac y bydd yn offerynol i roddi iddynt wybodaeth o oruchwyliaethau Duw i'w tadau, y dychwelant hwythau i'w hiawn bwyll a'u breintiau. Ac yn awr, ddarlennydd, ai tybed mai *Llyfr Mormon* yw y pren Ephraim hwn? Paham na all fod? Yn wir, y mae yn debyg iawn i'r desgrifiad. Fe'i cafwyd yn ngwlad Ephraim; y mae yn cynnwys pethau mawrion cyfraith Duw i Ephraim, wedi eu hysgrifenu dan ddylanwad goruwch-naturiol Ysbryd Duw i'r prophwydi a'r apostolion a ddaethant o'i lwynau ef. Y mae wedi bod yn guddiedig yn y ddaear am gannoedd o flynyddoedd, ac yn y dyddiau diweddaf hyn y mae wedi cael ei ddwyn i'r amlwg drwy allu Duw. Y mae efe wedi ei roddi at bren Juda, sef y Bibl; ac wele, y mae y ddau wedi myned yn un pren yn ei law ef. Y maent yn un o ran eu Hawdwr a'u tarddiad—yn un mewn dyben—yn un mewn athrawiaeth—wedi eu cyfansoddi dan ddylanwadau, a thrwy gyfarwyddyd yr un Ysbryd—ac y maent yn un yn llaw gweision anfonedig Duw, yn cael eu pregethu drwy'r byd, a rhyfedd fel y cydgoriant yn mhob peth! A rhaid fod y neb a broffesa ei fod yn credu y Bibl, ac ar yr un pryd a wada eirwiredd *Llyfr Mormon*, yn gwneuthur hyny heb sail ysgrythyrol na rhesymol. Ni wna un dyn myfyrgar feddwl llai o hono o herwydd ei gael yn yr America, canys gwelir mai prawf yw hyny o'i eirwiredd. Ni fuasai yn bosibl ei fod yn ateb i'r prophwydoliaethau, pe cawsid ef yn rhywle arall. Na farner ef ychwaith heb ei ddarllen, nac yn ol yr ystoriau cyfeiliornus a draethir am dano gan ei elynion; oherwydd felly y dywedai y cyfryw am y Bibl yn ei dro, ac felly y dywed y mwyrif am dano yn awr. Nid yw hyny yn ei brofi yn dwyllodrus, mwy nag y mae y cyffelyb dystion yn profi *Llyfr Mormon* yn dwyllodrus.

---

### ADOLYGIAD.

**SYLWEDD PREGETH AR Y GWYRTHIAU,** *er mwyn goleuo y Cyffredin, a dangos Twyll y Creaduriaid a alwant eu hunain yn "Seintiau y Dyddiau Diweddaf."* Gan W. R. DAVIES, Dowlais.

WELE Mr. Davies, o'r diwedd, ar ol diflasu y cyffredin drwy draethu o'r pwlpuadau ei ystoriau ar y Saint, wedi cyhoeddi traethodyn, a'i alw yn "Sylwedd Pregeth," gan feddwl y gwertha yn well, ac y bydd yn fwy ennillgar na'r ffordd arall. Carem weled Mr. Davies, neu ryw un arall, yn ymosod ar ein hathrawiaeth, er mwyn dangos ein cyfeiliornadau, neu ynte yn ein gadael yn llonydd. Ond, na feddylied y darlennydd fod yr hyn a eilw efe yn "bregeth," yn ddim glanach nag arferol oddiwrth inc athrod, ac ystaeniadau cabledd. Ond ein llygaid a redant yn gyntaf drwy y traethodyn hwnw, er mwyn casglu ychydig brofion o deimpladau Mr. Davies, pan yn ei gyfansoddi; canys y mae llwyddiant duwinydd yn dibynu yn fawr ar y tymherau fyddo yn ei lywodraethu dan ei dasg. Ac y mae Mr. Davies yn rhoddi i ni y rheol hon

i'w farnu yntau wrthi, pan y dywed:—"Tuedd pob gweithred a ddengys ei tharddiad; os bydd y ffynnon yn ddrwg, rhaid fod ei ffryndiau yn ddrwg hefyd." Brawddegau duwiolfrydig pin ac enaid gweinidog parchedig Caersalem, Dowlais, ydynt y rhai canlynol:—"Y creaduriaid," "rhyw bethau islaw dynion," ac etto yn gallu twyllo y cyffredin, i.e. ei wrandawwyr a'i aelodau call ef ei hun! "Y fath dwyll mor oleu," "y gau Gristiau, "Sais anwybodus, digynmeriad, wedi bod yn ngharchar Caerdyf am ei ddrygioni." "yr adyn hwn," "canlynwyr penffol," "bragio pregethu," "yufydion anwybodus," "gwatwar gweinyddu ordinhadau," "blaenoriaid twyllodrus," "gagendor o ryfyg," "cethern aſan," "rhodder arnynt yr enw Sataniaid y bedwaredd ganrif ar bymtheg." Wele ni eisoes wedi darllen oddeutu saith a deugain o linellau, sef rhan fawr o lyfr o 20 tud., a elwir yn "*Sylwedd Pregeth* y Parch. W. R. Davies," a chael lloſyn lled hardd o'r *Ddafisyddiaeth* a gynnwysa! Frodyr anwyl, gweddiwch dros y Mr. Davies hwn, canys gwerthfawr yw ei enaid yntau er y cyfan! Adwaenir ni ac yntau wrth ein ſŵrwythau. Ac hefyd, dymunem i'r darllenydd gadw yn ei gof, nad ymosodwyr ydym ni ar Mr. Davies, ond dynion ydym sydd wedi ein gorfodi o'r diwedd i amddiffyn y ffordd hõno yr addolwn ni Duw ein tadau yn gydwobodol ynddi, ac ymdrechwn fod mor dynner ag y goddefa ei ymosodiadau diachos arnom, i ni fod; ond dyled i'n Duw a'n crefydd yw amddiffyn ein cymmeriadau rhag cam-gyhuddiadau, serch dynoethi cynmeriad ein hiathrodwr; canys rhoddasom enghreifftiau digonol eisoes, ei fod yn teilyngu yr enw hwnw, ac yn ddifenwr ac hystyngwr rhydd. Ond sylw'n ar ei osodiadau, er gwelod y gwahaniaeth mawr sydd rhwng *Dafisyddiaeth* ac *Apostoliaeth*.

"Crybwylla Paul am amryw ddoniau, &c., oll yn effeithiau yr un Ysbryd, a'r dybenion oedd *un*, sef adeiladaeth yr eglwys." *Well done*, Mr. Davies! Dyna fel yr oedd; a dyna a ddywedwn ninnau. Ond paham y gwadwch hyny ar yr un anadliad? Os addefwch mai er adeiladaeth yr eglwys yr oedd y doniau gwyrthiol, rhaid i chwi addef yr anghenrheidrwydd am danynt, neu rhaid eich bod yn cyhuddo Crist o drefnu moddion adeiladaeth ofer ac afreidiol. Os addefwch mai yr un yw eglwys Crist yn awr, onid oes arni eisieu adeiladaeth yn awr? Pa fath adeiladaeth sy'n eisieu yn awr, heblaw y math apostolaidd? A pha fodd y ceir hwnw, heblaw drwy yr un Ysbryd dwyfol? A pha fodd, Mr. Davies, y gwna yr Ysbryd dwyfol hwnw ei waith yn awr, heblaw drwy gyfranu y cyffelyb ddoniau gwyrthiol ag a gyfranai i'r dyben hyny yn yr oes apostolaidd? Beth, syr! a oes dau fath o adeiladaeth? y naill yn apostolaidd, a'r llall yn *Ddafisyddol*? y naill, i bechaduriaid yr oes hõno, a'r llall i bechaduriaid yr oes hon? Eithr, yn mlaen â hi; adeiladwch chwi eich hun yn eich Caersalem â'r un *Ddafisyddol*, ar gost y rhai a fyddant mor ffol â gwrando arnoch; a chymmerwn ninnau, a chyhoeddwn i bawb, yr adeiladaeth hõno a gyfaddefasoch chwi eich hun yn apostolaidd. Difenywch ac erlidwch chwi, nes merwino elustiau y gweddill o'ch gwrandawwyr, am danom ni. "Codi croes yr oes yr y'm; rhedeg a llwyddo'r ydym," gerbron eich llygaid.

"II. Sonia ein testun am swyddwyr yr eglwys apostolaidd, ynghyd

â'r gwahanol ddoniau a roddwyd iddynt, er eu cymhwyso a'u haddasu i lanw a chyflawni eu swyddau pwysig," ebe Mr. Davies. Dyma addefiad da iawn etto; ac onid ydych chi yn haeru eich bod yn llenwi rhai o'r swyddau eglwysig hyny? A ydych chi gymmaint gwell nâ hwy, fel y gallwch eu llanw dan wadu a gwawdio y doniau hyny? Gallwch lanw swyddau y drefn Ddafisyddol yn llawn, heb ddim o Ysbryd Duw. Ond ni allai hyd y nod Timotheus lanw y swydd a hõnwch chi, heb ddoniau yr Ysbryd Glân, y rhai a dderbyniodd efe "drwy arddodiad dwylaw a phroffwydoliaeth" (1 Tim. iv, 14). Ond chwychwi a feddwch ddigon o awdurdod i ymfrostio eich bod chi wedi diddymu y "traddodiad Pabyddol, *alias* yr ordinad santaidd hõno," o Gaersalem, pan y cawsoch "y ffrwyn yn eich dwrn!" Pan glywn chi yn dadleu â'r offeiriadon sefydledig, tebyg eich bod yn daer iawn dros y drefn apostolaidd. Da iawn, ynte; parhewch felly. Ond, paham y trowch oddiwrth yr un apostolaidd, gan wawdio a diddymu ei bordinhadau am Babyddiaeth, wrth ein herlid ni? "Apostolaidd i gyd" yw eich llef atynt hwy; "apostoliaeth wedi darfod," a Dafisyddiaeth ar ei hadfai, yw eich llef yn ein gwynebau ni ar yr un anadliad. Yn mha le y mae Iago? Wele ni wedi cael allan y ffynnon sydd yn bwrw allan ffrydiau melys a chwerw! Ni wyddai ef pa le yr oedd. Iê, siwr; Timotheus yn Ephesus yn methu cyflawni ei swydd heb *ddawn*, ynghyd ag arddodiad dwylaw ac ysbryd y brophwydoliaeth; a'r Timotheus yn Dowlais yn haeru ei fod yn llenwi yr un swydd yn hwylus heb un o ddoniau yr Ysbryd! Gwelwch na thalsech ddiin yn y byd i lenwi eich swydd yn Ephesus; a phafodd y talwch, meddwch chi, i'w llauw yn Nghaersalem? Y mae genych <sup>l</sup>lawer o ddynion yna yn ddiau yn onest eu dybenion, yn ceisio addoli Duw goreu y gallant. Y maent eisieu eu perffeithio a'u hadeiladu yn fawr. Pa fodd y gallwch eu hamddifadu o'r doniau a'r bendithion nefolaidd a addefasoch ddarfod i Dduw eu gosod yn yr eglwys, er eu "hadeiladaeth, er perffeithio y saint, i waith y weinidogaeth?" Onid chwychwi yw y Timotheus dan ei swydd, ond y Timotheus sy'n amddifad o ddawn y swydd?

"III. Dyben y gau-brophwydi yn mhrophwydoliaeth Moses, oedd dwyn eu canlynwyr i addoli gau-dduwiau, drwy addaw pethau mawrion iddynt. Dyben blaenoriaid y Sataniaid yw twyllo arian dynion annysgiedig a phenweiniaid; nid eu hannog i fyw yn dduwiol, ond drwy addaw nefoedd a gwynfyd iddynt yn yr America, a'u porthi â rhyw sothach islaw synwyr cyffredin."

Yn awr, Mr. Davies, yr ydym yn meddwl y gwyddoch well pethau. Dyma enghraifft o resymeg gymhariaethol:—"Oherwydd fod dyben drwg gan ddynion yn nyddiau Moses, rhaid mai dybenion drwg sydd gan y rhai hyn yn awr," ebe efe: canys nid yw efe wedi dangos, ac ni ddichon ddangos dim tebygolrwydd ynom ni i dwyll y rhai hyny. Ac onid mor addas y gellid dweyd mai "ti yw y gwr" sy'n euog o'r twyll? Yn ol ei resymeg ef, gellid condemnio unrhyw enwad neu bersonau yn Dowlais am dwyllwyr, oherwydd ei fod ef yn gyfryw. Os "sothach islaw synwyr cyffredin" yw ein pregethau, pa fodd yr ydym yn cael lliosocach cynnullidfaoedd nâ chi? paham y bedyddiwn gymmaint mwy nâ chwychwi? A yw pob un o'r ugeiniau a droesant atom oddi-

wrth eich sect chwi "islaw synwyr cyffredin?" A ydych yn meddwl cadw eich aelodau yn eu tywyllwch drwy ein difcnwi, fel "Martha dau fedydd," &c., a dweyd ein bod yn benwciniaid, &c.? Os felly, ni lwyddwch i ddal eich "duwies" i fyny, fwy nag y llwyddodd eich cyd-grefftwr Demetrius gynt. Mae dynion yn gweled gwell yn awr. "Arian," meddwch: dangosasom yn y rhifyn hwn o'r PROPHWYD, mai eich crefft chwi yw hõno; a dangoswn yn eglurach etto. Ai yn ein plith ni, ynte yn Nghaersalem, y mae llawer o bunnoedd yn cael eu *demando* bob mis, a ffair, neu actiwn, bob tro y bedyddir rhyw un? Atebwch y gwir, canys gŵyr y wërinos er's llawer dydd. "*Fund* er cynnorthwyo yr Apostol i fyned i Jerusalem," meddwch hefyd. Yr ydym ni yn gwadu pob sill o hyny, ac anhawdd genyf feddwl eich bod yn ei gredu eich hun. Gwyddoch o'r goreu, neu dylech wybod, nad oes, ac na fu neb yn ein plith yma yn hõni bod yn apostol. Dywedwn i chwi hefyd, nad oes neb o honom o'r bwriad i fyned i Jerusalem, ac ni ddywedodd neb o honom y fath beth; ac felly, nid oes genym *fund* i'r dyhen hyny, nac un dyben arall, ond y sydd yn ol *Act of Parliament*. Os oes genych rhyw brofion o'ch haeriadau, allan â hwynt; onide, peidiwch ag ymwerthu i foldio cam-gyhuddiadau niweidiol am eich cymmydogion. Pa fodd y gwyddoch nad y'm yn annog pobl i fyw yn dduwiol? A fuoch chwi yn ein cyrddau ryw dro? Na; y mae hwn, fel pob cyhuddiad arall o'ch heiddo, i'w ddeall o chwith, a thystia ein ffrwythau hyny yn gyhoeddus. Ond, am "fyned i'r America," y mae pawb yn rhydd-ewyllysyr--gallant fyned neu heidio; ac onid ydych chwithau yn rhoddi yr un rhyddid i'ch canlynwyr? Os ydych yn foddlon i'n barnu ni wrth ein ffrwythau, deuwch yn nes, a chynygiwn i chwi gyhoeddi pob peth drwg a wnaethom i'r byd. Os caniatewch yn ol, i gyhoeddi un o gant o'ch gwallau chwi, fel y gallo y byd farnu; neu ynte, gadewch gymmeriadau yn llonydd, a dewch at reswm neu ysgrhythyr, bellach. Atebwch, gyda phwy y mae ymbleidiau, anghariad, gwahanol farnau, a rhwygiadau; i'e, gyda phwy, Mr. D.? gyda ni, ynte y *Baptists No. 1, No. 2, No. 3, No. 4*,—ynte pwy? Deuwch yn nes, a bernwch yn ddiudedd am unwaith. Pwy sy'n eich erlid chwi, gan eich galw yn "sothlach," &c.? Ar ba hren, ac yn mha winllan y tyfodd yr afalau euraidd o alw dynion fyddo ar enw Crist yn "*Sataniaid*?" O ba enau santaidd y clybuwyd cymmydogion gonest yn cael eu teitlo yn "gethern aflan?" Os wrth eu ffrwythau yr adnabyddid y Phariseaid gynt, a ninnau yn awr, paham nad wrth ei ffrwythau yr adnabyddir Mr. Davies o Ddowlais hefyd?

"IV. Ni bu gwyρθiau erioed yn yr eglwys, ond allan yn y byd," medd Mr. D. Nid yw haeru y fath beth ddim angen na chyhoeddi twyll. Dymunaf ar y darllenydd graffu, i'e, sylwi yn fanwl, pa un ai mewn ystafelloedd neu yr eglwys, ynte yn y byd, y gwnelid gwyρθiau.

Ha! Mr. Davies, addefasoch mai y wyrth fwyaf a wnaed oedd adgyfodiad Crist; ond pwy o'r byd a welodd hõno? pwy o'r byd a welodd Dorcas, neu y llanc ieuanc hwnw, yn cael eu codi yn fyw gan yr apostolion? a'r ferch hõno, neu fam Pedr, gan Grist, a llu o wyrthiau ereill? ac etto, haerwch chwi mai yn gyhoeddus yn y byd y gwnelid gwyρθiau. Gresynus na buasech wedi chwilio rhyw ychydig i'ch pwnc



a'ch haeriad. Pwy oedd y Mr. Davies a ddywedai ychydig ddalenau yn ol, mai "er adeiladaeth yr eglwys" yr oedd y doniau dan sylw? Rhyfedd mor fyr yw ei gof, onide? Pe er llesau y byd y buasai gwyrthiau Crist a'r apostolion, paham na fuasant yn gwella holl gleifion y byd rhag blaen? A phe yn ol eu meddwl eu hunain, heb deimlo annogiad yr Ysbryd at hyny, yr iachaent y cleifion, paham na fwriasant allan y cythraul o'r dyn hwnw? Pa fodd y gadawsant hwy oll Timotheus, druan, dan ei "fynych wendid?" A chan i Paul ddweyd mai "er adeiladaeth yr eglwys" y gosododd Duw yr holl swyddau, ac mai dyledswydd un o'r swyddau, sef yr henuriaeth, fel yr addefasoch, yw eneinio y saint cleifion ag olew, pwy ydych chiwi, ac oddiwrth bwy y cawsoch awdurdod, Mr. Davies, mewn difrif, i ddiddymu a gwadu y cyfan, gan erlid y rhai a'u harferant, tra hefyd yn galw cich hun yn weinidog efengyl Crist? Atebwch, Syr, canys y mae pobl yn methu dirnad pa fodd y gall y pethau hyn fod felly. Dylech chiwi broffesu gwyrthiau, neu beidio ffurfio rhyw haeriadau, a'u gosod i grogi eu gilydd fel hyn.

"V. Os gall y dynion a honant eu gwyrthiau, eu cyflawni," ebe efe, "paham na wnant hwy yn marchuadoedd Merthyr, ar benau y mynyddoedd," &c. Dyma lais udgorn ei frawd, y cawr o Abercanaid; yr un dôn fel corn yr heliwr, ac y mae y corn hwn yn y teulu er y dydd y ceisiwyd gan ein Meistr droi y gareg hōno yn fara yn yr anialwch. Ond am ychwaneg o hanes y llais hwn, a'i herchenogion, gwel "*Y Glorian*." Pe buasai Mr. Davies gyda Iesu Grist, gwawdiasai ef am dwyllwr, o herwydd iddo ddweyd "na allai efe wneuthur nemawr wyrthiau yn Nazareth, oherwydd eu hanghrediniaeth hwynt." Os er profi ei ddaunfoniad a'i efengyl y gwnaeth Crist ei wyrthiau, ac os addefa Mr. Davies ei fod wedi gwneyd digon i hyny, beth sy'n ei ysu i ofyn ychwaneg genym ni, er profi yr hyn a addefa. Ac, ai rhesymol i chiwi geisio genym ni, nac i ninnau geisio genych chiwi, arwydd i brofi y gwirionedd o'r Testament Newydd? Arwyddion yn myned o *flaen* credu oedd rhai Crist, y mae yn wir, er profi mai efe oedd yr unig-anedig oddiwrth y Tad. Nid ydym ni yn hōni bod yn gyfryw ag ef; a phaham y ceisiwch genym brofi ein bod yr hyn ni phroffeswn? Arwyddion yn "*canlyn* y rhai a gredant," yw yr eiddom ni. Rhoddwch chiwi ni yn mhen y mynydd *cyn* credu, meddwech chiwi. "*A ganlynant* y rhai a gredant," medd Crist. I bwy yr ufyddhawn, ai i chiwi ynte i Grist? Os am ychwaneg o arwyddion i gadarnhau y grefydd yr ydych, ewch at ei Sylfaenydd nawr; ond os boddlonir chiwi a'r arwyddion sy'n *canlyn* ufydd-dod iddi, y maent gyda ni, yn ol yr addewid; ac y mae cymmaint o'u heisieu, y maent mor felys, mor werthfawr er adeiladaeth ein heglwys, fel na fynem eu colli am y byd a'i gyflawnder, i'e, serch rhoi bywyd erddynt. Nid oes eisieu mwy o brawf o fod Mr. Davies yn hollol anwybodus o honynt, na'i addefiad, nad oes eu heisieu yn yr oes hon. A phe na byddent gyda ni, dylech chiwi chwilio allan am danynt, a hod yn harod i'w derbyn, yn lle eu gwrthod a'u gwadu wedi eu dyfod, serch i hyny rwygo llyffetheiriau rhagfarn; dywedwn y talant yn well yn y byd hwn, drwy eich perffeithio, er i obaith eich elw ballu. Pa beth a allwn ni wrth y ffaith mai *dilyn* y credu y maent? Os eu gwrthod a wneuch o eisieu na buent yn marchnad

Merthyr, gwnewch y ddadl i fyny â'n Hawdwr ei hun, canys nid ydym ni yn hōni gallu i gyflawni y lleiaf o houynt o honom ein hunain. Y mae anil un wedi bod, fel chwithau, yn gwawdio, yn anmau, yn nesu yn mlaen, yn gwrando, ac wedi deall mai eelwyddau a draethwch chwi arnom, yn ein credu, yn ufyddhau, ac yn cael profion dwyfol ac eglur o wirionedd ein crefydd, drwy fwynhau y doniau grasusol oddiwrth Ysbryd Duw. Pa beth sydd yn dwyn y dynion hyn yn mlaen dan bobgawd ac erlidigaeth, ynte? Chwi sy'n profesu bod yn philosophydd, ac yn adnabod y galon ddynol, pa bryd y gwelwyd hanner miliwn mewn oes mor oleu â hon, yn cofleidio unrhyw grefydd, yr hon a addawai ddoniau nerthol iddynt; ac yna, er ei chael yn brin o'r doniau a addawai, yn dai ati trwy bob erlidiau? Yr ydym yn meiddio dweyd na fu y fath beth erioed yn ein byd; etto, rhaid ei fod gyda ni, os twyllo y byd yr ydym yn nghyleh y doniau ysbrydol sydd yn yr eglwys. Dyma i chwi bwnc. Mr. Davies, a dalai yn well i chwi am ei drafod, nâ holl *business* y difenwi.

Dengys Mr. Davies ei anwybodaeth hollol am ddoniau yr Ysbryd, yn enwedig am y "doniau iachâu," yn yr hyn a ganlyn:—"Nid yn ffydd y dyn yr oedd gwyrth yn gynnwysedig, ond yn enw nerthol Iesu o Nazareth—cof am y cloff yn mhorth y deml; nid oedd hwnw, druan, yn dysgwyl dim ond arian; ac os ffydd sy'n anghenrheidiol, rhaid, yn ol eu rhesymau a'u cyfaddefiad eu hunain, mai ychydig o'r dynion lleiaf eu ffydd sydd dan nefoedd Duw, oblegid arnynt hwy y maent yn gosod dwylaw." Dyfynasom y frawddeg hon er dangos cynnifer o linellau a wastraffa y gwr doniol i ddweyd *dim yn y byd!* "Ychydig o'r dynion *lleiaf* eu ffydd"—beth a feddylia? "Yn ol eu rhesymau," pwy, a pheth? "a'u haddefiad eu hunain." Beth ydynt, tybied? Pwy sydd yn "gosod dwylaw arnynt eu hunain," tybied? anghofiodd ddweyd hyny wrthym; ac os yw efe ei hun yn deall beth a feddylia, rhaid i ni addef ein euro yn hyn! Am y cloff hwnw y cyfeiria ato, y mae efe wedi dyfod â thyst i'w erbyn ei hun; a phe darlennasai ei Fibl, gwelsai mai drwy ei ffydd yr iachawyd ef. Act. iii, 12. Y mae Pedr yn gwadu mai efe a iachaodd y cloff,—“Beth a wnewch chwi yn rhyfeddu am hyn, neu beth a wnewch chwi yn dal sylw arnom ni, fel pe trwy ein nerth ein hun, neu ein duwioldeb, y gwnaethom i hwn rodio [nid nyni a wnaeth hyn], ond Duw ein tadan a ogoneddodd ei Fab Iesu.” Ie, dyna'r dirgelwch o'r peth, Mr. Davies; ac fe ogonedda Duw enw ei Fab Iesu etto, y pryd y mau, a'r dull y myno ei hun, ie drwy iachâu *Magws fach* pan ewyllysia, pa un bynag a foddia hyny chwi ai peidio. Er nad yn ffydd y dyn yr oedd gwyrth yn gynnwysedig, nid heb ffydd y derbyniai efe icchyd. Pa un ai chwi ai Pedr a goeliwu? Adn. 16.—“Ai enw ef [sef Iesu] trwy ffydd [y cloff] yn ei enw ef [Iesu] a nerthodd y dyn yma a welwch ac a adwaenoch chwi; a'r ffydd [sydd gan y cloff] yr hon sydd trwyddo ef [Iesu], a roes iddo ef [y cloff] yr holl icchyd hwn yn eich gwydd chwi oll.” Oni addefa Mr. Davies ei gamsyniad, bydded y ddadl rhyngddo ef â Phedr, bellach. Er mai dysgwyl cael arian yr oedd y cloff ar y cyntaf, etto y mae yn amlwg iddo gyfnewid ei ddysgwyliad can gynted ag y dechreuodd Pedr lefaru. Gofynwn i Mr. Davies. Pa beth a roddodd Pedr i'r cloff? Addefa nad arian, nad aur, ac nad dim o bethau y byd, ac etto dywedir

yn adn. 6, ddarfod i Pedr roddi rhywbeth iddo,—“Eithr yr *hyn* sydd genyf, *hynny* [beth oedd hwnw?] yr ydwyf yn ei roddi i ti.” Ni allasai gyflwyno dim iddo ond yr *hyn* oedd ganddo, sef tystiolaeth am Feddyg croeshoeliedig ac adgyfodedig, yr hwn a allai ei iachâu, os cymmerai efe y feddyginiaeth,—“y trysor hwn [sef yr efengyl] mewn llestri pridd.” A chredodd y cloff *hynny*, yr *hyn* a brofir drwy iddo dderbyn y fendith yn y fan. A'i enw ef, sef Iesu, trwy ffydd y cloff ynddo, yn ol y dystiolaeth a glywodd gan Pedr am dano, â'i hiachaodd. Paham y mae Mr. Davies yn dwyn esamplau fel *hyn* i geisio profi ei gredo; a hwythau yn hollol groes iddo? Paham na buasai yn gofus genych am esiampl y cloff arall hwnw yn Lystra? Dyma i chwi *analogous case*, nen achlysur cyffelyb, Mr. Davies. Yr oedd y ddau ddyn yn gloff o groth eu mam—y naill yn mhorth y naill deml, a'r llall yn mhorth y deml arall. Yr oedd Pedr a Phaul yn cynyg yr un feddyginiaeth i'r cleifion, ar yr un ammodau, canys cyd-weision oeddynt i'r un Meddyg galluog. Darllenwch yr hanes yn Actat xiv, 9, fel y canlyn,—“Hwn [sef y cloff] a glybu Paul yn llefaru [fel y clybu y llall Pedr], yr hwn [sef Paul] wrth syllu yn graff arno [sef ar y cloff] a gweled fod ganddo [y cloff] FFYDD I GAEL IECHYD, a ddywedodd â llef uchel, Saf ar dy draed yn nniawn.” Ai tybied y myna Mr. Davies i ni gredu y gorchymynai Paul i hwn, neu Pedr i'r llall, sefyll ar eu traed yn erbyn eu gwaethaf? A allasent wneyd hynny heb ymdrech, neu a fuasent yn ymdrechu heb ffydd? Onid ffydd yw yr achos o bob ymdrech? Chwilied y philosophydd hwn i ddeddfau *philosophy*, cyn dangos ei ffolineb i'r byd. Ni orchymynasai Paul iddo sefyll, nes iddo *weled fod ganddo* FFYDD, serch tystiolaethu yn galed iddo, yr *hyn* yw sail ffydd, a pharhau yn gwneyd hynny, a syllu yn graff ar y cloff, i ba beth ond er gweled a oedd ganddo *ffydd*? Buasai yn rhyfyg i Paul orchymyn iddo sefyll heb weled ei ffydd, canys buasai y siomedigaeth yn warth ar enw Iesu. Ac, ai tybied y buasai Pedr yn peri i'r llall sefyll i fyny, heb weled fod ganddo yntau y ffydd hõno a farna Paul mor anheggorol er derbyn y cyffelyb fendith gan yr un Duw? O na; ni feddylia neb ond Mr. Davies hynny, debygaf. Mynwch chwi i ni iachâu y neb yr ewyllysiwch chwi, heb ffydd, na dim cymhwysder gofynol. Onid tebyg yw *hyn* i'r gwallgofddyn hwnw a feiai ar y meddyg am na wellasai ef, ac yntau yn gwrthod profi dim o'i phisgygwriaeth. “Os ydych yn ddoctor,” ebe efe, “dylech fy ngwella wrth edrych arnaf.” “Heb ddim ond dweyd y gair,” ebe Mr. Davies. Os nad yw ffydd yn ofynol i dderbyn bendithion corfforol, paham y mae mor anheggorol er derbyn bendithion ysbrydol, pa rai a gyfrenir gan yr Un? Os nad oes ffydd yn ofynol er derbyn iechyd, paham y dywed Iago mai “gweddi y *ffydd* a iachâu y claf?” y dywed Crist, “Dy ffydd a'th iachaodd,” “Pob peth a all fod i'r neb a gredo,” “Os wyt ti yn credu fe ellir,” &c.? Pa le y mae cof ein pregethwr? Gwawdia ni am ofyn ffydd! Gwawdiasai Iesu Grist am yr un peth. Pe addefai y Testament Newydd yn rheol, buan y dangosem na wyr efe nemawr am drefn ei wyrthiau na'i ffydd.

Wedi dangos i ni ddau orchymyn pendant i eneinio y cleifion ag olew, ac arddodiad dwylaw, yn nhud. 6, gwada Mr. Davies y cyfan yn nhud. 14. “Nid defnyddio moddion, dwylaw yr apostolion, a gweddiau y saint, dim ond dweyd y gair,” ebe efe. Pa un o'r ddau a goelir?

Ei ddyben yn haeru hyn yw, fel y gallo ofyn i ryw "greaduriaid rhyfygus," a eilw efe yn "Sataniaid," i iachâu y cleifion yn marchnadoedd Merthyr erbyn eu gwaethaf. Y rheswm a ddyry dros iddynt ddiddymu ordinhadau, ac ymarferiad â'r moddion gosodedig, yn ol eu dyledswyddau, ydyw, yr eithriadau di-addewid fod cysgod yr apostolion, eu dillad, &c., wedi iachâu y cleifion. Oni wyr efe y gwahaniaeth rhwng defod ac eithriad? Onid yr un peth fyddai iddo ofyn i ni faddeu pechodau y gwaethaf yn ddiammodol, oherwydd i Grist ddweyd wrth un, "Maddeuwyd i ti dy bechodau;" a gofyn i'n cysgod ni iachâu cleifion, oherwydd fod Duw wedi gwneyd hyny drwy rai o'i weision! A oes rhyw *addewid* yr iacheid rhyw un felly, fel y mae yr addewid yr iacheid y saint cleifion drwy ymarferiad â'r moddion drwy ffydd?

"Haera fod rhyw ddyn rhyfygus, a eilw efe yn Apostol clodwiw, yma yn awr," a gofyna a wnaeth y "dyn rhyfygus," "yr Apostol clodwiw," y "Sataniaid," wyrthiau Duw? Dyna enghraifft o'i gabledd erchyll ef. Yr ydym ni a'r cyhoedd, debygwn, yn ymwasgu arno ef yn unig am enwi un dyn rhyfygus a eilw ei hun yn Apostol, ua phobl a elwir yn Sataniaid ychwaith. Yna clywch William yn holi, A iach-aodd ei gysgod ef ryw un yn Merthyr; a Davies yn ateb, "Naddo," heb gynyg un prawf o'i haeriadau, mwy nag arferol. Yna clywwn Richard, debygwn, yn farnwr gerbron ei gyfeillion. "Yna gwelwn," ebe efe. Gweled, yn wir! Beth a welwch, farnwr? Ni welwn ni ddim un tyst, dim ond haeriadau disail eich dau benelin chwi eich hun, sef W. yn gofyn, a Davies yn tyngu iddo, dywededa a fyno. Gwelwn rhyw dreial rhyfedd rhyngoch chwi eich deuocodd, ebe ei gyfeillion. Wel, nid oes neb a feiddia ddweyd gair i'n herbyn, ebe y barnwr; yn mlaen â'r ddedfryd arno. Ië, ebe ei ddau dyst. "Nid yw ei haeriadau ef——." Ond aroschwch, Mr. Barnwr; beth yw yr haeriadau? Maent heb eu profi etto, ebe ei gyfeillion. Pw, dim *odds* am hyny; onid yw haeriadau W. a D. yn ddigon? Ac yn mlaen â hi. "A'i ganlynwyr hefyd, ond cryg o gelwyddau." Cymmerwch yn araf, medd ei gyfeillion etto; ni allwn ni eich canlyn, Mr. Barnwr. Canlynwyr pwy? Beth sydd yn eu profi yn ynyd; a pha fodd y gwyddom eu bod yn gelwyddog, hyd oni chlywuw eu haeriadau. O, ebe yntau, "peidiwch a gwrando dim a ddywedant hwy drostynt eu hunain; onide ni choeliwch fy nhystion i, ac ni feiddiwch ammau barnwr fel myfi, sydd wedi cael fy ffordd fy hun bob amser, ac yn pregethu bob sul, yn gweinyddu yr ordinhadau santaidd i chwi, a bid siwr y dylech fy nghredu i yn mhob peth, gan eich bod yn fy nghynnal â'ch arian yn foneddig i deyrnasu arnoch, gwyliwch fy ammau, na gwrando ar y "dyn rhyfygus" hwnw, rhag ofn fy ngwialen; oni wyddoch yr ysgymunaf chwi o'r synagog hefyd!" Ar hyn meddyliaf glywed rhyw un mwy rhescymol a gwrol nâ'r lleill, wedi agor cil ei lygad i weled trais y gormeswr, yn gwaeddi maes, "Trowch chwi, goreu po gyntaf i chwi dori ein llyffetheiriau, a'n troi allan o'r fath garchar, fel y beiddiwn feddwl drosom ein hunain; gwaeth carchar yw hwn nâ chaethiwed y Negro duaf; y fendith fwyaf a allwch wneyd â ni yw cin hesgymuno o'r Ddafisyddiaeth hon, fel y derbyniom apostoliaeth." Pan glywodd y barnwr hyny, dyna ei wyneb-pryd yn gwelwi, a chluniau ei ddau dyst yn siglo fel Belsassar gynt, canys collai eu ceiniogau os collai hwy.

Ac, ow! beth a wnaf? Os gwrandawant apostoliaeth, hwy a'm gadawant. Os rhwystraf hwynt i'w gwrandawant, ymaith yr ant y ffordd hono. Dywedwch beth a wnaf; dywed ti, Davies." "O," medd Davies â gwen fuddugoliaethus, "mi a wn beth a wnawn! Gan y rhaid iddynt gael rhyw dystion, onid ydych chiwi yn cofio ddarfod i ni ein trioedd ysgrifenu epistol godidog am y "Sataniaid," yr hwn a gymmeradwyd mor fawr nes ei gyhoeddi yn ein cyhoeddiad enwadyddol? "Da iawn Davies," ebe y barnwr. "Ie, gwelwch chiwi gyfeillion y *Bedyddiwr* am fis Mawrth, cewch ddigon o brofion ein bod ni ein trioedd yn ddigon geirwir." "Wel," ebe ei gyfeillion, "os dyna y profion goreu sydd genych o'ch geirwiredd, y mae ar ben gyda chiwi. Beth, cynyg y *Bedyddiwr* i ni am wir! Y mae efe ei hun wedi bod yn cario y gair "GWIR" ar ei dalcen am flynyddau, ond y mae wedi methu a chael genym ei gredu er hynny; ac yn awr y mae ei gydwybod euog wedi credu fod hynny yn dasg anorphen, ac yn fwy gonest nâ chiwi wedi rhwbio y gair yn lân oddiar ei dalcen rhag cywilydd,—ai hwn a gynyg-iwch i ni am wir? Onid hwn yw y *sink hole* i ba un y chwydych chiwi gynnwysiad eich ymysgaroedd aflan am flynyddau, ac a fynech chiwi i ni ddifwyno ein trwynau etto yn eich hylif afiach? O na, diolch i'r gwir, y mae rhifynau y PROPHWYD wedi agor ein llygaid o'r diwedd i weled mai chiwi eich deuodd a hanodd yr *hermaphrodite* hwnw, dan ddyllanwad y *delirium tremens*, neu ryw *hydrophobia* arall! Na, na, Mr. Barnwr, ni allwn gredu eich tystion yno nac yma ychwaith, oherwydd y maent yn croesi eu gilydd; er enghraifft, dywed William yn y *Bedyddiwr*, "A roddwyd dwylaw ar T—s J—s er derbyn iechyd? Naddo, gwyr y dynion well pethau." Ond clywch, Mr. Barnwr, beth a ddywed eich tyst anwyl arall, sef Davies. Yn nhud. 16, o'i draethawd,— "Rhoddwyd dwylaw ar T—s J—s," ebe efe; pa fodd y coeliwn dystion fel hyn? Nid rhyfedd na fynech eu croesholi, y maent yn dweyd gormod i fod yn wir; ac yn wir, syr, y mae y ddau yn eich gwneyd chwithau yn gelwyddog yn aml. Tud. 6, haera William na iachawyd neb drwy y rhai a eilw efe yn Sataniaid, felly y dywed Davies, tud. 9, na welwyd dim un arwydd gyda hwynt.

[I'w burhau.]

### GOLYGYDD Y GWIR FEDYDDIWR.

CORUS gan ein darllenwyr am y llythyr a ddanfonwyd at y gwr hwn, mewn atebiad i gyhuddiadau enllibaidd ei frawd o Ddowlais, copi o'r hwn a geir yn MHRORHWYD Gorphenaf; ac i'r golygydd ystyried mai y ffordd oreu er dangos ei degwch i bob ochr, oedd pallu a'i gyhoeddi—mai y dull boneddigeiddiaf tuag atom ni, oedd agoryd ei fisolyn i'n gelynyddion ein cyhuddo o bob dwl i a drwg dan ffug-enwau, ond ei gau yn y fynydd yn erbyn pob gair o hunan-amddiffyniad a gynygiem ni, yn ngwyneb y cyfryw gyhuddiadau. Cyhuddai Mr. Davies o Ddowlais, William Henshaw a brawd arall o anfon beiddiad iddo ef ddod allan i ddadl, yr hyn oedd gelwydd hollol, wedi ei eirio a'i ddyfeisio yn y fath fodd ag i roi testun i'r unrhyw Mr. Davies chwerthin am eu penau. Ceisiodd y ddau frawd gael amddiffyn eu hunain drwy yr un wasg ag a'u condemniasai, ond ni chawsant. Yr oedd hynny yn ormod o union-

deb gan y Golygydd i ganiatâu. Pe rhoddasai le iddynt, canmolid ef, ond nid felly y gwnaeth efe. Meddylia ei fod wedi cael yr allweddau i'w law ei hun, ac na chymmerai nemawr y drafferth i fyned o Gaerdydd i weled ai gwir ai peidio a ddywed. Ac yna, ar ol y cyfan a wnaeth y ddau ddyn, druain, i achub eu cam—ar ol tystio mor sobrad hwy a wnaethai y beiddiad, mynai y Golygydd i bawb gredu mai taw; a'r prawf a gynyg o hyn ydyw, "fod yr ysgrifau yn debyg iawn i ysgrifau y llythyr hwnw." Pa mor debyg, tybied? Ai digon tebyg i wrthddweyd tystiolaeth bwysig dau dyst? Nid ei fai ef oedd na allai gael ychwaneg o bwysau na'r bluen hon i roi yn y gloriant yn ngwynneb tystiolaeth y ddau. A ydyw yn rhesymol y buasai iddynt roddi y fath achlysur i ddyn ag y gwyddant ei fod â'i holl egni er's blynyddau yn derbyn pob drwg am danynt, yn awyddus ac yn chwilio am ddefnyddiau enllib, fel y dywalgi am ysglyfaeth? O na, nid oes neb ond ei bartner a feiddia feddwl felly, debygaf. Sylwed pawb ar ddyliwiad ei galon drwy bump o linellau a eilw efe ei bump "*rheswm*."

Ei "*reswm*" *cynlaf* yw,—“Y mae y personau a'm hanerchiant islaw fy sylw.” Ie, ddarllenwydd, dyma y "*rheswm*" a gynygia am ei draethawd hirfaith, yr hwn a gymmer ran helaeth o bedair tudalen o'r *Beddydiwr*, i ateb y rhai "sydd islaw ei sylw." Banned y darllenwydd a yw efe yn ei goelio ei hun. Dyn rhyfedd yw, yn sylwi cymmaint ar beth "islaw ei sylw!" Ei brawf eu bod islaw ei sylw ydyw, oherwydd eu henwau: "Abel a Henshaw; O enwau ardderchog! O gymmeriadau dysclaer!" Dyna *specimen* o *logic* ffasiwn newydd, neu hen ffasiwn er dyddiau *Bajazett*. Pwy a glywodd son fod Mr. Davies wedi trafod un pwnc erioed? Personau yw ei bwne ef; haeriad yw ei reswm; ac enllibio yw ei waith! Ac felly yma, oherwydd i rieni dyn ei enwi yn "Ahel," y mae efe a phob Abel arall, o'r hynaf i waered, "islaw sylw" yr enwog hwn! Gofaled y rhieni hyny a ddymunant ei *sylw* ef, ofyn iddo pa enwau a gânt eu rhoddi ar eu plant. "Henshaw;" gresyn na fuasai ei hynafiaid yntau yn rhagweled y buasai ei enw yn ei ddarostwng "islaw sylw" doethion yr oes hon! "O gymeriadau dysclaer!" medd efe; i.e. mor ddysclaer, fel na allodd hyd y nod ef ei hun gael brycheuyn arnynt er pan y maent yn eglwys Crist, er ceisio yn ddyfal; a phe buasai rhai brychau arnynt, a fuasai hyny yn condemnio yr egwyddorion a broffesant? Rhesymwr rhyfedd yw efe; rhesymai nid yn unig ef ei hun a'i frodyr yn dwyllwyr, ond hyd y nod crefydd Crist yn dwyll, oherwydd i Pedr, a Judas, &c., ei wadu ef. Nid ydym ni yn profesu bod yn berffaith, a gwaith ofer iddo yntau broffesu hyny gerbron ei gydnabod. Nid oes ond yehydig amser er pan yr ystyriai Mr. Davies gymmeriad William Henshaw yn ddigon dysclaer i'w gyrechu ef i'w dy, a chynyg iddo gael ymuno ag ef, a bod yn was pregethwraidd iddo. A'r peth nesaaf a gynygiodd y gŵr addfwyn hwn iddo wedi iddo wrthod ei wasanaeth. a ffeiddio ei gwmni, oedd gofyn iddo a yfai efe wydraid o wenwyn, er profi fod Crist wedi dweyd y gwir—"Os yfant ddim marwol, ni wna iddynt ddim niwed." Ond gwrthododd Henshaw foddio ei chwaeth ef, fel y gwrthododd ei athraw gynygiaid ei feistr yntau, i fwrw ei hun oddiar binael y deml. Aeth Henshaw ymaith oddiwrtho, ac o'r pryd hyny y mae Mr. Davies yn ceisio duo ei gymmeriad â phob ystori a ddichon gyrhaedd, nes y

mae Henshaw nid yn unig yn annheilwng o fod yn bregethwr gwas-aid iddo ef, ond y mae "islaw ei sylw." "Henshaw henffol" yw efe. Aed "yr adyn hwn," nid yn bregethwr dan Mr. Davies o Ddowlais, ond i "Cornwall" yn awr, "a gwnaed ffyliaid o'r Cornishmen," yn lle y Dowlaisiaid, fel y ceisiai Mr. Davies ganddo ychydig amser yn ol; "a bydd fyw yno ar gefn y rhai hyn." Gwaith anorphen fyddai son am wallau grammadigol lle y mae cynnifer o wallau moes yn rhai bwrriadol. "O'r diwedd daeth [Henshaw], a gosododd ei ddwyllaw atlan a phechadurus arni." sef y dwyllaw hynny ag a feddyliai efe ychydig o fisoedd cyn hyn, yn ddigon glân a santaidd i dori y sacrament i'w braidd ef! Rhyfedd y cyfnewidiad byrbwyll a gymmerodd le ar ei ddwyllaw, gystal â phob rhan arall o'i gorff a'i enw! Do, druan, trodd yn rawnwin surion; bob cynnal ac asgwrn, o'i ben i'w draed, fel y rhai hynny yn ngolwg y blaidd, yn yr hen *fable*. Yna, ei "gymmeriad," medd efe; rhaid difenwi hwnw hefyd wedi iddo wrthod fy ngwasanaeth, fel na wnelo les i arall. Cymmeriadau, aic? dylasai efe fod yn fud hyd oni buasai y ffos ddiweddfaf yn Dowlais wedi amddiffyn ei chymmeriad. Druain o'r *Cornishmen*, pe ymddibynent ar fugail fel hwn i'w porthi; a phe gwir y cymmeriad a ddyry efe i Henshaw, druain a fuasai y Dowlaisiaid hefyd ped ufyddhasai Henshaw i'w arch ef, h. y. yn ol ei resymeg ei hun; ac etto, pe gwir y cyfan a ddywed, nid gwaeth fuasai eu newyn am fwyd iachus nag yn awr. Efallai y cyfiawnha ei hun trwy ddywedyd nad oedd yn gwybod y pryd hynny fod Henshaw mor *afan*, *pechadurus*, *Satanaidd*, *cythreulig*, &c. Gwaeth etto ynte, am gynyg i ddyu gael y fath swydd uwchben eneidiau anfarwol, heb wybod pwy a pheth oedd. Esgusoded ei braidd ef am hyn, os gallant. Ond paham y mae yn parhau i erlid y cyfryw o hyd? Onid yr un a'n gwnaeth ni oll? Pe buasent wedi yfed *brandy* nes glasu eu trwynau, ac anurddo eu gwynebau fel pen twrci, a phed arasant yn ysgol Bacchus hyd foreu Sul, ni fuasai ganddo ef achos i gyoeddi hynny yn y *Bedyddiwr*. Pe buasent hwy wedi cymhwysio iddynt eu hunain dri neu bedwar o enwau a theitlau dihawll, heblaw rhestr o ffug-enwau, ni fuasent waeth wedy'n nô rhai a broffesant eu hunain yn rhestr y duwinyddion. Ond wedi methu dyfeisio un brycheuyn ar eu personau, cloa ei *resum* cyntaf i fyny, gan ddywedyd mewn geiriau benthyg—"Na ddeued fy enaid i'w cyfrinach hwynt." Da iawn genym glywed hyn, a dywedir mwy o Amen gyda hyn nô chyda dim a ddywed. Ni allwn aros gyda'r bibell yna yn hwy. Brysia, y mae'r *gas* yn tanio yn yr ail, ac yn rhedeg allan yn lās.

Dywed—"Y mae yr enwau a roddwch arnoch eich hunain yn rhy isel i'w dirmygu." Pa beth! pa enw sydd yn rhy isel i'w ddirmygu? Enw gwrandaawr ar y gwr doeth hwn a eilw ei hun yn bregethwr yr efengyl, ac yn was i Dduw, yn ateb drosto ei huan. "Megys unig wir eglwys Iesu Grist." Ai dyn sy'n profesu bod yn fugail ar braidd Iesu Grist a ddywed fod profesu bod yn "unig wir eglwys Iesu Grist," yn beth rhy isel i'w ddirmygu?" Ie, ddarllenydd, ac heb gynyg cymaint ag un prawf o'i haerriad ychwaith. Mae'r *gas* yn uchel yn y bibell hon—"apostol clodwiw, y Capt. D. Jones," medd efe. Nid yw efe ddim yn fy ngharu inau nemawr, mae'n amlwg; rhyfedd fel y casâ efe ddyu na fu yn cyfnewid gair ag ef erioed, nac yn ei gwmni wed'yn,

nac yn chwennychu bod! Peth ffol yw casâu ac erlid holl achau yr hwn â'i ffangello a'i wialen ei hun. Pe tawai â son, anghofiai pobl y gwarth a gafodd yn mhen amser; ond y mae ei hen ddoluriau yn crawni ac yn niagu etto, ac nid oes dim i'w wneyd ond newid y plastr, er treiddio i'w gwaelod, neu adael iddynt fyned â'i fywyd. Am y teitl cyntaf, y mae yn anrhydeddusach nag un a hōnasom erioed. Yr un yw tadwys hwnw â'r "Sataniaid," "creadur bach," "creadur pechadurus," "Capt. apostolaidd," "tylwyth celwyddog, twyllodrus, a chythreulig," "byw yn segur ar draul twyll, celwyddau, a rhyfyg," &c. Ystyria pob dyn rhesymol fod genym achos ymfrostio yn y teitlau hyn, wrth ystyried o ha le y deuant; ac, yn wir, rhaid addef ein bod yn balchhō tipyn weithiau o fod yn deilwng o ganmoliaeth gan ddyrgair erlidwyr professedig; etto nid nynt, ond oherwydd ein crefydd. Nid ydym yn dysgwyl cymmaint o deitlau â'n brodyr yn y cyn-oesocdd, na'n Hathray santiaidd ond yn ol fely tehygwn iddynt. Am y teitl olaf, un yw a eunillwyd yn onest, drwy flynyddau meithion o ym-drechladau celyd, diwydrwydd, a moesoldeb, ac yn cael ei barchu yn mhedwar cwr y byd; ac efe yw y cyntaf a gafwyd o fewn i'r byd yn ddigon gwyneb-galed i gyhoeddi un-sarhad na dirmyg arno; ond ni ddichon efe ei ddirmygu ychwaith, canys y mae allau o gyrhaedd ei sawyr afachus, ac os na foddia ef, peidied a'i gymmeryd yn ofer mor ddiachos. Ond clywch mor danbaid y mae'r bibell hon erbyn hyn— "Enwau a arswydai y dyn mwyaf ei ryfyg eu mabwysiadu [yna yr ym ni yn fwy felly nag y dichon y mwyaf fod], oddieithr ei fod yn berffaith atheist." Dyna y bibell wedi borstio yn awr, a gwelir yn ei chyflafan fel y cyflawna yr hen ddiareh; mai "lleidr sy'n gwaeddi lleidr-gyntaf;" ac atheist sy'n gwaeddi atheist gyntaf. Clywch, holl Gristionogion y byd! Yn ol rhesymeg Mr. Davies y mae y rhai a broffesant fod yn "unig wir eglwys Iesu Grist," yn atheistiaid! Dyma farnwr caled. Beth a ddaw o honom os yn ei law ef y bydd y wialen haiarn, ac os caiff droed ar y fainc? Rhaid eich bod "mor anwybodus â'r pagan [ebe efe] o barthed i'r pethau a gyfansoddant eglwys ac apostol," cyn yr hōnech eich bod yn "unig wir eglwys Iesu Grist!" Ac onid yw efe yn hōni bod yn unig wir eglwys Iesu Grist ei hunan? Os felly, yn ol ei resymeg prawf ei hun yn atheist fel ninnau! Oni ddywedodd Paul ar ei wir ddarfod i *Dduw* osod rhai yn yr eglwys— "Yn gyntaf APOSTOLION [sef yn ben ar eglwys, neu gorff Crist ar y ddaear, wedi esgyniad Crist i'r nef. Pwy a welodd gorff byw heb ben arno? Y rhai a welant gorff Crist, a Mr. Davies yn ben benthg arno yn Dowlais, wedi tōri ymaith y pen apostolaidd a osododd Crist arni am ben *atheist!* Un o wyrthiau Mr. Davies yw hon, tebyg i'r "llyncu ei dy cwrdd"], yn ail prophwydi, doniau gwyrtthiau, doniau iachâu," &c., 1 Cor. xii, 28. Ac onid yw Mr. Davies yn haeru mor ddiogfai mai atheistiaeth yw hyny? ac mai yr un "peth fyddai hōni bod yn Iesu Grist â hōni bod yn apostol?" Pa un o'r ddau a goelir? Y maent yn hollol groes i'w gilydd. Onid yr un peth yw haeru mai atheistiaid yw yr apostolion a osododd Duw yn ei "unig wir eglwys" yn y naill oes neu wlad â'r llall? Dywed Paul wrth yr Ephesiaid (pen. iv.) eu bod yn anghenrheidiol "i berffeithio y saint i waith y weinidogaeth, i adeilad corff Crist," yn yr oes hōno. Onid ydynt anghenrheidiol er



“perffeithio y saint” yn yr oes hon hefyd? Os gellid cario yn mlaen waith y weinidogaeth yn yr oes hòno heb apostolion, onid afrcidiol i Dduw eu gosod i hyny? Os nad allent hwy adeiladu corff Crist heb apostolion, &c., pa fodd y dichon hyd y nod Mr. Davies, na neb arall yn awr, wneyd fwy nag a allent y pryd hyny? Os gall efe ateb hyn heb fod yn atheist, neu o leiaf yn ddeist, gall wneyd mwy nâ neb arall a welsom etto. Ond dychymygaf ei weled yn dechreu chwilio am ei esbonwyr, ac yna bloeddia buddygoliaeth, ac O! nid oedd y rhai hyny i barhau ond drwy yr oes apostolaidd; nid oes eu heisieu wed’yn.” Ie, ond Mr. Davies o Ddowlais a ddywed hyna, ac a ydyw rony yn nes i wir oherwydd hyny? Nac ydyw, pe dywedai holl bobl y byd hyny. Y mae Paul yn gwybod yn well nâ hwynt oll, a dywed efe fod y cyfan i barhau yn yr eglwys “hyd oni ymgyfarfyddom oll yn undeb ffydd,” &c., sef yn ei unig wir eglwys, “a gwybodaeth Mab Duw, yn wr perffaith.” Os hòna Mr. Davies ei fod ef yn ddigon perffaith heb-ddynt, dylai adael i ereill a ddewisant lonydd i’w mwynhau, er eu perffeithio hwythau. Ai tybięd fod Mab Duw wedi bod mor fanwl i osod cynllun ei “unig wir eglwys” i lawr yn y Testament Newydd, gan osod ynddi *apostolion, proffwydi, a’r doniau ysbrydol* mewn addewid i’r rhai a gredant, yn mhob oes a gwlad, ac wed’yn awdurdodi Mr. Davies i sefydlu eglwys iddo ef yn Dowlais ar ryw gynllun gwahanol? Haera mai atheistiaeth yw profesu ei gynllun cýntefig a dwyfol Ef!

Ond er i’r ail bibell hollti, mae ychwaneg a phoethach metel yn y drydedd etto. Yma ymruthra allan fel marworyn ffwrnes, heb arswyd na Duw na dyn; a dywed—“Y mae yr athrawiaethau ynfyd a rhyfygus a gyhoeddwyd islaw sylw pob dyn o synwyr cyffredin,” h. y. addef fod ei epistol ef arnynt yn tystio nad yw ef ei hun yn meddu “synwyr cyffredin;” a chan iddo addef mor eofn, awn yn mlaen i weled un o’i ryfeddodau ef. Wele Mr. Davies yn cynyg *un* prawf neu enghraifft o’i haeriadau o’r diwedd, a rhyfeddach etto beth yw yr enghraifft a ddyfyna—“Megys dawn i iachâu y cleision, a derbyn iechyd drwy arddodiad dwylaw yn enw’r Iesu.” Dyma enghraifft. medd Mr. Davies, o “athrawiaethau dynion a *chythreuliaid!*” Wel, beth a ddywed Crist? Dyma a ddywedodd, ac a ddywed wrth ei saint, yn mhob oes, “Ar y cleision y rhoddant ddwyllaw, a hwy a fyddant iach;” ie, dyna’r athrawiaeth a eilw y parchedig hwn yn “rhyfyg,” “ynfydrwydd,” a “chythrenlig.” Dyma lanw y ddiareb hyd ei hymylan. Dewised y darllenydd pa un o’r ddau awdwr a goelia; ni ddichon gredu y ddau. Ond ceir gweled pa fodd yr ymdery Mr. Davies yn ngwynneb Paul ar yr “athrawiaethau cythreuliaid” hyn yn 1 Cor. xii, 9,—“Ac i arall ffydd, ac i arall ddawn iachâu, trwy’r un Ysbryd.” Wel Paul, dyna tithau mor gythrenlig â ninnau, yn ol Mr. Davies. Adn. 28,—“Yna gwyrthiau; wedi hyny *doniau iachâu.*” 30,—“A oes gan bawb ddoniau iachâu?” Nac oes; ond Duw “sy’n cyfranu i bob un [yn ei “unig wir eglwys”] o’r neilldu, fel y mae efe yn ewyllysio.” 31,—“Eithr deisyfwech y doniau goreu,” medd Paul. O na; peidiwch â deisyf dim o’r fath bethau, medd Mr. Davies, onide byddwch cyn waethd â’r “Sataniaid:” “athrawiaeth cythreuliaid” yw hyna. Dyma ddau dyst cadarn, sef Mab Duw a Phaul, i’w erbyn ben-ben eisoes. Ond cynygiwn un apostol arall i brofi y “rhyfyg a’r ynfydrwydd” a broffieswn,

fel yn ngenau tri o'r fath dystion, y galler gweled pa un ai nynt ai Mr. Davies sydd yn teilyngu y cyhuaddiau uchod. 'Tyred, Iago, beth meddi di? Ai "athrawiaeth cythreuliaid" yw derbyn iechyd yn enw'r Iesu? Ateba Iago mai yr un peth a ddywed ef yn awr ag a ddywedodd gynt (pen. v, 14),—"A oes neb yn eich plith [chwist saint] yn glaf? galwed ato henuriaid yr eglwys, a gweddiant hwy drosto, gan ei eneinio ef ag olew yn enw yr Arglwydd; a gweddi y ffydd a iachâ y claf, a'r Arglwydd a'i cyfyd ef i fyny." Gwelir, bellach, pa un ai Mr. Davies am wadu, ai nynt am gredu, yr hyn a ddywed Iesu Grist, Paul, Iago, ac creill, yw'r tebycaf i atheistiaid. Ymarllwysiad arall o'r drydedd bibell danlyd hon yw "enghraifft o athrawiaeth cythreuliaid," sef profesu "bwrw allan gythreuliaid," medd efe. Nid yw hyn mor gythreulig ychwaith, yn ol yr hyn a ddywed ein Harglwydd, pan gyhuddid yntau yn gyffelyb—"Teyrnas wedi ymrannu yn ei herbyn ei hun ni saif." Pa fodd y gwna Mr. Davies fod profesu bwrw allan gythreuliaid yn enw'r Iesu yn athrawiaeth cythreuliaid, heb wneyd yr hyn a ddywed Crist—"Yn fy enw i y bwriant allan gythreuliaid," yn gyfryw hefyd. Rhydd dro yn y bibell hon yn awr, a dywed nad oedd neb ond yr apostolion i wneuthur hyny. Rhaid iddo ei throï nes gwneyd Mab Duw yn gelwyddog, pan ddywed yn Marc xvi, 17—"A'r arwyddion hyn a ganlynant y RHAI A GREDANT," yn mhob gwlad, a Chymru hefyd, bob amser, i.e. hyd yn nod yn awr. Pan brawf efe nad oedd neb ond yr apostolion i fwynhau yr arwyddion hyn, bydd wedi profi hefyd ar un pryd, drwy'r un resymeg, nad oedd neb ond hwy i bregethu, i gredu, nac i gael eu cadw, canys y mae y naill a'r llall yn orchymynedig, ac yn addawedig yn yr un commissiwn. Pan orpheno Mr. Davies y gorchwyl hwn, caiff goron atheistaidd ar ei ben; ond hyd hyny dylai adael llonydd i'r neb a ddewisio eu profesu. Ond y mae y ffwrnes yn berwi yn boethach-boethach, nes chwythu y bibell hon yn ysgyrion etto—"Ac hyd y nod i weled gweledigaethau, a chael ymddyddan ag ysbrydion o'r byd anweledig." Clywer barn pregethwr efengyl yn yr oes oleu hon am yr athrawiaeth uchod? "Gallesid meddwl [ebe efe] na fuasai un dyn, hyd y nod yn Merthyr, a ddarostyngai ei giust i wrando y fath *wallgofrwydd, rhyfyg, a chelwyddau*" â doniau'r Ysbryd Glân, pa rai a addawodd Mab Duw i'r credinwyr, tra y parhâi un amherffaith yn eu plith! Nid wyf yn meddwl ddarfod i Paine na Voltaire erioed haeru cabldraethau mor erchyll â hwn ar eglwys Dduw.

Ond, iddarllenydd, clyw ei bedwaredd bibell yn rho. Dywed "ei fod yn meddwl [oddiar ba sail ni welodd yn dda ein hysbysu, os nad cydwybod euog oedd yn corddi] mai y dyben oedd cadw ffair er mwyn crynhoi ffyliaid, ond yn benaf er ymdrechgu casglu arian." Yn hyn etto gwiria yr hen ddiareb. Pwy ond efe sydd yn awr er's blynyddau yn segura ar gost y Cymry, druain, y rhai a weithiant yn galed, er cyfrannu iddo ef bunnocdd lawer bob mis am scfyll uwch eu penau i brofi mai "athrawiaeth cythreuliaid, twyll, rhyfyg, gwallgofrwydd, atheistiaeth," &c., &c., yw efengyl Mab Duw, a galw ei blant yn "Sataniaid," &c. Pwy ond efe a waeddai ar lan yr afon, cyn gynted ag y cafodd ei draed ar *terra firma*, a'r dwfr yn dylifo oddiwrth ei wisg, "am yr arian—yn mlaen â'r arian yna, bobl!" a phe dilynid ef i'w bwlpud, gellid

meddwl fod mor hawdd i engyl ehedeg heb adenydd ag ydyw iddo ef fyned yn mlaen heb yr *arian*. Pan gafodd y lwc, ychydig yn ol, o fedyddio tri ar unwaith, rhyfedd fel y gwaeddai am yr arian; a dannodai i gynnulleidfa o bobl wynion eu bod wedi cyfranu hyn a hyn o'r blaen, pan nad oedd ond un bedyddiedig; ond "yn awr am dair gwaith cymmaint!" Ni wyddys beth a ddelai o Dowlais pe bedyddiai efe yn aml. Er hyn oll, nid oes llawer o amser er pan gyhuddai ni, er ar gam hollol, o godi hanner coron am fedyddio; ond heriwn bawb i brofi ein bod wedi codi dimai erioed; ac ni waeth genym pa faint a gaiff yntau. Ond dyma y rhyfeddod fod y fath ddyrn â hwn yn gallu serio ei gydwybod mor galed fel ag i allu cyhuddo y dieuog mor ddiarbed. Dyn sy'n gwneyd marsiandiaeth o eneldiau cannoedd rhwng ei siop a'i dri chapel! Hwn sy'n ein cyhuddo o geisio gwneyd ffair o hono ef, er mwyn cael arian! Ai tybied ei fod ef yn meddwl cymmaint o hono ei hun, fel ag y daethem ni i roi cynyg arno ef?

Ond y neb a ddymuno glywed enghraifft o ragrith digywilydd, clywed Satan yn ymrithio fel angel y goleuni, ei wyneb can hired, a'i don mor nadlyd â phe bai "gobaith ei elw" oll ar ballu. Clyw ef mewn difrif! "O fy nghydgenedl, y Cymry anwyl." "Anwyl," yn wir! ai digon anwyl i orlenwi clustiau y naill ran â chelwyddau dyfeisiol am y rhan arall?

Ond clyw, ddarlleuydd, fel y mae yn troi y bummed bibell yn ei erbyn ei hun. Y mae mor groes i'w rân nes croesi ei rân ei hun, ac yn ei awydd mawr i ddrygu ereill, dywed ormod i fod yn wir—"A dywenydd mawr genyf hysbysu nad oes ond *ychydig* o'm cydgenedl wedi cymmeryd eu rhwydo gan y creaduriaid drygionus hyn." Wel, druan! y mae wedi cael mwynhau y "dywenydd mawr," fel y gwelir yn ol rhifynau y *Bedyddiwr*. Am hir amser. "Ychydig, ychydig bach, gwheilion Merthyr, pobl ffol, ddisynwyr," &c., yw ei rigwm o hyd. Ond clyw ef yn y linell nesaf—"Ac o'r cyfryw a dwyllwyd ganddynt, mae *llawer* wedi gweled y twyll." Diolcha pawb iddo am hyn. *Ychydig* wedi ymuno, a *llawer* wedi troi yn ol. Mae uwchlaw ysgolheigiaeth gyffredin i ddweyd, wedi y cymmerer *llawer* allan o *ychydig*, pa faint fydd y gweddill? Nid oes ond rhifyddiaeth Mr. Davies a all ateb hyna. Mae y parchedig hwn yn myned mor bell ag i groëddweyd ei frodyr ei hun. Dywed Mr. Golygydd yn ei "gethern" ragymadroddol i'r llythyrau uchod—"A'r ffaith eu bod [y saint] yn hudo *llawer*." Dyna ddau o hen gyfoedion wedi myned ben-ben â'u gilydd. Y maent wedi bod yn mhen ereill ddigon hir. Ond clywch y prophwyd hwn yn prophwydo am dano ei hun; canys yn ol y *rule of contradiction*, yr aiff efe yn mlaen. "Ond gwir nad aiff y rhyfygwyr yn nlaen nemawr yn mhellach; mae eu hynfydrwydd yn eglur i bawb," ebe efe. Proffwydodd y brophwydoliaeth ryfeddol hon yn mhob capel o'r bron. lle y bu yn cyhoeddi ei enwau ar y saint, a chyhoeddwyd hi yn gynffon i bob stori ysgymunol o'i eiddo o'r bron; ac er gweled ei bod yn cael ei chyflawni ar ei ben ei hun, nid yw am addef mai am dano ei hun y mae; i'e, er fod ei ynfydrwydd yn eglur i bawb.

BLAEN-DAL, 3c.]

[OL-DAL, 3½c.]

ATOCY deuaſ etto,—a gwir wedaf,  
Cewch gredu neu beidio;  
Er pob daint, nad faint a fo,  
Ni pheidiaſ a phrophwydo.

# PROPHWYD Y JUBILI, NEU SEREN Y SAINT.

“YE ARGLWYDD IOR A LEFARODD, PWY NI PHROPHWYDA? CANTS NI  
WNA YE ARGLWYDD DDIM, A’E NA DDANGOSO EI GYFRAINACH  
I’W WEISION A PHROPHWYDI.”

RHIF. 4.]

HYDREF, 1846.

[CYP. I.]

## CYNNWYSIAD.

|                                                                                           | TUD. |
|-------------------------------------------------------------------------------------------|------|
| Mae yr Esbonwyr gyda Ni!!! .....                                                          | 85   |
| Tyngned y Corff Dynol .....                                                               | 89   |
| Tystiolaethau Ychwanegol am Eirwiredd Llyfr Mormon                                        | 91   |
| Awdurdodiad Joseph Smith i Fedyddio, Pregethu, &c.,<br>yngnyd â Dechreuad yr Eglwys ..... | 93   |
| Profion Ychwanegol o Lyfr Mormon.....                                                     | 95   |
| Epistol Demetrius, y Gof Arian .....                                                      | 101  |
| Adolygiad ar Bregeth y Parch. W. R. Davies, Dowlais,<br>ar y Gwyrthiau (parhad) .....     | 107  |
| Alltudiaeth Tri Chan Mil o Americanaid, am eu<br>Crefydd .....                            | 109  |
| Llythyr o “Wersyll-Israel”.....                                                           | 111  |
| Llwyddiant Gwirionedd .....                                                               | 112  |

## MERTHYR-TYDFIL:

CYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES;

AC AR WERTH HEFYD

GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL, A LLAWER  
O LYFRWERTHWYR.

1846.

## AT EIN DARLLENWYR.

**DYLEDUS** i'r gwir yw hysbysu ein darllenwyr, ddarfod i'r rhifyn blaenorol ddianc o'r wasg, heb i ni ei weled, oherwydd ein bod ar daith drwy y Gogledd a Lloegr, dros yn agos i chwarter blwyddyn; a chymmerwn y cyfeusdra cyntaf i hysbysu fod Golygydd y *Bedyddiwr* wedi rhoddi lle i lythyr amddiffynol W. Henshaw ac A. Eyans; a bu y camgymeriad o barthed i'r peth yn y **ΠΡΟΦΗΤΥΡ** (gwel tud. 78), oherwydd i'r Argraffydd golli dechreuad y copi. Do, gwnaeth y *Bedyddiwr* yn waeth na gwrthod ei gyhoeddi; canys mynai i'r rhai na allant ddyfod i Gaerdyf i weled drostynt eu hunain, ei gredu ef, fod tebygolrwydd y ddwy ysgrif yn ddigonol i brofi mai yr un personau a ysgrifenasant y ddau lythyr cyfeiriedig. Aethom i'w swyddfa yn fuan wedi hyny, dangosasom iddo y cam mawr a gaffem, ond ni welsom y ddwy ysgrif hyny ychwaith. Gan fod Mr. Davies yn addef mai rhyw ddyd a ddaeth â'r llythyr hwnw i'w dy ef, a Golygydd y *Bedyddiwr* yn llygad-dyst o hyny, pahan na ddywedant pwy a roddodd y llythyr hwnw iddo? Addefant mai yn eu llaw hwy y mae allwedd dirgelwch y llythyr ffugiol hwnw; ac oni ddeuant ag ef i'r amlwg, pwy na thadoga y ffug-lythyr arnynt hwy? Ond ychwaneg am hyn etto. Parhawn ni i amddiffyn ein hunain, tra parha y ddau bartneriaid hyn i'n camgyhuddo. Unwaith etto meddwn—Nid ein brodyr ni a ysgrifenasant yr hêr hwn at Mr. Davies i ddod allau i ddadl; mae ei ffurfwyr yn amlwg elynion i ni. Onid Mr. Davies, a'i frawd o Gaerdyf, ag sy'n rhoi benthyg ei enw i fod yn dyst iddo, a gyfansoddasant y ffug-heriad er mwyn ein gwarthruddo? Mae gwaith y *Bedyddiwr* yn haeru mai yr un llaw a ysgrifennodd yr her ag a ysgrifennodd yr amddiffyniad i'w roi yn ei fisolyn ef, a'i waith yn pallu dangos y ddwy ysgrif o flaen ein llygaid ninnau, a'i waith hefyd yn sefyll mor hwylus o dyst i'w frawd, er fod ugain milldir rhwng cartrefi y ddau, a phob cynllun a *scheme* arall o'u heiddo, yn ein tynu i ammau yn gryf am danynt, yn erbyn ein gwaethaf. Cyhuddiad trwm ydyw hwn yn erbyn Mr. D.; ond cofier mai yn erbyn y gŵr a roes ei holl ddyfais ar waith, er's blynyddau, i'n camgyhuddo, ac a deithiodd lawer drwy y wlad i'n gwarthruddo—yn erbyn y gwr moesgarol â'n dwbiodd â dau ddwsin neu dri o lystenwau drwy y wasg a'r pwlpudd, y byddai wed'yn. Ac nid ydym yn cyhuddo neb o fwyta baw ond y sawl sy'n arfer bod â baw ar ei ddysgl. Dyna'r cwbl. Os gwinga Mr. D. (a phiwy na wingai rhag y fath ammheuaeth?), *enwed ddygiel-ydd yr hen lythyr* drygionus hwnw, ynte, ac yna dau yn rhydd, a dim cynt. Mae yn resyn fod yn rhaid i ni, sydd â chymmaint o orchwylion pwysig, a pherthynol ag iachawdwriaeth yr oes ar ein dwylaw, golli amser gyda'r pethau hyn; ond goddef fel llofrudd neu leidr fuasai ymddygiad amgen ynom.

# THOMAS WARD,

AMERICAN EMIGRATION, COMMISSION, FORWARDING,

AND

GENERAL SHIPPING AGENT,

STANLEY BUILDINGS, BATH-STREET, PRINCE'S DOCK,

LIVERPOOL.

Y GWR a enwir yma sydd swyddog dros y Gymdeithas Ymfudawl a gyummeradwyr genyn o bryd i bryd yn y PROPHWYD.

Trosglwyddir uwyddau o bob math ganddo, i bob man yn yr Unol Daleithiau, Canada, Deheubarth America, yr India Ddwyr-emiol a Gorllewinol, China, Bombay, Calcutta, Australia, Zealand Newydd, &c., &c.

Trosglwyddir ymfudwyr yn y llongau mwyaf a diogelaf i New York, Boston, Philadelphia, Baltimore, Charleston, New Orleans, Mobile, Quebec, Montréal, &c., ar yr ammodau iselaf; a gwneir pob darpariaeth gogyfer â chysur a chyfleusdra i ymfudwyr, ag a all fod yn y prif longau uchaf eu pris ar y llwybr.

Gofynir un bunt i lawr am bob ymfudwr o oedran, tuag at yr ymfudiad, er mwyn sicrhau lle i'r cyfryw yn y llong.

Cyfeirier pob llythyr, wedi talu y doll, i *Thomas Ward, Licensed Emigration Agent, Stanley Buildings, Bath Street, Prince's Dock, Liverpool*, a cheir atebiad dihoced yn y fan.

*\*\* Yr ydym ni yn gwybod drwy brofiad trist, fod dynion i'w cael yn ein porthladdoedd, yn gwisgo gwynneb teg, a thafod tiriön, yn denu dyeithriaid i ymfudo mewn llongau peryglus, ynghyd ag i sugno dwbl yr arian ag a fyddai raid o'u llogellau. Mae, y fynydd hon, ganuoedd o Gymry gwirion, yn ymborth i bysg y Werydd, o achos diosfalwch dechreuad eu mor-daith. Nid yw Mr. Ward yn un o'r cyfryw. Ceir ei ammodau yn i, ei ymborth, cyfleusdra a diogelwch yn gyfartal i'r llongau goreu allan o Liverpool.*

## MERTHYR-TYDFIL.

**G**WAHODDIR y Cymry i NEUADD Y CYMREIGYDDION (*White Lion*), yn y dref hon, i glywed y GREFYDD APOSTOLAIDD, fel ei hadferwyd drwy Weinidogaeth Angylaidd.—Traddodir Darlithoedd bob Sul am 11 o'r gloch, ac yn yr hwyr am 6, er profi y Pynciau Athrawiaethol a ganlyn yn ysgrythyrol a rhesymol:—Ffydd yn Mab Duw fel digonol Waredwr—Edifeirwch—Bedydd er maddeuant pechodau—Arddodiad dwylaw er derbyn yr Ysbryd Glân—Adferiad y Doniau Ysbrydol—Adferiad yr Iuddewon i Palestina—Yr Adgyfodiad cyntaf—Aeyrnasiad personol Crist ar y Ddaear am Fil o Flynyddoedd—Y Farn Gyffredinol—Y Nef a'r Ddaear newydd, a thynghedfen dragywyddol y Bydyssawd a'i Drigolion!!!

*D.S Y mae croesau i lawb ddyfod i mewn heb datu dim.*

CYHOEDDIADAU SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF.

I.

*Cyhoeddwyd yn ddiweddar, Pris Chweccheiniog,*

Y FARW WEDI EI CHYFODI YN FYW!

NEU

YR HEN GREFYDD NEWYDD.

TRAETHAWD

YN DANGOS

ANGHYFNEWIOLDEB TEYRNAS BDUW.

GAN CAPT. D. JONES.

\*.\* Nid oes ond ychydig gopiau o'r Traethawd heb eu gwerthu.  
Gellir ei gael gyda'r PRORHWYD.

II.

*Newydd ei Gyhoeddi, gan yr un, Pris Tair Ceiniog yn unig,*

A T E B Y D D

Y GWRTHDDADLEUON A DDYGIR YN FWYAF CYFFRE-  
DINOL DRWY Y WLAD

YN ERBYN

SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF,

*A'r Athrawiaeth a broffesant ;*

MEWN FFURF O YMDDYDDAN RHWNG MEISTRIAID TRADD-  
ODFAD, SECTARIAD, A SANT.

III.

*Cyhoeddwyd yn ddiweddar, gan yr un, Pris Ceiniog a Dimai.*

A N E R C H I A D

DEUDDEG APOSTOL AT HOLL FRENINOEDD, CYNG-  
HORWYR, BARNWYR, A PHOBL Y BYD.

IV.

*Newydd ei Gyhoeddi, gan yr un, Pris Dwy Geiniog*

Y G L O R I A N,

YN YR HON Y GWELIR

DAVID YN PWYSO WILLIAMS, A WILLIAMS YN  
PWYSO DAVID ;

NEU

*David Williams, o Abercanaid, yn gwrthddwyd ei hun, wedi ei ddal yn  
ei dwyll, a'i brofi yn euog o Ddeistiaeth.*

# PROPHWYD Y JUBILI.

“MAE Y DEYRNAS WEDI DYFOD.”

RHIF. 4.]

HYDREF, 1846.

[CYF. I.

## MAE YR ESBONWYR GYDA NI!!!

PWY, mewn gwir, a fuasai yn dysgwyl? Eithr y mae yn ddigon gwir, er hyny. Mae yr holl Esbonwyr a welsom, Taenelliadol a Throchyddol, Esgobyddiaethol ac Ymneillduol, Protestanaidd a Phabaidd—oll, meddwn, gyda ni! “Nid yw Barnes gyda chwi,” medd rhywun, “na Lewis, na Phillips, na Jenkins o Hengocd, na Henry, na Scott, yr enwogion hyn.” Ydynt; O, ydynt! ydynt!

Barnes, beth meddi di, ynte, am ein pwnc ni, o FEDYDDIO ER MADDEUANT PECHODAU? Myna ein gwrthwynebwyd yn awr, nad er mwyn *derbyn* maddeuant a feddylir wrth ymadrodd Pedr yn Act. ii, 38; beth a ddywedi di? Yr wyt ti yn cael dy werthu o fesur y “ddwy fil a hanner” yn mysg Annibynwyr Deheubarth Cymru. Mae dy air *di* o bwys, i ni allu ei gyflwyno iddynt dros ein hathrawiaeth. Dere di, Barnes anwyl, â'r gwir allan i'th ddyscyblion.

BARNES: “*Er maddeuant pechodau.* Nid yn unig y pechod o groeshoelio y Messiah, ond o *bob* pechod. [Felly dywedwn ninnau hefyd.] Nid oes dim mewn *bedydd ei hun* a all olchi ymaith bechod. [Gwir bob gair. Nid oes dim mewn *bedydd ei hun.* Gwyddoch fod y geiriau Italaidd er mwyn pwysleisiad, yn eiddoch chwi.] Gwneid hyny [sef golchi ymaith bechod] gan drugaredd faddeuol Duw drwy iawn Crïst. [Da iawn etto. Gan y drugaredd hõno, a thrwy yr Iawn hwnw, meddwn ninnau hefyd.] Ond y mae *bedydd* yn arddangosiadol ó ewyllysgarwch i dderbyn maddeuant yn y ffordd hõno [Dyma wir etto! Canys nid oes neb yn ewyllysgar i dderbyn maddeuant “y ffordd hõno”—ffordd Duw, yn dod o'r dwfr yn fyr o hõno], ac yn gyhoeddiad difrifol o'n hargyhoeddiad nad oes un ffordd arall o faddeuant. Mae yr



hwn a ddel i'w fedyddio, yn dod gydag argyhoeddiad proffesedig ei fod yn bechadur, nad oes un ffordd o drugaredd ond yn yr efengyl, a chydag ewyllysgarwch proffesedig i gwympo mewn ag ammodau iachawdwriaeth, a'i derbyn hi fel ei chlynygir drwy Iesu Grist. [Diolch yn fawr i chwi, barchedig syr! Cyhoeddwch yma fod y sawl a fedyddir yn proffesu hyn oll; felly y cyhoeddwn ninnau. Cyhoeddwch nad oes neb byth yn gwirioneddol gyflawni hyn oll, heb dderbyn maddeuant hefyd: felly ninnau. Dywed creill o Gymru ar y pwnc hwn mai i faddeuant pechodau fel goruchwyliaeth a feddylir yn y testun; chwithau ydych yn cyddweyd â ni, mai derbyn maddeuant pechodau personol, sef "yr holl bechodau" yw yr ystyr. Bedydd o drochiad (cofiwch eich esboniad ar Rhuf. vi, 4) sydd genych yn gydfynedol â maddeuant o'r holl bechodau, gan drugaredd Duw drwy iawn Crist. Dyna fedydd yr efengyl, sef yr efengyl hon a bregethir genym ni, a ni yn unig. Yr ydym ni yn *hyn*, yr un modd ag y mae, wrth gwrs, eich 2500 derbynwyr Cymreig, yn wir Farnesiaid; a chwychwi, ynghyd â hwythau, o'r ochr arall, yn wir Formoniaid, o ran egwyddor.] Fy esboniad ar Mat. iii, 6, yw fod bedydd Ioan "yn ddefod ddifrifol, arwyddocaol o'u glanhad oddiwrth eu pechodau blaenorol, a'u puredigaeth at wasanaeth neillduol Jehofa." [Ie, defod ddifrifol oedd hi. Os arwyddocâi ffaith, a'r ffaith hono yn lanhad oddiwrth eu pechodau, arwyddocâi faddenant, oddieithr eich bod chwi, Albert Barnes, yn dal allan fod pechodau yn lân heb faddenant. Yn awr, os arwyddocâi eu bedydd "eu glanhad" maddeuol, pa bryd, atolwg, y derbyniasant y madddeuant? Ai cynneu ynte ar ol, bedydd? Ni ddywedwch, mi wn, mai cyn bedydd; a phe dywedech mai ar ol bedydd, gofynwn, Pa faint ar ei ol? Canys "eu glanhad" eu *hunain* â arwyddocaid, yr hyn fuasai yn dwyll pur, os na chawsant faddeuant. Gwelwch mai Mormon croyw ydych yma hefyd ar y pwnc eglur hwn.]

Dywedwch eilwaith yn yr un ddalen—"He administered this rite of baptism, or washing, to signify the cleansing from their sins." [Oll o'r un rhedial, yn profi mai eich barn bwyllog yw Mormoniaeth, neu faddeuant yn gydfynedol â, neu trwy, fedydd.]

Matthew Henry, dywed dithau air ar hyn.

HENRY: "Wrth broffesu fel hyn eu ffydd ynddo Ef, derbynient faddeuant o'u pechodau, a chyfranogent o ddoniau a grasau yr

Ysbryd Glân.” [Ië, ie; “bedyddier pob un o honoch er maddeuant:” yr hyn a ddeonglwech chwï a ninnau yn “*derbynient fadd-  
euant,*” yw y gair. Oll yn un etto! Pwy a gaiff wadu y pwnc  
hwn mwyach? Mae o honot ti dros bymtleg cant wedi eu  
cyhoeddi, eu derbyn, mae yn debyg, a’u parchu fel yr efengyl  
orcu. Hwï a dderbyniant dy athrawiaeth *di*, mae yn siwr, genym  
*ninnau* mwyach. Nid yw o un pwys *gan bwy* y caffont hi; ei  
chael hi yn bur gyda’i hawdurdod nefol yw y cwbl.]

Yn awr, chwychwi eich deuoedd, Barnes o Philadelphia, a  
Henry o Gaerlleon, gwrandewch un peth yn awr. Mae un Evan  
Griffiths, gwr parchus o Abertawe, wedi cael cenad a chefnogaeth  
gref, gan y Cymry, i gyhoeddi yr athrawiaeth hon dan dy enw di,  
Matthew Henry; ac un Thomas Rees, gwr parchus arall o Lanelli,  
wedi cael cenad a chefnogacth gan y Cymry, i gyhoeddi yr ath-  
rawiaeth hon dan dy enw di, Albert Barnes; ond ni chawn ni na  
chenad na chefnogaeth gref gan yr un Cymry, i gyhoeddi yr un  
athrawiaeth dan enw un Simon Pedr, pregethwr mawr, mwy nâ  
chwï eich deuoedd, chwï wydiloch, o Jerusalem, yn Palestina. Pe  
buasai fodd eich cael chwï eich dau i gynnadledd nesaf cymmanfa  
yr enwad parchus hwn, taflasem y cwlwm dyrus hwn ger eich  
bronau; sef, pahan y cyhoeddir “bedydd er derbyn maddeuant  
pechodau” yn *wirioneddau melys* dan eich enwau chwï drwy ddau  
o’u pregethwyr eu hunain, tra mae yr un gwïr yn hollol yn *gyf-  
eiliornad chwerw* dan enw Simon Pedr drwy ein pregethwyr ni.

Wele sefyllfa y partion yn awr ar y pwnc pwysig o *faddeuont  
pechodau drwy gyfrwng bedydd*:—Simon Pedr, Matthew Henry,  
Albert Barnes, Evan Griffiths, Thomas Rees, y Mormoniaid a’r  
Campbeliaid oll—*yn erbyn* Annibynwyr, Bedyddwyr, Trefnyddion,  
Esgobyddiaethwyr oll, oddieithr derbynwyr cefnogawl yr Henry  
a’r Barnes dan sylw.

Mae yr holl *Fedyddwyr* gyda ni!! Cawn y commissiwn mawr  
yn ol Marc, yn dechreu gydag—“Ewch i’r holl fyd. a phregeth-  
wech yr efengyl i bob creadur;” ac yn ol Matthew—“Ewch a dysg-  
wech yr holl genedloedd, gan eu bedyddio hwynt yn enw y Tad, a’r  
Mab, a’r Ysbryd Glân,” &c. Yn ol Marc—“Y neb a gredo ac a  
fedyddier a fydd cadwedig.” Yr un commissiwn a geir, meddwn,  
gan y ddau, mewn gwahanol eiriau. “Yr un ydynt,” medd y  
Trochwyr oll hefyd. “Yr un ydynt,” meddai y Taenellwyr hefyd

hyd yn ddiweddar. “Yr un ydynt,” medd Dr. Edward Williams, ac Evans o Trewen, a Dr. Wardlaw, a Mr. Ewing, a Mr. Munro, a'r holl rai ereill, fel y soniasom, ag a ysgrifenasant ar y commissiwn, hyd yn ddiweddar. Mac yr holl hen daenellwyr gyda ni ar bwne

Y DONIAU YSBRYDOL.—“Yr un ydyw y ddau gommissiwn,” medd Dr. Gale, y Trochwyr, a'i frodyr, Mr. Dore, Dr. Gill, Mr. Gibbs, Mr. Stennett, Mr. Robinson, Mr. Ivimy, Mr. Booth, Mr. A. Fuller, Dr. Ryland, a Mr. Jenkins o'r Hengoed, a Mr. Evans o Ruddlan. Ie, “Yr un ydynt,” medd yr enwog Dr. Carson.

Eithr pa beth am hyny? medd rhywun. Hyn am hyny, ddarhenydd hynaws, sef ddarfod i Grist osod y<sup>†</sup> holl bethau hyn yn y commissiwn:—

1. Ewch i'r holl fyd, a dysgwch yr holl genedloedd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur;
2. Gan eu bedyddio hwynt yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân; a'r hwn a gredo ac a fedyddier a fydd cadwedig;
3. Yr arwyddion hyn a ganlynant y rhai a gredant; Yn fy enw i y bwriant allan gythreuliaid, ac â thafodau newyddion y llefarant; seirff a godant ymaith; ac os yfant ddim marwol, ni wna iddynt ddim niwed; ar y cleifion y rhoddant eu dwylaw, a hwy a fyddant iach;
4. Gan ddysgu iddynt gadw pob peth a'r a orchymynais i chwi; ac wele yr ydwyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd.

A ydyw commissiwn yr “Ewch a phregethwch” i sefyll hyd ddiwedd y byd? A ydyw commissiwn y “Bedyddiwch hwynt,” i sefyll hyd ddiwedd y byd? A ydyw commissiwn “Yr hwn a gredo ac a fedyddier,” i sefyll hyd ddiwedd y byd? A ydyw commissiwn “Yr wyf fi gyda chwi hyd ddiwedd y byd,” i sefyll hyd ddiwedd y byd? Ac onid yw y gyfran arall ag sydd yn nghanol yr un commissiwn i sefyll hyd ddiwedd y byd? Os yw y fraich gyntaf, sef yr “Ewch a phregethwch,” a'r fraich olaf, sef “Yr ydwyf fi gyda chwi,” i sefyll hyd ddiwedd y byd, onid yw y rhanau sydd yn nghanol y commissiwn i sefyll hyd ddiwedd y byd? Ac onid y rhanau hyny yw “yr arwyddion hyn a ganlynant?” Onid yw hynua yn y commissiwn? Ac onid ydych chi oll, y gwyr dysgedig a enwyd, wrth ddweyd yn gyntaf, mai yr un commissiwn yw com-

missiwn y fildau efengylwr, ac wrth ddweyd yn ail, mai hyd ddiwedd yr oruchwyliaeth hon, sef hyd y farn, yw yr “hyd ddiwedd y byd” sydd yn yr un commissiwn, onid ydych, mewn gwirionedd, yn *Formoniaid egwyddorol*? Gwir a ddywedwch, fod y commissiwn yn parhau yn ei rym; o gaulyniad, yr ydych yn rhwym mwya-ach i gyfaddef, yn ol eich deongliad eich hunain, fod yr arwyddion ag y sonir am danynt ynddo yn parhau yn yr un grym. Ond pa beth a wnaethoch â'r arwyddion hyn? Yn mha le y collasoch hwynt? Ie, paham nad ydych yn pregethu canol y commissiwn, yn gystal â'i fraich gyntaf, a'i fraich olaf? Ni thâl rhuso ateb; mae y wlad yn esbonio drostynt eu hunain.

A glywsoch am y newydd, na fu erioed ei well,  
Am HENRY fawr Caerlleon. a BARNES Amerig bell—  
Eu bod yn Bresbyteriaid, yw'r 'stori hir fu'n gwau;  
Ond 'nawr fe gafwyd allan, mai Mormon mawr yw'r ddau.

Mae yntau Evau Griffiths yn hanner Mormon, mi wn,  
Sef Griffiths, Abertawe, fu'n Annibynydd erwi:  
Ac onide, pa'm canuol drwy'r wlad, dan gymmaint poen,  
Greadur oedd fel yma yn Formon dan ei groen.

### TYNGHEDFEN Y CORFF DYNOL.

Yr ydym yn credu fod yr holl hil ddynol yn agored i ddyoddef cosp oherwydd trosedd ein rhieni cyntaf, h. y., marwolaeth, nen ysgariad corff ac ysbryd yn dragywyddol a diammodol. “O'r pridd y daethost, ac i'r pridd y dychweli.” Ond, nid yw ei had, oddieithr y rhai a bechasant, o dan y ddedfryd arall a berthyna i'r trosedd, sef alltudiaeth ei ysbryd yn dragywyddol o bresennoldeb Duw, heb allu byth i'w adferu ei hun yn ol; canys Duw yw y pen cyfammodwr (cyfammod y lliosogiad) ar y rhan ysbrydol, ac Adda felly ar y rhan ddaearol, yr hwn gyfammod yn unig a droseddwyd yn yr ardd. “Canys yr enaid a becho, hwnw a fydd marw” yn dragywyddol. Nid ydym yn credu fod Duw cyfiawn, yr hwn yw Tad yr ysbrydoedd, yn anfon ysbrydoedd pechadurus i gyssylltiad â'r temlau daearol, nac ychwaith yn alltudio yr ysbrydoedd hyny o'i bresennoldeb, pan ddyoddefant y ddedfryd am drosedd Adda, sef ysgariad corff ac ysbryd, yn eu babandod, nen cyn iddynt bechu yn weithredol. Ond credwn fod yr ysbrydoedd hyny “yn dychwelyd at Dduw, yr hwn a'u rhoes” i'r corff ar y dechreu.

: Yr ydym yn credu mai drwy ddyoddefiadau, marwolaeth, adgyfodiad, ac eiriolaeth Iesu Grist yn unig, yr adferir yn hollol a dieithriad bob

un o'r hil ddynol, oddiwrth yr alltudiaeth neu ysgariad corff ac ysbryd oherwydd pechod Adda, ac y caiff pob un yr adferiad neu yr adgyfodiad hwnw, y gwaethaf a fu ar ein daear ni erioed, yn ogystal â'r goreu, a hyny yn hollol ddiammodol. Nid yw adgyfodiad neb yn ymddihynu mewn un modd ar ddim a ddichon efe weithredu yn ddrwg nac yn ddaionus.

Daeth y dyn goreu a fu erioed, yn ogystal â'r gwaethaf, dan y dded-fryd hon, yn yr un modd hollol ddiammodol, heb ewyllys na gallu yn y peth; ac, o ganlyniad, daw y naill mor ddiammodol â'r llall, yn hollol waredigol oddiwrthi, fel y dywed Paul yn Rhuf. v, 18—"Felly gan hyny, megys trwy gamwedd un y daeth barn ar bob dyn i gondemniad, felly hefyd trwy gyfiawnder un y daeth y dawn ar bob dyn i gyfiawnhad *hwyd*," yr hyn yw ail-gyssylltu y corff â'r ysbryd. "Megys yn Adda y mae pawb yn meirw [sef ysgariad corff ac ysbryd], felly hefyd yn Nghrist y bywheir [neu yr adferir corff ac ysbryd] pawb." Yn yr ystyr hyn, credwn mewn "iawn cyffredinol" a diammodol, heb un eithriad. Drwy yr iawn hwn yr adgyfodir pob corff a wnaed o briddellau y dyffryn daearol hwn erioed, ac y meddiennir ef gan ei ysbryd ei hun. Mewn prawf o hyn y dywedodd Iesu Grist, yn Ioan xii, 32—"A minnau, os dyrchafir fi oddiar y ddaear, a dynaf bawb ataf fy hun." "Y mae yr awr yn dyfod, yn yr hon y caiff *pawb* a'r sydd yn y beddau glywed ei leferydd ef; a hwy a ddeuant allan." Wedi y waredigaeth gyflawn ddiammodol a chyffredinol hon, oddiwrth bob un o effeithiau a chanlyniadau pechod Adda, drwy iawn Crist, mwynha yr hil ddynol ddedwyddwch perffaith, a thragywyddoldeb diderfyn i'w fwynhau, os nad ydynt yn euog o bechodau gweithredol; canys byddant hwy wedi dyoddef dedfryd am bechod Adda drwy farw, a chael gwaredigaeth neu adferiad yn ol, oherwydd i Iesu Grist ddystrywio yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, yspeilio anghyngau a'r bedd, gan "fyned yn anghyngau, ac yn dranc i'r bedd"—esgyn yn goncwerwr ar bob peth, ac agoriadau uffern a marwolaeth wrth ei wregys. Caiff pawb fwynhau presenoldeb ei Dad mewn gogoniant a dyrchafiad di-ben-draw, h. y., os—ie, sylwer, os na cheir hwy eu hunain yn droseddwyr personol o ryw gyfraith a roed iddynt.

Yr ydym yn credu fod babanod yn analluog i adnabod gwahaniaeth rhwng da a drwg, i ufyddhau nac i anufyddhau i un gyfraith; o ganlyniad, na roddodd Duw un ddeddf iddynt; a lle nad oes gyfraith, nid oes bechod, "canys anghyfraith yw pechod;" felly y maent hwy yn ddibechod, ac os bydd iddynt farw yn eu babanod, y cânt etifeddu bywyd tragwyddol.

## TYSTIOLAETHAU YCHWANEGOL AM EIRWIREDD LLYFR MORMON.

DYWEDASOM yn ein rhifyn blaenorol fod ychwaneg o dystion er profi Llyfr Mormon nag sydd er profi y Testament Newydd. Ni feddylia neb rhesymol, oherwydd fod profion mwy dros y naill, fod hyny yn lleihau dim ar yr hyn ydyw y llall.

### *Tystion i'r Testament Newydd.*

Chwech o lygad-dystion, wedi ysgrifenu yn eu hoes, er's deunaw can mlynedd yn ol, eu bod hwy a'u brodyr wedi gwneyd gwyρθiau.

Dim cymmaint ag un tyst byw ei fod ef wedi ei iachâu yn nyddiau yr apostolion;—mae y cyfan yn ymddibynu ar dystiolaeth y chwech.

Y mae chwech tyst y Testament Newydd wedi marw, fel na allwn groes-holi eu tystiolaeth.

Dim cymmaint ag un tyst anhleidiol y tu allan i'r eglwys, o fod gwyρθiau wedi cael eu cyflawni yn nyddiau yr apostolion.

Yn awr, onid yw yn amlwg fod mwy o dystion o wirionedd Llyfr Mormon, nag sydd wedi aros hyd yma i'r Testament Newydd? Er fod digon i brofi y naill yn wir, mae mwy yn bresennol dros y llall. Ac onid yw rheswm yn ein dysgu i farnu yn ol y tystion am y peth? Yna, os credir un o honynt, rhaid credu y ddau. Mae amryw, hyd y nod o'r cyfryw a broffasant fod yn ddsygedigion diduedd yn ein hoes, yn haeru na welodd neb y llafnau aur, &c., heblaw Joseph Smith; i.e, yn Merthyr, yn ddiweddar, darlithiodd rhai o gapel i gapel yn erbyn y llyfr hwn, pryd nad oeddynt wedi ei weled erioed; a phan gynygiwyd eu hunioni ar y pwnc, addefasant nad oeddynt yn dweyd yr ystoriau am wir, ond fel chwedlau y wlad. Mae y tystiolaethau canlynol yn argraffedig yn Llyfr Mormon; ac er hyny, cyhoeddodd dyn yn ddiweddar draethodyn bach dienw, llawn o chwedlau disail, ac yn mhlith yr anwireddau ereill, cyhoeddodd na welodd neb y llafnau, ond Joseph Smith—i.e, haera hyn pan oedd Llyfr Mormon wedi bod yn ei ddwylaw, ac yn ateb yn hollol groes iddo. Rhoddwn dystiol-

### *Tystion o eirwiredd Llyfr Mormon.*

Tri chan mil o lygad-dystion fod gwyρθiau yn cael eu gwneuthur yn yr oes hon.

Mae miloedd a dystiant yn ein dyddiau ni, eu bod hwy eu hunain wedi derbyn iechyd, heb orphwys dim ar dystiolaeth ail llaw.

Degau o filoedd o dystion am Llyfr Mormon yn awr yn fyw, yn greaduriaid rhesymol, i.e, yn Gymru, rai cannoedd o honynt, fel y gellir eu croes-holi.

Cannoedd o filoedd o dystion geirwir fod Duw yn cyflawni gwyρθiau yn y dyddiau hyn drwy ei weision.

æeth y personau canlynol yn ychwanegol, oherwydd eu bod mor amhleididol ac anwrthwynebadwy ag sydd bosibl fod; canys dynion geirwir, gonest, ac uchel eu cymmeriadau, yr ystyrir hwynt gan eu cydnabod, hyd y pryd y gwelsant y pethau hyn, ac y tystiant am danynt i'r byd—ïe, amryw o honynt ar y pryd yn ddigon da i lanw lle oedd uchel yn yr eglwysi sectyddol: eithr parodd eu gwaith yn edrych ar, a thystio ynghylch y llafnau aur dan sylw, iddynt gael eu bwrw allan am ddrwg weithredwyr, fel y dywed Crist—"Hwy a'ch bwriant chwi allan o'r synagog." Er hyn ni allodd neb, ac ni all neb ychwaith, wrthbrofi eu tystiolaeth: ni wadodd un o honynt mo honi byth, fel y gwnaeth Pedr ac ereill, hyd y nod dan brofedigaeth; ond seliodd rhai o honynt y gwirionedd o honi â'u gwaed, pan eu merthyrwyd o'i herwydd; cynygiwyd eu bywyd iddynt am ei gwadu, ond ni dderbyniasant hwy ymwarded, "fel y gallent gael adgyfodiad gwell."

TYSTIOLAETHWYR I'R LLAFNAU AUR.

"Bydded hysbys i bawb yn mhob llwyth, iaith, pobl, a chenedl, y delo y peth hyn atynt, ddarfod i Joseph Smith, cyfieithydd y llyfr hwn [Mormon] ddangos i ni y llafnau cyfeiriedig, pa rai oeddynt debyg i anr: ni a deimlasom â'n dwylaw gynnifer o'r dalenau a gyfieithodd Mr. Smith, ac a welsom â'n llygaid y cerfiadan oedd arnynt, pa rai a ymddangosent o naddiad hen a chywrair. Mewn geiriau sobrwydd yr ydym yn tystio, fod y Smith cyfeiriedig wedi dangos y llafnau hyn y ni, ein bod wedi eu gweled, eu teimlo, a gwybod mewn gwirionedd eu bod hwy yn ei feddiant. Yr ydym yn rhoddi ein henwau gerbron y cyhoedd, yn dystiolaeth i'r byd o'r hyn a welsom; ac y mae'r Duw mawr yn dyst, mai gwirionedd didwyll yw ein geiriau.

|                       |                      |
|-----------------------|----------------------|
| "CHRISTIAN WHITMER,   | JOSEPH SMITH, Hynaf, |
| "HIRAM PAGE,          | JOHN WHITMER,        |
| "PETER WHITMER, Ieu., | HYRUM SMITH,         |
| "JACOB WHITMER,       | SAMUEL H. SMITH."    |

Pwy ddyn rhesymol a ammheua wirionedd Llyfr Mormon yn hwy? Pa lyfr yn y byd a ddaw ag ychwaneg o dystion o'i eirwiredd? Ac oni fyddai y cyfryw dystiolaeth yn oddefol o flaen pob llys, yn mhob gwlad? Ac etto nid dyma'r unig rai sydd o'i blaid; o lawer, rhoddwn ger eich bron am y tro hwn dystiolaeth tri ereill o ddynion cymmeradwy y wlad hono, pa rai nid posibl eu bod wedi eu twyllo, na thwylllo ereill ychwaith.

"Yr ydym ni yn hysbysu, mewn sobrwydd, i bawb cenedloedd, llwythau, tafodieithoedd, a phobloedd, a welant y gwaith hwn, ein bod ni, drwy râs Duw Dad a'u Harglwydd Iesu Grist, wedi gweled y llafnau a gynnwysant y cof-lyfr hwn [Llyfr Mormon], pa un sydd gof-lyfr o bobl Nephi, a'u brodyr y Lamaniaid, ynghyd ag o bobl

Jared, y rhai a ddaethant oddiwrth dwr Babel. Yr ydym ni yn gwybod ddarfod eu cyfieithu trwy ddawn a gallu Duw, canys ei lefer-ydd ef a draethodd hyn i ni; ac felly yr ydym yn gwybod mewn sicrwydd diammheuol fod y pethau hyn yn wir. Yr ydym yn tystio hefyd ddarfod i ni weled y cerfiadau ar y llafnau; canys dangoswyd hwynt i ni trwy allu Duw, ac nid dyn. Yr ydym yn traethu hefyd mewn sobrwydd, ddyfod angel o'r nefoedd, a dangos y llafnau o flaen ein llygaid, nes y gwelsom hwynt ynghyd â'r cerfiadau arnynt; ac yr ydym yn gwybod mai trwy râs Duw Dad a'n Harglwydd Iesu Grist eu gwelsom. Felly y tystiwn y gwirioneddau hyn; ac y maent yn rhyfedd yn ein golwg ni. Etto llef yr Arglwydd a orchymynodd i ni ddwyn tystiolaeth o honnynt; am hyny, mewn ufydd-dod i orchymynion Duw, yr ydym yn tystio y pethau hyn, gan wybod, os parhawn yn ffyddlon yn Nghrist, y byddwn lân oddiwrth waed pob dyn, ac y ceir ni yn ddiŷrycheulyd gerbron gorseddfainc Crist, i gael bod yn dragywyddol gydag ef. A'r gogoniant fo i'r Tad, Mab, a'r Ysbryd Glân, y rhai sydd un Duw. Amen.

“OLIVER COWDERY,  
“DAVID WHITMER,

MARTIN HARRIS.”

#### AWDURDODIAD JOSEPH SMITH I FEDYDDIO, PREGETHU, &c., YNGHYD A DECHREUAD YR EGLWYS.

YN y flwyddyn 1829, wedi i Mr. Smith a Mr. Cowderry ddeall, oddiwrth yr hyn a ddywedodd Crist wrth y Nephiaid, yn ol Llyfr Mormon, am y *dull* cywir o fedydd, teimlent awydd mawr i gael eu bedyddio; a chan na wyddent am neb a feddai yr awdurdod anghenrheidiol i weinyddu yr ordinhad santaidd a phwysig hõno, gweddiasant yn daer ar i'r Arglwydd anlygu iddynt pa fodd yr adferid yr awdurdod anghenrheidiol i weinyddu ordinhadau yr efengyl; ac wele angel yr Arglwydd a safodd ger eu bron! a chan osod ei ddwyllaw ar eu penau, efe a'u hordeiniodd, ac a orchymynodd iddynt fedyddio y naill y llall, ac felly y gwnaethant. Dichon yr amgylchiad rhyfedd hwn ymddangos yn anhygoel yn ngolwg rhagfarn yr oes hon. Ond nid dyma'r tro cyntaf i'r Arglwydd wneuthur eithriadau o ddeddfau gosodedig yr efengyl. Os credir yr ysgrythyrau, nid annhebyg i'r dull hwn yr anfonwyd Ioan Fedyddiwr allan i fedyddio; nid aeth efe, nac un arall o weision Duw erioed, i fedyddio, na gwneyd un peth arall yn ei enw ef, heb eu hanfon ganddo, dryw ryw gyfrwng neu gilydd. Dywed Ioan, “Yr *hwn* a'm *hanfonodd* i fedyddio â dwfr, *efe* a ddywedodd wrthyf.” Dyma ei dystiolaeth ef; nid yn unig fod *rhyw* un wedi ei anfon, ond prawf hefyd mai rhyw brophwyd gwirioneddol a'i hanfonodd, oherwydd ei fod wedi rhag-ddweyd wrtho,—“Ar yr hwn y gwelych yr Ysbryd yn disgyn, ac yn aros arno, hwnw yw yr



un sydd yn bedyddio â'r Ysbryd Glân." Mae Ioan, ynghyd â chyflawniad y brophwydoliaeth hon am Grist, yn tystio, mai rhyw brophwyd i Dduw a'i hanfonodd ef. A chan nad oedd neb prophwyd i Dduw ar y ddaear y pryd hyny, nac wedi bod, a'r a wyddom, er ys cant a hanner o flynyddau o leiaf, onid rhyw angel oddiwrth Dduw, "a fuasai o'i frodyr y prophwydi," a'i hordeiniodd yntau i fedyddio, tybied? Os felly, beth sydd yn afresymol mewn anfon angel yn yr un modd etto? Y mae yn amlwg, oddiwrth yr hyn a ganlyn, nad oedd gan y Lefiaid awdurdod i fedyddio, na'r offeiriad ychwaith. Ioan i, 25—"A hwy [yr offeiriad a'r Lefiaid, dros yr Iuddewon yn gyffredinol] a ofynasant iddo, Paham gan hyny yr wyt ti yn *bedyddio*, onid wyt ti na'r Crist, nac Elias, na'r prophwyd." Y mae yma addefiad fod Elias yn bedyddio yn awdurdodol, ac y gwnai y Crist hyny, ynghyd â'r prophwyd arall hwnw, pwy bynag oedd. Addefent hefyd nad oedd awdurdod ganddynt hwy eu hunain i fedyddio; ac felly ni allant hwy fod wedi anfon Ioan, er ei fod o'u hachau hwynt, yn fab i offeiriad. Wel, pwy a'i hanfonodd, ynte? Adn. 6 a etyb yn foddhaol—"Yr ydoedd gwr wedi ei anfon oddiwrth *Dduw*, a'i enw Ioan." A chan nad oedd gan Dduw was ar y ddaear a feddai hawl i ordeinio Ioan, efe a anfonodd angel yn ddiau i'w ordeinio ef, fel y gwnaeth yn y dyddiau diweddaf hyn i Joseph Smith, ac am ddim a wyddom ni, gall fod yr angel wedi bedyddio Ioan, ie, a'i ddwyllaw ei hun; canys nid tebyg y buasai yn ei anfon i fedyddio, cyn cael ei fedyddio ei hun. Gan Dduw yn unig y mae hawl i eithrio, ac i wneyd fel y myno; ac felly y gwnai o aughenrhaid ar sefydliad pob goruchwyliaeth flaenorol, yn gystal â'r un ddiweddaf hon; ac oni wrthwynebai crefyddwyr yr oesoedd hyny y cyfryw eithriadau, fel y gwrthwynebir y pethau hyn yn awr?

Ond, i fyned â'r hanes yn mlaen, wedi adferyd yr awdurdod ddwyfol drachefn i ddyinion yn y dull hwn, yn y flwyddyn 1830, cyhoeddwyd argraffiad mawr o Lyfr Mormon, am y tro cyntaf i'r byd. Ac fel yr oedd rhai yn ei chwilio yn ddiwyd, yr oedd Ysbryd yr Arglwydd yn cyd-dystio â'u hysbryd hwy i'w eirwiredd, a chan ufyddhau iddo, hwy a edifarhasant gerbron Duw, gyda chalon ddrylliog ac ysbryd cystuddiedig; a chladdwyd hwynt mewn dwfr er maddeuant o'u pechodau; ac wedi hyny, arddodwyd dwyllaw arnynt yn ol gorchymyn Duw, fel y derbynient ddawn yr Ysbryd Glân. Ar y chweched dydd o Ebrill, 1830, yn nhref Manchester, swydd Ontario, talaeth Caerefrog Newydd, Unol Daleithiau yr Amerig, sefydlwyd Eglwys Iesu Grist, "*Saint y Dyddiau Diweddaf*." Calwyd rhai drwy ddad-

guddiad ac ysbryd y brophwydoliaeth; ac wedi eu hordeinio, aethant oddi amgylch gan bregethu a dwyn tystiolaeth o'r pethau hyn, megys y rhoddes yr Ysbryd iddynt ymadrodd. Ac er mai gwael bethau y ddaear oeddynt ynddynt eu hunain, nerthwyd hwynt gan yr Ysbryd Glân, nes bod yn offerynau i ddwyn lluoedd i edifarhau a gadael eu ffyrdd drygionus, a chael eu bedyddio mewn dwfr gan gyffesu eu pechodau, a'u llenwi â'r Ysbryd Glân drwy arddodiad dwylaw, a hwy a welsant weledigaethau, ac a brophwydasant; cythreuliaid a fwriwyd allan, a'r cleifion a iachawyd drwy weddi'r ffydd ac arddodiad dwylaw. Felly cynnyddodd pregethiad yr efengyl yn ddirfawr, a'r Arglwydd yn cydweithio megys cynt, drwy *gadarnhau y pregethiad o'r gair*, drwy yr arwyddion oedd yn *canlyn* y rhai a gredasant y *gair* eisoes. Nid *rhagflaenu* y *gair* y mai gwyrthiau, ond *canlyn* ar ol hyny. Ac fel hyn y cododd Duw dystion iddo ei hun, i sefydlu ei deyrnas ar gynllun ei Fab, yn y dyddiau diweddaf hyn; ac nid yw efe yn ei adael ei hun yn ddidyst yn awr, ond y mae yn tywallt ei Ysbryd yn helaeth ar y rhai a ufyddhant. Ac, er nad oedd ond chwech yn yr eglwys hon y pryd hyny, aethant oddi amgylch i bregethu fel y gorchymynwyd iddynt, gan dystio y pethau a welsent ac a glywsent, a'r bobloedd yn eu credu, yn ufyddhau i'r efengyl, ac yn derbyn yr Ysbryd Glân, yn mhob man lle yr elent. Aeth rhai o'r rhai a ordeiniwyd i daleithiau Michigan, Ohio, Pennsylvania, &c.; ac aeth Joseph Smith i Canada Uchaf, ac a gafodd lwyddiant mawr, hyd nes yr oedd rhifedi y Saint yn dros fil cyn diwedd y flwyddyn hòno. Mewn rhai manau ufyddhaodd y penaethiaid, y doethion, a'r pregethwyr, a chynnulleidfaoedd a droisant yn gyfain, ac a fedyddiwyd. Erbyn hyn cododd erlidigaeth dost i'w herbyn, drwy fod bugeiliaid cenfigenus yn colli eu defaid: dechreuasant bregethu yn eu herbyn, cynllunio a chyhoeddi ystorïau anwireddus am eu cymmeriadau, megys dweyd fod Joseph Smith yn proffesu y gallai wneuthur gwyrthiau, &c. Yr achlysur o hyn oedd, oherwydd ddarfod iddo osod ei ddwylaw ar ben, a gweddio dros gleifion oedd yn mron marw, ac iddynt hwythau gael iechyd yn y man; er na hònai Joseph Smith o hono ei hun un gallu i gyflawni gwyrthiau, mwy nag y gwna neb ereill o'r Saint, ond yn unig ddarfod i'r Duw mawr o'i drugaredd a'i ddaioni, ein gweled yn deilwng i gael y fraint o fod yn *offerynau* yn ei law Ef.

---

PROFION YCHWANEGOL O LYFR MORMON.

AMLWG. yw fod ein Bibl ni, a phob rhai o'r prophwydi, bron. yn ar-

ddangos y deuai llyfr cyffelyb i Lyfr Mormon i'r amlwg, a hyny mor ddiweddar â'n hoes ni; ac os nad hwn ydyw, chwilier am dano nes ei gael, neu gwader y llyfr sydd yn tystio am dano; ond gwell genyf fi gredu y ddau.

Etto, gwrandawer tystiolaeth y Salmydd ar y casgliad hwn, a'r modd y dechreuai, yn Salm lxxxv,—“Trugaredd a gwirionedd a ymgyfarfuant; cyfiawnder a heddwch a ymgusanasant.” Yr hyn a achosa hyny yw—“Gwirionedd a dardda o'r ddaear, a chyfiawnder a edrych i lawr o'r nefoedd. Yr Arglwydd hefyd a rydd ddaioni [i Israel]; a'n daear a rydd ei chnwd. Cyfiawnder a â o'i flaen ef, ac a esyd ei draed ef ar y ffordd.” Y mae Dafydd wedi rhagweled y troai digter Duw oddiwrth Jacob, y caent eu hadferyd yn ol, ac y byddai gogoniant Duw yn ymdyscleirio arnynt; a dyma'r ffordd y dechreua y gwaith—“Gwirionedd a dardda o'r ddaear,” &c. Mewn lle arall, dywed Dafydd mai cyfraith Duw a feddylia wrth wirionedd—“Dy gyfraith sydd wirionedd.” Y mae yn amlycach etto yn Salm cli—“Agos ydwyt ti, O Arglwydd, a'th holl orchymynion ydynt wirionedd.” Cadarnha Crist hyn hefyd—“Santeiddia hwynt drwy dy wirionedd; dy air sydd wirionedd.” Cyfraith, gair, a gorchymynion Duw yw *gwirionedd*. Yna dywed Dafydd—“Gwirionedd a dardda o'r ddaear, a chyfiawnder [gwybodaeth a gallu i weinyddu y gyfraith] a edrych i lawr o'r nefoedd,” ac a â o flaen wyneb Israel, i osod ei draed ef ar ffordd cyfiawnder.

Meddyliaf yr addefa pob dyn y cyssondeb sydd rhwng y tystion hyn oll, yn profi fod pren Ephraim [Llyfr Mormon] i'w gymmeryd o'r ddaear. Clywwn dystiolaeth Esaia ar hyn hefyd, pen. xlv—“Defnywch, nefoedd oddi uchod, a thywallted yr wybrenau gyfiawnder; ymagored y *ddaear*, ffrwythed iachawdwriaeth a chlyfiawnder, cyd-darddant: myfi yr Arglwydd a'u creais.” Gwelir yn pen. xxix, fod y llyfr i ddyfod o'r ddaear, adn. 1—“Gwae,” ac ar ymyl y ddalen yn fwy rhesymol hefyd, “Ho, Ariel, Ariel!” Adn. 4—“A thi [Ariel, yr hyn a arwydda goleuni, neu lew Duw] a ostyngir; o'r *ddaear* y lleferi, ac o'r llwch y bydd isel dy leferydd; dy lais fydd hefyd o'r *ddaear* fel llais swynwr, a'th ymadrodd a hustyng o'r llwch.” “Ariel, y ddinas y trigodd Dafydd ynddi,” a arwydda, y bydd i'r bobl oddiyno feddiannu goleuni Ysbryd Duw, y rhai a ddygir yn isel i'r llwch. “Dy lais a fydd hefyd o'r ddaear,” yr hyn beth nid yw bosibl, oddieithr bod eu geiriau wedi eu hysgrifenu a'u cuddio yn y ddaear, a'u dadguddio wedi hyny; yna gallai, trwy fod pobl yn gallu eu darllen a'u deall, fod fel y dywedir—“Dy lais a fydd hefyd o'r ddaear, a'th ymadrodd a hustyng o'r llwch.” Erbyn hyn meddyliaf fod genym dditionedd o brofion fod pren Joseph i

gael ei gymmeryd o'r ddaear, yn y wlad lle y mae Ephraim yn trigo; mai yr Indiaid Americanaidd yw had Ephraim; ac y rhoddai Duw bren Joseph a phren Judah ynghyd.

Yn nesaf, profwn mai dyma y faner a gyfyd efe i'r cenedloedd o bell [fel y dywed Esaia], pan yr anfona Duw weision allan, trwy fod y nefoedd yn defnyddu cyfiawnder, sef yn rhoddi hawl a gallu i weinyddu cyfreithiau cyfiawnder. Gwel Esaia, pen. xi, 12—"Ac efe a gyfyd faner i'r cenedloedd o bell [mor bell â'r America], ac a gynnull grwydriaid Israel, ac a gasgl wasgaredigion Judah o bedair congl y ddaear." Dywed rhai esbonwyr i ni fod y brophwydoliaeth hon yn cyfeirio at amser dyfodiad cyntaf Crist, a'r prawf a gynygiant o hyny yw adn. 1—"Yna y daw allan wialen o gyff Jesse, a blaguryn a dyf o'i wraidd ef." Ni raid ond darllen y bennod yn ddiuedd, yna gwelir nad oedd y prophwyd yn cyfeirio at ddyfodiad *cyntaf*, ond at *ail* ddyfodiad Crist, onide beth a ddeallir wrth adn. 4—"Ac efe a dery y ddaear â gwialen ei enau, ac ag anadl ei wefusau y lladd efe yr anwir?" Dywedir mai yn ei ail ddyfodiad y gwna efe hyn, sef "Pan y delar gymylau y nef, â'i holl angyllion santiaidd, â fflam dân, i roddi dial ar yr holl rai nad adwaenant Dduw, ac nad ufyddhant i efengyl Iesu Grist." Os ei ddyfodiad cyntaf a feddylir, pa fodd y cyssonir adn. 6—"A'r blaidd a drig gyda'r Oen, a'r llewpard a orwedd gyda'r mynnu," &c., pan yr ymedy gelyniaeth holl anifciliaid y goedwig, adar yr awyr, a physg y môr? Nid yw hyny wedi ei gwblhau etto, o lawer. Ond dywedant nad yw hyna i'w ddeall yn llythyrenol; rhaid ei ysbrydoli, i arddangos *dynion* o'r tueddiadau yna. Wel, nid yw hyny ond myned i waeth anhawsder etto; canys nid yw dynion wedi dyfod felly ychwaith. Adn. 9 a ddengys pryd y cyflawnir y brophwydoliaeth hon—"Ni ddygant ac ni ddyfethant yn holl fynydd fy sant-eiddrwydd; canys y ddaear a fydd lawn o wybodaeth yr Arglwydd, fel y mae y dyfroedd yn toi y môr." Beth a wneir o hyn, tybied, os cyfeiriad at ei ddyfodiad cyntaf yw hon? Rhyfedd mor gyndyn yw rhai dynion am eu ffyrdd gwyrngam, a'u credoau eu hunain; canys gwell ganddynt wyrdroi geiriau Duw nâ chyfnwid eu barn am hen bwnc. Ond amlwg yw fod y prophwyd yn cyfeirio, ie, yn dweyd mewn geiriau eglur, mai yn y dyddian diweddaf y cyflawnid hyn—"Pan y bydd i'r Arglwydd fwrw eilwaith ei law i feddiannu gweddill ei bobl," y pryd hyny "y cyfyd efe faner i'r cenedloedd, ac a gynnull grwydriaid Israel [onid eu gwasgaru a gawsant ar ei ddyfodiad cyntaf?] ac a gasgl [y pryd hyn] wasgaredigion Judah o bedair congl y ddaear." Adn. 13—"Cenfigen Ephraim a ymedy, a gwrthwynebwy'r Judah a dorir ymaith." Ond y pryd hyny Judah a dorwyd ymaith gan ei wrthwynebwy'r, sef y Rhuf-

einiaid. "Ni chenfigena Ephraim wrth Juda, ac ni chyfynga Juda ar Ephraim," y pryd hyn, "ond hwy a ehedant ar ysgwyddau y Philistiaid tua'r gorllewin." Darllener hefyd pen. xlix, er profi yr adferiad trwyadl hwn, a'r modd ei dechreuir, yn amlycach. Yma dengys y prophwyd ogoniant gwaith y dyddiau diweddf, a'i lwyddiant anarferol. Adn. 22— "Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, Wele, cyfodaf fy llaw at y cenedloedd, a dyrchafaf fy maner at y bobloedd; a dygant dy feibion yn eu mynwes, a dygir dy ferched ar ysgwyddau." Pen. lxvi, 18,— "Canys y mae yr amser yn dyfod i gasglu yr holl genedloedd a'r ieithoedd, a hwy a ddeuant ac a welant fy ngogoniant. A gosodaf yn eu mysg ARWYDD, ac anfonaf y rhai diangol o honynt at y cenedloedd [i ddangos yr arwydd hwn], i Tarsis, Affrica, a Lybia, y rhai a dynant mewn bwa, i Italia, a Groeg, ac i'r ynysoedd pell, y rhai ni chlywsant son am danaf, ac ni welsant fy ngogoniant; a mynegant fy ngogoniant yn mysg y cenedloedd. A hwy a ddygant eich holl frodyr o blith yr holl genedloedd, yn offtwm i'r Arglwydd, i'm mynydd santaidd Jerusalem, medd yr Arglwydd. Canys megys y saif ger fy mron y nefoedd newydd, a'r ddaear newydd, y rhai a wnafl fi, medd yr Arglwydd, felly y saif eich had chwi, a'ch enw chwi."

Mae y gosodiad dan sylw, sef y cyfyd Duw faner i'r bobloedd pan y dechreua yr adferiad rhyfeddol hwn, tuhwnt i bob dadl bellach. Mae yn amlwg hefyd, mai yr arwydd a ddyry efe yw pan gysylltir pren Judah â phren Ephraim, sef y Bibl a Llyfr Mormon, ac y "deuent yn un yn ei law." A pha fodd y bydd hyn er arwydd i'r bobloedd, oddi-eithr iddynt eu gweled, a deall beth ydynt? neu fel y dywed Paul, "Pa fodd y credant yn yr hwn ni chlywsant am dano? pa fodd y clyw-ant heb bregethwr? a pha fodd y pregethant onis danfonir hwynt?" Gofynaf finnau, pwy a'u denfyn ond Duw? A pha fodd y denfyn efe hwynt heb ddadguddio hyny iddynt, ni allaf fi ddychymmygu; ac y mae yn annhosibl i un dyn ateb ychwaith, canys nid yw hyny bosibl. Yna gwelir pwy nad ydynt yn weision Duw, yn ol eu haddefiad eu hunain; canys "eu geneuau eu hunain sydd yn eu bwrw yn euog, a'u gwefusau sydd yn tystiolaethu i'w herbyn;" ac felly gadawn y gwadwyr dadguddiad i bledio eu hanfoniad yn ngwyneb annhosiblwrwydd. Ond dengys yr ysgrythyr y danfonai Duw weision i ddangos yr arwydd hwn, i'r Cenedloedd yn gyntaf, ac yna i'r Iuddewon, gan "fynegu ei ogoniant yn eu mysg," ac wedi dyfod cyflawnder y Cenedloedd i mewn, "yna y bydd holl Israel yn gadwedig," fel y dywed Paul.

Prawf Jereinia hyn yn eglurach etto yn mhen. xvi, 14—"Gan hyny, Wele y dyddiau yn dyfod, medd yr Arglwydd, pryd na ddywedir, Byw

yw'r Arglwydd, yr hwn a ddug feibion Israel i fyny o wlad yr Aift; eithr, Byw yw'r Arglwydd, yr hwn a ddug i fyny feibion Israel o dir y gogledd, ac o'r holl diroedd lle y gyasai efe hwynt; a mi a'u dygaf hwynt drachefn i'w gwlad a roddais i'w tadau. Wele fi yn anfon am bysgodwyr lawer, medd yr Arglwydd, a hwy a'u pysgotant hwynt; ac wedi hyny mi a anfonaf am helwyr lawer, a hwy a'u belant hwynt oddiar bob mynydd, ac oddiar bob bryn, ac o ogofeydd y creigiau." Un tyst etto er profi yr anfonai Duw weision i gario y faner i'r holl bobloedd, fel na adawer neb mewn ammheuaeth, a hwnw yw Esaia xviii, 3— "Holl drigolion y byd, a phreswylwyr y ddaear, gwelwch pan gyfodo efe faner ar y mynyddoedd, a chlywch pan udgano ag udgorn." Baner yw lluman byddin, lloug, neu genedl, wrth yr hon y gwybyddir o bell pwy ydyw. Y mae yn anghenrheidiol fod swyddogion yn mhob llywodraeth, wedi eu hawdurdodi i weinyddu yn eu gwahanol swyddi dan y gyfryw faner. Gelwir y swyddogion a gludant y faner dan amryw- iol enwau; weithiau *cornets*, dro arall *ensigns*, a *standard bearers*. Pan y dywed Esaia y "cyfyd Duw faner i'r cenedloedd, ac y gesyd efe arwydd i'r bobloedd," amlwg yw y cyfeiria at ei waith yn myned i wneuthur rhyw *beth* yn amgen nag oedd mewn bod o'r blaen, ac y byddai yn argraffedig ar y *peth* hwnw ryw arwydd-eiriau, trwy weled a deall pa rai y gwybyddai pobloedd fod y rhai a fyddent yn dwyn ac yn amddiffyn y faner hon yn swyddogion yn nheyrnas Dduw. Byddai y faner hon yn arwydd i'r bobloedd fod y milwyr hyny a'i dygai wedi eu danfon gan Dduw, i fynegu ei ogoniant yn eu plith, i bysgota ac i hela meibion Israel o'r mynyddoedd, y bryniau, ac ogofeydd y creigiau, a'u casglu yn ol i'w gwlad. Trwy y pysgotwyr a'r helwyr hyn y casgla efe grwydriaid Israel [sef y deg llwyth], ac y cynnull wasgare- digion Juda o bedair congl y ddaear.

Galledd ddyfod ag ychwaneg o dystiolaethau cyffelyb i'r rhai blaen- orol, ond yr ydym wedi dyfod a digon eisoes er profi y gosodiadau canlynol yn anwrthwynebadwy:—

1. Profasom y cynnwysai "pren Ephraim" bethau mawrion cyf-raith Duw i Ephraim.

2. Mai yn yr America y mae had Ephraim. Profasom hefyd o'r ysgrythyr, nid yn unig fod y "llyfr cyssegredig" hwnw wedi ei guddio yn y ddaear, ond yr amlygid ef etto drwy allu Duw yn yr America, pan y gwnelai Duw "eu had hwy yn adnabyddus yn mysg y cenedl- oedd." A phwy o holl haneswyr y byd a allai ddweyd fod yr Indiaid Americanaidd yn had Ephraim, oddieithr i Dduw ei ddadguddio?

3. Mai gwaith a wnelid mor ddiweddar â'n hoes ni a fyddai hyn,

“canyys yn y dyddiau diweddaſ y deallwch hyn.” Hefyd, mai ddechreuad adferiad llwythau Israel i’w gwlad fyddai y peth.

4. Mai drwy uno y ddau bren neu lyfr hyn â’u gilydd, y cyfodai Duw faner i’r cenedloedd, ac mai dyma yr arwydd a ddyry efe i’r bobloedd o fod gwaith mawr ac ardderchog y dyddiau diweddaſ ar ddechreu.

5. Mai dynion a ddefnyddia Duw i gario y faner hon, trwy bregethu cynnwysiad y llyfrau, a bod dynion yn eu credu ac yn ufyddhau iddynt,

Gofynaf, Pa ddyn diragfarn a ddichon gredu, yn ngwyneb, y fath liaws o dystion geirwir, ac o brofion anwadadwy, nad LLYFR MORMON yw y “pren Ephraim,” a’r “llyfr cysegredig hwn?”—nad dyma’r “faner,” a’r “arwydd” y cyfeiriwyd atynt? A phwy ddyrn ag sydd yn credu y prophwydi, ac a oddef reswm, ac a addefa ffeithiau yn brofion digonol, a all wadu nad *Saint y Dyddiau Diweddaſ*, pa rai sydd wedi eu danfon trwy oruchwyliaeth oddiwrth Dduw, ac yn cludo y faner hon i’r holl bobloedd, trwy bob gofid, gwawd, ac erlidigaeth, ydyw y “psygodwyr a’r helwyr” hyn, pa rai a “fynegant ei ogoniant ef yn mhlith y cenedloedd,” a pha rai a fyddant yn offerynau yn llaw Duw i gasglu gwasgaredigion Judah, ac i gynnull crwydriaid Israel o bedair congl y ddaear?

Y neb a ammheuo y ffeithiau rhyfeddol hyn yn hwy, ammheuai pe codai un oddiwrth y meirw i’w traethu iddo! Ac y mae yn debyg mai at y gwaith hwn y cyfeiria y prophwyd pan y dywed—“Wele fi yn gwneuthur gweithred yn mhlith y bobl hyn, medd yr Arglwydd; ac er traethu o ddyinion y peth iddynt, er hyny ni chredant.” Yn cyfeirio at y peth hyn y dywed Esaia—“Wele fi yn myned rhagof i wneuthur yn rhyfedd yn mhlith y bobl hyn, sef gwrthiau, a rhyfeddod; canys dyfethir doethineb eu doethion hwy, a deall eu rhai deallgar hwynt a ymguddia.” Am hyny. ddarllenwyd anwyl, gwylia rhag ymollwng gyda’r ffrwd i’w wrthwynebu cyn gwybod beth yr ydwynt yn ei wneuthur. Ond pa ddefnydd yw Llyfr Mormon pe bai yn wir? medd y gwrthwynebwyr. Atebaf, mai tasg fawr yw traethu ei holl ddefnyddioldeb; ond nodaf rai o’i rinweddau:—

1. Cynnwysa wybodaeth hanesyddol am ran fawr o’r byd, pa un oedd yn guddiedig o’r blaen i’r rhan arall o hono.

2. Dadguddia darddiad yr Indiaid Americanaidd, yr hyn oedd yn anhysbys i’r byd er’s oesoedd.

3. Cynnwysa brophwydoliaethan pwysfawr, pa rai a gyflawnir yn yr oes hon, ac o ganlyniad ydynt yn dwyn perthynas â phawb sy’n trigo ar y ddaear.

4. Cyflwyno lawer o oleuni ac eglurder ar yr athrawiaethau hyny ag

y mae cymmaint o ymrafaelio mewn barnau am danynt yn mhllith crefyddwyr.

5. Dyry ergyd marwol i anffyddiaeth, drwy ei fod mewn llawer ffordd yn dyst anwrthwynebadwy o ddwyfoldeb yr ysgrythyrau sant-aidd, fel y tystia yr ysgrythyrau am ei cirwiredd yntau. Ac am dystiolaethau tystion byw o'i eirwiredd, cyfeiriaf y darllenydd at dystiolaeth yr un-ar-ddeg a gyhoeddwyd eisoes, pa rai a dystiant iddo gael ei gyfieithu trwy allu Duw: cyfeiriwn hefyd at y miloedd a ufyddhasant i'r athrawiaeth a gynnwysa, pa rai a dderbyniasant wybodaeth oddiwrth y digelwyddog Dduw. Bydded mawrion weithredoedd Duw yn ein plith yn dystion o'i eirwiredd; ac os na foddlonir ar hyny, ceir digonedd o brofion ynddo ei hun; neu ynte, os na foddlonir di wedi hyny, ddarllenydd hynaws, "dyred a gwel" ai gwir yw, fyddha i'r athrawiaeth a gynnwysa, ac felly cei di fel ereill derfynu y ddadl am byth, er dy les a'th orfoledd diderfyn, drwy dderbyn cyflawniad o'i addewidion gwerthfawr.

---

### EPISTOL DEMETRIUS, Y GOF ARIAN,

*At bawb a'i gyd-greffwyr, yn dangos y ffordd oreu i amddiffyn eu crefft, ac i roddi taw ar "Saint y Dyddiau Diweddaf."*

FONEDDIGION.—Mae yn hysbys i bawb o honoch bron, erbryn hyn, fod y dynionach hyny a droant y byd o'r tu arall i fyny, sef *Saint y Dyddiau Diweddaf*, wedi dyfod i'n plith ninnau, a'u bod yn dygu pethau nad ydynt addas i ni'r *Sectariaid* eu derbyn. Y maent wedi dyfod nid yn unig i Ferthyr a'i chylchoedd. ond oddiyno hyd gyffiniau Cymru; ac, fel y mae yn ddrwg genyf dlweyd, nid oes un sir na nemawr blwyf trwy'r de a'r gogledd, heb fod rhai o honynt yn pregethu yno, a'r bobl yn rhedeg i'w gwrando wrth y cannoedd a'r miloedd, nes nad oes nemawr son am ddim drwy'r wlad, ond am y Seintiau a chlwy'r pytatws. Onid yw yn llawn bryd i ni oll ymuno, gyd-grefftwyr anwyl, i alw pwyllgor i drefnu rhyw fesurau er rhoi taw arnynt? Os gadawn iddynt fyned yn mlaen fel hyn, gwarthruddant ein duwies fawr, yr hon sydd yn eistedd ar ei march coch, a'i chwpan aur yn ei llaw; ffeiddir ei hardderchogrwydd. gedy ei haddolwyr ei themlau i'r wadd a'r ystlumod, ânt ar ol y bobl hyn, ac och! bydd gobraith ein helw yn pallu. Yn awr, frodyr anwyl, gan fod y fath gyfrwng andwyol wrth ein drysau, deffrowch, ac ymarfogwch i'r frwydr. Dywedaf i chwi rai o gastiau yr hen Seintiau hyn, fel y gweloch eu twyll, ac yr ymfyddin-och i'w herbyn. Cynllwynant yn eu cyfrwysdra, i ddenu, nid yn unig ein gwrandawwyr, ond ein haelodau ffyddlonaf, ac amryw o'n pregethwyr doniol, ar gyfeiliorn oddiwrth yr hen ffordd esmwyth, boblog-aidd. a chysurus, ag y rhodiodd ein tadau duwiol arni er's oesoedd maith.



Yn y lle cyntaf y maent, yn eu hanwybodaeth fawr, mor ffol â dysgu y bobl i gredu yr ysgrythyrau fel y maent yn ysgrifenedig, i gredu deongliad y prophwydi ar eu prophwydoliaethau, ac esboniad y dammegwr ar ei ddammeg, &c. Felly y maent yn rhoddi sarhad mawr ar ysbrydolrwydd ein duwinyddion a'n rabbiniaid dysgedig ni; a gwaeth nô hyny, y maent yn dirmygu y teitl gogoneddus hwnw ag sydd mor nodedig ar dalcen ein duwies fawr, sef "*Dirgelwch.*" Dysgant y werin, wedi rhwygo y llen o ddirgelwch oddi ar eu llygaid, fod eisieu gwrando ar eu rheswm wrth ddarllen yr ysgrythyrau. Daliant at y gorchymyn hwnw sy'n dweyd—"Na alwer chwi yn Rabbi, canys un yw eich meistr, a chwithau oll brodyr ydych." Dywedant fod yr holl enwau gogoneddus, a'r teitlau lliosog, pa rai ydynt sylfaen ein hanrhydedd a'n helw, yn gableddau, a bod ein duwies "yn llawn o enwau cabledd." Dywedant fel Paul gynt, sef "Nad llawer o rai doethion yn ol y cnawd, nad llawer o rai galluog, nad llawer o rai boneddigaidd a alwyd; eithr fod Duw wedi ethol ffol bethau y byd, fel y gwaradwyddai y doethion; a phethau distadl y byd, a phethau dirmygus, fel y diddynai y pethau sydd; fel na orfoleddai un cnawd ger ei fron ef." Ni wŷr y Saint yna ddim gwell nô chredu yr ysgrythyrau hyn yn llythyrenol, gan wrthod ein bugeiliaid ni, a haeru nad praidd gwirioneddol yw ein defaid ni, a'u denu ar gyfeiliorn o'n corlanau ni. Pwy a glywodd son am dwyll mor amlwg â hyn er dyddiau yr apostolion? Pe gadawem lonydd iddynt, buan iawn y darfyddai ein hanrhydedd a'n parch, ein bywioliaethau cysurus, a'n holl elw hefyd; i.e. byddai ei fawrhydi yr archesgob yn gydradd â'i fawrhydi y labrwr! Onid hyna oedd ymgais yr hen apostolion er's llawer dydd, pan ymladdodd fy nhad a'i gyd-greftwyr mor wrol i'w herbyn yn Ephesus? Dywed y dŵliaid hyn fel y rhai hyny, nad oes ond "un Arglwydd, un ffydd, un bedydd." ac un Ysbryd yn eu tywys hwynt oll i undeb ffydd. Wrth ddeall y geiriau hyn yn llythyrenol, profant nad oes ond un wir gyfundrefn berffaith, neu eglwys i Dduw, oll yn cydsynied, yn dal at y ffurf hòno o athrawiaeth ag y dalai yr apostolion ati gynt, ac y rhaid eu bod oll yn uno dan yr enw o "SAINT." Yma hefyd ânt dan seiliau ein cyfundraethau lliosog, gan beryglu ein crefft. A pha ddyn o honoch a'r nas gŷr fod yn mhlith y teitlau a'r enwau parchus a berthynant i'n duwies ni, Pabyddiaeth, Episcopaliaeth, Calfnistiaeth, Methodistiaeth, Wesleyaeth, Waldensiaeth, Bedyddiaeth, Puseyaeth, a channoedd o bleidiau ereill, pa rai ni feiddiodd neb arall ddweyd un gair yn ddirmygus am danynt? Addefir fod gan yr holl rai hyn eu gwahanol arglwyddi, ffyddiau, bedyddiadau, a gwahanol ysbrydoedd, a'r oll yn cydweithio er gwella ein crefft ni, ac i addurno temlau gwychion ein duwies fawr, yr hon y mae y byd o'r bron yn ei haddoli. Ond nid dyna holl gyfeiliornadau y Seintiau hyn ychwaith. Ant yn mlaen waeth-waeth yn eu twyll, gan ddysgu y bobl i gredu bod eisieu yr un ordinhadau yn yr eglwys yn awr ag oedd gynt, a'u perswadio i weddio am yr Ysbryd Glân hwnw a gyfranai y doniau ysbrydol, a bendithion tymmorol, gan eu hannog i ymdrechu am y "ffydd hòno a roddwyd unwaith i'r saint," ac mai braint pob un a ufyddha i'r un drefn yw cael gwybodaeth o'r gwirionedd, a sierwydd o'i gymmeradwyaeth gyda Duw, fel yr addawodd Crist iddynt. Addawant y dyry Duw iddynt

Ysbryd y brophwydoliaeth, dadguddiadau, gweledigaethau, a doniau inchâu, &c., fel yr ewyllisia ef ei hun, er lles ac adeiladaeth eu hieglwys, ac i'w perffecthio hwynt i gyflawni eu dyledswyddau, &c. Gallasem fyned heibio i bob dwluni arall o'r eiddynt, oni bai y diweddaf hwn; ond y mae hwn yn fwy peryglus i'n crefft nâ'r cyfan, i.e. yn hollol annyoddefol; canys os unwaith y daw y bobloedd i ufyddhau i'w trefn hwy, a derbyn y bendithion, gwaith ofer yw ceisio eu denu yn ol atom ni, a thrwy y pethau yna dangosir yn amlwg y gwahan-iaeth mawr sydd rhwng holl gangenau ein crefft ni â'r egwyddorion cyntefig a ddysgwyd i'r saint. Y mae y gorchudd yn cael ei rwygo gan y bobl hyn, nes dynoethi ein holl ddirgelion. Rhyfedd na welai y werin gymmaint yr ydym ni yn rhagori arnynt hwy mewn cariad brawdol! Mae ein duwies ni, a'i holl addolwyr, yn caniatâu rhyddid i baw fyned ei ffordd ei hun, a gallwn ni gyfarch *hail, fellows well met*, wrth ein holl wahanol ffurfiau, i.e. awn law yn llaw â phawb a foddlonant ar rith duwioldeb, neu ryw ffurf o honi, os gwadant ei grym hi, sef y doniau ysbrydol, a gallu Duw. Gwyddoch chwi yn dda, frodyr, mai dyna oedd y gelynyion penaf, a'r gwenwyn gwaethaf a roed i'n duwies ni erioed. Dylai esiamplau ein tadau dewrion yn y cynoesocdd ein cyffroi ninnau i'w hefelychu mewn gwroldeb yn erbyn y gelyn cyffredinol hwn. Cofus genym eu bod hwy wedi taflu y Daniel hwnw i ffau y llewod, am gredu mewn gweledigaethau a gweinidogaeth angylion. Lladdodd ein cadfridog Herod gannoedd o blant bychain, oherwydd i Dduw hysbysu y deuai brenin i'r Iuddewon yno. Oni labyddiasant hwy Stephan hefyd cyn gynted ag y traethodd y fatl gabledd â dweyd ei fod yn gweled y nefoedd yn agored, a'r Iesu yn eistedd yno? Carcharwyd a merthyrwyd Paul (hen elyn fy Nhad), ynghyd â'i holl frodyr, am iddynt dystio ddarfod iddynt gael gweledigaethau, a'r doniau. Mewn gair, gyd-grefftwyr, gwelwch na oddefai ein tadau, yn un oes o'r byd, i neb gael rhyw ddoniau ysbrydol a dadguddiadau oddiwrth Dduw. A phwy o honoch na wel y rhwygai hyn y gorchudd oddiar ein holl ddirgelion, ac y dangosai ein twyll a'u *schemes*, i.e. dadseiliai yn llwyr mewn amser ein holl babel-ffurfiau, a llenwai y byd, nid â sectiau ac opiniynau, ond â goleuni a *gwybodaeth* o'r GWIRIONEDD. Och ni, frodyr, ystyriwch! Gallwn hysbysu i chwi lawer ychwaneg o ynfydrwydd y Saint hyn, a'u cyfeiliornadau erchyll, ond hyderaf eich bod chwi oll yn gweled bellach mor beryglus ydynt i'r holl gyfundraethau, ac, o ganlyniad, i'n crefft ni. Gwyddoch hefyd y gost, y drafferth, a'r boen fawr a gafodd ein tadau duwiol a dysgedig ni, wedi iddynt ferthyru yr hen dwyllwyr hyny, sef Paul, Pedr, a'u canlynwyr, a'r fath ymroad fu drwy'r holl deulu Demetriusol, a'u holl gyfeillion, i wella a chyfnwid, i foldio ac addurno y grefydd Gristionogol, nes y gwnaethant hi o'r diwedd i daro chwaeth' y byd, fel y mae y byd yn ei sefyllfa bresennol yn ei charu yn fawr. Mae y breninoedd a'r breninesau yn ymogoneddu ynddi; y boneddigion a'r offeiriaid yn brasâu ac yn ymgyfoethogi arni; meibion a merched ein heglwysi wedi eu haddurno ag aur ac arian, yn yniwisgo mewn llian main, porphor, ac ysgarlad; ac onid yw eu gwisgoedd sidanaidd, satinaidd, a drudfawr, yn glod i'n crefydd, yn addurn i'n tmlau, heblaw eu bod yn dwyn elw mawr i'n crefft? Y mae ein haddolwyr hefyd

o sawrion y hyd, yn dyfod yn eu cerbydau, ac yn rhodio ar *dapestry*, ac yn marsiaudio mewn aur, arian, a pherlau, i.e. wedi ymgyfoethogi, nid mewn anifeiliaid yn unig, ond ar gost cyrff ac eneidiau y tylodion sy'n trengu o eisieu gerbron eu llygaid, nes y mae yr holl fyd wedi yfed o'r cwpan aur sydd yn llaw ein duwies fawr ni. Ac yn awr, gydgrefftwyr, a safwch chwi yn ddigyffro pan y mae yr hen Seintiau hyn yn ein hanmharchu, ac yu dweyd yn erbyn yr holl fawredd a'r gwychder hyn? A gânt hwy lonydd i ddiddymu yr holl ogoniant hwn, wedi yr holl drafferth a'r gost i ddod â chrefydd i'r perfeithrwydd presennol? A gaiff dynionach diddysg fel hyn fyned oddiamgylch y wlad i ddweyd nad y grefydd Gristionogol yw hyn oll, gan ddweyd, pe byddai ein crefydd yn wirioneddol y byddai yn gâs gan y byd hi, ac y byddem ninnau yn gâs gan bawb er ei mwyn hi, fel eu cascir hwy gan bawb oherwydd eu crefydd? Dywedant fod y geiriau a ddywedodd Crist— "Gwyn eich byd chwi pan ddywedo pawb yn ddrwg am danoch, ac y'ch erlidiant er mwyn fy efengyl i, canys felly y gwnaent hwy i'r prophwydi o'ch blaen chwi; ond gwae chwi pan ddywedo y byd yn dda am danoch"—dywedant fod hyn mewn grym yn awr. Pwy na w'yr fod cyfnewidiad hollol wedi cymmeryd lle yn hynny? Wele, foneddigion, gwelwch pe buasai sefydlwyr y grefydd Gristionogol mor ddoeth â gwneyd fel y gwnaethom ni, sef esmwytho a chyfnewid ychydig yn raddol er mwyn addurno y grefydd, y fath les mawr a fuasai, y fath ddyoddefiadau truenus a arbedasant, a'r fath lwyddiant rhyfeddol a gawsent; canys, pe gwnaethent hwy felly, ni buasai y byd yn casâu y grefydd, ond buasai pawb yu cyduno i anfon yr efengyl drwy'r byd i gyd. Ond yn awr, wedi i'r holl fyd bron ddod i rodio law yn llaw â'r efengyl am oesoedd, mewn undeb a chariad brawdol, wele y dynion cyffrous hyn yn dyfod i'n haflonyddu, gan geisio adferyd yn ol etto yr hen grefydd apostolaidd, yr hon yr oedd y byd yn mhob oes yn ei chasâu mor fawr, a gobeithlaf mai ei chasâu a wnant etto! Ac nid ydwyf heb obaith, os bydd i ni, foneddigion, fod oll yn fyddlon i'n gilydd a'n crefft, nad eu casâu hwynt a'u crefydd a wna y byd yn *awr* hefyd; ac er cefnogaeth i chwi, a chanmoliaeth i'r dewrion o honoch a ymladdasant i'w herbyn, y dywedaf ein bod wedi llwyddo eisoes, i gael llawer o'n hen ddeiliaid i'w casâu hwynt a'u crefydd; ond er hynny, y maent hwy yn llwyddo nes yr ydyni ni oll mewn perygl mawr! Dyma yr achos i mi, Syrs, ysgrifenu yr Epistol hwn atoch, er cyffroi eich meddyliau puraidd, i ddyfeisio rhyw *scheme* i roddi taw arnynt, canys y mae yn rhaid i mi addef bellach na wn beth i'w wneyd iddynt; y mae pob dyfais o'm heiddo i wedi methu llwyddo; yn mlaen yr ânt trwy bob rhwystrau; ac, os addefaf y gwir i chwi, y mae ein crefft wedi teimlo yn arw iawn oddiwrthynt mewn manau. Nid yw yr holl fesurau a drefnasom hyd yn hyn, er i ni eu dwyn allan yn wrol hefyd, ddim mwy effeithiol nag oedd y rhaffau hynny i ddala Samson. Y mae yr eglwys fach ieuanc a disylw hon wedi cael ei herlid o'i mebyd, gyda phob math o gelwyddau, athrod, cam-gyhuddiadau, ac ystorïau o bob math a natur a allai ein cyd-grefftwyr Americanaidd ddyfeisio, ond nid oedd dim yn tycio; yn mlaen y dringai yn raddol drwy'r cwbl oll. Erlidiasant hwynt o'r naill dalaeth i'r llall, gan losgi eu tai uwch eu penau, eu fflangellu, a'u hyspeilio o'u meddianau, eu

tiroedd, a'u banifeiliaid, i.e. o bob peth a feddent. Rhwymasant rai o honynt wrth ystanciau, gan addaw pob gwobr a pharch iddynt os gwadent y grefydd gyfeiliornus hon; ond dyrchafent hwy eu dwylaw tua'r nef, wrth farw dan eu dwylaw, a thystient fod eu crefydd yn wirionedd; oes, y mae ugeiniau o honynt wedi selio y gwirionedd o honi â'u gwaed, yn wyr, gwragedd, a phlant! Y mae rhuad ein magnelau a'n drulliau mwyaf arswydla'n wedi methu â'u dychrynu. Nid yw awch ein cleddyfau yn gallu eu gwahanu oddiwrthi. Gwell ganddynt ddyoddef carcharau, a phob dirmyg, a phoenau, nâ'i gadael! Po mwyaf a wrthwyneboch arnynt, gwaeth-waeth y maent yn llwyddo o hyd! Oni losgwyd dros ddau cant o'u tai gan ein cyd-grefftwyr y llynedd yn yr America, er wedi eu halltudio hwynt bedair gwaith o'r blaen? Meddylasom y rhoisem ddiwedd arnynt pan laddasom eu blaenoriaid twyllodrus yn y carchar, ond siomwyd ni yn hyny hefyd, drwy i'r llofruddiaeth o honynt achosi mwy o lwyddiant i'r twyll na dim a wnaethem o'r blaen. Y mae ein brodyr Americanaidd, ar ol methu eu chwalaru hwynt mewn un modd, wedi eu halltudio hwynt wrth y miloedd, yr hen a'r ieuainc, gwrrywod a benywod, boneddig a gwreng yn ddiwahan, ar gost yr oll a feddent, i'r tuhwnt i'r mynyddoedd creiglyd; ond gwell ganddynt hyny nâ gadael eu twyll, a gwaith ofer i ni geisio ennill neb yn ol oddiwrth y twyll. Cynlluniwch, frodyr anwyl, ryw ddyfais a'u rhwystra i hudo ychwaneg o'n haddolwyr. Dywedasom o'r dechreu ei bod mor wael, ac mor fechan, fel nad oedd yn deilwng o'n sylw; ac etto nid allem ei mygu. Cyhoeddwyd hi yn dwyll mor fawr, mor ofnadwy a pheryglus, drachefn; er hyny rhedai y bobloedd ar ei hol yn lluoedd. Gwnaeth awduron Lloegr eu goreu, drwy gyhoeddi pob peth a glywid yn ei herbyn, heblaw dyfeisio aml stori gywrain eu hunain, ond er y cwbl llwydda y bobl yno wrth y miloedd bob blwyddyn; ac yr ydym yn ofni yn fawr mai felly y llwyddant yn Nghymru, os na allwch lunio rhyw ddyfais newydd, a gwell na dim sydd genym hyd yn hyn. Gwaith ofer i ni gyhoeddi y celwyddau a'r hen ystoriau hyny am y Joseph Smith hwnw, canys y maent wedi achosi i'r bobl chwilio mwy i'w hanes; ac y mae y Saint hyn wedi cyhoeddi yr ochr arall yn Gymraeg am dani. Onid ydyw y *Bedyddiwr*, y *Seren Gomer*, yr *Amserau*, y *Diwygiwr*, y *Dysgedydd*, a'r *Drysorfa* o Gaerfyrddin, i.e. pob cyhoeddiad trwy Gymru o'r bron, wedi bod â'u holl egni yn cyhoeddi pob ystoriau am danynt, etto ni foddlonir y bobl heb eu gwrando; ac y mae rhai o honynt hwythau druain, yn eu sel fawr dros ein crefft ni, wedi dweyd gormod o ddrwg am danynt, nes y mae y werin ddiuedd yn dod i ddeall ein twyll cyn gynted ag y clywant rai o honynt yn pregethu.

Ffolineb i ni ddysgwyl eu gorchfygu yohwaith drwy bregethu o'r pwlpuadau i'w herbyn, canys y mae y rhai penboethaf o honom wedi rhoddi treial teg ar hyny yn mhob man lle y mae y twyllwyr wedi bod. Yr ydym yn dilyn eu sodlau i bob cymmydogaeth newydd, ac yn peryglu y bobl rhagddynt, a dweyd y twyllant hwynt o'u meddiannau, gan gofio dweyd y storiau hyny am y *cerdded ar y dufr yn yr America*, *codi y meirw*, *symud mynyddoedd*, a'r cyffelyb; ond nid yw y cyfan yn tycio dim, canys eu credu y mae y bobl yn mhob man o'r bron y pregethant.

Onid yw aflwyddiant ein brawd clodwiw o Ddowlais, er ei lafur caled a'i ddiwydrwydd am flynyddau, yn areithio drwy y deheu yn eu herbryn, ynghyd â llawer o'i frodyr ffyddlon, yn rhoddi pob enwau drwg a allent ddyfeisio arnynt, megys "Sataniaid," "dynion cythreulig," "hudolion," "Deistiaid," "Atheistiaid," "Siartiaid," &c., yn profi i ni na allwn lwyddo y ffordd hono? Oni fu un o'n crefftwyr cywreiniaf gyda y Methodistiaid yn sasiwn Pwllheli, uwchben tua deg mil o bobl, yn eu cylhuddo yn ddiarbed o bob math o dwyll, yn eu habsenoldeb? Ond nid oedd waeth pa beth, yr oedd y bobloedd yn lluoedd yn ei ddirmygu am ei annhegwch a'i dwyll-resymau, yn gallu condemnio dynion yn eu habsenoldeb, oherwydd y camgyhuddiadau a ddygai efe i'w herbryn. Rhaid i ni gyfnewid ein harfau, bellach, gyfeillion; y mae y werin yn rhy gall i'r hen rai bylchog yna dycio dim mewn gwlad rydd, ac yn enwedig mewn gwlad lle y mae cymmaint o oleuni.

Y ddyfais oreu oedd genym, ydoedd rhybyddio y bobloedd i beidio eu gwranddo, ond cymmeryd ein gair ni, a'u condemnio cyn eu clywed. Meddyliem yn siŵr y llwyddasem y ffordd yna, ond yr ydym wedi ein siomi yn hyn hefyd; er eu rhybyddio i beidio, i'w gwranddo yr elai y bobl wedy'n. Onid ydym wedi ysgymuno anl un o'n heglwysi, er esianpl i'r lleill, am iddynt eu gwranddo? ond nid yw hyny yn dychrynu y bobl mwyach. Torodd y Calfinistiaid allan un llencyn diniwed yn Llerpwlwm wrando arnynt, a gwnaeth hyny y tro ar y pryd. Ond, y mae'r *trick* bellach yn hen; ni chymmer ein gwrandawwyr eu caethiwo genym yn yr oes oleu hon, fel yn yr hen amser, canys y maent am gynghor yr hen Baul fyth, sef, "Profwch bob peth, a deliwch yr hyn sydd dda."

Yr ydym wedi treio hen gynllun fy nhad, i waeddi, "Mawr yw Diana yr Ephesiaid! Mawr yw dirgelwch y Dduwies fawr sydd yn eistedd ar y march coch, a'i chwpan aur yn ei llaw;" ond i ddim daioni. Gwaedd-asom hefyd o'r pwlpuadau mai ysgubion y byd, a sorod pob dim, sy'n troi yn Seintiau, ac er hyny atynt yr ânt. Cyhoeddasom eu bod yn darfod yma, ac yn darfod acw, ond llwyddo y maent. Pregethizsom eu pregeth angladdol lawer gwaith, a phrophwydasom ar y beddau lle y tybiem eu bod yn gorwedd hyth, eithr codent i'r lan dan ein dwylaw, ac er ein syndod a'n gofid y maent yn fwy byw nag erioed! Ac yn awr, gydgrefitwyr dioglyd a digalon, yr ydym yn dechreu ofni mai byw a fyddant, wedi i ni farw, a myned i dir anghof, os na allwch chwi ddyfeisio rhyw ffordd newydd i rwystro eu llwyddiant. Pa beth a wnawn? Peidiwch â digaloni; ond ymfyddinwn etto i'w herbryn. Dymunaf ar bob un o honoch ag sydd yn selog dros y grefft, gymmeryd y mater pwysig hwn i'ch ystyriaeth, a'n cyfarfod ni oll yn *Caersalem Hall* ar y cyfsteusdra cyntaf, er dyfeisio rhyw ffordd newydd etto i erlid y Saint; ac hyd hyny cadwer yr holl gyhoeddiadau crefyddol yn llawn o bob math o ystoriau enllibus arnynt, heb ganiatâu iddynt le i wir amddiffyn eu hunain; a pherswadier y bobl i beidio â darllen eu llyfrau er dim! Byddwch ffyddlon, ac ni a lwyddwn etto. O na chwawn fy amcan, fel y gallwn gysgu yn dawel!

Ydwyf, eich cyd-greffitwr anfoddgar,

DEMETRIUS YR IEUANGAF.

*Diana's Square, Silver-smith Street,  
Ephesus.*

## ADOLYGIAD.

SYLWEDD PREGETH AR Y GWYRTHIAU, *er mwyn goleuo y Cyffredin, a dangos Twyll y Creaduriaid a alwant eu hunain yn "Seintiau y Dyddiau Diweddfaf."* Gan W. R. DAVIES, Dowlais.

[PARIAD O DUD. 78.]

YN nhud. 6, haera William na iachawyd neb drwy y rhai a eilw efe yn Sataniaid; a dywed Davies hefyd, yn nhud. 9, na welwyd un arwydd gyda hwynt. Ac onid ydynt hwy eu dau yn addef, Mr. Barnwr, yn nhud. 20 o'r un traethawd, y "tystia dynion eu bod wedi derbyn iachâd TRWYDDYNT?" Pa fodd y coeliwn yr un o honoch? Mae yn rhaid eich bod yn croesi eich gilydd. "O," ebe'r barnwr, "ychydig sy'n tystio hyny." Ond pa mor ychydig? Onid oes dau neu dri? Os felly, onid yn ngeunau dau neu dri o dystion y bydd pob gair yn safadwy? Ac felly, Syr, dyna chwi yn addef mai gweision Duw yw y rhai a alwch chwi yn *Sataniaid!* Addefwch eich hun yn gelwyddog yn yr un frawddeg, trwy gyhuddo y dynion hyn "o gymmeryd arnynt eu hunain wella y cleifion," ac yn y linell nesaf addefwch mai gan ryw un arall y derbyniwyd iechyd *drwyddynt* hwy; a chan bwy y derbyni-ent ond gan Dduw? Paham y croeswch eich hun fel hyn ar yr un anadliad, Syr? Oni wyddoch y gwahaniaeth rhwng cyhuddo dynion o fod yn cymmeryd arnynt wneuthur gwyrthiau eu hunain, a'u bod yn offerynau yn llaw Duw i hyny? Yr ydych yn ymddangos waeth-waeth po fwyaf a groes-holer arnoch. "Arhoswch," ebe'r barnwr, yn frawychus erbyn hyn, "rhaid dystyrio y tystion yna, a pha fodd y gwnaf? goreu i mi addef hyna." "Gwaedddech mai dynion drwg ydynt," ebe Davies yn ei glust. "Ie, dyna hi." "Putain sy'n gwaeddi putain gyntaf," medd y ddiareb; ond nid gwaeth pa beth mewn caledi. "Ychydig a drwg ydynt," medd y barnwr, nerth ei ben. "Ond beth sy'n eu profi yn ddrwg?" ebe ei gyfeillion; "tyst ar hyn etto." Ai eu tystiolaeth sy'n profi hyn? Gwaeth etto; yr ydym bron â chredu mai brodyr i chwi oedd y rhai a ddywedent mai "ychydig a drwg" oedd yr apostolion, am yr un dystiolaeth; a phe yr addefech chwithau y gwir, cynnyddai yr ychydig yn gannoedd o dystion o leiaf, ië, yn Merthyr, yn Nghymru.

Ond a oes genych chwi, Syr, gynnifer o brofion o'ch bod yn was i Dduw, ag yr addefasoch fod gan y Sataniaid hyn, fel eu gelwch, a'r profion hyny yn rhai gwyrthiol, fel yr eiddynt hwy? Pa fodd y dichon fod genych un a dystia ddarfod iddo dderbyn iachâd gan Dduw drwyddoch chwi, a chwithau yn gwadu ac yn gwawdio y moddion gosod-edig i hyny, gan ddweyd nad oes eu heisieu, a galw y rhai a'u proffesant yn "gethern aflan?" Yr ydym yn gorfod ffeiddio eich haeriadau *anti*-apostolaidd chwi eich trioedd, a chwilio drosom ein hunain, yn ol gorchymyn Paul. "Profwch pob peth," ebe efe; felly yr ydym ninnau wedi profi y *Bedyddiwr*, a'ch camgyhuddiadau chwithau ynddo, yn ngwyneb y gwirionedd, yn ngwyneb rheswm, ac yn eich gwyneb eich hun, a'u cael (a bentyca eich geiriau eich hun i'w disgrifio) "yn grug o gelwyddau mwyaf ofnadwy a dychrynlyd a haerodd dyn drwg, neu feibion a merched y fall, yn unrhyw oes o'r byd."

Gwelwch ychwaneg o dwyll eich pregethwr; canys wedi iddo haeru nad ydym yn gosod dwylaw ar y cleifion, a dywedyd wed'yn ein bod yn gwneyd, dywed—"I'r dyben i ymdrechu cuddio eu gwarth ar y pen hwn, rhoddant y bai ar ffydd yr hwn a fyddo dan eu dwylaw." Ac i'r dyben o guddio pa beth yr haera yntau mai twyll "a rhyfyg cythreulig" yw proffesu apostoliaeth, a bod cyflyrau y putteiniaid mwyaf allad, a'r lladron mwyaf anfad yn *selerydd Pont-y-storehouse* yn ddiniwed, i.e. hyd y nod gweithredoedd atgas *Dic Tamar* a'i gyffelyb, pan eu cymherir ag eiddo y Sataniaid yn myned o'r *gŵlwg*, ac nad ydynt i'r filfed ran mor borphoraidd ac ysgarlataidd ag eiddo yr "apostol clodwiw," a'i frawd, sef "prophwvd y fall." Dyma enghraifft etto o Ddafisyddiaeth, *versus* Apostoliaeth. Mae y naill yn cytiawulhau ei *devotees*, sef putteiniaid a lladron; a'r llall drwy eu ffydd yn derbyn doniau gan Dduw; y naill yn *ransackio vocabulary* Dic Tamar, ac o selerydd Pont-y-storehouse hyd Billingsgate, ac am enwau ddigon drwg i roddi ar gymmeriad y dynion a amddiffynant y gwirionedd apostolaidd,—a hwythau yn gweddio ac yn annog ereill i weddio drosto, gan ymdrechu achub eneidiau o'i grafangau angeuol. Oni ddylai hyn fod yn ddigon o dystiolaeth i'r byd, fod yr "apostol hwnw a'i frawd" y cyfeiria atynt, yn ddynion da, cyn y condemnid hwy o flaen y *barnwr* a gyfiawnha butteiniaid a lladron? Cofus genym i leidr a mwrddwr gael ei ddewis o flaen y diniwed cyn hyn. "Adar o'r un lliw a ehedant i'r un lle." Dysgwylir gweled Dafisyddiaeth yn blodeuo yn selerydd Pont-y-storehouse o hyn allan. Y mae eu lleserydd yn eu cyhuddo yn awr; a go debyg yr amddiffyna eu bwliaid eu neuadd, pan y dygir canwyll i mewn i chwilio eu *pack*. Ond gadawwn y cyfeillion eu yna gyda eu gilydd, a dangoswn beth a ddywed Apostoliaeth am ffydd yn ofynol er derbyn iechyd. "Onid oes ffydd yn Magws Fach? A gafodd hi glun nerthol yn lle yr un wywedig? Dysgwyliaf ei gweled y tro nesaf heb ei ffon fagl; ond os yn yr un modd y cyfarfyddaf â hi, na sonier am wyrth rhag cywilydd, &c.," ebe y parchedig hwn. Dyred gyda ni, ddarllenydd, i un o heolydd Philippi, er gweled anghristionogrydd y dyn hwn mewn drych. Dacw Paul yn dyfod ar hyd un ochr; dacw Mr. Davies yn croesi yr heol atto, â gwên wawdus ar ei ruddiau. "Wel, yr hen dwyllwr mawr," ebe efe: "tydi yn hōni iachâu y cleifion! pabam na iachait dy ddyscyblion anwyl dy hun? Pan ofynir i ti iachâu yr anghredinwyr, dechreu bregethu Mab y Saer hwnw iddynt, gan dy eŷgusodi dy hun, fel y gwneist â'r cloff hwnw, na ellid ei iachâu hyd nes i ti syllu yn graff, a gweled fod ganddo *ffydd* i dderbyn iechyd. Onid oes ffydd gan Timotheus? A gafodd efe gorff nerthol, yn lle y 'mynych wendid' oedd arno? Dysgwyliaf ei weled y tro nesaf heb ei wendid, ac yn llanc grymus a heinyf; ond os yn yr un modd y cyfarfyddaf ag ef, ar ryw un o heolydd Ephesus (canys af yno ar fyrder i werthu fy mhregeth wawdus yn dy erbyn), na sonier am wyrth, rhag cywilydd." Peidiwch a dianc ar hyna, Mr. Davies. Pwy ond apostol Dafisyddiaeth a welir (yn ol ei resymeg ei hun), yn erlid ac yn difenwi Paul ar y traeth yn Miletum, ac yn dannod iddo ei fod yn myned ymaith i'r llong, gan adael Trophimus, ei frawd anwyl a'i gydswyddwr, yn glaf yn ughanol y paganiaid, er cymmaint oedd ei eisieu

yn y weinidogaeth. "Dyna dy ddala di, Paul, yn dy dwyll," meddweh. "Onid ydwyt ti yn proffesu iachâu yr holl gleifion ffordd y cerddi? Ond yn awr, gwelwn nad yw dy haeriadau ond cryg o gelwydd." Ond ymaith â Phaul i'r llong, er eu gwawd; ac wedi cyrhaedd Rhufain ysgrifena at Timotheus, "Trophimus a adewais yn glaf yn Miletum." Dyna chwi, syr, wedi gosod eich dwrn ar enau Paul; ac ofer i chwi ragrithio eich bod yn pregethu ei efengyl ef niwy! A chlywch y ddedfryd arnoch—"Pe haem ni [pe bai Mr. Davies, Dowlais], neu angel o'r nef, yn efengylu amgen nag a efengylasom i chwi, bydded anathema."

[I'w barhau.]

### ALLTUDIAETH TRI CHAN MIL O AMERICANIAID O'U GWLAD, AM EU CREFYDDI!

Y MAE arwyddion yr amserau, a'r pethau hynod ac anhygoel a gymmerant le ar y cyfandir gorllewinol yn y dyddiau hyn, yn arddangos fod y pelydr diweddfaf o seren danbeidiawl rhyddid Americanaidd ar ddi-fodd, dan orchudd dudew, yn y terfyngylch gorllewinol.

Hysbysa yr *official documents* o Illinois, fod Cadfridog Byddin y Llywydd, Ustus Douglas, aelodau y Senedd, a llawer o swyddogion ereill ag sy'n dal swyddau uchel yn y wladwriaeth, ynghyd â thrigolion Swydd Hancock, wedi rhoddi eu dewis i dros ddeng mil ar hugain o ddeiliaid y llywodraeth Americanaidd, sef preswylwyr Nauvoo, i gael naill ai eu merthyru yn ddirugaredd yn eu cartrefleoedd, neu gymmeryd eu hyspeilio o'u tai, eu tiroedd, o'u meddiannau, a'u halltudio ar eu cost eu hunain, tuhwnt i'r mynyddoedd creiglyd; i.e. gorfodant hwynt i fyned eleni, parod neu beidio! Yn lle amddiffyn dinasyddion diniwed a heddychlon yn y mwynhad a'u meddiannau, eu rhyddid, a'u hiawnderau, wele genedl yn derfysglu, y barnwyr, y llywyddion, a'r penaethiaid yn ymgynghori ynghyd, yn erbyn yr Arglwydd, yn erbyn eglwys ei Grist ef. a'i bobl gynnulledig, gan gefnogi *banditti* annynol i'w hyspeilio, ac o'r diwedd i'w halltudio, trwy addefiad cyhoeddus nad oes gan y llywodraeth nac ewyllys na gallu i amddiffyn y *Mormoniaid*, fel eu galwant, rhag trais a gormes eu gorthrymwr. O'r ddau ddrwg yma, dewisodd y Saint alltudiaeth yn hytrach nâ'u lladd. Er hyn oll ni lonyddwyd llid eu gelynyion; ond pan y mae eu dwylaw etto yn dyferu o waed prophwydi a saint duwiol, pa rai a laddasant yn ddi-achos, diamddiffyn, a diholiad, sychedant drachefn am waed y blaenoriaid ereill; cynlluniant gamgyhuddiadau yn erbyn dynion diniwed, i.e. hyd y nod pan oeddant yn darparu i'w halltudiaeth, i'r dyben i'w llusgo, fel eu brodyr o'u blaen, i gigyddfa Carthage. Eu penderfyniad oedd na chaffent fyw yn hwy yn eu plith, na myned ymaith o'u plith yn fyw. A mawr y cynhwrf a fu drwy'r wlad i geisio ymfyddino yn derfysglu digon lliosog, i ymosod ar y Saint, a'u lladd pan gychwynent eu taith i'r anialweh! Ond yn hyn fe'u siomwyd. Diolch i'r Hwn sydd â'i freichiau tragwyddol odditanynt! Y mae yn hoff genym hysbysu fod y blaenoriaid wedi cychwyn o Nauvoo yn gynt nâ dysgwyliaid y terfysglu, ac felly y maent wedi dianc allan o safonau y llew-



od, ac o balfau yr eirth hyny, a channoedd o'u brodyr gyda hwynt, am y tro diweddaf, gobeithiwn, wedi blynyddau maith o erlid, o garchar, a digofaint eu gelynion. Bwriada y gweddill o'r Saint gychwyn o Nauvoo yn yr haf hwn, a'u Duw fo gyda hwynt, i'w cysuro a'u hamddiffyn.

Achosa yr alludiaeth nodedig a chyffredinol hon y cyfnod hynotaf a rhyfeddaf, mwyaf gogoneddus ac ofnadwy, a fu, nid yn unig yn hanes yr eglwys, ond y byd tebygem, er pan y daeth pobl Dduw o'r Aifft yn nyddiau Moses. Ymddengys hyn yn gyflawniad llythyrenol ac uniongyrchol o brophwydoliaethau hen a diweddar. Dywed Llyfr Mormon—"Pan wrthodo y cenedloedd gyflawnder fy efengyl, wele myfi a ddygaf gyflawnder fy efengyl o'u plith, medd y Tad." Yn awr, pa beth yn ychwaneg a allai y genedl hono wneyd, er profi eu bod yn gwrthod "cyflawnder yr efengyl," sef Llyfr Mormon, nag a wnaethant? A ellir enwi un trosedd a'r nad ydynt yn euog o hono, fel cenedl? Onid ydynt wedi yspeilio y Saint o ddegau o filoedd o erwau o dir, a brynasent ganddynt, ac y talasent iddynt eu harian am dano, trwy adael i derfysglu eu herlid a'u poeni, nes lladd llaweroedd, ac alludio ereill dair gwaith, ar gost yr oll a feddent o'r bron, a gadael i'w gelynion feddiannu eu tiroedd a'u meddiannau yn Missouri wedi hyny; i'e, hyd heddyw, heb geisio eu hadferu iddynt! Onid ydynt yn euog o dywallt gwaed gwirion, drwy eu bod yn gadael miloedd o lofruddion ac yspeilwyr y Saint yn hollol rydd a digerydd yn eu plith? Ac onid ydynt etto yn parhau i'w hela a'u gyru drwy erlidigaeth anorphen? Onid ydynt yn awr yn eu halludio, yr hen ŵr penllwyd fel yr heinyf, y fam ddiarbedd cystal â'i phlant diniwed, i'e, oll yn ddiarbed, i'r tu hwnt i'r mynyddoedd creiglyd? Onid y genedl, y llywodraeth, ac nid rhyw bersonau, sydd yn gwneyd hyn oll, i'e, yn ngwlad y rhyddid, yn yr "oes oleu hon!" dan ymfrostio o fod yn *werin-lywodraeth*, yn deyrnas y rhyddid, yn nodedd ac yn *asylum* i'r gorthrymedig, yn gwahodd alltudedigion Poland, caethion y gormeswyr Ewropaidd, a holl rai gorthrymedig y byd atynt, dan addaw nodedd i bawb, a phroffesu, er gwawd a dirmyg i Gristionogaeth, yn ngolwg teyrnasoedd paganaidd y ddaear, eu bod hwy yn CRISTIONOGION!! Ac onid ydynt, fel cenedl, yn euog o hyn oll, ac ychwaneg o lawer, trwy fod ganddynt allu i amddiffyn, ac etto yn gommedd gwneyd? Os nad yw y cyflawniad o'r holl greulonderau hyn yn profi eu gwrthodiad o "gyflawnder yr efengyl," ni wyddom ni beth yn ychwaneg a ddichon iddynt wneyd i "gyflawni mesur eu hanwiredd," a'u haddfedu i farn! Onid yw eu cwpan yn rhedeg dros yr ymyl? Ac yna, onid yw yr amser gerllaw, i'r Arglwydd ddwyn "cyflawnder ei efengyl" o blith y genedl drofaus hono? Onid yw alludiaeth y Saint i'r anialwch gorllewinol, i blith gweddillion Joseph, er addfedu y drygionus i farn, ac er achub y cyfiawn? Onid fel hyn y gorchymynir iddynt "fyned i'w hystafelloedd, a llechu dros fynydd fechan, hyd nes elo y llid a'r aflwydd heibio," fel y cyflawno Duw ei fygythion ar eu herlidwyr? Pa fodd y gellid dwyn yr efengyl o blith y genedl, tra yr arosai yr offeiriadaeth a'r Saint yn eu mysg? Wedi alludiaeth yr efengyl o hlith y cenedloedd, "yna," medd Llyfr Mormon, "y cofiaf fy nghyfammod a wnaethum â'm pobl; O dy Israel, mi a ddygaf fy efengyl i'ch plith, a chwi a

gewch wybodaeth o gyflawnder fy efengyl." Ai tybied fod yr amser dysgwylidig i fyned â'r efengyl i weddill Israel eisoes wedi dyfod? Y mae arwyddion yr amserau, a chyflawniad prophwydoliaethau amlwg, yn arddangos fod y dedwydd ddydd ar wawrio. Yna, dyrchafwch eich penau, O chwychwi y Saint, ac ymlawenhewch, canys amser eich ymwared chwi a nesaodd. Y mae yr hyn beth ag yr ydych wedi bod yn gweddio llawer, ac yn dysgwyl yn amyneddgar am dano, eisoes wrth y drws; byddwch barod i'w gyfarfod. Etto, cymmer gryn amser i'r cwbl o'r Saint i ymfudo o holl daleithiau y genedl greulon hõno. Y mae y Saint sydd yn y taleithiau dwyreiniol yn ymfudo ar hyd y môr, heibio Cape Horn, i California. Y mae S. Brannan eisoes wedi cychwyn mewn llong, o Gaerefrog Newydd, a thros ddau cant o'r Saint gydag ef, yn llwythog o bob nwyfau anghenrheidol i wladychu yn y baradwys orllewinol hõno; ac y mae amryw longeidiau ereill o'r Saint yn darparu i gychwyn yn fuan oddiyno, ac o borthladdoedd y taleithiau ereill. Mae hyn oll yn tystio i bawb fod crefydd y Saint yn gyfryw, fel ag y mae yn well ganddynt gollu eu meddiannau, eu gwlad, a'u bywydau, nâ'i cholli hi! Onid pobl ddrwg sy'n erlid mor Pharoaidd? Ai pobl gwaeth, ynte gwell, nâ hwy eu hunain a erlidiant? Onid ydynt yn cyflawni prophwydoliaethau nodedig yn hyn, y rhai a gyhoeddwyd yn eu plith er's blynyddau maith? Ac onid yw y cyfryw yn awr yn syllu yn eu gwynebau pan eu cyflawnant? Pwy a ddichon eu gwadu ynte, na'u hachub hwythau pan ddel arnynt yr hyn a draethwyd iddynt eisoes? Yn awr y mae yr udgorn yn bloeddio yn uchel ac yn hir—"Deuwch allan o honi hi, fy mhobl i; na fyddwch gygyfranogion o'i phlâu hi," canys gwaed *saint* a *phrophwydi* a dywalltasant *hwy*. "Mawr a rhyfedd yw dy weithredoedd, O Arglwydd Dduw Hollalluog; cyfiawn a chywir yw dy ffyrdd di, Brenin y *saint*."

### LLYTHYR O "WERSYLL ISRAEL."

Bydd yn bleserus gan ein derbynwyr ddarllen y llythyr canlynol oddiwrth John Taylor, un o'r deuddeg apostol, yr hwn a dderbyniwyd oddiwrtho yn ddiweddar, ac a ddengys pa fodd y maent yn inyned yn mlaen yn eu halltudiaeth o'u gwlad. A ganlyn sydd ddyfyniad o'r llythyr:—

"Cychwynasom o'r Sugar Creek Bottom, ac aethom yn y blaen yn arafaidd, oherwydd fod y ffyrdd yn ddrwg, a'r hin yn oer ac anghysurus hyd y 25ain o Ebrill, pryd y cyrhaeddasom gangen orllewinol y Grand River, tua 160 o filltiroedd o Nauvoo, ac oddeutu 15 milltir oddiwrth dalaeth Missouri. Yma gwersyllasom, gan ymroi i aredig y ddaear, ac adeiladu tai coed ar gyfer ein brodyr a ddeuent ar ein hol. Gadawsom rai dynion yno i edrych ar ol y tyddyn, ac aethom ninnau yn mlaen hyd i le a elwir Mynydd Pisgah, ac agorasom dyddyn arall ar yr un cynllun â'r cyntaf. Mae y fan hon tua 40 milltir i'r gogledd oddiwrth y tyddyn cyntaf; y mae yn sefyllfa ragorol o hardd, a digonedd o goed a dwfr yn gyfeus. Bwriadwn gychwyn oddiyma yn mhen ychydig ddyddiau, tua Council Bluffs, ac oddiyno i'r Mynyddoedd Creiglyd, h. y., y deuddeg, eu teuluoedd, a'r rhai ereill a

feddylant hwy yn oreu. Bum yn Nauvoo ar *fusiness* yn ddiweddar mae y lle wedi cyfnewid yn fawr. 'Y mae gwareidd-dra a'i chanlyniadau wedi dod yno yn ehad, a'r bobl wedi cristionogi yn fawr.' Y maent wedi gwneyd *ten pin alley* ar gyfer y deml; y mae tai gwirod yn lluosog iawn cisoes, a chlywir bloeddiadau a rhegfeydd y meddwon afreolus ar hyd yr heolydd yn y nos, yr hyn bethau nid oedd arwyddion o honynt pan oeddem ni yno. Mae ein brodyr yn ymdrechugwerthu eu meddiannau, er am brisiau isel iawn. Mae y Saint yn ymfudaw tua'r gorllewin mor gynted ag y gallant, a phawb yn awyddus i fyned yn gynt. Ar fy nychweliad o Nauvoo, goddiweddais dros wyth cant o bedrolfeni, heblaw gyroedd mawrion o wartheg, a diatelloedd lluosog o ddefaid, yn ymsymud yn arafaidd a llawen o'u caethiwed, fel Israel o'r Aifft gynt; ac yn nghanol eu holl drallodion, y mae y Saint yn gorfoleddu, gan edrych yn mlaen, a derchafu eu penau, am fod amser eu hymawared yn agosáu. Y maent oll mewn undeb a chydweithrediad am gario y gwaith mawr hwn yn mlaen, drwy gymhorth Duw, deued y rhwystrau o ba le y deuant. Mae y ddau lawr isaf o'r deml wedi eu gorphen, ac yn edrych yn gywrain a hardd iawn. Pan yn sefyll yn y fedyddfan, ac yn syllu ar yr holl gywreinwaith a'm hamgylchai, ac ardderchogrwydd yr adeilad mawr hwn; pan gerddwn drwy yr ystafelloedd o un i un, i gymmeryd yr olygfa olaf efallai ar yr adeilad y bu awydd yn fy enaid er ys aml flwyddyn ei weled wedi ei orphen, a chael addoli ein Duw ynddo; pan gofiwn yr ymdrechiadau mawrion a wnaeth y Saint, dan bob unfanteision, i'w adeiladu, ac yn awr yn cael eu gorfodi heb un achos i'w adael, yn gystal â'u tai, eu tiroedd, a'u meddiannau, yn nwyllaw eu gelynion;—yr oedd rhyw deimladau rhy ryfedd i'w disgrifio, pe eanlatêid i mi, yn llanw fy mynwes. Ond ymaith yr aethum, dan bwys fy ngofid, canys ni fedd ein gormeswyr le yn eu mynwes i gydymdeimlad.—Mae y brodyr Hyde a Woodruff ar eu ffordd yma o Nauvoo.—Cofiwch ni yn garedig at yr holl Saint a'n cyfeillion.

“Yr eiddoch yn y cyfammod tragywyddol,

“JOHN TAYLOR.”

### LLWYDDIANT GWIRIONEDD.

Er byfed plant pob crefydd—i'n herbyn,  
Yn ddiarbed beunydd,  
Gwaethaf nod pob athrodydd,  
Gwir er dim a garia'r dydd.

Hir enw a gaiff Gwirionedd;—a gwel  
Bob gelyn yr unwedd,  
Yn dawel yn y diwedd,  
I le'r baw ar lawr y bedd.

ATOCH deunf etto,—a gwir wedaf,  
Cewch gredu neu beidio;  
Er pob daint, nad faint a fo,  
Ni pheidiaf a phrophwydo.

# PROPHWYD Y JUBILI,

NEU

## SEREN Y SAINT.

“YE ARGLWYDD IOR A LEFARODD, PWY NI PHROPHWYDA? CANYS NI  
WNA YE ARGLWYDD DDIM, A'R NA DDANGOSO EI GYPRINACH  
I'W WEISION Y PROPHWYDI.”

RHIF. 5.]

TACHWEDD, 1846.

[CYF. I.]

### CYNNWYSIAD.

|                                                                                       | TUD. |
|---------------------------------------------------------------------------------------|------|
| Ysbryd Cyhuddiadol .....                                                              | 113  |
| Cysur dan Eridigaeth .....                                                            | 115  |
| Y Gyfraith a'r Efengyl .....                                                          | 116  |
| Y <i>Diwygiwr</i> yn Formoniad! .....                                                 | 118  |
| Arwyddion yr Amserau .....                                                            | 119  |
| Y Dial Da .....                                                                       | 119  |
| Sefydliad y Saint yn Kirtland, a'r Eridigaeth yn Mis-<br>souri .....                  | 120  |
| Adolygiad ar Bregeth y Parch. W. R. Davies, Dowlais,<br>ar y Gwyrthiau (parhad) ..... | 128  |
| Y Gymdeithas Farsiandiol .....                                                        | 132  |
| Cenadiaeth Americanaidd i Frydain .....                                               | 134  |
| Cymmanfa Manchester .....                                                             | 136  |
| Dinas Nauvoo .....                                                                    | 140  |
| Galwad ar Bechaduriaid .....                                                          | 140  |

### MERTHYR-TYDFIL:

CYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES;

AC AR WERTH HEFYD

GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL, A LLAWER  
O LYFRWERTHWYR.

1846.

## ANERCHIAD.

ANWYL DDARLLENYDD,—

Cyn y delom allan etto, bydd yn amser i chwi benderfynu yn nghylch ein derbyn y flwyddyn nesaf. Yr ydych yn ein hadnabod-yn dda erbyn hyn, ac o ganlyniad, yn addas i'n barnu. Yr ydych yn cael genym eglurhad o natur ein hegwyddorion, fel na raid i chwi wrando ar gamddarluniadau ein gelynyon o honynt. Yr ydych yn cael darllen y gwirionedd ynom am yr ystoriau a daenir ar hyd y wlad am ein hymddygiadau. Yr ydych, wrth ein derbyn, yn gwneuthur ychydig tuag at ledaenu y gwir am danom ar hyd y wlad. Yr ydych, efallai, yn ystyried hyn yn ddyledswydd, yn bleser, ac yn fraint. Yr ydym yn dra diolchgar am eich sylw o honom; ac yn hyderus obeithio y dewch yn mlaen gyda ni am y flwyddyn ddyfodol.

Yr ydym yn gwybod am danoch chwi, anwyf frodyr a chwiorydd, na fyddwch chwi yn ol i'ch arfer. Gwnawn ninnau ein goreu i'ch dysgu a'ch egwyddori yn ein hegwyddorion: a'ir harferiadau, yn ol y Testament Newydd.

*Cyhoeddwyd yn ddiweddar, priâ Pedair Cēiniog,*

**H**YMNAU, wedi eu cyfansoddi a'u casglu yn fwyaf neillduol. Hat wasanaeth Saint y Dyddiau Diweddfaf. Merthyr Tydfil: cyhoeddwyd ac ar werth gan Capt. D. Jones.

---

*MERTHYR-TYDFIL.*

---

**G**WAHODDIR y Cymry i NEUADD Y CYMREIGYDDION (*White Lion*), yn y dref hon, i glywed y GREFYDD APOSTOLAIDD, fel ei hadferwyd drwy Weinidogaeth Angylaidd.—Traddodir Darlithoedd bob Sul am 11 o'r gloch, ac yn yr hwyr am 6, er profi y Pynciau Athrawiaethol a ganlyn yn ysgrythyrol a rhesymol:—Ffydd yn Mab Duw fel digonol Waredwr—Edifeirwch—Bedydd er maddeuant pechodau—Arddodiad dwylaw er derbyn yr Ysbryd Glân—Adferiad y Doniau Ysbrydol—Adferiad yr Iuddewon i Palestina—Yr Adgyfodiad cyntaf—Teyrnasiad personol Crist ar y Ddaear. am Fil o Flynyddoedd—Y Farn Gyffredinol—Y Nef a'r Ddaear newydd, a thynghedfen dragywyddol y Bydyssawd a'i Drigolion!!!

*D.S Y mae croesaw i bawb ddyfod i mewn heb dalu dim.*

---

**AMMODAU.**

I. Cynnwysa y PRORHWYD Draethodau ar Athrawiaethau a Dyscybliaeth y Saint, Hanes am eu helyntion yn mhob cwr o'r byd, ynghyd â phob hanes arall fo'n dwyn perthynas â'u cenadwri, neu obeithion.

II. Daw allan yn fisol, ac oddeutu diwedd y mis, fel y cynnwysio bob peth anghenrheidiol fo'n perthyn i'r mis sydd enwedig ar y rhifyn.

III. Y Pris-ffydd. Tair Cēiniog i'r Rhag-dalwyr, a Thair a Dimai i'r Ol-dalwyr.

IV. Gofelir am Ragymadrodd a Mynegeir i'r PRORHWYD yn flynyddol, fel y galler ei rwymo yn llyfr cryno at arferiad parhaus.

CYHOEDDIADAU SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF.

I.

*Cyhoeddwyd yn ddiweddar, Pris Chwecheiniog,*

Y FARW WEDI EI CHYFODI YN FYW!

NEU

*YR HEN GREFYDD NEWYDD.*

TRAETHAWD

YN DANGOS

ANGHYFNEWIDIOLDEB TEYRNAS DDUW.

GAN CAPT. D. JONES.

\*\* Nid oes ond ychydig gopiau o'r Traethawd heb eu gwerthu.  
Gellir ei gael gyda'r PROPHWYD.

II.

*Newydd ei Gyhoeddi, gan yr un, Pris Tair Ceiniog yn unig,*

A T E B Y D D

Y GWRTHDDADLEUON A DDYGI'R YN FWYAF CYFFRE-  
DINOL DRWY Y WLAD

YN ERBYN

SAIN'T Y DYDDIAU DIWEDDAF,

*A'r Athrawiaeth a broffesant ;*

MEWN FFURF O YMDDYDDAN RHWNG MEISTRIAID TRADD-  
ODIAD, SECTARIAD, A SANT.

III.

*Cyhoeddwyd yn ddiweddar, gan yr un, Pris Ceiniog a Dimai.*

A N E R C H I A D

Y

DEUDDEG APOSTOL AT HOLL FRENINOEDD, CYNG-  
HORWYR, BARNWYR, A PHOBL Y BYD.

IV.

*Newydd ei Gyhoeddi, gan yr un, Pris Dwy Geiniog,*

Y G L O R I A N,

YN TR HON Y GWELIR

DAVID YN PWYSO WILLIAMS, A WILLIAMS YN  
PWYSO DAVID ;

NEU

*David Williams, o Abercanaid, yn gwrthddweyd ei hun, wcdi ei ddal yn  
et dwyll, a'i brofi yn euog o Ddeistiaeth.*

# PROPHWYD Y JUBILI.

“MAE Y DEYRNAS WEDI DYFOD.”

RHIF. 5.]

TACHWEDD, 1846.

[CYF. I.

## YSBRYD CYHUDDIADOL.

WRTH sylwi ar y natur ddynol, yr ydym yn cael llawer o bethau ynddi i'w mawrygu, a llawer o rinweddau yn cael eu gwneyd yn amlwg, y rhai sydd yn dyscleirio fel enfys mewn ystorm, ac yn dwyn seibiant hyfryd, o olwg tywyll ddarlun y bywyd dynol. Mae yn fendith fawr, pwy bynag sydd yn ei meddu, bod yn alluog i ganfod a nodi allan y rhinweddau amrywiol ag sydd yn perthyn i'n cyd-greaduriaid; ac i fod yn alluog trwy gariad, yr hwn sy'n ddeilliedig o'r nef yn unig, i guddio beiau ac anmherffeithrwydd ein brawdoliaeth cyffredin, a phigo rhinweddau o gymmeriad dyn, a'u disgrifio gydag hyfrydwch. Pa mor debyg i Dduw, a pha mor wynfydedig ydyw y fath ysbryd, a pha fath ddedwyddwch sydd yn deillio trwyddo, a pha mor wrthwynebol ydyw i'r ysbryd ag sydd yn ceisio cyhuddo yn unig, ac yn ymhyfrydu yn niffygiadau a beiau dynolryw. Yr ydym wedi gwneyd y sylwadau cyffredinol hyn mewn ffordd o rybydd i'r Saint, rhag iddynt hwy gyfranogi o'r un ysbryd. Yr ydym wedi dysgu un egwyddor fawr, sef, mai achubwyr dynion ydym ni i fod. Ond pa beth yw yr hwn sydd yn llafurio yn barhaus i gael allan ddiffygion a gwendidau yn ei frodyr, ond dystrywiwr? Gwaith Satan yn ddiau ydyw, a'i weision ef yw y rhai a'i gwasanaethant ef felly. Ewyllysiem ymresymu yn fwynaidd â'r rhai hyny sydd yn cyfranogi o'r fath ysbryd, a cheisio ganddynt holi eu hunain yn fanwl, a chwilio i mewn i'r hyn sydd yn eu cymhell hwy i weithredu yn y cyfryw fodd. A ydyw fod diffygion yn perthyn i ryw frawd yn dwyn hyfrydwch iddynt? Gall fod, os ydyw yn eu boddhau pan yn edrych ar rai eu hunain; ond gwareder ni oddiwrth y fath ymfodhad. Alltudia ef yn mhell



oddiwrthym ni, O ein Duw, a dyro i ni y cariad hwnw ag sydd yn cuddio lliaws o bechodau.

Ond gwyddom yn eithaf da nad oes nemawr fai ag y mae dynion mor dueddol i lithro iddo â hwn; a phan y byddo unwaith wedi ei ddechreu, glyna yn eu natur, nes y bydd eu holl feddwl a'u bywyd yn cael eu defnyddio i ddangos ffacleddau eu cyd-ddyn. O, y fath sefyllfa arswydus yw'r gyfryw! Yn wir, y mae i'r rhai hynny sydd yn ei chanfod yn iawn, yn arddangosiad o uffern ar y ddaear! Ond prif bwynt twyllodrus y temtiwr yw—ei fod yn rhoi meddwl yn y rhai sydd yn gweithredu felly, bod eu hymddygiad hwy yn hollol gyfiawn, ac yn cyfodi oddiar eu purdeb rhagorach hwy, a'u casineb o bob peth sydd yn bechadurus; ac fel hyn y mae y prif dwyllwr yn eu harwain i fod yn gyhuddwyr eu brodyr, pan wrth wneyd hynny, hwynt-hwy yw ei weision mwyaf ffyddlawn ac uniongyrch-iol ef.

Ond etto, ymofynwn pa beth yw y dyben mewn golwg wrth gyfranogi o'r ymarferiad hwn, ac yn neillduol yn nheyrnas Dduw. A ydyw efe yn bwriadu mwylhau ffydd y Saint, trwy nodi allan ddiffygion brawd? A ydyw efe yn meddwl creu ymddiried yn awdurdodau yr eglwys, trwy ddangos mai bodau amherffaith yw y cyfryw, ac yn agored i wendidau, fel dynion ereill? Nid hyn all fod yn ei gymhell, oherwydd ni allai y dybenion byth gael eu heffeithio, a gwallgof fyddai y dyn a gymmerai y fath ffordd. Ond gallwn gyfrif am ychydig o resymau dros y fath ymddygiad. Tymher ddrwg, siomedigaeth mewn dysgwyliad, a chenfigen neu falais, ydyw yr unig gymhelliadau oddiwrth ba rai y mae y fath egwyddor uffernol yn deilliaw. Ei dechreuad, o uffern yr oedd, a'i diwedd fydd yn yr un lle. Gan hynny, byddwch wylidwrus, chwi Saint-Duw, o'r egwyddor gythreulig hon.

Ynghylch gwirionedd y sylwadau uchod, gadewch i ni fwrw golwg am fynydyn ar ymddygiad cyffredinol gelynion Duw, a'r Saint. Pa beth ydoedd ymddygiadau yr holl wrthgilwyr, gan y rhai y cafodd yr eglwys ei gofidio a'i threio yn yr Amerig? Mae dynion, y rhai oeddynt wedi eu gordoi gan ddrygioni, ag oedd wedi eu cadw allan o'r eglwys, wedi dyfod i'r maes mewn gwisg o burdeb proffesedig, ac wedi cyfiawnhau eu hunain yn eu gwrthgiliad, oherwydd amherffeithrwydd a diffygion y Saint. Mae hanes yr amser sydd wedi myned heibio yn cadarnhau y dywediad hwn; ac

nid yw yn cael ei gyfyngu yn unig i wrthgilwyr, ond i'r werinos erlidgar 'ag sydd yn gorfoleddu yn nystrywiad bywyd a meddianau, ac yn ceisio eu cyfiawnhau eu hunain trwy ddwyn y cyhuddiadau o ddrygioni yn erbyn y rhai y maent yn eu herlid. \* Bydded i ni ymdrechu cyssoni egwyddorion ac ymddygiadau yn eu goleuni priodol, adferu brawd o'i ffaelectedau trwy gariad a thynnerwch; ac os methwn a llwyddo gydag ef, deued ein tystiolaeth yn erbyn ei ffaelectedau, ac nid ei berson, a hyny o flaen y llys perthynol i'r cyfryw, er ei achub, ac nid er ei dduo na'i ddogio. Os na ddiwygia, bydded i "gyhuddwr y brodyr" gael ei osod yn yr un dosbarth â'i frodyr cyfrinachol, sef y gwrthgiliwr, y llofruddiwr, a'r diafol, fel y trigo tangnefedd yn ein heglwysi yn barhaus.

---

### CYSUR DAN ERLIDIGAETH.

NID oes nemawr egwyddor yn profi ei hun yn fwy gwirioneddol i Saint y Goruchaf, ac yn amlycach yn gyfesur â'u profiad, nag "mai trwy lawer o orthrymderau y mae yn rhaid myned i mewn i deyrnas Dduw." Dyma oedd y gynnysgaeth addawedig i'r Saint yn y cynoesoedd. Dyma ydyw yr addewidion goreu a roddir i ninnau yn awr. "Yn y byd gorthrymder a gewch; chwi a fyddwch gas gan bawb er mwyn fy enw i," meddai ein Brenin. Ymgalonogwn, ynte, gan iddynt hwy gyfarfod â'r un rhwystrau, a bod yn fwy nâ choncwerwyr, trwy Iesu Grist, yr hwn â'u gwaredodd, pahan yr ofnwn ninnau yr un rhwystrau, wrth rodio ar hyd yr un ffordd? A chan i Dduw weled yn dda berffeithio Tywysog ein hiachawdwriaeth ni trwy ddyoddefiadau, a'i wneyd yn wr gofidus, a chynefin â dolur—a chan i'n holl frodyr fyned trwy'r peiriannau poethion, cyn y gellid eu perffeithio, fe'n siomir ninnau os dysgwyliwn fyd da a helaethwych beunydd, a dysgwyl byw ar ddanteithion y byd, clustogau esmwyth, poblogrwydd yr oes, yn hytrach nâ gofidiau, blinderau, erlidiau, a llawer o wrthwynebiadau, gan y byd, y cnawd, a'r diafol. "Os heb gerydd yr ydym, yna bastarddiaid ydym, ac nid plant." Mae ein tad ni yn fflangellu pob mab a merch a dderbynia, a'r cyfan o'i gariad atom, fel y tyner ymaith yr alcem, ac y purer ni oddiwrth deganau gwael y llwch, fel y byddom yn deilwng ac yn addas i'n dangos yn ngwydd angylion Duw, ac i wisgo coronau anniflanedig. Pwy nad ymfrostiai o gael bod dan y fath athraw, i'r fath ddybenion gogoneddus! Dyma yr unig ffordd a drefnodd Duw i berffeithio a dwyn meibion lawer i ogoniant; felly

y mae efe yn goddef i Satan gynhyrfu ein herlidwyr i'n camgyhuddo, ein tentio, a dweyd a gwneyd yr hyn a allant yn ein herbyn, er ein puro, fel y caffer profiad o'n ffydd; canys heb ffydd ni allwn ddyoddef dim, heb ddyoddef ni ellir ein puro, ac heb ein puro ni fyddwn deilwng i etifeddu y deyrnas ogoneddus, nac i lanw y cylchoedd goruchel y bwriada ein tad ein cynnysgaethu â hwynt. Dysgwyliwn, ynte, am rwystrau a gofidiau mwy-fwy yn feunyddiol oddiwrth dywysog y byd hwn, a'i holl fyddinoedd, pan yn adeiladu teyrnas yr Immanuel yn nghanol eu tiriogaethau bradwrus hwynt; canys po fwyaf y llwyddwn i ennill eu deiliaid o'u gafaelion, po fwyaf y sigla seiliau eu llywodraeth, mwyaf, o ganlyniad, y cynnydda eu llid a'u cenfigen, ac nid rhyfedd hyn ychwaith. Ond y mae un egwyddor nefolaidd, yr hon a nodwn er cysur i'r Saint i barhau yn wrol, yn amyneddgar, ac yn ffyddlon hyd y diwedd, er gwaethaf y cwbl, a hõno yw—Y mae ein Duw yn gryfach nâ'r cryf ac arfog, ac ni âd ein tentio uwchlaw yr hyn a allom. Os gofynwn am nerth yn olyr achlysur, y mae efe yn barotach i gyfranu nag yr ydym ni i ofyn ganddo, ac y mae efe yn defnyddio hyd y nod ein herlidwyr er ein lles, i.e., y mae pob peth yn cydweithio er daioni i ni, os daliwn hyder ein proffes yn sicr hyd y diwedd.

---

### Y GYFRAITH A'R EFENGYL.

CREDWN fod dynolryw, pan ddeuant i oedran a synwyr, yn alluog i wahaniaethu rhwng da a drwg, yn alluog i ufyddhau neu i anufyddhau deddf, fod deddf wedi ei rhoddi iddynt, ac mai y gosp sydd yn nglyn â'i throsteddu ydyw alltudiaeth o bresenoldeb Duw, yn eu corff a'u hysbryd, ar ol eu hadferiad a'u gwardigaeth odditan ddeddfryd trosedd y dyn cyntaf.

Na chospir neb yn ol yr ail gyfraith hon, oddieithr eu bod wedi cael y fantais i'w deall yn y bywyd hwn; canys er fod y goleuni sydd ganddynt oll yn dysgu iddynt dda a drwg, etto nid yw y goleuni hwnw yn dysgu iddynt oll y gyfraith hon, na'r canlyniadau o'i throsteddu. Ac er y dichon y gyfran baganaidd o honynt wneuthur achos am lawer o wialenodiau, etto, nad cyfiawn eu barnu yn ol, na'u cospi wrth, reol y gyfraith hon, oherwydd gallant esgusodi eu hunain dan y fantell o anwybodaeth hollol o honi; o ganlyniad, cospir hwynt, nid yn ol y gyfraith ddadguddiedig ag y maent yn hollol anwybodus o honi, ond yn ol eu cydwybod, cospedigaeth yr hon sydd gyfesur â'r goleuni a'r manteision a gawsent i gael un berffeithiach, canys nid yw esgeu-

Iusdod gwirfoddol yn un esgusawd. “Y rhai nid oes ganddynt ddeddf a gyfrgollir hefyd yn ddeddf.”

Fod troseddwy'r gwybodus o'r gyfraith hon, neu y rhai a ddeuant i wybodaeth o honi yn y bywyd hwn, i gael eu barnu a'u cospi yn ol y gyfraith hon, dedfryd yr hon a gyflawnir, nid yn y bywyd hwn, ond yn y byd a ddaw; o ganlyniad, y mae y cyfryw yn garcharorion yn y byd hwn dan gondemniad, yn dysgwyl mewn ofn a dychryn am amser yr alltudiaeth dragwyddol!

Meddyliaf fod y pechadur, druan, yn barod i waeddi allan mewn braw—Beth! Onid oes ffordd o waredigaeth i mi mwyach? A ydyw fy nghlyfwr i yn anobeithiol? Oni allaf ddyfeisio rhyw ffordd i ddianc rhag cosp yr ail gyfraith yma, a gwaredu fy hun rhag yr ail farwolaeth? Atebas, os gelli ymguddio rhag golygon treiddiol yr hollalluog Dduw—os gelli lwyddo gydag ef i wrthod i'w gyfiawnder ei iawnderau—os gelli ymarfogi i'w erbyn, a'i rwystro i gyflawni dedfryd ei gyfraith doredig, yna gelli ddianc. Os gelli beri fod dy ffydd, dy edifeirwch, a'r goreu o'th weithredoedd, yn ddigonol iawn dros dy bechodau, yna gelli dy waredu dy hun rhag y ddedfryd ofnadwy sydd yn hongian uwch dy ben. Ond bydded hyn yn hysbys i ti, O bechadur, fod anhosiblwrwydd yn argraffedig ar bob cais o'th eiddo i'th waredu dy hun, ac na elli wneuthur dim a ddichon roddi iawn dros dy bechodau, i'e, pe yr wylit gostrelau o ddagrau, a rhoddi dy gorff i'w losgi yn lludw. Mae dy gyfwr yn hollol anobeithiol, oddieithr fod y deddf-roddwr y troseddaist ei ddeddf wedi trefnu gwaredigaeth ar dy gyfer. Yna gwybydd fod dy waredigaeth yn ymddibynu yn hollol ar gael gafael yn, ac ufyddhau i'r drefn hono yn drwyadl, boed hi a fyddo; ac nid dim llai, na mwy, nac amgen, na'r hyn a ddywedodd efe, a ddichon dy achub. Ond na ddigalona, bechadur truan; canys er na elli dy waredu dy hun, etto y mae gobaith i'r gwaethaf. O newyddion da o lawenydd mawr! O drugaredd ddigyffelyb! Mae y Person gogoneddus a roddes y gyfraith hono wedi trefnu ffordd o waredigaeth, er iddi gostio iddo yn ddrud, i'e, i ddyoddef dirmyg a phoen dirfawr—costiodd iddo farw o farwolaeth felldigedig y groes, a myned yn angeu i angeu, ac yn dranc i'r bedd. Mae yr Iesu anwyl hwnw a waredodd yr holl hil ddynol oddiwrth y gosp am bechod ein rhieni cyntaf, wedi trefnu ffordd o waredigaeth i bob dyn rhag ail farwolaeth am ei bechodau ei hun; ac y mae, efe yn awr yn cynnyg y waredigaeth hono, ac yn galw ar y pechadur gwaethaf i ddyfod i gymmod ag ef, fel y caffo ei achub i fywyd tragwyddol. Credwn fod hyn yn gyrhaeddadwy yn unig trwy ufydd-dod i'r ammodau a osododd efe ei hun; canys rhad

ras oedd iddo gynnyg unrhyw ammodau; ni allai neb arall wneyd hyny; o ganlyniad, ni ddylai neb gyfnewid un iot, nac un tipyn o'i ammodau ef, na dweyd paham na buasant fel hyn, na phaham y maent fel arall, ond ufyddhau iddynt fel y maent, a bod yn ddiolchgar am danynt.

### Y DIWYGIWR YN FORMONIAD!

YN rhifyn Hydref o'r misolyn hwn, cawn esboniad Mr. Rees ar 1 Cor. xiii, 10—"Pan ddelo yr hyn sydd berffaith, yna yr hyn sydd o ran a ddileir." Mewn atebiad i rywun, dywed y Golygydd mai at gyflwr y saint yn y nef y cyfeirir yn y testun. Yn awr, os felly y mae (ac yn gyffelyb i hyny y mae hefyd), ceir Mr. Rees yn pleidio Mormoniaeth. "O ran yr ydym yn prophwydo," ebe yr adnod flaenorol; "ond pan ddelo yr hyn sydd berffaith, yr hyn sydd o ran a ddileir," a dim cynt. A chan mai yr hyn sydd o ran yw y "prophwydo" hyn, a chan fod Mr. Rees yn deongli mor ddibetrus, fod yr hyn sydd o ran i barhau hyd ddydd y farn, y mae y prophwydo a'r tafodau, yn ol adnod 8 a 9, i barhau hyd hyny. Mae y Parch. David Rees, o Gapel Als, Llanelli, yn credu, yn argraffu, a'r Enwad parchus o Annibynwyr Cymreig, yn eu "hunig gyhoeddiad," a'r Gymmanfa fawr yn Solfach a Chastellnedd, yn neillduol, yn profesu fod yr hyn sydd o ran, sef y tafodau a'r prophwydo, wedi eu gosod i aros yn yr eglwys hyd oni ddélo perffeithrwydd y nef. Mor anhawdd yw gan werin gwlad dderbyn pwnc gan sect newydd, ac O mor hawdd y ceir gan yr un werin, ar yr un pryd, lyncu yr un pwnc, pan ei cynnygir iddynt gan ddeheulaw eu horacl eu hunain! Cymmerwn gysur, Saint Duw, daw yr enwad lliosog hwn atom cyn bo hir. Brysied Ior rwyddhau eu dyfodiad.

OND nid yw Golygydd y Diwygiwr yn hynod yn mysg ei frodyr. Felly y maent oll, yn mron, yn esbonio yr ymadrodd hwn. Felly Matthew Henry, Barnes, Gill, Scott, a Burkitt. Ac yn enw pob uniondeb, paham na chawn ninnau esbonio yr un fath? Pan ddywed un o'r Mormoniaid—"Mae yr hyn sydd o ran, sef y tafodau a'r prophwydo, i barhau hyd onid elo yr holl eglwys i'r nefoedd," wele bob Annibynwr, a'r Gymmanfa fawr hefyd yn gwaeddi, "gau-brophwydi," "twyllwyr," &c.; ond dywedded Mr. Rees—"Mae yr hyn sydd o ran i barhau hyd onid elo yr holl eglwys i'r nefoedd," wele bob Annibynwr ar ei draed. a'r Gymmanfa fawr yn enwedig, yn gwaeddi, "Diwygiwr a'i pia hi," "Unig gyhoeddiad yr Enwad sy'n ei le."

## ARWYDDION YR AMSERAU.

DDARLLENYDD, ATEBA!

PAHAM y dyfethwyd y cnwd pytatws drwy yr holl Iwerddon, Scotland, a thrwy ran fawr o Loegr, mewn un noswaith? Pa beth ydyw yr achos fod y fath haint ddinystriol ac anghymharol, yn lladd cym-maint o filoedd o'n hanifeiliaid mor ddisymwth? Pahan y mae yr yd wedi mallu yn Scotland? Pahan y mae y ceirch a'r erfin wedi mallu yn yr Iwerddon, a'r haidd hefyd mewn llawer o fanau? Pa beth ydyw yr holl dymhestloedd ofnadwy ag sydd ar hyd y moroedd, pa rai sydd yn ysgubo miloedd o'n cydgreaduriaid i'r byd tragwyddol yn hollol ddirybydd? Pahan y trengodd holl bysg y môr ar hyd gororau America, am dros pum cant o filltiroedd? Pahan yr ymsigla y ddaear fel meddwyn? Pahan y mae ei hymysgaroedd yn berwi gan ofid? Pahan y gwelir hi yn ei chynddaredd yn bwrw ei brwmstan a'i fflamau dros drefydd a dinasoedd cyfain o'r bron, gan lyncu eu trigolion wrth y miloedd ynghyd, a'u gyru mewn cyflwr hollol anmharod, yn ol pob tebygolrwydd, i fyd yr ysbrydoedd? Pahan y cynhyrfa ac yr ymchwydda y moroedd a'r afonydd dros eu cyffiniau, ac yn ngerwin eu digofaint yn claddu miloedd mewn eiliad? Pahan y clywir son am dânau yma, a llosgfeydd digyffelyb draw, i.e, am drefydd a dinasoedd cyfain o'r bron, yn wenfflam ar unwaith? Pahan y mae calonau breninoedd a llywodraethwyr, ynghyd â'u deiliaid, crefyddwyr, ac anffyddwyr, yn llesgâu, yn ofni, ac yn dychrynu, gan ddysgwyl am y pethau ofnadwy sydd yn dyfod ar y ddaear? Pahan y sylla newyn du mor erwin yn ein hwynebau? Pahan hyn oll mor annysgwyliadwy, etto mor anocheladwy? Onid yw hyn yn gyflawniad o brophwydoliaethau nodedig? Onid yw y pethau hyn a'u cyffelyb, yn arwyddion, ac yn rhagredegwyr o'r amser rhyfedd, ac o'r dydd mawr sydd yn dod ar frys? Beth yw yr ateb? Dyma yw—  
O herwydd i angel ehedeg yn nghanol y nef, a chanddo yr efengyl dragwyddol, i efengylu i bob llwyth, iaith, pobl, a chenedl, ag sydd yn trigo ar y ddaear, gan ddywedyd â llef uchel, "Ofnwch Dduw, a rhoddwch iddo ogoniant, CANYS DAETH AWR EI FARN EF!!"

## Y DIAL DA.

BLINA'th elyn yn fawreddig,  
Nid fel dial gwrach ddygasig;  
Bwrw dda am ddrwg i'w wyneb,  
Dial arno trwy diriondeb.

SEFYDLIAD Y SAINT YN KIRTLAND, A'R ERLIDIGAETH  
YN MISSOURI.

TUA'r flwyddyn 1831, dechreuodd y Saint, o bob talaeth, ymgasglu i Kirtland, tref fechan yn Nhalaeth Ohio, ychydig o filltiroedd i'r deau o lyn Erie. Prynodd amryw o honyut dir, ac a'i llafuriasant yn ddiwyd; ereill o honynt a adeiladasant dai; a'r crefftwyr ag oeddynt yn eu plith a fasnachent, yn ol eu gwahanol grefftau; ac felly aent yn mlaen am dro yn llwyddiannus a chysurus. Yr oedd llwyddiant mawr yn canlyn llafur y rhai oedd yn pregethù trwy'r taleithiau ereill. Cyn gynted ag yr ufyddhâi dynion i'r efengyl yn mhlith y byd, dirmygent ac erlidient hwynt, gan lunio pob math o gamgyhuddiadau i'w herbryn, yr hyn a achosai i'r rhai a allent, symud at eu brodyr i Kirtland. Wedi lliosogi nes yr oedd eu rhifedi yn rhai miloedd, ymosodasant ar y gorchwyl o adeiladu ty addoliad, neu deml fawr, yn Kirtland, a pharhausant yn ddiwyd iawn, dan lawer o anfafeision, nes ei chwblhau yn adeilad cyfleus a godidog.

Yn fuan wedi hyny, cenfigenai eu cymmydogion wrth eu llwyddiant, ac ofnent y byddai y "Mormoniaid," fel eu galwent, mor lliosog, yn mhen amser, ag i ddylanwadu yn eu herbryn hwy yn yr etholiadau; fel pe buasai eu cyd-ddynion yn ffurfio eu rhyddid a'u hawl gwladol pan gredent yr efengyl; a'r unig ddyfais a allent lunio, er cadw ffrwynau y llywodraeth yn eu dwylaw eu hunain, oedd dwyn camgyhuddiadau yn erbyn pobl heddychlon a diniwed. Yma y dechreuwyd yr hen ddichell ddofa hòno ag yr arferwyd cymmaint o honi wedi hyny mewn manau ereill, sef gosod rhai o'u hèn fythod eu hunain ar dân, ac wedi hyny cyhuddo rhai o'r Saint o hyny. Yna cyhoeddid yn y newyddiaduron yn mhell, fod y Mormoniaid yn lladd, ac yn llosgi tai, eu cymmydogion. Go debyg i hen dric Nero yn gosod Rhufain ar dân, a chyhuddo y Cristionogion, er mwyn cyffroi y werin i'w herbryn. Oddeutu y pryd hyn y dyfeisiwyd yr ystori ffol hòno ar Joseph Smith, sef ei fod yn "cerdded ar y dwfr." Ond dywedid cyn hyny mai gwraig o'r enw Anne Lee, yn y taleithiau dwyreiniol, a wnaeth hyny; a chofus genym glywed yr ystori hòno yn cael ei dwyn yn erbyn Johannah Southcott, pan oeddym yn blant yn yr ysgol; ond yn ddiweddaf oll tadogwyd hi ar Joseph Smith: ac er mor ffol a gwrthun yw yr ystori hòno, i.e. heb gymaint ag un gair o wir, na defnydd iddi, erioed am Joseph Smith, etto y mae hi wedi cael ei chyhoeddi yn y newyddiaduron a'r pwlpuadau Americanaidd. Y mae hedyd yn syndod dweyd fod hon, fel miloedd o rai ereill ag sydd mor ddisail â lithau, wedi cael *passage* dros y Môr Werydd, wedi cwmpasu Lloegr a Scotland, ac yn awr ar ei thaith gyflym trwy Gymru; yn cael ei helpu yn ei blaen o gapel i gapel—yn marchog gyda chyflymdra ar gyfrwy pregethwyr, o sir bwy gilydd—yn dringo pwlpuadau y naill enwad mor groesawus â'r llall; a rhyfedd fel y boddia chwaeth y rhai hyny ydynt wedi eu rhoddi i fyny i amryfusedd cadarn, fel y credont gelwydd, y rhai ni dderbyniant gariad y gwirionedd. Y mae hon yn damaid mor felys, nes y cofleidiodd Golygydd parchedig y *Diwygiwr* hi â dheulaw cymdeithas, gan ysgrifenu *santeiddrwydd* ar ei thalcen, a rhoddi iddi

y *passport*, a'r rhwydd hynt a allai, yn ei gorchwyl annuwiol o dwyllo ei gydgenedl, fel y darparai y ffordd i'w gerbyd ei hun. Nid ydym yn meddwl y buasai eisieu i neb ddweyd mai anwiredd yw pob gair o'r ystori hon, oni bai fod rhwv barchedigion fel hyn yn ceisio ei sant-eiddio â'u geneuau halogedig, a thrwy hyny rhoddi iddi ymddangosiad o wirionedd. Ond y mae y werin wedi cael digon o brofion bellach nad yw y parchedigion yn fwy hynod am draethu y gwir nâ'u cymmydogion.

Ond i ddychwelyd at yr hanes. Cynnyddodd yr eiddigaeth yn erbyn y Saint yn ogymmaint â'u llwyddiant. Dygwyd Joseph Smith lawer gwaith gerbron llysoedd, a chyhuiddid ef bron o bob peth ag y gallai dynion drwg ddyfeisio, er mwyn cael ei beu i lawr. Yn eu hawydd mawr, tyngai y tystion ormod i fod yn wir; ac wrth eu bod yu tyngu yn groes i'w gilydd, i.e., er ei farnu gerbron ei elynion profsedig, daeth o'u gafaclion bob tro yn fwy nâ choncwerwr. Gan na allent ei brofi yn euog o droseddu y gyfraith wladol, mynych yr ymosodai terfysglu ar ei dy yn y nos, gan ei fygwth â marwolaeth, os nad elai efe a'r Saint oddiyno. Ymosodasant unwaith yn nodedig ar ei dy, ar ganol noswaith oer, pan yr oedd yn rhew ac yn eira mawr; llusgasant ef o'i dy gerfydd ei draed, a churasant ef yu greulon. nes iddynt feddwl eu bod wedi ei ladd; er hyny yr oedd bywyd ynddo, a chlywai hwynt yn ymgynghori â'u gilydd beth i wneyd ag ef. Cynghorai rhai i dori bedd yno, a'i gladdu. Aethant i gyrcu rhawiau i'r dyben hyny, ond gan fod y ddaear yn rhy galed iddynt wneuthur hyny, aeth rhai o honynt yn ol i dy Mr. Smith, a chymmerasant glustog oddiar ei wely ef. Ar ol rhwygo ei ddillad ymaith, dwbiasant ei gorff â phyg; yna rhwbiasant y plu yn y pyg, a gadawsant ef yno am farw. Yn fuan ar ol iddynt hwy fyned ymaith, cododd yntau, ac aeth i'w dy. Yr oedd ei wraig wedi myned i hysbysu y peth, ac i erfyn cymhorth gan ei chymmydogion. Yngeleddodd Mr. Smith ei hun, a chafwyd fod ei esgyrn yn gyfain, ond fod ei ddannedd blaen wedi eu tōri. Boreu dranoeth (y Sabboth), pregethodd i dyrfa liosog, yn ol ei gyhoeddiad. Byddai hanes yr erlidigaethau a'r gormes a ddyoddefodd y Saint yno wedi hyn, yn rhy faith i'w ddesgrifio yma; ond gan nad oedd cyfiawnder na heddwch iddynt fwynhau yn Kirtland, nac un gobaith am dano, yn y flwyddyn 1834, aeth rhai o honynt tua'r gorllewin i chwilio am le ag y gallent drigo ynddo gyda'u gilydd mewn heddwch. Sefydasant yn Swydd Jackson, Talaeth Missouri; prynasant diroedd yno gan y llywodraeth, pa rai a barhaent i arloesi a liafurio, a'r Saint o Kirtland yn ymfudo atynt, o bryd i bryd, yn ol fel y caniatâi eu hamgylchiadau. Dechreuasant bregethu yno yn fuan; ac nid oedd gan y brodorion ddim neillduol yn eu herbyn hwy na'r athrawiaeth am yspaid, oddieithr rhai o'r sectariaid a waeddent ar eu hol, "twyllwyr, a gau-brophwydi."

Yn y mis Gorphenaf canlynol, daeth amryw filoedd o'r Saint i Swydd Jackson i wladychu, a buan iawn y troisant yr anialwch yn ddoldir. Adeiladasant dref o'r enw Far West, mewn sefyllfa iachus a hardd. Perchenogid y wlad oddiamgylch gan y Saint. Gwnaethant dyddynau, melinau, a phentrefi; a rhoisant hadau yn y ddaear, gan ddysgwyl cael yr heddwch a'r rhyddid hwnw i addoli Duw yn ol eu



cydwy bodau, a addawai cyfreithiau gwerin-lywodraeth i bawb o'i deiliaid yr unrhyw. Gwyliai y Saint, hyd y gallent, rhiag rhoi achlysur i'w cymmydogion eu herlid, hyd nes yr oedd y rhan fwyaf o lawer wedi hunan-ymwadu gymmaint, fel yr addawsant nad ymyrent â dim a berthynai i'r wladwriaeth; ond ereill a honent eu hawl i hyny. Oherwydd fod y Saint wedi pleidleisio yn etholiad y swyddwyr gwladol, cynhyrfodd rhai o'r hen sefydlwyr yn eu herbryn yn y fan, a bu cynllwrf ac ymladdfa rhwng rhyw rai o honynt. O hyny allan, y rhai hyny a gamddarlunient yr ymrafael, a gyhuddent y Saint o fod yn gomedd i ereill roi eu pleidlais. Cyhuddent y Saint ar gam o lawer o ystorïau, o fod yn fradwyr i'r llywodraeth, &c. Ffugiodd rai o honynt enw rhai o'r blaenoriaid, gan gyhoeddi yn un o'r newyddiaduron fod y Saint yn gwahodd y Negroaid caethion i ddianc oddiwrth eu perchenogion, a dyfod atynt hwy, ac y caent eu rhyddid. Ni allent ddyfeisio dim a gynhyrfai y dalaeth yn fwy nâ hyn, oherwydd fod Missouri yn dalaeth lle y mae caeth-fasgnachaeth yn gyffredinol iawn. Er nad ymyrodd y Saint â'u caethion, gwir na chefnogent ddala eu cydgredduriaid yn gaeth fel anifeiliaid; ond gwyddent y buasant yn peryglu eu bywydau, ac yn troseddu cyfraith y dalaeth, pe dywedent ddim i'w herbryn. Y trigolion a sefydlasant yn y cwr hwn o'r dalaeth oeddynt gan mwyaf wedi ymfudaw o Kentucky, Tennessee, a'r talaethau caeth ac hanner barbaraid ereill. Yr oedd wedi bod am flynnyddau yn noddfa, i ba un y ffoai y dyledus a'r rhai a ffoent rhag y gosp o'u troseddiadau o gyfraith eu gwlad eu hun. Yr oeddynt yn lled debyg i'w cymmydogion Indiaidd, ond llawer creulonach. Er mwyn enyn y filam yn fwy, cyhuddid y Saint gan y cenadon ag oedd yn mhlith yr Indiaid, o fod yn cynllwyno gyda'r Indiaid i ddyfod a lladd y trigolion, a meddiannu y wlad. Yr unig achlysur a gawsent oedd, fod y Saint yn pregethu i'r Indiaid a ddeuai i'w plith, ac i ddau neu dri o bregethwyr ddychwelyd i'r goedwig gyda'r Indiaid i'w dysgu, a hyny ar eu dymuniad. Cynhyrfai hyn y cenadon nes eu dyfod i blith y caeth-fasgnachwyr, y rhai oeddynt yn falch iawn i gael rhyw achlysur yn erbyn y Saint. Yr oedd y cyhuddiad hwn yn sylfaen rhagorol i weithio eu dyfais yn mlaen, yn enwedig gan fod eu terfysglu yn cael eu llywyddu gan y fath bregethwyr duwiol; ac, er mor rhyfedd yw dweyd, etto y mae yn ddigon gwir, na orphwysodd y cenadon heddwch hyn nes cael deunaw o honynt i bregethu drwy y wlad yn erbyn y Saint, nes eu cynhyrfu wrth y cannoedd i ymosod arnynt i'w lladd, os na adawent y wlad rhag eu blaen. Llosgent eu meddiannau eu hunain yn bwrpasol, er mwyn anfon at Lywydd y Dalaeth mai y Saint a wnaethant hyny; dystrywiasant lawer o dai y Saint, llosgasant eu hyd, lladrataent eu hanifeiliaid, a mynych yr ymgasglent yn fyddinoedd i'w herbryn wedi duo eu hwynebau, eu gwisgo mewn erwyn, a phluf yn eu penau, gan waeddi yn erchyll fel Indiaid; a lle bynag y disgynai casineb y pregethwyr anwaraidd hyn, y disgynai dialedd eu canlynwyr annynol a didrugaredd. Yn ofer yr apeliai y Saint at y llywodraeth am amddiffyniad, canys yr oedd y swyddogion gwladol wedi coelio y camgyhuddiadau a ddygid yn erbyn y Saint. Mwy nag unwaith gorchymynodd Llywydd y Dalaeth, ynghyd â'r ynadon, iddynt amddiffyn eu hunain, yr hyu nid oeddent

etto wedi anturio arno; a chan gynted ag yr amddiffynasant eu tai a'u teuluoedd yn ngwyneb ymosodiad y dynion drwg hyny arnynt, ehedai yr ystoriau drwy y wlad fod y Mormoniaid wedi lladd rhyw nifer fawr o bobl, gan ychwanegu a cham-ddarlunio nes cynddeiriogi ereill yn fwy-fwy i'w herbyn, heb chwilio ai gwir a glywsent. O'r diwedd, galwodd y Llywydd y milisia allan i helpu y terfyglu i alltudio y Saint o'r wlad, ar gost yr oll a feddent, heb ganiatâu iddynt arholiad na dim cyfiawnder arall, fel y gwelir yn amlwg oddiwrth y dystiolaeth ganlynol o eiddo llygad-dyst a chyd-ddyoddefydd, yr hon a dystiwyd ar lw o flaen un o frawdlysoedd Talaeth Illinois yn y fl. 1838, a ardstiwyd hefyd gan laweroedd ereill, a gyhoeddwyd i'r byd yn eu hwynebau, ac sydd yn sefyll hyd heddyw yn dystiolaeth anwrthwyn-ebadwy i'w herbyn, ac a barha i waeddi yn nghlustiau Arglwydd Sabaoth hyd oni farna efe ei bobl mewn cyfiawnder.

Darllen, ddarllenydd. a rhyfedda, ac yna cofia na fynegwyd i ti hanner y creulonderau a'r erlidigaeth a ddyoddefodd y Saint diniwed a diamddiffyn, oherwydd eu crefydd, yn Missouri!

—

TYSTIOLAETH HYRUM SMITH, PATRIARCH, O FLAEN Y LLYS  
YN NAUVOO, TALAETH ILLINOIS.

Mae y dystiolaeth hon wedi ei rhoddi gan Hyrum Smith ar ran ei frawd Joseph Smith, yr hwn oedd wedi ei ddwyn o flaen brawdlys Nauvoo, trwy orchymyn oddiwrth Lywodraethwr Talaeth Missouri, ac a gyhuiddid o fradwriaeth yn y dalaeth hõno. Y mae yn iawn sylwi yna mai brawd ydoedd y tyst hwn i Joseph Smith, y prophwyd, yr hwn ydoedd sylfaenwr Mormoniaeth. Nid yw maintoli ein cyhoeddiad yn caniatâu i ni roddi ond talfyriad byr yn unig o'r dystiolaeth bwysig hon, ag sydd yn cynnwys yr holl haes am yr erlidigaeth yn Missouri.

Ar ol clirio cymmeriad ei frawd, y mae Hyrum Smith yn myned yn mlaen i ddweyd pan oedd ei frawd yn Nhalaeth Missouri, fod y bobl a elwid yn gyffredin yn Formoniaid, yn cael eu bwgwth yn enbyd iawn; ac oddeutu y dydd Llun cyntaf yn Awst, 1838, yn yr etholiad yn Gallatin, swydd Davies, gwaherddid i'r Mormoniaid eu hawl i bleidleisio; ac oherwydd yr amgylchiad hwnw, dechreuodd cynhwrf ac ymladd yn mysg trigolion y lle, yr hyn a achosodd i'w terfysglu godi yn y swydd hõno o hyny allan, y rhai a fygythient lwyr-ddyfetha y Mormoniaid. Wedi i'n tyst a'i frawd glywed fod terfysgwyr yn yngodi. a'u bod wedi lladd dau o drigolion y lle, ac na oddefent i'w cyrff gael eu claddu, aethant dosod i wybod sefyllfa pethau, ond deallasant nad oedd neb wedi eu lladd, ond fod amryw wedi eu clwyfo. Wrth ddechrewyd, galwasant gyda'r awdurdodau, ac erfyniasant arnynt i ymdrechu llonyddu y terfysgwyr, yr hyn, mewn ysgrifen, a addawsent wneyd; ac yn fuan wedi hyn, cafwyd heddwch.

Ni pharhaodd pethau fel hyn yn hir; canys yn mhen enyd ymgynullodd y terfysgwyr eilwaith, fel ag yr ymosododd amryw gannoedd o'honynt ar y Mormoniaid yn Millport, o fewn ychydig filltiroedd i Diahman, gan gymmeryd ymaith eu hanifeiliaid, a bwgwth llwyr ddinyst. Cymmerent yn fynych yn garcharion, wyr, gwragedd, a

phlant, a fflangellid a thrinid hwy yn y modd creulonaf, gan eu cylmu wrth goedydd, lle yr oeddynt yn cael eu gadael mor hir heb fwyd, nes y gorfyddid hwy i fwyta y rhisgl er cynnal bywyd. Yn fyr, gwnaent bob peth iddynt ag a feddylient oreu er creu eiddigeidd yn y Mormoniaid ereill, a'u cael i wneyd amddiffyniad, fel y gallent eu cyhuddo o ddiri y gyfraith, a thrwy hyny gynhyrfu y werin i'w cynnorthwyo i ddyfetha y bobl ddiniwed hyny. Danfonwyd yn union at yr awdurdodau, a llwyddwyd i gael gwasanaeth milwyr i amddiffyn y dref; ond wedi i bethau dawelu, ac i'r milwyr adael, ail-gynneuodd eiddigeidd yr erlidwyr, a chodasant mewn amryw leoedd ereill lle y preswyliai Mormoniaid, gan eu difeddiannu o'u heiddo, ac ymddwyn tuag atynt yn giaidd. Yr oedd y milwyr yn y rhan fwyaf o leoedd yn nacâu gwneyd eu dyledswydd. Meddyliwyd yn oreu yn awr i anfon deiseb at y Llywodraethwr, ac un arall at y Barnwr King. Yr oedd y Mormoniaid o hyd mewn cyflwr enbyd; yr oeddynt yn canfod eu hunain wedi eu hamgylchu ar bob llaw gan clynon arfog, rhai o'r cyfryw a fyddent dan lywyddiaeth pregethwyr yr efengyl. Gwnaent i'r Mormoniaid roi i fyny bob peth yn eu meddiant, dan berygl marwolaeth, a'u gorfodi i addaw ymadael â'u gwlad, a myned i'r Far West, onide y buasant hwy yn eu gyru yno, ac wedi hyny i uifern.

Pan oedd amgylchiadau yn parhau fel hyn, dychwelodd ateb oddiwrth y Llywodraethwr ac ereill, yn hysbysu na allai y Mormoniaid gael dim cynnorthwy, ac am iddynt ymladd drostynt eu hunain, nad oeddynt hwy yn meddwl gofalu dim yn eu cylech.

Gorfodwyd holl deuluoedd gwasgareddig y bobl hyn yn yr holl swyddi, oddieithr swydd Davies, i fyned i'r Far West, ond nid cyn i lawer o honynt newynu ar y ffordd. Nid oedd hyn ond ychwanegu at eu caledi, oherwydd yr oedd miloedd lawer wedi eu gyru i fan lle nad oedd unrhyw drigfanau i'w cysgodi, ond yn gorfod cruglwytho at eu gilydd, rhai mewn math o bebyll, ereill o dan wrthbanau. A llawer heb ddim i'w cysgodi rhag llymder yr hin. Fel hyn y huont am ddau fis, llawer o honynt yn cael eu lladd, tra yr oedd ereill yn cael eu fflangellu mor enbyd nes gorfod rhwymo eu hymysgaroedd rhag syrthio allan. Oddeutu yr amser hyn, daeth un Cadfridog Parks o Richmond, Talaeth Ray, yr hwn ydoedd un o'r swyddogion a awdurdodwyd i fyned i Diahman, ac aeth Hyrom Smith a'i frawd oddiyno yr un pryd. Wedi iddynt oll gyrhaedd Diahman, a myned i dy un Milwriad Wight, oddeutu un-ar-ddeg o'r gloch y nos, daeth gwraig Formonaidd i mewn, gan ddwyn ganddi ei dau blentyn, un yn ddwy flwydd a hanner, a'r llall yn faban yn ei breichiau. Daeth ar ei thraed oddeutu tair milltir, trwy ganol yr eira, a chroesodd y Grand River pan oedd y dwfr hyd at ei gwasg. Dywedai fod rhai o'r terfysgwyr wedi ei hwrw allan o'i thy, cymmeryd ei holl feddiannau, a llosgi y ty, ac iddi hi gael gwaith achub ei hun a'i phlant. Yr oedd ei gwr yr amser hyny yn Virginia, a bithau yn byw yn unig.—Effeithiodd yr ymddygiad creulon hwn yn fawr ar y Milwriad Wight, a gofynodd i'r Cadfridog Parks, yn nghlyw y lleill, pa mor hir yr oeddynt i ddyoddef felly? Parodd hyn i'r terfysgwyr gael eu chwalu, ac i'w harfan gael eu cymmeryd. Ond buan y dyfeisiasant ddichell newydd; yn lle llosgi tai y Mormoniaid bellach, gosodasant dân yn

eu tai eu hunain (ond wedi eu gwaghau yn gyntaf), a gyru ar hyd y wlad i ddweyd mai gwaith y Mormoniaid ydoedd. Yn ganlynol, ni ellid perswadio neb nad y Mormoniaid oedd yn euog, a chynhyrfwyd rhagfarn y wlad tuag atynt yn fwy. Wrth sylwi ar ddyoddefaint y bobl yn Diahman, dychwelodd ein tyst a'i frawd yn ol i ddinas y Far West, a danfonasant at y Llywodraethwr Atchinson, i hysbysu pa fodd yr oedd yn bod, ac erfyn am gynnorthwy os oedd yn bosibl. Yn y cyfamer, rhoddodd Barnwr y Llys Sirol orchymyn i filisia y sir fod mewn parodrydd dydd a nos, er cadw y trigolion rhag cael eu lladd, i'r hyn berygl yr oeddynt yn agored hob mynyd. Yr oedd pob peth yn parhau i ddychrynu. Er hynny oll, yr oedd y bobl yn gobeithio o hyd y buasai y Llywodraethwr yn eu cynnorthwyo; a phan yr oeddynt yn dysgwyl am ymwarded, gan weddio ac wylofain, canfyddasant fyddin fawr yn agosáu at y dref, y rhai a ysgydwent eu harfau gloywion yn nyscleirdeb yr haul; ac ni allai y trigolion lai nâ llawenhau dros enyd, gan feddwl fod y Llywodraethwr wedi danfon i'w helpu. Ond er eu syndod, wedi i'r fyddin gyrhaedd yno, ffurfiasant eu hunain yn restr ddyblyg, a danfonasant dri chenad, yn dwyn baneri gwynion, i'r dref, i ymfyn tri o bersonau allan o honi, cyn y buasai iddynt ladd y lleill, a gosod y dref yn wenfflam. Dywedodd y tri wrthynt, "Os oes rhaid dystyrio y bobl, a llosgi y dref, yr ydym ni yn barod i dderbyn yr un dynghed." Wedi hyn, enciliodd y fyddin yn ol oddeutu milltir a hanner oddiwrth y dref; ac yn fuan, danfonwyd cenad i ymddyddan â'r ddau gadfridog, ond cyn iddo gyrhaedd eu gwerysll, saethwyd ef gan un o bregethwyr y Methodistaid, o'r enw Bogard; ond, er hynny, llwyddodd i gael gweled un o honynt, yr hwn a ddywedodd wrtho nad oedd y llall yno, a'i fod wedi ei ddanfon yn ol, oherwydd ei fod yn rhy dosturiol wrth y Mormoniaid. Erfyniodd y cenad arno i arbed y dref dan boreu dranoeth, yr hyn yn oeraidd a addawodd, gan nad oedd etto wedi derbyn gorchymyn oddiwrth y Llywodraethwr, yr hwn oedd yn ddysgwyl bob awr. Danfonwyd cenad eilwaith at yr un cadfridog, yn erfyn arno wneyd ei oreu i gadw bywydau y bobl, yr hwn a dychwelodd â'r newydd o fod llawer wedi cael eu lladd yn druenus gan rai o filwyr cadfridog arall a elwid Lucas. Cafodd y troseddiadau hyn eu cyflawni cyn derbyn gorchymyn oddiwrth y Llywodraethwr. Ychydig bach cyn gostwng haul, daeth byddin arall i mewn, dan lywyddiaeth un Cornelius Gillum, yr hwn fu yn difrodi yn erchyll mewn man arall yn flaenorol. Yr oedd y fyddin hon wedi lliwio eu gwynebau fel yr Indiaid. Byddent yn wban a rhuo fel Indiaid drwy y nos. Yn gynnar yn y boreu, danfonwyd cenad i gael ymweliad arall â'r Cadfridog Doniphan; ac ar ei ddychweliad, hysbysodd fod gorchymyn y Llywodraethwr wedi dyfod; ac i'r Cadfridog Doniphan ddweyd mai gorchymyn y Llywodraethwr oedd, llwyr ddyfetha y Mormoniaid, ond y cymmerai efe ei ddamnio cyn y gwnai ufyddhau iddo, ac y gallai y Cadfridog Lucas wneyd fel y mynai. Eithr deallwyd nad oedd y gorchymyn hwn ond copi o'r un gwreiddiol, yr hwn oedd yn nwyllaw y Prif-gadfridog Clark, ag oedd ar ei ffordd tua'r Far West, a chanddo fyddin ychwanegol o chwe mil. Yn fuan ar ol hyn, daeth cenad i'r dref, yn hysbysu fod lladdiad dychrynllyd ar y bobl yn Maun's Hill wedi dygwydd, yr hyn

a gymmerodd le mewn canlyniad i'r gorchymyn a roddodd y Llywodraethwr i lwyr ddyfetha y Mormoniaid.

Parhaodd y fyddin a aeth i'r Far West, tra buont yno, i ddystrywio y caeau llafur, lladrata yr anifeiliaid, a'u lladd er mwyn difyrwch. Yr oedd y ddinas wedi ei gwarchae ganddynt, ac ni oddefid i neb fyned i mewn nac allan dan boen marwolaeth. Cafodd llawer o'r trigolion eu saethu pan yn anturio allan i ymfodyn lluniaeth. Yr oedd un cac o ddeuddeg can erw, yr hwn oedd y rhan fwyaf wedi ei orchuddio â chnydau o lafur; a chafodd y cyfan ei anrheithio gan y meirch yn y fyddin. Dranoeth ar ol i'r fyddin ddyfod yno, yn yr hwyr, aeth y Milwriad Hinkle i'r ddinas, gan ddymuno gweled Joseph Smith (hen.), Parley P. Pratt, Sidney Rigdon, Lyman Wight, a George W. Robinson, a dweyd wrthynt fod y swyddogion yn y fyddin am ymgynghori â hwynt, a'u bod yn sicrhau na chaent eu niweidio. Cydsyniasant, ac aethant gyda'r milwriad tua'r gwersyll, pan yn fuan yr amgylchynwyd hwynt gan filwyr. Tybient mai i'w gwyllo i'r gwersyll mewn diogelwch oedd eu dyben; ond er eu syndod, pan ddygwyd hwy at y Cadfridog Lucas, aeth Hinkle yn mlaen ato, gan ddweyd, "Dyma y carcharorion a gyfammodais i eu dwyn i chwi." Tynodd Lucas ei gleddyf, a dywedodd, "Yr ydych yn garcharorion i mi yn awr;" ac yn yr amser hyny, daeth y brif fyddin i'w cyfarfod. Agorasant ar y de a'r aswy, ac arweiniwyd Smith a'i gyfeillion rhyngddynt, yn nghanol bloeddiadau ac wban y milwyr. Ar ol cael eu bradychu fel hyn, rhoddwyd hwynt dan wyliaidwriaeth, a gorfodid hwynt i orwedd ar y ddaear oer trwy y nos, a dywedid wrthynt nad oedd wiw iddynt ddysgwyl eu rhyddid mwyach. Boreu dranoeth, cafodd y milwyr ganiatâd i fyned i'r dref, i aflonyddu y bobl wrth eu plaser, myned i'w tai a'u hyspeilio, treisio y benywod, a' chymmeryd ymaith bob arf a allent gael. Oddeutu deuddeg o'r gloch, daeth y Milwriad Hinkle i dy ein tyst (Hyrum Smith), a gwnaed ef yn garcharor gyda'r lleill, yn ngwyneb ei afiechyd ef a'i deulu ar y pryd. Yn mhen hanner awr, daliwyd un Amasa Lyman, a gosodwyd yntau dan yr un wyliaidwriaeth. Buont allan y noson hono eilwaith; a daeth Hinkle at H. Smith, a dywedodd y gwnai ef eu pleidio yn y llys milwraidd, ond ei fod yn ofni na lwyddai. Dywedodd hefyd fod llys arall yn eistedd y pryd hyny, yn yr hwn yr oedd oddeutu ugain o wahanol bregethwyr. Yn y boreu, daeth y Cadfridog Doniphan atynt, a dywedodd mai dedfryd y llys oedd, eu bod i gael eu saethu y boreu hwnw, ond na fynai efe un llaw yn y gorchwyl, a'i fod ef a'i fintai yn ymadael o'r lle, gan ystyried y byddent yn tywailt gwael gwirion. Gwnaeth y mudiad hwn o eiddo Doniphan gryn gynhwrf yn y fyddin, a llawer o siarad yn mhlith y swyddogion; a darfu i'r carcharorion glywed "na chawsai y Mormoniaid dieflig eu saethu y boreu hwnw, oherwydd i'r Cadfridog Doniphan dasfu rhwystr, ac fod llys arall wedi gorchymyn eu dwyn i Swydd Jackson, i gael eu dienyddio yno." Mewn ychydig fynyddau, daeth dwy bedrolfen i'w hol, ac wrth fyned i mewn iddynt, taniwyd at y carcharorion gan bedwar neu bump o wyr, ond yn aneffeithiol. Cafodd y dynion eu sicrhau, a gyrwyd ymaith. Ar ol llawer o ymbil, cawsant fyned i'r ddinas dan warcheidwaid, i gael ffarwelio â'u perthynasau, a chael dillad, ond ni oddefid

iddynt siarad gair. Yna aethant yn y blaen tua Swydd Jackson, ac wedi myned 12 milltir, aroswyd dros y nos, a chaniateid i'r carcharorion gysgu allan yn yr eira, oddiwrth yr hyn y dyoddefasant yn erwin. Yn y boreu ar doriad y dydd, cychwynwyd hwynt yn y blaen, gan wneyd dangosiad o honyut i bawb ar hyd y ffordd, fel pe buasant yn elephantod neu gamelod. Craffid a sylwid arnynt o'r traed i'r coryn gan wyr, gwragedd, a phlant, ond yn unig na edrychient eu danedd. Parheid i ymddwyn felly tuag atynt, hyd nes y cyrhaeddasant Independence, yn swydd Jackson, pryd y cawsant eu dangos drachefu dros yr holl dref. Wedi hyny, gosodwyd hwynt mewn hen goetty dan warchad, lle y gorfuwyd hwy i aros dros y nos a'r dydd canlynol. Ar ol bod yn y dref oddeutu pedwar diwrnod, daeth cenad oddiwrth y Cadfridog Clark i'w gorchymyn yn ol i Richmond, swydd Ray, lle yr oedd efe a'i fyddin wedi gyrhaedd i'w dysgwyl hwy yno; ond ar y boreu yr oeddylt i gychwyn, dywedodd y Cadfridog Wilson wrth y carcharorion bod y milwyr yn dysgwyl y caent eu crogi ar y ffordd, oni bai fod y cadfridog arall am gael y pleser. Cyrhaeddasant Richmond ar y 9fed o Tachwedd, lle y sicrhawyd hwy eilwaith mewn hen goetty. Yn mhen hanner awr, daeth dyn i mewn a chadwyni a chloion ganddo, a dywedodd ei fod ef wedi ei awdurdodi i'w gosod mewn rhwymau. Yr oedd y milwyr yn annelu eu drylliau tuag atynt, tra yr oedd y dyn yn sicrlau y cadwynau am danynt. Mewn ychydig fynyddau, daeth y Cadfridog Clark i mewn, a gofynnodd y carcharorion iddo pa beth oedd y mater eu bod yn cael eu trin felly; eithr ni roddodd un ateb, ond dywedodd y caent wybod mewn ychydig ddyddiau. Pan oeddent yn parhau yn y sefyllfa hon, daeth dyn ieuanc o'r enw Grant i ymweled â hwynt, yr hwn a'u hysbysodd iddo ef weled y Cadfridog Clark yn dewis ei ddynion i'w saethu ar foreu dydd Llun; gwelodd hwynt hefyd yn llwytho eu drylliau â dwy belen i bob un, ac wedi darfod anerchodd y cadfridog hwynt fel hyn:—"Foneddigion, cewch yr anrhydedd o saethu blaenoriaid y Mormoniaid am wyth o'r gloch boreu dydd Llun!" Ond trwy rywbeth neu gilydd, ni feiddicdd y cadfridog ddwyn ei amcan i ben; ac o ganlyniad anfonodd i Fort Leavenworth am y cyfraith-lyfr milwraidd, i gael gwybod a oedd pregethwyr, y rhai ni fuont erioed yn gwasanaethu fel milwyr, yn dyfod o dan ei gosp ef; a threuliodd wythnos i'w chwilio: efelly, pasiodd y dydd Llun heb eu saethu. Yr oedd yn rhyfedd fod dyn fel y cadfridog heb wybod yn well. Beth bynag, wedi iddo gael allan nad oeddylt hwy o fewn ei gylch i gopsi, daeth i'r coetty at y carcharorion, a dywedodd ei fod ef yn penderfynu eu cyflwyno drosodd i'r awdurdodau gwladol, fel personau yn euog o fradwriaeth, llofruddiaeth, a rhyw gryn lawer o bethau. Yn ganlynol, cyflwynwyd hwynt i'r awdurdodau honedig hyny; a boreu dranoeth, tynwyd hwy o'u rhwymau, ac arweinwyd hwynt i'r llys. Austin A. King oedd y barnwr, ac un Mr. Birch yn gyfreithiwr yr adran, sef y ddau foneddig ag oedd yn eistedd yn y llys milwraidd yn flaenorol, pan y dedfrydwyd y carcharorion i gael eu saethu. Parhawyd i eistedd yn y llys hwn dros bedwar diwrnod ar ddeg, mewn rhyw ddull, ac y mae'r dariuniad a rodda ein tyst o'i ddygiad yn mlaen yn warth i wlad ag sydd yn ymffrostio cymmaint yn ei rhyddid a'i Christionogrwydd.—(*Tw barhau.*)

## ADOLYGIAD.

SYLWEDD PREGETH AR Y GWYRTHIAU, *er mwyn goleuo y Cyffredin, a dangos Twyll y Creaduriaid a alwant eu hunain yn "Seintiau y Dyddiau Diweddfaf."* Gan W. R. DAVIES, Dowlais.

[PARHAD O DUD. 109.]

Os ydyw ein bod ni heb iachâu y neb a fynwch chwi, i foddio eich haeriadau gwawdus, yn profi nad oes arwyddion yn canlyn y rhai a gredant yr efengyl a bregethwn ni, rhaid fod gadawiad Paul o Trophimus yn glaf, a Timotheus dan ei fynych wendid, yn profi nad oedd arwyddion yn ei ganlyn yntau. Rhyfedd, Syr, na fuasech yn dcall y drefn apostolaidd yn well na hyna, cyn meiddio dringo i bwlpudd crioed i'w chynyg i ereill! Nage; Duw sy'n cyfranu y bendithion fel y myno ef ei hun; ac y mae eich testun chwithau yn dweyd hyny yn eich gwyneb, pe mynech ei glywed. Darllenwch yr unfed adnod ar ddeg etto, Syr, o'r benod a ddirydwch, sef 1 Cor. xii—"A'r holl bethau hyn [sef y doniau] y mae yr un a'r unrhyw Ysbryd yn eu gweithredu, gan ranu i bob un o'r neilldu [o'r saint] megys y mae cfe [Ysbryd Duw] yn ewyllsio." Nid fel yr ewyllsiwch chwi. Yna darllenwch adn. 30, a thewch â'ch gofyn arwyddion, rhag cywilydd. "A oes gan bawb ddoniau iachâu? A yw pawb yn llefaru â thafodau? A yw pawb yn cyfieithu?" Ai tybied eich bod chwi mor ffol, mewn difrif, Mr. Davies, â chredu fod neb yn honi gallu i wneyd un o'r pethau hyn, ond yn y modd, yr amser, ac fel y gwna i Duw trwyddynt? Os nad ydych, paham y dangoswch eich hun yn ffolach etto drwy ein herio ni i'w gwneyd pan fynoch chwi? Nage, Syr; canlyn credinwyr y mae yr arwyddion, ac nid rhagflaenu eu gwadwyr, fel y dywed eu rhoddwr yn Marc xvi, 17, 18. Nid ydynt gyda chwi, canys addefwch hyny, a gwadwch eu bodoliaeth, ac etto haerwch eich bod yn gredadyn! Pa fodd y dichon hyny fod, heb i chwi wneyd Mab Duw yn gelwyddog? Cofiwch mai i'r "rhai a gredant" yr oeddynt yn addawedig, ac nid i'r apostolion yn unig. Nid yw eich holl wawd a difenwi ar gost cloffi y druan dlawd dan sylw, namyn gwawd cynhwysiadol at Paul, ie, at Fab Duw ei hun. Ac wedi y gwnclo Duw gyfranu bendithion iachael i'r saint yma, pwy ond chwydychwi yw y cyntaf a'r uchaf eich cloch yn gwaeddi "twyll, twyll," gan gam-ddarlunio y cyfan yn hollol yn y *Bedyddiwr*, ac ar yr un anadliad yn gwaeddi "gwyrthi, gwnewch wyrth." Cofiwch y defnydd a wnaed o'r wyrth amlwg hono, sef iachâu esgryn toredig coes William Hughes, nes iddo rodio yn y fan y rhoddwyd dwylaw arno; ie, cofiwch lawer o bethau a wnaed yn ein plith ni, Syr, a chofiwch roi y gogoniant i Dduw, canys efe yn unig sy'n deilwng o hyny. Ni allodd neb o weision Duw arferyd un o'r doniau ond fel y cynhyrfid hwy gan yr Ysbryd Glân. Eu dyledswydd hwy yw gweinyddu yr ordinhad osodedig, sef eneinio ag olew, ac arddodi dwylaw, a hyny ar ddymuniaid y claf. "Galwed [y claf] ato henuriaid yr eglwys." Ai tybied y galwent hwynt heb fod ganddynt ffydd yr iacheid hwynt? Paham y gwawdia y pregethwr ni am ofyn ffydd, ynte? Ni ddichon efe ddangos un addewid yn ngair Duw, fod neb i dderbyn iachâd drwy y moddion hyn ond y saint. Nid yw yr esiamplau o fod rhai wedi eithrio oddiwrth y rheol, trwy fod Ysbryd

Duw yn eu cynhell er ei ogoniant ef, yn cynnwys un gorchymyn i neb arall wneuthur felly, nes y caffont hwythau yr un cynhelliad, canys gan Dduw yn unig y mae hawl i eithrio; ond am ei weision, rhaid iddynt hwy droedio yn ol y rheolau gosodedig. Addefa Mr. Davies fod iachâu cyriff dynion yn wyrth, ac onid yw iachâu eneidiau dynion yn fwy gwyrth, Syr? Gwyrth, meddwch chwi, yw pob peth sydd "goruwch irefn natur." A fyddwch chwi byth yn gweddio am ddim, Mr. Davies? Wel ynte, os cewch ateb mewn dim, dyna wyrth, yn ol eich rhesymeg eich hun. A ydych yn gweddio am Ysbryd Duw? Rhaid eich bod yn gweddio am wyrth, neu addef mai yn unol â threfn natur eich atebir. Onid chwychwi sy'n gwaeddi, nerth eich pen, ar i Dduw achub eich gwrandawwyr, ac yn addef y byddai hyny yn wyrth; ond, ar yr un llef, o'r un pwlpudd, ac uwchben yr un bobl, yn gwaeddi fod "gwyrthiau wedi darfod, ac nad oes eu heisien," gan ddfenwi y rhai a'u proffesant yn "Sataniaid," &c.

Onid oes cisieu hwrw allan gythreuliaid yn awr? Atebed griddfanau y miloedd sydd yn adleisio yn muriau yr holl *Lunatic Asylums* drwy y wlad. Onid oes cisieu iachâu y cleifion yn awr? Bydded holl dctoriaid y wlad yn dystion i'ch crbyn. Onid oes ar y saint, trwy'r byd, cisieu eu perffeithio yn awr? Pa fodd y gallwch chwi ddweyd nad oes eisieu y moddion gosodedig i hyny yn awr, na ffydd yn yr ymarferiad o honynt? Beth yw eich sail i'r fath haeriadau?

Wedi gwastrafu amryw dudalenau i geisio profi beth yw gwyrth, trwy groesi ei hun, a dyfynu gwaith ereill ag sydd yn croesi eu gilydd, gwna Mr. Davies ei ddychymmygion ei hun yn rheol i brofi gwyrth. Pa fodd y dichon y naill beth, sydd yn effaith o achos, fod yn wyrth, a'r effaith o ryw achos arall ddim yn wyrth? A ydyw yn wyrth gweled dyn yn derbyn iechyd drwy ymarferiad â'r moddion apwyntiedig i hyny? Ac nid ydyw gweled ffurwythau yn tyfu ar brenau yn wyrth. Onid yw y naill drwy eu ffydd yn dysgwyl y fendith, oherwydd cyssylltiad yr addewid â'u hufydd-dod, fel y dysgwylia y llall gael ei wenith yn ol yn y cynauaf, a hauodd efe drwy ei ffydd? Ac onid Duw sy'n rhoddi y cynnydd ar y naill a'r llall, yn ol ei addewid? O na, nid ydyw yr Anianyddwr ei hun yn croesi ei ddeddfau gosodedig, Mr. Davies. Onid oedd efe wedi addaw y caffent iechyd y ffordd hono? Yna, y mae yn debyg i wyrth eich gweled chwi yn gwawdio y moddion hyny, ac etto yn ceisio y fendith drwy eich cyfundrefn Ddafisyddol, heb y moddion na ffydd. Oni addefasoch fod gwyrth yn weithred? Os felly, nid yw goruwch dealltwriaeth y gweithredwr, onide damwain a fyddai; canys diflana y wyrth ar ol y cynnydda dealltwriaeth y cyfryw. *Wel done*, Mr. Davies. Ond wedi gweled fod hyny yn croesi ei Ddafisyddiaeth, neidia i'r bwlech i'w hamddiffyn hithau hefyd, trwy ein cyfeirio at Joshua yn gorchymyn i'r haul sefyll. Ai tybied mai ar antur y dywedai Joshua hyny, heb ddeall dim am y cyssylltiad, na'r effaith a ddygid? Onid am hyny y gweddiai Josua? Wel, dyma hi o chwith yn hollol etto; canys, yn ol rhesymeg Mr. Davies, y mae yn rhaid fod pob un a wnelo wyrth yn hollol ddiffydd yn y weithred, fel ei geilw, oherwydd ni ddichon fod ffydd yn yr hyn y byddent yn hollol anwybodus am dano! Dywed Paul yn Heb. xi, 1—"Ffydd yn wir yw sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio, a sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled." Pe darllenasech adn. 30, gwelsech mai "trwy ffydd y syrthiodd caerau Jerico." Ac onid drwy



ffydd y gorchymynodd efe i'r haul sefyll, Mr. Davies? A oedd ganddo ffydd yn yr hun ni ddeallai o'i herwydd? Rhyfedd fel yr ydych yn eich taro eich hun i lawr bob ergyd! 'Darllenwch y bennod hon, Mr. Davies, ynghyd â llawer o fanau ereill yn eich Bibl, a gwelwch mai trwy ffydd y gwneid gwyrthiau. "Trwy ffydd y goresgynasant deyrnasoedd, a gauasant safnau llewod, a ddiffoddasant angerdd y tân, a thrwy ffydd y derbynai y gwragedd eu meirw," &c. Ac etto, mynweh chwi gael y meirw yn fyw, y cloffion i rodio, a'r deillion i weled, erbyn eu gwaethaf, ffydd neu beidio!! Onid "gweddi y ffydd a iachâ y claf?" Onid "heb ffydd annhosibl yw rhyngu bodd Duw?" Ac a wna efe wyrth iddynt o'i anfodd? "Yr Arglwydd a'i cyfyd ef i fyny," medd y Bibl. Nage, medd Mr. Davies, rhaid i ni wneyd hyny erbyn eu gwaethaf, onide profir ni yn dwyllwyr. Wel, gofynwn gwestiwn i'r ynyd yn ol ei ynydrwydd, rhag iddo ymfrostio yn ei olwg ei hun. Paham na ofodech chwi holl anghredinwyr Dowlais i gredu Dafsyddiaeth, Syr? "O, pregethu yw'r moddion a drefnodd Duw i ddwyn dynion i gredu," ebe efe. Paham hyny? "Oberwydd fod ffydd yn dyfod trwy glywed," ebe efe. Felly yn siwr; y mae ffydd yn ofynol er dyfod yn blant i Dduw, ynte, a hyny trwy glywed. O'r goreu, dyna a ddywedwn ninnau; ond gofynwn etto, Onid yw ffydd yn ofynol er derbyn bendithion, neu "fara y plant," ynte? Os felly, paham y dywedwch nad yw dweyd hyny "ond cuddio twyll?" Ac onid yw eich twyll chwi yn amlwg iawn, trwy eich bod yn honi bod yn weinidog yr efengyl, ac yn ei gwadu fel hyn? Dywedwch "fod honi parhad gwyrthiau yn profi anghrediniaeth, calon galedwch, ac anffyddiaeth dynion drwg." Ac etto, profwch ni yn gyfryw, ie, yn "Sataniaid," o eisieu na byddai hyd y nod ein cysgod, ein dillad, &c., yn gwneuthur gwyrthiau yn marchnadoedd Merthyr, a phob amser y mynweh chwi, a hyny i gyd er profi i chwi ein bod yr hun y dywedwch chwi ein bod eisoes! Onid ydych yn sicrhau i'r byd, er's blynyddau, mai dynion cythreulig, &c., ydym? Rhaid eich bod yn eich ammau eich hun, Syr! A gredech chwi ein bod yn weision i Dduw wedi cael gweled gwyrth? Os gwnaech, byddai hyny yn profi nad ydych chwi yn was i Dduw yn awr. Pwy a welodd was i Dduw yn gofyn arwydd gan y rhai a eilw efe yn weision y diafol? Dan addef y byddai y rhai hyny yn gwneuthur gwyrthian hefyd, ac ar yr un addefiad yn dweyd mai dynia "eithafion rhyfyg, na all y diafol wneyd dyn yn fwy cythreulig ac uffernol" na hyny? Onid ydych yn tebygu i'r hen Saul yn hyn? Ac ofni yr ydym y byddai eich atebiad a'ch diwedd chwi yn gyffelyb i'r eiddo yntau.

Yn nhud. 18, haera Mr. Davies mai er cadarnhau cristonogaeth y gwnaed gwyrthiau gynt, a bod honi eu parhad yn taslu dirmyg ar y rhai hyny. Ni wyddis pa un ai William, ai Richards, ai Davies, sydd yn haeru hyn; canys haerau na o honynt, er's ychydig yn ol, mai "er adeiladaeth yr eglwys" yr oeddynt; ac o ganlyniad, yr oedd y rhai hyny wedi credu ac ufyddhau i'r efengyl cyn y gallent fod yn yr eglwys. Wedi hyny, clywn rhyw un yn haeru mai dyben gwyrth oedd profi anfoniad personau. O'r goreu, Mr. Davies, dyna chwi yn eich magl eich hun etto, canys ni choelia neb rhesymol eich bod chwi yn anfonedig, oddieithr i chwi brofi hyny trwy eich gwyrthiau! Onid yw hyna yn ddigon teg i chwi, Syr? Ac onid ydych yn foddlon i gael eich pwyso yn eich clorian eich hun? Wel, peidiwch â phroffesu bod yn anfonedig

oddiwrth Dduw, ynte, nes y gwnelech ryw wyrth fechan ar hyd heolydd Dowlais, neu farchnadoedd Merthyr; ie, pe bai ddim ond yfed gwyrtaid o wenwyn, fel y ceisiech gan W. Henshaw wneyd. Pe buasech chwi yn was i Dduw, yn ol eich rhesymeg, dylasech fod wedi iachâu "Magws fach," fel ei galwch: cawsoch gryn amser, a bu hi yn dilyn eich enwad chwi am oddeutu deugain mlynedd, a chwi yn was i Dduw, ac heb weinyddu y moddion iechyd iddi erioed, nac hyd y nod weddio am iddi gael iachâd; canys gweddio am wyrth a fuasai hyny, bid siwr. Chwychwi yn ceisio gan bobl gredu eich bod yn anfonedig i bregethu, dan wawdio a diddymu yr ordinhadau a weinyddai anfonedigion Duw yn y cynoesoedd, aie, a dim cymmaint ag un wyrth er profi hyny ychwaith! Dylech chwi alw eich haeriadau yn ol, neu alw yr araeth genadol a draddodasoch yn ddiweddar, yn ol; canys pa fodd y gall eich cenadon chwi gadarnhau eich efengyl chwi yn mhlith y paganiaid, heb ddangos profion gwyrthiol o'u danfoniad, mwy nag y gallai yr apostolion? Ai dysgwyl i'r paganiaid adael crefyddau eu hynafiaid, y rhai a roisant eu bywydau drostynt, a wnewch, trwy ddim ond haeriadau rhyw ddycithr-ddyn o wlad bell? Pa fodd y cynnygiwch y Testament Newydd yn rheol iddynt, a hwnw yn tystio yn eich erbyn, gan addaw doniau yr Ysbryd Glân i'r rhai a'i credant, a chwithau yn eu gwadu? Onid gwaith ofer yw rhyw bethau fel hyn? Ond am y Saint, nid oes eisieu iddynt hwy brofi eu hanfoniad, canys y maent yn pregethu yr efengyl a bregethodd Crist a'i apostolion, yn ol yr ysgrythyrau; ac felly, prawf ein Duw ein danfoniad ni yn anwadaf, trwy gyfranu y doniau ysbrydol, &c., yn ol ei addewid, er adeiladaeth y saint. Ond etto, dymunwn wybod pwy a'ch danfonodd chwi i bregethu rhyw efengyl arall, heb fod yn seiliedig yn y Bibl.

Yn nesaf, dywed—"Mae honi parhad y gwyrthiau yn dyfetha ac yn dystrywio y prawf gwyrthiol am byth, trwy eu gwneyd yn bethau cyffredin." Dyma hi ar ben yn awr! Os felly, yr oedd gwyrthiau Elias yn dystrywio rhai blaenorol Moses; yr oedd y gwyrthiau diweddarach yn bychanu y lleill a wnelid. O ddilyn y resymeg hon, casglwn mai y wyrth fwyaf oedd y gyntaf a wnaed erioed! Ac mai gwyrth gyntaf Crist oedd y fwyaf a wnaeth, a'r lleill yn lleihau o hyd, yn ol eu lliosogrwydd! Pwy a addefodd mai y wyrth olaf a wnaeth, sef adgyfodiad Iesu Grist, oedd y fwyaf? Yn ol Mr. Davies, buasai Crist yn profi ei ddanfoniad trwy beidio gwneyd un wyrth, rhag ofn iddo fychanu gwyrthiau y cynoesoedd, pa rai oeddynt wedi bod yn gyffredin am bedair mil o flynyddau, mwy neu lai. Gresyn fod yr apostolion wedi gwneyd cynnifer o wyrthiau nerthol yn enw Iesu, pan, yn ol Mr. Davies, y mae tueddiad yn mhob un o honynt i fychanu y rhai a wnaeth ef ei hun, trwy eu gwneuthur yn bethau cyffredin. Dyma ffordd ryfedd oedd gan Dduw—yn *bychanu* yn lle *gogoneddu* enw ei fab Iesu! Barned y byd, a'ch cyfeillion, a ydych yn eich pwyll! Onid yr un peth a fuasai i chwi haeru mai afal oedd y ffrwyth a dyfai ar y cyfryw bren er's oesoedd yn ol, ond gan ei fod yn gyffredin erbyn hyn, nad afal ydyw? Wele enghraifft o *logic* gystrawenol Mr. Davies, a gadawn i'r darlennydd ffyrio arni. "Gofyn paham na ddygwyddai gwyrthiau yn feunyddiol, yw gofyn, Paham na pheidiai gwyrthiau â bod yn wyrthiau!"

[I'w barhau,]

## Y GYMDEITHAS FARSIANDIOL.

Y MAE yn ddywenydd mawr genym hysbysu ewyllyswyr da y Gymdeithas arddêrhog hon am ei llwyddiant rhyfeddol eisoes. Mae yr holl ranau a ganiateir eu gwerthu (sef deng mil) wedi eu cymmeryd i fyny, ac ymfyniad am amryw filoedd yn ychwaneg. Bwriada y pwyllgor o gyfarwyddwyr, pan ddel y Senedd nesaf ynghyd, i gynnyddu rhifedi y rhanau i ugain niil, a'u bunt yr un, fel o'r blaen. Caniata y rhicolau amser rhesymol i'r aelodau dalu am eu rhanau, ond dymunir ar bawb ymdrechu talu y cyfan mor fuan ag y gallant, a goreu po gyntaf er eu lles eu hunain.

Efallai na byddai ychydig sylwadau ar natur a dybenion y Gymdeithas hon yn anfuiddiol i'n darllenwyr, yn gymmaint â bod rhai wedi camgymmeryd ei dybenion. Y mae yn wir fod ein beirniaid yn barod i bigo gwallau pan soniwn air am ddim ag y mae arian mewn perthynas ag ef. Nid oes achos rhyfeddu am hyn ychwaith, pan y maent mor awyddus i brophwydo drwg am bob peth a wneloni. Y maent wedi bod yn son llawer yn yr America ein bod yn cydfwynhau ein meddiannau yn gyffredinol, ac y dysgwylir i'r rhai a ymunant â'n heglwys ni, roddi eu meddiannau i'r Gymdeithas, &c. Ond yr ydym yn tystio yn ddifrifol mai anwiredd hollol yw hyn. Nid yw ein heglwys ni yn gofyn nac yn cymmeradwyo dim o'r fath beth, ac ni ellir dwyn un enghraifft fod neb o honom wedi gwneyd felly yn un parth o'r byd; ond, o'r ochr arall, y mae pob un yn dal pob hawl ar ei eiddo ei hun, dau bob anigylchiad, fel o'r blaen, yn y wlad hon, a'r America hefyd; ac y mae gan bawb ryddach ewyllys i gyfranu i'r tylodion, a phob achosion daionus ereill, gyda ni, nag a ganiateir gydag un enwad a adwaenom. Yr oedd ein blaenoriaid ni yn yr America mor bell o fod yn cymmeryd eiddo ereill, fel nad oeddynt yn cael dim at eu cynnalïaeth oddiwrt h yr eglwys, ond pob un yn gweithio â'i ddwyllaw, neu yn masgnachu, fel dynion ereill, er eu cynnalïaeth; felly yr oedd hyd y nod Joseph Smith hefyd. Y fusness hōno o ddala pob peth yn gyffredin, a berthyna i'r *Oweniaid*, a'r *Shaking Quakers*, ond nid i ni erioed.

Meddylia rhai fod y Gymdeithas Farsiandioli hon mewn cyssylltiad â'n heglwys ni. Ond camgymmeriad yw hyn y hefyd; canys nid yw mewn un math o gyssylltiad â'r eglwys, fel y gwelir pan ystyrir fod y Gymdeithas wedi ei rheoleiddio yn ol cyfreithiau Prydain, wedi ei chofrestru yn rheolaidd yn y *Chancery* yn ol *Act of Parliament*, fel cymdeithasau masgnachol ereill, ac wedi sefydlu iddi swyddwyr, a phwyllgor o gyfarwyddwyr, pa rai ydynt o dan feichuiaid i wneuthur cyfiawnder â phob aelod, yn ol cyfraith y wlad; a gall pob un gael ei amddiffyn gan y gyfraith hono, fel na allant wneyd anghyfiawnder ag un o'r aelodau. Ac heblaw hyn, y mae rhai miloedd o ranau wedi eu prynu gan foneddigion nad ydynt yn ein heglwys ni.

Nid Cymdeithas ymfudawl yw hon ychwaith, fel y tybia ereill, er eu cynnorthwyo i fyned dros y môr pan ewyllysiant. Ond un o ddybenion y Gymdeithas hon ydyw masgnachu gyda'r *capital*, fel y caffo yr aelodau yr ennill yn llog am eu harian. Trwy undeb galluogir ni i wneuthur hyn yn fwy eunillgar o lawer nag un ffordd arall; etto, y

mae llywyddion y Gymdeithas yn ddynion profedig yn yr eglwys er's blynyddau. Dyben a all sydd mewn golwg gan y Gymdeithas ydyw, tra yn dwyn elw i'r aelodau, cynnorthwyo er darparu moddion i dros-glywddo y Saint a ewyllysiant fyned drosodd. Dyhen arall ydyw masgnachu gyda'r rhai sydd eisoes wedi myned drosodd tua California. Bwriedir anfon y llong newydd a rhagorol, sef "*Zion's Hope*," ar draul y Gymdeithas, gyda llwyth o bob math o nwyddau masgnachol a chelfyddydol, o Liverpool tua California, yn mis Tachwedd, i gyfarfod ein brodyr alltudiedig, fel y gallont lafurio y ddaear yn y wlad odidog hono, a chodi ymborth iddynt eu hunain, ac i'r rhai a ddeuant yno atynt. Bwriedir cario yn mlach yno weithfau o bob natur, ag a feddylir yn fanteisiol i'r Gymdeithas; a daw y llongau â'u cynnyreh yn ol i Loegr, a manau ereill.

Efallai fod y tylawd yn barod i ofyn, Pa lesâd a ddichon y fath Gymdeithas ei ddwyn iddo ef? Atebwn, mai llawer, mewn llawer ffordd. Yn gyntaf, trwy ei alluogi i gasglu gyda phlant Duw i'r man lle yr addawodd Duw waredigaeth iddynt, pan dywalltai efe ei bliâu a'i farnedigaethau dinystriol ar yr annuwiolion ag sydd yn trigo yn Babilon fawr. Pa fodd felly, medd yr aelod wed'yn, ai ar gost ein Cymdeithas ni? Nage, gyfaill; nid ar draul neb arall o'nd ei hunan, a hynny trwy dalu cost ei gludiad i'r Gymdeithas, efallai wedi cyrhaedd drosodd yno, yr hyn ni all dyn o deulu mawr ei wneyd yn hawdd yn y wlad hon, lle y mae cyflogau yn isel, a lluniaeth yn uchel. Nid wyf yn meddwl fod neb o'r Saint a ewyllysiat adael brawd a chwaer ar ol dan ddialedd Duw yn mhlith eu gelynion, oherwydd eu tylodi; etto, beth a wnant, os na threfna Duw ryw ffordd o waredigaeth? Wel, y mae Duw eisoes wedi agor y ffordd o'u blaen trwy y Gymdeithas ddaionus hon, ond iddynt wneyd a allant, a bydd hynny yn elw i'r Gymdeithas hefyd.

Pe bai rhai o'r Saint tylodion yn myned at rai o'r marsiandwyr hynny sydd wedi eu cyfoethogi ar arian y Saint, ac yn gofyn iddynt eu cynnorthwyo i fyned drosodd yn eu llongau, beth a ddywedid wrthynt, tybied? Meddylieim eu elywed naill ai yn chwertlin am eu penau, neu yn dweyd eu bod yn ynfydu. Wrth hyn, ynte, y gwelir defnyddioldeb y Gymdeithas hon yn y peth hyn; ac ymdrechhed hyd y nod y tylodion o'i phlaid, eanys y mae eu gwaredigaeth dymhorol yn ymddibynu ar ei llwyddiant.

Ymddengys y Gymdeithas hon hefyd yn ddefnyddiol iawn i'r Saint hefyd, wrth ystyried y galluoga hwynt, trwy eu eydweithrediad, i gael siopau, *manufactories*, a phob peth a fydd arnynt eisieu yn eu plith eu hunain yno, yn lle parhau i fod, fel y maent wedi bod drwy'r blynyddoedd, yn cyfoethogi estroniaid, y rhai a ddeuent â'u nwyfau drudfawr i'w plith, ac wedi cael eu harian a droent yn fradwyr creulon ac erlidgar iddynt. Y mae y Saint yn Missouri, ac yn Illinois, wedi bod dan anfanteision mawr o herwydd pethau felly, ac y mae yn bryd iddynt, bellach, swynhau ffrwyth eu llafur caled yn eu plith eu hunain, a chynnorthwyo y naill y llall yn y wlad hono, gan fod yn eu plith ddynion medrus at bob busnes, ac yn awyddus i lesoli pawb, yn enwedig teulu y ffydd.

Gwel y Saint eu dyledswydd a'u braint i dalu am eu rhanau mor

fuan ag y byddo modd, wrth ystyried y gost fawr sydd i brynu llong newydd, ei darparu hi a'i llwyth o'r farsiandiaeth fwyaf addas ac ennillgar yn y parthau hyny o Ddeheudir America y troant iddynt ar y ffordd, fel na raid ond yn unig eu hysbysu y bwriedir talu am y llong hon o hyn i'r gwyliâu nesaf.

Gofaled y llywyddion dros y gwahanol adranau yn Nghymru, gadw eu cyrddau i'r perwyl hyny mor gysson ag y gallant, a danfon yr hyn a delir i'r Trysorydd, W. Phillips, Merthyr, uor fuan ag y gellir ar ol pob cwrdd, fel y gallo yntau eu hanfon gyda eu gilydd i'r prif drysorwyr yn Liverpool yn ddioed.

Gofaled pob aelod am gael *ticket* gan yr ysgrifenydd, yn dangos yr hyn a dalo i'r trysorydd, a chadwer hwynt yn ofalus nes y byddant wedi gorphen talu eu rhan, ac yna cânt *deed* o'u rhan neu eu rhanau, yn unol â chyfraith y wlad, fel pan yn prynu tir, neu ryw eiddo arall, yr hyn a allant werthu i arall os cwyllysiant. Dymunol iawn fyddai i bawb ymdrechu talu ei ranau yn llawn cyn yr ymfudant i'r America, a chael ei gweithredoedd hefyd, ac wedi hyny nid yw eu cartrefle yn effeithio ar eu cyssylltiad â'r Gymdeithas mewn un modd, ond cael gwybod pa le y byddant.

Dysgwylir i'r ysgrifenyddion a phob trysorydd, yn gystal â'r aelodau, gadw eu cyfrifon yn fanwl ac eglur: canys rhaid i'r llywyddion a'r pwyllgor fyned â chopi o'u holl gyfrifon, pa faint o arian a dderhyniasant, a dalasant, a pha fodd, ynghyd â desgrifiad cywir o sefyllfa y Gymdeithas, bob cwrdd blynyddol i'r *Chancery*, yn mha le ni chaniateir dim cyfrifon ond a gydunant â'r *tickets*, wedi eu llaw-arwyddo gan y gwahanol swyddwyr: ac er nad ydym ni yn derbyn, yn talu, nae yn *handlo* un geiniog o arian y Gymdeithas mewn un dull na modd, etto dymunem weled y swyddwyr yn gwneyd pob peth yn rheolaidd, fel na byddo cam-ddeall mewn perthynas i'r Gymdeithas, ond y byddo yn llwyddo i ennill yr ymddiried a'r gefnogaeth a deil-ynga gau bawb.

D.S. Y mae ychwaneg o'r *printed receipts* i'w cael gan William Phillips, Merthyr. Gellir cael copïau o'r *Deed of Settlement* hefyd, yn Saesneg, am 4c. yr un.

---

## CENADIAETH AMERICANAIDD I FRYDAIN.

Bydd yn llawen gan y Saint i glywed am ddyfodiad tri o'r deuddeg Apostol, sef Orson Hyde, Parley P. Pratt, a John Taylor, drosodd i Loegr unwaith yn rhagor. Y maent mewn cyflawn iechyd, ac wedi eu hamdoi ag ysbyrd tanbaid eu swyddi uchel. Bydd yn fwy llawenydd etto, debygwn, yn enwedig i'r Cymry, glywed fod y ddau olaf wedi addaw talu ymweliad â'u brodyr a'u chwiorydd yn Nghymru cyn hir; efallai y deuant i Ferthyr cyn y Nadolig nesaf, ond rhoddir gwybodaeth etto. Gadawodd y brodyr ffyddlon hyn eu gwragedd a'u plant, a'r oll a feddent, yn ngwersyll blaenaf y Saint yn yr anialweh, a dychwelasant drwy lawer o beryglon ac anhawsderau ar fôr a thir, i wasanaethu yr eglwys yn Mhrydain; ac i hysbysu a threfnu materion pwysig, ar ba rai y mae llwyddiant, undeb, perffeithiad, a gwared-

igaeth yr holl Saint, i raddau helaeth, yn dibynnu. Mae eu hunanymwadiad, eu ffyddlondeb, a'u diwydrwydd digyffelyb, yn dystion amlwg o'u cariad at y Saint, ac o'u hawydd mawr i'w llesoli. Ni raid hysbysu fod cost y brodyr hyn wedi, ac yn parhau i fod, yn fawr iawn, canys gwelir hyny yn amlwg. \*Dymunem i'r Saint ddeall hefyd, mai dynion yw y rhai hyn sydd yn byw, ac yn dyfod o eithafion y gorllewin pell ar eu cost eu hunain. Nid oes na tholl, na threth, nac un ffordd arall er talu y costau, ond yr hyn a gyfrana y Saint o ewyllys rydd. Yr ydym yn dystion fod y bobl hyn ar hyd y blynyddoedd, yn gweithio â'u dwylaw er cynnal eu hunain a'u teuluoedd, gan aberthu yr hyn a allent o'u hamser i waith y weinidogaeth, a'u bod yn ddiweddaf oll wedi cael eu hamddifadu o'r oll a feddent oherwydd eu crefydd; ond, er y cyfan, gwelir eu bod yn benderfynol, fel bugeiliaid da, i borthi y praidd â didwyll laeth y gair—*ie*, i roddi eu bywydau i lawr dros braidd eu Bugail Mawr, yn hytrach na'u gadael yn ysglyfaeth i'r bleiddiaid. Gobeithiwn, ynte, y dengys y Saint yn Nghymru eu bod yn deilwng o wasanaeth y fath ddynion, drwy ymbarotoi i gyfranu o'u heiddo, hyd eithaf eu gallu, yn ol fel y mae Duw wedi eu llwyddo, i dalu costau a diwallu anghenrheidiau y brodyr hyn, pan y deuant i'n plith. Meddyliwn na raid ond coffâu y Saint am hyn, y bydd eu llygaid yn agored yn y fan, i weled yr anghenrheidrwydd o hono—ein dyledswydd i wneyd yr hyn a allwn iddynt, a'r fraint fawr o gael cyfranu i'r rhai y gwyddom yn dda ddigon eu bod yn weision i'r Duw byw, yn genadon heddwch, yn anfonedigion y Brenin i gasglu ei blant i "swper neithior yr Oen," i gael etifeddu gwynfyd, derchafiad, a gogoniant tragwyddol, pan ddel teyrnas Dduw yn ei nerth a'i godidogrwydd haufodol. Na feddylied neb yn ormod, ynte, i gyfranu o'u pethau tymmorol i'r rhai sydd yn dwyn iddynt gyflawnder bendithion efengyl y tanguefedd. Gadawodd y brodyr hyn wersyll y Saint yn mhlith yr Indiaid, yn agos i'r Council Bluffs, tuhwnt i ororau y bobl wynion, rai cannoedd o filltiroedd. Gwersyllant yno i auafu. Maent yn trigo mewn pebyll, yn cyneuafu gwair i'w hanifeiliaid, ac yn hela bwyd iddynt eu hunain dros y gauaf, megys cig ych gwyllt, carw (*elk*), &c. Y mae ganddynt yn y gwersyll dros hanner cant o filoedd o anifeiliaid corniog, heblaw ceffylau, mulod, defaid, &c. Y mae yn dda genym glywed fod yr holl Indiaid yn roesawus iawn o honynt—penaethiaid pob llwyth a'r a welsant wedi caniatâu iddynt gyflawn ryddid i feddiannu a thrigo yn heddychlawn yn y lle a ddewisant o'u tiriogaethau hwy, heb arian ac heb bris yn y byd. Dyma wers! Dyma esiamp! o ddyngarwch a thiriondeb ymysgaroedd paganiaid y goedwig, i'r Cristionogion annynol hyny a yspeiliasant y Saint o'u tiroedd, o dalaeth bwy gilydd, am yn agos i ugain mlynedd, *ie*, wedi iddynt ei brynu a thalu eu harian i'r llywodraeth am dano!! Nid rhyfedd fod yr Indiaid yn gwrthod y crefyddau hyny sydd yn achosi y fath effeithiau anghyfiafnawn â hyn. O, Sectariaeth, pa bryd y'th ddigonir ag ysglyfaeth waedlyd? Ond dychwel fy enaid oddiar yr olygfa; melysach yw hanes meibion y goedwig anial, na chlywsant lais turtur Nef, ond llais yr eryr a'r dylluan, pa rai ni throediasant ffordd cenadydd, namyn camrau'r arth a'r cadno. Mae yr Indiaid yn diwallu y Saint â choed

yn rhad, ac yn dymuno arnynt aros yn eu plith i'w dŷsgu mewn celfyddyd, amaethyddiaeth, &c. Mae y Saint yn rhoddi cynydau yn y tir erbyn dyfodiad yr ail wersyll yno i'w fwynhau. Bwriadent godi eu pebyll ac ymlwybro yn mlaen ddechreu yr haf, pan dyfai glaswellt i'r anifeiliaid; a bwriada y tri brawd hyn ddychwelyd yno i gychwyn gyda hwynt y pryd hyny. Gobeithiwn yr ymdrecha pawb eu goreu i gyfranu i'r brodyr uchod, er cynnorthwyo y rhai hyny, druaïn, sydd yn hela eu bwyd beunyddiol yn y goedwig, gan ymddibynu ar Raglunaeth am ddogn dydd yn ei ddydd, fel yr ânt yn mlaen. Y mae eu dysgwyliad atom ni sydd mewn llawnder yn awr, ac y mae eu sefyllfa dosturus yn teilyngu ein cynnorthwy; y mae cyfleusdra yn bresennol, ac efallai mai am y tro diweddaf y ceir cytleusdra, i anfon atynt, gan y byddant tu hwnt i'r mynyddoedd creiglyd yr haf dyfodol. Cyfranu iddynt hwy yw rhoi benthyg i'r Hwn a bia y ddaear a'i chyflawnder, ac efe a dâl yn ol ar ei ganfed: efe a ddywed hefyd, "Yn gymmaint ag i chwi gyfranu i'r rhai hyn fy mrodyr i, yn wir i mi y gwnaethoch." Yr ydym yn bwriadu cynnal cymmanfa yn Merthyr, pan y del y brodyr cyfeiriedig drôsodd, a bydd cyfleusdra y pryd hyny i gyfranu iddynt. Ond y mae P. P. Pratt a J. Taylor wedi deisyf arnom dderbyn drostynt yr hyn a gyfrenir yn flaenorol, a chan na fydd eu harosiad ond byr, a llawer o faterion pwysig yn cymmeryd yr aniser pryd hyny, gwell ydyw i bawb anfon yr hyn a allant i ni yn flaenorol, a chânt ddangoseg am dauynt. Frodyr a chwirydd anwyl, ni fu galwad cyffelyb i hwn arnoch o'r blaen, ac nid yw yn debyg y bydd etto; yna ymegniwch am unwaith i'w helpu hwy yn awr, a hwýthau a'u talant yn ol, drwy ddarparu lleoedd i'n derbyn ninnau i'w trigfanau tragwyddol yno, pan na fydd un ddinas noddfa arall i'w chael rhag llid y gelyn, plâau, heintiau, rhyfeloedd, terfysgoedd cenedloedd, a'r holl farnedigaethau ofnadwy a fwriada Arglwydd yr holl ddaear dywallt yn ei lidiawgrwydd ar holl drigolion anedifeiriol ac erlidgar Babilon fawr, sef "Mam putteiniaid y byd," ynghyd â'i holl dylwyth. Mawr a disymmwth fydd ei chyflafan. "Dinystrydd y cenedloedd" a ddalio ei gleddyf ysgwydedig, mawr a chadarn, yn ei law ei hun, hyd oni byddo yr holl rai gonest eu hegwyddor wedi cael diangfa o'i chanol hi, fel na dderbyniont o'u phlâau. Yn wir, meddaf i chwi, nid â yr oes a'r genedlaeth hon heibio, hyd oni chwblha efe ei waith, ei ddyeithr-waith; efe a'i cwtoga ac a'i gwna yn fyr mewn cyfiawnder. Cofied y Saint hyn, ynte, nad oes i ni yma ddinas barhaus; canys yn mynydd Sion, ac yn Jerusalem yn unig, y bydd gwardigaeth dymorol a thragwyddol.

---

### CYMMANFA MANCHESTER.

Ar ddydd Sadwrn, dydd Sul, a dydd Llun, y 17eg, y 18fed, a'r 19fed o Hydref, cynnaliwyd Cymmanfa gyffredinol yn y dref hon, ar ba achlysur cawsom y pleser mawr o gyfarfod â llawer o'n brodyr anwyl o America, wedi cael eisoes flynnyddoedd rai o'u cwmni, a chael y fraint o gydweithio ag amryw o'honynt yn ngwinllan ein Harglwydd yn y gorllewin pell, dau lawer o wrthwynebiadau. Mawr y llawen-

ydd a lanwai ein mynwes wrth gyfarfod etto, i ryfela yn y wlad hon dan faner yr un Brenin. Mae y brodyr hyn wedi derbyn eu cynnysgaethiad yn nheml Dduw yn Nauvoo cyn cychwyn, ac yn awr ar gehadiaeth i Frydain. Yn eu plith y mae tri o'r apostolion, sef Orson Hyde, P. P. Pratt, a John Taylor.

Dydd Sadwrn, am ddeg, cymmeradwywyd O. Hyde i fod yn llywydd drwy y gymmanfa, yr hwn yn ei wresogrydd a'i hyawdledd arferol a ddechreuodd gan osod materion pwysig y gymmanfa i lawr, a dangos pwysfawrogrwydd y gwaith rhyfeddol mewn llaw, a gorfol-eddu yn fawr ar ei ddychweliad i'r winllan y buasai efe yn offeryn i ddechreu ei phlanu. Pan y daethai efe, a dau neu dri o'i frodyr o'r America yma, er's tua chwe mlynedd yn ol, nid oedd neb yma wedi clywed gair am yr efergyll hon; ond yn awr, er ei syndod, gwelai ei hun wedi ei amgylchu gan Saint cariadus wrth y miloedd, pa rai ydynt yn gwybod yn awr mai gwir oedd eu tystiolaeth hwy ar y dechreu—sef, fod Duw wedi eu danfon yno i bregethu ei efengyl dragywyddol. Diolchai y brawd ffyddlon hwn i Dduw, am iddo gael dyfod unwaith etto i'n plith, a dymunai ar i Dduw fendithio pob un o honom yn ol ei anghen, a'n cadw yn ffyddlon hyd y diwedd.

Dilynwyd ef gan P. P. Pratt, yr hwn a ddywedai fod yr olygfa hardd o'i flaen yn dwyn ei feddwl yn ol at sefydliad yr eglwys yma—y gwrthwynebiadau a gawsai efe yma: y gwynebau siriol a'i hadgoffa i am olygfyddol rhyfeddol a welsai yn y wlad hon, yn yr America, ac ar ei daith i'r analwch gorllewinol; a phan ganfyddai ei hun yn eu plith, drwy y cyfan, yr oedd ei lawenydd yn fwy nag y caniatâi ei deimladau iddo ei ddesgrifio, ond tystiodd yn sobr a dwys am wirionedd y gwaith mawr hwn, ac annogodd bawb i ymadnewyddu fwy-fwy i'w gario yn mlaen. Teimlai fwy o awydd i eistedd i lawr, i syllu yn ngwynebau hoff ei hen frodyr, nag i'w hanerch yn awr, a therfynai drwy fendithio pawb o bob gradd a sefyllfa, o'i Mawrhydi dirion ar ei gorsedd hyd y gwaelaf o'r hil ddynol. Yr oedd ei galon yn gyflawn o fendithion, a dim ond bendithion. Yna galwodd ar D. Jones i anerch y cyfarfod, y byddai yn dra hoff ganddo ef unwaith etto glywed y llais hoff a swniodd yn ei glustiau er's blynyddoedd yn ol. Ymhelaethodd ar ei ffyddlondeb, a'r anwylydeb a feddai ato er ys talm, pan gyd-filwriai ag ef yn yr America.

Yna cododd D. Jones i fyny, a desgrifiodd yr olygfa a'r cwmpeini presennol fel yn annysgwyliadwy iddo ar y pryd, ac fel o'r bron yn rhy dda i fod yn wir. Dywedai am yr amser cyntaf y cyfarfu â Mr. Pratt, pan y cafodd yr anrhydedd o'i gludo ef a'i deulu ynghyd, ac yn agos i drichant o Saint a ddaethant gydag ef o Loegr, i fyny yr afon Mississippi, o St. Louis i Nauvoo, yn ei agerdd-fad. Cofiai yn dda ddigon y ddysgeidiaeth a glywsai ar y pryd; mai dyna yr amser yr agorwyd ei lygaid i weled sefyllfa anfanteistiol ei frodyr a'i chworydd yn Nghynira, ac y cynneuwyd y wreichionen gyntaf o sêl ac awydd yn ei fynwes ef i ymweled â'i wlad, i gynnyg iddynt y goleuni dwyfol a ddyscleiriasai mor danbaid ar ei lygaid ei hun, ac na foddlonwyd byth mo hono tra yr arosodd yno, ond cynnyddodd ei sêl yn fwy-fwy, a'i awydd a'i gariad at ei genedl, nes cyrhaedd yn ffiam angherddol ac anniffoddadwy. Diolchai yn fawr am y fraint oruchel o gael y fath



genadiaeth, a chynnyg yr efengyl hon sy'n dwyn bendithion i bawb, a dim ond bendithion i bawb a'i creda. Nid oedd yn ddrwg ganddo am ddim yn fwy nag am na fuasai wedi dyfod yn gynt. Yr oedd yn gwybod mai gwaith Duw sydd ganddo mewn llaw, a phenderfynai yn nerth Duw i fyned yn mlaen i lesoli ei gyd-genedl, drwy roddi iddynt oleuni yr efengyl nes dryllio cadwyni rhagfarn, a'u dwyn yn rhyddion, i.e. yn feibion ac yn ferched i Dduw. Yr oedd yn llawen ganddo hysbysu fod llwyddiant graddol a chysson ar yr efengyl yn mhob man lle ei phregethid yn Nghymru; eu bod wedi bedyddio dros gant a hanner yn y tri mis diweddfaf; fod eu nifer bresennol yn Nghymru tua naw cant, a bod lluoedd yn credu heblaw hyny. Hysbysai fod cenadon yn pregethu yn mhob sir o'r bron drwy Gymru, ei fod ef ei hun wedi bod yn teithio oddiamgylch pob sir o Gymru, ond un, gan bregethu bob nos, yn y trefydd mwyaf, yn yr haf diweddfaf; fod lluoedd yn dyfod i wrando, a chan mwyaf yn siriol hefyd, oddieithr ambell hen Pharisead sectyddol, neu fugail a ofnai golli y cnu. Dywedai iddo ef ei hun gyhoeddi deuddeg o draethodau. yn egluro yr egwyddorion, eu hamddiffyn, &c., yn y flwyddyn a hanner diweddfaf, yn cynnwys dros filiwn o dudalenau 12 plyg, a'u bod oll o'r bron wedi eu dosparthu drwy y wlad. Dywedai fod ganddo obaith da am ddychweliad llawer o'i frodyr a'i chwiorydd unwaed—fod lluoedd etto ar ddyfod i mewn i winllan Arglwydd y lluoedd, ac mai ei benderfyniad ef yw myned yn mlaen, deued a ddelo, serch i hyny gostio ei fywyd iddo.—Yna terfynwyd y cwrdd boreuol drwy weddi.

Am ddau, yn y prydawn, anerchodd y brodyr John Taylor a P. P. Pratt y gynulleidfa liosog yn wresog iawn am yr adgyfodiad, ei ddull, a'i drefn, a'r modd i sicrhau rhan ynddo.

Yn yr hwyr, treuliwyd y cwrdd gan mwyaf mewn materion a berthynai i'r Gymdeithas Fasgnachol. Cefnogai y llywydd ac ereill yn fawr, ar amryw ystyriaethau, y buddioldeb o ohirio ei gweithrediadau dros yr amser presennol; fod yn anhosibl iddi, dan yr amgylchiadau presennol, lwyddo i ateb dybenion daionus ei sefydliad. Dywedwyd llawer o blaid ac yn erbyn y cynnygiad; ond ar ddiwedd y cwrdd, penderfynwyd yn unfrydol i beidio myned â hi yn y blaen yn bresennol.

Dydd-Sul, cynnaliwyd y eyrddau yn yr *Hall of Science*, oherwydd fod y llall yn rhy fychan i gynnal y gynulleidfa.

Treuliwyd cwrdd y boreu. a'r prydawn gan mwyaf, i drefnu materion y gwahanol gynnadleddau trwy Prydain, gosod y llywyddion arnynt, ac mewn hyfforddiadau pa fodd i gario y gwaith yn mlaen yn fwy llwyddiannus; ac annogai y llywydd yn fawr ar i bawb o'r llywyddion hyn dori allan ar y dde a'r aswy, i eangu eu cyffiniau, trwy bregethu yr ymadroddion sydd yn dechreu rhai yn Nghrist yn unig, a gobeithiai y caffent ychwaneg o ysbryd eu swyddi nag erioed, nes y byddai argraffiadau eu cynghorion yn y Gymmanfa hon, fel cawodydd o wlaw prydlawn ar wely o flodau, yn aroglu trwy Frydain fel pêr lysiau paradwys, er gogoniant i Dduw.

Yn yr hwyr, annerchodd y brawd J. Taylor y dorf yn ei ddull gwresog a hyawdl. Profodd mai trwy lawer o rwystrau y mae yn rhaid myned i mewn i deyrnas Dduw. Rhoddodd hanes cynnwysfawr o'r prif erlidigaethau a gafodd yr eglwys yn yr America er pau ym-

unodd efe â hi, ac yn enwedig yn Nauvoo, merthyrdod Joseph a Hyrum Smith yn y carchar, ynghyd ag alltudiaeth y Saint wedi hyny i'r anialwch. Desgrifiai eu taith i'r anialwch yn gyflawn o anhawd-derau, ond fod yr holl Saint yn galonog a phenderfynol, oll mewn undeb, ac yn gofalu am, ac yn cynnorthwyo y naill y llall, nes nad oeddynt yn teimlo nac yn cael amser i feddwl nemawr am eu trallodion eu hunain. Mwynhaent iechyd rhagorol, wrth ystyried gynnifer o wragedd a phlant oedd yn eu plith, heb erioed o'r blaen arferyd byw a bod yn y goedwig, cysgu allan y nos dan eu pebyll, na methu cael eu bwyd yn ei bryd; ond fod ganddynt gysur na wŷr y byd ddim am dano, i ddal eu meddwl goruwch tonaau cynddeiriog erlidigaeth ac adfyd. Sylwai, mai po-fwyaf eu cyfyngder, mwyaf eu ffydd, eu hymnroad, a'u cysur. Yn nghanol y cyfan dyrchafant eu penau, gan wybed fod amser eu hymwared hwy yn agosau. Gadawsai ei wraig a'i blant yn llon yn y gwersyll, yn Council Bluffs, yn ngwlad yr Indiaid, i ddyfod ar y genadiaeth hon. Ystyriai yn fwy anrhydedd cael y swydd a'r gwaith a fedd, na dim a allai y byd ei anrhegu ag ef; ac annogai y Saint i fod yn llawen ac yn amyneddgar dan bob trallodion; mai "wedi hir oedi y daw y fendith," ac mai "mewn iawn bryd y medwn, oni ddiffygiwn." A meddylieim iddo gael y fath ddyllanwad ar y gynulleidfa nes yr oedd yno bawb yn foddlon i ddyoddef pob peth er mwyn Crist a'r efengyl, i.e. pe costiai yr oll a feddent, a'u bywydau hefyd, gan ymorphwys ar addewid Crist—"Yn wir, meddaf i chwi, y neb a adawo dai, neu diroedd, tad, neu fam, na dim arall, er fy mwyn i a'r efengyl, efe a dderbyn y can cymmaint yn y bywyd hwn, ac yn y byd a ddaw fywyd tragwyddol." Gallai Mr. Taylor, fel llawer o'r Saint, nid yn unig bregethu yr athrawiaeth hon, ond llawenhau am ei fod wedi rhoddi esiamplau lawer drosti, trwy ymwadu â'r oll a feddai, yn hytrach na'r efengyl. Mewn pedwar parth o'r America, y mae tai a meddiannau a berthynent iddo ef, pa rai a yspeiliwyd oddiarno heb un math o iawnder byth am danynt. Dywedai ei fod yn ystyried ei aberthau yn fychain iawn etto, wrth ystyried i bwy y gwnaeth hwynt. Cofus gan y Saint fod Mr. Taylor gyda Mr. Smith yn y carchar, pan laddwyd ef a'i frawd. Trywanwyd yntau â phedair o fwledi ar y pryd, ac etto nid yw y cyfan yn digaloni gronyn arno, ond yn hytrach ei wroli i fyned yn y blaen. Y tro diweddaf y cawsom y fraint i sefyll o flaen torf yn ochr Mr. Taylor oedd yn ngharchar Carthage, a da iawn y cofiwn destunau ein pregethau, trwy y barau heiyryn, i'r terfysglu a geisient fywyd J. ac H. Smith. Do, parhausom i bregethu jddynt yno ammodau hedd, hyd o fewn ychydig oriau i'r amser y lladdwyd hwynt, ac yn nerth Duw parhawn i bregethu yr un genadwri hyd ein hawr olaf ein hunain, gan adael y canlyniad yn llaw ein Meistr. Dilynwyd Mr. Taylor gan y llywydd, mewn cynghor pwysig i'r pregethwyr pa fodd i gyflawni eu gwaith, ac i'r aelodau pa fodd i fyw er gogoniant i Dduw, a therfynodd y cwrdd trwy weddio a chanu. Yna ymadawodd y dorf serchus gyda phob arwyddion o foddlonrwydd mawr.

Dydd Llun a dreuliwyd gan mwyaf yn ychwanegol ar *fusiness* y Gymdeithas Fasnachol, a gwahanol faterion llywyddion y cangenau cynnadleddawl. Ac felly terfynodd y gymmanfa lwyddiannus a llesol

hon, drwy i'r llywydd roddi ei *farewell address* yn deimladwy ac effeithiol iawn, a gweddio ar Dduw am ei fendith a'i sel ddwyfol ar ein hymdrechiadau, er adeiladu teyrnas yr Immanuel, a dwyn bywyd ac anllygredigaeth i oleuni, nes llanw y byd â goleuni a gwybodaeth o Dduw, fel y toa y dyfroedd y môr—pan na fydd ond un Brenin yn teyrnasu, a'i enw yn un, a phawb yn un yn ei addoli mewn gwynfyd a gogoniant tragwyddol.

---

### DINAS NAUVOO.

MAE yr *American Sun* yn hysbysu fod Dinas Nauvoo yn parhau i gael ei hafonyddu. Ymddengys fod y trigolion diweddaraf, sef y rhai a ymfudasant yma o'r taleithlau ereill, ac a brynasant feddiannau y Saint alltudiedig, wedi penderfynu amddiffyn eu hunain a'u meddiannau rhag ymosodiadau annynol y llu o fileiniaid ag sydd yn parhau i ddyfetha a bwgwth lladd yn y cychoedd hyny. Mae y cyffredin yn tosturio wrth drigolion presennol Nauvoo, ond ni ymddygid felly tuag at y Saint. Eithr yr ydys yn gweled yn awr ar bwy yr oedd y bai o'r blaen, drwy fod y terfysgwyr hyn yn parhau yr un yn eu hymddygiadau drygionus. Gobeithiwn yr amddiffyna y trigolion y ddinas, nes caffo y gweddill sydd yno o'r Saint amser i ddianc i'r anialwch. Hysbysa y newyddiaduron a ddygodd y llong St. George drosodd, fod y gwrth-Formoniaid yn fil o wyr dan gyflawn arfau, ar eu ffordd i Nauvoo, ar y 26ain o'r mis diweddaf, a bod ymladdfa yn debyg o fod. Hawdd gan awduron gyhoeddi "Rhyfel Mormonaidd," "Terfysg yn mhlith y Mormoniaid," a thadogi pob bai a chythrwf a wneid yn y wlad hono ar y Mormoniaid, fel eu galwant, drwy y blynyddoedd, fel pe buasant hwy yr achos o'r cyfan. Ond yn awr, pan y mae cymmeriadau y naill blaid a'r llall yn ymddangos yn eu lliw priodol, ni wyddis dan ba enw gogoneddus y cyhoeddant y rhyfeloedd, y cynhwrf, y lladd, a'r llosgi, sydd yn parhau yno, wedi i'r Mormoniaid i gyd o'r bron fyned gannoedd o filitiroedd oddiyno.

---

### GALWAD AR BECHADURIAID.

O, BECHADURIAID, trowch mewn pryd—  
 Ar bechu mwy na rowch eich bryd;  
 Ond fflowch am rad faddeuant Duw,  
 Ag ysbryd prudd a chalon friw.  
 Y taliad cyflawn ar y pren,  
 A roddwyd gan Enneiniog Nen,  
 All glirio'ch beiau mawr a mân,  
 A'ch arbed rhag haeddiannol dân.  
 Os ufyddhewch, cewch ffafr Duw,  
 A thrwy ei Fab ef fythol fyw:  
 Mae'r fraint yn rhad, a thaer yw Ef  
 I annog dyn i wrando 'i lef.

BLAEN-DAL, 3C.]

[OL-DAL, 3½C.]

ATOCH deunaf etto,—a gwir wedaf,  
Cewch gredu neu beidio;  
Er pob daint, nad faint a fo,  
Ni pheidiaf a phrophwydo.

# PROPHWYD Y JUBILI, NEU SEREN Y SAINT.

“YE AEWGLWYDD IOR A LEFARODD, FWY NI PHROPHWYDA? CANYS NI  
WNÂ YE AEWGLWYDD DDIM, A’E NA DDANGOSO EI GYFRINACH  
I’W WEISION Y PROPHWYDI.”

RHIF. 6.]

RHAGFYR, 1846.

[CYF. I.]

## CYNNWYSIAD.

|                                                                                          | TUD. |
|------------------------------------------------------------------------------------------|------|
| Corff neu Eglwys Crist .....                                                             | 142  |
| Elias .....                                                                              | 148  |
| Amddiffyniad y Saint <i>versus</i> Cyhuddiadau Thomas Jones,<br>Merthyr, ac ereill ..... | 148  |
| Adolygiad ar Bregeth y Parch. W. R. Davies, Dowlais,<br>ar y Gwyrthiau (parhad) .....    | 156  |
| Cymmanfa Sir Fynwy .....                                                                 | 160  |
| Y Genadiaeth yn Siroedd Cymru .....                                                      | 163  |
| Yr Efengyl yn Lloegr, Scotland, &c. ....                                                 | 163  |
| Australia .....                                                                          | 164  |
| Ynysoedd Môr y De .....                                                                  | 164  |
| Yr Adgyfodiad Cyntaf .....                                                               | 164  |

~~~~~

MERTHYR-TYDFIL:

CYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES;

AC AR WERTH HEFYD

GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL, A LLAWER
O LYFRWERTHWYR.

1846.

CYFNEWIDIAD MAINTIOLI Y PROPHWYD.

DAW y Prophwyd allan y flwyddyn nesaf yn un-ar-bymtheg o dudalonaau, o'r un plygiad â chynt; ei bris fydd dwy geiniog y rhifyn.

Yr achosion o'r cyfnewidiad hwn ydynt, oherwydd ein bod ar fedr cyhoeddi amryw draethodau ar bynciau athrawiaethol, y rhai ydynt yn rhy faith i'r *Prophwyd* heb eu rhanu; etto pe eu rhenid, ni byddant mor ddefnyddiol i'r rhai hyny ag nad ydynt yn dderbynwyr cysson o'r *Prophwyd*. Trwy leihau ei bris galluogir llawer ychwaneg i'w gael nag am ei bris presennol. Heblaw fod llwyddiant rhyfeddol y Saint yn Nghymru, a gwledydd ereill, yn gofyn ac yn teilyngu ychwaneg o'n sylw nag a ellir ganiatáu iddynt yn y *Prophwyd*, ar ei ddull presennol, gofynir hefyd am ychwaneg o gynghorion, rheolau dyscyblaethol, a'r pethau a berthynant i iawn drefn ac adeiladaeth y Saint trwy'r dywysogaeth yn eu santeiddiaf ffydd, a'u perffeithio mewn undeb a chariad brawdol. A hyderwn y bydd y cyfnewidiad yn achosi, nid yn unig ei ledaeiniad, ond ei ddefnyddioldeb i'r Saint.

Cynnwysa y *Prophwyd*—I. Sylwadau byrion a chynnwysfawr ar ein pynciau hyny ag a wrthwynebir fwyaf gan ein cydwladwyr.

II. Hanesion eglwysig, megys, cymmanfaoedd, bedyddiadau, erlidigaethau, ynghyd â mawrion weithredoedd Duw yn mhlith ei Saint yn Nghymru.

III. Hanesion y Saint Americanaidd yn yr anialweh, eu taith a'u hynt yn California, ynghyd ag ansawdd y wlad hyfryd hono. Hefyd, y pethau mwyaf dyddorawl a gymmer le yn mhlith yr eglwys yn Ewrop, ynysoedd y môr, a thrwy'r byd.

IV. Arwyddion yr amserau o bryd bwy gilydd—effeithiau cleddyf mawr a chadarn Duw y rhyfel, yr hwn sydd yn ysgwydedig yn awr uwchben yr holl ddaear.

V. Atebion i gwestiynau y swyddogion a'r Saint, er egluro ein hathrawiaeth, ein rheolau dyscyblaethol, &c., a'u dwyn oll i undeb y ffydd.

VI. Amddiffyniadau yn ngwyneb camgyhuddiadau yn erbyn y Saint, a chamddarluniadau o'u hathrawiaeth.

Cyhoeddwyd yn ddiweddar, pris Pedair Ceiniog,

HYMNAU, wedi eu cyfansoddi a'u casglu yn fwyaf neillduol, at wasanaeth Saint y Dyddiau Diweddfaf. Merthyr Tydfil: cyhoeddwyd ac ar werth gan Capt. D. Jones.

MERTHYR-TYDFIL.

GWAHODDIR y Cymry i NEUADD Y CYMREIGYDDION (*White Lion*), yn y dref hon, i glywed y GREFYDD APOSTOLAIDD, fel ei hadferwyd drwy Weinidogaeth Angylaidd.—Traddodir Darlithoedd bob Sul am 11 o'r gloch, ac yn yr hwyr am 6, er profi y Pynciau Athrawiaethol a ganlyn yn ysgrythyrol a rhesymol:—Ffydd yn Mab Duw fel digonol, Waredwr—Edifeirwch—Bedydd er maddeuant pechodau—Arddodiad dwylaw er derbyn yr Ysbryd Glân—Adferiad y Doniau Ysbrydol—Adferiad yr Iuddewon i Palestina—Yr Adgyfodiad cyntaf—Teyrnasiad personol Crist ar y Ddaear am Fil. o Flynyddoedd—Y Farn Gyffredinol—Y Nef a'r Ddaear newydd, a thynghedfen dragywyddol y Bydyssawd a'i Drigolion!!!

Pregethir yr athrawiaeth hon yn NEUADD Y DOWLAIS INN, DOWLAIS, bob Sabboth, ar yr amser uchod.

D.S Y mae croesaw i bawb ddyfod i mewn heb dalu dim.

CYHOEDDIADAU SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF.

I.

Cyhoeddwyd yn ddiweddar, Pris Chwecheiniog,

Y FARW WEDI EI CHYFODI YN FYW!

NEU

YR HEN GREFYDD NEWYDD.

TRAETHAWD

YN DANGOS

ANGHYFNEWIDIOLDEB TEYRNAS DDUW.

GAN CAPT. D. JONES.

** Nid oes ond ychydig gopiau o'r Traethawd heb eu gwerthu.
Gellir ei gael gyda'r PROPHWYD.

II.

Newydd ei Gyhoeddi, gan yr un, Pris Tair Ceiniog yn unig,

ATEBYDD

Y GWRTHDDADLEUON A DDY GIR YN FWYAF CYFFRE-
DINOL DRWY Y WLAD

YN ERBYN

SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF,

A'r Athrawiaeth a broffesant;

MEWN FFURF O YMDDYDDAN RHWNG MEISTRIAID TRADD-
ODIAD, SECTARIAD, A SANT.

III.

Cyhoeddwyd yn ddiweddar, gan yr un, Pris Ceiniog a Dimai.

ANERCHIAD

Y

DEUDDEG APOSTOL AT HOLL FRENINOEDD, CYNG-
HORWYR, BARNWYR, A PHOBL Y BYD.

IV.

Newydd ei Gyhoeddi, gan yr un, Pris Dwy Geiniog

Y GLORIAN,

YN RHON Y GWELIR

DAVID YN PWYSO WILLIAMS, A WILLIAMS YN
PWYSO DAVID;

NEU

*David Williams, o Abercanaid, yn gwrthddweyd ei hun, wedi ei ddal yn
ei dwyll, a'i brofi yn euog o Ddeistiaeth.*

PROPHWYD Y JUBILI.

“MAE Y DEYRNAS WEDI DYFOD.”

RHIF. 6.]

RHAGFYR, 1846.

[CYF. I.

CORFF NEU EGLWYS CRIST.

“UN corff sydd, ac un Ysbryd,” medd yr ysgrythyr; ac y mae yn perthyn i'r corff hwn, megys i'r corff dynol, amrywiol o aelodau, yr oll wedi eu gosod ynddo a'u cydgyssylltu fel ag y mae yr Ysbryd yn ewyllysio. Megys ag y mae anghen yn y corff dynol ar yr holl aelodau, efelly y mae anghen yn nghorff neu eglwys Crist am yr holl wahanol aelodau sydd yn perthyn iddynt. Nid all y corff dynol hebgor y llygaid; y mae eisieu y rhai hyn i'w arwain a'i dywys. Mae y clustiau yr un mor wasanaethgar yn eu swydd: y traed, y breichiau, a'r aelodau oll, ydynt yn anghenrheidiol ac yn ddefnyddiol yn eu lle. Ni ddywed y glust wrth y llygad, Nid rhaid i mi wrthyt. Y droed nis dywed nad yw y fraich yn ofynol; na'r fraich nad yw y droed. Y mae yr oll yn cyfansoddi ac yn gweini i'r un corff. Y mae eisieu iddynt oll i barhau yn eu priodol waith; y llygaid i wyllo, y clustiau i glywed, y breichiau i amddiffyn, a'r traed i ymlwybro. Nid gwiw i'r llygaid ymadael â'r corff pan yn ieuanc, a dweyd eu bod wedi cyflawni digon yn ei ieuentyd ef i'w ddiwallu yn ei hen oed. Efelly y gellir dywedyd am yr aelodau ereill. Y maent oll i fod mewn undeb, ac i barhau mewn undeb.

Tebyg i hyn y mae corff Crist wedi ei gyfansoddi. “Rhai yn wir a osododd Duw yn yr eglwys; yn gyntaf apostolion, yn ail prophwydi, yn drydydd athrawon, yna gwyrthiau; wedi hyny doniau i iachân, cynnorthwyau, llywodraethau, rhywiogaethau tafodau.” Mae y pethau hyn oll “i berffeithio y saint, i waith y weinidogaeth, i adeilad corff Crist;” ac y mae y pethau hyn oll i wasanaethu yn eu gwahanol swyddi tra y parhao anghen y corff —ie, “hyd oni ymgysfyddom oll yn undeb ffydd, a gwybodaeth Mab Duw, yn wr perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist.”

Ddarllenydd anwyl, a ydwyt ti wedi dy felyddio trwy yr Ysbyrd i'r corff gogoneddus hwn, ac wedi dy ddiodu ganddo? Mae yn anghenrheidiol i ti wybod. Yr wyt yn gweled fod nodau corff Crist yn eglur iawn. Mae yr holl aelodau yn rheolaidd ynddo, canys Duw sydd wedi eu cydgyssylltu. Na ddyweded dyn y gellir hebgor rhai o'r aelodau; yr Arglwydd a'u trefnodd, ac am hyny dystawed dyn. Ewyllys Duw, ddarllenydd, yw i ti ddyfod i undeb â'r corff hwn, os nad ydwyt, a chael gwybodaeth dy fod ynddo. Ond, os ydwyt yn perthyn iddo, mawr yw dy fraint!

ELIAS.

NID oes nemawr berson ag y sonir am dano yn yr ysgrythyrau, mor anadnabyddus â hwn. Wedi yr holl esbonio a dweyd am dano, mynyeh y gofynir i ninnau, Pwy yw yr Elias hwnw! Gan na chawsom foddlonrwydd yn yr un atebiad a welsom etto, anturiwn gynnyg yr hyn a ganlyn am atebiad i'r cwestiwn; ac os gallwn ond dangos y gwahaniaeth yn ddealladwy ag sydd rhwng y cyfryw berson â'r swydd neu y cymmeriad a berthyna iddo, dyry hyny allwedd dirgelweh i ddeall y swydd ryfedd hono ag yr oedd Elias i'w chyflawni, yn ol prophwydoŷiaeth Malachi, yn mhen. iv, 5, 6:—"Wela, mi a anfonaf i chwi Elias y prophwyd eyn dyfod dydd mawr ac ofnadwy yr Arglwydd. Ac efe a dry galon y tadau at y plant, a chalou y plant at eu tadau; rhag i ni ddyfod a tharo y ddaear â melldith."

Y pwne mawr mewn dadl yw, Ai Ioan Fedyddiwr a feddylir wrth yr Elias hwn? Addefwn fod rhyw anhawsder i ddeall yr ysgrythyrau a gyfeiriant at y personau hyn, eu bod yn ymddangos yn groes-haeriadol, a'u bod, fel rhai manau ereill, yn cael eu defnyddio gan anffyddwyr yn dameidiau melys i wrthbrofi dwyfoldeb y prophwydoliaethau, pan, mewn gwirionedd, mae y ffaith yn hollol groes i hyny, fel yr ymdrechwn egluro. Dywedodd yr angel Gabriel wrth Zacharias, Luc i, 13—17:—"Nac ofna Zacharias, canys gwrandaawyd dy weddi; a'th wraig Elizabeth a ddwg i ti fab, a thi a elwi ei enw ef Ioan. A bydd i ti lawenydd a gorfoledd, a llawer a lawenychant am ei enediggaeth ef. Canys mawr a fydd efe yn ngolwg yr Arglwydd, ac nid yf na gwin na diod gadarn; ac efe a gyflawnir â'r Ysbyrd Glân o groth ei fam; a llawer o blant Israel a dry efe at yr Arglwydd eu Duw. Ac efe a â o flaen ci wyneb ef yn *ysbryd a nerth* Elias, i droi calonau y tadau at y plant, a'r anuffydd i ddoethineb y cyfiawn; i ddarparu i'r Arglwydd

bobl briodol." Meddylid fod yr angel yma yn dangos, tuhwnt i bob dadl, mai at yr Ioan hwn y cyfeiria Malachi uchod. Ond medd y dadleuydd, Os felly, paham y gwada Ioan hyny mor eofn wrth yr offeiriaid a'r Lefiaid, yn Ioan i, 21?—"A hwy a ofynasant iddo, Beth ynte? Ai Elias wyt ti? Yntau [Ioan] a ddywedodd, *Nage.*" Pa un o'r ddau a goeliaf? Atebaf, y coeliaf fi y ddau yn hollol, a choeliaf Iesu Grist hefyd, pan y dywed yn Mat. xi, 13, 14,—“Canys yr holl gyfraith a'r prophwydi a brophwydasant hyd Ioan. *Ac os ewyllysiwch ei dderbyn*, efe [Ioan] yw yr Elias yr hwn oedd ar ddyfod.” Wel, medd y darlennydd, yr ydych yn gwneyd y pwnc yn fwy dyrys yn awr nag o'r blaen, trwy ryw gymmysgedd rhyfeddol o brophwydoliaethau a haeriadau hollol groes i'w gilydd; ac, ond barnu yn ol lliosogrwydd y tystion, rhaid fod Ioan yn gelwyddog ar eirwiredd Gabriel a Mab Duw, canys dywedant hwy mai ie, a gwada yntau, a dywed “*Nage.*” Beth a wnewch? Ai esbonio ei feddwl yn amgen nag a ddywed? Na wnawn byth. Ai addef Ioan yn gelwyddog, ynte beio ar y cyfieithiad, a wnewch? O na, ni raid gwneyd hyny ychwaith; ac os na allwn gyssoni yr ysgrythyrau heb hyny, addefwn ein hanwybodaeth yn rhwydd, a dywedwn fel Paul gynt—“Bydded Duw yn eirwir, a phob dyn yn gelwyddog.” Nid ydym yma yn addef anffaeledigrwydd cyfieithwyr ychwaith. A chyn ysgoi y cwlwm hwn, anturiwn haerriad arno, er mor anghylmedig y dichon ymddangos, a rhown ryddid ac annogaeth i'r neb a fyno ei wella; h. y., *Mai Ioan oedd yr Elias.* Dywedwn hefyd, *Nad Ioan oedd yr Elias!* Bydd amyneddgar gyda ni, ddarllenydd, canys nid ydym wrth groes-haeru fel hyn ond ail adrodd yr ysgrythyrau blaenorol. Ac yn awr at y gorchwyl o brofi hyn yn rhesymol, yn ysgrythyrol, ac wrth gwrs yn wirioneddau dwyfol.

Sonia yr ysgrythyrau am yr *Elias*, sef *ysbryd*, *nerth*, neu *swydd* Elias, yn aml, yn hytrach nag am berson o'r enw hwn. Cyfeiriant at lwyddiant y gwaith mawr hwnw ag y cafodd y person cyntaf dan yr enw hwn yr allweddau o hono, sef *adferiad*, yr hyn a brofa Crist yn Marc ix, 12, pan ddywed—“Elias yn ddiâu gan ddyfod yn gyntaf a *edfryd* bob peth,” &c. Felly rhaid mai Ioan Fedyddiwr oedd yr Elias y cyfeiria Crist ato yn yr hyn a ganlyn, adn. 13,—“Eithr yr wyf yn dywedyd i chwi, *ddyfod o Elias yn ddiâu*, a gwneuthur o honynt iddo yr hyn a fynasant, fel yr ysgrifenwyd am dano.”

Ond er gweled yn amlycach y gwahaniaeth a wneir rhwng y gwahanol bersonau, a'r cyssylltiad a welir rhwng yr un swyddau yn yr *adferiad* hollol a rhyfedd a arfaethodd y Duw doeth yn y cynghor bcreu, i'w gyflawni o radd i radd, o oes i oes; hyd nes ei cwblheir,

dyred yn ol i dafu golwg ar y darlun ardderchog a chywrain a gyn-Huniwyd cyn bod ei eisieu, i ddwyn yn mlaen adferiad pob peth, i.e., cyn dirywiad un peth. Pan yr oedd y ddaear hon yn *chaos*, yn aflun-iaidd a gwag, wedi ei gorchuddio â dwfr, a'r elfenau heb eu rheol-eiddio yn eu cyfartalwch cymmedrol, i gydweithredu er gogoniant ei Phen-saer, ac er lles a mwyniant ei hiliogaeth; a chyn i Dduw ddy-wedyd "Bydded goleuni;" i.e., cyn canu o ser y boreu, nac i feibion Duw lamu o lawenydd, rhagwelwyd tynghedfen druenus, a llygredig-aeth trwyadl yr holl elfenau a gyfansoddant y bel droed fach hon, a'i phreswyllyddion oll. Ac nid yn unig rhagwelwyd hyn oll, ond trefnwyd cynllun perffaith i ddwyn nid yn unig dyuion, ond pob peth a lygrid, yn ol i berffeithrwydd. Do, trefnwyd y cynllun, neu y peiriant os mynwch, sef y dull y gwneid hyn oll, yn y cyngor rhyfeddol hwnw a gynnaliodd y Duwiau ar foreu y dydd yr aethant at y gwaith o osod eu gardd mewn trefn, ac i wneyd gweision i'w chadw felly. *Main spring* y peiriant hwn, neu y pegwn hunan-gynhyrfol ar ba un y troai pob olwyn o hono yw yr *Oen hwnw a laddwyd er seiliad y byd*. Yr oedd cynllun y Jehofa mor berffaith, cyffiniau a phegynau y darlun yn ymddangos mor eglur iddynt hwy y pryd hynny ag yn awr; ac y mae y cyfryngau yn cael eu llenwi, o oes i oes, gyda chywreirwydd pen celfydd; ac yn mlaen yr aiff nes y bydd y byd hwn a'i gyflawnder yn *fac simile* o'r darlun a dynwyd o hono y boreu rhyfedd hwnw. Ni ddichon fod dim ynddo yn wahanol i'r patrwn, heb fod y patrynydd wedi ei siomi. Ni ddichon yr adferiad fod yn welliant ar y patrwn, heb brofi amherffeithrwydd y patrwn, ac o ganlyniad, heb brofi amherffeithrwydd yr hwn a'i gwnaeth. Ond gwelir cyn hir fod pob peth yn myned yn mlaen wrth reol, ac nad damweiniau yw dim i'r Duw hollwybodol. Y mae efe yn gosod ffrwyn yn ugenau y traws-feddiannydd, ac yn gosod terfyn ar gadwyn tywysog y byd hwn. Yr un bys sydd yn arwain y glôb hon yn ei chylchoedd, ac yn goruwch-lywodraethu teyrnwiaid ei hamherawdwyr, ag a'i cychwynodd ar ei phegynau rhewog ar y dechreu; i.e., rhyw ddydd sy'n dod gwelir yr unig deyrnwialen amherodraethol yn y llaw a'i pia; a tlry yn wialen haiarn i'r naill ran, ac yn deyrnwialen aur i'r rhan arall, pan yr estyna hi allan uwchben ein byd ni, ac y delo i feddiannu y ddaear, i rwymo y bradwr dieffig, i adferu y ddaear a'i chyflawnder, ac i ddwyn teyrn-asoedd y byd yn eiddo i'n Harglwydd ni a'i Grist ef.

Dygir yr *adferiad* trwyadl hwn o'r ddaear a'i chyflawnder oddiam-gylch trwy allu Duw, trwy offerynoliaeth y drosol ddwyfol hono a roddir gan Dduw i'w holl weision, sef yr offeiriadaeth sydd yn ol nerth byw-

yd annherfynol, yr hon sydd yn rhwymo yn y nefoedd yr hyn a wneir gan ei pherchenogion ar y ddaear. Ac er dyddiau y troseddwr cyntaf, trwy yr oesoedd, y mae y dynion hyny a orwisgwyd ag awdurdod yr offeiriadaeth, ac ag ysbryd y brophwydoliaeth, i'r graddau ag y rhwygwyd y guddlen, ac yr agorodd dorau y tragwyddolfyd ar eu hamrantaau, wedi bod yn gorfoleddu yn y gobaith am, ac yn dangos yn eu tro ogoniant yr adferiad rhyfeddol a gogoneddus hwn. Taniai yr awen dduwiolfrydig ber ganiadau o glod i'r dydd hwn. Hoff bwnc y prophwydi oedd hwn. Yr oedd pensil y portreiedydd yn cyflymu i'w ddarlunio, tafod y dysgedig yn ymhoffi yn ei ganmol, a phin yr ysgrifenydd a lynai yn y tyn-faen dwyfol hwn bron yn ddiysgog. Nid wrth ymdrin â nemawr bwnc y llanwai Ysbryd Duw eneidiau y prophwydi a'r saint duwiol â mwy o orfoledd nâ phan y dangosai iddynt yr adferiad gogoneddus,—pan y defnynai y mynyddoedd win melys, ac y blodeuai yr anialwch fel y rhosyn; pan orweddai y cenaw llew a'r oen ynghyd; pan na fyddai dim i ddrygu na niweidio yn holl fynydd ei santeiddrwydd, sef y ddaear; pan y byddai gwybodaeth o'r Arglwydd yn llanw y ddaear, fel y toa y dyfroedd y môr; pan y sefydlid Sion yn ei gogoniant, a'r holl genedloedd yn dylifo dan ei banerau; pan y byddai teml Dduw wedi ei hadeiladu, ac afonydd o ddyfroedd bywiol yn dylifo o honi; pan y cai preswylwyr Sion drigo yn heddychlon; pan na ddywedai un, Clafydwyf, ond pob un yn eistedd dan ei ffigysbren ei hun, a Jerusalem yn orseddfa i'r Arglwydd yn dragwyddol.

Mewn gobaith o gyflawni yr adferiad hwn, cydunodd ac ymdrechodd prophwydi a saint Duw, trwy eu ffydd a'u gweithredoedd, i gyflawni swydd a gwaith Elias, sef *adferu*. Gwnaeth Enoch yr hyn a allodd yn ei ddydd er adferyd y ddaear. Rhodiodd gyda Duw am dri chan mlynedd. Yr oedd ganddo ffydd gref. Sefydlodd eglwys ardderchog, a dysgodd iddynt egwyddorion cyfiawnder: ond er hyny, yr oedd y byd yn rhy lygreddig, anghrediniol, ac anufydd, iddo allu ei adferyd; am hyny, cymmerodd Duw ef a'i eglwys ato ei hun, fel y dywedir, "Ac ni chafwyd Sion." Wedi i'r halen fyned ymaith, nid oedd yn ngweddill ddigon o rinwedd i achub y ddaear; ond dymchwelodd Duw ei gwyneb drwy'r diluw.

Moses hefyd a ymdrechodd yn fawr i gyflawni rhyw gyfran o'r chwyldroad hwn. Nesaodd at Dduw trwy ffydd, a derbyniodd addewidion mawrion gan Dduw ar ran ei genedl, megys—"Chwi a fyddwch yn drysor priodol i mi o flaen yr holl genedloedd; canys eiddof fi yr holl ddaear. A chwi a fyddwch i mi yn freniniaeth o offeiriad, ac yn genedlaeth santaidd," &c. Trwy hyn dengys y caffent fod yn

drysor priodol, neu offerynau, fel cenedl, i sefydlu llywodraeth yr hedd yn gyffredinol, ac y byddai gwybodaeth o Dduw, ac egwyddorion heddwch, yn dylifo trwy y ffrydiau hyn o'r ffynnonell, nes dwyn yr adferiad oddiamgylch; ond hyn oll, fel pob addewid arall, ar eu huffydd-dod i'r ammodau, sef, "Os cadwant fy neddfau." Yn lle hyny, hwy a droseddasant ei ddeddfau, a barhausant yn genedl drofaus a gwargaled; yna cymmerodd y fraint benaf, y drosol gryfaf, i ddwyn hyn oddiamgylch, sef *offeiriadaeth Melchisedec*, oddiarnynt; ac yn lle bod yn freniniaeth o offeiriaid gyda'u gilydd fel cenedl, ni feddent ond un archoffeiriad a allai fyned i'r santeiddiolaf i wyddfod Duw, a hyny ond unwaith yn y flwyddyn, yn lle bod yr holl genedl yn gallu dal presennoldeb yr hwn sy'n dâ'n ysol, ac yn llosgfeydd tragwyddol i rai amherffraith. Yna, oherwydd eu hanmherffeithrwydd, ni allent oddef y fath ogoniant tanbeidiawl, a hyny oherwydd anuffyddhau i'r gyfraith a roddwyd er eu perffeithio. Ac felly amddifadwyd hwy yn gyfiawn o'r fendith addawedig, sef bod yn freniniaeth o offeiriaid. Fel hyn methodd Moses gyflawni ei amcan yn yr adferiad, a chymmerodd Duw yntau ymaith, i aros nes y cyflawnai rhywun arall yr hyn ni allodd efe, ac yna y caffai yntau ei ran yn ol yr hyn a wnaeth. Rhoddwyd y genedl wrthnysig hono dan ysgolfeistr i'w dwyn hwy at Grist.

Prophwyd mawr a rhyfeddol oedd yr Elias hwnw ag yr oedd Ioan yn gysgod o hono. Gorphwysai Ysbryd y Goruchaf arno mewn modd rhyfeddol iawn. Ond pa beth a ddygodd oddiamgylch, druan? Pa beth a allai wneuthur o'r fath genedl drofaus a gwrthryfelgar? Ni anfonodd Duw ei weision i orfodi dynion i gadw ei ddeddfau, ond i'w perswadio; ac os na ufyddhau y cyfryw oddiar egwyddor wirfoddol, gadawent hwynt yn llaw Duw cyfiawn, gan eu rhybyddio eu bod hwy yn lân oddiwrth waed pawb oll. Felly Elias dduwiol, wedi methu ei ddwyn i ben, oherwydd anuffydd-dod yr oes i'w genadwri, clywn ef yn llefain o eigion ei ymguddfa yn y graig—"Lladdasant dy brophwydi, a chloddiasant dy allorau i'r llawr; myfi a adawyd fy hunan, ac y maent yn ceisio fy einioes innau." Ni wyddai efe yn amgen; ond hollol annhebyg oedd efe i gwblhau yr adferiad trwyadl hwnw y pryd hyny, onide? Felly y gwyddai Duw yn dda ddigon. Ond byddai y cynnyg hyny yn dystiolaeth i'w herbryn; ac efe a anfonodd gerbyd Israel a'i farchogion i ymofyn yr hen brophwyd duwiol o'u plith, oherwydd na wyddent ei werth, ac a'i cadwodd hyd yr amser yr anfonid ef â benthyc rhai o'i allweddau i arall i lenwi ei gylch fel yntau, ac i ddwyn tystiolaeth i euogi rhyw genedlaeth ddyfodol.

Ioan Fedyddiwr hefyd a ddaeth yn *Elias*, neu yn *adferwr*, yn ei

ddydd. Dywedodd yr angel Gabriel y deuai yn "ysbryd a nerth Elias;" a phe ufyddhasai y bobloedd i'w ddysgeidiaeth ef, ac i'r hyn a orchymynai yr Iesu iddynt, buasai y prophwydoliaethau am dano yn cael eu cyflawni y pryd hyny, buasai eu plant yn cael eu casglu ynghyd fel y casgl yr iâr ei chywion dan ei hadenydd; ond medd yr Iachawdwr, nis mynech; felly y gwelai eu gwrthodiad o'r Elias, neu yr adferwr hwn, sef Ioan befyd. "Os ewyllysiwch ei dderbyn, efe yw yr Elias oedd ar ddyfod," ebe Crist. Ie, os derbynient ef; ond ar yr un pryd dywed wrthynt yn eglur, na dderbynient ef, ac yna na fyddai yn llanw y cymmeriad hwn, nac yn llwyddo i gyflawni swydd Elias, trwy eu hadferyd hwynt. Cyffelyba y genedl hono i blant yn eistedd yn y farchnadfa—nad oedd priod-ddull nac athrawiaeth Ioan nac yntau yn unol â'u chwaeth hwynt, ac na fynent hwy yn ddysgawdwr. "Daeth Ioan heb na bwyta nac yfed, ac meddant y mae cythraul ganddo. Daeth Mab y dyn yn bwyta ac yn yfed, ac meddant, Wele ddyn glwth, ac yfwr gwin, cyfaill publicanod a phechaduriaid." Felly gwrthodasant Ioan Fedyddiwr yn hollol, "a gwnaethant ag ef yr hyn a fynasant," sef tori ei ben ef. Ac er ei fod ef mewn ffaith yn Elias, etto, o herwydd eu gwrthodiad o hono, ni allai fod felly iddynt hwy; a dyma yr achos, pan ofynasant iddo, "Ai Elias wyt ti?" iddo ateb, "Nage." Ond pe buasai eu hymddygiad hwy ato fel y dylasai fod, cawsent atebiad hollol wahanol i'w cwestiwn. Dyma y dirgelwch a ymddengys yn groes-haeriadol, sef ei fod ef yn cyfeirio at y ffaith o'r swydd, a hwythau at y dyn. Gwyddai Ioan eu bod hwy yn ffurfetio eu hawl i'r adferiad, ac yn gwrthod dyfod yn "genedl o offeiriaid, ac yn bobl neu drysor priodol i'r Arglwydd," y waith hon etto fel cynt, trwy ddirmygu ei genadwri ef, ynghyd â'r hwn a'i anfonodd, a chymmerwyd teyrnas Dduw oddiarnynt hwy, fel y rhagdywedodd Iesu Grist.

Nid ydym wrth hyn yn beio ar yr hen brophwydi, ond gwnaethant hwy y goreu a allent; er hyny methasant ddwyn yr adferiad trwyadl hwn yn mlaen, oberwydd anghrediniaeth a gwrthryfelgarwch eu cydoeswyr, er fod pob un wedi cyflawni rhyw gyfran tuag at ei ddwyn i ben yn ei bryd. A chan nad oedd amser rhagderfyndedig y Jehofa wedi ei gyflawni, ni ellid eu perffeithio hwynt hebom niunau hefyd, na nyni hebddynt hwythau hefyd. Ac fel y nodwyd eisoes, rhaid fod yr offeiriadaeth dragwyddol, yn y nefoedd ac ar y ddaear, yn cydweithredu er cyflawni yr adferiad hwn. Ac yn gymmaint ag i Saint y Dyddiau Diweddaf gael y fraint fawr o dderbyn cyflawnder yr efengyl ar "oruchwyliaeth cyflawnder yr anseroedd" hyny ag y sonia Paul am danynt, "pryd y crynhoa Duw ynghyd yn Ngŵrist Iesu bob peth, ag sydd yn y nefoedd

ac ar y ddaear, ynddo ef." Yn gymmaint a'u bod wedi eu hanrhegu â'r cyfan o ddarpariadau blaenorol *adferwyr* y cyn-oesoedd, â ffydd a gweithredoedd y rhai hyny a'r gweision diweddaff hyn, ynghyd ag allweddan yr oruchwyliaeth adferiadol hon, gallwn ninnau ddywedyd wrth y genedl hon fel y dywedasant hwythau wrth eu cydoeswyr—"Os ewyllysiant eu derbyn, ac ufyddhau i'w cenadwri, mai Saint y Dyddiau Diweddaff yw yr Elias oedd ar ddyfod o flaen dyfodiad dydd mawr ac ofnadwy yr Arglwydd." Ie, hwy, os ufyddheir i'r athrawiaeth a bregethant, yw Elias yr oes hon, ac a "droant galon y tadau at y plant, a chalon y plant at y tadau." Os na dderbyniant hwynt, yna ni ddichon eu bod yn Elias neu adferwyr iddynt hwy; ond daw yr Arglwydd, a thery yr holl ddaear â barn, am wrthod o honynt gymmeryd eu hadferyd. Ond er yn wahanol i'r goruchwyliaethau blaenorol yn hyn, etto, ond i'r Saint fod yn ffyddlon, ac iawn ddefnyddio eu talentau gwerthfawr, trwy rybyddio eu cydoeswyr hwythau, fe'u ceir yn ddiuog o waed pawb oll; cânt fwynhau eu rhan a'u hetifeddiaeth a ennillasant yn mhlith yr holl adferwyr a fu, pan eu gwobrwyir yn ol y gweithredoedd a wnaethant yn y corff; cânt etifeddu yr orphwysfa sydd etto yn ol i bobl Dduw, sef i gael ei hadferu iddynt; canys ceisio yr ydym ninnau, fel Paul gynt, ddinas dragwyddol, saer ac adeiladydd yr hon yw Duw. Gwyn fyd y rhai sydd yn ceisio gwlad well nâ hon, lle y cânt oll gyduno i ganu cân Moses, a chân yr Oen, pan y bydd pawb o'i mewn yn Elias, yn gyflawn o ysbryd a nerth Duw Elias. Amser braf yw amseroedd adferiad pob peth, onide? Pwy ni ddywed, Henffych iddo, prysured i ben!

AMDDIFFYNIAD Y SAINT *VERSUS* CYHUDDIADAU THOMAS JONES, MERTHYR, AC EREILL.

ANWYL DDARLLENYDD,—Ysgrifenwyd yr amddiffyniad canlynol ar y dysgwyliaid iddo gael ymddangos yn y *Bedyddiwr*. Aethom ag ef i'w swyddfa ef yn Nghaerdyf yn bwrpasol, cynnygiasom ef i'r Golygydd hwnw a fu ddigon rhydd i gyhoeddi y cam-gyhuddiadau erchyll hyny, a phob peth dirmygus arall arnom fel enwad, sef yr hwn a ymfrostia fod ei *Fedyddiwr* ef yn gyhoeddiad rhydd i bawb amddiffyn eu cymmeriadau. Erfyniasom yn daer a gostyngedig am gael clirio ein hunain o'r baw ysgeler a ddwbiodd arnom yn ddiachos; ond, fel arferol, yr atebiad a gawsom ganddo oedd *gomeddiad digywiilydd!* Do, druan, brawychodd, glasodd, cochodd, duodd, gwelwodd, brochodd, ac ymgynnddeiriogodd, heb un achos ond cynhyrifiadau maleisus cydwybod euog, nes y siglai ei liniau a'i holl gorff yn waeth nâ'r eiddo Belsassar gynt. Ac yn ngwynneb pob taerineb, rheswm, a chyfiawnder—nid oedd fater heth, gwaeth-waeth yr ysgyryngai ei ddannedd, y malai ewin, ac yr haerai ychwaneg o gyhuddiadau disail ac enwau

drwg arnom, ië, yn ein gwynebau! Cyhuddai y Saint o fod wedi dweyd na chafodd yr William Hughes hwnw a dorodd ei glun gyn-northwy gan blwyf Merthyr, a thrwy hyny ddarfod iddynt forffetio eu geirwiredd; ac o ganlyniad, na chaent amddiffyn eu hunain yn y *Bedyddiwr*. Dywedasom y gellid profi y dynion duwiolaf a fu yn y byd erioed yn gelwyddog yn ol y resymeg yna, sef credu camgyhuddiad gelyn professedig, a gwrthod gwrando ar yr ochr arall. Heriasom ef i brofi y cyhuddiad gwarthus hwnw arnom fel enwad, neu hyd y nod i brofi fod cymmaint ag un o'r Saint erioed wedi dweyd y fath beth â hyny. O, yr oedd fod rhyw Edward Lewis, o'r Coed-duon, wedi ysgrifenu hyny i'r *Bedyddiwr* yn ddigon o brawf iddo ef. ehe efe. Dywedasom nad oedd y gwr hwnw wedi profi ei cirwiredd yn ddigonol i ni ei gredu. Ac os gail y gwr hwnw brofi fod rhai o'r Saint wedi dweyd na chafodd W. Hughes gynnorthwy gan blwyf Merthyr, cyhoedded eu henwau i'r byd, a thystion o hyny; yna galwn y cyfryw i gyfrif, canys yr ydym ni wedi holi llawer, a methu cael un a ddywedodd hyny. A phe dywedasai rhyw un, dau, neu dri hyny yn eu hanwybodaeth, a fuasai hyny yn profi yn agos i fil o bobl yn gelwyddog? A ydym ni, wrth brofi eich gohebwy'r erlidgar chwi yn gelwyddog mor eglur, yn profi drwy hyny fod holl Fedyddwyr Cymru yn gelwyddog? Ydym, yn ol eich rhesymeg chwi eich hunan!

Dywedasom fod tystiolaeth Wm. Hughes am y peth hwnw wedi ei hysgrifenu, a'i geirwiredd wedi ei ardystio gan lawer o lygad-dystion, ei bod wedi ei hanfon iddo ef, ei fod wedi cyfaddef iddo ei derbyn, ac wedi gwrthod ei chyhoeddi yn y *Bedyddiwr* hyd heddyw!—fod y dystiolaeth hono wedi ei chyhoeddi i'r byd ar y pryd hyny, yn yr hon yr addefa Wm. Hughes ei hun ddarfod iddo gael cynnorthwy gan blwyf Merthyr, yr hyn a brofa yn amlwg nad y Saint a ddywedodd erioed na chafodd gymhorth gan y plwyf.

Mae brad a dichell y ddyfais wyrgam hono i'w weled yn amlwg. Dyben gelynyon y gwirionedd yn llunio y cyhuddiad hwnw ydyw, ccisio profi y Saint yn gelwyddog mewn un peth, fel na choelir fod Wm. Hughes wedi tōri ei glun na chael iechyd! A rhyfedd fel y llwyddant yn eu dyfais euilibus. Sylwer ar eu prawf a'u *sophistry* gystrawig! Rhyw Edward Lewis yn dweyd fod [rhyw un, dau, ynte tri, tybied, ni welodd yn dda i ddweyd, ond] y Seintiau yn y Coed-duon yn dweyd na chafodd Wm. Hughes gymhorth gan blwyf Merthyr, a'r "Quick yn Dwr" celwyddog hwnw yn gwneyd i'r *relieving officer* ddweyd ei fod wedi cael. A dyma brawf, medd golygydd y *Bedyddiwr*, na thorodd y dyn ei glun, ac na chafodd iechyd!! Pa brawf yw hyn? Beth a wyddai y *relieving officer* hwnw a dorodd y dyn ei goes? Pa un ai efe, ynte y "Quick yn Dwr," a ysgrifennodd hyny? Mae'r ddau yr un lleferydd, chwaeth, a dyben. Cywilyddied y dichellwyr ynyd wrth y fath dwyll-resymeg faleisus! Ond dyma yr oreu a allant ddyfeisio yn erbyn y Saint; a gwell ganddynt hyn, nag addef y gwir a chydabod gallu Duw yn y peth hwnw. Pe dywedasai un o'r Saint na chafodd ddim gan y plwyf, pa fodd yn enw rheswm y dichon hyny brofi enwad cyfan o bobl yn gelwyddog? A phaham y gwrthodai y golygydd rhagfarnllyd hwn iddynt le i amddiffyn eu cam? Atebwn, mai oherwydd y rhagwelai ei hun yn ei liw

prïodol drwy hyny, sef yn erlidiwr creulon, ac yn athrodwr parhaus. Meddyliai gadw ei ddarllenwyr dan ei bawenau, a chadw y Saint yn y baw a ddwbiodd efe arnynt! Beth ychwaneg a allai wneyd? Beth ychwaneg a allasem ninnau wneyd? Cynnygiasom iddo ddigonedd o brofion o'u dieuogrwydd, ac yn ngwyneb y cyfan pranciai oddiam-gylch fel dyn gwyllt, gan waeddi, "Pw! pw! pw!—twyll, twyll i gyd." Ni fynai glywed dim genym, nac edrych ar ein hysgrif. "*Ni wnaif fi ddim â chwi,*" ebe efe; ac ymaith ag ef i'w dwll mewn tymherau drwg, gan *slamo* y drws ar ei ol! Iê, Gynrî, dyma ymddygiad golygydd y *Bedyddiwr* crefyddol hwn, er ei holl ymfrost o "ryddid." Rhyddid un-ochrog iawn yw hyn—iê, rhyddid iddo ef gamgyhuddo a syno, a rhyddid i ninnau oddef y cyfan yn ddiameddiffyn o'i ran ef. Diolchwn am ryddid y wasg a'r gwirionedd i'n hamddiffyn, a gwnawn yr iawn ddefnydd o honynt hefyd, er ei waethaf ef a'i blaid enllibus. Drwg genym fod i ni ddim a wnelom ag yntau; ei fai ef ydyw hyny. Ond cynmuint â hyu wrtho—fod yn rhy ddiweddar iddo waeddi, "Ni wnaif fi ddim â chwi," yn awr, wedi bod yn ein difenwi a chyhoeddi pob math o gableddau arnom am flynyddau. Mor gynted ag y dechreuwn ni ymolechi. taff y cawg i lawr, a chan genfigenu gwaedda, "Ni wnaif fi ddim â chwi:" ac mor gynted ag y cynllunia rhai o'i gynffonwyr ryw ystori ddigon drwg a chelwyddog i foddio ei chwacth ef, allan â hi yn y *Bedyddiwr* fel seren wibiog, ac efallai enw rhyw barchedig yn gynffon iddi, fel ei chreder yn lawddach gan y werin; ac yn y fan y dechreuwn amddiffyn, dianc fel y cadno i'w dwll, ben ol yn mlaenaf, a than ysgyrnygu ei ddannedd oddiyno, gwaedda, "Ni wnaif fi ddim â chwi!" Beth yw hyn ond dweyd y deil efe ein pen dan ei gesail tra gallo, ac y gwahodda bob Parch. Mr. Davies o Ddowlais, Parch. Mr. Tobit ger y Bont, Parch. T. ab Ieuan, Parch. D. Williams o Abercanaid, Thomas Jones o Merthyr, Quick yn Dwr anwiredus, Meiriadog afresymol, pob *mad-dog* a *chowards* cyfarthlyd ereill drwy'r dywysogaeth, i'n taro yn ein talcen, ac yr helpa yntau gyda ei saethau brwyn bob cyfleu a gaffo. Mae yn ffiائد genym fod rhaid i ni ddiswyo ein dwylaw i drin y fath gadno drewedig, ac ni buasem ychwaith oni bai fod yn ddyledus i'w ddarllenwyr gael ei weled gerfydd ei gynffon o flaen eu gwynebau, fel y gwelont fath un ydyw, a deall pa fodd i'w goelio ef a'i *Fedyddiwr* enllibus o hyn allan. Darllener a ganlyn i ddechreu, a cheir ychwaneg o sawyr ei ymgnofa etto, fel y gallo pawb ffurfio ei faru ei hun am liw a llun ei galon ef.

WILLIAM PHILLIPS,
WILLIAM HENSHAW,
THOMAS PUGH.

[Copi o'r ysgrif at Olygydd y *Bedyddiwr*.]

MR. GOLYGYDD,—Dywedus i chwi, i'r cyhoedd, i'n cymmeriadau ein hunain, ac yn enwedig i'r grefydd yr ymddiwywn arni am fywyd tragwyddol, yw amddiffyn ein hunain yn ngwyneb y eam-gyhuddiadau gwarthau a ddygir yn ein herbyn gan ddyn o'r enw Thomas Jones, Merthyr, ac a welir yn rhifyn Hydref o'r *Bedyddiwr*.

1. Cyhudda ni o arferyd enwau rhyw "Ahiram a Joseph Smith wrth fendithio," yr hyn sydd hollol ddisail, mewn gwirionedd.

2. "Y cânt feddiannu eu lleoedd yn Nauvoo," &c. Nid yw hyn felly ychwaith; ond yr hyn a gredwn mewn perthynas i'r "ymfudiad i'r America," yw yr hyn a geir yn yr ysgrhythrau santiaidd; a gwyr y gwr uchod na addawyd dim meddiant i ni, nac iddo yntau, yn Nauvoo, nac yn un *man nodedig* arall ar y cyfandir.

3. "Hysbysen (ebe efe) ein bod yn gweled Iesu Grist mewn *whiskers cochion*," &c. Mae y cyhuddiad hwn heb liw na llun iddo, mewn gwirionedd, cyn belled ag y mae a wnelo y Saint ag ef. Pa beth a allai efe fod wedi ei haeru yn debyg i hyny, nis gwyddom ni, ac nid ydym yn atebol drosto.

4. Mewn perthynas i'r ddyfais echryslon ein cyhudda o honi, sef, ein bod wedi fflugio cael dadguddiad, yn cyhuddo y llywydd cyntaf o fod yn ddrwg gyda gwraig gwr arall, fel y caiffai dyn arall ei swydd ef, &c. Ei wefusau ei hun sydd yn ei fwrw yn euog, fel y canlyn—"Barnasom y gwnai yr olaf yn well," ebe efe. Ac ar yr anadliad nesaf, dywed—"Fod yr olaf yn cael ei ystyried yn brif-lywydd" eisoes! Afreidiol manylu, oherwydd y mae'r celwydd hwn yn ddigon anlwg. Ond, mewn sobrydd y dywedwn, fod y cyhuddiad hwn, ie, bob gair o hono, wedi cael ei brofi yn hollol anwireddus mewn arholiad manwl a fu yma ar y peth o flaen cannoedd, pa rai a dystiant hyny hefyd. Profwyd na chafodd y fath ddyfais ryfygus ac annuwiol fodoliaeth. ond yn unig yn ei galcn genfigenus ef ei hun. Haera fod *ereill* wedi cyduno ag ef yn hyny. Erioedd o'r blaen ni ddywedodd fod ond un; ac er cael pob annogaeth genym i brofi hyny yn yr arholiad manwl a fu arno ef, methodd brofi fod cymmaint ag un o honom yn gwybod dim am y fath gabledd ysgeler. A rhyfedd, os gwir y cyhuddiad, na ddarfu i'r Thomas Jones hwn ynganu gair am y fath beth am lawer o fisoedd wedi yr amser y dywed iddo gymmeryd lle!

Nid oedd eisieu y fath ddyfais, nac un ddyfais arall, i ateb y dyben y sonia am dano, oherwydd nad oedd dyfodiad y llywydd olaf i'r wlad hon yn effeithio dim mewn un dull ar yr hwn oedd yn blaenori yma o'r blaen. Ac—"No object in view, no design." Pe dywedai y gwr uchod y gwir, gwyr yn dda na welodd gyhuddiad yn cael ei dderbyn yn erbyn neb o honom, ond gan lygad-dystion. Ain ei waith yn haeru ei fod wedi clywed un o honom yn haeru ddarfod iddo gael dadguddiadau na chaniatâ gweddeidd-dra iddo eu gosod o flaen y cyhoedd, na fydded i chwi, Syr, na neb arall, ei goelio. A thybiwn, pe yr adwaenech chwi y gwr hwn, fel ei hadwaenir yma yn ei gartref, na chawsai un o'i haeriadau ymddangos yn eich colofnau, h. y., os oes genych ryw barch i'ch cyhoeddiad. Nid ydym yn chwennych duo cymmeriad y gwr hwn mewn un modd, oud carasem yn fawr ei adael yn llaw Duw cyfiawn. Dyoddef fel llofrudd neu leidr a fyddai bod yn ddystaw yn hwy, yn ngwyneb y fath gyhuddiadau. Onid yw efe wedi ein gorfodi i ddod allan fel hyn, i'w ddangos ef yu ei liw priodol, fel y dealloch chwi a'ch darllenwyr gymmeriad yr unig dyst a saif i fyry yn erbyn tystiolaeth cannoedd o Gymry. i'w darostwng hwy, a'r oll sy'n werth byw erddo (pe gwir ei haeriadau), islaw dynoliaeth. Ond mewn gwirionedd, Syr, nid yw ei gyhuddiadau ef i'n herbyn yn ddim angen nag effeithiau gwenwynig ei galon ddialgar ei hun, a hyny wedi iddo gael ei esgymuno o'n heglwys ni, ac wedi ei brofi yn enog o bechodau llawer mwy ysgeler nag y dymunem enwi. Ceisiodd ddod yu oi amryw weithiau; ie, hyd y nod wedi i'w

ysgrif gyntaf ymddangos yn y *Bedyddiwr*, dywedodd, y byddai yn dda ganddo ddođ yn ol i'n heglwys ni. Y mae cannoedd a dystiant iddynt ei glywed yn dweyd, ar ol iddo gael ei dori allan, "nad oes gan neb arall y wir grefydd ond ein heglwys ni." Er hyny, yr oedd ei ymddygiad anfoesol ac anedifeiriol yn parhau yn gyfryw, fel, pan safai i fyny o flaen ein heglwys i geisio ei le yn ein plith, na chodai cynmaint ag un, o yn agos i dri chiant o aelodau, ei law o'i blaid! Haera i y pryd hyny nad oedd efe wedi traethu y cyhuddiadau uchod wrth y Bedyddwyr, pan y gwyddem ei fod wedi gwneyd hyny eisoes. Pan welodd na chaffai dderbynaiad, ymollyngodd i'r fath nwydau drwg, nes bygwth ar gyhoedd y mynai ddial arnom rywfodd, ac y cyhoeddai bob peth a allai yn ein herbyn yn y *Bedyddiwr*, &c., yr hyn a brofddai i bawb nad oedd efe yn wir edifeiriol am ei bechodau blaenorol; ac o ganlyniad, ni chaniatâi ein rheolau eglwysig iddo ef, na neb arall o'r cyfryw, aelodaeth yn ein plith. Aeth y dyn hwn mor afreolus, nes gorfod i'r swyddwyr ei droi allan o un cwrdd cyn y diwedd. Wedi ei wrthod genym ni, cynnygiodd ei hun i'r Bedyddwyr drachefn; ond clywsom ddarfod iddynt hwythau ei wrthod mewn mwy nag un eglwys, ac y bygythiai eu haelodau ymadael yn hytrach na chyfranogi gyda'r fath ddyn. Ac yn ddiweddfaf oll, cyssegrwyd ef â dwfr santiaid y Pabyddion. Bedyddiodd ei blentyn gyda hwy, a haera yn awr mai ganddynt hwy yn unig y mae y wir grefydd! Paham yr ystyria eich gohebydd groes-haeriadau gelym profsedig ac esgymunedig fel hwn yn deilwng o le mewn cyhoeddiad crefyddol. yn hytrach na thystiolaeth wirach canoedd o gymnydogion, yn hollol groes iddo? Gwyddai efe o'r gorcu fod y tyst dialgar hwn yn cael ei ystyried gan ei frodyr ef yn rhy ddrwg i gael dyfod i'w plith hwynt; ac etto yn ddigon cywir i gondemnio enwad o ddynion ereill? A fyddai y fath dyst yn ddigonol yn erbyn ei enwad ef, neu yn erbyn rhyw eglwys arall, heblaw y Saint, tybied? Na fyddai yn ddiau, ddim mwy nag oedd tystiolaeth Judas Iscariot yn erbyn yr enwad y perthynai yntau iddo. Pa ddyn rhesymol a ddysgwylia glywed llawer o wir gan ddyn esgymunedig, digon drwg i addef ei fod wedi rhyfela yn wirfoddol am dros dair blynedd yn erbyn Duw a chydwybod?

Pe gwir fyddai haeriadau y dyn hwn, na dim o'r cyffelyb, am ein crefydd, ai tybied y glynai dros hanner miliwn o bobl resymol yr oes oleu hon wrthi dan bob gwawd ac erlidigaethau, a'r rhan fwyaf o honynt wedi bod gydag enwadau ereill cyn hyny? Pe twyll a fyddai genym, ai tybied, mewn difrif, yr erlidiai y twyllwyr hyn ni mor arw? Unwaith etto tystiwn, mewn gwirionedd, nad yw y broffes fawr a wna y gwr uchod am ei *gydwybodolrwydd* i "ddadguddio twyll," &c. namyn rbagrith digywilydd, er cael gan ereill ei gredu, a'i unig ddyben ydyw dial ar y rhai na allant gyd-ddwyn yn hwy â'i ddrygioni. Cawsom lawer o drafferth er pan y daeth atom, i geisio ganddo rodio yn ffyrdd cyfiawnder; ond o'r diwedd gorfu arnom ei dori maes, a dyma efe wedi dangos pwy ydyw, mai "cyhuddwr y brodyr," wedi troi yn "angel y goleuni." Gwir yw y gair a ddywed—"Dyn drwg o drysor drwg y galon a ddwg allan bethau drwg."

Gan fod eich cyhoeddiad yn ddigon rhydd i'r cyhuddiadau gwarthus hyny, hyderwn yn fawr y bydd yn ddigon rhydd i dderbyn hyn o amddiffyniad hefyd. Gallasem roddi i chwi lawer ychwaneg o enwau dynion cymmeradwy, ond gobeithiwn y boddlon a yr hyn a ganlyn yn bres-

ennol, yn ngwyneb un tyst :—Samuel Morris, John Phillips, David John, William Morgan, Daniel Williams, David Rees, Thomas Rees, Thomas Smith, Morgan Morgans, Howell Williams, David Jones, Jenkin Hughes, Joseph Davies, Edward Edwards, William Hughes, Hugh Jones, Jenkyn Thomas, John Griffiths, Timothy Wosley.

Yn ychwanegol at yr hyn a ddywedwyd, wele dystiolaeth William Henshaw ei hunan :—“Gan mai myfi yw y llywydd cyntaf hwnw y cyfeiria Thomas Jones ato, dyledus yw hysbysu mai anwireddau hollol yw yr hyn a ddywed. Ni ddarfu Capt. D. Jones erioed geisio fy swydd i. Nid yw ei swydd ef yn effeithio dim ar fy nyledswyddau i; ac yna ni bu neb o'r Saint yn euog o ddyfeisio y cabledd ofnadwy y sonia Thomas Jones am dano, ond efe ei hun. Buasai meddwl am y fath ryfng yn ein llanw ag arswyd a braw.”

Yr eiddoch, &c.,

WILLIAM PHILLIPS,
WILLIAM HENSHAW,
THOMAS PUGH.

Gwel y darlennydd bellach nad yw tystiolaeth y Thomas Jones esgymunedig hwn yn deilwng o'i ymddiried ef, oherwydd ei fod yn dweyd gormod i fod yn wir, ac yn ei groes-ddweyd ei hun. Mewn rhifyn blaenorol o'r *Bedyddiwr*, galwai y dyn hwn y Saint yn dwyllwyr, &c. Haerai mai ffug oedd y doniau ysbrydol a broffesant, a dyry enghraifft o lefaru mewn tafodau dyeithr, a'r cyfieithiad, &c.. “er profi twyll y Seintiau.” Ac wedi y cwbl, onid profi ein gwirionedd y mae efe yn anwrthwynebadwy i bob dyn rhesymol? Sicr iawn; canys addefa ein gelyn profsedig hwn ein bod yn llefaru â thafodau, cyfieithu, &c., ac o ganlyniad, ein bod yn efelychu yr eglwys apostolaidd, yn ein profes o leiaf. Yr oeddynt hwy yn dweyd, “Deisyfwch doniau ysbrydol;” dyma addefiad ein bod ni yn gwneyd felly etto. “Byddwch awyddus i brophwydo, ac na waherddwch i lefaru â thafodau dyeithr,” ehe Paul; addefa Thomas Jones ein bod ni yn gwneyd hyny. Etto—“Yr hwn sydd yn llefaru â thafod dyeithr, gweddied ar iddo allu cyfieithu,” oedd y gorchymyn apostolaidd; ac wele ein gelyn penaf yn tystiolaethu fod y Saint yn gwneyd felly. Ai tybied nad yw hwn yn dyst digon diduedd gan hyd y nod Glygydd y Bedyddiwr ei goelio? Yr ydym ni yn pregethu i'r hyd, ac yn profesu ein hunain ein bod yn mwynhau y doniau ysbrydol hyny yn ein heglwysi. Mae y byd yn ammau, ein gelynuon yn gwadu; ond o'r diwedd, dyma iddynt dystiolaeth ddigon cryf, debygen ni, ein bod yn credu ein bod yn mwynhau y doniau; a phwy a wyr yn well na'r rhai a broffasant y rhoddion nefol wrth y cannoedd? Pe bai Thomas Jones mor gyfrwys â gwadu nad oeddym yn honi mwynhau y doniau yn yr eglwys, yna, cyn belled ag y credasid ei air, llwyddasai yn ei amcan annuwiol. Ond y mae yn rhy ddiweddar i hyny yn awr, canys y mae wedi addef ein bod yn eu harferyd. Mae'n wir fod Thomas Jones yn haeru mai ffug yw y doniau, ond y mae mor wir â hynny hefyd na chynnyg efe un math o brawf o hyny; na wna, mewn undull, ond ei air ef yn unig: a pheth yw ei haeriad ef yn ngwyneb cannoedd a wyddant yn well? A ddichon rhywun rhesymol greu y gwai cannoedd o rai a fuant yn bregethwyr doniol, yn ddiaconiaid ffyddlon, ac yn aelodau parchus gyda'r gwahanol enwadau creill, barhau i ffugio doniau ysbrydol

am flynyddau, mewn undeb a chariad, heb gael un budd, na thâl, na lles trwy hyny? O na, y mae y fath beth yn anmhosibl; a'r neb a haera hyn, a haera ar yr un anadliad, mai fflwg oedd yr arferiad o'r un doniau yn yr un fath achosion gan saint y dyddiau gynt. Deistiaeth profsedig yw y naill wadiad yn ogystal â'r llall.

CIP-OLWG AR Y DAVID WILLIAMS O ABERCANAID HWNW, SYDD A'I
FYS MOR DDWFN YN Y FRYWES HALLT HON.

Dyma y dyn hwnw a gyhoeddodd ffrwyth ei ymenydd cymmysglyd, a'i enllib cās, yn erbyn y Saint, mewn traethodyn bychan yn ddiweddar; a dyma y dyn a bwyswyd mor deg yn ei glorian ei hun, ac a gafwyd yn brin o reswm, ysgrhythr, a gwirionedd; ac y profwyd ef yn ddeist athrodus trwy ei lyfryn. Ac yn nesaf peth, yn lle canlyn yn y blaen mewn brwydr deg drwy yr argraffwasg ar ol dechreu, dialai yn mhob modd a allai o'r tu ol i'r berth. Nid ydym yn sicrhau mai efe a berswadiodd un o'i aelodau i droi yr holl Saint o'u gwaith a'u tai, ar yr addefiad mai o herwydd eu crefydd yn unig y gwneid hyny. Ond hyn a ddywedwn, Os nad efe oedd yr achos cynhyrfiol o'r erlidigaath gywilyddus, a'r creulondeb digyffelyb hwnw, nad y David Williams hwnw a rwystrodd un o'i braidd i wneyd hyny. Onid yw efe yn profesu bod yn fugail ar braidd yr Iesu addfwyn? Ond cynddaredd blaidd yw hyn yn hytrach. Dywed y Bibl i ni mai "wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt." Hefyd, yr hwn a ddywedo Duw yn rhwydd wrth y neb a wnelo y fath beth. sydd yn gyfranog o'i weithredoedd drwg ef. Dywedir hefyd, "Na ddialwch;" ond y mae dial yn felys gau hwn. Yn nesaf peth, clywir ef yn y tafarndai ar nos Sadyrnau yn cymhenu y Saint, yn mhllith meddwon, tyngwyr, a rhegwyr. Cofus genym y ddiareb, mai "adar o'r un lliw a ehedant i'r un lle." Clywsom fod rhyw bregethwr erlidgar wedi methu cadw ei draed dano, ac yn mha le y cafodd ei hun, neu y cafwyd ef gan ereill, debygech chwi, wrth ddychwelyd o bregethu ar nos Sul, ond mewn pwll hwyad! Nid ydym ni yn dweyd pwy oedd y truan anffodus hwnw. Ond gwyddom mai David Williams, o Abercanaid, yw y gohebydd a ffurfiodd, a ofynodd, a ysgrifennodd, ac a anfonodd atebion y Thomas Jones hwnw i'r *Bedyddiwr*, ac a ddyunuai i'w ddarllenwyr goelio ei dystiolaeth unigol ef, yn erbyn yr holl Saint a'u crefydd. Ond clywch beth yw barn David Williams ei hun am eirwiredd a chymmeriad y Thomas Jones hwnw. Y mae tystion ddarfod iddynt ei glywed yn dweyd mai dyn drwg a chelwyddog oedd y tyst hwnw, nad oedd ei air yn werth diin yn ei olwg ef, a bod ei holl aelodau ef wedi gwrthod derbyn Thomas Jones yn aelod o'u heglwys hwynt; ac etto, dysgwylia i'r wlad gredu ei dystiolaeth yn erbyn y Saint. Ddarllenwyr y *Bedyddiwr*, beth meddwch chwi am hwn? Bydded rhyngoch chwi ag ef. Yn nesaf, dangoswn y benbleth gelwyddog a wauodd y ddau *bartner* hyn, a'r modd y crogant eu gilydd yn yr un rhaif. Yn ei ragymadrodd i'w holwyddoreg. yn rhifyn Hydref o'r *Bedyddiwr*, dywed David Williams wrth y golygydd—"Ni therfynwyd yr ymddyddan [efo T. Jones] ar hyny [séf yr hyn a ddaeth allan yn y rhifyn blaenorol], eithr aethom rhag eiu blaen." Ai "rhag eiu blaen" gyda'r hanes a geir yn rhifyn Hydref? Beth arall a ddichon gyfeirio ato? Ac os felly, paham y

gofyna yr un D. Williams i T. Jones, yn yr ymddyddan hwnw—"A ydych yn aros yn yr un penderfyniad yn bresennol [sylwer, â pha bryd?] ag yr oeddych pan y buom yn ymddyddan ar y mater hwn o'r blaen?" Beth! Oni ddywedodd y fynydd o'r blaen, na therfynwyd yr ymddyddan y pryd hyny? Oni ddywed fod ganddo bedwar o dystion crefyddol, fod yr holl ymddyddan, sef yr hyn oedd yn y rhifyn blaenorol, a'r un dan sylw, wedi cymmeryd lle ar yr un "prydnawn gwaith," yn yr un Capel y Bedyddwyr? Ie, dyna ddywed David Williams. Ond sylwer fel yr haera y Thomas Jones hwn yn hollol groes iddo! Dywed mai rhyw amser arall y bu yr ymddyddan olaf hwn, a'i fod yntau yn parhau yn yr un penderfyniad gwrol, sef i gablu plant Daw, ag yr oedd y tro blaenorol. Pa un o'r ddau a goelir? Anmhosibl coelio y ddau. Ond ni choelia neb rhesymol yr un o honynt, debygwn i. Goreu iddo ef po leiaf a fo ganddo o dystion fel hyn, onide? canys tystion i'w erbyn ei hun yw y rhai hyn. Pwy fyddai mor ifol â dysgwyl clywed gwirionedd gan y fath gyfeillion hynaws â'r rhai hyn? Gwr cloff yw'r celwydd. Unwaith etto, am y David Williams hwn, dywed nad oedd yn meddwl y Saint yn werth sylw pellach, oddieithr i'r "Meiriadog" hwnw ofyn i Thomas Jones, trwy gyfrwng y *Bedyddiwr*, a oedd efe wedi addef wrth Robert Evans mai celwyddau a ysgrifennodd efe ar y Saint, a bod yn edifar ganddo. Ac yna, pwy a welwn yn neidio i'r bwlech, gan na allai gael gan Thomas Jones wadu hyny yn awr, ond y David Williams hwn, fel teigr yn yspïo ei fantais i graffu ei ysglyfaeth; a'r modd y gwna i atebion blaenorol Thomas Jones i wneyd y tro yn awr, ac i brofi Robert Evans yn gelwyddog, ac i gadw yr argraffiadau cyntaf ar feddwl y wlad, ydyw, cyfnewid ei gwestiwn cyntaf, fel pe buasai yn ei ofyn wedi i gwestiwn Meiriadog ddod i maes, ac fel y buasai yr ateb hwnw yn ateb i Meiriadog hefyd. Dyma ei gweithio hi yn drwsogl, onide? Profasom eisoes fel yr yngrogodd yn ei rwyd ei hun, trwy addef yn ei ragymadrodd fod yr atebion diweddaf wedi eu rhoddi cyn i T. Jones wadu. Ond y nae yn amlwg mai *private* at ei *partner* anwyl, sef y golygydd, oedd y rhagymadrodd, ac iddo yntau, naill ai yn ei frys, neu ryw ffwdan anffortunus arall, ei ollwng allan.

Gresyn, er lles eu hachos hwynt, na fuasai y ddau fradwr yn deall eu gilydd yn well. Gofaled Goliath y cledrwy o Abercanaid anfon ei *secrets* gwenwynig i'w gyfaill ar eu pen eu hun y tro nesaf. rhag ei gywilydd. Ond pa fodd y gallai ei ohebiaeth ef fod yn atebiad Thomas Jones i Meiriadog, oddieithr ei fod yn brophwyd, ac ateb cwestiynau cyn eu gofyn? Ond, er gweled ychwaneg o'r *business* gywilyddus a garia y pregethwr hwn a'i Judas cyflogedig yn mlaen, mor *sly* debygasant hwy â'r cwn lladd-defaid, darllener a ganlyn, a chaiff y *new member* o'r sanhedrim hon, sef Meiriadog, ei dynu drwy'r felin etto ar ei ben ei hun, a gweled ei fod wedi dechreu gwaeth *job* nâ'r frad hōno ynghylch lladrata corff Crist o'r bedd, a'i fod mewn gwaeth cwmni nâ'r celwyddwyr hyny.

ROBERT EVANS YN ERBYN MEIRIADOG.

"Yr ydym ni yn tystio ddarfod i ni glywed Thomas Jones yn dweyd wrth Robert Evans y dywediadau hyny a anfonodd Meiriadog i'r

Bedyddiwr, a chlywsom Thomas Jones yn dweyd llawer ychwaneg ar y pryd, ac i'r un pwrpas. Gofynodd Robert Evans i Thomas Jones dair gwaith drosodd, yn ngwydd dros ngain o delyniion, gan mwyaf o'r byd, y cwestiynau hyny ac ereill, a chafodd yr atebion hyny. Cyfaddefodd Thomas Jones mai anwireddau yw y cyhuddiadau hyny a gyhoeddwyd yn y *Bedyddiwr* yn erbyn y Saint. Cwestiwn gan Robert Evans—'A ydych chiwi, Thomas Jones, yn cyfaddef yn ngwydd y dorf hon fod yn edifar genych achosi i hyny fyned i'r *Bedyddiwr*?' Ateb gan Thomas Jones—'Y mae yn edifar genyf, ac ni feddyliais y caent ymddangos yno.' Cwestiwn gan Robert Evans—'A ydych chiwi yn caniatáu i mi ddefnyddio eich enw er eu galw yn oll?' Ateb gan Thomas Jones—'Ydwyf, a dywedwch fy mod i yn dweyd mai anwireddau ydynt.' Gwelsom Robert Evans yn ysgrifenu rhai o atebion Thomas Jones yn ei ddydd-lyfr yn y fan, yn ein gwydd ni oll; ac felly y gwyddom nia'i gwir yw yr hyn a ddywedodd Robert Evans wrth Meiriadog am y mater hwn."

HOWEL PHILIPS,
EDWARD OWENS,
BENJAMIN JONES,
THOMAS JOHN,

JOHN ROBERTS,
HOPKIN MATHEWS,
DANIEL WILLIAMS,
JENKYN THOMAS.

ADOLYGIAD.

SYLWEDD PREGETH AR Y GWYRTHIAU, *er mwyn goleuo y Cyffredin, a dangos Twyll y Creaduriaid a alwant eu hunain yn "Seintiau y Dyddiau Diweddaf."* Gan W. R. DAVIES, Dowlais.

[PARHAD O DUD. 131.]

DYWED Mr. Davies etto—"Mae hõni parhad gwyrthiau yn diswyddo ffydd, oherwydd ewyllys Duw yw i ni fyw ar ffydd." Pa bryd y derfydd dwih i dyn hwn? nid cyn diwedd ei draethawd, o leiaf. Mae y gert o flaen y ceffyl yma etto, canys y mae yn rhoddi yr achos i ladd yr effaith. "Os oes eisieu gwyrthiau, nid oes eisieu ffydd," ebe efe. Ond, dysg y Bibl ni, ië, dysga Mab Duw bawb, os oedd arnynt eisieu gwyrthiau, fod yn rhaid cael ffydd: "Pe bai genych ffydd gymmaint â gronyn o had mwstard, dywedech wrth y mnydd hwn, Symuder di ymaith." "Os ydwyt ti yn credu fe ellir," ebe ef; "pob peth sydd bosibl i'r neb a gredo." Dangoswyd digon er profi nad oedd yn bosibl iddynt dderbyn un fendith ond yn oll eu ffydd. Ac onid yw Paul, ië, yn y bennod a gymmer Mr. Davies yn destun, yn annog y saint—"Eithr deisyfwech y doniau goreu." O na, medd Dafisyddiaeth, peidiwch a gwyneyd dim o'r fath beith, rhag ofn i chwi ddiswyddo ffydd! Ond clywn Paul, er hyny, yn dal at ei bwnc, gan wrthwýnebu Davies i'w wnech—"Deisyfwech doniau ysbrydol, ond yn hytrach fel y prophwydoch." O na, medd Mr. Davies, yr ydwyf fi yn peri i chwi beidio dcisyf un o'r doniau ysbrydol, canys nid oes nemawr neb a'u profesa ond Sataniaid; ac ewyllys Duw yw i chwi fyw ar ffydd, sef yr achos, ond gwadwch yr effeithiau o hõni rhag i

chwi efelychu apostoliaeth. Etto, ebe tyst arall, oni wyddoch chwi, Mr. D., mai "ffydd heb weithredoedd, marw yw." Nid yw waeth beth a ddywedwch, ebe yntau; ni fynaf glywed son an allu Duw; gwell genyf rith duwioldeb, a gwadaf ei *grym* hi. Ac yna, ebe Paul wrtho, dos dithau, a chofia y ddedfryd sydd arnat. Gal. i, 7, 8. A chan droi at ereill, efe a rydd derfyn ar y ddatl, I Cor. xiv, 39—"Am hyny, frodyr, byddwch awyddus i brophwydo [er gwaethaf Mr. Davies], ac na waherddwch lefaru â thlafodau dyeithr," fel efe. Os yw gwyrthiau yn diswyddo ffydd yn yr oes hon, paham nad oeddynt felly yn yr oes hono, tybied? Ond ofer gofyn dim iddo bellach ar hyn.

"Mae honi parhad gwyrthiau yn brif nôd anghrist, a dynion drwg," medd efe etto. Ond *vice versa* medd y Bibl. Y mae *gwadu* gwyrthiau yn brif nôd anghristionogion. Gwyrthiau oedd prif nôd pobl Dduw yn mhob oes o'r byd. Dyma yr *arwydd* neu y nôd wrth ba un eu hadwaenir, medd Crist ei hun, fel y profwyd eisoes, ac yr addefodd Mr. Davies unwaith. Onid eich dyben chwi, wrth haeru fod honi gwyrthiau yn brif nôd anghrist, ydyw cadw dyn yn y tywyllwch, trwy guddio eich twyll; ac, ond arferyd eich iaith eich hun, "er twyllo arian dynion annysgedig a phen-weiniaid?" Nid eu hannog i fyw yn dduwiol, ond eu dysgu i ddifenwi ac erlid pobl well na chwi; a chan addaw i'ch hudolion ryw nefoedd ddychymmygol a Dafisyddol, am yr hon y dywedwch na ddichon iddynt gael dinu sicrwydd yma, ond byw ar eich dychymmygion chwi hyd angau, ac yna gwnant a fynant o'ch rhan chwi; ac arosweh chwithau ar ol, i arwain ereill i'r fan yna, gan eu porthi, am eu hariau, â "rhyw sothach islaw synwyr cyffredin." Ond ni chedwir dynion, druain, yn y tywyllwch lawer yn hwy, trwy sefain yn groch eich hen ystoriau anwireddus yn erbyn y rhai a bregethant yr efengyl yn rhad, i.e., heb geisio ceiniog gan neb, ond o gariad at eneidiau dynion; a dyna yr achos paham y mae clwyf Demetrius arnoch chwithau, oherwydd fod gobaith elw duwies fawr Dafisyddiaeth Dowlais mewn perygl.

Yn nesaf, wedi bod yn ein herio ni am, wyrthiau o hyd, a'n condemnio yn "gethern aflan, cythreulig, uffernol," &c., &c., o eisieu na wnaem wyrthiau iddo, dywed—"Nid yw Duw byth yn cyflawni gwyrthiau lle y hyddo rhesymau digonol am gredu hebddynt." Dyna fel y dywedwn ninnau; ac onid ydym ni yn cynnyg i chwi ddigon o resymau dros ein crefydd? Yr ydym yn ei phrofi yn ysgrhythrol bob gosodiad. Oni addefwch y cynllun apostolaidd yn rhesymol? Wel, dyna a bregethwn ni. Ond am Ddafisyddiaeth, dylech chwi wneuthur llawer o wyrthiau. yn ol eich addefiad eich hun, er ei phrofi, a dangos ei dechreuad; canys ni ddichon ffynnon ddrwg roi ffrydiau da. Ond er gweled ffrydiau cymmysglyd eich ymenydd eich hun, darllenwch y frawddeg nesaf i'r hon a ddyfynwyd. Ai tybied eich bod yn meddwl mor wael am Fab Duw, ag y buasai yn ei wneuthur ei hun yn was i weision y diafol, trwy ddisgyn oddiar y groes ar eu cais? Onid dyfod i wneuthur ewyllys ei Dad a wnaeth? Nid oes un esiampl ddarfod i Grist roi arwydd i un dyn drwg a ofynodd iddo; a gwyr Mr. Davies hyn, canys gwelwch ef yn neidio i'r bwlech i geisio cau ei hun i fyny, rhag i neb ddyfod â geiriau Crist yn ei erbyn ef. O na, ni wiw i neb ddweyd mai cenedlaeth ddrwg, &c., sy'n ceisio at-

wydd; ond nid yw hyny yn wir, ebe efe, mewn ffaith yn awr. Onid yw yn gofuf ganddo ddarfod i Iesu Grist wrthod ufyddhau i'r diafol bob tro ag y gofynai hyny ganddo? A pha le y mae y gwahaniaeth rhwng bwrw ei hun oddiar binacl y deml ar gais Satan, a bwrw ei hun oddiar y groes ar gais gweision Satan?

Ddarllenydd anwyl, na feddwl mor wael â hyna am Fab Duw, hynnes y ceir rhyw esiampl iddo ef. neu ei apostolion, roddi arwyddion ar gais dynion drwg. Nid ar gais ei elynion y cododd efe y meirw, nac y duodd yr haul, na dim arall a wnaeth. Ond yn y tudalen nesaf, daw Mr. Davies i'w hwyll am fynydd etto, gan ddystrywio yr holl dusw a wauodd trwy ei draethawd. Dywed—"Pe codai y meirw duwiol, a chael eu danfon i'ch anerch o'r nef, a chael caniatâd i hysbysu am olygfeydd gogoneddus y wlad fry—a phe daethai ysbrydion rhyw ddyoniog drwg o'r fflamau, a thraethu am ddychrynfeydd y pryf nad yw yn marw, &c., byddai y cyfan yn rhy fach a gwanaidd i argyhoeddi un pechadur." Diolchwn iddo am addef hyna. Os felly, paham yr haera mai dyben y gwyrthiau oedd argyhoeddi pechaduriaid o ddaufoniad personau, ac y gofyna wyrthiau i argyhoeddi trigolion Dowlais o wirionedd ein crefydd ni? Nid yn unig dyna eu dyben, ond "atebasant eu dyben yn mhob man," ebe efe. Os felly, pa fodd y gwaeddai Crist ei hun yn nghanol cawod o geryg—"Am ba un o'r gweithred-oedd mawrion a wnaethum i yr ydych yn fy llabyddio i?" A atebasant hwy y dyben hyny yn rhyw fan, Mr. Davies? Os felly, paham na chredasant fod Iesu Grist o ddanfoniad Duw, yn lle ei erlid a'i groeshoelio, a fflangellu ei weision ef pan wnelent wyrthiau yn ei enw ef? Onid eu fflangellu a'u carcharu a gaent, po fwyaf o wyrthiau a wnaent? Onid caledu a chynhyrfu dynion drwg y mae gwyrthiau yn mhob oes o'r byd, gan mwyaf? Felly y mae yn hon hefyd, fel y gwyddoch chwi yn dda trwy brofiad. Yr ydych yn addef hyny yn ngeiriau Crist—"Oni chredant Moses a'r prophwydi [am Grist], ni chredent pe codai un oddiwrth y meirw ychwaith." Dyna ein ered ni hefyd. A dilynwch eich rhesymeg yn mlaen, yna rhaid i chwi addef na chredwch chwithau yn awr fod y rhai a alwch yn "Sataniaid," yn weision Duw, na'r hyn a alwch yn "grug o gelwyddau," &c., yn efengyl Crist, pe codai un, i'e fil, oddiwrth y meirw, pe yfent wenwyn, pe "iacheid clun Magws fach," i'e, addefwch eich hun tuhwnt i argyhoeddiad, os na argyhoeddir chwi trwy yr ysgrythyrau, a'r rhesymau anwrthwynebol a bregethwn. Ac yna, gwelwch ac addefwch eich ffolineb a'ch cabledd yn y llinellau blaenorol, i'e, pa rai a ysgrifenasoch â'r un pin, wedi ei drochi yn yr un inc, ac ar yr un anadliad; canys cyn sychu o'r naill, eondemniwch ni o eisieu na byddem yn rhoddi llygaid i'r dall, cluniau i'r gwywedigion, clustiau i'r byddariaid, a chyfodi y meirw, &c., yn eich gwydd chwi. A gredech er hyny? Na wnaech, medd Crist; na wnaech, meddwn ninnau; na wnaech, meddwch chwi eich hun! Pa fodd y dichon gwyrthiau fod er argyhoeddi dynion, ynte? A chan i chwi addef eisoes, na wua Duw wyrthiau heb ddybenion teilwng o hyny, beth yw eich dyben chwi yn begian am danynt o hyd? Beth yw eich dyben yn y croes-haeriadau hyn oll? Pa fodd y cyssonir chwi â chwi eich hunan, heb son am eich cyssoni â'r ysgrythyrau? Gormod gcrchwyd yw hyn i chwi na ninnau, na neb arall ychwaith. O

ba fath ffynnonell y tardda y ffrydiau hyn? Bernwch chwi—barned eich cyfeillion, a'r byd, chwi. Nid oes a wnelom ni â'ch barnu; ond y mae a wnelom ni ag amddiffyn ein crefydd, a'n cymmeriadau, rhag eich camgyhuddiadau erchyll chwi; a dysgwylia y byd hyn genym. Dangoswch rhyw ddigywilydd-dra anghymharol, yn traethu celwyddau mor amlwg ac anhygoel arnom; megys haeru fod "Anerchiad y deuddeg Apostol" yn honi ein gallu ni i wneuthur gwyrthiau. Mae miloedd o'r traethodau hyny yn nwyllaw y cyhoedd yn awr, ar hyd Gymru; a heriwn chwi i ddangos fod y fath beth â honi ein gallu ni i gyflawni un wyrth, ynddo; os oes, nodwch ef ar gyhoedd, y tudalen a'r frawddeg, os gallwch, a galwn ef yn ol am gyfeiliornad yn y fan; onide, bydd eich pechodau yn argraffedig, fel y *mene*, *tekel*, *upharsim*, ar eich talcen eich hun o hyn allan. Cyhuddwch ni hefyd o fod yn dweyd fod Iesu Grist yn ymddangos i ni yn bersonol, yn yr ystafelloedd, a'n cyrddau neillduol, &c. Yr ydym yn gwadu hyny hefyd, ac ni choeliwn i chwi glywed un o honom yn dweyd y fath beth. Profwch hwn etto, os gallwch, ac yna byddwn yn atebol am y canlyniad. Am y drydedd waith, cyfeiriwch at y stori a gyhoeddasoch am rhyw "wraig yn Pendarran." Pa fodd na wyddech ar y pryd mai anwiredd oedd y stori hono? Ond oeddych wedi dyfod i'r drws nesaf ati pan luniasoch y tusw aflan? Ond cewch chwi a'r wlad weled enghraifft o honoch chwi eich hun yn y stori hono hefyd, gan lygad-dystion, er eich cywilydd. Ond fel pe baech wedi ymwerthu i ddyrgioni, cyhuddwch rhyw "Magws fach," ac ereill, o ddweyd y gallwn ni wneuthur gwyrthiau. Gwyddoch well na hyn Lefyd, trwy ddarllen ein llyfrau, &c.; a gwyr pobl Dowlais well na choelio eich camgyhuddiadau digywilydd, o hyn allan. Oes, Mr. Davies, y mae genym lawer o hen gyfrifon i'w setlo â chwi. Yr ydym yn barod i ddechreu hyny yn awr; gwyddech nad allem y pryd hyny; ac yr ydym yn dymuno arnoch chwithiau ymbarotoi i amddiffyn eich cyhuddiadau arnom. Yr ydych wedi cael gormod o raff o lawer, a gwelir chwi o hyn allan yn nghlorianau y gwirionedd. Digon, i'e gormod o lawer, yw y blynyddoedd a aethant heibio, i chwi ein herlid mor greulon a diachos. Na fyddwch yn rhy annuwiol, rhag ofn i'r Duw mawr yr ymleddwch yn ei erbyn eich tori i lawr, cyn y caffoch amser i edifarhau, fel Herod gynt, yr hwn, "gan bryfed yn ei ysu, a drengodd."

Ond wedi chwilio yn fanwl trwy yr hyn a welwch chwi yn dda alw yn "Sylwedd Pregeth," yr ydym wedi methu cael dim sylwedd ynddi; ac os dyma enghraifft o'ch pregethau chwi, ni raid gofyn pwy a'ch danfonodd i'w pregethu, canys wrth eich pregethau yr adnabyddir chwi. Oni addawsoch "oleuo y cyffredin, a dangos twyll y creaduriaid a alwant eu hunain yn Seintiau y Dyddiau Diwedda?" Ond a wnaethoch chwi hyny? Naddo; ni roisoch un llewyrch o oleuni. Ymbalfalu yn nghanol y tywyllwch, a thywyllu cynghor â geiriau, heb reswm nac ysgrythyr, yr ydych. Gyda chwi eich hunan yr ydych yn ymladd o hyd, gan ffurfio bwganod, a'u llarpio, y fath na cheir yn un lle ond yr ymenydd a fo yn cael ei gorddi gan yr horrors. Yr ydych wedi anghofio eich addewid yn siwr, a gwell i chwi dreio etto, neu meddylia pawb nad oes genych un rheswm nac ysgrythyr i'w goleuo hwy am ein twyll. Ow, Mr. Davies, ddim yn cyanyg cynmair ag un

praf i'n herbyn, mewn traethawd pwrpasol i hyny, yn cynnwys ugain o dudalenau. Dim ond ein condemnio ni o hyd am ryfyg, oherwydd ein bod yn meiddio proffesu y grefydd apostolaidd, yr hon, meddwch chwi eich hun ambell waith, oedd yr unig reol. Cynllunio ystorïau anwireddus am danom, heb liw na llun yn bod iddynt mewn gwirionedd, ac yna arllwys eich anathemau arnom yn ol hyny. Dyma ffordd ryfedd i ddangos ein twyll ni, onide? Dangos eich twyll eich hun yr ydych, Syr! Nid ydyni ni yn honi perffeithrwydd; ond honwn fod, a phrofwfwn ein hunain hefyd, yn ddiheuog o'r rhyfyg a'r beiau ysgeler y cyhuddwch ni o honynt, er boddlonrwydd i bob dyn a foddlonir â ffeithiau. Ond, a fyddai yn degwch tuag at eich brodyr chwi, pe condemnid eu hathrawiaeth oherwydd, ac yn ol lliosogrwydd ac ysgelerder eich pechodau, a thruenusrwydd eich cymmeriad chwi? Os na fyddai, paham y trafferthwch gymmaint i geisio lladd ein hathrawiaeth ni, trwy geisio duo ein cymmeriadau? Os oes genych gymmaint ag un rheswm neu ysgrythyr yn erbyn ein hegwyddorion, deuwch â hi bellach, oherwydd yr ydyni wedi hir ddysgwyl eich clywed chwi yn cyhoeddi rhai o'ch profion, a diolchwn ni â'r cyhoedd i chwi am y gymwynas, canys gwnaech les i ni felly; ond, na ddysgwyliwch ddallu pobl rhesymol â rhyw gruglwyth o groes-haeriadau, a rhoi enwau drwg arnom, &c. Pentyru marwor tanlyd ar eich pen eich hun yr ydych felly, a chanmol ni a'n hathrawiaeth. Y mae y wlad wedi diflasu ar eich haeriadau er's talm, ac y maent yn gofyn genych brofion o honynt bellach; ac y mae yn llawn bryd i chwi, yn gystal â rhyw ddyn ffaeledig arall, roi profion iddynt, neu eu galw yn ol, onide byddant yn duo eich gwyneb yn yr amser a ddaw. Sylwn ar ei "lefaru â thafodau," ei "brophwydo," a'i ymddyddan â "Wm. Henshaw," &c., etto, a thystion arnynt.

CYMMANFA SIR FYNWY.

Ar ddydd Sul, y 15fed o Dachwedd, cynnaliwyd y Gymmanfa gyntaf gan y Saint yn Nantyglo. Cynnrychiolwyd deg o gangenau, yn cynnwys 157 o aelodau; 7 o henuriaid; 12 o offeiriaid; 8 o ddysgawdwyr; a 3 o ddiaconiaid. Yr oedd 21 wedi eu bedyddio yn y tri mis diweddfaf. Ordeiniwyd dau henuriad, tri offeiriad, pedwar dysgawdwr, a dau ddiacon. Penderfynwyd fod Nantyglo yn gangen o'r gynnadledd hon, a bod Thomas Giles i lywyddu ynddi; hefyd, Blaenafon, a'r brawd Henish i lywyddu; a Chusnewydd, a'r brawd White i lywyddu.

Yr oedd tyrfa fawr o wrandawwyr serchus trwy'r dydd, a lluoedd o'r Saint wedi casglu o gynnadledd Merthyr. Cafwyd gwrandawriad astud trwy'r cyfan, er cymmaint y bygythion blaenorol i aflonyddu a rhwystro ein haddoliad, oddieithr rhyw Pharisead a waedai am weled gwrth. Yr oedd o bedwar i bump cant o Saint yn cymuno yn y cwrdd pryd-nawnol, oll mewn undeb a chariad brawdol. Tystiolaethodd amryw yn gadarn am y gobaiith sydd ynddynt, a'u penderfyniad i fyned yn mlaen gyda'r gwaith ardderchog hwn. Desgrifiai y brawd Morris y gynnadledd drwyddi oll, o'r bron, mewn cyflwr prydfferth a llwyddian-

nus, a gohaith yr ufyddhäai lluoedd i'r efengyl ar fyrder. Cynnygiodd y llywydd D. Jones, fod i'r brawd William Henshaw gymmeryd gofal cynnadledd Garaway, yr hon sydd dan ei arolygiad ef, ac yn gyssylltiedig â Chymru, a bod Abergavenny a Chasnewydd i gael eu cyssylltu â'r gynnadledd hono. Cymmeradwywyd yn unfrydol; arwyddodd y brawd Henshaw ei foddlonrwydd, a'i benderfyniad i wneyd a allo er adeiladu teyrnas yr Emmanuel. Bendlthiwyd plentyn y brawd Henish; a diau fod Ysbryd Arglwydd Dduw Elias yn ein plith, yn ysbryd cariad a llawenydd. Yn y cwrdd hwyrol am chwech o'r gloch, yr oedd y neuadd wedi ei gorlenwi, er ei bod mor llawn yn y boreu nes y gorfuwyd gosod *propos* o dan y llawr, rhag iddo dori i lawr odditauynt. An-erchwyd y dyrfa yn wresog a doniol gan yr henuriaid William Pugh, Merthyr, Thomas Pugh, Cwmbach, a Capt. D. Jones, Merthyr; a gallasid meddwl fod yr efengyl dragwyddol a bregethent dan arweiniad yr Ysbryd dwyfol, yn cael ei hargraffu, megys â phin haiarn, ar galonau y gwrandawwyr; ei bod, nid mewn gair yn unig, ond mewn nerth a sicrwydd mawr yn yr Ysbryd Glân; a'n taer weddi yw, i bob un a'i clywodd gael ei phrofi yn allu Duw er iachawdwriaeth. Bedyddiwyd pymtheg o'r rhai gonest eu calon, o blith y gwahanol enwadau, er cymmaint eu gwrthwynebiad; a diolch i'r Arglwydd am eu bod yn mwynhau llawenydd mawr yn yr Ysbryd Glân. Bedyddiwyd naw yno yr wythnos ganlynol, ac y mae llawer ychwaneg wrth y drws. Talwyd diolchgarwch y gymmanfa i Mr. Evans y Cokers Arms am y neuaid, a'i garedigrwydd t.wy'r dydd at y Saint, ar gost ffافر aml Nero. Y Duw mawr a ad-dalo iddo ar ei ganfed.

Y GENADIAETH YN SIROEDD CYMRU.

Sir Benfro.—Mae y brodyr G. Davies a J. Price wedi bedyddio tri yn ddiweadar, ac yn cael gwrandawriad lliosog ac astud gan mwyaf, ac amryw yn addaw ufyddhau i'r efengyl yn fuan.

Sir Gaerfyrddin.—Ysgrifena y brawd T. Jeremy lythyr eysurlawn am gangen Llanybyddar, fod yr holl Saint yn benderfynol ac unfrydol yn y ffydd, a'u bod yn mwynhau doniau yr Ysbryd Glân yn eu plith. Bedyddiodd ddwy yn Pencareg, ac y mae ef a'r brodyr Harris ac Evans yn pregethu mewn naw neu ddeg o fanau yn eu cylch. Y mae rhai Saint yn Brechfa, ac amryw wrth y drws. Bedyddiodd yr henuriad Thos. Harris dri yn ychwanegol yn nhref Caerfyrddin, ar y 15fed o Dachwedd, y rhai a dderbyniasant dystiolaeth drwy Ysbryd Duw o'u cymmeradwyaeth ger ei fron. Y mae y ganghen hon yn selog a blodeuog, er eu hanfanteision a'u hamddifadrwydd o freintiauty Pduw. Anfonwyd yr henuriad J. Morris i ymweled â hwy ar ei ffordd tua sir Benfro, ac hyderwn y cânt fugail da yn fuan. Bedyddiodd y brawd Abel Evans dri arall yno yn fuan ar ol hyn.

Sir Aberteifi.—Mae yr henuriad Alfred Clark wedi dychwelyd o'i daith drwy y sir hon, ac y mae ganddo obaith da am gynauaf toreithiog o'r rhai gonest eu calon. Y mae galwad mawr am bregethu, a'r bobl yn rhyfeddu mor wahanol yw ein hegwyddorion i'r hyn a glyw-

sent hwy am y Saint, ac y maent yn chwilio yr ysgrythyrau eu hunain.

Sir Drefaldwyn.—Bedyddiwyd amryw yn Machynlleth yn ddiweddar. Y mae nifer y Saint yma yn awr tua deugain, oll er ys ond ychydig fisoedd! Mwynheir doniau yr Ysbryd Glân yn eu plith hwythau, yn ol addewid Crist i'r rhai a gredant ei efengyl ef, ac a fyddant byw yn dduwiol. Mae undeb Ysbryd a chariad yn teyrnasu yma hefyd yn nghwlwm tangnefedd, fel yn holl eglwysi y Saint.

Sir Feirionydd.—Ysgrifena y brawd Wm. Jones fod y Saint yn Harlech, Ffestiniog, &c., yn parhau yn wresog yn y ffydd hono unwaith a roddwyd i'r Saint, a bod eu Tad nefol yn eu bendithio â bendithion nefolaidd drwy ei Ysbryd Glân, a'r cleifion yn derbyn iechyd drwy yr ymarferiad â'r moddion gosodedig drwy ffydd. Bedyddiwyd rhai yno yn ddiweddar gan Ahel Evans, a rhai yn Maentwrog. Dysgwylir yn feunyddiol am ychwaneg.

Sir Gaernarfon.—Mae yr henuriad Eleazer Edwards wedi pregethu yr efengyl bron bob nos, hyd Leyn o Nevin; o Pwllheli, Cricieth, hyd Porthmadog, a lluoedd yn credu yr efengyl. Mae wedi bedyddio rhai yn Cricieth, a chafodd wrandawriad astud yn gyffredinol, a phobl yn hoff o hono a'r efengyl a bregetha. Yn Pwllheli, yn Sassiwn y Calfinistiaid, ymdrechodd un o'u pregethwyr, o'r enw Evan Harris, eymmaint a allai i godi erlidigaeth yn erbyn y Saint. a merwino clustiau ei wrandawwyr, trwy gamddarlunio eu hegwyddorion, &c. Gomeddodd maer y dref hon (dan ddylanwad yr anian Galfinaidd a losgodd Servetus ac ereill) i'r brawd Edwards bregethu ar yr heol, er fod y tai cyrddau wedi eu cau i'w erbyn. Erldiaid y *police* ef o gongl bwy gilydd, ïe, ni chai fenthyg glan y môr hwnw a fenthyciwyd mor rhwydd i'r Calfinistiaid i gynnal eu Sassiwn. Diolch i Dduw am gadw firwyn y "march coch" yn ei law ei hun, onide ofnadwy a fyddai ei ruthr. Ond trwy garedigrwydd boneddwr o'r enw Mr. Evans, cafodd y brawd a'r dyrfa fawr ganiatâd i fyned i'w *yard* goed ef, i glywed yr efengyl ddwyfol hono a gauodd y *zealots* ereill allan o'u cyffiniau. Mae yr henuriad Jonah Richards wedi bedyddio rhai (nid ydym yn sicr pa nifer) yn Nghaernarfon, ac y mae yr efengyl yn llwyddo mewn parthau ereill o'r Sir, er gwaethaf ei gelynon.

Sir Fôn.—Mae yr henuriaid Jonah Richards, Abel Evans, ac ereill, wedi bod yn pregethu trwy brif drefydd y sir hon ar ein hol ni, i dorffeydd mawrion, ac wedi cael pob caredigrwydd, a gwahoddiad i barhau i bregethu yn eu plith. Y mae yma ymfyniad cyffredinol am y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu. Clywsom fod rhai wedi eu bedyddio yno yn ddiweddar gan J. Richards.

Sir Ddinbych.—Bedyddiodd Abel Evans ddau at y rhai oedd eisoes yn Llandudno, ac un yn Rhywgyfylchi. Mae yr henuriaid William Evans, Richard Griffiths, ac ereill, wedi bod yn llafurio yn llwyddianus yn Rhosllanerchrugog, ac wedi bedyddio amryw yno. Pregethent yn y Cefnmawr a Llangollen hyd nes i'r Parch. Mr. Prichard, gweinidog y Bedyddwyr, heryglu y bohl a' agorent eu tai iddynt. a'u cau allan. Ai tybied y gofyna y gwr mwyn hwn i Dduw fendithio ei ym-

ddygiad at ei afonedig weision, ei efengyl, ac at eneidiau ei gydforddoliau tua'r farn?

Sir Effint.—Mae yr henuriad R. Evans yn llafurio yn mhrif drefydd y sir hon, ac wedi bedyddio rhai mewn amryw fanau, megys Newmarket, Rhuddlan, &c. Bedyddiodd yr henuriad A. Evans hefyd ddau yn Newmarket tua chanol y mis hwn, ac addawodd tri ereill ufyddhau i'r efengyl y tro nesaf y deuai ef yno, neu rywun arall a feddai yr awdurdod ofynol oddiwrth Dduw i fedyddio "er maddeuant pechodau."

Dywenydd mawr genym hysbysu hefyd fod llwyddiant mawr ar yr efengyl dragywyddol yn mhilith ein cydgenedl yn sir Gaerlleon a Llynlleifiad. Diau yr achosa lawenydd mawr i'r Saint glywed fod Mr. John Parry (Newmarket gynt), ei dri mab, a'i wraig, fel teulu y Lydia hōno gynt, wedi dyfod yn ddeiliaid o deyrnas y Duw byw. Mae enw Mr. Parry yn barchus, ac yn bur adnabyddus drwy'r dywysogaeth, yn enwedig Gwynedd, fel diwygiwr selog, fel carwr y gwir pale bynag y caffai, er gwaethaf rhagfarn a phlaidd. Y mae Duw yn caru gonestrwydd a gwroldeb yn nihob dyn, ac efe a drefna ryw ffordd i'r cyfryw gael cynnyg ar y gwir; a hoff yw gweled y cyfryw yn barod i'w chwilio pan ei cynnygir iddynt, fel y gwnaeth Mr. Parry, a hyny yn ddiragfarn. Nid oes lle i ammau a'r nad oes cannoedd etto, fel yr oedd efe, yn credu eu bod yn debycach i'r gwir nag ereill. Ond erbyn hyn gwel Mr. Parry (fel y gwel pawb arall a ddel i mewn drwy yr un drws i'r un deyrnas ddwyfol) y gwahaniaeth rhwng gwneyd oreu a allant a *chredu* eu bod yn iawn, â'r *sicrwydd* a dderbynia gan Dduw drwy Ysbryd y mabwysad o'i gymmeradwyaeth ger ei fron. Un o brif sefydlwyr a cholofn Cambeliaeth yn Nghymru oedd Mr. Parry, a llawer o'r eglwysi a blannodd efe a dderbynient ei gynghorion fel tad, ac a'i canlynasant o dywyllwch i raddau o oleuni drwy wg a gwawd; gobeithiwn y dilynant ef etto i ganol goleuni tanbeidiauwl yr efengyl dragywyddol. Mae Mr. Parry a'i fab henaf wedi eu hordeinio yn henuriaid. a gobeithiwn y caiff eu hen frodyr y fraint o'u clywed, ac ufyddhau i'w galwedigaeth nefol, cyn yr haf nesaf. Mae amryw wedi eu bedyddio yn Llynlleifiad yn ddiweddar.

YR EFENGYL YN LLOEGR, SCOTLAND, &c.

Y MAE pob newyddion a dderbyniwn o'r lleoedd hyn yn barhaus, yn profi fod Duw wedi deffro megys o gysgadrydd oesoedd i wneuthur ei waith mawr a rhyfedd yn y dyddiau diweddaff hyn. Y mae teyrnas yr Emmanuel yn llwyddo ac yn lledaenu yn rhyfedd, a phobl o bob gradd ac enwad yn dylifo i mewn iddi, ac yn cael gwledda ar ei danteithion nefolaidd fel yn nyddiau Iôr. Mae y cenadon a ddaethant drosodd o'r America yn ddiweddar, yn troi siroedd Lloegr y tu arall i fyny, debygem, o'r bron, ac yn bedyddio mwy nag erioed. Mewn rhai ardaloedd ufyddha boneddigion a feddiannant ystadau mawrion, ustusiaid, a rhai yn dal swyddi uchel dan y llywodraeth. yn gystal â'r werin. Yn Scotland a'r Isle of Man maent yn bedyddio yn feunyddiol mewn rhai parthau. Yn fuan yr elo y deyrnas hon fel y rhagwelodd y prophwyd Daniel hi, fel "careg wedi ei thôri o'r mynydd,

nid â llaw, yn treiglo nes llanw yr holl fyd" â goleuni a gwybodaeth o Dduw, fel y toa y dyfroedd y môr.

AUSTRALIA.

NID oes nemawr dros ddwy flynedd er pan aeth henuriad â'r hedyn mwstard, i'r parthau pellenig hyn o'r byd; ac mor ragorol y cyduna yr hinsawdd hyny ag ef, nes y mae eisoes yn gryn bren ac iddo gangenau lluosog a chedyrn, ac awclon hyfryd Paradwys yn anadlu yn beraidd ar ei flodau harddwych. Mewn llythyr a anfonodd y brawd oddiyno yn ddiweddar, dywedai ei fod yn aml yn cael ei alw o'i wely y nos i fedyddio, a'u bod yn dyfod rai ugeiniau o filltiroedd o ffordd yn bwrpasol i'w ymofyn ef i fedyddio y rhai oedd yn credu yr efengyl yno!

YNYSOEDD MOR Y DE.

MÆ yr henuriaid Pratt, Richards, ac ereill, yn parhau yn llwyddiannus iawn o hyd yn yr ynysoedd hyn, ac wedi bedyddio cannoedd yn ddiweddar, yn enwedig wedi i Dduw yn ei ragluniaeth, drwy i'r Ffrancod achosi i'r cenadon sectyddol (y rhai a'u herlidient mor ddi-drugaredd, a draethent yr hen ystorïau disail am Joseph Smith, &c., ac a ymgniant genfigenu y brodorion i'w hcrbyn) orfod cilio gan mwyaf oddiyno. Mae y paganiaid hyny, druain, ar ol eu mabwysiadu yn blant i Dduw drwy yr efengyl hon yn derbyn "bara y plant," etifeddiaeth addawedig ei bobl ef, yn helaeth, ac yn cael profion digonol nad yw efe dderbyniwr wyneb, ond ei fod ef a'i air yn anghyfnewidiol, ac mai yr hwn a ddywedodd, "A'r arwyddion hyn a gaulynant y rhai a gredant," &c., a ddywedodd hefyd, "Nef a daear a ânt heibio, ond fy ngeiriau i nid ânt heibio ddim." Diolchwn iddo am ei addewidion gwerthfawr.

YR ADGYFODIAD CYNTAF.

Gwyn fyd y rhai yn Iesu a hunant yn y bedd,
Can's etto hwy gyfodir mewn gogoneddus wedd:
Pan gano yr archangel ei udgorn yn y nen,
Cydgesglir yr anwyliaid i gwrddid fry â'u Pen.

Rhyw liaws mawr o'r blaenffrwyth a brynodd Duw o'r byd—
Y cyfryw nas halogwyd—esgynant oll yn nghyd;
A'r byw fydd ar y ddaear yn adwaen Iesu cu,
Mewn moment a newidir—a gipir gyda'r llw.

Ond gwae y rhai adewir i aros ar y llawr,
Rhyw dristwch leinw'u calon—eu galar fydd yn fawr;
Yr Arglwydd fry a'i fyrddiwn a welant yn nesâu,
A fflamau tanllyd ganddo i boeni'r anwir rai.

J. D.

PROPHWYD Y JUBILI,

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 7.]

IONAWR, 1847.

[PRIS 2g.]

ANERCHIAD AT Y CYMRY.

ANWYL GYDWLADWYR,—Wrth anfon yr ail gyfrol o'r PROPHWYD i'ch plith, taer erfyniwn eich sylw difrifolaf arno. Gwnewch degweh â'ch eneidiau eich hunain a'r gwirionedd wrth ei ddarllen, fel y derbynioch y lles a amcanwn i chwi wrth ei gyhoeddi. Gwyddom y cynnwysa lawer o faterion pwysig, sy'n dwyn perthynas agos â phob un o honoch; ac er y dichon amryw o honynt ymddangos yn newydd ac yn amhoblogaidd ar yr olwg gyntaf, etto byddweh bwylllog, canys yr un yw eich Bibl chwi a minnau. Yn y glorian gywir hon y pwyswn bob egwyddor, ynte.

Gwyddom ein bod (trwy drugaredd ein Duw) yn feddiannol ar drysorau dwyfol a gwerthfawr, pa rai a'ch cyfoethogant chwithau yn dragwyddol. Yr ydym wedi ein hanrhegu â'r *peril* nefol hwnw yr ymchwilwch chwi am dano, o gapel bwy gilydd, o'r naill enwad i'r llall ar hyd y blynyddoedd—sef *crefydd bur*—egwyddorion y nef—yr efengyl dragwyddol; yr hon sy'n dwyn bywyd ac allygredigaeth i oleuni. Yr ydym yn gwneyd a allom i gyflwyno gwybodaeth o honi i chwithau yn mhob dull a modd a allwn; ac er mor ddaionus yw, y mae miloedd o honoch yn diystyru cyngor Duw yn eich herbyn eich hunain, heb ufyddhau i, na gwrando ar, yr alwedigaeth nefol a phwysig a gynnygir i chwi.

Y mae ugeiniau o honom yn cyhoeddi y newyddion da hyn yn eich plith ers rhai blynyddau bellach, ar ein cost ein hunain, a pha dderbyniad geir? Gallesid dysgwyl yn rhesymol i'r rhai hyny a addefant wirionedd y grefydd gristionogol yn ei sefydliad cyntefig a phur, ac a broffesant y fath fawr sel drosti, ei chofleidio fel trysor y trysorau pan y clywent hi etto yn cael ei phregethu genym ninnau yn ei chyflawnder, wedi ei hail-sefydlu fel cynt, a'i phregethwyr wedi eu hanfon drwy awdurdod dwyfol fel y rhai a gannolweh gymmaint.

Ond gwyddoch chwi mai hollol groes i hyny y mae. Pa well der-

byniad a ga anfonedig Duw genych chwi yn awr, yn enwedig gan y rhai selog dros draddodiadau y tadau, nag a gaffai y cyffelyb anfonedigion gyda yr un fath genadwri gau-eu cyd-oeswyr hwythau? *Rabbies*; dysgawdwyr, a chrefyddwyr mwyaf selog. y wlad oedd eu gelynyon penaf hwynt; dyma y rhai a bregethent fwyaf o'r pwlpuadau i'w herbyn, a adroddent fwyaf o chiwedlau disail am eu cymmeriadau, ac a gyhoeddent mai twyll oedd ganddynt, ac mai twyllwr oedd eu blaenor, a hyny heb gynnyg un prawf o ddim ond eu haeriadau. Onid felly yn hollol yr ymddyga y cyfryw atom ninnau? Y croesaw goreu a gaffent gan hudolion y cyfryw oedd gwaeddi-gau-brophwydi, gau-athrawon, twyllwyr, &c., ar eu hól yn yr heolydd. Felly ninnau. Onid oedd awduron eu hoes yn taenu pob camgyhuddiadau disail am danynt hwy, heb gymmeryd y drafferth i chwilio beth oeddent? Felly y gwnant â ninnau. Oni throent hwynt a'r rhai a'u gwrândawent allan o'u synagogau? Onid felly y gwneir â ninnau, a'r rhai gonest eu calon sydd yn chwilio am y gwir. Oni ddywedodd Crist mai felly y gwnaent; ac felly y mae.

Dywedid am danynt hwy, "Y rhai sy'n aflonyddu y byd, y rhai hyny a ddaethant yma hefyd." Felly y clywn ninnau bob lle yr elom. "Beth a ddywed y siaradwr hwn," medd un; "Mae y rhai hyn yn aflonyddu'r ddinas," ebe arall am danynt hwy. Felly ein cyhuddir ninnau. Dygant athrawiaeth newydd i'n plith, yr hon nid yw weddus i ni ei derbyn, meddent am danynt hwy. Y mae y rhai hyn yn pregethu efengyl newydd, yr hon nid yw weddus i ni, sectariaid, ei derbyn, meddant yn awr am danom ninnau. Oni ddywedodd ein Hathraw mai felly y gwnai gau-grefyddwyr â'r gwir? Do; ac y mae ein cyd-oeswyr yn profi ei eiriau ef a'n crefydd ninnau, mor wirioneddol yn yr oes hon â hono. "Y neb a fyddo fyw yn gyfiawn yn Nghrist Iesu, a erlidir," oedd y pryd hyny; felly y teimlwn ninnau yn ddigon gwir; a phe dilynid ni a hwythau yn mhob nodwedd, ac ymddygiad ein cydoesolion atom a'n crefydd, profid fod yr un achos yn dwyn yr un effaith yn gywir yn yr oes hon â hono. Paham nad yw hyn oll yn dystion i chwi, gyfeillion hynaws, o'n tebygolrwydd iddynt hwy? Paham y cyflawnwch chwi fesurau, ac y dilynwch gamrau yr erlidwyr a fu, a'ch llygaid yn agored? Onid oedd eu crefydd hwynt yn anmhoblogaidd pryd hyny? Pa ryfedd fod yr un grefydd mor anmhoblogaidd yn ei hail ddechreuad yn awr? "A gredodd neb o'r penaethiaid," ebe y naill? "O na, ysgubion y byd a sorod pob dim ydynt," ebe y lleill pryd hyny. Felly yn awr. Pregethu i'r tlodion yn rhad yr oeddent hwy. Felly ninnau. Perswadio y bobloedd i heidio eu gwranddo yr oedd pregethwyr yr oes hono, eu bod islaw eu sylw hwynt. Felly yn awr, yn gywir. Ofni y:

byddai gobaith eu helw yn pallu a gyffrôai y rhai hyny. Barnwech chwi ai dyna'r achos paham yr yniesyd marsiandwyr a chrefftwyr crefyddol yr oes hon arnom ni! Yr oedd iechydwrïaeth eu cydoeswyr ynglyn ag ufyddhau i'w cenadwri hwy. Felly yn awr, ddarllenydd hynaws, y mae mor sicr fod maddeuant, adgyfodiad, derchafiad, a gogoniant ein cydoeswyr, yn dibynu ar eu hufydd-dod i genadwri *Saint y Dyddiau Diweddaf*; ie, pe dywedai holl bobl y byd yn ddrwg am danynt, ac fod Duw'r nefoedd wedi eu danfon. Ydym, Gymry anwyl, er cingwaeledd. Tystiom yn ddirifol a sobr yn ofn Duw, fel y byddom lân oddiwrth waed pawb oll. Yr ydym ni wedi derbyn allweddau goruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd—gweinidogaeth y cymmod, sef goruchwyliaeth yr unfed awr ar ddeg! Mae Arglwydd y cynauaf wedi ein danfon gyda chenadwri i gasglu ei wenith i'w ysgubor, cyn y daw efe i losgi yr us â than anniffoddadwy. Etto, tystiwn yn eofn nad â eich oes na'ch cenedlaeth chwi heibio, hyd oni phrofa Duw Israel tu hwnt i bob dadl, fod Saint y Dyddiau Diweddaf wedi eu hanfon ganddo i ddarparu ffordd ei ail ddyfodiad, ac y prawf bob iot a phob teitl o'u cenadwri yn wirionedd safadwy. Onid yw y dystiolaeth hon o bwys i chwi, ac yn arogl o fywyd i fywyd, neu o farwolaeth i farwolaeth, i bob un a gaffo y fantais o'i chlywed? Nid yw esgeulusdod gwirfoddol yn un esgusawd i neb. Y pwysfawrogrwydd o honi a'n cymhellodd, ie, a'n gorfoda i fod mor blaen tuag atoch, a gwae ni oni wnawn hyn; anghenrhaid a osodwyd arnom. Atebwch chwi, onid yw tystiolaeth fel hyn yn deilwng o'ch gwrandawriad, a'ch hymchwiliad manwl? Gwir yw, Gymry anwyl; chwiliwch a phrofwch ni yn ddeg, dangoswch ein cyfeiliornadau, os gellwch; a byddwn ddiolcligar i chwi. Yr ydym yn atebol i Dduw am yr hyn a ddywedwn; gwyddom hyny hefyd, ac etto carwn a deisyfwn arholiad ar ein crefydd o flaen brawdlys gair digyfnawid y Barnwr cyfiawn hwnw. A brofodd rhyw un yn y wlad un o'n hegwyddorion yn gyfeiliornus yn ol y Bibl? Naddo, ddim un! Gwir i lawer brofi camgyhuddiadau ein gelynion arnom yn wrthun iawn. A pha beth sydd i ni a wnelom â hyny hyd onid ymosodant ar yr hyn a gredwn, nid ar yr hyn a wadwn ni fel hwythau. Hyd oni wnelont hyn, pa reswm ein herlid, ein difenwi, a gwrthod gwrandao arnom. Etto, o'n rhan ni, erlider a fynech, a diolchwn ninnau am yr anghydedd a'r nerth i ddyoddef ar gam er mwyn y gwirioneddau dwyfol hyny y rhoes ein brodyr hynaf a'n Harglwydd hefyd eu bywydau yn ebyrth gwirfoddol drostynt; ac er hyn oll, er eich hargyhoeddi chwi sy'n ceisio crefydd a grym ynddi, a'ch dwyn yn etifeddiion sylwedd, tystiwn, a pharhawn i egluro y genadwri a ymddiriedwyd i'n gofal; a ni yn gwybod tra parhawn felly y cawn

roddi i fyny ein cyfrif yn llawen pan y del ein Meistr i'w ogoneddu yn yr holl rai a gredant ac a ufyddhant i'n tystiolaeth. Nid ym heb deimlo ein hannigonolrwydd i'r fath orchwyl â hwn, ond gwyddom fod y breichiau tragywyddol odditanom. Gwyddom hefyd mai yr hwn a draetha wirioneddau mawrion a lliosog i'w gyd-oeswyr, a ennilla iddo ei hun elynion lliosog a chedyrn drwy hyny. Poblogrwydd yr oes yw gelyn cryfaf y gwir, os t'ora dros ei geulanau ef: a than yr amgylchiadau presennol, pe meddem ninnau ar glariwn angylaidd—y sel apostolaidd—a'n calonau mor eang â thragywyddoldeb—yn meddu doethineb y nefoedd—cariad Duw yn llosgi yn fflam ennynol yn ein mynwesau, ac wedi ein hanfôn i draethu y genadwri oreu a ddygwyd o'r drydedd nef erioed gan Michael yr Archangel; etto, byddai mor anmhosibl i ni gyflwyno gwybodaeth o honi i'r werin yn awr ag oedd i Paul brofi dwyfoldeb eu Messiah croeshoeliedig yn Ephesus, pan foddid ei lais yn nghanol y fonllef fawr h'ono, "Mawr yw Diana yr Ephesiaid." Os mynwch brofi cryfder rheffynau traddodiad, dysgwch rhyw wirionedd mawr a dwyfol; ac fe'n siomir ni os nad cyffelyb yw i ymresymu yn nghanol brwydr, pan y rhuo magnelau a drylliau gyda chyflafan y rhyfel, pan at eich fferau mewn gwaed. Llefarcwch wrth y corwynt rhuthrol, pan rwyga y goedwig o'u gwraidd—pragethwch wrth ddyrn a fo yn ei gwsg, neu dysgwch y meddwyn yn ei feddwdod; yna gwelwch mor anhawdd yw i saethau y gwirionedd dreiddio drwy glustiau, a glynu yn rheswm y dyn a wnelo ei farn i fyny heb ymchwiliad—a goelia un ochr, ac a wrthyd brofi na gwrando ar yr ochr arall;—ac yna coeliwch mor fawr ac anhawdd yw gorchwyl Saint y Dyddiau Diweddfaf i gael gan y werin wrando eu cenadwri.

Gymry, pa hyd y bydd hoff genych watwar? pa hyd y trowch glust fyddar at y genadwri bwysig hon o'r nefoedd? Llais eich Barnwr yw, yn cynnyg i chwi iechydwrriaeth dymmorol rhag plâau, heintiau, newynau, a barnedigaethau ofnadwy sydd ar ddod; i'e, yn cynnyg i chwi iechydwrriaeth dragywyddol hefyd, heb arian ac heb werth. Cofiwch na anfonodd Duw erioed genadwri i'n byd, a'r nad oedd gwar-edigaeth dymmorol ac ysbrydol yr oes h'ono yn dibynu ar eu hufydd-dod iddi. Cofiwch pa dderbyniad a gafodd Noah! Beth fu y canlyniad o wrthod ei genadwri! Cofiwch Sodom a Gomorrah—dinystr yr Iuddewon, er mor selog oeddynt dros draddodiadau y t'adau. Cofiwch hefyd ddywedyd o'n Harglwydd yn eglur yn eich Bibl chwi a ninnau, mai "megys yr oedd yn nyddiau Noah, felly y bydd yn nyfodiad Mab y dyn." Cofiwch ddywedyd hefyd o hyn wrthyhch, fod Duw wedi danfon Saint y Dyddiau Diweddfaf i'ch rhy-

byddio fod yr amser yn agos iddo wneuthur i fyny ei briodoledd, pan y gwelwch ragor rhwng yr hwn a wasanaetho Dduw, a'r hwn a wasanaetho ddynion. Pau ddel efe ar gymylau y nef, gyda ei angylion nerthol, â fflam dân i ddial ar bawb nad adwaenant Dduw, ac nad ufyddhant i efengyl ein Harglwydd Iesu Grist, sef yr hon a anfonwyd o'r nef yn y dyddiau diweddaŵ hyn, yr hon a bregethwn i chwi. Yr hwn sydd ganddo glustiau, gwrandawed ein cenadwri. Y neb sydd ganddo lygaid, darluned ein cyhoeddiadau drosto ei hun. Yn wir, meddwn i chwi, eich llygaid chwi a welant eu bod yn wir; dewiswch einioes a daioni, ynte, fel y byddoch fyw byth mewn gwynfyd a gogoniant.

DAMMEG.

AR ddydd Nadolig gwnaeth rhyw Frenin wledd briodas i'w fab, darparodd *giniaw*, ac amcanodd roddi un o'i *diriogaethau* iddo ar ddiwrnod y briodas. Y *wraig* oedd i fod yn briodferch iddo, ydoedd hardd odiaeth; ei haddurniadau oeddynt, coron ardderchog a *deuddeg o ddiamonds* wedi eu gosod o'i hamgylch, yr hon a wisgai ar ei phen. Yn ei llaw cariai *deyrnwialen ddysclaer*, oddiar yr hon yr adlewyrchai pelydrau yr haul ar y *diamonds*, nes goleuo ei ffordd o'i blaen ddydd a nos, fel na rodiai un amser yn y tywyllwch, ond yn nysclaerder haul canol dydd. Ei hwynebpryd oedd deg a hawddgar; diweirdeb, diniweidrwydd, a chariad, a welid yn argraffedig ar ei gruddiau prydfarth. Ei hoff waith oedd gweini cysur a dedwyddwch i bawb o'i chylch; rhagorai ar holl wragedd y diriogaeth mewn doethineb, fydd, a'r cyffelyb rinweddau a grasusau. Ond, cenfigenodd *trigolion* y diriogaeth i'w herbyn; cyd-fradwriasant yn ei herbyn hi a'i phriod detholedig, ac o'r diwedd llwyddasant i alltudio y Mab o'u cyffiniau, yr hyn a achosodd fawr dristwch ac hir alar i'r briodferch, hyd oni chysurwyd hi drwy i'r Brenin mawr addaw yr adferai ei Fab yn ol i'w iawnderau. A chan i'r deiliaid bradwrus hyny ddiystyru a gwrthod ei *giniaw*, y darparai efe *super*, y gwahodda'i holl drigolion y dalaeth iddo, ac y coronai ei fab yn Frenin dros yr holl diriogaeth;—yr achosai i'r deyrnwialen ddysclaer oedd yn llaw y briodferch, adlewyrchu nes llanw holl deyrnasoedd y diriogaeth â goleuni mawr; yn gymmaint ag mai ei fab hwn yw yr unig etifedd o'r cyfan: a dywedai wrthi y deuai y waith hon holl deyrnasoedd y diriogaeth o dan ei lywodraeth ef.

Cefnogodd yr hysbysiadau gorfoleddus hyn y briodferch, ac ymwrolodd drwy lawer o frwydrau celyd, nes yn mhen amser i Amherawdwr y genedl wrthryfelgar gyfnewid ei ddull o ryfela, a chyhoeddi heddwch cyffredinol. Dysgwyliai, drwy y ddichell hon, lwyddo i ennill meddiant o'r deyrnwialen, oherwydd y dysgwyliai mai hi oedd i lywodraethu yr holl genedloedd; cofleidiodd y *wraig* yn serchus iawn, nes ei gorehfygu â chyfrwysdra a dichell. Ond ar yr amser pwysig a pheryglus hwn daeth y brenin ei hun yn mlaen i'r fan, ac ond mewn

pryd yn unig, i achub y wraig pan yr oedd ar roddi ei hawdurdod i'r amherawdwr: efe a gymmerth y deyrnwialen o'i llaw, a'i dug i'w amherodraeth ei hun, ac a waredodd y wraig o law yr amherawdwr bradwrus, gan ei chuddio mewn diffaethwch cymmydogaethol, fel yr arbedid ei bywyd. Cynddeiriogodd hyn yr amherawdwr siomedig, ac efe a gyhoeddodd ryfel poeth er dial ar y wraig, udganodd ei fawredd ei hun, hōnai iddo gael awdurdod y priodfab gan y wraig, gan roddi pawb i farwolaeth ai amhenaï. Crwydrodd y wraig yn bendrist yn y diffaethwch am lawer o ddyddiau, wedi colli y *diamonds* o'i choron, a'i hyspeilio o'i theyrnwialen, heb oleuni i weled ei ffordd ond pel-ydrau y lleuad yn tywynu drwy frigau y cocô. Galarodd ac wylodd lawer oherwydd ei gweddwdod disymmwth, gan hiraethu am ddychweliad ei phriod alltudiedig. Er hyny, cysurid hi yn y gobaith o'r addewid, ac eisteddai yn unig yn y goedwig gan ddysgwyl yn astud, a gwrando ar ysgydwad y dail a thafod aderyn a glywasai y newyddion hoff, "Wele, mae y priodfab yn dyfod, eweh allan i'w gyfarfod, ymdrwsiwch yn eich gwisg briodas a roddeis i chwi; gosodwch eich perlau yn eich coron fel cynt, a gwisgwch yr holl addurniadau priodasol a ddarparodd efe i chwi, fel y cwblhaer y briodas; ac na chai neb o'r rhai a wrthodent ei ail a'i olaf wahoddiad hwn, brofi o'r swper fawr hon." Dysgwyliai i genadydd dirio yn uniongyrchol o amherodraeth y Brenin mawr gyda y newyddion da hyn, yn ol ei addewid, ac yr adferai iddi ei theyrnwialen, ynghyd â'i holl ardderchogydd a'u mawredd perthynasol; ac y cyflwynai awdurdod iddi hithau i gyhoeddi yn enw y Brenin mawr, drwy holl daleithiau a theyrnasoedd y diriogaeth, ac i bob llwyth, iaith, a phobl ar hyd ei chyffiniau, gan ddywedyd â llef uchel, "Ofnwch y Brenin mawr, ufyddheweh i'w gyfreithiau, ceisiwch y wisg briodas, a deuwch i mewn i'w swper; canys wele y mae efe ar ddyfod â'i holl fyddinoedd cedyrn gydag ef, i roddi dial ar, ac i lawr ddyfetha holl drigolion gwrthryfelgar y diriogaeth, ac ni arbeda efe neb ond y rhai a fyddant wedi ymgasglu i'r swper. Ac efe a gorona ei unig fab a'i etifedd yn frenin ar yr holl diriogaeth." Yn awr, ddarllenwyd, beth yw y ddammeg? Chwilio yn fanwl yr ydwyd ti a ninnau ynddi! Mae ein bywyd tragywyddol yn ymddibynu ar ei hiawn ddeall. Y cyfeiriadau canlynol a'th alluoga i'w dirnad.

Y Brenin a'i Fab yw, y Tad a'i unig-anedig Fab, Iesu Grist.

Y Wraig—Eglwys Iesu Grist.

Yr amser y cynnygiwyd y *giniaw* oedd, pan gynygiodd Crist a'i apostolion iechyd-wriaeth i'r Iuddewon.

Y *bradwyr* a alltudiodd Fab y Brenin—Yr Iuddewon. "Ni fynwn ni y dyn hwn i deyrnasa arnom."

Erlidwyr y Wraig—Eglwys Rhufain.

Yr amherawdwr a goffeiddiodd y Wraig—Cystenyn Fawr, pan gysylltodd yr eglwys â llywodraeth Rhufain.

Y *deyrnwialen ddyslaer*—Yr offeiriadaeth yn ol urdd Mab Duw, a rodwyd i'r eglwys.

Cymmerwyd hi oddiarni—yn y flwyddyn 570 O.C., pan y cyhoeddodd y Pab o Rufain ei hun yn ben ar yr eglwys drwy'r byd. (Gwel Dad, xii, 4—6.)

Y deuddeg diamonds—Y deuddeg apostolion.

Duw y Wraig o'r diffeithwch etto (Dad. xix. 7—9), wedi ymwisgo yn ei holl addurniadau cyntefig.

Yr amser y coronir y Priodfab—Mor gynted ag y bydd y wraig yn harod, a'i chyfeillion wedi ymgasglu ynghyd i'r swper.

Y fan lle mae y Wraig yn awr—Ar gyfandir yr Amerig, yn galw y gwahoddedigion ynghyd o bedwar cwr y byd, gan anfon ei gweision â llcf uchel i alw, “Deuwch i swper neithior yr Oen, canys y wraig a wnaeth ei hun yn harod.”

Y modd ei hadweinir hi yn mhllith holl wragedd y byd—Wrth ei hoffeiriadaeth, ei deuddeg apostol yn ei harwain; a'i holl swyddwyr a'r cyfan yn ol y cynllun cyntefig, ac yn cael eu harwain drwy ddadguddiadau o'r Æf, sef yr unig oleuni a arweinir i eglwys Crist, neu bobl Dduw, ya mhob oes o'r byd.

Y cefngenai holl wragedd y byd wrthi.—Profir hyn drwy ei ffeithiau erlidgar a chreulon, Æ, cyduna yr holl wragedd i waeddi “Putain pen heol” ar ol hon.

Y rhai a wrthodasant y giniau—Yr Iuddewon yn gwrthod efengyl Crist a'i apostolion.

Y rhai a wahoddir i'r swper—Y cenedloedd, pan droes yr apostolion atynt oddi wrth yr Iuddewon. Act. xiii, 45—49; Rhuf. xi.

Y giniau.—Yr efengyl a gynnygiwyd yn gyntaf i'r Iuddewon, fel y byddai y blaenaf yn olaf; a'r ail waith i'r cenedloedd, y rhai oeddynt olaf, i fod yn flaenaf.

Y rhai ni chânt brofi o'r swper—Pawb a wrthodant yr efengyl hwno etto, pan yr anfono Duw ei bysgotwyr a'i helwyr i'w casglu ynghyd—pan sefydlo ei eglwys ar y cynllun apostolaidd—pan y cyfyd fancr i'r cenedloedd o bell, gan bregethu yr efengyl dragywyddol i bob llwyth, iaith, pobl, a chenedl, gan ddywedyd â llcf uchel, Chwi holl drigolion y ddaear, gwrandewch pan lesaro Duw o'r nefoedd wrthych; canys efe a anfonodd ei angel â'r efengyl dragywyddol i ddyn ar y ddaear, gan ddywedyd, “Ofnwch Dduw, a rhoddwch iddo ogoniant; canys daeth awr ei farn ef; ac addolwch yr hwn a wnaeth nef a daear, y môr, a'r ffynnonau dyfroedd.”

Y xanadydd oedd i ddyfod â'r deyrnwialen yn ol, yw yr angel hwnw a welodd Ioan yn ehedeg yn nghanol y nef, â'r efengyl dragywyddol ganddo, i'w chyflwyno i'r rhai sydd yn trigo ar y ddaear. Dad. xiv, 6.

Yn awr, y ddammeg sydd wir, a'i deongliad sydd sicr.

EPISTOL ALEXANDER, Y GOF COPR,

AT EI HOLL GYDGREFFTWYR TRWY GYMRU,

Yn dangos y ffordd oreu i wrthrynebu “Saint y Dyddiau Diweddf,” ac i amddiffyn ein crefftau ninnau.

“**BARCHEDIG**” FONEDDIGION.—Mae yn hysbys i chwi oll, weithian, am lwyddiant rhyfeddol yr hen Seintiau trwy ein gwlad, a bod y werin yn rhedeg ar eu hol. Rhaid eich bod yn gwybod hefyd mai hwy yw gelynnion gwaethaf ein duwies fawr ni yn yr oes a'r wlad hon, fel cynt. A chan fy mod i yn deall cryn lawer am eu castiau, a'm tadau o'm blaen wedi bod yn enwog a llwyddiannus iawn i wneuthur niwed iddynt, er dyddiau yr hen dwyllwr Paul a'i ganlynwyr, fel yr addefa ei hun yn ei ail epistol at ei gyd-heretic, sef Timotheus, pen. iv, 14—“Alexander y gof copr a wnaeth i mi lawer o niwed,” ebe efe. A chan fy mod yn ofni iddynt fyned yn rhy liosog i ni allu eu gorchfygu,

os na ddeffrown i'w herbyn ar frys, ac nad oes obaith gweled neb braidd yn dychwelyd yn ol wedi unwaith lyncu eu twyll,—yr ystyr-iaethau hyn, ynghyd a'm dyled i gadw i fyny goffadwriaeth fy nhadau a'u crefft yn anrhydeddus, a'm cymhellasant i'ch anerch trwy yr epistol hwn. Cofus genych am epistol clodwiw ein hyglod lywydd Demetrius, yr hwn a ysgrifennodd efe o'n eisteddfod yn *Diana Square*; a diau fod yn ofidus genych glywed drwyddo am aflwyddiant yr holl *schemes*, y dichellion, a'r ystorïau a ddyfeisiasom yn erbyn y Seintiau; ac yn wir, foneddigion, nid arnom ni, nid ar ein selog lywydd, na'n eydgrefftwyr, y mae y bai am hyny, canys gwyddoch i ni bregethu yn wrol o'r pwlpudau, a chyhoeddi pob dyfais yn y cyhoeddiadau; ond ni waeth beth a wnawn, llwyddo y maent hwy yn mhob man. Ar y bobloedd y mae y bai yn siwr, canys ni chredant ein ystorïau ni, ond gwrando drostynt eu hunain; a chyn gynted ag y gwnant hyny, ffarwel am danynt; cyn eu gwelwn hwynt drachefn, byddant wedi eu bedyddio ganddynt, ac mor selog dros eu twyll â neb o honynt hwy. Ac yn awr, O frodyr, beth a wnawn iddynt? Nid gwiw i ni draethu yr un o'r hen ddichellion, nac ymladd i'w herbyn â'r hen arfau a lwyddent yn nyddiau ein tadau, canys y mae yr hen Seintiau hyn, trwy ryw ddichell neu gilydd, wedi dyfod i'w hadnabod yn rhy dda i ni allu llwyddo yn hwy. Ac y mae yn ofidus iawn genyf eich hysbysu eu bod, yn eu cyfrwysdri, wedi dod i ddeall ein holl ddichellion dirgelaf! Ydynt, y maent wedi cael gafael ar epistol doniol ein hanfarwol Demetrius hefyd, canys darllenais ef yn ei grynswth yn eu cyhoeddiad misol, sef "*Prophwyd y Jubili*," am *Hydref*, 1846, tudal. 101; ac felly rhwygant y guddlen oddiar lygaid y werin, nes y gwelant ni yn ein lliw priodol! Ow, beth a wnawn? Pa fodd y bu hyn? Trueni na buasech yn fwy dirgelaidd. Rhaid fod rhyw "Achan" yn ein gwersyll, a rhyw fradwr yn ein plith ni, yn siwr. Chwiliwch ef allan, a dygwch ef o flaen ein clodwiw lys ar frys. Clywais fod rhai o'n cewri ni, a'n prif gynghorwyr, wedi dianc atynt yn ddiweddar; a ydyw hyny yn bosibl? Er hyny na ddigalonwch, canys y mae genyf newyddion da i chwi—ffordd newydd, ffordd ragorol, ïe, yr oreu o'r cwbl, i ddyfetha y Seintiau. Llwyddwn yn awr, yn siwr. Ffordd yw a gymmeradwywyd yn fawr yn ein heisteddfod hefyd. (Ac am eich bywyd cadweh hi yn *secret* rhag y Seintiau!) Cynnaliwyd ein Cymmanfa ar y dydd ar ol yr olaf o fis Ahitophel, yn ein prif swyddfa, yn *Copper Street, Diana's Square, Cardiff*. Daeth cryn nifer o'r gwladgarwyr duwinyddol yno ar yr achlysur canmoladwy, i ddyfeisio rhyw gynllun i wrthwynebu y Seintiau. Etholwyd ein prif apostol Demetrius yn llywydd, eich ufydd was yn ïs-lywydd. a'n parchedig udgorn, sef tafod ein cloch haiarn o Gaerdyf, yn ysgrifenydd. Wedi amryw ddarlithoedd hyawdl a gwresog, ac annogaethau i fyned yn nilaen yn ein rhyfel ne's concreto, penderfynwyd yn unfrydol fel y canlyn:—

Iaf. Penderfynwyd cyfnewid ein dull o ryfela â'r Seintiau o hyn allan, yn hollol; peidio eu herlid mewn un dull, na son am danynt, ond i'w canmol; cyfeillachu â hwynt, ac addef eu bod, o leiaf, yn ogystal â ninnau; a dweyd ein bod ni oll yn myned law yn llaw tua phen y mynydd, ac y cyrhaeddwn ni oll i'r nefoedd, er bod ychydig o wahaniaeth mewn rhai pynciau bach a disylw. Dywedwch yn deg yn

eu gwynebau, canys gwyddoch nad allem eu gwrthsefyll erioed i'w gwynebau, ac yna pa les ysgyryngu dannedd arnynt? Taer erfyniwn ar bawb sydd mewn undeb â theulu Demetrius, i ymddwyn mor ffals ac unfrydol ag y byddo modd, a rhoddi benthg capel iddynt yn awr ac eilwaith i bregethu, nes ennill eu hymadiriad.

2il. Fod y mwyaf cymmeradwy, un o bob crefft, i ffurfio *committee*, megys ein cadfridog o Ddowlais, ein *corporal* o Abercanaid, ein *drum major* o Gaerdyf, a'n *whipper-in* o Ferthyr, &c. Eu bod i ddwyn *petition* gerbron pwyllgor yr "Undeb Etengylaidd," yn eu *cymmysgfa* nesaf, yn dymuno i'r Seintiau gael dyfod i'r undeb fel ereill (ond er pob daioni cadwch y gyfrinach hon); a dymunir ar bawb o honoch *signio* y *petition* yn ddbetrusder, a gweddio am ei lwyddiant, canys sicr yw fod llwyddiant ein crefftau ni yn dibynu ar eu dwyn hwy i'r cwlwm hwn. Nae ynganwch air yn erbyn eu doniau gwrthiol, na dim arall, canys ni roddant y rhai hynny i fyny er dyfod i'n teulu lliosog ni. Ond wedi y caffoni hwynt unwaith i mewn i'r teulu Demetriusol, gwnawn ni o'r goreu â'r pethau hynny. Ust! byddwch gall fel y seirff yn awr. Os ydynt yn niwynhau y pethau hynny yn awr, diflanant yn y fan y cylymnr y cwlwm hwn rhyngoni. Yn mlaen â hi, fechgyn anwyl. Onid ydych yn cofio mai fel hyn yr achosodd fy nhadau gynt i'r doniau ysbrydol, a'r gallu Duw hynny ag oedd yn gwenwyno ein crefftau ni, i ddiflanu o'r eglwys apostolaidd? Llwyddo a wnaent hwythau po poethaf yr erlidigaeth; ond yn y fan ag y perswadiasant Cystenyn Fawr i gymmeryd ffrwyn eu heglwys, a'i huno gyda'r wladwriaeth, dylifodd y mawrion, y cyfoethogion, a'r cyfan i mewn, ac a droisant y gwael seintiau tylodion o'u swyddi, gan gyfnewid yr ordinhadau yn raddol, a cholli pob cymdeithas ag Ysbryd Duw, nes hollol gydymffurfio â'n crefftau ni; a rhyfedd mor gywrain y bu ein tadau i gau y bwlech mawr i fyny, rhag i'r bobl weled y diffyg o'r doniau ysbrydol wedi hynny, drwy haeru "nad oedd eu heisien yn hwy." Dyna ddyfais bert, ac y mae y gair yna yn parhau hyd heddyw, a neb ond yr hen seintiau hyn yn meiddio dweyd yn amgen; ond ust! peidiwch ag ymollwng i nwydau, onide bydd y gath o'n ffetan etto.

3ydd. Penderfynwyd anfon epistol at ein hanwyl frawd Havard, i'w rybyddio i beidio myned â'r *petition* hwnw ddim yn ychwaneg o dy bwy gilydd ar hyd heolydd Lacharn, i brofi mai y Seintiau yw y "gawbrophwydi" hynny ag y sonia yr ysgrythyr sydd i ddyfod yn y dyddiau diweddaf, na cheisio gan y bobl *signio* i beidio eu gwrando pan y deuant yno. Mae yn hoff genym weled ein brodyr Calfnaidd yn dethio o'u cysgadrwydd i'r gwaith da hwn; canys yn wir y maent hwy ar ol yn hyn rhagor ereill, er nad mor ddifater â'r Wesleyaid ychwaith i'n helpu yn erbyn y cedyrn hyn, oherwydd y maent hwy, fel eu tad Wesley gynt, yn rhy luriaidd a diniwed i erlid neb, boed a fyddo. Barnai rhai o fawrion y gymmanfa fod *petition* y brawd Havard yn ddyfais ragorol, ac yn deilwng o efelychiad, ac yntau yn haeddu canmoliaeth am ei sel a'i ffyddlondeb; ond nid gwaeth beth, hollol groes oedd yr effaith a gafodd ar y werin wed'yn, fel pob ddyfais flaenorol; ni foddlonid y bobl heb eu clywed en humain. Bu cryn bledio hefyd ynghylch pwy yw yr Havard hwn. Mynai rhai mai yr hwn y bu ei fam yn cadw hen "Ffyrnon Elian" oedd efe! ereill ni wyddent; ond

cydunwyd i'w rybyddio ef a phawb ereill i heidio gwneyd dim o'r fath beth hyd oni welem effaith ein *petition* ni yn y Cynghrair Efengyl-aid. Condemniwyd ymosodiad y Drysorfa. Fethodistaidd ar y Seintiau hefyd. Mor ffol yw, yn eu cyhuddo o "broffesu perffeithrwydd personau!" Gwyr pob crwt a wyr rywbeth am y Seintiau, mai camgyhuddiad hollol yw hyny arnynt; ac yna, pa les i'n hachos yw bod mor ffol â haeru celwyddau mor amlwg yn eu herbyn? Dyna fel y mae y werin yn canfod ein gwendid, ac yn ein gadael. Byddwch gyfrwys, byddwch galonog a dewr, a chawn bregethu yn angladd y Seintiau cyn hir, dwyn llonyddwch trwy'n gwlad, a llwyddiant ar ein crefftiau fel cynt; ac Ysbryd Duw ein tadau selog a fyddo o'n plaid yn erbyn y bobl aflonydd hyn sy'n ceisio troi y byd y tu arall i fyny, a dwyn gwarth a moelhi ar ein duwies fawr, yw'm gweddi, Amen.

Ydwyf, eich selog gyd-grefftwr,

ALEXANDER IEU., Y GOF COPR.

*Prif Athrofa, congl Copper Silver Street, ger
Diana Square, Caerdyf Fawr.*

SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF VERSUS SECTARIAID.

MYNYCH y gofynir i ni, "Beth yw y gwahaniaeth sydd rhynghoch chwi a'r sectau ereill yn Nghynir?" Atebwn mewn gair, mai yr un faint yn gywir ag sydd rhwng y sectau a'r ysgrhythyrau santaidd! Ond i fod yn blaenach etto, sylwn, fod yn waith rhy fawr i ni allu cael lle nac amser i ddangos beth yw y gwahaniaeth rhwng y sectau a'u gilydd; o ganlyniad, y ffordd rwyddaf i ddangos y gwahaniaeth yw hysbysu beth a gredwn ni yn egwyddorion cyntaf yr efengyl, a gadael i'r darllenydd eu cymharu â chredoau y sectau, a ffurfio ei farn wed'yn pa rai a ddaliant eu pwysau yn nghlorianau y gwirionedd.

Credwn fod efengyl ein Harglwydd Iesu Grist yn "allu Duw er iachawdwriaeth," ac yn dylanwadu ar y meddwl dynol yn awr, fel y gwnai er's deunaw cant o flynyddau yn ol. Fod yn anheggorol cael hawl neu awdurdod, ac anfoniad dwyfol oddiwrth Dduw, a hyny trwy ryw gyfrwng gwell na phapyr ac inc, er pregethu "gair y bywyd," ac i iawn weinyddu ordinhadau yr efengyl (megys yr oedd gan yr apostolien), cyn y gallwn fod yn gadwedig, neu ddyfod yn aelodau yn eglwys Iesu Grist, "yr hon yw colofn a sylfaen y gwirionedd," trwy yr hwn y'n perffeithir, y'n santeiddir, y'n darperir i etifeddu cyflawnder bendithion y nefoedd, rhan yn y mabwysiad, sef prunedigaeth y corff, a chael teyrnasu gyda'n Iesu bendigedig ar y ddacar adferedig, pan ddel yn Frenin breninoedd, a'i osgordd angylaid gydag ef, ac wedi hyny y cawn fod yn wastadol gyda'r Arglwydd.

Yr hyn y mēthwn yn llwyr ei gredu, i.e. er ei haeru gan holl sectau y byd, ydyw, fod yn bosibl i ni gael yr efengyl yn ei phurdeb a'i gallu achubol gan neb, oddieithr eu bod wedi eu hawdurdodi gan Dduw, sef wedi derbyn gweinidogaeth y cymmmod, sef goruchwyliaeth iddynt eu hunain oddiwrth Dduw, megys ag y cafodd Aaron; a chredwn y rhaid iddynt gael eu hanfon dros, ac yn enw neu awdurdod Iesu Grist, yr hon awdurdod a ystyrir yn yr ysgrhythyrau yn ofeiriadaeth. Dig-

iwch neu beidiwch; ni ddichon i ni gredu hyn er treio yn galed, a hyny oherwydd na chynnygia y gosodiad yna yr un gronyn o reswru nac ysgrythyr yn sail i'n ffydd i weithredu; a rhaid i ni addaf ein bod yn rhy bendew i gredu un peth yn y byd iwn, na'r byd nesaf ato, heb sail ddigonol i'n ffydd hongian wrthi; a'r sail ofynol y tystiolaeth eirwir gan y rhai a wyddant y peth; ac os na bydd y dystiolaeth hono yn rhesymol ac yn ysgrythyrol, ni ddichon fod yn wirioneddol, ac yna esgusodwch y Scintiau oherwydd eu hanallu i'w clredu.

Ond, credwn yn hawdd fod y gyffelyb elyniaeth yn nghalonau yr hil ddynol yn awr, yn erbyn Duw a'i efengyl, ag oedd yn amser Iesu Grist, a bod syniad y cnawd mor elyniaethus yn erbyn trefn Duw yn awr â phan y dywedodd yr apostol hyny. Credwn hefyd fod mor anghenrheidiol i Dduw Dad, Iesu Grist, ynghyd â'r Ysbryd Glân, weithredu yn awr er iachawdwriaeth dynion, ag oedd iddynt yn nyddiau Pedr, Paul, ac ereill; ac o ganlyniad, fod dyledswydd dyn yn gyffelyb yn awr, fod cisieu y cyffelyb ymdrechiadau, ufydd-dod i'r unrhyw drefn, a ffyddlondeb yn rhodio ynddi, yn ein dyddiau ni, cyn y dichon i ni gyrrhaedd yr un "gamp" trwy redeg yr un "yrfa." Gan ein bod yn credu hyn, yr ydym yn gwahaniaethu oddiwrth y rhai sydd yn myned oddiamgylch i ddsygu, am orchymynion, draddodiadau dynion, yn proffesu "rhith dauioldeb, ac yn gwadu ei grym hi;" ac o gariad atynt, er ceisio eu hargyhoeddi, dywedwn fel Ican gynt, "O daw neb atoch heb ddwyn dysgiciaeth Crist, nid yw y Tad na'r Mab ganddo," &c.; neu fel y dywed Paul, "Pe hacm ni, ie, pe bai angel o'r nef yn efengylu amgen na'r hyn a efengylasom i chwi, bydded anathema;" ac oherwydd hyn digia y sectariaid yn fawr wrthym, a thrwy lawer o esgusion ânt wysg eu hochrau mor belled ag y gallant oddiwrthym, ac yna gwaeddant, "O gwelwch, y mac gwahaniaeth mawr rhyngom ni a'r Scintiau." Fel yna yn union y dywedai sectariaid y gaurif gyntaf yn erbyn yr un grefydd. Ond os daw un atom gan bregethu yr efengyl hur, yr hon sy'n allu Duw, cynnygia hi yn ei gallu cyntefig, gan addaw (os gwyr ei fod yn was i Dduw) addewid i'w wrandawwyr o "*ddawn yr Ysbryd Glân,*" yn awr fel cynt, ar yr ammodau canlynol:—

1. Ffydd yn Iesu Grist, a'i air dadguddiedig, ei fod ef yn Fab Duw, ac yn ddigonol Waredwr i bechaduriaid. Nid yw yn waith dim hwy i gredu yn Nghrist nag y clywir tystiolaeth ddigonol am dano; ac yna, beth sydd yn lluddias i gredu gair un mor eirwir ag ef, pan y credir gair dynion anwireddus yn aml? Peth hawdd iawn yw credu yn Nghrist, a pheth rhesymol hefyd, ond nid mwy felly nag yw ufyddhau i'w orchymynion wedi credu ei eirwiredd, a'r pwys o honynt—wedi credu fod Crist yn Waredwr, a thithau yn bechadur; yna, fel pechadur hawdd yw edifarhau am dy bechodau yn erbyn dy Waredwr trugarog, h. y. penderfynu rhyngot â Duw, yn enw dy Waredwr, i fod yn ddeiliad o'i lywodraeth o hyn allan: gwaith llai nâ phum mynyd yw hyn hefyd. Yna y peth nesaf yw cyflawni yr addewid neu y llw hwnw, a'r cam cyntaf tua'r dwf yw'r cyntaf i hyny, heb yr hwn mae yn amhosibl ei gyflawni, a dyfod i rwymyn y cyfammod yn effeithiol a addewaist ar air. "Bedyddier di, a golch ymaith dy bechodau." Ac un peth etto am y tro hwn, dywedaf wrthyf, os cywir dy ddyben,

trwy arddodiad dwylaw gweision y Duw byw ti a dderbyni *ddawn yr Ysbryd Glân* gan Dduw megys cynt, yr hwn fydd yn nerthol weithio ynot a thrwyot, i'th santeiddio a'th dywys yn nghanol y goleuni; a chyfrana i ti ddoniau nefolaidd yn ei amser ei hun, a hyny mor gynted ag y'th lesânt, megys *ysbryd y brophwydoliaeth, tafodau, cyfieithiad, dawn iacháu, gwahaniaeth ysbrydoedd, gwelediyaethau*, neu ryw ddoniau ereill, canys *Efe* sy'n "cyfranu i hob un [ar yr ammodau hyn] o'r neilldu, megys y mae efe yn ewyllysio;" i.e, efe a wyr oreu.

Yn awr, ddarlleneydd, gweli gryn wahaniaeth rhyngom ni â'r sectariaid eisoes, i.e, fwy nag a feddylia nemawr un; ond atolwg, pa wahaniaeth a weli rhwng hyn a'r ysgrythyr? Os oes, dymunem wybod beth ydyw. Os nad oes, dewis fywyd a daioni. Os ammheui ai gwir yw chwedlau y wlad i'n herbyn, dyred a gwel: *y mae croesaw i bawb*; i.e, prawf ni yn onest ac yn drwyadl, ac os gelli gael twyll, dangosa ef i minnau, er mwyn fy enaid, a gadawaf ef yn y fan. *Dyred a gwel, ynte, cyn u bydd yn rhy ddiweddar!*

CYMMANFA MERTHYR-TYDFIL.

Ar y dydd Sul a'r dydd Llun cyntaf yn Ionawr, cynnaliwyd Cymmanfa gan y Saint yn Neuadd y Cynreigyddion, yn y dref uchod. Dechreuodd y cyfarfod cyntaf am hanner awr wedi deg, drwy ganu mawl a gweddio fel arferol. Yna anerchodd Capt. D. Jones y gwrandawwyr yn wresog ar yr achlysur, ac agorodd y gymmanfa drwy gynnyg fod y brawd John Taylor (un o'r apostolion a ddaethant drosodd o'r Amerig yn ddiweddar) i fod yn llywydd. Dywedai fod yn llawenydd mawr iddo gael yr anrhydedd i'w gwneuthur yn gydnabyddus â Mr. Taylor, yn Nghymru am y tro cyntaf iddo ef nag un apostol arall ymweled â'n gwlad—fod ei feddyliau dan yr achlysur presennol, yn cael eu trosglwyddo dros eigion y Môr Werydd i eithafion y gorllewinol dir lle y bu yn cyd-lafurio â Mr. Taylor am flynyddau yn y gwaith hwn—at yr erlidigaethau, ynghyd â'r pleser a'r bendithion a gyd-dderbyniasant yno; ddarfod iddo gael yr anrhydedd o fod yn gyd-garcharor ag ef oherwydd efengyl Iesu Grist ac am dystiolaeth yr Iesu, yr hon a gyd-bregethasant o'r carchar i filoedd o'u herlidwyr; ac nad oedd neppell oddiwrtho pan y saethwyd pedair o fwledi i'w gorff. Rhedai ei feddwl a'i awydd yn gyflym pryd hyny tua gwlad ei henafiaid, gan feddwl am yr amser y caffai weled ei frodyr a'i chwiorydd unwaed wedi ufyddhau i'r efengyl dragywyddol hon, ac mewn cymmanfa yn mhlith mynyddoedd Cymru, yn cyd-lawenhau dan arweiniad Ysbryd Duw, a'i fod heddyw wedi cael mwy nâ'i ddysgwyliaid drwy bresennoldeb ein brawd hwn. Cyd-lawenhâi â'r gwrandawwyr, oherwydd dyfod y dedwydd ddydd hwn eisoes i'w meddiant, a dysgwyliai i bawb gyd-weddio am i bresennoldeb ein Duw fod gyda ni drwy y gymmanfa. Cymmeradwywyd y cynnygiad yn unfrydol.

Yna cymmerodd Mr. Taylor y gadair, ac a anerchodd y gymmanfa yn fyr a chynnwysfawr. Yr oedd yn llawenydd ganddo gyfarfod â chyunifer o frodyr a chwiorydd yn yr Arglwydd mewn gwlad estronol,

ac er nad oeddynt yr un iaith, eu bod dan arweiniad yr un Ysbryd, yn rhwymyn yr un cyfammod tragywyddol, ac yn cyd-deithio ein gyrfya ysbrydol tua'r un baradwys orllewinol, lle y caem oll ddeall ein gilydd yn well, pryd yr adferid gwefus bur i bawh, y caem yn ol ein ffyddlondeb oll gyd-gwrdd yn Seion, oddeutu hwrdd ein Duw. i ganu cân Moses a pheraidd gân yr Oen dros fil o flwyddi, heb ofid, poen na gwae. Taer erfyniai ar Dduw y Saint fendithio ei blant yn Nghymru hefyd ag ychwaneg o'i Ysbryd i'w cadw yn undeb y ffydd, cariad, a llawenydd;—fod ei galon yn llawn o fendithion, ac y bendithia bob dyn gonest ei galon. Wedi hyny cynnygiodd fod i'r brawd Jones gario yn mlaen faterion y gymananfa yn Gymraeg, yr hyn a wnaed fel y canlyn:—

Cynnadledd Sir Forganwg—Rhiif y cangenau, 30; henuriaid, 28; offeiriad, 50; dysgawdwr, 25; diaconiaid, 19; bedyddiwyd er y gymnanfa ddiweddaf, yr hon a fu yma Gorph. 12, 287; aelodau oll, 841. Cynnadledd Mynwy—Cangenau, 8; henuriaid, 6; offeiriad, 11; dysgawdwr, 10; diaconiaid, 3; bedyddiwyd er y gymnanfa flaenorol, 54; yr holl aelodau, 138. Cyfan-rif y ddwy gynnadledd hyn yw—Cangenau, 38; henuriaid, 34; offeiriad, 61; dysgawdwr, 35; diaconiaid, 22; bedyddiwyd yn y pum mis diweddaf, 341; yr aelodau, 979. Galwyd y personau canlynol yn henuriaid:—Daniel Evans, Hirwaun; William Jenkins, Caerdyf; William Hughes, Merthyr; Samuel Evans, Clwydfagwr; Thomas Hughes, Machynlleth; William Clark, Harlech; David Roberts, Ffestiniog; Richard Griffiths, Rhosllanerchrugog; William Evans, Dycwyd; Samuel Morris, Merthyr; Joseph Davies, Aberdâr. Galwyd hefyd 15 o offeiriad, 17 o ddysgawdwr, a phump o ddiaconiaid; a diwedddod y llywydd y cwrdd boreuol drwy weddi.

Yn y cwrdd prydawnol, gweinyddwyd y swper santaidd i dyrfa fawr; wedi hyny canodd y brawd Taylor, a'r brawd Webb o Bristau, ganiadau a gyfansoddasant o fawl i Dduw ar yr achlysur. Yna anerchodd y llywydd y Saint yn wresog mewn cyssylltiad â'u breintiau mawrion, a'u dyledswyddau i fyw yn fwy addas, difrycheulyd, a duwiol, nâ phawb ereill, a bod yn wylidwrus na thristâent lân Ysbryd Duw, ond ei feithrin drwy weddi a ffyddlondeb yn yr ymarferiad â'r moddion apwyntiedig, ac yn cadw holl orchymynion Iesu Grist—fod yn ofalus i feithrin cariad brawdol yn undeb y ffydd, &c. Eglurhaodd ddybenion, y pwysfawrogrwydd, a'r defnyddioldeb o'r ordinhad santaidd hon yn rhagorol; a therfynodd y cwrdd drwy weddio ar Dduw i fendithio ei Saint, &c.

Yn yr hwyr, pregethodd Mr. Taylor yr efengyl yn ei sel a'i briodddull gwresog ac eglur, gan ddwyn allan drysorau newydd a hen i'r dorf, ar ba rai yr ymborthent (ond barnu wrth eu golwg siriol, a'u gwrandawriad astud) gyda blas ac awydd mawr. Dilynwyd ef gan Capt. Jones, gydag araeth fer, wresog, a chymhwysiadol i'r achlysur, a gwahoddiadau taer ac effeithiol ar y gwrandawwyr ddyfod i mewn i deyrnas Dduw (y rhai nad oeddynt etto wedi ufyddhau i'r efengyl!), fel y caffent ysbryd y mahwysiad i'w tywys i bob gwirionedd, i dystio iddynt eirwiredd ein galwedigaeth nefol, fel y caffent eu santeiddio a'u darparu i etifeddu gogoniant y Saint yn y goleuni, &c.

Dydd Llun, cynnaliwyd tri chwedd, yn y rhai y dangoswyd godidog-
rwydd a phwysfawrogrwydd y gwahanol swyddau eglwysig, dyled-
swyddau y swyddogion a'r Saint, ynghyd â'u breintiau, a'r gobaith a
osodwyd o'u blaen. Ordeiniwyd llawer o'r swyddogion a alwyd (ag
oedd yn bresennol), gan y llywydd a'r brawd Jones, yn Saesonaeg ac
yn Gynraeg.

Yn yr hwyr, ffarweliodd y llywydd â'r dorf liosog drwy araeth fer a
chynnwysfawr, yr hon a lynai yn nghalonau y Saint yn ddiau. Gad-
awodd ei fendith gyda hwynt, gan ddysgwyl etto gael eu cwrdd yn
Seion, wedi dyfod allan o'r cystudd mawr, a'u gynau wedi eu canu yn
ngwaed yr Oen. Dywedai, y buasai yn dda ganddo allu aros yn hwy
gyda hwy, ond ei fod ar frys mawr i alw gyda chynnadleddoedd ereill
yn Lloegr, &c.; ddarfod iddo ddyfod tua saith mil o filltiroedd yn
ddiweddar, i ymweled â'r Saint; ei fod wedi gadael ei deulu yn
mhlith y Saint a'alltudiwyd o Nauvoo, yn nghanol yr anialwech gor-
llewinol, gannoedd o filltiroedd oddiwrth bobl wynion; fod anwariad
y goedwig yn ymddwyn yn fwy caruaid a christionogol tuag atynt o
lawer nâ'r Cristionogion professedig [!!] a'i fod ar fedr hwylio o Loegr
yn mhien ychydig ddyddiau tua'r Amerig, i ymuno â'i deulu a'r Saint
erbyn cychwyniad eu gwersyll yn mlaen tua California. Da ganddo
weled cynnifer o'r Cymry wedi ufyddhau i, ac yn llawen fwynhau
breintiau a doniau cyflawnder yr efengyl dragwyddol; a dysgwyliai
y del miloedd o'r rhai gonest o egwyddor i mewn i eglwys Crist etto
ar fyrder yn y wlad hon, &c. Hawdd oedd canfod y cariad a fagodd
yn nghanlonau y Saint tuag ato, a'r lles a dderbyniasant, trwy eu sir-
ioldeb, a'r croesaw a gafodd gan bawb. Bendithiodd hwynt drachefn,
ac aeth ymaith gyda'r *railroad train* i Gaerdyf.

Fel hyn y terfynodd y gymmanfa liosocaf, felysaf, anrhydeddusaf, a
mwyaf adeiladol i'r Saint, ag a gawsom erioed yn Nghymru; a medd-
yliwn oddiwrth y lluoedd o'r hyd a ddaethant yno, eu gwrandawriad
astud, eu sirioldeb, a'u boneddigeiddrwydd drwy y cyfan, eu bod yn
cael goleuni a llawenydd mawr, ac o barodrwydd yr addefai hen erlid-
wyr fod yn edifar ganddynt iddynt gredu camgyhuddiadau pregethwyr
ac awduron cyhyd; eu bod yn gweled yn awr mai anwireddau dynion
drwg oedd y cyfan, ac addefant fod Duw yn ein plith yn ddiau, a dy-
wedodd aml un y byddai yntau yn ein plith ar fyr! A sicr mai felly
y dywedai pob un sydd o egwyddor yn caru ac yn ewyllysio cael y gwir
o bob plaid, a diblaidd, pe deuent i wrando eu hunain, yn lle credu
eamdystiolaethau ein herlidwyr; a'r Arglwydd grasol, yr hwn a bia y
gwaith, a baro mai felly y bo, er eu lles lwy, a gogoniant ei enw.
Amen.

WILLIAM DAVIES, }
EDWARD EDWARDS, } *Ysgrifenywyr.*

D.S. Rhy faith fyddai rhoddi adroddiad o bregethau rhagorol y
brawd Taylor yn y fan hon, er mor ddymunol fyddai gan y Saint eu
cael. Gwyddom eu bod, dan fendith Duw, wedi gwneyd lles, a chyfl-
wyno gwybodaeth fawr i'r rhai a'u clywsant, oherwydd y mae y
ffrwyth yn dechreu blaendarddu eisoes; ei na fedyddiwyd dim ond naw
yn y ddau ddydd caulynol yn Menthyr, clywn fod amryw wedi ufydd-
hau i'r efengyl eisoes, ac nad yw y naw hyn a dderbyniwyd i'r cwrdd

eglwysig cyntaf ar ol y Gymmanfa ond blaenffrwyth o gynauaf tor-eithiog o eneidiau gwerthfawr sydd ar ddyfod i deyrnas Dduw. Go-beithio y darllena y prophwydi hyny a brophwydant o gapel bwy gilydd am farwolaeth Mormoniaeth, rhai yn mhien chwech mis, ereill cyn pen y flwyddyn, &c., yr hauesion hyn, ac y gofynant iddynt eu hunain, pwy sect yn eu plith a gynnyddodd yn debyg yn yr un amser! Bydded iddynt hwy, a'r pregethwyr a'r awduron sy'u pregethu pregethau angladdol Mormoniaeth, bwyllo ychydig nes bo wedi marw, canys nid yw hi yn glaf hyd yn hyn, na thebygolrwydd o hyny ychwaith! Ai tybied na addefant bellach mai hwy yw "gau-brophwydi y dyddiau-âiweddaf?" Ond nid yw waeth pa un, "wrth eu ffrwythau yr adwaenir hwynt" bellach. Gwaith ofer iddynt waeddi *gau-brophwydi* ar y Saint, er ceisio dallu y werin, pan y mae eu prophwydoliaethau hwy eu hunain yn profi mor eglur ag y dywedodd Nathan wrth Dafydd, "*Ti yw y gwr.*" Ond yn mlaen â ehwi, druain; chwydweh allan eich dymuniadau, a drygioni eich calonau, trwy brophwydoliaethau; awn ninnau yn mlaen, dan bregethu yr efengyl, i achub eneidiau, nes, trwy nerth ein Duw, y llenwir ein gwlad â gwybodaeth o Dduw trwy "Formoniaeth," ac y caiff eich holl ludolion eichlywed, a'u rhyddhau o'u caethiwed blin i ryddid gogoniaut plant Duw; y dryllir eu llyffetheiriau, y tefir i lawr eu beichiau trynion, a'r ardrethiadau mawrion a'u gorlwytha, er cynnal duwies fawr sectyddol yr oes. Buan yr alltudio gwawl y Jubili eu henw a'u hofffeir-iadaeth o'n gwlad.

AMRYWIAETHAU.

Y PLA.—Mae papyrau newyddion Lloegr yn ein hysbysu fod y pla a elwir y *Cholera Morbus* yn nesáu yn gyflym iawn tuag Ewrob, ac ofiwn y bydd y canlyniadau yn aenbyd.

CYSUR Y SAINT.

MAWRYGWN ein breintiau, O frodyr cytun;
A chanwn ganiadau yn llawen bob un:
Mae'n hyfryd i deithio mewn undeb a hedd
Ar hyd yr anialwch i Seion a'i gwledd.

Er cymmaint y eroesau sydd i ni yn awr,
O na ddigalonwn—mae'r wobr yn fawr;
Cyfodwn ein penau, ymwarded sydd draw—
Ein gyrfa ddiweddir mewn hedd maes o law.

Tywyllir yr haulwen, y lleuad, a'r sêr,—
Ysgydwir holl nerthoedd y nefoedd, gan Nêr;
Ond hyn fydd yn arwydd i'r ffyddlon trwy'r byd;
Mai buan daw'r Arglwydd i'w casglu ynghyd.

Mor hoff ydyw meddwl am fyw yn ddiboen,
Mewn gwlad heb ddim blinder, yn ngwyddfod yr Oen:
Mae'r meddwl yn hyfryd, ond gwell yw'r *mwynhad*;
Mil gwell ydyw'r *meddiant*, nâ'r *sôn* am y wlad.

Os cymmaint yw'r gwynfyd, beth ddylem ni fod?
Ai diwyd ai diog, i gyrhaedd y nod?
Ymdrechwn yn wrol—mae Duw yn rhoi nerth—
Os ffyddlon ymdrechwn, try'r ymdrech yn werth.

RHYFEL YN NAUVOO ETTO.—Hysbysir ni drwy effeithiau ychwanegol, a mwy galarus fyth, o gynddaredd ddigyffelyb, ac o greulondeb annynol y terfysglu a drigant yn nghymydogoethau y ddinas hon. Yr oedd y Saint oll o'r bron wedi ymadael â Nauvoo cyn dechreu y terfysg hwn, ac Americanaid o'r gwahanol daleithiau wedi prynu eu meddiannau, er am eu pris eu hunain, ac yn eu cyfanneddu, a'r ychydig weddill o'r hen drigolion (sef y Saint) ar ymadael. Ond gwelir fod yr elyniaeth yn parhau, a'r gwrthwynebiad yn cynnyddu fwy fwy yn erbyn y trigolion diweddaraf, a hynny oherwydd fod y *mobs* yn colli eu hamcan, yn colli y wobr a ddysgwylent o'r dechreu, sef cael yr etifeddiaethau teg hynny drwy drais, a'u meddiannu eu hunain. Y mae llythyr oddiwrth ein cyfaill Joseph A. Stratton, o St. Louis, yn ein hysbysu mai trwy etholiad rhyw ddyn o'r enw Carlin i'r swydd o heddgwidwad, y dechreuodd y rhyfel hwn. Aeth yr heddgwidwad hwn, ynghyd â nifer fawr o derfysglu, i Nauvoo, dan yr esgus o ymfyn am un Pricket yn garcharou, ond eu hamcan oedd ysbilio a dystyrio y ddinas. Yn mhen ychydig ddyddiau yr oedd Carlin wedi casgu tua 700 o wyr arfog yn Carthage, a rhoddodd hwynt dan lywyddiaeth y Milwriaid Singtelon, Chittendon, ac ereill. O'r diwedd, wedi llawer o ffwdan, danfonwyd at drigolion Nauvoo, i'w hysbysu fod yn well iddynt roi i fyny i'r terfysgwyr, eu bod hwy yn rhy gryf iddynt: neu os oeddynt am ymladd, y buasid yn gosod dyn i'w harwain. Daeth y terfysglu yn nes, a gwersyllasant o fewn tri chwarter milltir i'r fan lle arosai am-dlifynwyr y ddinas, ac wedi sacthu rhyw nifer o beleni heb nemawr effaith, ciliodd y terfysgwyr yn ol. Yr oedd y terfysgwyr oddeutu 800 yn awr, ond plaid Nauvoo oddeutu 300 heb fawr o arfan. Y dydd canlynol bu brwydr arall, a gorfawyd y terfysglu i ffoi, gan adael pymtheg o'u nifer yn gelaneddau ar y maes, ac yn eu plith Cadben Smith. Ni chlwyfyd ond un o bobl Nauvoo. Parhawyd i ymladd y ddau ddydd canlynol hefyd, ond yr un rhai oedd yn gorthrechu. Ond y pummed dydd tiriodd nifer o wyr arfog i'r lle, i benderfynu rhyugddynt heb drwallt gwaed yn rhagor; a deuwyd i'r penderfyniad—fod i'r holl Saint a thrigolion Nauvoo roddi eu harfan i'r terfysgwyr, a dianc o'r dalaeth cyn pen pum diwrnod? Ac felly y bu; gorfau ar y Saint, druain, ymadael yn hollol, a gadael llawer o'u meddiannau ar ol.

YR ARWYDDION YN CANLYN Y Bedyddwyr!—Ychydig ddyddiau yn ol, clywid un Mr. W—, gweicnidog parchus gyda'r Bedyddwyr, nid can milltir o Llanybydder, yn tystiolaethu yn ngwydd amryw fod yr arwyddion a sobir am dauynt yn y commisiwn, yn canlyn yn ei eglwys ef. Dywedai eu bod yn bwrw allan gythreuliaid, trwy fod dynion drwg yn dyfod yn ddynion da; yn llefaru â thafodau newyddion, trwy fod llawer ag oeddynt yn annuwiol yn dyfod i weddio; ac yn iachâu y cleifion, trwy ei fod ef ei hun yn gosod ei ddwyllaw ar benau ei blant pan fyddont yn cwyno, yr hyn a'u dwg i'w lle yn union!!!

PABYDDIAETH.—Nid oes wythnos yn myned heibio nad ydym yn clywed am rai o offeiriad Eglwys Loegr yn troi drosodd at yr hen fam; ac nid yn llai aml y gwelir pregethwyr ieuainc yr enwadau ymneillduol yn troi at Eglwys Loegr. Y mae hyn, ynghyd â lliaws o bethau ereill, yn ein harwain i feddwl fod yr amser hynny yn agos, pryd na chaniateir i neb brynu a gwerthu heb nod y bwystfil yn eu talcenau.

C Y N N W Y S I A D.

Anerchiad at y Cymry	5	Cynmanfa Merthyr-Tydfil	16
Damneg	9	Y Pla	19
Epistol Alexander, y Gof Copr!	11	Cysur y Saint	19
Saint y Dyddiau Diweddaf <i>versus</i> Sec- tariaid	14	Rhyfel yn Nauvoo etto	20
		Yr Arwyddion yn canlyn y Bedyddwyr	20

MERTHYR-TYDFIL :

CYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH HEFYD GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL.

PROPHWYD Y JUBILI,

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 8.]

CHWEFROR, 1847.

[PRIS 2g.

FFYDD.

GAN mai ar y pegwn cadarn hwn, sef *ffydd*, y mae hyd y nod yr egwyddor gyntaf ac ardderchocaf o grefydd ddadguddiedig wedi ei sylfaenu, a phob careg o'r ddinas nefol hño, "saer ac adeiladydd yr hon yw Duw," wedi ei goruwch-adeiladu ar hyn, buddiol i ni ymchwilio i mewn i'r egwyddor werthfawr hon, er ei hiawn ddeall, a chynnyddu ynddi, yr hyn a wnawn mor ddealladwy ag y gallwn, gan ddechreu yn ol yr hyn a ddywed Paul, yn Heb. xi, 1 :—"Ffydd yn wir yw sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio, a sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled."

Pa beth ydyw ffydd? ebe aml un. Wel, dyma ateb eglur iawn, sef, mai yr egwyddor hño ag sydd yn tystio neu yn sicrhau i'w pherchenog fodoliaeth pethau, manau, neu bersonau, heblaw a welodd ei lygaid ef, ydyw. Pan glywir arall yn adrodd hanes y pethau a welodd efe, neu a glywodd arall yn eu dweyd, y mae y dyn o'r cyfryw gyfansoddiad, ag y creda neu yr anghreda yr hanes hwnw i'r graddau yr ystyria yn deilwng o'i sylw. Wel, heb ffydd anmhosibl fyddai iddo gredu nac anghredu; canys y mae y peiriant cynneddfol a ddygir mewn gweithrediad drwy dystiolaeth un arall, o anghenrheidrwydd yn rhoddi ei dedfryd o gymmeradwyaeth, neu o gondemniad, ar bob peth a ystyria. Mae gwaith dyn yn credu unrhyw beth, yn brawf ei fod yn feddiannol ar y fath beiriant; a'i weithrediad ar y naill beth, yn brawf digonol y gall gredu peth arall, i.e. bob peth a ewyllysia; neu ynte, os nad all, nid yw ei Greawdwr wedi rhoddi iddo feddiant ar alluocedd ei hun, yr hyn sydd yn arwain i waeth dyrswch etto, ac yn gwneyd dyn yn beiriant analluog ac anghyfrifol. Dywed llawer yn ein gwlad ni, na allant gredu y cyfryw beth, pan nad allant ddangos un rheswm paham, ond nad oes ganddynt ffydd. Amlwg yw uad yw y rhai hyn yn eu hadnabod eu hunain, nac yn deall beth ydyw ffydd.

Nid yw yn hosibl fod un creadur rhesymol yn ddiffydd, heb brofi gwall mawr yn ei gyfausoddiad! Oddieithr fod gan ddyn ffydd, ofer fyddai ei glustiau a'i dafod, canys dyben y Creawdwr yn creu y naill a'r llall, ac yn eu trefnu mor gyfleus, yw, fel y clywai y naill dystiolaeth y llall; ac i ba ddefnydd clywed hyny, os na chredir? a pha fodd ei credir, heb fod gan y cyfryw ffydd? Dichon rhai wrthwynebu hyn oddiar yr hyn a ddywed yr apostol, "Nid oes ffydd gan bawb." Ond atebwn ef drwy eiciau apostol llawn mor wir—"Gan roddi ffydd i bob dyn," &c. Pa fodd y gall hyna fod, heb groesi eu gilydd? Atebaf, i'r olaf, mai un ffordd trwy ba un y rhoddodd Duw ffydd i bob dyn, yw, trwy ei gymanysgaethu â'r gynneddff hono a ddygir i weithrediad wrth gredu; ac wedi hyny, anfon ei weision i gyhoeddi "newyddion da," swm geiriau y rhai sydd yn effeithiol i ddwyn y gynneddff hono i weithrediad, os caiff degweh. Dengys hyn y rhesymoldeb o fod Crist yn anfon ei weision. "Eweli a phregethwch," ebe efe. "Y rhai a gredant ynof fi drwy eich ymadrodd chwi." Dywed Paul fod "ffydd yn dyfod trwy glywed gair Duw." Hefyd, "Oherwydd i'n tystiolaeth ni yn eich plith chwi gael ei chredu," ebe Paul. Etto, "Gwelodd Duw yn dda, trwy ffolineb pregethu, gadw y rhai sydd yn credu." "A'r neb ni chredo a gondemniir."

Ond methu deall pa fodd, ac i ba le, neu o ba le, y mae ffydd yn dyfod pan glywir, yw yr achos o'r gwahanol farnau ar y pwnc hwn, debygw. Profwn fel hyn, mai nid dyfod yn uniongyrchol oddiwrth Dduw i'r anghredadyn y mae. Etto, dywed Paul fod ffydd yn dyfod. Onid dyfod allan o'r gwrandawwyr y mae, yn ei heffeithiau, fel ffyrddiau o ffynnonell? Rhesymol ddigon; a'r achos o'i gorlifiad dros ei cheulanau, yw cynhyrriad y ffynnonell (y gynneddff), trwy dystiolaeth y llesarwr. Ffrwyth ffydd yw ufydd-dod; ac heb hyny, ffolineb yw i neb haeru fod ganddo ffydd, "canys ffydd heb weithredoedd, marw yw."

Ffordd arall ag y mae Duw wedi rhoddi ffydd i bawb fod yn gadwedig, yw, trwy drefnu ffordd i hyny, gosod canol-wr yn iawn, ac anfon ereill i wahodd pawb i gredu yn yr iawn hwnw; neu, mewn geiriau ereill, rhoddodd sail i'w ffydd weithredu, neu i esgor ar ufydd-dod. O'r ochr arall, nid oedd gan bawb o'r cenedloedd paganaidd hyny ag y cyfeiriai Paul atynt, ffydd, oherwydd nid oeddynt yn dwyn ffrwythau y wir ffydd, sef y doniau ysbrydol, duwioldeb, &c. Os nad fel hyn y mae, rhaid fod cynneddff newydd yn cael ei chreu mewn dyn pan y credo; ac os oes cynneddff yn cael ei chreu pan gredo un peth, pahan nad oes un yn ychwanegol yn cael ei chreu am bob peth a gredo? Amhwg yw ei bod yn ddyledswydd ar ddyn gredu yn Nghrist; prawf y dichon, neu ynta na ddichon, barnwr cyfiawn ei gopsi am beidio. Os dichon, y mae ganddo y gynneddff hono o ffydd. Ac ofer i neb esgusodi eu hunain felly ychwaith. "Nid allaf gredu." sy'n withddyweddiad; "Ni fynaf gredu," a feddylia y cyfryw. Nid yn unig y mae dyn yn meddu ffydd, ond y mae yn anhosibl iddo wneuthur un dim yn dymmorol, nac yn ysbrydol, ond sydd yn effeithiau ffydd. Ie, meddaf, ffydd yw yr achos cynhyrriad a gwreiddiol o bob gweithredu, ac o bob ymgais. Heb ffydd, go-weddai y corff a'r meddwl yn hollol *deruant*.

Ystyria, ddarllenwydd, beth a achosodd dy ymdrechiadau babanaidd i gerdded, ac i ymgynhenu â'th gyd-chwareuyddion? Paham y ceisist ddysgu yn yr ysgol, oddieithr dy fod yn credu y deuit yn ddarllenwr, yna yn ysgrifenydd; wedi hynny ymdrechot fwy-fwy i fod yn ysgollaig da; ac wedi hynny, yn mlaen o radd i radd mewn gwybodacth. Pa beth a gynhyrfodd y cyfan, i'e, bob ysgogiad, ond i'fydd, sef *credu y gellit*? Beth a achosa i ddyddyn adael gwlad ei enedigaeth, ei berthynasau, a phob petli, i groesi y Mor Werydd, mewn llong fach, tua'r gorllewin pell, ond y sicrwydd sydd ganddo oddiar dystiolaeth, o fodoliaeth yr America, efallai, a chredu hefyd ei bod yn wlad well, ac y cyrhaedda yntau yno i'w mwynhau? Wel, pe na chredasai hynny, ni wnaethai un ymdrech i'w chyrrhaedd. A fuasai yr amaethwr yn taflu ei wenith mor ddibris ar wyneb y maes, oni bai ei fod yn credu y caffai ef yn ol ar ei ganfed yn y cynauaf? O na, aethai â'r had i'r farchnad yn hytrach, lle y gwyddai y caffai dâl am dano. Pwy a anfonai long gostfawr, a'i llwyth, a'i morwyr, i blith cynddeiriog donau yr *Indian Ocean*, oni bai ei fod yn credu y dychwelai yn ol gydag yehwanegiad mawr? Pwy a weithiai ddiwrnod i'w gyd-ddyn am gyflog, oni bai fod ganddo ffydd y talai y llall ei gyflog iddo? Pwy a dalai am blanu gwinllan, oddieithr iddo ddysgwyl bwyta ei ffrwyth? Neb; yr achos o'r ffydd hon yn y cyssylltiadau yw, trwy ymarferiad o oes i oes; a'r achos cyntaf oedd, oherwydd gorchymyn Pen-llywydd yr elfenau i wneuthur fel a'r fel, ac fel a'r fel y byddai y canlyniadau, ac felly y bu, ac y bydd; a'r addewid o'r cyssylltiad annattodadwy lwn rhwng achos ac effaith, yw sail ffydd, mewn pethau ysbrydol yn gystal â phethau tymmorol. Dyma ddirgelwch yr hyn a ddywedodd Iesu Grist—"Yr hwn a greddo ac a fedyddier a fydd cadwedig," Marc xvi, 16. Megys y derbyniwn ein holl bethau tymmorol trwy roddi ein ffydd mewn gweithrediad, felly hefyd ein holl fendithion ysbrydol a fwynheir drwy ymdrechiadau ffyddiog yn yr iawn ymarferiad â'r moddion apwyntiedig, ac nid dim moddion ereill, canys nid yw yr addewid wedi ei chyssylltu â dim arall; yna amhosibl bod ffydd ond sydd wedi ei seilio ar addewid, canys "ffydd yn wir yw sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio," a'r "gobaith a welir nid yw obaith;" felly gwelir fod gan bob dyn allu i gredu ynddo ei hun, ac mai y rhesymoldeb ymddangosiadol iddo o'r dystiolaeth a glywo gan arall, neu a ddarlleno, sy'n cynhyrfu ei ffydd i weithrediad, a'r weithred, oddiar yr egwyddor hon, yn teilyngu yr effaith, a hynny oherwydd y cyssylltiad, neu yr addewid a roed o hynny. Dyma'r rheswm paham y derbynia y cleifion iechyd, sef trwy eu ymarferiad ffyddiog â'r moddion a drefnwyd i'r dyben hynny. Dyma fel y mwynhaent ddoniau ysbrydol, i'e, pob bendithion addawedig, ar lwybr eu dyledswydd; a thrwy barhau i ufyddhau yn ffyddiog i'r gosodiadau dwyfol, y mwynhant fywyd tragwyddol.

Etto, *Ffydd* ydyw, nid yn unig yr egwyddor gynhyrfiol o bob ysgogiad, ond y gallu, neu y nerth trwy ba un y cyfiawnir pob gweithred yn y nefoedd ac ar y ddaear. Profa Paul hyn yn Heb. xi, 3, "Wrth ffydd yr ydym yn deall wneuthur y bydoedd trwy air Duw," &c. Yr achos i Dduw ddywedyd y gair "Bydded," oedd, oherwydd ei fod yn gwybod y byddai yn ol ei arch, a hynny oherwydd ei hollwybodaeth

am ddeddfau yr holl elfenau; ac i'r graddau y cyrhaedda dynion i'r unrhyw wybodaeth, y cyrhaedda eu gallu i gyflawni (trwy yr ymarfodiad â'r cyfryngau a orchymynodd efe) yr hyn a amcanant, i.e. hyd y nod yr hyn a ystyrir yn *wyrthiau* yn ngolwg y rhai digred, sef drwy fod eu ffydd ddiysgog yn eu cymhell i weithredied, a'r ffaith a amlyga ffydd y dyn, a gallu a ffyddlondeb Duw yn unol â'i *addewid*. Ni ddichon anghredinwyr, neu anuffyddion, weithredu ffydd i ddwyn y ffaith, am nad eiddynt hwy yr *addewid*.

Amwg yw, mai oherwydd y ffydd oedd gan Dduw y rheoleiddiodd efe y *chaos* afluniaidd a gwag, o bob da a drwg, i fod yn baradwys mor hardd a dymunol, nes y dywedodd ei Chreawdwr, "Wela daiawn ydoedd." Trwy ei ffydd y gosododd hi ar ei phegynau, ac y cynnalha hi hyd yn hyn; a thrwy ei ffydd y perffeithia hi â'i chyflawnder. Ac felly, i'r graddau cyferbyniol y perffeithia ffydd ei holl breswlyddion rhesymol a ufyddhao iddo, er gogoniant ei enw a'u llesâd hwythau.

I hyn tystia Iesu Grist ei hun, yn Mat. xvii, 20, pan ofnodd ei ddyscyblion iddo pahan nad allent hwy fwrw y cythraul allan o'r dyn hwnw; atebai, "Oblegid eich anghrediniaeth; canys yn wir y dywedaf i chwi, pe bai genych ffydd megys gronyn o had mwstard, chwi a ddywedech wrth y mynydd hwn, Symud oddiyma draw, ac efe a symudai draw; ac ni bydd *dim annhosibl i chwi*." Yma gwelir, pan na ddichon fod y dyoddefydd yn feddiannol ar ffydd, o dditfyg rheswm i gredu, fod hyny yn ofynbl mid yn unig yn y gweinyddwr, ond ya yr edrychwyr hefyd; canys ceryddai yr Iesu yr olaf oherwydd y diffyg; gwel adn. 17, "O *gêndiaeth* anfyddlawn a throfaus, pa hyd y byddaf gyda chwi?" Yn unol â hyn y tystia yr holl ysgrifauwyr ysbyrdoledig, a'r un egwyddor a ddysgent i'w cydoeswyr. "Trwy ffydd yr offrymodd Abel i Dduw aberth rhagorach nâ Chain; trwy yr hon y cafodd efe *dystiolaeth* ei fod yn gyfiawn, gan i Dduw ddwyn *tystiolaeth* i'w roddion ef." Yr oedd ganddo ffydd i gredu ddarfod i Dduw orchymyn hyny; ac oddiar y sail hōno ufyddhaodd. "Trwy ffydd y symudwyd Enoch, fel na welai farwolaeth." "Cyn ei symud, efe a gawsai *dystiolaeth* [drwy ei ffydd] ddarfod iddo ryngu bodd Duw." "Trwy ffydd, Noah, wedi ei rybyddio gan Dduw am y pethau nas gwelid etto [efe a'i credodd ar ei air, ac wele y ffaith, sef], a ddarparodd arch i achub ei dy." Trwy ffydd Abraham a offrymodd Isaac; credodd i Dduw, a chyfrifwyd [ei ufydd-dod, sef y ffaith o'i gred] iddo yn gyfiawnder. Ped anuffyddasai, condemniasid ef, er iddo gredu. Trwy ffydd yr aethant drwy y Môr Coch, y syrthiodd caerau Jericho, y safodd yr haul a'r lleuad ar orchymyn Josuah, i.e. a pheth mwy a ddywedaf? Canys yr aniser a ballai i mi fynegu am Gedeon, am Barac, ac am Samson, ac am Jephtha, am Dafydd hefyd, a Samuel, a'r prophwydi, y rhai trwy ffydd a oresgynasant deyrnasoedd, a wnaethant gyfiawnder [sef ufyddhau i Dduw], a gawsant addewidion, a gauasant safnau llewod, a ddiffoddasant angerdd y tân, a ddiangasant rhag min y cieddyf, a perthwyd o wendid, a wnaethpwyd yn gryfion mewn rhyfel, a yrasant fyddiocoedd yr estroniaid i gilio. Gwragedd a dderbyniodd eu meirw drwy adgyfodiad; ac ereill a ddirdynwyd, heb dderbyn ymwared, fel y gallent hwy gael adgyfodiad gwell. Dywe lîr wneuthur yr holl bethau hyn trwy ffydd. Oni buasai y ffydd

oedd gan Joshua, gallasai lefaru wrth yr haul nes y glynasai ei dafod yn nhaslod ei enau, ac yn mlaen yr acthai yr haul fel arferol; ac oddi-eithr y ddealltwriaeth a feddai Joshua am gyfreithiau a lywydda y cyfryw, a'u cyssylltiad ag addewid, annhosibl fuaasai iddo gael sail ddi-gonci i'w ffydd. Ffydd, ynte, yw yr egwyddor gynhvirfol o bob ysgogiad, sef y gallu a gyflawnâ bob gweithred. Y mae ffydd yn egwyddor ofnuol a gwenedig drwy bob peth; i raddau mwy neu lai; i.e. heb ffydd, annhosibl yw rhynghu bodd Duw; ac, o'r ochr arall, pa fwyaf y ffydd, mwyaf y rhynghir bodd Duw; ac felly, ymchwiliwn am wybodaeth i'w seiliau, fel y cynnyddo fwy-fwy. Bydded genym ffydd ddi-gonciol i ufyddhau i orchymynion Duw, gan gredu yn ei addewidion yn ddiysgog; canys yr hwn sydd yn ammau sydd fel tŷn y mor, yr hon a deilir ac a chwelir gan y gwynt. Na ddysgwylid y cyfryw un y derbynia efe ddim gan Dduw.

Mor afresymol a chroes-haeriadol yw i grefyddwyr gondemnio y Saint am ryfeg, oherwydd y dywedant dlarfod iddynt dderbyn cymmeradwyaeth gerbron Duw, pan, mewn gwirionedd, ni ddyry y Bibl i ni hanes neb saint yn amddifaid o'r graddau gofynuol o ffydd i gael y fath dystiolaeth! "Y rhai hyn oll, *wedi cael dystiolaeth trwy ffydd*, ni dderbyniasant yr addewid." Allwedd dirgelwch sectariaeth, a'r pegwn sy'n cyiyinu ei hymgyflwynwyr wrth ei hallorau, i ymbalfalu yn y tywyllwch fel y dall am y pared, yw y diffyg o ffydd i dderbyn y gyfryw dystiolaeth oddiwrtho eu bod yn blant iddo, yr hyn a brawf eu hamddifadrwydd o'r Ysbryd a gyd-dystiai ag ysbryd y saint, drwy ffecithiau anlwg, eu bod yn blant i Dduw; a'r diffyg hwn a achosir oherwydd na arddododd gweision Duw eu dwylaw arnynt i'r dyben hyny, a hyny oherwydd na fedyddiwyd hwynt er maddeuant o'u pechodau, a hyny oherwydd na ofynasant iddynt, gan ddwyn ffrwythau addas i edifeirwch; ac ni wnant hyny, am nad oes ganddynt ffydd, neu, yn hytrach, ddim digon i ddangos ei hun mewn ffaith, sef cerdded at y dwfr. Ac felly gwelir fod yr egwyddor hon, sef ffydd, fel moddion yn grwn, ei dechreu a'i diwedd yn cydgrwdd, yr achos cynhyrffol o'r ysgogiad cyntaf, a'r gallu gweithredol hyd yr awr olaf. Y neb a barhao yn y ffydd hyd y diwedd a fydd cadwedig yn unig.

HENADURIAETH

Yw un o swyddi isaf offeiriadaeth Melchisedec. Apostoliaeth sydd swydd arall yn yr un offeiriadaeth; mae pob apostol yn henuriad, (2 Ioan i; 3 Ioan i; 1 Pedr v, 1;) ond nid yw henuriad yn apostol; cyn y diehon un dyn feddu y swydd hon, rhaid ei fod wedi dyfod drwy y drws i'r eglwys yn rheolaidd, a rheoleiddio ei hun fel y cyfryw hyd oni elwir ef drwy Ysbryd Duw. Gwel Act. xiii. 2, 3; ac wedi hyny nid yw yn y swydd nes ei ordeinio gan ryw un, neu fwy, a feddai y swydd hon o'r blaen. Tit. i, 5. Anhawdd i ddyng gyflwyno i arall yr hyn rid yw yn feddiannol arno ei hun. Ni ddichon ffrwd redeg yn uwch na'i ffunnonell. Mae gan henuriaid teithiol hawl i ordeinio henuriad, os na fydd o fewn i gyfliniau rhyw gynadledd; neu os bydd, rhaid gwneuthur hyny yn nghyammansa y gynadledd, Act. xiv, 23; 1 Tim. iv, 14, ac yna dys-

gwylir, os bydd gan ryw un beth yn ei erbyn, iddo ei hysbysu yn y fan, neu byth wed'yn na ynganed air; rhaid i'r hwn a alwyd godi o flaen yr eglwys i dystio am y gobaith sydd ganddo o'i gymmeradwyaeth o'r swydd. Dyledswyddau henuriaid ydynt fel y canlyn:—"Bedyddio, ordeinio henuriaid, offeiriaid, dysgawdwr, a diaconiaid, a gweinyddu y bara a'r cwpan—elfenau arwyddocaol am ddrylliad enawd a thywalltiad gwaed Iesu Grist—a *chadarnhau* y rhai a fedyddiwyd yn yr eglwys, drwy arddodiad dwylaw, er iddynt dderbyn bedydd yr Ysbryd Glân a thân, yn ol yr ysgrhythrau. [1 Pedr v, 2. 3. 4. 5]. Hefyd i bregethu, addysgu, egluro, annog, a bedyddio, a gwylid dros yr eglwys; ynghyd â chadarnhau yr eglwys drwy arddodiad dwylaw er derbyn yr Ysbryd Glân, ac i *lywyddau* yn eu holl gyrddau." 1 Tim. v, 17.

"Mae yr henuriaid i gynnal y cyrddau yn ol fel eu harweinir gan yr Ysbryd Glân [Act. xiii, 4], yn ol cyfammedau a dadguddiadau Duw." *Ath. a'r Cyf.*

Dyledswydd arall a berthyna i'r swydd hon ydyw, myned at y Saint cleision, a'u heneinio ag olew cysegredig os gofynant ganddo. ac arddodi dwylaw a gweddio ar i'r Arglwydd eu hiachau. Gwel Iago v, 14. "A oes neb yn eich plith yn glaf? *galived ato* [dyledswydd y claf yw galw] henuriaid yr eglwys; a gweddiant hwy drosto [yna nid hwy, ond Duw, drwy eu bod hwy yn arferyd y moddion, sy'n rhoddi iechyd], gan ei eneinio ef ag olew yn enw yr Arglwydd, (15). A gweddi y flydd a iachâ y claf, a'r *Arglwydd* a'i cyfyd ef i fyny [o wely cystudd], ac os bydd wedi gwneuthur pechodau [ar ol cael maddeuant o'r rhai blaenorol drwy fedydd], hwy a fuddeur iddo." Nid bob amser y derbynid y fendith, nac yn wir un amser os byddent yn euog o bechodau, sef trosedd-iadau o gyfreithiau yr eglwys, ac yn ceisio eu cuddio; dylai yr henuriad ofalu na bo hyn yn rhwystr i'r claf gael iechyd; canys "yr hwn a guddia ei fai, ni lwydda." Am hyny, "cyffeswch eich camweddau bawb i'ch gilydd," ebe Paul, "a gweddiwch dros eich gilydd, fel eich iachaer. Llauer a ddichon taer weddi y cyfiawn."

Mae yn drosedd mewn henuriaid i onmedd gwneyd hyn, ac y mae y claf a esgeuluso y gorchymyn pendant hwn, yn pechu yn erbyn yr hwn a'i rhoddodd. Dylai fod ffydd gan y naill a'r llall; ac yn wir pa fodd y dichon lai, gan fod yr addewid ar yr ammodau hyn yn unig; canys flyddlon yw yr hwn a addawodd y fendith. Efe sydd yn cyfranu yr amser y myno ei hun, ond nid heb ufyddhau; nid yw yr offeryn ddim ond y swydd sydd yn clymu yn y nefoedd ac ar y ddacar gwllwm ar y rhaff dair cainc hon.

Diolchwn i Dduw am y fath anrhydedd a braint; ymagweddwn bob amser ac yn mhob peth, fel y byddom wedi ein hamdoi ag ysbryd ein swyddi, gan weddio bob amser â phob rhyw weddi a deisyfiad yn yr Ysbryd Glân, fel y byddom demlau addas i ysbryd ein swyddi drigo ynom yn barhaus.

Mae swydd henuriad yn un bwysig a gogoneddus iawn. Efe yw bugail praidd yr Iesu: dan ei ofal ef yr ymddirieda ei wyn; a dysgwylia y Pen bugail ei braidd oddiar ei law ef pan y delo i'w brif gorlan, pan na bydd ond un bugail ac un gorlan. Dylai fod yn wyl-iadwrus drostynt, yn eu caru megys y cara Crist hwynt; a hod â'i holl egni yn eu porthi â didwyl lacth y gair, fel y cynnyddent yn y

santeiddiaf ffydd, fel y deallont ddichellion y diafol a'i fleiddiaid, yr adnabyddont ac y dilynont lais eu bugail, y caffont oruchafiaeth ar holl deintasiynau y fall.—fel y rhagflaener y cyfan i gydweithio ar perffeithio ei braidd. Frodyr anwyl, edrychwch gan hyny arnoch eich hunain, ac ar yr holl braidd, ar yr lwn y gosododd yr Ysbryd Glân chwi yn olygwyr, i fugeilio eglwys Duw, yr hon a bwrcasodd efe â'i briod waed.

Ni dderbynir cyhuddiad o unrhyw drosedd yn erbyn y swydd hon ond dan ddau neu dri o dystion, a'r rhai hyny yn yr eglwys, ond nid gan y byd; ac ni dderbynir y cyhuddiad ychwaith gan neb ond o flaen cynghor o henuriaid; etto, os gwel brawd neu chwaer henuriad yn troseddu, dyledus iddo fyned ato ef ei hun. Os yngana air with ereill yn gyntaf, y mae yn droseddwr. Gwell peidio dweyd gair wrth arall am ei drosedd, oddicithr ei fod yn tarddu oddiar gariad at, ac o awydd llesoli y cyfryw. onide mae perygl gwneyd y rhwygiadau yn fwy: ond ychwaneg ar hyn yn "rheolau dyscyblaethol."

Mynych y dywedir wrthym nad oedd gan neb hawl i arddodi dwylaw er derbyn yr Ysbryd Glân, ond yr apostolion. Gofynais i un a hongiodd y ddadl ar y pegwn lwn, Ai apostol yr Ananias hwnw a arddododd ddwyllaw ar Paul, er iddo dderbyn yr Ysbryd Glân? (gwel Act. ix, 12, 17); ac efe a aeth yn fud!

Dylai yr holl henuriaid ymgyfarfod yn y cymmanfaeodd i iawn drefnu holl faterion yr eglwys. Cânt yno docynau yn profi eu bod yn y swydd: ac ni dderbynir neb fel y cyfryw, heb y fath ddangoseg o dan law y llywydd. Gofaled pob un am hyn!

Yn awr, henuriaid Saint y Dyddiau Diweddaf, gwyddoch eich cyleh; cofiwch mai i chwi yr ymddiriedwyd y grâs hwn, gornchwyliath yr "unfed awr ar ddeg"—allweddu iachawdwriaeth eich cyd-oeswyr—"gweinidogaeth y cymmod"—sef y trysor hwn mewn llestri pridd, yr hwn a roddwyd i chwi gan Dduw, yr hwn a'ch galwodd chwi â galwedigaeth santaidd, nid yn ol eich gweithredoedd chwi, ond yn ol ei arfaeth ei hun a'i râs. Pregethwch y ffurf hon o athrawiaeth a draddodwyd i chwi gan yr apostolion santaidd; byddwch daer mewn amser, ac allan o amser; argyhoeddwch, ceryddwch, annogwch â phob hir-ymaros ac athrawiaeth; nac ymrysonwch ynghylch geiriau, yr hyn nid yw fuddiol i ddim ond i ddadymchwelyd gwrandaawyr; byddwch weithwyr diwyd a gonest, gan iawn gyfranu gair y gwirionedd. Gochelwch ynfyd ac annysgedig gwestiynau, oherwydd y maent yn niagu ymrysonau, ac ni ddylai gwas yr Arglwydd ymryson, ond bod yn dirion wrth bawb, yn athrawus, yn ddyoddefgar; mewn addfwynder yn dysgu y rhai gwrthwnebus, i edrych a roddo Duw iddynt hwy ryw amser edifeirwch i gydnabod y gwirioneddau a ddysgwch, fel y delont i'r iawn allan o fagl y diafol. Ymwisgwch â gwregys cariad, perswadiwch hyd y nod eich gelynyon, a chwi yn gwyhod cariad Crist, yr hwn pan ddifenwyd, ni ddifenwodd drachefn: tynewch hwynt â rhaffau cariad. Gwyddoch ddarfod i chwi dderbyn rhan yn gornchwyliath cyflawnder yr amseroedd, yn yr hon y crynhoa efe ynghyd bob peth yn Nghrist Iesu. Chwychw i anfonodd efe i'r prif ffyrdd a'r caeau, i gynheil pawb ddyfod i mewn i'r wledd. O, cymhellwch yn onest, cyn cau y drws: ystyrowch wertheneidiau, y fraint

a gawsoch o ddyfod i mewn eich hunain, a bydded i'r golled a'r perygl o fod allan eich annog i ddiwydrwydd. Gwell bod heb y swydd (y dalent), nâ'i chuddio wedi ei chael: Cofiwch dynged yr hwn a gamddefnyddiodd yr "un dalent:" tefir ef i'r tywyllwch eithaf. Pa fodd, ynte, yr ymdery yr hwn a esgenlusodd y "pump talent?" Y pethau hyn cofiwch bob amser, gan ddyysgu eich praidd i wadu annuwioldeb a chwantau hydol, a byw yn sofr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon; gan ddysgwyl am y gobaith gwynfydedig, ac ymddangosiad gogoniant y Duw mawr a'n Harglwydd Iesu Grist; fel y galloch roddi eich cyfrif i fyny yn llawen, a chlywed y gwahoddiad, "Da was, da a ffyddlon; buost ffyddlon ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer; dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd." Hyd hyny, frodyr, y pethau hyn llefarwch, cyngborwch, ac argyhoeddwch, yn ol nerth ac awdurdod eich swydd, gan ymddiried yn yr hwn a ymddiriedodd eich swyddi i chwi am y cymhwysderau anghenrheidiol i'w cyflawni. Gan fod Duw o'n plaid, nid yw waeth pwy fo i'n herbyn; o hono ef y mae ein digonedd ni. Gwylwch a gweddiwch, fel y byddo i'r hwn a ddechreuodd ynom y gwaith da hwn ei orphen hyd ddydd Iesu Grist, pan y bydd y rhai a droant lawer i gyfiawnder yn dyscleirio fel sêr y nefoedd byth mewn gogoniant, fel y gallom ddywedyd wrth Arglwydd y cynauaf, Wele fi a'm hysgubau wedi cyrhaedd yr ysgubor, ac wrth y Pen-bugail, Wele fi a'r praidd a roddaist i'm gofal—ni chollais un. Hyn yw ein braint a'n dyledswydd. Ysbryd y Duw byw a'n nertho i'w cyflawni.

"AMDDIFFYNIAD Y MORMONIAID."

A GANLYN sydd yn gopi o'r hyn a anfonwyd, dan yr enw uchod, i'r *Drysorfa Gymulleidfaol*, yr hon a gyhoëldir gan y Parch. J. T. Jones, yn Nghaerfyrddin:—

MR. GOLYGYDD,—Gan i chwi gyhoeddi, yn rhifyn Mehefin o'r *Drysorfa*, ohebiaeth rhyw Didymus ab Gwilym, geirwiredd pa un a dystir gan ryw Thos. Hopkins ac Evan Davies o Ystradgynlais, yn cynnwys yr hyn a enwant yn "Gyffes Ffydd y Mormoniaid;" gobeithiaf y parha yr un cyfwrng mor "Annibynol" â gadael i minnau, dros y "Mormoniaid," fel eu gelwir, hysbysu eich darllenwyr nad ydym ni yn credu y fath bethau ag a gynnwysa y "gyffes" hono. Nid oes oddieithr un dosrau o'r deg hyny, a'r nad ystyrir genym ni yn gyfeiliornus; a dywedaf, wedi cael gwell manteision na neb a adwaen yn y wlad hon i wybed beth yw Mormoniaeth, na ddarllenais, ac na chlywais gan neb o honynt, y fath gyfeiliornadau ag a gynnwysa y "gyffes," gyfeiriedig. Ond, er hyny, ni fynwn i'ch gohebw'r a'i dystion feddwl fy mod yn eu cyhuddo o gam-ddarluniadau bwriadol; ac etto, sicr ydyf eu bod naill ai wedi cael cam-ddarluniad, neu wedi camddeall yn fawr, ac nid annhosibl fod y "gyffes" hono yn frwyth y naill a'r llall. Ni phroffeswn minnau berffeithrwydd: etto, ni addefwn i ni weled neb o honom mor annherffaith â rhoddi y fath gam-ddarluniad â hyny o'n ffydd; ac addawwn hefyd, os cawn afael ar y fath ddyn, ymdrechwn ei addysgu yn well. Annheg, er hyny, yw i gymmeriad unrhyw gymdeithas ddyoddef y fath gam oherwydd cam-ddarluniad unrhyw person. Mae "shiboleth" y gyffes hono yn tystio yn eglur mai yr un yw ei thad li â'r tracthodyn bach dienw a gyhoeddwyd yn Merthyr,

ac a brofwyd yn enllib cās i gyd. Cyffes ffydd Saint y Dyddiau Diweddaf, mewn gair a ddarfenir yn y Testament.

Am yr "Apostol" y sonia eich gohebwr am dano, ni wyddom ni ddim; ond sicr ydym nad oes neb yn Nghymru, mewn cyssylltiad â ni, yn hōni nac yn eael y cynmeriad-uchel hwnw. Ond, rhag eich blino â meithder, nid anturiaf nodi y gwahan-iaethau mawrion ereill sydd rhwng y "gyffes" dan sylw, â'r athrawiaeth a broffeswn, ond yn unig cyfeiriwn y cyfrw o'ch darllenwyr a ddymunart wybod hyny at yr au-rywiol lyfrau a gyhoeddwyd genym yn Gymraeg, pa rai ellir gael gan ein brodyr yn gyffredinol, i.e. hyd y nod yn YSTRADGYNLAIS ei hun; a diau i'ch gohebwr a'i dystion eu gweled yno, a gwybod gwell na'r gyffes hyl hōno! Os eisieu deall ein "cyffes" sydd arnynt, paham na chredant hi yn ein geiriau ein hun, yn lle geiriau ein gelynyon? Pwy a'i gwyr oreu?

Ydwyf, yr eiddoch yn ostyngedig,

D. JONES.

Anfonwyd yr amddiffyniad hwn i'r *Drysorfa*, a chyfaddefodd y Golygydd "parchedig" iddo ei dderbyr; a pha ddefnydd a wnaeth o hono? Yn ol arferiad cyffredin golygwyr rhagfarnllyd ac enllibus ein gwlad; yn lle rhoi chwarae teg i'r gwir, i ni, ac i'w ddarllenwyr ei hun, drwy ei gyhoeddi, cyhudda ni o "anfoneddigeiddrwydd!" Ond ni allwn ni ei ganfod feily, nac un dyn arall a fo yn *sobr*, debygem. Os gwir a glywir lai na chan milltir o Gaerfyrddin, traethwyd mwy o "anfoneddigeiddrwydd" gan feddwyn o hwlpud, i.e. gymmaint nes gorfod ei droi allan; ac nid y "parchedig" hwn a feia air ar y fath beth â hyny. Ond, O, y mae y *Drysorfa* wedi myned yn rhy santaidd i enwad cyfan o grefyddwyr gael amddiffyn y grefydd y dysgwylant gael hywyd trwyddi—i.e. rhag y camgyhuddiadau gwarthus ac annuwial a gyhoeddodd yr un Golygydd; yn yr un *Drysorfa*, o aflendid i'w herbyn yn ddiachos! Esgusodid ef y tro cyntaf i raddau, gan feddwl y gallasai fod yn ddigon dwl i goelio fod y Saint yn credu y fath "gyffes;" ond yn awr gwyr well, ac ni adawa i'w ddarllenwyr wybod; yr hyn a brawf fod camgyhuddiadau ac enllib yn boddio ei chwaeth ef yn well na'r gwir. Dyoddefed y-dienog a'r gwirionedd rym érgyd ei fwa'ef; a da nad yw hyny ond saethau brwyn. Barned ei ddarllenwyr ef.

Ffordd hawdd iawn, a rhy gyffredin o lawer, i awduron a fyddo cywilydd ganddynt ddanges eu gwynebau ar ol gwneyd drwg, yw dianc drwy y drws cefn, gan waeddi "Cabldraeth" ar bob peth a ddynoetha eu cywilydd: feily hwa hefyd a ddianc i'w dwll, gan gyhoeddi ar yr amlen fod yr amddiffyniad uchod yn "GABLDRAETH!" Gwyr well pethau o lawer; ac y mae y tric hwn yn rhy hen ac adna-byddus i lwyddo, bellach. Yn dysgwyl hyn, cadwasom y copi hwn; a barned y darlennydd pa beth yw y "gabldraeth" neu yr "anfoneddigeiddrwydd" sydd ynddo. Buom yn hir ddysgwyl o fis hwy gilydd i'r "gyffes" hōno ddyfod o hyd i'w *sink hole* ei hun, sef y *Bedyddiwr*—y ffynnonell o bob ffrydiau aflan—tad yr koll gamgyhuddiadau, a r cenadydd a draetha bob ystoriau anwireddus arnom; do, bid siwr, rhoisom ein gair i amryw ar y pryd, naill ai y deuai y *Bedyddiwr* o hyd i'r *carcass* hwn drwy ei sawyr aflan, neu yr ynlusgai yr ysgerbwld hyd Caerlyf i gael ei gladdu; ni wyddem pa fodd yn y byd, ond naill ai drwy gigfranod y *rookery* hon, neu ryw fodd, credem mai ei thynghed

eyn diwedd ei gyrfa fyddai cael croesaw yn ei mam nyth, sef y *Bedyddiwr*; a phan yr oeddym bron yn harod i addef ein prophwydoliaeth yn gau, dyma hi allan yn y *Bedyddiwr*, yn ddigon siwr, fel seren wibiog! Ond pwy sydd heb ddeall ystranciau y Golygydd hwnw? Nid neb o'i ddarllenwyr, meddyliwn. Ychydig yn ol yr oedd y ddau Olygyddion "parchedig" hyn a'u pleidiau ben-ben â'u gilydd; ond yn awr, dyma gyfrwng godidog i ddileu canolfur y gwahaniaeth oedd rhyngddynt, ac ymgymmodi â'u gilydd i erlid y Saint, a'r hyn a gyhudda y naill yn cael ei wirio gan y llall!

Am Olygydd y *Bedyddiwr*, nid oeddym yn meddwl ymddarostwng ychwaneg i sylwi ar ei sothiach drewedig; ond am unwaith etto, cawn roddi cip olwg ar ei annhegwch. Yr oedd wedi gwrthod amddiffyn un amser, ond wedi traethu ei anwiredd arnom, gwaeddaï na wnaï ddim â ni, ac addawsai ein gadael yn llonydd, eithr gollungai allan yr ystori arianaf a gafai yn y rhifyn nesaf; yna ceuai ei wasg rhag amddiffyn, &c. Iê, hyd y nod yn y rhifyn o flaen yr hwn a gynnwysa y "gyffes" hōno, gomedda yn ddigywilydd i ryw Gwilym Mynwy amddiffyn y Saint yn erbyn cam-gyhuddiadau Dafydd Williams, Abercanaid. (Gwel ar yr Amlen.) "Nid y'm yn ewyllysio gweled y ddau hyn yn freio â'u gilydd o barthed i'r Seintiau," ebe efe. O, nae yw, siwr, os yw Gwilym Mynwy yn freio gair o'u plaid, neu yn dangos guir o dwyli ei bartner anwyl ef; ond, hai Dei! hwi Dafydd! ffreia di a phawb ereill i'w herbyn a fynoch drwy'r *Bedyddiwr*, ac os ffreiaut yn ol, rhoddaf glo ar ei geneu, hyd y gallaf fi. Dyma ei iaith a'i ymddygiad ef a'i gyntffonau er's blynyddau. "*Now you shall, now you shan't,*" yw ei ffloreg.

O na, ddarllenydd hynaws, nid yw y "gyffes" hōno ond un o fwganod gwneyd ein gelynyon erlidgar, fel pob peth arall a gyhoeddir i'n herbyn yn nghroniclau a thrysorfäau sectaraidd y wlad. Paid a'u coelio, rhag dy amddifadu o'r gwir. Amlwg yw nad ydynt yn ewyllysio i'w darllenwyr ddeall ein hegwyddorion, onide dyfynent yr hyn a gredwn o'n llyfrau ein hunain. Ai ni, ynte ein gelynyon, a ddichon osod ein daliadau allan gywiraf, tybied? Pe credem y "gyffes" a nodwyd, a fyddai rhyw reswm i ni ei gwadu ar gyhoedd? Ori ddelid ni felly yn gelwyddog gan y rhai a ddelai atom o bob plaid? ac ai tybied yr arosent gyda ni wed'yn wrth y cannoedd, drwy bob gwawd ac erlid, fel y maent?

Syndod fath anghysondeb—**a** luniodd,

Heb linell yn eteb;

Wrth hir drin ei ffolineb,

Aeth Owens yn is na neb.

DAMMEG YR WYN A'R BWYSTFILOD.

AR foreu hyfryd hâf, gwelwn ryw hên ful-asyn methedig yn ymlwybro ar hyd yr heol, gan grafu ei damaid hyd yr ymylon nes y drêth ar gyfer dōl frâs a hyfryd, yn yr hon yr oedd nifer o wyn diniwed yn pori, a chan fod newyn yn cyfyngu ei fola, torodi dros y elawdd, a bwytaodd borfa fras nes ei ddigonï. Ac wedi hyn, gwelwn ef yn sathru y gweddill

dan ei draed; a chan godi ei ben moel i'r awyr, a'i glustiau mawr yn syth i'r lan, agorodd ei geg anferth, a dechreuodd frefu a chrygleisio f l *mul-asyn*. Deallais mai ei amcan oedd dychrynu yr wyn a chynhyrfu hwystfilod y goedwig gymmydogaethol i ddod yno i'w dyfetha. Ateboedd adleisiad ei ysgrechiadau y dyben i'w dwyn hwy oll o'u ffaau, ond y rhai callaf o honynt a ddeailasant nad oedd ond brefiad mul-asyn, ac a ddychwelasant i'w ffaau; ond y bleiddiaid, y cadnoaid, y dylluan, a'r hylwnciod a ddychrynasant with eu lleisian en hunain, ac a grynbosant ynghyd; ac ar hyny wele lew anferth o'r cwr dwyreiniol o'r goedwig yn dyfod ar firwst mawr, ei ben anferth a'i gynffon am yr uwchaf, dan ruo am ei ysglyfaeth; gwahoddodd y *jackals* a'r holl grach-fwystfilod ereill i ddilyn ei gwt tua'r ddol, o'r lle y clywsai arwydd-lais am ysglyfaeth. Ac er mor greulon eu hyngyreh, ac ofnadwy eu brefiadau, ni allwn beidio chwertain with weled y mwnciod pert yn hela eu gilydd o frigau y coedydd tua'r llawr dan *chatt'ro* en danedd, a thynn gwynebau yn eu hawydd i ddilyn cwt yr agordd *zoological* hon, i'r frwydr. Ond ar eu dyfodiad i'r ddol, gwelsant er eu gofid mawr fod y bugail, yr hwn oedd wedi clywed dolefaen y mul-asyn, a dysgwyl yr effaith a gaffai ar y bwystfilod hyny. eisoes wedi eu rhagffennu, wedi troi y mul-asyn i'r heol yn ol, ac yn amddilyn yr wyn. Pan welodd y llew brych hyn, ac ofni y diarmygid ef yn ngolwg y crach fwystfilod a'i dilynasant os ciliai, a aeth yn mlawn ar gyfer yr wyn, gan wahod y lleill i'w ganlyn; yna rhoddwyd iddynt lais fel llais dynion, a hwy a fygwthiasant ysglyfaethu yr wyn am iddynt wneuthur y fath gynhwrf, ac achosi iddynt y drafferth o ddod yno. Yna dangosodd y bugail iddynt na wnaeth yr wyn druan un aflonyddwch iddynt hwy na neb arall, ond pori yn dawel yn y ddol werdd lle eu rhoddwyd, ond mai y mul-asyn a drodd efe i'r heol oedd yr achosydd o'r *false alarm*, a bydded rhyngoeh chiwi ag ef, ebe efe. Ar hyn dropiodd rhai eu penau i lawr mewn cywilydd, edliwodd ereill i'w gilydd. Mor ffol oeddent i adael i brefiadau mul-asyn eu gwnevd yn destun gwawd i'r holl fwystfilod ereill, nad ellid dysgwyl gan ful-asyn amgen na brefiad, achos neu beidio! Trodd y mwyrif yn ol i'r goedwig mewn gwarth, a'u cynffonau yn llusgo hyd y llawr. Ond y llew a ymgynddeiriogodd waeth waeth ar hyn, ac a dderodd y lleill i ddial ar yr len ful-asyn druan, gan fygwth yr yspient (u cyfleusdra i ysglyfaethu yr wyn wedi ymadawiad y bugail. Yn nesaf peth gwelwn y llew yn llusgo y mul-asyn gerfydd ei gynffon; y lleill rai yn ei glustiau, rhai yn ei draed, ac ereill gerfydd creen ei fola, nes ei gael dan frefu yn groch i ffôs y clawdd, a'i draed i fyny! Yna troisant eu pen ol ato, ac a'i claddasant fel ysgerbwd, ac a ddychwelasant lob un i'w ffaau. Y ddammeg sydd wir, ac eisoes wedi mwy nâ hammer ei chyflawni, a'r deongiadau a ganlyn yw ei hallweddau:—

“*Yr wyn defaid*,” yw Saint y Dyddiau Diweddfaf. “*Y ddol frds*,” yw eu heglwys. “*Eu porfa*”—y doniau ysbrydol. “*Y mul-asyn*”—yr ysgymunedig beth hwnw a fu yn sathru eu porfa, ac yn brefu drwy y *Eedyddiwr*. (Gael Rhifyn Hydref, &c.) “*Llew y Duwrain*”—y llew a'r danneod haiarn a'r giau pres. sy'n adleisio brefiadau pob mul-asyn, blaidd, cadno, a dylluan, o Gaerdyf, hyd Gaerdybi, ac yn gwahodd holl greaduriaid affan y goedwig i ddilyn ei gwt i ddial ar yr wyn! “*Y bleiddiaid*”—Pregethwyr ac awduron erlidgar drwy'r dywysoegaeth, y rhai y nac eu ffaau yn Dowlais, Abercarnid, Caerdyf, Llanelli, Caerfyrddin, Dolgellau, Llynlleifiad, ac ogofeydd

ereill. “*Y mwnciod*”—yw y *jucks* sy'n adleisio ysgrechiadau y bleiddiaid a'r llew yn y tafarndai a'r capeli o Lanfair-caerinion, hyd gyffiniau y dywysogaeth. “*Angludd ysgerbwed y mul-asyr,*” sydd heb ei gwblhau hyd yn hyn, ond a fydd ar fyrder. Amen.

ARWYDDION YR AMSERAU.

I'r Saint, y rhai ydynt yn edrych am yr arwyddion addawedig o'r amseroedd diweddfaf, ni raid ond eu cyfeirio at y rhagreddegwyr rhyfeddol a lliosog, a ehedent mor gyflym ar adenydd yr elfenau drwy bob cwr o'r byd, er eu cof u o'u dyledswyddau i wyllo a gweddio, gan fod amser eu hymwared hwy yn agosau, fod eu Duw hwy wedi cychwyn allan i frwydr, i ryfela fel y rhyfelodd efe yn nydd y gad, ac fod dystyriwyr y cenedloedd ar ei ffordd.

Rhoddodd ein Messia, pan ar y ddaear, broffion anwadadwy o'i ragwybodaeth, a'i ddaioni i'w blant yn y disgrifiad manwl o'r arwyddion, y rhyfeddodau, y rhyfeloedd, yr heintiau, nodau, y plâu, a'r barnau-gaethau; y daeargrynfâu, a'r chiwyldroadau, a'r newyn; calonau dynion yn hysgâu gan ofn a dychryn oherwydd y pethau a ddeuant ar y ddaear. Y mell, y taranau, y môr a'i donau yn rhuo gan orlifo ei lônau; heblaw y byddai rhybyddion y bodau astronomyddol fel clariwn angylaid yn cyl-dystio i'r byd, fod eu Brenin yn dyfod fel concwerwr y concwerwyr, i ymweled, â'i gleddyf mawr a chadarn, â brancedd y ddaear ar y ddaear, ac i roddi ei ddial ar holl rai annuwiol y ddaear, pan y cegllir pawb oll a'r nad *adwaenant* Dduw, a'r nad ufyddasant i efengyl ein Harglwydd Iesu Grist, fel carcharorion mewn daerdy, a hwy a garcherir—pan y neidia mynyddoedd fel hyrddod, a'r bryniau fel wyn defaid; a'r ddaear gan symud a ymsymud fel meddwyn, ac a ynsigla megys bwth; a'i chamwedd fydd trwm arni, a hi a syrth, ac ni chyfyd mwy. O anser rhyfedd! Da y geilw yr Apostol ef yn “amseroedd enbyd yn y dyddiau diweddfaf;” etto mac'n amlwg o'ddiwrth eiriau Crist nad dystyriai dynion, nad mor amlwg y gwelent, y teimlent, ac y dyoddefent o dan y barnau hyn, na ddychwelent i roddi y gogoniant i Dduw, ond ei gablu oherwydd y plâu, yr heintiau, &c. Ond “megys yr oedd yn nyddiau Noah, felly y bydd yn nyddiau dyfodiad Mab y dyn.” Bwya ac yfed, priodi a rhoi i brifodas, a bwrw y dydd drwg yn mhell yr oeddent hwy, hyd y dydd yr aeth Noah i mewn i'r Arch. “Felly” ynte yn awr. “Pa le y mae addewid ei dyfodiad,” meddant. Ac ni wybnant hyd y dydd yr aeth Noah i mewn i'r arch, a dyfad o'r diluw a'u cynmeryd *hwy oll* ymaith. Er moreglar yw arwyddion yr amserau, etto nid oes neb ond plant Duw yn eu deall yn awr, mwy nag eu deallid gan blant y byd yn y cynosoedd, canys y maent hwy drwy eu doethineb yn eu cyfeirio fel ffeithiau o ryw achosion digon naturiol iddynt hwy; ymgyrurant o dro i dro nad oes berygl, oherwydd bu y cyffelyb bethau o'r blaen lawer gwaith, meddant. Heddweh, heddweh, yw eu llais hwy o hyd. “Yna y daw efe fel lleidr yn y nos,” neu “fel dinystr disymmwth ar eu gwarthaf *hwynt oll*.” Ond “chwi, chwi,” ebe yr Apostol, nid ydych blant y tywyllweh, fel y byddai i'r dydd hwnw eich goddiweddyd, ond plant y goleuni ydych chwi.

“Am hyny byddweh chwithau barod, canys yn yr awr ni thybioch y daw Mab y dyn.”

Ond nid oes un lle i ni feddwl y bydd y cyfan o'r pethau hyn yn cael eu cyflawni ar yr un pryd, ond gan ddechreu yn raddol eleni yn y cwr hyn, ac wedy'n yn rhyw gwr arall o'r byd; gan gyunyddu waeth-waeth, boethech-boethach, ac anlach, a mwy anniogddedol i'r graudau cyferbiniol ag y byddo y cenedloedd, y llwythau, a'r ieithoedd, wedi cael manteision i utyddhau i'r genadwri bwysig a anfonaj Duw drwy enau ei weision atynt, canys nid cyflawn eu diuystrio cyn cynnyg iddynt ffordd o ymwared; ac nid oes ffordd o ymwared ond drwy ufydd-dod i'r "efengyl dragywyddol." Ac y mae hono fel ei pregethir gan anfen-edigion Duw "yn allu Duw er icelydwriaeth," dymmorol ac ysbrydol; ac nid y'm yn gwybod ddarfod i Dduw fyned i farn a'r byd mewn un oes o hono, heb drefnu gwaredigaeth dymmorol, cystal ag ysbrydol, os ufyddhaent i'w alwad, ac felly yn ngoruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd y crynhôa efe ynghyd bob peth sydd yn Nghrist Iesu, naill ai i fynydd Sion, neu i Jerusalem, canys yno yn unig y bydd gwaredigaeth rhag plâau Babilon fawr; a cholied y Saint mai drwy ufyddhau i'r alwedigaeth, sef, "Deuwch allan o honi hi, fy mhobl i, &c.," yr addewir gwaredigaeth. Pa fodd y gallant ddysgwyl diangfa, os arosant ynddi, yntc? Ac er rhybydd i'r Saint barotoi, dengys Duw drwy arwyddion nodedig yr amseroedd terfysglyd ac enbyd hyn, ei fod yn cofio ei gyfammod a'r tadau, "y cwtoga efe ei waith ac a'i gwna yn fyr mewn cyflawnder," ac y mae yr holl bethau hyn fel cynnifer o dystion fod awr ei farn ef eisoes wedi dechreu ar drigolion anufydd y ddaear, ac ni ddychwel ei gleddyf yn ol i'w waun nes cwblhau bwriadau ei galon.

Dywed Ioan y dilynai y march coch sodlau y march gwyn yn gyflwm; ac onid gwelyriadau y cyntaf yw'r sw'n rhyfeloedd a'r trwst arfau a adleisiant o uchel greigiau Circassia, Rwssia, a Poland? Onid ei gamraâ ef a sathrasant gannoedd o'n cydwladwyr, a miloedd o'r Chineaid, yr Hindwaid, a'r Bengaliaid, i'r llwch yn ddiweddar? Oni charlama oddiyno drwy Affrica i Portugal, gan adael miloedd yn gorwedd yn eu gwaed? Ac wele efe yn awr wedi gosod y ryfandir gorllewinol fel crochian berwedig dan ei draed. Marchogodd Santa Anna arno am flynyddoedd drwy daleithiau y *patriots*, &c. Yn awr, march i farch, a dur yn erbyn dur, a miloedd yr Americanaid a sychedant am waed dynion. A hyn oll mior gyflwm ar ol y march gwyn, sef yr EFENGYL DRAGYWYDDOL a ddygwyd gan yr angel i ddyinion yn y flwyddyn 1830. Paham nad allwn ddysgwyl y trydydd march, sef y du, a'i newyn tost i dilyn eu sodlau yntau? A ddaw y ddaw mor eglur, a'r trydydd heb eu dilyn? Beth yw y cwyntfan, y galar, a'r ochain a glywir drwy'r byd? Edrychwn, clywn, neu ddarllenwn newyddion yr oes. Ymborth—Ymborth—Newyn, yw eu cri, nes y mae holl deyrnasoedd Ewrop am y cyntaf yn ymlewa am ymborth o'r gwledydd pell, ac yn darparu erbyn newyn. Yr Poland, Rwssia, &c., mae y werin yn wancus am y cloron pydredig, yr yd a'r gwellt cyn iddynt addfedu, ac yn byw ar ymborth anifeiliaid er cadw bywyd ynddynt.

Ond y mae wedi dyfod yn nes nâ hyna etto! Ydyw; clywir ei wehyriad yn uchel o'i ffoenau duon yn yr Iwerddon, a gwelir ei gyflafan dost dros wyneb y chwaer ynys yn ein hymyl. Galarus yw

elywed drwy newyddiaduron y wlad, oddi yma a thraw, am ddyinion cryfion, ac, unwaith, heinyf—gwragedd a mamau, ynghyd â phlant, wrth y cannoedd yn ymlwybro hyd yr heolydd, fel cysgodau o'r hyn a fuont, a'u hymddangosiadau allanol yn brofion rhy amlwg fod newyn yn cyfngu eu cylla ag sydd etto heb obaith am feddyginiaeth. Wedi eu symbylu ynghyd gan arteithiau newyn, heidia y werin yn nzhyd mewn manau yn filoedd, ac ymosodant ar y siopau bwyd, rhuthrant i mewn, a chipiant dorth o fara, neu ryw fwyd a gânt afael arno; ac y mae'r llywodraeth wedi anfon byddin yno i amddiffyn tai, siopau, a bywydau yr uchel-radd, rhag eu lladd a'u dyfetha o flaen llym archwaeth y trancedigion. Nid yw certi y pobwyr na'r cigyddion yn cael tramwy yr heolydd, heb eu hamddiffyn gan filwyr. Mae rhyw rai yn cael eu lladd yno yn feunyddiol, naill ai yn eu tai, ar yr heolydd, neu wrth amddiffyn eu hystor-dai.

Yn ninas Dublin, cerddai dros fil o'r trueiniaid hyn ar hyd yr heolydd, dan yr enw "Y terfysglu newynog;" a'r wledd a gawsant oedd, carcharu dau-ar-hugain gan y milwyr, ac ymlid y lleill ymaith i farw o newyn, neu heidio os gallent.

Yn Tipperary, ofnid y deuai y lluniaeth a fwriadai y llywodraeth eu hanrhegu ag ef, yn rhy ddiweddar i achub bywydau llaweroedd, gan eu bod yn newynu yn fennyddiol; ac y mae yn annhosibl weithiau i gael bwyd am arian. O Cork, ysgrifena un parchedig fod un-ar-bymtheg wedi marw o newyn yn ei ardal ef mewn un wythnos—fod yno dros 600 o deuluoedd heb waith nac ymborth, a'r plant yn gystal â'r rhieni yn newynu; ac er gwneyd eu cwpan yn llawn o wernod, mae y tenantiaid yn cael gwerthu eu dodrefn a'u heiddo am y rhent, a'u troi i maes i farw o oerfel, heb braidd un math o wely i orwedd arno, na chysgod drostynt ond y cymylau. Yn y *Poor-house*, yn Dungarvan, mae wyth cant wedi eu gwrthio i mewn, a hynny dros ddau cant yn ychwaneg nag yw y ty yn addas i'w gynnwys; etto, pe bai gymmaint bedair gwaith, ni chynnwysai yr ymgeiswyr i ddyfod iddo, er achub eu bywyd. Yn Mayo, mae cynifer yn marw, fel na ellir cael digon o eirch i'w claddu! Dros un-ar-bymtheg, ebe arail, wedi marw o newyn yn ei blwyf yntan, mewn deug niwrnod. Felly y gallem ddyfynu o'r newyddiaduron o bob cwr o'r Iwerddon, am lawer ychwaneg o farwolaethau drwy newynu, lladdfau er cael bwyd, a chyflafan o'r hyslon y march du hwn. Ond yr hyn a ganlyn a ychwanegwn er enghraifft o arteithiau a chnofeydd newyn. Yn Bautry, a'r cylchoedd, yr oedd terfysglu newynog, ac wedi myned mor greulon â lladd amryw a'u gwrthwynebai. Bu y milwyr yn eu hymlid hyd y mynyddoedd, &c., ond i ddim dyben, nes i newyn o'r diwedd orfodi eu blaenoriaid, o un i un, ddyfod i'r dref, a rhoddi eu hunain i fyny i'r *Police*, gan addef nad oeddynt yn dysgwyl dim llai na'u crogi, ond y dewisent hynny o flaen y farwolaeth newynllyd a sylla yn eu gwynebau, os arosent yn lwy, a bod pob gobaith am fwyd wedi darfod, ac yna mai marw a raid rywfodd! Yr oeddynt wedi myned i edrych mor deueu a gwael, fel nad adnabyddai eu hen gyfeillion lwy, nes iddynt amlygu eu hunain. Mae heintiau ac amryw glefydau ereill yn tarddu oddiar ddiffyg ymborth, dillad, ac ymgeledd, fel canlyniadau naturiol; ac nid ellir dysgwyl llai yn yr Iwerddon na bod llaweroedd yn marw drwy y

cyfryw. I'r pla pytatws, yn fwyaf neillduol, y priodolir y newyu hwn. Dywedir fod diffygiadau ar yr erfin a'r yd, yn enwedig y gwenith, mewn manau. Pwy a ddichon ragweled y canlyniadau pan fetio yr elfenau ereill o'n hymborth waeth-waeth, o flwyddyn bwy gilydd! Pwy a ystyria ac a ddeali hyn? Gwir a ddywed y prophwyd,—“Y drygionus a ânt rhagdaynt waeth yn eu drygioni; ond y doethion a ddeallant arwyddion yr amserau, ac a ddyrchafant eu penau mewn gobaith, am fod amser eu hymwared hwy yn agosáu.” Nid oes neb yn ystyried mai oberwydd eu gwrthodiad a'u dirnag o'r march gwyn, y diala y march coch, a'r march du, arnynt; a chyn hir daw y march gwelwlas yntau, yn ei dro, i ladd â chleddyf, ac â newyn, ac â bwystfilod y ddacar.

Mae amryw o fugeiliaid y bobl yn gwadu nad llaw Duw yw hyn oll, ond rhyw ddygwyddiadau ereill a addefant Dduw drwyd lynt; a hwy a ynwrolant, nid i chwilio a ydyw seiliau eu credoau yn ddwyfol, ac ar air Duw, ond cynmerant hwy yn gamataol oddiar draddodiadau eu henafiaid; ac nid yw holl farnau Duw yn eifeithiol ond i'w rhwymo yn dynach yn eu rhwydau, a byw yn nes i'w credoau. Yna cyhoeddant ympryd a gweddi, i.e. yr holl groes-grefyddau, fel pe y cymmeradwyai Duw bawb yn eu ffyrdd eu hunain. Da yw gweddio ac ymprydio, yn eu hamser priodol; ond meddyliein mai mwy rhesymol fyddai i'r offeiriaid pabaidd gyhoeddi gwledd nâ chyhoeddi ympryd yn hwy, i'r trueiniaid sydd eisoes yn ymprydio o anghenrhaid, nes marw wrth yr ugeiniâu!

Ond paham y rhaid son cymmaint am swm y march du, mor bell â'r Iwerddon? Y mae yn nes atom etto! Ydyw; y mae wedi croesi y *channel* eisoes, ac yn carlamu trwy brif drefydd Lloegr, ues merwino ein clustiau â gridrefanau eu truenusion, y rhai ydynt yn rhy lioseg i'w rhifo. Yr hwn sy'n dal ei awenau a dynhað ei firwyn, rhag rhuthro drwyddom ninnau, Gyurly, yn amharod!

BEDYDDIADAU GAN Y SAINT YN MIS IONAWR, 1847.

Merthyr.—Bedyddiwyd gan y Saint yn mis Ionawr yn unig, 31. Un am bob dydd!

Pendurwn.—Yn y ganghen hon, nid mor llwyddiannus ag arferol. Bedyddiwyd ond tri y mis diweddfaf.

Doctois.—Sef prif ffau tad ein herlidwyr, bedyddiwyd deunaw yn Ionawr, a lloedd ychwaneg yn credu, ac ar y drws. Yn awr wrth ymchwilio i ni. yn lle camddarluniadau ein herlidwyr, mae y werin yn dyfod i ddechren deall pwy ydym, a pheth a gredwn. Daw lloedd etto.

Cuerdyf.—O dan drwyn y *Bedyddiwr* a'n culliba, bedyddiwyd deg yn mis Ionawr, amryw oddi wrth y Bedyddwyr yno, ac ychwaneg yn addaw ufyddhau yn feunyddiol. Mawr fydd eu bendithion.

Nant-y-glo.—Yn y fan hon mae rhyfel poeth wedi bod er's amser gan “grefyddwyr” yn erlid y Saint, crynhoi at en tai, taflu ceryg at y drysau a'r ffenestri—eu dilyn at y dwfr i fedyddio, dan waeddi a gwawdio, taflu cwn a cheryg, &c., i'r dwfr atynt; rhai yn cael bygwth eu tori maes os ant i wrando, na chyteillaachu â'r Saint; i.e. er eu bod yn berthynasau agos iddynt! Pregethir yn gysson i'w herbyn. Amryw wedi cael eu troi dros y drws am ufyddhau i'r efengyl! Er hyn y mae ysbryd eu Duw yn dyddanu ei blant, ac yn chwanegeu at eu rhifedi—eu cariad a'u donian yn rhyfedd. Bedyddiwyd deunaw yno yn Ionawr. Er y cyfan oll, y mae y Cwm fel a'r dân gan awydd am gael y gwir. Buan y cydient ynddo.

Cwmbach.—Bedyddiwyd aith yn mis Ionawr, y rhai ynt yn mawr lawenhau yn eu breintiau.

Coed-ânon.—Bedyddiwyd pump yr wythnos ddiweddaf, a daw ychwaneg yn fuan.

[Mae amryw ereill heblaw a caŷyi, megys Rynni podwar neu bunap, ond ni rifwn nes cael daugoseg o dan-law yr hwn a'u bedyddiodd. Gwyddom fod dros gant o gynnydd mewn mis, ond ni wyddom neu enwad arall yn y wlad a'r nad ynt yn lleihau, ar eu hadddefiad hwy. Gyda'r-Saint y mae Duw.]

TREFNIADAU Y PREGETHWYR.

Aeth yr henuriad John Morris ar genadiacth i sir Benfro; yr oedd galwad oddiyno gan wyth o un man a ddymunant gael eu bedyddio.

Symudodd yr henuriad Thomas Pugh, a'r offeiriad Evan Rees, David Matthews, a Thomas John, o'r Cwmbach i'r Cwni-byehan, a da genym glywed eu bod wedi dechreu cyhoeddi eu cenadwri bwysig yno eisoes. Llwydiant iddynt.

Mae yr henuriad Hopkin Matthews, wedi ymsymud i Treforis, ac yn pregethu yn y cylchoedd hyn, ac arwyddion gobeithiol am lwyddiant.

Aeth yr henuriad Benjamin Jones i dref Caerfyrddin i fyw, a mawr yw llawenydd yr eglwys yno o'i herwydd. Maent wedi bod dan fwy o anfanteision ac amddifardwydd nag a fyddant o hyn allan, gobeithiwn. Mae amryw ar fedr ufyddhau yno.

Cychwynodd yr henuriad Abel Evans, ar ei daith drwy'r Gogledd i ynwleed a'r eglwysi drwy'r gwahanol siroedd gogleddol.

Ymfudodd yr henuriad John Phillips a Dafydd Rees, a'u teuluoedd, i'r Cyfyng, ger Ystradgynlais, er mwyn yr efengyl, a'u Duw fo gyda hwynt.

Aeth yr henuriad William Hughes a'i denlu i fyw ger Llanelli, sir Gaerfyrddin, er mwyn pregethu yr efengyl yn y cylchoedd hyn.

Aeth yr henuriad William Henshaw i arolygu cynnalredd Garaway.

Aeth yr henuriad Jacob Watkins, a'r offeiriad John Carver, gydag ef yno.

Aeth yr henuriad William Evans. Dycwyd, i Pontypridd, ac ereill gydag ef; ac y mae yr efengyl yn cael ei phregethu yno yn wytlinosol.

Mae yr henuriad Ebenezer Morris ar symud i Llantrisant yn fuan; ac y mae amryw bregethwyr, heblaw a enwyd, yn darparu i symud i fanau ereill yn fuan er gallu hau yr hâd da yn helaethach.

Yn y lleoedd a nodwyd, a llawer o fanau ereill mae miloedd o eneidiau anfarwol na chlywsant air am yr efengyl dragywyddol, ond chwedlau disail pregethwyr, ac awduron sectaraidd yn ei herbyn; ac y mae tubwnt i ddadl fod yn mhob man rai gonest eu hegwyddor, o ddymunid daionus, ac a gofeidiant yr efengyl mor gynted y caffont gyfleusdra.

Prodyr anwyl, gan mai i ni yr ymddiriedwyd y trysor lwn mewn llestri mor wael, ymddiriedwn yn ei roddwr, byddwn ffyddlon. ac efe a gorona ein llafur â llwyddiant; ond gwae hi os goruchwylwyr dioglyd a fyddwn. Daw y cyfrif ar fyr. Dymuna y brodyr uchof am ran yn ngweddiau y Saint, a dywedwn oll Amen.

CYNNWYSIAD.

Ffydd	21	Arwyddion yr Amserau	32
Henaduriaeth	25	Bedyddiadau gan y Saint yn Ionawr	35
"Amddiffyniad y Mormoniaid"	28	diweddaf	36
Damneg yr Wyn a'r Bwystflod	30	Trefniadau y Pregethwyr	36

MERTHYR-TYDFIL :

CYHOEDDwyd AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH HEFYD GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL.

PROPHWYD Y JUBILI,

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 9.]

MAWRTH, 1847.

[PRIS 2g.]

CATECISM I ATHROFEYDD Y "*PEIRCH*."

BETH yw yr *Efengyl*?—Cynllun Daw i achub dyn.

Pa sawl cynllun, neu efengyl, sydd gan Dduw i achub dynion?—Yr un nifer ag a fonodd o Gristiau i'r byd i'w trefnu, sef *un*; ac y *māe* yr un hòno mor gywrain, cyflawn, a pherffaith, drwyddi oll, nes y *māe* yn addas i bawb yn mhob oes a gwlad, heb gyfnewid drwy leibau na inwyhau un iot na thipyn o honi.

Beth yw yr egwyddor gyntaf yu yr efengyl?—Cœlio fod ei *Hawdwr* hi yn eirwir, wedi ei groeshoelio, a'i adgyfodi.

Beth yw yr ail ddyledswydd ar ddyn?—Yngyfammodi â *Duw* yr ufyddha i'w orchymynion y cyfleustra cyntaf a gaffo, ac yr ymdrecha ymwrthod â'r drwg, a rhyngu ei fodd ef.

Beth yw y trydydd peth?—Myned gydag un o bregethwyr *Saint* y Dyddiau Diweddfaf, yn gymhwys i'r dwfr cyntaf a gaffo, a chymmeryd ei fedyddio ynddo "*er maddeuant pechodau*."

Beth yw y pedwarydd peth?—Derbyn yr Ysbryd Glân drwy arddodiad dwylaw henuriaid yr eglwys, megys yn nyddiau yr Apostolion. Y *nēb* a wnelo yr holl bethau hyn oddiar iawn egwyddor, a fyddant yn *Saint*, neu blant i Dduw, drwy efengyl Crist Iesu; ac os parhant yn y *flurf* o'r athrawiaeth iachus hon, hwy a gânt deyrnasu gyda'u Prynwr, Crist Iesu, ar y ddaear adferedig, mewn gwynfyd, heb byth farw mwy.

A ddichon y pechadur gwaethaf ufyddhau i'r holl ammodau yna cyn gynted ag y deallir hwynt, heb gymhorth Ysbryd Duw?—Sicr iawn, onide bydd byth heb ufyddhau iddynt, canys ni addawodd Duw ei Ysbryd i helpu pechadur i gredu mai Iesu yw y Crist, nac i edifarhau, na cherdded i'r dwfr, canys rhoddodd *dystiolaeth* drwy ei weision a rheswm i farnu y cyntaf, galluedd naturiol i'r ail, a thraed i ufyddhau i'r trydydd, &c. Yna, ni all ddysgwyl i Dduw gredu, edifarhau, a chael ei fedyddio drosto ef, na'i orfodi yntau i wneuthur hyny. *Ar ol* cael maddeuant y rhoddodd Pedr hyd y nod addewid o Ysbryd Duw. Gwel Act. 11, 38, viii. 15.—17. xix. 5, 6.

A ydyw o ryw lesâd i weddio ar i Dduw eu hargyhoeddi, a rhoddi iddynt, tra y gwrthodant ufyddhau i'r efengyl?—Nac ydyw, o un gronyn. Yn ofer y gwaeddant Arglwydd, Arglwydd, heb ufyddhau i'w orchymynion ef. Nid pob un [na neb] a'r sydd yn dywedyd, Arglwydd! Arglwydd! a ddaw i mewn i deyrnas Dduw, ond yr hwn sydd yn gwneuthur ei ewyllys ef. Yn ofer y ceisiant ei addoli ef, drwy ddysgu am *athrawiaeth* orchymynion dynion. Geilw Duw ar ddyu ato ef, ond galw ar Dduw i ddyfod atom, ac i'n trefn ni, fyddai hyny! Pa un o'r ddau sydd iawn!

Onid yw yn ofynol i'r Arglwydd wneuthur rhywbeth amgen nag a wnaeth cyn y gallwn ddyfod?—Nac ydyw, onide arno e' y mae y bai am na vnai y *peth* hwnw, ac yntau yn dewis ein hachub. Pa beth ychwaneg a ddichon wneyd? Os rhywbeth, yna barna ei hun, ac nid nyni, y dydd a ddaw.

Onid yw Paul yn dweyd yn Eph. 2, 8,—“Trwy rês yr ydych yn gadwedig, trwy ffydd; a hyny nid o honoch eich hunain: rhodd Duw *ydyw*?”—Gwir i gyd, ac yn profi fod cadwedigaeth dyn yn dibynu ar ei ffydd ei hun i gredu y drefn i gadw, sef yr efengyl, yr hon a roddwyd drwy ras Duw i ddynion. Y *rhodd* yw ei Fab, ac nid ffydd.

A ydych yn dweyd y dichon holl bechaduriaid Cymru ufyddhau i'r efengyl cyn gynted ag y clywant ei phregethu yn ddealladwy, a chael eu mabwysiadu felly yn blant i Dduw?—Mae mwy nâ ni yn sicrhau hyny, sef Duw. “Trowch eich wynebau ataf fi, [sef drwy ufyddhau i'r efengyl] holl gyrau y ddaear, fel y'ch achuber.”—Duw. “Deuwch ataf fi *bawb* a'r sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythaf arnoch.”—Iesu Grist. Wel, dyna ddiagon, dyred yn awr, ynte!

Gan mai fel hyn y mae, beth a ddywedai gwas i Dduw wrth syllu ar y gorfoleddu, a'r gwaeddi am grefydd sydd yn y cyfarfodydd sectaraidd?—Dywedai fel y dywedodd Ananias wrth Saul o Tarsus,—“Ac yr *awrhon*, beth yr wyt ti yn ei aros? cyfod, *bedyddier* di, a golch ymaith dy bechodau, gan alw ar enw yr Arglwydd.”

Ac yna, os na ufyddhaent beth fyddai y canlyniad?—Dywedai, mai “yr hwn sy'n dywedyd ei fod yn caru Duw ac heb gadw ei orchymynion ef, o'r celwydd y mae, a'r gwirionedd nid yw yn ddo.” Hefyd, “yr hwn a wybu feddwl ei Arglwydd, ac nis gwnaeth, a gurir â llawer o wialenodiau.”

Onid yw'n bosibl iddynt gael crefydd drwy weddio mor daer am dani?—Ar eirwiredd Crist, nid ei grefydd ef a gaiff neŷ oherwydd eu hamleiriau, a'u rhith o hir weddiau, yn awr fwy nâ chynt. Ie, pe gweddient mor hired ac amled â'r ysgrifenyddion, neu y pedwar cant hyny o brophwydi Baal.

Oni ddywedodd yr Apostol wrth geidwad y carchar “cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig a fyddi, ti a'th deulu?”—Do, dywedodd mai credu yw y cam cyntaf, ond nid yr unig beth; ond efe Paul “a draethodd iddo air yr Arglwydd, &c.,” a gwel beth yw y gair lhnw yn Marc xvi. 16. Yna gwel ei ufydd-dod cyn goleu dydd dranoeth; y fath bwys a osododd Paul ar y bedydd fel na feiddiai oedi yn lwy. Gwnaed pawb felly.

Beth fuasai y canlyniad pe gwrthodasai gymmeryd ei fedyddio ar ol credu?—Buasai yn waeth uag o'r en, yn gynniant a bod yr efengyl

“ yn arogl o fywyd i fywyd, neu o farwolaeth i farwolaeth, i bob un a'i clywo.”

Oni ddywed Paul, “ Mai os cyffesu â'th enau yr Arglwydd Iesu, a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi ef o feirw, cadwedig a fyddi?”—Do siwr, ac felly yr oedd yr eglwys yr ysgrifennai Paul atynt, sef y Rhufeiniaid; canys yr oeddynt wedi cael en bedyddio eisoes ar eu derbyniad i'r eglwys, ac onide ni ddywedasai Paul felly wrthynt hwy, aë fel arall wrth rai ereill.

Os yw bedydd yn anhebgorol er cael maddeuant, pahan y diolcha Paul na fedyddiasai efe nemawr o'r Corinthiaid?—Os coelir ef ei hun. dywed yn yr adn. ganlynol mai, “ Fel na ddywedo neb fedyddio o honof fi yn fy enw fy hun.”

Oni ddywed, “ Ni anfonodd Crist fi i fedyddio. ond i efengyl?”—Do, a dywed fod ereill yn *dyfrhau* y rhai a blannodd efe. Drwy efengylu gosodai y sail i'w ffydd weithredu, ond gofalai ar fod ereill yn goruweddadelladu.

Oni dderbyniodd Cornelius yr Ysbryd Glân cyn ei fedyddio?—Do, er dileu canolfur y gwahaniaeth oedd rhwng Iuddewon a Chenedloedd, fel y caffai y cyntaf hwn o'r rhai olaf ufyddhau i'r efengyl. Eithriad o eiddo Duw oedd hwn. Nid oedd *addewid* iddo o hyny, nac i neb arall, gynt nac wed'yn. Ond er byny, nid oedd ei bechodau wedi eu maddeu drwy hyny, nac yn gwneuthur bedydd yn afreidiol; canys wedi hyny gorchymyna Pedr eu bedyddio hwynt er maddeuant, a'u derbyn i'r eglwys.

Oni achuhwyd y “ lleidr ar y groes” heb ei fedyddio?—Os do, gwnaed hyny nid drwy yr efengyl, ond i'r graddau cyferbyniol ag i'r paganiaidd ddeddf, y rhai ydynt ddeddf iddynt eu hunain, ac yn esgusodol oherwydd anghyfleusdra. Heblaw hyn, nid oedd y commissiwn hwnw. “ y neb a gredo *ac a fedyddier* a fydd cadwedig,” wedi ei roddi y pryd hyny; ac etto, anghenrhaid profi mai yr un lle yw “ Paradwys” â'r nefoedd cyn y profir cadwedigaeth y “ lleidr,” yr hyn sydd yn dasg anorphen!

[*I'w barhau.*]

DYLED SWYDDAU OFFEIRIAD.

“ DYLED SWYDDAU offeiriad ydynt—pregethu, dysgu, annog a bedyddio; kefyd gweinyddu y *sacrament*, ac ymweled â'r aelodau yn eu tai,—er hannog i weddio yn gyhoeddus ac yn y dirgel, ac i gyflawni pob dyledswydd deuluaidd: mae ganddo hawl i ordeinio offeiriad, dysgawdwy'r a diaconiaid. Mae efe i lywyddu yn mhob cwrdd, yn absenoldeb hennuriaid; ond pan y byddo *henuriad* yn bresennol. efe sydd i flaenori, a'r llall i'w gynnorthwyo, trwy gyflawni y dyledswyddau ereill a nodwyd.”—Cyfeithiedig o'r *Ath.* a'r *Cuf.*

Un or swyddi a berthyna i'r offeiriadaeth iselaf, sef yr Aaronaid, yw hon, ac mor anhebgorol, defnyddiol, a gogoneddus yn ei lle ac i'w dyhe prïodol ag un swydd arall. Amheua pob enwad a wyddom yr anghenrheidrwydd o'r swydd hon yn yr eglwys yn awr, ond yr “ eglwys sefydledig,” ac nid y'm yn gallu cyd-welod â hwythau o barthed i'r gosodiad yn y cymhwysderau gofynol, na'r dyledswyddau perthynol i'r swydd hon mwy nag yn y canlyniadau o honi. Nid rhyfedd fod y rhai a wad-

ant swyddau fel apostoliaeth, prophwydi, &c., ynghyd â'r ordinhadau perthynol iddynt yn gwadu hon hefyd; ond, am danom ni, diolchwn i'r ffynnonell o oleuni nad y'm wedi ein gorchuddio gan y fath gaddug; hawddach credu yr angen presennol am bob "rhoddion" a osododd y pen perffeithydd yn ei beiriant perffeithiawl, sef ei eglwys, hyd oni atebont y dyben, sef, i berffeithio y Saint,—Eph. iv, 4—14, hyd oni bydd yr olaf o honynt wedi ei berffeithio. Mae genym dystiolaeth gadarn angylion y nefoedd am fodolaeth y swydd hon yn ei deyrnas ef ar y ddaear,—Dat. i, 6, v, 10; "Ac yn offeiriad; ac ni a deyrnaswn ar y ddaear." Cyfiawnir hyn yr amser dyfodol, wrth gwrs, a chan na feddiana neb pryd hyny ond y swyddau a feddent ac a gyflawnasant yn y fuchedd hon, a chan y derbynia pob un yn ol y gweithredoedd a wnaethant yn y corff, pa fodd y dichon neb uno a'u phiolau aur yn y *corus* clodfawr hwn a fu ar ol yr apostolion, os nad oes y fath swydd iddynt i'w hennill a'i chyflawni. Nid yn, ond *o flaen* dyfodiad y priodfab yr yndrwsia y briodferch, "canys y wraig a wnaeth ei hun yn barod," a ddywedir y dydd hwnw. Felly 'y bydd eglwys Crist wedi ei rheoleiddio yn berffaith ar ei chynllun cyntefig, ac o ganlyniad yn meddu y swydd hon a phob swydd arall a fu, neu a fydd byth ynddi, ond un, *cyn* y del ei hunan i lanw hono. Nid yw bodolaeth y swydd hon yn arddangos fel y meddylia rhai, fod eisiau aberthn fel y gorchymysai cyfraith Moses, oherwydd mae y cysgodau wedi eu llyncu gan ddyfodiad y sylwedd mawr ei hun. Mae hawl gan y swydd hon i arddodi dwylaw ar y cleifion, gan waeddu ar Dduw en hiachau, fel y gwnaeth Phillip â'r Samariaid gynt, ond nid i weinyddu yr ordinhad o "eneiniô ag olew yn enw yr Arglywydd," nac i arddodi dwylaw er derbyn yr Ysbyrd Glân, yn awr ddim mwy nac y gwnaeth Phillip a'r Samariaid; gwel Act. viii; nac ar Eunuch hwnw; perthyna gweinyddu y ddwy ordinhad hyn i offeiriadaeth Melchisedec, sef o'r henuriaid, ac uwch. Iago v, 14.

Er fod gan offeiriad hawl i ordeinio o'i gydswydd i wared, etto nid doeth na rheolaidd iddo alw ac ordeinio ereill tra y byddo henuriad yn gyrhaeddadwy: nac i'r naill na'r llall, wneyd y naill na'r llall heb ei osod o flaen yr eglwys, ac os bydd rhwystrau yno, dyger y mater i'r cynghor. Llywydd y gangen sydd i ofalu dros hyn, ac yn y cynghor, neu'r gymmaufa, y dylid ei gymmeradwyo o leiaf, os bydd amgylebiadau yn galw am eu gwasanaeth cyn hyny, a'r arweinydd dwyfol yn tywys i hyny. Er iawn drefn a rhwystro i'r Saint gael eu tŵyllo yn Nghymru fel y cawsant mewn gwledydd ereill, drwy i ddynion drwg ffugio y swydd hon, argraffwyd tocynau perthynol iddi, ac na dderbyniar neb anadnabyddus heb y ddanghoseg hon yn rheolaidd.

Yn ddiweddaf, frodyr hoff, cofiwch gynghor eich blaenor Paul, pregethwch y gair, byddwch daer mewn amser, allan o amser; argyhoeddwch, annogwch gyda phob hir ymaros ac athrawiaeth—ystyriwch bwysfawrogrwydd eich swydd—ymdrechwch am fod wedi eich gorwisgo ag ysbyrd eich swydd fel y coroner eich llafur a llwyddiant; ac y caffech chwi â'r rhai a wrandawant arnoch fynedfa i wynfyd tragwyddol.

Y WASG AMERICANAIDD YN TROI O BLAID Y SAINT.

DYFYNWYD a ganlyn o'r "*New York Sun*." Bu y cyhoeddiad hwn fel llawer ereill yn ddiwyd iawn i gyhoeddi cam-gyhuddiadau ar y

Saint am flynyddau; a dylanwadu ar ereill i adleisio gohebiaethau gelynon, gormeswyr, yspeilwyr a mwrddwyr y Saint, y rhai trwy hyny a amcanent dafu cochl tros eu gweithredoedd anynol eu hunain ar gost y diniwed, ac atebodd y dyben yn rhyfedd, nes alltudio miloedd lawer o blant Duw i blith anwariaid a bwystfilod yr anialwch gorllewinol; ond huan y daeth gweithredoedd y tywyllwch i oleu yr haul. Desgrifia Esaia y hobl hyn fel y canlyn:—"Gwae y rhai a ddyfngeisiant i guddio eu cynghor oddiwrth yr Arglwydd, ac y mae eu gweithredoedd yn y tywyllwch, ac a ddywedant pwy a'n gwel ni? a phwy a'n hedwyn?" Y golygydd hwn a gyhoeddodd y llythyr hwnw a gyfeithwyd, a gyhoeddwyd am newyddion da yn y "*Bedyddiwr*," sef yr hwn a broffesai fod wedi ei gyfansoddi gan Emma Smith, gweddw Joseph Smith, yn rhoddi sarhad mawr ar ei gwr ei hun, a'r athrawiaeth yr addefa iddo ei sêlio a'i waed. Ond er fod y llythyr hwnw yn cario ei wrth-broffion ynddo ei hun, etto hysbyswn mai ffug oedd pob sill o hono, nad oedd gan y Mrs. Smith hono un llaw ynddo, na gwybodaeth am dano, nes iddi ei ddarllen yn y papur hwnw, ac yna rhoddodd gyfraith ar ei awdwr; cafwyd dedryd am gabldraeth i'w erbyn, a swm mawr o iawn i'r dyoddefydd. Ond pa un a fydd golygydd y "*Bedyddiwr*," a'r awduron ereill yn Nghymru, mor onest, mor ddynol a chyfiawn, a'r golygyddion Americanaidd, i ddadwneyd y drwg a wnaethant pan gaffo yr ail feddwl ei le, a rheswm a gwirionedd ei ddangos iddynt, sydd yn mhlith y pethau a fydd, i.e., ac a fydd naill ai yn eu derchafu ar y pinael o fawredd awdurol, neu un "hoel ychwanegol yn eu heirch.

"Mae rhyw gyffroad a chydymdeimlad rhyfedd yn ennill tir o blaid y Mormoniaid, drwy ein gwlad. Creodd neillduolrwydd eu daliadau, tarddiad rhyfedd eu ffydd, a gwreiddioldeb y personau a ddewiswyd yn brophwydi, ac yn llywyddion iddynt, ynghyd a'r llyfrau, &c., a gyhoeddwyd i'w herbyn, ddylanwad ar boblogrwydd yr oes i'w herbyn am flynyddau. De-grifid hwynt fel yn ddiysgog mewn arferiadau gwarthus, ac y mae yn rhyfeddod fawr na wrthwynebodd y Mormoniaid nemawr ar y cyhuddiadau hyny [do, meddwn ni, canys gwyddom iddynt wneyd a allent i hyny, a gwyddom hefyd mai tra y byddai y gwir yn goleu ei fatchen, y rhoi celwydd y byd yn wefflam, ac y teflid ein hamddiffyniadau ninnau yno; nid i golofnau y newyddion, ond fel yn Nghymru, i'r tu ol i'r tân heb eu darllen]. Pan ruthrodd terfysglu creulon i-garchar Carthage, a lladd Joe Smith, a'i frawd Hiram, tarawodd y weithred ysgeler y wlad a syndod am ysbaid, ond anghofwyd hyny yn fuan. Wedi hyny crynhöodd terfysglu yn nhalaith Illinois, dan yr enw Gwrth-Formoniaid, i'r dyben o'u halltudio o'n gwlad, a'u gorfodi i adael eu tyddynod, eu tai, a'u holl feddiannau, ynghyd â'r deml gostfawr a adeiladasant yn ysglyfaeth i'w herlidwyr. I'r dyben hyn crynhoisant eu magnelau, a'u harfau rhytel yn erbyn Nauvoo. Tynodd sefyllfa y Mormoniaid sylw taleithiau ereill, ond gan na roddodd Illinois, eu talaith eu hun, un cynnorthwy nac amddiffyniad iddynt, ond yn hytrâch cymmeradwyo trais yr erlidwyr; credid fod eu cynmeriad mor ddrwg ag i deilyngu y driniaeth a gawsant, a'u halltudiaeth i chwilio am drigfan yn rhyw wlad arall [Pa ddyrgioni a allasent gyflawni er teilyngu alltudiaeth o'r werin lywod-

racth, tybed?] Amddiffynodd y Mormoniaid eu cartrefleoedd oreu a allent, hyd nes eu gorthrechwyd gan amlder y terfysgwyr, y dalaith yn eu herbyn, a phoblogrwydd y wlad; a phan nad oedd iddynt gymhorth, nac amddiffyniad o un man, dywedasant, 'Nyni a awn,' a hwy a aethant i'r anialwch, yn wyr, gwragedd, a phlant; rhai a'r draed, rhai mewn pedrolfeni, a chyda hwynt y gweddill o'u celfi, a gadael eu cartrefleoedd, a ffoi i'r anialwch. Ymunodd rhai [500] a'r fyddin oedd yn myned i California, rhan arall a aethant i'r gorllewin, i afon Mississippi. Ac fel hyn gyrwyd 12,000, neu 15,000 o bobl, o sefyllfa gysurus a llwyddiannus o'u cartrefleoedd i orwedd ar lanau afonydd afiachus, neu i ymdaro oreu a allent ag anwariad a bwystfilod, hyd *prairies* eang y gorllewin. Ond erbyn hyn, ymddengys ddigon eglur oddiwrth dystiolaethau amrywiol sydd yn deilwng o'u crediniaeth—rhai ydynt yn adnabyddus o'r Mormoniaid, wedi sylwi yn fanwl, a threiddio i'w bucheddau, a'u hymddygiadau, fod y bobl anffortunus hyny wedi dioddef anghyfiawnder mawr drwy gael eu gormesu felly, eu hyspeilio, a'u gadael yn hollol ddiamddiffyn gan dalaith annibynol, yr hon oedd wedi ymrwymo i'w hamddiffyn yn eu hiawnderau. Tystia y diweddar Cadben Allen o'r *U. S. Dragons*, yr hwn oedd ganddo 500 o'r Saint yn ei fyddin, eu bod hwy oll, iidd yn unig yn ysbrydol a dewr, yn bobl ddaionus a ffyddlon, ond desgrifia hwynt yn rhyfeddol o bur a dieithriad mewn moesoldeb; yn gynil, gofalus, diwyd, a hunan ymwadol; yn dangos amynedd dewrwyd mewn dyoddefiadau teilwng o'r goreu o gymmeriad Cristionogol. Etto, ysgrifena un o ohebwyd teilyngaf yr '*U. S. Gazette*,' yr hwn a fû yn cyd-deithio, ac yn hyw yn mhlith y Mormoniaid, fod diweirdeb, rhinwedd, a chariad, yn nghyd ag ysbryd undeb, ymdrech at ddedwyddwch teuluaid, yn cyfansoddi nodweddau pendant yn nghymmeriad y bobl wrthodedig hyn, yn ogystal a'u cymmedroldeb, trefneiddiwch, diwydrwydd, gwrddoldeb, a phenderfyniad diysgog am wrthrychau eu serch. Os felly, mae geiriau yn analluog i ddesgrifio yr anghyfiawnder a'r creulonderau digyffelyb a ddiodeffasant yn nhalaeth *Illinois*. Gellir esgusodi y creulonderau a ddiodeffodd y Goths a'r Vandals, i raddau, ac am erledigaethau yr oesoedd tywyll; ond fod gwlad rydd fel America yn y dyddiau goleu hyn yn mhlith ei holl sefydliadau i sicrhau rhyddid i'w deiliaid, yn alltudio tua 15,000 [dros dri chymmaint] o'u deiliaid, heb eu profi yn euog o un trosedd, trwy rym arfau, o'u cartrefleoedd, a'u meddiannau, a bod baich gref y dalaeth heb ei hestyn i'w hamddiffyn, sydd waradwydd ar ein hanesiaeth a'n gwlad, a gymmerth flynyddoedd maith i'w olchi ymaith. Mae yn ddigyffelyb yn hanes ein gwlad. Ac nid hyn yw'r gwaethaf o'r hanes, ychwaith, *terfysgoedd, meddwdod, a throseddiadau, yw canlyniadau buddygoliaeth y gwrth Mormoniaid!* Corff afreolaidd o bobl wedi treisio holl eiddo y Mormoniaid, meddiannu eu tyddynod, anurddo eu teml, a'r tylodion, y cleifion, a'r oedranus fel y plant diniwed wedi eu gyru yn hanner newynog i'r goedwig, a'u holl amddiffynfeydd, bywioliaeth, wedi eu handwyo a'u tori ymaith."

"Ar eirwiredd tystiolaethau cryfion am sefyllfa a chymmeriad y Mormoniaid, mae talaeth *Illinois* yn rhwym gan ei *honour* a'i chyfreithiau ei hun i adferyd y dioddefwyr diniwed hyn i'w cartrefleoedd,

eu meddiannan, a'u hiawnderau, a dylai y llywodraeth er mwyn cyfiawnder a dynoliaeth—er mwyn cymmeriad eu talaeth, a'u sefydliadau, gyfarwyddo eu llywydd i gyhoeddi anerchiad i wahodd y Mormoniaid yn ol i'w cartrefleoedd, a sicrhau iddynt amddiffyniad rhag pob ymosodiad arnynt. Maent yn awr drwy anghyfiawnder y dalaeth yn marw o newyn ac oerfel yn yr anialwch; neu yn ysglyfaeth i'r anwariad a'r bwystfilod. Mae lluoedd o honynt yn awr yn gorwedd ar y ddaear ar lan afon Mississippi, ar gyfer y ddinas a adeiladasant drwy ddiwidrwydd, ac yn awr yn gweled y cyfan yn mwyniant y fath waethaf o ladron. Deffroed Illinois i'r gwaith da hwn cyn y byddo poblogrwydd yr holl wlad yn *demando* i'r Mormoniaid gyfiawnder am yr hyn aeth heibio, ac amddiffyniad am yr amser dyfodol.”—(Allan o'r *New York Sun*.)

Teimlwn yn dra diolchgar i'r golygydd hwn am ei gydymdeimlad o'r diwedd a'r bobl y bu efe yn eu herlid, a'u camgyhuddo, a thrwy hyny yn helpu a'i ddyferion i lanw y ceigrn, nes esgor ar eu ffrwythau naturiol, sef creulondeb a difrod. ond gwell hwy'r na hwyrach er mwyn eu cymmeriad, a'u crefydd, ac er mwyn eneidiau y gweddill a chwiliant am y gwir iddo alw yn ol y rhwystrau. a phwy a all ddweyd y fath lawenydd a feddiannasai yn awr ped ymchwiliasai i'r pethau hyny cyn eu cyhoeddi! Ond teimlem yn dra diolchgar i olygyddion y *Bedyddiwr, y Seren, y Drysorfa, yr Amserau*, ac awduron ein gwlad ein hun hefyd, pe byddent hwythau mor feddylgar ag ystyried pa ddefnydd a wnant o'u dylanwad, a bod mor onest o blaid y gwir a'r Americanaid, ac adolygu yr ystoriau anwireddus a niweidiol a gyhoeddasant, dan hanner eu credu efallai, dan yr *infatuation* lifeiriawl. Gwelant y canlyniadau o'r fath ymddygiad yno mewn drych, darllenant am y cyffelyb yn y cyn oesoedd, ac os parhant hwy i chwythu y gwreichion nes enyn yn fflam angerddol yn Nghymru, ofer iddynt dosturio wrth waed eu lladdedigion pan yn dioddef, ond y canlyniadau naturiol o'u herledigaeth ddiachos hwynt. O na, bydd rhy ddiweddar i waeddi *hold!* digon! pryd hyny, ac nad oeddent yn nieddwl, nac yn amcanu achosi y fath beth; ni thâl y fath esgus, hwy a ddelir yn gyfrifol gan Farnwr yr holl ddaear, a “Brenin y Saint.”

Diolcha y Saint i'w cynhaliwr nad ynt yn dyoddef mor dost a'r darluniad uchod, er na fuasai i ereill ond dysgwyliad anocheladwy. A thra y mae gydymdeimlad drwy'r byd at eu gorthrymedigion, ac am drueiniaid newynog yr Iwerddon a'r cyfandir dwyfeiniol, a phawb ganddynt noddfa'u lle i roi eu pennau i lawr i orphwys ar fynwesau tirion rhyw gydymdeimlwr, a gaiff “rhai rhagorol y ddaear,” “Saint y Goruchaf, y rhai a ynwadasant a phob peth, ac a gysegrasant eu hunain a'u holl er lles y byd; a ddioddefasant bwys a gwres y dydd i adeiladu teyrnas yr Immanuel, yn ddinas noddfa i bawb a ddel: a gaiff y dewrion hyn ddioddef y cyfan, eu hysbeilio oll am dystiolaeth yr Iesu, a gair Duw, heb gydymdeimlad yn y wlad hon; a ddichon Cymru droi clust fyddar at y fath alwad—a yw yn bosibl y gall un Cymro beidio a chyfranu rhyw gymmaint er diwallu eu heisieu? O na, gobeithiwn os oes un galon mor iraidd a hyny, nad caion y darllenydd yw hono. Am y Saint, nid rhaid dweyd nemawr wrthy ch ehw, ond eich hysbysu am yr anghen am gynnorthwy. Penderfynodd

y Cynghor yn Merthyr, fod Llywydd pob canghen drwy Gymru i egluro y peth hyn o flaen y Saint, ac anfon yr hyn a gasglir yma i Ferthyr, bob mis, fel yr anfoner y cyfan yn ol y cyfarwyddyd a gawsom gan y brawd Orson Hyde. Yn mlaen yr aiff y Saint nes cyrhaedd pen eu taith, a gwyddoch chwi mai rhagredegwyr i ninnau y'nt i ddarparu ar ein cyfer pan yr ad-delir ar ei ganfed am hob cymhorth ag estynwch i'ch brodyr a'ch chwirydd yn yr Arglwydd, i.e., yn y bywyd hwn, ac amser byr â'i prawf; ac yn eiriau diweddaf ein hanwyl frawd Hyde cyn ymadael a mi, dywedaf, "Yr Arglwydd fendithia yr hwn a ystyria y galwad hwn." Amen, meddwn ninnau, a'n holl galon.

.01

ARWYDDION YR AMSERAU.

MAE lliaws yr saethau hyn yn parhau i redeg drwy'r byd, yn amrywio a c yn lliosogi fel y mae y byd yn addefu, a'r amser yn agosau. Mae goruwchwyliathau yr hwn sy'n dal tynghed teyrnasoedd yn ei law yn profi geirwiredd ei weision mor uchel a swm taranau,—mor gyffredinol a goleu yr haul, ac mor agos at filoedd ag yw y teimlad at y galon, ac er hyn oll nid oedd nemawr yn ystyried nac yn gosod y peth at eu calon, gan gydnabod pwy sydd wrth y lliw.

Hysbysa newyddion yr Iwerddon ni fod y newyn, ac o ganlyniad y trueni, a'r marwolaethau yn cynnyddu yn feunyddiol, "hyd y mynyddau hyn (ebe un) mae newyn, clefydau, a heintiau, yn cynnyddu ar bob llaw; ac hyd y nod yn y parthau gogleddol. Mae eu cyflwr yn gwaethygu yn feunyddiol. Mae *workhouses* Bedford, a Omagh wedi eu gorlenwi â thylodion. Ac y mae cardota a lladrata yn lliosogi hyd y nod yn y manau oeddynt yn rhydd o'r bron oddiwrthynt. O bob cwr o'n gwlad y newyddion galarus a glywir am farwolaethau drwy newyn, rhy liosog i'w nodi." Dywed y *Cork Examiner*, fod "pedwar ar ddeg wedi marw o newyn yn Bantry, y dydd heddyw." Etto, ebe y *Southern Reporter*. "Mae ein dyledswydd i gyhoeddi y marwolaethau drwy newyn wedi cynnyddu mor fawr, a'r fath liaws yn ein cyrhaidd yn feunyddiol, fel y mae erbyn hyn yn ormod gorchwyl i ni eu cyhoeddi na chael lle iddynt yn ein colofnau. Anfona ein gohebydd hanes 15eg a fuont feirw yn Bantry, ddoe o newyn, a dywed fod 20ain ychwaneg wedi marw yn yr wythnos hon; maent rhy liosog i ddala *inquests* arnynt. Clywsom heddyw am *inquests* ar 11eg yn Mallow, a fuont feirw o newyn. Dylifa yr hysbysiadau galarus i'n swyddfa o bob cwr, fel na allwn gyhoeddi y degfed o honynt. Yn ol cyfrif y Police, mae dros 50,000 wedi marw o newyn eisoes, heblaw llawer na wyddent hwy." Ac yn wir, felly yr addefwn ninnau, na fedd ein cyhoeddiad bychan le i'r newyddion galarus a glywsom, a welwn, ac a ddarllenwn yn feunyddiol, canys amlwg yw, nad yn yr Iwerddon yn unig, er yn flaenaf yn y dioddefiadau torcalonus, ond mae y clwyf yn croesi y moroedd—yn rhuthro drwy'r cyfandir, a miloedd lawer yn teimlo ei arteithiau yn Ffrainc, yr Hispaen, Germany, Austria, Prussia, a Russia, nes eu gorfodir mewn manau i geisio ymborthi ar lasweilt fel anifeiliaid, ar fara, (fel ei galwant) wedi ei gymysgu â mwsagl. Nid syndod eu bod yn eu symbylu ynghyd gan

feistr mor galed a newyn, yn derfysgluoedd yn y pangau olaf i geisio cynnal bywyd drwy yspeilio, serch lladd a'n gwrthwynebo. Mae taleithiau Rlufeinig, yughyd ac ereill i raddau o fewn cyrhaedd craf-angau, y concwerwr cadarn hwn. Ac afreidiol dweyd fod ei ddylanwad yn cynnyddu yn Lloegr, Scotland, ac i raddau yn ein plith, er etto megys o hirbell y clywir swm ei fagnelau gan y rhai a ffoant yma o'i flaen wrth y cannoedd.

Yn ychwanegol at y rhybydd hwn llefara Duw y rhyfel, drwy afonydd o waed dynion wrth drigolion y gwledydd, ac yn uwch etto denfyn ei beintiau ar led, gan ddechreu o'r dwyrain. Dywedir fod y *cholera morbus* yn brysur ddinystrio cenedl y Twrciaid o'i flaen, fel yn blaenllymu ei saethau at ereill, wyddis pwy a ddiangant y tro hwn. Hefyd, mae haint wedi tōri allan yn Cain, Mecca, &c., yn yr Aipht, yr hon yn ysbaid naw diwrnod a ysgubodd i fyd yr ysbrydoedd, nid llai na 15,000 o bobl! Er mor alarus yw genym gyhoeddi yr uchod, etto mae yn fwy gofidus fyth orfod addef cyflawniad y brophwydoliaeth ganlynol yn ngwyneb y cyfan. "Ar dynion ereill, y rhai ni laddwyd gan y plâu hyn, nid edifarhasant oddiwrth weithredoedd eu dwylaw eu hun, [canys cosp am y cyfryw ynt] i roddi y gogoniant i Dduw; ond hwy a gnoisant eu tafodau gan ofid, ac a gablasant Dduw y nef, oherwydd eu poenau, ac nid edifarhasant." O gyflwr truenus a chaled! pe byddai arwyddion a rhyfeddodau yn effeithiol i argyhoeddi dynion, buan yr argyhoeddiid y byd; ond diolch i'r nef, trefnwyd ffordd well i hyny, sef trwy bregethu efengyl yn hedyn rhad..

NEWYDDION DA O CALIFORNIA.

MAE y llong Brooklyn o Caerefrog Newydd, wedi landio ei ymfudwyr o San Francisco [yn California]. Mae rhan o'r gwersyll ymfudawl o'r Unol Daleithiau eisoes wedi cyrhaedd dyffryn Sacramento, a lluoedd ereill ar y ffordd, y rhai a ddysgwylir yno yn mhen ychydig ddyddiau. Mae hyd y nod yr eirth, y ceirw, yr *antelops*, a'r ceffylau gwylltion, yn synu ac yn gwylltio wrth ymweliad y fath luoedd o ddy-eithriaid â hwynt yn y dyffrynoedd a'r coedwigoedd anadnabyddus hyny. Weithiau carlama gyroedd o'r olaf drwy gefylau yr ymfudwyr, gan ddenu rhai i'w canlyn; a cheir trafferth fawr i'w dala wed'yn. Bwriada y Saint uchod ymsefydlu yn San Francisco, mewn gwlad lle, y cânt ddigonedd o'r tiroedd brasaf yn y byd, heb eu prynu, ond yn wobr gan y llywodraeth am ymsefydlu yn y wlad. Mae yr hinsawdd yma yn rhyfeddol o dymherus. Nid yw gwres yr haf, nac oerfel y gauaf, yn achosi yma, fel manau ereill yn yr un lledred, eithafon o'r naill na'r llall, a hyny oherwydd fod awelon, a elwir *trade winds*, yn chwythu o'r gogledd am y chwech mis haf, ac o'r deau cyhyd y rhan arall o'r flwyddyn; ac oherwydd hyn, ynghyd â rhagoriaethau y wlad baradwysaidd hōno, dywedir fod clefydau a beintiau yn anadnabyddus yno ond mewn enw. Yn Fonterey, un o brif drefydd y wlad hōno, cyhoeddir newyddiadur, yr hwn a'n hysbysa eu bod hwy yno wedi ad-ciladu rhai llongau bychain ag sydd yn mordwyo ar hyd ei glanau. Maent yn adeiladu tai, melinan, ac yn codi ysgolion, &c., ar y duil

Americanaidd, a'r holl wlad yn bywiogi, a dilladau o bob math, a nwyfau pellenig, wedi gostwng yr hanner yn eu pris er pan y cymmerodd yr Unol Daleithiau feddiant o'r wlad; a thynú ymaith y *duties*, yr hyn oedd yn fwy nâ'r pris presennol. Da genym ddeall fod y Saint yn cael derbyniad croesawus yno, a bod y poblogrwydd o'u plaid, er yn alltudion o'u gwlad eu hunain. Dywed un papyr o'r enw "*Friend*," yr hwn a gyhoeddir yn Honolulu,—“Dyledus arnom sylwi ar rai pethau o barthed i'r Mormoniaid, ag sydd yn adnabyddus i ni. Yr oeddyr yn byw yn Illinois, nid neppell oddiwrth y Mormoniaid. Yn ystod y rhyfel diweddaf, dywedid llawer o bethau drwg ac anhygoel i'w herbyn: dichon fod rhai o honynt yn wir, ond wedi eu lliwio yn rhy uchel. Pa un hynag am hynny, maent wedi tirio yma yn ein plith ni. Yna y gwnant eu cartref; ac nid oes gan yr ychydig o honom a'u blaenasant un hawl i'w rhwystro; a pha bethau bynag a allasai fod yn feius o'r blaen, gobeithir yr uniawnir hynny yma; a chyd-ddeisyfwn a'u cyfeillion y bydd iddynt sicrhau ffafwr ac undeb â plawb. Duw a oruwch-lywyddo eu cynghorion mewn doethineb.” Dyma esiampl deilwng o efelychiad gan olygyddion Cymru, sef gweddio drosom, yn lle ein rhegu a'n camgyhuddo o hyd; a chaiff hwn ei ddymuniad hefyd, drwy weled fod “Duw yn llywyddu cynghorion y Saint mewn doethineb” er ei ôgnciant, a lles yr holl fyd.

Papir newydd arall a ddywed am sefyllfa a gobeithion y Saint a gyrhaeddasant yno,—“Dywedir eu bod yn eu rhifo wrth y cannoedd o filoedd, a nifer fawr iawn o honynt wedi bod gyda'r gwahanol enwadau ereill. A gwir yw hyn am y cwmni a ddaethant yn awr ar fwrdd y Brooklyn o leiaf; canys gwelir yn eu plith lawer a fuont gyda'r Bedyddwyr am-flynyddau, ereill gyda'r Trefnyddion, yr Independiaid, &c.; i.e. yn mhllith y rhai hyn caiff pob enwad rai i'w cynnrychioli, ac oll mewn undeb ysbryd, amcan, a chydweithrediad yn awr, dan adenydd Mormoniaeth. Yn ol a ddeallwn, California yw canol-bwynt eu hymgyrch; ac yn neillduol, yn y dyffrnoedd harddwyh oddeutu San Francisco y dechreuâ Saint y Dyddiau Diweddaf ymsefydlu. Ac, a gadael heibio y gorfodiaeth a arferir i ddesgrifio harddweh a rhagoroldeh y fan hon, rhaid addef, ar hobb ystyriaeth, mai lle hyfryd, manteisiol, a dedwydd, yw—y lle goreu i sefydlu tiriogaeth ag a geir ar hyd gyffiniau y wlad. Cyduna manteision naturiol y wlad a'r cul-fôr i arddangos y cyfyd yma ddinaoedd a threfydd blodeuog i harddu yr olygfa, cyn yr â nemawr o flynyddau heibio. Arwyddair y Mormoniaid yw '*California*.' Nid yw y rhai a ddaethant eisoes ond megys defnyn wrth y rhai etto a ddaw yn fuan. Credwn, oddiwrth yr hanesion a gawsom, fod dros 25,000 o honynt eisoes ar eu ffordd yma o'r Unol Daleithiau. Clywsom hefyd fod llwyth lloig o honynt wedi cychwyn o Liverpool, fel blaenffwrth o'r lluoedd dirifedi a ddel o'r cyfandir dwyreiniol.”

“Pa farnau bynag sydd gan sectau Cristionogol ereill am ddaliadau y bobl hyn, mae yn sicr y cynnwysa yr ymfudiad rhyfedd a chyffredinol hwn o bedwar cwr y byd i California gyfnod newydd a llesol yn sefydliad gwlad eang, ffwrthlon, a gwag o drigolion. Dylanwada y bobl hyn ar California, a gwellhâ ei thyngghed yn rhyfeddol yn wladwriaethol, cymdeithasol, moesol, ac yn grefyddol. Ni allwn lai nâ

dysgwyl amser goleuach, a sicr ydym nad y'm yn edrych ar ochr dywyll i'r peth."

"Cyn terfynu, ystyriwn yn ddyledus arnom gyhoeddi tystiolaeth Cadben Richardson y llong Brooklyn, o barthed i ymddygiad a chymmeriad yr ymfudwyr a ddaethant ar fwrdd ei long ef yn ystod mordaith hirfaith oddiamgylch Cape Horn. Am eu bucheddau a'u cymmeriadau canmola hwynt yn rhyfeddol, tulwnt i ddim a'r a welsai. Dywed eu bod yn byw mewn mwy o undeb a chariad gyda'u gilydd, nag y dysgwylodd i neb allu bod dan yr un amgylchiadau; eu bod yn siriol, heddychlon, a threfnus iawn, yn ddiethriad. Daethant yma gyda phenderfyniad i lasurio y tir, a phob parotoadau anghurheidiol i hyny, megys erydr, certi, pedrolfenni, pladuriau, a phob math o arffau amaethyddiol, ynghyd ag i adeiladu llongau, tai, melinau, &c. Ac nid ydynt wedi anghofio dwyn defnyddiau ysgolion, dysgeidiaeth, &c., gyda hwy hefyd. Hysbysa Cadben Richardson ni eu bod, drwy yr holl fordaith o'r hron, yn cynnal cyrddau addoliad rheolaidd a llesiol; a'u bod yn parhau i gyflawni eu dyledswyddau crefyddol yn gyson ar y lan, wedi ymadael o'r llong. Ymsefydla y cwmni lliosog a bywiog hyn yn eu cartrefleoedd newyddion yn fuan; a bydded iddynt fwynhau mwy o heddwch a chyfiawnder nag yn y rhai blaenorol. Er eu bod yn barnu yn wahanol iddynt am amryw athrawiaethau, seremonïau, etto y mae y goreu o'n dynuniadau a'n gweddïau gyda hwynt. Tynnerwech a sirioldeb rhagluniaethol y Goruchaf a'u cysgodo. Maent i sylfaenu sefydliadau teuluol, gwladol, a chrefyddol, yn ein plith. Ac O, bydded iddynt fod yn gyfryw ag y cyfyd yr oesoedd a ddel, ac a'u bendithiant." "*Monterey, Awst 13, 1846.*"

Gwyn fyd pe byddai llawer o'r rhai sy'n dal allweddau poblogrwydd ein gwlad ni yn meddu spectol mor gywir, a chalon mor onest a synwrol, â hwn, diau y galwai yr oesoedd a ddel hwythau yn wynfydedig. A sicr ydym, pe buasai awduron a golygyddion yr Unol Daleithiau mor ddiragfarn a gwladgarol â hwn, ni buasent wedi achosi i'w hudolion ymddwyn mor annynol, tywallt cymmaint o waed gwirion, na dyoddef mor erwin o ffryth eu gweithredoedd; ond buasai Saint y Dyddiau Diweddfaf hyd byth yn achosi eu gorlwytho â bendithion tynmorol a thragwyddol. O na hai ereill yn ddoethach yn nydd eu dylanwad, yn cymuneryd rhybudd, ac yn rhoi tegwch i'r gwir, dened o ba le y delo.

Dywenydd mawr genym hysbysu ein darllenwyr am gyrhaeddiad y llong Brooklyn i'r porthladd dymunol yn ddiogel. Cofus gauddo i ni hysbysu ei chychwyniad o Gaerefrog Newydd yn Ionawr, 1846, a'r cwmni dan lywyddiaeth y Dr. Brannar. Diau y dyrchafa diolchgarwech o galonau y Saint yn Nghymru hefyd i'r lwn sy'n cynnal y môr fel ar gleidr ei law, a'r gwynt yn ei ddwrn, am ei ofal tadol dros ein brodyr a'n chworydd, drwy eu mordaith, gan ddeisyf am estyniad ei ddaioni gogyfer â'u heisiau yn yr amser dyfodol, nes y troant yr anialwch hwnu yn ddoldir, ac yn noddfa i filoedd o bobl Saint y Goruchaf rhag ei farnau ar y byd. Ac awelon hyfryd y nefoedd a anadlo yn heraidd ar y blodau hyn, nes y përaroglo eu hesiamplau a'u dysgeidiaeth dduwiol ar y cyfandir oll, a'r byd hefyd.

GWELEDIGAETH NOS!

“Ar yr 16eg o Ragfyr, pregethais i dyrfa liosog yn Bolten, ar adgyfodiad y corff, ac wedi hyny aethum gydag un o'r brodyr i gysgu y nos hono. Yn mhen enyd, cefais fy hun yn ymdeithio gyda dau neu dri o'm brodyr yn y weinidogaeth, gan ymddyddan am y pethau a herthynant i deyrnas Dduw, pan yn ddisymwth daeth dyn dyeithr golygus iawn i'n cwmni, ac a ddywedodd, “Wel frodyr, pa fodd yr ydych oll?” Edrychasom arno, ac atebasom, nad adwaenem ef. Yna dywedodd, “Os cadwch fy enw yn ddirgel tra byddwyf gyda chwi, hysbysaf i chwi pwy ydwyf.” Addawsom wneyd hyny. Ar hyn cyrhaeddasom dy y brawd lle yr amcanem letya; ac wedi myned oll i mewn, ac eistedd mewn ystafell ddirgel, bu yr ymddyddan canlynol: “Fy enw,” ebe y dyeithryn wrthym, “yw Iago. Myfi ydwyf un o'r apostolion oedd ar y ddaear hon yn nyddiau yr Iachawdwr. Gwelwch yn awr fy nghorff adgyfodedig. Teimlwch a gwelwch; canys nid oes gan ysbryd gnawd ac esgyrn, fel y gwelwch fod genyf fi.”

Yna sylwasom yn fanylach arno, ac O na feddem eiriau i ddesgrifio harddwch a gogoniant y corff hwn! Ymddangosai ei gnawd a'i groen mor bur a dysglaer, a'i ruddiau fel y rhosyn. Rhoddais fy llaw ar ei wyneb; ac yna dywedodd, “Gwylwch! yr wyf yn bur eiddigeddus am fy nghorff nefol.” Gofynais iddo, “Frawd Iago, pa fodd yr ymddygodd eich cydoeswyr atoch chwi?” Atebodd, “Yn debyg fel yr ymddyga pobl yr oes hon atoch chwi ac apostolion yr oes hon. Gwawdiasant ac erlidiasant ni, gan fwrw ein henw allan am ddrygiouus. Dadleuai yr offeiriaid i'n herbyn, a dywedent wrth y werin mai gau-brophwydi, a thwyllwyr, &c., oeddym; nad oeddym deilwng o gael byw ar y ddaear; yn gwir fel y dywed pobl am y deuddeg a anfonodd Duw yn yr oruchwyliaeth hon. A'r gwir yw, mae y bobloedd yn gyffelyb yn awr i'r hyn oeddynt yn yr oes hono; ac ni dderbyniant egwyddorion pur yr Iesu genych chwi yn awr, mwy nag y credent y gwir o'n geneuau ninnau. Yn ein dyddiau ni, ni chredai ond ychydig ein tystiolaeth; ac ni chreda ond ychydig eich tystiolaeth chwithau.” Dywedais wrtho, “Frawd Iago, mae y bobl wedi adeiladu capel mawr a gwych ar eich enw chwi yn y wlad hon; oni chaniatant i chwi bregethu ynddo, tybied?” “O na,” ebe efe, “ni chaniatant i mi bregethu yn eu capel, mwy nag y caniatant hyny i un o'r deuddeg yn yr oes hon; a phe caniatant, byddai yr hyn a bregethwn yn hollol groes i'w gau-draddodiadau honynt. Gwyddoch am fy ysgrifeniadau, yr ychydig weddill sydd o hwynt nid ymarferant; ac nid yw y rhai sydd ganddynt yn debyg mor eglur ag yr ysgrifenisais i hwynt. Maent wedi cyfnewid a cholli y pethau egluraf o'm hysgrifeniadau; a phe dywedwn hyny wrthynt, ni chredent fi. Felly, yr oll a allwch chwithau ei wneuthur yw pregethu yn y lle a'r man y caffoch y cyfle, a chasglu y rhai gonest eu calon o'u plith: wedi hyny torix yr anufyddion ymaith oddiar y ddaear; canys yr oll a wna yr Arglwydd yw rhybyddio y bobloedd, ac os na chymmerant rybydd, efe a'u dinystria hwynt â'i farnedigaethau.” Yna gofynais iddo, beth a feddylia am y deuddeg apostol sydd yn blaenori eglwys Iesu Grist, Saint y Dyddiau Diweddfaf, yn awr? Atebodd, “Dynion da ydynt; ac os ufyddha y Saint i'w

dysgeidiaeth, hwy a ddyrchefir yn nheyrnas Dduw." Sylwais, "Y maent wedi dod i ddeall llawer o egwyddorion gogoneddus er scfydliad yr eglwys." "Y maent," ebe efe, "ond nid ydynt etto ond babanol mewn cyferbyniad i'r hyn a fyddant pryd y cânt eu cyrff anfarwol, fel y gwelwch genyf fi." "Pa bryd y cawsoch chiwi eich corff adgyfod-edig?" I hyn ni atebodd yn ddealladwy. Dywedais, "O mor dda fyddai genyf pe bawn wedi cael corff godidog ac anfarwol fel y corff sydd genych chiwi." Atebodd, "Ni bydd yn faith, os byddwch yn parhau i fod yn ffyddlon, cyn y cewch chiwi a'r holl Saint gyrrif fel y corff hwn." Ar hyn, galwyd ni i ystafeli arall i swperu; yntau a ddywedodd, "Os addawech nad amlygwech pwy ydwyf, myfi a swperaf gyda chiwi." Ar hyn deffroais; ac wele breuddwyd oedd! Dichon rhai feddwl nad yw hyn ond dychymmyg; ond i mi, mewn gwirionedd, yr oedd yn deimladwy, sylweddol, a gogoneddus; yn beth nad anghofiaf, mewn amser na thragwyddoldeb. Cymmerodd le yn gywir fel y desgrifiais, ac achosa lawenydd i'm calon bob tro y meddyliaf am dano. O! ni ddichon ymadrodd dynol bortreidiadu harddwch a gogoniant y corff hwnw! Yr ydwyf yn foddlon i ddyoddef pob dirmyg, a gwawd, ac erlidigaeth. er mwyn cael adgyfodiad gogoneddus. Felly bydded. Amen. Ydwyf, eich brawd yn yr efengyl dra-gwyddol,
M. SIRRINE."

"Pan ddarllenason "weledigaeth" y brawd SIRRINE gyntaf, ystyriem hi yn debyg i weledigaeth Iauiedig; ond ar hyny, gwelsom y brawd SIRRINE, a sicrhaodd i ni nad ffug, ond gweledigaeth sylweddol, oedd, fel y geiriodd hi yn gywir. Dywed Joel, "A bydd yn y dyddiau diweddaf, eich henafgywr a freuddwydiant freuddwydion; a'ch gywir ieuaine a welant weledigaethau." A dywed y gwr doeth, "Lle nad oes weledigaeth, pallu a wna y bobl." Y nefoedd a ganiatao i'r llen gael ei rhwygo oddiar ein llygaid ni oll, fel yr adwaenom fel ein hadnabyddir.
ORSON HYDE."

[Oddiar adnabyddiaeth bersonol â'r brawd SIRRINE er's blynyddau, tu yma a thudraw i foroedd, mae fod ei enw wrth y "weledigaeth" uchod yn sel ddigonol o'i geirwired.—GOL.]

YR IFORIAID YN ESGYMUO EU HAELODAU OHERWYDD EU CREFYDD!!!

DYWEDID "nad oedd dim newydd dan haul;" ac efallai nad newydd, ond arall gyflawniad o ormes a chreulonderau erlidwyr yr oesoedd ty-wyll, yw yr hanes a ganlyn; canys, gwrandawed holl hil Gomer! Y mae rhai o'u tylwyth a hŏnant fod yn wladgarwyr, a dyngarwyr blaenaf ein hoes, eu hunain yn tacnu cuddlen d. os y Gothiaid a'r Vandaliaid! Mae yn ddigon gwir fod pwyllgor Lodge 299, Cyfrinfa Ifor-Haul, Unnab Caerfyrddin, Iforiaid, wedi esgymuno plaid o grefydd-wyr o'u cyfainach, ar yr addefiad mai oherwydd eu bod yn meiddio addoli Duw y nefoedd yn gydwybodol yn ol yr ysgrythyrau santiaid! Ond, teilwng i'r lleill o'r gymdeithas haelionus a pharchus hon yw hysbysu yn gyhoeddus yr amgylchiadau, a'r personau a achosodd iddynt y gwarth hwn; a cheir gweled pwy o honynt fydd mor ddyngarŏ

a chyfiawn â chymmeryd eu hysgubell i lanhau yr ystaeniadau brwn hyn oddiar eu coffadwriaeth. Tri diwrnod cyn y cyfnod hynod hwn yn hanes Iforiaeth, fel yr oedd Saint y Dyddiau Diweddaf yn pregethu (drwy ganiatâd y perchenog) yn neuadd yr *Yew Tree*, Blaenau, un o "Beirch" y Bedyddwyr fyth, o'r enw Thomas Evans, a safodd i fyny i'w gwrthwynebu; a thrwy hyny dangosodd ei ffolineb, nes dwyn gwarth y dorf arno, ac achosi i'r gwrandawwyr ei ddiystyru; ac yna r'authrodd allan mewn cywilydd. Er hyny, nid atebodd hyn y dyben, ond i'w gynnedeiriogi waeth-waeth, gan na wyddai pa fodd i ddial ychwaneg ar y Saint; ond y trydydd dydd ar ol hyny gwelwyd y personau canlynol wedi ymgasglu dan yr enw o bwyllgor y gymdeithas, a alwyd i'r dyben hyn, a'r "parchedig" hwn yn brif gynghorwr a *dictator* beth a wnelid a'r Seintiau (yn eu habsenoldeb, sylwer, ond fel y daeth un o honynt i wybod yn ddamweiniol), a gosodwyd ei frawd, sef Dafydd Havard, un o'r Bedyddwyr, yn gadeirydd, a Dafydd Thomas yn is-gadeirydd. Yna un arall o'r Bedyddwyr, o'r enw W. Williams; George Davies, Wesleyad; John Daniel, Wesleyad; James Mark, Independiad; Thomas Griffiths, Bedyddiwr; a John a Benjamin Thomas, yn bwyllgor yn y chwil-lys Iforaidd, *alias* Sectaraid, hwn! A dychymyged y darlennydd weled y dialydd "parchedig" ar ei orsedd yn awr; a'r cam cymtaf oedd dyosg y wisg, sef y swydd, oddiam un o'r Saint, a'i gwisgo am dano ei hun. Ar hyn, ymchwyddai fwy-fwy fel y "llyffant hwnw oedd yn ceisio efelychiu yr ych," hyd nes y casglodd ddigon o bres yn ei wyneb i wydroi a dirdynn cyhoeddiadau y Saint, i gyfeirio eu bod yn gwadu dwyfoldeb yr ysgrythyrau; a'r prawf a rydd o hyn yw. oherwydd eu bod yn credu fod llyfr Mormon yn wir! Ac felly, y mae addef gwirionedd y Testament Newydd yn gwadu dwyfoldeb yr Hen! Ie, yn ol yr ymresymiad yna, mae addef geirwirredd y naill epistol o'r Testament yn gwadu dwyfoldeb y llall! Ie, yr un peth fuasai i'r "parchedig" hwn haeru, fod credu tyst olaf mewn llys yn gwadu yr un blaenorol, er eu bod mor gydfynedol â'u gilydd ag yw Llyfr Mormon â'r Ysgrythyrau.

Onid nid oedd waeth beth a amddiffynid, cytunasant i dori yr holl Saint allan heb rybudd, na throi eu harian yn ol, er fod rhai o honynt wedi bod yn talu i mewn iddynt am flynyddau, heb gael ceiniog yn ol erioed; ac un, yr hwn y gwyddent ei fod gyda'r Saint, a dalodd iddynt 9s. yn y tŵrdd diweddaf cyn ei dori allan.. Os gellir cael addasach enw ar y fath waith â hyn, nâ *wholesale swindling institution*, dymunem wybod pa beth yw. Pa un a ydyw hyn yn enghraifft o Iforiaeth Cymru, ynte o'ormies a throsgedd y *glân* hwn o'i rheolau, a brofir drwy ffeithiau yn dadwneyd y trosgedd, neu eu cydymffurfriad drwy eu goddefiad o hono. Ond gobeithiwn fod digon o rinwedd yn ein brodyr a berthynant i *lodges* creill, naill ai i weinyddu cyfiawnder, neu i ymddidoli oddiwrth ormeswyr anghyfiawn, canys y neb a ddywedo, "Duw yn rhwydd" wrthynt, sydd gyfranog o'u drygioni hwynt. Hyd nes y profir i'r gwrthwyneb i'r ffaith uchod, cofied y Cymry (a byddwu decaeli nâ hwy drwy hysbysu i ereill), cyn pentyru eu harian i gistiau yr Iforiaid, y rhaid iddynt roddi i fyny bob hawl i ewyllys rydd, a'n barn eu hunain am grefydd, a chyfiwyno, nid yn unig eu harian, ond y perl gwerthfawrocaf, a'r goreu o roddion Duw i ddyinion, sef *meddwl*

annibynol, i'w dwrn hwy. Beth yw caethiwed y Negro caethaf wrth gaethiwed Iforaidd y Cymro glanaf a feiddia ddewis ei grefydd ei hun yn ei wlad rydd ei hun? Beth a wnant ond apelio at resw'n eu brodyr ereill am y cyfiawnder sydd allan o gyrhaedd cyfreithiau eu gwlad i ennill yn ol iddynt!

Oferedd i'r Iforiaid—ymyraeth
A mawredd Mormoniaid;
Na ddeallent hwy ddeilliaid
Fod Ior ein Blaenor o'n plaid.

BEDYDDIADAU GAN Y SAINT YN MIS CHWEFROR, 1847.

Merthyr Tydfil.—Bedyddiwyd ugain yn y ganghen hon yn y mis hwn. pa rai, ynghyd â'r holl aelodau fyddlon ereill, dynt yn mawr lawenhau yn eu breintiau, ac yn nyddanwch yr Ysbryd Glân.

Nant-y-glo.—Er maint truch y llwch a'r llaid a fwriwyd yn ugwynebau y gwroliaid gwirgarol hyn, cynnyddu y maent mewn cariad, amynedd, doniau a grasusau, yn ogystal ag mewn rhifedi. Bedyddiwyd yn y ganghen ieuanc hon o eglwys Iesu Grist, 16eg, ar eu profes o'u fydd yn Mab Duw, a'i efengyl, yn mis Chwefror; ac er y bygythir yn drwm i'w herbyn, maent yn gadarn yn y fydd a roddwyd unwaith i'r saint, ac yn mawr lawenhau yn nyddanwch yr Ysbryd Glân yn nghanol gorthrymderau, gan fawrhau eu braint o fod yn deilwng i ddyoddef pob peth er mwyn euh yr Hwn a roddes ei fywyd i lawr drostynt.

Pen-y-cae.—Bedyddiwyd dau, ac ychwaneg wedi addaw ufyddhau yn fuau.

Tredegar.—Bedyddiwyd un. Mae pregethu yn gysson hefyd yn Neuadd y "*Gen. Picton*," Sirhowy.

Coed-duon.—Un yn ychwanegol; a llawer yn cyrchu i'r Neuadd i glywed yr efengyl yn cael ei phregethu.

Abersychan.—Er cynymaint y gwrthwynebiadau a gaed yma, cafwyd yma, drwy diriondeb y perchenog, ganiatâd i bregethu bob Sul mewn Neuadd gyfleus; ac yma, fel yn mhob lle arall ag y caffo y bobl ddeall beth a broffeswn, yn hytrach nâ'r hyn a wadwn, ennilla ein hefengyl eu serch yn ol eu gonestrwydd; ac onid yw ein gwrthwynebwyd yn deall ac yn addaf hyn, drwy fygwth a cheryddu eu haelodau, rhag iddynt ein gwrandao, gan gam-ddarlunio ein crefydd? Er y ryfan, bedyddiwyd yma bump y mis hwn, ar eu profes o'u fydd yn Iesu Grist.

Cwmbach.—Yma, tri yn unig a ufyddasant yn y nis.

Llwyni.—Bedyddiwyd dau, a gobaith fod y gwrthweithiad yn agoryd llygaid llawer ereill.

Cwmbychan.—Yn y lle newydd hwn hefyd, pregetha ein brodyr yn ddiwyd, ac mae dau wedi eu bedyddio eisoes yn y mis hwn, er cynymaint a rybuddia y Sectarïaid ar bawb i beidio gwrandao ar "ffiloreg y gau-brophwydi," &c.

Rymni.—Bedyddiwyd dau etto oddiwrth y Bedyddwyr, a rhyfedd fel yr erlidia eu cyn-frodyr hwy.

Caerdydd.—Bedyddiwyd pump, yn ol a glywsom, gan mwyaf oddiwrth grefyddau ereill.

Dowlais.—Mae y dref hon fel crochan berwedig, rhwng dwy blaidd mor groes i'w gilydd ag yw Sectarïaeth ac Apostoliaeth; y flacnaf fel ar fin tranc yn amoddi'n y fauetell a daenodd dros wynebau ei haddolwyr, ac yn gwylltio hob tro ag y cyfyd yr olaf y guddlen i ereill gael gweled pethau fel y maent, yn enwedig pan y dianc eu haelodau, a'u diaconiaid gonest eu begwyddor, at y goleuni, dau waeddi, Bywyd! Bywyd! Er na chawsom lythyr, etto rwydd i ni dros tynithec a fedyddiwyd yma y mis hwn; a diolchwn i'r ffynnonell o oleuni, fod y wawr wedi tori trwy y caddug truenus hwn.

Bedyddiodd yr henuriaid Morris rai yn Sir Benfro; ac antonodd yr haelod A. Evans newyddion cysurys am lwyddiant a dyddanwch yr holl eglwysidra; y Gogledd;

felly yr hysbysa y brawd R. Evans ni hefyd; a gwelir fod genym lawer o destynau ddech i'r Hwn a bia y gwaith, ynghyd ag annogaethau i ddiwydrwydd.

[D.S. Gofynwn etto i bob llywydd caughen anfon i ni rif y rhai a feddyddiwyd, ar ddiwedd pob mis!]

TREFNIADAU Y PREGETHWYR.

MAE yr offeiriad John Price wedi ymfudo i Risca, a chael derbynriad croesawus. Bwrriad y offeiriad James John fyned yno hefyd yn fuan.

Gwelsom yr henuriad Robert Evans yn Wrexham yn ddiweddar. Y mae yn llafurus a llwyddiannus yn y Gogledd, ac wedi bedyddio rhyw nifer yn ddiweddar, ac yn anerch Saint y Deheudir, gan ddimuno rhan yn eu gweddiau.

Bedyddiwyd dau yn Rhŷllanerchrugog dechreu y mis, ac y mae'r ganghen yn flo-
dcuog.

Aeth yr henuriad W. Davies, Rymni, i bregethu yn Aberhonddu, ac amcana fod yn y cychoedd hyn am yspaid. Llwyddiant iddo.

Yr offeiriad John Richards, Merthyr, a ymfudodd tua Llanelli, Sir Gaerfyrddin, er mwyn yr efengyl.

CYMMANFA MORGANWG.

CYNNELIR y Gymmanfa hon yn **NEUADD Y CYMREIGYDDION** (White Lion), Merthyr, i ddechreu dydd Sul, y 18fed o Ebrill, am 10 o'r gloch y boreu.

CYMMANFA MYN W-Y.

CYNNELIR y Gymmanfa hon dydd Sul, Ebrill y 25ain, yn Neuadd y **CAUKERS' ARMS**, Nantyglo.

Dymunir ar lywyddion holl ganghenau y Cynnadleddoedd uchod ddyfod yno, fel y gallont gynnrychioli rhifedi, cynnydd, ac ansawdd eu canghenau. Gellir cael lluniacth gan Mr. Evans, Caukers' Arms.

D.S. Dysgwylir y Llywydd **F. D. RICHARDS** (yn ddiweddar o'r America), o Llynlleifiad, i ymwled â'r ddwy Gymmanfa.

CYNNWYSIAD.

Catecism i Athrofeydd y "Peirch" ..	37	Gweledigaeth Nos	48
Dyledswyddau Offeiriad	39	Yr Iforiaid yn esgymuno eu haelodau	
Y Wasg Americanaidd yn troi o blaid		oherwydd eu Crefydd	49
y Saint	40	Bedyddiadau gan y Saint yn Chwefror	51
Arwyddion yr Amserau	44	Trefniadau y Pregethwyr	52
Newyddion Da o California	45	Cymmanfaoedd	52

MERTHYR-TYDFIL:

CYHOEDDWDYD AC **AR WERTH** GAN **D. JONES**, AC **AR WERTH**
HEFYD GAN **Y SAINT** YN **GYFFREDINOL.**

PROPHWYD Y JUBILI.

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 10.]

EBRILL, 1847.

[PRIS 2g.]

CATECISM I ATHROFEYDD Y "PEIRCH."

(Parhad o tudal. 39 o *Prophwyd Mawrth*).

A YDYCH yn siwr nad oes un efengyl neu drefn arall drwy ufydd-dod i'r hon y gall dyn gael cadwedigaeth, ond drwy gredu, edifarhau, a chael ei fedyddio er maddeuant pechodau, ac arddodiad dwylaw er derbyn yr Ysbryd Glân?—Nid yw ein Crist ni, ei Dad, na neb o'i weision, wedi dweyd gair am un arall; ac felly casglaf na wyddent hwy am yr un drefn ond hon. Os oes un arall, rhyw awdwr arall sydd iddi, a rhyw fibl arall yn ei dangos. Dweyd fod Crist perffaith wedi trefnu mwy nag un drefn berffaith i'n dwyn i nefoedd berffaith, yw dweyd eu bod oll ond un yn amherffaith; a chan fod gwaith pob un yn ei brofi, dyna Grist amherffaith, a hyny yw bod heb Grist yn y byd; a bod heb Grist perffaith yn aberth cymmeradwy yw bod heb Dduw; a bod heb Dduw yw bod heb ddim; felly mae pob dyn a haera fod mwy nag un drefn i achub dyn yn ddeistaidd i'r graddau hyny; i.e, er eu profes, eu sêl, eu gwynebaw hirion, a'u haml weddiau, a'u defosiynau i gyd!

Beth! a ydyw yr holl grefyddwyr a'r pregethwyr drwy'r byd a'r sydd heb ufyddhau i'r ffurf hon o athrawiaeth, yn amddifad o'r efengyl dragywyddol, yn gyffelyb i'r paganiaid?—Ni allaf ddangos gwahaniaeth, amgen na bod y blaenaf yn credu yn hanesyddol am Grist, a dysgu moesoldeb, &c., drwy yr ysgrhythrau, er nad y'nt yn deall yr efengyl.

Onid yw yn hosibl i hyd y nod duwinyddion dysgedig ein hathrofeydd gael rhan yn yr adgyfodiad cyntaf, a bod gyda Iesu Grist, ac yn gyffelyb iddo, drwy rai o'r ffyrdd newydd a chyfleus a ddyfeisiasant hwy, heb ufyddhau i'r efengyl hon?—Ateba Crist ei hun,—“Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, oddieithr geni dyn o ddwfr ac o'r Ysbryd, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw.” Pa fodd, ynte, y cedwir neb yn nheyrnas Dduw os gwrthoda “fyned i mewn” iddi drwy y drws? Triniaeth, neu groesaw, “lladron ac yspeilwyr” a gaiff, os aiff rhyw ffordd arall iddi!

E

[CFF. II.]

Beth a ddel o'r holl rai a fyddant yn fyw ar y ddaear, ac a wrthodasant ufyddhau i'r efengyl, ar ail ddyfodiad Iesu Grist?—Dywed y Bibl y bydd i Grist ddyfod gyda'i angylion nerthol, a fflain dân, i roddi dial ar y sawl nid adwaenant Dduw, *ac nid ydynt yn ufyddhau i efengyl ein Harghwydd Iesu Grist.*

Pa fodd mae y byd Cristionogol (fel ei gelwir) wedi bod cyhyd yn amddifad o gyflawnder yr efengyl dragywyddol?—Mewn cyflawniad o laweroedd o brophwydoliaethau, megys Daniel, ac Ioan; sef, fod bleiddiaid rheibus wedi dyfod i'r eglwys ar ol amser yr apostolion; wedi dwyn i mewn heresiau dinystriol, troseddu y cyfreithiau, cyfnewid yr ordinhadau, &c., a "rhyfela â'r Saint [oeddynt ym awdurdodol oddiwrth Dduw], *nes eu gorchfygu hwynt.*" Yna haerant hyd heddyw nad oes awdurdod ddwyfol yn eisiau, ac nis mynant hi ychwaith; ond gwna pawb y ffordd a ddewisio!

Pa fodd y daeth Saint y Duwidd Diweddaf i ddeall, a chael y fraint o fod yn offerynau yn llaw Duw i adferdy cyflawnder yr efengyl yn ol i blith dynion?—Nid oherwydd dim cymhwysder, rhinwedd, na theilyngdod ynddynt hwy fwy nag ereill; ond, oherwydd ddyfod o gyflawnder yr amseroedd, yn ol arfaeth y Duw mawr yn y cynghor boreu, i efengyl yr hedd gael ei phregethu i holl drigolion y ddaear, er darparu y ffordd i ail ddyfodiad ei Fab, darparu pobl briodol, a'u gwahodd i swper neithior yr Oen, rhag iddo ddyfod a tharo yr holl ddaear â melldith; canys nid yw efe yn hoffi yn marwolaeth yr annuwiol, &c.

Pa fodd y derbyniasant hwy yr efengyl hon, a hawl i'w phregethu?—Duw a anfonodd yr angel santaid hwnw a welodd Ioan yn dyfod â'r efengyl dragywyddol i efengylu i bob cenedl, llwyth, ac iaith, gan ddywedyd, "*Daeth awr ei farn ef.*"

Oni achubir neb a wrthoda yr efengyl hon rhag y barnau a ddel ar y ddaear?—Yr un nifer ag a achubwyd o'r hen fyd wedi gwrthod cenadwri Noa! Os achubir un a'i gwrthoda, paham nad amgen? Os felly, ofer oedd i Dduw ei danfon.

Onid ydych yn gul eich barn, ac yn angharedig iawn tuag at grefyddwyr ereill, sydd mor selog yn addoli Duw yn ol y goleuni syddganddynt, drwy ddeydg hyny wrthyt?—Os oedd Crist yn angharedig at grefyddwyr mwy selog ei ddyddiau ef pan y galwai hwynt yn "ragrithwyr;" ac y dywedai,—"*Hiliogaeth gwiberod pa fodd y diangwch chwi farn offern?*" Mae yr hwn a welo y drwg yn dyfod ar y wlad, ac a'i rhybuddia yn eglur ac yn onest yn ol "y gyfraith a'r dystiolaeth," yn fwy caredig tuag atynt, ac yn eu llesoli yn fwy na deng mil o'r rhai sy'n gwaeddi "*Heddwch, heddwch, gan brophwydo daioni o hyd, pan y mae dinystr disymwth ar ddyfod ar eu gwarthaf hwynt.*"

Beth yw cyflwr yr holl rai a ffont feirw er pan gollwyd yr efengyl oddiar y ddaear hyd yn awr?—Bernir hwy, yn ol y gweithredoedd a wnaethant yn y corff, gerbron brawdle gyfiawn, yn ol y goleuni a gynnygiwyd iddynt yn eu bywyd, a'r defnydd a wnaethant o bono; canys y rhai nid oes ganddynt ddeddf, a gyfrgollir hefyd yn ddideddaf, a diammat y cyfyd miloedd o honynt yn y farn yn erbyn y genedlaeth hon, ac a'i condemuiant hi, canys pe cawsent hwy y manteision a'r cynnyg ag y mae yr oes hon yn ei gwel, diau y cofleidiasent gyflawn-

der yr efengyl gyda pharodrwydd. Llauer o honynt a chwennychasant weled gwawl gogoniant y dyddiau diweddaf, ac ni chawsant; am hyny na ofalwch drostynt hwy, canys pob un drosto ei hun a rydd gyfrif i Dduw. Cynhauaf eich enaid chwi yw yn awr; haf-ddydd yr efengyl a wawriodd i chwi; ac O, na chauwch eich amrantau yn erbyn dwyfol belydrau gwawl y Jubili.

* * * Cyfansoddwyd er gwasanaeth Efrydwy'r Athrofa Rhydychain, ac ereill.

DYLEDSWYDDAU DYSGAWDWYR.

"DYLAI y dysgawdwy'r wylied dros yr eglwys yn feunyddiol, dysgu a chadarnhau yr aelodau, gan edrych na bo neb o honynt yn coleddu uurhyw bechodau; rhag bod anghariad at eu gilydd, anwireddau, cenfigen, na goganair, yn magu gwreiddyn chwerwedd yn eu plith; i edrych na byddont yn esgeuluso eu cydgynnulliad; ond fod i'r eglwys gwrdd ynghyd yn fynych; ac, fod yr holl aelodau yn cyflawni eu dyledswyddau. Mae efe i lywyddu yn y cyfarfodydd, yn absenoldeb henuriaid, ac offeiriaid; ac y mae y diaconiaid i'w gynnorthwyo yn ei holl ddyledswyddau, pan geisio ganddynt; ond nid oes gan ddysgawdwy'r, na diaconiaid, hawl i fedyddio, gweinyddu y sacrament, nae arddodi dwylaw; etto dylent rhybuddio, egluro, a dysgu, gan wahodd pawb i ddyfod at Grist."—*Ath. a'r Cyf.*

Mae swydd dysgawdwr yn un anghenrheidiol a phwysig iawn; anghenrheidiol, meddwn, oherwydd fod cymmaint o demtasiynau yn cael eu gosod ar ffordd y Saint ieuainc yn y ffydd. Gormeswr yw y gelyn diafol, ac yn eu gwendid yr ymesyd arnynt waethaf, i geisio dadymchwl eu heneidiau, oherwydd eu bod wedi dianc o afaelion ysbrydion cyfeiliornus i deyrnas Dduw. Dyna yr amser y defnyddia ei gynllwynion, a'i demtasiynau fynychaf, a mwyaf effeithiol, oherwydd eu gwendid. Dyna'r pryd yr arweinia ei offerynau gyda'u chwedlau gwneyd, eu camgyhuddiadau, a'u bygythion, gan gablu y pethau na wyddant o'u herwydd, fel cynt. Yna yr anghenrheidrwydd am i'r dysgawdwy'r wylied drostynt fel dros eu praidd, symud y rhwystrau o'u ffordd, egluro y pethau annealladwy, eu porthi â didwyll laeth y gair, fel y cynnyddont beunydd. Ystyried pob dysgawdwr werth yr eneidiau, ynghyd â'u gwendid, a ymddiriedwyd i'w ofal; canys gwerth gwaed y pen Bugail mawr ydynt; y perygl sydd iddynt golli eu cariad cyntaf, ac ymddyrsu gyda phlethau croes i dduwioldeb; a chofied fod yr hwn a droa bechadur o gyfeiliorni ei ffordd, yn achub enaid rhag angau, ac yn cuddio lliaws o bechodau. Gofaled am beidio a'u llingdagu â bwyd rhy gryf yn eu gwendid, canys "bwyd cryf a berthyn i'r rhai perthaidd." Ofnwn nad yw pawb yn dysgu mewn doethineb; yna annogwn y cyfryw i gydymdeimlo â gwendidau y newyddion yn y ffydd, gan gofio mai y cyfryw oeddym ninnau. Nid ar unwaith y daw y baban yn ddyr, y fesen yn dderwen, na ninnau yn berffaith; ond yn raddol, fel y cynnydda goleuni y boreu, nes cyrhaedd dyscleirdeb canol dydd. Gwyddom fod gwahaniaeth mawr rhwng ymuno ag

eglwys Iesu Grist a phawb ereill a broffesant yr enw; hyd y nod ar eu dyfodiad cyntaf nid yw y gelyn yn colli un cyfleusdra i sibrwd yn eu clustiau yn ddrwg am y peth hyn, ac yn defnyddio pob cyfle i beri iddynt ammau y peth arall; a gwyddoni drwy brofiad chwerau fod ystoriau gwrthgilwyr, a chamgyhuddiadau gelynyon y gwirionedd, a glywem yn flaenorol, yn dylifo yn awr i'r meddwl, nes braidd orchfygu ein ffydd wanaidd, ond fel y rhoddodd ereill oleuni, a Duw ei ysbryd amyneddgar i ni allu glynu wrtho, nes cael profiad o'n ffydd, yr hyn sydd werthfawrocach nag aur colladwy; ac O fel y diolehwyr erbyn hyn am y waredigaeth a gawsom y pryd hyn rhag llithro; ac felly ystyriwn y dichon fod ereill, ac ymdrechwn ymweled â hwy yn aml, a chryfhau y gliniau gweiniaid; felly y bydd ein "ffrwyth yn santeiddrwydd, a'r diwedd yn fywyd tragwyddol." Gwelir y pwysfawrogrwydd o'r swydd hon yn ei dwyfol osodiad, yn y lles a ddeillia i'r Saint drwy y cyflawniad ffyddlon o honi, ac hefyd yn y cyfrif a raid roddi i'w Rhoddwr am y defnydd a wnaed o'r dalent hon. Dysgawdwr doeth, effro, a selog, a wna y Saint felly hefyd. Efe yw eu tad magwriaethol, o dan arweiniad ei uwch-raddolion mewn swyddau. Dylai wybod ansawdd, a helyntion ysbrydol, ei braidd, a gweled nad oes gwreiddyn chwerau yn eu plith yn peri anghariad, yr hon sy'n saeth wenwynig o fwa y gelyn; edrych eu bod yn byw yn heddychlon, ac yn cadw addoliad teuluaidd mor gysson ag y bo modd; canys dyma begwn cryf i gyflawni eu dyledswyddau ereill yw gweddi. Os nad allant gyd-addoli a gweddio wrth yr allor deuluaidd, ni ddichon eu bod yn derbyn doniau, na ehynnydd mawr mewn santeiddrwydd, nac yn addurn i'w proffes. Ofiwn mai llithro yn y fan hon, fydd yn diweddu mewn crindod a gofid.

Dylai y dysgawdwr ymweled â phob un a esgeulusa dri chyfarfod eglwysig yn olynol; ac os na bydd achos digonol, ymgynghored â llywydd y ganghen; yna gyda hyn, fel gyda phob trosedd arall o eiddo yr aelodau, dylid ei osod gerbron cynghor dysgawdwr pan y cyfarfyddo, os bydd yn gyfleus i'r fan lle y mae y cyfryw gynghor wedi ei sefydlu; neu anfoned y cyhuddiadau i gynghor yr henuriaid; hysbysu y troseddwr o'r peth, a gwahodder ef yno, os dewisa amddiffyn. Ond, gofaler ar fod pob ysgogiad yn tarddu oddiariad, a gwir ddymuniaid i adferyd y cyfryw i'r iawn fel y byddont gadwedig, ac y cydlaenhaoch yn nghariad Crist.

Yn ddiweddaf, frodyr anwyl, byddwch ofalus ar roddi esiamplau a dysgeidiaeth dda i'r praidd dros ba rai y gosododd yr Ysbryd Glân chwiri yn olygwyr, ar eich cael chwiri a'ch praidd yn ddiargyhoedd, ac yn ddifrycheulyd gan y byd, cydwybod dda at Dduw a dynion; ac y ceffoch chwiri, a'r rhai a ymddiriedwyd i'ch gofal, fynedfa ugoneddus i mewn i'r brif gorlan, pan y crynhôa y bugail da ei holl fugeiliaid, a'i braidd gwasgaredig, i glywed ei lais yn yr orphwysfa ddedwydd sydd etto yn ol i'r rhai hyn yn unig sydd yn cyd-ddioddef ag ef, y rhai a larhaat hyd y diwedd, a'r rhai sydd yn dysgwyl am, ac yn caru ei ymddangosiad ef.

NEWYDDION ODDIWRTH Y SAINT SY'N YR ANIALWCH.

YN ddiweddar daeth llythyr oddiwrth yr apostolion o'u gwersyll, ger *Council Bluff*, i'r dwyrain i'r mynyddoedd creiglyd; dyddiedig Ionawr 23ain, 1847. Ni chaniatâ ein colofnau le i'r llythyr cynnwysfawr hwn i gyd; ond y talfyriad a ganlyn:—

“Darluniasom yn ein llythyr blaenorol y ddinas a amcanem adeiladu, ond yr hon yr ydym eisoes yn ei mwynhau. Cynnwysa tua 700 o dai, adeiledig o goed, daear. helyg neu glai, ac yn doedig â gwellt, ac yn annedau cysurus ac iachus i'r *Saint*, er iia safant o flaen y tawdd, y gwlaw, na llawer o haul yr haf.

Cynnwysa ein dinas fawr hon a adeiladwyd fel yr ymddangosodd “cicaion Jonah,” braidd mewn noson, yn nghanol yr anialwch hwn, 22 o ddosparthiadau. Trefnwyd esgob a'i gynghorwyr i arolygu pob dosparth fel na bo neb yn dyoddef eisiau bwyd na dillad; ac 'os dyoddefant, eu bai hwynt fydd hyny, drwy beidio gofyn am dano; neu, os byddant rhy ddiog i weithio. Oad mae y ffaith o fod cynnifer o dai wedi eu hadeiladu mewn cyn lleied o amsur yn brawf i bawb o ddiwydrwydd anarferol, y fath ag a ellir ei gystadlu â hanes un genedl mewn unrhyw oes neu wlad! Penderfynasom adeiladu melin ddwfr yma tra yn gauafu; a chynnygiodd ein tirion lywydd, Brigham Young, y gorchwyl o arolygu y gwaith, ac wele yr baidd yn barod i falu yd eisoes. Mae yn wir fod ganddo fwy o ofalon o'r blaen nag a ddylid roi ar un dyn; ond “pa fwyaf a wneir, mwyaf y gogoniant.” yw ei arwyddair. Nid yw efe yn petruso gydag un peth a duedda i gasglu Israel, neu i hwyluso amcanion Sion. Cysga ag un llygad yn agored, ac un troed o'r gwely y nos; a phan y bo galwad, efe yw'r cyntaf un i'r ymgyrch, ac y mae ei gynghorwyr o'r un galon ag ef. Sonia yn aml am genadaeth ein hanwyl frodyr Hyde, Pratt, a Taylor, yn neillduol am ymgasgliad y Saint o nysoedd i ynys, ac am y modd gorcu iddynt ddyfod o'r pedwar cwr i'w cartrefe. Anwyl frodyr, nac anghofiwch chwithau y mater pwysig hwn, pa beth bynag a wneloch; nid ein hofnau a ddywed hyn, ond coffawn eich meddyliau am dano. Anfonir cwmni o 300 o ragflaenwyr mor gynted ag y caniatâ y tywydd, tua *Yellow Stone*, at droed y mynyddoedd, gyda phethau aughenrheidol i godi enwd o'r ddaear erbyn y delo tua dwy neu dair mil o Saint ar eu hol; a rhai a arosant i lafurio a darparu erbyn dyfodiad gwersyll arall yno; ac felly di-onir y Saint a ddel heb fyned mor bell yn ol â *Missouri* i brynu lluniaueth. Mae y gwerthwyr yn y wlad hon yn efelychu pawb ereill i geisio newynu a difodi y Saint drwy godi pris y gwenith o 40 i 50 cent, a'r *Indian corn* o 20 i 25 cent, y bwshel, er pan y daethom ni yma.

Ar y 9fed o Hydref, pan y dychwelodd ein pedrolfeni i lan y Mississippi, ar gyfer Nauvoo, cawsant y gweddill o'r Saint yn gorwedd ar lan yr afon, heb dai, gwelyau, celfi, bwyd, dillad, na dim; ond yr oedd newynu i farwolaeth yn syllu yn eu gwynebau! Yr oeddynt wedi cael eu halltudio gan y mobs o'r ddinas yn ddiarbed, dirybudd, a didrugaredd, heblaw fod llawer o dan glefydau a heintiau y wlad hono ar y pryd. Nid oedd ganddynt ddim i fyw yno, na dim i gychwyn eu taith. Pan yn yr amgylchiad cyfyng hwn, troisant at yr Arglwydd, ac

efe a anfonodd lu mawr o sofl-ieir (*quails*), y rhai a ddisgynasant yn eu plith, ar eu gorwedd-leoedd, ac wrth eu traed, hyd nes yr oedd y cleifion a phawb yn eu dala â'u dwylaw, nes eu digoni; felly hulid eu byrddan a gig, foreu a hwyr. Nid y Saint yn unig a welodd hyn, ond y byd hefyd. Yr oedd ager-fâd yn myned heibio o fewn chwech rhwd iddynt, ac a'u gwelsant, a rhyfeddodd y teithwyr oedd arni yn fawr iawn; ereill ar y lan (heblaw y Saint) a ryfeddasant pan welsant y fath ryfeddod; ond rhyfeddach etto, fod yr adar hyny wedi dilyn y Saint hyd y ffordd pan gychwynasant eu taith, gan ddisgyn ar eu pedrolfeni, ac o dan eu traed, gan gynnig eu hunain yn aberthau gwirfoddol i achub bywydau y Saint dan ormes eu herlidwyr. Traether hyn i genedloedd y byd! Dyweder wrth freninoedd a phenaethiaid!! Hysbysyr hyn i'r rhai a broffesant gredu ddarfod i Dduw ddwyn Israel drwy'r anialwch yn nyddiau Moses, fel y credont hefyd fod Duw yn y dyddiau hyn, a'i fod mor anwylaidd o'i blant yn awr â'r pryd hyny; *ai fod ef yn eu porthi etto pan y mae gormes y gelyn yn annyoddefol.* Efe yw Duw yr holl ddaear; o'i flaen y plyga pob glin, a phob tafod a gyffesa i enw Iesu Crist."

"Er pan ysgrifenydd yr uchod hysbysir ni drwy y newyddion, fod Cadfridog Taylor, a Santa Anna, wedi cyduno ar ammodau heddwch rhwng Mexico a'r Taleithian, gan ganiatau i'r Californiaid ryddid crefyddol, ac i ddewis eu ffurf o lywodraeth wladol am yr amser presennol. Dywedir hefyd fod 200 *Dragoons* a gyd deithient â'r '*Mormon battalion*' wedi cael eu galw yn ol, a'r fyddin Formonaidd yn myned yn mlaen tua'r fan dymunol."—(*Allan o'r "Millennial Star."*)

RHYFEDDODAU RHYFEDDAF Y SAITH MIL BLYN- YDDOEDD!

Prif ryfeddodau y fil gyntaf o oes ein byd ni oedd, pechod ein rhieni cyntaf, yr hwn a'u halltudiodd o'r ardd, ac a agorodd y drws i'r holl ddirywiad a welir ar y ddaear, ei phethau a'i phreswlyddion; adeiladu Sion; ac Enoch, ynghyd a'i holl drigolion yn rhodio gyda Duw am dri chan mlynedd, a'u cymmeryd hwy a'u dinas oddiar y ddaear halogedig.

Yn yr ail fil, boddwyd y byd a'i drigolion, ond Noa a'i deulu; adeiladodd ynyfion dwr er dringo i fynu ar ol Enoc; cymmysgwyd yr iethoedd; rhanwyd y byd yn foroedd ac yn gyfandiroedd; chwalwyd ei drigolion droa ei wyneb, a phoblogwyd yr Amerig gyntaf gan y Jarediaid.

Yn y drydedd fil, boddwyd Pharao a'i fyddinoedd yn y Môr Coch, pan yr aeth Israel, etholedig Duw, drwodd yn droed-sych, ac ei harweiniwyd gan ogoniant dysclaeriol ei Jehofa yn gwmwl niwl a cholofn dân; ac adeiladwyd teml yr Arglwydd yn Jerusalem.

Yn y bedwaredd fil, arweiniwyd deg o lwythau Israel yn gaethion o Canaan, gan Dduw, i ryw wlad na allodd y Cenedloedd ddod o hyd iddynt hyd heddyw: distrywiwyd yr holl Jarediaid am eu drygioni, ac arweiniwyd Lehi gan Dduw i'r Cyfandir Americanaidd.

Yn y bummed fil, ganwyd, croeshoeliwyd, ac adgyfododd, Iachawdwr y byd, a merthyrwyd y mwyrif o'i apostolion am draethu ei genadwri

ef; a dinystrwyd Jerusalem, a thros filiwn a hanner o'i thrigolion; gwasgarwyd y gweddill o'r genedl drwy bedwar cwr y byd hyd y ganrif hon.

Yn y chweched fil, poblogwyd yr Amerig, y wlad ragorach nâ holl wledydd y byd, gan y cenedloedd; cyflwynwyd cyflawnder yr efengyl, drwy lyfr Mormon, i ddynion; sefydlwyd y deyrnas a ragwelodd Daniel, yr hon a lanwai yr holl fyd; a dechreuodd y Saint gasglu ynghyd yn rhagddarpariadol i ail ddyfodiad eu Messia ar gymylau y nef, a'i holl angylion, â fflam dân, i ddial ar holl wrthodwyr ei efengyl, fel yn y seithfed fil y gorphwysai y ddaear, ei chyflawnder adferedig, a'r gweddill o'i phreswlyddion oddiwrth bob gormes, a phoen, a marwolaeth; yr eistedda pob un dan ei wynwydden a'i ffigysbren ei hun, heb neb i'w ddyehrynu na'i niweidio, gan addoli yn unfrydol eu Gwardwr am fil o flynyddoedd, pan y bydd efe yn Frenin breninoedd, ac na bydd frenin arall ond drwy ei osodiad ef, ac yn ddarostyngedig wirfoddol iddo; pryd hyn bydd holl deyrnasoedd y byd wedi dyfod o anghenrhaid yn eiddo i'n Harglwydd ni, a'i Grist ef; a bydd yntau yn Frenin gweledig i'w Saint, pan na ddywed neb o honynt claf ydwyf; ond yn ystod y mil ddiweddaf hon, perffeithir yr holl Saint i fod yn addas breswlyddion o'r nef newydd, a'r ddaear newydd berffaith, ac anghyfnewidiol; a gorphen a y perffeithydd ei waith ar y ddaearen fach hon, a synud ei chylch i oleuni mwy tanbeidiawl, ac a ddyry ei deyrnas hon i fyny i'w Dad, fel y byddo Duw oll yn oll, ac oll yn debyg iddo!

Henffych i'r amser da sy'n dod,
Cawn weled ein priod Iesu
Ar gwmwl gwyn, yn fawr ei glod,
Yn dyfod i deyrnasu.

DESGRIFIAD O CALIFORNIA.

MAE y wlad hon yn gorwedd i'r gorllewin o'r 'mynyddoedd creiglŷd', i'r deau o Oregon, i'r gogledd o Mexico, ac i'r dwyrain o'r môr tawdd, yr hwn a olcha ei chyffiniau, o ledred 18^o hyd 42^o gogleddol. Mae ymddangosiad y wlad hon yn bur ddeniadol. Ar hyd ei goror mae gwastadtir lled uchel, gyda dyffrynoedd gwych a ffrwythlon, o wahanol faintioli yma a thraw; i'r dwyrain o'r *range* uchod y mae gwastadtir yn cyrhaedd o 20 i 150 o filltiroedd o led, o'r dwyrain i'r gorllewin, ac i'r de a'r gogledd ar hyd y wlad. Mae hwn, yn ddiddadl, yn un o'r dyffrynoedd brasaf a ffrwythlonaf a geir o fewn y byd; cynnyrch a gnyddu toreithiog yn naturiol o geirch, clover, a llin. Yn gyffredin tyfa porfa bur a melys arno, yr hwn a hoffa'r anifeiliaid yn fawr; ond y ceirch yn aml a dyfa hyd bump troedfedd o uchder, y clover o ddwy i dair troedfedd, ac y mae y llin yn rhagorol. Ddaear y dyffryn hwn yw marl-bridd dwfn, du, a bras; ond yr uwchdir sydd oleuach dywod-dir. I'r dwyrain addiyma mae dyffryn arall beth llai, ond llawn mor ffrwythlon â'r llall, ar hyd gyffiniau yr hwn y dyrchafa rhestr o fynyddau go uchel; ac i'r dwyrain iddynt hwythau y mae dyffryn mawr arall etto, ac yn dra ffrwythlon hefyd.

Y cynnyrch a dyfa yno yn fwyaf hyd yn hyn ydyw gwenith, yr hwn a ddyry mewn tymmor cyffredin o 30 i 60 o fwsbeli oddiar erw, ac ar ol

heuad un bwshel. Hysbyswyd fi gan ffermwr geirwir iddo gael 133 o ŵsheli un tro oddiwrth heuad un, a'r ail gnwd oddiar yr un tir heb hau 41; ac er mor anhwyguel yr ymddengys llyn i bobl y wlad hon, nid oes genyf fi un amheuaeth o'i eirwiredd, ac nid yw ryfeddach na bod ceirch yn tyfu heb eu hau hyd 5 neu 6 troedfedd. Myfi a deithiais (ebe yr hanesydd) drwy filoedd o erwau o'r cyfryw geirch. Mae'y gwenith o ryw da a thrwm; a'r gwahaniaeth mwyaf rhyngddo a'n heiddom ni yw, fod amryw dywysenau yn tyfu ar yr un gwelltyn! Dyma un achos o'i ffrwythlonrwydd, er mai yr hinsawdd yw y prif achos, efallai. Tyfa gwenith yr India, ffâ, pys, haidd, *tobacco*, a phob math o lysiau, yma yn doreithiog; ac nid oes hinsawdd yn y byd, debygwn, yn addasach i *rice*, *cotton*, a *sugar cane*, nâ California. Y ffrwythydd ydynt afalau, gellyg, *peaches*, *figs*, *almonds*, *olives*, *dates*, *oranges*, *lemons*, *citrons*, *pomgranates*, a *grapes*; mewn gair, pob ffrwythau a geir hyd y nod yn y cylchoedd cyhydeddol a geir yma yn hawdd. Cwyna rhai fod yma brinder coed mewn cyfartalwch i'r doldiroedd sydd heb ddim ond porfa a chnydau yn tyfu arnynt; ond yr ydwyf fi yn barnu fod yma ddigonedd o bob math o goed at wasanaeth y wlad, nad pa mor liosog a fydd ei phreswylwyr, heblaw y gellir eu tyfu yn gyflym lle y dewisir.

Hinsawdd y baradwys hon sydd yn *Spring* parhaus o'r braidd, o leiaf pi theinlir oerder gauaf, na phoethder hâf, nemawr. Yr achos o'r rhyfeddod hwn yw, y "*trade winds*," pa rai a chwythant o'r gogledd am y chwe mis hafaidd, ac o'r deau y chwe mis cyferbyniol. Weithiau mae yn fwy tymherus mewn rhai parthau hyd y nod yn lledred 28^o gogleddol yn yr amser a elwir gauaf. Ni wybuwyd i ddwfr rhedegog erioed rewi yno, nac i ddwfr safadwy rewi hyd drwch gwydr ffenestr. Nid oes aughen tanau mewn tai yn y gauaf, ond at wasanaeth y ty, sef, berwi, neu bobî bwydydd. Dechreua y "tymmor gwïawog," fel ei gelwir, yn Tachwedd, ac a barbâ hyd Chwefror, yn mha dymmor ceir cawodydd lesol o wlaw, a'r gweddill yn hîn sych, hyfryd ac iachus. Heuir gwenith drwy'r gauaf; a cheir amryw fathau o lysiau yn wyrddlas drwy'r cyfamser. Pan ddechreua y "tymmor gwlawog," tardda y dyffrynoedd a'r coedydd, ac ymwisga holl natur fel o'r newydd. Gellir cael dau gnwd o rai mathau o yd yn y flwyddyn. Yn Hydref a Ionawr mae y llysiau yn eu llawn flodau; ac addas y dywedir am y wlad hon fod "Hydref mor hyfryd â Mai." Pryd hyn gwelir gyroedd dirif o anifeiliaid dofion a gwylltion yn ymgasglu, dan lanu a brefu, o'r mynyddoedd i'r dolydd a'r dyffrynoedd gwelltog a danteithiol hyn, ac yn gwancus bori eu melys lysiau gyda llawenydd ymddangosodol, ac yn gorfoleddu yn y mwyni ad cyflawn o barotoadau helaeth natur ar eu rhan.

Am *horseyld* y wlad hon afreidiol dweyd eu bod tuhwnt i bob peth a welais rïoed. Gwelir yma a thraw yroedd dirifedi o wartheg a cheffylau. Perchem ga yr amaethwyr o 1000 hyd 20,000 o wartheg. ac weithiau gynnifer o geffylau! Prisiau y blaenaf yw o un i bump, a'r olaf o ddau i ddeg *dollar* y pen. Yn gyffredin caniateir i'r lwn a ddewiso ladd y nifer a fydd ond fod iddo ddechwelyd y coen i'r hwn y perthyna y *brand* a fydd arno; ac os na fydd *brand*, mae'r cyfan yn eiddo ef. Eu prif amcân yn magu y gwartheg yw, er mwyn eu crwyn; a lleddir miloedd er mwyn y crwyn yn unig. Lladdwyd miloedd o geffylau yma oherwydd eu bod yn lliosogi gormod. Mae yma lawnder o foch; ac y mae'r delfid yn ddirif; ac epiliant ddwy waith yn y flwyddyn. Mae

yma lawnder o helwriaeth, megys *elk*, *deer*, *antelope*, *bears*, *foxes*, *martins*, *beavers*, *muskrats*, *seals*, a *raccoons*. Ar fy nhaith drwy y dyffryn-oedd, gwelwn weithiau floedd o *elk* ar un golwg, ac nid llai o *antelopes*. Yn y tyimmor gauaf ymgasgla y gwyddau, y chwyaid, a llawer math o adar y dwfr, fel cynylau i'r culforoedd, afonydd, llynau, ac i'r caeau llafur; ac y mae clegar eu gwahanol leisiau a'u syfrdandod braidd yn annyoddefol ar brydiau.

Afonydd mawrin a mordwyol sydd yn y wlad hon hefyd; y fwyaf yw y *Sacramento*,* yr hon sydd fordwyol am dros 300 o filldirøedd wrth natur.

Mae pob math o *bysgod* i'w cael yn yr afonydd, a'r culforoedd hyn, yn lliosog.

Am *farsiendaeth* California, anhawdd cael gwell manteision o ran porthladdoedd, &c. Dywedir y cynnwysa culfor St. Francisco† yn unig holl lyngesau y byd yn ddiogel, heblaw fod yno amrai angorfeydd diogel a chyffleus ereill, fel Monterey, St. Diego, Bodego, &c. Yn mhob un o'r manau hyn mae trefydd yn cael eu hadeiladu yn gyflym; a dian y gwelir yma a thraw ddinasoedd cyn hir a gywilyddiant rai cant oed.

Trigolion California nid yw dros 8000, dwy ran o dair o ba rai ydynt Indiaid wedi eu gwareiddio; a'r gweddïll ydynt *Spaniards* neu *Mexicans*, gan mwyaf negroaid wedi ymgymysgu â phob gwaed, lliw, a graddau; ac oddieithr yr Ewropiaid, a'r Americanaid, sy'n yn eu plith, mae y trigolion yn bur annysgedig. Bernir nad oes ond tua 500 neu 600 o bobl wynion yn y wlad hon.‡ y rhai a berchir yn fawr.

Er annogaeth i ymfudo yno, caniatâ y llywodraeth i bawb a ddel, ei ddewis o dir, ac ar yr ammodau o fyw yno a'i lafurio. Ceir o dair i naw milltir ysgwar, yn ol rhif y teulu. Sefydlodd yr holl rai a ddaethant yma gyda fi yn y manau a ddewisent.

Yn ddiweddaf, dywedaf nad wyf yn meddwl fod gwlad yn y byd a gynnwysa y fath ddeniadau, nac a ddyry y fath obeithion a manteision i ymfudwyr â California, ac nad oes gwlad dan haul ag y darpara natur gymmairt ar ei rhan, er cynuorthwyo, hapuso, a dedwyddoli, ei thrigolion."—(*Allan o'r "St. Louis New Era."*)

D.S. Difynus i'n darllenwyr fydd hanes y wlad uchod, ac er y dichon ambell un feddwl fod y darluniad hwn rhy dda i fod yn gywir; i'r hyn yr atebwn yn unig nad ymddengys dim o hono rhy anhygoel i ni allu ei gredu; hefyd ni wrthbrofwyd mo hono gan y rhai a gawsant fanteision i wybod nad cywir ydyw.—GOL.

DARLUNIAD O'R BYD CREFYDDOL MEWN BREUDDWYD!

PAN yu teithio o fan i fan drwy y wlad, i geisio llesoli fy nghydgenedl, ac yn cael llawer o ddirmyg ac o wrthwynebiadau ganddynt, un llwrnod troais o'r ffordd i lwyn prydferth i orphwyso. Pan yn myfyrio

* Yma yr ymgyrcha y gwerysll blaenaf o'r Saint, ac y mae rhai wedi cyrhaedd eisoes.

† Yma y tiriodd y llongaid cyntaf o Saint a aethant o Gaerefrog oddiangrŵch *Cape Horn*.

‡ Ysgrifennodd yr hanesydd hyn tua thair blynedd yn ol. Acth miloedd yno wedi hynny.

ar y golygfeydd a welswn, sefyllfa ranedig a chymmysglyd y byd crefyddol, a'i debygolrwydd i'r hyn oedd yn amser yr apostolion, yn ddisymwth fe'm goddiweddwyd gan gwsg. Gwelwn fy hunan mewn cae mawr, yn mhlith llu aneirif o bobl o wahanol raddau, oedran, a lliwiau, oll yn cerdded yn ol a blaen yn groes i'w gilydd, gan edrych yn wsgus iawn ar eu gilydd, a chroes dynu. Mewn syndod, ymholais ag un a safai gerllaw, beth a allai achosi y fath olygfa? Pwy a pheth oedd aŷican y bobloedd hyny? Atebodd, fod yno rai o holl wledydd y byd, ac mai dyna eu dulliau o addoli, a'u bod hwy oll yn dysgwyl cyrrhaedd i'r un fan yn y diwedd. Wedi sylwi ar y poenau, y cospau, a'r creulonderau, a arferai y rhan baganaidd o honynt arnynt eu hunain, ac ar eu gilydd, troais ymaith mewn galar dwys, i weled ymddygiadau y rhai hyny a broffesent Gristionogrwydd. Cyn gynted ag yr ymgymmysgais â hwynt, gofynwyd i mi a oeddwn yn feddiannol ar grefydd, ac i ba sect y perthynwn. Eglurais fy nghyflwr yn ddiudedd iddynt, gan ddysgwyl cael cyfarwyddiadau i'r iawn ffordd. Erhyn hyn, amryw a ymgasglasant o'm hamgylch; ac er syndod mawr i mi, dywedai un, fel hyn y mae;—nage, meddai un arall, nynti sy'n iawn;—O na, peidiwch a choelio y rhai yna, nynti sydd yn myned ar hyd y ffordd iawn, meddai ereill: ac felly, aethant ben-ben â'u gilydd. Synais yn fwy etto pan glywn y cyfan, er mor groes i'w gilydd, yn ceisio profi eu credoau yn ysgrythyrol! Fe'm siomwyd fi gymmaint oherwydd eu croes-haeriadau, nes yr oeddwn ar droi ymaith mewn anobaith, pan y daeth ereill yn mlaen ataf i'm cysuro, gan fy ngwahodd yn daer i ymuno â hwynt; a dywedent nad oedd yr hyn yr ymrfaelïai y lleill yn eu cylch ond pethau bychain, disylw, ac afreidiol; ac y cawn fy newis pa un ai eu credu neu beidio, tra byddwn o ddymunïad da; ac ond i mi ymuno â hwynt, y byddai pob peth yn dda. Er yr hoffwn eu haelioni, etto dysgai rheswm fi eu bod yn rhy haelionus ar gost y drefn a osodwyd, nad beth oedd. Gwyddwn y byddai yn rhaid cadw hōno yn hytrach nâ'r hyn a ddewiswn i, na hwythau; er hyny, drwy eu desgriadau hyawdl o ogoniant y nef, carïad Duw, a'r lles o fod yn Gristion; drwy eu lleisiau mwyn, a'u canu, swynasant fi i'w dilyn am enyd; ond buan y clywwn ereill yn ymgynhenu, gan ddarlunio poenau uffern yn echryslon, a bygwth pawb nad ymunai â hwynt, mai dyna eu tynghed. Ereill a haerent nad oedd y fath le ag uffern, ond mai poenau dychymyngol oedd y cyfan; ac nid oedd nemawr bwnc a broffesai y naill a'r na ddeuai arall i'w wadu. Diflasodd hyn fi, a hysbysais fy mwriad i'w gadael hwynt a'u taeru, ac na thrafferthwn ychwaneg o barthed i grefydd, os dyna'r fath beth oedd yr hyn a enwent yn Gristionogrwydd. Ar hyn, annogasant fi i ymholi â'u dysgedigion, gan addaw y huasai i mi gael goleuni ac eglurhad boddlongar ganddynt hwy. Ond erbyn ymweled â'r naill a'r llall o honynt, ceisient hwythau egluro yr ysgrythyrau yn ol eu credoau; ac am brofion o'r hyn a ddywedent, cyfeirient i ryw lyfrau mawrion, a gwahanol iawn i'w gilydd, pa rai, meddent hwy, a gynnwysent feddyliau a thybiau duwinyddion enwocaf y wlad; ac yn wir, yr oedd eu cywreinrwydd i ysbrydoli ac esbōniō eu deongliadau priod mor barod, a'u hyawdledd a'u honeddigeiddrwydd mor ddeniadol, ac fel plastr ar bob clwyf, a'm hawydd innau am grefydd mor fawr, nes y penderfyn-

ais ymuno â'r rhai mwyaf poblogaidd, a nofio gyda'r llifeiriant mwyaf, mewn hawddfyd a pharch. Gadewais heibio ymchwiliad drosof fy hun, ac ymdrechais i gredu ac i ufyddhau iddynt hwy; ond, cyn i ys- bryd pleidiol blanu ei grafangau mor ddwfn yn fy nghalon, fel na wrandawwn ar ddim na neb arall, newidiodd yr olygfa, a gwelais fy mherygl. Yn ddisymwth cysgodwyd y lliaws gan gwmwl mawr a rhyfedd yr olwg arno! Clywid rhyw swm uchel a dychrynlyd, yr hwn, er uched oedd twrf y hobloedd cyn hyny, a'u dystawodd, ac a'u llanwodd oll â braw, gan syllu yn graff arno. Ac wele berson tebyg i ddyd yn dyfod oddiwrtho tuag atom. Pawb yn frawychus a ddyfeis- ient pwy oedd, a pheth fyddai y canlyniadau, o'i ddyfodiad. Dywedai rhai mai arwydd o ddiwedd y byd oedd; ereill a ddywedent, nage; ond credai y mwyrif y cyntaf, oherwydd nad oedd neb i ddyfod mwy- ach oddifry, meddent, hyd ddiwedd y byd. Ar hyn safodd y bôd dys- clae'r yn eu canol; ac, yn mhlith ereill, ymwithiais tuag ato i glywed ei hanes, o ha le y daeth, &c. Ond yr unig atebiad a geid ganddo oedd, ei fod wedi dyfod o ryw blaned bell. Sylwais yn graff ar ymddygiad, ynghyd â'r hyn a ddywedai, y dyeithryn hwn; canys llefarai yr un iaith â ninnau. Yn fuan nesaodd dysgedigion y sectau ato, a gofyn- asant iddo a oedd efe yn credu yn, ac yn feddiannol ar, y grefydd Gristionogol? Atebodd na wyddai ddim am dani, ac na chlywodd erioed son am y fath grefydd o'r blaen; ond ymddangosai yn awydd- us i'w deall. Ymdrechais y gwahanol bleidiau ei herswadio mai gan- ddynt hwy'r oedd y wir grefydd. Yntau a anfoddlonodd yn fawr i'r ymrysonau hyn, ac a ofynodd am eu rheolau, neu safon eu crefyddau, er terfynu y ddadl. Cyrhaeddasant y Bibl i'w law, dan ei ganmol yn fawr, mai llyfr y llyfrau oedd; ac mai ynddo y gwirir yr hyn a ddy- wedasant wrtho, ac y cai yr efengyl yn bur; ac mai dyna oedd ffyn- nonell goleuni a gwybodaeth, yr hyn a greodd ynddo awydd mawr i'w ddarllen yn fanwl.

Wedi darllen y llyfr yn ddiuedd, hoffodd yr athrawiaeth a ddarlun- iai, yn enwedig wedi iddo ddarllen hanes Iesu Grist, dyben ei ddyfod- iad i'r byd, yr efengylau, a llythyrau yr apostolion at yr eglwysi. Gor- lenwyd ei fynwes o lawenydd pan ddarllenai yr addewidion mawrion a addawent ar ammodau mor gyrhaeddadwy. Ond pan ddarllenodd 1 Cor. xii; Rhuf. xii; Eph. iv, a manau ereill, lle y deallai ddarfod i Dduw sefydlu eglwys ar y ddaear, a gosod apostolion, prophwydi, &c. i'w harwain, ac addaw i'w deiliaid faddeuant, a chyfiawnhad, ac y rhoddai o'i Yshyd Glân iddynt yn ei ddoniau, megys iaclâu y cleif- ion, llefaru â thafodau dyeithr, cyfieithu drwy'r Ysbryd, prophwydo, gweledigaethau, a gweinidogaeth angylaidd, &c., penderfynodd, ar- gost pobpeth, ufyddhau i'r aminodau, a bod yn aelod o'r fath eglwys ogoneddus â hon. Ni ddaeth i'w feddwl i ammau bodoldeb y fath eg- lwys, ac ni ddychymygodd yn amgen na bod y rhai hyny a broffesent y fath sel drosti, ac a'i hanrhegasant â'r llyfr gwerthfawr a addefasant yn safon a rheol eu heglwys, yn mwynhau y doniau melys a addawai. Gofynnodd i rai o honynt ei arwain at un o'u hapostolion, fel yr ymddy- ddanai ag ef am yr addewidion gorfoleddus hyn. Atebasant ef,— "Apostolion yn wir! nid oes y fath fodau dyeithr â hyny yn ein heg- lwysi ni yn y dyddiau hyn, na'u heisieu ychwaith." Gwelwn wyneb-

pryd y dyeithryn yn gwelwi, a methodd ddweyd gair am enyd, gan faint oedd ei siomedigaeth. Yna gofynodd drachefn yr un peth, canys ni allai gredu ei fod wedi deall eu hatebiad vn gywir; ond gorfodwyd o'i w gredu yr ail waith, drwy fod y cyfan yn tystio gyda gwên wawdus, mai ffolineb oedd ymholi am apostolion yn yr oes hon. Wedi ymadnewyddu rhywfaint o'i syndod, dywedai, "Wel, wel! os nad allaf gael y fraint o ymddyddan ag apostolion, mae genyf radd o obaith etto: dywed y llyfr a ganmolech wrthyf fi, mai y swyddwyr nesaf atynt yw prophwydi; arweiniwch fi at un o honynt hwy, ynte." Yr ateb i hyn etto oedd gyffelyb i'r llall. Etto, fel dyn am ei fywyd, ymholai gyda'r naill a'r llall, gan bwy o honynt yr oedd yr eglwys a feddai y swyddau a'r doniau a ddesgrifiai y llyfr da hwnw; canys hōnai pob un mai ganddynt hwy yr oedd, a'u bod hwy yn credu y llyfr; ond nad oedd neb o honynt yn meddu, yn credu yn, nac yn gweled eisieu apostolion, prophwydi, nâ'r doniau ysbrydol hyny. Cyhuddodd y dyeithryn hwynt oll o fod wedi ei dwyllo yn greulon, drwy roddi darluniad o'r fath eglwys yn ei law, ei annog i'w ddarllen, ac iddo. drwy wneuthur hyny yn ddiuedd, goelio y gallai eu meddiannu; ac yn awr, wele hwythau eu hunain yn eu gwadu! ac yn ei ddarostwng ef, o'r radd uchaf o obaith a llawenydd, i eithafion anobaith, drwy haeru nad allai fwynhau y doniau hyny. Etto, haerent oll wrtho eu bod yn rhodio yn ol y llyfr hwnw! Ar hyn, dywedodd mai pobl rhagrithiol a thwyllodrus iawn oedd trigolion y blaned hon, rhagor yw pobl ei wlad ef. Yr ydych chi oll, ebe efe, yn dweyd un peth, ac yn meddwl peth arall hollol groes iddo; ac nid mewn dim y cydunwech â'ch gilydd, er pan wyf fi yn eich plith braidd, heblaw eich bod yn gwadu y llyfr yna a broffeswch ei gredu! Dywedai iddo feddwl, pan yr oedd ganddo obaith am y grefydd yna, ei fod, drwy gyfnewidiad ei wlad, wedi ennill mwy nâ gwerth y blaned lle trigasai; ond yn awr, er ei ofid, nid yn unig y mae yn ddiobaith o'i chael, ond y cyfeillion newydd a rhyfedd hyn a'i blinant fwyaf, gan na wyr pa fodd yn y byd i'w coelio am ddim a ddywedant. Gofynai, ai arferiad gyffredin y wlad hon oedd dweyd pobpeth o chwith! Cyfrōodd hyn y lliaws i'w erbyn, yn enwedig pan welsant ei fod yn rhy resymol i ymuno â neb o'u pleidiau hwy. Dannododd iddynt eu rhagrith, a dywedai na fynai efe â'r peth a alwent hwy yn Gristionogrwydd; os na chuffai y grefydd a ddesgrifiai y llyfr, y hyddai heb un esgus. Ar hyn. casasant ef, a gwaeddasant ar ei ol mai twyllwr oedd efe; ereill a ddywedent ei fod ef wedi gwallgofi, &c.: a'r holl grytiaid drwg â'i lluchiasant â cherig o'u plith hwynt; a'r rhai mwyaf ceccus o'r dysgedigion a waeddent o'r lleoedd uchel yn y dyrfa am iddynt ymogelyd rhag cael eu twyllo gan y dyn drwg hwnw; a phan hysbysasant y werin ei fod ef drwy wrthod eu crefyddau hwy, yn rhoddi sarhad mawr ar, ac yn cyfeirio fod eu holl dadau duwiol wedi myned i uffern, bloeddiasant yn un foullef fawr am dros ddwy awr,—“Ymaith â'r fath dwyllwr haerllug o'r wlad; mawr yw y dduwies fawr a addolodd ein tadau.” Diangodd y dyeithryn i ben nynydd, i fan dirgel, yn noeth, newynog, ac archolledig. Minnau, wedi gweled y driniaeth a gafodd, ac mor ddiachos; a dosturiais wrtho, ac a geisiais ei amddiffyn; canys yr oeddwn i nau, wrth wrando ei amddiffyniadau ef, a darllen y llyfr, wedi credu yn, ac

yn ceisio dangos i creill yr anghenrheidrwydd am, yr. holl swyddau a'r doniau ysbrydol yn yr eglwys, cyn y gallai fod yn eglwys i Iesu Grist; ac yr oedd eil fy llygaid eisoes yn dechreu agoryd i weled effeithiau tost y dirywiad oddiwrth y ffurf hōno o athrawiaeth ag a draddodwyd i'r byd gan Iesu Grist a'i apostolion; a pha fwyaf a amlygwn o hono i'r werin, mwyaf y cenfigenai eu bugeiliaid wrthyf; galw-ent finnau yn heretic peryglus; ac, heb un cyhuddiad arall i'm herbyn, troisant fi allan o'u plith, gan ryhuddio ereill i beidio dod yn agos ataf, fod pla mwy peryglus arnaf nâr gwahanglwyf. Ar hyn, estynent eu bysedd yn wawdus ar fy ol, a dywedent ystoriau anwired- dus arnaf, er ceisio duō fy nghymmeriad; ac yna y crytiaid a floeddiasant—"Dyna ddyn yn credu fod eisieu apostolion, prophwydī, a gwyrtiaid." "Dyna au-brophwyd," ebe ereill; ac o'r diwedd daeth rhyw un "Parchedig" iawn yno o fan arall, ac a waeddodd—"Gwyl- iweh rhag y dyn drwg a thwyllodrus yna, canys *Mormoniad* ydyw." Gyda bod yr enw o'i ben ef, dyna efe drwy yr holl benau oedd yno, nes, rhwng eu swn, a'u gwelod bawb yn cydio mewn careg, myfi a'r rhai ereill a gredent y Bibl a ffoisom o'u plith am ein bywyd. Ar hyn deffroais, ac wele breuddwyd oedd!

ENGHRAIFFT O ORMES AR Y SAINT.

MAE yr hyn a ganlyn yn deilwng o'i groniclo yn mhlith gorchestiorā ein hoes grefyddol:—Yn ddiweddar, ymosodai terfysglu o ddyhired, gan mwyaf, os nad oll, yn grytiaid proffeswyr, ar dy lle y pregethai y Saint yn Cwmcelyn, gan ddryllio y ffenestri a'r drws â cherig, er aflonyddu yr addoliad. O'r diwedd, aeth gwr y ty i ymofyn cwnstabl o'r enw William Owens, un o'r Bedyddwyr, ac Iforiad, i amddiffyn ei dy rhag yr erlidwyr. Ac wedi i'r terfysgwyr gilio, daeth y cwnstabl yno, bid siwr; a'r modd yr amddiffynodd y Saint oedd, drwy *ddemandō coron am ei siwrne!* Ac er pawb, a phob peth, nid âi, ac nid aeth, ymaith ond i ddychwelyd, nes ei chael! Yr esgusawd a gynnygiai dros ei daerineb dinacâd oedd, "oherwydd iddo wirio ar y dechreu y mynai y goron," ebe efe! a gwell ganddo yspeilio ei gymmydog na thori ei air! Gobeithiwn na cheir arall drwy Gymru yn dal at ei air mor dyn â hwn. *Too much of the good thing is good for nothing*, ebe y Sais; felly y gall y dyoddefydd addef, fod gair y llall wedi costio coron iddo ef.

ENGHRAIFFT I BROFI DWYFOLDEB MORMONIAETH!

MERCH ieuanc o'r enw Margaret Jones a weithiai yn ngwaith Thomas Brewer, Ysw., Nantyglo, a fedyddiwyd gan y Saint, ar ei phroffes o'i ffydd yn Mab Duw. Pan ddeallodd y *steward*, William Munkle, hyny, dywedodd wrthi, y troai efe hi o'r gwaith, os na wadai ei chrefydd! Atebodd y ferch na wadai hi ei Harglwydd, serch colli ei gwaith. "Wel," ebe efe, "dos dithau ymaith y fynyd hon; canys yr ydwyf fi, a Tom Brewer, yn benderfynol na chaiff un o'r Saint weithio yn y gwaith hwn tra byddo ein dau lygad ni yn agored!" Anhawdd genym goelio fod boneddig, o gymmeriad a dylanwad Mr. Brewer, wedi ym-

ddarostwng i ymddial ar rai mor ymddibynol, drwy y fath örmes a hyn. Etto, gorfoda y ffaith ni i gredu hyny, yn erbyn ein hewyllys, am ei was ef. Er y cwbl, y gwaethaf o'n dymuniadau tuag ato yw, ar i'r Hwn sy'n cynnal ei "lygaid yn agored," fod yn hir-ymarhous wrtho, nes y delo i weled mewn pryd mai caled yw gwingo yn erbyn y symbylau, a dyfod i weled fod yr hwn a gyffyrddo â phlant Duw yn cyffwrdd â chanwyll ei lygad ef. Cofus genym eiriau Crist,—“Y neb a fyddo byw yn gyfiawn yn Nghrist Iesu a erlidir ”

AT EIN DOSPARTHWYR.

GWYDDOCH chwi, anwyl frodyr, am lawer o'r rhwystrau sydd ar ein ffordd i gyhoeddi ein hegwyddorion, ac i'w hamddiffyn, fel yr amddiffyna cewri traddodiad eu caerau, ac yr annelant eu magnelau i'n herbyn o'r pedwar gwynt. Gwyddoch leied ein gwerthiad, ac mai arian parod yw ein harwyddair o'r dechreu (ac ni all fod yn amgen); a thra y diolchwn o galon am eich help hyd yn hyn, taer erfyniwn am eich cynnorthwy a'ch cydweithrediad yn yr amser dyfodol, drwy ymdrechu i werthu y *Prophwyd*, &c., hyd y galloch; ac, yn enwedig, hwylusech ein ffordd, drwy anfon yr arian am danynt mor gynted ag y galloch, i gyhoeddi y lliaws o draethodau sydd genym ar wahanol bynciau athrawiaethol, &c., eisoes yn barod i'r wasg, a mawr anghen am danynt; canys nid elw yw ein dyben, ond lledaeniad y gwir drwy ein gwlad. Y mae y rhan fwyaf o arian y gyfrol flaenorol heb gyrhaedd hyd yma etto, ond cânt cyflawn roesaw pan y deuant. Cydweithwyr ydym ni oll yn y win!an olaf hon; a diau mai yn ol ein ffyddlondeb yn hyn, fel yn nghyflawniad pob dyledswydd arall, y derbynia pob un ei "geiniog" ar ddiwedd y cynhauf mawr dan ein dwylaw.

Gellir cael y gyfrol gyntaf yn gyflawn, os gelwir am danynt yn fuan. Os oes rhai o'r rhifyn cyntaf ar law, na ellir eu gwerthu, anfoner yn ol y cyfle cyntaf.

Ymdrechir ateb cwestiynau y dosbarthwyr o barthed i athrawiaeth, dyscyblaeth, a phob peth arall a lesola y Saint, nid er ymryson yn nghylch geiriau, a chwestiynau anorphen, ond er cyflwyno pob llewyrch o oleuni, a gwneyd y lles a ddymunwn i bawb, hyd a allai ein cyhoeddiad bychan hwn.

* * * *Cyfeirier at Capt. D. Jones, George Town, Merthyr Tydfil.*

HYSBYSIADAU.

YSGYMNWYD dyn o'r enw Morgan Thomas, un o aelodau cangheir Merthyr, er's tro yn ol, oherwydd troseddiadau gwarthus ac anedisciriol. Mae yn nodedig yn mhlith y Saint am y drafferth fawr a gaed gydag ef; ac y mae mor ddiddadl ddarfod iddo deimlo cymmaint o nerthol weithrediadau Ysbryd Duw â nemawr ddyn, drwy ei waredu o law y gelyn; ac er hyn oll, clywsom ei fod ef yn awr yn erlidiwr creulon. Druan o hono; gwirir y gair a ddywedwyd, mai "peth ofnadwy yw syrthio yn nwyllaw y Duw byw."

.. Dymuna John Pugh, gynt o'r Llwyni, hysbysu ei fod ef yn galw ya

ol, hyd eithaf ei allu, y camgyhuddiadau a draethodd ar y Saint, ei fod yn canfod ei bechodau yn ysgeler, yn dymuno maddeuant gan y Saint a Duw, ynghyd â chael y fraint o ddod yn ol i'r eglwys, a rhan yn ngweddiau y Saint, fel y gallo ei esiamplau a'i broffes gyd-dystiolaethu i bawb ei fod yn dwyn ffrwthau addas i edifeirwch. Daeth o flaen y cynghor, a gwnaeth adferiad boddhaol i bawb. Ysgrifennodd at eglwys y Llwyni, i'r un perwyl, yn rheolaidd; a da genym hysbysu ddarfod iddynt hwy gymmeradwyo yr eiddo ef a'i wraig.

Dymunwn sylw difrifolaf yr holl Saint ar sefyllfa ein brodyr a'u chwiorydd Americanaidd ag sydd yn alltudion yn yr anialwch, wrth y miloedd, oherwydd tystiolaeth Iesu, a gair Duw, ar y cynllun a drefnwyd yn y cynghor, er eu cynorthwyo yn eu hanghenion mawrion a lliosog.

D.S.—Newydd eu cyhoeddi genym yn Gymraeg, draethawd, yn profi oddiwrth eu ffrwythau, pwy yw "*Gau-brophwydi y Dyddiau Diweddfaf.*"—Pris Ceiniog. Hefyd, "*Beth yw Mormoniaeth?*"—Pris Dimai: Amddiffyniad yn ngwyneb cyhuddiadau haerllug "*Gwew y Dôn,*" yn y Seren Gomer.—Pris Ceiniog.

* * * Gellir cael y llyfrau Saesonaeg a ganlyn yma, gyda gostyngiad mawr yn eu prisiau, am arian parod; sef, *Llyfr Morion, 3s.*—*Doctrines and Covenants, 2s. 6d.*—*Hymn Books, 1s. 6d.* heblaw amryw draethodau byrion. Hefyd, gellir cael y *Millennial Star* gyda'r *Prophwyd* yn fisol, drwy anfon yr enwau a'r arian, pris 3c. yr un. Cyhoeddir ar y 1af a'r 15fed o bob mis.

BEDYDDIADAU YN MIS MAWRTH.

Dawg genym hysbysu ein darllenwyr nad allwn gyhoeddi pa nifer a fedyddiwyd yn y mis diweddfaf, nac yn agos, oherwydd esgeulusod y llywyddion i anfon y rhif i ni. Hyd yn hyn ni chawsom air o hanner y manau lle y clywsom fod rhai wedi eu bedyddio; ond gobeithiwn mai dynia y tro diweddfaf ein gorfodir i gynnwys yr esgusawd hwn; a hysbyswn am yr hyn a wyddom.

Merthyr.—Bedyddiwyd naw ar eu proffes o'u ffydd a'u hedifeirwch.

Dowlais.—Bedyddiwyd deunaw. Mae y "dyn pechod," mewn llawer dull, yn dangos ei-genfigen at y gwir yma, ac wedi metbu rhwystro y gonest eu calon i'w golleiddio mewn un dull arall, cynghreiria, fel y gwnaeth yn yr America, pan ar fin trauc, gan gyfeirio, awgrymu, a phroffwydo, fod y Saint am wneyd, dweyd, neu feddwl, rhywbeth neu gilydd yn fradwrus yn erbyn rhyw sefydliadau gwladol, gan ewyllysio drwy hyn godi terfysg, neu ryw esgusawd i ddial eu llid ar y diniwed; ac ni'n siomair os cynnydda yr ysbryd hwn yn y mynwesau halogedig a'i magodd, nes y credir gan ereill, ie, ganddynt eu hunain o'r diwedd,—nes yr ystyriant eu bod yn gwasanaethu Duw drwy dyngu anudon i geisio ei brofi! Syned a fyno, gwelsom yr ysbryd hwn yn esgor ar y fath ysgelerder cyn hyn, fwy nag unwaith, ie, nes drachtio gwaed gwirion yn lif bron.

Pendaran.—Bedyddiwyd tri yn y mis diweddfaf.

Rymni.—Clywsom am chwech wedi eu hedyddio. Rhai a fuont yn aelodau, ac ereill yn pregethu gydag enwadau ereill, gyda derbyniad a dylanwad. Mawr yw eu braint.

Nant-y-glo.—Clywsom fod amrai; ond ni wyddom pa nifer, nac yn nemawr i'w drwy gymmanfa Sir Fynwy.

Llwyni.—Bedyddiwyd dau, ac argoelion gobeithiol bod ereill yn caru y gwir.

Cwmbach.—Un a fedyddiwyd yma, ereill yn addaw, ac etto yn oedi.

Treboth.—Hysbysa y brawd J. Matthews iddo fedyddio dau, a bod galwad mawr am bregethu yn y cylhoedd hyny, a mwy na allant lanw.

Diewyd.—Bedyddiwyd pump, gyda dysgwyliaid llon am ychwaneg yn fuan.

Caerdydd.—Ni allwn rifo, ond meddwl y gallwn ddawyd fod mwy yma nag yn un ganghen arall y mis hwn; ac efallai mai oherwydd fod yno boethach erlidigaeth y mae hyn o lwyddiant. Da genym fod pawb yno yn ilon a chadarn yn y ffydd er y cyfan. Yn mlaen â hi.

Llanbyddar.—Mae y *Daniel Ddall* hwnw a'i lyfryn wedi achosi rhyw gyffroad o'r newydd, a mawr y cyrchu sydd i wrando ar bregethwyr y Saint, a llawer yn credu ein crefydd, wedi darllen ei lyfryn ef a'r eiddom ninnau. Yn yr wythnos ddiweddfaf bedyddiwyd dau yno. Yr oedd tyrfa fawr yno yn gwrandio y pregethu yn siriol a pharchus, ac argoelion fod llawer yn credu. Addawodd dri ereill ufyddhau y Sul canlynol i hyny. Felly gwelir mai gau-brophwydoliaeth yw eiddo *Daniel Ddall*, lle y cyhoedda, "Bydd pawb yn eu gadael cyn hir," er ei fod mor wired â'r gweddill o'i lyfryn braidd oll. Druan o hono, aed yn mlaen os myno; tuedda ei wacthaf ef, a phawb o'i bleidwyr, er cynnydd i "Formoniaeth."

Brechfa.—Lle arall gerllaw i Daniel ydyw hwn; Ye, lle yr adwaenir ef yn dda. Bedyddiwyd chwech er pan y dechreuodd ddyrchafu ei fraich i'n herbyn.

Caerfyrddin.—Yn y fan yr argraffwyd ei lyfryn, ac er dylanwad ei *bartner* hefyd, mae y cyfan yn cydweithio er lledaeniad y gwirionedd, yr hyn a brofa ein bod yn bedyddio mwy yn y manau lle eu hadnabyddir oreu, nag a wnelid o'r blaen yn yr un faint o amser. Bedyddiwyd chwech, a lluoedd yn cyrchu i wrando, er pan ddechreuodd eu herlidigaeth; ac felly y dysgwylwn y bydd y gwrthweithiad yn y gweithfauu hyn hefyd, a phob man. i'r graddau y darllenant ein hamddiffyniad, a chymharu "Haman" ac ef ei hun yn ddiuedd, a barnu y ddwy ochr yn ol yr ysgrhythrau.

Rhosllanerchrugog.—Bedyddiwyd tri yn ddiweddar. Bedyddiodd yr henuriad R. Evans amryw yma a thraw drwy y Gogledd. Hysbysa Abel Evans, wedi ymweled â'r mwyrif o'r eglwysi drwy'r Gogledd, eu bod oll, yn ddiethriad braidd, yn wresog yn yr Ysbryd, yn gadarn yn y "ffydd a roddwyd unwaith i'r saint," yn mwynhau doniau a bendithion mawrion a lliosog yn mhob canghen, ac yn ymestyn yn mlaen tuag at berffeithrwydd. Yr Hwn a ddechreuodd ynddynt y gwaith da, a'u cynnalio ynddô hyd ddydd ein Harglwydd Iesu Grist, yw'n gweddi drostynt oll. Amen.

C Y N N W Y S I A D.

Catecism i Athrofeydd y "Peirch".....	53	Darluniad o'r Byd Crefyddol mewn	
Dyledswyddau Dysgawdwr.....	55	Brenddwyd.....	61
Newyddion oddiwrth y Saint sy'n yr		Enghraifft o ormes ar y Saint.....	65
Anialwch.....	57	Etto, i brofi dwyfoldeb Mormoniaeth	65
Rhyfeddodau rhyfeddaf y Saith Mil		At ein Dosbarthwyr.....	66
Blynyddoedd.....	58	Hysbysiadau.....	66
Desgrifiad o California.....	59	Bedyddiadau yn Mis Mawrth.....	67

MERTHYR-TYDFIL:

CYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH
HEFYD GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL.

PROPHWYD Y JUBILI.

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 11.]

MAI, 1847.

[PRIS 2g.

Y "*CASAWR TWYLL*" WEDI EI BROFI YN *GARWR*,
LLUNIWR, A CHYHOEDEWR, "*TWYLL*" EI HUNAN.

YN rhifyn Mai o'r *Diwygiwr*, tudal. 144, &c., gwelir traethawd hirfaith dan y teitl, "*Y Mormoniaid yn Dwyllwyr*," wedi ei gyfansoddi gan rywun a eilw ei hun, "*Casawr twyll, o'r Coed-duon*." Er fod yr ysgrif drwyddi yn cynnwys digon o brofion i bob dyn meddylgar, fod ei hawdwr yn teilyngu y cymmeriad a roisom arno, etto lloffwn rai tywysenau o'i lafur, i ddangos yn eglurach y fath gynauaf a all ddysgwyl, ynghyd ag aflendid y cae a gynnyrcha y fath fresych. Y naid gyntaf a ddyry yr awdwr campus i geisio profi fod yn agos i 1500 o'i gyd-ddynion yn Nghymru, heblaw cannoedd o filoedd ereill, yn deilwng o'r cyhuddiad trwm uchod yw, gwaeddi o ben y clogwyn nerth ei ben, "*Gau*," a pharhau i waeddi "*gau*" ddim Mai na phedair gwaith yn ei gychwyniad i frwydr. Ar y pegwn hwn y seilia ei holi gam-gyhuddiadau rhagymadroddol, fel pe buasai eisoes wedi ennill y frwydr cyn saethu ergyd! Ai peth bychan yn ei olwg yw condemnio yn ddibrawf y grefydd hono ag yr ymorphwysa cynnifer eu heneidiau arni? Os felly, profa mai mor fach fyddai ganddo i ereill wneyd yn gyffelyb â'i grefydd yntau.

Y "*MORMONIAID YN DWYLLWYR*."

Gan, aiê? *Gan* ba beth, tybied? Ai *gan* mai twyllwyr ydynt? Ond *gan* bwyll, y carlamwr buan, a phrofwch hynny yn gyntaf, ac yna bydd genym achos diolch i chwi; ond hyd hynny byddai yn llawn mor briodol i ni waeddi, "*gan* mai twyllwr ydych chiwi, iê, hawb ereill." Wedi sylfaenu ei gastell awyrawl ar y gair "*gan*," pentyra gruglwyth o gamgyhuddiadau yn lle meini, ac a'u dwlia wrth eu gilydd â hylif anwiredd yn lle *morter*; ac felly, nid rhyfedd iddynt gwmpo blith draphlith, a'i gladdu yn yr adfeilion,

canys dywedir mai yr hwn a gloddia ffos i'w gymydog a syrthia iddi ei lunan. Wedi cyweirio ei wely yn meddyliau ei ddarllenwyr (fel y gwna y mochlyn yn y domen), drwy leisio hen *dune* pob twyllwr, sef "nad o genfigen at y Seintiau," ond o "*gariad at ei gydgenedl*," y mae y cyfan, rhag ofn iddynt gael eu twyllo, &c. Ond wrth ei ffrwythau y barnwn ni ef, serch hyny; a barned y darllenydd oddiar yr enghreifftiau dilynol o'i frawddegau didwyll a chariadus! pa un ai *casawr*, ynte carwr a chynlluniwr twyll a chamgyhuddiadau yw efe. "Haerant eu bod yn alluog i wneuthur gwyrthiau, &c.," ebe efe. Os yw efe wedi eu canlyn gymmaint, nes cael manteision i ddeall eu twyll, fel y dywed ei fod, y mae yn rhaid ei fod yn deall hefyd mai camgyhuddiadau pwrpasol, a hollol ddisail, yw hyna; neu ynte, pa un bynag a fu ai peidio, mae wedi ei ddala yn anwireddus yn hyn, a dylasai geisio deall yn well beth a greda y Saint, cyn meiddio eu cyhoeddi i'r byd. Ai tybied ei fod mor bendew, fel na wel y gwahaniaeth mawr sydd rhwng y broffes o fod yn addoli y Duw hwnw a addefid yn awdwr gwyrthiau gynt, a'r hwn a addefir etto yn anghyfnewidiol, yr hyn sydd gyfartal ag addef y cyflawna efe (nid dynion) wyrthiau yn awr, â bod dynion yn proffesu gallu gwyrthiol?

Dealled y gwahaniaeth sydd rhwng ei haerid ef a'r gwir. Cariad at beth a'i cymhellodd i hyn, tybied? Dywed hefyd iddo eu gweled yn methu iachâu un plentyn bach, a chynnygia hyny yn brawf o'u twyll! Yn ol y resymeg yna, condemnia yr holl apostolion oherwydd iddynt fethu bwrw y cythraul o'r dyn hwnw! Ie, profa Paul yn waeth twyllwr o'r hanner nâ'r Saint, oherwydd iddo ef fethu iachâu dau o leiaf a wyddom ni, nad faint ychwaneg, sef Trophimus a Timotheus. Ow, druan! dyma chwi wedi profi eich hun yn gymmaint o "*gasawr twyll*," nes ymresymu eich hun hyd yn ddeist twyllodrus, a gosod y Saint yn rhestr yr apostolion. Diolchwn i chwi am ein gosod yn y fath gwmni. Yn mhellach, addefwech efelychiad y Saint o'r apostolion, drwy eu hufydd-dod i'r defodau dwyfol o encinio ag olew, gosod dwylaw, &c. Ond pa dwyll sydd yn hyny, rhagor yn yr honiad cyffredinol a wna pob enwad i'r defodau apostolaidd ereill? Awgrymwech mai twyll oedd i'r fam geisio gan henuriad encinio ei phlentyn er ei iachâu; o'r goreu, tadogwn ninnau y "twyll" ar lango, a bydded rhyngoch chwi ag ef, canys efe a orchymynodd, pen. v, adn. 14,—"*A oes neb o honoch yn glaf, galwad ato henuriaid yr eglwys, ac enciniant hwy ef ag olew*," &c. Wele chwithau, fel pob deist arall, yn ben-ben ag apostol, drwy wawdio y Saint am ufyddhau iddo! Yn awr, ai y Saint, ynte chwychwi, yw y twyllwr sy'n proffesu rhith duwioldeb, ac yn gwadu ei grym hi? Beiwech ar y gweinyddwr, am ofyn i'r fam a oedd ei ffydd yn gref y cawsai y plentyn iechyd. Pa dwyll a ddichon fod yn hyny, heb addef fod cymmaint twyll yn Iesu Grist, pan y gofynnodd yr un fath i'r deillion hyny,—

“A ydych chi yn credu y gallaf?” ebe efe, Mat. ix, 27—30. “Yn ol dy ffydd bydded i ti,” ebe efe wrth arall, Luc xviii, 42. Dywed hefyd, “DY FFYDD (nid fy ffydd i, ond *dy ffydd dy hun*) a’th iachaodd.” Hefyd, ni feiddiai Paul ddweyd wrth y cloff hwnw yn Lystra am rodio, nes “syllu yn graff arno, a gweled fod ganddo [y cloff] ffydd i dderbyn iechyd.” Nid rhyfedd i chiw alw yr henuriad yn dwyllwr fel hwythau, gan iddo arferyd yr un geiriau.

“Yfodd yr henuriad beth o’r olew ei hunan,” meddwech. *Wel done!* gofalus iawn yn wir, rhag ofn fod ynddo niwed i’r plentyn. Am y “tywallt” ar ben y plentyn, tipyn o *slip* tafod oedd hyny, fel y “*Daniel Ddall*” hwnw a ddywed fod yr olew wedi rhedeg ar hyd ei ddillad, pan mewn gwirionedd, eneinio â phen bys a feddylent, neu a ddylasent ddweyd. Pa dwyll sydd yn hyn etto? Gan mai ceisio gafael ar y twyll yw ein gwaith, fel y diwygiom, sylwn yn graff, canys hyd yn hyn metha Mr. “Casawr Twyll” amlygu i ni namyn ei dwyll sectyddol ei hun. “Wedi gweddio gweddi y ffydd, dywedodd fod y plentyn yn iach,” meddwech. Wel, a fuasai efe mor ffol â dweyd hyny, oni buasai y plentyn yn iach? Pa les a fuasai? Oni welsai pawb nad gwir oedd? Dyma addefiad o allu Duw yn selio eu hufydd-dodi i’w ordinhadau drwy iachâu yr afiach. Da iawn, Syr. Addefwch hefyd, o’ch anfodd, “efallai ei fod,” yn iach. Nid yw eich bod wedi ei weled yn glaf y Mercher canlynol yn un prawf na allasai wella dair gwaith yn y cyf-amser. Etto, pe na huasai yn gwella, ar bwy y buasai y diffyg, ai ar y gweinyddwr? Os felly, ar Paul yr oedd y bai na wellasai Trophimus a Timotheus, i.e., ar Iesu Grist, medd eich rhesymeg, na wellaodd llygaid y dyn dall y tro cyntaf y rhoes glai arnynt: felly cwplwch yr henuriad â chwmmi apostolaidd o hyd, a dylai yntau fod yn ddiolchgar iawn i chiw am yr anrhydedd a rowch iddo. Wedi chwilio yr enghraifft, a methu gweled dim tebyg i dwyll y Saint, yn awr dangoswn y twyll a’i goleddwr yn eglur, fel hyn,—“Gwelais hwynt yn methu llwyddo i iachâu y cleifion,” ebe efe. Cymharwch hyn â’r dystiolaeth a addefa ddarfod i’r fam roddi iddo. Dywed ei bod yn credu, a’i sail oedd am fod ei phlentyn arall wedi cael iechyd drwy i’r henuriad arferyd yr unrhyw foddion. Os gwir tystiolaeth y fam, yr hyn ni chynnygia efe wrthbrofi ychwaith, (a pha fodd y gall?) yna gwelir y twyll yn eglur; i.e., dyna y twyll, a’r *bwcci bw mawr* y cyfeiria ato, ond gyda hyn o wahaniaeth ar yr un pryd, mai Mr. “*Casawr twyll*” yw ei dadws, ac arno ef y tadogir hefyd y twyll anwireddus. Diolch i chiw, Mr. Twyllwr, am ddangos eich hun mor gyhoeddus, fel y’n gwar-eder rhagoch!

“YSBRYD Y BROPHWYDOLIAETH.”

Am y “*Daniel dywyll*,” y soniwch, darllenwch ei hanes a gyhoedd-
asom eisoes, a chewch weled eich *partner* erlidgar fel “*Haman yr*

hongian ar ei grogbren ei hun," nes y ffeiddia pob carwr y gwir ef a'i ystranciau drwg; a gwir yw fod mwy o'i gydnabod wedi ymuno â'r Saint wedi, na chyn ei branciau, yn ol yr herwydd. Mae pob peth yn cydweithio er daioni i'r gwir. Yn nesaf, gwawdia ein hawdwr y Saint, am broffesu "Ysbryd y Brophwydoliaeth." Ond gan bwyll bach etto, nes y chwiliwn ei reol ei hun, er gweled pa un a'i *gwadwyr* ynte *proffeswyr* ysbryd y brophwydoliaeth a deilynga ddedfryd twyllwyr. Gofynnwn, beth yw "Ysbryd y Brophwydoliaeth?" Ateba Ioan, Dat. xix, 10, "Canys tystiolaeth Iesu ydyw ysbryd y Brophwydoliaeth." Pa fodd y gall neb hōni y naill a gwadu y llall, ynte, heb ei wrthddywedyd ei hun, neu Ioan? Dywed Paul yn 1 Cor. xii, 3, "Ac ni all neb ddywedyd (h. y. tystiolaeth, neu adnabod) yr Arglwydd Iesu, ond drwy yr Ysbryd Glân." Dywed Iesu Grist yn Ioan xvii, 3, "A hyn yw y bywyd tragwyddol, iddynt dy *adnabod* di yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonast ti, Iesu Grist." Felly, digon yw y *gwadiad* o "ysbryd y brophwydoliaeth," i brofi anadnabyddiaeth y gwadwr o Iesu Grist, a thrwy hyny ei ddieithruch i Dduw, canys nid oes neb yn dyfod at y Tad ond trwof fi, ebe Crist. Felly profa y gwadwr ysbryd y brophwydoliaeth ei hun heb Grist, heb Dduw yn y byd, i.e. heb ddim ond twyll rhagrithiol hyd yma! Amheuwch y resymeg o'r ysgrythyrau yna os gallwch, neu galwch eich haeriadau gwawdus yn ol, Syr. Erbyn hyn, wele ni wrth grogi yr anffyddiwr hwn â'i raff ei hun, eisoes o'n hanfodd wedi dwyn ei holl bleidwyr a'i gefnogwyr ar yr un *scaffold*! Druain o'r "Parchedigion" a gyhoeddasant eu dedfryd eu hunain yn eu '*Diwygiwr*.' Ai tybied na *ddiwygient* pe gollyngai eu darllenwyr y gorden oddiam eu gwddf unwaith etto? O'n rhan ni, ni allwn eu gollwug, ac ni olynga y Bibl hwy, nes y gwnant naill ai addef ysbryd y brophwydoliaeth, neu beidio dringo i bwlpu dau i groch-lefain gyda gwynebaw hirion a rhagrithiol, fod y Mormoniaid yn dwyllwyr, a'u bod hwythau yn dystion Iesu, yn weision i Dduw, &c. Rhaid fod haeru yr olaf, a gwadu y cyntaf, yn wrthddywediad hollol! Ai tybied na chywilyddia y *Parchedig* Olygydd o haeru ei fod yn was i Iesu Grist byth mwyach, hyd nes y caffo y cymhwysderau anhebgoroli hyny, sef "Ysbryd y Brophwydoliaeth" hwnw a wawdir gymmaint? Trown etto at Mr. "*Casawr Twyll*,"—"Haera y Saint eu bod yn gwybod pethau a fu, y sydd, ac a ddaw," ebe efe. Wel, ni honant drwy hyn, ond yr hyn a addawodd eu blaenwr geirwir iddynt yn ol eu hanghen, Ioan xvi, 13. Addawai, "pan ddel efe, sef Ysbryd y gwirionedd (sef yr Ysbryd Glân, sef, 'Ysbryd y Brophwydoliaeth') efe a'ch tywys chwi i *bob* gwirionedd." Etto, "a'r pethau sydd i ddyfod a fynega efe i chwi." Onid yw hyn yn cynnwys addewid o wybodaeth o'r "pethau a fu, y sydd, ac a ddaw," awgrymir y cyfan yn a ganlyn: "Eithr y Dyddanydd yr Ysbryd Glân, yr hwn a enfyn y Tad yn fy enw i, efe a ddyg i chwi *yr holl bethau, ac a ddwg ar gof i chwi yr holl bethau* a ddywedais i chwi." Etto, dywed, "Ysbryd y gwirionedd, yr hwn sydd yn deilliaw oddiwrth y Tad, efe a *dystiolaetha* am danaf fi." Paham, Syr, na adewch iddo yr un rhyddid i amlygu yr hyn a ewyllysia i'r Saint yn awr fel cynt? Atebed a allo! O'r gyfrol sant-aidd anturiwn herio ein holl wrandawwyr i ateb paham! Hyd yma mae y '*casawr twyll*' yn addef proffes y Saint yn ysgrythyrol, ac ar ei

wadiad ei hun profir ef yn wadwr yr ysgrythyrau! canys cofier mai y *broffes*, a'r *gwadiad* o Ysbryd y Brophwydoliaeth sydd dan sylw hyd yma. Yn nesaf, sylwn ar ei wrthbroffion, a pha beth ydynt? Dim ond ei *haeriadau*, pa rai a brofwyd eisoes yn annheilwng o grediniaeth. Er mwyn ei ddala yn ei rwyd ei hun, addefwn hyd y nod hyny, a chawn ddarfod i ryw *un* (o gannoedd o filoedd) brophwydo y bedyddid rhyw nifer mewn rhyw amser nodedig. Ar yr un anadliad addefa fod chwech o'r nifer wedi cael eu bedyddio. Go dda, onide! A allasai efe ei hun ragddywedyd cymmaint o wir, tybied! Gwael yw'r argoelion yn awr. A phe na buasai un yn dod yn mlaen, pa brawf gwell fuasai hyny fod y "Mormoniaid yn dwyllwyr," nag a fyddai ei brofi ef yn dwyllwr yn brawf fod yr holl annibynwyr yn dwyllwyr? neu oni fyddai yr un resymeg yn profi fod pob colofn drwy'r *Diwygiwr* yn gamgyhuddiadau enllibus oherwydd fod y colofnau hyny a lanwodd efe yn gyfryw! Rhesy meg wyrgam fyddai hon, onide? Etto, dyma ei resymeg oreu ef i brofi y Saint yn gaubrophwydi. Cofier hefyd nad oedd hyd y nod Paul yn hõni perffeithrwydd prophwydol; ond, "O ran y gwyddom, ac o ran yr ydym yn brophwydo," ebe efe. Nid oedd yr Ysbryd Glân yn aumherffaith, ond ei ysbryd cyndyn ei hun a wrthryfelai yn erbyn y dylanwadau dwyfol, oherwydd llwgr dynoliaeth, a'r hyn a farweiddia yn gyfartal i gynydd ei ddealltwriaeth am y llall; ac i'r graddau hyny yr oedd cywirdeb ei brophwydoliaethau. Etto ni chredwn i neb o'r Saint ddweyd wrtho, ddarfod iddynt brophwydo dim yn debyg. Os gwnaed, dyna y tro cyntaf i ni glywed am y fath beth; ac er holi pob un, braidd, methasom gael allan' sail i'w haeriadau, na bod y fath ddyn wedi bod yn eglwys y Coed-duon, Victoria, nac un man arall, oddieithr ei fod yn byw yn Dowlais, y *factory* lle y gweuir y fath rwydau yn rhad.

O barthed i'r Henuriad Jones, y cymmerwch ei enw yn ofer, nid oes ond un yn y cyfchoedd hyny, a gwada yntau yn sobr, na w'yr am y sail leiaf i'ch haeriadau. Am y 'W. Thomas,' hwnw sy'n egnio cymmaint i 'eglurow y twyll'; aed yn mlaen, druan, mor gyflym ag y gallo; ymegnio i egluro ei dwyll ei hun fel chwithau y mae. Dysgwylw'n ei weled yn dod â'i dwyll gerfydd ei gynffon, neu fel seren wibiog drwy awyrgylch y *Diwygiwr* can gynted y caisio afael arno, yn ol arferiad gyffredia y rhai a ysgymunwn. Syndod fel y gwibiant naill ar ol y llall drwy *gronclau* crefyddol ein '*hocw grefyddol*' ni, ar oll o '*gariad* at eu cydgenedl,' wrth gwrs! Ond rhwbiwch eich llygaid, ddarllenwyr, a gwelwch pa le y maent oll wedi myned. Oll fel y sêr gwibiog i eigion y gwagle yn mhlith y pethau a fu, heb adael ar eu hol ond sawyr afiach i ystaenio eu coffadwriaeth; ac felly y bydd etto. Mae yr oll a ddywedir i ni oddiw'rth fodoldeb y fath ddyn a'r W. F. hwnw, yn cynnwys fel yr *Almanacs*, 'peth gwir a pheth celwydd' am ei lwyddiant rhyfeddol, nes y metha y Saint '*dwyllo*' neb yn rhagor yn yr ardal hono: mae yn wir gan mwyaf; canys nid y'nt wedi ceisio '*twyllo*;' ni ddarfu i'w crefydd '*dwyllo*' neb yno; ac ychwaneg etto, mae yn annhosibl iddi *dwyllo* neb yno, nac yn un ardal arall; oherwydd y mae yn hunan brofiedydd o'i didwyllder i bob dyn gonest â'i profo yn ddiragfarn a theg, fel y tystia degau o'r Saint hyd y nod yn y *Coed-duon* yn eich gwyneb chwi, Syr, a'r Mr. Thomas y

soniwch am dano : a pheth yw eich haeriadau chwï yn ngwyneb mwy na deg am un o dystion profiadol a chymmeradwy ? Ond etto, yn yr ystyr gystrawenol a roddwch chwï i'ch haeriad, mae yn anwiredd gwybodus i chwï, Syr, oherwydd dylech chwï a'ch cymmydogion fod yn gwybod, fod y Saint wedi bedyddio mwy yn y cyfanser er pan y'ch chwï a'ch *partner* yn eu herlid, nag erioed o'r blaen ! Oni wyddech chwï ddarfod iddynt fedyddio pump yn ddiweddar mewn ystod byrach na hyn o ddyddiau, heblaw llawer ar brydiau ereill ? A phaham y meiddiwch gyhoeddi eu bod yn methu cael 'NEB yn yr ardal hono ?' Ie, yn ngwyneb eich cymmydogion oll a wyddant well, neu addylent ! Felly chwychwï eich dau sy'n methu twyllo neb i beidio ufyddhau i'r gwirionedd ; dyna'r cwbl ; ac yna ymddialwch drwy'r *Dirwygiwr*, aie ! gwaeth etto, gwnewch hyn y oll o 'gariad' hefyd !! Gato pawb rhag y fath '*gariad*,' fel rhag gwenwyn dreigiau ! Neu yn mlaen â hi nes y cyffrowch holl rai gonest a charwyr y gwir i'w brofi a'i goffeidio fwy fwy ; canys nid oes berygl i chwï allu twyllo neb o'r cyfryw. Eng-hraiff arall o'ch twyll anwireddus yw eich haeriad o 'fod y Saint pan fedyddiant un, yn galw cynghor ac yn prophwydo i ba swydd y galwodd Duw ef. Heriwn chwï i brofi hyna am un waith yn rhywle ! Ni allwch. Ond ni raid i ni ei wrthbrofi ; profa ein rheolau, pa rai a gyhoeddasant eisoes yn Gymraeg, ac sydd gerbron y cyhoedd, na elwir ein pregethwyr ond yn ein cymmanfaoedd ; ac nid yno drwy y prophwydo am yr hwn y soniwch chwï. Os buoch erioed gyda y Saint (yr hyn a anpheuir yn fawr) rhaid eich bod yn gwybod gwell na'ch haeriad. Yn enw gwirionedd pa le yr alltudiasoch eich rheswm pan yn camddarlunio eich cyd-ddynion fel hyn ? profwch eich *cariad* drwy eu gaiw yn ol.

TWYLL-YMRESYMIAD EGLUR.

Am y T. Smith y dywedwch iddo gael ei urddo yn offeiriad yn uniongyrchol, y mae mor gywir â'r lleill o'ch haeriadau ; yn lle iddo feddwi a chael ei ysgymuno yn mhen y *dau fis*, fel y dywedwch chwï, ni bu hyn am gynnifer a hyny o *flynyddau* ! Ac yn lle cael ei alw a'i urddo yn '*uniongyrchol*,' ni alwyd ac ni urddwyd ef am dros ddwy flynedd a hanner wedi ei fedyddio ! Onid '*cenfigen*' atynt a'ch cymhellodd i hyn, Syr ? Pwy a'ch coelia ! Mae cannoedd a dystiant i hyn drwy'r cylechoedd yma hyd heddyw. Ond, pe y galwesid ef mor fuan ag y dywedwch, a fuasai ei bechod a gyflawnodd *wed'yn* yn profi ei anaddasrwydd *blaenorol* ? Os felly, condemnia eich rhesymeg chwï hyd y nod Iesu Grist am alw Pedr neu Judas ; bid siwr fod trosedd y nail yn dangos y twyll o'u galwad fel y llall ! Dyma chwï wedi gosod Iesu Grist yn waeth na'r Saint ogymmaint ag iddo alw *dau o'r fath ddynion* ! Pwyswch bregethwyr enwadau ereill yn y glorïan y pwyswch ynddi J. Smith, a cheiff cryn gwmmi, ie, nid yn unig Pedr a Judas, ond hefyd Dafydd, Solomon, Lot, Noah, ac Adda. Yn mhellaeth etto, cofrestrwch '*Lucifer*, y *Seren foreu*,' yn yr un rhestr â'r rhai yna. Cwmni rhyfedd, onide ! A oedd pob un o'r rhai'n yn darwg cyn pechu ? Os nad oedd, pa fodd y profir yr hwn a enwch chwï yn anaddas ynte ? Diolch i chwï o dan un, am addef dirwestiaeth ein rheolau, drwy addef na adawn i feddwyn aelodaeth, llawer llai swydd yn

Ein heglwys foesol a phur. Rheolau lled *strict*, onide? Ai tybied nad yw ein dyscyblaeth mor llym yn erbyn pechodau ereill? Ac felly pa le mae y twyll? gofynwn etto: ond yn ofer fyth. Mor hawdd gan dwyllwyr waeddi 'twyll,' 'gau-brophwydi,' 'gau-athrawon,' 'penboethiaid y dref': felly chwithau. Wrth eich ffrwythau sefwech chwithau, yr hwn a brofwyd yn euog o'r hyn y cyhuddwch y dieuog o hono. Yn nesaf darlunia gyfarfod eglwysig y Saint ar brydnawn Sul: ymdrechwn gael gafael a'r *dwyll* y peth hwnw ynte. Addefa i'r offeiriad ddechreu y cyfarfod drwy *ddarllen a gweddio*; os twyll hyny, y mae pob crefyddwyr gymmaint twyllwyr â'r Saint. Dyma y tro cyntaf i ddyn a feiddia alw ei hun yn '*gasaur twyll*,' ein dysgu mai twyll yw *darllen* y Bibl a *gweddio*? Etto, rhaid mai twyll yw hyn, canys dywed fod yn 'amlwg mai twyll yw yr OLL yr ymwnant (y Saint) ag ef!' Yn ol y resymeg hon profir y golygydd Parchedig a gyhoeddodd hyn yn dwyllwr, bob cyfarfod a gadwo. Ni feiwch hwynt fwy nac ereill, am 'ymdrechu lliwio [y gwirioneddau a gredent] yn y modd harddaf er denu eu gwrandawwyr i'w garu'; canys eu braint hwy fel ereill yw hyn, 'ar ol eu bygwth yn ofnadwy, am eu bod yn caru y tywyllwch yn hytrach na'r goleuni, a oedent hwy yn ei ddangos iddynt,' ebe efe. Dyma addefiad cywir o'r goleuni: pa dywyllwch y rhybyddient i'w ochelyd? Nid tywyllwch traddodiadol, oherwydd yr oedd y ffaith o'u presennoldeb yno yn profi hyny yn afreidiol; beth ond troseddau o'r rheol santiaid a ddarllenasant ar ddechreu y cwrdd, lle y rhybuddient i ochelyd rhagddynt! Da iawn etto, wrth gofio mai o genfigen yr addefwch hyn oll. Pa dwyll sydd yn annog pobl i beidio pechu! annoga Paul Timotheus i fod yn daer mewn amser ac allan o amser, i bregethu, argyhoeddi, ceryddu, &c., oherwydd rhagwelai yr amser pan na ddyoddefent athrawiaeth iachus, eithr yn ol eu chwantau eu hunain y pentyrant iddynt eu hunain [nid wedi eu hanfon gan Dduw drwy Ysbryd y Brophwydoliaeth, &c.] athrawon. Gan fod eu clustiau wedi merwino oddiwrth y gwirionedd, y troant ymaith eu clustiau [fel y gwna Mr. 'Casawr Twyll,'] ac at chwedlau y troant, sef cyffelyb chwedlau ag a gyhoeddwch chwi a sectariaid ereill o '*gariad*,' *alins CASINER*, at y gwirionedd. Yn awr, Syr, gofynwn, ac atebwch chwithau y gwir am unwaith i'ch cydwybod, pe buasai Paul yn gymmydog i chwi yn y Coed-duon, yna, a allasai efe eich darlunio yn gywreiniach, meddwch chwi? Serch gwadu prophwydoliaethau eich cydoeswyr, rhaid i chwi addef geirwiredd a chyflawniad manylaf yr eiddo Paul, ar eich cyflwr eich hun. Pa le y mae y twyll yn cyfarfod?

[I'w barhau.]

"RHODD MAM," NEU Y CATECISM CYNTAF I BLANT Y SAINT.

BETH yw dyn?—Hiliogaeth Duw.

Pwy yw Iesu Grist?—Brawd i ni.

Beth yw dyn yn ei ddechreuad?—Baban analluog.

Beth yw yn ei faintioli?—Un o feibion Duw.

Beth yw yn ei berffeithrwydd moesol?—Cyffelyb i Grist; a Christ yn gyffelyb i Dduw: a'r oll un gymdeithas ydynt.

Pa sawl bywiolaeth sydd i ddyn gael?—Bydd i'w mewn tair bywiolaeth.

Beth yw y gyntaf?—Bywyd ysbrydol.

Beth yw yr ail?—Bywyd tynmorol.

Beth yw y drydedd?—Un anfarwol a thragywyddol.

Pa fodd y dechreuodd fyw yn y gyntaf?—Cenedlwyd a ganwyd ef o Dduw.

Pa fodd y dechreuodd fyw yn yr ail?—Cenedlwyd a ganwyd ef o'r enwad.

Pa fodd y dechreua fyw yn y drydedd?—Drwy adgyfodiad oddiwrth y meirw.

Beth yw ei dynghedfen dragywyddol ef?—Bod ar ddelw Duw, a chydag ef.

Cyffelyb i beth yw dyn heb ddadguddiadau?—Fel llong mewn niwl heb lyw na chwmpawd.

I beth mae yn debyg pan gaffo ddadguddiadau dwyfol?—I *lamp* yn llawn o oleuni; arddengys wirionedd am bob peth.

Beth yw Ysbryd dyn?—Canwyll Duw.

Pa fodd y goleuir hi?—Gan Ysbryd Duw.

Pa sawl Duw sydd?—"Mae arglwyddi lawer, a duwiau lawer, ond i *ni* nid oes ond un Duw."

Pa sawl nefoedd sydd yn bod?—Maent yn ddirifedi.

Pa le y bydd nefoedd y saint?—*Ar y ddaear*; ac ar bob sêren a phlaned berffaith.

Beth mewn gair yw Mormoniaeth?—Cyfundrefn o wirioneddau dwyfol.

Beth yw ei hoedran?—Nid oes dechreuad dyddiau na diwedd ein-ioes iddi yn bod.

Beth yw ei thynged?—Llanw y ddaear a'r nef â gwybodaeth a chariad perffaith.

Pwy yw Joseph Smith?—Brawd Iesu Grist yw efe.

O ba le y tarddodd ei awdurdod?—O'r drydedd nef drwy angylion.

I wneuthur pa beth ei danfonwyd?—I sefydlu teyrnas dragywyddol i Dduw, pregethu efengyl yr heddi, a chyhoeddi gwawr y Jubili fawr i bawb a gredo.

Pa lwyddiant a gaiff ei genadwri?—Llwyddiant cyffredinol, nes y bydd gwybodaeth yr Arglwydd yn amdoi y byd, fel y tôa y dyfroedd y môr.

Beth os ceisia dynion ei wrthwynebu?—Ni lwyddant; ond byddant fel mân lwch y clorianau.

Paham hyny?—Oherwydd fod y Duw mawr a chadarn wedi deffroi fel o gysgadwydd oesoedd i wneyd ei waith.

Beth yw holl ffurfiau politicaidd y byd?—Y ddelw fawr a welodd Nebuchodonozor.

Beth yw ffurfiau crefyddol y byd hwn?—Y Babilon ysbrydol hōno a welodd Ioan, (pan oedd ar ynys Patmos,) yr hon oedd yn llawn o enwau cabledd.

CYMMANFA MERTHYR.

A gynnaliwyd yn *Neuadd y Cymreigyddion*, Sul, a Llundun, y 18fed a'r 19eg o Ebrill, fel y canlyn :—

Am hanner awr wedi deg o'r gloch y boreu etholwyd Capt. Jones yn llywydd yn unfrydol, yr hwn wedi dechreu y Gymmanfa fel arferol, trwy ganu mawl a gweddio, a anerchodd y dorf yn wresog, gan ymhelaethu ar bwysfawrogrwydd a defnyddioldeb y gwaith gogoneddus a ymddriedwyd i ni; ac a ddangosodd y gwahaniaeth mawr sydd rhwng cyfundraethau dynol a chyfundrefn berffaith teyrnas Dduw. Profodd mai dynion yn gyfartal i'w doethineb a gyfansoddant ac a berffeithiant y blaenaf; ond, mai y gyfundrefn olaf hon sydd i berffeithio dynion; neu fod y naill yn perffeithio ei deiliaid, a'r lleill yn cael eu perffeithio gan eu deiliaid amherffaith! Fod yr olaf mor afresymol ag a fyddai i ddyn geisio codi ei hun oddiar y llawr,—ni ellir dysgwyl gan ddynion ond yn ol y ddoethineb a feddant,—na all neb drefnu cynllun i'w berffeithio ei hun, nac o ganlyniad i berffeithio arall yn well na'i hunan, ddim mwy nag y dichon y ffrwd ddyrchafu goruwch ei ffynnonell. Yn gydfynedol â'r rhesymeg hon, amlygodd y llywydd fod *Mormoniaeth* yn sylfaenedig ar safle dwyfol, a bod y bywyd a'r nerth hynny yn ei holl wythienau, ei gïau, a'i chymmalau, o'i phen i'w thraed; a'i bod yn llesoli pawb drwy, yn gystadl yr iawn ddealltwriaeth o honi â'r iawn ymarferiad â hi. Ar y pryd daeth y llywydd F. D. Richards o'r America i mewn, heblaw J. Holiday, Kendall, Webb, ac ereill o Loegr, a chawsant y neuadd wedi ei llanw o wrandawwyr siriol a golygus. Galwodd y llywydd ar gynrychiolwyr yr holl ganghenau i hysbysu eu rhifedi, eu hansawdd, &c., yr hyn a wnaed fel y canlyn :—Rhif y canghenau yn nghynnadledd Morganwg yw 18; Henuriaid 34; Offeiriaid 48; Dysgawdwyr 38; Diaconiaid 17. Bedyddiwyd er y gymmanfa flaenorol (3ydd a'r 4ydd o Ionawr diweddf) 220. Y cyfan yn gynrychioledig yn y gymmanfa hon yn awr yw 965. Dangosai y llywyddion fod sefyllfa ac ansawdd eu canghenau yn gysurus, llwyddiannus, a gobeithiol; a'u bod oll, bron yn ddi-eithriad, mewn undeb, cariad, a chwlm tangnefedd, ac yn mwynhau doniau a dyddanwch yr Ysbryd Glân yn ol eu ffyddlondeb a'u diwydrwydd. Wedi hynv anerchodd y Brawd Richards y cyfarfod yn fyr a chynnwysfawr yn Saesoneg, a therfynodd y cyfarfod boreuol drwy weddi a chanu.

Am 2 o'r gloch yr oedd cyfarfod eglwysig i'r Saint yn unig, a'r Neuadd yn hawn iawn o lloenynt. Derbyniwyd i'r eglwys dri a fedyddiasid, ac yna gweinyddwyd yr ordinhad o Swper yr Arglwydd i'r cwmni lluosog, y rhai a ynddigrifent yn y mwyniant o gariad Crist yn eu gobeithion, ac yn llawenydd yr Ysbryd Glân. Eglurhaodd y Brawd Richards ddybenion a defnyddioldeb yr ordinhad, ac annogodd y Saint i undeb, ffyddlondeb, a chariad. Dangosodd daioni Duw tuag at ei Saint yn yr America. drwy waredigaethau rhyfeddol o law eu gelynyion,—eu porthi yn wyrthiol yn yr anialwch, a'u cysuro dan bob erlidigaethau; ac anerchodd y llywydd y cwrdd i'r un perwyl yn Gymraeg, a therfynodd y cyfarfod drwy weddi.

Dechreuwyd y cyfarfod hwyrol gan yr henuriad Thomas Pugh,

Anerchodd y llywydd y dyrfa luosog, gan eu gwahodd i ufyddhau i'r efengyl dragywyddol ar frys; dilynwyd ef gan Thomas Pugh ar natur a swyddau yr eglwys apostolaidd, &c. Yna y Brawd Richards a ddangosodd pwy yw plant Abraham, wrth pwy sy'n efelychu eu tad Abraham, pwy sydd o ffydd Abraham, a phwy sydd yn gwneyd gweithredoedd Abraham; fod Abraham wedi ymadael â'i gartref i edrych am wlad, nid felly neb ond y Saint. Arweiniwyd Abraham a'i deulu drwy ddadguddiadau dwyfol, felly y Saint: yr oedd y cyntaf yn dyoddef pob adfyd; a thrwy ffydd, yr hon a brofid drwy weithredoedd, yn dysgwyl 'gwlad,' sef yr orphwysfa sydd etto yn ol i bobl Dduw. Mae pob crefyddwyr ond y Saint yn dysgwyl nefoedd ddychymnygol, '*beyond the bounds of time and space*' (tuhwnt i derfynau gwagle ac amser.) Manyl-odd yn eglur ar debygolrwydd 'Saint y Dyddiau Diweddaf,' i Abraham a'i hād, ac mai ei efelychu a wnant fwy fwy etto, nes y caffont eistedd gydag Abraham, tad y ffyddloniaid, yn nheyrnas Dduw, sef yr orphwysfa ddedwydd ar y ddaear, ag y bu yntau farw mewn gobaith o'i mwynhau. Ar ei ol ef cyfieithodd y llywydd gan mwyaf, gan ychwanegu ac annog y gwrandawwyr i brofi ein cyfndrefn yn onest a diduedd, gan mai felly y profai Duw hi yn wirionedd i'w boddlonrwydd hwythau. Diolchodd yn garuaidd i'r dyrfa am eu boneddigeiddrwydd a'u sirioldeb drwy'r dydd, a pherswadiad y Saint i fyw yn ddi-frychenlyd ger gwydd y byd, i yndrechu yn mhob dull i ledaenu y gwirionedd, ac i wneuthur daioni i bawb, yn enwedig i deulu y ffydd. Terfynodd y Brawd Richards waith y dydd drwy erfyn ar Dduw i'w fendithio.

Dydd Lluu an hammer awr wedi deg yr oedd y Neuadd yn orlawn o bobl, a threuliyd y cyfarfod gan y llywydd a'r Brawd Richards, trwy ddangos y dull ysgrhythrol o alw ac ordeinio i'r gwahanol swyddau eglwysig—dyledswyddau, a'r anghenrheidrwydd am y gwahanol swyddau megys cynt; na thywalltai Duw ei farnau ar y byd yn awr cyn anfon ei weision i'w rhybuddio ac i gynnyg iddynt ddi-ddosrwydd. Yna galwyd dau i fod yn henuriaid yn nghanen Merthyr, un yn Dowlais, un yn Pendarran, un yn Rymny, ac un yn Risca. Galwyd deuddeg i fod yn offeiriad yn Merthyr, tri yn Rymny, dau yn Caerfyrddin, tri yn Caerdydd, un yn Cwmbach, ac un yn Cwmbychan. Dysgawdwyr—tri yn Merthyr, un yn Rymny, dau yn Caerdydd, dau yn Caerfyrddin, un yn Cwmbach, un yn Llanybyddar, ac un yn Pendarran. Diaconiaid,—Rymny un, Caerdydd dau. Yn Dowlais, galwyd chwech o offeiriad, pedwar o Ddysgawdwyr, a dau o Ddiaconiaid. Yna terfynodd y brawd Richards drwy weddi.

Am hammer awr wedi dau o'r gloch yr oedd y Neuadd yn llawn drachefn, ac yn y cyfarfod hwn ordeiniwyd y mwyrif o'r swyddogion a alwesid, a chydunwyd i'r gweddill gael eu hordeinio yn eu caughenau perthynasol; cynghorodd a rhybuddiodd y llywydd y personau hyn yn bwysig ar iddynt barchu ac iawn ddefnyddio eu swyddau gwerthfawr, gyda golwg ar ddydd y cyfrif sy'n dod; annogodd hwynt i agoryd eu genau mewn doethineb, ac i'r cyfan a wnant fod yn tarddu yn gywir oddiar gariad at, ac awydd i lesoli dynion; ond er dim iddynt beidio ag ymgecreu â dynion cyndyn, na dadleu yn nghylch geiriau neu gwestiynau anffuddiol; a thaer erfyniodd ar yr holl Saint i weddio drostynt. Yna y llywydd Holliday, o Bath, ac ar ei ol ef y llywydd Kendall, o Bristol, a anerchasant y cyfarfod, ac ar eu hol hwythau, yr henuriaid Webb;

wedi hyny y ddau olaf a ganasant emyn o goffadwriaeth am ferthyrdod Joseph a Hyrum Smith, a'u duwioldeb, a therfynwyd y cyfarfod drwy weddi gan yr henuriad Henshaw.

Am hanner awr wedi chwech pregethodd yr henuriad Thomas Pugh yn Gymraeg, y Brawd Richards yn Saesneg, a'r llywydd ar ei ol yn Gymraeg, a'r cyfan gyda nerth a dylanwad mawr; ac amlwg oedd drwy y gwrandawriad astud, a sirioldeb pawb, eu bod yn derbyn pleser, goleuni, a llawenydd y Dyddanydd nefol.

Felly terfynodd y Gymnanfa hyfryd a defnyddiol hon dan fendith Duw, er agoryd llygaid llawer i weled gogoniant teyrnas Dduw, ac er cadarnhau y Saint yn y santeiddiaf ffydd; erioed ni welsom fwy o arwyddion undeb, cariad brawdol, a phenderfyniad i fyned yn mlaen drwy bob erlidigaethau a rhwystrau, nes cyrhaedd y gamp oruchel yn Nghrist Iesu. Yr Arglwydd grasol a'n nertho oll i barhau yn ffyddlon, nes cyrhaedd i gwmi a gogoniant y ffyddloniaid oll gyda ein Tad yn nheyrnas Dduw, yw'n gweddi drwy Iesu Grist. Amen.

WILLIAM DAVIES, } *Ysgrifenydd.*
EDWARD EDWARDS. }

DAMMEG Y PREN A DDWG NAW MATH O FFRWYTHAU!

Aa amser nodedig ymwelodd rhyw winllanydd (*a*) cyfoethog â'i winllan (*b*) mewn gwlad bell, gan blanu rhyw blanigyn (*c*) rhyfedd a ddygodd gydag ef, yr hwn wedi tyfu yn bren o ddygai naw (*d*) rhyw o ffrwythau rhagorol. Dewisodd, (*e*) a dysgodd (*f*) ei weision (*g*) pa fodd i'w drin, ac i wylid drosto rhag i ddim ei niweidio. Yr oedd wedi dwyn yehydig (*h*) o bob un o'r cyfryw ffrwythau gydag ef, fel y caffai ei weision, a rhai o bobl y winllan, brofi eu blas; ac yna dychwelodd i'r wlad bell yn ei ol (*i*). Ei weision, wedi profi blas y ffrwythau, a deall eu bod yn ymborth rhagorol ac iachus, ac hefyd yn feddyginiaethol o bob clwyf, a ymdrechasant ddydd a nos i drin y planigyn yn ol y cyfarwyddiadau a gawsant. Coronwyd eu diwydrwydd â'r fath lwyddiant rhyfeddol nes y tarddodd allan ganghenau iraid a lliosog, ac amdwyd ef â blodau heirdd a pheraidd; ac yn yr haf cyntaf gorlwythwyd y pren â ffrwythau fel y rhai a ddygasai y gwinllanydd ar y cyntaf. Buan iawn yr aeth son am dano drwy y winllan, ac y cyrchodd y bobloedd o bob cwr i ynofyn y ffrwythau. Aeth y gweision â llawer o blanicion o hono i barthau ereill, ac yn mhob man lle eu plenid (os trinid yn ol cyfarwyddiadau y gwinllanydd) yr un fath ffrwythau a ddygid; dim llai, na dim yn amgen; ac er syndod i bawb, ffrwythlonai yn ogystal ar benau y mynyddoedd mwyaf creiglyd ag yn y dyffrynoedd brasaf, yn y pegynau rhewog fel yn y *torrid Zone*; mewn gair, ni welwyd ef erioed yn amddifad o un o'r naw ffrwyth.

Yr oedd rhyw ormeswr (*k*) a ddaethai o wlad bell er's talm, yn hōni rhyw hawl i'r winllan, a llawer o'r bobl yn ei gredu a'i wasanaethu; ond ni thyfai un o'r rhyw hwnw o ffrwythau ar eu prenau hwynt, yr hyn a barodd i'w weision rwgnach wrth y gormeswr, am fod rhagoroldeb ffrwythau y lleill yn dwyn holl bobl y winllan braidd i'w march-

nadoedd hwynt, a bod gobaith eu helw hwythau yn pallu. Ar hyn, addawodd y gormeswr yr aethai yntau i gyrchu planigyn (*l*) crystal, os nad gwell, na'r eiddynt hwy, o wlad bell; ac wedi iddo ddychwelyd, a'i blanu, ac i amser ffrwythau ddod, gwel d arno rai ffrwythau yn debyg yr olwg i'r lleill; ond er eu siomedigaeth, wele yr oeddnt yn wenwyn marwol (*m*) i bob un a'u profent. Ceufigenodd y gormeswr, a'i weision, waeth-waeth yn erbyn y lleill oherwydd hyn, ac am eu bod yn rhy falch i ofyn am blanigion ganddynt, ymosodasant arnynt, ac a'u lladdasant, gan feddwl y caffent hwy y pren a'i ffrwythau, ac y deuai pawb atynt hwy i brynu wed'yn (*n*). Ond er eu syndod hwy, a cholled fawr i holl bobl y winllan, ni thyfodd yr un o'r ffrwythau cyntefig ar y pren wedi hyny, oherwydd na ddysgwyd hwy gan y gwinllanydd na'i weision pa fodd i'w drin; ac yn fuan ei geinciau a grinasant, ei ireidd-dra a sychodd, a'i foncyff a bydrodd (*o*), a bu yr holl bobl yn newynu am y ffrwythau am dalm o amser, a dim i'w cael (*p*).

Yn y cyfamser, tyfodd pren y gormeswr yn fawr iawn, ac yn lle ffrwythau, gorlwythodd holl adar arian y wlad ei ganghenau, gan ei wneuthur yn nythfan, ac ysglyfaetbu pawb a ddeuai y ffordd hōno. O'r diwedd, un o eryrod (*q*) y gormeswr, yr hwn oedd yn llawer gwell na'r lleill, gan dosturio wrth y dyoddefwyr, a gafodd afael ar ryw hen lyfr (*r*) a ysgrifenydd gan weision y gwinllanydd, yn disgrifio yr hen bren, a'i ffrwythau danteithiol, yr hyn a g eodd awydd ynddo i gael pren cyffelyb iddo, ond ni allai ddirnad pa le y caffai blanigyn i ddechreu. O'r diwedd, pan yn syllu i wared o'i nyth ar gelaneddau y lluoedd a drengasent oddeutu bon y pren, gwelodd yno amryw *suckers* iraidd yn tyfu o wraidd yr hen bren, a meddyliodd y gallai, trwy gyfarwyddiadau yr hen lyfr, feithrin un o'r rhai hyn yn bren ffrwythlon; ond gwyddai fod ei fywyd mewn perygl os deallai yr adar ereill ei amcan, a thrwy ryw gyfrwysdra, llwyddodd i gael *sucker*, a myned ag ef yn ddiangol, ac a'i planodd yn nghwr eithaf y winllan, a thyfodd yn bren cadaru. Ereill, wrth weled ei lwyddiant ef a'i bren, a anturiant wneyd yr un modd, ac mor llwyddiannus ag yntau. Yn mhen amser, tyfodd *suckers* oddiwrth y *suckers* hyn, y rhai a blannodd ereill yn gyffelyb, nes yr oedd y prenan hyny yn lliosog iawn drwy y winllan; ac er eu bod yn go debyg i'r hen bren ar yr olwg gyntaf, etto nid oedd un o'r naw math o ffrwyth yn tyfu arnynt yn un man, er yr hōnai pob un fod ei hren ef o'r un rhyw a'r pren ffrwythlon. Gan fod newyn tost trwy yr holl wlad, a'r bobloedd wedi clywed fod cynnifer o'r prenan ffrwythlon yn eu plith, ymgasglasant atynt yn lluoedd, gan waeddi am ffrwyth, rhag eu marw o newyn. Ar hyn, estyuoedd yr adar eu penau dros eu nythod, ac mewn llais fel llais dynion perswadiasant y bobl, gan ddywedyd, "O, nid oes eisieu y ffrwythau cyntefig mwyach. Mae yn wir fod naw math o ffrwythau wedi tyfu arno yn y dechreu, a'u hunig ddyben oedd er profi fod y fath bren wedi bod[!], a'r unig gysur a ellwch gael yn awr yw cyrchu at ein prenan ni pan y teimloch yn newynog, a syllu arnynt yn graffach po tynaf y cranga newyn eich cylla; a darllenwn ni'nau o'r hen lyfr hwn hanes y gwleddoedd a fwynhiai dyuion o ffrwythau y pren cyntefig, canys ffydd yw y cyfan sydd yn ofynol i'ch cadw yn fyw heb ymborth, dim

ond credu yr hanes heb fwynhau, a chyrchu yma i edrych ac i wrando. Beth! oni allwch fyw ar rym *imagination!* canys ar ol cyrhaedd y wlad bell y cewch y naw math o ffrwythau hyny (*s*).” Fel hyn twyllasant luoedd i gyrchu atynt, ac er eu bod yn gwanhau ac yn newynu, y plant ar ol y tadau a'u dilynasant hyd farw, nes y gwelid eu hesgyrn yn wynion ar hyd wyneb y ddaear oddiamgylch i'r prenau hyn.

Ond y rhai *synwryolaf* (*t*) o'r bobl a'u gwrthwynebasant, gan ddywedyd mai eu twyllo yr oeddynt, a bod griddfanau y trancedigion, yn nghydag arteithiau dirdyuawl y newyn ar eu hymysgaroedd eu hunain, yn ffeithiau profadwy na allent fyw heb fwynhau o ffrwythau y pren eu hunain; a chan eu bod hwy yn haeru na thyfai y cyfryw ffrwythau ar y pren yn awr, nad allent hwythau gredu fod y fath bren erioed wedi bod, nac yn dwyn y naw math o ffrwythau a ddesgrifiai eu hen lyfr; canys (ebent hwy) y mae y cyssylltiadau anwahanol â pha rai y cylyuodd y pen anianydd bob effaith wrth ei hachos ei hun, ynghyd ag esiamplau holl brenau creill y winllan, yn dwyn y cyffelyb ffrwythau yn awr ag a ddygent y pryd hyny, yn profi eich ffolineb chwi yn hõni mai y pren hwnw sydd genych, ac etto yn gwadu ei ffrwythau. Achosodd hyn frwydrau crenlon rhwng y pleidiau hyn. Ymunai holl fyddinoedd y cyntaf yn erbyn yr olaf, er mai nid anfynych y lladdent eu gilydd, a diluwio eu gwinllan â gwaed eu hudolion. Yn y cyfwr alaeths hwn y bu yr holl winllan am yspaid mawr. O'r diwedd, tosturiodd y gwinllanydd wrth eu sefyllfa drenus; a chan fod diwedd y cynauaf yn agosâu, pan y bwriada feddiannu yr holl winllan ei hunan wedi ei gosod mewn trefn, bwrw y gormeswr i garchar, yughyd â'i holl weision a ymlynant wrtho, efe a anfonodd un o'i weision (*u*) o'r wlad bell o'i flaen gyda phlanigyn fel y cyntaf, fel y caffai y rhai a ddewisent fwyta o'i ffrwyth, rhag marw o bawb gan newyn cyn y deuai. Planodd y gwas ef mewn llanerch hyfryd a dirgel, dewisodd a dysgodd y rhai y perwyd iddo (*v*), ac a'u gosododd i wylled dros, ac i drin y pren yn ofalus (canys gwyddai fod gelyniaeth farwol rhwng yr holl adar aflan ag ef), ac a ddychwelodd adref. Drwy ffyddlondeb y gweision i wneuthur pob peth fel eu gorchymynwyd, dygodd y pren hwn gnwd toreithiog o'r nn ffrwythau â'r naw math a dyfai ar yr un gwreiddiol yn gymhwys. Aeth y newyddion gorfoleddus hyn fel ar adenydd y gwynt i blith y werin, a mawr y cyrchu oedd yno i ymofyn am y ffrwythau, a phawb a ddelai yn gwledda arnynt heb arian ac heb bris. Ond pan glywodd y gormeswr hyn, brawychodd yn ddirfawr, canys gwyddai o'r goreu na ellid cael y pren hwnw gan neb ond gan y gwinllanydd, a deallai hefyd fod ei anser ef yn fyr (*w*) i deyrnasu yn y winllan. Ar hyn cofiodd am y ddichell a lwyddodd i ddyfetha y cyfryw bren o'r blaen, ac a gynhyrfodd ei weision i erlid y lleill. Dywedodd wrthynt am berswadio y werin nad oedd y ffrwythau yn tyfu ar eu pren hwynt, ond mai anwiredd oedd eu profies. Dywedodd hefyd am iddynt berswadio y rhai a brofasant o honynt eisoes, mai y ffrwythau gwenwynig a dyfai ar ei hen bren ef oeddynt, a rhybyddio pawb a allant i beidio eu coelio hwynt, na chyfeillachu â hwynt, am fod yn anmhosibl braidd cael neb oddiwrtlynt wedi iddynt brofi o'r ffrwythau, &c., (*y*). Ac fel hyn llwyddodd ei gelwyddau

nes lladd y gweision* cyntefig a wylent y pren; ond er siomedigaeth fawr iddo ef a'i weision, yr oedd y pren wedi gwreiddio mor ddufn, cynnifer o blanigion o hono wedi eu trosglwyddo ar led y winllan, ac yn dwyn y ffrwythau mor doreithiog, a lluoedd o'r rhai a wadent fodoldeb y pren cyntefig, ynghyd â'r rhai callaf a gonestaf o'r lleill, yn eu hamddiffyn, fel na allent lwyddo; canys gelynion creulon hwn, fel y pren arall, oedd y rhai hyny a gaffent lawer o aur, o árian, parch, byd helaethwych, a gwisgoedd symudliw, oddiwrth y prenau ereill. Rhagwleut y byddai gobaith eu helw yn pallu os caffai y werin brofi blas y ffrwythau; ac hefyd, pan chwythai y gwynt oddiar un o'r prenau hyn tuag at eu prenau hwy, tarawai y fath falllod drostynt, nes gwywo o'u dail, crino eu cangenau, fel na chynnalient yr adar a nythai ynddynt; ac am na chyrrhai y bobl yno i gael eu hysglyfaethu, rhai o'r adar a gwmpasant i'r llawr, ynghyd â'u nythod, ac ni allent ehedfan mwyach, ond a gnoisant y rhisgl o gynddaredd†. Yr holl adar ysglyfaethus ereill yn rhagweled wrth hyn mai cyffelyb fyddai eu tynghed hwythau cyn hir, a ymgynddeiriogasant yn waeth etto, ac a ym- unasant oll mewn yngyrch aruthrol i ddial ar weision y gwinllanydd a'u canlynwyr; ac er eu hod beunydd yn elyniaethus gynt, heddychasant a'n hen fam-deulu o'r diwedd, yn yr ymladdfa olaf hon, a llwydasant nes gorfod i'r holl rai nad ufyddhaent iddynt hwy gyrchu at eu prenau, ac ymwrthod â'r ffrwythau (ond ni laddasant neb), a myned ymaith yn dyrfa fawr mewn llawer o longau dros y môr mawr‡, a dychwelasant hwythau i'w nythod, a mawr oedd y gorfoledd drwy y wlad oherwydd eu buddugoliaeth. Danfonent roddion i'w gilydd o lawenydd am gael gwared o'u gelynion, ac ymfrostient y caffent bob ysglyfaeth i'w crafangau bellach§. Yn ddisymwth, brawychwyd hwy yn nghanol eu gorfoledd gan ruad taranau, mellt, a swm storm ofnadwy. Crynai y winllan, dawnsiai y bryniau mewn braw, ac ysgydwai yr holl winllan fel meddwyn. Yr haul a ynwisgai sachlen flew yn alarwisg, a'r holl elfenau blith draphlith, fel cawl mewn cerwin, a ferwent, a holl brenau y winllan, ynghyd â'r adar aflan a'u hudolion, a glywid o hirbell fel clindarddach drain dan grochan, ac ysgyrnygent ddannedd ar eu gilydd, gan waeddi, "O na wrandawsem ar lais gweision y gwinllanydd! O na fwytasem o'u ffrwythau hwy, a byw yn dragywydd! Ond darfu yr haf, aeth ein cynauaf heibio, yn credu eich hudoliaeth chwi; addawsoch i ni heddwch, ond O! fe'n poenir weithian yn y flam hon!"|| Ar hyn, wele y gwinllanydd ei hun, a'i osgorodd aneirif, yn dyfod mewn cerbydau tanllyd awyrawl, gan osod tân yn y cwr dwvreiniol, yr hwn a gipiodd ac a ddifaodd ar y dde a'r aswy bob peth o'i flaen, megys sofr sychion, fel mai yr oll a ddeallid o'r gyflafan erchyll oedd ochain a dolefaen.¶ A chlowyd yr olygfa i fyny trwy lais udgorn uchel o ganol y cerbydau, yn bloeddio, "A mwg eu poenedigaeth hwy a esgyn i fyny yn oes oesoedd."** Ac adleisiodd fel llais telynau trwy'r awyrgylch, "Llawenha o'i phlegid hi y nef, a chwi apostolion a phrophwydi santaidd, oblegid dialodd Duw arni drosoch chwi."†† Ac unasant oll yn y *chorus*, "Cyfiawn, O Arglwydd, ydwyt ti, Brenin y saint; canys gwaed saint a phrophwydi a dywalltasant hwy." Yr hwn a ddarlleno, ystyried y ddam-

meg hon! Er iawn ddeall y ddammeg, darllener y cyfeiriadau canlynol yn fanwl:—

(a) Iesu Grist, gwel Esay 5, 1—7; Mat. 20, 1; 21, 28; Luc 13, 6—8. (b) Y ddaear. (c) Yr efengyl. (d) Naw doniau yr Ysbryd Glân. 1 Cor. 12. (e) Ioan 15, 16. (f) Mat. 23, 20. (g) Yr apostolion, &c. (h) Y gwyrthiau a wnaeth Crist ei hun cyn sefydlu ei deyrnas. (i) Ei esgyriad i'r nef. (k) Y gelyn diafol, Mat. 13, 25. (l) Eglwys Rhufain. (m) Gau wyrthiau, Mat. 24, 24; Dat. 13, 13, 14. (n) Y rhai a Iaddasant olynwyr yr apostolion. (o) Pan gymerwyd yr hawl ddwyfol oddi ar y ddaear, ac yr aeth yr eglwys i'r diffaethwch, Dat. 12, 5, 6. (p) Y newyn am yr efengyl drwy yr "oesoedd tywyll," Amos 8, 11, 12. (q) Y cyntaf a wrthwynebodd eglwys Rhufain, ac a blannodd eglwysi ei hun. (r) Y Testament Newydd. Y *suckers* yw holl ferched yr "hen fam," a'u merched hwythau, Dat. 13, 18. (s) Pawb a wadant yr anghenrheidrwydd am y naw math o ddoniau yr Ysbryd Glân drwy y byd, a honant eu commissiwn o'r llyfr, ac mai dyben y doniau oedd er profi gwirionedd Cristionogaeth: gwel y *Bedyddiwr*, y *Seren Gomer*, a'r *Diwygiwr*, &c., ac yna 1 Tim. 4, 1, 2; 2 Tim. 3, 1—9; a 4, 3, 4; Judas 4, 10, 12, 19. (t) Yr anffyddwyr oeddynt yn gwrthsefyll sectariaeth, 2 Pedr 2, 11, "oherwydd y rhai y ceblir ffordd y gwirionedd." (u) Yr angel a welodd Ioan yn dyfod â'r efengyl dragwyddol yn ol i'r ddaear, Dat. 14, 6. (v) Joseph Smith, &c. (w) Dat. 12, 12. (y) Pawb a gynllwynant, a gyhoeddant, a bregethant, neu a draethant, rai o'r "mil ond un" o'r chwediau disail, a'r camgyhuddiadau a orlifant y wlad am y Saint. * Y merthyron duwiol hyn yn ngharchar Carthage, a degau o Saint dieuog ereill ar y cyfandir. † Y *blast* sydd wedi dechreu, ac yn cynnyddu fwy-fwy fel y deallir rhagoroldeb y gwirionedd. Mae gwywiad eu dail, crindod eu heglwysi, a'u mallod, wedi dod yn rhy amlwg i'w guddio yn hwy. Mae eu hadfeiliad mor gyflym yn yr America, a'u barnau yn cynnyddu, nes cynnaliant gyfarfodydd ymprydiau a gweddiau i geisio ireiddio eu prenau pdwr, i.e., pan y mae gwaed gwirion merthyron Iesu yn dyferu oddiwrth eu dwyaliaw! Ac yn Mrydain, mae y *blast* yn fwy andwyol ar eu canlynwyr nag ar y pytatwa. Dechreuant weled fod rhyw "ddarn llaw" wedi ysgrifenu "Mene tekell" ar eu prenau yn ddyfnach na'r rhisgl, etto llefant, ymprydiant, rhith o hir weddiant, ac yna ymgyddeiriofant i felldithio, erlid, a chamgyhuddo plant Duw oherwydd eu crefydd! Ond crinach â'r pren po fwyaf y cnoant y rhisgl. O ydyw, mae y mallod yn rhy eglur i'w wadu, ac y mae hyd y nod y *Bedyddiwr* am unwaith yn ddigon gonest i'w addef: gwel rhifyn Chwefror, tudal. 69,—“Mae y gwynt [yr Ysbryd Glân] yn chwythu lle y myno,” ebe yr erlid wr hwn: ac felly y mae, ond gwael iawn yr argoelion os mynodd chwythu arno ef er pan wyddom ddim am dano. “Mae yr ymacerdd hyn yn hollol ddarluniadol o Ysbryd y gras yn y dyddiau hyn. Ymddengys [iddo ef] fod eglwysi y saint, gan mwyaf drwy y byd, yn enwedig Prydain ac America, wedi digio yr Ysbryd ymaith [pa ysbryd? pa bryd? pa fodd y gwybu hyn, ac yntau yn gwadu yn haerllug yr anghen o'r Ysbryd Glân, drwy wadu ei ddoniau!], a'r Goruchaf yn dywedyd (ebe efe), ‘Af, a dychwelaf i'm lle hyd oni chydabyddont eu bai?’ [ond hollol groes ebai holl arwyddion a bygythion Duw. “Mae dystrywiwr y cenedloedd ar ei ffordd,”—“Efe a dery y ddaear â gwialen ei enau,”—“Pan y cyhoeddant heddwch, heddwch, y daw dinystr disymwth ar eu gwarthaf hwynt,” ebe y Bibl,] o dan y ddedfryd hon (addefa fod) llygredigaeth yn magu yn y ty, (y 'preu') anwiredd yn amlhau, a chariad llawer yn oeri;” h. y., llawer yn gadael ei bren ef, ac yn mwyfihau ffrwythban y prenda, pa rai a eilw efe yn wenwynig; ond nid rhyfedd hyn, canys drwg yw y da, tywyllwch yw y golcuni, a gwir yw yr anwiredd gwaethaf, yn ol ei reolau deongliadol ef atom ni yn barhaus. Yma awgryma fod eglwysi erlidgar fel yr eiddo ef yn deilwng o'r

cymmeriad o *Saint*; neu o'r ochr arall, tra yr addefa efe fod blodau y bedd wedi coronni enwadau ereill heblaw ci hunan, ac y dengys cfe fod y Wesleyaid, er llafur yn agos i ddeng mil o bregethwyr, wedi lleihau dros gant a hanner y llynedd. Nid gwir ei ddarlun o eglwysi y "Saint," canys yn lle moeli, a digio yr Ysbryd Glân, y mae y dyddanydd yn ein heglwysi yn wresocach nag erioed, ac yn fwy ffrwythlon. Er na feddwn un pregethwr i bob cant o'r rhai sy'n lleihau, na braidd gapel y gallwn yn gysurus fyned iddo, na thy, na gwrandawriad, os gallant hwy eu rhwystro, er y cwbl corona yr Ysbryd Glân eu llafur â llwyddiant yn ol dros gant yn y mis yn aml. Mae yr addefiad uchod yn profi eu siomedigaeth, er eu holl ymdrech, yn y cynllun a wnaethant er's tro yn ol i gael yr Ysbryd, ac nid rhyfedd ychwaith, canys nid ydynt foddlon i ymostwng i drefn Duw er ei gael, fel y derbyniodd y Saint ef, a byddant yn amddifad o hono hefyd, debygwn, fel yr addefa y Golygwr, "hyd oni chydabyddont eu bai." Felly goreu po cyntaf iddo, wneyd a galw yn ol y camgyhuddiadau gwarthus a gyhoeddodd ar y Saint. † Y Saint yn ffoi i Sion. § Dat. 11, 10; Salm 11, 6; 68, 2; 110, 5, 6; Esay 9, 18—20; 13, 6—9; 24, 6, 17, 21, 22; Jer. 30, 23, 24; Zeph. 3, 8; Mat. 4.; 2 Thes. 1, 8—11; || Dat. 19, 23. ¶ Dat. 18, 20, 24; ** Dat. 16, 5, 6, 7.

CANGHEN LLANYBYDDAR.

BEDYDDIWDYD un, ac ereill yn addaw ufyddhau yn fuan, er cymmaint a wingodd y Daniel Ddall hwnw i'n herbyn; ond caled iddo yn awr oedd gwingo yn erbyn symbylau Duw. Clywsom ei fod mewn cyflwr drwg iawn, fel nad oes neb yn gallu deall pa gleftyd sydd arno. Mae yn yfed llawer o ddwfr oer, gan ddywedyd ei fod yn clywed ei geluddion yn cynneu, ac y mae yn ceisio gan ereill i dywallt dwfr oer ar ei gorff, yr hyn a wnaed dros oriau a dyddiau. Rhuthrai allan o'i dy gan angerdd y tân tybiedig o'i fewn, a rhedai i orwedd mewn llyn o ddwfr er mwyn oeri. Clywsom fod y meddyg yn dweyd na wyddai efe pa beth yn y byd sydd arno. Dymunem i'r holl Saint weddio ar iddo gael ei ddwyn i'r iawn allan o fagl diafol.

CYNNWYSIAD.

Y " <i>Casawr Twyll</i> " wedi ei brofi yn		i Blant y Saint.....	75
<i>Gurwr</i> , lluniwr, a chyhoeddwr		Cymmanfa Merthyr.....	77
" <i>Twyll</i> " ei hunan.....	69	Dammeg y Pren a ddwg Naw math	
Ysbryd y Brophwydoliaeth.....	71	o Ffrwythau.....	79
Twyll-ymresymiad eglur.....	74	Canghen Llanybyddar.....	84
Rhodd Mam, neu y Catecism cyntaf			

MERTHYR-TYDFIL:

CYHOEDDWDYD, AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH HEFYD GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL.

PROPHWYD Y JUBILI,

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 12.]

MEHEFIN, 1847.

[PRIS 2g.

DEILIAID BEDYDD.

“YR hwn a ymddarostynga ei hun gerbron Duw gyda chalon ddrylliog, ac ag ysbryd cystuddiedig, gan ddwyn ffrwythau boddhaol i'r eglwys ei fod yn wir edifeiriol am ei holl bechodau, yn foddlon i gymmeryd arno enw Iesu Grist, ac yn benderfynol i'w wasanaethu ef hyd y diwedd, yn unig sydd yn deilwng o gael ei fedyddio i eglwys Iesu Grist.”—*Ath. a'r Cyf.*

Dylai yr hênuriaid a'r offeiriaid fod yn ofalus iawn na weinyddont yr ordinhad bwysig hon, nac un arall, i neb annheilwng. Mae yn rhy wir fod dynion mor rhyfygus a rhagrithiol i'w cael, hyd y nod yn ngwlad y biblau, ac yn proffesu ei gredu, i'e, mor rhyfygus â chynllunio gyda'u gilydd i dwyllo gweision Duw er mwyn gwawd a dirmyg, megys y Methodistyn hwnw yn Machynlleth ag a dystiodd wrth y pregethwr ei fod yn credu, ac yn edifeiriol, ac yn dymuno cael ei fedyddio; ac nid cyn myned i'r dwfr, ac i'r dyhiryn rhyfygus geisio tafu y pregethwr i'r afon, a bygwth ei foddi, yr amlygodd ei frad; ac erbyn hyny yr oedd y lluoedd o'i bartneriaid annuwiol, y rhai a ymguddiasent yn y twmpathau cyn yr amser, yn rhuthro at y pregethwr dan fygwth ei foddi, ac nid heb ymdrechion caled y diangodd yn fyw o'u crafangau, a hwythau yn ei ddi-lyl fel gwaedgwn. Pa greadur rhesymol, heb son am *Gristionogol*, nad arswydai rhag dirmygu ordinhad ddwyfol fel hyn? Oni ellid twyllo felly bregethwyr pob enwad? Ac er nad oes genym hawl i rwystro neb a ufyddhant i'r ammodau i gael eu bedyddio, etto, rhybyddia pethau fel hyn, ac ereill a allem enwi, ni i sylwi mwy ar ffrwythau addas i edifeirwech. Dichon ereill, megys *Daniel Ddall*, ragrithio yn wybodus i ni braidd, ac etto heb fod genym brofion o hyny, ac mai buddiol yw oedi; canys gwell iddynt o lawer fod heb

eu bedyddio na dyfod fel y del rhai, er yspio ein rhyddid, a cheisio defnydd enllib, ac fel y gallont ein camddarlunio; o'r fath wefusau halogedig â hyn y daw yr holl gamgyhuddiadau braidd a orlifant gronclau Phariseidd ein gwlad i'n herbryn.

Dymunem i bob swyddog gofio fod dydd yn dod yn yr hwn y gofynir pa ddefnydd a wnaeth o bob talent a dderbyniodd, ac os na fydd ffrwyth ei lafur yno ar gael, mai ofer yw, os uad gwaeth nag ofer. Nid yn ol y nifer a fedyddio, y gwobrwyr dyn; ond yn ol y nifer a droa i gyfiawnder, ac a gadwo ar hyd llwybrau cyfiawnder a duwioldeb hyd y diwedd, y caiff fynedfa i mewn i, ac y dysgleiria fel y ser yn nhrægwyddol orphwysfa ein Harglwydd Iesu Grist.

SEION. EI LLEOLDEB, &c.

ԾՄԱ destun cân y patriarchiaid, a'r gwrthddrych a sugnai serch y prophwydi, a gobaith a dymuniad yr holl saint drwy'r oesoedd. Ymddigrifent yn y darluniadau o honi, ac i'r graddau ag y caflent o ysbryd ei Brenin, fel yr estynai nosfedydd medrus ei ddwyllaw i nofio, yr ymchwareuent trwy ffydd yn y moroedd o gariad didrai, y purdeb, a'r anchwiliadwy olud a drysorwyd ynddi erbyn y delo ei holl blant i oedran cyfaddas i'w mwynhau am byth. Desgrifient y waredigaeth a gaffai plant Duw yno pan y deuai ei farnau ar y byd. Mae llawer o'r hanes yn ysgrifenedig yn y gyfrol santaidd hyd heddyw, ac yn cael ei ddarllen yn barhaus; ac etto, nae son am "adeiladu Seion," "casglu" tuag yno, a'r bendithion a swynheir ynddi, mor ddeythr braidd yn yr oes hon â phe na ddarluniesid ddim ar dani. Ar ol y cwbl a ddywedwyd am Seion, ni wyddom fod un o'r holl grefyddau sydd yn y byd, ond y "Saint," yn adeiladu, casglu i, nac yn deall dim o barthed i'w lleoldeb; ac ni wyddant well na'u gwawdio a'u herlid hwythau oherwydd eu crediniaeth yn, a'u hymdrechiadau i gasglu yuglyd i, Seion, fel y gwawdiai y cyn-ddfluwiaid Noah a'i deulu am eu bod yn darparu ac yn myned i'r arch.

Fod diwas o'r enw Seion i gael ei hadeiladu a'i haddurno yn ogoneddus cyn y delo ein Harglwydd i'w deyrnas, sydd wedi ei arddangos mor eglur gan y prophwydi (os credir er hyny), fel mai ofer i ni ymhelaethu yn awr. Tystied eu prophwydoliaethau hwynt, ynghyd â'r cyflawniad o honynt i raddau drwy arwyddion yr amserau rhyfedd hyn, ynghyd â lleisiau gweision Duw, am yr anghenrheidrwydd o honi yn y dyddian diweddaf hyn. Ond ein dyben yn yr hyn a ganlyn yw dangos yn mha Barth o'r ddaear y rhagwelodd y prophwydi Seion fawr y dyddiau diweddaf yn cael ei sefydiu.

Bu dinas ar yr enw hwn yn Jerusalem; ac fel y dealler at ba un y cyfeiria y prophwydi yn yr hyn a ddvfnwn, nid antuddiol fyddai dangos y gwahaniaeth rhwng y ddwy ddiwas, yn ogystal â'r gwahanol fanau y byddent. Weithiau galwent y Seion oedd yn Jerusalem, "y

ddinas uchaf." Gwahanyd rhyngddi â Jerusalem gan fur mawr yn ei hamgylchu. Dywed haneswyr mai Melchisedec a sylfaenodd Jerusalem, a'i galw wedi hyny yn Salem. Dywed Paul, Heb. vii, 2, fod Melchisedec yn frenin Salem; pa un ai efe a sylfaenodd Seion, nid yw eglur; ond yr oedd un mewn bodoldeb yn amser Dafydd o leiaf; canys dywedir ddarod iddo, pan feddiannodd Jerusalem oddiar y Jebusaiad, "ennill amddiffyfa Seion; hōno yw dinas Dafydd." 2 Sam. v. 7. Addefwn fod amrai o'r ysgrifenywyr ysbrydoledig yn cyfeirio at y Seion hon; megys, Esay 30, 19,—“Canys y hobl a drig yn Seion, o fewn Jerusalem.” Gofynwn, os nad oedd rhyw Seion arall mewn golwg, paham yr arferai y prophwyd y rhagddodiad “o fewn?” Onid i ddangos y gwahaniaeth rhwng y Seion hōno â Seion arall a ddarparai Duw yn noddfa i'w blant yn y dyddiau diweddaf? Ond, ehe rhywn, os oeddynt hwy yn gwybod am yr olaf, paham y galwent y ddinas hōno ar yr enw hwnw? Atebwn, er nad eglura yr ysgrythyr hyn, etto anturiwn gynnyg yr hyn a *feddylium* ar y pwnc. Mae yr enw Seion o henafiaeth fawr, ac yn arwyddo y pur o galon, neu drigfan y rhai pur o galon. Trwy ddadguddiadau, deallwn fod Enoe yn ei ddydd wedi adeiladu dinas o'r enw hwn, yr hon a gymmerwyd i fyny oddiar y ddaear, ac efallai mai at hon y cyfeiriai Paul yn Heb. 12, 22, 23,—“Eithr chwi a ddaethoch i fynydd Seion, ac i ddinas y Duw byw, y Jerusalem nefol, ac at fyrddiwn o angylion,” &c. I saint y cynddiluwiaid yn fwyaf neillduoŷ y perthyna y teitl o “eglwys y rhai cyntafanedig;” a chan eu bod hwy a'u dinas wedi esgyn i'r nefoedd, a Paul yn ei galw yn “ddinas Duw,” paham nad at hon y cyfeiria Ioan. Dat. 21, 10, lle y gwelodd y “ddinas fawr, y Jerusalem santaidd, yn disgyn o'r nef oddiwrth Dduw?” Os nad i'r ddaear y deuai, pa fodd y rhodiai cenedloedd y rhai cadwedig yn ei goleuni? “Ac y mae breninoedd y ddaear yn dwyn eu gogoniant a'u hanrhydedd iddi hi,” ebe Ioan, adn. 24—26. Amlwg yw mai i'r ddaear newydd, ac nid i'r un adferedig, y disgynai y ddinas hon; ae mai ar ol, ond nid cyn, nac yn, y mil blynnyddoedd. Ai tybied nad ynddi y triga ysbrydoedd y rhai cadwedig, i aros hyd y derbyniant y “mabwysiad, sef prynedigaeth y corff,” ynghyd â'r angylion adgyfodedig a chyfnewidiedig? Os nad felly, nid ydym yn deall Paul, Ioan, nâ'r prophwydi.

Ond i ddychwelyd at hanes y “Ddinas Dafydd.” Dichon fod Melchisedec, neu pwy bynag a'i sefydlodd, pan yn trefnu dosbarthiadau a therfynau Jerusalem, oddiar barch i rhyw Seion a fuasai cyn hyny, wedi enwi y ddinas uchaf, a'r olygfa hardd hon, yn “fynydd Seion,” megys yr enwir dinasoedd, llawer o gapeli, a phersonau, hyd heddyw, mewn coffadwriaeth o, ac o barch i, rai a fuont. Ar ol Dafydd, enwid hi, “Dinas Dafydd.” Nid ydym yn ammau nad adeiledir y Seion hon etto pan adeiledir Jerusalem, ond nid dan y cymmeriad, nae yn oŷ darlun, y prophwydi am Seion y dyddiau diweddaf; ond mewn cysylltiad â Jerusalem, Bellach deallir y gwahaniaeth rhwng y ddwy ddinas, a'r ddwy wlad lle y bu ac y bydd y ddwy Seion. Yn mhlith y llu o dystion a feddwn i brofi mai ar gyfandir yr America y gorchlymynai Duw i'w bobl adeiladu dinas noddfa i'r rhai o'i blant a ymgasglent yno, sylwn, i ddechreu, ar yr hyn a ddywed Dafydd yn Salm 48, 2—3,—“Tegwch bro, llawenydd yr holl fyd, yw wynydd Seion, yw

ystylsau y gogledd, dinas y Brenin mawr.” “Canys wele yno y *breninoedd a ymgynnullasant.*” Felly gwelir nad i'r ddinas fach gyntaf y cyfeiria, ond rhyw Seion fawr yn ystylsau y gogledd, lle y deuai breninoedd lawer. Cymharer hyn â'r hyn a ddywed Esay am dani, pen. 17. Dengys y byddai mynydd Seion ar rhyw dir yn cysgodi ag [yn ddarlun] adenydd, tuhwnt i afonydd Ethiopia, yr hon oedd i'r gorllewin yn mhell o'r fan lle y safai pan lefarai, lle y dengys y cyfodai yr Arglwydd faner i holl drigolion y byd, ac yr udgana ag udgorn; ac o ba wlad yr hebryngent genadau hyd y môr, sef i ddangos y “faner” [a ddynodai deyrnas Dduw], ac i ddwyn anrhaith i'r Arglwydd, sef pobl lawer yn dyfod i Seion mewn ufydd-dod i'w galwad, fel colomenod i'w ffenestri, “i le enw Arglwydd y lluoedd, sef i fynydd Seion.” Etto, gwel Salm 132, 4—18: “Ni roddaf gwsg i'm llygaid, na hûn i'm hamrantau, hyd oni chaffwyf le i'r Arglwydd, preswylfod i rymus Dduw Jacob: wele clywsom am dani yn Ephrata; cawsom hi yn meusydd y coed.” “Canys dewisodd yr Arglwydd Seion, ac a'i chwennychodd yn drigfa iddo ei hun: gan fendithio y bendithiaf ei lluniaeth; diwallaf ei thylodion â bara.” Ie, cânt eu gwala a'u gweddill o ymorth yn Seion, pan y bydd yr holl rai a ryfelant i'w herbyn hi a'i thrigolion yn trengu o eisieu. Am “faesydd y coed,” pe buasai y darllenwyd wedi teithio gyda ni drwy *prairies* yr America, buasai yn barod i addef fod yr hen Ddafydd wedi eu gweled, ac yn gynefin iawn â hwynt yn ol ei ddarluniad. Nid yn “maesydd y coed” yr oedd “dinas Dafydd.” Yn yr America y mae maesydd, fel dolydd neu weirgloddiau yn ugain milltir o hyd a lled, weithiau llai ac weithiau yn fwy, ac wedi eu hamgylchu â choedydd. Dywed Esay fod Sion yn anialwch.

Sylwer ar ddarluniad Mica, pen. 4, o'r Seion dan sylw,—“A bydd yn *niwedd y dyddiau* i fynydd ty yr Arglwydd fod wedi ei sicrhau yn mhenau y mynyddoedd; ac efe a ddyrchefir goruwch y bryniau, a phobloedd a ddylifant ato. A *chenedloedd lawer* a ânt ac a ddywedant, Deuwch, ac awn i fyny i fynydd ty yr Arglwydd, ac i dy Duw Jacob; ac efe a ddysg i ni ei ffyrdd, ac yn ei lwybrau y rhodiwn, canys y gyfraith a â allan o Seion, a gair yr Arglwydd o Jerusalem.” Addefir na fyddai le i gynnifer yn “ninas Dafydd,” yr hon nid oedd yn filltir o'i chylch. Amlwg yw mai gwaith sydd heb ei gwblhau yw hyn, oddiwrth adn. 7,—“A'r Arglwydd a deyrnasa arnynt yn mynydd Seion o hyn allau byth,” sef yn bersonol. Ond darlener y gweddill o'r benod, a gwelir fod y prophwyd yn darlunio cyfyngder Seion cyn ei buddugoliaeth olaf hon, pan yn ymgasglu, yn darparu, ac yn adeiladu eu dinasoedd cyntaf. “A thithau tŵr y praidd, castell merch Seion, hyd atat y daw, i'e, y daw yr arglwyddiaeth benaf, y deyrnas i ferch Jerusalem. Paham gan hyny y gwaeddi waedd? Onid oes yn ot frenin? A ddarfu am dy gynghorydd? [atebwn, do, lladdwyd ef yn ngharchar Carthage,] canys gwewyr a'th gymmerodd fel gwraig yn esgor [oherwydd hyny]. Ymosidia a griddfana fel gwraig yn esgor, canys yr awr hon [yn fuan ar ol lladd ei chynghorydd] yr âi di allan o'r ddinas [ni raid gofyn pa “ddinas,” canys ni wyddom ond am un ddinas yn yr oes hon a broffesa fod wedi ei hadeiladu dan gyfarwyddyd Duw drwy ei chynghorydd], a thrigi yn y maes [‘maesydd y

coed,' anialwch yr America efallai, lle yr alltudiwyd ugeiniau o filoedd o'r Saint o'u dinas y llynedd, ar ol i'w 'cynghorydd' gael ei ferthyrn yn ddiuog]; ti a âi hyd [allan o gyffiniau] Babilon [sef mam put-teiniaid y byd, ac o blith ei holl dylwyth]; yno y'th waredir; yno yr achub yr Arglwydd di o law dy elynion. Yr awrhon [sylwer mai yn 'niwedd y dyddiau,' pan y bydd y Saint yn casglu i, ac yn adeiladu Seion, y bydd hyn] llawer o genedloedd a ymgasglant i'th erbyn [pa genedl sydd heb wawdio a dirmygu y meddylddrych o adeiladu teml na dinasoedd drwy orchymyn Duw yn yr oes hon?], gan ddywedyd, haloger hi, a gweled ein llygaid hyny ar Seion," ebe pawb, yn enwedig y rhai sy'n cyfenwi eu capeli ar yr enw hwn. "Ond (druain ydynt) ni wyddant hwy feddyliau yr Arglwydd, ac ni ddeallant ei gynghor ef; canys efe a'u casgl hwynt fel ysgubau i'r llawr dyrnu. Cyfod, merch Seion, a dyrna," am y tro diweddaf am byth, canys wedi hyny, "ni chyfyd cenedl yn erbyn cenedl, ac ni ddysgant ryfel mwyach." Ni raid dweyd fod hyn heb ei gyflawni, na thebygolrwydd y bydd yn fuan. Dywed Zechariah, pen. 9, 9,—“Bydd lawen iawn, ti ferch Seion, wele dy frenin yn dyfod atat.” Pa bryd? Ateba adn. 10,—“A'r bwa rhyfel a dorir; ac efe a lefara heddwch i'r cenedloedd [crediniol], a'i lywodraeth fydd o fôr hyd fôr, ac o'r afon hyd eithaf y ddaear.” Nid yw hyn wedi ei gyflawni ychwaith, ond ei ddechreu yn unig.

Profa Dafydd trwy yr hyn a ganlyn, tuhwnt i ddadl, mai gwaith mor ddiweddar â'n hoes ni fyddai adeiladu y Seion y cyfeiria ati, Salm 102, 13—16,—“Ti a gyfodi ac a drugarhei wrth Seion; canys yr amser i drugarlhau wrthi, i'e, yr amser nodedig a ddaeth.” “Felly y cenedloedd o ofnau enw yr Arglwydd, a holl freninoedd y ddaear dy ogoniant: pan adeiladu yr Arglwydd Seion y gwelir ef yn ei ogoniant.” Pwy a haera fod yr Arglwydd wedi ymddangos yn ei ogoniant hyd yn hyn? Pan y delo, “daw yr Arglwydd fy Nuw, a'i holl Saint gydag ef,” ebe y prophwydi. Os daethant, pa le y maent? Os nad ydynt i'w cael, yna addefir nad yw Seion etto wedi ei hadeiladu ychwaith. Hefyd, sylwer fod y Seion hōno oedd yn Jerusalem mewn bodoldeb pan lefarodd Dafydd y geiriau hyn; a dywed, “Hyn a ysgrifenis i'r genedlaeth a ddel.” Profasom eisoes yn y gyfrol gyntaf o'r *Prophwyd* am fynediad rhan o lwyth Joseph drosodd i'r America yn gyflawniad o lawer o brophwydoliaethau; hanes llyfr Mormon, a chasgliad gweddillion Joseph a llwythau Israel i Seion. Profwyd hefyd y darparai Duw ddau ganolbwynt neu fan i'w blant ymgasglu iddynt i gael gwaredigaeth, fel y dywed Joel ac ereill pan'yn darlunio y dinystr a ddel ar annuwiolion yr holl ddaear, pan y bydd Judah wedi dychwelyd o'i chaethgludiad olaf, ac adeiladu Jernsalem, “canys bydd ymwarded fel y dywedodd yr Arglwydd yn *mynydd Seion, ac yn Jerusalem, ac yn y gweddillion a alwo yr Arglwydd.*” Ac wedi ystyried y cyssylltiadau hyn, paham nad ymddengys mor resymol i bob meddwl diduedd fod Seion i gael ei sefydlu ar y cyfandir gorllewinol, a gweddillion Joseph sydd yno yn byw i ymgasglu iddi, ag ydyw addef y bydd llwyth Judah yn ymgasglu i, ac yn adeiladu Jerusalem ar y cyfandir hwn, lle y cânt lwythau ymwarded? Ac mewn wirionedd, pwy a ddichon gredu y

ysgrythrau. ac anmau y naill na'r llall? O'n rhan ni, tybiwn fod hyny yn anmhosibl.

Gan fod ein gorchwyl o brofi sefyllfan Seion yn dibyuu ar ei dad-gyssylltu â'r Seion hōno oedd yn Jerusalem, cawu y gwahaniaeth lleawl yn eglur gan Esay, pen. 62,—“Er mwyn Seion ni thawaf, ac er mwyn Jerusalem ni ostegaf, hyd onid elo ei chyfiawnder hi allan fel dysgleirdeb, a'i hiachawdwriaeth hi fel lamp yn llosgi, a'r cenedloedd a welant dy gyfiawnder, a'r holl freninoedd dy ogoniant. Yna y gelwir arnat enw newydd, yr hwn a enwa genau yr Arglwydd. Byddi hefyd yn goron gogoniant yn llaw yr Arglwydd, ac yn *dalaeth* [nid *amher-draeth*] freninol yn llaw dy Dduw.” Fe all anryw daleithiau fod dan yr un freniniaeth. Nid rhyw le bach. ac nid un, na dwy, na chant, o ddinasoedd a fydd yn Seion, os gwyddom ni rywfaint am dani; ond bydd digon o le yno i lawer o genedloedd fyw a bod, a digon o dir i bob un gael gwinllan o'i eiddo ei hun, a bwyta o'i ffrwyth, heb neb i'w ddychryuu.

Metha rhai a deall pa fodd y dichon Seion fod yn yr America, a'r prophwyd yn dweyd pan adferid Israel y byddent yn un genedl ar fynyddoedd Israel, ac nid rhau o bob tu i'r môr mawr fel y dywed y Saint. Ac adddefwn mai cwlwn go galed yr ymddengys hwna ar y cwtaf, etto nid yw hyd y nod symud y môr yna oddi rhyngddynt ond peth hawdd er cyssoni gwirioneddau! Dywedodd Esay lawer o blaid y Saint cyn hyn; a chan mai efe a'n harweiniodd i'r rhwyd hon, os rhwyd hefyd, dysgwyliwn iddo ein dwyn drwyddi hefyd; a dim hwy nâ'r galwad, dyma efe wrth law fyth, adn. 4,—“Ni ddywedir mwyach am danat gwrthodedig; am dy dir ni ddywedir mwy. anghyfannedd; eithr ti a elwir Hephzibah; a'th dir, Bulah; canys y mae yr Arglwydd yn dy hoffi, *a'th dir a briodir.*” Yn nyddiau Peleg y rhanwyd y ddaear, Gen. 10. 25. Pan y dywed Moses, Gen. 1, 9, ddarfod i Dduw gasglu y dyfroedd odditan y nefoedd i'r un lle, onid oedd yr holl dir o angenrheidrwydd yn yr un lle? A phan y delo yr auseroedd adferiad pob peth ag y sonia Pedr, yn Act. 3, ac ereill, am dano, unir yr holl ynysydd a'r cyfandiroedd â'u gilydd fel yr oeddynt. Tery Ioan yr hoel hon i le cadarn, a selia y pwnc i fyny o'n plaid, Dat. 16, 20,—“A phob ynys a ffōodd ymaith,” canys heb foroedd anmhosibl fod ynysydd. Ac nid ar *fynydd*, ond ar *fynyddoedd Israel*, y bydd y gwaredigion, pa rai a fyddant yn ddirifedi, am a wyddom ni. Yr hyn a brofir yw y hydd *un brenin*, *a'i enw: a'i lywodraeth yn un dros yr holl ddaear.* Ac felly mae ein pwnc wedi ei brofi serch sychu y moroedd i hyny!

Wedi profi mai yn yr America yr adeiledir Seion yn fyr am y tro hwn, ceisiwn gyfleusdra etto i ddangos yr anghenrheidrwydd o honi, ei defnyddioldeb, ei gwycheder, a'i gogoniant, ynghyd â'r galwad i ymgasglu yno, a'r perygl o heidio myned, &c.

Y “CASAFR TWYLL” WEDI EI BROFI YN GARWR,

LLUNIWR, A CHYHOEDDWR, “TWYLL” EI MUNAN.

(Parhad o tudal. 75 o Brophwyd Mawrth.)

ANDEFWCH hefyd eu bod yn gwneyd cofia o farwolaeth yr Arglwydd

drwy y *Sacrament*, da iawn etto, canys haera erlidwyr ereill nad ydym; ond coelir chwi ganddynt, gobeithiwn. Rhinweddol y cyfrifir hyn yn mhawb; a gobeithiwn na chyfrifir yn dwyll yn y Saint. Addefwech hefyd na feiddiasant gyfranau o'r elfenau hyd nes eu bendithio. Ewch yn mlaen, gyfaill, mae y Saint yn gwella yn siwr. Ar ol hyn o waith, erfyniodd yr offeiriad ar ei frodyr i gyd-weddio ar i Dduw roddi eglurhad ei 'Ysbryd,' meddwch. Gwell fyth! Goreu po fwyaf a gaffent o eglurhad yr Ysbryd Glân, onide? Nid neb ond anffyddiwr rhydd a'u gwawdiasai am dwyllwyr, oherwydd eu duwioldeb addefol hyn. Da fyddai i chwi a'ch cyffelyb efelychu y Saint fwy yn hyn, a gwario llai o'ch amser prin yn eu camddarlunio a'u gwawdio. Ond chwareu teg o bob tu. Efallai mai yr arferyd y dwfr yn y cymmun a ystyriwch yn ddigon o dwyll i gondemnio yr OLL a wnant, yn ddiwahan! Wel, pwyswn hyn hefyd yn nghlorian hoblogaidd yr oes, i ddechreu; ac yna yu yr un wirioneddol. Addefwech mai arddangosiad o dywalltiad gwaed Crist yw cynnwysiad y cwpan; o'r goreu, telly ninnau; ond, oni ddaeth allan o'i ystlys santiaid "ddwfr a gwaed," pahan na arddangoswch y ddau, neu y naill yn ogystal â'r llall? Atebwch chwi neu ryw un arall drosoch ag a feddo fwy o ddoethineb ddynol os galla. Etto, pa un ai dwfr pâr, ynte cymmysgedd aflan a gwenwynig o *log-wood*, gwirod, a *drugs* ereill meddwol, yw'r puraf a'r addasaf i arddangos peth mor bur a dihalog â gwaed Crist? Ai tybied y cymmeradwya Duw win aflan yn y cymmun yn fwy na dwfr glân? Gwnaiff, ebe chwaeth y meddwyn yn unig. Wedi colli y resymeg o '*arddangosiad*,' diangwch i'ch twyll dan waeddi, "y mae gorchymyn o blaid arferyd gwin." Wel dilynwn chwi yna hefyd, canys y mae genym air neu ddau ar hyna etto. Y gair "*cupan*" a geir yn yr ysgrhythrau lle y dywedwch chwi "*gwin*;" ac er y dadleua rhai oddiwrth gerydd Paul i'r Corinthiaid, mai diod feddwol oedd yn y cwpan yno, nid yw hyn yn un prawf mai dyna a arferodd, nac a orchymynodd Iesu Grist; pe buasent hwy wedi cael eu twyllo neu gamsynied am y *sort* o win yn Corinth, nid dyna eu hunig drosedd. Profa Crist yn Luc xxii, 18, Mai "ffrwyth y winwydden," yn ddipliesedig, a ddewisodd efe pryd hyny; sef, o'r un natur a phurdeb ag a yf gyda hwynt etto (pahan etto os nad cynt?) yn newydd yn nheyrnas ei Dad, pan fwytânt ar ei ford yn ei deyrnas. Ni feiddia neb ddweyd mai diod feddwol fydd yno, debygwn; ac felly ni allant ddweyd mai un feddwol oedd y llall, oherwydd mai ryffelyb y ddau gwpan. Ai gwlybwr felly, ynte diod feddwol a arfera ein cyhuddwyr yn y cymmun? Os am orchymyn yr ydych, deuwch yn mlaen law yn llaw â'r Saint i gadw y gorchymynion, neu eu hanner, cyn eu condenio hwynt. Oes, y mae gorchymynion pendant i fod "yn awyddus i brophwydo, ac na waherodwch lefaru â thafodau newyddion." Pa le yr ydych yn awr, gyfeillion? Deuwch yn mlaen etto, mae gorchymyn i eneinio y cleifion ag olew, ac arddodi dwylaw er derbyn iechyd. Pwy yw y blaenaf yn awr? Yn mlaen yr aif y Saint etto yn gyflym, gosododd Duw yn ei eglwys apostolion, prophwydi, a'r holl ddoniau ysbrydol. Ufyddha y Saint i'r oll o honynt. A gafodd rhai o honoch chwi hawl i'w dirymu? Os do, atebwch; os naddo, pwy o honoch a all datlu cared at y Saint am arwyddo drwy efen bur, y dwfr a ddaeth o ystlys wanedig eu Harglwydd? Erbyn

hyn clywaf chwi oll yn canu yr hen *ibsi dixit*. “Mae y pethau yna yn afreidiol yn yr oes oleu hon.” Wel dyna chwi yn eich rhwyd eich hun felly; pwy a gondemniai enwad cyfan yn dwyllwyr gyneu am yr hyn a ystyriwch chwi yn wyrni yn un o'r elfenau perthynol i un ordinhad! Ac yn awr yn gallu diflanu y cyfan braidd eich hunain! dyma beth yw “hidlo gwybedyn a llyncu camel,” debygwn! Ond deawn yn nes etto er terfynu y ddadl; creda y Saint *bob* gorchymyn, a'r un dan sylw hefyd; credant mai ffrwyth y winwydden fyddai yr addasaf yn y cymmun, a hyny a ddefnyddiant pan y gallant ei gael: hyd hyny mae ganddynt oddefiad oddiwrth sefydlwr rhesymol y ddefod i ddefnyddio yr elfen nesaf ato o ran purdeb; oes, a ffeithiau digonol i brofi cymmeradwyaeth eu Duw o hyny. A dylech wybod mai fel nyny y gwnelai canrifoedd boreuaf yr eglwys. Gwyr y Saint beth y maent o'i gylch, er fod eu gwawdwyr ffol yn cablu y pethau na wyddant o'u herwydd, ac yn tynu arnynt eu hunain ddynestr buan. Erbyn hyn, diflanodd y “twyll” o hyn hefyd, a'r gwirionedd sydd yn gloywi po fwyaf ei trinig. Am eich ffregod o fod yr offeiriaid yn gallu cysgu pan y mynont, yr hyd y dewisont, ar yn ail, a bod yn rhaid iddynt golli eu hysbryd eu hunain fel y caffai Ysbryd Duw fenthyg eu tafodau, &c., afreidiol dweyd mai chwychwi yw tadws hwna; gwelir ar ei ruddiau mai brawd undad i'r lleill yw. Pwy a welodd ddynion a allent wneyd felly? os gwir, dyna i chwi wyrth! Ni wyddem ni o'r blaen fod ysbryd dyn yn ymadael ag ef pan gysgo! *Efei* ddyn!! Mae yr enghreifftiau a roddwch o'r llefaru â thafodau yn enghreifftiau o gôf anhygoel hefyd! Difyrus iawn genych yw gwawdio pethau santiaid fel hyn! Ac addefwch ar yr un pryd na wyddech yn y byd beth oeddent, ond *gwyddech* fod Belzebub yn eu deall! pa fodd y deallasoch hyny? Cofiwch mai gweision haerlluaf a mwyaf rhagrithiol Belzebub a waeddent *Belzebub* uchaf, hyd y nod yn ngwyn-eb Mab Duw. Mae eich brodyr erlidgar, sef Gwew y Don, &c., wedi cyhoeddi, nad yw y Saint yn gwneyd dim rhith neu ymddangosiadau o'r doniau yn eu cyrddau, ond mai celwydd yw eu profes gyhoeddus o hyn; ond am danoch chwi, diolch i'ch dwni, mae eich tystiolaeth chwi o blaid y Saint, a dysgwylir i bawb eich credu yn hyn fel yn mhob peth arall. Prawf hyny ein tebygolrwydd i'r eglwys apostolaidd, wrth yr hon y patrymwn yn mhob peth. Wel, dyna ddigon er terfynu y ddadl o'n plaid am byth, gobeithiwn. Nid yw anwybodaeth y personau o'r hyn a lefarent mewn tafodau dieithr, yn profi twyll y Mormoniaid, ddim mwy nag yr oedd eiddo y Corinthiaid yn eu profi hwythau yn dwyllwyr; h. y., os gwiw cynnyg i chwi eiriau Paul mwyach. Yn 1 Cor. xiv. 13, profa Paul na wyddai y llefarwyr hyny beth oedd un sill o'r hyn a lefarent;—“Yr hwn sydd yn llefaru â thafod dyeithr, *gweddied* AR IDDO ALLU cyfieithu.” Os gallent, pam eu hannog i *weddio am allu*! Yn adn. 14, dywed fod ei “ddeall yn *ddiffrwyth*,” pan lefarai â thafodau. Gwelir eich twyll chwi a chywirdeb y Saint yn eglurach etto yn adn. 2, “Canys yr hwn sy'n llefaru a thafod dyeithr, nid wrth ddynion y mae yn llefaru (pam y condemnia dynion am na ddeallent ynte?) ond wrth Dduw; canys nid oes neb (dynion) yn gwrando (yn ddeallus); er hyny yn yr ysbryd y mae efe yn llefaru dirgeledigaethau.” Pa fodd y dysgwylwch chwi ddeall, ynte? Nid llefaru Hebraeg wrth Roegwr, na Saesneg wrth

Iuddew oedd hyn fel yr esbonia eich dŵlni duwinyddol chwi; ond hollol anneallus oedd y llafariad i bawb, hyd nes ei cyfieithid drwy y “ddawn o gyfieithiad” drwy Ysbryd Duw. Pe deallasai y digred y tafodau, ni buasent yn dweyd “eu bod yn ynfydu.” Gwel adn. 23. O na, dirgeledigaethau ydynt eiddo yr Arglwydd, ac efe yn unig a all eu begluro drwy'r cyfieithiad. Felly y dywed y Saint befyd. “Am hyny tafodau ydynt arwydd,” nid i achosi rhai i gredu, ond arwydd o'u sêliad mewn anghrediniaeth; canys “ni'm gwrandaawant felly (sef, drwy wefusau estronol, neu dafodau diëithr) medd yr Arglwydd.” Felly nid rhyfedd i chwithau druan galedu fwy fwy wrth glywed yr unrhyw arwydd; oherwydd felly y bu, y mae, ac y bydd, “medd yr Arglwydd.” “Dyn anianol nid yw yn deall y pethau sydd o Ysbryd Duw, canys ffolineb ydynt ganddo ef; ac ni all ychwaith, oherwydd yn ysbrydol y bernir hwynt.” O achos eich amddfadrwydd o Ysbryd Duw, sef *ysbryd y brophwydoliaeth*, y gwawdiwch bethau mor santaidd; canys pethau Duw ni ddeall neb ond drwy Ysbryd Duw. Felly ar bob gair profwch eirwiredd y Saint, a'u crefydd, serch cyhoeddi eich twyll eich hun! Am y cynlluniau dirgelaid y dywedwch sydd gan y Saint i wneuthur marsiandiaeth o bobl; cyffelyb i'ch haeriad, “eu bod yn hōni bod yn olynwyr i'r apostolion” ydyw; heb un sill o wir ynddynt fel y rhaid y gwyddoch os buoch gyda y Saint. Pe gallasech gyhoeddi rhyw beth gwaeth, diau mai melyn fuasai genych wneyd. “*Marsiandaeth*” aie? teilynga pawb hyn yn fwy na'r Saint. Ond ofer helaethu, canys yn ein byw ni allwn ganfod dim twyll drwy'r cyfan, ond eich twyll chwi. Cymimered Mr. Rees ychydig o'r *pills* hyn hefyd gyda chwi; i.e., llynced ein holl erlidwyr eu *dose* fel y carther yr aflendid oddiar eu cylla, er eu lles, a'u dwyn i garu gwir yn lle caru celwydd yw'n dymuniad dyna'r cwbl.

“MEIRIADOG” FAWR EI DRWST O LANFAIR CAEREINION WEDI FFORFFETIO EI BEN I FOD YN FOOTBALL!!

CORUS i'r gwr uchod ysgrifenu i'r *Bedyddiwr*, epistol gwarthus yn erbyn Robert Evans a'r Saint, gan ei herio i ddadleu âg ef drwy'r *Bedyddiwr*. Gwrthodai R. E., oherwydd na chyhoeddai y *Bedyddiwr* amddiffyniadau, namyn pob drwg yn erbyn y Saint. Amheuoedd “*Meiriadog*” hyn mor gadarn nes yr addawodd o flaen tystion “y rhoddai ei wddf i'w dori, a'i ben yn *football*. os na chaffai yr eiddo R. Evans ymddangos yn y *Bedyddiwr* fel yr eiddo ereill.” Ychwanegodd am i R. Evans anfon ei ohebiaethau iddo ef, ac y mynai efe en cael i mewn yno. Ond gwelir oddiwrth a ganlyn pa fodd y cyflawnodd ei adduned, serch ei bod ar gost ei ben ei hun:—

MR. GOL.,—“Hyshys i ddarllenyddion y *Bedyddiwr* am *Medi* y flwyddyn ddiweddaf, drwy ddesgrifiad Mr. *Meiriadog* ei hun, fod dadl i fod rhyngddo ef a minnau drwy'r *Bedyddiwr*. swm yr hon oedd,—Ei fod ef i brofi bodoldeb eglwys Dduw heb y doniau ysbrydol ynddi: a minnau, o'r ochr arall, i brofi yr addewid am, yuglyd â'r anghenrheidrwydd o'r doniau ysbrydol cyn y gallai deilyngu y cymmeriad o fod yn eglwys i Dduw. Addawodd os anfonwn fy llythyrâu iddo ef

y byddai iddo eu hanfon i'r *Bedyddiwr*, ac yr anfonai ef y llythyr cyntaf yno i'm galw i'r maes. Ond yn lle hyny anfonodd yno restr o enwau drwg arnaf, megys "*twyllwr*," "*Golwg geinioglyd*," "*arch-dwyllwr y gogledd*," yn pregethu "*gwyrth llysnafedd*," a'm hod yn myned i ddystryw yn wyrthiol, &c., &c. Ie, dyma fel y dechreuodd y lldadl cyn cyunyng na prawf i'w bwnc! Ar y cyntaf meddyliais i, a phawb a'r a glywais, nad oedd ei flacardiaeth a'i gangyhuddiadau ceerus yn teilyngu un atebiad, ac na ellid dysgwyl argyhoeddi dyn mor rhydd, gydag ysgrythyr na rheswm. Ond tua'r diwedd proffwyda *Meiriadog* na cheid clywed gair byth oddiwrt h "*ben twyllwr y gogledd*," yn ol ei dyb ef! Tebyg mai er darostwng ei hun islaw fy sylw y gollyngodd allan y *froadside* cywilyddus, enllibus, ac anghristionogol hwn i ddechreu. Ac erbyn ei orphen, meddyliai y llwyddodd i hyny. Ond ysgrifenis ato amdiffyniad o'r hyn a addawswn, ynghyd â sylwadau ar ei ysgrif, dymunais arno ei anfon i'r *Bedyddiwr* yn ol ei adlewid gadarn. Cefais ddigon o le i ddeall ddarfod iddo ei dderbyn, a dysgwylais o fis hwy gilydd am ei weled yn y *Bedyddiwr*; ond dim ni welais! Fel hyn, er y pryd hyny, daeth, ac aeth yn eu cylch aml loer heb na *hew* na *mew* oddiwrt h y *challenger* mawr, na'm hamdiffyniad innau!! Ychwaith ni chlywais am ei dranc, ond clywir aml un yn dweyd yma a thraw fod *Meiriadog* wedi *fforfetu* ei ben i mi, fwy nag y darfu Ioan i Herod o lawer. Ac nid annhebyg iddo wneyd hyn yn ei awydd mawr i wirio ei gau-brophwydohaeth uchod; sef nad atebwn ef!

"Mae genyf gopi o'm llythyr, ac amcanaf ei gyhoeddi os bernir fod yr hyu a ddyfynir o'i eiddo ef yn deilwng o'i osod o flaen y cyhoedd. Cymmaint â hyna am adlewid (*gwerth pen!*) *Meiriadogyn* fawr ei drwst! Dylasai adnabod y *Bedyddiwr* yn well; cafodd ddigon o brofion i'r gwrthwyneb. "*Goreu y ddysg a brynir*," ebe'r hen air. Cofied yntau nuill ai gollwng allan fy llythyr drwy y *Bedyddiwr*, neu heidio a hod mtor barod o wystlo ei BENGLOG, rhag ofn yr adduneda ei roi i'r rhai sy'n myned oddiamgylch y wlad i chwilio am *benglogau*. Beth pe y daliai y rhai hyny ef at ei air! Am danaf fi nid oes yn ei henglog ddim a chwenychwn, a chaniataf iddo gael yr hawl a roes i mi o hono ar yr ammod o fod iddo wneyd gwell defnydd o'i ben o hyn allan na chablu y pethau na wyr, ac na ddewisa ddeall o'u herwydd!

"*Y dyddiau diweddaf* a wawriodd,
A'r angel a draethodd y drefn;
Yr Iesu ddewisodd ei weision
I drin ei achosion drachefn.
Mae heddyw yn galw rhai gwaelion,
A'r doethion yn cilio naill du,
Ond pan ddel ei hunan i Seion,
Bydd gwae i elynion ei lu.

R. EVANS, *Glan Conway.*"

NEWYDDION O'R "GWERSYLL BLAENAF."

Be dau o'r brodyr oedd yn ngwersyll "*Council Bluffs*," ar eu taith mor bella i'r gorllewin â *Pueblo*. Ynd cawsant 170 o'r "*Fyddin*

Formonaidd" yn gauafu, a'r gweddill o'r 500 a oresgynasant ddinas *Alpasso*, yr hon a gynnwysa tua 5000 o drigolion, ac yn nha fan y daliant allwedd y fynedfan rhwng y mynyddoedd creiglyd; ac ni all byddin fyned o Mexico i California ond trwy y bwlech cyfyng hwn. Gan fod y gauaf yn trynhau, arosasant yma, gan adeiladu gwrth-gloddiau, ac amddiffynfeydd cedyrn, dan arolygiad henaduriad A. Babbitt, yr hwn a ddetholwyd gau y llywodraeth. ac a anrhegwyd â swydd uchel yn y fyddin Americanaidd. Yr oeddynt oll yu iach a chysurus pan y gadawodd yr haneswyr hwynt. With ddychwelyd, yn ystod tua chwarter blwyddyn o deithio drwy'r goedwig heb na ffordd nac arweinydd, yspeiliwyd hwynt dair gwaith o'u ceffylau a'u hymborth gan yr Indiaid, a rhoisant iddynt fulod yn eu lle. Eu hunig luniacth braidd drwy'r amser oedd cig y *Buffalo*, y rhai a welent yn finteoedd lliosog drwy'r wlad, ac yn hynod o ddoffion. Mae'r holl wersylloedd o Saint drwy'r anialwch a'r taleithiau yn ymbarotol i ymfudo tua'r gorllewin can gynted ag y caniatâ y tywydd.

DYFYNIAD O LYTHYR O EIDDO UN O'R "DEUDDEG."

"PARHEWCH yn gwneuthur daioni, yr ydych gyda gwaith rhagorol. Bwriwch i mewn eich crymian fel gwr i Dduw. a medwch—nid yn *daranllyd*; i.e. yn daranllyd, ond mewn addfwynder, a thystiolaethwech am ymadroddion dechreuad crefydd Crist. Ac ar ol ifydd, edifeirwech, bedydd er maddeuant pechodau, a derbyn yr Ysbryd Glân drwy arddodiad dwylaw. Pan ofyna y bobl, beth nesaf? Dywedwch wrthynt, "O. Jerusalem, Jerusalem," &c., ymgasglwch ynghyd, ymgasglwch. Beth wed'yn? Ymgrynhowch. A pheth wed'yn? Casglwch eich hunain ynghyd, O chwili blant y deyrnas, i'r fan yr addawodd yr Arglwydd waredigaeth; i.e. ymbarotowch erbyn eich cychwynfa i dy yr Arglwydd, gorphwysfa y Saint."

YR YMGASGLIAD TUA SEION.

GWELER fawr amryw ddoethineb a daioni Duw tuag at ei blant yn mhob oes yn trefnu gwaredigaeth dynimorol ac ysbrydol, pan y mae holl ddoethineb ddynol yr oesoedd hyny yn credu yn, ac yn canmol y waredigaeth *ysbrydol*, meddant, ac ar yr un pryd yn gwawdio ac yn diystyru y rhai a ymbarotoant i dderbyn y waredigaeth *dymmorol*, gan wyrdroi y dybenion o honi i'w dinystr eu hunain. drwy wrthod ymgasglu gyda phlant, ac yn ol gorchymynion Duw. Arferiad Duw yw rhybuddio y hyd. neu y cyfryw fan o hono ag y bydd ar ei ddystrywio, a'r modd y gwna hyny yw drwy anfon ei weision i bregethu iddynt yr efengyl, neu y drefn a'u dug i gymmod â Duw yn Nghrist: ac wedi hyny amlygir iddynt drefn Duw i'w gwaredu rhag y barau a ddyry Duw ar y rhai amsydd i'w alwad, ac a amharchant ei weision; ac felly dibyna eu gwaredigaeth *ysbrydol* ar eu crediniaeth yn, a'u hyfyddod i'r waredigaeth *dymmorol*. Wedi i'r gweision wahodd. pregethu, annog. a rhybyddio yn daer, mewn amser ac allan o amser, yn

mhob dull arall, ac yn ofer, y bregeth *olaf*, y dystiolaeth *uchaf*, a'r hon sy'n sêlio i fyny bob un a'i gwelo yw, *ffoedigaeth y Saint!!* Tystia hyn eu bod yn gwybod beth y maent yn ei wneuthur. Tystia hyn fod y perygl wrth y drws, ac yn anocheladwy drwy aros. Tystia hyn nad rhagrith a achosa i bobl adael eu gwlad, eu perthynasau, eu meddiannau, a'r oll a fu yn werth ei gael yn eu golwg. Dyma y dystiolaeth a sêliodd i fyny y Sodomiaid. Dyma oedd tystiolaeth olaf y Saint i'r Jerusalemiaid; "pan weloch Jerusalem wedi ei hamgylchu a lluoedd, *ffowch i'r mynyddoedd.*" Felly y tystiolaetha Saint y Dyddiau Diweddaf hefyd drwy eu hymgasgliad o bob gwlad a chenedl yn un teulu, ac a ffoant tua'r mynyddoedd creiglyd, a'r gorllewin pell, i chwilio am y waredigaeth sy'n addawedig rhag y barnau, y newynau, yr heintiau, &c., sydd i ddilyn megys wrth eu sodlau. Parha y ffoedigaeth olaf hon i ddylifo wrth y miloedd o bob iaith a chenedl tua chanol nod eu hymgyrch, neu'r *load stone*, sef SEION, hyd nes y delo y rhai gonest eu calon i glywed am, ac i ufyddhau i, genadwri Duw drwy ei Saint yn ngoruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd diweddaf hyn, dyben ac amcan yr hon yw crynhoi ynghyd yn Nghrist Iesu ei holl etholedigion, sef ei Saint, o bedwar cwr y byd i Seion. Eisoes y mae ysbryd y casgliad wedi dwyn ei filoedd o ynys-oedd y môr, heblaw o bob talaeth drwy'r cyfandir. Tiriodd yn California yn ddiweddar 150 o frodorion y *Sandwich Islands*, yn flaenffwrwyth o'r cawd toreithiog a droant eu wynebau etto o Ynysoedd Môr y De tua Seion am waredigaeth. Nid yw y rhai hyn ond ychydig mewn cyferbyniad i'r gweddill o'r brodorion hyny sydd wedi ufyddhau i gyflawnder yr efengyl eisoes, er gwaethaf gwrthwynebiadau y cenadon sectaraidd hefyd, cofier. Onid yw holl arwyddion yr amserau yn profi i chwi, Saint, yr anghenrheidrwydd sydd am ryw ym-guddfa ddiogel rhag y llied bygythiol? Fod eisiau dianc i'w hystafelloedd am enyd fechan hyd onid elo yr aflwydd heibio? Gofynwch i holl ddoethion ein hoes, yn mha le y ceir gwaredigaeth? Ac ni cheir ateb. Gofyner i'r gwaelaf o'r Saint, pa le y bydd gwaredigaeth dymmorol? Ateba, mai yn "*Mynydd Seion*," medd Duw, a gwyr yn mha le y mae hwnw! Dyna y lle a hoffodd yr Arglwydd yn drigfa iddo ei hun; "Efe a fendithia ei *lluniaeth*, ac a ddiwalla ei *thylodion a bara.*" Hefyd, cofier mai "tegwch bro, harddwch y byd, yw mynydd Seion yn *ystlysau y gogledd.*" ebe y Bibl. Chwi blant Seion, dyrchefwch chwi eich penau goruwch yr holl drallodion, serch eich bod ar wasgar drwy Babilon fawr; y mae eich ymwarded chwi yn agosâu yn gyflymach nâ'i dinystr hi, serch hyny. Ynbarotowch, ymbarotowch yn mhob dull i dalu eich dyledion i'r byd; ymdrechwch rybuddio pawb yn dyner o'u perygl, a thystiolaethed eich esiamplau da i bawb lle y bo'ch, eich bod yn ceisio gwlad well; i'e, un yn llawn o bob daioni.

CYMMANFA SIR FYNWY.

CYNNALIWYD y Gymmanfa hon yn Nant-y-glo, dydd Sul. y 25 o Ebrill. Am ddeg y boreu, yr oedd y Neuadd yn orlawn o bobl siriol, a channoedd yn myned ymaith oherwydd methu cael lle i ddod i mewn.

Etholwyd Capt. D. Jones yn llywydd, yr hwn, wedi cydnabod yn ddi-olchgar yr anrhydedd mawr a'r ymddiried a roisant ynddo, a dangos pwysfawrogrwydd a chyfrifoldeb y cyfryw lywyddiaeth, a ddymunodd gynorthwy fydd a gweddiau y Saint i'w chyflawni yn iawn, ac a agorodd y gymmanfa drwy ganu a gweddio. Anerchodd y dorf yn serchus ac effro o harthed i'r gwaith mewn llaw, &c., ac yna galwodd ar lywyddion y gwahanol ganghenau drwy'r gynnadledd i gynrychioli eu heglwysi, yr hyn a wnaed fel y canlyn:—Rhif y canghenau, 8; Henuriaid 8; Offeiriad 16; Dysgawdwr, 10; Diaconiaid, 5; y nifer a fedyddiwyd er y gymmanfa ddiweddf, 114. Cyfan-nifer, 236. Darluniai y llywyddion ansawdd eu canghenau yn gysurus a gobeithiol iawn; fod cariad a sel yn cynnyddu fel yr oedd erlidigaeth yn poethi; fod y Saint yn cynnyddu mewn doniau ysbrydol yn ogystal ag mewn rhifedi, ac fod y rhai taeraf a duwiolaf yn derbyn doniau ychwanegol, er fod rhai a ddaethant i mewn o ddibenion gau yn troseddu ac yn dychwelyd i'w lle eu hun yn ol weithian.

Yn y cyfarfod prydawnol, wedi cyfranu o Swper yr Arglwydd, galwyd 2 Henuriaid; 7 Offeiriad; 4 Dysgawdwr; 4 Diaconiaid; bendithiwyd anryw blant; a dangosodd y llywydd yn Saesneg a Chymraeg, bwysfawrogrwydd, defnyddioldeb, dyledswyddau, a chyfrifoldeb, y gwahanol swyddwyr. Yna daeth y llywydd F. D. Richards, cenadydd o'r America, yn mlaen, ac a gyfarchodd y Saint yn fyr a melys iawn, gan ddangos y gobaith a osodwyd o'u blaen, a'u sicrwydd o'u mwynhau ar lwybr eu dyledswyddau, &c.

Am chwech, pregethodd yr Henuriaid Wm. Davies, Rymny, egwyddorion sylfaenol yr efengyl dragywyddol, a dilynodd y brawd Richards ef, gan ddarlunio gyda medrusrwydd a hyawdledd rhyfeddol, ogoniant Seion, a mawr fwyniant ei phreswylwyr, dylanwadau santeiddiol yr Ysbryd Glân ar y Saint, pa fodd eu haddasa i fod yn waredwyr ar fynydd Seion, &c. Ond, byddai rhy faith yma i geisio gwneyd tegwch â'i araeth, yr hon a lawenhai galonau y Saint nes ymddigrifo yn eu gobeithion. Gwnaeth y llywydd araeth fer a chymhwysiadol i'r Saint, i'r gwrandawwyr siriol, ac yna cyfarchodd ein herlidwyr (pa rai oeddynt ar y pryd, yn taflu ceryg drwy'r ffenestr yn ei ymyl) gan weddio drostynt; a thersynodd y gymmanfa gysurus hon er bendith mawr i lawer heblaw i'r Saint.

DAVID JONES, *Ysgrifenydd.*

PROPHWYDOLIAETH MR. WESLEY AM FORMONIAETH!

ODDIWRTH weledigaethau Daniel dysgwyliai y duwiolfrydig Mr. Wesley, ebe "Yr *Amserau*" Americanaidd, y dechreuai cyfnod newydd yn y byd crefyddol yn y flwyddyn 1827, yr hyn a wnai drwy roddi yr "amser, anseroedd, a hanner amser," h.y. 1260 o flynyddau ag y byddai yr eglwys yn y diffaethwch, at y rhif 567, sef yr amser pan aeth yno; a dywedai mai yn y flwyddyn 1830 y dechreuai y gwaith mawr hwnw a ddygai y milflwyddiant i mewn!! Rhyfedd mor gywir y cyfrifodd; canys yn y flwyddyn hono sef 1827, yr ymddysgleiriodd goleuni cyflawnder yr efengyl i'n daear ni, y daeth yr angel a welodd Ioan, Dat. xiv, 6, ac yr adferodd allweddau teyrnas Dduw i'n byd, y dygwyd

"Llyfr Mormon" i oleuni o ynguddfa oesoedd, ei cyfieithiwyd drwy ysbrydoliaeth, a thrwy yr "Urim ar Thumim:" ac yn y flwyddyn 1830, y sefydlwyd eglwys Iesu Grist, Saint y Dyddiau Diweddaf, ar sail Apostolion a phrophwydi, ac Iesu Grist ei hun yn ben conglfaen. Nid oedd ynddi y pryd hyny ond chwec'h o aelodau, ac erbyn hyn mae cannoedd o filoedd drwy bedwar cwr y byd, ac ynnysoedd hefyd yn byw mewn gobaith o gael mwynhau heddwch a gwynfyd y Jubili fawr ag y dywed Mr. Wesley oedd i ddechreu y pryd hyn. Mae cannoedd, os nad miloedd, o'i ganlynwyr ef wedi ufyddhau i gyflawnder yr efengyl, ac yn gweled mai gwir yw ei brophwydoliaeth; a'r rhyfeddod fwyaf yw, pa fodd y gall neb o'r rhai a'i credent ef mewn pethau ereill ei ammau yn hyn, na gwrthod golenni dwyfol hwn pan gynnigir iddynt! Credwn y buasai Mr. Wesley yn gorfoleddu yn y newyddion daionus hyn pe cawsai gynnig o honylt. Rhodiodd yn ol y golenni goreu a allai gael, a diau mai mawr fydd ei wob'r. Ai tybied na fydd yn dyst yn erbyn hyd y nod y rhai o'i ddilynwyr, a wrthodant yr efengyl hon, yn enwedig pan y mae efe wedi gadael ei dystiolaeth ar ol am dani!

TIRIAD DIOGEL Y DDAU APOSTOL.

DYWENYDD mawr fydd gan y Saint glywed yn ddiâu fod yr apostolion P. P. Pratt, a John Taylor, wedi tirio yn New Orleans yn iach a chysurus, ar y 10fed o Fawrth, ac wedi cael ager-fad yno i'w cludo i fyny at eu brodyr a'u teuluoedd. Diolch i'w Ceidwad am eu cynnal.

LLAWNDER O FLAEN NEWYN!

YN yr Aifft bu saith mlynedd o lawnder o flaen y saith mlynedd newyn. Nid ydym yn dweyd mai felly y bydd yn yr America; etto, os nad go gyffelyb y bydd yno, profir nad ydym ni yn deall na phrophwydoliaethau nac arwyldion yr amserau. Mae yr Unol Daleithiau wedi dangos haelioni mawr a ehanmoladwy iawn at ddyoddefyddion newynog yr Iwerddon. Maent wedi llwytho llongau rhyfel â lluniaeth, a'i anfon yn rhad dros y môr i ddeiliaid y llywodraeth hon! Da iawn. Ond goddefasant i gannoedd o filoedd o'u deiliaid eu hunain gael eu halltudio yn ddiachos o'u tai, eu tiroedd a brynasant ganddynt hwy, i farw o newyn yn yr anialweh o'u rhan hwy, heb neb i dosturio, na braich i'w cynnal, ae heb son am eu hanrhegu â bwyd na dim. *Charity begins at home*, ebe'r hen air; ond nid felly hwynt tuag at y Saint. Ooid â'r mesur y mesurant yr adfesurir iddynt hwythau?

Casglwyd yn agos i hanner miliwn o *ddollars* mewn llai o amser yn y wlad hono i'r Gwyddelod nag y buont yn yspellio y Saint yn yr un wlad o gymmaint â hyny bum gwaith o werth, heblaw y bywydau annhrisiadwy a ferthyrwyd, a'r dyoddefiadau ereill a archollasant ar y Saint! Dangosasant y tirioudeb mawr hwn at *estronïad*, a'r ereulondeb a'r anghyfiawnder mawr arall at eu *brodyr gwladol*! Diwallasant angenion y rhai oeddynt yn dyoddef oherwydd pethau y byd hwn, ac aethant heibio i blant Duw, y rhai sydd yn dyoddef yr oll oherwydd dystiolaeth Iesu a gair Duw, gan droi eu penau draw, a'u gadael yn yr anialweh yn fwyd i fwystfilod rheibus o'u rhair hwy! Gwiriant un gair o leiaf yn hyu, sef fod "plant y byd hwn yn ddoethach yn eu

hocs [i helpu y naill y llall] nag yw plant y deyrnas," er nad yn ol eu gallu ychwaith.

Drwy lythyr a dderbyniasom oddiwrth yr apostol Orson Hyde, yr hwn a ysgrifennodd ar ei gyrhaeddiad yno o Lynnleifiad, dywed nad oedd yn yr holl ddinas, sef Caerfrog Newydd, ddigon o flawd i ddiwallu y trigolion am beiwar diwrnod, oherwydd iddynt ei werthu mor llwyr i farchnadoedd Ewrop, gan ddysgwyl i'r afonydd a'r camlasau agoryd yn gynt, a chael eu siomi. Heblaw hyn, deallir hefyd fod y prynwyr yd a blawd o wahauol wledydd, heblaw o'r taleithiau dwyreiniol, wedi heidio i'r gorllewin drwy ddyffryn y Mississippi, ac wedi sicrhau y mwyrif o gynnyrch y llynedd oedd yn y wlad, ac am ei ddwyn mewn llongau i'r byd dwyreiniol. Os felly, nid anhebyg y bydd eu blawd, &c., mor brin yn y taleithiau dwyreiniol ac yma cyn y cynauaf nesaf, yn enwedig pan gofir fod cynnifer wedi, ac am ymfudo yno o wledydd ereill eleni, ac yn y pum mlynedd blaenorol, pa rai a gynorthwyant i fwyta y gweddill a fydd yno with gwrs. Ond etto meddwn, beth fydd eu sefyllfa os metha yr yd yn y cynauaf nesaf? Cofier hefyd at hyn, y llyneu mawr sydd gan eu byddinoedd lliosog ar hyd gororau Mexico. Pan y daw yr holl bethau a draethwyd iddynt i ben, yna y cofiant, gobeithio, ac yr edrychant ar eu dwylaw gwaedlyd, ac y deallant fod gwaedd eu trancedigion, ac ochain y weddw a'r amddifad a yspeillasant o'u lluniaeth a'u holl eiddo, wedi cyrhaedd hyd glustiau Arglwydd Sabaoth.

AMERICA A MEXICO.

YMBDENGYS fod y blaenaf yn llwyddiannus iawn i ladd miloedd o'r trueiniaid ereill yn eu gwlad eu hun. Maent wedi ennill anryw ddinasoedd yn ddiweddar oddiar Mexico, ac ar ol meddiau Vera Cruz ant yn mlaen tua phrif ddinas Mexico. Dywedir fod Santa Anna wedi cael ei urddo yn llywydd ar Mexico. A sonia rhai newyddion fod heddwch i gael ei wneyd rhwng y ddwy wlad, drwy i Mexico adael i'r Americanaid gael y Californias.

YR IWERDDON.

DYWEDIR fod clefydau yn dilyn camrau y newyn yn gyflym. Darllenwn hanesion truenus am gynnifer yn marw fel na ellir cael eirch i'w claddu. Dywedir fod cyrff mewn rhai teuluoedd yn gorwedd yn y tai am hir amser heb neb o'r teulu yn ddigon galluog i'w claddu; a rhai wedi eu claddu rywfodd yn y gerddi, neu yn oehr yr heol-ydd yn y wlad, a'r cwn newynog yn eu llarpio wed'yn! Arswydus yw eu sefyllfa, a'r hwn sy'n dal tynghed cenedloedd yn ei law a drugarhao wrth ei blant nes yr agorir y ffordd o ymwared. Dyry un o newyddiaduron Llundain gyfrif fod dwy filiwn yn marw o newyn yn yr Iwerddon mewn blwyddyn i yr hyn a wna 5479 mewn diwrnod, 228 bob awr, neu yn agos i bedwar bob mynyd.

AT EIN DOSPARTHWYR.

ANWYL FRODYR.—Welc y *Prophwyd*, trwy eich eynorthwy chwi a'r darllenwyr ereill, wedi byw nes cyrhaedd yn grwt blwydd oed. Ni ellwch etto braidd ddirnad ei ddefnyddioldeb i chwi os cynnelliwch ef nes y delo i faint ac oedran gwr. Hydraf, gydweithwyr caredig, y gofalwch ar fod yr arian yn treiglo eu ffordd tua'r Wasg a'i gyra i'ch plith; ac er ei fod yn haiarn, gwyldech na ull fyw heb arian. *Hint*, gobethiwn, a wna y tro ar hyn i ffyddloniaid.

CYMMANFA MORGANWG.

CYNNELIR y Gymmanfa hou yn Neuadd y Cymreigyddion, (*White Lion*), Merthyr, dydd Sul, Gorphenaf 1leg.

Bydd *Cylchwyl y Gymdeithas Genadol* ar y dydd canlynol, sef dydd Llun y 12fed. Gellir cael tocynau am swllt yr un gan lywyddion yr holl ganghenau, ac ereill, a thaer erfynir ar holl ewyllswyr da y gymdeithas ddaionus hon ymdrechu a allont erddi, gan obeithio na bydd y chwiorydd tirion un ddim ol i'w sel, eu hymdrechion, a'u ffyddlondeb blaenorol.

D. S: Bydd y wledd ar y ford erbyn hanner awr wedi dau o'r gloch y prydawn, a thraddodir darlithoedd yn yr hwyr.

GWOBR AM WERTHU LLYFRAU!

GWOBRWYIR yr hwn a wertho fwyaf o'n llyfrau erbyn diwedd y flwyddyn, â chopi o bob traethawd a gyhoeddwyd genym yn y flwyddyn wedi eu rhwymo, ynghyd â'r gyfrol o'r *Prophwyd*, mewn croen llo yn y modd harddaf a ellir ei gael. Yn awr, frodyr a chwiorydd anwyl, pwy a gaiff y wobr? Bydd yn hoff gan y *Prophwyd* gyhoeddi i'r byd pwy a'i hennillodd, a thalu ei ddiolchgarwch gwresocaf i'r hwn a gyrhaedda y gamp uchaf.

CYNNWYSIAD.

Deiliaid Bedydd.....	85	Cymmanfa Sir Fynwy.....	96
Seion. Ei Lleoldeb, &c.....	86	Prophwydoliaeth Mr. Wesley am	
Y " <i>Casawr Twyll</i> ." Parhad.....	90	Formoniaeth.....	97
"Meiriadog" fawr ei drwt o Lanfair		Tiriad Diogel y Ddau Apostol.....	98
Caereinion wedi fforffetio ei ben		Llawnder o flaen Newyn.....	98
i fod yn football.....	93	America a Mexico.....	99
Newyddion o'r Gwersyll blaenaf....	94	Yr Iwerddon.....	99
Dyfyniad o Lythyr o eiddo un o'r		At ein Dosbarthwyr.....	99
" <i>Deuddeg</i> ".....	95	Cymmanfa Morganwg.....	100
Yr Ymgasgliad tua Seion.....	95	Gwobr am Werthu Llyfrau.....	100

MERTHYR-TYDFIL :

CYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH
HEFYD GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL.

PROPHWYD Y JUBILI,

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 13.]

GORPHENHAF, 1847.

[PRIS 2g.

DYLEDSWYDDAU Y SAINT AR OL EU BEDYDDIO.

“DYLAI y swyddogion gael digon o amser i egluro iddynt eu dyledswyddau eglwysig hyd y gellir, cyn y caffont eu cadarnhau trwy arddodiad dwylaw yr henuriaid [lle y bo eglwys. onid e gellir eu cadarnhau yn y fan eu bedyddir] na chyn iddynt gyfranogi o'r sacrament. Dylai yr aelodau brofi, drwy eu ffydd a'u gweithredoedd, ynghyd â'u rhodiad difrycheuyl yu ngwydd pawb, a'u hymarweddiad duwiolfrydig gerbron Duw, eu bod yn teilyngu o fewn i'w eglwys le, a chyfran o'i breintiau.”—*Ath. a'r Cyf.*

Saint anwyl, cofiwch “nad â phethau llygredig megys arian neu aur y'ch prynwyd oddiwrth eich ofer ymarweddiad, ond â gwerthfawr waed Crist.” Cofiwch eich bod yn ddrych i'r byd, a bod hyd y nod y proffeswyr creill a amddiffynant eu cyfundraethau ar gost ffaeleddau personau, yn barod i gondemnio yr efengyl a gredir genym ni oll oherwydd y brycheuyn lleiaf a welant yn neb o bonom. Cofiwch fod i'n herbryn yn awr yr holl fyd, y enawd, a'i wyniau, a'i chwantau, a holl dywysogaethau ac awdurdodau teyrnas y tywyllwch; am hyny, gwisgwch am danoch holl arfogaeth Duw ynte, fel y galloch wrthsefyll holl bicellau tanllyd y fall. Pan eich erlidir ac y'ch camgyhuddir, yn eich amynedd meddiennwch eich eneidiau, gan ymddiried am gyfiawnder yn yr hwn a ddywedodd, “Myfi a dalaf.” Er fod cariad Crist yn ein cymhell i dystiolaethu i ereill am y sierwydd sydd ynom, y bendithion a fwynhawn, ac yn ein cymhell i'w gwahodd hwythau i ufyddhau i'r efengyl, etto dylid ymdrechu am wneuthur hyn mewn doethineb, mewn eglurdeb, sobrwydd, a phwyll, rhag ofn na ddeallant, a rhag i chwi eu drygu yn lle eu hargyhoeddi. Yn anad pob peth cyng-

H

[CYF. II.

horwn ar fod pob cynghor a deniadau iddynt yn tarddu oddi ar gariad atynt.

Gorffodir ni cyn hyn i gredu fod y Saint wedi tynnu erlidigaeth arnynt eu hūnain weithiau yn ddiarwybod, drwy dystiolaethu i'r byd am ba ddoniau a dderbyniasant hwy ac ereill, &c. Pa faint gwell yw hynny i'r rhai na chredant eiriau pendant Iesu Grist, pan ddywel, "Y neb a gredu ac a feddyddir a fydd cadwedig;" "A'r arwyddion hyn a ganlynant y rhai a gredant," &c., nag a fyddai "taflu gemau o flaen y moch." Beth a ellir ddysgwyl yn amgen nag iddynt "droi a'ch llarpio?" Ceisied pob un at bob dawn arall, *ddoethineb*, ac a'i holl egni ceisied ddeall, fel yr iawn ddefnyddio y pethau ereill.

Cynghorwn y Saint oll, yn enwedig y newyddiaid yn y ffydd, (yn llytrach na dadleu a chyndynu gyda'r rhai gwyrddaws o'r byd, a geisiant gyffroi eich hysbryd, fel y troseddoch, ac y caffont achos i'ch herbyn, na chyda'r rhai sy'n chwythu hien ystoriau disail i'ch wynebau), am i chwi ymgyfeillachu ar bob cyfleusdra gyda'r rhai ag ydynt iach yn y ffydd, y rhai sydd wedi derbyn, ac yn rhodio yn ngoleuni a dyddanwch yr Ysbryd Glân, fel y cynnyddoch beunydd yn y santeiddiaf ffydd. Cofter fod ymddyddanion drwg yn llygru moesau da; a chan nad oes neb yn sefyll ond drwy nerth Duw, gwylier fel nad eler i brofedigaeth drwy gwrdd â thenitasiynan, ac felly dristâu Glân Ysbryd Duw. Cynghorwn y Saint i fod yn ofalus iawn na bo y brycheuyn a welant, yn arall yn ddraen yn eu calonau hwynt, yn greddfau yno yn wreiddyn cliwerwedd, ac yn crawni nes gwenwyno eu hireidd-dra, ac oeri eu cariad cyntaf. Y feddyginiaeth oreu rhag hyn yw, nid ei daenu ar led yr ardal, nac ynganu gair wrth neb cyn myned at yr hwn y tramgwyddwyd wrtho, ac mewn cariad ei argyhoeddi; ac, ond odid mai dyna ddiwedd y rhwystr, yn enwedig os meddir yr Ysbryd hwnw sy'n *cuddio* lliaws o becholau, yn lle yr Ysbryd cyhuddiadol a niweidiol hwnw ag sy'n amlygu beiau ereill. Ymogeler rhag hwnw fel rhag y wiber! Dysgwylia y byd, ac nid heb achos ychwaith, i'r Saint sy'n proffesu y fath dystiolaeth werthfawr, nefolaidd, ac anhygoel, i ymarddelwi yn gyferbyniol yn mhob peth da, a dysgwylia Duw iddynt fyw yn dduwiolach na neb sydd dan haul. Nid ydym yn ammau nad ydynt felly hefyd; etto, ofer gwadu nad oes lle i gynnyddu llawer gan y goreu o honom.

“Dylai pob aelod a fedd blant eu dwyn at yr henuriaid gerbron yr eglwys, pa rai a ddodant ddwyllaw arnynt yn enw Iesu Grist, ac a'u bendithiant yn ei enw ef.” “Ni dderbynir neb i eglwys Crist hyd oni chyrhaedda oedran cyfrifol, h. y., y gallo wybod rhwng da a drwg, ac edifarhau yn ddealladwy.”

DOETHINEB YW GALLU.

PROFIR y gwirionedd o hyn mewn llawer dull, amser, a gwlad. Addefir fod gan y doeth ragoriaeth ar yf' annoeth. Wd, dilyner y resyng i'r eith fion, a gwelir gallu a gwer h doethineb. Mae gryn dynion i gyrhaedd gwrthddrychau eu serch yn gyferbyniol i'w deallwriaeth am y cyfryw; ac i'r graddau ag y dealla gwladgarwr sefyllfa ei wlad, a chelfyddydwr ei gelfyddyd, yn gyferbyniol i'r doethineb a fedda pob un y bydd ei allu a'i nerth (yn yr iawn ddefnydd o honynt) i lesoli; felly dywed y doethaf o ddynion, “Cyfiawnder a ddyrchafa genedl;” a chlynnwysa cyfiawnder ddoethineb, yr hyn yw gailu!

Amlwg yw fod dau fath o ddoethineb; canys bu llawer un yn meddu yn ei dro allu mawr, hyd y nod ar ymerodraethau, ac etto heb fod yn gyfiawn. Mae y ddau fath hyn yn elynion i'w gilydd yn aml, sef doethineb dynion yn groes i ddoethineb Duw, a doethineb y byd hwn i'r ddoethin b sydd oddiuchod, yr hon sydd foneddigaidd, a hawdd ei thrin. Dywedir ddarvoud i Dduw wneuthur doethineb y byd hwn yn ynydrwydd, a bod ffolineb Duw yn ddoethach nâ dynion. Yr achos o hyn oedd, oherwydd fod flyrdd Duw yn wahanol i flyrdd dynion; a pho mwyaf a feddai dynion o'r hyn a alwent hwy yn *ddoethineb*, mwyaf oll a wrthwynebant ar ddull y Duw doeth yn cario ei waith yn mlaen. Ceufigenent yn aml oherwydd fod doethineb Duw yn ethol ffol-bethau y byd (neu y rhai a ystyrid felly), fel y gwaradwyddai y doethion, neu y rhai a ystyrid yn gyfryw. Y mae graddau y gwahaniaeth hwn i'r graddau ag yr ymddieithrodd dyn oddiwrth yr “unig ddoeth Dduw,” a gwrthwynebiad doethineb dyn i ddoethineb Duw a brofa eithafion ei lygredigaeth ei hun, ei ffolineb, ac o ganlyniad, ei *anallu* i wrthwynebu gwaith a gweision Duw. Mae'n amlwg mai oherwydd eu doethineb ddwyfol y deallodd “plaut doethineb” pa fodd i orchfygu eu gelynyion ffolach; er enghraifft, Joseph oedd y doethaf yn yr Aipht; Moses oedd ddoethach na seryddion yr Aipht; Dafydd oedd ddoethach nâ holl weision Saul; Solomon oedd y doethaf yn ei ddydd; Daniel oedd ddoethach nâ holl ddoethion Babilon; yr Apostolion trwy eu doethineb (fel y maglodd eu blaenor y doctoriaid pan etto ond plentyn) a rwydasant rabbiniaid a doethion penaf y byd, yn unig oherwydd, ac i'r graddau y cyrhaeddasant eu doethineb; ac yn nihob amgylchiad, i'r graddau hyn y byddai eu nerth, neu eu gallu i gyfiawni eu hamcanion eu hunain trwy ddoethineb serch i'r lleill genfigenu wrthynt, eu herlid a'u lladd, ac felly brofi drwy ffeithian, eu ffolineb eu hunain, a doethineb y dyoddefyddion, yr hyn a brofa fod cyfiawnder yn cynnwys doethineb, ac mai oherwydd eu doethineb y dyoddefai y doeth, gan rag weled cyfiawnder yn dilyn yn nglorianau ei Dad cyfiawn a *doeth*. Felly doethineb a gyfiawnhawyd gan ei phlant ei hun yn nihob oes a gwlad; ffolineb yw ceufigen, yn tarddu oddiar wreiddyn drwg, a'i firwyth yw anghariad, erlid, dial, &c. Dyma y “rith doethineb mewn *ewyllys* grefydd [sef yn eu meddwl eu hunain]

a gostyngeiddrwydd [ymddangosiadol], a bod heb arbed y corff," ag y sonia Paul am dani: nid y rhyw iawn o ddoethineb yw hon. Ond Iago a ddengys y gwahaniaeth rhyngddynt yn eglur,—“Pwy sydd wr *doeth* a deallus yn eich plith? dangosod trwy *ymarweddiad da*, ei *weithredcedd* mewn *myneidd-dra* doethineb.” Nid galw eu cyd-ddynion yn dwyllwyr, yn gau-brophwydi, ac yn sataniaid, &c., heb gynnyg iu prawf o hyny, fel pe dywedasai, canys rhai ffol a wna felly. “Eithr od oes genych genfigen chwerw ac ymryson [hyd y nod] yn eich calon, na fyddwch ffrostwyr, a chelwyddog yn erbyn y gwirionedd [fel y rhagwelaif wawdwyf ffol y dyddian diweddaif yn gwneyd]. Nid yw y *ddoethineb hon* yn disgyn oddiuchod, ond daearol, anianol, cythreulig yw, canys lle y mae cenfigen ac ymryson, yno y mae terfysg a phob gweithred ddrwg.” Pa ddoethineb a ddichon fod yno! “Eithr y ddoethineb sydd oddiuchod, yn gyntaf pur ydyw, wedi hyny heddychlawn, boneddi-gaidd, hawdd ei thrin, llawn trugaredd a ffrwythau da, diduedd, a diragrith.” Wedi dangos cymmaint â hyn am y gwahaniaeth sydd rhwng y ddwy ddoethineb, sef y ddwyfol a'r ddynol, gwelir tarddiad a thueddiad pob un, a'u sugndod tua'n fflynonell wreiddiol; canys i'r graddau ag y derchafa y ffrwd, yr efelycha ei fflynonell; felly, i'r graddau y cynnydda plant Duw mewn doethineb yr efelychant eu Tad mewn gallu. Anchwiliadwy ddoethineb Duw a'i dysgodd pa fodd i greu y niloedd dirif o fydoedd, a dyna yw ei hollalluogrwydd i'w rheoleiddio; deall cyfreithiau a lywydda y bywyd elfenawl y mae; oherwydd yr hyn gorebymona iddynt fyned, dyfod, neu ymgymysgu, fel y myno; ac felly y bu, y mae, ac y bydd. Profir hyn os darllenir Jer. x, 12, 13; P'salm cxxxvi, 5, 6; ac i'r graddau y cyfrana y ddoethineb hon i ereuil, yr ufyddha yr elfenau iddynt hwythau, fel y profa Paul i'r neb a gred eu hanes, gwel Heb. xi. Gwyddai Josuah ac ereill hyn yn burion; ac felly y cafodd yr haul a'r lloer ddeall yn fuan, a'r *secret* o bob gallu yw *ffydd*, canys ni ddichon fod *ffydd* heb *sail* iddi, yr hyn ydyw *doethineb* neu *ddealltwriaeth* o barthed i'r cyfryw bethau; a pha fodd y deallent heb i ryw un eu dysgu. Pwy a allai eu dysgu ond yr hwn a ddeallai, sef Duw? Pa fodd y dysgai efe hwynt ond drwy ddadguddiad? Wel, yma etto, gweler ffolineb gwadwyf dadguddiad, canys ni fynant ddoethineb o'i fflynonell drwy ei phibellau dwyfol ei hun; a'r canlyniad yw, “nad adnabu y byd trwy ddoethineb mo Dduw,” ac ni fynant, oherwydd mai ffolineb (meddant) yw y ffordd i'w adnabod. Felly gwelir fod pawb a wadant ddadguddiadau oddiwrth Dduw heb ei “adnabod” ef; a bod heb adnabod Duw yw bod yn amddifad o fywyd tragwyddol; canys “hyn yw y bywyd tragwyddol, dy adnabod di yr unig wir Dduw.” Ond gweddiad Paul yn hollol groes i holl *orthodoxy* y 19eg ganrif, dros yr Ephesiaid; gweddiad “Ar i Dduw ein Harglwydd Iesu Grist, Tad y gogoniant, roddi i chwi ysbryd *doethineb* a *DADGUDDIAD*, trwy ei *ADNABOD EF.*” Os addefir doethineb Duw tuhwnt i bawb arall (yr hyn ni feiddir wadu ar air ychwaith, debygem), hyny yw addef mai “y rhai a ddeallant fwyaf o'i ddirgelwch ef a'i hefylychant ef agosaf mewn doethineb; ac felly, y rhai a gyndeithasant fwyaf ag ef a ddeallant fwyaf o'i ffruadau. Yma hefyd y gwelir ffolineb doethion y byd hwn yn ymfrostio o'u deallwriaeth am Dduw, dan ymfrostio hefyd mai drwy eu dyeithrwech iddo y cawsant ef allan! Y gwahaniaeth mawr sydd wedi bod, ac yn parhau i fod, rhwng doethineb Duw a doethineb dynion yw fod y

náill yn cael ei dysgu gan y pen-ysgolhaig ei hun, drwy ddadguddiadau, a'r lleill drwy ddyunion, y rhai a ddysgwyd gan ddyunion ereill, a'r rhai hyny oll yn gwadu yr anghenrheidrwydd am wers aniongyrchol, yn gwawdio, yn casáu, ac yn erlid y rhai a ddysgid felly, gan eu cyhuddo o fod yn ffyliaid, &c. Fel hyn y mae o'r dechreu braidd. Pan gymmeradwyodd Duw offrw m Abel, onid oedd hyny yn ddadguddiad oddiwrth Dduw iddo? Diau y credai Cain y dadguddiadau a gawsai ei dad Adda, ac ni oddefai ychwaneg; ac felly drwy genfigen lladdodd ei frawd o'r herwydd. Noa yntau oedd y doethaf ar y ddaear yn ei ddydd, a'r modd y profodd hyny oedd drwy gael gallu i achub ei hun a'i deulu; cafodd y ddoethineb hōno yn bur o'i fffynnonell, ac etto pwy o'i gyd-oeswyr a'i coeliai, tebyg y credent yr holl rai a gawsai y rhai gynt, ond ffloneb oedd cael ychwaneg, am nad oedd eu heisiau. Abraham hefyd a ddaeth, gan broffesu y gwyddai rywbeth am Dduw a'i ddirgelion drwy brofion; ond pwy ai coeliai. Beth, ebe y doethion, rhyw grwydryn gwibiog fel hwna feddu doethineb! ac yn dwyn rhyw grefydd newydd i'n plith: am y dadguddiadau a gawsai Adda, Abel, Enoch, a Noa, nid oedd dim ammheuaeth, ond am yr Abraham ddwl yma, yn hōni iddo ef gael dadguddiadau newyddion, ffloneb yw, ebe yr holl ddoethion. Beth! ebe y selog, y dyn yn dweyd ei fod ef wedi gweled Duw yn ngwastadedd Mamre! ei fod wedi gweled angelion, a'r rhai hyny yn hwyta ac yn yfed!! O rhag y fath haerllugrwydd, ac ymaith â'r fath dwyllwr o'n gwlad gyda'i ddadguddiadau.

Sylwer ar Moses hefyd yn dyfod ar firwst oddiwrth Dduw ei hun gyda dadguddiadau newydd a rbyfedd, gan ddiystrio eu gelynyon â barnau; er hyny doethion yr Aipht a'i gwrthwynebasant ef fwyaf, megys y darfu Cain ag Abel, y *Magi* a'r doethion ag Abraham, oherwydd na allent archwaethu dadguddiadau newydd o'r nef. Addefai offeiriaid yr Aipht a Chanan eirwiredd y rhai cynt yn ol a welsent, etto yr oedd hen fantell y ddunos, sef rhagrith a phenboethni y cynoesoedd, wedi eu gorchuddio, nes y suddasant oll yn y môr, cyn yr addefent wirionedd dadguddiadau eu cydoeswyr. Pa fodd y gallent dderbyn llawer o ddoethineb, ynte? Yr un peth a welir drwy hanes plant Israel; sef, mai po leiaf a henaf y dadguddiadau, mwyaf y cynnyddai doethineb ddynol (ar gost y ddoethineb oddiuchod o anghenrhaid), nes llabyddio pob un braidd a draethai ddadguddiad newydd oherwydd y byddai yn sicr o amlygu ffloneb a thwyll y doethion. Pan y daeth y "cyfiawn" hwnw ei hun oddiwrth Dduw, yr hwn ni wnaeth bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau, cafodd holl "ddoethion" y genedl am y prysuraf yn gwyngalchu ac yn urddo beddau y prophwydi a fu, ac yn credu, yn darllen, ac yn esbonio yn ddoeth iawn, y dadguddiadau a gawsent hwy; ac a'r anadl nesaf condemnient yn ddiarbed genadwri Duw atynt o enau ei anwyl Fab, a gwaeddent, ymaith â'r fath ddyn o'r wlad; y mae cythraul ganddo, &c. Yn nilaen etto, credid tystiolaeth yr apostolion am Grist, ac felly y cawsant "ALLU i fod yn feibion i Dduw," sef doethineb pa fodd i fod, ond pwy o'u cydoeswyr a gredai fod yr Apostolion yn cael dadguddiadau, gweledigaethau, &c. Onid am y broffes o hyny y lladdwyd eu hollynwyr gan y rhai a broffesant gredu y dadguddiadau a gafodd yr apostolion, ac o hyny hyd heddyw gwae i'r neb a feiddia ddyfod â chenedwri oddiwrth Dduw a dweyd ei "od wedi cael dadguddiad; ystyrir y broffes o hyny yn ttiyngu dcdfryd twyllwr yn y fan.

Cofus genym ddywedyd o Iesu Grist, "yr ydwyf fi yn dyfod yn enw fy Nhad, ac yr ydych chiwi [ddoethion] yn ceisio fy liadd i; arall a ddaw yn ei enw ei hun [neu yn enw rhyw *gollege* neu *h'aid*], hwnw a dderbyniwch chiwi." Yr un iaith ac ymddygiad a arfera doethineb yr oes hon yn gywir yn erbyn y "Llyfr Mormon," a dadguddiadau Duw i'w blant: y rhai a broffesant fwyaf o ddoethineb colegawl, pwlpudawl, ac awdurdodawl, y rhai mwyaf selog ar air dros yr hen ddadguddiadau a'r prophwydoliaethau a gafodd y cyn-brofwydi, ac hyd y nod yr apostol'on, a ddywedent, "Gwylwch rhag eich twyllo gan y bobl hyn; haerant eu bod yn cael dadguddiadau, gweledigaethau, &c., fel y caffai y Saint gynt! O! rhag y fath dwyll a haerligrwydd! (meddant). Ymaith â'r fath dwyllwyr o'r wlad, &c." Pa beth yw hyn ond "cyflawni mesur eu tadau," profi gwirionedd y grefydd a wrthwynebid yn gyffelyb gan y cyfryw yn mhob oes a gwlad, a phrofi yr hyn a ddywedwyd, sef y ceuai yn y dyddiau diweddaf watwarwyr, "a chanddynt rith (proffesu) duwio deb. ond yn gwadu ei *grym* hi," sef ei gallu, ei doethineb ddwyfol, y doniau ysbrydol, a'r offeiriadaeth, drwy ba rai yr oedd efe yn Grist *gallu* Duw, a *doethineb* Duw, i'r rhai a alwyd; ac felly llefarent ddoethineb Duw mewn dirgelwch, sef y ddoethineb guddiedig, yr hon ebe Paul, "nid adnabu neb o dywysogion y byd hwn; eithr Duw a'i heglurodd i ni trwy yr Ysbryd, canys yr Ysbryd sydd yn chwilio pob peth, i.e. dyfnion lathau Duw." Etto, dywed. "Pethau Duw nid adnabu neb ond Ysbryd Duw." Yma etto gwe'ir ffolineb y rhai sydd yn ddigon doeth heb eisieu ychwaneg o ddadguddiadau drwy Ysbryd Duw. Pa fodd y derbynir dim gan Ysb yd Duw heb fod hyny yn ddadguddiad? A gwe'ir y ffolineb o broffesu un math o ddadguddiad, a gwadu math arall, megys y doniau, neu weinidogaeth angyliaidd. O wendid doethineb ddynol! Pa sail sydd ganddynt i'w doethineb? Dim gwell, yn ol eu haddefiad, na *hanes* am ddoethineb ereill; ac ni ddiehon fod y *gallu* yn yr *hanes*, ond yn y *mwynhad* o hono, i'r graddau ag y ddsge Ysbryd y ddoethineb y neb a'i meddo. Trwy hwn y llefarent "ymadrodd doethineb;" nid â'r geiriau a ddysgir gan ddoethineb ddynol, ond a ddysgir gan yr Ysbryd Glân. Pan yr cedd geiriau y naill fel efydd yn seinio, neu symhal yn tinciau, yr cedd geiriau y lleill yn allu a nerth Duw, a hyny oherwydd eu cyssylltiad â Duw.

Dirgelwch a gallu mawr y ddoethineb oddiuchod a amlygir drwy eu hymarweddiadau da, eu dyoddef, a'u bod yn mhob oes a gwlad, o Adda hyd 1847, yn derbyn doethineb o'i fflwynonell, a gwybodaeth am bethau mynedol, presennol a dyfodol, trwy ddoniau yr *Ysbryd*, *doethineb*, a *dadguddiad*, fel Paul, a thrwy y Dyddanydd a addawodd Iesu Grist, yr hwn ni ddiehon neb, hyd y nod o *dywysogion* y byd hwn, ei dderbyn, na'i amgyffred, ond ei barnu yn ffolineb; ond i gynifer ag a'i derbyniasant ef, efe a roddes iddynt *allu* i fod yn feibion i Dduw; ac os plant, etifeddion o'r unrhyw *doethineb*, a'r *nerth* hwnw a gauodd safon llewod, a ddiifoddodd anrerdid y tân: ereill a grwydrasant mewn erwyn defaid, a yrasant i ffoi fyddinoedd eu gelynyion, ac oeddynt yn galetach nâ min y cleddyf, cryfach nag ysbrydion y tywyllwch, na tharianau breuinoedd, i.e. nâ phob peth a'u gwrthwynebai. Trwy yr awn dderbydd o'r ddoethineb hon y galluogwyd hwynt, nid yn unig

Ti aberthu eu bywydau yn llawen, i brofi daionus air Duw, a nerthoedd y byd a ddaw, i ddyfod i fynydd Seion, dinas y Duw byw, at fyrddiwn o angylion, i eglwys y cyntafanedig, at Dduw Barnwr pawb, ac at Iesu, Cyfryngwr y Testament Newydd, a gwaed y taenelliad, yr hwn sy'n llefaru pethau gwell nâ'r eiddo Abel; ond y galluogir hwy hefyd i dderbyn y mabwysiad, sef prynedigaeth y corff, ac i gael mynediad i mewn i dragwyddol deyrnas ein Harglwydd Iesu Grist; i.e. yn phellach etto, cyanydda eu gallu yn gyferbyniol i gymydd eu doethineb, nes y delont oll yn un, wedi drachtio o'r ffynnonell nes nosio yn dragwydd yn nghanol y môr o ddoethineb a gallu fel y Tad a'r Mab, yr hyn a brofir gan Grist ei hun: "Y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur, yr hwn sy'n credu ynof fi, yntau hefyd a'u gwna; a mwy nâ'r rhai hyn;" i.e. mwy na chreu a pherffeithio y ddaearen fach hon. *Yn ol eu doethineb y byddai eu gallu.*

GALLU MEDDYDIOL DYN.

MAE y meddwl dynol yn gyfryw ag y gellir ei gynyddu yn raddol, a'i eangu nes amgylchu nâ yn unig y glôd a'i chytlawnder, ond gellir ei saethu ar eiliad hyd entrych yr wybr. Crwydra yn mhllith y byd oedd estronol, y planedau, a'u llenadau dirif, fel y wenol drwy yr awel dencu. Dug y pegynau rhewog i'r un fan, yr haul o'i chyleh ar gledd ei law, a'r lleuad dan ei draed; a threiddia drwy cigion y gwagle fel seren wibiog, ac yn ol ar ei orsedd cyn braidd y gwyddys ei goili. Dirnada drueni truenusion yr holl druenusfyd; yna nedia drwy'r gagendor i'r entrych fry, a than guddlen y caddug sylla yn siriol i'r oesoedd a ddel. Gwena yn nghwmni engyl dirif, a sylla ar drueni ei gydoeswyr, a'r fynydd nesaf gwelir ef yn manwl chwilio i sylwedd y chaos aſtoniaidd cyn symud o'r hunan-ymwymdydd ar wyneb y gwagle; i.e. cyn deffro o neb ond y gwyliedydd yn y cynghor boreu; a thrachefn ar eiliad wele ef ar farch gwyn, a choron aur ar ei ben, ar fôr stawel megys o wydr, a thorf aneirif gydag ef mewn gogoniant, i.e. wedi gosod y hêl droed hon yn mhllith ei chwiorydd a grystalisiwyd i redeg eu cylchoedd yn berffaith oddiamgylch eu *centre of attraction*, sef y "*Kolob*" fawr ei hun! Ie, pa beth ni ddichon wneyd! Dyn heb ei adnabod ei hun yw yr hwn a ddywed na ddichon ei feddwl gynnwys y cyfryw beth. O ddyn, y mae dy feddwl yn hollalluog i'r graddau ag y rhoddi ef mewn gweithrediad teg. Unwaith yn rhydd o llyfetheiriau haiarnaida gau-draddodiad, a chael dyrebafu o ludw cyfeiliornadan y wlad, i awyr iach i anadlu, fel *Pheonix* gynt; i gymdeithasu â bodau deallus, gall ymestyn yn mlaen, ac etto yn mlaen o wirionedd i wirionedd, a chrafangu y gwagle fel gwawl y boreu. Dealla ddirgeledigaethau mynedol, a datgloa y drysau tragwyddol i edrych drwy niwl y miloedd dyfodol, nes y portreiaida holl faith greadwlaeth ei Dad ger ei fron, ac a ddraectia o drysorau anchwiliadwy doethineb gyda thragwyddol gynydd.

Fel y sycheda yr hydd am afonydd dyfroedd, felly y mae meddwl y doeth am ddoethineb; a pho fwyaf a gaisf, fel y bedd an ei ysglyf-

æth, yntau a waedda yn uwch, uwch, "Moes, moes," yn dragywydd, wedi iddo gael gafael ar allwedd doethineb a deall, sef Ysbryd y brophwydoliaeth, Ysbryd dadguddiad, Ysbryd y goleuni, sef Ysbryd Duw.

ADOLYGIAD Y WASG.

Yn awr wedi dod allan o'r Wasg, gan CAPT. JONES, pris Swllt, a gellir ei gael gyda'r Prophwyd yn ddiogel, HANES SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF. o'u Sefydlhad yn 1823, hyd alltudiaeth Tri Cham Mil o o honnynt o'r America yn y flwyddyn 1846.

CYWIRDEB hanesyddol yw prif arwyddair yr awdwr yn y llyfr hwn, ac nid yw wedi esgeuluso na chost na thrafferth, at y manteision a gafodd o fod yn llygad-dyst o lawer o'r golygfeydd a ddesgrifia, i chwilio am dystiolaethau credadwy, megys rhai a roddwyd ar lw mewn llysoedd, ac a gyhoeddwyd i'r byd gan mwyaf, ac sydd yn sefyll yn anwrthwynebol hyd heddiw, a pha rai a fedda yr awdwr yn ofalus yn ei lyfrgell, er boddlonrwydd i'r ammheuydd a ymhola am eu gweled.

Ni wyddai yr awdwr am un ffordd well i ddiwyllio ei gydgenedl nâ thrwy gyflwyno iddynt yr hanes hwn am y grefydd ddwyfol a gam-ddarlunir mor fawr drwy ein gwlad. Gwell i'r darllenydd sierhau copi yn fuan, canys drwy gamsynied yr argraffydd, nid argraffwyd mo'r hanner a ddysgwylasem. Dyfynwn y ddau ddernyn a ganlyn i'r *Prophwyd*, fel y deailo y darllenydd beth o natur ac ansawdd y llyfr:

CYMMERIAD JOSEPH SMITH.

MAE cannoedd o filoedd yn mhedwar cwr y byd a wyddant mai Joseph Smith oedd y dyn duwiolaf ar wyneb daear, i.e., a wyddant hyn, meddwn, tuhwnt i ddaud, heblaw y miliynau dirif a raid iddynt addef hyn etto; ac yn eofn y beiddiwn neb yn Nghymru, nac yn y byd, i brofi i'r gwrthwneb. Meddylid y rhai anadnabyddus o hono ef a fynant am ein tystiolaeth, nid yw hyny o bwys i ni; yr ydym yn atebol i Dduw a dynion ain yr hyn a ddywedwn yn unig, ac ni ddywedwn ond yr hyn a wyddom.

Profir hyn hefyd drwy y gwaith mawr, a'r darpariadau rhyfeddol a wnaeth tuag at adferu crefydd bur, a chasglu gweddillion Israel yn ol cyfammod Duw ag Abraham ac ereill. Gofyuwn yn mlta wlad neu oes y gwnaed y fath chwyldroad yn y byd crefyddol? yr hwyluswyd achos Seion, ac y gorllofwyd y byd â'r fath oleuni uefol, ag a wnaeth Joseph Smith mewn llai nag ugain mlynedd, er pan ymddangosodd yr angel gyntaf iddo? Ie, cofier mai bachgenyn diddys, triniwr anifeiliaid yn y goedwig, oedd efe, braidd yn ddwy-ar-bymtheg oed,—fel yr helyg ar lan yr afon yn gwrthsefyll cynddaredd tônau y frwd lifeiriol, y gwynebodd ac y concrodd y bachgenyn hwn holl ddoethineb ddynol, poblogrwydd, cyfoethogrwydd, a gwargaledrwydd, cenedl drofaus a godinebus, i.e., ac yntau yn amddifad o un medrusrwydd, profiad, cyfoeth, na dylanwad o'i blaid, na dim ond gallu dwyfol, gwirioneddau anwrthwynebol, ffeithiau hunan-brofiadol, a dadguddiadau dwyfol yn cynnwys cymmaint o oleuni, ac o Ysbryd Duw ynddynt, fel na

ellid eu gwrthsefyll o eneau ei weision; ond pa rai ydynt yn saethu eu pelydrau o oleuni nefol a chariad dwyfol, i hob calon onest a'u derbyniant, ac yn adlewyrchu fel pelydrau tanbeidiawl yr haulwen oddiar ddrych gogoneddus, ac yn bywhau, addurno, a gogoneddu, y sawl a'u meddo.

Ergwaethaf holl elynion y gwirionedd i dduo cymmeriad, ac i ystaeenio coffadwriaeth, Mr. Smith, y mae colofnau ei hanesyddiaeth mor ganaid â'r eira gwyn oddiwrthynt oll; ac er addurno y darlun o'i fywyd a'i farwolaeth yn odidocach etto, cydiodd yn eofn a dewr â'i law ei hun yn y brws, a phaentiodd *forder* o'i amgylch o liw ysgarlad, sef *â'i waed ei hun!* Teilwng o'r fath addurniadau yn unig yw yr hwn a wnaeth Duw yn gof-adail i'r bedwaredd gaurif ar hymtheg, o berffeithiad ei nerth ef drwy waeledd offeryn fel Joseph Smith. Daeth allan o ganol tua hanner cant o ffwrneisiau a boethid iddo gau erlidwyr, o flaen brawdlysoedd, ar gyhuddiadau o ryw drosedd neu gilydd, yn saith boethach nag i ereill; ac o houynt oll gwaredodd Duw ef, fel y tri llanc hyny, heb ddeifio blewyn o wallt ei ben (sef ei gymmeriad), nac arogl tân ar ei wisg. Esgus wael fydd gan ei elynion pan safant o flaen Arglwydd Dduw Joseph Smith, a'u Barnwr hwythau, dros dywallt gwaed gwirion. Y pryd hyny hydd yn rhaid iddynt addef y gwir ar gyhoedd, sef, mai o genfigen at ei dduwioldeb, ac o eiddigedd at ei fawredd a'i ogoniant anghydmharol, y lladdasant ef. Diau mai ofni cyfiawnder diweniaith Joseph Smith, a dychryn rhag eu haeddiant eu hunain, yn mhlith pethau ereill, a'u cynhyrfodd i'w ferthyr.

Oherwydd ei larieidd-dra a'i ddiidichelldra yn barnu pawb mor onest ag ef, ymlithrodd rhai dynion dichellgar a hunanol i blith cyfeillion Joseph Smith, pa rai, yn ei gyfyngdra mwyaf, a ymddygent ato fel y sarff hòno a gafodd rhyw ddyn ar y ffordd yn mron a thrigo gan oerni, ac efe a'i cynhesodd yn ei fynwes nes iddi fywiogi, a'r modd yr ad-dalodd ei diriondeb oedd drwy ei frathu hyd ei galon. Felly hwythau ni allent sefyll yn mhlith y gwenith o flaen ei wyntyll rymus ef, pan chwythai droseddwyr o'i wyddfod fel us o flaen corwynt rhythrol. Diau ddarfod i gau frodyr, neu yn hvtach fe'u hadnabyd lir wrth eu henwau priodol, sef "gwrthgilwyr," ddylanwadu yn fawr ar ereill i'w amddifadu o'i fywyd. Hwyl a welsent ei fawredd, a hwy, fel Dalilah gyda Samson, a wyldent am ei wendidau hefyd. Etto mae eu buddugoliaeth arno yn warth i'r dalaeth a'r genedl, ac wedi eu handwyo hwythau yn dragwyddol. Ni allant ei ragdyfu; ni allant ei ragfyw; ac ni allant ei ddadwneyd, ei olchi ymaitli, na'i *raffarw* ychwaith. Y mae y ddedfryd wedi ei hargraffu â phin aur ar galonau miliynau yn eu herbyn, o'r hwn a gydymffurfiodd hyd yr hwn a saethodd y pelen marwol yn ngharchar Carthage; ac yn mhob mynwes lle y triga gonestrwydd, dynoliaeth, cariad at fywyd, neu ryddid a hapusrwydd, oddiyno hefyd yr anadla "anathemau" cyfiawn yn erbyn "cigyddfa Carthage." Dialedd a digofaint Duw cyfiawn a dynion da, a gaulynâ gamrau yr holl euogion a'u cefnogwyr gyda dychrynfeydd, fel y disgrifia Milton byrth mynedfan y Jehenna ei hun,—

"———— grating: harsh thunder."

Dywedodd ein Harglwydd, "Anghenrhaid yw dyfod rhwystrau; ond gwae y rhai hyny trwy ba rai y deuant!" Yn ol y rheol y professa yr holl fyd Cristionogol yn gystal â ninnau eu bod yn ymlwybrø sef y gyfrol santaidd, gwelir ei fod yn unol ag arferiad grasol ein Duw i anfon prophwydi i'r byd yn mhob oes ag yr oedd ganddo waith neillduo i'w wneyd; ac yn eglurach etto dywed yn bendant drwy ei was "na wna yr Arglwydd Dduw ddim a'r na ddaugosa ei gyfrinach i'w weision y prophwydi." Dengys yr un drych cywir hefyd mai y cyffilyb driniaeth greulon a gawsant oll, o Abel hyd y diweddaf y sonia, fe, hyd y nod ei adwyl Fab ei hun, i'r driniaeth greulon a gafodd eu brodr ola' hyn yn Carthage, ac ar hyd eu hoes. Ac nid llai rhyfedd na gwir ychwaith, mai y genedl a broffesai fwyaf o sel heb wybodaeth, o rith dauwoldeb dan wadu ei grym hi, ac o fwyaf o ddoethineb colegawl, p'p'p'awl a dynol ddefosiynnau ya lle dwysol ordinhadâu, oedd-ynt, ac ydynt uchaf eu llais, mwyaf eu hynroad, ac awchusaf eu gwae-wifyn a'u cleddyfau i dywallt gwaed y dwysol anfonedigion [h. y. y genedl hono]. Dyma pam y bydd y cennloedd paganauidd yn eiddo yr Arglwydd yn nydd ei nerth, sef oherwdd l'ua byddant hwy yn euog o dywallt gwaed prophwydi fel "yr oes oleu hon," a'r "oes oleu" arall. Nid yw eu "cydwybodolrwydd" yn gwneyd hyn dros Dduw fel y dychymmygant, ond yn tynhau eu rhwymau, ac yn mwylhau eu dedfryd, canys dylasant chwilio i mewn i'r peth cyn ei gollfarnau, na'i wrthwynebu! Ond at yr hmes.

Yr oedd Joseph Smith wedi rhagweld fod ei ddiwedd yn agosâu, ac mewn darp'riaeth i hyn yr oedd wedi bod am tua phedwar mis braidd yn feunyddiol (cyn dechreu, na bod arwyddion, o'r terfysg olaf) yn dysgu i'r apostolion, yn eu cyngorau, am ddingelion teyrnas Dduw, a'r dull a'r modd i gario y gwaith yn blaen wedi ei ymadawiad ef; ac wedi gorphe i rhoddi iddynt eu cynnysgaethiad, dywedodd yn eglur, "Ar eich ysgwyddau chwi y gorphwysa teyrnas Dduw yn awr; ymwrolwch i'w lledaenu dros y byd; ni waeth beth a ddaw o honof fi niwyach, na pha mor gynted y caf fi fyned i orphwys, &c." Hysbysodd ar gyhoedd tua 15,000 o bobl mor eglur nes y dealodd pawb ei fod ar eu gadael ar fyrder. Dywedodd na chaffai fyw i weled y deml wedi ei chwblhau, ond ei fod wedi cyflwyno yr allweddau anghenrheidiol at roi y cynnysgaethiad, a phob petl arall i'r apostolion. Ychydig wythnosau cyn dechreu y terfysg hwn, aeth yr apostolion oll ond dau, sef Willard Richards, a John Taylor, yn ol ei gynghor ef, i bregethu drwy y taleithiau dwyreiniol, "canys," ebe efe, "nid yw eich bywydan yn ddiogel yn Nauvoo, nac yn y cylechoedd hyn;" ac yno, yr oedd-ynt pan laddwyd ef. Dychwelasant i Nauvoo cyn gynted ag y cawsant wybodaeth; ac ar yr 8fed dydd o fis Awst, cynnalwyd cymmanfa yn Nauvoo, i reoleiddio pethau am yr amser dyfodol, ac i ddwyn i weithrediad y mesurau a drefniwyd trwy Joseph Smith; ond yn benaf er i'r apostolion sefyll yn eu lle priodol yn hen ar yr eglwys ar y ddaear, yn absenoldeb ei blaenoriaid blaenorol. Yr oedd yno o ddeuddeg i hyntheg mil o Saint wedi ymgasglu, a'u rheoleiddio yn ddoesbarthiadau yn ol eu swyddau. Anerchodd Brigham Young, Orson Hyde, P. P. Pratt, ac ereill, y dyrfa yn wresog ac effeithiol, nes y canfyddai pawb fod mantell y prophwyd mewn gwirionedd wedi

disgyn ar yr apostolion; a'r holl dyrfa yn ddieithriad a arwyddasant eu cymmeradwyaeth o'r apostolion yn arweinyddion i'r eglwys trwy dderchafiad dehéulaw.

ANERCHIAD Y LLYWYDD FORD AT BOBL TALAETH ILLINOIS.

“DEWISAF roi desgrifiad byr a gwirioneddol o'r amgylchiad cywilyddus a gymmerodd le yn Carthage, o barthed i'r Smith's, mor belled ag y cyrhaedda fy ngwybodaeth. Mae y Smith's, Joseph a Hyrum, wedi eu llofruddio yn y carchar; nid ydwyf yn deall gan bwy, ond mynaf wybod. [Ni allai fod wedi anghofio enwau y rhai a fygythiasant hyny yn ei wyneh!] Yr oeddwn i wedi ymrwymo fy hun y caent amddiffyniad, ac ar sail hyny rhoddasant eu hunain i fyw yn garchar-orion. Rhoddodd y Mormoniaid yr holl arfau i fyny oedd yn eu meddiant, ac ymddarostyngodd y Nauvoo Legion i lywyddiaeth Cad. Singleton o Swydd Brown, yn foddlongar ac ufydd. A myfi a'i hanfonaswn yno i'r dyben hyny. Gofynodd y terfysgwyr hyn oll, er profi fod y Mormoniaid yn heddychlon; ond ymddengys fod pob ufydd-dod ac ymostyngiad o eiddo y Mormoniaid wedi bod yn aneffeithiol i'w dwyn hwy [y terfysgwyr] i heddwch. Nid myfi yn unig a addawodd ddiogelwch i'r Smith's, ond fy swyddogion a'm milwyr a sicrhasant i mi y cynnorthwyent fi i'w hamddiffyn. [Gwaeth fyth ynte oedd eu trosedd a'u'brad, a dylasai yntau wybod gwell oddiwrth eu “honor” blaenorol nag ymddiried bywydau dynion i'w dwylaw gwaedlyd.] Os gwnaed y weithred gan y rhai hyn [atebwn mai do, a pha fodd na wyddai?], ychwanegasant frad at fwrdrad, a gwnaethant yr oil a allent i anmharchu y dalaeth, ac i ystaenio y ‘public honor.’ [! “Public honor” pwy, tybied? Pa le yr oedd gynt yn cuddio? Ai yn mynwesau llofruddwyr?] Ar foreu y dydd cyflawnwyd y weithred, meddyl-iasem am fyned â'r fyddin oll i Nauvoo: ond deallais yn amlwg na foddlonid y fyddin â llai na hollol ddiwystrio y ddinas [ac etto yn gadael y carchar-orion yn eu dwylaw wedi deall cymmaint â hyny!]; ac wedi unwaith gyrhaedd yno na byddai esgusion yn eisieu i ddechreu cystafan. Yr oedd y Mormoniaid eisoes wedi ufyddhau i bob peth a ofynasid ganddynt, ac wedi ymddarostwng i fwy o lawer nag a ddylesid geisio ganddynt. Buasai ymosodiad o'n heiddom ni arnynt yn y tymmor hwn, pan y mae y cynauaf ar ein dwylaw, mor anfanteisiol ag a fuasai warthus [ac felly, wedi lladd y ddau oreu, ymddengys nad oedd deilwng i'r miloedd ereill ddiolch iddo ef am eu bywydau, ond i'r cynauaf ag oedd yn eu galw!]; ac oherwydd hyn [sef y ‘cynauaf,’ ac nid oherwydd cyflawnder, ac awydd i rwystro tywallt ychwaneg o waed gwirion], penderfynasom mewn cynghor [o fradwyr] i wasgaru y fyddin [fel y gallent fod yn rhyddach, a mwy anghyfrifol am y mwrdrad], oddiethr tair catrawd; dwy o ba rai a adawwyd i wylid y carchar [ond tua 70 oll], a chyda'r llall aethym i Nauvoo i areithio i'r bobl hyny [do, druan, a gwaeth cysurwr nag eiddo Job oedd efe hefyd], ac i hysbysu iddynt beth a allent ddysgwyl, os yn fwriadol yr achosent derfysg [do, bygythiodd y byddai eu tai yn ulw, ac y caffai eu gwraedd a'u plant losgi yn y colcieth, ac na allai yntau eu hamddiffyn!! ond ni fynai, neu ni wnai, a feudyliai]. Meddyliaf ddarfed

i mi gyflawni y ddyledswydd hon yn llym a chyflawn [ebe efe; do, mewn modd na ddarfu i neb arall er dyddiau Nero, ond ei bartner, sef Clark o M'issouri]; a phan wedi dychwelyd oddeutu 3 milltir tua Carthage, cyfarf, ddais â chenadydd oddiyno, yr hwn a'm hysbysodd o'r hyn a gymmerasai le yno. Prysurais i'r fau. Dywedir i mi ddarfod i'r *guards* wneyd eu dyledswydd [ond profwyd iddo wed'yn fod deallwriaeth eglur rhyngddynt â'u gilydd, a bod y *guards* wedi ysgrifenu llythyr at y terfysgwyr ereill, yn dweyd yr amser goreu i danio, ac wrth gwrs y gwaghaent hwythau eu drylliau i'r awyr uwch eu penau! Cafwyd gafael ar y llythyr wed'yn]; ond fod mwyrif wedi eu gorthrechgu [os felly, pa fodd na chlwyfwyd hyd y nod un o'r naill ochr neu y llall?]. Diangasai llawer o deuluoedd o Carthage, ac ereill yn ymbarotoi i'w dilyn; a chan yr ystyriwn fod perygl i'r Mormoniaid ymddial, cefnogais hyn. Cynnygiodd y Cad. Demming aros yma gyda nifer fach o filwyr, i amddiffyn eiddo rhag difrod hyd a allai. Penderfynais fyned i Quincy, a darparu byddin ddigonol i ddarostwng terfysg. Yr wyf yn gobeithio na wna y Mormoniaid ddechreu, nac achosi un terfysg. Ond efallai y caf fy siomi yn hyn [pe cawsai, buasai y tro cyntaf iddynt ei siomi]. Ofnaf na foddlonir yr wrthblaid. Dichon yr ail ddechreuant eu creulonderau. Yr ydwyf yn benderfynol i gadw heddwch hyd y gallaf, boed y canlyniadau a fyddont. Meddyliaf fod genyf ddigon o esgus i wysio byddin ynghyd, ac i fod yn barod at fy ngalwad ar y rhybudd lleiaf. Drwy ymusefydlu yn Quincy, galluogir fi i gael pob newyddion yn gyflymach.

“THOMAS FORD,

“Governor, and Commander-in-Chief.”

PA FODD I'R GWR WNEYD Y WRAIG YN DDA, BOED HI A FYDDO?

LLAWER a feiir ar y gwragedd, druain, eu bod yn ddrwg eu tymherau, yn anghariadus, neu yn anufydd, pan, o'r ochr arall, pe gwelai y gwr mor afresymol yw iddo ddysgwyl ufydd-dod perffaith gan y wraig yn ei sefyllfa amherffaith bresennol, nac hyd nes y dysgo efe ei hu dalu ufydd-dod perffaith i'w hen ef, sef Crist, darfyddai hanner y cinctach. Dylai efe fel lithau ddysgu ufyddhau cyn y bydd yn addas i lywodraethu. Wedi dysgu y wers hon, sef ufydd-dod, ni chaiff ei wraig le i ddweyd wed'yn ei fod yn ormeswr, canys efe a'i cara hi fel y carodd Crist yr eglwys, ac ag ysbryd dengar a chariadus efe a fywioga deimladau gwresocaf ei natur tuag ato, ac a'i gorchfyga â thiriondeb nes y gofala lithau rhag ei dristâu. Odtiar yr egwyddor hon o gariad a fagodd efe ynddi hi tuag ato ei hun y tardda pob ufydd-dod a rhiuwedd a ddysgwylia dyn rhesymol gan wraig. Bôd deallus a chymdeithasgar yw gwraig, yr hon a drefwyd i fod yn ymgeledd gymhwys iddo; nid i'w lywodraethu ef, nac i gael ei dirmygu ganddo ef. ond i'w gysuro yn ei ofid, i weini iddo yn ei anghen, ac i'w garn u'i barchu fel ei phen. Ni ddichon y wraig ddedwyddoli y gwr ond i'r graddau ag y cyrhaedda ei dedwyddwch ei hun, ac ni ddichon un mor deimladwy, a chalon mor dyner, a'i golygon mor dreiddgar i serchiad-

au ei gwr, ag yw yr eiddo gwraig rinweddol, fod yn hapus pan y teimla ei huu mewn caethiwed dan ormes gwr annheilwng o honi.

Rhaid i hawb deimlo graddau o ryddid cyn y byddant yn hapus. Y mae iau Crist yn esmwyth, a'i faich yn ysgafu. Yr achos o hyn yw, oherwydd ei fod ef yn llywodraethu trwy gariad er ein lles, heb ofyn ufydd-dod genym am ddim ond a'n dedwyddola. Mewn gair, ufyddha Iesu i'w Dad o achos ei fod yn ei garu; ufyddha y gwr i Iesu oherwydd ei fod yn ei garu; a dylai pob gwraig garu ei gwr nes ufyddhau iddo gyda phleser a pharodrwydd. Cariad a faga gariad; er enghraifft, carodd Crst ei Dad oherwydd i'w Dad yn gyntaf ei garu ef; yr ydym ni yn ei garu ef am iddo ef yn gyntaf ein caru ni; felly y dylai y gwr, trwy ei diriondeb, ei gydymdeimlad, ei foneddigeiddrwydd, a'i ddaioni, sugno serchiadau gwresocaf ei wraig i'r unrhyw ddelw ac ysbryd; se yna nid ystyriai yn un caethiwed i'w wasanaethu yn siriol yn mhob dull a allo. Wedi y creu ynddi hi ymddiried yndao ef fel ei phen doeth a dyngarol, hi a'i cara ac a orphwys arno, fel y gwna yntau ar ei ben, sef Crist, yn foddlongar.

Anlwg yw, pe bai yr egwyddor hon, sef sugndod cariad, yn elfen lywodraethol, y dylfai deallwriaeth, doethineb, daioni, cariad, llawenydd, iawn drefn, ac ufydd-dod perffaith, i.e., bywyd mewn byd dedwydd; o'r ffynnonell fywydol rhedai y rhinwedd ddedwyddol drwy bob canghen o bob teulu dyuol, nes y ceffid pob *link* yn y *chain* fawr, o'r orsedd uchaf yn y nefoedd hyd y gwaelaf o deulu cariad ar y ddaear, o'u bodd wedi eu cylymu yn un. Dyma deulu dedwydd.

Pa wr mor ddideimlad â'r hwn na chydymdeimla yn oddefus gyda gwendidau a ffaeiddau cyfaill ei fynwes! Dylai pob dyn gofio ei fod yn cymmeryd ei wraig yn y dechreu "er gwell ac er gwaeth." Dyna addefiad nad yw hi yn anffaeledig, a phaham y siomir y gwr gymmaint pan gaiff fod hyny yn wir? Chwi wyr, na fyddwch feistriaid lawer, neu yn hytrach, meistrolweh yn y ffordd hon faint a fynoch, sef trwy gariad, a goreu po fwyaf.

Llawer o gymenu a beio sydd ar yr hen fam Efa, druan, oherwydd iddi droseddu yn gyntaf, ac i Adda ei dilyn. Ond o'm rhan i ni allaf feio gymmaint ar yr hen fam, canys yr wyf yn ystyried mai hi yw y lleiaf ei bai o'r holl fenywod o'i hoedran a fu ar ei hol. Ac am yr hen dad Adda, ni bu llawer gwell nag yntau. Ciniawodd gyda'i wraig mewn dull a brawf ei barch i'w harchwaeth hi yn ei darpariadau teuluaid. Pan y cafwyd mai o ffrwyth y pren gwaharddedig y bwytsant, efe a gyd-ddygodd yn ddynol ac amyneddgar â'i throedd hithau heb na chintach na digofaint ati. Nid oedd y naill na'r llall hanner mor feius ag y mae y goreu o honom ni yn yr oes hon. Buont hwy fyw ynghyd, cyd-bechasant, cyd-alltudiwyd hwynt, a darfu iddynt gydfarw, a hwy a gyd-gyfodant, ac a gyd-deyrnasant etto. Diau y bendiga yr "Hen Ddihenydd" penwyn Dduw bythol, oherwydd na ddigiodd neu na wrthododd ei wraig oherwydd iddo gael ynddi fai bach.

Terfynwn y tro hwn trwy gynnyg *ffordd anffaeledig i rwystro ffræo!* Cyfammoder pan yn siriol o bob ochr fod i'r hwn a ymollyngo i hang gael amser i oeri o hono cyn yr ateho y llall air yn ol. Felly gwirir geiriau Solomon, sef, mai "ateb arafaidd a ddettry lid, ond gair garw a gyffry gynhen." *Amynedd, amynedd*, yu anad pob peth ceisiwch

omynedd. Meddylwch ddwywaith cyn dweyd gair cyffrous unwaith a byddwch yn hapus.

AMERICA A MEXICO.

PARHA y rhai hyn i frwydro yn waedlyd, yn ol yr hanesion a gawn. Dywed y *New York Herald* fod yr Americanaid wedi ennill deunaw o frwydrau nodedig yn y flwyddyn ddiweddar, ac yn mhob un collwyd llawer o fywydau gweithfawr. Sonir fod Mr. Bankhead, cenadydd Prydain yno, yn ceisio gwneyd ammodau heddwch rhwng y pleidiau. Llwyddiant iddo bellach.

TREFEDIGAETH FORMONAIDD YN CALIFORNIA.

HYSBYSA y *St. Louis Union*, o'r pedwerydd dydd o Fai, fod yn ganlynol i ymfudiad y *Mormon Battalion* i California, newyddiadur yn cael ei gyhoeddi ganddynt yn *Verba Buena*, yn yr hwn yr eglurir egwyddorion Saint y Dyddiau Diweddar. Mae llwyddiant y fyddin hon yn dangos rhyw wroideb, ymroad, a medrusrwydd mawr, yn eu harweinydd a'u llywydd, i alia gorchfygu rhwystrau mor fawr â'r rhai hynny ag oeddynt ar eu ffordd. Mae y pellder o Santa Fe dros 1100 o filltiroedd, a hynny dros fynyddoedd creiglyd, a thrwy ddifeithwch dyrys, lle nad allent gael dwfr nac ymborth i ddyn a'u anifail. Hefyd, y mwyrif o'r fyddin oeddynt wyr traed.

Mae prif wersyll y Mormoniaid a alludiwyd yn agos i Council Bluffs. Dyoddefasant lawer o eisieu ymborth a chysuron yn ddiaw yn y gauaf caled a aeth heibio, ond diwyenydd mawr fydd ganddynt glywed am diriad eu brodyr yn ddiogel yn California ac fe galonoga hyn y gweddill i'w dilyn.

Difyrus yw newyddion fel yr uchod, a da genym glywed fod y cyhoedd yn cydnabod dewrder a medrusrwydd digyfelyb y Saint, pa rai, er an yr ansantecision mwyaf, ydynt wedi teithio yn wyrthiol braidd o'r naill ben i'r pen arall o'r cyfandir, dros fynyddoedd geirwon, yn mysg bwystfilod ac anwariad peryglus, drwy neu dros afonydd heb bontydd arnynt, ac wedi sefydlu trefedigaeth lwyddiannus drwy'r cyfan, a gwell etto genym glywed eu bod yn vstyried Mormoniaeth nid yn unig yn werth ei chario, gyda hwynt drwy'r cwbl, ond ei chyhoeddi i'r byd newydd hwnw mor fuan, ac hefyd, mor selog. Pan y mae newyn, rhyfeloedd, a marwolaeth, mewn llawer dull yn ynwledda ar ddynion, diau fod yr Arglwydd yn gofalu am ei bobl gyfammodol, yn eu diogelu rhag eu gelynyddion, yn eu porthi â "soffleir," ac yn agoryd ei law i'w diwallu yn wyrthiol fel yn y dyddiau gynt. Dynnuwn iddo barhau felly nes y byddont hwy agosydd ar y ffordd, a'i holl blant o'r holl fyd, wedi cyrhaedd pen eu taith.

SAINT YN Y TALEITHIAU.

HYSBYSA yr apostol Orson Hyde ni, o Gaerfrog Newydd, lle y cyrhaeddodd ar y 6fed o Ebrill, fod un gwersyll lluosog o Saint ar gychwyn oddi yno ar ol eu brodyr tua California y dydd Mawrth canlynol, a bod lluoedd creill drwy'r taleithiau dwyreiniol yn darparu i'w dilyn. Meddylia pe bai tua chant o bregethwyr selog a ffyddlon yn myned drwy'r wlad hono yn awr, fod y gwrthweithiad mor fawr, prophwydoliaethau y Saint yn cael eu cyflawni mor amlwg, a phob arwyddion yr amserau wedi achosi i bobl agoryd eu llygaid, fel y cofeidiai miloedd yr efengyl hon yn fuan. Yr oeddi y newyddion o'r gwersyll yn dda, a phawb yn iach.

YR APOSTOLION PRATT A TAYLOR.

BYNHEBDOED y ddau frawd hyn New Orleans. Mawrth y 16fed. wedi morlaith-
mwy cysurus nag a gawsent oll. Ni buont ond 36 o ddyddiau o Loegr yno; ac ni bu
dim gwynt crocs, nac achos i gymmeryd un hwyl i mewn ond unwaith, am ychydig
oriau. Aethiant heibio i bob llongau a welent, a rhai a gychwynasent o ddwy i dair
wythnos o'u blaen a gyrhaeddasant yno ar eu hol hwy. Ni feddwn le i'r llythyr kir-
faith, cysurus, ac addysgiadol hwn yn ein colofnau bychain, etto rhoddwn ddyfyniad
byr er boddio ein darllenwyr. Wedi rhoddi ei esgusawd pam na chyhoeddodd ei *fa-
well* â'r Saint, sef oherwydd ei frys mawr wrth gychwyn, ac ymhelaethu ar ddyben a
chanlyniadau eu cenadiaeth drwy Frydain, y plaser a gafodd, a'r gobraith a fedda. &c.,
dywed mewn un fan (yr hyn a ddengys i'r Cymry nad yw efe wedi eu hanghofio hwy-
thau),—"Bu yr henuriad P. P. Pratt a minnau yn cyd-deithio i ynwelod â'r eglwysi-
gan mwyaf drwy Frydain oll, a gadawsom hwynt oll mewn cyflwr llwyddiannus, ac yn
ufydd i'n dysgeidiaeth. Yn y prif Gynadleddoedd, megys Manchester, Liverpool,
Birmingham, Sheffield, a Glasgow, yr oeddynt yn dra llwyddiannus; ac nid llawer
llai selog, diwyd, a chariadus, yn y mwyrif o'r rhai lleiaf. Ymwelais â Llundain ac
Edinburgh fy human, a gadawais hwynt yn gysurus. Ymwelais â Chymru Kefyd, a
boddiwyd fi yn sawr iawn wrth sefyllfa hyfryd pethau yno. Cefais yr egiwys Gymreig
mewn cyflwr tra llwyddiannus. Gynoedda henuriad Jones gyhoeddiad misol, yr hwn
y mae iddo ledaeniad go dda i ddechreu; a chyhoeddodd befyd amryw ffeidd o draeth-
odau ereill, pa rai a ddosparthodd ar hyd a lled gwlad ei enedigiaeth. Mae efe wedi
gweithredu yn ol mesurau doeth a synwrol iawn. ac yn ei gyhoeddiadau teilyngu, a
dylai gael cefnogaeth a chynorthwy. With gyfeirio at y daioni a wnaed ganddo ef a'r
bend Americanaidd, nid wyf yn anghofio y Saeson a'r Scotch, carys cefais tawer o
hanynt hwythau yn awyddusi wneyd yr oll a allent i ledaenu y gwirionedd, ac i adeil-
adu Seion, a'r rhai a ddysglehiant etto yn uheyrnas Dduw."

Ceir ychwaneg o gynghorion dyddorol y brawd hwn yn y Rhifyn nesaf o'r *Prophwyd*.

EFENGYL YR ANGEL.

Tŷn—"Eliseus."

BETH a welwyd yn y nefoedd?

Angel yn ehedeg lawr.

A oedd rhywbeth ganddo'n dyfod?

Oedd—efengyl Iesu mawr.

Y mae hōno i'w phregeth:

I bob cenedl, llwyth, ac iaith—

I'r holl bobloedd ar y moroedd,

Ac ar wyneb daear faith.

Ond oedd efengyl genym?

Oedd—braidd-rif y tywod mân..

Wel. beth yw'r efengyl newydd?

Heu efengyl fu o'r blaen.

Dyma'r un bregethau Pedr,

Dyma'r un bregethau Paul;

Dyma'r un bregethwn niunan,

Mewn awdurdod ar eu hol.

P'le mor hir y bu'r efengyl?

Yn ei "hymadawiad" bu.

Beth a ddaeth o'r rhai fu hebddi?

Duw yn Faenwr cyfiawn sy.

Cirwd ni chensr lle nis hauwyd,

Na tydd gwleu lle bo nos:

Nawr llewyrchu mae goleuni—

Na foed neb yn gwel'd yu groes.

CAPT. JONES AR FORMONIAETH, YN 1846,

YN CYNNWYS

Y Gyfrol gyntaf o *Prophwyd y Jubili*; yr *Hen Grefydd Newydd*; yr *Atebydd*; y *Glorian*; yr *Amddiffyniad*; a'r *Milfwyddiant*; ac *Anerchiad y Deuddeg Apostol*: wedi eu rhwymo yn un gyfrol hardd, 12plyg. Pris Tri Swllt.

Gwell sicrhau copi yn fuan, gan nad ellir cael un o'r rhai uchod ond yn y Gyfrol, oddieithr Cyfrol o'r *Prophwyd*, canys y maent allan o argraff, ac nid ydym yn meddwl eu hail-argraffu yn fuan.

CYMMANFA MORGANWG.

CYNNELIR y Gymmanfa hon yn Neuadd y Cymreigyddion, (*White Lion*), Merthyr, dydd Sul, Gorphenaf 11eg.

Bydd *Cylchwyl y Gymdeithas Genadol* ar y dydd canlynol, sef dydd Llun y 12fed. Gellir cael tocynau am swllt yr un gan lywyddion yr holl ganghenau, ac ereill, a thaer erfynir ar holl ewyllyswyr da y gymdeithas ddaionus hon ymdrechu a allont erddi, gan obeithio na bydd y chwirydd tirion un dim yn ol i'w sel, eu hymdrechion, a'u ffyddlondeb blaenorol.

D. S. Bydd y wledd ar y ford erbyn hanner awr wedi dau o'r gloch y prydawn, a thraddodir darlithoedd yn yr hwyr.

CYNNWYSIAD.

Dyledswyddau y Saint ar ol cael eu		dda, boed hi a fyddo.....	112
Bedyddio.....	101	America a Mexico.....	114
Doethineb yw Gallu.....	103	Trefedigaeth Formonaidd yn Cali-	
Gallu Meddyliol Dyn.....	107	fornia.....	114
Adolygiad y Wasg—"Hanes Saint y		Saint yn y Taleithiau.....	114
Dyddiau Diweddfaf".....	108	Yr Apostolion Pratt a Taylor.....	115
Cymmeriad Joseph Smith.....	108	Efengyl yr Aengel.....	115
Anerchiad y Llywydd Ford at Bobl		Capt. Jones ar Formoniaeth, yn 1846	116
Talaeth Illinois.....	111	Cymmmanfa Morganwg.....	116
Pa fodd i'r Gwr wneyd y Wraig yn			

MERTHYR-TYDFIL:

SYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH HEFYD GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL.

PROPHWYD Y JUBILI.

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 14.]

AWST, 1847.

[PRIS 2g.

PWY YW YR "HEN DDIHENYDD?"

Y MAE hwn yn gwestiwn mynych, ac a atebir mor amrywiol gan ddoethineb ddynol ein hoes, ag yr atebir pob peth arall braidd a berthyna i "ddirgelwch duwioldeb." Yn hawdd y canfydda y neb a ddarllena weledigaethau y prophwyd Daniel yn ddiuedd, mai yr "hen ddihenydd," sy'n llanw y cymmeriad, yn dal y swydd, ac yn cyflawni y gwaith mwyaf, rhyfeddaf, a gogoneddusaf, ond un, a welai Daniel drwy'r holl olygfa fawreddig. Hysbyswyd i Daniel sefyllfa a thynged ddyfodol y byd cyn hyn, gwelodd yr hwn sy'n "dadguddio dirgeledigaethau," yn fuddiol ddangos iddo ddechreuad, cynnydd, a dinystr pedair o ymerodraethau, amrywiol a rhyfedd; y rhai oeddent yn eu tro i estyn eu gwialen haiarn dros y byd. Mewn gweledigaeth flaenorol gwelsai y bedwaredd freniniaeth yn chwilfriwio yn ddeg o ranau, ac yn mhellach etto, gwelai derfysgoedd, chwyldroadau, a chyflafan, y cyfan o deyrnasoedd y ddaear am oesoedd a chenedlaethau lawer; yn ddiweddaf, a rhyfeddaf o'r cyfan, gwelodd darddiad y bumed a'r olaf freniniaeth, yr hon a faluriai yr holl freniniaethau ereill a ysgydwai deyrnwialen amerodraethol, ddwyfol, ac auraid, dros holl gyffiniau y faith greadwriaeth hon yn dragwyddol.

Gwelai sefydliad yr olaf hon, nid fel yr holl rai blaenorol, trwy ddoethineb, trachwant, neu allu daearol, ond "y cyfyd DUW Y NEF-OEDD freniniaeth," ebe efe, Dan 2. 44, gan gyfeirio nad oedd ganddo ef a wnelai â'r llein oedd cyn hyn; ac wedi hyn ni ddywedai y Brenin fel yn yr oruchwyliaeth yr ymddangosodd ei hun, "Fy nheyrnas i nid yw o'r byd hwn," yn awr, fel pe dywedasai; ac ni fydd ychwaith hyd yr amser y cyfeiria Daniel ato. Er diwallu y syched a'r awydd a achosodd y golygfeydd hyn iddo i ddeall ychwaneg, yn enwedig am y deyrnas ogoneddus oedd i barhau yn dragywydd, drachefn ffrydiai doethineb o'i ffynnonell ddihyspydd drwy ei phibellau llifeiriol, gan bortreadu o'i flaen fanylach darlun o wrthddrych ei serch, yr hwn drwy gynnorthwy yr amlygiadau cynt a ymddysglaeriai yn awr yn

fvy tanbaid, eglur, a goronoddus, i'w olygon ysbrydoledig a threiddŷgar; canfyddai nid yn unig ddirywiad ymerodraethau eangaf a ddyfethodd penau coronog fel mŷn lwch y clorianau; ond mewn syndod canfyddai, mewn rhwysg niawreddig, a'i wisg eyn wyned a'r eira, a gwallt ei ben fel gwlan,—yn eistedd yn goronog ar orseddfa fel o dân fflamlyd—olwynion tanlyd yr hon a ddifāau o'u blaen bob peth a'u gwrthwyn-ebai, fel soft o flaen y fflam angerddol:—o'i flauen rhedai ufonydd o dân fel llifeiriant y *Valcanes* berwedig, ac yn blaenu osgordd o fil o filoedd, a myrdd myrddiynau o nertholion y nef, a rhai dewrior a rhagorol y ddaear drwy'r oesoedd y gwelodd y prophwyd yr “HEN DDIHENYDD!” Dan. vii, 9, 10.

Wedi ei ddyfodiad i'r ddaear gwelir ef yn trefau cynghor dewisol o blith detholedig gynghorwyr yr holl oruchwyliaethau blaenorol,—ei wisg a'i addurniadau barnol am dano, a'i wialen freninol yn ei law alluog, ac eisteddai yntau yn *Chief Magistrate* ar y cyfan, ac i roddi dedfryd gyfiawn ar bob materion a drinid yno. Yn mhllith y pethau blaenaf a deilyngodd eu ymholiad manwl wedi dwyn y llyfrau gerbron a'u hagoryd oedd condemnïad a dienyddiad rhai o'r awdurdodau uchaf a galluocaf a feddai anherawdwr blaenorol y ddaear, a'i brif-lywydd ef a defir gyntaf i dân tragwyddol, [adu. 11]; y peth nesaf yw cyfranu mwy o ddoethineb (yr hyn yw nerth) i'r swyddogion detholedig fel y dysgont hwythau holl ddeiliaid y deyrnas fuddugoliaethus yn mhob dirgelwch, doethineb, a deall a fo gyrhaeddadwy er eu perffeithio a'u haddasu i oddef, ac i allu cydfwynhau y gogoniant anrhaethadwy yn ymddangosiad y brenin mawr ei hun i deyrnasu ar ei deyrnas, adu. 18. “Eithr Saint y goruchaf a dderbyniant y freniniaeth [gan eu brenin drwy'r ‘hen ddihenydd’] hyd byth, a hyd byth bythoedd.” Nid gwaith bach fydd perffeithio y cyfan erbyn yr olygfahon!

Dyben brenin y breninoedd yn anfon yr “hen ddihenydd” a'i osgordd nefolaidd gydag ef, yw yn rhagrededgwyr i barotoi ei ffordd o'i flauen i reoleiddio ei deyrnas yn berffeithiaeth,—i addasu pobl barod, fel y gallai y rhai a ddiangasai o'r “Babilon fawr,” ac a ddaethant allan o'r cystudd mawr, allu sefyll yn mhllith y dorf ddirif gydag ef ar fynydd Seion, a'u gwisgoedd wedi eu cân fel gwisg yr hen ddihenydd, ac y byddai wedi eu dysgu beth yw, a pha fodd i ganu cân Moses a pheraidd ganiadau yr Oen yn un llais, mesur, dyben, a chalon; canys nid dyfod i *barotoi* ei briodferch y bydd y brenin; ei weision a wnant hyn yn flaenorol, “a'r wraig a *yambarotodd*,” a ddywedir pryd hyny. Pwy na wel y gwaith mawr fydd gan ei weision i ddyngu y fath dorf i'r graddau hyny!—Y fath ymdrechïadau a ddihyna ar yr ysgolheigion, ac hefyd y gymdeithas a raid fod rhyngddynt a'r pen Ysgolfeistr mawr cyn y deallant beth yw dysgu! Pwy a greda fod drws yr ysgol wedi cau, a gwefusau yr ysgolfeistr wedi eu sêlio i fyny am byth! Atebwn, nad neb sy'n deall dim am y cyfnod rhyfedd y cyfeiriwn ato. O, ddedwydd ddydd fydd hwn! O amser hyfryd!! brysied i ben, pan yr adnebydd pawb [o'r rhai a adewir yu fyw ar ol y plâau, &c.] yr Arglwydd; y byddant wedi eu dysgu gan ei weision nes dyfod oll i'r dosparth blaenaf i gael eu dysgu ganddo ef ei hun. Nid rhyfedd i'r hen Duaniel lewygu gan lawenydd a dysclaerdeb yr

olygfa hon pan etto yn gaethwas. A pha dafod a ddichon draethu,—pa feddwl a ddichon bertreadu; neu pwy engyl a ddichon hysbysu y filfed ran o hapusrwydd, gogoniant, a dedwyddwch y bobl gyfiawn a fyddant byw ar y ddaear pan ddygir yr holl bethau hyn i ben!

Etto gofynir, Pwy yw yr “HEN DDIHENYDD” hwn sydd i gyfiawni y fath orchestwaith tuhwnt i holl ddwyfol weledyddion y dyddiau diweddaf? Anmhosibl ei fod yn “Fab y dyn,” oherwydd *ar ôl hysg* y daw “Mab y dyn gyda chymylau y nefoedd; ac at yr *hen ddihenydd* y daeth, a hwy [yr osgorid] a'i dygasant. [sef Mab y dyn] ger ei fron ef,” sef gerbron yr “hen ddihenydd.” Mae'n amlwg fod yma dri chymmeriad, oll yn wahanol o ran swyddau a gogoniant. Ni ddichon fod y ddau hyn yr un a'r unrhyw berson, heb fod hwnw yn cael ei ddwyn ger ei fron ef ei hun i ym hyn fyddai yn wastraff gwallgofus ar iaith. Er eu bod hwy oll yn un mewn dyben, cydweithrediad, a chariad, etto *personae* gwahanol yn llenwi gwahanol gylchoedd y'nt. Nid oes amheuaeth am pwy yw y “Mab y dyn,” etto pwy yw yr “hen ddihenydd” hwn fydd yn *ail iddo*, sydd yn ymguddio o olwg lluoedd yn mhlith dirgelion ereill teyrnas Dduw. Nid Duw Dad ydyw ychwaith; oherwydd, pe buasai y Saint yn addas i ddala tanbeidrwydd gogoniant y Tad, pa anghenrheidrwydd am yr holl ddarpariadau mawrion hyn i'w haddasu a'u parotoi i gymdeithas y Mab? oïd yw gogoniant y Tad yn ogyfuwch ag eiddo y Mab! Hefyd, nid y Tad sy'n darparu y deyrnas a'i chyflawnder i'r Mab, ond y Mab a wna hyny, fel wedi gorphen ei pherffeithio y rhoddo y Mab hi i fyny i'w Dad, fel y byddo Duw oll yn oll.

Etto ymchwiliwn, Pwy yw'r “hen ddihenydd?” Casglwn y byddai ryw un o henafiaeth fawr; i.e. yr henaf a drigodd mewn cnawd efallai: awgryma ei enw hyn yn Saesneg, sef *Ancient of days*, yr henaf mewn dyddiau, yr hyn sy'n nodwedd digonol i'w wahaniaethu oddiwrth bawb ereill y fu, y sydd, ac a ddaw. Ni wyddom am un resymeg na dim a wrthbrofa hyn.

Ond diolch i'r Duw sy'n y nefoedd, ac yn dadguddio dirgeledigaethau i'w Saint ar y ddaear, yn awr mor rasol ag yn nyddiau Daniel, a'i blant ereill, nad yw efe wedi gadael ei Saint mewn anwybodaeth o'r peth hyn ychwaith, ond wedi adferu a dadguddio drwy ei weision y prophwydi, sicrwydd am hyn hefyd fel am y pethau rhyfedd a gogoneddus a amlyga etto er darparu pobl briodol i'w gyfarfod ef. Drwy y cyfryngau hyn hysbysir ni nad yw yr “hen ddihenydd” amgen nag ADDA ei hun, sef yr Adda cyntaf yn rhoddi y goron ar ben yr ail Adda a'i henuillodd. Felly gwelir fawr amryw ddoethineb Duw a'i gynllun i ddwyn meibion lawer i gogoniant. Anfonodd yr Adda cyntaf, a'r genadwri gyntaf, yn nechreud yr oruchwyliacth gyntaf i'r byd i lywyddu dros ychydig; sef efe a'i denfyn etto yn niwedd yr oruchwyliacth olaf i iawndrefnu yr amliefn a achosodd; ac fel y rhagora yr olaf mewn gras drwy'r ail Adda, y tra rhagora gogoniant yr “hen ddihenydd” mewn rhifedi ei ddeiliaid, pa rai a fyddant yn fillynuau dirifedi i'w cyflwyno oll yn un i'w gwaredwr a'u teiwlwg Frenin; wedi hyny cyflwyna yntau ei hun a'i oll i'w Dad, “fel y byddo efe oll yn oll.” Amen.

Y "PARCH. W. R. DAVIES, O DDOWLAIS," A'I ERLID-
IGAETH GREULON A CHYWILYDDUS ETTO!—ETTO!!

Cofus genym pan yn fachgen am orlifiad eirias andwyol *Etna a Strombulo*, pan chwydent o'u *crater* gynnwysiad eu poeth grombil hunan ym-gynhyrfiol, afonydd o dân a brwmstan, nes difa pob blodeuyn, glaswellt-yn, a phob peth bywydawl yn nghyraedd eu cynddeiriog donau tanawg!

Gwelsom orlifiad diliwiol afonydd y *Nile*, y *Mississippi* ("tad y dyfr-oedd"), y *Missouri* gyflym, y *Niagara* fawreddig, a'r *Ganges* ysplenydd yn rhuthro dros ei *chateracts*, a'i glanau, gau ysgubo tai, ie, trefydd—pobloedd, ac anifeiliaid, ar ymchwydd eu tonau creulon yn gyflafan i'w llynclyn diwaelod. Clywsom swn daargrynfâu a lyncasant fynydd-oedd a dinasoedd cyfain braidd ar un tamaid i eigion dirgel wlad angof! Hysbys yw, yn nes atom, am y tanau tãnddaearol a chwythant mewn aeliad ar brydiau lawer o'u cymydogion eu i'r byd arall, parod neu beidio!

Ond erioed (hyd ei allu) ni welsom efelychiad manylach o'r pethau uchod nag ydyw gorlifiad ymysgaroedd aflan y gwr uchod yn awr ac eilwaith drwy'r wasg a'r pwlud, yn erbyn ei gymmydogion diniwed, oherwydd eu crefydd! Fel y *Volcanoes*—nid ymarllwysa y naill grom-biliaid ariach, ond er gwaghau pwll ei galon erchyll i gryuboi ffrwd aflanach fyth: a phan ar forstio gan falais a chenfigen, allan y dylifa ffrwd enllibaidd drachefn fel trwy y *crater* o bwll dihyssydd. Ai tybied mewn sobrwydd nad oes rhyw fath o *gas*, neu *foul air*, tanddaearol yn *electrifio* creaduriaid arwynebol tua Dowlais. Yn siwr, nid annhebyg yw y cynhyrfa. au a'r gorlifiad o berfedd *Volcano* "*Caersalem*" ar ei brydiau! Eroyn hyn deal'a pobl Dowlais pan fydd ar forstio, a chwydu ei a lendid dros y dref wrth ei gnofeydd a'i bangau, fel y dealla y rhai sy'n byw ar gyfer i *Etna a Vesuvius*, wrth eu *grumblo*; a'u tyrfau hwy hau.

O'r hyn lleiaf, dylai ei gyfeillion (os oes ganddo rai) sylwi'a oes rhyw *electric gas*, neu rym elfen aflywodraethol yn dylanwadu mor gryf ar y *Volcano* hunan ymsymudol hwn, fel na all beidio a chwydu allan ei ddrygioni a'i ffolineb; a'i berswadio i ymsymud o Dowlais i wlad Nod, diffaethwch Ethiopia, neu ryw le anial arall i chwydu ei aflendid, rhag ofn y *burstia* fel Judas gynt (yr hwn oedd eirwirach dyn o lawer) a halogi yr hinsawdd foesol dan ffroenau ei gymmydogion yn hwy rhag ei gywil-ydd! Digon o esgusawd dros awch ein fflangell yw coffau mai *amddiffyn* ein henwau da a'n crefydd yr ydym.

Yr hwn a ambeua gywirdeb y cymhariaethau uchod, a'u haddasrwydd, darluned orchestion enllib, chwedlau aflan, camgyhuddiadau dyfeisiol, anfoesol a niweidiol, ac erlidigaethol, anorphen y dyn hwn yn ngholof-nau y "*Bedyddiwr*," &c. Er pan y daeth y Saint gyntaf i Gymru, a gwrthod o'u pregethwr cyntaf gyflogi yn was pregethwraidd iddo ef, ni pheiddiodd a chwythu allan ei gās a'i falais i'w herbyn. Yn ychwanegol at hyn, os nad *anfonai* ei hudolion etrus i aflonyddu eu cyrddau, efe a *gydsyniai* a hyny, ac allan gyrai y naill ystori gynffonog ac afluniaidd drwy'r wa g, yn curio enw ac iaith ei thadws ar ei thalcen. Er hyn oll, llwyd lo yr oedd y Saint, ac o'r diwedd allan âg yntau ei hun fel seren w bio'r drwy'r wlad yn bwrpasol i gamddarlunio, ac erlid y Saint o bwll d bwy gilydd lle y caffai; a th g yw addeff, fod ei sothach yn rhy

waef yn ngelwg dynion rhesymol i adael iddo ddringo i'w pwlpu dau i'w traethu. Fel pe y mynai fod yn ben bwli, neu *champion* erlidwyr ei oes, fel y bu ⁴Goliath, Herod, Nero, ac Adrian, yn eu hoesoedd hwythau, parha i ddyfeisio rhyw ystoriau newyddion mor gysson braidd ar newydd loer; ac mewn gair y gellid dweyd mai hwn yw braidd, "*tail y celwydd*"-au a draethir hyd heddyw ar y Saint, efe yw eu cenedlwr, ac efe a raid roi cyfrif am danynt etto! Wedi diflasu ei wrandawyr â'i dafod brwnt, a gweithlio ei beiriant enllibawl allan o ddefnydd crynhöodd ei ben ddarlithoedd yn draethawd er cael ychwaneg fyth o ddefnydd o'i flagardiaeth, ac a'i galwodd yn "*Sylwedd Pregeth!*" A chan yr addefa fod *sylwedd* ei bregeth yno, ni raid i neb amau pwy a'i danfonodd i'w phregethu!!

Adolygais ei *draethawd* yn fanwl a theg yn "*Seren y Saint*" am, o Medi hyd Hydref. Yno gwelir ei dwyll, ei ddwl, a'i ddrygioni mor eglur fel na feiddiodd hyd heddyw i wrthbrofi un dim o hono. Gwnaethum hyn oll rhag ofn ei fod ef mor ddwl a chyhoeddi y fath bethau yn ei anwybodaeth; ond erbyn hyn gwelir mai yn wybodus y cyhoeddi y cyfan drwy iddo addef ddarfod iddo ddarllen "*Seren y Saint*," a thrwy hyn y weled ei gyfeiliornadau o angenrhaid, ac yn lle eu galw yn ol ac edifarhau o'u herwydd na'u gadael yn llonydd i addoli Duw ein tadau, fel y caniateir i bawb ereill o blant Gomer yn yr oes oleu hon, ac fel y gwnelsai pob dyn a feddianasai un gronyn o onestrwydd cydwybodol, neu awydd i'w gyd-ddynion gael y gwir, nid yw'r cyfan yn tycio dim er ei adferyd o'i wallgofrwydd, na'u gadael yn llonydd, ond yn waeth waeth byth, fel pe bai ar frys i gyflawni mesur ei anwiredd, rthbra etto fel march gwyllt i frwydr drwy ail fampio ei "*sylwedd pregeth*" yn Gatecism i dwyllo a dallu plant yr Ysgolion Sabbothol druain i'w gaddug. Ond yr hyn sydd a wnelom ni âg ef yn hyn yw, oherwydd ei fod yn darparu ac yn cyflwyno arfau dinystriol, sef ei gamgyhuddiadau, i ddwylaw y genedl leuanc sydd yn codi, pa rai hyd eu credir a fagant y fath gas a chenfigen nes y sychedant am waed gwirion y rhai a feiddiant addoli Duw yn ol y Testament Newydd yn eu gwlad eu hun! Gwelson cyn hyn er ein gofid, ysbryd cyhuddiadol a chelwyddog fel hwn yn drachtio gwael herthyron duwiol yn lli! Hyd y nod mewn Gatecism i Ysgolion Sul, ni all yr "efengylwr" addfwyn hwn gael gwell enwau ar ei gymnydogion crefyddol na "*SATANIAID!!!*" "*Au-fyddwyr twyllodrus*," a "*hen Chartists gwaedlyd &c.!*" Gan i mi adolygu ei draethawd mor fanol, ac ateb yr holl bethau a deilyngent sylw, a chan nad yw ei Gatecism ond ail fampio o hwnw, wedi cael gwneyd ag ef fel y gwna rhai *ladies* a'u *bonnets*, neu y *dandies* a'u hen goatau, sef eu troi a'u dwyn allan yn rhyw ffashiwn newydd. Ni ddysgwylir i ni yma adolygu ei Gatecism hyd oni chynnygia wrthbrofi ein hadolygiad blaenorol: etto, sylwn ar y cyhuddiadau uchod er gweled ai efe, yute nyri sydd yn eu teilyngu o gwbl. Cyhudda y dyn hwn y Saint o geisio "Hudo yr annysgedig a'r anwastad, i'r dyben i ddenu eu harian, a hyw yn segur ar draul y penweiniaid a'u credant," ebe efe. Cyhuddiad trwm iawn yr ystyrir hwn pe deuai o ryw enau heblaw o wesusau halogedig Mr. Davies o Ddowlais; ie, un sy'n teilyngu profion ccdy'n cyn ei credid: ond ofer dysgwyl un math o brawf, enghraifft, na rheswm ganddo ef i'w brofi, mwy nag y ceir ganddo i ddim arall, onide hwsai allan er's talm ar gyhoedd. Ai Mr. Davies sy'n dwyn y cyhuddiad

hwn! O ba sawl capel y derbynia .efe ei hun gyflog, tybied? Pwy sy'n byw mor segur ar draul ei hudolion, ac yn *electioneerio* cynmairt am arian, arian, o hyd â'n cyhuddwr? Nid neb a glywsom sou erioed. Pwy sy'n denu arian penweiniaid Dowlais i'w siop? Hefyd, pwy oedd y dyn gwarsyth a choch hwnw a welwyd yn y fath ffordan yn ei bwlpud, nes wrth chwilio ei bocedau yn frawychus am ei bregeth, yn tyuu llwedd ei ddyrnau o *dickets* y '*New debts act*,' yn barod i'w sewio ar ei gwsmeriaid na allent dalu eu hen *gouuts*! Pwy oedd hwnw Syr? Ewch chwi ef fel y gwypo y cybædd, ond er hyny gwyr pobl Dowlais nad un o'r Saint a gafwyd yn y fath *ddilemma*. Byw yn segur ar draul ereill, aie? Pwy o honynt sy'n profi eu hunain yn euog o hyn drwy adeiladu tai newyddion, &c.? Pwy oedd y dyn a fu *off* am dri mis heb bregethu unwaith yn un o'i gapeli, ac ar ei ddychweliad yn cael £50 gan ei hudolion cartrefol! Ewch ef Mr. Davies! Pa arian a ddena y Saint, druain? O na, er fod dros gant o honom yn pregethu yn aml ch na chwydwi, debygwn; etto, heriwn chwi i brofi eu bod rhyngddynt oll, ie, o ben i ben i Gymru yn denu cynmairt o arian am hyny, ag a ddemandwch chwi eich hun yn Dowlais. Dyna i chwi gynnyg teg, yn awr gwnewch ddefnydd o hono. Cyn cyhuddo ereill o fod yn denu arian, dylai *gwr goludog* fel chwydwi roi esiampl dda drwy bregethu yn rhad, heb unrhyw dâl, fel y gwna y Saint. Neu os at ariangarwch y mae eich cäs argoelion, gwael yw tai newydd, siepau, &c., i brofi hyny. Yn lle ceisio diwygio y rhai a alwch yn "*SATANARD*," dechreuwch yn nes adref, diau y ceueh ddigon o waith gyda eich enwad parchus eich hun, os gwir a ddywed eich llythyr cymmanfa eich hun, yr hon a gynnaliwyd yn *Cirmlwrch* ar yr 17eg a'r 18ed o Fehefin diweddf. Dengys hwnw yr ystyria eich cymmanfa chwi ariangarwch yn brif Arglwydd eich sect braidd. Ystyrir Mammon mor leu uchel nes y gwnant ef yn brif destun eu llythyr cyfarchiadol, ac nid y'm yn beio arnynt am hyny, ond beiw arnoch chwi am na ddiwygiech eich hun a'ch plaid cyn cyhuddo ereill. Oni welwch chwi eich dolur yn y drych hwnw, tebyg y gwela eich brodyr ef yn amlwg, "Y niwed o serchiadau bydol," yw eu testun, ac addefant hwy, sef eich brodyr chwi cofwch, nid y Saint. "Ac y mae hwn [sef mammon] yn milwrio yn erbyn ein budd ysbyrdol, ac yn bygwith ein dystryw, [dyma addefiad ei fod yn go ben uchel yn mhlith y Bedyddwyr!] mae y cyhuddiad hwn mor berthynol i ni," meddant, sef i'r Bedyddwyr, efiwch! a phaham y ceiswch chwi ei dadogi ar y Saint ynte, Syr? Wedi llafurio yn galed drwy'r epistol hirfaith i ddatod llynyau pyrsau, a datfotyni pocedau eu hudolion, fel y delai y toeyns allan yn bawddach, ymddengys y *cloven foot* mor amlwg a'r eiddo chwithau. "Ond ystyriwn [meddant] fod gan Dduw [*alias* pregethwr y Bedyddwyr!] yr *HAWL GYNTAF*, [dyma hi!!!] a dylai pob perthynas roddi y *LLW GYNTAF* iddo ef." Pa fodd yr hönant hwy fod rhoddi iddynt hwy yn rhoddi i Dduw, sy'n syndod diddarfod! Etto, sylwer pwy sy'n hönri yr *hawl GYNTAF* i drysorau eu hudolion dan eu lachio hwy a ninnau am ariangarwch os grwgnachwn ddim yn erbyn y fath ormes. O ffei rhag y fath ddiwywilydd-dra. Awgrymant fod yr hwn a hönna yr *hawl gyntaf* i'w bwrs ei hun yn eilunaddolwr, eybyddlyd, ac yn amnau rhagluniaeth Duw, &c.; heb ystyried eu bod hwy eu hunau drwy

hòni yr "hawl gyntaf," yn eu haberthu eu hunain i'w heilunod! Heb amnau addasrwydd eu testan, gofynwn pa fodd y meiddiant hwy, heb son am Mr. Davies, daflu cerig at ereill, tra yn byw mewn tai gwyde eu hunain! Wedi cofrestru Balaam, Achan, Gehazi, a Judas, yn mhilith eu hudolion; wedi son am eu mesur byr, eu pwysau ysgafn, a'u halogi y Sabbothau, &c., tuchanant yn drist iawn fel hyn, "y mae cyfoeth rhai yn amhau, ac etto y maent hwy yn brinach yn eu cyfraniadau na chynt!" Ie, dyma hi etto, llygadu y cyfoeth fyth! Rhybuddia yr ysgrhythrau ni y pentyrai dynion iddynt eu hunain athrawon yn y dyddiau diweddaf, yn troi at chwedlau, &c., ac onid y llythyrau cymmanfaol hyn ynt? Onid gwneyd marsiandiaeth o'u hudolwyr dan rith o efengyl yw hyn? ac onid dyma y rhai sy'n byw yn segur ar draul y penweiniaid a'u credant? Haera ein cyhuddwyr mai "cyfranu yn helaeth at achos Duw (*alias*, Bedyddiaeth) ydyw y ffordd i gadw cyfoeth yn ddiogel," ac yn wir, "diogel" iawn yw; i.e. rhy "ddiogel" i hyd y nod y llog ddod yn ol byth. "Gelwir yn ddi-frifol arnom (sef arnoch chwi) am ymegniad er cynnal y weinidogaeth gartrefol," meddant. Wel, dyma fwy o fwm beili nag a wnay Saint o neb, ac addas i'r cyfryw en geiriau eu hunain, sef "Ofer i chwi geisio eu hargyhoeddi (sef y byl) fod eich trysor yn y nefoedd pan y maent yn gweled fod eich calon ar y ddaear." Gwir i gyd. "*Charity begins at home*," Mr. Davies. Chwyehwi yn cyhuddo y Saint o geisio darn arian pobl yn wir! Rhoddwch eich *spectal* am eich llygaid un-waith etto, a darllenwch y *penderfyniadau* yn eich "llythyr cymmanfa:" wedi dattod y *pursesings*, gwelir y mammon yn dangos ei ben drwy-dri o'r chwech penderfyniad yn tincian am docyns, a chasgliadau at ryw bethau neu gilydd. Y meddyg, iachâ dy hun a'th frodyr. Yn ganlynol daw y "cynllun" gwych dan saith o benau, ar oll o'r rheiwy ond un, fel clychau yn tincian am arian, nes syfrdanu clustiau y wlad! Ac er nad gwaeth genym faint a gânt o arian y rhai sydd mor ffol a gadael iddynt yr *hawl gyntaf*, etto rhyfeddwn yn fawr pa fodd y gall yr euogion hyn dadogi eu "hariangarwch" ar y Saint sydd yn gweithio â'u dwylaw fel y gallant bregethu yr efengyl yn rhad!

Am yr adeiladu llongau i fyned tua Jernsalem y sonia, gwyr o'r goreu nad oes gan neb o'r Saint un meddwl i fyned yno; canys darllenodd amgenach yn y llyfr "mellidithiol" hwnw fel y geilw, *Seven y Saint*, i.e. mae y cyhoeddiad bach hwnw yn ei drin ef *just right*; ac arwydd ddrwg yw gweled ei yn cuoi y wialen a'i fflangella. Cynnaint â hyna er profi pwy sy'n denu arian penweiniaid, ac yn byw yn segur ar draul eu twyll.

[I'w barhau.]

PRIODAS WIRIONEDDOL.

Yr hwn a anturia briodi â gwirionedd a sionir os dysgwylia ei chael amgen na morwyn ddigynysgaeth a diaddurn; prioda hi o ran yr hyn ydyw ynddi ei hunan, ac fel y foneddriges hòno oeld wedi ymgyfaunodi â milwr i briodi pan ddychwelai o'r frwdr; ond y llythyr nesaf a gafodd oddiwrtho oeld un yn ei rhyddhau hi oddiwrth yr ammodau hyn y briodi arall, oherwydd ei fod ef wedi colli ei bedwar aelod ar

faes y gwaed, a'i anharddu gymmaint, fel nad oedd yn deilwng o honi. Hithau a'i atebodd ef yn ol fel yr ateba pob doeth pan glywo wirionedd, sef "ei bod hi yn foddlon i'w briodi er gwell ac er gwaeth, serch iddo golli ei aelodau, i.e, pe na adawsid yn ngweddill o hono ond digon o gorff i gynnal bywyd, ac yna y daliai hi ef at yr ammod gyntaf." Pan brioder gwirionedd, dylid ymgyfammeri i'w charu, ei meithrin, ac ufyddhau iddi, nid hyd angau yn unig, ond tuhwnt i hyny; canys parha yr undeb hwn nid hyd angau, ond yn hwy nag anser, yr hwn yw gorchfygwr angau. Mae carwr y gwirionedd goruwch y gwael sothach a ddysgleiriant o'i amgylch, yn gadarn yn nghanol temtasiynau, yn eofn a gwrol yn nghanol bradwriaethau, a'i berl o'i flaen yn denu ei serch ar ei ol. Dynion rhagfarnllyd a genfigenant wrtho, yn unig oherwydd ei fod ef yn ddiragfarn; gwaeddant bargain ddrud ar ei ol, am na ellir ei brynu ef; gwrthwyneba pob pleidiwr ef, oherwydd nad yw efe bleidiwr; ond priod sydd yn caru ac yn dilyn ei briodferch nefolaidd, yr hon sydd foneddiges hardd odiaeth, o achau dwyfol, ac o waed breiniol, a'i henw yw gwirionedd.

NEWYDD DA I'R SAINT.

Ty y Cyffredin, dydd Llun, Mehefin 14.

"**ARGLWYDD** M. Hill a ymddangosodd o flaen y bar, ac a ddywedodd ddarfod iddo ef ar y dydd hwnw, yn ol dymuniad y ty, ymweled â'i Mawrhydi, a chyflwyno i'w sylw yr araeth a wnaeth y ty ar y *colonization* (tiriogaethu). ac i'r hyn y rhyngodd bodd i'w Mawrhydi ddychwelyd yr atebiad grasol a ganlyn:—

"Yr ydwyf wedi ystyried araeth fy ffyddlon Dy y Cyffredin. Yr ydwyf yn hur deimladwy o'r lles a ddeilliai oddiwrth y mesurau goren i hwyluso tiriogaethu, a chyfarwyddaf ar fod ymchwiliad manylach yn cael ei wneuthur i'r mater, fel y galluoger y Senedd i drefnu rhyw fesurau a wareda yr ymfudwr a'r tiriogaethau oddiwrth niweidiau byrbwylltra ar y peth hyn."

"Gorchymynwyd i atebiad ei Mawrhydi gael ei gronico."

Er nad ydym yn meddwl mai yn uniongyrchol, nac ar y tro cyntaf, y dygir y mesurau a ddymuna y Saint yn y blaen, etto gan na cheisiant ond cyfiawnder, a'r hyn fydd er lles i bawb, ac heb golled i neb, yn eu deiseb diweddar at ei Mawrhydi, a chan fod calonau pawb yn llaw eu Tad nefol, annoga yr holl ystyriaethau hyn ac ereill ni, a dymunem iddynt gysuro calonau a chryfhau ffydd pob un o'r Saint ffyddlon i gredu fod Duw yn cofio ei addewid, ac mewn iawn bryd yr agora ffordd i'w bobl ffyddlon gael gwaredigaeth. Addawodd, os na byddai breninoedd a breninesau yn dadau a mamau, y byddent yn dadmaethod a mammaethod i'w blant, ac mae yn debyg mai trwy drefnu mesurau er casglu ei blant ynghyd o'r pedwar cwr y cyflawnant y brophwydoliaeth hon; o'r hyn lleiaf, credwn hyn yn ddiysgog, na bydd un o honynt yn ol oherwydd eu tylodi, ond iddynt fod yn gyfoethog yn yr Ysbryd, neu yn ffyddlon yn eu dyledswyddau.

Yr hyn a ddigalona y llywodraeth fwyaf i anfon ei deiliaid i'w thiriogaethau pellenig a newydd, yw y perygl iddynt fod mewn eisieu yno

cyn y gallant dyfu enwd o'r ddaear, neu y gost fawr o'u cynnal hyd hyny, ynghyd â'r gost o'u cludo yno. Am yr olaf nid yw ddim, a'r cyntaf nid yw ond bychan wedi deall pa fodd. Pe rhoddai v llywodraeth 320 o erwau o dir, yr hyn nid yw ond hanner *section*, gallent gael marsiandwyr yn y wlad hon a'u cludai yno am ran o'r tir hwaw, ac felly gallent ddarparu lluniaeth â'r oll a feddent yma, ac wedyn byddent yn rhydd-ddeiliaid mewn gwlad ffrwythlon, a hinsawdd iachus, lle na byddai raid fod newyn nac angen ar neb o honynt. Heblaw hyny, y mae rhai o diriogaethau ei Mawrhydi, megys Oregon, Vancouver, Australia, &c., yn y fath hinsawdd dymherns ag a gynnyrcha lawer math o ymborth mewn ychydig wythnosau, a dau gnwd o yd yn flynyddol, heblaw y digonedd o gig helwriaeth sydd i'w gael yno. Ac felly, pe caniatâi ei Mawrhydi ond cynnifer o erwau o dir yno i bob gwryw a ddelai i oedran, gosodai y cyfryw mewn sefyllfa annibynol, i.e. mewn sefyllfa ddedwydd a chyfoethog, a'u hiliogaeth ar eu hol; ac felly yr oesoedd a ddel a'u galwai yn wynfydedig. Hyderwn mai felly y gwel yn dda wneyd, fel y gwaredo y neh a ddewiso rhag y newynau, y dyoddefiadau, a'r barnau tost ag sydd ar ddyfod ar holl rai annuwiol y ddaear.

ARWYDDION YR AMSERAU.

YSGRIFENA gohebydd i un o newyddiaduron Caerefrog Newydd, o yn agos i Galena, dyddiedig Mai 18:—"Clywais am genllusg mawrion lawer tro, ond ni welais rai hyd ddoe. Tua pedwar o'r gloch y pryd-nawn, daeth cwmwl dudew o'r gogledd, ac a arllwysodd arnom wynt, cenllusg, a gwlaw. Yr oedd rhai o'r cenllusg gymmaint â wyau gwyddau, neu *turkeys*. Nid oedd genyf gyfle ar y pryd i'w pwyso, ac ni feddyliais am eu mesur; ond codais rai yn nhen 3 awr wedi iddynt ddisgyn, ac yn nhen 16 o oriau wedi iddynt ddisgyn mesurodd un o honynt $4\frac{3}{4}$ o fodfeddi wrth $3\frac{3}{4}$. Dywedodd honeddwr wrthyf ddarod iddo ef fesur rhai yn nhen tuag awr wedi iddynt ddisgyn, pa rai oedd-ynt yn $10\frac{1}{4}$ o gylchfesur; ac arall a fesurodd un oedd yn $9\frac{1}{4}$ o gylchfesur. Deallaf fod y cynydau wedi eu dyfetha yn arw yn y ffordd y daeth y cwmwl o'r gogledd, ac i'r dwyrain oddiyma maent wedi dyoddef yn fawr. Sicrhaf i chwi fod y cenllusg gymmaint ag a dlewisai neb weled, ac yn llanw gwyneb y ddaear o dan ganol y cwmwl."

Dywed y *Marietta Helicon* o'r 20fed o Fai, fod cawod o genllusg mawrion wedi disgyn yn eu tref hwynt, a'r swydd, nos Sul, ac wedi dystrywio llawer o'r yd a'r ffrwythau. Ac ar nos Lun bu cawod drom arall am oddeutu hanner awr, ac a oerodd yr hinsawdd nes yr oedd tân nid yn unig yn oddefol, ond yn bleserus. Mewn manau ereill hysbysir fod yd yr India a'r cottwm wedi eu llwyr ddyfetha hyd y nod yn y manau hyny o'r Taleithiau deheuol lle y cyrhaeddodd y gawod. nes y mae y ffermywr yn ail aredig eu tir cottwm i gnydau o rywethl arall. Dywed cyhoeddiad Lorange fod y cenllusg wedi disgyn o bwysau bwledi drylliau hyd i faint wyau geir, a rhai darnau yn pwyso llawer wns; eu bod wedi llwyr ddinystrio caeau cyfain o yd yr India, gwenith, &c., ac wedi eu chwythu a'u curo yn wastad â'r llawr, ynghyd â'r *rail* gloddiau, y coedydd, a phobpeth oedd yn eu ffordd.

Annhosibl dywedyd pa faint yw y golled, meddant. Cyrhaeddodd yr ystorm hon drwy dalaeth Alabama, gan ddifrodi pob petli o'i blaen, a llauw gwyneb y ddaear am amryw fodfeddi o drwch, ac oddeutu chwecch modfedd o gylchfesur.

Hysbysir ni hefyd fod cawod erwin o genllusg rhyfeddol o faint wedi rhuthro drwy dalaeth Georgia oddeutu yr un pryd, gan achosi galanasdra mawr, yn enwedig i'r coed, ffrwythydd, a'r cynydau. Peth anarferol iawn yw clywed am y fath genllusg â'r rhai uchod. Ac, a ystyrid ni yn rhyfygus tybied pe anturïem ofyn, A oes llais gan Grewdwyr yr elfennau drwy bethau fel hyn at drigolion gwrthnysig daear? Dywed Job fod yr Arglwydd yn cadw cenllusg hyd amser cyfyngder, hyd ddydd ymladd a rhyfel. Dywed y Salmwydd, Salm lxxviii, 47, mai barn Duw ar yr Aifit oedd dinystrïo eu gwinwydd â chenllusg. Dywed y prophwyd Esay, pen. xxx, 30, fod y cerig cenllusg, a'r tân ysol, yn profi audderchogrydd llais yr Arglwydd. Dywed hefyd yr ymladd Efe â chenllusg yn erhyn gelynyon ei bohl Israel yn eu hadferiad olaf i'w gwlad, fel y gwnaeth â'u gelynyon gynt. Gwel Ezeziel xxxviii, 22. Gwelir hefyd oddiwrth Dat. viii, 7, mai cenllusg fydd yn mhllith pethau creill y defnyddiau a arfera Duw i ddial ei lid ar y rhai o deulu y Babilon fawr a wrthodant ei efengyl, gan anmlharchu ei weision: ac yn niba wlad y gwnaethant hyn yn y canrifoedd diweddaf fel yn y wlad lle y mae Duw y gweision hyn yn dechreu ymweled â hi gyda'r fath genllusg mawr? er nad yw hyn ond dechreu gofodïau. Dywedodd Duw wrth ei weision pan yn eu hanfon drwy'r wlad hōno,—“Ar ol eich tystiolaeth chwi y daw tystiolaeth, mellt a tharanau. CENLLUSG, llifklyfroedd, a thānau,” &c. A rhyfedd fel y cyflawnir hyn yno eisoes gymmaint mwy nag yn un wlad arall, yn enwedig er pan y maent wedi alltudïo plant Duw o'u plith!

Dywed Ioan, yn Dat. xvi, 21, iddo weled cenllusg mawr fel talentau yn disgyn o'r nef ar ddynion, ac er hynny oll, fod dynion yn cablu Duw y nefoedd oherwydd pla y cenllusg, canys mawr iawn oedd eu pla hwynt. Amlwg yw nad er argyhoeddi dynion y mae y plāau, ond gweision Duw sydd i argyhoeddi drwy bregethu, a Duw sy'n dial ar eu gwrthodwyr drwy'r plāau, &c.

Argoel ryfedd arall o fod y Duw cādarn yn darparu ei offerynau dinystriol erbyn dydd yr ysglyfaeth, pan eilw esfe ynghyd, nid fwlters yn unig, ond holl adar yr awyr, i wleda ar gnawd breninoedd a thywysogion, ac ar gig yr holl rai a addolant y bwystfil, neu a dderbyniant ei nôd, yw yr hyn a ganlyn:—Cynnwysa newyddiaduron talaeth Missouri (sef y dalaeth a alltudïodd y Saint yn ddiachos a diarbel o'u cyffiniau) hanesion rhyfedd am ymddangosiad llu mawr o fwlters yn ehedeg o'r gogledd i'r deau drwy'r dalaeth hōno. Cyrhaeddent o ran lled tua dwy filltir, &c., o'r gogledd i'r deau, cyn belled ag y gwelai y llygaid. Rhedent cyn agosed i'r ddaear â brigau y coed, a chyn uchod i'r awyr, fel eu gwelid yn un cwnwl tew, a chyn agosed i'w gilydd ag y gallent ehedeg. Gymaint oedd eu trwch a'u cysgod nes cysgodi goleuni yr haul nes yr oedd fel tywyllwch yr Aifit odditanynt. Yr oedd y trigolion wedi dychrynu yn fawr with yr olygfa, a mawr oedd y dychymnnygu beth oedd yr achos, ynghyd â pha beth fyddai y canlyniadau.

Ond os yw hyn b'ach yn eu dychrynu, beth a ddaw o honynt pan roddo Duw y Saint eu cnawd hwynt yn fwyd i adar y nefoedd?

Er fod arwyddion i fod yn y nefoedd, ac ar y ddaear gwaed, a than, a chenllusg, a newynau, rhyfeloedd, a heintiau; &c., etto dechreu gofidiau yw hyn oll: nid yw "diwedd y byd" etto, fel y dywed rhai, ac ni ddaw ychwaith hyd oni bydd "yr efengyl hon am y deyrnas" wedi cael ei phregethu drwy'r byd er tystiolaeth i'r holl genedloedd—hyd oni byddo y ddaear wedi ei dilawio gan waed—dinasoedd wedi eu llosgi yn ulw, neu eu llyncu i grombil y ddaear—hyd nes y gorwisgir y cenedloedd â gwelwder ac ag ofu—hyd oni leddir y lleill o'r prophwydi a'r apostolion santaidd oherwydd tystiolaeth Iesu, fel y lluddwyd eu brodyr gynt—nac hyd, y gwelir arwydd eglor Mab Duw yn y nefoedd, y daw diwedd y byd. Arwyddion rhagdaeuol yw y lleill oll.

NEWYDDION O CALIFORNIA.

TIRIODD 1400 o ymfudwyr yn nyffryn y San Francisco yn yr hydref diweddiaf, 200 o honynt yn Saint, pa rai a ddaethant oddiamgylch Cape Horn, a'r lleill mewn 180 o hedrolfeni dan arweiniad y llywydd Boggs dros y mynyddoedd.

Mae y ffordd yn gwella yn flynyddol o'r taleithian yma. Y ty cyntaf ag a welant ar eu ffordd ar ol gadael y taleithiau yw endid Mr. Johnston, Sais, yna Capt. Sutters, pa rai a ddarparant yn well gogyfer ag ymfudwyr yn y blynyddoedd dyfodol; ac y mae ereill yn hwriadu sefydlu ar hyd y ffordd, fel na raid i'r ymfudwyr eyn hir fod mewn eisiau dim. Annogir pawb i ddefnyddio ychaim i deithio, yn hytrach na cheffylau na mulod: Y rhai a ddygasent nwyfau gyda hwynt a'u gwerthasant yn rhwydd am brisiau uchel. Cafodd yr ymfudwyr a aethant yno gyda Col. Fremont gyfleusdra rhagorol i werthu eu ceffylau, cyfrwyau, drylliau, a phob peth a ddymunent, a chawsant 25 o ddollars o gyflog yn y mis am 6 mis.

Dysgwyliant o 3000 i 4000 o ymfudwyr i ddyffryn Sacramento eleni. Canmolir medrusrwydd anhygoel y brodorion i ryfela pan ar eu ceffylau eu hunain, oherwydd y maent wedi cael eu dysgu i hyn yn eu ffordd hwynt yn gywrain iawn.

"Ar y 9fed o Ionawr, ymunodd y Cadfridog Kearney, a'r Colonel Cooke, yn San Diego, â'r fyddin Faraonaidd gyda hwynt. Canmolir hwynt yn fawr am eu dyfodiad trefnus a rheolaidd i mewn. Dywedir fod eu holl filwyr mewn iechyd a chalon dda, a'u harfau mor loywed â'r dydd y cychwynasant eu taith—mewn dyscyblaeth ragorol, ac heb ddyoddef nemawr o golled. Yn fuan wedi cyrhaedd yma aethant yn nlaen tua Monterey, lle y cyrhaeddasant yn ddiogel. Yno yr ymunodd dwy gatrawd o wyr traed o Baltimore gyda hwynt. Yr oedd Comodore Shubrick wedi ymuno â'r Cad. Kearney yno hefyd, ond ni eillid gwybod beth oedd eu hamean, canys hdnai y naill a'r llall eu hawl i lywyddu dros y diriogaeth."—*St. Louis Republican*.

Y *California Star* (cyhoeddiad Mormonaidd) a ddyr hanes am y terfysg a fu yn Santa Clara:—"Fel yr oedd na o swyddwyr y llynges, gydag osgorod o elwech o filwyr, wedi myned i'r wlad ar fusness, hwy

a garcharwyd gan y Mexicanaid. Anfonodd cadben y llong ddwy gatrawd i'w hymofyn, pa rai a ymlidiasant y Mexicanaid hyd Yerba Buena, a thrwy en magnelau gorfusasant hwynt i ymfyn ammodau heddwch."—*St. Louis Union*.

"Hysbysir ni drwy y *Californian* ddarfod i 60 o ymfudwyr wrth geisio croesi mynyddoedd California ddyoddef newyn mawr. O'r pedwar-ar-hyntheg a gychwynasant tua'r dyffryn, ni chyrrhaeddodd ond saith yn unig, a gorfu iddynt ymborthi ar gnawd y lleill o'u nifer, ar ol eu marw, rhag iddynt drengu! Yn mhllith y rhai a gyrhaeddasant yr oedd dwy ferch ieuanc. Cynnaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn Yerba Buena ar yr achlysur, a chasglwyd 800 o ddollars yn y fan, gwerth pa rai a anfonwyd gyda chwmni yn ymborth i'r rhai oeddynt etto yn y mynyddoedd. Yr achos o'r anffawd hwn oedd oherwydd i'r ymfudwyr golli eu gwartheg a'u hanificiliaid ar y Salt Plains yn agos i Hastings Cut Off, ffordd na ddyl'd byth ei theithio."

Dyma yr achlysur i hobl ddweyd, "fod y Saint yn bwyta eu gilydd yn yr anialwch." Ond diolch i Dduw y Saint, er gwaethaf y byd, ac er awydd pawb i'w bwyta i fyny, nid oedd un o'r Saint yn y cwmni yna. Maent hwy o dan well arweinyddion nâ hyna.

"Y MORMONIAID. Mae y Mormoniaid a ddaethant i San Francisco wedi ymsefydlu mewn dwy drefedigaeth wahanol, ac yn y wlad eang ac amhoblog hon, diau y bydd hynny yn well ar les pawb na bod yn yr un fan. Mae ganddynt arfeidiadau o ddiwydrwydd, pa rai a allant wneyd yn ddefnyddiol iawn yn y wlad hon. Maent yn hobl weithgar, gynil, a gonest, ac yn hollol anheilwng o'r cymmeriadau gwarthus a roddir arnynt gan rai cyhoeddiadau rhagfarnlyd."—*Californian*.

"YMFUDWYR.—Am amryw o'r wythnosau diweddaf, sylwasom ar luoedd o ymfudwyr yn myned drwy y ddinas hon tua'r gorllewin. Synasom wrth eu gwisgoedd trefnus, a'u hymddangosiad honeddigaidd braidd yn ddiethriad. Y rhan fwyaf o honnynt ydynt o'r dosparth a ystyrir yn fwyaf parchus a sylweddol o'r taleithiau dwyreiniol. Ni welsom erioed gynifer o ymfudwyr o gystal ymddangosiad. Ac er ein siomedigaeth fawr hysbyswyd ni gan foneddwr ag sydd yn gwybod, mai Mormoniaid ydynt oll braidd! Trueni fod pobl morgall a phwylllog, a chynnifer o deuluoedd lliosog (canys yr oeddynt yn lliosog iawn) yn cymmeryd eu hudo gan y fath dwyll."—*Pittsburgh Gazette*.

Trueni na huasai efe ei hun mor ddyngarol â chwilio cymmaint i'r egwyddorion ag a wnaeth nt hwy, cyn collfarnu eu crefydd am dwyll. Druain o'r fath Olygyddion! Nid oedd ganddynt ddigon o ymennydd byth i chwilio dim allan eu hunain, ond cipio yr hyn a gânt yn dyfod ar adenydd yr awel boblogaidd, ac yu mlaen ag ef fel y nae plyfod yn myned o flaen corwynt. Pa un ai efe, ynte y hobl ag oeddynt wedi profi y grefydd a allasai ddeall oreu o barthed iddi? Ond dyma arferiad y cyfryw dr. y'r byd hraidd.

FFORDD NEWYDD AC AGOSACH I CALIFORNIA.

MAE cwmpeini cyfoethog yn Llundain wedi cymmeryd y *charter* i uno y Mor Werydd a'r Mor Tawel a'u gilydd wrth wddfdir Tehuentepec. Dywedir eu bod yn bwriadu dechreu ar y gorchwyl mor gynted ag yr adferir heddwech yn Mexico. Arbedai y ffordd hon amryw filoedd o filitiroedd, heblaw tywydd annihleserus Cape Horn i'r rhai a ânt hyd y môr tua California neu Oregon. Dymunwn bob llwyddiant iddynt i'w chwblhau yn fuan.

CYNGHORION RHAGOROL.

Ti ddyn adnebydd dy hun! deall dy natur. dysg alluoedd dy gynedd-fau corfforol ac ysbrydol. Chwilia i'th ddechreuad, y dyben o'th fodolaeth yn bresennol, a'th dyngهدfen dragwyddol. Cloddia am ffynonell gwir ddedwyddwech nes ei chael yna, ac arllwys ei ffrydiau i fynwesau pawb o'th amgylch. Dysga i hawb dy fod o achau dwyfol drwy dy rinweddau, prawf fod gwaed breiniol yn dy wythenau, nid a'th dafod, ond a'th esiamplau. Ymgyraedd at bob cyfle i eangu dy alluoedd, fel dyn ar fodd, at welltyn a fo ar ei gyfer. Na wrthod un pelydr o oleuni oherwydd y ganwyll a'i dyry, canys goleu yw goleu, deued o ba le y delo, felly gwirionedd. Yn parhau i wreuthur hyn, llanwi y cylch y gosododd dy dad di ynddo, y bydd dy enw mewn coffadwriaeth ar gronclau ty y'th dadau, y geilw dy frodyr di yn wynfydedig, y cei eistedd ar orsedd wen, coron ar dy ben, teyrnwialen yn dy law, ac oesoedd diderfyn i'w gwisgo!

CLEFYDAU YN YR AMERICA.

MAE y *Patriot* am Mehefin 17eg yn dweyd fod cryn gyffro, ac ofnau mawr drwy brif ddinasoedd y taleithiau dwyreiniol, oherwydd ymddangosiad rhyw glefyd a enwant yn Bla y Llongau yn eu plith. Dywedir ei fod yn angeuol iawn yn Caerefrog Newydd, ac yn lladd rhai yn feunyddiol, nid o'r ymfudwyr yn unig, ond hefyd o rai ereill a'i cawsant oddiwrthynt hwy. Mae cannoedd lawer yn y claf dai, ac yn un man bu farw chwech o hono mewn yspaid dwy awr. Hysbysa bob llong braidd a diria o Ewrop gydag ymfudwyr am o hanner cant i driugain, neu driugain a deg, o farwolaethau o hono ar y fordaith. Yn Boston, rhwystrodd y llywodraeth rai llongau i landio eu hymfudwyr o'i herwydd, ac yn eu claf dai mae rhai yn marw o hono yn feunyddiol. Mae yn gwneyd galanasdra mawr yn Baltimore, ac yn Quebec a Montreal mae y claf dai yn orlawn. Mae o 40 i 70 yn marw ar bob llong a ddaw i mewn. Mae 224 o gleifion ar fwrdd pedair o longau, yn yr afon ar gyfer Montreal, a mwy neu lai yn marw bob awr. Dywedir fod y pla hwn mor farwol â'r Cholera, ac ahaml y byddant byw dŵs ychydig o oriau.

CYMMANFA MORGANWG.

CYNNALIWYD y Gymmanfa hon yn Merthyr, dydd Sul, Gorph. 11eg. Cynrychiolwyd 27 o ganghenau perthynol i'r gynnadledd hon, ym

cynnwys 124 o bregethwyr, 70 o athrawon a diaconiaid, a'r cyfan o'r aelodau oeddynt 1153. Yr oedd 142 wedi cael eu bedydd o' yn ystod y ddau fis a hanner diweddaf. Sefydlwyd pedair o ganghenau newyddion, a galwyd tua phymtheg i'r weinidogaeth. Yr oedd y cyfarfodydd yn drefnus, y dyrfa o wrandawwyr yn lliosog iawn, a rhoddwyd llawer o gynghorion llesol, ac o ddysgeidiaeth adeiladol i'r Saint drwy'r dydd, yr hyn a dystid drwy'r sirioldeb mawr a'r gwrandawriad astud a boneddigaidd drwy y cyfan.

Dydd Llun, am ddeg, cynnaliwyd cyfarfod i'r Saint, ac yn neillduol i'r swyddogion. A hanner awr wedi dau o'r gloch yr oedd y byrddau wedi eu hulo â'r llestri gwyhaf, a'u gorlwytho â'r seigiau a ddarparwyd gogyfer a gwledd y Gymdeithas Genadol. Ac o hyn y hyd wyth o'r gloch gwleddodd dros fil o bobl. Ni chlywsom fod cymmaint ag un ymddygiad anfoneddigaidd, nac un ymddangosiad anghariadus drwy yr holl dyrfa drefnus hon; ond yr oedd pawb a welson â'u gwen ar eu gruddiau, yn arddangosiadol o lawenydd eu calonau drwy'r cyfanser. Yr oedd inwy o ymhorth wedi ei drefnu nag a ddefnyddiwyd, fel y cafodd pawb eu gwala, ac y gwerthwyd y gweddill am yn agos i ddwy hunt. Ar ol darfod y wledd, anerchwyd y dyrfa serchus gan y llywydd Jones, yr henuriaid Henshaw, A. Evans, a Mitchell, yn ddyddorol a gwresog iawn.

Darllenodd yr ysgrifenydd gyfrifon y Gymdeithas Genadol, sef ei dderbyniadau a'i thaliadau, pa faint a dderbyniwyd y wledd hon, ei chostau, ac hefyd pa faint o arian sydd yn llaw y trysorydd yn bresennol. Yr oedd yn dda genym ddeall fod yr holl docynau a'r taliadau, a'r cyfrifon i gyd yn cyduno yn foddhaol i bawb. Ar ddiwedd y wledd, talwyd diolchgarwch y Saint i'w cyfeillion hynaws a charedig o'r byd, ac oddiwrth enwadau ereill, am eu sirioldeb, eu cwmini, a'u cynnorthwyr yn y gwaith daionus hyn. Ac wedi canu mawl, gollyngodd y llywydd y dyrfa ymaith dan fendith a nodded y Duw grasol; a diau ddarfod i'n cyhnulliad hwn fod yn llesiol i ladd llawer o'r rhagfarn oedd yn mynwesau y gwrandawwyr, i argyhoeddi llawer, a'u dwyn i gredu yr efengyl, heblaw i adeiladu y Saint yn y santeiddiaf ffydd. Yr Arglwydd grasol a brysuro y dedwydd ddydd pan y gall holl genedl y Cymry gyduno i garu eu gilydd, a chydweled mor ddieithriad, a chydgyrchu at yr un nôd dwyfol yn Nghrist Iesu, yw'n taer weddi dros ein holl gydgenedl awyl. Amen.

Dydd Mawrth, cyfarfu y pwyllgor i gyfranu yr hyn oedd ar lawert anghenrheidiau y pregethwyr hyny a aethent i'r Gogledd, ac i Sir Benfro, a manau ereill, er eu cynorthwyo i barhau i bregethu drwy y gweddill o'r tymmor hwn. Deallwyd fod rhai o honynt wedi bod yn dyoddef eisieu mawr. Gobeithiwn yr yndrecha y Saint yn eu cyrddau misol i gyfranu gogyfer â'r brodyr hyn ag sydd yn rhoddi eu holl amser yn ngwinllan Crist, heb na chod nac ysgrepan i'r daith, canys y maent yn nghanol cenedlaeth wargaled a defosiynol iawn; i.e. mor dduwiol nes yr ystyriant ei fod yn bechod yn erbyn Duw i roddi pryd o fwyd, na noswaith o lety, i'w weision! O, y fath siomedigaeth a gaff' y truciiniaid hudoledig hyny pan y byddont oil wedi myned i'w letyau eu hunain!

MEXICO.

Mae y Mexicanaid, ar ol i'w byddinoedd cedyrn fethn a sefyll yn ngwyneb byddinoedd dewrach y Talcithiau, pa rai a'u gyasant ar flo gwa ehollod n amryw floeid o fywydau, mewn tua 18 o frwydrau yn olynol, wedi cyfnewid eu dull o ryfela. Yn lle dwyn eu milwyr wyneb yn wyneb, a'u gorfodi i ladd eu cyd-ddynion felly, gwelir fod y Llywydd Antonio Canales wedi cyhoeddi ei anerchiad at yr holl Fexicaniaid, yn gorchymyn i bob un, honedig a gwreng, hen ac ienane, yn y trefydd a'r wlad, ag sydd yn alluog i sefyll dan arfau, i ymgrynhoi yn fân finteioedd, a dewis eu blaenor, ac ymosod ar, a llwyr ddyfetha pob Americanaid, arfog neu beidio, yn ddiarbed; ac hefyd, am iddynt yspio pob adeg i rathro ar, a ladd y rhai a gaffent ar wahan oddiwrt h y fyddin Americanaidd, yn chwilio y ffyrdd, ceisio lluniaeth, &c. Gorchymyna fod pob un a'r nad, usfyddhâi i'r galwad hwn cyn pen yr wyth niwrnod i gael ei ystyried yn fradwr i'r llywodraeth, i gael ei ladd yn ddiholiad, a bod ei holl feddiannau i fod yn ciddo i'r lleill. Mae y llywydd o ddirif, meddylid, am ddyfetha bywydau. Ni ddichon y ffordd yna ateb y dyben a ddymuna, oherwydd bydd yr Americanaid yn edrych allan am danynt, ac yn cadw gyda'u gilydd; a lle y llwyddant i ladd y rhai o'r Americanaid a wladvehasant yno o'r blaen, tynant ddialedd triphlyg y fyddin am eu penau. Yr oedd y dull blaenorol o ryfela yn ddigon gwaedlyd galledd dysgwyl, pan yr oedd miloedd o hob tu yn cael eu ladd, ond y mae y dull hwn yn fwy cigyddlyd etto. Yr esgusawd a gynnygia y Mexicanaid dros ddechreu y rhyfel "*Guerilla*" hwn yw, fod yr Americanaid wedi gwneyd rhyw annhegwch â hwythau, ac wedi ladd rhyw nifer yn ddi brofedigaeth. Cyhoeddir llawer o chwedlau drwy y newyddiaduron Mexicanaid yn erbyn yr Americanaid, er creu cefnigen i'w herbyn; ac ni allant hwythau ddysgwyl llai, canys hen dric Americanaid yw hwna. Hwy a ddysgasant y byd i droi firwd poblogrwydd yn erbyn eu gelynyon trwy ddylanwad y wasg, pan fethent bob ffordd arall. Dyma fel y gwnaeth y wasg Americanaid â'r Saint am yn agos i ngain mlynedd, nes llwyddo drwy eu chwedlau disail i gael gan yr holl fyd feddwl yn ddwg am danynt; ac ai rhyfedd fod y Mexicanaid yn talu iddynt yn ol y mesur ag y mesurasant i ereill.

Mae y Cadfridog Scott wedi cyhoeddi anerchiad at y Mexicanaid, yn yr hwn yr amddiffyna gynmeriad ei fyddin, ac y gwada y cyhuddiadau a gyhoeddir i'w herbyn, y cyhudda fonedd a swyddogion Mexico o ormes ac annhegwch mawr at eu deiliaid. Hysbysa ei fod ef ar ei ffordd o Jalapa i Puebla, tref fawr iawn yn Mexico, ac oddiyny i brifddinas Mexico. Annoga rhai o fawrion y wlad fod i'r ddinas gael ei llosgi yn hytrach nag i'r gelynyon gael ei meddiannu, ond dysgwylir am ychwaneg o newyddion pwysig ar fyr.

TREFNIADAU PREGETHWYR.

Yn ychwanegol at y rhai oeddynt yno o'r blaen, aeth, neu y mae y personau a gawlyn ar fyned i'r manau canlynol:—

Sir Fon.—Robert Evans, William Davies, a Chason Thomas.

Sir Guernarfon—Eliezer Edwards, a Lewis Jones.

Sir Ddinbych, a Sir Feirionydd.—Abel Evans.

Sir Ffint.—John Jones.

Sir Aberteifi.—Mae amryw ar fedr myned yn fuan.

Sir Guerfyrddin.—Benjamin Jones, Howel Williams, John Roberts, Morgan Richards, a John Floyd.

Sir Benfro.—F. C. Mitchell, J. Morris, John Davies, a John Price.

Cwmaman.—John Griffiths a James Phillips.

Cyfyng.—David Isaac Jones, a Daniel Williams.

Da genym ddeall fod amryw frodyr ereill yn trefnu eu hamgylechiadau yn ddarpariadol i fyned allan i rybuddio eu cydgenedl, ac i'w gwahodd i mewn i deyrnas Dduw. Frodyr anwyl, byddwch ddiwyd, gan brynu yr amser, oblegid y dyddiau sydd ddrwg. Yn awr yw y cynauaf, a gobeithiwn nad yn hogi eu crymanau y ccir neb, yn enwedig ein brodyr hyny nad oes gofalon hydol na theuluol ar eu ffordd. Mae galwadau aml a thaeion arnom o lawer o fanau lle nad oes pregethu wedi bod, yn y gwahanol sir-œdd, am bregethwyr i bregethu iddynt air y bywyd: ac, O frodyr, y rhai a allweh fyded, na adewch iddynt alw yn ofer; ond anfonwch eich enwau i ni, a hysbyswn chwi am y cyfryw fanau. Yr Arglwydd a lwyddo ac a fendithio y neb a ufyddhao i'r galwad hwo.

CAPT. JONES AR FORMONIAETH, YN 1846,

YN CYNNWYS

Y Gyfrol gyntaf o *Prophwyd y Jubili*; yr *Hen Grefydd Newydd*; yr *Atebydd*; y *Glorian*; yr *Amddiffyniad*; a'r *Milfwyddiant*; ac *Anerchiad y Deuddeg Apostol*; wedi eu rhwymo yn un gyfrol hardd, 12plyg. Pris Tri Swllt.

Gwell sierhau copi yn fuan, gan nad ellir cael un o'r rhai uchod ond yn y Gyfrol, oddieithr Cyfrol o'r *Prophwyd*, canys y maent allan o argraff, ac nid ydym yn meddwl eu hail-argraffu yn fuan.

CYNNWYSIAD.

“Pwy yw yr hen ddihenydd?”.....	117	Ffordd Newydd ac agosach i Cali-	
Y Parch. W. R. Davies, o Ddowlais,		fornia.....	129
a'i erlidigaeth greulon a chywil-		Clefydau yn yr America.....	129
yddus etto, etto.....	120	Cynghorion Rhagorol.....	129
Priodas Wirioneddol.....	123	Cymmanfa Morganwg.....	129
Newydd Dai'r Saint.....	124	Mexico.....	131
Arwyddion yr Amserau.....	125	Trefniadau Pregethwyr.....	131
Newyddion o California.....	127	Capt. Jones ar Formoniaeth, yn 1846	132

MERTHYR-TYDFIL:

RYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH HEFYD GAN Y SAINT YN GYFFREDINGL.

PROPHWYD Y JUBILI.

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 15.]

MEDI, 1847.

[PRIS 2g.

MEIBION DUW.

GELWIR meibion dynion yn feibion Duw, oherwydd yn 1. Mai Duw yw "tad yr ysbrydoedd" cyn eu dyfodiad i gyssylltiad â chnawd i'n daear ni, Heb. xii, 9. 2. Feleigreaduriaid. 3. Meibion mabwysiadol iddo ar ol ymddyethro oddiwrtho drwy drosedd ein rhieni cyntaf mewn rhyw ystyriaeth; ac hefyd, "pawb a bechasant ag ydynt yn ol am ogoniant Duw," wedi cyrhaedd i wybodaeth o dda a drwg. Wedi ein myned yn "ddyethriaid ac estroniaid," trefnodd ein Tad ffordd i fabwysiadu ei feibion gwrthryfelgar yn feibion i Dduw, ac yn yr ystyr hwn gelwir yr holl saint yn blant neu "feibion i Dduw." Ymddengys fod personau o'r cymmeriad hwn ar y ddaear er yn foreu iawn, Gen. vi, 2, 4. Gelwid y patriarchiaid yn feibion i Dduw, h. y., yn feibion mabwysiadol. Gelwir Abraham, Isaac, Jacob, ac ereill, yn feibion Duw, ac ymddengys fod llawer o honynt ar y ddaear yn amser Job, pen. i, 6, "A dydd a ddaeth i feibion Duw sefyll gerbron yr Arglwydd; a Satan hefyd a ddaeth yn eu plith hwynt." Yr ysgrythyrau canlynol a ddengys ammodau y mabwysiad, neu y drefn hono sydd gan Dduw i fabwysiadu meibion, sef yr efengyl. Gan na ddichon neb fod yn yr ystyr hwn yn feibion i Dduw heb faddeuant pechodau, a derbyn Ysbryd y mabwysiad, drwy yr hwn y maent yn llefain, Abba, Dad, gwelir fod yr un efengyl yn ei hordinhadau i'r un dybenion yn feddiannol gan y cyntaf un yn gystal a'r oll, hyd y diweddaf a fabwysiedir yn fab i Dduw; ac hefyd, fod "bara y plant" neu y doniau ysbrydol, a chymdeithas uniongyrchol â'u Tad, yn addewid i'r oll yn gystal ag i neb o'i feibion yn unrhyw oes; canys nid yw efe dderbyniwr wyneb.

Y "PARCH. W. R. DAVIES, O DDOWLAI," A'I ERLID-
IGAETH GREULON A CHYWLŶDDUS-ETTO!—ETTO!!

(*Parhad o tudal. 123 o Brophwyd. Awst.*)

PA gyhuddiad mwy maleisus a ddichon un dyn drwg gyhoeddi dros-odd a thrachefn yn hollol ddisail, nac mai "*hen Chartists gwaedlyd*" ydym? Ceisia drwy hyn gynhyrfu y wladwriaeth i'n herbyn, canys gwyr or goreu y cospau y dirinygu a'r alltudio a fu ar y rhai y dygwyd yr un cyhuddiad i'w herbyn! Diau fod honeddigion ein gwlad fel y wërin wedi diflasu ar, a deall ei anwireddau, onide buasai wedi tynu eu llid arnom cyn hyn; diolchwn iddynt hwy, ond nid iddo ef, fod genym fywyd a rhyddid i addoli Duw, a byw yn mhlith beddau ein tadau. Ysgrifenyd llythyrau at foneddigion y wlad yn sicrhau mai "*Chartists*" yw y Saint, gan geisio ganddynt ddial arnynt! Nid y'n yn sicrhau mai efe a'u hysgrifennodd, ond hyn a ddywedwn, sef nad ystyriwn fod y dyn a feiddia gyhoeddi hyn yn *Bedyddiwr*, y *Seren Gomer*, ei Draethawd, a'i Gatecism, a thrwy bwlpu dau y wlad, un gronyn rhy dda i ysgrifenu hyny at, hyd y nod ei Mhawrhydi ei hun, pe gallai; ac nad llawer rhy dda a fyddai yr hwn a wna y naill beth i wneyd peth gwaeth fyth i geisio ei brofi hefyd! Nid ydym ni yn ymyraeth dim a Chartiaeth, nac a dim pethau gwladwriaethol, neu boliticaidd, ond yr efengyl dragwyddol fel ei gwelir yn yr ysgrhythrau santaidd, yw ein cyffes a'n credo, a phaham na chawn lonydd bellach gan ein herlidwyr creulon? Etto, cyhoeddwn yn eofn, a heriwn arholiad teg, a deued ein cyhuddwr, ie bawb a'u gwrthbrofion yn mlaen,—

NID YW Y SAINT YN "CHARTISTS."

Yr oll sydd a wnelom ni a chyfreithiau, ac â sefydliadau ein llywodraeth ydyw talu ufudd dod cyflawn i bob un, a phob parch i'w gweinyddwr, fel y gorchymyna yr ysgrhythyr i ni a phawb arall wneyd, "Gan fod a'ch ymarweddiad yn onest yn mysg y cenedloedd (y sectariaid) fel lle y maent yn eich goganu megys drwg weithredwyr, (gan eich galw yn "*hen Chartists gwaedlyd*") oherwydd eich gweithredoedd da a welant, ogoneddu Duw yn nydd yr ymweliad. Ymddarostyngwch megys hyn i bob dynol ordinad, oherwydd yr Arglwydd, pa un bynag a'i i'r Breuin megys goruchaf, a'i i'r llywiawdwyr ganddo ef wedi en danfon, canys felly y mae ewyllys Duw fod i chwi trwy wneuthur daioni ostegu anwybodaeth dynion ffolion," megys Mr. Davies, o Dowlais. Ceisio cuddio ei warth ei hun, y mae efe wrth ddwyn y cyhuddiad hwn hefyd i'u herbyn, fel y gwelir wrth a ganlyna:—Ychydig ddyddiau yn ol am y tro cyntaf erioed yn y wlad, rhoddwyd cyhoeddiad y Chartists yn fy llaw, ar peth cyntaf braidd a dynodd fy sylw oedd gohebiaeth rhyw un cecrus iawn yn llanw amryw golofnau, yn milwrio a'i holl egni yn erbyn un o'r sefydliadau gwladol penaf o gwbl, sef yr eglwys; a'r syndod oedd gweled enw cyflawn ein cyhuddwr odditano yn awdwr iddo!! Braidd y credwn fy llygaid y fod dyn i'w gael a fu yn ohebydd gwresog i *Udgorn Chartiaeth*, mor ddigwilydd a chyhuddo y dieuog o fod yn "*Chartists gwaedlyd*;" ond pan gofiais mai "W. R. DAVIES, DOWLAI," oedd y gwr, diflanodd y syndod

yn y fan, canys ei *habit* ef yw hyny! Plaenach etto, darllenai tua'r diwedd eiriau fel hyn,—“ Llwyddiant i chwi (ebe Mr. Davies wrth y Chartiaid, sylwer!) a'ch cyhoeddiad (sef i gyhoeddi Chartiaeth!!) yw BYMYNIAD GALON (ein cyhuddwr!!!) eich ewyllysiwr da.

Dowlais, Merthyr.

W. R. DAVIES.

Ie ddarlleneydd, yr un W. R. Davies ac oedd yn gymmaint a hyna o *Chartist* o “galon” pryd yna, sydd yn ymrithio fel angel y goleuni, yn awr i gyhuddo ereill o fod yn *Chartists*, pan na wybuant rai o honynt fod y fath beth a Chartiaeth wedi cael bodoldeb, hyd nes yr oedd wedi marw a'i chladdu! Un o wyrthiau Davies ei hun yw hyn pan oedd yn *Chartist* o galon! Deuwch yn iulaen, Syr, a gwelwch pwy yw y “*Chartist*,” nid oedd gywilydd genych chwi ardystio eich llaw ar gyhoedd y hyd eich bod yn *ewyllysiwr da o galon* i Chartiaeth!! Os gwadwch hyn, profwn ef mewn du a gwyn: ydyw, y mae ar glawr genyf yn ofalus iawn hefyd, daw o ddefnydd etto ond odid. Os amheua rhyw un pa un a yw hyn yn bosibl, darlleded yn Rhif. 9, Cyf. 1, o *Ud-gorn Cymru*, ac yna dywedded wrth ein cyhuddwr, “*Ti yw y gur.*” “*Y meddyg iacha dy hun,*” etto rhag cywilydd.

Etto, ebe efe, “gellid meddwl wrth ddarllen y llyfr melldithiol hwnw a elwir “*Seren y Saint*,” eu bod yn lluosog.” Mor hyfryd y swnia y pethau y teitlau hyn drwy capeli gwychion pan ateber yn un llais gan yr ysgolheigion! Ac O, fel y chwârda yntau yn ei lawes gan ymloni yn y fath ddial! Yn nesaf am y gwrthbrofion a ddug i brofi y llyfr hwnw yn felldithiol a chelwyddog, beth y'nt? O'r yr un prawf ac a ddug i bob haerriad arall, h.y., dim prawf yn y byd; nac esgus o brawf! Dim ond gwaeddi dau air bach o chwech llythyren! Dyma'r oll a gynnygia i brofi.cannoedd o'i gyd-ddynion yn gelwyddog, sef bloeddio, “*NAC YNT.*” Rhaid ei fod yn ddwlach na phlant yr ysgol os dysgwylia iddynt lyncu ei *ibse dixit* ef am wir yn ddibrawf, neu efallai yr ystyra ei hun yn rhyw fath o fod anffaeledig, fel nad ddysgwylir iddo ymddarostwng i geisio profi dim a ddywed er fod pob cyhuddiad mor hawn o wenwyn i gymmeriadau dynion gwell nac ef, ac yw gwefusau yr asp a'r wiber o wenwyn. Ac etto, pe na baem luosog, nid yw hyny yn un prawf i'n herbyn, h.y. yn ol rheol ddeongliadol Mr. Davies ei hun, yr hon a welir yn ngholofnau Chartiaeth fyth fel y canlyn:—“Sylwch, mai nid llu na gwladwriaeth sydd yn *cyfreithloni* unrhyw sefydliad, ond cyfiawnder a thuedd yr egwyddor er llesoli y deiliaid.” *Wel done!* Ac felly gwyr well na'n condemnio ni os nad ym yn lliosog ynte. Teg yw dwyn ei dafol ei hun i'w bwyso ynddi, onide? Etto, dywedai pan yn *Chartist* o galon, “Dim ond tri a gafwyd ar wastadedd Durah nad ymgyrmasant i'r grefydd wladol.” “Ni buasai y tri llanc, Elias ac ereill, ond gwawd, mae'n debyg, gan Sir R. Inglis a'i frawd Mr. Rhagfarn,” ebe efe. Felly nid yw y Saint ond gwawd gan y Sir W. R. Davies hwn, oherwydd iddo ef waeddi “*Nac y'nt*” ddim yn lliosog! Beth meddech am hyn, Syr? Onid ydych yn efelychu y rhai a gondemniech? Etto, terfyna y ddafl drwy *statistics* tég am ein lliosogiad ni a'n cyhuddwr. Bid siwr y boddlonwch ar yr hyn a ddywed eich *llythyr cymmanfa* eich hun, Syr! Wel, dywed hwnw yn tudal. 7, mai 87 yw yr ychwanegiad at eich Cymmanfa Morganwg chwi yn y flwyddyn ddi-

weddaf. Adefant hefyd, "Ychwanegiad y flwyddyn hon sydd wedi ei achosi yn *benaf* trwy symudiadau o siroedd ereill." Nid drwy fedydd. Cymharer hyn â llythyr Cymmanfa Morganwg y Saint, a gwelir eu bod wedi eu bedyddio yn y flwyddyn ddiweddar 295!! heb gyfrif y "symudiadau." Dyma yn agos bedair gwaith cymmaint o liosogiad a phlaid y gwr sy'n gwaeddi "*Nac y'nt.*" "Ac yn eu plith nid oes un dyn *cyfrifol*," ebe efe. Beth! dim un! Syr. Ofer dysgwyl denu digon o arian oddiarnynt i brynn llongau, a "byw yn segur" yn hir, gan nad oes "un *cyfrifol*" yn eu plith, canys cyfrifol ac arianog sydd gyfystyr genych chwi, debygwn! Onid yw y rhai o'ch hen aelodau ffyddlon chwi a ddaethant at y Saint yn "*gyfrifol*?" Beth yw cyfrifoldeb? A'i dringo i bwlpuadau i waeddi "Sataniaid," a hen *Chartists gwaedtyd*, &c. ar ei gymydogion, sy'n gwneyd dyn yn gyfrifol ynte? a'i drwy gyhoeddi pob camgyhuddiadau, a chwedlau celwyddog a drwg ar grefyddwyr yr ennillir cyfrifoldeb, yn ol eich *Dictionary* chwi? Os felly, chwychwi yw'r mwyaf cyfrifol a adwaenom, a mawr fydd eich cyfri'oldeb yn y dydd dda!

Druain o'r Seintiau! Dim un dyn na benyw cyfrifol o blith cynnifer o gannoedd o rai a fu yn aelodau parchus, yn ddiaconiaid selog, ac yn bregethwyr doniol gydag enwadau crefyddol ereill, anrai o honynt o ddeg ar hugain i ddeugain mlynedd—dim cymmaint ac "un cyfrifol!" Y maent wedi bedyddio tua chant yn Dowlais mewn ychydig fisoedd. Mr. Davies, a fuoch chwi yn eu chwilio oll am ddyn cyfrifol? Y mae yn agos i bump cant yn awr yn un ganghen o Saint yn Merthyr, Mr. Davies; a adwaenoch chwi bob un o honynt? Os felly, paham y dywedwch "*Nac y'nt*" ddim yn lliosogi? Os nad adwaenoch *bob un*; ie, yn mhob man lle y dyry "*Seren y Saint*" eu hanes, pa fodd y sicrhewch nad oes un *cyfrifol* yn eu plith yn rhyw fan o Gymru? Druan o Davies, mae wedi gwallgosi yr y'm yn ofni, o'r hyn lleiaf "mae ei lesferydd yn ei gyhuddo." Mae genym ei eiriau ei hun i ddod i'w wyneb etto yn bert iawn. "Pan bydd Sianco yn dywedyd celwydd, mae efe yn wastad yn ei ddweyd mor oleu fel y gwyr pawb mai celwydd yw;" gan fod *cop* hen wreigen Sir Aberteifi yn y fashiwn ac yn eich ffitio mor bert; gwisgwch ef Mr. Davies; a diolch i chwi am ddweyd eich celwyddau ar y Saint mor oleu fel y gwela pawb yn eglur mai celwyddau ynt.

Gofynwn, yn enw cyfiawnder, beth sydd i wneyd a dyn fel hwn? Yr ydym wedi treio pob ffordd a allwn ddyfeisio drwy resymau ac ysgrythryau, i amddiffyn ein crefydd rhag y gwarth a geisia ddwyn arni: yr ydym wedi ei fflangellu ef a'i ffreyllau ei hun mor dost ac mor aml nes y meddylw ei fod mor *galous* a dideimlad, ei wyneb mor ddigywilyddio, a'i gydwybod mor seriedig, fel mai ofer ceisio argraffu dim arno, na cheisio ei adferyd mwyach; ni chymmer ei argyhoeddi gan ffeithiau na rhesymau. Etto ni phaid a chwythu allan ei fygythion a'i gelaneddau yn erbyn y dieuog. Nid oes lonydd i'n cymmeriadau i addoli Duw! Beth ychwaneg a allwn, neu a ddysgwylir i ni wneyd erddo? Beïd ni gynt am nad amddiffynem i'w erbyn; ac wedi amddiffyn, gwrthyd ei frodyr ef en darllen, ond ymfrostio iddynt fwy nac unwaith dafu yr amddiffyniad i'r tân cyn ei ddarllen; nid anfynech y gwneir hyn! Do, gweddiasom lawer drosto ef, hyd nes i ni gael ffeithiau digonol i brofi mai yn wybodus ac yn gyndynus y cyhoeddais y camgyhuddiadau hyl!

arnom o elyniaeth at y gwirionedd! Weithian mae ein dwylaw yn lân oddiwrtho ef a'r canlyniadau o'i erlidigaeth. Mae ein cydwybodau yn dawel i'w gyflwyno o hyn allan i sylw neillduol, ac i'r breichiau tragwyddol yr ymladda i'w herbryn; amlwg ei fod wedi gweithio ei hun i'r fath amryfusedd cadarn, fel y gwell ganddo, i.e., y myna gredu celwydd a gwrthod y gwir, wedi cael cynnyg teg o'r ddau. Onid yw efe yn rhwystro pawb a allo, yn mhob dull a feiddia i chwilio i, ac i ddod o hyd i'r gwir: diau fod llawer ychwaneg o rai gonest eu calon, ac o garwyr y gwir, wedi eu dallu ganddo ef fel na feiddiant ymchwilio: y Duw trugarog a dosturio wrth y cyfryw, meddwn, a'n holl galon; ac a ddryllio y *cast iron creeds* sy'n eu llethu. Ond am dano ef rhaid ei fod, neu o leiaf cafodd ddigon o fanteision i wybod gwell; yna boddlon y'm ni bellach er mwyn y rhai a betrusant rhwng dan feddwl, a dylai ein cyhuddwr neidio yn gyntaf i'r gloriant. Beth meddwch chwi, Syr? a'i parod y'ch i'r hwn sy'n gallu barnu yn gywir derfynu y ddaol rhyngom, fel y deallo pawb pa un o honom sy'n gwasanaethu Duw y nefoedd? Gwaeddasoch lawer am "*wyrth*," *gwyrth*, ac arwydd o gwr bwy gilydd, wel yu awr, Syr, cydweddiwn â chwi ar i'r hwn sy'n meddu gallu gwyrthiol eich plesio gymmaint a rhoi i chwi arwydd, fel ar amser yr ewyllysio ei hun, er hyny, cofiwch. Gresyn na chaffach rywarwydd bach bellach!

Mae genym well defnydd i wneyd o'n hamser gwerthfawr nâ sylwi ar gecraeth gwyr ceerus fel hyn pe caffem lonydd ganddynt; etto, cam a'n erefydd a'n cydgenedl ac a phawb fyddai dioddef yn ddiainddiffyn fel llofruddion, neu ladron. Amser byr a derfyna y ddaol, pa un a wyddom yr hyn a ymwnawn ac ef, a'i ar antur fel ein cyhuddwyr y crefyddwn.

Y "CASAWR TWYLL" YN PROFI EI HUN YN AUBROPHWYD ETTO!!

MAE y cyhuddwr dienw hwn wedi llanw amryw golofnau o'r *Dinogywr*, am Gorphenaf, a'i gangyhuddiadau ffol ar y Saint: ac o'r ddau y mae yn ddwlach nac yn y rhifyn Mai, yr hyn yn ngolwg pob dyn rhesymol, debygid, a brofwyd yn y *Prophwyd* am Mai a Mehefin, islaw synwyr cyffredin. Addefa fod ei groen yn smartio yn lled arw dan y driniaeth a gafodd, yr hyn a arwydda nad yw efe wedi myned yn hollol ddi-deimlad; *gerw* yw y gwir yn ngwyneb ambell ddyn, a phwy a gwyna iddo! Yn lle addef ei gangyhuddiadau wedi cael roffon o honynt, a'u galw yn ol, fel y gwnaethai pob "*casawr twyll*," â efe yn y blaen yn benstiff i hentyru cruglwyth o haeriadau disail a dwl etto; heb brofi fod y Saint yn teilyngu yr un nodwedd o'r cyfan a ddywed. Cwyna yn ddolefus iawn ei fod wedi cael ei gyhoeddi yn "*dwyllthor, yn ddeist, ac anffyddiwr, &c.*, hyd nes y mae yn amlwg i weled (ebe efe) mai trwy Belsebub y maent yn bwrw allan *gythraul, os gwanant*, a thrwy hyny yn dangos mor ychydig o egwyddor Saint sydd yn cael ei ddangos." Codwn y rhan olaf o'r frawddeg anghymmalog hon i'r gwynt, a daliwn hi o flaen llygaid ein darllenwyr yn enghraifft o dwyll-resymeg, y ffolaf a ellid gael o enau baban. Pa fodd y mae eich cyhoeddi chwi yn "*dwyllthor*," &c., yn profi mai trwy Belsebub y bwria y Saint allan gythraul, Syr! Beth a feddyliwch? Paham rhoi yr os yna i mewn a chwi wedi cloi yr haeriad i fynd eisoes? Dyma ddwluni rhy wael i gael lle mewn

un cyhoeddiad parchus, debygasem. Am y rhan flaenaf o'i frawddeg yn ein cyhuddo ni o roddi yr enwau uchod arao, enghraifft o'i gamgyhuddiadau blaenorol yw, ac yn profi mai dyma ei arfau goreu y tro hwn etto i ymladd i'n herbyn. Heriwn ef i ddwyn yn ni laen y frawddeg, y tudalen, a'r geiriau a brofant ein bod ni yn ei lysenwi ef. O na, ei waith ef yw hyny. Nid rhoddi yr enwau hyny arno a wnaethom ni, ond dangos ei fod ef yn ei brofi ei hun yn gyfryw, dwyn ei ysgrif i'w wyneb a wnaethom, a thrwy resymeg deg profasom mai "ti yw y gwr" sy'n euog o'r cymmeriadau hyny. "Dy enau dy hun sydd yn dy fwrw yn euog, ac nid myfi; a'th eiriau dy hun sy'n tystiolaethu yn dy erbyn." Pabam gwingo ynte? Dylasai efe beidio-rhoddi y gorden am ei wddf ei hun os nad oedd am ymgrogi. Na feied ni am ei rhoddi, canys yno y cawsom hi. Gweler mor lleied "o egwyddor Saint" (na geirwiredd) sydd ynddo yn hyn. Gwrando ddarllenydd ar enghraifft arall o ynfydrwydd ein herlidiwr, a synwn pa fodd y gallodd gael lle mewn cyhoeddy yn y byd! Ond diolchwyf iddo (ebe efe, sef diolcha i ni am ei filangella "yn lleid arw" fel y dywed), fy unig ddymuniad oedd ei gael i'm gwrthwynebu, ac felly druan wele di nid yn unig wedi cael dy ddymunniad fel y cafodd pawb ereill a wrthwynebant ein crefydd anwyl a chelwyddau, ond wele di yn dy grogi dy hun etto a'th eiriau fel hyn;— Yn dy ymosodiad cyntaf haeraist nad o genfigen at y Saint, nac o un dyben drwg, ond mai dy unig ddymuniad oedd gwaredu dy gydgenedl anwyl: yna dy unig ddymuniad nesaf oedd "cariad at y gwirionedd," pan y profwyd mar'th unig ddymuniad oedd dweyd tua dwsin o anwireddau ar dy gymydogion, a'th unig ddymuniad yn awr yw ychwanegu drygioni at dwyll, ac ymdrechu dweyd celwyddau digon erchyll i gyffroi teimladau dynion, a'u dwyn allan i'th wrthwynebu!! Wel, dyna fel y gwna *blaggards* pan y byddant wedi meddwi ac eisieu tynu ffrae, a dwyn ereill allan i'w gwrthwynebu, sef fel tithau, cynllunio y cyhuddiadau a'n cyffroa fwyaf. Dyma addefiad *bwli* yw hyn, druan o honot, gan mai dyma yw dy "unig ddymuniad," beth a ennilli? Dim ond cywilydd a chosp. Pabam y rhaid cyhoeddi yr holl anwireddau hyn am ein crefydd er ein cael i'ch gwrthwynebu, Syr? Addefwch yma hefyd, mai un o'r cyndyn ddadleuwyr llygredig eu meddwl hyny y sonia Paul am danynt ydych, heb fod y gwirionedd ganddynt, ac annoga ni i gilio oddiwrth y cyfryw, ac addefwn pe meddyliasem na buasai gan y "casawr twyll" hyn well rheswm nac egwyddor na'r hyn a ymddangosodd hyd yn hyn, gadawsem ef i ymladd a'i fwganod gwneyd ei hun. Dyben anqheilwng iawn o'r fath orchestwaith, onide? Pabam na chydiasech mewn rhyw egwyddor a ysgrifenasom arni, druan, a ninnau yn cyhoeddi cymmaint o egwyddorion mior barhaus, ac mor groes i'ch traddodiadau, a gadael cymmeriadau dynion yn llonydd? Dyna fuasai y ffordd bertia o lawer i ddyn mor sêlog â chwi i ddynoethi twyll, yn lle gwaeddi *twyll, twyll, twyllwyr* o hyd nerth eich pen, a bygwth ei ddangos, a dim ond bygwth, ac yna ymollwng i nwydau i gangyhuddo, a byth brofi un haerriad yn wir, yr ydych yn efelychu y bugail ffol hwnw oedd yn gwaeddi "bleiddiaid, bleiddiaid" er dychryn y bobl, pan nad oedd bleiddiaid yn agos, ac yna chwarddai yn ei lawes, ond daeth dydd tâl iddo ef cyn hir, fel y daw i chwithau onid edifarhewch am eich rhagrith a'ch drygioni. Pwy ydych chwi,

Druan bach, a waeddweh "*twyll' yw Mormoniaeth*," ac a ddysgwylwch i bawb gredu eich ffregod heb un prawf, ac yna beiwch arnynt os na chanlynant eich cwt chwi i waeddi fel chwithau; nid yw dynion rhesymol ond eich barnu yn ol y dirmyg a roddwch arnoch eich hun; oni all pawb creill farnu ein crefydd pan ei clywant druan, cystal ag y gallech chwithau? Mae eich dwl ni yn dresi yn ffroenau darllenwyr y *Dwygiwr* yn ol a glyw'n ni. Clywch y bygwthiwr tost etto; "Caiff ef [sef y ni bach?] a'i grefydd eu dangos yn eu lliw priodol cyn pen hir." Hawyr bach! beth a ddaw o honom y pryd hyny! bydd yn ddiwedd byd neu waeth arnom, dehyga; tebyg mai gwell i ni *settle* ein *accounts* a gwneyd ein hun yn barod i *exit*, gan fod y Goliamawr hwn yn gwisgo ei arfau, ac yn rhoi o'i flaen fel hyn!! "cyn pen hir," aie, Syr? diu ond amser byr i ni na'n crefydd i fyw, debygid. Druan o honor, coffawch ni am yr hen air, "*barking dogs seldom bite*." Yr ydych wedi hir fygwth i gyhoeddi ein twyll; ac yn udganu o hyd eich bod am ddatguddio rhyweth echrystlon iawn. Ac hyd yn hyn yr ydych wedi ein siomi yn gwbl. Ie, wedi cael benthg y *Dwygiwr* faint a fynech; gwnaeth ef ei ran i chwi gyflawni eich addewid, a diau fod aml un wedi bod yn dysgwyl i chwi amlygu rhyw beth drwg bellach yn erbyn y bobl a fygythiwch mor llym, ac a erlidiwch mor greulon, ond hyd yma dim un prawf o un twyll na chyfeiliornad y Saint, na ddo ddim un! Ac ni all ychwaith, onide gwelir y buasai yn felys ganddo wneyd hyny. *Poor fellow*, chwydchi eisiau ein cael i'ch gwrthwynebu, aie, i ddim ond i fygwth ac i'n camgyhuddo. Nid rhyfedd i chwi wrthod amlygu eich enw fel y gwna pob twyllwr neu enllibwr. O ddyn drwg, yn ymguddio yn ei dwll du fel y cadno, gan rincian ei ddannedd oddiyno ar y rhai a elant heibio; a'i tegwch hyn? Rhowch eich enw i'r byd, fel y deallant pwy a deilynga y fflangell, a phwy yw ein cyhuddwyr. Nid oes arnom ni byth gywilydd arddel ein henw yn gyhoeddus dan yr hyn a gyhoeddwn o blaid y gwir, fel y cwilyddiwch chwi arddel eich anwiredd dwl!. Haerasoch yn y rhifyn blaenorol eich bod wedi bod gyda y Saint, yr hyn a amheud yn fawr, os nad y Thomas Jones hwnw a fu mewn un cwrdd yn unig ydych, ac a ymunodd a phlaid arall er mwyn cael cyflog uwch gan ei feistr. Os nad hwnw ydych, yr ydych wedi eich dal yn anwireddus yn eich haeriad cyntaf eich bod wedi bod gyda'r Saint. Os hwnw ydych, yr ydych wedi eich dal yn anwireddus o flaen tystion yn gwadu yr enw, ac y mae y llythyr drachefn a ysgrifenydd at bobl yn y Coedduon, ar glawr, a'ch condemnia yn anwireddus ffordd hynag, neu pwy hynag ydych. Ac mae eich geirwiredd wedi ei fforffetio yn llwyr; a'i i'r dyben o wneyd hyn y cuddiasoch eich enw, Syr? O gywilydd i'r dyn a gamgyhudda ei gymydogion oherwydd eu crefydd, ac a'u gwna dan fantell y ddinas, a'i enw yn nghudd! Enghraifft arall o ddwlni ein herlidiwr, yw y "*ddiareb*" a ddyfyna, sef, "Pan wna lladron gwympto allan a'u gilydd, caiff gwr gonest hanes ei ddâ." Awgrym-wch mai lleidr da ydych chwi, ie, addefwch hyny wrth addef eich hun yn un o'r pleidiau sy'n "*ewyno allan!*" Am danom ni gwadwn addasrwydd y gymariaeth yn hollol i ni, ac nid y ni ond y chwi sy'n eich cyhuddo eich hun o ladrata dâ dyn gonest, pa le y maent? Go-beithio y dywedwch i'w perchenog, fel y castio hwynt! A'i dyma'r fath

ddyn sy'n gwaeddi twyll am grefydd ei gymydogion! Ac wedi dweyd gyneu mai ei UNIG ddymuniad yn ei holl ymosodiadau ar y Saint oedd ein cael i'w wrthwynebu. Yna ar ol y cwbl a brofasom mai carwr a chyhoeddwr twyll yw efe; wedi dangos ddarod iddo brofi ei hun yn *ddeist*, yn au-brophwyd, ac yn euog o tua deusin o anwireddau gwybodus, ac wedi i ni wneyd hyn oll yn deg ac annatbadwy iddo ef, yn lle addef ei feiau, fel y gwnaethai dyn gonest, yn awr rheda i'w dwll, gan waeddi, "Ond gan fod ei gecraeth [nage, rhesymau teg ac anwrthwynebol, ac ysgrythyrau na allwch syflyd un o honynt, Syr] islaw sylw [aie? islaw sylw ar ol i chwi gael eich unig ddymuniad, aie? hawdd i bob crwtyn ar hyd yr heolydd waeddi hyn pan na allo roddi ésgus arall] ni wnafl fino y darlennydd y tro hwn trwy wneuthur un nodiadau arnynt," ebe yr ymosodwr hwn, i'e, hyd y nod wedi cael ei "unig ddymuniad!" Ddiu gair i roi yn ol! Dim un rheswn yn ngweddill drosoch eich hun! Dim yn werth genych geisio golchi yr ystaeniadau brwnt a ddwbiasoch ar eich cymmeriad o'r blaen! na dim un ymdrech, tybied? Ow, mae hi yn dylawd iawn arno, druan, pan addefa nad all wneuthur yr un ymdrech bach yn erbyn yr holl fflangellu a fu arno, ac yntau yn addef ei fod yn ARW. Pa le y mae ei bartneriaid cu yn awr? helpiant ef i glirio ei gymmeriad rywfaint, druan, gan mai efe yw yr ymosodwr: yr ydym ni yn y maes, a'n gwisg ryfel am danom ar hyd yr amser yn am-ddiffyn rhag saethau yr holl gamgyhuddwyr, a'r enllibwyr, a'r gwrth-gilwyr, a'r bradwyr, y rhai a'n gwnant ni yn nôd i'w saethan brwyn, ac o hyd mae ein cawell yn llawn o saethau y gwirionedd, er i gawelli ein herlidwyr, o un i un, fyned yn wag; a'r gawell wagaf o'r cwbl, debyg-id, yw yr olaf hon, sydd heb gymmaint ag un saeth i daflu yn ol; etto, nid oes ynddo ddigon o ddynoliaeth i addef hyny, ond deil i haeru yn olaf yr hyn a ddywedodd gyntaf. "Islaw eich sylw," aiê? Tebyg i hyn yr oedd y corgi bach hwnw a gyfarthai at y lleuad nes iddo gracio ei lais, ac yn troes ymaith â'i gynffon fach yn siglo mewn ymfrost, gan awgrymu nad oedd y lleuad yn deilwng o'i sylw mwyach! Druan o hono! pa wahaniaeth pa un a gyfarthai hwnw na hwn ychwaneg, na phwy a geisiodd ganddynt, a pha les yw cyfarthiad yr olaf mwy na'r blaenaf? Y modd y ceisia y dyn hwn brofi y Saint yn dwyliwyr, ac yn au-brophwydi yw. trwy ddyfynu rhestr o ysgrythyrau o'r hen destament a'r newydd, a haeru yn hollol ddibrawf mai at y Saint y cyfeiriant, pan, mewn gwirionedd, y mae wedi lladrata y rhai hyny, ynghyd â'r sylwadau arnynt, bron gair yn ngair o'r traethawd bychan a elwir "*Gau-brophwydi*," yn yr hwn y profasom y Saint yn ngwyneb y cyfan yn hollol ddienuog; ac nid oes un o'r nodweddau a ddyry yr ysgrythyr yn ffrwythau gau-brophwydi, na gau athrawon, i'w cael yn mhlith y Saint wedi arhodiad teg; a chan i ni brofi ein cyhuddwr yn euog o honynt yn eglur, heb yn un ac un, ceisia yntau eu troi yn ol drwy eu haeru heb un prawf. Rhesymeg y Gwyddel yw hon,—“Dywedir fod lleidr yn y dref, a rhaid mai chwi yw hwnw,” ebe efe wrth y cyntaf a gwrrdai ar yr heol. Am y dyn duwiol a alwch chwi (ddifenwr) yn "*monster twyllodrus* hwnw, sef Joseph Smith,” ni wyddoch ddim am dano ond ystoriau celwyddog ei elynion, ac ni allwch chwi brofi i ni fod un o nodweddau *monster*, na dyn drwg, yn perthynu i'w gymmeriad, canys adwaenem ef yn well na hyny yn bersonol am flynyddau, ac

yna yr ydym yn dyst o'r hyn a wyddom am dano, yr hyn na allwch chwi fod; a thystiwn hefyd mai dyn da a duwiol ydoedd, serch i chwi a'ch cyffelyh, ddifenwyr cableddus, geisio ei gamgyhuddo fel y gwnewch â phawb duwiolach na chwi, braidd. Am y brophwydoliaeth a ddyfynwch o Jeremia, nid atom ni y cyfeiria, ond at ein cyhuddwr. Y prophwyd mawr, gofynwn i chwi, Pa bryd y gwelsoch 301 000 o ddynion rhesymol "*yn cyd-dystiolaethu celwydd, ac yn cyd-ymdrechu i dwyllo!*" O ddyn! ai chwychwi eich hun, ar eich haerriad disail yn unig, a feiddiwch gondemnio crefydd cynnifer, yn ngwyneb dros dri chan mil o wrth-dystion! Profwch eich ffolineb, cyn ceisio gan neb eich credu chwi yn hytrach na'r cyfan.

Pa bryd y cyflawnir eich prophwydoliaethau cyhuddiadol a ganlyn? "A phan ddelont yn ddigon lliosog, yna bydd eu ffrwythau yn profi." Aroschw nes i'r amser hynny ddod i ben, ynte, neu peidiwch a gwadu Ysbryd y brophwydoliaeth. Pa brophwyd fel chwychwi am brophwyd o drygioni ac enllib? "A phan ddel y *Shareholders of the Joint Stock Company* yn ddigon lliosog, yna fe geir gweled egwyddor Mormoniaeth," meddweh. O, y fath awydd a ddangoswch i dduo y grefydd hon! Dan ba ysbryd y prophwydasoch hyn, Syr? Dywed y gair mai "dyn drwg o drwsor drwg y galon a ddug allan bethau drwg," am er eill. Ceir, fe geir gweled egwyddorion daionus Mormoniaeth, pan y byddwch chwi a'i holl wawdwyr wedi myned i ebargofiant. Am y "*Joint Stock Company*," nid oes, ac ni fu, un cyssylltiad rhyngddi â Mormoniaeth; ac os na wyddech hyn, dylasech ei wybod cyn cyhoeddi eich dwl ni i'r byd. Cymdeithas farsiantiol oedd y gyntaf yn unig, yr hon oedd wedi ei sefydlu yn unol â chyfreithiau Prydain, ac wedi ei *registro yn y Chancery* yn rheolaidd, fel cymdeithasau cyfreithlon ereill; a phe buasai mewn cyssylltiad â'n crefydd, a'i tybied yr amddiffynasai y llywodraeth hi pan nad yw ein crefydd mewn cyssylltiad â'r llywodraeth? O na, dangos eich awydd i dduo ein crefydd yr ydych wrth hyn etto, ond yn methu. Y mae Mormoniaeth uwchlaw eich sawr afiach i'w dirmygu. Eich rhagrith digywilydd sydd yn peri i chwi gymmeryd arnoch dosturio cymmaint wrth y "Cymry anwyl," fel eu gelwch.

Cariad at y gwirionedd, ac at eich enaid anfarwol chwithau, a'n cymhella i dystio yn cofn eich bod drwy hyn yn "carlamu tua gwlad y gwae!" Ac am y gweddill o'ch rhagrith twyllodrus, tystiolaethed yn eich herbyn er eich cywilydd.

AT YR HWN A EILW EI HUN YN "YMDEITHYDD, NANT-Y-GLO, NEU WILLIAM WILLIAMS."

Syr,—Mewn traethawd bychan o'ch eiddo, cyhuddwch *Brophwyd y Jubili* o gynnwys ysgrif, yn yr hon yr oedd y "celwyddau mwyaf haerllug a digywilydd ag a allasai dyn yn hawdd eu dychymmygu." Ein parch i'r cyhoeddiad hwnw, yughyd â'n hawdydd mawr i bawb gael y gwr, a'n cymhella i alw am brofion o'r cyhuddiad trwm yna. Ystyriwn o'r ddau tu y teilyngwn y gymwynas hon genych, oherwydd ni ddymunem er dim fod neb yn gorwedd dan un math o gamgyhuddiad

drwy y *Prophwyd*, mwy nag y dyoddefwn i'r *Prophwyd* yn ddi-amddiffyn orwedd dan y fath gyhuddiad â hyna. Yn rhwydd yr addefwn ein bod ni, fel y mae pob golygydd ffaeledig arall, yn agored i gael ein camhysbysu; ac os cawsom ein twyllo yn yr hanes y cyfeiriwch ato, deisyfwn, demandwn, i.e. gorfoda dynoliaeth chwi, gan i chwi ddwyn y cyhuddiad yna, i ddwyn profion argyhoeddiadol a theg mai celwyddau haerllug yw yr hanes hwnw. Nid ystyria dyn rhesymol fod gwaeddi, "celwydd a ddwedi di," yn un prawf o'r peth mewn dadl. O na; nid oes dim llai na thystion, neu ffethiau, a foddlonia yr hwn sydd yn ymofyn am y gwir. Y cyhuddiad a ddygir yn rhifyn Mawrth o'r *Prophwyd* yw, ddarfod i "Bwyllgor Lodge 299, Cyfrinfa Ifor Hael, esgymuno crefyddwyr o'u plith oherwydd eu crefydd." Dyma y pwnc mewn dadl: ac yna safwch ato. Haerwch chwi mai celwydd haerllug yw, ac ond i chwi amfon profion o hyn, caiff eich amddiffyniad y lle mwyaf cyhoeddus yn ngholofnau y cyhoeddiad a'ch cyhuddodd; a pha beth a fynwch yn decael na hyn? Yn awr, safwn ar hyn nes y dygir eich camgyhuddwyr i'r gwarth a deilynga pob ymosodwr ar bersonau ereill; ond cofiwch o'r ochr arall, mai os na wnewch hyn wedi galwad a chynnygiad mor deg, ar eich pen chwi eich hunan yn ol y daw y gwarth. Ystyriwn hyn yn ffordd rwydd a chyfiawn i derfynu y ddadl fechan dan sylw. heb wastraffu nemawr o eiriau. Etto, addunedwn na chewch chwi, Syr, na neb arall, un camgyhuddiad byth drwy y *Prophwyd* tra y gallwn ni wrtho. Ond cofiwch hefyd ein bod, wrth agorwch colofnau y *Prophwyd* i chwi i amddiffyn, mai i amddiffyn y gwneir hyn, i.e. i amddiffyn mewn iaith ac ysbryd dynol a mwyn, gyda dybenion daionus, ac nid er dim i ymgecru, nac i arferyd brawddegau megys, "y gweilch hyn, pan yn chwydu eu cabledd ar draws eu gwell," a "meddianna y gweilch hyn enau i regu, ond heb ddannedd i gnoi," a "er gwaethaf gwawd. enllib, a difenwad llechgwn dirgelaidd." Pa les yw llysenwau fel yr uchod i brofi pwnc, nac i oleuo meddwl un dyn call? Wel. meddwn, da chwi gadewch y fath iaith lle ei harferir, sef yn y gyfeddach. Deallwch, a dealled ein holl ddarllenwyr, mai gwir a gewch chwi a hwythau drwy y *Prophwyd*, onide nid arnom ni y bydd y bai. Deallwch yn blaen hefyd nad rhwng y Saint a'r Iforiaid y mae y peth hyn mewn un dull, canys addefa yr ysgrif gyfeiriedig nad yr Iforiaid a feiid yn y geiriau canlynol, tudal. 49,—“Ond teilwng i'r lleill o'r gymdeithas haelionus a pharchus hon yw hysbysu yn gyhoeddus yr amgylchiadau, a'r personau a achosodd iddynt (sef i'r "gymdeithas barchus") y gwarth hwn (sef esgymuno eu haelodau am eu crefydd); a cheir gweled pwy o honynt (sef y lleill o'r Iforiaid) fydd mor ddyngarol a chyfiawn a chymmeryd eu hysgubell i lanhau yr ystaciadau hrwnt hyn oddiar eu coffadwriaeth.” Felly, Syr, amlwg yw mai peth personol, a pheth a ystyrid yn groes i reolau y gymdeithas Iforiaid, oedd hyn; ac yna ni allwch fod yn amddiffyaydd i'r Iforiaid, ond yn unig i'r personau hyny o'r Iforiaid a gyhuddir o esgymuno rhai personau ereill am eu crefydd. Yr unig awgrymiad sydd yn yr ysgrif at y gymdeithas yw y geiriau hyn, tud. 50, “Pa un a ydyw hyn (sef yr esgymundod cyfeiriedig, yn enghraifft o Iforiaeth Cymru, ynte o ormes y *clan* hwn o'i rheolau, a brofir drwy ffethiau yn ddiwneyd y trosedd, neu eu cydymffurfiad drwy eu goddefiad o hono.” Mae hyn yn ddi-

gon teg, ac yn aros yn safon sicr. Ac yna nis gellwch chwi fod ya aunddiffynydd Iforiaeth mor briodol ag y gall eich brodyr alltudiedig. Yr hyn a ddibyna arnoch chwi bellach yw profi na chynnaliwyd y fath bwyllgor ag y sonia eich cyhuddwyr, neu na esgymunwyd neb am eu crefydd, yr hyn os gwnewch, daw enwan eich cyhuddwyr i'r byd mor gyhoeddus a'ch enwau chwithau. Hyn a ddylasech wneyd yn eich traethawd, ac ni wnai mil o draethodau, os na fyddant yn cynnwys hyn, ond eich suddo yn ddyfnach yn y gors; a gellir gwneyd hyn (os gellir hefyd) heb ymollwng i nwydau drwg a gwarthus. Pam y difenwch ac y gwaradwyddwch y grefydd anwyl ag yr ymddibyna cannoedd o filoedd o fobl mor gall â chwithau arni am fywyd tragwyddol, o genfigen at ychydig hersonau a'ch cyhuddant o'r creulondeb uchod? Ai dynol hyn? Ai Cristionogol y dymber a eilw eich cydgenedi, y rhai a anwyd mor rydd ac annihyuol, a fagwyd mor driniaethus, ac a ystyrir mor gyfrifol â chwithau, yn "SMITHIAID," yn lle yr enw a broffesant? Onid oes ganddynt ogystal hawl i ddewis eu henw, ac i'w gael heb eu difenwi, ag sydd gan y Bedyddwyr, neu ryw enwad arall? Beth pe galwent chwi yn Waldoaid, neu Mennoaid, neu ryw lysenw o wawd, ai hoff fyddai hyny i'ch clustiau? Ystyriwch mai teimladau naturiol sydd gan ereill hefyd, ac mai i'w Duw y maent yn gyfrifol drostynt eu hunain. Am yr argraffwasg a gyhoeddodd yr ysgrif, gadewch hithau yn llonydd nes y profwch, neu y cynnygiwch gymmaint ag un prawf, nad gwir a argraffodd, a chlewch weled y bydd hi mor barod i gyhoeddi eich gwrthbrofion, neu eich amddiffyniad, ag oedd i gyhceddi y cyhuddiad. Ac hyd oni wnewch hyn, mae eich syndod fod eich brodyr alltudiedig yn grwgnach rhag eu triniaeth greulon, yn efelychu yr hen wreigen a ffonnodiai ei hachgen yn dost rhag ofn y gwneiai ddrwg, nes y llefai, ac yna hithau a'i ffonnodiai waeth-waeth am lefam! Felly chwithau, ebe eich brodyr, a'u triniasoch mor dost, ac a'u hamddifadasoch o'r arian a dalasant i'ch llogellau, ac yn awr chwi a'u difenwch ac a'u gwawdiwch am iddynt ddweyd eu cwyn wrth eu brodyr ereill! Onid oedd ganddynt hawl i gwyno pan nad oedd cyfraith i'w hamddiffyn? Pwy na wnaethai yr un modd? Ac os nad chwi yw yr euogion, hawdd i chwi brofi hyny, onid yw? Os nad allwch, profa eich amddiffyniad blaenorol i bob dyn llygadgraff mai amddiffyn eich hun a'ch partneriaid cyhuddedig yr ydych oherwydd esgymuno eich brodyr, ac nid amddiffyn un egwyddor ag a geir o fewn i Iforiaeth. Nid "llofruddio cymdeithas," fel y dywedwch chwi, a wna yr ysgrif ond cyhoeddi y *daggers*, a dangos yr archollion a ddyry llofruddion cymdeithas arni fel y gwna *Italian Assassin*, dan wadu hyny, a'i wrydroi yn erhyn y gymdeithas a amddiffynner rhagddo. Yn awr, Mr. Williams, gwelwch nad oes neb yn arferyd ffugenwau, nac yn cuddio enwau, drwy y *Prophwyd*. Gwyddoch enw yr hwn a'ch cyuhella yn serchus a thaer, naill ai i amddiffyn eich hun, neu ynte i orwedd o dan eich bai fel dyn. Y naill neu y llall weithian ni allwch baidio a gwneyd.

Atoch chwi, Iforiaid, y cyfeiriwn ofyniad yn serchus hefyd, sef. Ai gwir yw ddarfod i'r "Gwir Iforiaid Dewi Sant, Cyfrinfa Ifor Huel, Rhif. 299, ymgynulledig yn arwydd y Pren Ywen, plwyf Aberystwyth, anfon yr amddiffyniad [cyfeiriedig] caulynol, fel y byddo i'r

Cymru yn gyffredinol ymochelyd rhag LLECHGWN DIRGELAÏDD a llofruddion i hyder a chysur cymdeithas, sef *Saint y Dyddiau Diweddf*? A ydyw yn bosibl cael lodge o Iforiaid yn mhlith barbariaid, heb son am eu cael yn ngwlad y heiblau, ac yn Nghymru olen, ie, yn y Blaenau, a'r rhai hyny yn profesu crefydd, a feiddiant ddi-fenwi, ac ymddwyn mor anfoneddigaidd at blaid o grefyddwyr? Os gwir hyn, dyma brawf fod yr un egwyddor yu amddiffyn ag a fŷ yn esgymuno, ac ni raid chwythu llawer ar y wreichionen hon erei chael yn fflam angherddol! Os yr Iforiaid a anfonodd yr "amddiffyniad" cyfeiriedig allan, pa eisieu prawf sydd mwyach yr esgymunant eu haelodau am eu crefydd, canys amddiffyn hyn yw cyfaddef y weithred. Ond credwn yn well am Iforiaeth am yspaid etto, na'u hod hwy oll yn cyflogi y gwr uchod a'i draethodyn yn Goliath i'w hamddiffyn, onide gwael yw eu hachos yn ein golwg ni! Pe cyfiawn yr egwyddor, amddiffynasant yr alltudion, druain, yu lle amddiffyn y rhai a'u halltudiasant! Cynmeriad gwaeth fyth i Iforiaeth yw hyf. Etto, meddwn, gofyna hyny o adnabyddiaeth a feddwn ni o Iforiaeth am ychwaneg o brofion, cyn y credwn fod y gymdeithas yn gwybod am, nac yn cymmeradwyo yr amddiffyniad, ddiun mwy nag y gwnaent yr alludiaeth a soniwyd. Amser byr a brawf a adferir y dynion yn ol i'w hiawnderau. Dyna'r ffaith oreu. Neu ynte, a ganmolir y Goliath mwyaf, yr hwn a ddirmyga fwyaf ar y gymdeithas drwy amddiffyn ei gelynyon penaf.

CYMMANFA GARAWAY.

CYNNALIWYD y Gymmanfa uchod yn Orenp, dydd Sul, Gorph. 18fed. Llywyddwyd gan yr henuriad Henshaw. Cynnrychiolwyd naw o ganghenau mewn sefyllfa lled lwyddiannus yn bresennol, a'r swyddogion yn unfrydol a hysbysasant am lwyddiant yr efengyl. Nifer yr aelodau yw 130. Yn y prydawn a'r hwyr annerchwyd y dyrfa gan yr henuriaid Davies, Rymny, J. Morris, ynghyd â henuriaid dyeithriol ereill.

Yr oedd lluoedd o wrandawwyr wedi ymgasglu ynghyd, ac yn ymddangos yn awyddus am glywed yr efengyl, ac y mae gobcithion da am lwyddiant etto yn y cylchoedd hyn. Daeth rhai yn mlaen ar ddiwedd y Gymmanfa i ddymunio cael eu bedyddio. Cydunwvd i holl benderfyniadau y Gymmanfa yn unfrydol. Yshryd yr Arglwydd a'n harweinio ni oll ar hyd llwybrau tangnefedd, yw'n gweddi.

W. HENSHAW, Llywydd,
W. LEWIS, Ysgrifenydd.

HANESION.

AMERICA.

GWERSYLL OMAHA, Mai 30, 1847,—Cyrhaeddodd yr apostol O. Hyde yma ar y 12fed ym'iach, a chafodd ei deulu yn iach a chalouog. Hysbysa fod yr apostolion Pratt a

Taylor wedi cyrhaedd yno mewn pryd i gychwyn gyda'r llywydd Young, a chwmi o amryw gannoedd, i groesi y mynyddoedd creiglyd i chwilio am y man goreu i ymsefydlu, yr hyn beth a raid gael ei benderfynu cyn y cynghorir ymfudwyr i ddyfod yno o Frydain, oddieithr fod y llywodraeth yn cydsynied â'r ddeiseb flaenorol. Mae yn debyg y dilynir hwy gan ddau gwmi lliosog, neu dri, yn ystod yr haf hwn, dros y mynyddau. Mae degau o filoedd o erwau o yd yr India wedi ei blanu o'r ddau tu i afon Missouri. Mae y gwaith a wnaed yn yr anialwch, a'r enydau a roddwyd yn y tir, braidd yn anghredadwy. Dan fendith y nefoedd ni bydd ar neb o'r Saint eisieu bwyd pan dyfo eu cynauaf. Mae'r holl anialwch, o Nauvoo hyd y mynyddoedd creiglyd, yn fyw o Formoniaid, a lluoedd yn ymbarotol i'w dilyn o'r holl daleithiau. Mawr yw y cyffroad sydd yn y gorllewin.

LLOEGR.

MAE yn ddywenydd mawr genym hysbysu fod y llywydd Spencer yn gwella o dwymyn drom, a thrwy drugaredd Duw amcana lanw ei swydd bwysig yn fuan. Dangosa cyfrifon cynnadleddoedd y Saint yn Lloegr fod eu cynnydd yn fwy na mil bob chwarter bliwyddyn. Etto, gwaeddi mae eu gelynnion, "Maent yn darfod, darfod o hyd."

YR IWERDDON.

DEALLIE oddiwrth hanes Cymmanfa Belfast fod yr efengyl ar gynnydd graddc, newn amryw fanau o'r wlad hon.

SCOTLAND.

MAE rhai yn cael eu bedyddio yn nghynnadledd Glasgow yn feunyddiol braidd, ac y mae cynnydd cysson yn nghylchoedd Edinburgh, &c.

FFRAINC.

MAE amryw bregethwyr yn ychwanegol wedi myned i'r wlad hon yn ddiweddar, ac amryw wedi ufyddhau i'r efengyl, ac arwyddion gobeithiol.

CYMRU.

MERTHYR.—Mae yr eglwys hon ar gynnydd cysson, heb nemawr wythnos a'r nad oes rhai yn dyfod i mewn, hyd nes ydyw rhifedi yr aelodau yma yn awr dros bum cant o Saint ffyddlon, yn undeb y ffydd a chwlm tangnefedd. Mae rhyw ddyrnach truan yn cynhyrfu Georgetown yn gysson ar nos Suliau er's amryw fisoedd, gan ddwyn torf gydag ef o'r un tueddia! ag ef ei hun, i'r dyben proffesedig o ddirmygu y Saint, a mawr mor selog y maent! Druain, o'u hanfodd cynnyrchant ugeiniau o hobl i glywed yr efengyl am bob un a ddeuai yno o'r blaen. Yn mhlith yr erlidwyr canfyddir proffeswyr a honant fod yn lled enwog gyda'r sectau, yn rbedeg oddiwrth fwrdd y cymmun, ac yn ysgrnygu eu dannedd waethaf yn ngwyneb pregethwyr! Dull boneddigeiddiaf eu Goliath yw neidio ar gadair yn ymyl pregethwr y Saint, a pharhau i waeddi yn ei wyneb nerth ei ben, "You are a liar, you are a liar," &c., yn gysson. Pan symuda y Saint i fan arall, symuda yntau ar eu hol, gan wneyd yn gyfelyb yno. Ac ni chywilyddia gyhoeddi ei fod yn benderfynol i'w dilyn a'u herlid hyd y gallo, ânt ple yr elont. Rhyfedd fawredd amynedd Duw yn goddef y fath beth cyhyd. Hysbysir i ni yn gredadwy fod crefyddwyr yn ei gyflogi ag arian i wneyd hyn! Gan i ni glywed fod y gwr hwn wedi haeru yn gyhoeddus droion ei fod wedi bod yn ymddyddan â ni, ein cael yn gelwyddog, a rhyw lawer o haeriadau, hysbyswn i'n darllenwyr mai anwireddau disail yw pob sill, nad oes genym goffadwriaeth ddarfod i'n llygaid welod y dyn erioed, ac nad adwaenom ef o holl hobl y byd; ac nid ydym yn chwennychu gweled y

fath gecryn gwrthnysig. Ni theilyngodd gymmaint â hyn o'n sylw o'r blaen, a ffridd! fyddai genym ymddarostwng oddiwrth ein galwedigaeth bwysig i ffræo gyda dyn, na dynion, mor ddiegwyddor a rhydd. Gofala ein Duw am y cyfryw pan y byddont wedi gwneyd yr holl ddaioni a allant i'w waith, drwy alw sylw y rhai gonest at yr efengyl drwy eu herliôigaeth. "Myfi a dalaf, medd yr Arglwydd."

DOWLAIS.—Mae y pregethwyr yn y dref hon yn deffroi o ddirif yn awr yn erbyn y Saint, oherwydd fod pob rhai o honnt braidd yn colli cynnifer o'u haelodau. Hen gastiau y rhai hyn (gyda rhai eithriadau parchus) oedd pregethu yn erbyn y Saint, a chyhoeddi pob ystorïau gwarthus a thsail am danynt, ond y mae ganddynt ffordd newydd yn awr, gan nad oedd eu herlid blaenorol ond yn dwyn dynion i wrando y Saint drostynt eu hunain, a'r canlyniad oedd, os gonest eu calon, y credent y gwir, ac yr ymument â'r Saint. Yn awr, bygythir yn llym bob un a clo i wrando ar y Saint yn pregethu! A mawr yr esgymuno sydd ar ol y delo rhai o'u plith at y Saint, gan eu gwneyd yn esiamplau i ddyehrynu y llëill. Ond nid oedd hyny yn tyclo, canys dyfod yr oedd y bobl at y Saint yn gysson; a'r ddyfais newydd sydd ar droed yn awr yw, dewis rhyw nifer etholedig o'r cecrwyr mwyaf haerllug o'r gwahanol ysgolion a chapeli, a'u danfon ar ol pregethwyr y Saint i'w gwrthwynebu lle y byddont yn pregethu, yn go debyg i fel y gwnai y Spaeniaid unfon en gwaedgwn ar ol broderion yr America gynt, a mawr y cyfarth a'r dwndwr a achosant rhag i'r gwrandawwyr glywed yr efengyl. Ond boed iddynt fyned yn blaen ddaion, canys mae eu hynfydrwydd yn dod yn amlwg i bawb, ac y maent yn achosi i lu oedd ddyfod i wrando, ac i lawer i greu. Fr gwaethaf "tad y celwydd," a'i holl ddyfeisiau, llwyddo mae y gwirionedd hyd nes y mae yn mhell dros gant wedi cael eu bedyddio gan y Saint yn Dowla's mewn ychydig o fis oedd; a'r rhai hyny yn rhai o blith yr holl sectau ereill braidd, a pha rai ni chymmerent y byd am droi yn ol at y "eibau gweigion" a adawsant. Yr Arglwydd grasol o'i ddaioni a rwygo y gorchudd oddiar lygaid lluoedd etto yno, fel y gwelont y goleuni dwyfol hwn.

CWMBYCHAN.—Mae y sectariaid yn gweithio yn fwy cyfrwys drwy y gweithiau yma nag yn rhai manau. Yma brathu y sawdl yw eu game er troi y Saint o'u gwaith. Etto mae yma wrandawwyr astud a boneddigaidd yn chwilio am y gwirionedd, ac yn ei goffeidio er pob gwag a dirmyg hefyd. Hysbysir ni er's amser yn ol fod 11 wedi eu bedyddio yno er y Gymmanfa ddiweddaf (sef er's llai na mis), a bod amryw ereill wedi addaw ufyddhau yn fuan. Ac aeth amryw bregethwyr yno, ac o'r cylchoedd, yn ychwanegol yn ddiweddar.

LLWYNI.—Mae yma gyffroad o'r newydd wedi cael ei chwythu i fyny drwy erlidigaethau a bygythion, er hyny mae y Saint yn ffyddlon a phenderfynol, a llawer wedi cael eu bedyddio yn ddiweddar. Clywsom fod gau-grefyddwyr wedi llwyddo i gael gan rhyw foneddwr gerllaw i droi y Saint o'r gwaith oherwydd eu crefydd; ond go-beithiwn, er mwyn dynoliaeth, rhyddid, Cristionogaeth, a rheswm, nad oes i'w gael o fewn i ororan Cymru oleu—Cymru efengylaidd, ddyn mor greulon â hyny.

LLANELLI.—Dywed Golygydd y *Diwygiwr* mai rhyw bethau bach distadl yw y Saint yn ei dref ef, ac nad oes eisieu ond iddo beidio cymmeryd arno eu clywed er eu lladd. Dyna brophwydoliaeth ag sydd yn profi ei hawdwr yn au-brophwyd! Cofier hi! Ond y mae y Saint, er y cwbl, wedi achosi i ymchwiliad a chyffroad mawr gymmeryd lle yn Llanelli, ie, hyd y nod yn ei gapel ef ei hun, nad all ef byth ei ddi-ffoddi, er ceisio ei fogu am enyd. Bedyddiodd y Saint 12 yno yn y mis diweddaf i ddechreu. Go dda, onide, Mr. Rees?

PONT-Y-BEHEM.—Mae yr henuriaid H. Williams, Edward Thomas, ac Ephraim Rowland, yn llafurus iawn yn y cylchoedd hyn, a llawer o alw am bregethu. Clywsom iddynt fedyddio dwy yn ddiweddar. Llwyddiant iddynt.

SIR BENFRO.—Erlidigaethau pregethwyr gwrthwynebus sydd yn dwyn lloedd o wrandawwyr yma hefyd, a hysbysir ni gan y brawd Mitchell, ac ereill, fod amryw wedi cael eu bedyddio er y Gymmanfa.

SIR ABERTEIFI.—Mae yr henuriad W. Evans, o Rymni, a'r offeiriaid James Edwards, a J. Price, yn llafurus drwy y Sir hon er's tro, ac yn cael gwrandawriad ddragorol.

MACHYNLLETH.—Cawsom lythyr oddiwrth yr henuriad A. Evans oddiyno yn ddiweddar. Mae y Saint ar gynnydd iweun undeb a chariad, ac fel yn holl gynnulleidfaoedd y Saint, mawr yw doniau a bendithion Duw yn eu plith.

SIR FFLINT.—Mae yr hen John Jones, a J. Parry, o Birkenhead, yn bresennol yn cynnorthwyo y pregethwyr blaenorol yn y Sir hon, ac y mae amryw wedi cael eu bedyddio. Cwynant hwythau fod teulu Demetrius yn cyffroi i'w herbyn tua'r gogledd, draw, a'u bod yn ymarfogi â'r chwedlau disail a ddyfeisiodd ei Sanhedrim ef yn y deheudir yma. Yma gwirir yr hen ddiareb a ddywed, "Ges d celwydd y dalaeth ar dân tra bo y gwir yn goleu ei fatchen;" etto y gwir a ddeill ei brofi, ac mewn amser a orchfyga y noddiau celwydd.

SIR DDINBYCH.—Mae amryw swyddogion llafurus yn pregethu yr efengyl dragwyddol yn llwyddiannus iawn yn y parth hwn heyd, a llawer o'r bobl yn ymchwino i mewn iddi.

SIR GAERNARFON.—Mae yr henuriad E. Edwards, a'r offeiriad Lewis Jones yn ddiwyd iawn ar hyd y Sir hon. Cawsom amryw lythyrâu oddiwrthynt yn ddiweddar, yn arwyddo sel a phenderfyniad didroi yn ol. Cafodd y cyntaf wrthwynebiadau cyn dyn tua Bethesda, &c. Arfau goreu ei elynion oedd ystorïau anwireddus y newyddiaduron yn erbyn cymmeriadau Joseph Smith, a blaenoriaid ereill yr eglwys. Diolchwn i Dduw am athrawiaeth na allant syfyd un egwyddor o honi. Diolchwn hefyd am y sicrwydd a feddwn mai celwyddau disail yw y cyhuddiadau a ddygir yn erbyn yr offerynau a'i sefydlodd. Dywed nad yw efe na Lewis Jones wedi dyoddef eisieu dim anghenrheidiol; a dynauna y ddau i ni hysbysu na feddyliodd Lewis Jones am ddyfod yn ol, fel y meddyliodd gelynuon y gwirionedd, ond ei fod yn pregethu yn hyf a diwyd yn mhob man drwy'r cylchoedd hyn; ac i arferyd ei eiriau ef ei hun mewn llythyr yn ddiweddar o Fangor, dywed, "Yr ydwyf wrth fodd fy nghalon, ac yn penderfynu myned yn mlaen gyda'r gwaith dwyfol hwn, dywedant hwy a fynont am danaf; yr ydwyf wedi cael fy siomi ynddynt; ac yr ydwyf yn anfon fy nghariad goreu at yr holl Saint." Ai tybied na chywilyddia y rhai a achosodd y fath erlidigaeth ar y gwas ffyddlon hwn i Dduw, pan y profa amser eu celwyddau yn eu gwynebau!

SIR FON.—Mae yr henuriad Robert Evans yn pregethu ei oreu, a dywed ddarod i ryw ddyhirod anfon deiseb ato mewn un man yn enw "*Meibion Mon*" i ymadael o'r Sir, onide fod ei fywyd mewn perygl! Atehodd yntau, mai hoddlon oedd, os felly y mynent, ond cofiant y gofynid ei waed gan y "*Meibion Mon*" hyn yn dragwydd. Ac etto pregethu a wna yn wrol.

AT EIN DOSBARTHWR.

MAE y rhan gyntaf o'r "EURGRAWN YSGRIFYTHYROL" allan o'r wasg, pris swllt, a gellir ei gael gyda'r *Prophwyd*. Cynnwysa y gwaith tua phedair neu bump o ranau chwecheiniog yr un, yn ychwaneg. Taer erfyniwn arnoch, gyfeillion anwyl, i barhau eich diwydrwydd blaenorol tuag at ledaenu ein cyhoeddiadau, yn enwedig yr *Eurgrawn*, ac i anfon yr arian yn ol mor gynted ag y bo modd. Ni raid ond cael gweled y rhan gyntaf er cael gweled yr anghen mawr sydd am y fath lyfr yn hyfforddwr i'r Saint; ac yn enwedig fel y gallo y pregethwyr gael deall yr hyn a gredwn am yr holl bynciau a gynnwysa, a chael meddyliau yr ysgrifenyddysbryd, oledig wedi eu crynhoi yn barod at eu gwasanaeth, fel y gallont eu hamddiffyn rhag ymosodiadau eu gwrthwynebwyr. Goleua yr *Eurgrawn* ein cydgenedl hefyd am ein hathrawiaethau, pa rai a wrthwynebant yn eu hanwybodaeth, canys credwn mai yn gyfesur i gyhoedduswydd ein crefydd yr ennilla garwyr y gwir i'w chofleidio. Ein dyledswydd a'n braint ni yw ei chyhoeddi; a pha fwyaf a wnawn o hyn, mwyaf y llesolwn ein cyd-ddynion, ac ein gwobrwyir gan yr hwn a bia y gwaith dwyfol a ymddiriedwyd i ni. Yn awr yw yr anser i weithio, eyn y delo y dyddiau blin!

* * * *Erfyniwn ar ein holl ddosbarthwyr i ymbarotoi i settlo eu holl gyfrifon erbyn diwedd y flwyddyn, ac os bydd rhai llyfrau neu Brophwydi ar law na ellir werthu, i'w dychwelyd yn ol y pryd hyny.*

* * * *Mae genym amryw o "Hanes y Saint," pris swllt, ar law, a go-beithiwn na fydd un o'r Saint heb feddu un o honynt.*

* * * *Mae genym hefyd yr amrywineth o yn agos i ugain o fathau o draethodau o wahanol brisiau, o ddimai hyd dri swllt, pa rai a gyhoeddassom yn Gymraeg yn ddiweddar, ac a ellir eu cael os prysurwch.*

* * * *Hefyd, amrywiaeth o lyfrau Saesonaeg, megys "Llyfr Mormon," a'r "Voice of Warning," "Millennial Star," yn ddwy wythnosol, 3c.*

C Y N N W Y S I A D.

Meibion Duw.....	133	At yr hwn a elwir yn Ymdeithydd, Nant-y-glo	142
Y Parch. W. R. Davies, o Ddowlais, a'i erlidigaeth greulon a chywil-yddus etto, etto.....	134	Cymmanfa Garaway	144
Casawr Twyll yn ei brofi ei hun yn Au-brophwyd etto	137	Hanesion—America—Lloegr—yr Iwerddon—Scotland—Ffrainc—Cymru	145
		At ein Dosbarthwyr.....	148

MERTHYR-TYDFIL :

CYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH HEFYD GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL.

PROPHWYD Y JUBILI.

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 16.]

HYDREF.

PRIS 2g.

APOSTOLION.

I BROFI fod ychwaneg na deuddeg yn eglwys Iesu Grist yn yr oes gyntaf o Gristionogrwydd, cynnygiwn yr hyn a ganlyn:—

Luc ix, 1,—“Ac efe a alwodd ynghyd ei ddeuddeg dysgybl, ac a roddes iddynt feddiant ac awdurdod ar yr holl gythreuliaid, ac iachâu clefydau.” Yma y gwelir hwy y deuddeg dysgybl. Luc ix, 10,—“A'r apostolion, wedi dychwelyd, a fynegasant iddo y cwbl a wnaethent. Ac efe a'u cymmerth hwynt, ac a aeth o'r neilldu, i le anghyfannedd yn perthyn i'r ddinas a elwir Bethsaida.” Yr un deuddeg a geir yma dan yr enw apostolion. Luc x, 1,—“Wedi y pethau hyn yr ordeiniodd yr Arglwydd ddeg a thriugain ereill hefyd, ac a'u danfonodd hwynt bob yn ddau o flaen ei wyneb i bob dinas a man lle yr oedd efe ar fedr dyfod.” Deg-a-thriugain o ba swydd oedd y rhai hyn? Ai henuriaid? Nid oes gair o son wedi bod am y teitl hwnw nac un teitl arall yn flaenorol i hyn ond am apostolion: nid oedd efe wedi danfon neb arall. Paham yr arferwyd y gair “ercill,” os nad o'r un swydd yr oedd y rhai hyn â'r lleill? Ni allwn ddirnad pa enw i roi arnynt ond apostolion, a phe dywedasid, deg-a-thriugain (o apostolion) ereill, ni buasai ond yr un mor eglur, canys apostolion oedd dan sylw yn flaenorol. Yr achos paham y dadleua rhai nad oedd ond deuddeg o apostolion y pryd hyny yw, debygwn, fel y gallont brofi nad oes eisieu eu parhad yn eglwys Crist, ond yn unig eu bod yn anghenrheidiol er ei sefydlu neu i fod yn dystion dros Iesu yn yr oes hòno. Mae yr wrthddadl yna yn henach na'n tadau ni, debygem; a phe gellid ei hamddiffyn, cauid y bwlech mawr ag sydd yn mhob cynulleidfa a broffesa fod yn eglwys apostolaidd, ac etto yn amddifad o apostolion. Ond darllener a ganlyn: Rhuf. xvi, 7,—“Anerchwch Andronicus a

Junia, fy ngheraint a'm cydgarcharorion. y rhai sydd hynod yn mhlith yr apostolion, y rhai hefyd oeddynt yn Nghrist o'm blaen i." Pa hynodrwydd duwiol a allai fod ynddynt i deilyngu canmoliaeth, yn rhagor nâ rhai o uwch swydd? pe uwch hefyd. I Cor. xv, 5, 6,—“A'i weled ef gan Cephas, yna gan y deuddeg. Wedi hynny y gwelwyd ef gan fwy na phum cant brodyr ar unwaith; o'r rhai y mae y rhan fwyaf yn aros hyd yr awrhon; eithr rhai a lunasant.” Ai tybied nad oedd y deg apostol a thriugain yn mhlith y llaw yma? Pe gwrthgiliaient, buasai y fath beth yn teilyngu ei gronielo. I Cor. xv, 7,—“Wedi hynny y gwelwyd ef gan Iago, yna gan yr holl apostolion.” Yma ceir na wyddis pa nifer yw y gair “holl apostolion.” Nid oedd y deuddeg yn cynnwys yr oll, canys yr oedd efe eisoes wedi mynegu, yn adn. 5, fod y deuddeg wedi ei weled. I Cor. xv, 8, 9,—“Ac yn ddiweddaff oll y gwelwyd ef genyf finnau hefyd, megys gan un anhymig. Canys myfi yw y lleiaf o'r apostolion, yr hwn nid wyf deilwng i'm galw yn apostol, am i mi erlid eglwys Dduw. Act. xiv, 14,—A'r apostolion, Barnabas a Phaul, pan glywsant hynny, a rwygasant eu dillad, ac a neidiasant yn mhlith y bobl, gan lefain.” Yma addefa Luc yn bendant fod y ddau hyn yn apostolion, er nad oeddynt o rifedi y deuddeg. Dat. ii, 2,—“Mi a adwaen dy weithredoedd di, a'th lafur, a'th amynedd, ac na elli oddef y rhai drwg; a phroffir o honot y rhai sydd yn dywedyd eu bod yn apostolion, ac nid ydynt; a chael o honot hwynt yn gelwyddog.” Pe na buasai ond y nifer hynny, sef deuddeg, i fod, gwelir mor ffol fuasai i neb arall hōni ei fod yn apostol. Nid ystyriwn y gwrthddadleuon, fod gweled Iesu Grist, eael danfoniad personol ganddo, na bod gallu gwyrthiol gan bob un, neu wedi bod gydag ef o'r dechreu, &c., ynghyd â gallu i lefaru pob iaith yn wyrthiol, yn gymhwysderau anheborol er bod yn apostol, ond haeriadau anghysson y rhai a haerant “fod apostoliaeth yn mhlith y pethau a'r doniau afreidiol.” Gwelir nad oedd yn bosibl fod yr holl apostolion uchod yn meddu yr holl, na nemawr, o'r cymhwysderan uchel hynny, yn ol a ddarllenwn ni. Yn wir, nid ydym yn deall fod ond rhyw bedwar neu bump yn gwneyd rhyw weithredoedd mwy nerthol na'r pregethwyr ereill, neu y Sain, ac nid ellid dysgwyl mai gwneuthurwyr gwyrthiau pawb, fwy nag y gallid dysgwyl mai apostolion parwb. I Cor. xii, 29, 30. Nid y*

ſod' y naill apostol wedi ei gynnysgaethu â'r cyfryw ddawn yn gosod un gwaharddiad i Dduw roddi yr unrhyw swydd i arall heb y ddawn wyrthiol hono, canys rhodd Daw yw. y naill a'r llall. "Fel y mae efe yn ewyllysio" y mae y cwbl.

ADOLYGLAD.

AR DDARLITH Y PARCH. D. JONES, CAERDYDD; AR "AR-
DDERCHOGRWYDD Y GREFYDD GRISTIONOGOL."

TRADDODWYD y ddarlith hon yn nghapel Bethania, Dowlais, ar y 3ydd o Fedi, ar ol y Parch. E. Roberts o Rymny.

Y cam cyntaf a roddodd y darlithiwr oedd i swydd y Cadeirydd, a'r peth cyntaf a ddaeth o'i ben oedd y ddedfryd greulon a ganlyn:—"Y mae fy mrawd [E. Roberts] wedi dangos yn eithaf goleu mai twyll, a thwyll yn unig yw Mormoniaeth;" pan ar yr un pryd nad oedd ei frawd wedi gwrthbrofi un egwyddor a berthyna i "Formoniaeth," ond gwneyd bwanod erchyll o'i waith ei hun, ac ereill o'r un chwaeth, a'u dirdynu ar yn ail; i.e. chwedlau, meddwn; a haeriadau ag oeddynt mor anmhriodol i Formoniaeth ac i *Fedyddiaeth*, os nad mwy felly. Nid oedd "Mormoniaeth" dan eu dwylaw, na'i chysgod, namyn dychymygion ei gelynyon; h.y. os addefir ein bod ni yn deall rhywbeth am dani; ac os na wyddom rywbeth, ar ol cael blynyddau o'i chymdeithas, lle gwael sydd i ddysgwyl fod y dynion hyn nad adnabuant ddim o honi erioed, yn deall dim am dani. Pwy, o ddifrif, a ddylai ddeall oreu? Etto, meddwn, nad "Mormoniaeth" oedd yn cael ei dirdynu mor ddirugaredd yn Dowlais; canys y mae hi heddyw yn fwy byw a llwyddianus nag erioed." A phrophwydwn mai byw a wnaiff yn dragwyddol, er gwaethaf ei holl wrthwynebwy; mae ynddi fywyd dwyfol, a hi a gynnydda pa fwyaf a ferthyrant hwy o'i deiliaid. Oes, y mae "nerth bywyd annherfynol" ynddi, ac y "mae y breichiau. tragwyddol odditani." Nid braich o gnawd a lwydda i'w herbyn. Yn nesaf haerodd "ni all fod ond naill ai Llyfr Mormon ai y Beibl yn wir, oherwydd y mae gwrthdarawiad ynddynt i'w gilydd." Ni welodd yn dda nodi y manau, na rhoddi cymmaint ag un enghraifft i ddangos y gwrthdarawiad hwnw, ac ni all efe na neb arall brofi fod yr un frawddeg yn llyfr Mormon yn groes i'r ysgrhythrau; canys nid oes yr un. O'r ochr arall, y mae hollot gydgoradiad rhwng y ddau lyfr, ac felly dylai y rhai a addefant eirwiredd y naill, addef y llall hefyd, neu brofi fod dau wirionedd yn croesi eu gilydd. Meddyliai efe nad oedd neb o'i wrandawyr wedi darllen dim ar Lyfr Mormon fwy na'i hunan, a thra y gallai eu rhwystro i'w darllen, na welent yn amgen. Haerriad arall o'i eiddo yw,—“Terfynodd yr Hen Destament gydag agoriad i'r Newydd i ddyfod i'n meddiant. Prophwydwyd yn niwedd yr Hen Destament y byddai un arall i'w gael; ac yn niwedd y Testament Newydd rhoddodd y Duw mawr drwy enau Ioan glo tragwyddol: arno, fel pwy bynag a roddo at eiriau prophwydoliaeth y llyfr hwn (sef yr Hen Destament a'r Newydd) neu a dyno oddiwrthynt, nad oes ond y plâau hyn i ddisgyn ar ei ben.” Gwel Dat. xxii, 18, 19. Yc.

ydym wedi cyhoeddi digon ar yr wrthddadl hon eisoes, er profi nad oedd Ioan yn cyfeirio at yr Hen Destament na'r Newydd; ond, fel y dywed efe ei hun yn bendant yn y geiriau dan sylw; sef "geiriau prophwydoliaeth y *llyfr hwn*," sef llyfr y Datguddiad; sef, yr ysgrif hono ag oedd dan ei law ar y pryd yn ynys Patmos, a'r hon a gynnwysai eiriau y brophwydoliaeth a gawsai efe yno yn unig. Oni wyddai Mr. J. na chrynhowyd ysgrifeniadau yr apostolion yn un llyfr am ganrifoedd wedi bod Ioan ar ynys Patmos? Pa fodd ynte y gallasai gyfeirio at y gyfrol yn y geiriau uchod? Os oedd yn gwarhardd ychwanegu at y Beibl fel y dywed Mr. J., yna daeth Ioan yn agored i'r plâu ei hun, canys dywed y heirniaid iddo ysgrifenu ei dri Epistol a'i Efengyl yn Ephesus, ar ol dyfod o ynys Patmos; ac etto y maent hwy yn y gyfrol. Ond am hyn gwel *Atebydd*, tudalen 5, 6. *I' Glorian*, tudalen 15. Ac etto, pa ychwanegiad at y Beibl a all Llyfr Mormon fod, oddieithr ei fod wedi ei grynhoi yno hefyd, ac yn profesu bod yn rhan o hono? Onid llyfr ar ei ben ei hun yw efe? ac ni ddichon fod yn ychwanegiad at eiriau Ioan, oddieithr ei fod yn hōni Ioan yn awdwr. Dysga rheswm plentyn ef yn well na dwyn yr wrthddadl yna yn erbyn Llyfr Mormon; etto dyna y gadarnaf a allasai efe foddwl am dani; a da cael rhywbeth yn erbyn y llyfr a gasâ heb ei weled, ond odid. Cyfeiriodd ei "frawd" at hyn amryw weithiau o'i flaen, a thrwy hyn dangosasant wagedd a dwini eu rhesymau a'u profion. Dyma ffordd ryfedd i arddangos "ardderchogrwydd y grefydd Gristionogol," onide! Addefant eu hunain, mai ei "ardderchogrwydd" hi ynt oedd mwynhad ei ffurfyddion o ddatguddiadau dwyfol, gweledigaethau, &c., a gweddiâu Paul ar i Ddaw barhau i roddi hyd y nod i'r cenedloedd "Ysbryd doethineb a datguddiad trwy ei adnabod ef." Ie, gweddiâu am barhad o hyn yn yr eglwys "dros yr holl genedlaethau yn oes oesoedd. Amen." Yr oedd Cristionogaeth felly yn ardderchog, ond y mae Cristionogaeth Caersalem a Bethania, Dowlais, yn ardderchocach yn awr, heb *ddatguddiadau*, na diu o'i grym cyntefig ond y rliith yn unig. Etto addefasai Mr. R. y noson cynt "fod Cristionogaeth yn anghyfnwidiol," sef ei "datguddiadau," a'r oll o honi; ond yma, yn ei erbyn ei hun, cyfenwa y rhai a broffesant yr efengyl sy'n dwyn datguddiadau yn "dwyllwyr." Onid yw hyn yn enghraifft deg o'r rhai sydd yn dweyd am y tywyllwch mai goleuni yw, ac am y gwir (yn ol eu haddefiad) mai twyll yw? Yr "Ysbryd doethineb a datguddiad" hwnw ag oedd yn brif ardderchogrwydd yr un gristionogaeth yw gwadu datguddiadau. Ie, gwnaent hyn oll pan yr oedd y Beibl o flaen eu llygaid, yn sicrhau yn hollol groes mewn mwy na chant o fanau. Pa fodd y dichon y gwadwyr a'r gwadwyr hyn hōni un rhan na chyfran o "gristionogaeth" Iesu Grist a'i apostolion, sydd yn destun syndod, yn enwedig pan yn ei hyspeilio a'i gwaradwyddo yn gyhoeddus! Gofynnwn i Mr. J. ein cyfeirio at y bennod a'r adnod yn yr Hen Destament, sydd yn addaw i ni lyfr fel y Testament Newydd? Pa nifer o lyfrau, neu epistolau a llythrau pennodau, a dalenau oedd i fod ynddo? Nid y'm ni yn gwybod am un brophwydoliaeth yn yr Hen Destament yn disgrifio *llyfr* tebyg i'r Testament Newydd; ac ni all yntau ddangos un. Gwir fod yno lawer o brophwydoliaethau am ddyfodiad y Messiah, y gwaith

rhawr a wnelai, y driniaeth a gaffai efe a'i weision ar ei ol, heblaw llawer o bethau ereill; ond dim un yn addaw dyfodiad y fath lyfr o ran maintioli, &c., â'r Testament Newydd, fel yr haera Mr. J. A phe buasai y prophwydi yn desgrifio llyfr fel y Testament i ddod i'r amlwg, buasai eu desgrifiad o hono yn wahanol iawn i'r hyn yw y llyfr yu awr; oherwydd desgrifiasent ef yn cynnwys y llythyrau a'r epistolau canlynol, (nad faint ychwaneg) pa rai, er ei fod yn addef eu geirwiredd fel y lleill ydynt etto yn ngholl; megys Epistol *cyntaf* Paul at y Corinthiaid. Gwel 1 Cor. v. 9. Ei epistol at Laodicea, Col. iv, 16. Judas, "am yr efengyl gyffredinol," Jud. adn. 3. Prophwydoliaeth Enoch, adn. 14; heblaw llawer ereill, ebe Luc 1, 1, &c. Felly gwelir mai haeriadau hollol gyfeiliornus yw eiddo Mr. J. hyd yma. Gweler yn mhellach, a allwn gael un haerriad gwirioneddol ganddo? Dywed fod yr Hen Destament wedi cael ei derfynu hefyd, ond ni ddywed gan bwy; ond gan fod Ioan wedi cloi i fyny y Newydd drwy y geiriau uchod, paham nad Moses a gloëdd i fyny yr Hen Destament diwv y cyffelyb frawddeg yn Deut. iv, 2. Ac os felly, dyma Josua, D. fydd, Solomon, Esaia, i.e. yr holl brophwydi diweddarach, a'u gwaith, yn cael eu hesgymuno a'u gwadu gan Mr. J. yr un fath â llyfr Mormon a'r holl Destament Newydd! Dyma ei resymeg ef! Clôa efe ei hun i fyny yn yr un ddilemma etto wrth haeru fod yr Hen Destament yn gyflawn, ag a wnaeth wrth haeru fod y Newydd yn gyflawn; canys o' gwii cynnyg iddo yr Hen Destament yn brawf, gwelir fod hwnw hefyd yn mhell iawn o fod yn gyflawn. Addefa y llyfr ei hun dros ddwsin o lyfrau ereill mor ddwyfol a'r lleill sydd ynddo; ac etto, nid oes uu o honynt yn yr Hen Destament. Cyfeiriwn at rai o'r llawer, megys Jos. x, 13; 1 Cron. xxix, 29; 2 Cron. ix, 29; Pen. xii, 15; Pen. xxxiii, 19, &c., &c. Pa fodd y gallweh haeru fod yr Hen Destament yn gyflawn, Mr. J. hyd oni chynnwysa yr holl rai hyn, o leiaf? Ac wedi cael y rhai hyn, dichon eu bod hwythau yn rhoi hanes ereill wed'yn. Beth, ai y ddau glawr sy'n gwneyd llyfr yn gyflawn, ynte eich haerriad chwi, mai felly y mae? Onid yw y llyfr ei hun yn dweyd vn hollol groes i'ch haerriad mewn amryw fannau, megys y rhoddai Duw ychwaneg o ddatguddiadau o oes i oes, os peidiai dynion a gwyro ei lwybrau, a gwadu datguddiadau, &c., i.e. yr amlygai ei feddwl yn "lliu ar lin," yn orchymyn ar orchymyn, ychydig yma ac acw ychydig. Ac y mae yn gwneyd felly yn yr oes hon i'w blant drwy lyfr Mormon, drwy ysbryd y datguddiad, a'r doniau ysbrydol, &c. serch eich bod chwi yn gwadu hyny, ac yn gwrthwynebu y pethau ni wyddoch o'u herwydd, fel y gwnaeth Cora, Dathan, ac Abiram gynt. Er mwyn eich eneidiau, ac eneidiau eich gwrandaawyr, peidiweh a bod mor awyddus i gael cyflogau anghyfiawnder gydâ'r Baalam hwnw gynt. Beth ond hyn a'ch cynhyrfa chwi a'ch brodyr erlidgar, i haeru y fath ffolineb a chelwyddau yn erbyn y gwirionedd? Yn nesaf, sylwer ar gynhariaeth Mr. J. Dywedai fod goleuni yr oes Foesenaidd, Batriarchaidd, ac Iuddewaidd, fel goleuni y sêr, y lleuad, ar haul, "ond goleuni Joe fel *goleu* canwyll." Diolch i chwi am addef fod cymmaint a hyna o oleuni gan "Joe;" canys haerech gynneu mai twyll yn *unig* oedd ganddo, ac nid oes hyd y nod "goleuni canwyll" mewn twyll. Yr un yw goleuni; ac y mae yn dda, deued o ba le y delo. Goleun

dwylfol a arwyddai eich cymhariaethau, o anghenrhaid, ac felly eiddo "Joe" yr un rhyw ydyw. O ba le y cafodd "Joe" y goleu canwyll yna? O ba le yr honwch chwi fod wedi cael goleu yr haul? Onid o'r Testament Newydd? Os felly, onid oedd y Testament Newydd gan "Joe" cystal â chenyh chwithau, ac o ganlyniad gallasai gael goleuni yr haul ag yr honwch chwithau, h.y. os yn y llyfr ei ceir; a dyma eich proffes chwi, a'r unig begwn i'ch adeiladaeth, gan eich bod yn gwadu ysbryd y datguddiad. Os y llyfr yw ffynnonell goleuni, o ba le y cafodd awduron y llyfr eu goleuni cyn cyfansoddi llyfr? Os nad y llyfr oedd ffynnonell eu goleuni hwy, pa fodd y dichon fod yn ffynnonell goleuni yn awr? Dywedir mai "dynion santaidd Duw a lafarasant yr ysgrythyrau megys ag y cynhyrfwyd hwynt gan yr Ysbryd Glân:" ac nid megys eu cynhyrfwyd gan *lyfr* na *llyfrau*. Etto, os y llyfr yw ffynnonell goleuni, pahan na ddeucch chwi a'ch holl gydbregethwyr croes-gredöawl, i gydweled a chyd ddysgu egwyddorion dwylfol y Testament Newydd, yn lle bod hen-hen a'ch gilydd beunydd, hyd y nod o berthynas i ordinhadau pwysig ac anghyfnewidiol yr efengyl? Nid oes nemawr ddim ag y cydynwch a'ch gilydd ynddynt, oddieithr i wadu ysbryd y goleuni, ac i erlid a difenwi, a galw plant y goleuni dwylfol yn "dwyllwyr," "plant y tywyllwch," "sataniaid," &c. Gan mai wrth eu gweithredoedd yr y'm i adnabod dynion, beth sydd amlycach na bod eich gweithredoedd a'ch haeriadau chwithau yn profi mai plant y tywyllwch ydych? Dywed yr ysgrythyr y byddai dynion yn y dyddiau diweddaf, a chanddynt rith (sef proffes yn unig) o dduw-ïoldeb, ac yn gwadu ei grym hi, (sef yr ysbryd y goleuni a datguddiad hwnw oedd yn "*nerth* ac yn sicrwydd mawr" yn y Saint gynt:) y rhai ni fynant ddyfod i'r goleuni, oherwydd fod eu gweithredoedd hwynt yn ddrwg.

[I'w barhau.]

DYFYNIAD O LYTHYR YR APOSTOL O. HYDE.

YSGRIFENWYD y llythyr canlynol o St. Louis, dyddiedig Awst 5. at O. Speeßer, Liverpool:—

"Mehefin 22ain, cychwynodd yr Henuriaid Pratt a Taylor o'r Horne, ynghyd â chwmpeni o Saint, gydag oddentu 600 o bedrolfeni, ar ol y gwersyll blaenaf. Pan yn dychwelyd o'r Bluffis tua St. Joseph, er's pump diwrnod yn ol, cyfarfyddai â 5 *battalion* o'r Saint a ymunasant ar fyddin Americanaidd, yn dychwelyd i gyfarfod â'r gwersyll; pa rai oeddynt heb gyrhaedd yno. Aethant hwy a'r rhai ereill o'r Fort ar eu hol. Daeth cenadydd yma yn ddiweddar yn hysbysu fod y gwersyll blaenaf wedi cyrhacdd tuhwnt i'r Mynyddoedd creiglyd, trwy y "*South Pass*," oll yn iach.

Mae y gweddill o'r fyddin wedi ymsefydlu yn California. Dychwelodd amryw genadau i gyfarfod â'r gwersyll blaenaf, pa rai a fuasant yn edrych ansawdd California; ac felly trwy ddaioni Duw cyfarfydda yr oll â'u gilydd mewn cynghor oddeutu godrau y mynyddoedd, pan y penderfynir canol-bwynt eu hymgyrch, &c. I Dduw y bo'r diolehl! Ei ysbryd ef a ddechreuodd y gwaith hwn, ac a'i harweiniodd yn mlaen

hyd yma; onide ni chydweithiasai pob peth mor rhyfeddol a hwylus i'w gyssylltu ynghyd o eithafion daear, heb swm morthwyl. Mae cynydau y Saint yn ngwlad yr Indiaid yn lluosog a gwychi, pa le bynag braidd ag y troir y wyneb, gwelir caeau mawrion o yd yr India, &c., drwy'r anialwch hwn. Wythnos i'r Sul diweddaf, pregethais gerllaw fy mhabel yn y goedwig i dorf luosog o wrandawwyr astud, a bedyddiwyd wyth ar y diwedd, mewn llyn a wnaethid ar y *prairie*; ac er yn alltudion, yr ydym yn cael aml Sabboth hyfryd a melys.

“Dilynir ein gwersylloedd gan luoedd o bobl y byd, y rhai a hoffant ein cwmni; ac y mae llaweroedd yn cael eu bedyddio beunydd ar y ffordd, yn yr anialwch, &c., ac ychwaneg yn dylifo ar eu hol.

“Clywais fod gwersyll Pratt a Taylor oddifewn i 150 o filltiroedd i *Fort Laramie* ar yr 17eg o Orphenaf, oll yn iach. Yr ydwyf fi wedi bod yn pregethu ac yn cynnal Cymmanfaoedd am 50 o filltiroedd o ddau tu i afon Missouri o *Council Bluffs* hyd i *St. Louis*, heblaw gweithio a'n dwylaw fy hun nes y mae genyf faes yn cynnwys dros 50 o erwau wedi ei gauad, a 30 o erwau o gnwd. Gorehwyl hawdd yw rhoddi cawd yn y *prairies* hyn, ac y mae yn cynnyrchu firwyth yn rhagorol.

“Pan ddychwela cenad oddiwrth y deuddeg, hysbysir chwi yn brydlon o barthed i'r ymfudiad, a goheithaf y bydd y Saint yn amyneddgar am enyd etto. Os cynnorthwya y Saint yn Mrurdain ni yma yr hyn a allant, goreu oli fydd hyn ar eu lles hwythau hefyd pan y delont yma; canys nid gwaith personol yw yr hwn sydd genym ni, ond cydweithia pawb er dedwyddoli yr oll yn dymmorol ac yn ysbrydol. Daethum i wared yma yn bresennol ar fusness perthynol i'r eglwys, ac i hyfforddi y Saint yma; ac nid yw anmhosibl y deuaif drosodd i Frydain etto, pan y caf hamdden i orphwys diwrnod cyfan. Etto bydded hyn yn ol ewyllys yr Arglwydd, a chynghor fy mrodyr.

“Hysbyswch Capt. D. Jones drosyf fi fod baneri Sion yn hoeledig ar ben yr hwylbren, yn chwyfio yn brydferth uwchben meibion Joseph, ac yn honi eu wynebau pruddion gyda gradd helaeth o obaith fod “yr hafddydd oddiuchod wedi gwawrio arnynt hwythau.” Fy anerch gwresocaf ato ef a'i deulu, ac hefyd at yr holl frodyr a'r chwiorydd dros y rhai y gosodwyd ef i lywyddu. Y goreuon o fendithion y nefoedd a'u cysgodo,—dybidled ei ffafr ef ar fynyddoedd Cymru, fel y gwllith ar fynydd Hermon, neu y cawodydd o wllith iraidd ar fryniau Sion. Cofiaf Scotland hefyd, y brawd Richards, a mil ereill cystal ag yntau. Eu Duw a'u bendithio.

“Anerchwch yr holl frodyr a chwiorydd duwiol a hoff, yn serchus drosyf fi; y rhai sydd yn Lloegr, Scotland, ac yn Nghymru.

“Ydwyf, eich brawd yn y Cyfammod Newydd,

“ORSON HYDE.”

ANERCHIAD AT Y SAINT.

ANWYL SAINT,—Unwaith etto, wele ni drwy gyfrwng y *Prophwyd*, ac yn daerach nag o'r blaen, yn galw eich sylw yn ddifrifol am gynnorthwyo y Saint sydd yn yr anialwch. Coflawm chwi am ein hadd-

unedau iddynt, drwy alw eich sylw at yr hyn a ddywedwyd o'r blaen am eu hamgylchiadau trallodus a dyoddefus ar eu taith hirfaith. Coffâwn chwi am y berthynas ag sydd rhyngom â hwy drwy rwymyn y cyfammod newydd, er annogaeth i gyflawni ein dyledswydd a'n braint tuag atynt yn y cyfyngder presenol; ac, mai ein dyled yw eu cynnorthwyo, nid â'n gweddiau yn *unig*, ond hefyd drwy "ddwyn beichiau ein gilydd," eanys "fydd heb weithredoedd marw yw." Cymhella y ffaith mai er mwyn ein cysur a'n diogelwch, i.e., ein hiechydwrriaeth dymmorol ac ysbrydol ni, yn gymmaint â'r eiddo neb creill, yr ymdrechant hwy; ac felly dylem ddwyn yr hyn a allwn o'r baich mawr hwn. Hefyd, profa sefyllfa derfysglyd a thruenus y hyd yn gyffredinol, a'n gwlad ninnau yn neillduol, i'r "rhai y rhoddwyd i adnabod arwyddion yr Amserau," fod rhyddid, mwyniant, i.e., mewn gair, holl gysur plant Seion, yn dibynu ar eu llwyddiant hwy i adeiladu pyrth merch Seion, yn ddiddosfan i'w plant, pan eu gorfodu i ffoi o gyffiniau y Babilon fawr a'i holl ferched, cyn y delo y dyddiau blin, yn y rhai y tywallter phiolau digofaint Duw arnynt. Coffâ yr holl erlid, y darlithio, y camgyhuddo, y bygythio, a'r ymosodiadau creulon a diachos sydd arnom yn y dyddiau rhain, yn enwedig yn y cychoddedd hyn, fod yr ysbryd hwn a feddwa Babilon â gwaed Saint, yr awrhon yn gweithio yn brysur yn ei phlant hi i gyflawni mesur eu hanwiredd; ac i fod yn wrthrychau o gyfiawn farnau Duw arnynt; a diau y cynnydda eu cynddaredd yn gyfesur i fel y cynnydda duwioldeb y Saint, a mawr allu Duw yn eu plith, mewn mannau ereill heblaw yma. Coffâ yr oll ni mai dycethriaid a phererinion ydym ni, hyd y nod yn ngwlad ein genedigaeth, ac nad oes i ni yma ddinas barhaus yn eu plith hwynt, ac yn profi mor anlwg â'r haul yr anghenheidrwydd anheggorol sydd i ni i sicrhau ein rhan yn y "ddinas barhaus, saer ac adeiladydd yr hon yw Duw," ac nad oes i ninnau amser i'w golli os mynwu "yr orphwysfa sydd etto yn ol i bobl Dduw." Diau y bydd ar y Cymry gymmaint o anghen am dani, ac mor gynted â nemawr genedl. Cofiw'n mai ein gweision a'n rhagredegwyr ni yw y rhai sy'n gofyn ein cymhorth yn awr, a diau mai ein lles fydd eu cynnorthwyo. "Canys yn Mynydd Seion, ac yn Jerusalem, y bydd gwardigaeth." Wel, bydded i'r holl ystyriaethau hyn ein cymhell i'w helpu hwynt yn mlaen â'n holl egni. Nid oes nemawr o sylltau wedi cael eu cyfranu iddynt gan y Cymry er's amryw fisoedd, fel y mae yn ofidus genyf hysbysu; ac y mae ffyddlondeb a pharodrwydd blaenorol y Saint, yn ein cymhell i feddwl mai arnom ni yr oedd y bai am fod mor ddystaw am y peth, neu efallai ar y gwahanol swyddwyr, drwy heidio rhoddi y cynllun a wnaed i'r dyben hyn mewn gweithrediad. Taled y Saint i'w llywyddion yn ol eu cyfleustra, ac mewn llwfr pwrpasol i hyny, rhodder enw pob cyfranwr a'r swm a dalodd ei gyfer, a bydd hyny mewn coffadwrriaeth yr amser dyfodol, a'r enwau i'w cael yn "llyfr cyfraith yr Arglwydd." Mae'n wir fod y Gymdeithas Genadol yn galw yn uchel am ein cynnorthwyo, er lledaenu yr efengyl yn mhlith ein cydgenedl; ond yn ngwyneb yr amgylchiad presenol, heth yw cydgenedl i'w cystadlu â brodyr a chwiorydd anwyl, pa rai sydd yn rhwymyn yr un cyfammod tragwyddol—plant yr un tad nefol, a chyd etifeddion o'r un orphwysfa nefol?

Brodyr o flaen estroniaid,—plant Duw o flaen plant y byd, ac *adeil-adwyr* Seion o flaen ei *gwawdwyr*, fyddo ein barwyddair ni oll. Etto meddwn, chwi swyddwyr—chwi Saint hynaws yn anad pob peth arall yn awr, cofwch y galwad hwn, a chydymdrechwn oll i gyflawni ein hadduned fel cenedl. Meddianydd yr holl ddaear a ad-dalo ar ei ganfed i bawb a roddo, meddwn.

ARWYDD Y PROPHWYD JONAH.

MR. GOLYGYDD,—Mae pobl y wlad hon yn ceisio arwyddion, ond nid ydynt yn cael yr un ond “arwydd y prophwyd Jonah.” Etto nid oes neb yn derbyn hōno ychwaith! Nid yw pawb yn deall pa fath arwydd oedd hōno. Meddylia rhai mai am fod y prophwyd wedi bod yn mol y pysgodyn yr oedd yn arwydd, ond fe ddywedodd Crist, “felly bydd Mab y dyn i'r genedlaeth hon.” Am hyny, os gwelodd y Ninifeaid Jonah wedi bod yn mol y pysgodyn, ni welodd y genedlaeth hōno mo Grist wedi cyfodi, canys fe ddywedodd ei hun, “ni'm gwelwch i mwyach, a'r byd ni'm gwel mwy,” a dywedodd ei fod wedi ei roddi i'w wneuthur yn amlwg i'r *tystion etholedig*, &c. Os felly, nis gwelodd y genedl ef wedi cyfodi; am hyny, nid y wyrth oedd yr arwydd. Ond Crist a ddywedodd mai gwranddo ar bregeth Jonah a wnaeth y Ninifeaid, ac mai am hyny y condemniant y genedlaeth hōno. O ganlyniad, pregeth Jonah oedd yr arwydd, ac nid ei lyncu gan y pysgodyn. Felly Crist hefyd, fel y dywedodd Esay, “Wele fi a'r plant a roddes Duw i mi yn arwyddion ac yn rhyfeddodau yn Israel.” Gan hyny, eu dyfodiad fel cenadau at y bobl oedd yn eu gwneyd yn arwyddion, onide?

Fel hyny y mae yn yr oes hon. Mae dynion wedi eu danfon gan Dduw i bregethu y bregeth a lesarodd efe wrthynt, ac nid dim a ddychymmygont hwy; a hyny nid mewn godidogrwydd ymadrodd, nac mewn ymddangosiad allanol, canys os oedd golwg drwsiadus ar Jonah yn eychwyn, yr oedd ei wisg wedi ei llychwinu a'i maedda yn mol y pysgodyn. Yn nesaf, gwyddai Jonah beth a bregethar: felly gweision Duw bob amser. Nid un fel hyn, a'r llall fel arall, ond pob un yr hyn a dderhyniodd wrth gychwyn.

Beth yw yr achos fod dynion yn myned drwy y wlad yn yr oes hon, a hyny heb na phwrs na mawredd, ond rhai gwael yr olwg, a diddysg, etto yn tystio eu bod wedi eu danfon gan Dduw i rybuddio y bobl am y tro diweddaf cyn dyfod ei farn ef. Beth, meddaf, yw y dynion hyn? Yn ddiau, arwydd hynod yw hyn! Pwy na ddywedai, Beth a all hyn fod? Pwy na dderhyniai eu gair gyda phob parodrwydd meddwl, “gan chwilio beunydd yr ysgrythyrau, i edrych a yw y pethau hyn felly.” Am hyny, gwybydded y Cymry yn ddiiegel ddanfon o Dduw ei weision hyn i bregethu i chwi yr efengyl hon, yr hon a dystia pethau mwy na hyn i bwy bynag a'i derbynia.

Ysbryd yr Arglwydd fel tân sydd yn llosgi,

Y dyddiau diweddaf a wawriodd i ni;

Yr Arglwydd anfonodd, o wlad y golcuni,

'R efengyl drag'wyddol, a'i dawn gyda hi.

Cafwyd gwi-ionedd yn mynydd Cwmrorah,—

Daw bechgyn y goedwig i dderbyn y ddysg;

Ac wedi eu gwareiddio, ar dir California,

Hedd a llawenydd fydd mwy yn eu mysg.

R. EVANS.

Y DIWEDDAR BARCH. JOHN WESLEY YN FORMONIAD!

Am y doniau ysbrydol a fwynhai eglwys Iesu Grist yn nyddiau yr apostolion, dengys yr ysgrhythrau yn rhy amlwg i neb wadu hyd heddyw, eu bod yn eu meddu pryd hyny, megys yn 1 Cor. xii, &c. Dangosant mor anlwg mai eu dyben a'u heflaith oedd i herffeithio y Saint yn y fuchedd hon, Eph. iv, a gwelir yn yr un ymadrodd a manau ereill eu bod yn anghenrheidiol yn yr eglwys hyd oni byddai yr holl Saint wedi dyfod i undeb y ffydd gristionogol,—wedi eu bedyddio a'r un bedydd, eu diodi oll a'r un ysbryd, a dyfod i gydsynied yr un egwyddorion, ac i rodio ar hyd yr un llwybrau, neu yrfa ysbrydol, nes cyrhaedd y nod a osodwyd o'u blaen, sef taledigaeth y gwobrwy. Mae yr addewidion o'r pethau hyn, meddwn, mor eglur ag yw yr amnodau ar ba rai eu cefid gynt, ac er hyny oll cyduna yr oll braidd o'r rhai a hōnant yr ordinhadau i wadu y doniau cysylltiadol. Hōnant hawl i'r pren, ond dywedant nad oes eisiau y ffrwythau yn awr. Nad oeld ar neb anghen am y ffrwythau daionus hyny ond cyd-oesolion yr apostolion. Ac mai yr unig ddyben y tyfodd y ffrwythan hyny ar y pren (neu yr eglwys) gyntefig oedd, nid i borthi enaid y Saint, ond i foddio llygaid y byd, ac i brofi fod y fath bren wedi bod. Oddiwrth yr hyn a gaulyn, gwelir fod y traddodiad hwn yn henach na Mr. Wesley, ac efallai cyn hened braidd â Calvin, Zuinglius, Menno, Peter Waldo, neu Melancthon, ond pa un hynag am hyny, y mae rhy boblogaidd o lawer yn awr, i.e, hyd y nod yn mhilith y rhai a ddygant fawr sel dros euw Mr. Wesley dduwiol-frydig, a gobeithiwn y bydd cynghor o enau eu tad yn llesiol i'w hargyhoeddi o afresymoldeb y fath haeriad, ac i'w dwyn i gredu mwy o egwyddorion yr hwn, er ei fod wedi marw sy'n llefaru wrthynt yn hyn etto. Dyfywyd yr hyn a ganlyna o'i 94 bregeth ef ar y "*Ffordd mwy rhagorol.*"

"Nid ymddengys fod doniau goruwch naturiol wedi parhau yn gyffredin yn yr eglwys, ond hyd yr ail nen y drydydd ganrif. Anfynych y elywnn am danynt ar ol y cyfnod andwyol hwnw, pan y galwodd yr ymerawdwr Cystenyn ei hun yn gristion, a thrwy ei fymppy hunanol iddo feddwl lledaenu Cristionogaeth drwy bentyrn cyfoeth, anrhydedd, a nerth ar y Cristionogion yn gyffredinol. O'r amser hyn darfyddasant braidd yn hollol; o leiaf, pur anfynech y clywir am danynt wedi y pryd hyn. Nid yr achos iddynt ballu oedd, fel y dywed y cyffredin, (*vulgar*) am nad oedd eu heisiau mwyach, oherwydd fod yr holl fyd wedi cofeiddio Cristionogaeth. Mae hyn yn gamsynied truenus! Nid oedd yr ugeinfed ran o'r byd yn gristionogion pryd hyny, hyd y nod mewn enw. Y gwir achos [na buasai y doniau gwyρθiol yn parhau] yw oherwydd oeri o gariad llawer—ni feddai y cristionogion fwy o ysbryd Crist nac oedd gan y paganiaid ereill! Mab y Dyn, pan ymwelodd â'i eglwys, ni allodd braidd gael ffydd ar y ddaear. Dyma yr achos gwreiddiol na chafwyd doniau goruwchnaturiol yr Ysbryd Glân yn hwy

yn yr eglwys Gristionogol. oherwydd ddarfod i'r Cristionogion droi yn baganiaid wedy'n, heb ond y llythyren farw yn uniglyn ngweddill."

Nid nynt yn unig, gwelir, sy'n galw y rhai a wadant yr anghen o'r doniau ysbrydol yn "*vulgar*," ac yn "camsynied yn druenus;" ond wele Mr. Wesley barchus yn dweyd llyay, i.e., hyd y nod uwchben ei blant camsyniol ei hun; ac onid yw yn llawu bryd iddynt hwythau ddychwelyd ar ei alwad i'r eglwys sydd yn meddu y doniau hyny, fel y mae yn ddiddadl yn ein meddwl ni y gwnaethai efe pe cawsai ly cyflens-deiau ag a fwynhant hwy? Ei onestrwydd ef a'n cymbhella i gredu felly am dano.

Y DONIAU YSBRYDOL.

MAE ein gohebydd medrus, "Daniel ap Iago," yr un farn a Mr. Wesley am y doniau, gwelir, er nad yw y naill, mwy nag yr oedd y llall, mewn cysylltiad â Mormoniaeth. A phwy, yn wir, ag a broffesa gredu yr ysgrhythrau, na chydysnia am yr hyn sydd mor amlwg!

"Syndod mawr os oes undyn—yn Walia,
Na wel hyn fel llinyn :
Dyma rym pob gorchymyn,
Ewyllys da, a lles dyn."

"Fe roddodd Duw arwyddion o fewn ei eglwys gynt, 1 Cor. 12, 38.
Er mwyn ei chadw'n drefnus a hwylus ar ei hynt; Eph. 4, 12, 13.
Ond yn yr oes bresennol maent megys pinau drain,
Crefyddant yn esmwythach a rhwyddach heb y rhai'n.

A ehan i Dduw eu rhoddi o'i wir anfeidrol ras,
Gwae'r neb a fo'n rhyfygu trwy geisio'n tynu ma's ;
Pwy hynag na fo'n arddel y doniau oll yn llym,
Nid yw ond rhith o grefydd, ac wedi gwadu ei grym. 2 Tim. 3, 5.

I hwy y mae'r addewid? Oes lle i gael gwybod hyn?
Oes, oes, o fewn y 'sgrhythyr i'w wel'd mewn dŷ a gwyn:—
I chwi a'ch plant yn gynta', ond dyma newydd gwell, Act. 2, 38.
Chwi welwch mae'r addewid yn cyrhaedd pawb yn mhell. 39.

Tra fyddo Duw yn galw, y mae'r addewid hon
Yn gadarn yn ei reol fodd breiniol ger ein hron ;
Ond er mai Duw sy'n galw, mae miloedd yn ein hoes
A wada'r addewidion gan greulon dynu'n groes. 2 Tim. 4, 1.

Mae traddodiadau dynol heb reol o'r iawn ryw, 2 Tim. 4, 3, 4.
Yn lle mwynhau rheolau a deiddfau pur ein Duw,
Yn arwain rhai i wyrni, a phob rhyw gulni câs, 2 Pedr 2, 1, 3, 12—19.
A'u dala ynghanol dwlwi, gan groesi trefen gras.

Pwy hynag fyddo'n deall y 'sgrhythyr fel y mae,
Cyhoeddir uwch eu penau, bob melldith ffol a gwae. 2 Pedr 2, 10.
Mae deryn eshoniadol yn boddio aml un
Yn well na'r addysgiadau o enau Duw ei hun. Judas, 8, 15, 16, 18, 19.

Os sonia neb fod douiau i'w cael tu fewn dy byrth,
 Dechreua'r bobl waeddi, paham na wnewch chwi wyrth?
 Fel hyn ceir gwel'd eu hysbryd, a'i brofi y'r ddifeth,—
 Mae hanes eu tad diafol yn gofyn yr un peth. Mat. 4, 3.

Ni cheir, 'rwy'n siwr, ddim gwyrthiau, er hoddio mymwy dyn;
 Pan y gofynwyd iddo, fe ballodd Crist ei hun. Marc 8, 11, 12.
 Yr Ysbryd Glân sy'n rhoddi y gallu yn ddible,
 I'r sawl mae'n ewyllysio, a'r man y myno 'fe. 1 Cor. 12, 11.

Dywedwch beth yw'r achos, onid ydyw hyn yn ehwith,
 Na chredem ni brophwydi tra fyddont yn ein plith?
 Yn mhen rhyw faith ganrifoedd, fe'u credir gan bob gradd,
 Ond os bydd rhai'n ein canol, nid llesiol heb eu lladd. Mat. 23, 30—34.

Darfyddai ffol ddadleuon rhwng pawb o ddynolryw,
 Pe cym'rent hwy eu dysgu, yn deg gan Ysbryd Duw, Eph. 4, 3—18.
 A derbyn y dystiolaeth lefarodd ef, bob darn; Marc 16, 16—18.
 Mae'n gadarn ar y ddaear, mae'n gadarn yn y farn." Mat. 24, 35.

CATECISM Y SAINT.

TŌN—" *Prophwyd Daniel.*"

Pwy sy'n aflonyddu'r ddaear,
 A'u pregethu a'n holl lafar,
 Ac yn cael am hyn eu gwatwar?
Saint y Goruefaf Dduw.

Pwy yw'r sect neu'r blaid ysgymu,
 Ag y d'wedw' pawb i'w herbryn,
 A phob dirmyg yn eu canlyn?
Saint y Goruchaf Dduw.

Pwy gasêir gan y cenedloedd?
 Am ben pwy y chwardda'r bobloedd?
 Pwy a geblir gan y lluoedd?
Saint y Goruchaf Dduw.

I hwy ceisir gan y doethion
 Am ddoethineb ac arwyddion,
 Yn lle credu'r 'fengyl raslon?
Saint y Goruchaf Dduw.

Pwy dywylla ddeall dynion
 Sy'n proffesu bod yn ddoethion,
 A thystiolaeth Iesu tirion?
Saint y Goruchaf Dduw.

Pwy ystyrir yn "ysgubion,"
 Ac yn "sorod byd," gan ddyinion?

Pwy sy'n dwyllwyr âc ynyfdion?
 Saïnt y Goruchaf Dduw.

Ond pwy fedda yr addewid
 Roes yr Arglwydd o'i Lân Ysbryd;
 Yn ei amryw ddoniau hyfryd?
 Saint y Goruchaf Dduw.

Pwy gânt ysbryd prophwydoliaeth,
 Ffydd, doethineb, a gwybodaeth?
 Pwy lefarant â thafodiaeth?
 Saint y Goruchaf Dduw.

Pwy trwy'r Ysbryd gân gauiadau?
 I bwy rhoir i wneuthur gwyrthiau,
 Iachâu cleifion, a phob doniau?
 Saint y Goruchaf Dduw.

Pwy sy'n meddu apostolion,
 A' phrophwydi, ac athrawon,
 I berffeithio eu dyscyblion?
 Saint y Goruchaf Dduw.

Pwy sy'n dysgwyl cyd-ymgasglu,
 Yr awr perffaith, fel yr Iesu,
 A byth gydag ef deyrnasu?
 Saint y Goruchaf Dduw.

Pwy, gan hyny, ddylent beunydd,
 Fyw'n gytun, a charu 'u gilydd,
 Ac i ddiolch i'w Creawdydd?
 Saint y Goruchaf Dduw.

J. D.

NEWYDDION ODDIWRTH YR HENURIAID.

DRWENTYDD mawr fuasai genym osod dyfyniadau o lythrau cysurlawn ein brodyr teithiol o'r gogledd o ffaen ein darllenwyr, pe caniatasai ein colofnau, ond rhaid tal-fyru. Cawsom amryw lythrau oddiwrth ein hanwyl a'n ffyddlon frawd Abel Evans o wahanol fanau. Yr hynodrwydd penaf sydd drwyddynt oll yw ymlyniad dieithriad y Saint braidd yn mhob man wrth yr efengyl drwy boh rhwystrau. Mae eu cynnydd mewn cariad a doethineb, ynghyd â phob grasusau, yn amlwg iddo boh tro yr ymwelo â hwynt, ebe efe, a dyma fel y dylai fod gyda phawb sydd dan arweiniad Ysbryd y graa. Dyweda fod llawer wedi cael eu bedyddio yn ddiweddar drwy wahanol siroedd y Gogledd. Mae yr henuriad R. Evans yn ddiwyd iawn yn Sir Fon, ac wedi bedyddio rhai yno yn ddiweddar. Da fyddai genym weled wyneb ein brawd hoff tua'r Deheu-êir am enyd y gauaf hwn, os cydwela. Yr henuriad Eliezer Edwards a ddyry newyddion gobeithiol iawn o Sir Gaernarvon, a dywed iddo yntau fedyddio rhai; daw ar ei dro i ymweled â'i frodyr a'i chwirydd yn y Deheudir cyn hir. Mae yn codi hiraeth ar ein calon am weled y Saint siriol oll pan yn ysgrifenu fel hyn eu hynt, ac yn codi hiraeth mwy etto am weled y dedwydd ddydd pan y cwrddwn oll yn Seïon, heb neb yn tynu yn groes, ond pawb â'i delyn mewn hwyli i ganu iddo ef, yr hwn a'n car-êd, ac a'n golchodd yn ei waed, &c. Brysio wnelo. Amen.

HYNT YR EGLWYSI..

MERTHYR TYDFIL. Mae y fam ganghen hon yn myned yn y blaen yn gysseu a llwyddiannus. Er nad mor gyflym, etto yn fwy ffyddiog, gwresog, ac unfrydol, nag erioed, ac mewn mwynhad cyflawnach o'r doniau ysbrydol, ac addewidion ereill y Pen mawr i'w eglwys. Derbyniwyd pŵmp i'r eglwys yr wythnos hon eisoes, ar eu profieoedd o'u ffydd a'u hedifeirwch.

DOWLAIŌ. Ni wyddom braidd beth i'w ddywedyd am y dref hon! Mae hi yn gynewrf eeffredinol drwyddi oll braidd, fel crochan herwedig, rhwng darlithoedd Mr. Roberts, Davies, Jones, a Pheirch. ereill, o'u pŵlpudau (pa rai y ceir adolygiadau o honynt mewn TRABTHAWD, a'r PROPHWYD); ac heblaw y rhai hyn, y mac rhyw nifer o ddyinion ceccus yn dilyn pregethwyr y Saint, ac yn eu hafonyddu yn aufoneddigaidd lle hynag y byddont yn pregethu. Ac yn mhllith ereill mae rhyw ddyyn o'r enw Mr. Evan Lewis (er nad adwaenem ni ef o holl bobl y byd), yn parhau i gynnal cyfarfodydd ar hyd gonglau yr heolydd i ddarlithio yn erbyn y Saint, a chyhoeddi yf heu gamgyhuddiadau arferol yn erbyn Joseph Smith. Ond wedi golchi ar yr hen stock yna drosodd a throsodd, nes suro ar feddyliau ei wrandawwyr, dywedir ei fod mor selog ag y medro yn traethu chwedlau disail am ein cymmeriad ninnau; er enghraifft, y stori a ddywedodd uwchben torf, sef, "bod benyw yn Dowlais yn barod i dyngu ddarfod i ni geisio ei threisio;" ond erbyn i ddyinion ereill o Dowlais fyned a holi y fenyw hōno, addefodd nad oedd gair o wir yn y peth! Ni fuom yn ymddyddau cymaint â gair â hi erioed, a sicrhawn nad adwaenem hi pe cyfarfyddem â hi ar yr heol! Beia llawer arnom am oddef y fath enllib a chaldraeth yn ddigosp, ac etto byddai mwy yn barod i feio arnom pe gwneid byny, mai dial a fyddai, ac egwyddor anghristionogol, &c.—Am y Saint sydd yn Dowlais, maent yn fwy penderfynol ac unfrydol yma, fel yn mhob man arall braidd, pa fwyaf eu herlidir. Maent yn llawen fwynhau y doniau ysbrydol a grasusol a addawwyd iddynt, a'r hyn a'u nertha i ddyoddef pob ymosodiad yn llawen.

GYNNALEDD SIR FYNWY, Mae rhyw fywiogiad cynnyddol drwy'r gynnadledd hon yn ddiweddar, ac amryw wedi ufyddhau i'r efengyl, yn enwedig yn Nantyglo. Clywsom am ychwaneg o ffrwythau gelyniaethus Sectariaeth tua Kendall yn ddiweddar. Dau ddyyn, y rhai a broffesent fod yn gwnstebli o blwyf araŵ, a gydiasant mewn tri o bregethwyr y Saint, y nall ar ol y llall, pan yn pregethu allan ar y Sul, a thorf fawr yn gwrando yn foneddigaidd hyd oni ddaeth yr afonyddwyr anfoesgar ac anghyfreithlon hyn yno, a than rith o awdurdod wladol cloisant y tri pregethwr i fyny!! Pa hyd y goddefa y Duw cyfiawn y fath ormes a thrais, dan yr enw o Gristionogaeth? Gollyngwyd y dynion allan o'r carchar rywbyrd, ac heb na iawn nac arholiad, na gwybod pabam, hyd yn hys.

LLANELLI. Mae yr henuriaid William Hughes, Morgan Richards, ac ereill, yn ddiwyd a llwyddiannus yma, ac yn y cylchoedd, nad faint a hregetha ac a gyhoedda Golygydd y *Diwygiwr* mai rhai anlythyrenog, ac mai peth bach disylw yw eu crefydd, &c. Oes, y mae yno o ddeg-ar-hugain i ddeugain wedi cael eu bedyddio ganddynt yn y ddau fis diweddar, a bron cymmaint â hyn yn y ddau fis o'r blaen, hyd nes y mae yno dros driugain o Saint yn awr, a'r rhai hyn bron i gyd wedi bod gyda gwahanol enwadau y dref hōno, ac yr oeddynt, mae'n debyg, yn cael eu hystyried o gymmeriadau difrŷcheulyd cyn y caffent aelodaeth gyda hwynt, a'r rhai hyn oll wedi cymeryd eu "twyllo" gan ddyyn anlythfenog a dwl, aié, Mr. Rees? Os eu twyllo a gawsant, mawr fu eich esgeulusdod chwi tuag atynt am flynyddau, onide dysgasech

hwynt yn well na chael eu twyllo gan y fath ddynion a hyny! Mae un o ddau beth yn addefedig yn eich cyhuddiad yn ngwyneb y ffaith o'u llwyddiant, naill ai eich esgeulusdod chwi, neu ynte mai dynion anllythrenog yw y rhai mwyaf effeithiol i am-yhoeddi dynion. Yr olaf oedd wir gynt; er enghraifft, cofier "pysgotwyr" môr Galilea, a phabam nad felly yn awr? Wel, peidiwch ymfrostio o'ch dysgeidiaeth golegawl mwy ynte, ac na feiweh ar anllythrenogrwydd pregethwyr môr llwyddiannus. Pwy ond Mr. Rees a waeddai yn Nghapel Parks ychydig yn ol,---"Ni ddylid barnu dim cyn yr amser. Pan fyddom yn barnu yn mlaenllaw, mae eia baro yn anghywir, ac yr ydym yn tynu camgasgliadau." Ac y mae efe wedi gwirio hyny ei hun yn anlwg iawn drwy ei ddedfryd farwol ar y peth bach disylw hwnw sydd yn denu bryd a serch tua deg-ar-hugain o'r calonau gonestaf a doethaf sydd oddiamgylch iddo ef. Ie, a llawer o'i gapel ef hefyd, heb yn wybod iddo, debygid ar ei siarad ef. Ond y mae pobl Llanelli yn rhy gall, ac yn ystyried gormod o werth eu heneidiau i gymmeryd eu perswadio am y goleuni mai tywyllwch yw, ac am y gwirionedd mai twyll yw, serch bod holl offeiriad Itaal ar furiau Llanelli yn gwaeddi byny.

PONT-Y-BEREM. Mae yr henuriad Howell Williams, ac amryw ereill, yn llafurio yn llwyddiannus yn y cylchoedd hyn oddiamgylch. Maent yn cael gwrandawriad astud a lluosog, a llawer yn credu yr efengyl, ac yn galw am ychwaneg o bregethwyr. A da fyddai genym pe gallai rhai o'r offeiriad sy'n y cylchoedd hyn fyned yno i'w cynnorthwyo. Canmolant bobl y wlad hŷno yn fawr, am eu boneddigeiddrwydd a'u tirondeb. Bedyddiwyd saith yn y cylchoedd byny yn ddiweddar, yn ol a glywsom, a dysgwylwch glywed am ychwaneg yn feunyddiol.

CWMAMMAN. Mae dau henuriad, ac un offeiriad, wedi ymfudo yma i fyw ac i weithio, yn hwrpasof fel y gallont bregethu efengyl Crist yn rhad i'r bobl ddaionus hwy; a mawr y gwrandawriad a gânt, a'r sirioldeb a ddangosir iddynt gan bawb braidd; ac yn ol a glywwn o bob man arall bron, y mae y werin, ar ol bod cyhyd yn croesdymu o barthed i sectariaeth, wedi diflasu; a phan yr agorant eu clustiau i glywed yr efengyl dragwyddol hon, gwaeddant allan weithiau, "Dyma hi," ac atebwn ninnau, "Ie, gyfeillion anwyl, dyma hi," mewn gwirionedd! Dyma y grefydd ddwyfol yr ymchwiliech mor awyddus am dani; coffeidiwch hi, a chwi a gewch drysor y trysorau ynddi.

YSTRADGYNLAS. Mae yma a'r cylchoedd amryw wedi eu bedyddio hefyd, ac yn llawenhau yn eu breintiau. Mae yma bedwar o bregethwyr yn llafurio hefyd yn ddiwyd a gwrol.

CWMBYCHAN. Mae yma gynnydd cysson, ac y maent yn bedyddio yn fynych yn y cymmydogaethau. Mae yr holl swyddwyr mewn undeb a chariad drwy yr holl gynghor, a'r Saint mewn cariad yn mwynhau doniau helaeth, ac ar gynnydd parhaus.

SIR BENFRO. Mae yr henuriad J. Morris yn bedyddio yma yn awr ac eilwaith, ac weithiau yn nghanol erlidigaeth boeth a lluehio cerig; ond er y cwbl, yn mlaen yr a y deyrnas yma fel manau ereill, nes y bo pawb wedi cael cynnyg o honi.

CAERFYEDDIN. Canmolir sel a chariad y Saint hyn yn fawr i ni hefyd. a chlywsom ddartod i'r henuriad B. Jones fedyddio yno yn ddiweddar. Yn mlaen, yn mlaen Saint anwyl, y mae genych luoedd o bobl onest, ac ewyllysyr am y gwirionedd, o'ch hamgylch.

LLANYBYDDAR. Mae sel a ffyddlondeb y Saint hyn yn nodedig iawn yn ddiweddar, ac wedi bedyddio 10 neu 12 tua Brechfa, &c., er'g ychydig yn ol. Yr Arglwydd grasol, yr hwn a ddechreuodd y gwaith dwyfol hwn yn ein plith, a'i cyunyddo fwy-fwy, ac a dywallto yn helaethach o'i Lân Ysbryd ar ei Saint.

HYSBYSIAD.

MÆ genym ar werth nifer o gyfrolau o'r

CAPT. JONES AR FORMONIAETH, YN 1846.

Ar werth, newydd eu rhwymo, a gellir eu cael gy'ta'r Prophwyd, neu fel yr arweinir am y prisiau canlynol:—

				s.	d.
Wedi eu rhwymo mewn lliab yn hardd	3	0
" Hanner rhwymo mewn croen llo	3	6
" Mewn croen dafad	4	0
" Y goreu o groen llo yn gyflawn	4	6

- * * * *Atebir cwestiwn Thomas Jeremy yn y "Doctrines and Covenants," tud. 330.*
- * * * *Atebir D. Jones, Bagillt, yn "Doct. and Cov.," tud. 200. Hefyd yn y Prophwyd, Rhif. 12, tud. 92.*
- * * * *Erfynion ar ein holl ddothbarthwyr i ymbarotoi i settlo eu holl gyfrifon erbyn diwedd y flwyddyn, ac os bydd rhai llyfrau neu Brophwydi ar law na ellir werthu, i'w dychwelyd yn ol y pryd hyny.*
- * * * *Mae genym amryw o "Hanes y Saint," pris swllt, ar law, a go-beithiwn na fydd un o'r Saint heb feddu un o honynt.*
- * * * *Mae genym hefyd yr amrywiaeth o yn agos i ugain o fathau o draethodau o wahanol brisiau, o ddimai hyd dri swllt, pa rai a gyhoeddassom yn Gymraeg yn ddiweddar, ac a ellir eu cael os prysurwch.*
- * * * *Hefyd, amrywiaeth o lyfrau Saesonaeg, megys "Llyfr Mormon," a'r "Voice of Warning," "Millenial Star," yn ddwy wythnosol, 3c.*
- Crefwn amynedd ein Gohebwy'r ereill am ychydig etto. Un bach yw ein Prophwyd, a llawer o ymosod arno.*
-

C Y N N W Y S I A D.

Apostolion	149	Y diweddar Barch. John Wesley yn Formoniad	158
Adolygiad ar Ddarlith y Parch. D. Jones, Caerdydd	151	Y Doniau Ysbrydol	159
Dyfyniad o lythyr yr apostol O. Hyde	154	Catecism y Saint	160
Anerchiad at y Saint	155	Newyddion oddiwrth yr henuriaid ..	161
Arwydd y Prophwyd Jonah	157	Hynt yr Eglwysi	162

MERTHYR-TYDFIL :

CYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH HEFYD GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL.

PROPHWYD Y JUBILI,

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 17]

TACHWEDD.

[PRIS 2g.

ADOLYGIAD

AR DDARLITH Y PARCH. D. JONES, CAERDYDD, AR "AR-
DDERCHOGRWYDD Y GREFYDD GRISTIONOGOL."

(*Parhad o tudalen 154.*)

ER mwyn rheswm a chysondeb, peidiwch chwi a wòni "goleuni yr haul," tra wedi eich geni yn ddall, ac heb ddyfod i weled dim o'i oleuni etto. Na feddyliwch fod hyn yn ddywediad rhy galed, Mr. J.; canys eich gweithrededd sy'n ei brofi. Mae eich addefiad na chawsoch afael ar ffynnonell y goleuni (sef drwy ysbryd y goleuni), ond ei changymmeryd am y llyfr, a gwadu ysbryd y datguddiad, yr hwn yn unig a oleuodd y Saint gynt, yn ffaith hefyd i brofi mai un o blant y nos ydych. A chan i chwi addef cisoes, fod gan "Joe" oleuni o'r un rhyw â goleu yr haul, gwell i chwi dderbyn hyny bach i ddechreu, nag aros yn y tywyllwch dudew yna yn hwy. Mae llwybr y cyfiawn fel y goleuni, yn cynnyddu fwy fwy hyd ganol dydd; goleuni canwyll fach a gaffai y Saint bach ieuanc gynt, yr hwn a gynnyddai, ac efallai mai felly goleu canwyll "Joe." Mr. J., peidiwch a cheisio ei diffodd, ynte, canys nid oes perygli'r dyn gonest gael gormod o oleuni; twyllwyr sydd yn arswydo rhag y goleuni, fel yr arswydwch chwi rhag canwyll fach "Joe." Nid rhyfedd i chwi waeddi mor uchel "gwrthodwch ei ganwyll, &c.," canys i'r graddau ag ei meddid dynoethai eich cyfeiliornadau chwi ac ereill; ond y syndod mwyaf oedd clywed dyn oedd a'i ddau lygad yn nghauad, ac yn nghanol y ddunos, yn gwaeddi nerth ei ben, "deuwch i oleuni haul!" Ac erbyn dyfod yno, beth oedd ei haul ond llyfr yn desgrifio yr haul a welai rhyw rai ereill er ys deunaw can mlynedd yn ol! Dychymygaf glywed rhyw un a feddai ronyn o *common sense* yn ceisio ei berswadio i ddod allan o'i dwll

du, ac agoryd ei lygaid, y caffai weled yr un haul yn awr ei hunan; ond gwrthoda y gwahoddiad, gan haer fod y llyfr wedi ei osod yn lle yr haul, nad oes eisiau yr haul yn awr, ac nad oedd i oleuo ond trigolion yr oesoedd hyny yn unig; a bod darllen am dano yn "*ardderchocach*" yn awr na mwyniant o hono. A haera yn eofn, mai celwydd a ddyweda y llall, er fod ei lygaid yn gweled yr haul: a chawsai yntau ei weled, ped agorasali ei lygaid, ond er gwaethaf pawb ni wuai, rhag i ereihl ddeall ei ddallineb blaenorol! Felly gwel gan Mr. J. berswadio pawb i aros yn y tywyllwch, na dyfod i oleu canwyll i ddechreu, yr hwn a gynnydda hyd nes y delo haul y cyfiawnder ar y cyhoedd, a llanw y byd o oleuni a gwybodaeth o Dduw, fel y toa y dyfroedd y môr. Wel, y mae truenf drosto, canys colledu ei hun y mae, druan! Yn nesaf, sylwer ar wceddi Mr. J. "*Diffodded canwyll Joe fel y diffoddodd yntau.*" "*Canwyll Joe,*" yw ei grefydd ef, o anghenrhaid; canys y mae goleuni ei ganwyll ef yn awr yn Dowlais, yn dychrynu ac anesmwytho Mr. J. a'i frodyr yn rhyfeddol. Yn nesaf, sylwer pa fodd y "*diffoddodd* (sef y bu farw) Joe?" Gwyddai Mr. J. a gwyr y byd, ie, gwyr y nefoedd hefyd, mai ei sathru gan lofruddion gwaedlyd a gafodd yn ngharchar Carthage, oherwydd ei grefydd. Wel "*felly*" mewn effaith y gweddia y "*Parchedig*" "*efengylaidd*" hwn ar bobl Dowlais, i ladd y Saint yn Dowlais, a phawb yn mhob man ag sydd yn profïesu yr un "*goleuni*" ag oedd gan Joseph Smith! Lladdwyd J. Smith ar ol rhoddi ei hun i afael a thanydd y llywodraeth, er mwyn cael arholiad teg; canys gwyddai y cyfiawnhasai cyfraith y wlad ef, a gwyddai ei lofruddion hyny; ac felly saethasant bedair o fwledi drwyddo ef a'i frawd cyn cael arholiad. Wel, *felly* y gweddiai Mr. J. yn ei ddall ef, am i ninnau gael ein llofruddio yn ein gwlad ni, oherwydd ein crefydd, ac heb gael arholiad. Dynion yw y canwyllau a ddanghosant ei oleuni yn ol cymhariaeth Mr. J. ac felly dynion a ddymuna efe ladd fel y lladdwyd Joseph Smith, ac nid ei oleuni, sef ei grefydd: canys ni ellir lladd hono drwy yr un "*fel*" heb hyny. Gwyddom trwy brofiad fod ugeiniau o'r rhai a broffesent yr un grefft hregethwraidd ag yntau, ac o dan ddyfanwad yr un Ysbryd, wedi blaenori byddinoedd gwaedlyd o'r *mobs* i ladd ugeiniau o'n brodyr anwyl ni yn yr America. Ie, hwyntawy oedd yr achoswyr cyntaf o'r erledigaeth yuo, megys y maent yma; hwy a barhasant i chwythu eu celanedd a'u camgyhuddiadau o'r pwlpuadau, &c., nes cael plaid o'u canlynwyr yn ddigon creulon i'w dilyn hwynt i ladd y Saint, a Mosgi eu tai uwch benau rhai ereill, ac alltudio miloedd o wlad eu genedigaeth heb arholiad na thrugaredd; ie, y Peirch. a wnaeth hyn oll; a hwy a gant y pleser o yfed gwaddod y cwpan erchyll o waed gwirion a lanwasant iddynt eu hunain. Ac etto, ceir brodyr undad iddynt, hyd yn nod y Nghymru oleu, "*yn ngwlad y Biblau,*" a "*gardd Cristionogaeth,*" yn gweddio o bwlpudau am gyflawniad o'r fath *wholesale butchery* ar eu cyd-ddynion! Yn ceisio cau clustiau y werin rhag ein gwranddo,—cau eu capeli rhag y rhai o'u haelodau a ddenant i wrando:—yn codi 6c. yr un oddiar eu cyd-ddynion: am gael dod i'w capeli i'n clywed ni a'n creidydd yn cael ein camgyhuddo! Ie y dynion hyn, wedi gwneyd pob peth a allant, yut yn ceisio cau y Wasg rhagom, a'n hamddifadu o ryddid hyd y nod yr unig ffordd a'r a wyddom am dani yn y wlad, sydd yn rhydd i gyhoeddi dim i ni. Ac yn awr maent yn cyflawni y *picture* o'u herlidigaeth erchyll, drwy weddio ar i ni oll gael ein llofruddio fel y

cafodd Joseph Smith!! Ai tybied na buasai y "*court of inquisition*" pabaidd gynt yn gwirio, cyn gollwng y fath frawddegau dros eu pwlpudau? Darllenwch hi ar bapyr o flaen eich llygaid, a llygaid y cyhoedd, Mr. J. "Diffoddod canwyll Joe fel y diffoddodd yntau," aie! Coffeir y frawddeg lion, Syr, a choffeir am ei hawdwr gan Saint duwiol, pan ym-drybaeddu yn eu gwaed rhwng mynyddoedd Cymru, ond odid. Coffewch chwithau, Syr, am dani, a bydd yn argraffedig ar gapan drws eich carchar tragwyddol, oni alwch hi yn ol ac edifarhau o'i herwydd, cyn iddi esgor ar ei herthygl gwaedlyd, sef tywalltiad gwaed gwirion. O Gymru anwyl! Beth yw y mater? Dysgeidiaeth fel hyn yu dylifo o bwlpudau ein gwlad! Beth! yn yr "oes-oleu hon?" Beth fydd y canlyniadau cyn hir? bywyd pwy fydd yn ddiogel? Ust! braidd y mae griddfannau, a llais ein tadau trancedig pa rai a ferthyrwyd yma, wedi darfod adleisio ar galch greigiau ein gwlad,—y mae eu beddau hwy etto yn newydd dan ein traed; ac adfeiliadau y crogbrenau, y carcharau, a'r allorau lle eu haberthwyd hwynt, yn syllu yn ein llygaid etto. Ac er hyn oll, wele o'u plant eu hunain rai yn ceisio chwythu gwreichion yr hen farwor i losgi eu brodyr unwaed am eu crefydd. A gwaeth etto, gwnant hyn oll dan y fantell o "gristionogrwydd." Ie dyna yw "ardderchogrwydd Cristionogaeth," ebe y dynion hyn. O baganiaeth, cuddia dy allorau rhag cywilydd; canys nid yw dy ebyrth *anifeilaidd* i'w cystadlu ag ebyrth *dynol* y bobl hyn! Paham son ani y *chwil-llys* pabaidd, y derwyddon, na Juggernaut ei hun mwy, canys *devisiad* y dioddefyddion hyn a wneid; ond, am allorau y rhyw hon o "Gristionogaeth," nis digonir hwynt-ond â gwaed Saint, heb dreial nac amddiffyniad! Ac er cymmaint a ddrachtiodd o waed ein brodyr a'n chwiorydd duwiol tuhwnt i'r môr, wele y mae ei hoffeiriaid yma etto yn sychedig am yr eiddom ninnau. Ac y mae eu geneuau agored fel y bedd *yma* etto, yn gwaeddi "*moes, moes.*" Os gofynir "*moes*" pa beth, ceir yr áteb gan Mr. J. a'i bartneriaid, sef "*moes*" i ni ychwaneg o aberthau. "*fel*" Joseph Smith, fel y gwneler yr un fath â hwynt. Diolchwch a'ch holl galon, chwi Saint anwyl, am gyfreithiau gwladol, i'n hamddiffyn rhag allorau ac offeiriaid y "Gristionogaeth" waedlyd hon!

Onid at y bobl hyn y cyfeiria yr apostol pan y dywed "oherwydd y rhai y ceblir ffordd y gwirionedd?" Diau fod lluoedd yn ein gwlad yn dweyd, wrth weled gweithredoedd anghristionogol ei phroffeswyr, ac wrth glywed darlithoedd a phregethau erlidgar y rhai a honant fod yn dysgu "Cristionogaeth," "Rhodder i ni anfyddiaeth yn hytrach na'r Gristionogaeth yma." Paham ymdrafferthu i adolygu haeriadau dyn mor waedlyd â hwn? Nid ystyriem yn werth sylw oni buasai eu honiadau o gristionogaeth, a'u dylanwad i waradwyddo y grefydd ddwyfol hono, ac i amddifadu ein cyd-ddynion o'r bendithion. Mynych y bloeddiad y darlithiwr hwn hefyd am goffeidio Cristionogaeth yn hytrach na Mormoniaeth, a pheidio cyffwrdd â Llyfr Mormon, ond i ddarllen y Beibl. Beth; onid ceisio gan y bobl guedu nad ym ni yn credu y Beibl yw hyn? Ond diolchw i'w "frawd" o'i flaen am addef ein bod ni "yn credu yn H:n Destament," serch i hwn wadu hyny. Profed ein gwaith yn amddiffyn egwyddorion yr Hen Destament a'r Newydd, rhag gwadiad a gwyrddroadau yr ymosodwyr hyn arnynt, pa un a ydym yn credn yr ysgrythyrau, a'i nad y'm: a thystied hyuy a'i nynt ynte ein cyhuddwyr yw yr infideliad, y twyllwyr, yr *idots*, y *s.t.*niaid, y *baboons*, a'r

mwnkeys, ie, a phwy a deilynga yr holl gamenwau ereill a roddant ar-noin ni. A barned y darllenydd a'r cyhoedd, ai genym ni, ynte lwy, y mae y gristionogaeth ardderchog a ddesgrifia yr ysgrythyrau; canys wrth ei ffrwythau fyth yr adnabyddwch hi. Os ei ffrwyth hi yw difenwi eu cyd-ddynion a'r enwau parclus uchod; os ei ffrwyth yw gwadu ysbryd y datguddiad a holl ddoniau ardderchocaf Cristionogaeth, yna ganddynt lwy y mae hi. Os yw Cristionogaeth yn dysgu dynion i erlid, i gaethiwo rhyddid y Wasg, ac i godi terfysg, ac i annog dynion i lofruddio eu gilydd o'i herwydd, yna yn rhwydd yr addefwn mai hwy yw y Cristionogion, ac nad yw y Gristionogaeth Formonaidd yn gwybod dim am y pethiau yna, nac yn dewis deall dim byth am grefydd a ddug y cyfryw ffrwythau. Ac awdwr mawr Cristionogaeth y Saint a'u gwaredo hwy a phawb, rhag y crafangau ac allorau y fath grefydd a'i hofferiaid. Ond os gwir geiriau yr hwn a ddywedodd, "chwi a fyddwch gas gan bawb er mwyn fy enw i." Os gwir yr egwyddor a ddysgodd sylfaenydd Cristionogaeth, sef "y neb a fyddo byw yn gyfiawn yn Nghrist Iesu a erlidir." Ac os "anghyfnewidiol" y grefydd hono fel yr addefodd Mr. Roberts, yna gwir yw mai y "Mormoniaid" yw yr unig Gristionogion a geir yn Nghymru; ac os anghyfnewidiol y pren, felly y ffrwyth. Ffrwythau Cristionogaeth gynt oedd y "doniau ysbrydol," pahan nad felly yn awr? Ffrwyth arall y pryd hyny oedd, bod holl Phariseaid a gaugrefyddwyr yr oes yn ei chondemnio am dwyll, ac yn difenwi ei phroffeswyr am gau-brophwydi, dynion cythreulig, bradwyr yn erbyn y llywodraeth, penboethiaid, dynion annysgedig, ac ysgubion y byd, a sorod pob dim, &c. Pahan nad yr un Gristionogaeth sy'n achlysur i'r cyfryw ei herlid mor debyg yn yr oes hon? Ystyria, ddarllenydd hynaws, onid yw crefydd y Saint yn dwyn ffrwythau go debyg i'r Gristionogaeth gyntefig? Oni bai ei bod hi o ddwyfol darddiad, nid tebyg y buasai dynion fel hyn yn ei herlid gymmaint. Da y cynghora yntau i goffeidio y Beibl, ac felly y dywedwn ninnau a'n holl galon, ond etto, meddwn, y mae cymmaint o wahaniaeth rhwng gwaeddi "coffeidiwch y Beibl," a choffeidio yr athrawiaethau a ddysga ag sydd rhwng "Cristionogaeth" Mr. J. a chrefydd y Beibl, neu Formoniaeth; a'r neb ni wela y gwahaniaeth hwn, tosturiwn wrth ei gyflwr. Ond, digon bellach o'r fath gaugristionogaeth. Chwilier yr ysgrythyrau, se ufydhaer i'w gorchmyn-
 i'w ddyfol, ac yna profa Duw mai gwirionedd yw "Mormoniaeth," ac mai gan y Saint y mae "Ardderchogrydd Cristionogaeth," drwy gyfranau ei haddewidion a'i doniau dwyfol i'w feddiant. A addawa ein herlidwyr hyn? O, na wnant; hyny sydd am na feddant ysbryd "Cristionogaeth," na'i "*grym hi*."

Dy ysbryd, Arglwydd m: wr—

O anfon ef i lawr—i'm nefolhau;

Fel bo gwageddan'r byd,

Yn marw yn fy mryd,

A chwantau cnawdol, gydag ysbryd gau.

Cyfeiliornadau 'm hoes—

Dy air i'r rha'n sy'n groes:—a mo s i mi

Ryw adnewyddol nerth,

I'w gyru draw yn gerth,

A dangos hefyd werth—y aberh di.

DYFYNIAD O LYTHYR JOHN BOWEN O'R LLWYNI.

CREFWYN addefiad i gyhoeddi y llythyr canlynol, oherwydd yr hyn yr egwyddor a gynnwysa; er nad ysgrifenydd ef i'w gyhoeddi. Hawdd canfod oddiwrth ymchwiliad ei awdwr i'r ddwy ochr. pa un ai Bedyddiaeth ynte Mormoniaeth yw gwir Gristionogaeth. Gwelir hefyd effeithiau andwylol yr awduron sy'n cyhoeddi pob sothach yn erbyn y Saint.

“Anwyl Frawd,

“Y newydd goreu sydd genyf i'th hysbysu, yw fy mod i wedi cael fy medyddio “er maddenant pechodau,” gan Saint y Dyddiau Diweddfaf, er dydd Sadwrn, wthnos i heddyw. Cofus genyt, fy mod i yn eu herlid yn selog pan ysgrifenis y llythyr blaenorol; gwnaw hyn o gydwybod, ac o sel dros eglwys Dduw, debygaswn i, a charedwn fy mod yn gwasanaethu Duw drwy hyn. Yr achosion a'm cynhyrfodd i hyn oedd ddarfod i mi glywed cymmaint yn eu herbryn o'r pwlpudau, ysgolion, ac hefyd o'r cyhoeddiadau misol, yn enwedig y *Bedyddier*, o'r hwn yr oeddwn yn ddsparthwr. Yn awr, yr wyf yn gwybod mai camgyhuddiadau yw yr off, braidd, a ddarllenaswn i'w herbryn; a mawr yw fy ngofid ddarfod i mi ioddi coel iddynt cyn chwilio drosyf fy hun. Yn awr, wedi i Dduw o'i ras a'i ddaioni ganiatau i mi amser i edifarhau, am galw “o dywyllwch i oleuni. ac o feddiant Satan i deyrnas ei anwyl Fab,” sef i eglwys y Saint, dywedaf fi fel y dywedaist tithau wrthyf droion. “Diolch i Dduw am y tro.” Dywedaf wrthyf ddarfod i Dduw roddi tystiolaeth i mi trwy ei Ysbryd Glân y tro cyntaf yr aethum i eglwys y Saint, “fod yno dy i Dduw a phorth i'r nefoedd.” Mae amryw bethau yn tystio i mi mai eglwys y Saint yw gwir eglwys Iesu Grist; hehlaw fod yr arwyddion ag a addawodd Iesu Grist yn canlyn y credinwyr yma, y mae ymdrechadau unfrydol yr holl eawadau ereill, braidd, i'w herlid â chelwyddau, yn profi nad ydynt hwy o'r hyd, onide y byd a garasai ei eiddo ei hun. Achosodd dy waith yn tystio mor ddirifrol wrthyf fod y Saint yn feddiannol ar y doniau ysbrydol. i mi fanwl chwilio yr ysgrhythrau pa un a oedd hyn yn addawedig, ynte, fel y dywed ein dysgawdwyr ni oll, braidd, sef, “Nad oeddynt i barhau ond hyd ddiwedd yr oes apostolaidd, a hyn er sefydlu Cristionogaeth, ac nad oes en heisiau yn awr, &c.” Nid cyn i mi ddysgu credu yr ysgrhythrau eu hunain yn hytrach nag esponiadau dynion arwnt, y galluogwyd fi i'w ddeall. Darllenais Marc xvi; Act. ii, 38, 39; Rhuf. x; 1 Cor. xii; Eph. iv; a llawer o fanau ereill. lle y sonir am y doniau ysbrydol; a rhyfeddwn yn fawr at fy nallineh blaenorol, yn methu a gweled yr anghenrheidrwydd anheggorol o'r doniau ysbrydol, a'r cynllun apostolaidd er bod yn eglwys i Dduw, yr hyn sydd yn amlwg i mi yn awr; ac yn y fan “nid ymrysonais â chig a gwaed,” ond hysbysais i'm brodyr y *Bedyddwyr* fy mhenderfyniad i'w gadael hwynt, ac i ymuno â'r rhai a gredwn yn debycach i'r gwirionedd. Pan glywsant hyn; ac er i mi eu gadael am coron ar fy mheu, etto ni chefais gymmiant o erlidigaeth gan bawb yn ystod yr wyth mlynedd ag y bum gyda y Bedyddwyr, ag a ddioddefais ganddynt hwy yn yr wythnos hon eisoes. *Maddeued* y Duw grasol iddynt. Y rhai a broffesent fod yn gyfeill-

tion anwylaf gynt yw'm gelynyon penaf yn awr, a hyny yn traig oherwydd i mi ufyddhau i orchymynion Iesu Grist yn ol yr ysgrhythrau; ac yn hyn gwirir geiriau Crist, sef "Chwi a fyddiweh gas gan bawb er mwyn fy enw i." Ystyriaf yn awr ddarfod i mi golledu fy hun yn fawr drwy oedi ymuno â'r grefydd hon cyhyd, ac y mae tosturi yn llanw'm ealon yn awr, pan ystyriwyf gynnwfer o gunnoedd a ddiehon fod o'm hen frodyr etto, yn yinguddio yn y noddiau eelwyddog a gyhoeddwyd yn erbyn y Saint; a'm ddymuniad earedicaf ar bob un ohonynt ydyw yn ngeiriau Iesu Grist wrth Nathanael, "*Dyred a gwel;*" a sicrhaf na sionwir neb gonest ei egwyddor sy'n chwilio am y gwir, ag a ddelo i eglwys "Saint y Dyddiau Diweddaf;" canys y mae Duw gyda hwynt mewn gwirionedd. Buan y delo ein cenedl yn gyfan i gofleidio y grefydd odidog hon, yw'm gweddi.

"Mae Dafydd a minnau yn dy anerch di a'th deulu ynghyd a'r holl Saint yna.

Ydwyf, dy anwyl Frawd,

JOHN BOWEN."

BEDYDD.

MAE cymmaint o ddadleuon wedi bod rhwng doethion y gwahanol bleidiau, a chymmaint wedi ei ysgrifenu gan y naill ochr a'r llall o honoynt, fel nad ystyriwn yn fuddiol sylw llawer ar y pwnc hwn yna; nid oherwydd nad oes ychwaneg genym i'w ddweyd nag a ddarllenasom ganddynt hyd yn hyn; nid am nad ystyriwn y dull o bwys mawr i'w iawn ddeall a'i arferyd ychwaith; ond oherwydd y fod genym ffordd well, sicrach, a byrach o lawer i derfynu yr hen ddadl hon, ac er ei bod yn ffordd hen iawn, etto y mae yn newydd hollol hyd yn ddiweddar i'r oes hon. Dyma yw profi y naill mor deg a'r llall, a'r hon a gymmeradwyir gan Dilw, a hono yn unig a ddug y dyn gonest ei egwyddor yn feddiannol ar y doniau ysbrydol a addawodd Crist, Marc xvi, 17, 18, fel yr addawodd Crist,—“Od oes neb yn ewyllysio *gmeuthur* ewyllys fy nhad, efc a gaiff *wybod* am y ddysgeidiaeth, ai o Dduw y mae. ai myfi o honof fy hun sydd yn llefaru,” ac yna, os na rheir yr addewidion a roes Crist i'r gwir fedyddiedig drwy y naill fedydd ar ol treial teg, cyngorwn bob dyn i dreio rhyw fedydd arall, ac felly o hyd nes y caffo afael ar y drefn a'i dug i afael a mwyaf o oleuni a bendithion. Gwrthwyaeba rhai hyn, oherwydd fod yr ysgrhythyr yn dweyd mai “un bedydd” sydd. Atebwn ein bod yn deall mai un *gwir* fedydd dwf er maddeuant y sydd; ac yn ngwyneb fod pob un yn honi mai eu bedydd hwy yw yr un hwnw yr anogwn bawb i gymmeryd eu bedyddio, nad waeth pa mor aml hyd nes y caffont yr un iawn yn sicr. Canys ni waeth pa mor aml neu anaml y caiff dyn ei fedyddio i'r ffurfiau ereuil, ni ddiehon gael ei ystyried yn fedydd yn ngolwg y nefoedd, oddieithr ei fod yr unig un hwnw a orchymynwyd gan awdwr y drefn. Bod dyn yn ufyddhau i ryw beth a eilw rhyw ddyn yn fedydd, ac ymorphwys arno nes gwrthod un gwell sydd annoeth, oherwydd pan geir gafael ar y gwir fedydd, profa hwnw ei hun, yn annihynol ar dystiolaeth ddynol; neu yn hytrach profa ei awdwr ef yn wir, trwy gyfranu y hendithion; a hod yn amddifad o'r cyfryw fendithion oll, ar ol cael eiu bedyddio yw adaeaf naill ai mai a rhyw

gau-fedydd y'n bedyddiwyd, neu y fod addewid Crist yn ddirym. Hefyd nid ym ni yn credu y fod Duw wedi meddwl i'r Beibl fod yr unig ffordd i ddynion ddyfod i adnabyddiaeth o'r gwirionedd. Dealler ni yn iawn! Ni feddylodd Duw i'r byd fod, ni ddychymygodd yr apostolion y buasai y 19eg ganrif heb un reol eglwysig well na'u hysgrifeniadau hwynt. Gyda phob parch atynt, a chrediniaeth ynddynt, y dywedaf hyn yn eu geiriau eu hunain. Dywedent hwy mai yr eglwys (nid y Beibl) yw colofn a sylfaen y gwirionedd. 1 Tim. iii, 15.

Prif arweinyddion yr eglwys oedd y swyddwyr, pa rai oeddynt, ac a fyddant yn ysbrydoledig tra y parhao yn eglwys i Dduw, ac felly caffent eu dysgu pa fodd i weinyddu yn y bedydd, ac yn mhob ordinhad arall, nid gan ryw hen ysgrifeniadau o eiddo y tadau, nad faint o esiamplau llesol, ac o gynghorion buddiol a fyddai ynddynt; nid dyna eu safon, ond Ysbryd Duw yr hwn a ddygai bob peth ar gof iddynt ag a fyddai yn orchymyn ar orchymyn, llin ar lin, yma ychydig, ac acw ychydig, yn ol eu heisiau, dogn dydd yn ei ddydd. Dyma'r achos fod y dull o weinyddu ordinhadau ereill heblaw y bedydd mor anamlwg yn yr ysgrythyrau.

Etto am fedyddio fwy nag unwaith, nid yw hynny ddim yn gwneyd mwy nag un bedydd pe baid yn bedyddio ganwaith, ddim mwy nag y mae myned drwy yr un drws ganwaith i dy yn ei wneyd yn gant o ddrysau. A phe bai dyn wrth geisio myned i dy cyfaill wedi myned drwy ryw ddrws i dy arall, a fyddai hynny yn ddigonol ei fod wedi myned drwy ryw ddrws? Os na fyddai, ni fyddai ufydd-dod dyn i'r hyn a alwai rhai yn fedydd, yn ddigonol er myned i mewn i deyrnas Dduw; canys yu nheyrnas rhyw un arall y byddai yn ddiau, neu byddai fel y dywedodd Crist, wedi dyfod ryw ffordd arall heblaw drwy y bedydd iawn, neu y drws cyfreithlon, a chaffai groesaw lleidr neu yspeiliwr. Mae y dyn a ddilyno y cynghor hwn ac a brofo bob math o fedydd nes cael yr un cywir, yn fwy rhesymol o lawer er ei les, na'r *bigots* a wrthoda y cywir, oherwydd ei flug eu hun.—*Allan o'r Eur-grawn Ysgrythyrol.*

ERLIDIGAETH DOWLAIS, A'R LLES A WNAETH.

MAE YR ystorom fygythiol a hunanymgynhyrfiol a fu yn y dref hon a'i chylchoedd yn ddiweddar, eisoes wedi myned heibio, a llewyrch goleuni efengyl y tangnefedd yn ymddysglaerio yn fwy tanbaid nag erioed. Mae llawer o'r rhai a goelient regfeydd "Simei" wedi diflasu ar ei ystoriau anwireddus a chabledus, ac yn dywedyd fel y dywedodd rhai pryd hynny, Beth a wna y ci hwn yn cyfarth, fy arglwydd? Ac yn awr, pan y caiff yr ail feddwl le ar yr orsedd, dywedant, gadewch iddynt chwydu allan eu hailendid hyd nes y delo eu hynfydrwydd yn amlwg i bawb.

Meddylid wrth wynt y fegin fawr o Dowlais yn y *Seren Gomer*, yr *Amserau*, &c., fod y gwreichion a chwythai efe i ddechreu wedi cynnyddu yn filam enynol erbyn hyn, a'i bod yn difa "Mormoniaeth" yn ulw, fel na bydd ond ei lludw yn ngweddill yn fuan. Ac ni welsom ddim tebycach na hyn i'r meddwyu a ddaeth i'w dy, ganol nos, a

chan chwilio am y tân gwelai oleu y lloer yn tywynu trwy dŵll y clo, cipiodd y fegin, ac yno y bu yn chwythu heb weled ei gamsynied nes sobri! Felly y mae y rhai hyn yn chwythu eu megyn fawr a'u meginau bach yn mhob twll clo, capeli, a thai, y caffont tua Dowlais, ac mor hollol ofer a'r meddwyn; canys, nid Mormoniaeth sydd o flaen eu meginau nawy nac yr oedd tân o flaen megyn y meddwyn. Myna y *ringleader* anwireddus a chreulon o'r erlidigaeth hon i ddarllenwyr y *Seren* goelio bod *Mormoniaeth* wedi cael "homestroke am byth yn yr ardaloedd hyn," i.e. haera mai dyma yw "penderfyniad pawb o'r gwrandawwyr yn unfryd." Pa fodd y gwybu efe hyn tybied, os oedd yno gynnifer o filoedd ag a awgryma efe? Ond gwyddom ni, a gwyr cannoedd os nad miloedd y ffordd hyn yn amgenach na hyny; a dywedwn hefyd na chlywsom gymmaint o feio ar ddim erioed ag a feia y gwrandawwyr ar y darlithoedd hyny yn erbyn Mormoniaeth, ac y mae lluoedd wedi diflasu ar y fath sothach croes-haeriadol a glywsant yno, ac yn chwilio i mewn i egwyddorion y grefydd ddwyfol a gamgyhuidd mor erchyll. Amser a brawf fod pob peth, a hyn hefyd, yn cydweithio er daioni i'r efengyl dragwyddol hon. Gwelir enghraifft o haerllugrwydd digywilydd yr erlidiwr anwireddus yn cyhoeddi yn y *Seren* fod "dau o brif flaenoriaid y Mormoniaid wedi eu gadael hwy yn yr wythnos ganlynol, ac ereill gyda hwy," ebe efe. O mor dda fuasai ganddo pe gwir hyn. Ond dywedwn ninnau mewn gwirionedd, mai anwiredd hollol yw hyna, a sicrhau na adawodd yr un o flaenoriaid y Saint hwynt wedi hyny; naddo, ddim un math o swyddog eu gadael, nac arwyddion o hyny ychwaith! Ac am un o'r ddau aelod ag y cyfeiria fu yn cynnal cyfarfodydd, &c., ni fu efe erioed ond mewn un neu ddau o fwyaf o gyfarfodydd eglwysig y Saint; a dybenion drwg ac anonest oedd ganddo yn dyfod y pryd hyny, sef i geisio achlysur i gamgyhuddo ger gwydd y byd. Yr oedd efe wedi cael ei ysgynuno rai misoedd cyn y darlitho a fu yn Caersalem. A gwelir tuceddiad enllibaidd y gwr cyfeiriedig yn yr hyn a ganlyna:—Cynnelid cyngor dirgelaid yn Dowlais gan brif flaenoriaid yr erlidwyr er dyfeisio cynlluniau i erlid y Saint diniwed; yn mhlith ereill yr oedd rhai a ysgymynasid oddiwrth y Saint, oherwydd bucheddau anghristionogol, yn aelodau o'r cynghor. a'r gwr cyfeiriedig yn neillduol, pan y bu yr ymddyddan canlynol.—Fel y dywedai pob un ei ystori erchyll a chelwyddog yn ei dro; er dethol y rhai goreu i'w hadrodd yn eu cyrddau cyhoeddus, dywedodd yr *Iscaiot* hwn ei fod ef wedi gweled ei yn nghwrdd y Saint, wedi ei wisgo mewn gwyn. a'i addurno yn hardd iawn, a hod y Saint yn dweyd mai angel oedd, &c. Ond yr oedd hyn rhy erchyll gan un arall oedd ar ei bwys, a'r hwn a fuasai gyda y Saint yn hir, i'w oddef; ac efe a'i cyhuddodd i'w wyneb mai celwydd hollol ddisail oedd hyny. "Taw, taw," ebe yntau, "pa waeth beth, rhaid dweyd celwydd arnynt, onide ni lwyddwn, ac ni fydd genyf ddim i'w ddweyd, onid rhaid Mr. Llywydd?" "O rhaid siwr," ebe y llywydd, "nid yw ods beth yn y hyd, am y dirmyga y Seintiau!" Ie, dyma y tystion a goelir gan y rhai sydd o'r un chwaeth, er yn groes i dystiolaeth ugeiniau o bobl eirwirach, pa rai sydd gyda y Saint. Paham coelio camgyhuddwyr yn awr nawy nac y credir y gwrthgilwyr oddiwrth enwadau ereill?

Gwarth goleu oedd gwrthgilio,—ond os Sant,
 Nid oes neb a'i beio;
 Pawb rydd fryd i'w ergyd ô,
 Y gelyn gaiff ei goelio.

Am y gwrthgiliwr arall y cyfeiria ei fod yn "flaenor," ac yn llefaru a thafodau, &c., ar hyc yr heolydd. Gwir i un aelod ieuanc a gwan iawn gael ei hudo gan yr erlidwyr drwg i dafnu ei "emau o flaen y moch," ac i adrodd pethau mor santaidd, a llefaru a "thafodau dy-eithr" o flaen y cŵn, a'r eanlyniad a fu fel y dywedodd Iesu Grist yn gywir, "iddynt droi a'u llarpio hwynt." Pa dystiolaeth gadarnach na hyn sy'n bosibl gael fod y Saint yn mwynhau y doniau ysbrydol ag a fwynheid yn eglwys Crist gynt, a pha rai a addawa y Testament Newydd i'r eglwys, tra y bo yn eglwys i Grist? Wele addefiad ein gelynyion professedig o hyny, ac enghreifftiau o honynt ar gyhoedd!! Wel, gobeithiwn bod hyna yn ddigon i'w diesgusodi os parhant i'w gwrthod ynte. Heblaw hyny, y mae y dyn cyfeiriedig wedi dyfod i weled ei bechodau, ac i edifarhau yn ddwys oherwydd iddo gymmeryd ei berswadio i wneyd y fath gamddefnydd o bethau santaidd. Ac oddiar dystiolaethau credadwy hysbyswn ei fod ef yn deisyf yn daer am beidio cael ei ysgymuno o'r eglwys. Ac felly, y mae buddugoliaeth boneddig Mr. Davies, ac ereill, yn anwireddus bob gair, ie, fel nad oes hyd yn nod un aelod, llawer llai "dau flaenor ac ereill," wedi gadael y Saint etto. Ond, y gwir yw, yn lle bod y Saint "*yn felldith ac yn rheg,*" fel y dywed Davies, a bod rhai yn eu gadael yn Dowlais, nid oes gymmaint ag un wedi eu gadael er pan ddechreuodd yr erlidigaeth olaf hon! Ac yn mhellach etto, dealled y hyd fod *llwyddiant a chynydd mwy yn mhllith y Saint, hyd y nod yn Dowlais, er hyny nâ chynt!* In lle bod ein cyrddau wedi myned i'r ddim wedy'n fel y dywedir, tystia y cannoedd a ddeuant i wrando fod ein Neuadd yno yn llawnach o wrandawwr boneddigaidd nae y bu erioed, ac mor bell o fod wedi cael yr *home stroke*, ac yn darfod, y mae rhai, mwy neu lai, wedi cael eu bedyddio genym yn Dowlais bob wythnos er y cythrwfl cyfeiriedig; a'r neb a amheua, caiff weled ar lyfrau ein heglwys nad oes gymmaint ag un wythnos wedi passio er hyny hyd yn awr a'r nad oes rhai o'r newydd wedi cael eu derbyn yn aelodau eglwysig gyda y Saint yno; ac amser a brawf fod y cwbl, ie, y gwaethaf a alla ein gelynyion wneyd a dweyd, er lles a lledaeniad ein crefydd, lluosogiad ei deiliaid, ac er cadarnhau y Saint mewn mwy o undeb a chariad. Diolchwn i'r hwn a bia y gwaith dwyfol, ac nid i'n herlidwyr, ac erfyniwn nerth ganddo i barhau ynddo yn amyneddgar a diwyd hyd ddydd dyfodiad ein Harglwydd.

Frodyr anwyl, a chwiorydd,
 Dyma grefydd Iesu Grist,
 Wedi ei danfon i dylodion,
 Pwy a ddichon fod yn drist?
 Dyma 'r ysbryd a addawyd,
 Dyma wynfyd mawr ei werth,
 Mae y doniau dan eu henwau,
 Gyda minnau yn ei nerth.

DESGRIFIAD O CALIFORNIA.

DYFYNWYD YR HŶN A GANLYNA O LYTHYR O'R WLAD UCHOD, A'R HWN A GYHOEDDWDYD YN Y "*New York Herald*:"—

"O barthed i California (ebe un hanesydd), er cymmaint a ganmolwyd arni, ni ddesgrifiwyd yr hanner o'i manteision, ei hinsawdd, a'i ffrwythlondeb—gwlad yw a ddarparodd rhagluniaeth yn Eden i blant rhyddid. Etto, y mae yma anghau llawer o bethau er rheoleiddio y haradwys hon yn drigfan ddedwydd i ddyn; gwir fod yma enw o lywodraeth eisoes, ac enw yn unig. Nid yw yr Hispaeniad penaf yn y wlad yn deall beth yw rhydd bleidlais, ac y mae etholiad i swyddau drwy lais y niwyrif yn anadnabyddus yma. Mae y cadfridog Kearny yn prysur reoleiddio yr annhrefn blaenorel o barthed i'r llywodraeth; ac achosa ei diriendeb tadol hyd yn hyn i'r trigolion edrych ato am nodded a chyfiawnder. Dan ei weinyddiad creir undeb a brawdgarwch rhwng yr ymfudwyr a'r hen drigolion i raddau. Ymgyfeillachant a'u gilydd mewn gwleddoedd, gyda banerau yr America yn chwifio uwch eu penau yn fuddugoliaethus; a phc gelwid byddinoedd yr Unol Daleithiau yu ol yn awr, amddiffynai y trigolion eu hunain werinlywodraeth annibynol ar Mexico.

"O barthed i ansawdd daear California, pridd du a ffrwythlon yw yn gyffredin ain oddeutu pedair troedfedd o'r wyneb, a chynnyrcha yn doreithiog bob rhywogaeth o yd a llysiau a dyfant o'r ddaear yn un man. Nid oes un wlad i'w chystadlu â hon am dyfu *tobacco*, *hemp*, *flax*; ac am ffrwyth y winwydden, rhagora ddigon ar bob gwlad a'r a welais i. Gwelais yma aur yw winllanoedd gan yr Hispaeniad, ond y maent yn rhy ddiog i'w trin. Meddyliaf nad aiff nemawr flynyddau heibio a'r na fydd yr holl fyd yn cyrchu eu gwinoedd o California.

"Am ei haddasrwydd i fagu anifeiliaid, anhawdd bod ei gwell; tyfa porfa faethlon, a cheirch gwyllt, yn doreithiog yn mhob rhan o honi; hyd yn nod yn awr gorchuddir y bryniau a'r dolydd â phorfa las ddwy droedfedd o uchder, lle y gwelir ar un olwg filoedd o wartheg yn ei wancus hori, ac yn parhau i wneyd hyny o flwyddyn bwy gilydd, oblegid parha y ddaear hon yn wyrddlas bob tymhor, ac wedi bod felly er dechreu amser. Ymfrostiwech chwi yn y taleithiau o'ch rhywogaethau o wartheg, megys y Durham, y Devonshire, &c., ond dewch yma, a chewch weled dwy neu dair mil o eidionau yn pesgi ar hyd y dolydd hyn, ac yna addefwch fod y wlad hon yn well i fagu anifeiliaid nag un wlad dan haul. Ac er nad oes yma neb yn gofalu dim am danynt fel sydd yna, etto tyfant yma y niwaf a'r tewaf yn y byd. Mae pob llyn ac afon yn fyw o hob rhywogaeth o bysgod, yn enwedig y *Salmon*. Y mae ar hyd y mynyddoedd a'r coedydd hyn liaws dirif o *Elk*, *Deer*, a phob rhywogaeth o ymlusgiaid; ac eheda y gwyddau ac anryw fathau o hwyaid yn gymmylau drwy'r awyr. Mae clefydau yn anadnabyddus yma, a pharlha einioes hyd nes y byddo yn faich. Mae y mynyddoedd yn gyfoethog o fŵn gwerthfawr; ac y mae mŵn haiarn a chopr i'w weled ar hyd y wyneb ar ochrau y mynyddoedd; mewn gair, tyfa yma ddigonedd o bob peth ond torthau o fara; ac y mae yr Hispaeniad drôglyd hyn yn rhy ddiog i lasurio am danynt. Pris y blawd yma yn awr yw 20 o ddollars (dros bedair punt) y baril, ac yu brin iawu am

hyny. *Beef, beef.* yw eu harwyddair; ar gig yn unig braidd y maent yn hyw; cydweithiant, cyd-drigant, a chyd-orweddant â'u hanifeiliaid, a'r rhyfeddod penaf yw, na byddai carnau, cyrn, a blew, yn tydi ar bob Indiad ac Hispaeniad sydd yn y wlad hon!

"Anfonwch yma amaethwyr yn lle milwyr; a dywedwch wrthynt fod Eden hardd a helaeth i'w chael, os deuant i'r fau lle mae. Pe deuai trigolion rhai parthau o'r taleithiau yma, diau yr achosai y cyfnewidiad i'r penfthyd ddawnsio, i'r claf iachâu, ac i'r teneu dewhau ar fraser y wlad hon. Am phisgywyr a chyfroithwyr eich gwlad chiwi, gwell iddynt aros yma, canys nid oes yma anghen am y naill fwy na'r llall. Ond gall amaethwyr, marsiandwyr, argraffwyr, cryddion, taelwriaid, a phob celfyddydwyf gonest a gweithgar ymgyfoethogi yma yn Fuau. Mae yma anghen mawr am bob math o weithwyr, a dylent ddwyn eu harsfau gweithiol gyda hwynt, obiegid nid oes yma grefftwyr yn gwneyd pethau felly. Tiriodd yma (yn nyffryn Sacramento) yn ddiweddar 300 o hedrolfeni o dalaeth Missouri, ond rhywyddach a miwy cysurus yw dyfod ar hyd y môr, heblaw y gellir felly ddwyn y pethau a ddewisir gyda chiwi.

"Yn y dyffryn hwn, sef Sacramento, y mae y sefydliad lliosocaf o Americanaid o un parth o California, ac y mae y dyffryn helaeth a bras hwn yn cael ei lanw â phohl yn gyllym. Dystawrwydd a'i gorddod am ganrifoedd mynedol, oddieithr caniadau mwynaid yr amrywiol deulu plyfog, pa rai a leisient drwy ei choedwigoedd yn gymysgedig â bresiadau bwystfilod, ynghyd â swa rhwyfau a chaniadau trigolion cochion y goedwig pan rwyfent eu *canoes* llwythog o *furs* i lawr ei hafonydd grisialaidd. Yn ddiweddar y tiri odd y *pioneer* cyntaf yma, a'i fwyall a'i ddryll ar ei ysgwydd, nes y chwifiodd baneri ein gwlad yn yr awyrgylch; ac eisoes y mae yr anialwch yn blodeuo fel y rhosyn. Clywir lleisiau yr arddwr llon yn chwibanu ar ol ei aradr—caniadau y llaethwraig yn mhllith bresiadau ei deadell, ac arwyddion masnachol y morthwl, y llif, a'r fwyall, yn adleisio yn muriau aneddau o dawel ddyfroedd culfor San Francisco hyd galch-greigiau talpiog y mynyddoedd gwynion; a chyn hir bydd dyffrynoedd gwych ac anwylaid y wlad hon yn gartrefe dedwydd i filoedd ychwaneg o feibion a merched rhyddid, pa rai, mewn hawddfyd a llawnder a ymgysgodant yn baradwysaidd dan ganghenau *Pren Rhyddid*. Er fod cynmairt o farsiantio yn Monterey yn bresennol ag sydd yn San Francisco, etto oherwydd ymarllwysiad cynnifer o'r afonydd mordwyol i'r culfor hwnw, yr olaf fydd prif borthladd masnachol y wlad hon debygaf. Ond y mae y dyddiau yn dyfod yn ddiâu pan y gyrrir cleddfyrdd trwy'r mynyddoedd, y dyrchefir yr iseldir, ac y gwelir anghen y cerbydau tanlyd, pa rai a redant gyda chytlyindra yr awel o Vancouver hyd Panama, a phan ddiolcha trigolion yr anialwch i Dduw y rhyddid eu bod hwythau yn rhydd."

Wrth yr hwn a ystyria y desgrifiad uchod yn rhy liwiog, neu yn rhy dda i fod yn wirionedd llythyrenol, dywedwn mai cyfeithad llythyr-enol yw o eiriau llygad-dyst. Dyna'r cwbl; a phe gwir ei hanner, pwy na ewyllysiai fwyniant o ran o honi! Da genym glywed fod y fath baradwys o flaen, ac eisoes dan draed rhai o'n brodyr alltudiedig ni, ac er nad un o honynt hwy yw y tyst hwn, gobeithiwn y gallwn

ddweyd, wedi clywed ei hanes ganddynt hwy, fel brenines Seba, a**n** beth arall, sef “na fynegywd i ni etto yr hanner” o'i daioni.

ANERCHIAD AT Y SAINT.

Awnyl Frodyr a Chwirydd.—Teimlwn awydd a dyled arnom i gyflwyno i chwi, drwy gyfrwng y PROPHWYD, yn enwedig i'r rhai sydd ar wasgar drwy'r wlad, ac o dan anfanteision rhagor ereill, gynghorion a chyfarwyddiadau dyddorol, a gobeithiwn y byddant yn dderbyniol, a gweddiwn ar iddynt fod mor llesiol i chwithau ag y dymenir.

Braint annhraethol yw cael aelodaeth, llawer mwy swydd, yn eglwys Dduw. Braint yw a ddyry hawl i'r holl freintiau daionus a dwyfol creill a addawodd Duw, a pha rai ni cheir mewn un man arall. Ond y mae yn ofynol ein bod nid yn unig o fewn y cylch eglwysig mewn enw, ond yn ymddwyn y gyferbunyiol o galon i ddyledswyddau y cylch hwnw, ac mewn ysbryd gras a gweddiâu y ceir mwynhau yr addewidion. Mae yn wir fod llawer o rwystrau ar y ffordd, a'r temasiynau yn gryfion a lliosog; ac nid rhyfedd hyn ychwaith pan ystyriom fod genym yr “hen ddyr” i'w groeshoelio, ynghyd â'i wŷnïau a'i chwantau, a bod y gelyn yn colli ei feddiant o honom. Oes, y mae ganddo lawer o ffyrdd i geisio ein tynu yn ol, y naill at ryw hen bechodau melys, neu y llall at boblogrwydd neu gyfoeth hydol; ond y ffordd gyfrwysaf a mwyaf niweidiol i'r gwir gristion yw dylanwad yr ysbrydion rhagrithiol, y rhai a ymrithiant yn rhith angel y goleuni. Gwyliwch rhag y rhai hyny sy'n dyfod atoch yn ngwisgoedd defaid, gyda rhith o ostyngyddrwydd, gan ddywedyd chwyddedig eiriau gorwagedd, gan dosturio yn fawr, a braidd sefaïn, “oherwydd i chwi gael eich hudo i'r fath gyfeilliornad,” fel y galwant hwy yr hyn ni wyddant ddim am dano. Nid anfynych y cynnygiant weddio drosoch, a dywedyd chwedlau a thystiolaethau gwely angau, er effeithio ar eich teimladau, a chodi hiraeth arnoch, nid am wirionedd cynmuint ag am yr hen gyfeillach felys, a'r hen dôn Phariseaidd. Gwyliwch rhagddynt, meddwn etto; y mae y ffaith o'r anghysur a'r melancholy a ddyga eu chwedlau i'ch calon, yn profi nad ydynt yn feddiannol ar Ysbryd Duw, canys y mae hwnw yn dwyn llawenydd yn yr Yslyd Glân, ac yn magu serch a chariad at bob gwirionedd, ac nid at hen draddodiadau dynol. “Na choeliwch bob ysbryd, ond profwch yr ysbrydion ai o Dduw y maent.”

Ffordd arall boblogaidd iawn sydd gan y gelyn i'ch rhwystro yn mlaen gyda'r gwaith dwyfol yw, anfon ei weision o'r naill gwr i'r cwr arall i'r wlad fel ser gwibiog, a'u côd yn llawn o amrywiaethau o ystoriau cableddus; ac weithiau sicrha y naill ddarfod i hwn a hwn eu eyflawni yn y naill fan, a'i fod ef yno, a sicrha y llall iddynt gymeryd lle gan un arall, ac mewn man arall hollol, a gwiria yntau y cyfan! Ac yn aml y clywir hyn o'r pulpudau! Wrth y Saint sydd ar wasgar dywedwn etto, “Na choeliwch bob ysbryd,” ac yn enwedig coeliwch mai gaubroffwydi yw y rhai hyny sydd yn hloeddio fod y Saint yn darfod yma, a myned i'r diu draw. Eu hewyllys hwy yw hyny, ond ni ddaw i ben yn dragywydd.

Dichell arall ag sydd gan y gelyn ar ol methu yn mhob dull arall, yw ceisio gwneyd rhwygiad rhwng y praidd a'u bugeiliaid. Gwyr yn dda fod nerth y Saint yn deilliaw o Dduw drwy ei Ysbryd Glân. Gwyr mai "Gwneler pob peth yn weddaidd ac mewn trefn," yw arwyddair hwnw, ac o ganlyniad fod cynnydd y Saint yn dibynu ar wrando llais eu hathrawon, a chadw undeb yr Ysbryd yn nghwlmw tangnefedd, megys y dibyna cynnydd pob aelod yn y corff dynol ar yr ymborth a guiff trwy y pen; ac os gall y gelyn, drwy draethu chwedlau celwyddog arnynt, trwy annhrisio neu fradychu ymddiried yr aelodau yn eu bugail, dysgwylia ysglyfaeth fawr. Deallwn fod llu o offerynau gan y gelyn allan yn awr drwy Gymru ar y fusnes hon. Dywedant eu bod yn adnabyddus iawn â "Capt. Jones," ac ereill, eu bod wedi bod yn dadleu fel ar fel ag ef, a'i gonero bid siwr, a'i wneyd yn fud. Dywedant lawer o bethau a ddywedwyd wrthynt, meddant hwy, ac o chwedlau heb un gair o wir ynddynt. Ac er mor anhygoel yr ymddengys hyn, mae yn ddigon gwir ddarfod i ni gydgerdded â rhai a broffesent fyned ar hyd y wlad i bregethu yr efengyl, ac a broffesent adnabyddiaeth herflaith o honom, a chael allan o'u calon y fath gymmysgfa o gelwyddau nad gweddus eu hadrodd! Ac ar yr un pryd, pan wnaethom ein huanain yn adnabyddus, taenent ein henw oddiarnom yn ein hwyneb. Rhai o'r cyfryw dylwyth yw y rhai sydd yn clebran cymmaint am danom ni yn y Llwyni, Pontyberem, Llanelli, hyd Sir Fynwy, ac mewn manau drwy'r Gogledd hefyd. Na choelieir hwynt; nid oes air o wirionedd yn eu sothach na'u ffug-ddadleuon. Nid ydym yn deall i ni gyfnewid dau air erioed â'r cyfryw bersonau, ac nid ydym yn meddwl ddarfod i'n hamranta'u erioed agor ar un o honynt, na gwyhod am eu bodoldeb, hyd nes y daeth eu chwedlau ymffrostgar, a'u henwau yn ol i ni. Cymmeriad pwy sydd ddiogel dan anadl y fath enllibwyr â hyn? A phwy o'u hudoledigion hwy a'r nad ystyriant eu bod yn gwasanaethu Duw wrth ein lladd ninnau, fel y gwnaeth brodyr y rhai hyn â'n brodyr duwiol ninnau yn yr America yn ddiweddar? O ddynion, os na wyddoch ddim am werth enw da, ystviweh eich cyfrifoldeb yn y dydd a ddaw!

Wrth y Saint dywedwn, Os nad ydym yn hōni perffeithrwydd, etto cyd-dystia Ysbryd y gwirionedd a'ch ysbryd chwi, trwy ei ddoniau a'i amrywiol fendithion melys, pwy sydd yn eich porthi â didwyll laeth y gair. Profa eich cynnydd mewn pob gweithrededd da, a chysuron ysbrydol, ynghyd â'r gobeithion a feddwch, mai "dynion drwg o drysor drwg y galon a ddygant allan bethau drwg" yn erbyn eu gwell. Er ein galar addefwn fod y goreu yn llithro weithiau, i.e. hyd yn nod y rhai a ddylent fod yn esiamplau i'w praidd, etto meddwn, nid y dynion drwg hyny ag y cyfeiriwyd, na'r cyffelyb, yw yr offerynau yn llaw Duw i adgyweirio y cyfryw rai, ac nid dyna'r ffordd i chwithau ddeall hyny, ond eich rhagorfraint chwi yw cael adnabyddiaeth o Dduw drwy ei Ysbryd yn ol ei drefn, ac yna ymlynwch wrth y drefn hōno, ac nid wrth bersonau ddim pellach nag oberwydd eu bod yn perthynu i'r drefn hōno. Anghenrhaid yw cael profiad o'ch ffydd chwi ar y pen hwn, fel yn mhob peth arall, cyn y perffeithir chwi mewn ffydd. Ond pan yn nghanol y demtasiwn, "yn eich ainyuedd meddiennwch eich eneidiau." Y mae genych Dad i ofalu drosoch y

pryd hyny. Gwyddoch y ffordd ato, ac y mae brawdlysoedd yn ei dy ef lle y caiff pob un gyfiawnder. O am amynedd hyd hyny ynte: Byddwch bwylllog ac addfwyn, gan weddio bob amser, yn enwedig yn y dirgel, â phob rhyw weddi a deisyfiad, ar i Dduw eich Tad eich cadw o grafangau ysbrydion cyfeiliornus, eich cysuro a'ch perffeithio yn mhob gweithredoedd da, gan gosio y gair sydd yn dywedyd, "Na ddalwch rai anwyf (ond dyoddefwch gam yn hytrach); myfi bial, myfi a dalaf, medd yr Arglwydd."

NEWYDDION ODDIWRTH Y SAINT SYDD YN YR ANIALWCH.

HYSBYSA Capt. Drake a Mr. Campbell drwy y *St. Louis Republican* am Awst 24, ddarfod iddynt hwy pan ar eu taith o California tua St. Louis, gyfarfod â lluoedd o fudolion yn myned tua'r gorllewin. Cyfarfuasant â'r gwerysill blaenaf o'r Saint y tuhwnt i'r mynyddoedd o'eiglyd yn cyflymu yn mlaen tua'r *Great Salt Lake* i chwilio am y fan goreu i auafu. Wedi hyny cyfarfuasant â'r ail wersyll, yn cynnwys o bump i ehwe chant o bedrolfeni. Yr oeddynt yn myned yn mlaen yn llwyddiannus iawn, ac yn heddychol â'u gilydd. Ychydig ddyddiau cyn i'u haneswyr gyfarfod â hwynt yr oedd y Saint wedi bod yn cydhela ac yn cydwledda yn gariadus iawn gyda chenedl y *Pawnee Indians*. Daeth y teithwyr heibio i'r fan lle y cynnaliwyd y wledd gyfeiriedig; ond ystyrient hwy eu hunain yn bur ffortunus oherwydd na chyfarfuasant â'r Indiaid serch hyny. Profa hyn lawer o blaid y Saint, nid yn unig bod "cenfigen Ephraim yn ymadael" yn gyflym, yn ol y prophwydoliaethau, ond profa ymddygiad y barbariaid hyn eu bod yn hoffi cyfiawnder, ac yn talu daioni yn ol i'r Saint am eu cyfiawnder tuag atynt hwy. Yn mhellach, dywed ein haneswyr, "fod y Mormoniaid yn meddu digonedd o foch, ieir, gwyddau, a gwartheg tewion, gyda hwy, ynghyd â llawnder o luniaeth i barhau am flwyddyn a hanner!" Mor groes yw hyn i'r ystoriau a gyhoeddid ac a ehedent ar adenydd yr awelon yn ddiweddar, ac a ystyrid y felys yn ngeneu rhai a adwaenoin, sef "fod y Mormoniaid yn bwyta eu gilydd yn yr anialwch, ac y ceffid diwedd arnynt cyn hir, &c." Ond diolchwn i'u Duw grasol, sef cynnaliwr ac arweinydd y Saint, ac nid i'r Cristionogion (mewn enw) a'u halltudiasant, nac ychwaith i'w brodyr unchwaeth â hwynt ag sydd yn gorfoleddu yn eu creulonderau, ac yn eu hefelychu hyd yn nod yn Nghyuru, hyd a allant. Mae hyn fel yr holl gyhuddiadau ereill braidd yn erbyn y Saint, a cheir mwy o wirionedd ynddynt os cymerir hwynt yn hollol go chwith i'r hyn eu traethir.

Gan Seintiau y Dyddiau Diweddar
 Mae'r grefydd ddwyfolaf yn awr,
 A'r hon sydd i gael ei chyhoeddi
 Nes llenwi holl wyneb y llawr.
 Ond pan fyddant hwy yn ymadael,
 Fe welir fath ryfel a haint!
 Pe gwyddai'r cenedloedd eu hawddfyd,
 Ni sonient am symud y Saint!

CYMMANFA MYNŴY.

CYNNALFWYD y Gymmanfa hon dydd Sul, Hydref 3ydd, yn Neuadd yr Hector, Nant-yglo. Yr oedd y neuadd yn orlawn o wrandawwyr erlyŷ deg o'r gloch. Detholwyd Capt. D. Jones yn llywydd, yr hwn, wedi dechreu drwy ganu a gweddio, a anerchodd y dyrfa yn wresog am yr anghenheidrwydd o gael crelydd a ddygai iddynt adnabyddiaeth o Dduw, a mywyhad o'i addewidion; a danghosodd y gwahaniaeth sydd rhwng hŷno â plienboethni athrawiaethau dynol, neu grefydd y mynŵy a'r teimlad yn unig. Llawnhâni yn fawr wrth weled y fath gynulleidfa liosog a pharchus o'i gyd-genedl, gan mwyaf os iad oll, yn feddiannol ar y fath grefydd odidog, yr hon sydd yn hunan-brofiedydd, ac yn allu Duw i'w meddiannydd. Dywedai mai nid dyben y Gymmanfa hon oedd cyfnewid na gwella y grefydd, ond ymdrechu dyfod i adnabyddiaeth gywirach o honi, a threfnu y mesurau goreu er ei lledaenu yn mhllith ein cyddynion, ac hefyd i berffeithio undeb a chŷariad yn mhllith y Saint. Ar ol hyny cynddrychiolodd y gwahanol llywyddion wyth o ganghenau y gynadledd, a dysgrifent eu sefyllfaoedd braidd yn ddeithriad newn undeb, ac yn cynnyddu yn y mwyngad o ddoniau a llawenydd yr Ysbyrd Glân. Danghosent fod gwell argoelion o gynnydd, a gobeithion o liosogiad, a bod y Saint yn twy gwresog ac ynegniol drwy y cyfan nag y buont erioed o'r blaen. Bhl' presennol yr henuriaid yw 12, offeiriad 25, dysgawdwyr 18, diaconiaid 8. Bedyddiwyd yr y Gymmanfa flaenorol 24. Nifer yr holl aelodau yw 209. Mae nifer fawr wedi ymgyngud i barthau ereill o Gymru, ac yn hau yr had da gyda chynnydd.

Am ddau o'r gloch, dechreuwyd y cwrd i'r Saint yn unig, er hyny yr oedd amryw o'n cyfeillion o'r hyd yno trwy ganiatad. Wedi cyfranogi o'r ordinhad o swper yr Arglwydd, dangosodd y llywydd ei godidogrwydd a'i defnyddioldeb, &c., yn Saesonaeg, a rhoddodd amryw gynghorion melys a llesiol yn Gymrac hedyd, nes y meddylid fod pob mynŵes yn lloni, a phob calon yn ymserehu fwy-fwy yn y grefydd ogoneddus, yr hon a ddug iddynt y fath fwyniant a gobeithion. Wedi hyny derbyniwyd un i'r eglwys, a bendithiwyd pedwar o blant. Dewiswyd yr henuriaid W. Phillips o Ferthyr i fod yn llywydd y gynadledd hon yn unfrydol, oberwydd fod y llywydd blaenorol, yr henuriaid J. Morris, yn llafurio yn llwyddiannus yn Sir Benfro, â'r hyn y cydunwyd yn unfrydol. Cydunwyd hefyd fod pob canghen i ddewis eu dosparthwr o'r PROPHWYD, ac i dalu iddo ef yn fisol am gynifer ag a fyddai o aelodau—bod yr holl ddosbarthwyr i dalu i llywydd y gynadledd, a bod yr enuill oddiwrthyn iddo ef at ei gynaliaeth: a thaer erynir ar holl ewyllysyr da y gwaith dwyfol hwn i wneyd yr hyn oll a allant er lledaenu y PROPHWYD, a thalu am dano.

Cydunwyd hefyd i wneyd yr hyn oll a allwn er cynnorthwyo a diwallu anghenheidiau y Saint Americanaidd sydd yn yr anialwch, ac i anfon yr arian a gesglir o hyn i ddiwedd y flwyddyn hon gyda'r cenadau fydd yn dychwelyd i'r America y pryd hyny. Terfynodd y cyfarfod melys a llesiol hwn am bump o'r gloch drwy weddi a chlanu.

Am hanner awr wedi chwecch, dechreuodd yr oedfa hwyrol. Pregethodd yr henuriaid Eliezer Edwards, D. Jones, Penycæ, a Thomas Giles, Merthyr, yn fywiog ac eglur ar wahanol egwyddorion, a dilynwyd hwynt gan y llywydd, yr hwn a ddangosodd mai y ddaear yw nefoedd ddedwyddaf a thyngedfen dragwyddol yr holl rai duwio! o'r hil ddynol—mai yma y bydd yr "orphwyfa sydd etto yn ol i bobl Dduw." Profodd mai dynia oedd dsgwyliad y patriarchiaid a'r prophwydi, ynghyd â'r holl Saint, ac mai y chorus o anghemau mwyneiddiaf yr angylion oedd, "ac ni a deyrnaswn ar y DDAEAR," Dat. 5, 10. Dangosodd hefyd yr anghenheidrwydd oedd am anfoniad dwyfol i sefydlu teyrnas nefoedd ar y ddaear, ac i ddwyn dynion yn ddeiliaid o honi yn ddarpariadau i'r adferiad mawr, a dyfodiad y brenin i'w deyrnas. Profodd y dechreuai y gwaith hwn, neu y sefydlid y deyrnas hon yn fechan fel y "gareg a dorwyd o'r mynydd," ac y cynnydda yn raddol nes llanw y ddaear a gwybodaeth o Dduw fel y toa y dyfocodd y môr; ac y byddai y ddaear oll y pryd hyny wedi dyfod yn nefoedd i'r Saint adgyfoddedig a chyfnewidiedig. Wedi hyny tystiolaethodd y llywydd fod y nefoedd hon eisoes wedi dechreu ar y ddaear—yn mha le, ac yn mha fodd, a thaer wahoddodd bawb i ufyddhau i'w chyfreithiau a' frys, fel y caffont fwyniant o honi. Ni ellir yma wneyd cyfiawnder â'r areithiau a draddodwyd yn y cyfarfod hwn, ond hawdd oedd deall oddiwrth wrandawriad boneddigaidd ac astud, ynghyd â gwynebau llon y dyrfa oll, bod eu calonau yn llawenhau yn y gobaith ofwyniant o'r addewidion gogoneddus hyn. Dywedaf, llwyddiant iddi nes llanw ein gwlad, a choroni ein cydgenedl, a'r byd, a'i llawenydd. Amen.

DAVID JONES, Ysgrifenydd.

Mae y deyrnas wedi dod, yn ei hadeg,
 Heb un diwedd arni i fod, byth ychwaneg;
 Hon a dorwyd megys maen, draw o'r mynydd,
 Ac a dreigla yn ei blaen, dros y gwledydd.

HYSBYSIADAU.

AT EIN DOSBARTHWR.

GAN nad oes ond un rhifyn arall o'r *Prophwyd* i ddyfod allan eleni, taer ddymunir ar bob dosparthwr ymbarotoi i settlo eu cyfrifon am y flwyddyn am y llyfrau ereill yn gystal â'r *Prophwyd* erbyn y Gymmanfa.

D. S. Byddai yn dda genym brynu ein llyfrau ein hunain, sef y rhai canlynol, yn ol, a thalu eu cyflawn bris am danynt, os hyddaut yn lân, sef yr *Hen Grefydd Newydd*, yr *Atebydd*, y *Glorian*, yr *Anerchiad*, y *Prophwyd* rhif. 1, 7, 8. Pwy hynag sydd yn eu meddu, anfoned hwynt yma, a chaff yr arian, neu lyfrau ereill, yn eu lle. Nid pob awdwr a wna hyn, ac nid yw y gofyniad rhyfeddol o gymyddol hwn am ein llyfrau yn profi adfeiliad ein crefydd ddim!

** Mae genym lyfrau Hymnau Cymreig wedi eu rhwymo am chwecheiniog yr un.

CYMMANFA NESAF MORGANWG.

BWRIEDIR cynnal y Gymmanfa uchod yn Neuadd y Cymreigyddion yn Merthyr, dydd Sul a Lluu, Rhagfyr y 26ain a'r 27ain, sef y cyntaf ar ol dydd Nadolig.

** Dysgwylir dyeithriaid o'r America i'r Gymmanfa, a thaer erfynir ar yr holl Saint i ymdrechu cyflawni yr adduned a wnaethom er cynnorthwyo y Saint sydd yn yr anialwch. erbyn yr amser hwnw.

Dysgwylw'n y bydd i'r gwahanol lywyddion drwy Gymru ofalu am hyn.

C Y N N W Y S I A D.

Adolygiad ar Ddarlith y Parch. D. Jones, Caerdydd	165	Desgrifiad o California	174
Dyfyniad o lythyr J. Bowen, Llwyni. Bedydd	169	Anerchiad at y Saint	176
Erlidigaeth Dowlais, a'r lles a wnaeth	170	Newyddion oddiwrth y Saint sydd yn yr anialwch	178
		Cymmanfa Mynwy	179
		Hysbysiadau	180

MERTHYR-TYDFIL :

CYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH HEFYD GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL.

ARGRAFFWYD GAN JOHN JONES, RHYDYBONT.

PROPHWYD Y JUBILI,

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 18.]

RHAGFYR.

[PRIS 2g.

“LLEFARU A THAFODAU” Y TESTAMENT NEWYDD, A MORMONIAETH!

MR. GOL.,—Cafodd gofyniadau eu cyfeirio ataf fi yn *Seren Medi*, gan un Parchedig Annibynol o'r Gogledd, ac ysgrifenis atebiad iddynt, gan fod yn sicr yn fy meddwl y cawswn yr un chwarae têt ag a gafodd y gofynwr; ond er fy siomedigaeth, dywedwyd wrthyf ei fod yn rhy wael, nad oedd dim o'r “*cleverness*” a ddangoswn ar brydiau ereill yn yr ysgrif hon, ac na fuasai y Parchedig crybwylledig yn gwneyd un sylw o honi. Yr unig beth a ddywedaf fi yw, i mi wneyd fy ngoreu. Yn awr, yr wyf yn gosod fy achos o'ch blaen chwi, ac yn erfyn y chwarae têt a nacäwyd yn y fan lle y dylasid ei gael.

Yr eiddoch yn ostyngedig,

J. D.

[*Copi o'r Ysgrif a ddanfonwyd at Olygydd SEREN GOMER, dan yr enw uchod.*]

MR. GOMER,—Pan ddanfonais atoch ysgrif tua mis Chwefror diweddaf, ar “*Lefaru â Thafodau*,” yr hon a ymddangosodd yn y *SEREN* am Fehefin, ychydig oeddwn yn feddwl y buasai neb mor graffus ei olygon ag i weled mai amddiffyn Mormoniaeth oedd hyny; canys nid oedd ond yn unig ymchwiliad i mewn i'r Testament Newydd er gwybod pa beth sydd i'w ddeall wrth “*lefaru â thafodau*.” Ond cyn pen deufis, dyma H. Tegai (gwel tud. 258) yn ysgrifenu fel y canlyna:—

“Gwelais yn *SEREN* Mehefin, ysgrif o eiddo un J. D., ar ‘*Lefaru a Thafodau*.’ Os yw J. D. am ddyfod yn mlaen i amddiffyn Mormoniaeth, dened at wreiddyn y ddadl ar unwaith, trwy ateb, 1. A wnaeth Crist a'i apostolion wyrthiau cyhoeddus? Os gwneuthant, 2. A ydyw y Mormoniaid yn gwneyd yr un modd? Atebed J. D. fel y myno, ac yna bydd genyf air i ddywedyd wrtho.”

Yn awr, dymunwn ar y darlennydd i gymmeryd y drafferth o ail-darllen yr ysgrif ar “*Lefaru â Thafodau*,” rhag ei bod wedi myned yn anghof ganddo. Yr ydys yn ceisio profi yno nad yr hyn a feddylia H. Tegai a'r cyfaill o Borthyrhyd, yw y “*llefaru*” dan sylw; ond mair rhodd ydoedd o eiddo Duw i'r eglwys, er ei hadeiladu, a'i bod yn

cael ei chyfranu megys ag yr oedd yr Ysbryd yn ewyllysio. Nid yw H. Tegai yn arddangos fy mod wedi cyfeillorw i yn hyny; eithr dyweda, "Os yw J. D. am ddyfod yn mlaen i amddiffyn *Mormoniaeth* (?), deued at wreiddyn y ddadl ar unwaith." Beth yw hyna? Ai *Mormoniaeth* oedd y "llefaru â thafodau" yn y dyddiau gynt? Hyny oedd y pwnc a driniais i, cofier. Os mai *Mormoniaeth* oedd y "llefaru â thafodau" gynt, ac os gellir dangos fod y "llefaru" i barhau hyd yn awr, nid rhyfedd fod yn bodoli y fatr sect â'r *Mormoniaid*. Yn awr, nid tro ffol fuasai ymdrechu gosod Paul i brofi fod y "llefaru" i barhau hyd y dyddiau hyn, ac efallai yn mhellach. Dywed efe—"Cariad *byth* ni chwmp ymaith: eithr pa un bynag ai prophwydoliaethau, hwy a ballant; ai tafodau, hwy a beidiaut; ai gwybodaeth, hi a ddiflana. Canys *o ran* y gwyyddom, ac *o ran* yr ydym yn prophwydo. Eithr pan ddelo yr hyn sydd *berffaith*, yna yr hyn sydd *o ran* a ddileir." (1 Cor. 13, 8—10). Ai pethau *o ran* yw y llefaru a'r prophwydo? Ie, medd pawb. Wel, a ydyw yr hyn sydd *o ran* i gael ei ddileu cyn y delo yr hyn sydd *berffaith*? Nag yw. Pa bryd y mae yr hyn sydd *berffaith* i ddyfod, ynte? Ie, dyna y cwestiwn. Ac nid pan fyddwn ni yn "gweled wyneb yn wyneb;" canys nid yw yn debyg y perffeithir hwy (sef y Cristionogion gynt), hebom ninnau. Fe welir, erbyn hyn, ynte, fod y llefaru a'r prophwydo i barhau hyd nes caffo y rhai olaf ar y ddaear eu perffeithio, ond dim yn hwy, canys wed'yn fe fydd yr hyn sydd "*o ran*" wedi ei lyncu gan "yr hyn sydd *berffaith*." Yn awr, Mr. Tegai, ai *Mormoniaeth* yw hyna, etto? Os mai, bydd dda gan y *Mormoniaid* glywed.

Yn nesaf, gan fy mod wedi dyfod yn mlaen i amddiffyn "llefaru â thafodau" y Testament Newydd, yr hyn a eilw H. Tegai yn *Formoniaeth*, y mae efe yn fy ngalw "at *wreiddyn* y ddadl ar unwaith." Pa fodd mae dyfod at *wreiddyn* y ddadl? O, "trwy ateb, 1. A wnaeth Crist a'i apostolion wyrthiau cyhoeddus? Os gwnaethant, 2. A ydyw y *Mormoniaid* yn gwneyd yr un modd?" Ai tybied nad allem ddyfod at y *gwreiddyn* yn gystal, trwy ateb, 1. A oedd yr apostolion yn llefaru â thafodau? Os oeddynt, 2. A yw y *Mormoniaid* yn gwneyd yr un modd? Beth pe buasem, wrth chwilio i mewn i'r ddau hwnc yna, yn cael ein hargyhoeddi fod llefaru â thafodau y *Mormoniaid* yn wirioneddol, a gwyrthiau y cyfryw yn dwyllodrus? Y mae y *Mormoniaid* yn profesu y naill a'r llall; o ganlyniad, y mae dweyd mai yn un o honynt mae "*gwreiddyn* y ddadl" sy'n perthyn, i'r ddau (ac i ychwaneg a ellid nodi), yn eithaf anghyssondeb. Beth gan hyny? y mae Paul, gwr cymmeradwy gan bawb, yn gosod i lawr reol lawer ragorach i "ddyfod at *wreiddyn* y ddadl"—h.y., er barnu pa un ai gau-grefydd a thwyll sydd gan y Saint, ai peidio. Dywed—"Pe byddai i ni, neu i angel o'r nef, efengylu i chwi amgen nâ'r hyn a efengylasom i chwi, bydded anathema," (Gal. 1, 8.) Trwy gael allan nad yw y *Mormoniaid* yn efengylu neu yn profesu yr hyn a wnai Paul a'i frodyr, yw y drefn oreu er eu profi yn dwyllwyr. Os ydynt yn gwaadu rhywbeth, neu broffesu rhywbeth yn wahanol, ynghylch yr hyn ag oedd gan Paul, y maent yn sicr o fod yn efengylu rhywbeth arall, ac yn deilwng i dderbyn yr anathema. Ond nid af fi yn bresennol i edrych a ydyw y Saint yn dilyn Paul, canys nid yw H.

Tegai yn ystyried mai hyny yw "gwreiddyn y ddadl;" ac o ganlyniad, câf yn awr ateb ei ddau gwestiwn ef goreu y medraf.

"1. *A wnaeth Crist a'i apostolion wyrthiau cyhoeddus?*" Gellir gofyn hefyd, ac y mae lluoedd yn gwneyd hyny, a wnaethant hwy. wyrthiau ryw fodd? Y mae genym ni hanes, sef y Testament Newydd, yn cynnwys crybwylliadau am ryw hethau rhyfedd yn cael eu cyflawni lawer o oesoedd yn ol; ond mae y cyfan wedi ei ysgrifenu gan ddynion pleidiol, a rhaid credu y cyfan, neu beidio, heb gael un prawf o'u geirwiredd. Os nad yw, fod y "Mormoniaid," y rhai sy'n byw yn ein hoes ni yn dweyd fod gwrthiau yn eu plith hwy, yn un prawf eu bod; ac wrth reswm, nid yw fod dyscyblion yr Iesu, yn yr oesoedd cyntefig, yn dweyd fod gwrthiau yn eu plith hwythau, yn un prawf i ni yn yr oes hon eu bod. Yn wir, oddieithr fod dynion yn derbyn gwybodaeth oruwch-naturiol, y mae yn ymddangos i mi yn beth digon naturiol i ammau a wnaeth Crist a'i apostolion wyrthiau; a hyny o herwydd i Grist ddywedyd y byddai arwyddion yn canlyn y *credinwyr*, yr hyn sydd gystal â dweyd y byddent yn ein hoes ni. Y mae wedi dweyd hefyd, mai pa beth bynag a geisem yn ei enw ef, y buasem yn cael. Wel, yr ydys wedi bod lawer gwaith, yn mhllith yr Annibynwyr, o leiaf, canys â'r rhai hyny y bum fwyaf adnabyddus, yn ceisio yn ei enw ef am iachâu rhyw glaf; ond wedi gofyn, nid oedd ateb yn dyfod. Buwyd lawer gwaith hefyd, yn efelychu Elias gynt, yn gofyn yn enw Crist, am i Dduw attal gwlaw yn amser cynauaf, a phrydiau ereill am iddo roddi gwlaw; ond ni wneid un clust o honynt gan yr Hwn a addawodd rhoddi ond ceisio. Ond, meddai rhyw Annibynwr, *Yr ydym wedi cael ein hateb lawer gwaith*. Wel, wel! B'le mae H. Tegai yn awr? Dyna "wyrthiau cyhoeddus" yn ein hoes a'n gwlad ni o'r diwedd, i.e., gan yr Annibynwyr, nid y Mormoniaid! Yr hen "gau-brophwydi," ynte. Ust! yr ydwyf yn myned allan o'r pwnc; eisieu gwybod sydd ar y gofynydd os gwnaeth Crist a'i apostolion wyrthiau *cyhoeddus*? Gellir cael cipolwg ar gyhoeddusrwydd gwrthiau Crist ynte oddiwrth yr hyn a ddywedai ei frodyr wrtho. "Cerdda ymaith oddiyna," meddynt, "a dos i Judea; fel y gwelo dy ddiscyblion dy weithredoedd di y rhai yr ydwyf yn eu gwneuthur; canys nid oes neb yn gwneuthur dim yn *ddirgel*, ac yntau yn ceisio bod yn gyhoedd; os wyt yn gwneuthur y pethau hyn, amlyga dy lun i'r byd." Gallwn gasglu hefyd nad oedd gwrthiau Crist yn gyhoeddus iawn, onide ni fuasai dynion dysgedig fel yr ysgrifenyddion a'r Pharisaid yn anwybodus o honynt; canys, ond odid, pe buasai dynion cyfrifol fel hyny yn cael y prawf lleiaf o'i wyrthiau, y buasent yn credu. Sylwn ar yr hyn a ddywedasant wrtho tra ar y groes—"Disgyn Crist, Brenin yr Iuddewon, oddiar y groes, fel y *gwetom*, ac y credom." Os oedd efe yn arferol o wneyd gwrthiau cyhoeddus, pam na fuasai efe yn gwneyd felly y pryd hwnw, pan oedd dynion o'r fath ddylanwad, yn bresennol,—i.e., dynion pe credent fuasai yn troi y byd ar eu hol. Y mae dynion hefyd mor onest yn ein dyddian ni, ag y buasai iddynt gredu y Mormoniaid yn union, pe gallent hortli pum mil yn wyrthiol, &c. Nid yw yn debyg y gall y Mormoniaid wneyd y fath beth, neu ni fuasent mor ddwl â pheidio argyhoeddi dynion fel hyny; ac nid oedd yn debyg fod yr apostolion yn gallu cyflawni

gwyrtlŷau cyhoeddus, neu ni fuasent mor annoeth â pheidio dangos eu gallu i'r dynion gynt. Ond er hyny, fe ddywedir yn y Testament Newydd, fod gwyrthiau wedi cael eu gwneyd gan Grist yn gyhoeddus (ac yn ddirgelaidd); eithr rhoddir ar ddeall mai yn mhlith "yr eiddo ei hun" y gwnaeth efe hwynt, a dim ond yn mhlith y rhai crediniol o'r cyfryw hefyd. Yn gyffelyb y dywedir hefyd am ychydig o'r apostolion. Y mae yn dra amlwg fod llawer o'r gwyrthiau a sonir am danynt, wedi cael eu cyflawni yn gyhoeddus, heb un bwriad iddynt fod felly; ac yn ddigon mynych yr oedd eu gweithredwyr yn ceisio eu celu. Yn awr, wedi yr holl ymresymu uchod, nis gallaf ddyfod i benderfyniad sicr pa un a wnaeth Crist a'i apostolion wyrthiau cyhoeddus, ond yn unig dywedaf fod y Testament Newydd yn son iddynt gyflawni y cyfryw bethau. Wedi rhoddi ateb fel hyn, y mae gofyniad arall yn dyfod ar fy nhraws, sef, yn—

"2. *A ydyw y Mormoniaid yn gwneyd yr un modd?*" Yn hwn, tebygaf, mae "gwreiddyn y ddadl." Er fy mod, wrth ateb y gofyniad cyntaf, wedi myned yn lled anffyddiog ynghylch y gwyrthiau gynt; os bydd i mi gael allan fod pethau cyffelyb yn mhlith y Mormoniaid yn awr, y mae yn rhesymol i mi gredu yn ngeirwiredd y Beibl am weithrededd Crist a'i apostolion. Nid wyf yn ystyried fod yn rhaid i wyrthiau y Mormoniaid fod mor fawr, ac mor gyhoeddus, ychwaith, â gwyrthiau Crist a'i apostolion, cyn y gallont fod yn wyrthiau, ac yn wyrthiau gwirioneddol; canys nid oes neb yn mhlith y Mormoniaid yn profesu cymmaist o ffydd â Christ, ac nid oes neb o honymt yn Nghymru yn dal swyddi mor uchel â'r apostolion. Os gellir profi fod rhyw glaf wedi derbyn iechyd yn wyrthiol, trwy arddodiad dwylaw, fe fydd yr egwyddor o allu gwyrthiol wedi ei phrofi; ac o ganlyniad, yn ol fel y gall y Mormoniaid weithredu wrth y reol, "Beth bynag a ofynoeh mewn gweddi, gan gredu, chwi a'i derbyniwch," yn ol hyny y galluogir hwynt, nid i wneyd gweithredoedd gymnaint â Christ a'i apostolion, ond llawer mwy, sef hyd y nod i allu symud mynyddoedd! Yn awr, yn mhlith llawer o amgylchiadau felly, cawu nodi un a ddygwyddodd yn Merthyr-Tydfil, i ddyn o'r enw William Hughes, yr hwn oedd yn gweithio mewn gwaith glô. Un diwrnod, dygwyddodd iddo ddiri ei goes mewn dau fan: a chafodd ei gario gartref gan ei gyd-weithwyr. pryd y gosododd meddyg yr esgyrn yn eu lle, a'u rhwymo i fyny. Y noson hono galwodd y dyn am un o henuriaid yr eglwys ato, a gweinyddodd hwn yn ei swydd, pryd y cafodd y claf hollol esmwythiad o'r poen. Y trydydd diwrnod ar ol hyny, galwodd am henuriaid arall, a gweinyddodd hwn drachefn; a'r canlyniad fu, i'r claf neidio i lawr o'i wely yn ngwydd amryw o dystion *annhleidiol*, gan rodio yn eu gwydd! Geill Mr. Tegai gael yr hanes yn gyflawn yn nghyhoeddiad y Mormoniaid, a elwir *Prophwyd y Jubili*, am Gorphenaf, 1846, ynghyd â'r tystion. Y maent yn awr yn fyw; ac y mae'r dyn a iechasid yn Llanelli, sir Gaer, yr hwn sydd yn foddllawn dyfod i wyneb pawb er profi gwirionedd y peth. Yr oedd hyn i gyd yn gyhoeddus, ond nid yw pawb yn credu, yn enwedig y dysgedigion; efelly, yr oedd hefyd yn y dyddiau gynt. Y mae gwelliadau amrywiol yn dygwydd yn mhlith cannoedd o edrychwyr, ond ni all y Mormoniaid help eu bod yn cael eu gwneyd i fyny o "eiddo" Crist, mwy nag y gallai yr apostolion. Y dystiolaeth fwyaf a allwn i ei rhoddi i H. Tegai fyddai sicrhau iddo i mi fy hun dderbyn iechyd yn wyrthiol

fwy nag unwaith; a hyny yr wyf yn tystio sydd wedi dygwydd. Ond, yn awr, dychymmygaf fod Mr. Tegai yn barod i ddweyd, pe buasai efe ei hun yn gweled pethau felly yn cymmeryd lle, na fyddai nemawr o amser cyn uno â'r Mormoniaid. Buasai hyn, er hyny, yn anhawdd i gredu am dano; canys os yw efe yn un o'r "etholedigion," ni fyddai yn *bosibl*, hyd y nod pe buasai iddo gael arwydd eglur gan y rhai a ystyria efe yn "gan-brophwydi,"—ni fyddai yn *bosibl*, meddaf, ei ddwyn ef i gredu mewn athrawiaeth wahanol i'r hon a greda yn awr, sef Anym-ddibyniaeth, feddylwyf. Ond rhag ofn nad yw efe yn un o'r "etholedigion" na chymmerant eu twyllu, y rhai sydd â thystiolaeth Iesu ganddynt, yr wyf o'r fara mai tystiolaeth iddo ei hun buasai y fwyaf boddhaol ganddo ef, a'r fwyaf argyhoeddiadol hefyd. Pa fodd mae cael hõno, tybied? Fel hyn:—"Os ewyllysia neb wneuthur ei ewyllys Ef, efe a gaiff *wybod* am y ddysgeidiaeth, pa un ai o Dduw y mae hi," (Ioan 7, 17). Cael *wybod* yw y prif bwyt. Gallai ein cyfaill fod yn *dyst* o wyrth, ac heb *wybod*, er hyny, pa un ai gwrth gan Dduw, neu gan y "gau-brophwydi," fyddai hi. Yn awr, mae y Saint, fel Crist, yn cynnyg y wybodaeth yna i bob un a wnelo yr hyn y maent yn ddysgu; ac y mae cyfe gan H. Tegai i'w cymmeryd ar eu gair, a'u profi. Dyna yr oll a ddywedaf yn bresennol ynghylch yr ail gwestiwn. Yn nesaf, ac yn olaf, dyweda ein cyfaill fel hyn:—

"*Atebed J. D. fel y myno, ar yna bydd genyf air i ddywedyd wrtho.*" Mae'r peth yma yn edrych fel *trap* neu rwyd; ac os cymmerir y geiriau yn "ysbrydol," y maent yn golygu, yn ol fy marn i, fod Mr. Tegai wedi penderfynu yn mlaenllaw pa beth a ddyweda; i.e. hyd y nod pe byddai i mi ei argyhoeddi yn hollol i'r gwrthwyneb. Ond nid oes gwahaniaeth am hyny: eithr gobeithio yr wyf fi, pan fyddo ein cyfaill yn codi ei rwyd, y bydd i wyrth gymmeryd lle (fel yn amser Crist); ac yn lle fy nâl i, y bydd wedi dâl y gwirionedd, a hwnnw fel y mae yn yr Iesu. Amen.

J. D.

YR "AMSERAU" A'I EYSNAFEDD GELWYDDOG AR Y SAINT ETTO! ETTO!!

Y MAE Golygydd "Parchedig" y papuryn hwn yn efelychu melinydd y *corn crackers* Americanaidd yn fawr, canys ni ddyryr yr olaf ddim yn ei hopren ond "*corn*," yr hwn nid yw ond megys bywd mewn cymhariaeth i'r gwenith. Felly y llall ni ollynga ddim i hopren yr *Amserau* o barthed i'r Saint ond *celwyddau mochodd*; a chafwyd digon o ffeithiau cyn hyn i brofi nad oes un rhyw o'r rhai hyny yn rhy galed, enllibus, na niweidiol ganddo eu cyhoeddi; ac yn y fan pan gynnygir iddo y gwir mewn amddiffyniad, i lawr a cheuad ei hopren bob tro; a chynted y daw rhyw gamgyhuddiad digon erchyll, i mewn ag ef wed'yn! Pwy a glywodd son fod Golygydd yr *Amserau* wedi caniatu i un o'r Saint erioed amddiffyn eu hanain rhag ef gelwyddau ef? Pwy a glywodd son ddarfod iddo gael gafael ar un ystori i'w herbyn erioed yn rhy warthus ganddo ei chyhoeddi? Beth yw hyn ond gwahodd holl gelwyddwyr enllibus ein gwlad i ddwyn eu ffetanau llawnion yn mlaen a'u harllwys i'w hopren ef! Darllener yr hyn a ganlyna. Allau o'r *Amserau*, Tach. 4:—

"NEW-MARKET.—Y mae y Mormoniaid yn talu ymweliad mynych â'r lle hwn. Ymddengys fod gan ddyscyblion Joe Smith hoffder mawr i'r fan, a mwy o awydd i gael trigolion Newmarket o gyrhaedd dinystr y byd i California ddyogel, nag sydd i gael trigolion unrhyw gymydog-aeth arall yn y parthau hyn. Bu dynes yn bragaldio rhyw lol yma ar nos Lun. Ni buasai cymhwysiad dwfr a sebon at ei chnawd a'i dillad ddim allan o'le, gan fod mawr anghen hyny arni. Y nos Fawrth ganlynol ymosododd gwr y ddynes hon ar ferch ieuauc, mewn lle unig o gylch milldir a hanner allan o'r pentref. Yn ffawdus iawn i'r ferch, dygwyddodd i rywun ddyfod lleibio ar y cyfamser, ac felly y cafodd ymwarded. Dilynwyd ar ei ol, a daliwyd ef mewn tafarn. Dywedir fod yn ei ganlyn amryw eirf miniog *a-phlasteri*. Ceisiodd osod plâster ar enau y ferch i attal iddi waeddi, ond yn yr ymdrech methodd y nôd, a gosododd ef ar ei boch. Y mae efe yn awr yn ngharchâr Ffiint yn "dyoddef erledigaeth." Ceir gweled a wna teulu y gwyrthiaid lwyddo i gael angel i agor drysau y carchar, ac i arwain y 'sant' hwn allan."

Yn awr, o barthed i'r holl "fragald" hwn, dywedwn nad 'oes un sill o wirionedd ynddo mewn cyssylltiad a'r "Mormoniaid" (fel eu gelwir); a heriwn y Golygydd a'i *garn* i brofi fod un math o gyssylltiad na dim yn debyg rhwng y fenyw gyfeiriedig na'i gwr â "Saint y Dyddiau Diweddaf," nac erioed wedi bod. A allwch chwi wadu hyn Mr. Golygydd? Efallai y diangwch i'ch hen ymguddfa gadnoaidd etto fel y gwnaethoch o'r blaen, a gwaeddi oddiyno, na allwch chwi oddiwrth anwiredd gohebiaethau a ddanfonir i chwi. Ond ni thal hyny, canys darllenwch eich gomediad i'r amddiffyniad yn wyneb galed fel o'r blaen:—

"Ni ellir rhoddi lle yn yr *Ainserau* i lythyr maith Mr. J. P. mewn amddiffyniad i'r Mormoniaid, neu "Saint y Dyddiau Diweddaf;" oblegid ni cheid byth derfyn ar ddadleuaeth ar bwnc o'r fath. Gall ein gohebydd gael ei ysgrif, os geilw yn ein swyddfa."

"Cyn siarad yn ddrwg am neb, dylem ofyn i ni ein hunain dri chwestiwn: yn gyntaf, A ydyw yn wirionedd? Yn ail, A ydyw yn garedig? Yn drydydd, A ydyw yn anghenrheidol?"

Yr oedd y J. P. hwn yn y fan ar lle pan y bu y wraig gyfeiriedig yn traddodi y "bragaldio" hyny. Hysbysodd efe a phregethwr arall o'r Saint ar gyhoedd ar ol iddi hi ddiweddu "nad oedd un cyssylltiad rhyngddi hi a'r Saint." Ond efallai nad oedd eich hanesydd yno pryd hyny meddwch. Pa un bynag am hyny, gallwn brofi mai celwydd gwybodus yw y cyluddiad, canys y mae ddigon gwir ddarfod i'r wraig ei hun hysbysu ar gyhoedd fwy nac unwaith, ac mor ddealladwy hefyd a dim a ddywedodd, "nad oedd hi mewn cyssylltiad ag un enwad na phlaid." Rhaid fod eich hanesydd yno, onide pa fodd y gwyddai fod mawr anghen dwfr a sebon ar ei chroen a'i dillad? Os oedd ei lygaid yno i weled ei bryntni, paham nad oedd ei glustiau yno i glywed ei chyffesiad, yr hyn sy'n hollol groes i'w hanes ef? Onid amlyga hyn ynghyd a phot brawddeg arall o'i ohebiaeth mai gelyniaeth calon at y grefydd a gamgyhudda yw yr achos o'r cwbl. Hamdden felys i ddial oedd hyn, yn enwedig gan y gwyddai fod eich hopren chwi yn agored i'r fath sothach, ac nad yw yn agored i ddim amddiffyniad. A adewch chwi i'ch gwesyn enllibus a pheryglus hwn ymlechu yn ddirgelaidd rhag y cyhoedd yn hwy? Paham na chyhoeddasech ei enw i'r byd, fel y

gweler pwy yw'r *mad dog*?" Yr hwn a ddywedo 'Duw yn rhwydd wrtho sydd gyfranog o'i weithredoedd drwg ef, cofiwch; ac efallai nad anfuddiol fyddai rhoi i chwi ddose o'ch pills eich hun gan mai chwyelw yw y mwyaf clwyfus a adwaenom. Nid yw y *dose* ond bach! dim ond tair pilsen o'ch eiddo eich hun; i.e., yn yr un rhifyn, a dim ond trwch y papur rhyngddynt a gwreiddyn eich clwyf. Dyma lwy, Sir,—“Cyn siarad yn ddrwg am neb dylem ofyn i ni ein hunain dri chwestiwn. 1. A ydyw yn wirionedd? 2. A ydyw yn garedig? 3. A ydyw yn anghenrheidiol?” Cynghorion da iawn! Traeni na buasech wedi cofio gwneyd un o honynt eich hun, canys pe felly ni chyhoeddasech yr hanes uchod. Gan nid yw yn *wirionedd*, a phe buasai yn wirionedd, nid yw yn *garedig*, llawer llai *anghenrheidiol*. Y “meddyg iacha dy hun” sydd gynghor mor ddyddorol i chwi hefyd.

O fel y chwârdech yn wawds, meddyliaf, pan welech yn eich colofnau, “fod Sant yn ngharchar yn dioddef erledigaeth.” Ond diolchwn i Dduw y Saint fod ei angylion ef yn cadw y Saint rhag myned i garchar oddieithr am eu crefydd, a hyny nid yw yn ormod ganddynt i'w ddioddef nad faint eich gwawd gableddus chwi fel eiddo plant y fall gynt dan y cyffelyb amgylchiadau. Oni wyddech chwi, Syr, nad yw ein rheolau eglwysig ni yn caniatáu i wraig bregethu? Dylasech wybod hyny cyn ymosod i drin am danom, canys y mae wedi ei gyhoeddi fwy nag unwaith yn eich iaith, “nad y'm yn cydnabod offeriadaeth feywaidd.” Ond, nid yw yr hyn a ddywedwn ni yn deilwng o'ch sylw chwi, canys cymmaint a allwch chwi wneyd yw chwilio am gyhuddiadau a chelwyddau i'n herbyn, bid siwr. Ie, gwr unochrog hollol ydych chi, a'ch hoff waith yw “cyhuddo y brodyr.” Wel druan, ewch yn mlâen fel y mynoch yn awr, ond cofiwch, pe baech cyn rhydded a'r asen wyllt, y daw “mis” yn yr hwn eich dofir chwithau, ac y bydd eich llyfethr mor fyred a'r eiddo rhyw asyn arall. Daw, daw dydd cyn hir a chwytha ymaith noddffâu celwydd—pan y caiff pawb y gwir.

YCHWANEG O EISIN CORN YN EI HOPREN ETTO! ETTO!! ETTO!!!

Pan yn ysgrifenu yr amddiffyniad blaenorol taflwyd y rhifyn canlynol o'r *Amserau*, sef, am Tachwedd 18ed, o'n blaen, a'r peth cyntaf braidd a dynodd ein sylw, yn lle amddiffyniad i'r cyhuddiad blaenorol, oedd yr hyn a ganlyna:—

“Y mae William Smith, y proffwyd neu y patriarch Mormonaidd, yn awr ar gael ei brofi am anfoesrwydd gwrthun.”

Yn awr, Mr. enllibwr, a'i “caredig” yw cyhoeddi hyn hyd y nod pe gwir? Ai “anghenrheidiol” yw traflyncu crefydd anwyl eich cyddynion drwy ransackio'r hyd am feiau personau? Ai caredig fyddai i ni neu arall gyhoeddi pechodau ysgeler ac anlladrwydd pregethwyr *Independia*, a chodi i'r gwynt pa nifer a garcharwyd, a ddienyddiwyd, ac a alltudiwyd allan o gyffiniau gwlad Gristionogol; heb son am y rhai na dderbyniasant etto eu teilyngdod! Pe gwnelid hyn yn ol eich rhesymeg chwi, drewai *Independia* yn ffroenau y cyhoedd saith gwaeth nag yw Mormoniaeth yn eich ffroenau chwi.

O barthed i'r “William Smith” y soniwch, oni ddywedasoeh eich hunan wrthlym drwy'r *Amserau* ei fod ef wedi gadael y Mormoniaid er's tua dwy flynedd yn ol? Do, do! a'i fod ef ar amlygu i'r byd rhyw

fwci bw anghenfilai id o barthed iddi, &c. Ni soniasoch air am ei ymuniad a hwynt wed'yn, hyd nes y cewch ryw beth drwg—drycach, drygaf:—gwarthus, gwarthusaf, i'e, "gwrthun" i ddweyd am dano; ac yna, syndod! wele efe yn "brophwyd neu batriarch Mormonaidd" yn y fan! O'r fath brofion a geir ganddo yn erbyn Mormoniaeth!

Baw yn ei gwd heb un gem—ac eisin
Yn gysswllt mewn hyllidrem.

Nid ystyriwn ein bod yn dweyd un newydd i olwi wrth ddyweyd nad yw y W. S. uchod yn Formoniad drwy un math o gyssylltiad, llawer llai yn "brophwyd neu batriarch;" ac o ganlyniad nad yw ei rinweddau na'i ffaeleddau, yn ffrwythau Mormoniaeth, mwy nag yn eiddo Independiaeth, neu ryw *aeth* arall.

Ni wyddom am well *pills* i garthu eich clwyf enllibus chwi o'ch cylla, ac o'ch esgyrn (os yw yn feddyginiaethol hefyd) na'ch *pills* eich hun etto, pa rai a gewch yn yr un gongl o'r hanes blaenorol;—

"Nid oes un gair a leferir dros wirionedd, yn syrthio yn ofer. Dywed wirionedd; gweithia allan wirionedd; tystia dros wirionedd,—a gâd y canlyniad i Dduw.

"Ein dyledswydd gyntaf at wirionedd ydyw ei gredu; y dyledswydd nesaf ydyw ymostwng iddo."

Ac er tystio o hyd, ni roddwch chwi le byth i dystiolaethau gwirioneddol y rhai a gyhuddwch. Er hyny, "tystiwn" lle y caffom; ao yn ol eich cyngor "gadawn y canlyniad i Dduw." Gan eich bod chwithau yn caru celwydd yn hytrach na'r "gwirionedd," nid allwch feio arnom am eich gadael yn llaw y Duw hwnw ag yr ymleddwch mor ystyfnig yn ei erbyn,—ei "wirionedd" a'i eiddo: canys,—

Dyn a gwarsyth ddiarswyd—coleddwr
Celwyddau y'th brofwyd;
Ow syrthiaist, rhedaist i'r rhwyd
O'th ddwlni blin y'th ddaliwyd.

Byddwch chwithau o hyn allan mor gysson a chwi eich hun, a'n gadael ninnau a'n crefydd yn llaw yr un Duw; canys iddo ef y crefyddwn, ac i'w frawdle ef yr y'm yn gyfrifol, diolch am hyny, ac nid i'w frawdlys yr *Amserau* unochrog ac erlidgar. Clywsom lawer o son am rhyw "weinidog" a bregethai "ufyddhewch i'm gorchymynion i ond nid i'm esianplau." Eithr ni wyddem mor siwr mai "*ti yw y gwr*" hyd nes darlennasom y cyngorion a rowch, a'n cymharu a'ch gweithredoedd enllibus. Gwiria eich camgyhuddiadau parhaus a chynyddol eich arwydd-air eich hun, a ganlyna:—

"Gall yr hwn sydd yn dda, ddysgwyl myned yn well; a'r hwn sydd yn ddrwg, ofni myned yn waeth; canys nid ydyw drygioni, rhinwedd, ac amser, byth yn sefyll yn yr unman."

Gwiriwch hefyd yr hyn a ddywed y Pregethwr, pen. xviii, adn. 11. "Oherwydd na wueir barn yn erbyn gweithred ddrwg yn fuan, am hyny calon plant dynion sydd yn llawn ynddynt i wneuthur drygioni." Pa ddrwg mwy a allwch wneyd na chamgyhuddo crefydd, ac erlid plant Duw? "Yr hwn sydd yn cyffwrdd a chwi sydd yn cyffwrdd a chanwyll ei lygad Ef," a brofir yn wirionedd yn eich tynged chwithau

onid edifarhewch, mor sicr ag mai y cyfryw mewn gwirionedd yw y rhai a gamgyhuddwch. Caniataed y Duw graslawn i chwi amser i edifarhau, yw ein gweddi, os yn eich anwybodaeth y gwnewch. hyn oll; os nade, gwnaed fel y bo da yn ei olwg.

Y SEREN GOMER A'I CHABLDRAETH GREFYDDOL!

MAE hon hefyd wedi dysgu yr hen dric braidd cystal â'r *Amserau*, a'i cholofnau yn dylifo rhyw lysnafedd gwarthus ar ei chymmydogion beunydd oherwydd eu crefydd. Ond y mae hi yn gymmaint cyfrwysach nâ'r *Amserau* ag yw hi yn henach. Y mae hi wedi gollwng ambell dipyn bach allan mewn amddiffyniad i'w chyhuddiadau arnom, fel y gallai hõni rhyw fath o hawl i fod yn ddwy-ochrog; pan, yr un pryd, meddylia ladd dau aderyn ag un ergyd drwy hyny; ac nid oedd pan yn gwneyd hyny ond yn llwytho tucefn i'r curtain ei magaelau tryn-ach i ymosod arnom. Tegwch Seryddol iawn oedd cyhoeddi beiddiad, megys H. Tegai i J. D., i ddod i'r maes, sef maes y *Seren*, ac yna gwrthod lle i'r amddiffyniad!!! Pwy arall o blant Gomer a driniwyd, fel hyn mewn cyhoeddiad a broffesa fod yn rhydd? Etto, nid dyna y tro cyntaf iddi hi chwarae yr *Yankee tric* a'r Mormoniaid. Yn yr un rhifyn addefa iddi adael allan bethau dyddorol iawn yn bwrsol er rhoi lle i ereill ein blagardio a'n camddarlunio yn hollol ddiachos, sef hanes anwireddus am "Ddarlithoedd Dowlais," &c. Chwi olygyddion Cymru! beth yw yr achos fod y folwst arnoch oll braidd ar unwaith? Paham cyfarth cymmaint am grefydd mor anadnabyddus i chwi? Beth a wnaeth neb o honom i'ch cynhyrfu fel bleiddiaid o'ch tyllau? Dywedwch, os gallwch, beth yw yr achos? Os ydym yn euog, paham na chyhoeddwch hyny, ynte, yn lle cyhoeddi celwyddau arnom o flwyddyn bwy gilydd? Ai tybied na chyhoeddech ryw drosedd arnom, pe gwyddech am un? Profa eich awydd i gyhoeddi camgyhuddiadau, na allwch gael pethau gwirioneddol i'n niweidio.

Pa ddyd rhesymol a all gael geiriau teilwng i ddangos ysgelerder, eullib, a phechadurusrwydd yr ysgrif hono a ymddangosodd yn y *Seren Gomer* am fis Tachwedd, dau yr enw o "*Anerchiad Seintiau y Dyddiau Diweddaf at eu Cydroladwyr!*" Onid digon drwg oedd cyhoeddi anwireddau arnom dan ffugenwau, a dim enwau yn y byd, heb y weithred olaf ac annuwiolaf hon o forgio ein henwad? Cymeryd yr hyfdra i gyhoeddi y fath sothach enllibaidd ar ein henwau ni ein hunain!! Dyna ei gwneyd hi yn iawn. Dyma waeth na chyhoeddi y "Gyffes Ffydd" hono ychydig yn ol. Pe eiddo y Saint: rhyw anerchiad, ai tybied y caffai ymddangos? O na chawsai. Wel, yn enw rheswm, ai gwell o ran dylanwad ar y cyhoedd, ynte ai melysach gan chwaeth y cyhoeddwr, yw ffug-anerchiad brwt, dan forgio enw plaid gyfan o grefyddwyr! Beth pe coeliai y werin fod yr anerchiad hwnw yr hyn a broffesa fod, sef yn eiddo y "Seintiau?" pwy a ddeuai i'w gwranddo? a phwy a ddeuai i wrando y Bedyddwyr hefyd, pe ffugiai rhyw ddyd drwg enw eu plaid i'w camddarlunio hwy gymmaint ag a wna yr anerchiad hwn arnom ni? Paham nad ystyrir fod ein crefydd ni mor dda ac mor anwyl yn ein golwg ni, ag yw yr eidd-

och chwithau i chwi? Etto, meddwn, gwnewch a fynoch, nid gwaeth genym, canys y mae Duw o'n plaid er hyll floedd yr holl fleiddiaid!

Y SAINT YN CALIFORNIA.

[Allan o'r "Millennial Star."]

"Yn ddiweddar oddiwrth y Mormoniaid.—Deallwn drwy gyfrwng llythyrâu diweddar oddiwrth wersyll blaenaf y Mormoniaid, eu bod hwy wedi cyrhaedd yn ddiogel a' chysurus i gyffiniau y Llyn Halen mawr, lle yr ymsefydlant am yspaid, ac y mae eu gwartheg a'u diadelloedd yn gwledda ar y horfa ffrs, a'r dyfroedd puraidd, ag sydd mor nodedig yn y parthau hyny. Gwnaethant ffordd newydd oddiwrth lwyth Indiaidd Omaha hyd i odrau y mynyddoedd creiglyd, yr hon fydd yn rhwyddineb mawr yn ddiau i ymfudwyr ereill a ddeuant ar eu hol o'r Unol Daleithiau. Mae hon i'r gogledd i ffordd Oregon—ac yn fwy uniongyrchol—adeiladasant bontydd cedyrn dros y prif afonydd. Arddengys hyn eu bod hwy wedi llafurio yn galed, a dyoddef llawer wrth ei hagoryd. Wedi cyrhaedd tulwât i Grand Island, cawsant eu gwala o wartheg gwylltion, cer cryfhau gïau y gwrolion hyn. Daethant i blith oddeutu deng mil ar unwaith, neu fel y cyfrifa un hanesydd, "fod yno tuag wyth neu ddeg miliwn o bwysau o beef." [marchnad lled lawn a rhad i alltudiedig blant Daw yn y goedwig!] Pan y gwneir rheilffyrdd o Missouri i'r Môr Tawdd, diau y caiff y llywodraeth, neu pwy bynag a'u gwnelo, well goruchwylwyr a gweithwyr o blith y Mormoniaid, nag a allant gael o blith neb ereill—cedyrn feibion erlidigaeth barhaus, y rhai a ddiystyrant ac a orchfygant boh rhwystrau a pheryglon fel pethau dyddin. Y mae argraffwasg newydd etto ar y ffordd yn myned atynt yno.

"O. B. H."

Newyddion melyn iawn yw hyn i blant Seion drwy'r byd, ac i'r Cymry hefyd. Diolchwn i'w cynnaliwr am ei diriondeb mawr tuag atynt hwy. Wele y blaenffwrth wedi cyrhaedd i'r ysgubor; beth a all luddias y cnwd mawr? Dim daearol, na than-ddaearol, meddwn, tra y cadwant gyfraith Seion! Na feddylied y Cymry ychwaith eu bod hwy wedi cyrhaedd allan o eisieu cynhorth. O na, ond yu awr pan y maent yu dechreu ymsefydlu mewn gwlad mor newydd, dan gymmiant o arghyfleusderau, ar gost traul eu heiddo, eu harian, a'u dillad, &c. Yn awr, meddwn, y mae mwyaf anghen cynnorthwy er adgyweirio, er cael defnyddiau adeiladau, gwisgoedd, had i roi yn y ddaear, a'r pethau anghenrheidiol er llafurio y ddaear, a chario yn blaen y gwahanol gelfyddydau anghenrheidiol i fod yn gydfynedol â'u gilydd. Ystyrier mor fanteisiol a hyfryd fydd cyrhaedd i wlad lle y bo pob peth anghenrheidiol i'w gael, rhagor myned fel y maent hwy i le nad oes dim o'r cyfryw ond a sefydlant eu hunain. Pared hyn ynom gydymdeimlad â hwynt, nes y gwnelom ôll y "*long pull a strong pull, and a pull altogether*," yn awr, er eu mwyn hwy—y gwaith a wnant, ac er mwyn y lles a ddysgwylw'n ninnau oddiwrth ffwrth eu llafur caled eu dyoddefiadan hwynt. Hyderwn yn fawr y byddwn yn

alluog i gyflawni ein hadduned iddynt yn y Gymmanfa nesaf. Beth meddwch, blant Seion? Os ydych oll o'r un feddwl, ni'm siomir

Deallwn fod miloedd lawer yn ychwanegol o Saint ar eu taith o'r taleithiau tua California. fel colomenod yn ehedeg i'w ffenestri. Mae rhyw ymchwiliad mwy awyddus a llwyddiannus i egwyddorion Mormoniaeth drwy'r taleithiau yn awr nag erioed. Mae y dystiolaeth olaf hon, sef ymadawiad y Saint o'u plith, yn ychwanegol at lais "gwaed prophwydi ac apostolion santaidd a saint," yn dylanwadu yn rhyfedd drwy'r wlad, ac yn arddangos fod Duw o ddifrif am "wneuthur ei waith, ei ddyeithir-waith," ac am gasglu ei blant ynghyd "i'w hystafelloedd am enyd fechan, hyd onid elo yr aflwydd heibio." Nid pawb sydd yn deall arwyddion yr amserau yn yr oes oleu hon, fwy nag yr oeddynt yn nyddiau Noa, neu ddynistr Jerusalem, canys nid yw pawb yn myned i'r fan a ddarparodd Duw i fod yn waredigaeth rhag barnau y dyddiau diweddaf, mwy nag yr elai pawb i'r arch—neu yr elai pawb o Jerusalem i'r mynyddoedd. O na, dim neb ond y saint hyny a ddeallent drwy Ysbryd y dadguddiad iddynt eu hunain pa le y byddai eu gwaredigaeth. Wrth hyn hefyd gwelir y fendith fawr yw cael, i.e., yr anghenrheidrwydd anhebgorol sydd am gael dadguddiadan dwyfol ac ychwanegol yn ein hoes ni, fel yn mhob oes arall ag y mae Duw yn gwneuthur gwaith. "Canys ni wna yr Arglwydd Dduw ddim [yn yr oes hon fwy na chynt] a'r na ddangosa ei gyfrinach i'w weision y prophwydi." Gwrandawer eu llais, ac ufyddhaer i'w galwad, fel yr etifeddom nid yn unig waredigaeth dymhorol, a gorphwysfa hyfrydol oddiwrth bob gormes a newyn, ond hefyd, fel y der yniom ein cynnysgaeddiad dwyfol yn nhemlau ein lor, fel ein haddaser drwy berfffeithiad ein deallwriaeth a'n santeiddrwydd i fwynhau ei gymdeithas ddaionus Ef—patriarchiaid a phrophwydi, ynghyd â'r dedwydd deulu nefol; ac y caffom fynedfa helaeth i mewn i lawenydd ein Harglwydd pan ddelo efe i'w ogoneddu yn ei saint. Dyma'r ffordd i gyrhaedd y nod. Saint anwyl, rhedwch yr yrfa hon yn gyflym, a chwi a fwynhewch, o gam i gam, "daledigaeth y gwobrwy."

Dysgwylw'n yn awyddus o hyn i ddiwedd y flwyddyn hon am y newyddion daionus oddiwrth ein llywyddion am agoriad y ffordd, a chyfarwyddiadau i ninnau ei theithio tuag atynt hwy; canys, diau eu bod hwy yn gofalu drosom ninnau hefyd. Henffych! i.e., galwad, meddwn a'n holl galon.

Y TRYSOR GOREU.

Yn gyntaf ceisiwch deyrnas Dduw,
Na cheisiwch olud byd;
Y trysor goreu ceisiwch chwi;
Mae'r lleill i'w cael o hyd.

Mae'n fwy o les i enaid dyn,
Na'r byd a'i olud mawr,
I ryngu hodd ei nefol Dad,
A gwneyd ei gais hob awr.

Bydd hyn yn olud o barhad,
 Nas gwyr y byd ei faint—
 Cael etifeddu Seion Duw,
 A thrigo gyda'i saint.

Caniadau Moses ac Oen Duw,
 Fydd yno'n boddio'r glust;
 Ceir drachtio'n llon o'r newydd win,
 Yn neithior Iesu Grist.

J. D.

HYNT YR EGLWYSI.

DA genym hysbysu fod pob hanesion a'n cyrhaedda, nid yn unig o bob parth o Gymru, ond hefyd o Loegr, Scotland, yr America, a phob man lle mae yr efengyl yn cael ei phregethu, yn arddangos fod cynnydd cyflym a pharlihaus ar y gwaith dwyfol hwn; a bod, nid yn unig lluosogiad mawr mewn rhifedi, ond hefyd fod cynnydd mewn undeb, sel, a santeiddrwydd, yn amlwg yn nhlith y Saint, ac mewn mwynhad cyflawnach o ddoniau yr Ysbryd Glân yn barhaus. Ni ddarllenwn am gymmaint o erlid a gwrthwynebu yn un man ag sydd yn ein gwlad ni yn y dyddiau hyn. Er hynny, na ddigalonwn, frodyr a chwiorydd hynaws, canys y mae ein Duw galluog o'n plaid, ac yn goruwch-lywyddu y cyfan i fod er cyflawni ein gwaith, o rybuddio ein cenedl, a'u gwahodd o afael dinystr mewn byr amser. Diolch i'n Duw ein bod ni yn gwybod beth yr ydym yn ei gyfech, ac y gwyddom y coronir ein llafur â llwyddiant, i.e. â buddugoliaeth drwyadl, os daliwn hyder ein profes yn wrol am enyd fechan etto. Dyrchefwch eich penau, ac edrychwch ar "arwyddion yr amserau!" Clustymwrandewch ar y newyddion! Swn rhyfeloedd yma, a thymallt gwaed dynion wrth y miloedd a glywir oddidraw! Newynau, heintiau, a chlefydau, a gylchredant draws y byd;—masnachau y byd, a'u marsiandwyr cyfoethocaf yn cael eu hunain yn waeth na gwerth dim heb nemawr oriau o rybydd;—a chalonau mawrion y byd yn crynu ac yn arswydo rhag ofn yr hyn a ddysgwyliant arnynt;—yr ymborth yn codi mewn pris, a'r cyflogau yn gostwng, ynghyd â llawer o betâu ereill ydynt oll yn arddangos fod ein byd mewn dyrswch—fod barnau Duw yn prysur dilyn sodlau ei weision a'u cenadwri ddwyfol am y tro diweddf; ac oll, meddwn, yn dystiolaethau i'r rhai y "rhoddwyd i adnabod arwyddion yr amserau," fod amser eu "hymwared yn agosâu." Diolchwn i'n waredwr am ein bod yn gwybod am y ddi-ddosfan, lle y trefna Duw aredigaeth lawn i'w blant rhag pob drwg; ac ymdrechwn gwblhau'n gwaith ar frys, fel y byddom barod i fyned pan y swmir y gwaiddiad pwysig yn ein clustiau ninnau, sef "Deuwch allan o honi i'w mhobl i. ac na fyddwch gyfranogion o'i phechodau, fel na dderbyn- h ei phlâu." Cofiw'n mai dyeithriaid a phererinion ydym yma, a ai sydd yn ceisio gwlad well, ac yngysurwn.

MERTHYR.—Y mae yn ormod gorchwyl i ni allu hysbysu pa nifer a fedyddiwyd yma y mis diweddf, oherwydd bedyddir llawer nos a dydd, ac weithiau gynnifer a deg yr wythnos; ond hyn a ddywedwn, nad ydym yn cofio am nemawr gwrdd Saint er calm â'r na dderbynid rhai i mewn. Ac yn mhellach dywedwn, fod nifer y ganghen i yn awr yn, os nad dros, 600 o aelodau ffyddlon a selog, a mawr y llawenydd sydd y eu plith, a'r cynnydd yn nihob gweithredoedd da. Dylem ddiolch i'n herlidwyr.

(pé Sylem hefyd) am achosi yn mhllith pethau ereill rhyw gyffroad anarferol yma, ac achosi ymchwilad mwy nag erioed i'r athrawiaeth a bregethwn; ac ynae nid yn unig pobl ddibrofles, ond profleswyr hefyd, 'ie, a'r rhai a fu yn flaenoriaid a phregethwyr parchus yn nesu, yn gwrandao, yn credu, ac yn ufyddu, ac yn dweyd na chymmerent y byd ani y cyfnewiad. Brysio wnelo ychwaneg, meddwn.

DOWLAIS.—Mae y gwirionedd ar ei gynnydd yma; ac y mae y dwndwr wedi dystewi fel tyrfau haf, ac yn dwyn cawodydd peraidd ar eu hol, er llawenydd i'r Saint, ac ychwanegiad at eu rhifedi braidd bob wythnos. Mae hyn, fel pob peth arall, yn profi mai gaubrophwyd yw y rhai a brophwydent fod y Mormoniaid wedi cael yr *home stroke*, &c., canys sicrhawn ei hod hi yn fwy byw a gogoneddus nag erioed. Diolchwn i'w hawdwr au dani.

CAERDYF.—Bedyddiwyd wyth yma yn ystod y mis diweddf, ac argoelion da am ychwaneg; a da iawn genym glywed fod y Saint yn unfrydol yn fwy egniol nag y buont. Gobeithiwn y gwyliant fel pe o flaen dannedd y llew.

ABERDAR.—Mae y ganghen hon yn ysgythru y mwsogl oddiarni, a dysgwyliwn oi gweled yn fuan yn hloleuo etto fel canghen iraidd yn yr haf. Ychwanegwyd dau at eu rhifedi yr wythnos hon. Daw lluoedd, canys etto y mae lle.

ABERSYCHAN.—Wedi hir guro ar y gareg adamsantaidd hon, y mae o'r diwedd wedi tori yn ysgrion. Bedyddiwyd 19 yma yn yr un wythnos, a 24 mewn llai na hyny o ddyddiau, ac yn ol pob zryddion, y mae lluoedd ar y drws; ac y mae y Saint yn llawen fwynbau bendithion plant Duw yn ol addewidion Iesu Grist, ac yn cael tystiolaethau cedyrn a lliosog ofod Duw a'i waith yr un ag yr uedd yn y dyddiau gynt. Yn mhllith ereill a fedyddiwyd yma, y mae tafarnwr a'i deulu, yr hwn a roddodd enghraifft o'i onestrydd a'i awydd i wasanaethu Duw, drwy dynu ei *sign* i lawr ya y fan, gan ddywedyd, na cheisiai efe wasanaethu Duw a Bacchus, a bod crefydd mor ogooneddus â hon yn teilyngu pob aberth er ei mwyn. Dyma un enghraifft i brofi fod yn ei greffydd rym a dylanwad, er nad o'r un natur ag y dywed ein cyhuddwyr. Er nad yw ein rheolau eglwysig yn pendant orchymyn hyn, etto y mae yn esiampl deilwng o efelwchiad pan y mae hyn neu unrhyw fasnach arall yn rhwystro dyn i addoli Duw. Taled yr Arglydd i'r brawd hwn ar ei ganfed, meddwn. Yn mhllith y lluaus o offerynnau a oddefa Duw i gael bodolaeth er puro a pherffeithio amynedd ei blant, y mae gerllaw yma rhyw hen daeliwr sarug a Phariseaidd, yr hwn sy'n brysur iawn, 'ie, yn aml cyn gorphen gwisgo yn y boreu yn dilyn ar ol y rhai gwneiaid newydd eu bedyddio, yn enwedig y benywod, gan eu herio i wneyd gwrthiau, &c. Ond o'r diwedd, cafodd yr hen daeliwr ei *fath* yn bert iawn! Ymwithodd ei hun fel hyn i dy un fenyw a feddyddiaid x dydd blaenorol, a gofynodd iddi hi fwrw y cythraul allan o hono ef! Ond gofynai dyn arall ag oedd yn dygwylid bod yno ar y pryd i'r hen daeliwr, a oedd efe yn hōni bod yn blentyn i Dduw? "Ydwyf siwr," ebe y taeliwr yn warsyth iawn, "er's dros 17 o flynyddau." "Wel," ebe'r llall, a mwy rhesymol o lawer, "rhyfedd iawn fod hen blentyn i Dduw fel chwychiwi yn ceisio y *fath* beth gan blentyn nad yw yn gynnifer o oriau o oed ag ydych chiwi o flynyddau, onide!" Y peth nesaf a welwyd o'r hen daeliwr oedd ei gwt yn llusgo ar ei ol i'w dwll. Ac os clywir ei ddyfod allan etto ar yr un fusnes, cechw wybod pwy yw, ac ychwaneg o'i hanes. Syndod na ddysgai ei frodyr iddo well moesau!

BLAENAU GWENT.—Bedyddiwyd 5 yma yn ddiweddar, ac y mae yn myned yn y blaen yn lled lwyddiannus. Bu yma rhyw dyn, a bu yr un dyn mewn canghenau ereill, yn proflesu bod yn aelod gyda'r Saint yn Scotland, ac yn ymlusgo i'r cyrddau, ac i dai y Saint, gan holi cwestiynau dichellgar, a cheisio eu rhwydo i roddi rhyw destynau iddo ef i gael ysgrifenu celwyddau arnynt i'r byd; ond daliwyd ef yn ei frad. Na choelir pob ysbyrd a ymrithio i'ch plith, serch eu dyfod yn wneithus iawn weithiau fel hwn; ond profsych hwy yn iawn cyn y caffont ran yn eich cariad-wleddoedd. Brychau a meslau ydynt, yn dyfod i mewn i yspio eich rhyddid, fel y gallont eich trafynycu yn ngwydd y byd. Na roddwch bethau santaidd i'r cwn. Nid oes rhyddid i neb ddyfod i eglwys Dduw ond trwy y drws, sef bedydd, a'r rhai a ddeuant rhyw ffordd arall, lladron ac yspeilwyr eu hystyrir yn awr fel cynt.

NANT-Y-GLO.—Bedyddiwyd pump yma yn ddiweddar, ac y mae y chwaer hon eisoes wedi magu bronau, a chael yr arhydedd o fagu meibion gwrol a defnyddiol, parai a aethant a'u had da i amryw barthau o'r wlad, ac y mae yn egino yn hyfryd, gan addaw cynauaf toreithiog. Yn mlaen yr elont.

PEN-Y-CAE.—Bedyddiwyd dau yn ddiweddar, un o ha rai a fu yn ddiagon parchus, ac o ddyllanwad mawr gyda'r Bedyddwyr am flynyddau; ac ni bydd terfyn ar ei ddolch, oherwydd iddo ddewis y rhan dda, os parha yn flyddlon yaddi.

VICTORIA.—Bedyddiwyd chwech yma er y Gymmanfa, dau o ba rai oeddynt oddi-wrth y Bedyddwyr etto! un gyda'r Wesleyaid, heblaw ychwaneg yn credu.

TREDEGAR.—Bedyddiwyd dau yma yr wythnos ddiweddfaf, a gobeithiwn nad yw y rhai hyn ond blaenffwrth o'r ail gnwd yn y lle poblogaidd hwn. Chwi Saint, gwyl-wich ar eich ymarweddiad, na bo ynoch ddim i rwystro y rhai goncst eu calon i ddyfod i deulu Duw, canys "gwae y rhai hyn, trwy ba rai y delo rhwystrau."

BLAENAFON.—Bedyddiwyd dau, ac y mae amryw ar y drws yma, a phe caent y manteision a geir mewn manau ereill, deuent i mewn. Hyderwn y gallu llywydd y Gymmanfa lwyddo i gael henuriad selog a diwyd i fyned yma cyn hir, yr hwn a allo iawn gyfranu gair y gwirionedd i'r rhai sy'n marw o eisieu gwybodaeth am drefn Duw i achub dyn.

PONT-Y-BEREM.---Ychwanegwyd pedwar at rifedi y Saint yma yn ddiweddar, un o ba rai oedd yn 91 o flyddi o oedran. Canmola yr henuriad H. Williams, a'r pregeth-wyr ereill, foneddeiddrwydd a gonestrwydd ymchwiladol trigolion y cylchoedd hyn yn fawr iawn. Nid yn unig deuant i wrando yn astud, ond manwl-chwiliant yr ys-grythyrau eu hunain, a mawr yw eu llawenydd pan ganfyddant fod addewidion Iesu Grist ar eu rhan hwythau i gael mwynhan y doniau ysbrydol, a chymdeithas ddaionus, ei Lân Ysbryd ef fel cytnt. Mae amryw ereill wedi addaw ufyddhau i ammodau yr efengyl cyn hir. Mawr ddiolcha y Saint i feistri a goruchwylwyr y gweithfau hyn am eu tiriondeb tuag atynt, a'u rhyddid iddynt i addoli Duw, fel ag y mae ereill yn cael. ac am nad ydynt, fel y mae rhai, yn credu pob chwedlau a ddygir iddynt gan wyr y clecs, i'r dyben o'n herlid o'r wlad. Gweddian ar i Dduw y Saint ad-dalu iddynt. ar eu cenfed am eu tiriondeb tuag at ei blant ef.

CWMAMAN.---Taer erfynia yr henuriad J. Griffiths a R. Davies am gynnorthwy i bregeth yn y cylchoedd hyn. Mae y galwad mor fawr a thaer fel na wyddan braidd pa le i fyned gyntaf, ac yn cynnyddu fwy-fwy. Er na feddyddiwyd yno ond dau yn y mis diweddfaf, etto yn ol yr arwyddion presennol, nid yw y rhai hyn ond blaenffwrth o gynauaf toreithiog o eneidiau i eglwys Dduw. Canmoli'r y meistri a'r goruchwylwyr hyn hefyd yn fawr gan y Saint.

LLANELLI.---Hysbysir ni yn barhaus o fedyddiadau yma, ac y mae 41 wedi eu bedyddio er y Gymmanfa. Y rhai hyn oll braidd ydynt wedi bod yn manwl ymchwilio yn mhllith crefyddau yr oes am y wir grefydd, a buont, gan mwyaf, yn aclodau gyda'r Bedyddwyr a'r Annibynwyr am flynyddau, ac heb braidd byth frycheuyn ar eu cymmeriad; er hyn, can gynted ag y delont yn ddysgyblion gwirioneddol i'r hwn a ddywedodd, "Chwi a fyddwch gas gan bawb er mwyn fy enw i," gwiria hyd yn nod eu brodyr y brophwydoiaeth hon drwy eu herlid, yn enwedig eu cyn-fugiliaid, pa rai a ymborthent arnynt hwy yn lle eu porthi; ac yn enwedig ceisia gweinidog y Bedyddwyr, o'r enw James Spencer, larpio y rhai a'i porthent ef yn fras! Gweled y mae na chaiff ychwaneg ganddynt o gon, onide ni fyddai mor awyddus am larpio eu croen: ond nid oes neb yn ofni hyd ef ddannedd, canys y maent wedi pydru. Onid yw yn arwydd eglur o ddallineb rhyfeddol dynion fel hyn, eu bod yn meddwl cadw dynion gonest a rhesymol dan eu crafangau yn y tywyllwch, drwy ddifenwi y rhai a'u dygant i oleuni, ac yntau yn cael ffeithiau mor luosog i brofi mai hollol groes yw yr effaith ag y mae ei erlidigaeth yn ei gael? Mynych iawn y gosfyr i ni, "Yn enw rheswm, pa beth yx, yr achos fod y Bedyddwyr yn mhob man mer nadedig o waedyl tuag at y Saint, yn anad pawb arall, ac yn mynu bod yn flaenoriaid yn mhob erlidigaeth?" Y mae genym ateb i roddi i hyn cyn hir, ond byddai yn rhy faith yma.

Da genym hysbysu fod yr holl Saint yn unfrydol er y cwbl, mewn eariad gwresog at eu Duw a'i waith, ac yn llawen fwynhau o "fara y plant," nes y mae eu cynnydd mor fawr mewn doethineb ddwyfol, a phob duwioldeb. Dywedwn wrth Saint Llanelli, er eu cysur, fod eu "Balaam" hwy wedi dychwelyd i'w hen regfa, ond nid yw yn gallu melliigo Israel un diin. Y mae yntau druan wedi darfod, fel y darfyddodd ac y derfydd pob ser gwibiog a dorant ar draws cylchoedd y plantan; ni welir ei wrcehion, ac y mae ei sawyr wedi cael ei chwythu ymaith. Gwir a glywsoch fod asgwrn ei gein wedi tedi dan forthwl y beili!

CWMBYCHAN A'R BRYN.---Clywsom gan amryw fod rhyw liaws mawr wedi cael eu bedyddio yma yn ddiweddar, a'r holl bregethwyr yn hysur iawn wrth eu gwaith. Etallai mai dyma yr achos na chafodd y llywydd gymmaint o amser ag i'n hysbysu er ys talm eu nifer na'n hynt.

CAERFYRODIN.---Mae y ganghen hon yn blodcuo o'r newydd, a rhifedi y Saint wedi cynnyddu trwy fedydd yn y ddwy wythnos ddiweddfaf bedwar. Hysbysa yr henuriad B. Jones oddiyno fod yno ugeiniau ereill yn credu yr efengyl hon, ac argoelion o'beithiol am liosgiad buan, yn cowedig yn y cylchoedd am amryw filldroedd, lle y-

mae galwad mawr am bregethu, a gwrandawriad astud. Maent wedi cael neuadd gyfleus yn y dref, lle y pregethir yn gysson i dorf o wrandawwyr boneddigaidd. Dymunant am ran yn ngweddiau y Saint, yn enwedig eu mam ganghen yn Merthyr, a dywedaf ffinau Amen.

SIR BENFRO.—Mae y gwaith ar gynnydd parhaus drwy'r Sir hon. Hysbysa yr henuriad J. Morris, ei fod yn cael gwrthwynebiad anfoneddigaidd a chas yn aml, yn enwedig pan yn bedyddio. Hyd yn nod pan yn gweinyddu yr ordinhad ddwyfol hon ymosodid ar ei berson, a thefidd cerig atynt i'r dwfr, &c., &c. gwneid hyn gan broffeswyr crefydd, yn mysg pa rai yr oedd o'n cyfeillion y Bedyddwyr fyth! Ac oni bae tiriondeb dynion dibroffes, huasai yn waeth ar y Saint! Dymuna y Saint gydnabod amddiffyniad boneddwyr y wlad, yn flaenaf Mr. Owens, yn ddiolchgar. A phwy na ddiolchai am ryddid i addoli Duw, pan y mae proffeswyr crefydd yn ceisio eu rhwystro, ac yn eu gorfodi weithiau i fyned filldroedd o flordd yn y nos yn ddirgelaid er mwyn cael llonyddwch i weinyddu un o ordinhadau ty Dduw! Yn miba wlad baganaidd y ceir cyffelyb i hyn, heb son am fod yn mhllith "Crisionogion" Gymru? Mawr yw amynedd ein Duw, diolchwn-mai dan ei ofal ef y mae pob peth, ac y try y cyfan er daioni yn y diwedd.

LLANYBYDDAR-A BEECHFA.—Mae amryw wedi cael eu bedyddio yn y manau hyn yn ddiweddar, yn enwedig yn yr olaf; ac yn mhllith ereill, rhai o ddiaconiaid y Bedyddwyr, ac o flaenoriaid y Caliniaid, nes y mae yn y nowr 25 oll wedi, ac yn parhau i gael tystiolaethan adeila'ol gan Dduw o'u cymmeradwyaeth ger ei fron. Mae galwad mawr am ychwaneg o bregethu yn y cychoedd, ac amryw wedi penderfynu i godi eu croes, a dilyn Iesu drwy bob gwawd a rhwystrau. Mae ein hanwyl frawd, henuriad T. Jeremy, wedi bod yn selog a llwyddiannus iawn, ynghyd â henuriad T. Harris, ac ereill, a Duw yn bendithio eu llafur, er cysur ac adeiladacth i'r Saint, a dwyn goleuni dwyfol ger gwydd y byd. Maent wedi achosi ymchwilad rhyfeddol o'r newydd i'r ysgrythrau drwy'r cylochoedd hyn. Dywed T. H., er prawf o hyn, fod yn anhawdd cael tai glân, medd y bobl, lle yr elo y Seintiau, oherwydd fod yr hen Feiblau llychiog ag oeddynt wedi bod yn gauedig ar hyd eu tai am hir amser yn cael eu troi a'u trafod yn brysus, "er gwled a oes ynddynt yr ysgrythrau dyeithr a rhyfedd a ddarlenu y Seintiau o'u beiblau-hwy!" Wel, nid pobl mor ddrwg yw. y rhai a achosant chwilio yr ysgrythrau, serch eu bod yn "Seintiau!" Cynnydded yr ymchwil, ac nid ofnwn o barthed i gynnydd y Seintiau lle y mae gwnestrwydd. Mae y cyffroad yn mhllith yr hen yn gystal ag ereill, er enghraifft darlener yr hyn a ganlyn: "Yr oedd rhyw ddynt yn gwerthu *spectacles* flordd hyn, ac annogid ef i fyned i'r manau lle yr oedd y Seintiau yn pregethu, am nad oedd nemawr eisieu *spectacles* ond lle yr oedd y bobl yn chwilio i'w beiblau yn ol eu cynhyrfiad hwy." Da er ei les ei hun fyddai i'r gwerthwr frysiog, rhag y bydd Saintyddiaeth yn goleuo eu llygaid i allu darllen heb *spectacles*, os uffyddhant iddi. Cofus am yr hyn a wnaeth i "Daniel Dywyll" yn ol ei dystiolaeth ei hun, sef ddarfod iddo weled y ganwyll ar y ford yn cglur y tro cyntaf y gweinyddwyd yr ordinhad iddo! A bydded ei ddiwedd truenus ef yn rhybudd i bawb beidio cellwair a chamddarlunio gwaith Duw!

Drwg genym glywed am y ddamwain alarus a ddygwyrddodd i'r brawd Jeremy drwy ddrylliad dryll, yr hwn a glywfodd ei ben mor anafus, nes y dywedai y presennolion ei fod tuhwnt i feddyginaeth. Llawn iawn oedd genym glywed hefyd ei fod mor ffyddiog ac ymddriedol yn ei Dad nefol a'i feddyginaeth, fel na tynai ddim arall, ac mai yr unig alwad a geid o'i enau oedd am henuriaid yr eglwys. Dyma ffaith i brofi dwyfoldeb ei grefydd pan mewn amgylchiad cyfyng a pheryglus; a wnaetani efe hyn, oni bae ei fod yn credu y cai iechyd drwy yr olcw a'r arddodiad dwylaw? Nid dyma y tro cyntaf iddo weled fod Duw yn un a'i addewid. Gweinyddwyd iddo yn ngwydd iorf gan henuriad *Thomas Harris*, ac er nad i gyd ar unwaith, ac er yn groes i ddygwylid yr edrychwyr, etto derbyniodd iechyd i raddau helaeth, ac y mae yn gwella yn gyflym er hynny. Diolchwn i'n Tad nefol, a gweddiawn yn barhaus drosto.

SIROEDD Y GOGLEDD.—Hysbysa ein hanwyl a'n llafurus frawd henuriad A. Evans fwy o newyddion dyddanus o barthed i gynnydd y gwaith dwyfol hwn drwy'r Gogledd nag a allwn guel lle i'w cyhoeddi yma. Er nad oes rhyw gynnydd gwyrthiol yn eu plith, etto y mae rhai yn cael eu bedyddio yn fynech. Bedyddiwyd amryw yn ddiweddar mewn manau newydd hefyd. Mae y Saint yn hynod o ffyddlon a phenderfynol i fyned yn y blaen drwy bob dirmyg a rhwystrau, nes cyrhaedd y gamp uchel yn Nghrist Iesu. Dysgwylwn y byddwn alluog i gynnorthwyo ein brodyr Gogleddol ar ol y Gymmanfa hon, drwy anfon mintai o bregethwyr doniol y Deheubarth i blannu eu gwinllanoedd.

HYSBYSIADAU.

AT EIN DOSPARTHWYR.

GAN nad oes un rhifyn arall o'r *Prophwyd* i ddyfod allan eitem, taer ddymunir ar bob dosbarthwr ymbarotol i settlo eu cyfrifon am y ffwyddyn am y llyfrau ereill, yn gystal â'r *Prophwyd*, erbyn y Gymmanfa.

D. S. Byddai yn fda genym brynu ein llyfrau ein hunain, sef y rhai canlynol, yn ol, a thalu eu cyflawn bris am danynt, os byddant yn lân, sef yr *Hcn Grefydd Newydd*, yr *Atebydd*, y *Gloriad*, yr *Anerchiad*, y *Prophwyd* rhif. 1, 7, 8. Pwy bynag sydd yn eu meddu, anfoned hwynt yma, a chais yr arian, neu lyfrau ereill, yn eu lle. Nid pob awdwr a wna hyn, ac nid yw y gofyniad rhyfeddol o gynnyddol hwn am ein llyfrau yn profi adfeiliad yn ein crefydd ddim!

- * * Mae genym lyfrau Hymnau Cymreig, wedi eu rhwymo, 6c. yr un.
- * * Ymddengys Adolygiad ar Ddarlith y Parch. E. Roberts yn y Capel Isaf, Merthyr, yn y nesaf, neu yn draethawd cyn gynted ag y gellir ei argraffu.
- * * Y sawl a ewyllysio gael ol-rifynau o'r *Prophwyd*, neu y *Millennial Star*, anfoned yma yn ddiwed.

CYMMANFA NESAF MORGANWG.

BWRIEDIR cynnal y Gymmanfa uchod yn Neuadd y Cymreigyddion yn Merthyr, dydd Sul a Llun, Rhagfyr y 26ain a'r 27ain, sef y cyntaf ar ol dydd Nadolig.

* * Dysgwylir dweithriad o'r America i'r Gymmanfa, a thaer erfynir ar yr holl Saint i ymdrechu cyflawni yr adduned a wnaethom er cynnorthwyo y Saint sydd yn yr anialwch, erbyn yr amser hwnw.

Dysgwylw'n y bydd i'r gwahanol lywyddion drwy Gymru ofalu am hyn.

C Y N N W Y S I A D.

"Llefaru â Thafodau" y Testament Newydd, a Mormoniaeth.....	181	Y Saint yn California.....	190
Yr Amserau, a'i lysnafedd celwyddog ar y Saint.....	185	Y Trysor Goreu	191
Y Seren Gomer, a'i chabldraeth gref- yddol	189	Hynt yr Eglwysi	192
		Hysbysiadau—At ein Dosbarthwyr— Cymmanfa nesaf Morganwg	196

MERTHYR-TYDFIL:

CYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH
HEFYD GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL.

ARGRAFFWYD GAN JOHN JONES, RHYDYBONT.

PROPHWYD Y JUBILI,

NEU

SEREN Y SAINT;

YN CYNWYS

EGWYDDORION "GORUCHWYLLAETH CYFLAWN-
DER YR AMSEROEDD,"

MEWN

TRAETHODAU, LLYTHYRON, HANESION,
PRYDYDDIAETH, &c.

"YR ANGLWYDD IOR A LEFARODD, FWY NI PHROPHWYDA? CANYS NI WNA YR
ANGLWYDD DDIM A'R NA DDANGOSO EI GYFRINACH
I'W WEISION Y PROPHWYDI."

CYF. III.

MERTHYR-TYDFIL:

CYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH HEFYD
GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL.

1848.

RHAGYMDRODD.

ANWYL SAINT A CHYDWLADWYR,—Yr ydym yn awr yn cyflwyno i chwi y drydedd gyfrol, a'r ddiweddaf hefyd, o'r PROPHWYD, gan dalu ein diolchgarwch gwresocaf am y gefnogaeth a roddasoch iddo. Nid am na allai ddyfod atoch etto, yw yr achos o'i ymattaliad; ond ystyried yr ydym y teilynga erbyn hyn gael myned i'w "orphwysfa," gan ei fod wedi rhedeg ei yrfa, a chadw y ffydd. O hyn allan yr ydym yn meddwl udganu ar eich hol yn UDGORN SEION, gan floeddio bob mis, "Deuwch allan o honi hi, fy mhobl i." Ceir sôn yn fynych am ardderchogrwydd Seion, a'r gyfraith a ddaw allan oddi yno, ynghyd â'r llwybr goreu i bawb fyned tua'r wlad. Yn awr, bydded i chwi etto wrandaw ar yr UDGORN, fel ag y gwnaethoch ar y PROPHWYD; a pherchwech yr olaf trwy brynu iddo y gwisgoedd lledr goreu, fel y byddo yn ei gell â'i wedd yn hardd.

Yr eiddoch yn y gwirionedd,

Y GOLYGYDD.

Rhagfyr 15, 1848.

CYNNWYSIAD.

TUD.	TUD.		
Aderfariad yr efengyl	122	Henffych California	158
Anerchiad "Prophwyd y Jubili"	71	Hynt yr Eglwysi	45, 77, 151
Anerchiad at y Saint	141	Hanes taith yr Orymdaith Formonaidd o Council Bluffs hyd California	29
Anerchiad y Llywydd Pratt at y Saint yn Mhrydain	146	Iachâd rhyfeddol o esgryn toredig	61
Arwyddion yr Amserau	154	Iachâd rhyfeddol o losgiad tân	136
At Ddarllenwyr y Prophwyd	113	Iachâd y mud a'r byddar trwy allu Duw	163
Azariah Shadrach yn Formoniad	81	I rwystro lladradau	143
Bedyddio 'Sataniaid a Chythreuliaid'	81	I rwystro trais a godineb	154
Beth yw'r mater?	36	Llythyr T. Richards o'r America	138
Beth a wneir i Olygydd Seren Gomer?	76	Llythyr W. Henshaw	165
Beth a wneir i erlidwyr y Saint?	106	Llythyr J. James, Victoria	25
Breuddwyd rhyfedd a'i gyflawniad ..	63	I lythyr Abednego Williams, Nantyglo	27
Cannoliaeth i Adolygiad Capt. Jones	23	Llythyr y Llywydd Brigham Young ..	90
Cân Newydd	139	Llythyr D. Roberts, Llwynyngell	107
Cân mewn Erelidigaeth	188	Llythyr Hen. W. Morgan	110
Camgryhuddiadau y Bedyddwyr ar y Saint etno	83	Llythyr oddiwrrth William Davies	65
Cân o Erfyniad	108	Llythyr yr Henuriad Abel Evans	70
Caethwasgnach y Sectariaid!	187	Llythyr at y Golygydd	187
Cledr-ffordd o Council Bluffs i Ddinias		Mysfyrodau ar y Flwyddyn a aeth heibio	17
Llyn Halen	185	Nauvoo	59
Clwyf y Pytatws	156	Paham yr wyf yn anghredadyn?	133
Cyfarchiad ar Ddechreu y Flwyddyn newydd	1	Pa fodd i gyfarfalu cynnyrch yr elfenau daearol	142
Cysur y Saint dan erlidigaeth	139	Pagan yn profi dau o'r Rabbits sect- yddol yn gelwyddog	24
Cymmanfa Morganwg	172	Pennillion D. James, Victoria	72
Cynnadledd Mynwy	74	Pedr Fardd yn Formon	12
Cymmanfa flynyddol Cymru	123	Profion o'r anghen sydd am y ddawn iachâu yn Eglwys y Bedyddwyr	19
Cynghorion i Ymfudwyr	151, 165	Pregeth Gwrth-Formonaidd	118
Cymmanfa Morganwg	9, 192	Prophwydoliaeth Sant Thomas, y Mer- thyr	33
Cymmanfa Sir Fynwy	186	Pwy sydd barod i gychwyn adref?	29
Darlith yr Apostol O. Pratt yn Nghym- manfa Manchester	161, 173	Pwy a?	190
Darganfyddiad o Gloddfa Mwn Aur yn California	170	Rhoddwch eu Tad i'r amddiffaid, &c. .	154
Desgrifiad o California	97, 129	Sylwadau ar Bregeth-ynghyleh "Saint y Dyddiau Diweddfaf a Doniau Gwyrthiol"	176
Dedfryd gollfarnol Iesu Grist	105	Squint, a'r Slwgiwr, a Siopwr Dowlais	21
Dychweliad yr Afradloniaid	37	Sylwch, y Dosparthwyr	31
Dyfyniad o Lythyr yr Apostol O. Hyde at O. Spencer	8	Sylwch, yr holl Saint	127
Edwiciaeth	142	Trancedigaeth Cybydd-dod	135
Enwau y Deuddeg Apostol	106	"Trigle y Mormoniaid"	9
Enghraifft arall o greulondeb y Bed- yddwyr, a thiriondeb Duw, tuag at y Saint	85	Twyll y Mormoniaid	99
"Eos Ial" a Mormoniaeth	26	Tystiolaeth Rees Price, Dowlais	131
Epistol y Deuddeg Apostol	50	Tystiolaeth Morgan David, Felinfoel ..	93
Ffordd newydd a rhagorol i ledaeu gwybodaeth o'r efengyl	49	Udgoron Seion!	191
Ffarwel y Saint	186	Y Cholera Morbus	157
Galwad ar bechadur	117	Y Dyn Dall a'i Lyfr	170
Gofynion, a'u hatebion	87, 103	Y Gynnadledd Ddwyreiniol Gymreig ..	172
Gwahoddiad at Dduw	87	Y Milffwyddiant	143
Gwir eglwys Iesu Grist	107	Yr Erelidigaeth yn Nghwmbychan a'r Bryn	115
Gwirionedd yn erbyn Celwydd	183	Yr Erelidigaeth yn Sir Benfro	60
Gwyrth Independiaidd	66	Y Rhyddid mwyafr	135
Gwyrth ddeuplyg	67	Yr adduned Gymreig i'r Saint Ameri- canaidd	11
"Gwyrth Formonaidd"	3	Y Sant allan o'r carchar, a'd ddiffyniad	72
Gwledd y Boneddigesau Americanaidd er cynnorthwyô y Mormoniaid	7	Y Sectariaid yn credu gwyrthiau	143
Helaeithiad ein Cyhoeddiad Misol	191	Ysgymundod Phillip Seix, Blaenau ..	43

PROPHWYD Y JUBILI,

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 19.]

IONAWR, 1848.

[PRIS 2g.

CYFARCHIAD AR DDECHREU Y FLWYDDYN NEWYDD.

DYWENYDD mawr yw genym gyfarch ein darllenwyr drw y *Prophwyd* ar ddechreu y flwyddyn 1848. Ac nid llai fydd ein hawydd, ein hymnroad, na'n sel i'w llesoli, ac ni finwn yn erfyn ar y cyfranwr o bob rhoddion daionus i'w dedwyddoli yn dymmorol ac yn ysbrydol yn y flwyddyn hon, nag o'r blaen. Mae pob blwyddyn fel y dilyna sodlau y llall yn gyflawnach o hynodrwydd a chyfnewidiadau er sefydliad yr eglwys yn y flwyddyn 1830. Mawr y cynwrf a'r cyfnewidiadau a fu yn mhlith teyrnasoedd y byd!—y daeargrynfâau moesol a ysgydwasant gymdeithasau, ac a lwyr ddymchwelasant gyfundraethau sylfaenedig ar ddoethineb ddynol. A dysga ysbryd y brophwydoliaeth ni mai dechreuad gofidiau a chyflafan yn unig yw hyn oll, ac y cynnydda, ac y dilyna heintiau, newynau, a chwyldroadau, ar ol sodlau cenanon “goruchwyliaeth cyflawnder yr efengyl,” hyd oni sengo Mab y Dyn ei draed ar Fynydd yr Olewyydd.

Yr amser goreu i drysori gwybodaeth hanesyddol yw, pan y byddo y cyfryw bethau yn cael eu cyflawni. O anghenrhaid, cynnwysa hanes yr eglwys am y flwyddyn ddyfodol lawer o ffeithiau pwysig, llesiol, a difyrus, os nad anghydmorol. Sefyllfa y “deuddeg” arweinyddion, yr eglwys yn yr anialwch, a sefydliad y “faner” i'r holl genedloedd ydynt yn mhlith rhyfeddodau yr oesoedd mynedol. Seion, wedi bod yn gwaedu drwy ei holl chwysdyllau, ac wedi bod am dros ddwy flynedd ar bymtheg yn mron boddi yn y genllif o ormes a thrallod, sydd o'r diwedd wedi planu baneri rhyddid ar benau y mynyddoedd, ac anfon ei cenanon drwy'r byd i wahodd truenusion y cenedloedd i lawnder a dedwyddwch. Y mae sylfaen yr amherodraeth gadarnaf a fu erioed ar ein daear wedi ei osod yn y fan lle y rhagwelodd prophwydi santaidd, er's caurifoedd. Ni wawriodd un flwyddyn mor obeithiol ar yr eglwys a'r flwyddyn 1848. Bu yr eglwys yn crwydro mewn gwlad ddyeithr yn hir Dyeithriaid, estroniaid, a gelynon, a'i hamgylchasant ar bob llaw.

▲

[CYF. III.]

Swyddwyr gwladol a didrugaredd a'i fflangellasant i foddio eu nwydau. Offeiriad penboethlyd Babilon, a golygydd enllibus y cenedloedd, a'i herlidiasant â'u llysnafedd a'u cas, fel y dilynai y *Spanish blood-bounds* ar sodlau brodorion diniwed y goedwig. Ond, diolch i Ben yr eglwys, yr hwn sydd yn ei chysuro, daeth ei hymwared o'r diwedd; yn ddiogel y maent wedi ymgasglu i ddiddosfan, o'r hwn nis hymlidia holl fyddinoedd y fall, na' awdurdodau, na thywysogaethau y tywyllwch. Yn cofu, croniclewn y brophwydoliaeth hon mewn colofnau cyhoeddus, sef na wna yr eglwys byth mwyach adael ei thrigle yn nyffryn y mynyddoedd, pe gwersyllai byd ac uffern yn erbyn ei muriau. Beth bynag a ddygwydda yn mysg y cenedloedd, nad faint o amherodraethau a beidiant a bodoli—nad faint o'r elfenau a ymgyndeirffiant megys ben-ben i ddifetha eu gilydd, na pheth a fo; y mae amddiffynfeydd cedyrn merch Seion wedi eu dewis gan ysbrydoliaeth; ac fe ffoa yr ynnysoedd, fe neidia y mynyddoedd—fe lama y bryniau fel Wyn—cwmma y sêr, a gwibia y teulu wybrenol draws eu cylchoedd, cyn y dymchwelir gedyrn dyraa Seion.

Dysgwylir weithian y fath ymgyrch tua Seion a'r na welwyd ei gyffelyb ar ein daear ni. Mae y cyfoethogion yn gystal a'r tylodion o bob cenedl, gwlad, a hinsawdd, yn awyddus i gyfaroh gwlad waredol, lle y mae baneri gwirionedd a rhyddid yn chwifo yn fuddugoliaethus a hyfryd uwchben pobl heddychol, dedwydd, a santaid.

Cynnwysa yr ymgasgliad, ac adeiladu Seion, faes digon eang i sêl, gwroldeb, a rhinweddau y mwyaf haelionus i weithredu. Dealla rhagorolion a dewrion doeth yr oes o blith pob cenedl a gwlad, fod Duw y nefoedd wedi dynodi o'r diwedd iddynt wlad a chartrefe ddedwydd a pharhaus. Etifeddiaeth yr addfwyn, a noddfa i'r gorthrymedig yw hi.

Tyrtia sefyllfa derfysglyd, a dyoddefus, ie, truenus a bygythiol y byd yn awr, mai dyna yn unig a ddichon fod yn Jubili i'r holl rai pur o galon. Nid dim llai nag a ddug iachawdwriaeth dymmorol, ie, *breninol* ac ysbrydol, a ddichon ddiwallu anghenion presenol truenusion dirif ein byd! Am chwe mit o fwyddi mynedol, diau ni chwifodd y fath faneri a hyn yn awrygyleh halogedig ein byd ni o'r blaen. Mae yr yrfa i ogoniant a dedwyddwch diderfyn wedi cael ei hagoryd a'i phal-mantu gan ddwyfoldeb. Gwahoddir pawb i'w rhedeg—a diau y cyrhaedda miloedd dirif y gamp uchel a thakdigaeth y gwobrwy. Coronau anniifanedig a ymddygliaeriant yn y pellder. Nid alcwm mwy a dwylla'r llygaid. Nage, ond sylwedd mawr yr holl gysgodau pryd hyn a deimla pob un o'r teulu dedwydd ar ei ben. Pobl brofiedig a ffyddlon a redasant yr yrfa—a enillasant y gamp, ac a ddychwelasant at eu brodyr daearol mewn cerbydau dwyfol, wedi eu gwisgo mewn gwisgoedd diagraer, ac anfarwoldeb, i wahodd meibion dynion i'r ymgyrch gogoneddus. Rhagorolion nefolaidd eisoes a feddianasant, pryd hyn, y goron, ac "etto y mae lle!"

Mae muriau Babilon eisoes yn crynu hyd ei seiliau, ac y mae calonau ei breninoedd a'u deiliaid yn hessgau gan ofu a dychryn y pethau sy'n hongian uwch eu penau, ac heb obaith am ymwared. Ond hefyd elywir swm llyfetheiriau toredig eu hudolion yma a thraw yn swnio fel elychau auraidd y Jubili sawr sydd ar eu hol. Mae y rhai pur o galon yn ymgasglu. Mae eu cartrefe wedi ei ddynodi gan fys Duw. Angyl-

ion y nef a anfonwyd i gasglu y cyfiawn, ac i fedu y ddaear yr hon sydd yn brysur addfedu i farnau a phlâu Barnydd yr Ioll ddaear. Gorfoddedd y nefoedd, a hydd lawen, O ddaear, canys y doethion a ddeallant ac a ymbarotoant i'w hystafelloedd hyd oni elo y lliid heibio. Eithr y drvgionus ni ddeallant, ond aot waeth-waeth i ddrvgioni, fel yr ych i'r lladdfa, neu'r aderyn i'r rhwyd. Dysga hanesyddiaeth yr amseroedd hyn, o ba rai y mae 1848 yn gauolbwynt, brofiad a doethineb i'roesoedd dyfodol. Yr hwn a wnelo hyn ac a ddeallu, a fwynha ddaioni yr Arglwydd, ac a barha ar ei yrfa i gylchoedd uwch mewn bydoedd dyfodol.

Wele *Prophwyd y Jubili*, neu *Seren y Saint*, yn ymddangos etto yn awrygylch Cyniru, ar ddechren y flwyddyn 1848, ac yn cynnyg ei belydr o wawl y Jubili ddyfodol i oleuo camrau ei ddarllenwyr ymlaen tua'r ffynnonell o oleuni, sef *Haul y Cyfownder*. Ynddo ceir hanes mawrion weithredoedd Duw drwy ei blant yn y dyddiau rhyfeddol hyn yn Seion a'i changhenau drwy'r byd, pethau ag y mae caionau y Saint yn sychedu am eu clywed—pethau a berffeithia eu hundeb, ac a gynnydda eu gwybodaeth. Mae cynnydd rhyfeddol y Saint yn Nghymru, pan y mae braidd bob sect yn adfeilio a lleihau, yn teilyngu, ac yn ein calonogi i ymeginio i'w dysgu yn yr egwyddorion gogoneddus, er ya newydd a dieithr. a berthyna i deulu Seion. Trwy gymmorth y Saint, trwy eu ffydd a'u gweddiau, hyderwn y cynnwysa y *Prophwyd* am 1848, swy o bethau newydd a hen i'w llesoli nag o'r blaen, a hyderwn y caiff, trwy eu hymdrech hwy, gannoedd ychwanegol ei ddarllen, a derbyn y lles a amcana wneyd i bawb. Mae y cynnydd ar ei ledaniad eisoes yn ngwyneb cynnifer o rwystrau, ynghyd â'r tystiolaethau dirifedi a gawsom o wahanol fanau o'i ddefnyddioldeb, yn ein gwroli i'w gyhoeddi, ac i weddio am iddo fod yn gyfrwng dan fendith ein Ior i ddedwyddoli ein cydgenedl anwyl.

“GWYRTH FORMONAIDD.”

DAN y teitl hwn, gofalodd Golygydd “Parchedig” y *Diwygiwr*, am gael lle yn rhifyn Rhagfyr, i'r hyn a ganlyna; a diau fod ei *spectacles* ef drwy hir ymarferiad â chwaeth gref, yn dwyn ei sylw yn gyntaf am bob hanesyn cryntaf a mwyaf anwiredus yn mhob papyryn yn eibyn “Mormoniaeth.”

“Rhydd yr *Ottoway Free Trader* yr hanes canlynol *gyda sicrhad o'i wirionedd*:—Ymddengys bod eisieu ty ar y prophwyd Strang, a phenderyfnodd i'w ganlynwyr gael ei adeiladu; ac wedi eu gaw ynghyd, dywedodd, os buasai iddynt adeiladu ty iddo, bod yr Arglwydd wedi ei awdurdodi i addaw dawn anghyffredinol iddynt. Adeiladwyd y ty yn union, a gofynwyd am y dawn: cymmerodd y prophwyd hwynt i'r eglwys, ac wedi myned trwy amryw seremoniai, o olchi traed, eneinio y pen ag olew a aroglai ya ysmala, cymmerai hwynt i ystafell dywyll, ac erbyn eu bod yno, yr oedd eu penau oll yn dysgleirio megys gan ddysgleirdeb haul, a mawr oedd eu llawenydd; ond y prophwyd William a dybiai fod yno ystrane dwyllodrus, a chymmerodd beth o'r olew, a chafodd allan nad oedd ond olew a defnydd fferyllaidd (*phosphorus*) cymmysgedig. Cymmerodd afael yn y cyfleusdra cyntaf i ddynoethi y twyll gerbron yr holl frawdoliaeth. Strang ni wadodd, ond addefodd yr

holl dwyll, a phregethodd bregeth i gyfiawnhau y twyll, ac i brofi fod holl wyrthiau Moses a Iesu Grist wedi eu cyflawni yr un modd, trwy foddion naturiol. Tôrodd William bob perthynas ag ef, ond yr oedd Strang yn *snug* yn ei dy serch hyny.'"

Yn awr, Mr. Rees, paham na ddywedasech beth oedd y "sichrad" a roddodd eich hanesydd o wirionedd yr hanes uchod? Eich haerriad chwi yw hyny. Cofiwch, er fod unrhyw haerriad o unrhyw ffregod yn erbyn y Saint yn ddigon "o sichrad" o honi i achosi i chwi ei choelio a'i chyhoeddi, etto nid felly pawb o'ch darllenwyr; na neb ychwaith ond y cyfryw ag sydd fel eich hunan yn caru celwydd yn hytrach na'r gwirionedd. Y peth nesaf a ddysgwyllir oddiar eich llaw ydyw, naill a'i profi fod cyssylltiad rhwng y twyll cyfeiriedig â Mormoniaeth, neu dysgwyliwn i chwi gyfaddef, os oes yn aros un gronyn o onestrwydd yn eich mynwes hyd yn hyn, mai cenfigen at grefydd eich cymydogion a barodd i chwi ei chamgyhuddo y tro hwn etto, a hyny oherwydd fod eich dyscbyllion chwi wrth y degau braidd yn surffedi ar eich cibau gweigion a'ch crochle'fain chwi, ac yn cofleidio "Mormoniaeth." Ow! ow, mae "y peth bach disylw a diniwed hwn" ag y dywedai y Golygydd doeth hwn "nad raid ond peidio cymineryd arno ei gweled a'r na hyddai farw o honi ei hun;" y mae hyd y nod y peth "anllythyrenog" hîno yn fath anghenfiles fygythiol i *greft*, a phoblogrwydd y Parchedig, nes y meddylia nid yn unig yn beryglus iddo ef gyhoeddi ei hamddiffyniadau, ond fod yn ddyledus iddo gyhoeddi pob celwyddau arni a ddel i'w afael o bell ac agos! Tybied nad drwy y pen chwif i'ch *magnifiers* y tarawsech eich trem arni pan ymddangosodd mor *fach* a *diniwed* i'ch synagog chwi, Mr. Rees? Tehyg mai oherwydd troi eich gwydrau y pen arall atoch y cyfnewidiasoch eich barn am dani, a'ch ymddygiad ati mor fyrbywll a thrwyadl. Wel, gwyliwch ar fod eich gwydrau yn yr iawn *faens* y tro hwn, ynte; onide meddylia eich darllenwyr mai "*ceiliog y mwg*" ydych chwi, neu mai *Camelion* ydyw enw priodol yr hyn a goda y fath folwst arnoch; ac nad Mormoniaeth. Os felly, collwch chwithau eich diben dialgar.

Etto, beth pe gwadem ni yn bendant nad "gwrth Formonaidd" oedd yr uchod, ac nad oes fwy o gyssylltiad rhwng y "Strang," na'r "William" cyfeiriedig â Mormoniaeth, nag y sydd rhwng Mr. Rees â Mormoniaeth;—nag sydd rhwng gwrth "Newmarket" â Mormoniaeth! Beth, meddech, Syr, pe dywedem eich bod chwi yn gwybod nad yw y personau uchod mewn un math o gyssylltiad â Saint y Dyddiau Diweddaf? Oni chyhoeddwyd hyny drwy Gymru er's mwy na blwyddyn, o gwr hwy gilydd, a pha fodd na wyddech? Beth pe hîeriem chwi i brofi fod i Formoniaeth ddim a wnelo a'r uchod, fwy nac sydd gan Independiaeth? Beth a ddywedech? Myned mor fud a fyddai raid i chwi ag yr aeth y gwr hwnw oedd yn amddifaid o'r "wisg briodas," serch dynoethi eich gwarth chwi.

Er mor dwyllodrus ac annuwiol yw eneniad y "Strang" hwn (os gwir yr hanes) nid llawer anghysonach ei *endowment* ef nac eiddo y Sectariaid! Derbynia yr olaf eu cynnysgaeddiad yn eu hathroffeydd yn ddieneiniad a diawl (ddwyfol), a'r llall drwy eneinio ag olew fferyllaidd yn y tywyllwch. Query! Pa un o'r ddau yw y dysglaeriaf? Dyma beth yw y "pot yn galw y kettle yn dinddu!"

• Gelwir Strang a William Smith yn Formonaidd, gan sectariaid, ar yr

un ystyriaeth ag y galwa y Twrciaid bawb yn Gristionogion ag a driga o fewn terfynau gwlad Gristionogol. Un sail arall nid oes ganddynt i'w cwpleu â "Saint y Dyddiau Diweddfaf."

Gan fod Mr. Rees yn ransackio Newyddiaduron y byd mor ddyfal am, ac mor fflaenus ganddo gael hanes am "wyrth Formonaidd," teimlwn dipyn o ysfa i'w foddio [cansys boddlon iawn a fydd i glywed fod gwyrthiau yn cael eu cyflawni, wrth gwrs!] drwy gyfieithu yr hanes canlynol fel ychydig o laweroedd a allein ddisfynu a thraethu o nerthol weithrediadau Ysbryd Duw yn mhlith ei bobl; ac yn gyflawniad o addewidion ei Fab Eif, Iesu Grist. Bid siwr y bydd mor hawdd "sierhau" geirwiredd yr hanesion canlynol i'r Golygydd Parchedig ag oedd yr uchod; heblaw, ni raid myned mor belled i ymofyn yr olaf a'r blaenaf; ac felly nid oes perygl iddynt gyfnewid cymmaint yn eu treigliad. Dyma i chwi hanesion, Mr. Rees, o lygad y ffynnon, o ben llygaid dystion, a pha rai sydd yn gyhoeddedig yn y fan a'r lle, ac yn ddiwrthbrawf. Ie, dyma i chwi wyrthiau cyhoeddus ar ol hir waeddi ar eu hol.

"LLYTHYR W. ATHOLL, MC. MASTER AT ORSON SPENCER."

(Dyfnwyd o'r *Millenial Star*, Rhag. 1, 1847.)

"Wood Mill Street, Dunfermline, Tach. 8, 1847.

"Anwyl Frawd Spencer,—

"Drwy gyfrwng y llythyr hwn hysbysaf chwi y modd ag y mae yr Arglwydd yn cydweithio gyda ni yma trwy gadarnhau y gair trwy arwyddion, pa rai sydd yn canlyn y credinwyr.

"Ar y 29ain dydd o Fedi, daeth ataf mewn cyfarfod gweddio, frawd, yr hwn a losgasai ei fraich yn dost, wrth helpu diffodd t n, tua 12 mlynedd yn ol; yr oedd mewn poen dirfawr,—dymunodd arnaf weinyddu iddo yr ordinhad o eneinio ag olew, ac arddodi dwylaw yn enw yr Arglwydd. Gwel Iago v, 14, &c. Yn y gweinyddiad ymadawodd y poen yn hollol, ac y mae ei fraich yn holl-iach er y pryd hyny. Etto, ar y 6ed o Hydref, dygodd ei wraig ataf, yr hon, er's tua deg mis yn ol a gafodd *fit* o'r *palsy*, drwy yr hyn collasai ei llafariad yn gwbl. Eneiniais hi, ac arddodais ddwylaw arni yn enw yr Arglwydd, gan weddio arno; a'r wraig a gafodd ei llafariad yn y fan; ac er hyny y mae hi yn llefaru mor groew a dealladwy ag erioed, ac yn gorfoleddu yn ngwaith yr Arglwydd. Etto, ar yr 1leg o'r un mis, galwyd arnaf i ymweled a brawd a gystuddiasid ag afiechyd blin, ac â dallineb. Yr oedd efe yn byw yn nhref Oakley, o 4 i 5 milltir o Dunfermline. Hysbyswyd fi gyntaf am dano gan y brawd Brown, a darfod i'r afiechyd ymadael ag ef oll braidd pan weinyddodd efe iddo, oddieithr ei fod yn parhau yn ddall. Daeth y brawd Brown a mab y brawd Mackinley. (cansys dyua enw y claf) gyda ni i'w dy ef; pan welodd y mab ddallineb ei dad, dywedodd wrtho, gan feddwl ei gysuro, "wel, fy nhad, nid ellwch braidd erfyn yn amgen na bod yn ddall gan eich bod mor hen." (Ei oedran yw 73.) Atebais ef nad oeddwn i yn credu y fath athrawiaeth a hona; ac na chredwn mo honi o leiaf hyd nes y caffwn weled beth oedd gan yr Arglwydd yn ei ystord ar ei ran ef. Gofynais i'r claf a oedd efe yn credu y dichon Duw fendithio y moddion apwyntiedig hyd nes

adferyd iddo ei olwg? Atebod i ei fod yn credu. Yna myfi a eneiniais ei lygaid ag olew, ac arddodais ddwyllaw arno gan weddio yn enw yr Arglwydd; a'r canlyniad a fu, ddaifod iddo y nes heno cyn i mi ymadael o'r ty, gael ei olwg. A gadewais ef yn mawr lawenhau yn iachawdwriaeth Duw ar ei ran. Etto, Tach. Sed, galwyd fi i ymweled a brawd arall, yr hwn a darewsid a dallineb hollol. Pangyrhaeddais ei drigle, yr oedd y ty yn llawn o hobl, ac yntau yn ei wely. Ymwithiais yn nilaen at erchwyn ei wely, a gofynais iddo, a ewyllysiai efe i mi weinyddu yr ordinhad eglwysig iddo? Atebodd ei fod. Yna troais at yr edrychwyr, a dywedais, "Pan y byddo y Saint yn ufyddhau i orchymynion Mab Duw yn y gweinyddiad o'i ordinhadau, cyhuddir hwynt o geisio gwneyd gwrthiau. Dangosais mai ein dyledswydd yw gweddio yn ol y drefn a osodwyd gan Iesu Grist ar ran y cleifion; ac nad llai dyledswydd oedd hyn arnynt hwy nag ereill, yr hyn os cydunant i wneyd nes i'r Arglwydd ein hateb drwy iachau y claf, y byddai yn fendith fawr iddo ef, ac yn ogoniant i Dduw, ac nid i neb dyn. Yr hyn yn unig yw'n dybenion." Cyd-healinasant oll i weddio, ac wedi cyfodi myfi a eneiniais lygaid y dall ag olew, ac yna ei ben; arddododd yr heuriad Huggar ei ddwyllaw gyda mi ar ei ben, a chyn gynted ag y gorphenasom weinyddu a thynu ein dwyllaw oddiar ei ben, efe a gafodd ei olwg megys cynt. Ar hyn troais at y dyrfa a chyfarchais hwynt yn bwysig a sobr; galwais hwynt i weled, ac i ystyried, a chydnabod gallu Duw yn ddiolchgar am ei ddaioni. Dywedais, "Wele allu Duw, a phwy o honoch a all ei wadu, na'i amau." A phawb a synasant heb wrthwynebu gair. Yn awr, hysbysyr hyn i genedloedd y ddaear,—ie, traether ef i freninoedd a mawrion yr 19 ganrif,—ie, dealled offeiriad cyflogedig yr "oes oleu hon," a gwyhyddant hyn yn ddiâu fod Joseph Smith yn brophwyd i'r goruchaf Dduw, a darfod i Dduw mewn gwirionedd ei unrhegu ef, ac ereill drwyddo ef, a'r offeiriadaeth ddwyfol, ac ar hawl gyfreithlon i iawn weinyddu ordinhadau ei deyrnas Ef, a bod gallu Duw yn gydfynedol a'i weision yn mhlith cenedloedd y byd, a'i fod yn prysur dilyn y rhai gonest eu hegwyddor o blith gwahanol deuluoedd y Babilon fawr i'w eglwys ei hun.

"Ydwyf, eich brawd yn y cyfammod tragwyddol,

"WILLIAM ATHOLL Mc. MASTER."

Yn awr, Mr. Rees! Ie, yn awr Olygyddion Cymru; chwi y rhai ydych mor awyddus am gyhoeddi "gwrthiau Mormonaidd," fel y galwch bob trash anwireddus; dyma i chwi bethau gwirioneddol i oreuro eich colofnau! Chwi, y rhai a synwch i Dduw gael ei ogoneddu, cyhoeddwch hyn er ei ogoniant Ef, a chydnabyddwch ei fyddlondeb i gyflawni adawidion ei anwyl Fab i'w eiddo, a dychwelwch ato â chalon ddrylliog ac ag ysbryd cystuddiedig, a'ch llygaid chwithau a gant weled, a chwithau a ddeallwch fwy o amlygrwydd o'i allu na hyn. Ie, cewch chwithau fod y cyfryngau eich hunain, a bydd yn felysach genych fod yn offerynau i fendithio nag i gamgyhuddo eich cyd-ddynion, gobeithiwu.

GWLEDD Y BONEDDIGESAU AMERICANAIDD ER CYN-NORTHWYO Y MORMONIAID.

"CYMMERODD y wledd uchod le yn *Carusi's Saloon*, yn ninas Washington, U.D., Hydref 28, a gwledd ardderchog ydoedd hi hefyd. Bydd genym amryw sylwadau canmoltaethol arni y fory. Yn bresenol hysbyrwn yn unig fod boneddigesau yr holl wahanol enwadau drwy'r holl ddinas wedi ymgasglu yno, a'u blaenu gan y maer a'r offeiriad, llaw yn llaw. Yn mhllith y boneddigesau yr oedd yr hybarch Mrs. Madison, gwraig y diweddar Lywydd Madison, Mrs. Polk, (gwraig y Llywydd presenol dros yr Unol Daleithiau), gwraig y Tywysog M. Comb, a lluoedd ereill o'r rhai mwyaf eu dylanwad, parchusaf, a gwychaf y brif-ddinas, oll yn cyduno yn egniol yn y gwaith haelionus a chanmoladwy hwn; a phan amlygir ymdrechadau diwyd y boneddigesau hyn i fanylrwydd, ynghyd â'u cyfraniadau a'u haelioni i'r Mormoniaid ag sydd yn alltudion yn yr anialwch gorllewinol; diau mai lle y bo calon deimladwy a chydnahyddiaeth o wir gariad a haelioni, yno y bydd eu coffadwriaeth hwythau am y peth hwn mor gymmeradwy ag yw goleuni yr haul ar foreuddydd haf."—*New York Herald*.

"Ystyriwn y wledd uchod yn un o'r pethau mwyaf canmoladwy, ac yn arwydd swyaf gobeithiol i'r Saint, a gymmerodd le ar y cyfandir o gwbl. Gwragedd dau Lywydd y Taleithiau Unol yn gweithredu mor selog a llwyddiannus ar ran y Saint, serch fod deiliaid yr un llywodraeth wedi eu halltudio yn greulon o'u gwlad i'r goedwig, yn hollol ddiachos! Y rhai hyn, ynghyd â gweddw y diweddar enwog Macomb, yr hwn oedd brif-gadfridog ar holl fyddinoedd y wlad, a ffurfiant diroedd clodwiw, enwau pa rai a geir mewn pa le hynag y pregethir yr efengyl hon. Meiddiasant hwy, er cymmaint y rhwystrau, ddod i'r maes yn eofn ac effeithiol i arddangos eu cydymdeimlad â'r gorthrymus, nid mewn gair yn unig, ond hefyd drwy eu cyfraniadau haelionus i'r Saint, erlidigaethau anghydmar, pa rai sydd yn prysur dynu sylw a chydymdeimlad dyngarwyr drwy'r byd. Nid yw dylanwad yr esiampl glodwiw hon i ddarfod gyda y wledd hon ychwaith; ond eisoes gwelir arwyddion gobeithiol ei bod hi, ynghyd â phethau ereill, yn dylanwadu ar boneddigesau ereill yn y dinasoedd mwyaf yn y wlad; ac fe ddylifa y ffrydiau melys hys o bob dinas, a thref, a thalaeth, hyderwn, er diwallu rheidiau y bobl hyny ag y ba adar y nefoedd wrth y miloedd yn cynnyg eu hunain yn ymborth iddynt, ynghyd ag anifeiliaid gwylltion y goedwig, drwy orchymyn dwyfol: pan nad oedd braich ddynol, na llaw neb yn agored i'w diwallu na'u gwaredu rhag angau newynllyd. Boddlon iawn ydym i gyfenwi y weithred hon yn *wir etusengarwch*, er y dygwyd y Saint i'r cyflwr dyoddefus hwn gan derfysglu anynol; ac er y dylasai y llywodraeth eu cospi, ac adferyd y Saint i'w meddiannau; etto, drwy y ffaith uchod, arddengys y boneddigesau hyn, ynghyd â'u cydweithredwyr, fel y dangosodd Pontius Pilat drwy olchi ei ddwyllaw, ar anogaeth ei wraig, nad oes iddynt hwythau ran na chyfran yn y gormes gwaedlyd hyn ar y Saint. Hyderwn nad yw yr amser yn mhell pan yr arddengys y boneddigesau Prydeinig—ei Mawrhydi yn eu harwain—eu haughymmeradwyaeth o'r erlidigaethau ysgeler hyn drwy ffaith-

iau, pa rai a fyddont fel perlau yn eu coronau. Nid heb seiliau cedryn yr ydym wedi ffurfio barn barchus ac uchel am gymmeriad haefionus ac elusengarwch ei Mawrhydi. Pan y delo awdurdodau ein gwlad i iawn ystyried dylanwad cynnyddol y miloedd Saint Prydeinig gyda golwg ar Oregon; diau y bydd i'w hamddiffyniad a'u haelioni hwythau roddi sên farwol i'r erlidigaethau brwdfrydig a dirinweddol a ddylifa yn awr ac eilwaith o ysgrifellau awduron rhagfarnlyd, ac offeiriad cyflogedig."—*Millennial Star*.

DYFYNIAD O LYTHYR YR APOSTOL O. HYDE AT O SPENCER.

"*Hyde Park, Council Bluffs, Llwyth*
"*Potawalmie, Hyd. 7, 1847.*"

"ANWYL FRAWD SPENCER.—Yr wyf fi a'm teulu yn mwynhau iechyd rhagorok. Nid oes braidd un claf yn y gweryll yn bresennol, nae ychwaith braidd drwy ein holl sefydliadau lliosog. Mae ein cnydau yn ffrwythlonach nag erioed. Ni bu yma ddim rhew hyd yn hyn; ac addfeda ein 9d India, a'n *Buckwheat*, cyn y delo yn ol yr argoelion. Meddwn lawnder mawr o'r amrywiaeth o lysiau. Mae ein diadelloedd a'n hanifeiliaid oll yn dew; ac y mae heddwch ac undeb yn teyrnasu yn ddieithriad yn ein plith yn dufewnol ac yn amgylchol. Diolch i Dduw yr hwn sydd yn rhoddi y suddugoliaeth i ni drwy ein Harglwydd Iesu Grist.

"Dysgwylw'n ddychweliad y Llywydd Brigam Young, &c., yn feunyddiol. Sefydlasant eu trigle yn nghyffiniau y Llyn Halen, a Llyn Utah, ar yr ochr ddwyreiniol. O leiaf dyna a glywais i. Ond, pan ddychwelant hwy yma, cewch yr hanes yn awdurdodol a chyflawnach; ac hefyd o barthed i'r ymfudiad. Nid wyf yn teimlo i hyfforddi dim hyd oni welaf hwynt.

"Meddyliaf weithiau yr anfona y cynghor fyf yn ol i Frydain, ond fy meddyliau i y'nt, efallai mai arall a ddaw, neu yr aroswech chwi.

"Mae y 'fyddin Formonaidd' yn dychwelyd o California. Cyrhaeddodd rhyw nifer, a'r gweddill ar eu taith.

"Llaw alluog y Goruchaf a'ch cynnalio chwi a'r holl eglwysi yn Mrydain er daioni, yw gweddi eich brawd yn y Cyfammod Newydd, O. HYDE." (*Millennial Star*).

Yn awr, chwi Saint hoff drwy Gymru, dyma newyddion ag y dysgwylasoch lawer am eu clywed! Wele y fan, i'e, y diddosfan waredol wedi ei gael, yr hwn fydd o hyn allan yn ganolbwynt i holl blant Sejon o bob llwyth, inith, a gwlad, i dynu tuag ato—pwy sydd barod i gychwyn yno? Nid pwy sydd yn awyddus yw'r gofyniad, ond pwy yw y rhai dedwydd hyny ag a fuont mor gyfiawn a thalu eu dyledion i'r byd? Pwy a fu fyddlon i rybuddio pawb a allasai; i'e, pwy sydd ddieuog oddiwrth waed pawb oll? Y rhai hyny a allant ddysgwyl taledigaeth y gwobrwy. Ddiftown, ac ymbarotown ar frys.

“TRIGLE Y MORMONIAID.”

“Ddoe cawsom y fantais o ymddyddlan a pherson a ddaethai yn uniongyrchol o *Council Bluffs*, yr hwn a'n hysbysodd diriad yno, ar y dydd yr ymadawodd efe, o genad a anfonasid o flaen y *deuddeg Mormonaidd*, pa rai oeddynt ar eu taith yn ol yno oddiwrth y *Llyn Halen*. Anfonasent osgordd fechan o'u blaen hwy i'r *Bluff* er's ugain niwrnod, i'r dyben o anfon cerbydau a lluniaeth i'w cyfarfod hwynt, oherwydd eu bod yn gadael pob peth a allent wrth y *Llyn Halen*. Dyweda ein hysbysydd fod y *Mormoniaid* wedi nodi eu prif ymgyrchfan oddeutu hanner y ffordd rhwng y *Llyn Halen* a *Llyn Utah*, yn *California*, ar lannu afon ag sydd yn cyssylltu y dyfroedd uchod. Y pellder rhwng y llynau hyn sydd tua 60 milltir—dyffryn tra ffrwythlon a hyfryd yn cyrhaedd yr holl ffordd. Yno gosodasant seiliau dinas, a dechreuasant ei hadeiladu eisoes. Maent yn nghanol y llwythau Indiaidd, sef y *Blackfeet*, *Utahs* a'r *Crows*, pa rai ydynt yn heddychol ac yn ffafriol iawn i'r sefydliad *Mormonaidd* yn eu plith. Cyrhaeddodd y prif wersyll *Mormonaidd* a gychwynasant o'r *Bluffs* yn mis Mehefin, hyd i'r *Green River*, tros 200 o filltiroedd tuhwnt i'r *South Pass*, drwy'r *Mynyddoedd Creiglyd*, erbyn diwedd mis Gorphenaf. Teithiasent yn rhwydd a dirwysr hyd yno, a gyrent yn blaen yn gyflym tua eu trigle newydd.”—*St. Louis Republican*.

Mae cariad rhyfeddol yr Indiaid anwaraidd, yn enwedig y llwythau uchod, at y *Saint*, yn cyflawni y brophwydoliaeth a ddywed, “*Cenfigen Ephraim* [sef yr Indiaid hyn] a ymedy,” pan y dygid “*cyflawnder yr efengyl*” [sef *Llyfr Mormon*] i'w plith. Gelwid y *Blackfeet* yn “*arabaiad yr America*,” oherwydd eu creulondeb at bawh, ond weithian ystyria y *Saint* hwythau yn gystal a'r lleill, nid yn gaethion, ond yn frodyr, i.e, yn etifeddion o'r cyfammodau a'r cynnysgaediadau.

CYMMANFA MORGANWG.

CYNNALIWYD y Gymmanfa hon yn Merthyr, Sul a Llyn. y 26ain a'r 27ain o fis Rhagfyr. Boren y dydd cyntaf yr oedd y Neuadd yn orlawn o wrandawwyr, amryw wedi dyfod o wahanol Siroedd y Deau a'r Gogledd i'r Gymmanfa. Dewiswyd Capt. Jones yn Llywydd; W. Davies o Rymny, ac E. Edwards, Merthyr, yn Ysgrifenyddion. Wedi dechreu y cyfarfod fel arferol gan y Llywydd, gosododd allan oruchwylion y Gymmanfa, ac wedi cyfarchiad gwresog ar amryw faterion perthylol i'r gwahanol ddosparthiadau o'r eglwys, galwodd ar Lywyddion y gwahanol ganghenau i'w cynnrychioli, yr hyn a wnaed fel y canlyn :—

Rhif y Cang.	Llywydd.	Rhif Hen.	Off.	Ath.	Dia.	Bed. er (for.	Cyf.
1.	Merthyr, W. Phillips	13	.. 20	.. 16	.. 3	.. 110	.. 606
2.	Pendarran, T. Griffiths.	3	.. 3	.. 2	.. 1	.. 4	.. 53
3.	Dowlais, Alfred Clark.	4	.. 10	.. 7	.. 2	.. 36	.. 145
4.	Rymny, William Davies.	4	.. 6	.. 4	.. 1	.. 2	.. 58
5.	Cwmbach, John Price.	1	.. 1	.. 2	.. 1	.. 8	.. 33

Rhif y Cang.	Llywydd.	Rhif Hen.	Of.	Ath.	Dia.	Bod. er Gor.	Cyf.
6.	Aberdare, J. Davies.	3 ..	1 ..	1 ..	1 ..	4 ..	30
7.	Hirwaen, Daniel Davies.	1 ..	" ..	1 ..	" ..	9 ..	22
8.	Diewyd, J. Richards.	1 ..	2 ..	1 ..	" ..	2 ..	13
9.	Caerdydd, W. Jenkins.	1 ..	2 ..	2 ..	1 ..	18 ..	38
10.	Llwyni, Samuel Davies	3 ..	4 ..	1 ..	1 ..	14 ..	28
11.	Cwmbychan ar Bryn, T. Pugh	1 ..	5 ..	4 ..	1 ..	30 ..	63
12.	Treboth, J. Matthews.	2 ..	1 ..	" ..	" ..	1 ..	21
13.	Cyfyng, Wm. Davies	1 ..	5 ..	1 ..	1 ..	3 ..	17
14.	Cwmaman, J. Griffiths.	2 ..	1 ..	" ..	" ..	2 ..	12
15.	Pontyates, H. Williams	2 ..	2 ..	" ..	" ..	33 ..	39
16.	Llanelly, Wm Hughes	2 ..	10 ..	4 ..	1 ..	62 ..	103
17.	Caerfyrddin, Ben. Jones	1 ..	4 ..	2 ..	" ..	5 ..	37
18.	Llanbyddar, T. Jeremy.	2 ..	1 ..	2 ..	1 ..	11 ..	29
19.	Brechfa, David Jeremy.	" ..	1 ..	1 ..	" ..	22 ..	30
	Cyn. Sir Fywy, W. Phillips.	11 ..	20 ..	14 ..	6 ..	96 ..	262
	Etto Sir Benfro, J. Morris.	1 ..	5 ..	2 ..	" ..	11 ..	40
	Drwy'r Gogtedd ..	9 ..	22 ..	5 ..	5 ..	19 ..	109
	" Garaway, W. Henshaw.	6 ..	7 ..	" ..	" ..	20 ..	145
	Cyfanrif a gynrychiolwyd ..	74	133	72	26	542	1933
	Rhif yn y gynmuanfa ddiwed- ddaf, sef Gorph. 13.	45	79	50	20	142	1157
	Lluosogiad yn y pum mis a haner diweddfaf.	29	54	22	6	400	776

Cyd-dystiai yr holl Gynrychiolwyr fod yr holl Saint yn ddieithriad mewn undeb, cariad brawdol, yn seflog a ffyddlon; a'n bod nid yn unig wedi lluosogi *naith cant ac un ar bymtheg a thriugain, yn y pump mis diweddfaf*, ond eu bod yn cynnyddu mewn doniau, gweithredoedd da, a phob duwioldeb yn rhagorol, ac y fod gwell gobeithion ganddynt am lwyddiant ar yr *esengyl* yn yr amser dyfodol nag erioed. Nid oedd o blith y cyfan un cyhuddiad yn erbyn neb, nac un mater anrghlesurus i'w ddwyn i'r gymmanfa o un man. Diolch i Dduw am y fath undeb a ffyddlondeb. Yn mhllith pwy ereill y ceir y fath yn ein gwlad, nac yn y byd, yr amser terfysglyd hwn? Sefydldwyd y manau canlynol yn ganghenau o'r gynnadledd, a'r personau canlynol i lywyddu arnynt:—Bryn, Thomas Pugh; Cyfyng, William Davies; Cwmaman, John Griffiths; Pontyates, Howell Williams; Brechfa, David Jeremy. Galwyd amryw i wahanol swyddau yr offeiriadaeth, yn neillduol yn y canghenau pellenig.

Ymwelodd y Llywydd Orson Spencer, diweddar o'r America, â'r Gymmanfa, a dysgodd yn y gwahanol gyfarfodydd drwy y ddau ddydd laweroedd o egwyddorion nefolaidd, cynghorion dyddorol o barthed i wahanol ddyledswyddau y gwahanol ddosparthiadau drwy'r eglwys, yn neillduol am yr anghenrheidrwydd o ufyddhau i'r offeiriadaeth; mai drwy hyny y ceid mwyaf o Ysbryd Duw i'n nerthu a'n diddanu ar ein taith, ac mai felly ein galluogid i lesoli ein cydgenedl fwyaf. Helaethodd gyda deheurwydd ar ogoneddusrwydd yr ymgasgliad yn nghyd i Seion rhag y pethau sy'n dod ar yr annuwiol, ac er cael

breintiau cyflawnach teyrnas Dduw. Perawdiai y Saint i ymbwyllo etto am hyn, gan fod dysgwylid dyddiol braidd am wybodaeth fanylach am dano, ynghyd â'r dull a'r ffordd, ynghyd a'r amser goreu i ymfudo. Profodd yn eglur ragoroldeb efengyl yn dwyn datguddiaidau dwyfol i'w hufyddion ar y fuff o gresydd heb ei grym, a llawer o egwyddorion llesiol a daionus ereill a eglurwyd gan y Llywydd Spencer, pa rai ni chaniata maintioli ein *Prophwyd* bychan le iddynt yn bre-sennol.

Rhoddodd y Llywydd Jones gyfrif manwl am swm yr arian a gafwyd er cynnorthwyo y Saint sydd yn alltudion yn y goedwig Americanaidd, a'r modd ei hanfonodd iddynt, ac fod dangosiad yn y *Millennial Star*, ynghyd a thrwy lythyrau yn ei feddiant ef, fod pob reiniog wedi eu cyflwyno i'r dybenion cyfiawn a theilwng hyny. Dangosodd ei fod ef wedi cyhoeddi 22 o gyfrolau o wahanol faintioli, a chyunnwysiad, yr oll yn cynnwys 850,000 o dudalenau, 12 plyg, ac y fod dros ganpunt o'r arian dyledus am danynt yn awr yn aros yn ddyledus iddo yn mhlith y gwahanol ganghenau, a thac annogasai efe a'r Llywydd Spencer yr holl Saint i ffyddlondeb yn lleadaenu y cyhoeddiadau ac i dalu am danynt. Casglwyd mewn un cyfarfod er cwblhau ein hadduned i'r Saint sydd yn yr awlwech, dros £22, a'r hyn a wnaeth i fyny y swm gofynol.

Rhaid i ni adael allan ddarlithoedd hyawdl a buddiol Henuriaid A. Evans, Thomas Pugh, Robert Evans, &c., &c., o eisiau lle, er mor felys y'nt. Yn ystod y gymnanfa dysgwyd fwy o egwyddorion, a gogoneddasach hefyd nag erioed o'r blaen; ac yn ol gwrandawriad astud yr holl dorfeydd drwy'r cyfarfodydd meithion a gorlawn, canfyddid llawenydd ac awydd am ddoethineb ddwyfol am bethau Duw, yn siriol wenu yn mhob wyneb hyd ddiwedd y gymnanfa. Diddadl yw fod Ysbryd y Duw a bia'r gwaith yn orphwysedig ar ei blant yno yn helaeth, ac eu bod yn myned ymaith gan ddywedyd mai da oedd ganddynt fod yno.

Y bydd i'r argraffiadau daionus a wnaeth holl waith y gymnanfa hyfryd hon ddwyn ffrwyth ar ol llawer o ddyddiau, ac esgor ar eu ffrwythau priodol, sef hywyd tragwyddol i'r Saint, a gogoniant i Dduw, ydyw gweddi eich gwasanaethwyr yn yr efengyl dragwyddol,

WILLIAM DAVIES, } *Ygrifenywyr.*
EDWARD EDWARDS. }

YR ADDUNED CYMREIG I'R SAINT AMERICANAIDD.

DYWENYDD mawr genym hysbysu y Saint drwy Gymru, y fod yr adduned gyfeiriedig er cynnorthwyo ein brodyr a'n chwiorydd alltudiedig ag sydd yn yr anialwech gorllewinol, wedi ei gwblhau yn y gymnanfa ddiweddaf yma. Nis gallwn gael geiriau i ddatgan ein diolchgarwch am au haelioni, eu cydymdeinlad, a'u cariad at blant trallodedig Seion. Mawr fydd diolchgarwch y dioddefyddion pan yn mwynhau y cysuron a weiniasoch iddynt—mawr fydd eich gwobr yn nheyrnas Dduw yn ddiâu, pan y dywed y Brenin—“ Yu gymmaint

a'i wneuthur o honoch i un o'r rhai bychain hyn fy mrodyr, Yn wir i mi y gwnaethoch."

Anfonwyd yr arheg oll gyda y Llywydd Spencer, a gwelir gydnabyddiaeth cyhoeddus o hyn y drwy y *Millenial Star*. Anfona efe hwy i'r gwersyll y cyfle cyntaf, a diau y ceir cydnabyddiaeth o hono gan y Llywydd Young yn brydlon, fel y gwelo yr oll fod cyfraith cyfiawnder yn llywyddu yn holl gylchoedd y Saint. Etto, diolchwn dros ein brodyr anwyl, i'r Saint Cymreig, am eu fyddlondeb mawr; a thaer erfyniwn ar i Dduw y Saint eu bendithio ar eu canfed am hyny.

PEDR FARDD YN FORMON!

ANADNABYDDUS gydwladwr, er yn adnabyddus a'ch enw fel dyn, a'r cynmeriad ydych yn ei gael fel profeswr ac amddiffynwr trefn aughyfnawidiol Mab Duw er cadwedigaeth dynolryw, sef twyllwr, gau brophwyd, ac un o lyffantod y pwll diwaelod, &c. Hyderu yr wyf na bydd i chwi gymmeryd yn angharedig tuag ataf oblegid i mi gymmeryd fy hyfdra i'ch cyfarch a'r ychydig linellau hyn. Yr wyf yn ddarllenwr cysson ar eich misolyn bychan a elwir *Prophwyd y Jubili*, neu *Seren y Saint*.

Yr oeddwn yn tybied fy mod wedi cyrhaeddyd y grefydd oreu yn y byd, hyd oni ddechreuais wrando ar, ac ymddiddan a rhai o'ch brodyr, ynghyd â darllen eich amrywiol gyhoeddiadau. Ond yn awr yr wyf heb yr un. Mae y Beibl wedi ei ddwyn yn hollawl oddiarnaf, yr unig safon oeddwn yn dybied oedd genyf a ddadymchwelai holl noddfeydd y Sectarians ereill yn chwilfriw mân. Ond er fy mawr syndod, yr wyf wedi dyfod i weled fy nghamsyniad, ac i ganfod hefyd wrth ddarllen eich cyhoeddiad chwi ac ereill o'r Sectarians, fod rhai o sylfaenywyr y Sectarians, megys John Wesley, ac ereill, o'r un farn a hen sect y Nusareniaid, am Eglwys Dduw, ei doniau, a'i swyddwyr, yr hon yr oedd, ac y mae yn mhob man ddywedyd yn ei herbyn. Am hyny, tybied yr wyf fod rhoddi gwybodaeth o hyny i'w hen frodyr sydd yn caru eu hegwyddorion, o duedd i leihau eu rhagfarn, yn hytrach na'i gynnyddu, am hyny tueddwyd fi i anfon at eich gwasanaeth dystiolaeth arall, diweddarach na John Wesley am deyrnas Crist o ran ei doniau a'i swyddogion, sef Peter Jones, o Llynlleifiad (Pedr fardd), yn ei gywydd ar undeb corff yr eglwys, yr hwn a gymmeradwyir gan bawb, yn enwedig y Beirdd a ganasant ei glod.

"Trwyddo mewn awydd treiddiwech;
Mêl i gyd sy' y' mol ei gwch."

Rhan o hon sydd fel y canlyn:—

"Mae gan Dduw Eglwys lân;
Oes, wir Eglwys rywioglan
Yn y byd (nid un heb iau)

A gweledig aelodau.
 Corff Crist drwy gred a hedydd;
 Brodyr, cyffeswyr un ffydd.
 Hoff waith galwad effeithiawl
 A'u dug hwynt i wiwdeg hawl.
 Un Ysbryd Glân, ddyddanydd,
 Yn y saint i'w hunaw sydd.
 Rhoes iddynt amryw swyddau,
 Er eu lles i'w gwir wellhau.
 Un sy o fraint is ei fri,
 Ac arall sy 'n rhagori.
 Mae rhai a gwaith mwy ar g'oedd,
 A rhai yn llai eu lleoedd.
 Doniau, swyddau sy iddynt,
 Buddiol, o wahanol hynt:
 Ond un corff er doniau cant,
 O ryfeddol wyr, fyddant.
 Un Crist yn mhob rhyw dristyd,
 Un Arglwydd hylwydd o hyd,
 O wiwlon afon yfant,
 Un Ysbryd i gyd a gânt.
 Mae nerthol, ddoniol ddynion,
 A gloew saint yn Eglwys Ion.
 Pyst teilwng, Apostolion,
 Mewn entrych, a'u llewyrch llon;
 Prophwydi a'u difri' dôn,
 O goeth ryw, ac Athrawon;
 Dinych wedd, dawn i iachâu,
 A difudion dafodau;
 Llywodraethwyr, gwyr gwrol;
 Ni chaid Henuriaid yn ôl.
 Gweis ydynt a'u gosodiad
 Gwiw yn y tŷ gan y Tad.
 Nid yw pawb nodau pybyr,
 Ardderchog ac enwog wyr.
 Pawb a'u gwaith, ond nid pob gwr,
 A gweithydd sy 'n bregethwr,
 'Sgatfydd nid llywydd y llall,
 Nid henuriad un arall;
 Er hyny oll rhauau ŷnt,
 Aelodau anwyl ydynt,
 O gorff Crist fu 'n drist drostyn'
 O gur a brêg'ar y bryu."

Nid wyf yn amau na bydd yn ddywenydd gan amryw o'r Saint
 weled y llinellau hyn yn y *Prophwyd*, a chan amryw ereill hefyd nad
 ydynt hyd yn hyn wedi ymuno â chwi; ond pa un bynag am hyn,
 wele hwynt at eich gwasanaeth i wneyd a hwynt yn ol eich doethineb.
 Llauer o lwyddiant i chwi a'r holl Saint ffyddlon yn Nghrist Iesu.

Wyf, eich ewyllysiwr da,

Harlech, Hydref 26, 1847.

WILLIAM PUGH.

Melys i wefusnu y Saint yn ddiâu fydd sugno mel Pedr Fardd drwy y *Prophwyd*. serch iddo ffrydio drwy hibellau ein cysfeillion Calfniaidd: canys y mae y Saint fel y wenvnen ddiwyd yn sugno mêl o bob defnyddion, i.e. hyd y nod o'r graig weithiau, gwirionedd yw eu mêl hwy, deued o ba le y delo. Er hynny archwaetha eiddo Pedr Fardd yn fwy blasus oherwydd yr adnabyddiaeth bersonol a feddem ag ef er's llawer dydd; a phwy o'i frodyr Calfniaidd a ddyweda fod ei fêl ef yn chwervei yn nglwch Mormoniaeth? Pwy o ddarlunwyr y bardd ar na wel mai Mormoniaidd oedd ei awen? Pwy a alla brofi fod gwir awen, os caiff ei rhyddid, byth yn amgen?

Nid yw yn syndod genym fod dyn o brofiad, synwyr, a deallwriaeth ein gohebydd yn canfod cyssondeb, ac yn ddigon dynol a rhydd i addef ei gariad at wirioneddau âg sydd mor hunaneglur ag yw eiddo Mormoniaeth; ond, y rhyfeddod'fwyaf yw fod neb, yn enwedig o'i hen frodyr ef, pa rai o hawb a hdnant fod yn rhedegwyr blaenaf i gyrhaedd y gwir, yn methu canfod. neu yn oedi colleidio cyfundrefn ag sydd mor gyflawn o wirioneddau bendithlawn ag yw yr eiddo Saint y Dyddiau Diweddf.—GOL.

HYSBYSIAD.

YSGYMNWYD Henuriad Thomas Harries o eglwys y Saint, drwy gydsyniad Pwyllgor Cynnadledd Morganwg, yr hon a gynnaliwyd Ion. 11eg, yn Merthyr.

Policeman ger llaw i Aberacron a gymmerodd Thomas Harries i fyny, pan ar sefyll uwchben torf luosog i bregethu, ar y cyhuddiad o ladrata Geirlyfr Cymraeg a Saesonaeg; ac yna carcharwyd ef. Ion. 4ydd, dedfrydwyd ef i ddioddef dau fis o garchar, heb lafur caled. Mae rheolau dyscyblaeth y Saint yn ysgymmuno pob troseddwr o'r cyfeithiau gwladol o'u cyfundeb, yn y geiriau pendant a ganlyna:—"Yr hwn a ladrato, ysgymuner ef, a thraddoder ef i'r gyfraith wladol."

Dygwyd yn mlaen laweroedd o dystiolaethau ar yr arholiad i brofi cymmeriad rhagorol y carcharor; hyd nes y dywedodd y Barnydd wrth y *jury*, nad oedd yn cydnabod y trosedd yn ladrad oddieithr ei fod yn fwriadol. Helaethodd crys lawer ar gymmeriad rhagorol y carcharor; a phan, ar ol hir aros a thneru, tra y parhaodd anryw arholiadau ereill, y dywedodd y *jury* ei fod yn euog, gofynodd y Barnydd drachefn, a oeddynt yn siwr eu bod oll o'r farn hŏno? Parodd y ddedfryd annysgwyladwy cryn syndod a chydymdeimlad drwy'r lle.

Nid y'm yn dywedyd fod y ddedfryd yn anghyfiawn, yn ol a wyddai y *jury*; etto, ar ol chwilio yn fanwl drwy holl gyssylltiadau y peth, credwn mai amryfusedd ydoedd. Hawdd iawn y gallasai fod wedi rhoddi y llyfr yn ei logell mewn camsynied yn lle ei Feibl, pan yr oedd y ddau ar y ford i derfynu dadl a ddygodd ei wrthwynebwy'r i'w erbyn; a llawn mor hawdd oedd i ryw ddrygdlyn raddi y llyfr yn ei

logell heb ei wybodaeth ef. Mae y ffaith a brofwyd yn yr arholiad, o fod T. H. heb wybod fod y llyfr yn ei logell hyd nes cyrhaeddyd ty, tua thair milltir oddiyno a'i syndod addefedig yn tynu geirlyfr o'i logell wrth feddwl tynu allan ei Feibl, ynghyd a'r ffaith o'i fod wedi hysbysu ar y pryd nad ei eiddo ef oedd, a thalu i fenyw am ei ddychwelyd i'w herchenog ar y pryd. Mae hyn oll, a llawer ychwaneg a ellir ddywedyd, yn ein dysgu ni i gredu nad yn fwrriadol y cymmerodd efe y llyfr. Dywedir iddo wadu y llyfr, a gwir iddo wadu na *ladratodd* mo hono; etto, ni wadodd, ond cyfaddefodd fod y llyfr yn ei feddiaut. Nid ar gais y perchenog yr aeth y *policeman* ar ei ol ef, canys nid oedd efe wedi dweyd fod y peth yn fwrriadol; eithr rhw erlidiwr professedig i'r athrawiaeth a bregethai Harries, o'r enw Morgans, a ddaeth i'r ty yn fuan wedi i Harris fyned ymaith, ac a ofynodd am weled y geirlyfr, a chyn iddynt chwilio nemawr am dano—"O!" ebe efe, "gallwch feutro mai y Sant a'i lladratodd, &c." Aeth y Morgans hwn allan i ymofyn am y *policeman* ar frys, ac wedi iddo ddychwelyd gydag ef, a hir gwestiyno y perchenog, cafodd rhyw ben gair o gyfaddefiad fod y llyfr wedi colli, a'i fod yn go debyg i ladrad. Ar hyn rhuthrodd y *policeman* allan, er fod yr holl deulu yn begio arno beidio a chymmeryd Harries i fyny, oherwydd y dysgwylent ei fod yn dyfod a'r llyfr yn ol yn siwr. Ond, bu i gyd yn ofer: aeth y *policeman* ar ol Harries, ac a'i carcharodd ef yn y modd unwyaf cyhoeddus. Nid oedd ond byr amser er pan yr adferasid y *policeman* hwn i'r swydd, o'r hon yr ymddifadasid ef am rywbeth; a dyma yr ysglyfaeth gyntaf a gafodd o'r natur hyn, i brofi ei ffyddlondeb i'r llywodraeth, ac i ennill enwogrwydd. Paham yn y byd y daeth y Morgans hwnw i fewn i boli am y llyfr yn y fan? Pwy na wel fod Harris wedi ymddwyn drwy y cyfan, yn hollol fel y gwnaethai dyn a gawsai y llyfr yn ei logell yn ddiddysgwyl? eithr nid ymddengys fod ymddygiad y dyn a nodwyd, na'r *policeman*, yn tehygu llawer i ddynion sydd a'u *business* yn unig am gael allan y gwir, a chospi yr euog yn deg a didriciau. Mae pob canmoliaeth yn deilwng i'r prif ynad am ei ym-gais drwy bob ffordd alluadwy i gael y carcharor yn rhydd oddiwrth y condeuniad o *furiaid* yn y gorchwyl; eithr dyna a all pregethwr di-eithr ddysgwyl pan eisteddo dynion rhagfarnllyd at ei grefydd yn farnwyr arno.

Dealler nad am ladrad bwriadol yr ysgymunir Thomas Harris; ond oherwydd ei esgeulusdra o anrhydedd ei grefydd dan yr amgylchiadau peryglus hyn, ag oeddynt hysbys iddo. Dylasai droi yn ol y fynydd y cafodd efe fod eiddo dyn arall yn ei feddiaut, ac nid gadael i'w elynion gael lle i'w gyhuddo ef o ladrad, tra yr oedd efe wedi gadael y llyfr yn llaw y wraig hono i'w ddychwelyd yn ol. Mae efe wedi syrthio i brofedigaeth lem, nad drwy hwy na pha fodd y bu; ac am-lwg yw ei fod wedi arddangos diofalwch o anrhydedd y weinidogaeth a ymddriedwyd iddo drwy yr amgylchiad, braidd. Cymmered pob un o honom wers oddiwrth yr hanes galarus hwn, i fod ar wyladwriaeth dros eu llogellau a'u cymmeriadau, bob cam o'u taith trwy y genedlaeth drofalus hon. Diau fod cannoedd o bethau tebycach i ladrad gwirfoddol un'r uchod wedi cael eu pasio yn ddiaylw yn ein gwlad, eithr na feddylid y Saint mai cyffelyb y drwgaredd a gant

hwy i ereill. Dyma y trosedd cyntaf a brofwyd mewn un modd yn erbyn neb o'r Saint, er pan yr ydyu ni yn y wlad, a gobeithiwn mai dyma y diweddaf. Mae llawer o wyllo ar ein camrau i gael ein maglu, hyd nes na alla neb o Saint farw a'r nad ymegnia i geisio profi fod rhyw beth yn y grefydd yn achosi eu lladd. Cynnaliwyd *post mortem examination* ar ddyn yma yn ddiweddar, yr hwn oedd wedi bod dan y *liver complaint* am ddwy flynedd. Yr oedd y Saint, mewn ufydd-dod i orchymynion ysgrhythrol (gwel Iago v, 14) wedi bod yn gweinyddu ordinhad ddwyfol o eneinio ag olew a gweddio drosto; ac y mae gelyniaeth rhai mor fawr at grefydd Crist, fel y ceisiasant brofi ei hufyddion yn swrddwyr; i.e., ar y broffes o'u hufydd-dod iddo; felly yma, a diolchwn i'r meddygon am addef nad yr ordinhad ddwyfol oedd wedi achosi ei farwolaeth; onid wyddis na fyddai y bobl enllibus hyn am gyhuddo Mab Duw ei hun o lofruddiaeth yn ngosodiad y fath ordinhadau? Yn ddiweddar meiddiodd Golygydd y *Carmarthen Journal*, gyhoeddi am un hen wr a fu farw ei fod yn "*victim i'r wicked faith*;" sef, am ufyddhau i orchymynion Iesu Grist yn ffyddiog. Yn ddiweddarach etto, bu farw chwaer ger Brechfa, o'r frech wen; pan y tystiai ar wely angau ei heddwch â Duw, a'i hawydd i fyned at ei Thad nefol, a'i diolchgarwch am gael crefydd iawn, &c. Chwalwyd drwy'r wlad ar adenydd yr awel ei bod yn edifarhau am ufyddhau i athrawiaeth y Saint, ac yn eu gadael, &c., yn hollol groes i'r gwir ar addefiad ei mam. Yma hefyd, dangosodd rhai y fath elyniaeth at grefydd Crist a dweyd mai yr ordinhad ddwyfol fu yr achos o'i marwolaeth. Daeth *policeman* busy fyth yn mlaen, a cheisiodd ei waethaf godi ei hun i'r gwynt, drwy haeru fod yr olew yn wenwynig, ond methodd yn hollol y tro hyn, nad beth a wnant nesaf. Saint anwyl, gwyliwch.

C Y N N W Y S I A D.

Cyfarchiad ar ddechreu y flwyddyn		Trigle y Mormoniaid	9
Newydd	1	Cymmanfa Morganwg	9
Gwyrth Formonaidd	3	Yr adduned Cymreig i'r Saint Ame-	
Gwledd y Boneddigesau Americanaidd		ricanaidd	11
ar ran y Saint	7	Pedr Fardd yn Formon	12
Dyfyniad o Lythyr O. Hyde	8	Hysbysiad	14

MERTHYR-TYDFIL :

CYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH
HEFYD GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL.

ARGRAFFWYD GAN JOHN JONES, RHYDYBONT.

PROPHWYD Y JUBILI,

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 20.]

CHWEFROR, 1848.

[PRIS 2g.

MYFYRDODAU AR Y FLWYDDYN A AETH HEIBIO.

MAE y flwyddyn un fil a wyth cant a saith a deugain wedi ei rhifogya y rhai a fu. Darfu ei gobeithion, a'i hofnau, ei phleserau, a'i thristwch, i.e. darfuant am byth! Mae y croniclydd anffaeledig ag sydd yn cofrestru pethau amseroŵ erbyn tragwyddoldeb wedi rhoddi un gyfrol yn ychwanegol i gadw yn ddiogel yn y cofgelloedd fry erbyn dydd yr arholiad, o hanes gweithredoedd blynyddol pob perchen rheswm, da a drwg. Yno yr arhosant mewn lliwiau digyfnawid, ar ddefnyddiau anhreuliadol, fel nas gellir na thynu ymaith na chyfnawid un frawddeg nac un iot o'r cofrestiad gwirioneddol. Gormes, rhyfeloedd, ac anghyfiawnder cenedloedd at eu gilydd—balelder, afradlonrwydd, a thrais breninoedd, tywysogion, a llywiau dwyr—rhagrith, twyll, ac annyngarwch y rhai a honant y teitl o *Beirch.*, ac a broffesant fod yn arweinyddion y werin, pechodau yr holl bobloedd, ac yn neillduol *celwyddau* y penboethiaid crefyddol, pa rai a ddyfeisiasant, a draethasant, ac a gyhoeddasant ar y Saint druan, y maent oll yn argraffedig ar gronclau anghyfnawidiol, yn aros i'w darllen etto yn eu wynebau, yn nghlywedigaeth y myrddynau dirif, yn nydd yr ymweliad. O feddylddrych sobr! Etto, oll yn ffaith! Pa le, pryd hyny, yr ymguddia yr annuwilion? Pa greigiau anferth, ar eu galwad, a neidiant ar y celwyddwyr a'r erlidwyr i'w cuddio rhag wynebu y gwir? Diau nad ystyrient mawngloddiau'r byd ond bychain i'w rhoddi am gyfnawid un frawddeg, neu ddileu un gair! Etto, heb obaith am hyny.

Mae gruddfanau y caethion dan eu beichiau pan y mae eu gormeswyr yn cysgu, pa rai sydd yn newynu t a mae yr olaf yn gwledda—ochenaid y tralodedig, a chystudd yr anghenus, y weddw, a'r amddifaid, wedi esgyn i glustiau Arglwydd Sabaoth, ac yn tystio yn erbyn annuwiondeb mewn lleoedd uchel, pan y mae hefyd ddagrau, a gwaed, a lludded y Saint, a ddyoddefasant o herwydd tystiolaeth yr Iesu—

cenadwri ryfedd, yn cydwaeddi yn un *chorus* uchel, "Pa bryd Arglwydd cyfiawn oni ddiali, &c.?" O'r ochr arall, mae amynedd, rhinweddau, gweithredoedd, addfwynder, brawdgarwch, cariad, sêl, di-wdrwydd, a ffydd Saint y Goruchaf, wedi eu cofrestru hefyd, ac a barhant yn goffadwriaeth hyd nes y delo y dedwydd ddydd hwnw pan y dywedir wrthynt, "Deuwch chwi fendigedig blant fy nhad, &c."

Dedwydd yn wir yw'r gwr a all ddweyd wrth ddarllen ei hanes ei hun am flwyddyn, ei fod oll megys ag y dymuna. Pwy (hyd y nod yn mhlith y rhai a ddymunant wneuthur daioni) a all ddarllen ei hanesyddiaeth am y flwyddyn 1847, llinell ar ol llinell, a'r naill frawddeg ar ol y llall, heb ewyllsio cyfnewid llawer o honynt, pe gallai? Ond ni ellir gwneyd hyn—pasiodd yr hyn a basiodd am byth, ac, "yr hyn a ysgrifenyd â ysgrifenyd."

Dysga hyn oll i ni un wers neillduol a llesiol; sef, gofalwn ar fod ein hanes yn 1848, yn gyfryw ag y bydd yn hoff genym ei ddarllen yn y dydd a ddaw, ac felly hanes pob blwyddyn a ganiateir i ni hyd y gair "diwedd."

Bu 1847 yn flwyddyn nodedig yn ei chyssylltiad â hanes y Saint yn Nghymru. Mae cenadon y Goruchaf wedi bod yn selog gan ddyrchafu eu llais yn eofn i draethu eu cenadwri o heddi i glywedigaeth miloedd yn adnewyddol drwy wahanol siroedd ein gwlad; ac er tyned y llyff-tytheiriaid oedd am ein brodyr unwaed—er amled y camgyhuddiadau a draethwyd ac a gyhoeddwyd ar blant Duw a'u cenadwri—ac er lli-d-iogrwydd tywysog y tywyllwch a'i blant, y mae cannoedd o'r rhai gonest eu calon wedi cofleidio y gwirionedd fel ag y mae yn yr Iesu—wedi dyfod i weled goleuni mawr, ac y mae genym fwy o destynau diolchgarwch i'r hwn a bia y gwaith, oherwydd ei barodrwydd cynnyddol i selio cymmaint bendith ar y genadwri—am gadarnhau y gair gyda y fath luaws o dystiolaethau dwyfol, o arwyddion rhyfeddol, ac o amlygiadau parhaus o'i allu ei hun. Hefyd, diolchwn iddo am yr iechyd a'r bendithion tymmorol a gyfrana Efe mor helaeth i ni, yn nghyd ag am yr undeb, y cariad rhyfeddol, a'r gobeithion ychwanegol ag sydd yn meddiant ei holl blant drwy'n gwlad. Diau na bu y Saint erioedd yma yn y fath sefyllfa flodeuog, cariadus, a llwyddiannus, ag ydynt yn bresennol; ie, nis gallwn braidd ddwyn i'n cof nemawr eithriad unigol. Diolchwn am hyn. Ond, ar yr un pryd, er cymmaint a wnaed, pwy o'r Saint—pwy o'r swyddwyr, a'r na allasant argyhoeddi rhyw bechadur yn ychwanegol? Pwy yw y person dedwydd hwnw yn ein plith ag y tystia Ysbyrd y gwirionedd i'w gydwybod ef, "Yr hyn oll a ellaist, ti a'i gwnaethost?" Mae lluoedd, ie, ardaloedd cyfain, drwy ein gwlad fach ni etto heb glywed ein cenadwri, ac y mae gwerthfawrogrwydd eu heneidiau anfarwol, a gogoniant ein Duw, yn galw yn uchel ar y rhai a dderbyniasant y trysor dwyfol i ymgnio fwy fwy yn y flwyddyn ddyfodol nag o'r blaen, yn gymmaint a bod y dyddiau blin yn agosáu, yn mha rai ni ellir hau yr had da yma. Yn gymmaint ag mai i ni yr ymddiriedwyd y wiallan fach hon, ymgniw'n i iawn ddefnyddio ein talentau, ac felly y cawn ni, a'r rhai a gredant ein dystiolaeth, fynedfa helaethach a buanach i mewn i dragwyddol orphwysfa y ffyddloniaid

Eithr nid yn Nghymru yn unig y bu hynodrwydd y flwyddyn 1847,

o barthed i lwyddiant yr efengyl; ond hyd y nod ar y cyfandir Americanaidd. Er creuloned y naill ran, mae miloedd o'r rhan arall o'r trigolion hyny wedi ufuddhau i'r efengyl, a lluoedd wedi codi eu pebyll fel Abraham gynt a'r alwad Duw i ymadael o Babilon rhag derbyn o'i phlâau, gan ddewis yn hytrach fel Moses gynt, yr anialwch erchyll gyda phobl Dduw, na thrigo yn mhebyll erlidwyr creulon. Ac y mae mwy o alwad am bregethu, lluosocach gwrandawriad, a gwell gobeithion drwy'r Taleithiau yn awr nag erioed.

Ar y cyfandir hwn y ceir nid yn unig un o brif hynodion y flwyddyn, ond yr oes; i.e., yr oesoedd diweddaf, sef alltudiaeth miloedd o Saint y Goruchaf i'r goedwig orllewinol. Yno ceir gwyrthiau eu Duw megys cynt, yn estyn ei law haelionus i borthi cannoedd o honynt ag ehed-iaid y nefoedd, ac â gwyllt anifeiliaid y goedwig, ynghyd â'i fraich gadarn yn eu cynnal rhag pob gelynyion, er eu lluosoced—i ddringo dros bob rhwystrau, serch iddynt dderchafu eu penau cyn uchod a chapan cymylawg y mynyddoedd creiglyd. Dofodd gynddaredd y bwystfilod, a lliid anghydarol hyd y nod y "*Blackfeet*" (arabiaid y goedwig) er eu mwyn; ac achosodd i'r anwariaid eu serchu â chariad brawdol, i.e., tywysodd hwynt gerfydd eu deheulaw, nes cyrhaedd o honynt wrth y miloedd c'n hyn i'w cartrefe dewisedig; ac yno portha hwynt â'i ddaioni, fel bugail ei braidd. Eu Duw a'u lluosogo ac a'u ffyno!

Mae rhyw filoedd o drigolion ynysoced Môr y Dehau wedi dyfod yn ddeiliaid o deyrnas Dduw yn y flwyddyn ddiweddaf hefyd, ac yn ymgasglu yn lluoedd i gwrdd â'u brodyr o bob lliw yn Seion.

Mawr y cyffroad a fu trwy wersylloedd y gelyn trwy Frydain, a miloedd, gynnifer braidd, wedi *listio* dan faneri Seion yn y flwyddyn a aeth heibio, ag a leihaodd sectau yr oes, er bod ambell un o'r rhai hyny wedi lleihau 5000 y llynedd! Mewn gair, nid llai hynod a fu lluosogiad y Saint drwy'r byd y llynedd nag a fu eu cynnydd mewn duwioldeb a gweithredoedd da; ac nid hynotach y naill a'r llall na'r camgyhuddiadau, yr erlidigaeth, ar elyniaeth, a achosa gau grefyddwyr i gerdded gam am gam a'n cynnydd. Diolchwn i'n Duw am y buddugoliaethau enwog a gawsom yn y flwyddyn 1847; ac ymddiriedwn yn yr un fraich gadarn am rai mwy yn y flwyddyn ddyfodol. Diau mai "byr waith a wna Efe ar y ddaear" trwom, os ymwrolwn erddo. Y Duw cadarn, yr hwn a'n llwyddodd gyda ei waith yn 1847, a'n tywyso a'i Ysbryd, ac a roddo i ni fwy o lwyddiant yn y flwyddyn ddyfodol i gasglu ei wenith i'w ysgubor. Amen.

PROFION O'R ANGHEN SYDD AM Y "DDAWN IACHAU" YN EGLWYS Y BEDYDDWYR.

Er sefydliad cenadiaeth y Bedyddwyr yn China hyd yr amser presenol, bu farw 26 o'u benywod cenadol; cyfartalwch oes genadol y rhai oedd ond yn unig pedair blynedd a phedwar mis. O'r gwrywod bu farw 13; cyfartalwch ystod eu milwriaeth genadol hwynt oedd saith mlynedd a chwe mis. Gorfodwyd 26 o genadon i adael eu maes llafariol i chwilio am iechyd yn rhyw awyrgylchoedd ereill; cyfartal-

wch eu hamser hwynt ar y maes oedd pum mlynedd a phedwar mis.

Mae hyn yn wahanol iawn i gyfartalwch einioes y cenadon hyny a anfonodd Iesu Grist gynt; ac yn profi y gwerthfawrogrwydd o'i addewid Ef iddynt, "Wele yr ydwyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd." Pan y buasai rhai o honynt hwy yn glaf, galwasent am henuriaid yr eglwys i'w heneinio ag olew yn enw eu Meistr, a buasai gweddi y ffydd yn iachau y claf, oddieithr fod eu milwriaeth eisoes wedi ei gwblhau. Credasent hwy addewid eu Meistr ar eu rhan, sef "ar y cleifion y rhoddant ddwyllaw, a hwy a fyddant iach," yn hytrach na ffoi i wlad arall, a gadael eu corlan yn agored i fleiddiaid. Pwy a all ddarllen yr aswyddiant uchod? pwy a all gyfranu cymmaint o arian i'w danfon mor bell, a'u cynnal yno ar y fath gost? pwy a ddywed fod achubiaeth eneidiau y paganiaid yn dibyn ar glywed a chredu eu cenadaeth? i.e. gofynwn pwy yn eu synwrau a ddichon feddwl fod y cenadau uchod wedi eu hanfon gan Dduw, a meddwl hefyd ar yr un pryd nad yw "dawn iachau," drwy arddodiad dwyllaw, eneinio ag olew, &c., (Iago v, 14), yn anhebgorol anghenrheidiol? Etto, gofynwn, pwy a ddywed "mai er sefydlu yr efengyl yn unig yr oedd y doniau hyny, ac nad oes eu heisiau yn awr?" Atebed dyoddefiadau y dyoddefyddion uchod druain a oes eisiau y "ddawn iachau" yn eglwys Dduw, i.e. yn mhlith cenadon yn yr oes hon. Tystied yr holl filoedd o bunnau ag a ddenir oddiar amddiffaid a gweddwon, a thylodion, a phlant ysgolion Suliol Cymru, o fwyddyn bwygilydd, er talu costau y cleifion uchod o gwr bwy gilydd i'r byd, ac o'r naill hinsawdd i awyrgylch arall i chwilio am iechyd;—tystied hyn oll y gwir, ac yna dyweder gwerth y "ddawn iachau," neu os delir i wadu yr anghen o honi yn ngwyneb y ffeithiau eglur hyn, darfydded y casglu arian ag sydd yn *substitute* yn ei lle rhag cywilydd. Ac etto, os addefir yr anghen am ddawn iachau, rhagwela ei gwadwyr y gofynir iddynt yn ol yr un resymeg, paham nad oes eisiau yr holl ddoniau ag a addawodd Crist i'r eglwys? Ac yna rhagwela y Bedyddwyr mai unpeth fyddai hyny ag addef y ffaith, sef fod ymddiffardwydd eu heglwys hwy o'r doniau, ag addef nad eglwys Crist, namyn eglwys Simon Menno, yw eu heglwys hwynt! A phe felly, byddai yr holl gasgliadau, ac o ganlyniad *livings* miloedd o honynt ar dranc. Och! rhag y fath dynged!

Mae y truenusrwydd a welsom ni ein cydwladwyr yn ddyoddef mewn gwledydd estronol; mae ein hadnabyddiaeth bersonol a'r gorsafodd cenadol yn ngwahanol wledydd pellenig, yn creu ynom gydymdeimlad a'i dyoddefyddion, ond etto y mae ein rheswm, ynghyd ag ysgrythyr, a'r ffeithiau hyn ac ereill, yn profi i ni na ddylasai yr olaf fyned yno ar y fath negesau nes i Dduw eu danfon, yr hyn pe gwnaethent, diau yr anfonasai y "ddawn iachau," a'r doniau ereill gyda hwy. Syndod y dyoddefiadau a achosa sel heb wybodaeth! Hefyd, os er sefydlu Cristionogaeth y rhoddwyd y doniau ysbrydol, syndod na roddai yr un Duw hwynt yn awr er sefydlu yr un Gristionogaeth (os yr un hefyd) yn mhlith paganiaid; neu y mae yn syndod, os Duw a ddanfonodd y cenadau hyn i'w sefydlu! Diau pe yr aethai gwas i Dduw at y cleifion hyn, a chynnyg iddynt yr ordinad o arddodiad dwyllaw, yr ysgymunasent ef am DWYLLWR o'r herwydd!

SQUINT A'R SLWGIWR, A SIOPWR DOWLAIS.

(A scene from real life behind the curtain !)

NID brwdach Hengist a Horsa ar ddydd "brad y cyllill hurion," nag yr ymddangosai y Parchedigion uchod yn ol eu gallu yn yr olygfa dduwiolfrydig a ganlyn ; a thrwy y drych bach hwn bawdd yw canfod pwy yw colyn, brig, a gwreiddyn, a phwy biai y frwythau danteithiol a lanwant frigau harddaf Caersalem !

Ar ryw ddydd hyfryd a bafaidd yn ddiweddar, fel yr oedd *Shogior* *Independia* yn ymlwybro yn mlaen yn bendrist rhwng arteithiau y fol-wst a chur yn ei ben, oherwydd rhegu cymmaint ar y Saint y nosweithiau blaenorol, pan ddaeth o fewn i tua chanllath i *ger y boat*, gwelid rhyw Siopwr "Parchedig," coch a boliog, yn bras gamu tuag ato mor gyflym ag yr ymlusgai "*Tobit*" gynt ar ol yr aderyn a dynodd un o'i lygaid pan orweddai yn feddw ar yr heol ; ond dacw siglo dwylaw ! O ! y fath lygaid llon ! Nid aethant braidd ganllath tua'r un lle, fel y cyrcha pob adar o'r un lliw, a'r na ddeallwyd mai rhai o'r cigfranod Dafisyddol oeddynt, nid yn unig wrth eu henawau, ond drwy en bod o'r un chwaeth am furgyn.

Siopwr.—"Wel, bartner hoff, pa sut yr â y fussed o erlid yr hen Sataniaid yn mlaen y dyddiau hyn.?"

Shogior.—"Yn siwr nis gwn i yn iawn pa sut, ond digon lledchwyth ryw fodd ; a dweyd y gwir i chwi, yr wyf fi braidd a digaloni, canys cynnyddu y maent hwy pa fwyaf eu gwrthwynebir, serch ein bod ni oll yn gwaeddi nerth ein penau eu bod hwy yn darfod."

Siopwr. [Gan holtio yn fyrbwyll a brawychus ar yr heol, a waeddodd] "Beth ! digaloni a dd'wed'soch ! O ! na 'dyw wiw digaloni na llaesu dwylaw ; yn mlaen a hi, dilynwech hwynt i beb cwrdd, dywedwch wrth bawb am waeddi Sataniaid ar eu hol hyd yr heolydd, a hwy fyddant yn siwr o ddantio cyn hir. Mae'r Sataniaid yn pregethu ar yr heol heno, ar bwys Caersalem ; ydynt, y maent yn chwythu eu hen gyrn hyrddod wrth ein muriau. Ewch yno, ac afonyddwch eu cwrdd, ac anfonaf finnau rai o'm bechgyn tafodog yno, i'ch *cheerio*, nad beth a ddywedwch. Rhaid, O rhaid i ni ymroi i'w herlid, onide dynoethant 'odrau ein Duwies fawr, a bydd gobaith eich elw chwithau yn pallu fel yr eiddom ninnau, ac aiff holl Dowlais ar eu hol. Ac hefyd, gwrandedwch frawd [a chan edrych o'i ddeutu rhoes ei ben wrth ei glust ef], dyna ffordd ragorol i chwi ennill enwogrwydd, a phwy a wyr na ennillwch un o demlau godidog ein Duwies os byddwch ffyddlon am enyd. Gwelwch fed pob crotyn sy'n erlid y Sataniaid hyn yn ennill parch drwy'r cyhoeddiadau, ac yn *cael living* yn fuan. Dyna fel y dringaswn i fyny i ben pwlpud y rhywle, ond gallaf fi gydweithio yn fwy llwyddiannus o'r tu ol i'r *screen*, chwi wyddoch, a chael ambell ddarlith yn y capeli, a'r cyhoeddiadau i'w herbyu, canys felly ni chant hwy byth ddweyd gair yn ol."

Shogior.—[A ledodd ei glust, ac a lônodd o'i goryn i'w sawdl pan glywodd son am y synagog a'r enwogrwydd] "O ! yr wyf yn teimlo fy nghas yn enyn at yr hen Sataniaid, dan bwys eich cynghorion, ac ond i chwi addaw ysgrifenu hanes ambell ddadl i'r cyhoeddiadau, a'm henw innau wrthi yn fuddugoliaethus, wrth gwrs mi a benderfynwn i'w herlid

a'm holl allu, canys gwyddoch chwi pa sut i'w trwsio. Ie, dyna *blaw noble* i ddringo i fyny; yn mlaen a hi. Ond pa gwac, neu ysgrythyr, yw'r goreu i'w tòri i lawr?"

Siopwr.—"Pwnc! peidiwch a phynco gyda hwy, onide trechant chwi yn siwr, ac am ysgrythyr na ynganwch air, canys troant y rhainy oll o'u plaid eu hunain. Y ffordd oreu a welais i oedd gwaeddi fod gwyrtthiau wedi darfod—a dweyd pob hen chwedlau yn erbyn y personau, ac y mae genyf fi loned ffetan am Joe Smith a allwn gael am ddim. Dyma'r ffordd oreu, a'r unig ffordd i'w gwrthwynebu."

Shogwir.—"Yr wyf yr un farn a chwi yn hollol, frawd; ac O! wrth gofio [dan rwbio ei siol], y mae genyf stori newydd a phert iawn am danynt hwy yn awr."

Siopwr.—"Gan sefyll etto rhag colli gair" "Wel, beth yw hono? Dywedwch ar frys, canys nid âf gam pellach nes ei chlywed."

Shogwir.—"Na, dowch yn mlaen, yr wyf fi ar frys, fel y gallwyf fyned i'w cwrdd hwy heno, a dechreu eyn y delont hwy yno; ac felly byddaf siwr o siawns i lesaru. Wel, [dan gerdded yn mlaen yn araf], dywedodd un o bregothwyr y Seintiau yn Llanelli."

Siopwr.—"A'i croesodd yn ddigofus" "Nage, na alwch hwynt yn Seintiau; oni wyddoch chwi ddarfod i mi eu cyfenwi yn Sataniaid, a fy mod a'm holl ògni yn dysgu pawb i'w galw ar yr enw hwnw? enw mwy priodol iddynt o lawer, ond ewch yn mlaen gyda'r stori."

Shogwir.—"O'r goreu. Sataniaid gânt fod ynte. Wel, dywedodd y pregethwr hwnw fod angel i ddod i'w cwrdd hwy ryw noson, a gwa-hoddodd bawb i ddyfod yno i'w weled. Mawr y cynwrf a'r cyrchu a fu i'r fan; ac wedi dyfod yr amser apwyntiedig, a'r bobl yn dysgwyl yn awyddus, daew yr angel yn rhuthro i'w canol o ryw ystafell arall, a gwisg wen am dano, a dyna y benywod yn ysgrechain, ac yn diane mewn dychryn, a'r lleill yn llewygu, a'r angel yn swayo! Ond fel yr oedd y gwaethaf iddo ef, yr oedd rhai o fechgyn call Llanelli wedi dyfod yno, gan ddysgwyl mai rhyw gastiau fyddai yno fyth, a hwy a gydiasant yn yr angel, ac a'i llugasant allan, ac a ddechreusant ei gicio, a dyna'r angel yn dechreu lleisio, ac yn begian am ei fywyd! Ond rhoisant gôt dda i'r Satan mawr am alw ei hun yn angel, ac yna gadawsant ef. Ac y mae yr ychydig benweiniaid a'u erdent wedi eu gadael o'r herwydd."

Siopwr.—"A'i fola yn siglo fel megin gof, gan chwerthin" "Da iawn, dyna stori bert; gyrwch hi yn mlaen."

Shogwir.—"Ond y mae hi braidd yn rhy blaen i neb ei choelio fel yna; onid gwell fuaasai ei thrwsio hi dipyn; ac ni allaf ffnau gan fy nghydwylbod ei gwirio."

Siopwr.—"Beth! coelio yn wir! coeliant o'ch geneu chwi yn hawdd. Oni wyddoch chwi fod y teitl o barchedig wrth gynffon y stori yn ei santeiddio yn ngolwg y werin, nad beth a fo. Dywedwch fod rhyw weinidog oddiyno wedi ei hysgrifenu atoch am wir. Beth waeth os celwydd yw, os ateb hi ddyben da. Y mae pob arfau yn gyfreithlon mewn rhyfel. O ydyw, mi wn fod hyna yn ddigon gwir, canys y mae yn debyg iawn i ystranciau y Sataniaid. Yr wyf fi wedi ei chlywed o'r blaen, ac wedi ei hysgrifenu i lawr, ac am ei chyhoeddi am wir drwy bob cyhoeddiad a'i derbypia, a'r rhai a'i ammheuent gynt a'i

coeliant hi oddiyno, chwi wyddoch. Fel yna y gwnaethum i o'r blaen. Oni ddarllenasoeh ystoriau y henywod hyny o Bendaran, a hanes eu cyrddau, yn y *Bedyddiwr*, a hanes y gwr a dorodd ei goes, a llawer o bethau ereill, y rhai a wnaent ddrwg mawr i'n crefftau ni pe caffai y werin ddeall y gwir o honynt; a rhaid lliwio tipyn o leiaf, er rhwystro y bobl i'w dilyn ar eu penau i uffern. Er fod llawer o bethau rhyfedd wedi cymmeryd lle yn eu plith hwy, etto ni chredaf fi pe gwnaent y wyrth fwyaf erioed. Yr wyf fi wedi penderfynu eu herlid hyd eithaf fy ngallu tra b'wyf byw; canys yr wyf wedi gwneyd gormod eisoes i roi i fynu yn awr."

Slwgiwr.—"Yn siwr 'rwyf finnau yn teimlo fy hen sel yn ail gyneu wrth eich cyngorion, ond rhaid i mi fyned ffordd hyn yn awr; caf eich gweled etto heno." Ac wedi siglo dwylaw *exit* y *Siopwr* dan chwerthin yn ei lawes am ben y sport a gaffai ar gost ei "*gats paw*." A'r Slwgiwr yntau a fras gamai ffordd arall, gan gnoi ei gil wrth feddwl am y ffordd newydd hon i enwogrwydd, a sisial wrtho ei hun, "*Synagoge*," "*living*," &c. Yr olygfa nesaf a welwyd ar y Slwgiwr oedd ar ben y fan lle yr oedd cyhoeddiad y Saint i bregethu. Yr oedl efe yn ol ei air wedi achub y blaen, ac yn prysur floeddio yr "ystori o gerdded ar y dwfr," &c., &c. A'r Siopwr parchedig yntau yn y dorf, a phibell hir yn smokio ac yn chwerthin ar yn ail, hyd nes i'r ddunos daenu ei mantell, a'u gorchuddio o wyddfod dynion rhag cy-wilydd!

Os hapia it' gwrdd â'r "*Siopwr*"—gochel
 Ei gichiau, mae'n fradwr;
 Rhag gwarth anrhega y gwr,
 Ei *sledge* at ben y Slwdgiwr.

Y "*Slwgiwr*" yntau sledgia,—ar ryw un
 Oer hynod yw'r ddalfa;
 Mae'n rhy amlwg gwg a ga'
 Coleddwyr pob celwyddau.

CANMOLIAETH I ADOLYGIAD CAPT. JONES

AR

Ddarlithoedd y PARCH. E. ROBERTS, *Rymni*, a'i gefnogwyr, yn erbyn
Mormoniaeth.

CYD ei ben nid Cadben mwy—llawen
 Benllywydd—clodadwy;
 Er mor gerth eu rhyferthwy,
 Cawr oedd o nerth, carodd hwy.

Dy loewgall ADOLYGIAD—mwyn hyddoeth,
 Mae'n haeddu derbyniad;
 Yn ddios rhydd ddangosiad
 'Allu dyn yn llaw ei Dad.

Llywyddu mal llew addas—yn hyfwyn
 Oen hefyd i bwrpas;
 Llôn wr yw yn llawn o ras,
 Diwyrni dros ei deyrnas.

Tyllaist eu holl gastelli—bydron,
 Heb adrodd direidi;
 Amlygaist a thynaist
 I warth hynod eu gwrthuni.

Crafant wir broffeswyr crefydd—utlr egr,
 Na thrigont yn llonydd.
 Heb os, a'u dangos liw dydd,
 Mal gwelont eu moel g'wilydd.

Dyweda Mr. Roberts, yn y *Tyst Apostolaidd*, ei bod yn ormod o
 gompliment i'r diawl i ymyraeth llawer â'r Seintiau, mewn ffordd o
 ysgrifenu nac areithio. A dywedaf finnau,—

Ni 'myraeth y gelyn marwawl—â Seintiau,
 Os yw'n *Tyst* yn fuddiawl;
 Robert, mae'n ddiarebawl,
 Aeth yn ei dwyll yn waeth na d——l.

I'w wrando ni cheir undyn—a fyddo
 'N ei feddiant synwyrn;
 I ddynion â 'menydd enwyn,
 Llwy'r ddwl, mae'n llawer o ddyn.

Chwydu mae'r gwyr parchedig—yn ofer,
 Lysnafedd gwenwynig;
 Er elw mae rhai cythreulig
 Dihafal yn dal eu dig.

Ystyriaeth ddiduedd o ymddygiadau gwarthus rhai o bregethwyr
 yr oes (yn enwedig y Bedyddwyr) tuag at Saint y Dyddiau Diweddaf,
 a'm cymhellodd i gyfansoddi yr urhod, ac i'w gynnyg i'ch gwasanaeth
 cyhoeddus, a gobeithiaf y bydd yn argyhoeddiadol i lawer o hudoled-
 igion yr erlidwyr cyfeiriedig, fel na chymmerant eu camarwain gan eu
 chwedlau gwneuthur hwynt. Pa beth ond Satan sydd yn eu cynbyrfu
 fel na adawont i'w cymmydogion diniwed a chydwybodol lonydd i
 addoli Duw fel y dewisont? Etto, ni chlywais fod cymmaint ag un
 o'r ymosodwyr duwiolfrydig a pharchedig hyn wedi cynnyg gwrthbrofi
 dim o egwyddorion y Saint; ond eu difenwi, adrodd chwedlau disail
 eu gelynyion profsedig am gymmeriadau personau ag sydd wedi
 marw, ac ereill ag sydd filoedd o filltiroedd oddiwrthym;—eu difenwi
 yn *Sataniaid*, *twyllwyr*, *gawbrophwydi*, *witches*, &c., &c. Pa un sydd
 waethaf, ai y difenwr rhydd, ynte y celwyddwr gwirfoddol, sydd
 gwestiwn anhawdd ei benderfynu. canys dau frawd undad ydynt; oed-
 ran y naill yw chwech, ac oedran y llall yw hanner dwsin. Diau fod
 yr hwn sydd ddigon arian ei dafod i ddifenwi ei gyd-ddyn, o farais yn

erbyn ei grefydd, yn ddigon drwg ei galon hefyd i lunio celwyddau, a'u traethu hyd yn nod o hwlpuad am wirionedd, er dial arno y ffordd hōno hefyd! Gwael hyd yn nod yn eu meddyliau eu hunain yw flug-grefyddau y rhai a'r nad oes ganddynt well ffordd na hyn i'w hain-ddiffyn, ac i gadw eu hudolion odditan eu pawenau. Ond chwi ddi-niwedd braidd yr Iesu, nac ofnwech ysgyrnygiad dannedd yr holl ffeidd-iaid, na chabldraethau holl offeiriaid Babel fawr, canys y mae y nef-oedd yn llawenhau wrth eich gwroldeb anghydmharol, ac yn gwenu arnoch, gan eich lliosogi fwy-fwy; a diau fod cannoedd, os nad mil-oedd, fel fy hunan, wedi ein hargyhoeddi y rhaid eich bod chwi o Dduw, cyn yr ymunai yr holl hen erlidwyr a fuont bob amser ben-ben a'u gilydd, i'ch erlid chwi mor selog ag y gwnant yn awr. Diau am eich crefydd, mai y nerthol weithrediadau ag a ddug Ysbryd Duw i chwi drwyddi, sy'n cynhyrfu teyrnas y gelyn, ac yn brawychu ei weis-ion i'ch erbyn. Ewch yn mlaen, y mae hir hoedl a gwynfyd o'ch blaen, a lluoedd aneirif braidd ar gychwyn rhedeg ar eich hol yn yr yrfa Formonaidd am y gamp uchel.

Hwylus yn mlaen yr eled—drwy'r oessu,

Tra'r Iesu yn nodded;

Tae' holl ddoethion cryfion cred

I'ch herbyn, pwy a'ch gwared?

Ydwyl eich ewyllysiwr da,

Rymni.

DANIEL AB IAGO.

LLYTHYR J. JAMES, VICTORIA.

ANWYL FRAWD JONES.—Mae yn llawen genyf eich hysbysu fod ein canghen yn myned yn mlaen yn Hwyllyddiannus, a rhai yn ufyddhau yn barhaus i ordinhadau yr efengyl, ac arwyddion amlwg a llwyddiannus trwy y gynnadledd yn gyffredinol o ddaioni parhaus ein Duw tuag atom yn ei waith yn cyfranu ei amrywiol ddoniau ysbrydol yn ein plith. Y mae genyf un enghraifft neillduol a rhyfedd iawn i'ch hysbysu yn ei chylch, a meddyliaf ei bod yn deilwng o'i chroniclo yn y *Prophecyd*. Nos Sabboth diweddf, ar ol darfod ein gwasanaeth hwyrol, aethum gyda brawd ag sydd newydd ei fedyddio, merch yr hwn oedd yn gorwedd yn glaf. Ei hoedran sydd oddeutu 16eg, ac yr oedd yn hollol anadnabyddus o'n hegwyddorion; ac y mae ei mam a holl dylwyth ereill y ty yn yr un sefyllfa beryglus hyd yn hyn. Yr oedd y ferch gyfeiriedig yn dyoddef dan arteithiau llym, a phoenau yn trywanu drwy ei holl gyfansoddiad, nes yr oeddynt dan yr anghenrheidrwydd o'i dal yn y gwely. Aethum i a brawd arall i'r ystafell lle yr oedd yn gorwedd, a thrwy ein gweddiau ar, a'n flydd yn, y Gwaredwr, cafodd ryddhad uniongyrchol o'i phoen. Yr oedd yno chwech o ddynion amhroffesedig yn llygaid-dystion o allu Duw yn ei hiachâd hi, a rhyfedd oedd yn eu golwg hwynt. Hefyd, yr oedd hi yn amser rhyfedd yma ddoe; yr oedd gallu Duw yn cael ei amlygu mewn modd amlwg iawn yn mhregethiad yr efengyl gan ein hanwyl frawd John Pugh o'r Coed-duon. Cafodd rhyw gymhorth anarferol i bregethu yn ein cyfarfod am chwech, a chafodd yr hyfrydwch

o weled dau wedi eu dwysbigu yn eu calonau, ac yn ymfyn rhan mewn Ceidwad; ac yn ganlynol gwnaethant broffes o Fab Duw trwy reddi ufydd-dod i'r gorchymyn sydd yn dywedyd, "Edifarhewch, a bedyddier pob un o honoch." Y mae yma luoedd etto yn addaw eu dilyn; bydded i'r Arglwydd grasol eu nerthu, fel y byddo i Seion ddod yn llawen fam plant, a channoedd o hil Gomer fod yu mhlith y cyfryw. Yr eiddoch a'ch gostyngedig Frawd yn Esengyl Crist,

JAMES JAMES.

P. S. Y mae saith wedi eu bedyddio yr wythnos ddiweddaf, yr hyn sydd i'w chwanegu at y cyfrif sydd gan y brawd W. Phillips.—
J. JAMES.

"EOS IAL" A MORMONIAETH.

MR. GOLYGYDD,—Yn ddiweddar dygwyddodd i mi gyfarfod â rhyw fardd a eilw ei hun yn "Eos Ial," a chefais achlysur i egluro iddo ychydig o'r egwyddorion a gredir yn ein plith, yr hyn ni wrthwynebdodd; ond clywais ei fod yntau druan ar ol hyny, fel y gwna llawer, yn diystyrn pethau dwyfol, ac yn defnuddio ei dalent i warthruddo a chamgyhuddo y Saint, fel y canlyn, yn ol a glywais,—

"Seintiau y Dyddiau Diweddaf—deallais,
Dwyllwyd i'r eithaf,
Gan ddiefflig wenwynig gnaf,
Pell aswy o'r pwll isaf."

Minnau a ysgrifensis yr hyn a ganlyn mewn atebiad iddo:—

Aflawen yw rhoi flaenrhaith—y damniol
Gondemniad ar unwaith;
Y prif i'r gwr yw profi'r gwaith,
Ac afraid heb hyn yw cyfraith.

Yr "Eos" mwyn aros am ennyd—gwyllia'n awr,
A galw'n ol dy ddedryd;
Heriwn y beirdd a goreuon y byd
I'n chwilio a'n dadymchwelyd.

Atebweh chwi, nid tyb 'chwaith—hyn ydyw,
'Newidiwyd y gyfraith?
Naddo, ai do, yw dy iaith,
Ateba—nid mewn tybiaith.

Os do yr "Eos" dywaid—yn nesaf
Danghosa y wirblaid;
Un wir oedd yna o raid,
'Nawr un ydyw ni w'yr newidiad.

'R ail Adda yw ein rheoleiddiwr—hwnw
Honwn ni'n ddiwiwr;
A wyro o'i ddysg un radd wr,
Didduw yw'r ffol gordeddwr.

Athraw i ni na thry yn ol—dysg
 Nad ysgog mo'i reol,
 Nid yw ein ffydd, adyn ffol,
 O Fod sy'n gyfnewidiol.

Nodwch gamsyniadau—yr awdwr
 Yn nghredo y Seintiau;
 "Eos" gwych, os oes gau,
 Eglurwch â rhigl eiriau.

Yn ei oes 'E roes yr Iesu—addewid
 Ddiffael i'w deulu;
 Daliwn, y Saint dilin y sy,
 A newidiwch chwi a nadu?

Ai addef hyn a ddifenwch—yn dwyll,
 I'n dallu, arosweh,
 "O'r pwll isaf," arafwch,
 Mae y trais yn ormod trwch.

Od oes gabl yn y dysgyblion—hyn,
 Am hŏni'r arwyddion,
 'N gwbl iach o'r gabl hon
 Nis dianc yr apostolion.

O hyd yr y'm ni yn parhau—i rodio
 Ar hyd yr hen lwybrau;
 Mewn un oes a yw hi yn âu,
 I'r oes arall yn wers orau?

Llwyn-y-gell.

DAFYDD ROBERTS.

LLYTHYR ABEDNEGO WILLIAMS, NANTYGLO.

BAROCHUS OLYGYDD,—Un o'm prif ddybenion yn y llythyr hwn, yw hysbysu eich darllenwyr mai myfi a gyhoeddais y gân ag sydd yn cael ei chanu yn erbyn Saint y Goruchaf drwy'r ffeiriau, y marchnadoeddi, ac ar hyd yr heolydd; sef, y gerdd hono a argraffwyd yn Brynmawr, yr hon sydd yn difenwi y Saint anwyl yn "Smithiaid," &c. Ie, myfi, gyda galar dwys y dywedaf, a fum mor ddrwg a hyny; ac O! pe gallwn ddileu hyny oll, a dadwneyd y dylanwadau niweidiol a ddichon fod wedi achosi; ie, pe gallwn ond symud y rhwystrau a roddais ar ffordd gweiniaid i chwilio am y gwir, parai i mi lawenydd ag y mae fy nghydwobod yn awr yn ommedd i mi. Wele fi yn gwneyd un ymdrech etto i atw y sothach hyny yn ol, a thae erfyniaf le yn eich colofnau i'm cyfesiad gofidus, fel y byddaf rydd oddiw'rth y canlyniadau o ddylanwad y gân hono o leiaf yn ngolwg eich darllenwyr. Yr unig esgusawd sydd genyf dros fod wedi cyhoeddi y fath beth yw, oherwydd fy mod yn y tywyllwch, ac wedi ei chyfansoddi dan ddylanwad rhagfarnllyd y ddysgidiaeth a gefais o hwlpuadau. cyhoeddiadau, ac o benau crefyddwyr a ddylasant wybod gwell. Ond yn awr, deallaf nad yw hyny yn ddigon o esgusawd yma; ond O, beth am fod yn ddigon o

faen brawdlys y gwirionedd y dydd a ddaw! Da chwi, maddeuwch i mi, a gadewch i mi drwy eich colofnau fegio yn ostyngedig ar yr holl Saint am faddeu i mi. Yr ydwyf yn gweddio llawer ar i Dduw y Saint a erlidiais, er mwyn Iesu Grist, faddeu i mi hefyd. Y modd yr agorwyd fy llygaid cauedig o'r diwedd, ac y deallais mai pobl Dduw mewn gwirionedd yw y rhai a wawdiwn, oedd fel y canlyn:—Cyfadd-fais fy mod yn ddall, ac yr oeddwn wedi meddwi yn ysbrydol, i.e., wedi pen-feddwi, tra yn y cyflwr hwn y gwnaethum y mawrddrwg hwn i'ch herbryn, ac oherwydd hyn trugarhewch wrthyf, Saint anwyl. Pe byddai i ddydd meddw, yn enwedig pe bai yn ddall hefyd, sathru ar eich troed, gwn yr esgusodech ef. ond iddo ei dynu ymaith, a gofyn maddeuant i chwi. Felly y ceisiaf finnau eich maddeuant. Fel y dylanwada ambell air yn ddwysach na'r llall ar ddydd meddw, felly y denwyd fy ystyriaeth innau at y gair sy'n dweyd, "Profwch bob peth, a delwch yr hyn sydd dda," ynghyd â gair arall a ddywed, "Edifarhewch, a bedyddier pob un o honcch yn enw Iesu Grist er maddeuant pechodau, a chwi a dderbyniwch ddawn yr Ysbryd Glân." Aethum i wrando a addawai y Saint y ddawn werthfawr hon, ynte a ddywedent hwy fel sectau ereill, "nad yw y fath beth i'w gael yn awr, nad oes eu heisieu," &c. Ac er fy syndod mawr, clywn ganddynt efengyl Mab Duw, ac addawent fel Pedr gynt y cffwn innau, y gwaethaf oll, fadd-euant, ac y cyfrnai Duw yr Ysbryd Glân yn ei ddoniau i minnau, ar yr ammodau rhag-grybwylledig. Yr oedd hyn yn gynnyg rhy deg i'w wrthod, ac ni allai ddiun llai nag ufyddhau dawelu fy nghydwybod gyffrous. Bedyddiwyd fi, a thrwy arddodiad dwyflaw gweision Duw, diolch iddo byth, minnau a dderbyniais o ddylanwadau y Dyddanydd nefol, ac o gymdeithas ei Lân Ysbryd Ef. Etto, diolchaf am fy arbed nes cael cyfle i ddod i deyrnas Dduw. Gwnawn wawd can yn y gân hono oherwydd tystiolaeth y Saint; ond erbyn hyn tystiaf minnau yn ostyngedig a sofr, fy mod wedi derbyn llawer o dystiolaethau koruwechnaturiol i brofi mai Eglwys Dduw yw eglwys Saint y Dyddiau Diweddaf; a chan fod genyf y wybodaeth hon, yr wyt yn hollol foddlon i ddyoddef, trwy gymhorth fy Nhad nefol, bob peth erddi, ac i'w phroffesu yn ngwydd fy nghydgenedl, fel y caffont hwythau hefyd glywed am y ffordd i etifeddu teyrnas Dduw a'i hendithion. Awgrymais hefyd yn y gerdd hono, mai marsiandiaeth a wnaech chwi o Formoniaeth, gan hudo arian eich hudoledigion; ond yn awr gwn fod hyny mor hollol groes i'r gwir a dim a gyhoeddais. Gwn mai yn rhad y derbyniais i, a phawb o'r Saint a'r adwaen, y gyfundrefn ogoneddus hon, a'i doniau nefolaidd.

O na welwn luoedd o'm cyfoedion anwyl yn dod i mewn, fel y derbyniont ac yr etifeddont gyflawniad o addewidion Mab Duw, yna caent wyhod ei fod ef yn eirwir ac yn anghyfnewidiol, a chaent o'i Ysbryd ef i gyd-dystio â'u hysbrydoedd hwy, eu bod wed'yn yn blant i Dduw; ac os plant, etifeddion hefyd, sef etifeddion i Dduw, a chyd-etifeddion ag Iesu Grist. Taer erfyniaf ran yn ngweddiau y Saint, fel na byddo i'r gelyn fy lllithio byth mwyach i ddwyn gwarth ar yr enw sautaid hwn, ac fel y cyrhaeddom oll y gainp uobel yn Nghrist Iesu.

Seintiau y Dyddiau Diweddaf—mae achos

Yn fy muchedd, mi welaf,

Gael fy muw goleuni y Naf,
Gwir uchel Dduw Goruchaf.

Eich gostyngedig frawd yn Nghrist.

Nant-y-glo.

ABEDNEGO WILLIAMS.

PWY SYDD BAROD I GYCHWYN ADREF?

SAINT HYNAWS.—Wedi hir ddysgwyl, wele y mae yr amser dymunol eisoes wedi dod i'r neb a ewyllysia i gychwyn ei ffordd tua gwrthdrysych ei serch. Wedi mynych ofyu—"Pa bryd y cawn fyned tua Seion," dyma atebiad yn gyflawn. A phwy sydd yn barod i gychwyn? Mae miloedd o'n brodyr cyn hyn wedi cyrhaedd drwy bob rhwystrau i'r fan a ddynododd eu Tad yn ymguddfa iddynt—"hyd onid elo y llied hebio." Mae miloedd ereill ar eu ffordd yn yr anialwch, a'r taleithiau gorllewinol; mae oddeutu tri chant ar gychwyn o Llynlleifiad, a chynnifer i'w dilyn hwythau yn mis Mawrth, &c. Ac y mae y ffordd yn agored i'r hwn sydd barod i'w dilyn hwythau mor gyflym ag y caniatu angylchiadau, mewn *cyflawnder a threfn*. Mae'r amser dysgwylidig wedi dod i'r Cymru hynaws hefyd gael gwaredigaeth dymmorol rhag gormes, trais, erlidigaeth, newyn, a barnau dynystriol. Pwy sydd yn barod, gofynwn? Canolbwynt yr ymgasgliad yw dyffryn y mynyddoedd gellaw y "*Llyn Helen*," yn *California*. Y ffordd a gymmeradwyir yw, trwy Orleans Newydd, i fynd yr afon *Mississippi*, a'r *Missouri*, hyd i *Council Bluffs*, oddiyno-dros y tir mewn pedrolfeni, hyd i ben y daith. Y rhai na feddant foddion digonol i'w cario yn mbellach na *Council Bluffs*, a gant yno dai wedi eu hadeiladu ar eu cyfer gan eu brodyr, a thyddynod yn rhad, pa rai a baratödd y Saint ereill a aethant yn y blaen; ac yn mha le y galla pawb godi digon o ymborth, &c., yn hawdd iawn er eu cyuorthwyo i fyned yn mbellach; ac felly cant sefydliadau, sef anneddu, thyddynod parod i'w llafurio, melinau, a phob peth at eu gwasanaeth anghenrheidiol. Yn mbellach, drachefn, a thrachefn, cânt yn gyffelyb nes cyrhaedd pen eu taith; felly, ni raid i neb oddef newyn na llawer o ludded mewn cymhariaeth i'r hyn ddyoddefodd y *pioneers* blaenaf. Gwelir yn y trefniadau a'r darpariadau daionus, a haelionus hyn, y cariad a'r undeb ag sydd rhwng y Saint â'u brodyr drwy'r byd, eu hymdrechion i'w llesoli, a'u gofal am danynt yn dymmorol, ac yn ysbrydol. A gweler y doethineb fawr ag sydd yn llywyddu eu holl symudiadau! Dysgwylw'n mewn amser dyfodol allu manylu am hanes y wlad hyfryd lle y triga y Saint, ynghyd â'r gost o fyned oddiyma yno, &c., &c. Ond i ddod yn nes adref yn bresennol, ymholwn etto, pwy sydd barod i gychwyn? Nid pwy sy'n dymuno myned yw'r gofyniad, canys gwyddom mai i'r graddau ag y derbynna y Saint o Ysbryd Duw, yr agorir eu llygaid i ddeall yr anghenrheidrwydd anheligorol ag sydd arnynt am y waredigaeth dymmorol hon yn gystal ag am yr un ysbrydol. A'r sawl a'r nad yw yn gweled hyn yn awr, ymbwylled, arosed lle y mae; ond, os gweddia ar Dduw am yr Ysbryd Glân, bydd yr Ysbryd hwnw mor sier o sugno ei fryd tua Seion, ag mai ei hoff waith yw tywys i undeb y ffydd. Y neb na chydwelo am yr ymfudiad hwn yn awr, daw yr amser pryd y tystia *arwyddion yr amserau* iddo yn rhy eglur i'w camddeall, mai "Yn Mynydd Seion" y bydd iddo ypwared yn unig.

Etto, meddwn, a dymunem i hawb sylwi, nad oes unrhyw orfodaeth ar neb am hyn, fwy nag o barthed i un egwyddor arall a berthyna i deyrnas Dduw, ond ewylllys rydd hollol, a chaiff pob un ddewis ei amser i fyned os dewisa; nid ar frys, ond mewn trefn. Etto, rhagwelwn ni fod mwy o ddoethineb yn anghenrheidiol er cario yn mlaen yr ymfudiad hwn yn rheolaidd ac yn fanteisiol, nag y sydd gyda dim arall yn awr. Ac wrth fyfyrion am y dull goreu, rhataf, rhwyddaf, a sicraf ar les pawb a elo, nis gallwn lai na gweddio yn fynych—"O! Tydi yr hwn a ddechreuast y gwaith da hwn, dyro gyfran helaeth o'th Ysbryd i'th blant, yn ddoethineb, cariad, ac ysbryd gostyngedig i'w cyfarwyddo yn iawn." Diau y ceir ychwaneg o brofiad o ffydd rhai yn hyn nag a gawsant erioed. Na ddysgwylid neb gael cymmeradwyaeth genym ni i fyned, ond ar egwyddor gyfiawn. Gorfoda cyfiawnder, a'r parch a feddwn i'r enw a broffeswn, ynghyd â llwyddiant y gwaith yma, a chymmeriad y Saint a arosant ar ol yma am ysbaid; gorfoda hyn oll ni, meddwn, i ymchwilio pwy sydd yn rhydd o ddyled y byd. Canys, dealedd pawb hyn yn ddiau, nas gallwn gymmeradwyo ymfudiad neb tra mewn dyled i'r byd, oddi-eithr iddo allu cyduno a'i wrthwynebwr cynt. Ac yn mhellach etto am hyn, yn gymmaint a'n bod yn myned i'r fan "lle y mae cyfiawnder yn cartrefu," ni ellir dysgwyl iddynt hwy yno, ac ni wnant, oddef anghyfiawnder â neb drwy'r byd; gwyddom am rai a anfonwyd yr holl ffordd o Nauvoo, yn ol i Loegr, yn unig i dalu eu dyledion i'r byd, neu i fyned allan o'r eglwys. Ond er annogaeth i'r Saint, dywedwn, Yn mhob peth, ymddygwch yn gyfiawn at hawb, a thalwch a allwch, ac ond odid eich bod wedi talu eich arian cyhyd yn flaenorol i ddynion dyngarol, a chyfiaw, a haelionus, y rhai yr agora yr Arglwydd eu calonau ar eich cais, i faddeu i chwi yr hyn na allwch dalu (os felly y bydd ar ol pob ymdrech a diwydrwydd); ond na fydded i neb waradwyddo yr enw santaidd a broffesa trwy geisio gwneyd anghyfiawnder. Gyda golwg ar hyn etto, gofynwn, *Pwy sydd barod i gychwyn?*

Dysgwylia Duw onestrydd gan ei Saint yn hyn hefyd, sef mewn rhybuddio ein cydgenedl anwyl o'r perygl o aros yn Sodom. Yn gymmaint ag iddo o'i ddaionni gyfranu goruchwyliaeth yr efengyl i ni; diau y gofyna ein cenedl oddiar ein dwylaw; a gwybydded y neb o'r Saint, yn neillduol yr offeiriadaeth, ag a esgeulusa gyfneusderau i rybuddio ei gyd-ddyn, ac i'w gwahodd i ddiddosrwydd mewn pryd, ei fod yn ymddwyn, nid yn unig yn anghyfiawn, ond hefyd yn angharedig at y cyfryw, ac y bydd och yn ei gydwybod, a gofid yn ei galon oherwydd hyny, hyd y nod wedi cyrhaedd tua Seion, ac awydd yn ei enaid am ddychwelyd drahefn, efallai, i gwblhau yr hyn a esgeulusodd o'i ddyledsdyddau cyn cychwyn oddiyma. Gyda golwg ar hyn etto, gofynwn, *Pwy o honoch chwi Saint sydd yn barod i gychwyn?*

Diau y bydd llawer o rwystrau, a rhai go fawrion, neu a ystyrir felly, yn cael eu tafu i ffordd rhai pan ar gychwyn; megys, plant rhai rhieni yn llusgo yn ol, neu rieni yn llefain yn llygaid eu plant; eu hen gymmydogion yn wrthwynebwyr creulonaf, neu yn berswadwyr taeraf arnynt i aros ar ol. Diau y daw y mil hen chwedlau a ddyfeisiodd tad y celwydd, ac a gyhoeddodd ei weision ef, am yr ymfudiad, &c., i'r cof yn eglur; i.e. y mae yn ddiddadl yr ymdrechfa diafol a'i holl blant, gymmaint, os nad mwy, i rwystro y Saint i gael y waredig-aeth hon, ag a ymdrechodd y cyfryw i rwystro Lot i fyned allan o

Sodom, neu Noa a'i deulu i fyned i'r arch; ac mewn pryd cofied y cyfryw o'r Saint mai galwad Duw yw tuag atynt, gan ddywedyd,—“Deuwch allan o honi hi (Babilon), fy mhobli,” &c. Ac hefyd, cofier ddywedyd o Iesu Grist, “Y neb a garo dad, neu fam, neu berthynasau, neu dai, neu diroedd, yn fwy na myfi, nid yw deilwng o honof fi.” Etto,—“Trwy lawer o orthymderau yr eir i mewn i deyrnas Dduw.” Ac hefyd, “Y neb a barhao hyd y diwedd a fydd cadwedig.”

Gweddied y tylodion ar i Dduw, eu Tad, agoryd calonau eu brodyr a'u chwiorydd crefyddol cyfoethog i'w cynnorthwyo i dalu eu traul i Seion, ac yno gallant hwythau dalu iddynt yn ol gyda llog. Dyna fel y gwnaeth y Saint Americanaidd—dyna fel y gwnaeth ac y gwna y Saint yn Lloegr—a gobeithiwn na bydd y Saint Cymreig yn ol i'w parodrwydd a'u haelioni hwythau yn hyn. Er fod yn rhydd i bob un o'r Saint, fel ereill, wneuthur a fynont â'u meddiannau, o ran dim gorfodaeth eglwysig; etto, ni phetruswn ddweyd, y teilynga y rhai a wnant hyn er mwyn y Saint tylodion a fyddlon, fwy o ffrwyth, henedith, a llog, oddiwrth eu harian, nag a gânt drwy un ffordd arall a'r a wyddom am dani; canys yno, mwy gwerthfawr fydd *llafurwaith* nag arian. Y gorchymyn a gawsom ni yw, gwasanaethu ein cenedl am un flwyddyn etto, a hoddlon y'm, er mai hyfrydach lawer fuasai myned, goreu po cyntaf. Ac hefyd, cynghorwn bawb a'r a allant, i ymbarotoi erbyn tua'r amser hwnw, ac efallai y caniateir i ninnau y pleser o'u cwmni i fyned allan o'r caethiwed blin hwn!

SYLWCH, Y DOSBARTHWYR!

TAER erfyniwn eich hymdrechiadau i ledaenu y *Prophwyd* y flwyddyn hon etto; a gobeithiwn na foddlon a neb i adael i nifer ei dderbynwyr leihau, ond yn hytrach i gynnyddu, megys y cynnydda yr anghen am dano, ac y cynnydda y newyddion dyddorol a ddaw o anghenrhaid drwyddo. Gofynwn i bob dosbarthwr chwilio yn fanwl, ac yn fuan, pa nifer a all werthu am y flwyddyn hon, a rhag ein bod yn anfon gormod i unlle, i orphwys ar law y dosparthwr pan y gwnaent fwy o les yn rhywle arall. Danfoner, ynte, gyda'r cyfle cyntaf, pa nifer o'r *Prophwyd* sy'n eisieu, sef pa nifer a allant werthu; a dysgwylir y bydd iddynt barhau at yr un nifer drwy'r gyfrol, onide bydd y gweddill a erys ar ein llaw yn ddyrso y cyfrolau.

Y mae mwy na holl bris gwerthiad y *Prophwyd* am flwyddyn gyfan o arian yn ddyledus i ni am lyfrau, pa rai a gafwyd y flwyddyn ddiweddaf; naill ai oddiwrth y derbynwyr, neu y dosbarthwyr, neu fe allai y ddau! Oes, Saint anwyl; ystyriwch, canys y mae cymmaint a hyny yn eich dwylaw o arian a ddylent yn gyfiawn fod yn cynnorthwyo i gario y gwaith hwn yn mlaen yn gyflymach! Gofynwn i chwi, Beth, mewn sobrwydd, yw hyn yn well na rhwymo ein dwylaw rhag cyhoeddi? Nid ydych yn ystyried, efallai, tra ond ychydig ar un, ac ychydig ar arall yn ddyledus, fod hyny yn llawer; tra y gorphwys ar un bach fel ni i sefyll o dan y cwbl; ac hefyd, hwnw yn talu yn mlaen am bob peth a gaiff ei argraffu! Ni bu cyhoeddiad erioed, meddyliwn, yn cael ei gario yn mlaen drwy gynnifer o rwystrau â'r *Prophwyd*, a

gobeithiwn nad ei ddebynwyr a fyddant euog o'i newynu i farwol-
aeth, drwy ommedd talu am dano.

Hefyd, gan ein bod yn bwriadu gadael y wlad hon cyn hir iawn am
ysbaid, galwn sylw yr holl fyd cyn belled ag y gallwn, Saint a phawb,
at hyn, sef,—Os oes arnom ddyled i rywrai yn rhywle, *deuant un, a*
deuant oll â hwynt yn mlaen i ni, a thalwn iddynt! Craffer ar hyn, a
thawd y gelynion cnoaidd ag sydd yn chwalu eu cableddau am danom
ni, a chauwn eu ffordd i fyny rhag hyn cyn cychwyn; a heriwn yr
holl wlad i brofi ddarfod i ni ommedd talu un geiniog ag sydd ddy-
ledus arnom pan y mynont. Patrwed ein gelynion ar ol y gonest-
rwydd hwn cyn dweyd gair wrth arall; ac ymdrechod pob un o'r Saint
ein hefelychu yn hyn, pe nad teilwng un esiampl arall. Gan ein bod
yn cyhoeddi beiddiad mor eofn i'r byd, yr ydym yn eofn hefyd i annog
ein dyledwyr i dalu i ninnau mor gynted ag y bo modd.

HYSBYSIAD.

MAE genym gyfrolau o "Capt. Jones ar Formoniaeth, yn 1846,"
am o 3s. hyd 4s. 6c. Etto, cyfrolau o'r Traethodau a gyhoeddas-
om yn 1847, am o 3s. 6c. hyd 5s. 6c. Hefyd, y ddwy gyfrol o'r
PROPHWYD wedi eu rhwymo yn un, am o 4s. hyd 6s., yn ol eu
rhwymiad. Gall y dosbarthwyr gael y rhai uchod gyda'r PRO-
PAWYD, os anfonant yr arian. Mae genym hefyd aurywiaeth o
lyfrau Saesonaeg a'r Millennial Star, yn ddwywythnosol, am 3c. y
rhifyn.

* * * *Cyfarwydder llythyr*, wedi eu rhagdal, i CAPL. JONES, Wel-
lington Street, Merthyr. *Na ddysgwylter atebiad yn ol, os na fydd*
stamp yn y llythyr. Yr ydym wedi blino o'r diwedd yn talu post-
age dros bawb!

CYNNWYSIAD.

Myfyrdodau ar y Flwyddyn a aeth heibio.....	17	Llythyr J. James, Victoria	25
Proffion o'r anghen sydd am y ddawn iachâu yn Eglwys y Bedyddwyr..	19	"Eos Ial" a Mormoniaeth	26
Squint, a'r Siwgiwr, a Siopwr Dowlais	21	Llythyr Abednego Williams, Nantyglo	27
Canmoliaeth i Adolygiad Capt. Jones	23	Pwy sydd barod i gychwyn adref? ...	29
		Sylwch, y Dosbarthwyr.....	31
		Hysbysiad	32

MERTHYR-TYDFIL:

CYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH
HEFYD GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL.

▲BGRAFFWY GAN JOHN. JONES, RHYDEBONT.

PROPHWYD Y JUBILI,

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 21.]

MAWRTH, 1848.

[PRIS 2g.

PROPHWYDOLIAETH SANT THOMAS, Y MERTHYR.

AT Y CAPT. D. JONES.

SYR,—A fyddwch cyn ddaed a rhoddi lle i'r hyn a ganlyn yn eich *Prophwyd* cywir a defnyddiol. Yr achos o'i ddanfoniad yw, oherwydd ddarfod i mi, wedi ymholi â llawer o ddyinion a gymmerant arnynt wybod llawer, fethu a chael boddlonrwydd. A chan eich bod chwi yn arddel y grefydd hŏno sydd yn arwain i bob gwirionedd, hyderwn y cawn ddeongliad cywir o honi, yr hyn a foddiona amrai heblaw eich ewyllysiwr da,

DANIEL AB IAGO.

Cyfieithedig o'r Lladin, ac a ddyfynwyd o'r "Cylchgrawn," 1793.

"Y Lili (*a*) a driga yn y parthau goreu, ac a oresgyn wlad y Llew (*b*) digymhorth; a chreaduriaid ei deyrnas ei hun a rwygant ei groen a'u dannedd (*c*), ac efe a saif yn y tir, i'r dyben o orchfygu yn mysg drain ei deyrnas. Mab y dyn (*d*) a ddaw gyda llu mawr (*e*), gan fyned dros y dyfroedd (*f*), gan ddwyn y bwystfilod yn ei freichiau (*g*), a i lywodraeth fydd yn ngwlad y gwlan (*h*), ac yn ddechryn i'r holl fyd. Yr eryr (*i*) a ddaw o du y dwyrain dan ledu ei adenydd dros yr haul, a chydag ef lu mawr o bobl i gynnorthwyo Mab y dyn (*k*). Yn y flwyddyn hŏno y gwersyll a adewir yn wag, ac ofn mawr fydd yn y byd (*l*), ac yn un parth o deyrnas y llew, fe fydd rhyfel rhwng llawer o freninoedd, a diluw o waed (*m*). Y lili a gyll ei ehoron, â pha un y coronir Mab y dyn (*n*). A thros y pedair blynedd canlynol bydd rhyfeloedd rhwng canlynwyr y fydd (*o*). Y parth mwyaf o'r byd a ddinystir—Pen y byd a ddaw i'r ddaear—Mab y dyn a'r eryr a l yddant, ac yna y bydd heddwch yn yr holl fyd (*p*), ac wedi hyny Mab y dyn a wel ryfeddod fawr, ac a â i mewn i wlad yr addewid (*r*)."

C

[CYR. III.

Y DEONGLIAD.

A ganlyn yw'r deongliad cywiraf a allwn ni feddwl ani dano yn bresennol. Serch ein bod, o drugaredd, wedi cael "y grefydd h6no ag sydd yu arwain i bob gwirionedd," etto pell ydym o feddu ei hanffaeledigrwydd hi hyd yn hyn, a boddlon iawn ydym i'r neb a allo wella ein deongliad.

(a) Yr "Hen ddihenydd," Dan. vii, 9 10. (b) Y "hwystfil." Dan. vii, 7. (c) Dan. vii, 12. (d) Adn. 13. (e) Adn. 10. (f) Zech. x, 5—18. (g) Esay xl, 6—9; a lxxv, 25. (h) Cyfandir yr America: gwel hanes y *Peruvian Sheep*. (i) Ty Dafydd y rhai a 6nt o Jerusalem tua Seion, Esay xviii; Jer. iv, 6, 7. (k) Jerusalem. (l) Rhyfel Armagedon, Zech. iii, 8; Ezec. xxxviii. (m) Dan. vii, 13, 14, 25. (n) Y peth tebycaf i hyn yw ystod prophwydoliaeth y "ddau dyst." Dat. xi, os rhifir eu dyddiau yn ol 360 yn y flwyddyn, ceir fod y 1260 o ddyddiau yn gwneyd o dair i bedair blynedd. (o) Dan. vii, 18, 27. (p) Zech. xiv, 9. (r) Dat. xi, 15.—Gol.

PAGAN YN PROFI DAU O'R RABBIES SECTYDDOL YN GELWYDDOG.

"*A thafodau newyddion y llefarant,*" ebe Iesu Grist. Nid ein dyben yn yr hyn a ganlyn yw profi athrawiaeth ag sydd mor hugan-eglur ag yw fod dawn "llefaru 6 thafodau dyeithr" i barhau yn eglwys Crist tra y parha unrhyw ddawn arall; ond enghraifft yw yr hanesyn gwirioneddol a ganlyn i brofi mor debyg y cyflawna y plant fesur eu tadau yn awr i'r hyn a wnaent yn amser Crist; a phrofa hefyd mai yr un dosparth o grefftwyr, sef rabbiniaid a doctoriaid sectyddol, yw gelynon creulonaf, ac erlidwyr haerllucaf, yr un grefydd ddwyfol yn awr ag yn nyddiau yr apostolion, nad beth fo eu profies ragrithiol.

Ychydig ddyddiau yn ol, daeth un o Rabbies erlidgar Independia fraich yn mraich ag un o ucheldrem *students* Trefecca, i mewn i dy un o'r saint, yr hwn a fuasai yn bregethwr sectyddol fel hwythau, hyd nes y gwelodd ac y blinodd ar eu twyll, a chofeidio y gwir, yn nghyda'i wraig. Wedi synu a bwlio cryn lawer ar y saut oherwydd iddo "fod mor ffol a chymmeryd ei hudo i'r fath dwyll anmhoblogaidd;" ac wedi anobeithio ei hudo yn ol i'w twyll hwy, haerasant nad yw y Saint yn llefaru ieithoedd drwy yr Ysbryd, ond mai rhyw ffloregeu neu *gibberish* oedd y cyfan. Ac ar hyn cymmerodd yr ymddyddan canlynol le:—

Sant.—Pa brawf a gynnygiwch chwi o hynny. sef mai rhyw ffloregeu neu *gibberish* yw y tafod dyeithr ag y mae y Saint ya ei lefaru yn eu heglwys?

Rab.—O, yr ydym ni yn credu hynny.

Sant.—Ond yr wyf fi yn gwybod eu bod yn Mefaru ieithoedd dealladwy trwy Ysbryd Duw, canys y mae genyf dystion a'u clywodd. Dywedodd un wrthyf ddarfod iddo ef glywed y Saint yn llefaru mewn chwech o wahanol ieithoedd a ddeallai efe, a hynny mewn un cwrdd; ac hefyd tystia ddarfod i ereill eu cyfieithu, cyn helled ag eu cyfieithwyd yn Saesonaeg yn gwir, pan na ddeallai y llefarwyr na'r cyfieithwyr un gair o'r ieithoedd hynny o honynt eu hunain.

Rab.—Ni choeliwn ni mo hyna; ac os gwir yw, dywedwch i ni pa le y cawn afael ar y dyn hwnw; canys chwiliem ni Frydain drosti, nad beth a fyddai y gost, er cael y gwir; ac os gwir hyna, byddwn ninnau yn Formoniaid yn y fan.

Sant.—Wel, cofiwch eich adduned, Ond cewch ef yn gynt, ac yn hawddach na'ch dysgwiliad, efallai; o'r hyn lleiaf, ni raid i chwi fyned allan o gyffiniau Cymru i'w gael ef.

Rab.—Goreu oll; dewch ag ef yn mlaen, a chredwn yn y fan.

Sant.—Peidiwch ag anghofio eich adduned, ynte, pan y delo.

Rab.—Os gallwch, dywedwch pwy yw, a pha le y ceir ef, onide ni choeliwn ni chwithau.

Sant.—Ymbwyllwch; ni raid i chwi aros ddyddiau, oriau, na mynyddau lawer, na myned allan o bentref Aberdar, nach ychwaith o'r ty hwn, er cael prawf o'r peth.

Ac yna, gan agoryd drws a arweiniai i ystafell arall, dywedodd yn Saesonaeg, "John Shack Mamoth, dymuna y boneddigion hyn eich holi." Ac ar y galwad wele Hindw mawr, du, a siriol, yn ngwisgoedd y gwledydd dwyreiniol, a'r *turban* am ei ben, yn sefyll o'u blaen yn gynt na'u dysgwiliad. ac yn syllu yn graff yn eu llygaid. Edrychent fel dau hurtyn wedi colli eu ffordd mewn niwl. Ni wyddent yn y byd beth i wneyd yn awr, canys gwelent eu bod erbyn hyn ar gwmpo i'r ffos a gloddiasent i'r geirwir a'r diniwed. Os profa y dyn ei fod yn deall y tafod dyeithr, yr oeddynt hwy wedi ymrwymo i fod yn Formoniaid ar gost eu poblogrwydd, a'u holl farsiantiaeth i gyd, neu dori eu hammod, a thrwy hyn y addef eu hunain yn gelwyddwyr gwirfoddol. Magl lled dyn i'w dala! Drych cywir i ddangos pa un ai gwir ai celwydd a garent fwyaf. Yr holl amser ag y sydent, ac y syllent ar eu gilydd, wele y tyst byw yn sefyll o'u blaen yn barod i ateb drosto ei hun. O'r diwedd, yn mlaen a'r holiad i yspio am ddiangfa o'r ddalfa. Gofynodd y Peirch i'r pagan yr hyn a ganlyn:—

Rab.—Pa sawl iaith a ddeallwch chwi?

Pagan.—Un-ar-bymtheg [ac enwodd amrai o honynt].

Rab.—A ddeallwch chwi Arabaeg?

Pagan.—A ydych chwi yn deall Arabaeg?

Rab.—Ydym, a llawer iaith arall.

Pagan.—[Gan dynu llyfr o'i logell, ac yndo Arabaeg, a'i estyn iddynt] Profwch eich bod yn dweyd y gwir, trwy ddarllen hwn [ond aeth y ddau yn fud!], neu gofynwch i mi rywbeth yn Arabaeg, ac mi a'ch atebaf yn yr un iaith; neu ynte, atebwch chwi fi.

Ond dim ateb. Profodd y pagan ei fod yn well ieithydd, ac yn fwy doctor na'r *rabbies* dysgedig a beilchion, a phrofodd hefyd y gallai ef ddweyd y gwir yn well na hwy, yr hyn hefyd nid oedd nemawr orchest. Gwingai y *rabbies* yn arw, drwy geisio osgoi y fagl, drwy droi y stori at rywbeth arall, ond daliodd y pagan eu trwyn ar y celwydd nes iddynt fforni yn aruthr, ac ymöllwng i nwyddau aunnol, ac yn y gynddaredd hon deeth yr hyn a ganlyn allan:—

Rab.—Pa sawl iaith a ddeallasoch chwi y Saint yn llefaru drwy yr Ysbrud yn eu cyrddau?

Pagan.—[Ea'lais fwy neu lai yn mhob cwrdd braidd, a chynnifer a chwech mewn un cwrdd.

Rab.—Celwydd haerllug (!) yw pob gair a ddywedwch, ac nid ydych yn deall gair a ddywedant.

Aie? Ai dyma y dynion oeddynt mor awyddus am gael y gwir ychydig fynyddau yn ol? Ai dyma y rhai a addawent fyned i gwr eithaf y wlad i'w ymofyn, ac i'w geisio ar gost pob peth? A dyma efe yn syllu yn eu gwynebau yn y fan yn anwrthwynebol, a'r derbyn- iad a gaiff yw haeru mai *celwydd haerllug* yr oedd yn ei ddweyd. tra yr oedd eu celwyddau hwy eu hunain etto braidd heb ddarfod adleisio ar y muriau. Gwirir y ddiareb a ddywed mai "y celwyddwr haerllucaf a waedda celwydd gyntaf ar y geirwir." Ai dyma y *polish* goreu sydd i'w gael yn yr athrofeydd, tybied? Wedi i'w dadwrdd hwy ddystewi ychydig, amddiffynodd y pagan ei eirwiredd yn wrol a diwrthbrawf, a heriodd hwynt i'w brofi ef o flaen ieithwyr pan y mynent. A chyda llaw rhoddodd sen deilwng i'r hunan-ddoethion cecrus, drwy eu hys- bysu "nad ystyrïai paganiaid ei wlad ef yn foeddigeiddrwydd i ddy- fod i dy dyeithr heb eu gwahodd, a chyhuddo neb o dan y gronglwyd hõno o ddweyd celwydd. Yr ydych chiwi yn ormod blagards genyf fi i siarad â chiwi; ond cyn eich gadael tystiaf etto mai gwir yw fod y saint yn llefaru gwahanol ieithoedd drwy Ysbryd Duw, pan na ddeall- ant air o'r ieithoedd hyn o honynt eu hunain. Ond chwychwi a'ch cyffelyb ydych yn adeiladu synagogau gwyhion ag arian y tylodion, ac yn bwyta bara yr amddifad a'r weddw, am ddringo i'ch pwlpudan i draethu celwyddau iddynt, ac i'w dysgu i wrthod y wir efengyl, ac i erlid plant Duw. Ac nid digon genych wneyd felly yn eich gwlad eich hun, ond anfonwch eich brodyr dros y môr mawr i'n gwlad nin- nau, i geisio proselytio fy nghydgenedl eirwireddus i'ch gaugrefyddau, gan eu dysgu i ddweyd anwiredd fel chiwi eich hunain. Dynion drwg y profwyd chiwi yma; ac ni allwch wadu."

Yna y pagan a'u gadawodd, ac a aeth i'r ystafell arall. Ceisiasant esgusodi eu hunain am eu hanfoneddigeiddrwydd. Ond gorfu i wr y ty roddi iddynt ychydig *lessons on ethics*, er eu haddasu i ymddwyn yn addas yn nghwinni pagan y tro nesaf, ac aethant ymaith yn eu cywil- ydd, gan wrthod y gwir ar ol y cwbl, fel y gwna pob ceiswyr gwyrth- iau, er eu holl addunedau. A digon tebyg mai yr olygfa nesaf a welir arnynt fydd wedi dringo i ben rhyw bwlpud, uwchben torf o'u cyd- fforddoliau tua barn, ac yno yn rhegu ac yn melldigo Saint y Goruchaf, ac yn gwyrddroi efengyl Iesu Grist, dan y ffug-broffes o'i phregethu. Y Duw grasol a dosturio wrth eu hudoledigion truenus, ac a ddryllio eu llyffeitheiriaid traddodiadol ac andwyol ar frys.

Argyhoeddwyd yr Hindw cyfeiriedig i gredu yr efengyl, drwy glyw- ed yn ein cyfarfododd "fawrion weithredoedd Dnw yn yr iaith yr hon ti ganwyd ynddi," er's ychydig fisoedd yn ol. Bedyddiwyd ef, ac mae yntau, druan, er dued ei groen, yn mawr lawenhau yn yr efengyl dra- gwyddol. Er ddylai y Cymry selog wrido wrth glywed y pagan hwn yn amddiffyn gwir grefydd Crist yn ngwyneb eu holl gyfeiliornadau hwy! Pwy arall a all ddwyn cymmaint â hyn o brawf o ddwyfoldeb eu plaid? Os nad gwir y doniau ysbrydol sydd gan y Saint, pa fodd y dealla yr Hindw hwynt? Ac nid efe yw yr unig un a'u dealla. Os nad gwir y doniau hyn pa fodd y dyry efe yr un cyfieithiad yn Saes- naeg o'r llefariad ag a ddyry ereill drwy'r Ysbryd yn Gymraeg, pan

na ddeall' a yr olaf Saesonaeg, nac yntau Gymraeg? Oferedd yw i'r Peirch. waeddi mai ca'wydd yw hyn, canys y mae can' o'ld o dystion o'i eirwiredd yn Nghymru! Gwnaed yr arwydd-geiswyr iawn ddefnydd o'r ffaith hon ynte, neu tawant a gofyn ychwaneg.

DYCHWELIAD YR AFRADLONIAID.

YN mhlith ereill a fuant anffyddlon, ac a ddychwelasant yn edifeiriol, daeth Herbert Walters. o Ddowlais. Dyma y dyn ag y bu cymmaint o ddwndwr drwy'r *Seren Gomer*, a rhai cyhoeddiadau ereill yn ei gylch. Dyma yr hwn a atwai Mr. Davies yn—"ddau o brif flaenoriaid y Mormoniaid (!) wedi eu gadael, ac yn llefaru a thafodau, ac yn dynoethi gwarth y system, &c." Dyma'r unig un a fedrasant demtio drwy holl ddarlithoedd Mr. Roberts, yn y cylchoedd hyn o gwbl. Ie, dyma efe druan yr unig un a droes atynt o blith yr holl Saint, ac O! pe clywent ef yn awr yn adrodd ei brofiad chwerv; o ddiodefiadau cydwybod euog ddydd a nos oherwydd yr hyn a wnaeth; a phe deallent ei awydd mawr a thaer am ddychwelyd, diau yr addefent eirwiredd dywediad Crist ar y pwnc hwn, sef mai "gwell fuasai fod maen melin o amgylch eu gwddf, a'u suddo yn eigion y môr, nac iddynt rwystro un o'r rhai hychain hyn." Taer ddymuna faddeuant y Saint am yr hyn a wnaeth i'w herbyn, a rhan yn eu gweddiau ar i Dduw faddeu iddo a'i gadw yn ngwyneb pob temtasiynau byth mwy. Pa le yn awr y mae buddygoliaethau hŷnedig ein herlidwyr Dowlasaidd? Pa le y mae y rhai a haerant "fod Mormoniaeth wedi cael *home stroke*," ei bod yn felldith a rheg, &c., &c. Darllenant gyfrifon ein cymmanfr, heblaw llawer a fedyddiwyd yn Dowlais er hyny, ac y mae gwell a goelion nac erioed am gynnydd: ie, agorant eu clustiau neu eu llygiaid, ac yna gwelant a chlywant ffeithiau i brofi, nid adfeiliad Mormoniaeth, ond i brofi yn eglur mai ein herlidwyr yw y gau-brophwydi sydd yn prophwyo celwydd yn ein herbyn. Mae amryw ereill o'r pen-wrthgilwyr mwyaf erlidgar, yn taer erfyn am gael dod yn ol i'r eglwys ffordd hyn.

BETH YW'R MATER?

MAE y dywysogaeth ar dân—ei thrawsfeddiannydd yn curo i fyny am volunteers—offeiriad Babel fawr ar ei thyrau yn chwythu eu cyrn, yn hir ac yn uchel. i gcszlu eu holl fyddinoedd i ryfel santaidd sectyddol yn erbyn y Saint—mae eu seiliau yn siglo—eu byddinoedd yn ffoi o faen magnelau y gw'riogedd—ei chewri yn cwmpo o flaen cleddyf daufiniog yr Ysbryd, a'r lleill yn cynddeiriogi yn mhangau angau—y diafol yn colli deiliaid yn mhob brwydr—godrau y dduwies fawr yn cael eu dynoethi—ei haddohwyr yn cilio o'i themlau mewn cywilydd, ac yn listio dan faneri y Brenin Iesu—mae dichellion bradwurus prif lywyddion y trawsfeddiannydd yn dod i wyneb haul a llygad goleuni—ei goron ef, a gobait h elw ei offeiriad ar ballu!!

Syndod y fath ryfeloedd, a son am ryfeloedd, sydd drwy ein gwlad ni yn y dyddiau hyn! Gellid meddwl wrth ddarpariadau a dwndwr eu gelynyon fod y Seintiau ar droi y dywysogaeth y tu arall i fyny, a bod y cyffrowyr hyn yn ofni y cwmpa hi ar fysedd eu traed, i ddolurio eu cyrn, neu rywbeth gwaeth! O gwr bwy gilydd i'r dywysogaeth braidd, y mae bugeiliaid geifr Babilon wedi dychrynu fel y dychryna hyrdod y mynyddoedd wrth adleisiad taranau yn eu cyrn ceimion eu hunain; a gwibiant draws broydd a bryniau, dan chwythu eu cyrn ysgrechlog yn erbyn eu cymmydogion diniwed, fel yr â y ser gwibiog i eigion yr afesg, ac ni cheir eu lle hwynt. Beth sy'n bod? Paham yr holl ddwndwr, y clebar, y darlithio, y cyhoeddi celwyddau, a'r *iwchw* fawr ag sy'n merwino clustiau de a gogledd yn y dyddiau hyn? Paham y gwelir pob coegddyn, o'r athraw ysgol hyd y golygydd, ac oddiyno hyd feinciau uchaf y Colegau, yn scwrio eu hen arfau, a phob un a'i hen gleddyf rhydlyd ar faen llifo malais? Mae rhyw beth yn bod yn siwr! Ouid oes rhyw archelyn peryglus i'w holl grefftau newydd dirio ar ororau ein gwlad? Rhaid fod rhywbeth yn bygwth eu diddymiad, cyn yr ymbarotoent mor brysur i ryfel? Beth yw yr achos o'r holl gynhyrriad? Pwy a all ddweyd? Atebed cadfridogion y fyddin ymosodol y cwestiwn eu hunain. Dewch Mr. *Amserau*, eich corn chwi sydd am fod uchaf ei swm yn yr ymgyrch aruthrol hwn. Atebwch rhag pwy yr arswydwch gymmaint? "*Joe Smith a Mormoniaeth*" yw nod eich saethau brwyn o hyd, onide? Rhyw "dwyll Mormonaidd," "Sant yn Ngharchar." neu "olew fferyllaidd," sy'n staeinio eich colofnau yn barhaus. Fel y profa ysgogiad y gwelltyn gwrs yr awel, felly yr arddengys eich gweithredoedd chwithau yn mha fyddin yr ydyeh.

Yn nesaf, Mr. *Diwygiwr*, dangosasoch chwithau eich hochr yn y frwydr. Do siwr, rhoisoch faint a fynai gelynyon Mormoniaeth o'ch colofnau i'w chablu, a helpiwch dipyn eich hunan weithiau, medd eich *siboleth*. Wedi i bawb eich wffio, a diin cynt, rhoisoch gic, mae'n wir, o'ch ol i'r "Casawr Twyll o'r Coed-duon;" ac felly i ereill. ar ol cael yr holl ddefnyddiau enllib a feddai eu calonau dyfeisddrwg. Ai yr ychydig "ddynionach anllythyrenog a gwael" hyny sydd yn eich dychrynu yn awr? Ai "y peth bach mwyaf disylw a diniwed" hwnw sydd wedi hudo erbyn hyn lawer o'r bobl gallaf a goreu a feddoch at Formoniaeth? Ai oherwydd hyn y clustfeiniwch am bob ystori afluniaidd i'w chyhoeddi i'w herbyn? ac wedi methu cael dim arall, wele *fresh edition* o'r stori "cerdded ar y dwfr;" yr ail *edition* wedi y ganfed o'r *Spaulding Romance* am Lyfr Mormon; ac yn olaf, ac mor wired a rhesymol a dim arall o'ch bragald, cyhoeddwyd stori hir am ryw "golomen gymmaint â cheffyl!" "A'r un wisg â cheffyl!" Pw, ddyn, pa le yr aeth eich synwyr? Hawdd yw canfod mai *poor* Joe, er ei fod wedi marw, yw *common foe* y Peirch. Reesaidd a golygyddol hyn.

Y *Seren Gomer* hefyd, a'i mil tafodau fforchog ac enllibaidd, a brofa udgorn pa fydd'n yw hi. Mae hi fel megyn yn chwythu lle hynag y caiff wreichlonen o dân malais, ac hwi ag ef nes gyru yr holl dalaeth ar dân hyd eithaf ei gallu. Dyma ei hoff waith; a dealla meibion Gomer, yn enwedig y rhai sydd o'r un chwaeth, y caiff eu henllibau llysnaf iidd roesaw yma beth hynag, a hyny os bydd yn rhywbeth bawlyd i ddwhio *poor Joe a Mormoniaeth*.

Y *Tyst Apostolaidd*. Mer i'th esgyrn, a mel i'th enau dithau dan ffugenw, fel pob gau apostol, a gan angel, yw dangos hyd dy dafod brwnt yn erbyn Mormoniaeth fyth; pe na hae gwell. ceir gwaith "chwerthiun" genyt ti am hen y dyhiryn anwiredus hwnw yn Machynlleth, yr hwn, er ei fod yn profesu gyda'th dduwies fawr yn selog, a dystiai ei fod yn dymuno cael ei fedyddio, pan nad oedd ond cellwair ag un o ordinhadau pwysig ty Dduw, ac wedi hysbysu ei frad i'w bartneriaid cableddus, pa rai a grynhoisant yn ddirgelaidd i'r man, a eheisiasant foddi y pregethwr!! Ie, dyma yr hyn a eilw yr *infidel* rhyfygus yn destyn "*chwerthingar*." Dyna ddigon i brofi "Tyst" i bwy, ac o ha beth, ydwyt ti.

A'r *Dysgedydd*, yr hwn yw un o brif udgyrn Independia fawr, yntau a ddengys ei ochr weithiau, a rhua ei fagnelau nes syfrdanu bugeiliaid a geifr Cader Idris, a'u gyru dros y clogwyni. Nid digon cadarn twr yw Cader Idris. debygid, i'th gadw dithau rhag arswyd ac ofn y "dynionach *anllythyrenog a ffol*" hyny a elwir yn Formoniaid. Rhaid eu bod yn swy anfarwol, serch hyny, na "llanciau yr Eryri." onide buasai rhai o'ch cewri wedi eu lladd cyu hyn yn siwr. Ond y mae rhuaed eich magnelau yn addefiad eu bod hwy yn fyw, a'ch crefft chwithau mewn perygl. Heblaw y golygyddion, cydier yn ngwaith yr awdwr diweddar a fyner, a gwelir mai yr un peth yw nôd eu saethau.

Y diweddaf, a'r bryntaf hefyd, a ddaw dan sylw, yw Mr. *Bedyddiwr*, a'i ystoriau blasus, am "y Sant yn lleidr." Ond ni chlywsom mohono yn cyhoeddl gair am bregethwr y Bedyddwyr hwnw o Bethesda, yr hwn a alltudiwyd i *Botany Bay* yn ddiweddar am ladrata *wholesale*, nac ychwaith am yr hwn a dorodd i mewn i eglwys Llanelwy nos Sul ar ol darfod pregethu, ac a ladrataodd werth ei wddf braidd! Naddo air am ladradau na llofruddiaethau neb o'r Bedyddwyr bid siwr; eithr deil i'r gwynt bob brycheuyn dychymmygol yn y Mormoniaid, ond cuddia y trawstiau anferth ag sydd yn llygaid ei bartneriaid. Eich camsyniad chwi, Syr, yw dweyd fod y T. H. hwnw wedi "crafu enw y perchenog oddiar y llyfr," na chyfaddef ychwaith iddo ei ladrata. Pa fodd yn y byd y cewch chwi hyd i bob anwiredd, a inethu byth cael y gwir o bethau? Ar ddalen rydd yr oedd yr enw, a cholli a wnaeth hōno. Cyfaddef fod y llyfr ganddo, ond gwadu iddo ei ladrata a wnaeth, ac nas gwyddai pa fodd y daeth i'w feddiant. Dyna a brofwyd ar yr arholiad. Nid oes i hyn ddiu a wnelo â Mormoniaeth, mwy nag yr addefwech chwi fod yr holl Fedyddwyr yn lladron oherwydd fod y rhai a nodwyd, ac ereill lawer, felly. Pe huasech chwi yn gyd-oeswr â Judas, cawsai darllenwyr y *Bedyddiwr* ddigon o brofion genych, a rhai mor gadarn â'r uchod hefyd, i brofi Mab Duw yn dwyllwr, a'i grofydd cyn waethed â Mormonineth! Dylai y rhai sy'n byw mewn tai gwydr beidio dechreu taflu ceriz at ereill. Cofus genym am hen chwedlau bryntion hwn er's talm am y menywod diwair hyny yn Pendaran, Rymni, &c., pethau ag y cywilyddiasai neb arall eu cyhoeddi, o barch i'r rhyw fenywaidd; ond o'r calonau rawyaf anllad y dylifau yr anlladrwydd aflanaf; ac at furgyn y mae sugnodod aderyn aflan;—felly yma, yspia, clustfeinia, a chwilia hwn hob papyryn bryntaf, o'r "*Warsaw Signal*" hyd ol-rifynau y *Bedyddiwr* am ystoriau anllad, nes o'r diwedd y cafodd damaid melys o ryw bapuryr Americanaidd yn son

am ryw fath o wragedd a eilw yn "wragedd ysbrydol!" Wel, ai tybie^d y gwaid efe nad ysbrydol yw pob gwraig! Clywch wragedd, amheu^a hwn fodoliaeth eich ysbrydoedd chiwi, debygid! Gwyliwch fenywod rhag i'ch gwyr ymuno â'r Bedyddwyr, onide wyddys a ystyriant chiwi yn well na'u hanifeiliaid. Ie, ac yn ol rhesymeg y *Bedyddiwr*, rhybyddiwn y gwyr hefyd, Gwyliwch rhag i bregethwyr y Bedyddwyr ddwyn eich gwagedd yn Nghymru, heb son am America! Yn siwr, mae yn beryglus, ac nid oes nemawr ddyddiau er pan hudwyd gwraig dyn gan un o'r cyfryw o'i aelodau; a gwaeth fyth, lladratodd hi ei arian, a'r oll o'i gelfi ag y gallai afael arnynt, a'r oll yn unig oherwydd ffangiau gwenwynol Bedyddiaeth at grefydd y gwr. Rhyw ang-henfiles beryglus i gymdeithas deuluol yw hon. Lawer a gyhuddwyd ar J. S. oherwydd ei amddiffyniad tadol i'r "llestr gwanaf" pan gan ormes gwr penboethaidd, a'r diolch a gaffai oedd cael ei gyhuddo o anlladrwydd gan rai anllad; ac felly y cyhuddir pob dyngarwr a achuba fywyd benyw drwy ei hysgario yn ol y cyfreithiau gwladol. Trueni na allent ddweyd rhyw ystori ddrwg bellach, ar ol treio cyhyd!

Amlwg yw mai Mormoniaeth yw *target* yr holl *grusaders* hyn, a'r oll o Fenni i Fon, ac o Gaerdydd, Abercanaid, Dowlais, Llanelli, &c., &c., hyd gyffiniau Cymru. Paham hyn? Atebwn mai cyflawniad eglur yw o'r brophwydoliaeth a ddywed, "Chiwi a fyddwch gas gan bewb er mwyn fy enw i." Profa fod y Mormoniaid yn ddeiliaid o'r naill deyrnas, a bod yr holl rai ereill yn ddeiliaid o deyrnas arall. Eithr o'r holl goeg ddynion a fu ar y maes yn erbyn eu *common foe*, y dwlaf, yr haerllucuf, a'r mwyaf digywilydd, yw yr hwn sy'n chwythu ei gorn ysgrechlog o gwm Rymni. Haera hwn, nad beth fu astwyddiant yr holl gewri a fu yn bloeddio eu bod wedi lladd Mormoniaeth, &c., mai efe yw y *champion* mawr ag sydd yn myned i roi diwedd arni yn siwr—mai ganddo ef y mae y "ffon dafi," neu "yr asgwrn gen asyn," ac y cladda efe ei ysgerbwd hi yn nghwm Rymni, yr adeilada arno gof-adail uchel i anfarwoli ei enw, ac y cerfia arno, "*Y fi foi fawr a fuom yn dranc i Formoniaeth.*" Ac allan ag ef i'r frwydr fel dwlyn, a'i gawell yn llawn o saethau brwyn. Darlithodd ei lysnafedd yn Dowlais nes gwneyd ugeiniau o'i wrandawyr, ie, a rhai o aelodau Davies Caer-salem ei hun yn Formoniaid, pa rai a dystiant hyd heddyw mai wrth glywed y chwedlau anwireddus hyny y tueddwyd eu meddyliau i'w chwilio. Nid dyna'r ffordd i ladd Mormoniaeth! Drachefn arllwysodd ei grombiliad afiach yn Merthyr; a mawr y chwysu a'r gwaeddi, "i lawr â Mormoniaeth," yr oedd efe yma. Ond nid oedd waeth beth i fynu yr oedd hi yn myned wrth y deg yn yr wythnos hōno, ac mor ddihidio o hono ef ag yr elai y lloer yn ei chylch, serch i'r corgi bach, ei chyfarth nes crackio ei lais. Yr oedd ei gynddaredd yn herwi boethach-boethach. Clywsom ei fod yn addaw lladd Mormoniaeth yn Rymni ddydd Nadolig, a'i chladdu dranoeth; ond erbyn dod y dydd iddi drengu, yr oedd ei llofruddiwr hōnedig wedi ei rwymo rhwng erehwynion ei wely gan resynau yr hwn sydd â nerth marwolaeth ganddo, debygid. Gorsuwyd ymofyn arall i lanw ei bwlpud am y tro hwnw. Drachefn, caniatodd y Duw grasol iddo gael codi, a galleid dysgwyl ei fod wedi gwingo digon yn erbyn symbylau dwyfol, ond yn mlaen â'r frwydr yn erbyn y Saint fyth; ac nid yn unig

cadarnhaodd yr holl saint ag oeddynt yno yn gwranddo, yn Formoniaeth, ond agorodd lygaid ereill lawer i weled ei ddechellion a'i dwyll. Methodd ei lladd na'i dolurio yn un o'r troion yna beth bynag; ond dolurio ei hun yr oedd bob tro. Gwrthbrofasom ei chwedlau anwir-eddus mewn dau draethawd mor llwyr, fel nad amcanodd efe wrthbrofi dim o henynt hyd heddyw, ac nis gall ychwaith. Gwelodd yr oll, ond nid oedd dim yn tycio, celwyddau a garai yn hytrach. Nid oedd dim *odds* ganddo ef pa un ai gwir ai peidio, canys yr oedd efe wedi dysgu ei un ystori, fel y *parrot*, a'r hyn a ddywedai gyntaf a ddywedai olaf.

Gan fod Mormoniaeth yn llwyddo yn Aberdar, ac un o brif bregethwyr y Bedyddwyr yno, ynghyd â'i wraig, ac amryw ereill, wedi ymuno â hi yn ddiweddar, yr oedd hyn yn gyfle da iawn iddo ef ddangos ei hun, a hoddio ei nwyd; ac yna ag ef mor wancus ag yr a y blaidd ar ol yr wyn diniwed. Dychymmygwn ei weled yn clustfeinio cyn cyrhaedd am dincian y toeyns, canys nid oedd neb i gael clywed y *secrets*, siwr, heb dalu chwecheiniog! Druain o'r tylodion; o ddiffyg y chwecheiniog, gadawai iddyn- "gael eu hudo gan Formoniaeth ar eu penau i uffern." Gwnaeth y Peirch hyn i'r *policeman* lusgo allan un dyn parchus, fel ei gerfydd ei wddf. o'i eisteddlic ei hun, am yr hon y talai yn gysson, ac yr oedd gwraig hwn hefyd yn aelod yn y capel hwnw. Mawr y frwydr a fu rhwng y Peirch, a lithau wrth y drws. Cyhoeddodd y wraig dwyll eu crefft, a gorfu iddynt hwythau ffoi i'w hymguddfa, lle na chai neb ynganu gair ond hwy eu hunain. Nid y ddau hyn yw yr unig rai o aelodau y Bedyddwyr a bendertynasant nad elent yn agos atynt wed'yn, ond dyna oedd y darogan cyffredinol a glywid drwy'r gwrandawwyr ar y ddarlith ddwl; ac y mae y Saint wedi bedyddio ychwaneg yno er's ychydig wythnosau, nag a wnaent mewn misoedd cyn y ddarlith hōno,

Wedi cael yr holl chwecheiniogau a allai am draddodi ei sothach, y mae efe ar gefn *speculation* arall yn awr, fel y gwnaeth ei dadmaeth o'r un chwaeth o Dowlais, sef eu cyhoeddi yn draethodyn. A mawr y placardio y gwaliau, a'r *puffio* sydd gan dynt arno, ac wed'yn yn methu cael *pass* iddo heb ei gario o dy i dy gan rai a gynnygiant eu tylodi yn esgusawd dros ei werthu! Dyna esgusawd y llofrudd yn aml. Ond drewi y mae ei draethawd o flaen ffroenu pawb a'r a adwaenom yn ddieithriad; er hynny, *puff* ar ol *puff* i fyny y gwaliau y gwelir hwn. Gallasid dysgwyl y gallai *affordio* talu yr argraffydd heb hyn, a rhoi ychwaneg na 24ain o dudaleuau am chwecheiniog, ac yntau wedi cael cynnifer o chwecheiniogau yma a thraw am ei darlithio, heblaw yr wyth punt y mis ag y mae yn gael am *use* ei dafod gartref ar yr un pryd; neu ynte, druain o'r Mormoniaid, pa rai nid ydynt yn codi wyth ceiniog, nac wyth dimai, yn y llwyddyn am bregethu, ac yn talu chwecheiniog hefyd i'r rhai a ddeuent i wrando ei ddarlithoedd ef yn cael eu dirdynnu. Ffeithiau fel hyn a ddangosant pwy sydd yn gwnéyd marsiandiaeth o eneidiau y bobl ar gost eu llogellau! Ac etto, dyma yr hwn, yn ei dyb ei hun, a dybia y gall, ac a fygythia, rwystro llwyddiant Mormoniaeth. *Poor fellow!* amser a brawf: gwnaed ei waethaf, nad yw ysgyrnygiad ei ddannodd yn dychrynu y lleiaf, ond yn cadarnhau yr ieuangaf o'r Mormoniaid yn mhob man.

Ie druan, er mai o'i anfodd ef, bywiogi a dwyn gwrandawwyr at Formoniaeth y mae efe yn lle ei lladd. Nid oes gymmaint ag un wedi troi yn ol er ei holl fragaldio; ond y mae cannoedd wedi ymuno â'r Saint yn y cylchoedd hyn er pan ddechreuodd efe ei *grusade* creulon. Aed yn mlaen, a gwinged a fyno; nid yw ond *splash in a wash hand basin!*

Rhaid fod yr olaf hwn, fel ei frodyr o'i flaen, yn hollol anwybodus o ddwyfol nerthoedd Mormoniaeth, cyn y dysgwyliant allu rhwystro ei cherddediad. Ond pw! pa les adolygu na sylwi ar eu traethodau na'u darlithoedd dwl. Mae ein hadolygiadau eisoes ar hyd y wlad wrth y mi'loedd, ac yn rhoi yr *home stroke* i'w sothach yn blaen;—a dywedwn hyn etto, ar ol ysgrifenu mwy o lawer hag a feddyliasom wario gyda'u bathau, pe deuai holl offeiriadaid Babel fel cenfaint, at eu holl droellau, i wau celwyddau mor gyflym â'r awel, a phe caent gymhorth eu holl bartneriaid erlidgar, o Pharao, Maximus, a Nero, hyd i'w brodyr Americanaidd; i'e, gwnant a fynont, y maent wedi cysgu yn rhy hwyr, ac y mae yn ormod o ddydd i adar y nos ddychrynu neb sydd â llygaid yn ei ben. Llwyddo a wna Mormoniaeth nes dwyn carwyr y gwir allan o Babilon. Ac wedi y cleddir ein holl erlidwyr yn y heddu a gloddiasant i Formoniaeth, cana y Mormoniaid wrth y miloedd,—

Dringaf drwy yr erlidigaeth, fry mae'r Brenin yn fy ngwa'dd;
Er creuloned fy ngelynion, nid wyf etto wedi'm lladd.
Nad pa rwystrau sy ar fy llwybr, nid yn ol bydd byth fy nhaith;
Nid gwiw *guaed* ond er tystiolaeth, *ennill*, ond yr un peth chwaith.

Gwir fod rhagfarn yn llabyddio, gwir fod hyd yn edrych draw
Etto pe haent oll yn uno, 'Sant nid *byth* yn ol a ddaw.
Pe bai mil am un o honynt, pe bai'r rhwystrau fyrdd am uu,
Etto ar alwadau'r Brenin, myn'd yn mlaen wna'r Sant ei hun.

Geilw'r byd ar dde ac aswy, ' mod i'n ynfyd, ' mod i'n ffol;
Geilw' pechod arna'i sefyll, geilw' ufern arnai'n ol;
Geilw'r gelyn am ei athrod—galwed ef, ac am ei dân!
Tra bo Brenin nef yn galw, rhaid i'r sant yw myn'd yn mla'n.

Doed pob mawr, erfawr, â'i arfaeth—yn chwerw,
A chured Formoniaeth;
Ceisio ein briw, pa wiw, pa waeth,
Nes delio â'n tystiolaeth?

Aflwydd wna'i waith yn gyflym.—a rhwyfa;
Ond rhyfedd mor ddiryf!
Codi croes yr oes yr y'm—
Rhedeg a llwyddo'r ydym.

YSGYMUNDOD PHILLIP SIEX. BLAENAU, GWENT, O'R EGLWYS.

DRWG genym hysbysu fod y person hwn wedi ymollwng i'r fath raddau i ddylanwadau y diafol, nes y gorfododd ein rheolau dysgyblaeth ni i'w ysgymuno o'r eglwys, a'i fod yn awr wedi ei ddwyn gan swyddwyr gwladol i'r *Lunatic Asylum*.

Yn ol a ddeallwn, drwy ymchwiliad manwl i'r amgylchiad gofidus, a thystiolaethau llygad-dystion geirwireddus, cymmerodd le fel y canlyn:—

Yr oedd y claf o dymher pur addfwyn a llaith, ac yn naturiol du-eddol i iselder ysbyrd. Oddeutu tri mis yn ol, credodd ei fod wedi pechu yn fawr drwy anufyddhau i gynghorion a gawsai, a thrwy esgeuluso ei ddyledswyddau crefyddol. O'r diwedd, ymneillduodd i'r dirgel, i weddio ar i Dduw anfon cenadydd i'w hysbysu a oedd madd-euant ar ei ran; a phan yno, ymrithiodd rhyw fod iddo (ebe efe wedy'n), ac a ddywedodd wrtho mai ofer ei holl weddiau, oherwydd ei fod wedi pechu yn anfaddeuol. Effeithiodd hyn waeth-waeth ar ei feddwl, nes ei yru i wallgofrwydd braidd. Wedi i'w frodyr crefyddol ddeall beth oedd yn ei flino, perswadiasant ef i heidio a choelio diu o'r fath beth, mai dylanwadau y gelyn oedd, er ei niweidio. Yn ol gorchymynion Iesu Grist yn y fath amgylchiad (edr. Marc xvi, 18, &c.), ceryddasant yr ysbyrd drwg hwnw oddiwrtho drwy arddodiad dwylaw a gweddi'r ffydd, a gwrandawodd Duw eu gweddi drwy adferu y claf i'w gynnefnol bwyll. Wedi dilyn ei alwedigaeth am yspaid, cwmpodd careg sr ei ben yn y gwaith, ac a'i doluriodd yn fawr. Cyu hollol wella oddiwrth effeithiau hon, ymollyngodd i'r cyffelyb ddylanwadau ag o'r blaen. Cafodd waredigaeth drachefn drwy yr un modd â chynt. Ac felly laweroedd o weithiau wed'yn. Wedi dyfod i'w bwyll, cyfaddefai mai arno ef yr oedd y bai, oherwydd na wrthwynebasai ddylanwadau y diafol yn wrolach, ac addawai wneyd felly o hyny allan, &c. Eithr drachefn, a thrachefn, meddianwyd ef gan yr un rhyw, neu waeth ysbyrdion, wed'yn. O'r diwedd, ymwelodd yr henuriaid W. Phillips, ac A. Evans, ag ef, a thrwy eu gweinyddiad hwy o'r ordinhadau uchod, adferwyd ef i feddiant o'i gyflawn synwrau, ac aeth gyda hwynt i Nantyglo. Cynghorasant ef i arus yno yspaid, hyd oni chryfhâi o'i nychdod corfforol, ac addawodd y Saint yno ei gynal yn rhad; eithr dranoeth, mynodd efe ddychwelyd yn erbyn eu hewyllys hwy oll. Rhybyddiwyd ef, os elai, y meddiennid ef drachefn gan waeth ysbyrd, hyd nes y byddai yn rhwym draed a dwylaw, ac o dan ofal y *police* cyn pen nemawr amser; ond nid oedd dim yn tycio—yn ol yr aeth. Parhaodd yn ei gyflawn bwyll hyd brydnawn dranoeth ar ol dychwelyd. Y pryd hyn galwyd ef i dy cymydog, a gwahoddwyd ef at y ford i yfed *tea* gydag ereill. Cyhuddai y rhai hyn y grefydd a broffesai o fod wedi achosi ei anhwyledeb; a pherswadiant ef i'w gadael, &c. Cynhyrfodd hyn ei deimladau mor bell, nes y cyfododd ar ei draed yn eu gwydd hwy oll, ac a dystiolaethodd nad ar y grefydd yr oedd y bai, ond arno ef—mai gwir grefydd Mab Duw yw yr hon a broffesa y Saint, ac oherwydd hyny y cawsai efe iachad drwyddi gynifer o weithiau. Achosodd y gwrthwynebiad

hwn y fath gynhyrriad yn ei feddwl, nes eu casâu o eiddgedd dros ei grefydd, a phechu drwy hyny. Ar hyn medd isonwyd ef yn waetu mag oll, nes y rheidodd pawb o'r ty mewn dychryn, ac yntau ar eu hol dan wban a malu ewyn, ac ereill ar eu hol hwythau drwy'r heolydd, nes achosi cryn gynwrf drwy'r lle. O'r diwedd, cafwyd ef i dy, a rhwymwyd ef. Pan yn y sefyllfa hon, ymwelodd W. Phillips ag ef drachefn, a chyn nemawr fynyddau, adferwyd ef i'w bwyll gystal ag erioed. Cyfododd, ymolchodd, bwytaodd, ac ymgysurodd, gan ddiolch i Dduw yn fawr am ei ryddhad; a hebryngodd ei ymwelydd tua hanner milldir, a dywedai yr elai i'r gwaith dranoeth. Yr ail ddydd ymollyngodd o dan y denitasiwn drachefn, gan ruo fel llew, malu ewyn, a cheisio niweidio a allai. Erbyn hyn daeth y *police*, a llu o hobl yn nghyd, a rhwymasant ef, gan ei ddwyn yn swan wed'yn i'r fan a nodwyd. Gersfuwyd hwynt i'w gario tua thair milldir o'r ffordd cyn cael cerbyd: a'r holl ffordd, nes iddynt gau ei ben, tystiai nad ar y Saint na'u crefydd yr oedd y bai, ond mai ei esgeulusdod ef oedd yr achos o'r cyfan, a begiai arnynt yn daer i adael rhyngddo ef a'r Saint, gan ddweyd y cai waredigaeth drachefn yn siwr, ond yn ofer. Fel hyn yr aeth y cyntaf un erioed o'r Saint, yn ol a glywsom ni, i'r fath le, a diau mai ei fai ef ydoedd; canys cyflawnodd y brophwydoliaeth uchod er ein gwaethaf, ac oberwydd y troedd hwn a'i ganlyniadau yr ysgymunir ef. Dysged y Saint oddiw'rth yr amgylhiad galarus hwn, ffyddlondeb, gwrddoldeb, ac ufydd-dod i'r cyngorion a gânt, fel na oddiwedder hwythau gan y cyffelyb au-ysbrydion, pa rai sydd yn gorlifo ein byd, gan geisio y neb a allant ei lyncu. Ein gweddi barhaus yw, ar i Ysbryd Duw fod yn gylch oddiamgylch ei blant.

Parodd yr amgylchiad hwn i'r Saint greu penderfyniad e'r newydd llynu wrth eu Duw, ac i gyflawni eu dyledswyddau. Credodd amryw o'r rhai gonest yr efengyl pan welsant fawr allu Duw yn y peth, ac y mae amryw wedi cael eu bedyddio yn y cychdoedd hyny wed'yn o'r herwydd. Ond am y rhan arall o'r hobl, yn enwedig y gau-grefyddwyr mwyaf selog a phenboethaidd, deallwn fod eu tafodau fel troell uffernol, yn nyddu a chorddeddu pob lliw, llun, a rhywogaeth o gelwyddau, er drygu cymmeriadau y Saint. Ie. celwyddau meddwn, ag sydd braidd yn rhy warthus genym eu hadrodd; ac y mae eu traethwyr yn euog o gabldraeth wrth eu saethu. serch eu bod mor felys i'w chwaeth aflan hwy, heb son am yr ysgelerder o ddyfeisio y fath gelwyddau er gwaradwyddo plant a phobl Dduw yn ddiachos. Mae ei air a ddywed.—“Y neb a gyffyrddo â chwi, sydd yn cyffwrdd â chanwyll ei lygad ef,” mor wired yn awr a chynt. Ac y mae yr enllibwyr hyn yn profi eu bod hwy dan ddylanwad gwaeth cythreuliaid na'r truan uchod. Yr ydym ni a'n brodyr wedi hir ddyoddef yn dawel bob math o gelwyddau i'n herbwn o herwydd ein crefydd, hyd nes na chredwn y gofyna ein Duw genym i ni ddyoddef fel llofruddion neu *ladron*, tra fo cyfraith i'w chael yn y wlad, a dyn a'i gweinyddo. Hysbyswn ein penderfyniad ynte, a thaer erfyniwn ar y Saint, a phawb ag a fedda un radd o deimlad dros ei enw da ei hun, dros ddynoliaeth, os nad dros ein crefydd anwyll, i'n helpu i ddwyn y dyhirod dihafal hyny i ddalfa o flaen brawdlys gwladol, sef y neb a ddyweda ein bod ni, neu W. Phillips, wedi yspeilio y Phillips Seix uchod i o'i arian, nac o werth ceiniog ychwaith!! Nid oes sail i'r fath haeriad-

an ond yn unig yn ymenyddion eu dyfeiswyr enllibus. Heriwn un dyn i sefyll yn ein hwyneb i haeru ein bod ni wedi cael un geiniog, na gwerth ceiniog ganddo, na cheisio dim erioed; ond vn hollol groes i hyny, mae efe yn ddyledus i ni, ac i W. Phillips, ac y mae genym dystion a'i clywodd ef vn dweyd, nad oedd neb o'r Saint yn ei ddyled ef, ond ei fod ef yn eu dyled hwy. Ni chostiodd iddo geiniog am fywd erioed pan y daeth ffordd hyn, a'r wob'r a gawn am ein haelioni iddo yw, cael ein cyhuddo gan elynion iddo ef, ac i bob peth da, o fod weai yspeilio ei eiddo, aié! Ond ni ddyoddeswn yn hwy.

HYNT YR EGLWYSI, A'R BEDYDDIADAU.

Canghen Merthyr.—Bedyddiwyd yma 35 yn y chwech wythnos diweddaf, amryw o ba rai oedd-ynt gynt yn aelodau gyda'r enwadau sectyddol. Mae yr holl Saint perthynol i'r ganghen hon yn flyddlon yn ddieithriad braidd, ac yn cynnyddu mwy fwy mewn pob domau a hendidhion; ac os parha y Saint yn flyddiog a flyddlon, credwn, wrth yr argoelion gobeithiol a welir, ynghyd â'r gwrandawriad lliosog ac astud sydd yma, y daw lluoedd etto yn fuan yn ddeiliaid o deyrnas yr Immanuel.

Dowlais.—Mae yma gymmaint cynnydd ar y gwrandawriad er y mwstwr mawr a wnaeth Messrs Roberts, Davies, Lewis, &c., nes yr aeth y Neuadd oedd gan y Saint y pryd hyny yn rhy gyfng; ac y maent yn pregethu yn awr yn Neuadd gyfiens y *Marquis of Bute*, yr hon sydd oriawn o wrandawwyr honeddigaidd ar y Sul. Dyma fel yr aeth Moruoniaeth "yn feldith ac yn rhag" yn Dowlais. Bedyddiwyd naw yno er dechreu Ionawr diweddaf, un o ba rai oedd yn *right hand man* i'r Parch. W. R. Davies! Yr oedd yn ysgrifenydd ei dy cwrdd, yn un o'r *trustees*, &c., ac yn stanch iawn yn eu golwg hwy. Eu herlid a'u celwyddau didaw hwy a barodd iddo chwilio i Formoniaeth; a'r gonestrwydd a'r cariad a feddai at wirionedd a barodd iddo ei chofseidio fel trysory trysoran; ac yn awr prisia y grefydd Formoniaid yn fwy na'r byd a'i gflawnder. Bedyddiwyd dau ereill o aelodau Mr. Davies ar ei ol yntau, ac amryw cyn hyny, serch i Mr. Davies haeru nad aeth ond un hen fenyw oddiwrtho ef at y Saint. Daw ychwaneg etto cyn hir, i.e. yr oll ag y mae cariad at y gwirionedd ynddynt. Diau fod yn eu plith hefyd aml un ag sy'n chwilio am y gwir, a thrueni eu bod yn colli eu hamser, ac yn amddifadu eu hunain o gynifer o fendithion, a goleuni dwyfol, drwy adael i neb dynu cuddlen y gaddug dros eu llygaid ar gost eu llogellau a'u heneidian. Do, bedyddiodd y Saint y gwr a'r wraig ag oeddynt yn byw yn un o dai Mr. D., i.e. yn y drws nesaf at ei ddrws ef ei hun, ac uwchben ei siop ef! Ac etto, dyma'r cawr oedd yn myned i ladd Moruoniaeth ar un ergyd, er ys ychydig yn ol. O na, caled yw gwingo yn erbyn symbylau Moruoniaeth, Syr. Nid bai Mr. Davies yw fod ei aelodau yn ymuno â'r Saint, oherwydd gwna ef ei waethaf yn sclog i'w herbyn, nid yn y cyrddau yn unig, ond cerdda y tai tra fyddo y gwyr yn y gwaith, ac er-

bvn y dychwelant bydd eu haelwyd heddychol gynt o hyny allan yn uffern iddynt, fel ei fynwes ei hun. Yn awr daw ei gastiau i'r golwg! Yn awr dealla aml un beth a phwy oedd gwreiddyn eu hannghydfod teuluaid; ac wedi cael gwared o'r drwg trigant yn ddedwydd.

Tredegar.—Bedyddiwyd pump, dau o ba rai oeddynt yn ddiaconiaid parchus gydag anwadau ereill am flynyddau—un gyda'r Bedyddwyr, a dau gyda'r Wesleyaid, a gair da iddynt gan bawb. Un arall, yr hwn oedd o ddylanwad mawr yn mhllith, ac yn brif athraw ar ysgol Suliol, y Weslevid, a fedyddiesid ychydig cyn hyny. Daeth un arall oddi wrth y Trefnyddion Calinaidd, heblaw ereill dibroffes. A mawr y llawenydd a gânt oherwydd cyfnewid eu crefydd er gwell. Ac wedi bod yn hir chwilio am grefydd Crist, dywedant yn awr, wedi ei chael, na chymmerent y byd am ddychwelyd yn ol at gibau gweigion.

Penycae.—Dau. Ychydig cyn hyny bedyddiwyd un o ddiaconiaid y Bedyddwyr, a'i wraig, pa rai ydynt beunydd yn gorfoleddu yn llawenydd yr Ysbryd Glân, ac yn diolch am eu dwyn o'r gaddug dywyll i ryddid a goleuni plant Duw. Eu hen frodyr fyth yw eu herlidwyr a'u camgyhuddwyr gwaethaf hwythau fel arferol.

Victoria.—Naw, braidd oll oddiwrth y Bedyddwyr, heblaw llawer a ddaethent oddiwrth y Bedyddwyr er's ychydig yn ol. Yn mhllith ereill, daeth gweinidog i ymweled ag un o'r benywod a ymunasai â'r Saint o'i eglwys ef. Wedi iddo hir berswadio arni i ddychwelyd yn ol, ond yn ofer, tystiolaethodd hithau wrtho bod yn well ganddi na'r byd ddarfod iddi ei adael ef a'i eglwys, a dyfod at y Saint; canys yn awr, ebe hi, y gwn mewn gwirionedd a sicrwydd fy mod wedi cael y fraint o ddyfod i eglwys Dduw, yn mha le y mae efe yn cyfranu ei Ysbryd yn ei amrywiol ddoniau, yr hyn ni chefais tra y bum gyda chwi. Ffïromodd y dywediad diragrith hwn y parchedig hwn yn aruthrol, ac ebe efe, "Wel, eich anffyddlondeb chwi oedd yr achos os na chwawsoch ef." "Nage yn siwr," ebe y wraig, "canvs bum mor ffyddlon, ac yn gweddio cymmaint ag a allwn, am flynyddau, ac er hyny ni feddiennais erioed, ac nid wyf yn credu ddarfod i chwithau, na neb o'ch aelodau, feddu dim yn debyg i'r cariad, y llawenydd, na'r goleuni, ag sydd i'w gael drwy'r Ysbryd Glân ag sydd gyda'r Saint." Dyna ddiagon i'r Parch., gwelodd ei bod ar ben gydag ef, a diwedd ei ystori oedd gwaeddi, a'i ddwyllaw i'r lan, wrth fyned drwy y drws, "O! yr ydych wedi pechu yn erbyn yr Ysbryd Glân." A'r olygfa nesaf a gaed arno oedd yn ei bwlpudd dydd Sul yn cyhoeddi ei anathemau uwchben y fenyw druan yn annynol a digywilydd, pan yn ei hysgymuno oherwydd, meddai efe, "pechu yn erbyn yr Ysbryd Glân." Arferiad gysefin y tylwyth hwn o bobl yw y castiau hyn. Y mae yn llawn bryd bellach gwneyd siampl o honynt, gan nad oes dim arall a'u cywilyddia. Gan fod y diafol ei hun yn ymrithio fel angel y goleuni, ai rhyfedd yw fod ei weision cyflogedig yn ei efelychu? Onid yw yr ysgrythyr yn ein rhybuddio eu bod i ddyfod mewn crwyn defaiu. gan lefaru chwyddedig eiriau gowagedd, i geisio llithio yn ol y rh. i gonest eu calon a ddiangasai oddiwrth eu cyfeiliornadau hwy, barnuedigaeth y rhai, am eu geiriau caledion yn erbyn ei blant ef, nid yw yn hepiant.

Nantyglo.—Wyth, gan mwyaf yn rhai dibroffes, ac y mae y ganghen hon yn fodeuog mewn cariad a doniau ysbrydol hefyd.

Blaenau.—Dau. Mae y Saint yma yn fwy penderfynol nag erioed i gyflawni eu dyledswyddau.

Abersychan.—Naw, dau o ha rai oeddynt aelodau gyda'r Bedyddwyr, a'r lleill oeddynt rai dibroffes. Mae y gwreichion dwyfol wedi agoryd llygaid y rhai gonest i gael cipolwg ar eglwys Dduw, a'i rhagoroldeb ar yr eiddynt hwy, nes y mae amryw o honynt fel crochan berwedig, ac yn mron rhedeg dros yr ynylon.

Caerdydd.—Bedyddiwyd 28 er dechreu mis Ionawr, ac ereill yn addaw yn feunyddiol braidd. Daeth amryw o'r uchod oddiwrth y Bedyddwyr, ac enwadau ereill, a dyma'r peth a goda y folwst ar y *Bedyddiur* brwnt i saethu ei ystoriau aflan ar y Saint, gan feddwl cadw y gweddill dan ei bawenau; ond y mae y rhai a ddaethant wedi ennill cymmaint drwy gyfnewid eu crefydd, fel nad celwydd a geidw y lleill yn ol yn hir.

Llwyni.—Bedyddiwyd saith yn yr un wythnos, a llawer (ni wyddom eu rhif yn gywir) cyn hyny, ac wed'yn. Mae y hobl hyny yn dechreu dod i'w pwyl ar ol yr erlidigaeth greulon a fu yno.

Bryn.—Mae llawer (dywedir i ni) wedi cael eu bedyddio yno wedi y Gymmanfa.

Abertawe.—Bedyddiodd yr henuriad Joseph Matthews ddau y mis diweddfaf.

Llanelli.—Oedodd y llywydd ein hysbysu trwy lythyr pa nifer a feddyddiwyd yma yn mis Ionawr, ond clywsom fod tua dwsin o leiaf, trwy gymhorth erchyll Mr. Spencer, gweinidog y Bedyddwyr, ac ereill. Aed yn y blaen yn llywyddiannus, a phroselytied ychwaneg o'i braidd at Formoniaeth.

Pont Yates.—Bedyddiodd y Saint yma, ac yn y gymmydogaeth, 19 er y Gymmanfa, ac y maent oll yn mawr lawenhau yn eu breintiau a'u gobeithion.

Llanbyddar.—Bedyddiwyd yma wyth yn ddiweddar—dau oddiwrth y Bedyddwyr.

Brechfa.—Bedyddiwyd pedwar er y Gymmanfa, ac argoelion am lawer ychwaneg.

Clywsom am ereill a feddyddiwyd mewn gwahanol fanau; ond nid yw y llywyddion hyny wedi anfon y rhif i ni. Dysgwyliwn y gwna pob llywydd hyn yn gysson bob mis.

Wele dros gant a hanner o gynnydd ar y Saint yn y manau a nodwyd yn unig mewn oddeutu mis! Dyma fel y mae hi yn darfod! Diolch i'r hwn sydd yn ei chynnwys a gweddiwn am fwy-fwy o lwyddiant arni yn wastadol. Amen.

.. *Cyfarwydder llythyrau, wedi eu rhagdatu, i CAPT. JONES, Wellington Street, Merthyr. Na ddysgwyliet atebiad yn ol, os na fydd stamp yn y llythyr. Yr ydym wedi blino o'r diwedd yn talu postage dros bawb!*

HYSBYSIADAU.

BWRIEDIR cynnal Cymmanfa Mynwy yn *Nantyglo*, ar y Sul diweddfaf o fis Ebrill.

Dysgwylir gweled yno gynnifer o'r Saint a allant ddyfod, ac yn enwedig y swyddwyr, a holl lywyddion y canghenau, wedi ymbarotol i gynnrychioli y canghenau, eu rhif, pa nifer a fedyddiwyd er y Gymmanfa flaenorol, rhif y gwahanol swyddwyr, ynghyd â sefyllfa ysbrydol y Saint, &c.

. *Rhybyddion y Saint i ochelyd rhag gormeswyr a thwyllwyr. Bu bengo y ffordd hyn yn ddiweddiar yn profesu bod yn un o Saint Llanelli, gan ddweyd a gwneyd llawer o dwyll, pan mewn gwirionedd nid oedd y pryd hyny, nac crised wedi bod yu yr eglwys. Nid oes ond ychydig amser er pan y bu rhai yn hōni eu bod yn bregethwyr gyda'r Saint yn Lloegr, neu Scotland, ac yn dysgwyl cael croesaw y cyfryw yma. Gofaled y Saint a'r swyddwyr am gael tocynau gan lywyddion eu canghenau, neu ynte na dderbyddier hwy i fan arall, addieithr eu bod yn adnabyddus.*

. *Mae yr henuriad Jacob Watkins wedi ei amddifadu o'i swydd hyd oni foddlon a pwyllgor y Merthyr am ei ymddygiad.*

LLYFRAU.

MAE genym gyfrolau o "Capt. Jones ar Formoniaeth, yn 1846," am o 3s. hyd 4s. 6c. Etto, cyfrolau o'r Traethodau a gyhoeddasant yn 1847, am o 3s. 6c. hyd 5s. 6c. Hefyd, y ddwy gyfrol o'r PROPHWYD wedi eu rhwymo yn un, am o 4s. hyd 6s., yn ol eu rhwymiad. Gail y dosbarthwyr gael y rhai uchod gyda'r PROPAWYD, os anfonant yr arian. Mae genym hefyd amrywiaeth o lyfrau Saesonaeg a'r Millennial Star, yu ddwywythnosol, am 3c. y rhifyn.

CYNNWYSIAD.

Prophwydeliceth Sant Thomas, y	Beth yw'r mater?	37
Merthyr	Ysgymundod Phillip Seix, Blaenau,	33
Y deongliad	Gwent, o'r eglwys	34
Pagan yn profi dau o'r Rabbits sect-	Hynt yr Eglwysi, a'r bedyddiadau..	45
yddol yn gelwyddog	Hysbysiadau	34
Dychweliad yr Afradloniaid		37

MERTHYR-TYDFIL:

CYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH HEFYD GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL.

ARGRAFFWYD GAN JOHN JONES, RHYDYBONT.

PROPHWYD Y JUBILI,

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 22.]

EBRILL, 1848.

[PRIS 2g.

FFORDD NEWYDD A RHAGOROL I LEDAENU GWYBODAETH O'R EFENGYL.

ANNOGWN y Saint i ddosbarthu y trefydd a'r cylchoedd lle y trigant, fel y caffo y sawl a allo, gynnifer o dai yn ei gylch ag a all ymweled â hwynt bob Sul. Prynied ychydig o wahanol draethodau y Saint, a rhodded fenthyg un i bob ty a'i cymmero, gan ddymuno arnynt eu darllen, a'u cadw yn lân, ac y galwir y Sul canlynol i'w newid am un arall. Ewch a hwnw i'r ty nesaf, ac ewch â'r hwn a gewch yno un drws yn mlaen; ac felly hyd onid eloch oddiamgylch y cyfan. Yna ceir yr un oedd yn y ty diweddaf un Sul, i fyned i'r ty cyntaf y Sul nesaf; ac felly yn mlaen hyd nes y bo pob ty wedi cael cynnyg ar bob un o'r amrywiaeth. Bvdd ol-rifynau y *Prophwyd* yn ddefnyddiol iawn i fenthyca yn y cylch gyda'r lleill, ac *i'r dyben hyn* ceir hwynt am *geiniog yr un!* Ceir y traethodau ereill hefyd, i'r dyben daionus hyn, am cyn rhated ag y gellir eu hargraffu! Nid elwa yw ein hamcan; ond lledaenu y gwirioneddau dwyfol a ymddiriedwyd i'n gofal. Yn ol y cynllun hwn, caiff pob traethawd ychwaneg o ddarlleniad o lawer nag un ffordd arall, ac heb ond ychydig gost i'r dosparthwr, a dim i'r darllennwr (oddiethr iddo ddewis prynu rhyw un neu rai), a chaiff yr *oll* eu darllen gan *bob un*.

Saint anwyl,—Hyderwn na bydd hyn yn ormod o gost na thrafferth genych ei wneyd er mwyn eich cymmydogion anwyl, pa rai, yn enwedig y cyfryw ag ydynt mor anffortunus a bod dan iau ormesol a sectyddol, ydynt braidd yn hollol anwybodus o barthed i'n crefydd. oddiethr y chwedlau anwireddus, a'r camgyhuddiadau gwarthus, a draethir ac a bregethir iddynt o'u pwlpudau, yn eu hysgolion, eu cymdeithasau, a'u cyhoeddiadau. Gwyddoch chwi, trwy ffeithiau anwadadwy, mai dichellion o eiddo tad y celwydd ydyw y cyfryw, a hyny er dallu

meddyliau carwyr ac ymchwilwyr am y gwirionedd, ac er llithio eu heneidiau anfarwol i dywyllwch a cholledigaeth. Cofiwch mai y cyfryw oeddyr ninnau cyn ein goleuo; ac yn awr, llewyrched eich gol-euni chwithau yn y dull hwn i'ch cymmydogion hynaws. Gwyddoch y bygythir hwynt ag ysgymundod tragwyddol gan rai o'u "bugeiliaid," os deuant i wrando pregethu yr efengyl! eithr hyd yn hyn, ni wyddom ei fod yn bechod anfaddeuol iddynt ddarllen ein llyfrau, os cânt hwynt am ddim; ond prysurwch, wyddys pa mor gyflym, y dilynant eich sodlau yn hyn hefyd, mor gynted ag y deallant eich bod yn gwneyd daioni.

Mae Duw wedi llwyddo y cynllun hwn eisoes yn rhad o'r cychwedd hyn tuhwnt i ddysgwyliad y desparthwyr; ac Efe a gorona eich llafur â llwyddiant cyferbyniol i'ch diwydrwydd, Na ddyweded neb nad oes ganddo ddim i'w wneyd nes y cyflawno hyn. Os bydd y traethodau yn weddol lân ar ol darfod y naill gylch, gwerthed y perchenog hwynt i arall, a dechreued yntau ei gylch fel y delo ereill yn rhydd. Os nad oes gan lywydd y ganghen ddigon ar law i ddechreu, anfoned yma am rai; ond defnyddier y rhai sydd ar law i ddechreu, a daw ychwaneg drwy'r wasg cyn hir. Digon tebyg y cyfarfyddwch ag ambell Pharis-ead a ystyria eich bod yn tori y Sabboth wrth hyn, ond dywed Crist ei bod yn rhydd gwneyd daioni ar y Sabboth. Cewch gwrrd ag ambell goegddyn chwerw, ceerus, a balch, yn ddiau, ond na checrwch gyda hwy, gadewch hwy o'ch hol, a byddwch bwylllog. Ond odid, fe ateba y llyfrau eu holl gwestiynau.

Chwirydd selog,—Dyma le i chwithau weithio, fel y galioch gael eich bendithio, a bod yn fendith i ereill. Cofiw'n oll mai byr yw ein hamser i rybyddio ein cenedl, a bod y dyddiau bliu wrth y drws.

EPISTOL Y DEUDDEG APOSTOL,

AT

Eglwys Iesu Grist, Saint y Dyddiau Dinceddaf, ar wasgar drwy'r byd; yn anerch:—

ANWYL FRODWR.—Ni bu y Saint un amser, er pan y sefydlwyd yr eglwys. ar y Ged dydd o Ebrill, yn y flwyddyn 1830, mor wasgaredig, na'u manteision i dderbyn dysgeidiaeth o'r lle iawn mor gyfyngol ag y-mae wedi bod er eu halltudiad o dalaeth Illinois; eithr yn awr daeth yr amser ag y mae yn suddiol i chwi gael y cyfryw wyhodaeth trwy gyfrwng ein Hepistol hwn, ag a ewyllysia ein Tad ei gyflwyno i chwi, a'r hyn a aunlygodd Efe drwy'r Ys'ryd.

Gan ein bod ni yn rhagwybod dichellion ein gelynyon, ymfudasom

o Nauvoo yn Chwefror, 1846. a gosgordd luosog gyda ni. i'r dyben o ymsefydlu yn y fan ag y gallai y Saint ymgasglu iddo, a thrigo yn heddychol. Am y rhan flaenaf o'n taith, cawsom wlawogydd mawrion, a thywydd pur ansanteisiol, yr hyn, ynghyd â phrinder ein llun-iaeth, a'n gorfododd i adael rhan o'n gosgordd yn yr anialwch, i ymsefydlu mewn gwlad ffrwythlon a alwasom yn *Garden Grove*. yn mha le y gwnaethom dyddyn mawr yn cynnwys arno 16 o anneddau; ac yn mhellach yn mlaen, oherwydd y cyffelyb achosion, gwnaethom sefydliad arall mewn lle a alwasom yn Mynydd Pisga, gan adael rhan arall o'n gosgordd yno i drin y cnydau a hauasom yn y tir. Wedi i ni wneyd ffordd, adeiladu pontydd dros luaws o'afonydd, am dros dri chant o filldroedd, gan mwyaf drwy wlad y Pattawatamie Indians, cyrhaeddasom *Merriam* i Council Bluffs, ar lan afon Missouri, erbyn diwedd mis Mehefin, yn mha le yr ymwelwyd â ni gan Capt. J. Allen o Fort Leavmworth, gyda deiseb oddiwrth y llywodraeth am i 500 o'u gwyr *listio* i'r fyddin ag oedd yn myned i Mexico. I'r galwad hwn o eiddo ein gwlad ufyddhasom yn ewyllysgar; a chyn canol mis Gorphenaf, yr oedd 500 o'n brodyr yn "Gatrawd Formonaidd" ar eu taith tua California, dan lywyddiaeth Col. J. Allen, gan adael cannoedd o bedrolfeni, teuluoedd, &c., yn amddifaid o'r cynhorth ag y dibynent arno, a hyn yn nghanol y *prairies*, mewn gwlad anwaraidd, yn mhell oddiwrth drigfanau, ac yn mhellach oddiwrth y fan ag yr amcanent ymsefydlu ynddo.

Er fod ein gwersyll yn rhagweled y gauaf dyfodol, ynghyd â'i ganlyniadau anocheladwy, sef anghysur, newyn, tylodi, afiechyd, a phob peth annymunol; etto, yn ngwyneb y cyfan, ufyddhasom i alwad y Llywydd gwladol gyda'r parodrwydd a deilynga tad oddiwrth ei blant; ac er fod goreuon a blodau ein gwersyll wedi myned yn y fyddin, etto y weddw a'r amddifaid, yr hen a'r methedig, yn llawn gobaith a phenderfyniad ffyddiog, a aethant yn mlaen ar eu taith. Aeth rhyw nifer cyn belled â'r *Pawnee Mission*, yn mha le oherwydd eu bod yn rhy ddiweddar ar y tymhor i groesi y mynyddoedd creiglyd, yr arosasant i auafu; ond y mwyrif a arosasant i auafu yn y fan hyn, yr hwn a alwn yn *Winter Quarters*. Mewn llai na thri mis adeiladasom yma dros 700 o dai annedd. Yn mis Gorphenaf, yr oedd 2000 o bedrolfeni ar y ffordd o Nauvoo yn dilyn ar ein hol.

Yn Hydref, 1846, ymosododd terfysglu creulon, wedi eu hamwisgo â holl erchylldra rhyfel, ar yr ychydig weddill o'r Saint ag oeddynt yn Nauvoo (pa rai, o ddifffyg meddiannau a chyffeuserau, ni allent ymfudo), ac a lofruddiasant rai, ac a alltudiasant y lleill yn ddirugaredd tuhwnt i'r afon Mississippi, yn mha le yr oeddynt yn hollol amddifaid o dai, pebyll, ymborth, gwisgoedd, arian, na dim o'u meddiannau eu hunain braidd, na dim i gynnwl eu bywydau ond ymgeledd rhagluniaethol eu Tad, ac ychydig gyfraniadau gan rai dynion dyn-garol a haelionus o Quincy, St. Louis, a rhai manau ereill, enwau a charedigrwydd y rhai nid anghofir byth. Pryd hyny gorfodwyd y Saint i wasgaru i'r gogledd, i'r deau, i'r dwyrain, ac i'r gorllewin, lle bynag ag y gallent gael noddod a bywioliaeth. Ac er mor galed yw ei ysgrifenu, etto y mae yn wir, a bydd raid iddo aros yn gofadail ar golofnau hanesyddiaeth,—Pan yr oedd blodau a goreuon gwersyll Is-

rael yn peryglu eu bywydau i ddala i fyny adenydd yr Eryr American-aidd mewn gwlad estronol, gyrwyd eu tadau, eu mamau, eu brodyr, a'u chwirydd, a'u plant hwynt, gan gynddaredd terfysglu, allan o'u tai a'u tiroedd, eu dinas, a'u holl feddiannau, ac allan o gyffiniau chwaer dalaeth o'r un undeb gwladwriaethol; i.e., gorfodwyd hwy i ffoi o flaen y tân, y cleddyf, y drylliau, a'r magnelau, fel rhag angau. O'r amser hwnw hyd yn awr bu Saint y Dyddiau Diweddaf yn erwydro heb gartrefe, o Canada hyd New Orleans, ac o'r Mor Werydd hyd y Mor Tawel gorllewinol, a llawer a aethant i wledydd dycyithr a phell-enig. Nid oedd eu meddiannau yn Swydd Hancock, talaeth Illinois, nemawr gwell nag wedi cael eu difrodi. Llosgwyd llawer o'u tai yn wenfflam gan derfysglu, a bu raid iddynt adael llawer o'r gweddill heb eu gwerthu; eithr rhai a gawsant rywbeth o ewyllysiai ereill roi iddynt am eu meddiannau, canys amcan yr ymosodwyr oedd dibrisio meddiannau i'r radd iselaf, fel y caffent hwy y cyfan dan yr esgus o dalu cost eu rhyfel hunan-gynhyrfiol; a llawer o'r rhai oeddynt yn trigo mewn llawnder ac anymddibyniaeth ni chawsant am eu hystadau hardd a gwerthfawr braidd ddigon i'w cynnorthwyo ar eu taith o'r lle; ac y mae miloedd er yr amser hyny wedi bod yn erwydro yma a thraw yn amddifaid o'r anghenrheidiau er cynnal natur, llawer o ba rai, a'u teuluoedd, trwy eu bod yn analluog i ddyoddef y fath galedi, a glafychasant, ac a fuant feirw, tra y mae teml yr Arglwydd wedi cael ei gadael yn nghanol ein gelynyion yn gofadail barhaus, i dystio i nefoedd a daear, a phawb a'i gwelant, ffyddlondeb a diwydrwydd y Saint.

Ar y 14eg o Ebrill, cychwynasom ni, ynghyd â 143 o frodyr, ar ein taith tua'r gorllewin. Gwnaethom ffordd newydd am yn agos i fil o filldroedd, nes tirió yn y *Great Basin*, lle y cyrhaeddasom oddeutu diwedd mis Gorphenaf. Cawsom ein hunain yma mewn dyffryn harddwyeh rhagorol, oddeutu ugain wrth ddeg-ar-hugain o filldroedd o faintioli. I'r dwyrain y mae rhestr o fynyddoedd uchel, a'u penau wedi eu gorchuddio ag eira parhaus. Y mae rhestr o fynyddoedd hardd yn y gorllewin, pa rai a wlychir â chawodydd o wlaw cynnyrchiol. Y mae Llyn Utah yn y deau, wedi ei orchuddio o'r golwg gan restr o fryniau, ynghyd â golygfa ysplenydd o ddyfroedd y Llyn mawr Halen i'r gogledd-orllewin hyd dreiddiad y golwg, ac ynddo amrywiol nysoedd o wahanol faintioli ac ymddangosiad. Cyrhaedda y dyffryn yn mhellach i'r gogledd, ar hyd y glanau dwyreiniol, am oddeutu tri-ugain milldir, hyd arllwysiad afon yr Arth. Ymddengys daear y dyffryn yn ffrwythlon rhagorol, er nad digon llaith bob amser efallai i gynnyrchu ambell fath o lysiau. Y mae amrai afonydd yn rhedeg drwyddo; ac yn mhllith ereill, rheda yr Iorddonen orllewinol (yr hon sydd yn rhedeg o Lyn Utah) ar ei hyd drwy ei ganol o'r deau i'r gogledd. Mae yr hinsawdd yn iachus a hyfryd—nid yn rhy boeth, ond yn sych a hafaidd. Ceir digonedd o halen wrth y llyn. Y mae yma amrywiaeth o ddyfroedd—twym, poeth, ac oer, yn tarddu i fyny o'r ddaear mewn amrvw fanau; ac y mae yma fanteision rhagorol o ran dyfroedd i droi melinau a pheiriannau o bob math a maintioli. Nid yw y coed yn helaeth iawn ar hyd y dyffryn; ond gellir cael digonedd o goed *box, fir, pine, a'r sugar maple, &c.*, ar y mynyddoedd, at anghenrheidiau presennol, hyd nes y tyfa ychwaneg.

Yn y dyffryn gwych hwn sefydlasom ddinas, enw yr hon fydd, *Prif Ddinas y Môr Halen*; ac er cyfleusdra i'r Saint, sefydlasom yma y *Post Office* perthynol i'r *Great Basin*. Mesurwyd y ddinas, a dosranwyd hi yn ddeg o erwau yn mhob dosparth, a phob dosparth yn wyth o ranau. Bydd yr heolydd yn 45 o latheni o led, ac yn croesi eu gilydd yn union oll. Cadwyd un dosparth er adeiladu teml arno, ac amryw ereill yn ngwahanol barthau y ddinas yn lleoedd i adeiladu adeiladau cyhoeddus arnynt.

Yn fuan wedi ein tiriad yn y dyffryn, daeth rhan o'r gatrawd, pa rai a fuasant yn sefydlog yn *Pueblo*, ynghyd â gwersyll o'r Saint o dalaeth Mississippi, yma, ac a'n cynnorthwasant i gloddio, planu, a hau tua chant erw o dir ag amrywiaeth o hadau; ac hefyd i adeiladu rhes o dai oddiamgylch un ddosrau o ddeg erw, ac i braidd gwblhau y rhai oedd ar un ochr. Mae defnyddiau er adeiladu, megys meini, pridd-feini, &c., yn helaeth iawn, a hawdd eu cael, yma.

Wedi aros yma o bedair i bump wythnos, cychwynasom ni (sef y prif gynghor) ein ffordd yn ol, yn amddifaid braidd o luniaeth. Canlynodd rhyw ychydig o'r gatrawd ni, y rhai hefyd oeddynt yn hollol amddifaid o luniaeth, oddieithr ychydig *beef*. Gadawsom ni yr holl bobl, a'r lluniaeth a allem yno, i ddarparu lleoedd ac ymborth i ereill a ddeuai. Ein hunig ymddibyniaeth ni am luniaeth oedd ar hela anifeiliaid gwylltion. megys y *buffalo*, *deer*, *antelope*, pa rai oeddynt ar y tymhor hwnw o'r fwyddyn yn aaml iawn. Rhwng afonydd y dyfroedd melys a'r afon werdd, cyfarfuom â 566 o bedrolfeni yn llwythog o Saint ar eu taith i'r dyffryn crybwylledig. Oddiyno daethom heibio i Fort Bridger, South Pass, Fort John, a thros y ganghen ogleddol i'r afon Platte i'r *Winter Quarters*, lle y cyrhaeddasom y dydd diweddfaf o fis Tachwedd oll yn iach, wedi cyflawni y daith hirfaith hon, gydag ychain a cheffylau, heb nemawr luniaeth ond cig anifeiliaid gwylltion, heb golli un dyn, er fod amryw mor gleifion a nychlyd pan gychwynasant, fel nad allent gerdded braidd ddim hyd nes y cyrhaeddasant dros hanner y ffordd.

Rhag. 11, cyrhaeddodd yma unarddeg o'r gatrawd, ynghyd â'u harweinydd, o'r dyffryn, drwy lawer o orthrymderau. Hysbysodd y rhai hyn ni fod y gatrawd oll wedi gwasanaethu eu hamser allan, a'u rhyddhau yn California, a bod cyfrn o honynt dan lywyddiaeth Capt. Davies wedi ail listio er sefydlu amddiffynfa filwraidd yn y wlad hono—fod rhai wedi cyrhaedd Dinas y Llyn Halen, lle y cawsant yr ymfudwyr yn iach a chysurus, oddieithr yn unig tri o farwolaethau a fu yn eu mysg.

Dyoddefa y Saint eu holl adfyd yn amyneddgar a gostyngedig, gan wneyd y cyfan yn wasanaethyddol i'w hymfudiad tua'r gorllewin. Y mae eu calonau, eu holl dueddiadau, a'u tynfa tua machlud haul; canys ewyllysiant fod mor belled oddiwrth eu herlidwyr. nes ag y bo gagenddor tragwyddol rhyngddynt ag erlidigaeth. Er ein bod ni fel pobl wedi cael ein hela o dalaeth bwy gilydd; er fod Joseph a Hyrum, ein prophwyd a'n patriarch, wedi cael eu merthyru eu dau mewn gwaed oer, pan wedi rhoddi eu hunain i fyny i afael a nodded y llywodraeth, a'r llywydd, ynghyd â'i lywyddion milwraidd, wedi addunedu y buasai iddynt gael nodded, ac arholiad cyfiawn; etto credwn fod yn y dalaeth

hóno, ac yn y taleithiau ereill, ddynion gonest a dewr, y rhai a ffeiddiant fod yn euog o dywallt gwaed gwirion; a phe gallent, golchent yniaith yr ystaeniadau gwaedlyd oddiar eu gwladwriaeth. Os myna y cyfryw fod yn ddiueog gerbron Duw a'r cyhoedd, llefarant yn erbyn y fath ormes, y fath gyffafan a sychedu am waed saint a phrophwydi ag sydd yn y wlad. Rhyngddynt hwy â'u gilydd, â'u gwlad, ac â'u Duw, am hyny. Ond ail adroddwn yr hyn a ddywedasom lawer gwaith o'r blaen, a'r hyn a ddangosasom drwy ein hymddygiad o'r dechreuad, sef ein bod ni fel pobl, er maint ein dyoddefiadau a'n herlidigaethau, yn ffyddlonach deiliaid, ac yn barotach na neb arall i amddiffyn cyfreithiau a sefydliadau ein mam-wlad, a gwnawn ein goreu erddynt, os caniatant i ni; ac annogwn yr holl Saint drwy'r byd i fod yn ufydd i'r, a pharchu y, cyfreithiau a amddiffyna eu personau, eu meddianau, a'u hiawnderau, yn mhob llywodraeth a gwlad lle y maent yn preswyllo, gan oddef cam, yn hytrach na gwneyd cam â neb. Fel hyn y gwnaethom ni bob amser, a dyma a wnawn. Bwriadwn anfon deiseb at y llywodraeth mor gynted ag y caniaa amgylchiadau, i geisio hawl i wneyd sefydliad llywodraethol yn y *Great Basin*.

Weithian, frodyr, traethasom i chwi grynodedb o'r pethau hynotaf a gymmerasant le yn ein plith er pan alltudiwyd ni o Nauvoo, ansawdd y Saint yn y cyhoedd hyn, a'n golygiadau ninnau yn gyffredinol, yn rhagddarpariadol i ateb eich cwestiwn pwysfawr chwithau, yr hwn a ofynir i ni yn gysson o bob parth o'r byd, sef, Pa beth sydd raid i ni ei wneuthur?

Atebwn.—Ymgasglwch ynghyd mor fuan ag y gallwch i'r fan hon, ac os bydd yn bosibl byddwch barod i gychwyn odidiyma ar ddechreu mis Mai, neu mor gynted ag y bo porfa ar y ddaear i'ch anifeiliaid, ac i fyned i'r brif ddinas, gan ddwyn cymmaint o luniaeth gyda chwi, os bydd yn bosibl, ag a'ch cynnalid nes y cynnyrchwch schwaneg o'r ddaear. Ymgasgled yr holl Saint a wasgarwyd o Nauvoo, a'r taleithiau ereill, yn fuan i'r ochr ddwyreiniol i afon Missouri, gan ddwyn gyda hwynt gymmaint o wartheg, ac o anifeiliaid ieuainc ereill, ag a allant brynu. Deued yr oll a allo hefyd o'r Saint sydd yn Canada, a'r Unol Daleithiau, mor gyflym ag y caniaa amgylchiadau, ynghyd â'u cyfoeth, a'r holl bethau defnyddiol at wasanaeth i wladychu mewn gwlad newydd. Pryned y Saint yr oll a allant o wartheg a cheffylau ieuainc ar y ffordd wrth ddyfod, canys y mae eu mawr anghen yma, a chânt werthiad parod; ac wedi cyrhaedd yma, canlyned yr all a allo yn mlaen dros y mynyddoedd; a'r rhai na allant gyrhaedd yn mhellach, llafuriant y ddaear yma, gan gynnyrchu pob amrywiaeth o gynydau anghurheidiol er lluniaeth, ac fel y gallont werthu i ereill a ddelo, a thrwy hyny ddarparu eu hunain i fyned i ben eu taith. Trwy gyfnewid gwaith a'u brodyr, galluogir hyd yn nod y tylota, nid i gael cynaliaeth i'w deulu yn unig, ond i gael anifeiliaid, ac i adeiladu pedrolfeni. Trwy werthu eu gwelliadau a'u cynnyddiant i'r rhai a ddelo ar eu hol, ac a fyddant yn awyddus i brynu, galluogir pawb i ymfudo yn gysurus i ben eu taith, a'u cartrefe arosol. Da fyddai i'r holl Saint o bob man ddarparu eu hunain hefyd â helaethrwydd o wisgoedd clydion a chynhes, yn hytrach nag â rhai rhy ysgafn, gan y teimlant amrywiol fathau o dywydd cyn y croesant y mynyddoedd.

Nodasom wlad yr Indiaid, *Pottawattie*, yn lle cyfarfod, oherwydd fod y daith morfaith, fel mai nid yn unig dewisol, ond anghurheidiol yw cael peth gorphwysfa; a dyma y lle agosaf ag sydd gyfleus i hyny; a chan fod y wlad yn anhrgiannol, ni byddis yn trawsfeddiannu ar neb yma; ac hefyd, y mae y fan hon yn fwy cyfleus oherwydd ei bod mor agos i ororau talaeth Missouri, fel na raid teithio nemawr ddyddiau er cael masnachu yn mhob peth anghurheidiol.

Wrth y Saint ag sydd yn Lloegr, Ysgotland, yr Iwerddon, a Chymru, dywedwn,—Ymfudwch mor gynted ag y bo modd i'r fan hon, gan ofalu edrych at, ac ymddwyn yn ol, y cyngorion a gewch gan y llywyddiaeth yn Mhrydain; cymmeryd llongau i New Orleans, ac agerfadau oddiyno yn uniongyrchol i'r *Council Bluffs*, yr hyn a arbeda lawer o gost. Y rhai nad oes ganddynt nemawr f. ddion, na gobaith i'w cael, a dreuliant yr ychydig hyny wrth aros lle y maent; o ganlyniad, y mae doethineb yn eu hannog i ymfudo yma yn ddioedi, canys y mae yma helaethrwydd o dir, ar yr hwn, drwy eu llafur yn unig, y gallant wellhau eu hamgylchiadau yn fuan iawn. Deued yr oll a allo o'r holl Saint o bob parth o'r byd, a dygant gyda hwy bob amrywiaeth o hadau, llysiau, blodau, a phlanigion o bob math o goedydd; mewn gair, o bob peth a foddia y llygad, a lawenha y galon, ac a lona enaid dyn, ac a dyfa allan o'r ddaear. Hefyd, yr amrywiaeth oreu o beirianau celfyddydol at wasanaeth anaethyddol neu gelfyddydol, i.e. pob peth a duedda i gysuro, dedwyddoli, a chynnorthwyo i lwyddo unrhyw bobl yn y byd. Hyd y gellir, yn hytrach, dyger y darluniau neu y portreidau o'r peirianau, a gellir eu gwneyd hwy yn y manau lle eu defnyddir, trwy yr hyn yr arbedir lawer o gost cludiad.

Nac anghosied y brodyr y bydd eu taith o'r fan hon drwy wlad anwaraidd, a bod nid yn un diogelwch yn dibynu i raddau helaeth ar fod ganddynt arfau tân da yn helaeth, ynghyd â phylor a phlwm, ond byddai hyny yn anghurheidiol er helwriaeth ar hyd y ffordd; onide nid oes sicrwydd a'r na ddaw rhyw ddyhirod anwaraidd i geisio lladrata eu hanifeiliaid oddiarnynt.

Darluned llywyddion y canghenau yr epistol hwn i'r rhai a ymddiriedwyd i'w gofal, gan addysgu a chynghori yn helaethach yn ol fel eu harweuiar gan yr Ysbryd, gan eu hannog i ymddwyn yn mhob peth yn unol â chyfiawnder; a rhodio yn ostyngedig a duwiol yn ofn Duw, a gwneuthur ei ewyllys ef yn mhob peth, fel y caffont ei Ysbryd ef i'w tywys ac i'w galluogi i gyrhaedd yn fuan i ymgyrchfan y Saint. Dyledus i'r holl rieni ddwyn i fyny eu plant yn y ffordd y dylent eu rhodio, gan eu hyfforddi yn mhob egwyddor wirioneddol a defnyddiol mor gynted ag y cynnydda eu dealltwriaeth i'w derbyn; ac ymagweddu yn eu gwydd yn gyfryw ag a delynga efelychiad; canys y mae pob rhieni yn gyfrifol dros eu plant hyd nes y cyrhaeddont oedran cyfrifoldeb. Dylai mamau ddysgu eu plant i weddio gynted ag y gallant siarad. Dylai y llywyddion fod yn fanwl i ddysgu i rieni eu dyledswyddau, a'r athrawon a'r diaconiaid edrych at eu bod yn eu cyflawni yn ffyddlon.

Da fyddai i'r holl ymfudwyr ddwyn gyda hwy gopi o bob llyfrau defnyddiol, hanesyddol, celfyddydol, a phob math arall ag a fyddant ddefnyddiol i'r oes ddyfodol. Y mae genym argraffwasg; a'r rhai a

allant ddwyn papyr ysgrifenu, ac argraffu, gyda hwy, byddai yn llesiol iawn. Defuyddiol hefyd fydd pob offerynau cerddoriaeth, &c. Cadwed pob henuriad gof-lyfr, fel y caffo y hanesydd eglwysig bob hanesyddiaeth eglwysig a gwladwriaethol.

Er pan lofruddiwyd Joseph Smith, cyfododd amryw gaubrophwydi a gauathrawon, gan geisio camarweïn llawer; ond bob amser yr ydym ni wedi parhau gyda chorff yr eglwys, ac yn ddiwyd i ofalu dros, ac arwain y Saint i ddiogelwch, gan adael y gaubrophwydi hynny i redeg eu gyrfa allan eu hunain, a marw o farwolaeth naturiol. Ac yn awr, bwriadwn cyn hir i adgyweirio yr eglwys yn ol y cynllun cyntefig, dan arolygiad prif-lywyddion a phatrieirch. Hyderwn mai baint y deuddeg, ar ol hynny, fydd cael ymledaenu dros y byd, nid i rwystro, ond i gefnogi yr ymgasgliad, i bregethu yr efengyl, ac i gasglu y rhai gonest eu calon o bedwar cwr y byd. Annogwn yr holl henuriaid drwy'r byd yn nodedig i gofio ac ymddwyn yn ol dadguddiadau yr "Athrawiaethau a'r Cyfammodau," ac na phregethwech amgen wrth y genedl hon nag edifeirwch; a'r rhai a fo ganddynt flydd i edifarhau, arweinwch hwynt i wared i ddyfroedd bedydd, arddodwch ddwyllaw arnynt er derbyn yr Ysbryd Glân, ac i'w cadarnhau yn eglwys Iesu Grist, Saint y Dyddiau Diweddaf, cysurwch eu calonau, dysgwch hwynt i ymddwyn yn gyfiaw tuag at eu cyd-ddynion, gweinyddwch iddynt y sacrament er cof am farwolaeth Iesu Grist, ac os dymunant ychwaneg o wybodaeth genych, dywedwch wrthynt am fïoi i Seion,—yno y mae gweision Duw yn barod i'w gwasanaethu, ac i ddysgu iddynt bob peth a berthyna i iachawdwriaeth; a phob peth gwahanol i hyn yn eich dysgeidiaeth, o'r drwg y mae, ac nid yw yn ofynol oddiar eich llaw, ond yn arwain i faglau a themtasiynau. Os gofynir i chwi, Pa le y mae Seion? atebwch, mai yn yr America. Os gofynir i chwi, Beth yw Seion? atebwch, mai y rhai pur o galon.

Dylai y Saint cyfoethogion, yn ol eu gallu, helpu y tylodion i ymfudo; ac os ewyllysiant, ymgvfammodant â'u gilydd fod iddynt hwythau dalu yn ol y cyfle cyntaf. Dylai y cyfoethogion ymdiechu blaenu, yn hytrach nag oedi dyfod, fel y gallont osod i fyny beirianau celfyddydol, *factories*, a phob gweithfâau a ddewisant, pa rai a hyfforddiant waith i'r tylodion, a gwneyd pob dilladau a phethau angenrheidiol er cysur, cynnydd, mwyniant, gogoneddiad, a hapusrwydd y Saint; ac ni raid i neb fod yn anwybodus yn y pethau hyn, os rhodia yn ddigon gostyngedig gerbron Duw, i gadw ac i ddeall llefddyystaw fain yr Ysbryd Glân gydag ef bob amser.

Ymgasgled yr holl Saint ag sydd yn caru Duw yn fwy nag y carant eu hunain—ac nid oes neb yn Sant oni wna hyn—yn ddiwed i'r lle apwyntiedig, gan ddwyn gyda hwy yn ol eu gallu o bob peth. er adeiladu, addurno, a gogoneddu ty yr Arglwydd, ynghyd â phob doethineb a medrusrwydd celfyddydol, cerfwaith o bob coed a meteloedd, a phob peth a fu, sydd, neu a ddaw, er dyrchafiad, gogoneddiad, ac iachawdwriaeth byw a meirw, yn dymhorol ac yn ysrydol, am yr amser presennol ac i dragwyddoldeb. Deuwch ynte, gau ymddwyn yn gyfiawn gerbron Duw, ac fe gymmeradwyir eich llafur; breninoedd fyddant yn dadmaethod, a breninesau yn fammaethod i chwi, gogoniant yr holl ddaear fydd eiddoch chwi mewn cysylltiad â'r holl rai a gadwant

orchymynion Duw; neu o'r ochr arall, palla y Beibl, yr hen brophwydi, y rhai y proflesa y genedlaeth hon eu credu, oherwydd daeth yr amser i'r Saint fyned i fynydd ty yr Arglwydd, ac enw yr Arglwydd fydd yno,—rhagoroldeb yr Arglwydd fydd yno, gogoniant yr Arglwydd fydd yno, a gogoneddiad ei Saint fydd yno. Yno ruddia hwy megys yn ngeudod ei law, pan eheda ffrewyllau Jehofa drwy'r byd i'w wneyd yn wag o drigolion, ac i ddifrodi y cenedloedd oherwydd eu hannuwioldeb. ac i lanhau y ddaear o'i hafendid a'i gwaed.

Yr ydym ni mewn heddwech â phob cenedl, gwlad, llywodraeth, ac awdurdodau odditan yr holl nefoedd, oddieithr yn unig llywodraeth y tywyllwch, yr hon sydd oddi isod; ac yn barod i estyn ein dŵylaw tua phedwar cwr y byd, a chyunyng iachawdwriaeth i bob enaid gonest; canys cyrhaedda ein cenadwri ni drwy efengyl Iesu Grist o fôr hyd fôr, ac o'r afon hyd derfynau'r ddaear; ac y mae bendithion y nefoedd arnom ni; a phan balla pob braich arall, nerthoedd yr Hollalluog a anlygir o'n plaid, canys ni cheisiwn ni ond cyfiawnder, ni fywnn ond cyfiawnder, ac y mae ein Duw wedi dweyd mai yn ol ein dydd y bydd ein nerth; ac yr ydym yn gwahodd pob llywyddion, anherawdwyr, breninoedd, tywysogion, barnwyr, a rheolwyr, o bob cenedl, gwlad, tafodiaith, o dan yr holl nefoedd, i ddyfod i'n cynnorthwyo i adeiladu ty i enw Duw Jacob, gwlad dangnefeddus, dinas o orphwysfa, cartroffe i'r dyoddefus o bob hin-awdd, i.e. i'r rhai sydd yn caru eu cymmydogion fel hwy eu hunain, ac yn foddlon i wneuthur i ereill fel y dymunent i ereill wneyd iddynt hwythau. Hyn yr y'm ni yn ei benderfynol wneyd, a hyn a wnawn hefyd trwy nerth ein Duw; ac ni a gefnogwn y sawl a gefnoga gyfreithiau iachus er meithrin ac amddiffyn diweirdeb, rhinwedd, a daioni, ac er cospi drwgweithredwyr.

Y deyrnas ag yr ydym ni yn ei hadeiladu, nid ydyw hi o'r byd hwn, eithr teyrnas y Duw mawr ydyw; ei firwyth hi yw cyfiawnder, tangnefedd, ac iachawdwriaeth i bob enaid gonest a'i derbynio, o Adda i wared hyd y diweddaf a'i derhynio. Meddwn ewyllys dda at holl ddynolryw, ac yr ydym yn awyddus am eu gwiso hwynt ag iachawdwriaeth dymhorol a thragwyddol; ac ni a wnawn iddynt ddaioni hyd y galluoga ein Duw ni, ac y canjata dynion i ni wneyd; ni ddrygwn ac ni niweidiwn yr un dyn, ond os gwrthryfela dynion yn erbyn yr Hollalluog i geisio dymchwelyd ei waith ef, gwybyddant hyn yn ddi-aw, eu bod yn rhedeg yn arbyn tewder tórau tariannau y Jehofa, ac fel mai byw Duw, hwy a ddinystrir.

Deuwch ynte, chwychiw Saint; deuwch, chwychiw rai rhagorol y ddaear; deuwch ynte, chwychiw ddoethion, dysgedigion, cyfoethogion, a mawrion. yn ol eich cyfoeth, eich doethineb, a'r wybodaeth a feddwch am y Jehofa a'i waith, o blith pob cenedl, llwyth, gwlad, pobl, a thafodiaith odditan yr holl nefoedd, ac ymaunwch o dan faner yr Emmanuel; cynnorthwywch ni i adeiladu teyrnas Dduw, ac i blanu a meithrin egwyddorion gwirionedd, bywyd, ac iachawdwriaeth, a chwi a dderbyniwch eich gwobr yn mhllith y rhai a santeiddiwyd, pan ddelo ein Harglwydd Iesu Grist i wneuthur i fyny ei briodoledd, ac nid oes allu ar y ddaear nac yn uffern a'ch lluddias chwi.

Y mae teyrnas Dduw yn gynnwysedig o egwyddorion uniongedd; ac nid yw cymmaint gwahaniaeth genym ni beth a fyddo credo dyn,

pa un a fyddo ai Presbyteriad, Methodist, ai Baptist, ynte Mormoniad, Campbelliad, Pabydd, Eglwyswr, Mahometan, neu hyd yn nod pagan, neu rywbeth arall, os plyga y glin, ac os cyffesa a'i dafod yr Arglwydd Iesu Grist, ac os cefnoga gyfreithiau iachus a heddychol, cyfarchwn ef fel brawd; a safwn wrth ei ochr tra y cefnoga yntau nynt yn y pethau hyn; canys rhyngddo ef ei hun a'i Dduw y mae fydd grefyddol dyn yn unig; ond os efe a wada yr Iesu, os efe a felldiga Dduw, os efe a ymsercha mewn atfendid, a meddwdod, a throseddau, os dyweda gelwydd, os rhega, os lladrata, os cymmera enw yr Arglwydd yn ofer, gan gyflawni pob pechod yn unchwant, ni chaiff y cyfryw le yn ein plith, canys yr ydym ni wedi hir chwilio am bobl a weithredaut gyfiawnder, a welnyddant gyfiawnder yn ddi-dderbyn wyneb, ac a gydnabyddant Dduw yn eu holl ffyrdd, y rhai a barchant ac a ufyddhant i'r ordinhadau a'r cyfreithiau hyn ag ydynt wedi eu cronïo yu y llyfr cysegr-edig hwnw a elwir y Beibl, yr hwn mewn gwirionedd a gredir geuym ni, a'r hwn a gyhoeddwn hyd derfynau y ddaear.

Nid ydym ni yn hōni rhagoriaeth; ni fynwn dderchafiad; ond yn y cylch ag y gosododd Duw ni, yno y safwn; a hyny yw, i fod yn un â'n brodyr, a'n brodyr ni ydyw yr holl rai ag sydd yn cadw gorchymynion ein Duw ni, pa rai sydd yn gwneuthur ewyllys ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd; â'n hysgwydd wrth eu hysgwyddau hwy y safwn, a chyda hwy y trigwn yn awr ac yn dragwyddol.

Deuwch ynte, chwi Saint y Dyddiau Diweddaf, a chwi oll fawr a bach, boneddig a gwreng, dyrchafedig ac iselradd. llywodraethwyr a deiliaid, ag sydd ar wyneb yr holl ddaear, carwyr duwioldeb, a chasawyr atfendid, a chynnorthwywch ni i wneuthur y gwaith nawr hwn, yr hwn a ofynodd yr Arglwydd oddiar ein llaw; ac yn gymmaist ag y bydd gozoniant y ty diweddaf hwn yn tra rhagori ar ozoniant yr un blaenorol, yna gwobrwyir chwithau ar eich caued, a'ch gorphwysfa fodd yn ogoneddus. Ein prif arwyddair ni yw, "*Heddwch tuag at Dduw, ac ewyllys da tuag at holl ddynotryw.*"

Ysgrifenywyd yn *Winter Quarters, Omaha Nation*, yr ochr orllewinol i ason Missouri, ger *Council Bluffs*, gogledd America, ac arwyddwyd Rhagfyr 23, 1847, ar ran *Quorum* y deuddeg apostol.

BRIGHAM YOUNG, *Llywydd*,
WILLARD RICHARDS, *Ysgrifenydd*.

Gorfu i ni, oherwydd bydrn ein colofnau bychain, adael allan amryw bethau o'r Epistol hirfaith hwn: ond diin serch hyny ag sydd yn dwyn cyssylltiad a'r Saint Cymreig; ond y cyfryw rannu ag sydd yn cyfeirio yn uniongyrchol at y rhai ag sydd mewn gwledyd ereill, a than wahanol amgylchiadau.

Erfyniwn sylw difrifolaf y Saint, ac yn enwedigol y swyddwyr, at y pethau pwysig ag sydd yu yr Epistol uchod. Hyderwn y gwna y llywyddion ei amlygu yn ddealladwy i'r Saint ag sydd dan eu gofal; ac os bydd rhyw beth annealladwy ynddo, gofynw am eglurhad, a cheir hyny hyd eithaf ein gallu drwy y *Prophwyd*. "Wele yr amser dysgwylidig wedi dyfod, ac etto gofynnw, "*Pwy sydd yn barod i gychwyn adref?*" Da fyddai genym glywed oddiwrth y rhai hyny ag sydd

yn awyddus i gychwyn yn Chwefror nesaf, mor gynted ag y gellir, sef beth yw eu hamgylchiadau, ac a allant hwy feddu saith neu wyth punt ar gyfer pob un o'r teulu ar ol ymbarotoi yma i gychwyn? canys ni wna llawer llai eu cludo oddiyma i *Council Bluffs*. Y rhai a ddewisant fyned y pryd hyny, ac a allant hyfforddio i gynnorthwyo ereill o'u brodyr a'u chwiorydd tylbion, hysbysant ni pa nifer, &c. Cofied y Saint mai "byr waith a wna yr Arglwydd ar y ddaear." Cofied pawb hefyd fod gan bob un ewyllys hollol rydd i fyned neu i aros, a bod gan bob un gyflawn hawl ar ei ryddid, ei iawnderau, a'i *feddiannau* ei hun, fel y llandager tafodau gwenwynig ein gelynyon gwyrdraws ac anwireddus o barthed i'r ymgasgliad gogoneddus hwn; canys diau na chlywodd Noa na Lot erioed y ganfed ran o'r chwedlau anwireddus a disail, pan yn myned i'r arch, neu yn ffoi o Sodom, ag a ferwina glustiau y Saint yn eu hymfudiad, yr hyn ynghyd â mil o achosion pwysig ereill, sydd yn achosi i ni hiraethu nos a dydd am gael dianc rywfodd â chroen ein dannedd allan o syfrdandod, gormes, a gwrthryfelgarwch y genedlaeth drofaus ac anwireddus hon, i wladychu unwaith etto yn y fan, ac yn mhllith y bobl ddedwydd hyny, "lle y mae cyfawnder yn cartrefu." Nid yw codi ein cloch yn uchel, na gwneyd llawer o swm ein hod yn myned, yn hwyluso mynediad neb, ac efallai nad goreu fod llawer o ddarpariadau, megys gwerthu eu meddiannau, &c., cyn y caffer cynghor personol ar y pen hyny, yr hyn sydd yn rhy syrbyyll, nae hyd nes treiddio i'r amgylchiadau cyssylltiedig. Diddadl fod eisieu doethineb, iawn-drefn, a flyddlondeb, er cario yr orymdaith fawr hon yn mlaen yn effeithiol a llesiol i bawb. "Yn eich amynedd meddienwch eich encidiau," sydd gynghor dyddorol iawn ar y mater hwn hefyd. "Gwneler pob peth yn weddaidd ac mewn trefn," yw ein harwyddair yn hyn fel yn mhob peth arall. Nid oes gwrthwynebiad i neb ddyfod gyda chwi a ewyllysia, os na bydd yn aelod eglwysig, ond ni chaniater i wr adael ei wraig er myned, nad pa mor erlidgar yw, na'r wraig fyned heb genad y gwr. Y rhai a ieuwyd mor anghydimharus, gweddiant ac ymdrechiant ychwaneg ar fod eu priod digred yn cael ei argyhoeddi trwyddynt hwy, a chael gwardigaeth.

NAUVOO.

Pwr sy'n preswyllo 'nawr

Yn Nauvoo?

Ai Saint y Brenin mawr?

D'wel Nauvoo.

Bum gan blant Duw'n feddiant,

Ond eu gelynyon ddaethant.

A'r Saint mewn llied gyrauant,

O Nauvoo.

Y Saint y'nt ar eu taith

O Nauvoo,

Ar hyd anialwch maith,

O Nauvoo.

Collasant, do, eu dinas,—
 Ond pan wel Duw yn addas
 Cânt feddu'r nefol deyrnas,
 A Nauvooc.

J. D.

YR ERLIDIGAETH YN SIR BENFRO.

Pembroke, Mawrth 17eg, 1848.

ANWYL FRAWD,—Nid wyf wedi bedyddio ond pedwar er pan welais chwi, h. y., er's deufis; ond yr ydym yn dyoddef peth erlidigaeth yma hefyd, yn enwedig yn Hwlfordd. Arferiad ein cymmydogion crefyddol yw aflonyddu ein haddoliad yn y capel er's amser maith; eithr y Sul diweddaf, pan yr oeddwn yn pregethu, llanwyd y capel â dynion a bechgyn, y rhai a ddechreuasant ysgrechain ac wban, nes cynnyddu yn foullef fawr o *hurrah*, a'm rhwystro i bregethu. Pan y daethym allan o'r capel nos Sul, yr oedd yr heol yn llawn o derfysgwyr yn fy nifenwi a'm bygwth, a rhai o'honynt a'm llychwinasant â baw. Yr oedd rhai o'honynt yn cau y drws, ac yn ei ddala yn nghauad oddiallan, tra yr oedd llawer oddifewn; ceisiasant ddiffodd y goleu, a gallwch farnu i ba ddybenion, ond drwy ymdrech mawr rhwystrais hwy i hyny. Gafaelais yn un o'r rhai a ddaliai y drws, gan feddwl cael ei enw, ond huan y cipiodd ei blaid ef o'm gafael. Ein harferiad ni yw fod i un brawd sefyll wrth y drws i warchod na bo y crytiaid drygionus hyn yn dod i'n hafflonyddu. Nos Lun diweddaf, ymgyffarfuum yn y capel i gynnal addoliad, ac un o'r brodyr a safodd wrth y drws; rhuthrodd y terfysgwyr arno, gwthiasant ef dros ben y grisiau i'r heol, ac a'i maeddasant yn arw; gwaeddodd allan am ei fywyd, a phan gyrhaeddais ato, yr oedd amryw yn ngafael ag ef ar lawr, yn ei droedio, &c., ac yntau wedi ei drybaeddu mewn gwaed. Boreu dranoeth, dangosodd ei hun i'r ynad, gan ofyn nodded y gyfraith, yr hwn a'i cynghorodd i godi gwarant ar yr ymosodwyr; ond er ein syndod mawr, pan y dygwyd yr enogion yn nilaen, ac y profwyd hwy yn euog o flaen yr ynad, ni chawsant ddim cosp na cherydd, na'n brawd un iawn na nodded, ond ei *orfodi i datu yr holl gostau ei hunan!!* Gan ddysgwyl y cynghorai yr ynad hwy i beidio ein hafflonyddu mwyach, eglurais i iddo ef eu castiau o hvd, ac mai hwy oedd prif arweinwyr y terfysgwyr parhaus. Gofynodd yr ynad a oedd y capel wedi ei groniclo, ac atebais innau ei fod; ond ni chredent fi onid awn at ysgrifennodd y cwrt i gael copi o hyny; ac heb feio gair ar y terfysgwyr, dywedodd mai yr unig beth a allwn wneyd oedd eu gwarantio i ymddangos o flaen y Sesiwn Chwarterol, yr hyn a gostiai i mi oddeutu 20l meddent hwy. Aethym at ysgrifenydd y swyddfa lle y croniclwyd y capel, gan feigio am gopi o'r *license*; ond ni thrasserthai i chwilio y llyfrau am dani. Fel hyn y mae y cyssylltiad ag sydd rhwng unawr a bach, boneddig a gwreng, swyddwyr a deiliaid, crefyddwyr a dibroffes, oll yn un yn ein herbryn yn tystio mai plant yr un tad ydynt hwy, ac mai oherwydd fod ein crefydd ninnau yn ddwyfol, ac yn peryglu teyrnas y diafol, y cynhyrfa efe lawb yn ei herbryn. Ymgryfhaodd y

terfysgwyr wrth y cefnogiad hwn o eiddo y swyddwyr gwladol, fel y bygythiant yn fy wyneb y gwnaant waeth cyfiatan yn ein capel y Sul nesaf nag erioed, a'u bod yn penderfynu ein herlid, nes ein gorchfygu ryw fodd!

Gofynodd un o'r ynadon i mi ar y pryd, beth a feddyllem wrth y gair a ddarllenasai efe ar un o'n llythyrâu gwahodd, "awdurdodwyd gan Iesu Grist?" Atebais mai anfoniad neu hawliad dwyfol i bregethu efengyl Iesu Grist ydoedd. Ar hyn dywedodd yn wawdus, y byddai yn ddrwg iawn ganddo glywed fod neb o'i berthynasau ef yn cymmeryd eu hudo gan y fath gyfeiliornad; a hwy a'm troisant allan o'r ystafell! Fel hyn gwelwch, Anwyl Frawd, y derbynir y sawl a broffesa fod ganddo genadwri oddiwrth Dduw yn yr oes oleu, a'r wlad Gristionogol hon! Y mae hyn yn fy adgoffa am eiriau ein Meistr bendigedig, sef, "Yr ydwyf fi yn dyfod yn enw fy Nhad, ac yr ydych chi yn ceisio fy lladd i; eithr arall a ddaw yn ei enw ei hun [yn enw rhyw Gyndeithas Genhadol, eglwys, neu barchedigion], hwnw a dderhyniwch chiwi." Go debyg, onide? Ond er y cwbl, diolchaf fi a'r holl Saint am ein cyfrif yn deilwng i ddyoddef ychydig er mwyn geirian yr hwn a ddyoddefodd gymmaint drosom ni, a diolchwn iddo fwy-fwy am y dystiolaeth ddwyfol a feddwn o'r hyn a wnawn, a'n bod yn feddiannol ar y trysor dwyfol, sef efengyl Mab Duw, mewn llestri pridd. O frodyr, gweddiwch drosom, canys y mae ein Tad yn ein gwranddo ni.

Eich brawd yn yr efengyl,

JOHN MORRIS.

IACHAD RHYFEDDOL O ESGYRN TOREDIG.

HYBARCH OLYGYDD.—Llawer o waeddi sydd am arwyddion, a herio am gymmaint ag un enghraifft o allu goruwchnaturiol Duw yn mhllith y Saint; a chyda'ch cenad, hysbysaf am un fendith fawr o blith llaweroedd a welais. ac a dystiaf yn wirioneddol o welliadau goruwchnaturiol ag a dderbynia plant Duw drwy yr ymarferiad ag ordinhadau eglwys Iesu Grist, yr hon a gymmerodd le o flaen fy llyguid, odditan fy nwylaw, ac yn fy nheulu fy hun er's ychydig ddyddiau yn ol. Etto, nid wyf mor anhysbys o ddichellion y diafol, ac o anghrediniaeth yr oes, â dysgwyl i'r ffaith amwg hon fod yn gyfrwng argyhoeddiadol i'r rhai o'r oes hon a'i clywant (canys nid yw felly i'r rhai â'u gwelant â'u llygaid eu hunain), ddim mwy nag yr argyhoeddai gweithredoedd nerthol Mab Duw ei gydoeswyr yntau o'u dwyfoldeb, yr hyn sydd amwg oddiwrth y ffeithiau o'i feiddiad iddynt i'w gredu er mwyn y gweithredoedd a wna; er hyny, ei labyddio a wnaent po fwyaf ei wyrthiau, i.e. a'i groeshoelio o'r diwedd o'r herwydd. Nid wyf yn amnau dim nad felly y byddai eu cynddeiriogrwydd yn awr i'r graddau y gwelont nerthol weithrediadau Duw drwy ei blant, fel pe cyfodid un oddiwrth y meirw, byddant mor awyddus i'w ladd ef drachefn rhag ofn ei ddylanwad, ag oedd y rhai hyny gynt i ladd Lazarus a Christ ar ol ei godi o farw yn fyw.

Fy nyben yn cynuyg yr hanes canlynol i'ch cyhoeddiad, yw fel y gullo y Saint gyd-lawenhau, cyd-ddiolch â mi, a chyd-ogoneddu Duw am ei ddaioni, yr hwn yw yr unig Gyfranwr o bob bendithion daionus.

Efe yn unig a bia y clod. Yr hyn a awgrymaf a gymmerodd le fel y canlyn:—

Er's dau fis yn ol, gwasgwyd bachgenyn i mi, yr hwn sydd yn llog oed, rhwng y *trams* yn ngwaith y Gyfartifa, fel y torwyd esgyrn ei goes mewn dau fan. Cariwyd ef i'm ty; ac yn ol rheolau y gwaith daeth y meddyg perthynol i'r gwaith yno yn fuan, ac a osododd yr esgyrn yn eu lle, ac estyll oddiamgylch i'r goes. Dywedodd y Meddyg fod yr esgyrn wedi tori mewn dau fan. Yn fuan wedi i'r meddyg fyned ymaith, gweinyddais i'r bachgen yr ordinhad ddwyfol yn ol yr yagrythyrau (gwel Iago v, 14, &c.), ac esmwythawyd ef o bob poen yn y fan, a thystiai y bachgen ei fod yn holliach, a thaer fegiai am gael tynu yr estyll a chyfodi o'i wely; ond gonmeddsom hyny iddo, rhag ofn y cospid ni gan y meddygon, fel y bygythiwyd ni ac anryw ereill o'r Saint a iachesid yn ddwyfol. Y trydydd dydd ymwelodd meddyg ag ef drachefn; ac wedi edrych ei goes, gyda syndod mawr y tystiodd fod yr esgyrn wedi cylymu eisioes. Drachefn addefodd y meddyg doriad yr esgyrn mewn dau fan, ac na welsai erioed y fath iachad o'r blaen; eithr ni wyddai am weinyddiad yr ordinhad. Wedi hyn daeth meddyg arall i'r ty, ac a holodd y gwragedd oedd yn y ty yn sarug iawn am "yr olew a roisent ar goes y bachgen, ei fod ef eisieu ei weled," &c. Atebodd y gwragedd na roisent hwy olew ar ei goes, yr hyn oedd yn wirionedd ynddo ei hun. Begiai y bachgen bob dydd am gael codi a myned allan, gan sicrhau ei fod ef yn iach ddigon. Yna caniatasom iddo fyned oddiamgylch, os cymmerai ffon yn ei law, a gofalu na welsai y meddyg ef allan; ac yr oedd mor falch o'r rhyddid, fel na allasem braidd ei gael i aros yn y ty nemawr fyny ond pan y dysgwyliai y meddyg yno. Fel hyn elai oddiamgylch Merthyr a'r estyll yn hongian wrth ei goes, ac ni feiddiai eu tynu. Yr unfed dydd ar ddeg daeth y meddyg, a gofynodd pa le yr oedd y bachgen. Atebodd fy ngwraig ei fod yn y cae yn chwarae gyda'r crytiaid heb na ffon na dim. Bu raid iddo weled cyn y credai; yna dywedodd ei fod yn gwella mor dda o'r blaen, nes y meddyliasai efe am adael iddo gael godi at y tân, a'i goes ar glustogau, heddyw; ond er ei syndod, wele y bachgen o'i flaen! Dywedodd fy ngwraig wrth y meddyg fod y cymmydogion, wrth weled y bachgen yn cerdded mor fuan, yn dweyd rai o honynt, na thorasid yr esgyrn, ac ereill, "na thorasai ond yr *asgorn bach*." Atebodd y meddyg nad oedd efe yn rhyfeddu cymmaint wrth eu hanghrediniaeth, oherwydd ei fod yn ymddangos yn beth mor anhygoel i weled gwelliad o'r esgyrn toredig mor fuan; ac mai anhawdd fusasai ganddo ef gredu ei hun, oddieithr ei fod yn gwybod y ffaith, tuhwnt i bob dadl, fod yr esgyrn wedi tori. Gwrthododd dynu yr estyll serch hyny. Dranoeth aeth y bachgen heibio i siop y meddyg, tua Merthyr, a hwythau yn edrych ar ei ol drwy y ffenestr mewn syndod; a chyn gynted ag y darfu iddynt dynu yr estyll oddiam ei goes, aeth y bachgen i'r gwaith yn hollol iach, lle y mae yn gweithio er hyny hyd heddyw.

Er's tua dwy flynedd yn el, torasai y bachgen hwn ei goes arall yn gyffelyb, a chafodd iachad cyffelyb; ond serch yr holl fygwth a chymenu a wnai y meddyg hwnw, oddiamgylch yr elai y bachgen, ac i'r gwaith heb genad y meddyg. Dywedod y neb a fyno yr ystoriau a fyno am y peth hyn, fel y dywedent am goes William Hughes, &c., &c., etto

ri feiddia un dyn s-fyll yn fy ngwyneb i, a gwrthbrofi y gwirioneddau
re'iod. Y mae cannoedd ereill a wyddant mai gwir yw; ac yr ydwyf
yn cydnabod yr Hollalluog Dduw yn ddiogelgar am y fendith.

Ydwyf, eich brawd yn yr esengyl,

45, *Cyfarthfa Row,*
Georgetown, Maurth. 1848. }

THOMAS REES.

Dyma enwau y rhai a glywsant dystiolaeth y meddyg,—

DAVID X JOHN,

MARY X JOHN,

MARGARET REES.

BREUDDWYD RHYFEDD A'I GYFLAWNIAD.

"PAN mewn trymgwsg un noson, cefais fy hunan mewn cae mawr yn
mhilith tyrfa luosog, ac yn gwrando ar ryw ddyeithryn yn pregethu, gan
son cryn lawer am ryw lyfr a ddaliai yn ei law. Wedi iddo ddiweddú,
neseais ato, a gofynais iddo pa lyfr oedd hwnw. Sylodd yn graff yn fy
llygaid am enyd; yna, dan estyn llyfr i'm llaw, dywedodd, "Trysora y
llyfr hwn yn dy gof, ac argraffa ef ar dy galon; a thra y deli dy asael
ynddo, ni all holl ysbrydion y llys obry dy niweidio." Cymmerais y
llyfr, ac aethým (yn ol cyfarwyddyd y dyn) i mewn i ddaeardy oedd
gerllaw. Parodd i mi guro wrth y drws haiarn cyntaf y deunw ato, yr
hwn, wedi i mi guro, a agorodd ar ei begynau rhydlyd; a'r cyfarchiad
cyntaf oedd llew anferth yn neidio tuag ataf, gan ruo a thraffynw fel pe
huasai am fy-nifodi ar unwaith; ond sylwais ei fod wrth gadwyn fawr,
yr hyn a'm calonogodd i fyned yn mlaen heibio iddo. Ar hyn yspiodd
y llyfr yn fy nghesail, a thrwy lais fel llais yn perswadiu, begiai, begiai
yn daer, ac erfyniai yn dirion, ac yn mhob dull, am gael gafael ar y
llyfr. Addawai ei-roi yn ol yn y fan i mi yn siwr. Ond cofiais y cyng-
hor a gawswn, a bod fy mywyd yn dibynu ar ddal gafael yn y llyfr. Ac
wedi ei wasgu yn nes i'm mynwes, anturiais yn mlaen ar hyd heol gul,
fel trwy ganol ffau oedd i'r llawn o bob rhyw fwystflod wrth gadwyni, a'r
oll eisieu y llyfr oddiarnaf, ond yn ofer. Wedi cyrhaedd y cwr eithaf,
curais wrth ddrws haiarn arall, yr hwn a agorodd i ystafell go debyg i'r
llall, ond mai seirff, ysgorpiynau, a'r cyffelyb, oedd ei phreswlyddion.
Buan ddeallais fod ynddynt hwythau sugndod cryf at y llyfr i'w ddy-
fetha ef a minnau, debyg'swn; ond cydiais ynddo a'm dwylaw nes cyr-
haedd yn ddiangol drwedd i'r drydedd ystafell, yr hon i'm syndod oedd
yn llawn o ddynion, oddieithr yr heol oedd drwy'r canol, gan mwyaf yn
noethion, yn sefyll i fyny mewn cadwyni ar bob llaw, yn amlwg mewn
poenau dirfawr. Weithiau ysgyryngent ddannedd, ond ni allent gyr-
haedd i larpio eu gilydd. Denwyd fy sylw oddiar yr olygfa dorcalonus
hon at ddyun mawr a ddeuai ar hyd yr heol o'r cwr eithaf tuag ataf yn
araf; ac er uchred oedd dolefau y lleill, gwanai dolefaen hwn drwy'm
calon yn llymach fyth;—ochenaid bob cam—ei ddwylaw yn mhleth—
ei wallt gwyn, a'i wn du a laes, a'm brawychai fel y nesai ataf; ond
pan ar fy nghyfer, ymwrolais, a gofynais iddo beth a allasai achosi y fath
boenau ac arteithiau dirdynawl â hyny? Yna cododd ei ben ychydig, a
sylodd arnaf gyda syndod, fel pe na welsai fi cyn hyny; agorodd ei wisg;
ac yna gwelais ei fynwes fel tân coeth yn dysgleirio, ac yn y fan cauodd

ei wisg drachefn; a'r cyfan a ddywedodd oedd, "Pe cawswn i y llyfr yna, ni buaswn yn y poenau hyn; yna aeth heibio dan ochain fel cynt. Ond myfi a ddewisais droi yn ol; a thrwy anhawsderau a pberylglon mawrion, daethum o'u plith yn ddiangol.

Dihunais, ac wele breuddwyd oedd; ie, breuddwyd a effeithiodd fwy arnaf na dim arall erioed. Dychymmygais a meddyliais lawer am ba beth a arwyddai, a pha lyfr oedd hwnw, ond i gyd yn ofer, nes yn mhen ychydig o fisoedd. pan mewn parth arall o'r wlad, dros 200 o filldroedd oddiyno, i mi fyned gyda'm cyfeillion ar brydnawn Sul i wrando ar ryw ddyeithryn oedd i bregethu rhyw bethau newydd a rhyfedd mewn cae gerllaw. Mor gynted ag y cyrhaeddais, daeth fy mreuddwyd i'm cof. Adnabyddais yr olygfa yn y fan. Wedi iddo ddiweddu, gofynais iddo am gael gweled y llyfr a ddaliai efe yn ei law; ac wedi sylu arnaf â'r un llygaid a welswn yn y breuddwyd. ac mewn llais cyffelyb, yr hwn a wana'i drwy y mer a'r esgyrn, estynodd y llyfr i mi, gan adrodd y geiriau uchod am dano yn gymhwys fel y breuddwydiais. Effeithiodd hyn arnaf nes i mi yn mron llewygu; er hyn ar frys agorais y llyfr, a darllenais, am y cyntaf erioed, enw "LLYFR MORMON." Cyn gynted ag y chwiliais ef, credais, ac ufyddheais iddo, a diolch i'w awdwr dwyfol am fwynhad o'i addewidion gwerthfawr.

HYSBYSIAD.

BWRIEDIR cynnal Cymmanfa Mynwy yn *Nantyglo*, ar y Sul diweddaf o fis Ebrill.

Dysgwylir gweled yno gynnifer o'r Saint a allant ddyfod, ac yn enwedig y swyddwyr, a holl lywyddion y cunghenau, wedi ymbarotoi i gynnrychioli y canghenau, eu rhif, pa nifer a fedyddiwyd er y Gymmanfa flaenorol, rhif y gwahanol swyddwyr, ynghyd â sefyllfa ysbrydol y Saint, &c.

CYNNWYSIAD.

Ffordd newydd a rhagorol i ledaenu gwybodaeth o'r efengyl.....	49	Nauvoo.....	59
Epistol y deuddeg apostol, at eglwys Iesu Grist, Saint y Dyddiau Diweddaf, ar wasgar drwy'r byd; yn anerech	50	Yr Erelidigaeth yn Sir Benfro	60
		Iachad Rhyfeddol o esgyrn ioredig ..	61
		Breuddwyd rhyfedd a'i gyflawniad ..	63
		Hysbysiadau	4

MERTHYR-TYDFIL:

CYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH HEFYD GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL.

ARGRAFFWDYD GAN JOHN JONES, RHYDYBONT.

PROPHWYD Y JUBILI,

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 23.]

MAI, 1848.

[PRIS 2g.

LLYTHYR ODDIWRTH WILLIAM DAVIES.

Llanelli, Sir Gaerfyrddin.

ANWYL FRAWD JONES,—

Gydag hyfrydwch y defnyddiaf y cyfleusdra hwn i'ch hysbysu o fy nheimpladau a'm penderfyniad gyda'r grefydd ogoneddus ag yr wyf yn ei phroffesa yn bresennol, sef crefydd Saint y Dyddiau Diweddaf, ar ol bod am hir flyayddau yn selog gyda'r Bedyddwyr, crefydd y rhai oedd yn dra gwahanol i'r hyn a feddyliaf erbyn heddyw am dani, ac yn wahanol i wir grefydd y Testament Newydd.

Anwyl Frawd,—Nid cynt y clywais ac yr ufyddheais i'r grefydd hon nag y deallais rhyw ychydig mewn perthynas iddi, ac y gwelwn ei gwirioneddau dwysol ac anghyfnewidiol yn pwydru eu goleuni drwy ei phregethiad, er yr ymddangosai y rhai a'i cyhoeddai i'r byd yn wael iawn; etto, yr oeddynt wrth hyny yn dwyn yr un cymmeriadau a'u brodyr gynt, y rhai y bu y Mab ei hun yn eu dewis o fysg dynion i bregethu ei efengyl, sef yr apostolion, a'u cyd-frodyr yr amser hyny, y rhai oeddynt wrth fodd y nefoedd, ond yn wael yn ngolwg y byd. Ond nid oeddwn heb deimpladau gyda'r Bedyddwyr, ond eu bod yn wahanol iawn i'm teimpladau presennol. Dweyd faint yw y gwahaniaeth oll nis gallaf; ond dywedaf ychydig o hono, sef ei fod yn gymmaint o wahaniaeth ag sydd rhwng swm a sylwedd—rhwng goleuni a thywyllwch—rhwng dydd a nos—rhwng gwir a chelwydd—rhwng rhith a grym crefydd; i.e. cymmaint o wahaniaeth ag sydd rhwng bod yn aelod yn eglwys Iesu Grist â bod allan o honi. Hefyd, hawdd yw i mi, yn yr eglwys hon, ddeall y Testament Newydd wrth wrando ei atbrawiaethau yn cael eu dysgu, ei ordinhadau yn cael eu gweinyddu, a'r bendithion addawedig ynddo yn cael eu cyfranu "i bob un o'r neilldu, megys y mae Efe yn ewyllysio;"—ond o'r blaen cawn eglwys mewn un man, a'r Testament mewn man arall, heb yn bosibl adnabod

y Testament wrth yr eglwys, na'r eglwys wrth y Testament, heb wrr-droi y Testament drwy ei esbonio, &c. Ond yn eglwys Iesu Grist, yr hon sydd yn mysg Saint y Dyddiau Diweddf, darllen y Testament yw darllen yr eglwys,—myned i'r eglwys yw myned i'r fan lle y mae addewidion y Testament yn cael eu *cyflawni*. neu yr ewyllys yn cael ei rhoddi i'r etifeddion gan Ben yr eglwys, yr hwn yw Iesu Grist. Fy mhenderfyniad i yw myned yn mlaen gyda'r grefydd hon, trwy nerthfy Nhaf yr hwn sydd yn y nefoedd, a gwneuthur yr hyn a allaf er ei lledaeniad, dywedwed dynion faint a fynont, "nad wyf mor selog ag yr oeddwn o'r blaen," yr wyf fi serch hyn yn myned yn mlaen, ac yn meddwl gwneuthur fy ngoreu er cael gau grefyddau'r byd i'r llawr, a chrefydd yr Oen i'r lân. Er treio fy ngoreu gyda chrefydd am odd-eutu deuddeg mlynedd, methais a chael un sicrwydd o'm cymmeradwyaeth gan Dduw; ond ofnau ac ammheuon ar y goreu braidd; eithredi i mi gael gafael ar hon, nid oes dim ofnau am y drefn, ond sicrwydd mawr drwy yr Ysbryd Glân mai hon yw ei eglwys. Llauer o wahanol grefyddau sydd yn y byd; ond yn eu mysg hwynt oll, yr hyn a ddywedaf fi yw, mai

Dyma'r grefydd oreu welais,
Ac a hoffais yn y byd;
Hon sy'n dwyn i bawb o ddynion.
Ddelo ati o ufydd fryd,
Pob gwybodaeth, er perffeithiad
Iddynt ar eu taith i'w gwlad,
A chant feddu'r Santaidd Ysbryd,
Idd eu tywys at eu Tad.

☉ na ddeuai fy hen frodyr gonest oll, a phrofi hon! Cânt wobwr canmil gwell nag sydd ganddynt yn awr, ac yn y diwedd fywyd tragwyddol. Hyn yw dymuniad a thaer a pharhaus weddi eu hewyllysiwr da,

WILLIAM DAVIES.

GWYRTH INDEPENDIAIDD!!

MR. GOL.—Tebygwyf y bydd yn dda, os nad yn newydd, genych chwia'ch holl ddarllenwyr, glywed am y wyrth nodedig a achoswyd yma yn ddiweddar. Nid "Gwyrth Formonaidd" yw hon, onide dysgwylasem ei darllen yn y *Dinnygiur*, a'r holl gyhoeddiadau ereill drwy'r wlad; ond gwyrth yw hon a ddyry derfyn ar y ddadl o barthed i oes gwyrthiau am byth, debygwn, y ffordd y cerddo. Ni ellir haeru ychwaith mai twyll yw hon oherwydd mai un o'r *Salaniaid* a'i gwnaeth. ☉ na, un o'udgyrn hyrddog Independia fawr yw y gwneuthur gwyrthiau, hwn; a rhyfeddach etto, Syr, dyma y *Shodgiur* a ddilynai y Saint o dybwy gilydd, o'r nall heol i'r llall, drwy'r tymhor diweddf, braidd, i

afonyddu eu cyrddau, a dyfod i'r fan o'u blaen, a chymmeryd eu cyhoeddiad oddiarnynt, &c. Ei brif rigwm y pryd hyny oedd. "Gwyrthiau wedi darfod," "Dim eisieu gwyrthiau ar ol oes yr apostolion," i.e. gwaeddaï braidd cyn uchod ei gorn ysgrechlog a Davies arall o Ddowlais, nad oes neb ond y "Sataniaid a'r Mahometaniaid yn hōni gwyrthiau, ac mai yr un peth yw hyny ag Infideliaeth." Ond yn awr wele yr un dyn â'r un tafod yn gweddio Duw yn gyhoeddus o'i hwlpuad, ac yn begian arno i symud y "hai oeddynt yn rhwystr i benderfyniad heddychol ar *lease* Dowlais o'r ffordd; sef allan o'r byd hwn drwy farn wrth gwrs, a feddylia, parod neu beidio? Daeth y newydd yn ol fod y *Marquis of Bute* wedi marw yn ddisymwth iawn, a mawr y clebar sydd drwy Ddowlais am hyn, ei fod yn gyfawniad o wyrth. "Dyna i ehwi Seintiau her i wneyd gwyrth; dyna beth yw gwyrth," ebe teulu Independia.

Ond o'm rhan i credaf mai crefft berthynol ac addas i ladron yw gwneyd gwyrthiau fel yna! Ai tybied y credai y pregethwr slwdglyd hwn yr atebai Duw y fath weddi o'i ben ef? Yr oedd yn waeth fyth ynte am ei hadrodd os na chredai hyny; etto dymunawn wybod beth yw y gwahaniaeth rhwng egwyddor y dyn hwnw a weddia ar i Dduw ladd ei gyd-ddyn, a'i fod yn gwneyd hyny ei hunan pe gellai? Yr hwa a wnai y naill a wnai y llall pe caffai gyfle, debygwn; neu ynte dengys ddwl ni mawr yn gofyn i Dduw wneyd yr hyn ni wna efe ei hunan! Hefyd, beth yw y gwahaniaeth rhwng hōni y clod o'r wyrth hon a hōni clod y llofrudd? Pa faint mwy o wyrth a fyddai iddo ef weddio y *Marquis* i'r byd yn ol nag oedd iddo ei weddio allan o'r byd? Treied hyny etto, ac ond o'did y bydd yn well nag erioed. Esgusod-wch fi am ateb yr ynfydion yn ol eu hynfydrwydd y tro hwn, canys y mae eu gwrthddywediadau tua Dowlais yma yn rhy warthus i'w hatebfordd arall; ond gobeithiwn serch hyny y try y wyrth Independiaidd hon hwynt i'w pwyll, ac y cyfaddefant oes y gwyrthiau o hyn allan, er mai gwyrthiau gwahanol i'r rhai uchod a feddylw'n ni. Wele y *Sicpwr* a'r *Shodgiwr* ben-ben, trwyn-drwyn, a dant am ddant, yn y wyrth hon hefyd, ac nid tebyg y terfynant y ddadl yn fuan. Duw'r nefoedd a agoro lygaid dynion Dowlais, i adnabod y gwir oddiwrth y gau, yw dymuniad yr eiddoch, &c.,

LEM. WILLIAMS.

GWYRTH DDEUPLYG!

MR. GOL.—Yn gymmaint a bod llawer o wahanol ystorïau yn cael eu taenu drwy y cwm yma a lleoedd ereill, o barthed i'r anffawd a ddygwyddodd i mi yn ddiweddar, ystyriaf yn ddyledus i'r gwirionedd, a'i garwyr, ly mod yn rhoddi adroddiad gwirioneddol o'r amgylchiad, a dymuna llawer heblaw fy hunan, ar iddo gael lle i ymddangos ar golofnau y *Profhwyl*, a gobeithiaf y cydsyniwech chwithau a'n cais, ac y bydd i'r holl Saint ymdrechu rhag ymollwng i'r cyffelyb anghrediniaeth a dyoddef.

Ar foreu dydd Sadwrn, y 18fed o fis Mawrth, llosgwyd fi yn arafus, yn enwedig fy ngwneb a'm dwylaw, gan y *damp* yn y gwaith p'c. &c.

nghydwethwyr yn deimladwy iawn a'm gorchuddiasant rhag yr awel wedi dod i'r lan, ac a'm harweiniasant i'm ty, a dodasant fi i orwedd ar wellt yn y gongl, ac a wlychasant lieiniau mewn olew llosg tân, yn ol yr arferiad cyffredin, ac yr oeddwn innau o hyd mewn poenau dirfawr. Aeth un o'r Saint i Aberdare i ymofyn olew yr eglwys, a chafodd gan yr henuriad W. Howells i ddychwelyd gydag ef, yr hwn wedi cyrhaedd, a'm cafodd yn y sefyllfa a nodwyd, ac efe a ddechreuodd ddysgu y rhai oedd yn y ty ei fod nid yn unig yn fraint ac yn arferiad, ond hefyd yn ddyledswydd ar y Saint, i ufyddhau i'r gorchymynion dwyfol o eneinio ag olew, arddodi dwylaw, a gweddio ar i Dduw iachâu y claf, yr hyn a wnaeth y brawd gyda mi, a thystiaf yn ddiolchgar i Dduw, i'r poen fy ngadael i yn hollol yn y fan, ar i mi gyfodi yn eu gwydd hwy oll, gan fali Duw am y fendith werthfawr hon. Yr oedd amryw yn y ty ar y pryd, ac a ryfeddasant yn fawr. Cynnallasom gyfarfod gweddi a diolchgarwch i Dduw am yr iachad, a phawb yn gysurus iawn, ond nid neb yn fwy felly na fy hunan. Yn mhen oddeutu awr wed'yn, aeth Mr. H. a'r Saint ymaith, a bum innau yn bwriadu ar y pryd ddychwelyd i'r gwaith; ond gan ei bod yn ddiwedd yr wythnos, &c., nid aethum. Erbyn y prydnewn, yr oedd y peth wedi uchosi mawstr rhyfeddol drwy yr ardal, a'r haeriad cyffredin oedd gan y rhai ni'm gwelsant, nad oeddwn wedi llosgi, ond mai ffig oedd y cyfan er twyllo dynion. Daeth amryw i'm ty, ac wedi gweled fy mod yn iach, a hollol ddiboen, haerasant yn bendant yn fy ngwyneb nad oeddwn wedi llosgi. Cyhuddai rhai crefyddwyr fi o fod yn rhyfygu haeru y fath beth yn bwmpasol i dwyllo dynion. Llefa rhai yn fy llygaid, yn enwedig un fenyw o gymydoges i mi, a begiai arnaf beidio dweyd y fath gelwydd a fy mod wedi llosgi. Po fwyaf y dangoswn fy nghnawd iach iddynt, a'm gwallt ac aeliau fy llygaid wedi llosgi, gwaethaf oll yr ymgyndeiriogent yn fy erbyn, gan ysgyrnygu dannedd arnaf. Parheais innau yn hollol ddiboen hyd nes y dylanwadodd haeriadau yr anghredinwyr haerllug hyn arnaf, fel ag i achosi i mi anghredu y ffaith i raddau helaeth. Oddeutu chwech o'r gloch dechreuais deimlo llosgiaidau y tân yn adnewyddu ychydig, a pharhadodd i gynyddu, nes yr oedd erbyn bore dydd Llun yn llosgi cymaethed ag yr oedd cyn gweinyddu yr ordinhad, a phothellodd yn fawr. Wedi i'r rhai a haerent nad oeddwn wedi llosgi weled hyn, ni allent lai na chredu yn groes i'w haeriadau blaenorol, ac yna beient fi am esguluso moddion meddygol. Erbyn hyn yr oedd y glebar gyhoeddus, sef nad oeddwn wedi llosgi, wedi troi yn hollol, ac yn awr haerent nad oeddwn wedi cael iechyd, ond mai celwydd y Saint oedd y cyfan, yr hyn a gredir gan lawer hyd heddyw, oherwydd fy mod wedi bod am oddeutu pythefnos yn methu gweithio oblegid arteithiau y llosgiaid. Nad beth a ddywedir i'r gwrthwyneb, dyma yn fyr yw y gwirionedd o'r peth, a chynghoraf yr holl Saint i wylled rhag gwrandaw ar y wactylb huerwyr cyfeiliornus, a phechu yn erbyn Duw, a thrwy hyn y ddwyn gwarth ar y grefydd santiaid hon; a'm gweddi i yw am gael nerth yn ol y dydd, i barhau yuddi hyd y diwedd. Ydwyf eich brawd yn yr eiegyl.

EVAN DAVIES.

Yr wyf finnau yn tystio fod yr hanes uchod yn wirionedd. Yr oeddwn yn un yn gweithio gydag E. D. Gwelais ef yn y tân, dilynais ef o'r gwaith i'r ty, a mayfi a roddais yr olew llosg tân arno gyntaf. Yr oeddwn yno tra yr eneiniodd Mr. Howells ef, ac y gweddiodd drosto, a'm llygaid i a'i gwelsant yn codi o'r gwellt yn y fan, a'm clustiau a'i clywsant ef yn dweyd ei fod ef yn hollol iach, ac yr oedd yn moli Duw am ei iachad, ac yn gweddio yn y cwrdd a fu yn y ty wedi hyn. Credais i ei fod yn iach; clywais ef yn dweyd ei fod ar fedr dychwelyd i'r gwaith; ac wedi myned allan drwy'r gymydogæth, a'i adael ef yn iach yn y ty. dywedais wrth hawb a'm holasant ei fod ef wedi gwella, ac y byddai yn y gwaith fel arferol dydd Llun, a'r achos na ddaeth oedd yr hyn a ddywedodd efe ei hun. Y mae fy nhystiolaeth i yn wirionedd, serch i rai fy ammau; ac er nad wyf yn un o'r Seintiau, nac yn credu eu crefydd, etto tystiaf y gwirionedd o'r mwyn y rhai a ddymunant wybod y gwir o'r hanes rhyfedd hwn. Ydwyf, &c.,

DAVID MORRIS.

Y mae amryw hynodion yn yr hanes uchod a deilyngant sylw megys;—

1. Profa yn ddigon amlwg na chreda ddynion gwyrthiau yn awr mwyn gan yn oes yr apostolion, serch iddynt eu gweled: a'u llygaid eu hunain, yr hyn a wrthbrofa y cyfeiliornad poblogaidd a ddywed "mai argyhoeddi anghredinwyr yw dyben gwyrthiau:" a dengys y ffolineb o geisio arwydd i heri i neb gredu, canys hollol groes yw y ffaith yma, fel mewn cannoedd o amgylchiadau gwyrthiol ereill a ellid nodi yn mys y Saint, hyd yn nod yn Nghymru. Er hyn, *ni chredant felly*. Ond pan fethant wadu y ffaith yn hollol, gwell ganddynt roddi yr holl egoniant i ddiabol nag i Dduw, yr hyn a brawf yn amlwg ddigon plant i ba un o'r ddau dynt.

2. Y mae yr hanes uchod yn dangos oyrweiarwydd y diafol i geisio dallu dynion, ac i ddirmygu plant Duw; ac y mae y gwir o'r peth yn rhy anhygoel braidd gan y byd ei gredu.

3. Profa eirwiredd Iesu Grist pan y dywed, "Yn ol dy ffydd bydded i ti." Pwy na wel yma yr anghenrheidrwydd anhøgorol ag sydd am ffydd yn mhob creadur rhesymol, er teilyngu bendithion gwyrthiol gan Dduw? Hefyd, dywed yr ysgrhythyr, "Heb ffydd amhosibl yr rhyngu bodd Duw."

4. Gwyliwch chwi Saint, rhag i'r diafol eich temtio chwithau trwy y cyffelyb anghrediniaeth, a dwyn y fendith oddiarnoeh; oherwydd, oni all eich rhwystro i'w derbyn, ni fydd yn ol o geisio, trwy bob dichell, ei lladrata oddiarnoeh wed'yn; a pho fwyaf y fendith, mwyaf ei demtasiynau yntau.

5. Gwelir y ffolineb, y golled, a'r gwarth mawr, a achosa gwrandoar, a chreda ein gelynyon profsedig, a'u hæriadau anwireddus. "Oddiwrth y cyfryw trowch ymaith eich clustiau."

6. Dysged y Saint brofiad ac amynedd oddiwrth hyn, i ddyoddef holl gelwyddau eu gelynyon yn ddigyffro, gan edrych yn mlaen yn ffyddiog at y frawdle lle y caiff hyd yn nod "*Seintiau*" y gwir, yr hyn sydd ofer iddynt ei ddysgwyl yn un man arall.

7. Gwelir mai po fwyaf a wela plant y diafol o allu Duw o flaen eu

llygaid, trwy nerthol weithrediad yr Ysbryd Glân, mwyaf oll yr ymgynddeiriogant i'w erbyn, yn gyffelyb i weision haerllucaf Beelzebub gynt, y rhai, po fwyaf a welent o allu Duw trwy ei Fab, a waeddent yn ei wyneb,—“Y mae cythraul ganddo!” “Mae fydd yn dyfod trwy glywed,” ac nid trwy weled, ar eirwiredd Paul. Y glust yw y eiffrwng, ac nid y llygaid—y gair sydd i'w gredu yn argyhoeddiadol, ac nid gwyrthiau; canys “nid ydym ni yn rhodio wrth olwg, ond wrth fydd,” fel ag yr hyfforddia yr holl ysgrythyr. Bydded genym fydd ddigonol i dderbyn ac i ddala gafael ar bob bendithion tymhorol ac ysbrydol ag a fyddo yn anghen arnom.—GOL.

LLYTHYR HENURIAD ABEL EVANS.

Ffestiniog, Ebrill 24ain, 1848.

ANWYL FRAWD JONES,—

Y newyddion goreu sydd genyf i'ch hybysu drwy y llythyr hwn, yw fod rhyw gyffro yn dechreu drwy'r gogledd, a'r bobl yn gyffredinol yn gwranddo, a rhai yn ufyddhau hefyd.

Daeth Mr. Parry, o Lerpwl, gyda fi i Mostyn i weithio, ac y mae efe a'i feibion am ddyfod i Gymru etto i fyw ar fyr, i weithio a phregethu. Bedyddiais wyth yr wythnos o flaen y ddiweddar, yn agos i Newmarket. Gwr a gwraig y *Light House, Point of Air*, a 5 o Newmarket, ac un o Llansaint, a John Parry yn llywydd arnynt oll yno. Darfu i Mr. Davies, gweinidog yr Annibynwyr yno, dreio gwneuthur ymranid yn nheulu John Williams, Coachmaker, trwy fyned yno i ddweyd fod y Saint yn dyfod yno i fwyta bwyd ei blant; ond cafodd sen *didy* am hynny gan y gwr a'r wraig. Aethum i Rhosllanerchrugog dydd Mercher diweddar, ac yr oedd Mr. Jones, (un o Liverpool,) gweinidog y Wesleyaid, wedi bod yn areithio yn erbyn y Saint nos Fawrth; ond yr oedd yn rhaid talu chwecheiniog am ddyfod i wrando. Dygwyddodd Robert Evans fod yno y noson hono, ac aeth i wrando ar y ddarlith trwy dalu chwecheiniog; gofynodd i'r cadeirydd aaniatad i adolygu y ddarlith, yr byn a gafodd; ond rhwystrwyd ef cyn hir, oherwydd ei fod yn ennill dylanwad ar y bobl i weled celwyddau y ddarlith. - Ar ol cael ei rwystro, cyhoeddodd y byddai nos Fercher yn ei hadolygu yn gyflawn a mawr, bryd y daeth cannoedd i wrando, ac efe a ddaraiodd darlith Mr. Jones yn chwilfrw.

Bedyddiwyd saith o'r Cefnmawr yr wythnos o'r blaen, a rhoddodd pump addewid i mi dydd Gwener i gael eu bedyddio yn gyhoeddus heddyw, sef dydd Lluu y pasg: felly, y mae ar dân tua'r Rhos a'r Cefn. Yr ydwyf ar fy nhaith yn awr i ymofyn y *Prophwydi*. Danfonaf llythyr etto ar ddiwedd y mis, yn cyunwys hanes cyflawnach. Y mae eisieu pregethwyr yn arw iawn yn Bethesda, Sir Gaernarfon. Y mae y Saint yn gadarn yn y fydd, ac yn wresog yn yr ysbryd, yn ddi-eithriad braidd drwy y Gogledd, ac yn mwynhau doniau yr Ysbryd Glân. Byddwch wrych, a chofiwch fi at yr holl Saint yna. Ydwyf, eich brawd yn y cyfammod newydd,

ABEL EVANS.

Cawsom amryw lythrau oddiwrth y brawd ffyddlon hwn o'r blaen yn ddiweddar yn arddangos bedyddiadau mewn amryw fanau ereill. Da genym glywed am eu llwyddiant a'u ffyddlondeb, a bod yr un Ysbryd ag sydd yn lloeni calonau Saint y Deheudir, yn tywys ac yn arwain Saint y Gogledd i undeb y ffydd hefyd.

Saint hynaws, na ddigalonwch oherwydd fod offeiriaid Babilon fawr yn rhegu eich crefydd. Ni wna eu rhegfeydd, na'r oll a allant ddarlithio a chyhoeddi yn y Gogledd yna ddim niwed i chwi, na rhwystr i lwyddiant eich crefydd, mwy nag y gwnaeth yr oll a allant wneyd a dweyd ar hyd y parthau hyn; a sicr y'm na ddichon iddynt ddweyd dim a rwystra bobl resymol i ufyddhau i'r efengyl; ac ni fyddai y rhai a gredant eu chwedlau ffol hwy yn nemawr o lesâd i chwi, nac o ogoniaut i Dduw, pe deuent atoch. Rhaid casglu yr efrau allan o blith y gwenith gyda'r fath wintyllau a hyn. Nid yw y celwyddau a draetha ein herlidwyr i'n herbyn yn ddigon o eagusawd i un perchen rheswm dros wrthod ein cenadwri; oherwydd pe deuent yn ostyngedig i ufyddhau i ammodau yr efengyl, profai ein Duw iddynt tuhwnt i bob dadl mai camgybuddiadau disaill yw y cyfan. Pa reswm eu credu, ynte? Pa ddefnydd ymroi llawer i'w gwrthbrofi ychwaith, gan y gwnâ Duw hyn drosom, ac yn llawer eglurach na nynt;

Ymgalonogwn yn ngwyneb y cyfan ynte; ac fel yn y cythrwf uchod yn y Rhos, felly yn mhob man arall, gwnant les i'r gwir drwy dynu aylw dynion ato, ac yna i'w goffeidio. Gwir yw fod pob peth, yn eawedig y cyfryw ddarlithoedd, yn cydweithio er daioni a llwydiant *Mormoniqeth*. Darlithant, ysgyrnygant, cablant, gwaëddant a bloeddiant, haerant a chwâlant, a fynont, mae genym ni fwy o'n plaid nag yn ein herbyn, sef Duw, er hyll foedd yr holl feiddiaid. Pangau angenol eu duwies fawr hwy yw yr oernadau hyn, sef y darlithio a'r cyffelyb bethau sydd yn erbyn y Saint.—Gol.

ANERCHIAD "PROPHWYD Y JUBILI."

Prophwyd y Jubil gwilia:—rhy galed

I'r golwg dy redfa;
A'th anian, yn iaith Noa,
Elfydd pe bai'n hwyr-ddydd ha'.

Maga ryw wag ddych'myigion;—nid gair Duw,

Ond gwyrath amcanion;
A bloeddia ryw gableddion,
Cei fawr fri o Fenni i Fôn.

Apwyntio at bethau pendant,—y Beibl,

I'r hobloedd sy'n siomiant;
Oe myni gael oes mwyniant,
Gochel son am gylch y Sant.

Cu iaith Matthew a Marc weithian;—a Lue,

Drwy lw, megys Iouan,

PROPHWYD Y JUBILI.

Law-law *fyn* efengyl lân
Hollawl fel daeth hi allan.

'G addaw 'rol yr apostolion,—i bawb,
Drwy'r byd, o'i hufyddion,
Dderbyn doniau—hawliau hon,
I raddau o *arwyddion*.

CETHLYDD Y DON.

* FENNILLION D. JAMES, VICTORIA.

M. N.

8 a 7.

CLYWAIS lais telynau'r nefoedd,
Yn dadseinio uwch y nen,—
“O am nerth i gofio beunydd
Am y gwr fu ar y pren.”
Mae'n llawn bryd i ni ymddeffro,
Ac i beidio llwfrhau,
Can's mae'r Iesu'n d'wedyd wrthym
Fod yr amser yn nesâu.

M. N.

7 a 6.

Fe ddaw fy anwyl Iesu,
Dan ganu' gwrdd ei Saint;
Fe wawria'r hyfryd foreu,
A mawr iawn fydd ein baint.
Fe gân yr aur delynau,
I fyny uwch y nen;
Ac yna haleliwia,
A ganaf byth, Amen.

Y SANT ALBAN O'B CARCHAR, A'E AMDDIFFYNIAD.

Ynys-y-bont, Mawrth 25ain, 1848.

FIN HANWYL FRAWD JONES,—

Yr ydym gyda llawenydd yn eich hysbysu ein bod wedi dyfod hyd yma yn llwyddiannus. Pan ar y ffordd, hysbyswyd ni gan weinidog cyfrifol ei fod ef wedi clywed gan ddynion geirwir fod Thomas Harris wedi bod yn ddyn meddw, ysgafn, cewyddog, ac annuwiol, yn Aberaeron, Llanddewi Aberarth, Cribyn, Talsarn, &c. Achosodd hyny lawer o ofid i mi, W. Evans, a gosodais ar Thomas Harris yn galed i ddweyd y gwir, ac yr oedd efe yn tystio nad oedd yn euog o'r fath beth. Yna penderfynasom fyned i'r manau hyny i gael gwybod ai gwir y cyhuddiadau hyny. Y Cribyn oedd y lle cyntaf yr aethom iddo. Gofynais i, W. Evans, i'r bobl pa fodd yr ymddygodd T. Harris pan oedd yn dyfod i bregethu yno? yr ateb oedd gan bawb, na welsant neb yn fwy gweddus yn mhob dull na Thomas Harris, ac na ehlywsant gan neb ei fod yn ddyn meddw, &c., ac nad oedd y bobl yn credu ei fod wedi dwyn y llyfr yn wirfoddol. Ni ddaeth un tyst i'w

erbyn yma, ond yr oedd llawer yn awyddus am ei glywed yn pregethu yn fuan etto. Wedi hyny aethom i Landdewi-Aberarth, lle yr oedd perchenog y llyfr cyfeiriedig yn byw. Dywedasom wrth y hobl yn fuan pa beth oedd ein neges, ac yna hwy a aethant â'r newydd i'r pentref yn y fan, lle y daeth y hobl ynghyd yn llawen i weled Thomas Harris; ond nid oedd neb yn fwy llawen na Mr. Davies, perchenog y llyfr, yn rhoddi ei law yn serchog i T. H., gan gyfaddef yn ngwydd y dorf yn y geiriau hyn,—“Ni chredais i erioed, Harries bach, eich bod wedi dwyn y llyfr yn wirfoddol; ac nad faint o ofid sydd wedi bod arnoch chwi, gallaf ddweyd nad oes fwy nag sydd wedi bod arnom ni fel teulu, oherwydd yr amgylchiad.” Yna rhoddodd Thomas Harris adroddiad o'r modd y cafodd y llyfr yn ei logell heb wybod pa fodd y daeth yno. Cyffesodd hefyd ei fai am esgeuluso dychwelyd y llyfr yn y fan ei hun, yn lle ymddiried i arall wneyd hyny, pryd yr oedd y dagrau yn treiglo dros ruddiau Mr. Davies, perchenog y llyfr, o gydymdeimlad.

Yna sefais i, W. Evans, i fyny, gan ymdrechu dangos i'r dyrfa rai o egwyddorion y Saint, a chymmeriad da T. H. pan gyda'r Annibynwyr, ac wedi ei ddyfodiad at y Saint, hyd amgylchiad dygiad y llyfr; ar ol hyny cyfododd T. H. i fyny drachefn, a gofnodd a oedd yno rywun allasai ddweyd ei fod wedi gweled rhyw ymddygiad anaddas ynddo ef pan oedd efe yn pregethu yn yr ardal? Yr ateb oedd, nad oedd neb, hyd ddygiad y llyfr. Gofynais i, W. E., i berchen y llyfr, a oedd efe wedi gweled ryw argoel o ddyn meddw, celwyddog, &c., ar T. H.? a dywedais fy mod wedi clywed hyny gan weinidog perthynol i'r Annibynwyr. Atehodd Mr. Davies nad oedd dim o'r fath beth. Wed'y'n aethom i Aberaeron, a rhoddasom chwecheiniog i'r *crier* am fyned oddiamgylch i'r dref i gyhoeddi cwrdd. Daeth yno ugeiniau o hobl ynghyd, yn mhlith pa rai yr oedd y *policeman* hwnw a'm cymmerodd i fyny, ac yn wawdus iawn; er hyny parhaodd y cyffredin i wrando yn aobr. Aethom yn mlaen yr un modd ag yn Llanddewi; ond nid oedd neb a allasai ddweyd yno yn ngwyneb Thomas Harris ei fod yn euog o'r cymmeriad a soniwyd uchod, er eu cymhell i ateb; ond cafwyd tystiolaethau hollol groes gan y *policeman*, a phobl y ty lle y buom yn llesta. Ar ein gwaith yn terfynu, daeth dyn atom, a gofnodd pa byd y deuem i bregethu i'w dy ef, yr hwn oedd oddeutu tair milldir oddiyno? Yr oeddy'n yn Llanybythyr nos Ion, pryd y cefais i, T. H., fy lle yn ol yn yr eglwys, a phenderfynaf bellach, hyd eithaf fy ngalhi, i beidio gadael lle i elynion y gwirionedd gablu. Yr Arglwydd grasol a roddo i ni nerth, ac a baro fod y brofedigaeth hon er daioni i garwyr y gwir, yw gweddi eich annheilwng frodyr,

WILLIAM EVANS,
THOMAS HARRIS.

Wedi i Thomas Harris ddod yn rhydd o'r carchar, bu arholiad ar ei fater drachefn o flaen Pwyllgor Cynnadledd Morganwg, lle y caniatwyd yn unfrydol iddo gael aelodaeth eglwysig, ar yr ammodau o fod iddo fyned drwy y cvlchoedd lle y buasai yn pregethu pan y cymmerodd yr anffawd anghysurus le, ac hysbysu yno, er symud y rhwystr o ffordd y gonest ei galon, y gwirionedd o'r holl amgylchiadau cyfeiriedig. Ar yr arholiad daeth ychwaneg o dystiolaethau cadarnhaol i'r

hanes a gyhoeddasom eisoes yn y *Prophwyd* am y peth hyn, ac yn dddangos yn eglurach fyth nad oedd bwriad gan T. H. i ladrata y llyfr hwn; a phan ddeallir fod y dyn y cyfeirir, ato yn yr hanes blaenorol wedi dyfod i'r ty lle y colwyd y llyfr yn bwrpasol i wrthwynebu T. H. yn pregethu, ac iddo gyndyn ddadlu ar ol y cwrdd ag ef,—ddarfod i'r un dyn ddyfod yno boreu dranoeth, ac yn gyntaf un ynganu gair am y llyfr, i atw sylw tylwyth y ty ato,—iddo ddweyd y gwarantai fod y Sant wedi ei ddwyn, ac yna rhedeg i ymofyn y *policeman* heb i neb geisio ganddo, a llawer o drics drwgdybus ereill a ddeuant i'r goled gan bwyll, deallir yn amlycach etto, meddwn, mai un o ddichellion plant y fall oedd yr holl gyfan, a hyny, er gwarthruddo a dno gwirioneddau dwyfol nad allent eu gwrthbrofi. Etto, yr hwn a gloddia ffos i arall a gwympa iddi ei hunan. Pe na bai un prawf arall o ddwyfol darddiad, ein crefydd, meddylid bod undeb plant y byd hwn i gynllunio drwg, ac i erlid y Saint, yn ddigon o brawf i bob dyn call; a phrofa Golygyddion Sectaraidd ac enllibus ein gwlad, eu bod hwythau o'r un chwaeth, trwy gyhoeddi pob chwedlau am y Saint, ac nid yn unig cyhoeddi y gwir o'r peth, ond celwyddau noeth, a'r rhai hyny yn groes i'w gilydd yn aml! Er enghraifft, sylwer ar y *Bedyddiwr* brwnt, a'i "grafu enw ymaith," "cyfaddef iddo ei ladrata," &c., &c., pan nad oes sill o wir ynddynt.

CYNNADLEDD MŶNWCY.

CYNNALIWCYD y Gynnadledd hon yn Nant-y-glo, Ebrill 2, 1848. Dechreuwyd y cyfarfod boreuol drwy ganu, a gweddiodd yr henuriad T. Pugh. Yna anerchodd Capt. Jones y dyrfa luosog oedd wedi ymgynull, gan amlygu dybenion y cyfarfod, a'r apghenheidrwydd o undeb a chariad yn eglwys Iesu Grist, a'r dedwyddwch oedd yn deilliaw trwy hyny. Yna cynnygiodd yr henuriad W. Phillips i lywyddu y Gymmanfa, yr hyn a gymmeradwywyd yn unfrydol; a chynnygiodd D. Jones, Penycae, i fod yn ysgrifenydd, yr hyn hefyd a gymmeradwywyd. Wed'yn anerchodd Capt. Jones y dyrfa yn Saesonaeg, gan ddangos yr un dyledswyddau i'r brodyr a'r chworydd Saesonaeg. Yna galwodd y llywydd ar gynnrychiolwyr y gwahanol ganghenau i roddi y cyfrifon o honynt, a chafwyd hwynt oll fel y canlyn:—

	hen.	off.	dyg.	diac.	bed.	ael.	cyf.	
Nant-y-glo..	6	4	4	2	23	49	65	T. Giles
Pen-y-cae..	2	4	2	2	12	23	33	D. Jones
Coed-duon..		1	1		1	16	18	D. Lewis
Tredegar....	1	3	2	1	11		27	W. Evans
Cwmcelyn..		2	2	1	9	27	32	T. Giles
Abersychan..	2	7	5	2	65	82	98	J. Jones
Blaenafon..	2	2			2		10	W. Lewis
Victoria....	3	5	3	1	50		66	J. James
Cyfanswm..	16	28	19	9	173		349	
Y Gym. Ddiw.	12	25	18	8			209	
Cyunydd....	4	3	1	1	173		140	

Hysb yai y cynnrychiolwyr fod y canghenau oll mewn sefyllfa dda, ac mew narwyddion o gynnydd mawr, nid yn unig mewn lluosogiad, ond hefyd yn mhob doniau, cariad, ffyddlondeb, ac undeb, ac nad oedd nemawr eithriad drwy'r gynnadledd.

Am hanner awr wedi dau o'r gloch, dechreuodd cyfarfod y Saint drwy gau, a gweddiodd D. Jones, Penycæ. Yna anerchodd y llywydd y cyfarfod yn fyr a bywiog: a dilynwyd ef gan Capt. Jones, yn fywiog a nerthol ar egwyddorion ac ordmhadau crefydd.

Cadarnhawyd yti. Yna cyfranogwyd o Swper yr Arglwydd. Wedi hyn galwyd wyth o henuriaid, un offeiriad, pedwar o ddysgawdwr, a dau o didiaoniaid.

Yna dangosodd Capt. Jones yr anghenrheidrwydd o gynnulliad y Saint i Seion, yn Gymraeg a Saesonaeg, a phrofodd yn eglur fod yr egwyddor ardderchog o ymgasgliad y Saint ynghyd i Seion, yn gynnwysedig yn iachawdwriaeth Duw i'w blant, yn unol ag amcan Duw drwy ei holl oruchwybiaethau blaenorol, ac yn cyflymu yn mlaen yn rhyfedd yn yr oes hon, er gwaethaf y byd a'r diafol i'w gwrthsefyll. Dangosodd hefyd yn eglur, ac er llawenydd i'r holl Saint, na fydd i dylodi neb eu hamddifadu o'r waredigaeth hon, os byddant yn ffyddlon yn y cyflawniad o'u dyledswyddau yma—y trefna eu Tad nefol eu ffyrdd o'u blaen—ac y bydd i'r Hwn a ddechrenodd ynoch y gwaith da hwn ei orphen hefyd hyd ddyfodiad Iesu Grist. Llauer o gynghorion ac addysgiadau llesiol ereill a gawsom gan Capt. Jones a'r brodyr yn y cyfarfod hyfryd hwn, y rhai a fyddent yn rhy faith i'w hysgrifenu yn awr; a meddyliwn, oddiwrt h yr argoelion o astudrwydd a sirioldeb oedd i'w gweled ar y gwrandawwyr, eu bod fel y diliau mel i'w calonau hwythau, ac y dygant ffrwyth ar ol llauer o ddyddiau.

Yn y cyfarfod hwyrol, pregethodd yr henuriaid W. Phillips, T. Pugh, W. Davies, Rymny, yn Gymraeg, a Capt. Jones yn Saesonaeg: a thersynodd y Gymmanfa hyfryd hon hefyd wedi gwneyd lles mawr i'r Saint, a dileu llawer o'r rhagfarn a gressai chwedleu maleisus yn nghalonau ein cymmydogion yn ein herbyn ni a'n crefydd ddwyfol. Yr oedd Neuadd fawr y *Grayhound* yn Ned lawn o wrandawwyr boneddigaidd drwy'r Gymmanfa, serch fod llauer o rybuddio wedi bod ar broffeswyr i beidio dod i'n gwrando er dim; er hyn, i'n gwrando y daeth y rhai gonest eu calon; a mawr y rhyfeddent oherwydd y camgyhuddiadau a glywsent arnom. Y Duw doeth a da a ddrillio rwybau traddodiadol ein cyd-ddynion hynaws ar frys, fel y delont yn wir ddeiliaid yn eglwys Iesu Grist, yw'm gweddi barhaus.

DAVID JONES, *Ysgrifenydd.*

D. S.—Cyhoeddwyd y Gymmanfa uchod yn y *Prophwyd* i gael ei chynnal ar y Sul diweddfaf o fis Ebrill. Bu y camsyniad drwy i lywydd y Gymmanfa gamddeall yr amser, a darparu at y Gymmanfa cyn i'r *Prophwyd* ddod oddiamgylch, ac ni wyddem ni am y camsyniad nes yr oedd yn rhy ddiweddar i'w adgyweirio; a rhag siomi cynnifer, barnwyd yn ddoethach i'w chynnal ar yr amser uchod. Ond rhag dygwydd un camsyniad etto o barthed i amser unrhyw Gymmanfa, crafter ar y *Prophwyd*, canys dyweda efe y gwir, a rhybyddia bawb yn ddigon prydlon hefyd, oddieithr bod rhyw achosion neillduol yn galw yn ddi-

symwth y pryd hyny; ac am y cyfryw bethau, gofelir hysbysu y llyw-
yddion drwy lythrau.

Dityrus iawn yw genym gyhoeddi cyfrifon y Gynnadledd hon o flaen
ein darllenwyr; a diolchwn i'r Hwn a bia y gwaith dwyfol hwn am y
cynnydd anarferol ag a ddyry arno drwy ein gwlad. Mae y *gaubro-
phocydi* yn ddiwyd iawn i floeddio o'u pwlpu dau, &c., fod y Saint yn
darfod yma, ac yn diflanu draw, etto cynnyddu y maent po fwyaf eu
herlidir, a chynnyddu a lluosogi a wnant er gwaethaf pawb a phob peth
a'u gwrthwynebo, nes dwyn yr holl rai gonest eu calon o blith pob
plaid a diblaid i mewn i deyrnas Dduw, a'u gwaredu oll yn Seion yn
fuddugoliaethus. Prysured y cyfnod dedwydd pryd ag y gwelir holl
blant Seion wedi dyfod allan o'r cystudd mawr, ac wedi cyrhaedd ty
eu Tad i fwynhau golud y ddaear, a bendithion y nefoedd.—GOL.

BETH A WNEIR I OLYGYDD SEREN GOMER?

At y Parch. Daniel Jones, Felinfoel.

BARCH. SYR.—Gan fod eich parchedig frawd o Ddowlais yn eich ys-
tyried chwi yn weinidog profiadol, a'r un mwyaf cynhwys i ddweyd
pa beth sydd oreu i wneyd i'r "SATANIAID," pan ddebant i ymfyn eu
lleoedd gyda'r Bedyddwyr; yr wyf finnau yn meddwl mai chwi a all
roi atebiad oreu i'r gofyniad, Beth a wneir i Olygydd *Seren Gomer*?

Efallai eich bod am wybod erbyn hyn pa beth sydd wedi dygwydd
iddo. Ow! galarus yw adrodd, y mae wedi ei ysgymuno allan o eg-
lwys y Bedyddwyr yn Nghaerfyrddin; i.e. Golygydd y *Seren* wedi ei
ysgymuno! Nis gwn yn iawn pa beth oedd yr achos o hyn. Ni fu la-
wer yn ol i'r penaf, i wrthwynebu y Sataniaid; agorodd y *Seren* yn
eithaf parod i ysgrifau y Parch. W. R. Davies; a pheth allai fod ei
drosedd? Ond nid hyny yw y pwnc;—Y mae efe wedi ei esgymuno!
a pha beth a wneir iddo, tybied? Er mwyn ei enaid, druan, fe ddylai
gael rhyw grefydd etto; ond pa un, yw y cwestiwn. Gan mai crefydd
y Sataniaid yw yr un agosaf at y Bedyddwyr, a allai efe gael ei le gyd
a'r rheiny, wyddis? Ond y peth gwaethaf yw, fod amryw o'r Satan-
iaid yn Iforiaid hefyd; ac fe ddichon na fyddant yn foddlon iddo—y
byddant am ei droedio allan! Pam? A fu yr Iforiaid yn troedio y
Golygydd allan pan yr oedd efe yn eu cyfrinfa? Yr Iforiaid sydd yn
gwybod; gofynyr iddynt hwy. Os nad yw y Sataniaid o natur fadd-
eugar, nid yw yn debyg y derbyniant ef, oherwydd iddo eu herlid mor
fynych yn y *Seren*. Ond pa les siarad fel hyn? canys y mae y Satan-
iaid yn "fuan iawn" i ddyfod i ymfyn eu lle gyda'r Bedyddwyr; o
ganlyniad, pa les i'r Golygydd fyddai ymuno â'r Sataniaid, ac yna gael
ei ystyried yn annheilwng i'w gyf-dderbyn yn ol gyda'r Sataniaid?
Wel, y gofyniad ynte yw, Pe beth a wneir i'r Golygydd? Hyny yr
wyf am gael gwybod genych. A oes dim rhyw sect yn is na'r Bedydd-
wyr a'r Sataniaid? Gadewch lonydd i ofyniadau y Parch. W. R.
Davies ynghylch y Sataniaid, a dewch at gwestiwn mwy pwysig, sef,
"Beth a wneir i Olygydd *Seren Gomer*? Atebiad buan a foddha am-
ryw o gyfeillion calon yr ysgymunedig.

Troisant Sam gam ysgymun

Oddi ei le'n lled ddllun!

Yr eiddoch, Barch. Syr, BENJAMIN JONES, *Caerfyrddin*.

HYNT YR EGLWYSI A'R BEDYDDIADAU.

MERTHYR.—Bedyddiwyd yma tua chant er y Gymmanfa ddiweddf, yr hon a gynnalwyd ar Nadolig, pa rai a wnant rifedi presennol y ganghen hon dros saith gant o Saint fyddlon a phenderfynol, a gwell gobeithion am luosogiad nag erioed; er hyny ychydig, llai, lleiaf, darfod, a diflanu, y mae y Saint o hyd, ebe y gaubrophwydi! “Ychydig bach o wehilion yn ymuno, a llawer o'r rhai mwyaf cyfrifol yn eu gadael,” yw rhigwn Mr. Davies o Ddowlais, a'i bartneriaid erlidgar o hyd! Etto, trueni fyddai eu hamddifadu hwythau, druan, o'r unig bleser ag sydd ganddynt, sef erlid plant Duw. Y mae y mwy-rif o'r rhai uchod wedi bod yn aelodau ffyddlon gydag enwadau ereill y lle, a mawr y Hawenydd sydd ganddynt, eu bod wedi cael y fraint o'r diwedd o gael aelodaeth yn ngwir eglwys Iesu Grist, a chael o ddyddanwch yr Ysbryd Glân.

DOWLAIS.—Bedyddiwyd 24 yma er y Gymmanfa ddiweddf; a degau gyda hyny er yr amser ag y bu Mr. R. o Rymny yno “yn lladd Mormoniaeth,” ac er yr amser y dywedodd ei dadmaeth ei bod hi eisoes “wedi myned yn felldith ac yn rheg, ac wedi cael yr *home stroke*, &c. Pa fodd y dengys y gaubrophwydi hyn eu gwynebau o flaen y cyhoedd yn awr, pan y mae eu hynfydrwydd a'u celwyddau yn dod mor amlwg i bawb, sydd yn destyn syndod i bod dyn a wyr beth yw cywilydd. Etto, yn mhlith yr uchod yr oedd un ag oedd yn gyflawn aelod gyda Mr. Davies ei hun, ac wedi bod yn ddifrycheulyd am yn agos i naw mlynedd. Felly fe wel Mr. Davies, os coelia ei lygaid ei hun, nad yw Mormoniaeth wedi cael yr *homestroke* hyd yn hyn, na dim yn debyg. Chwi benau teuluoedd, os oes arnoch eisieu heddwch yn eich teuluoedd, cadwch y fath chwedleuwyr maleisus ag erlidwyr y Saint o'ch tai, onide ofer fydd eich ymdrechadau oll, i'e, mor ofer ag a fyddai cario tân yn eich mynwes heb gredu y llosgwch. Mae y ganghen hon yn flodeuog, er yr holl rwystrau masnaehol a fu ar eu ffordd, ac y maent yn mawr lawenhau yn y mwynhad helaeth o amrywiol ddoniau yr Ysbryd Glân, yn o'r yr ysgrhythrau, ac yn gyferbyniol i'w ffyddlondeb.

RYMNY.—Aeth yr henuriad W. Howells, Aberdare, drwodd i Rymny un Sul yn ddiweddar, i bregethu am y tro cyntaf er pan y gadawodd efe bregethu gyda'r Bedyddwyr, a'r canlyniad a fu, ddarfod iddo yn ystod yr ychydig oriau ag y bu yno, fedyddio pedwar o dan drwyn prif gampwr ein holl erlidwyr yn y fan lle triga, a'r fan lle y bu efe er's ychydig yn ol “yn lladd Mormoniaeth, ac yn ei chladdu dranoeth,” ebe efe. Ond druan o Mr. R.; nid ydyw wedi cyflawni ei addewid, a'i lladd, neu ynte pa fodd y gwnaeth y Saint un wrth o leiaf o dan ei drwyn, a thrwy hyny adgyfodi Mormoniaeth i well bywyd nag erioed! Pa un a addefir ganddo? Y mae yn profi ei hun, y naidl ffordd a'r llall, yn aubrophwyd dwl iawn, a methodig iawn hefyd. Er cael holl Saint Rymni i'w wrando yn pregethu pregeth angladdol eu crefydd, ni fedrodd godi cymmaint a dolur llygaid ar un o honynt; ond eu cadarnhau yn y wir fydd a wnaeth trwy ei holl chwedlau anwireddus. O'r ochr arall, pan aeth i Aberdare i'w lladd hi, am chwecheiniog yr un oddiwrth bob un a ddeuai i wrando, gorfododd rai o aelodau y Bedyddwyr, a'u gwrandawwyr, i gredu athrawiaeth y Saint. ac i gyffesu hyny boreu dranoeth ar ol ei ddarlith. Nid dyna y ffordd i ladd Mormoniaeth! Ond y mae ugeiniau yn y cylchoedd hyn yn diolch iddo am agoryd eu llygaid i ganfod y gwirionedd o Formoniaeth! Paham y mae efe eisoes wedi dilyn yr holl ser gwiblog ereill a fuont ar y maes o'i flaen i ymyl y ceugant? Mae ei elynes broffesedig ar y maes, a'i baneti yn chwifio yn fuddugoliaethus drwy Gymru. Ond y mae rhuad ei fagnelau ef wedi dystewi, oddieithr eu hadleisiad yn muriau ambell dwlc mochyn brwnt. A oes ganddo ddim un saeth arall? A ydyw ei gawell yn wag? Neu, A all efe ddim cynhyrfu rhyw un arall yn *gats paw*, i losgi ei bawneu fel yntau, yn lle bod pawb yn chwerrthin am ei ben ef. Gureu oll i ni, ac i'r cyhoedd, po fwyaf o'i gelwyddau a draetha, a gwnaed

a fyne; canys ni all efe, na neb arall, rwystro llwyddiant Mormoniaeth gymmairt ag wrth fod yn fud am dani. Bloeddied, uded, crechwened, darlithied, a chyhoeddied rywbeth, nad beth a fo; ond peidied a myn'd yn fud? Ni wyddis pa *champion* mawr arall a'i dilyna; canys nid yw efe ei huan wedi lladd dim ar Formoniaeth etto.

ABERTAWB.—Bedyddiwyd 18 er y Gymmanfa, a llawer yn derbyn doniau daionu'r Ysbryd Glân.

LLWYNI.—Bedyddiwyd 19, pa rai, er yr holl erlidigaeth a ddyoddefant, ydynt yn mawr lawenhau yn mreintiau eglwys Dduw.

LLANELLI.—Cwyna yr henuriad W. Hughes, draan, nad yw efe wedi bedyddio ond wyth a deugain er y Gymmanfa, ond fod y rhai hyny, ynghyd â'r Saint ereill, yn rhai iawn, ac yn awyddus am ddysegeidiaeth ddwyfol, yn lle tradodiadau dynol, a chibau gweigion. Ewch yn mlaer, Saint hynaws; y mae digon o'ch blaen, a lluoedd etto e bobl onest a'ch dilynant ar hyd yr yrfa ysbrydol hon tua Seion.

PONT YATES.—Ysgrifena yr henuriad H. Williams fod 35 wedi cael eu bedyddio yno er y Gymmanfa, ond fod dau o honynt wedi pechu wed'yn, a dwyn gwarth ar y grefydd ddwyfol hon. Galarus yw hyn etto; a sfolineb yw i'w cymnydogion ddirmygu y grefydd oherwydd troseddau o ddau eirheolau, pan y mae tystiolaethau a ffyddlondeb yr ugeiniau ereill yn groes iddynt hwy. Ni wna un perchen, rheswm farau felly.

CABEFYRDDIN.—Mae gwrandawriad lluosog rhagorol yn y cylchoedd hyn, a galw mawr iawn am bregethwyr; ac y mae gwaith da i'w gael ar y glodffordd newydd yno. Gobeithiwn yr aiff rhai yn fuan oddiyma i gynnorthwyo y chwaer fechan hon yn esbysa oewi Babilon fawr. Mae yr ychydig bregethwyr sydd yma yn ddiwyd iawn i bregeths, hyd y gallant; eithr ni allant hwy lanw ond un man ar unwaith. Mae pedwar wedi cael eu bedyddio yma er y Gymmanfa, a chynsraf toreithiog ar addfedu. Mae yr holl Saint yn bur ffyddlon hefyd; a chynnyddol ym mhob daioni.

LLANTRYDDAR.—Bedyddiwyd 9 yma ac yn y cylchoedd yn ddiweddar, a'r holl ganghen yn ymarddelwi yn gyflym ar ddelw, ac yn ol dysgeidiaeth ein ffyddlon frawd T. Jeremy. Cafodd ef a'i eiddo fwy-fwy o ddylanwadau Ysbryd y gwirionedd, yw eis gweddi, serch pob "Daniel Dywyll," a phob eoegddyn erlidgar arall.

BRECHFA.—Nid oes ond ychydig anser er pan y brefai hyd yn nod y geifr ar hyd ddannedd y creigiau megys, mewn dirmyg ar ein hol pan bregethem yno; ond diolch i'r Duw a'n danfonodd yno, y mae rhai ugeiniau o fobl gyfrifol y lle hwn, a'r ardaloedd, wedi cofseidio yr efengyl a bregethasom yno, ac y mae Duw wedi ei phrofi y wirionedd dwyfol iddynt. Mae Duw wedi bendithio llafur a diwydrwydd yr henuriad ffyddlon T. Jeremy yma hefyd, a'i frawd seilog D. Jeremy; ac ni raid i ni annog y Saint i wrando ar eu cynghorion, canys arweinia Ysbryd Duw hwy i wneyd hyny. Bedyddiwyd 16 yn ychwanegol yma yn ddiweddar. Mae hiraeth ar ein calon am weled y Saint ffyddlon yma, a thrwy Gymru, wyneb yn wyneb, canys nid yw papyr yn gyfrwng boddhaol i ni. Gadawn bethau ereill heb eu gwneyd am dipyn; fel y gallom foddio ein hun yn hyn hefyd cyn hir.

TREGARON.—Mae un o flaenoriaid y Calfiniaid wedi dod at y Saint yn ddiweddar, o gerllaw i Dregaron. Mae wedi cael yr henaduriaeth yn awr. Yr oedd yn pregethu yr efengyl yn seilog cyn i'w hen frodyr braidd ddeall nad eu blaenor hwy oedd ar y pryd. Mor gynted ag y clywsant ei dystiolaeth, sef ar fyd yn gwybod mai Saint y Dyddiau Diweddaff sydd blant i Dduw, &c., gorchymynasant i baw beidio a'i wrando dan benyd tost. Er hynny, bedyddiodd amryw o honynt yn fuan, nes y mae yno ganghen flodeuog yn awr. Mae yr henuriad B. Evans yn ddiwyd yn y cylchoedd hyn, ac wedi bedyddio rhai; ac y mae T. Harris yno, ac yn cael gwell derbyniad a

HWYDDIANT NA CHYN I'R DICHELLWYR DRWG HYN Y EI RWYDO I'R CARCHAR. Nid yw aur ond y^o puro yn y tân; felly yma.

ANERDAEN.---Bedyddiwyd 19 yma er y Gymmanfa, a'r mwyrif o honynt er pan fu Mr. Roberts o Rymny yno yn "lladd Mormoniaeth!" Mae y ganghen fechan hon yn fioddeug a ffyddlon iawn; ac hefyd y mae y newyddiaid yn y ffydd yn derbyn tystiolaethau cedyrn, a doniau yr Ysbryd Glân yn nerthol. Mae y folwst ar y bugeiliaid oherwydd colli eu praidd, ac o ganlyniad eu helw; a pho fwyaf diwyd y maent hwy i gerdded y tai i osod y gwragedd yn mhenau y gwyr, drwy draethu eu chwedlau celwyddog—po fwyaf y rhagant y Saint o'r pwlpudau, yr ymgynndeiriogant, ac y malant ewyn o gynddaredd at y Saint, mwyaf oll o'u hudoliaid sydd yn eu gadael, ac yn gweled y "blaidd" yn ysgrynniad eu dannedd. Mae yr henuriad ffyddlon, W. Howells, wedi bedyddio mwy o rifedi cyn bod yn hanner blwydd oed yn yr efengyl, nag a fedyddiodd ei holl erlidwyr mewn amryw flynyddau, ac ar y gost i'r werin o filoedd o bunnau.

CABEDYDD.---Mae yr henuriad W. Jenkins, ac ereill, yn ffyddlon iawn yma, ac wedi llwyddo i fedyddio 50 er y Gymmanfa. Mae yr holl Saint yma yn ffyddlon iawn, a chawsom lawenyddi mawr yn eu plith yn ddiweddar. Maent yn mwynhau y doniau ysbrydol yn helaeth. Daeth amryw i'r eglwys oddiwrth y Bedyddwyr, yn mhlith pa rai yr oedd un ag oedd wedi bod yn ddiagon am flynyddau, a diolcha i Dduw am y goleuni dwyfol a gafodd.

CWMRYCHAN.---Mae y stewardiaid sectyddol yma, a'r Bryn, wedi troi y Saint braidd oll o'u gwaith oherwydd eu crefydd; ac y mae yn druenns meddwl fod y rhai a broffesant sectariaeth waedlyd a chrenlon yn chwerrthin yn wawdus ac ymfroestgar, oherwydd achosi i ueginiau o'u cymmydogion, o wragedd, ac o blant bychain diniwed, ddyodde eisieu bwyd, heb un achos ond oherwydd fod eu cydwybodau yn eu gorffodi i addo; Duw yn ol yr ysgrhythrau, yn lle yn ol credoau croeshaeriadol Sectariaeth. Dyma'r fath duedd sydd mewn Calfniaeth waedlyd yn Nghymru tuag at Gymru yn yr oes hon, fel yn ei sefydlwr cyntaf, yr hwn oedd o'r chwaeth i losgi dynion wrth y stanciau! Nid oes dim diolch i'r rhai hyn am na allent losgi Saint Gwmrychan, a'r Bryn, yn yr un modd; canys y dyn a ormesa gydwybod ei gyd-ddyn, ac a ddiala arno yn y naŷ, ffordd am ei grefydd, diammau genyf, ond iddo gael caniatâd, y pentyrai y ffagoda i'w losgi. Er y cyfan, y mae y Saint yn benderfynol, ac amryw wedi cael eu bedyddio. Efallai y cawn hamdden i fanyla ar hyn etto, a nodi pwy yw y gorrhymwyr. Er cysn i'r dyoddefyddion, dywedwn gymmaint A hyn,---Eich Tad chwi ay'n dala awenau pob awdurdod; dyrcheffoch eich penau, a ayllwch ar iachawdwriaeth yr Arglwydd ar eich rhan; syllwch ar dyngied yr annuwiol. Yr Arglwydd a dal i'r gormeswyr ar eu eanfod, fel ag y byddo eich enwau chwi mewn anhydedd pan y bydd eu coffawdriaeth hwy yn dréu yn ffroenau polt dyngarwr a'i haroglo.

SIR BENFRO.---Mae yr henuriad J. Morris yn llwyddiannus yma, ac wedi bedyddio amryw yn ddiweddar, er gwaethaf yr holl erlidigaeth.

GOGLEDD.---Deallir sefyllfa ac ansawdd yr rglwysi drwy'r Gogledd, trwy lythyrau A. Evans, R. Griffiths, &c. Deallwn am Sir Fon, fod llwyddiant yno ar lafur R. K.

Bedyddiwyd llawer yn Sir Fynwy a Sir Henffordd y ddiweddar. Gwelir fod cynnydd y Saint yn dros gant yn y mis, ac yn fwy na thri am bob dydd, drwy y pedwar mis diweddar. Diolchwn i'r hwn a bia y gwaith, ac ymdrechwn am ychwaneg o hwyddiant etto yn yr amser dyfodol. Y Duw grasol a'i caniatâo.

* * * *Cyfarwydder llythyrau, wedi eu rhagdata, i CAPT. JONES, Wellington Street, Merthyr. Na ddysgwylter atebiad yn ol, os na fydd stamp yn y llythyr. Yr ydym wedi blino o'r diwedd yn talu postage dros bawb!*

HYSBYSIAD.**AT EIN DOSBARTHWR.**

CREFWN yn daer ar ein holl frodyr ffyddlon hyn i wneyd yr oll a allant i settlo eu holl gyfrifon am lyfrau erbyn y Gymmanfa nesaf, yr hon a gynnelir yn Merthyr tua chanol mis Gorphenhaf. Nodir y diwrnod etto mewn pryd. Mae genym lawer o resymau i'w rhoddi dros y cymbelliad taer hwn; megys, ein bod yn dibynu ar gymhorth yr arian hyny i dalu ein traul am yspaid, ac i'n eludo i wlad estronol yn mhell oddiyma, i gyflawni cenadiaeth ddwyfol a phwysig a ymddiriedwyd i ni; a chofied pwy bynag o'r Saint na thalo yr hyn sydd ddyledus arno erbyn y pryd hyny, ei fod yn rhwymo llyffethair am ein traed rhag cyflawni ein dyled i Dduw, ac i ddynion estronol ag ydynt yn gorwedd mewn tywyllwch. Mae tair rhan o bedair o'r arian a dalasom am argraffu llyfrau i'r Saint yn awr yn ddyledus i ni! Ac nad pa mor galed yw yr amser yn awr, mae yr arian sydd ar bob un yn unigol mor lleied, fel nad yw yn gofyn nemawr ymdrech i'w talu, ond iawn ystyr-ied yr eisieu o honynt. Gobeithiwn yr etyb y cymbelliad byr hwn y dyben i gael gan y Saint ein rhyddhau ninnau o hyn. Hefyd, y mae llvfr o faintioli yr EURGRAWN yn gofyn cryn arian i'w ddwyn drwy y Wasg. Mae y drydedd Ran o hono allan o'r Wasg, a'r bedwaredd a ddaw yn fuan. Ymdrechwn ei orphen yn y hummed, o'r un faintioli a'r ddwy a nodwyd. Ac yn awr, ymdrechwch i'w lledaenu, eu darllen, ac i dalu am danynt. Nid elwa, ond eich perffeithiad chwi yw ein dyben yn yr oll a wnawn.

At ein Gohebwy.—Crefwn amynedd ein Gohebwy am rifyn etto o'r *Prophwyd*. Un bach yw. Atebir J. B., T. H., &c., yn y nesaf.

CYNNWYSIAD.

Llythyr oddiwrth William Davies....	65	Y Sant allan o'r carchar, a'i ddiffyniad	72
Gwyrth Independiaidd	66	Cynnadledd Myrwy.....	74
Gwyrth ddeuplyg	67	Beth a wneir i Olygydd Seren Gomer?	76
Llythyr yr henuriad Abel Evans	70	Hysg yr eglwysi.....	77
Anerchiad "Prophwyd y Jubili"	71	Hysbysiadau	80
Pennillion D. James, Victoria	72		

MERTHYR-TYDFIL :

**CYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH
HEFYD GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL.**

ARGRAFFWYD GAN JOHN JONES, RHYDYBONT.

PROPHWYD Y JUBIL,

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 24.]

MEHEFIN, 1848.

[PRIS 2g.

AZARIAH SHADRACH YN FORMONIAD!

ANWYL FRAWD JONES,—

Un o'm prif ddybenion yn ysgrifenu y llythyr hwn atoch yw, er mwyn eich hysbysu am un prawf yn ychwanegol ag a gefais yn un o golofnau Azariah Shadrach o adferiad yr eglwys yn ol i'r cynllun apostolaidd trwy gysgodau, yr hyn y mae efe wedi ei ragweled yn eglur. Ei ddull ef o osod y drychfeddwl allan yw, trwy gymmeryd Zorobabel yn gysgod o Grist; a'r dull a'r modd yr adeiladwyd yr ail deml, yn gyfeiriad at adferiad yr eglwys i'r cynllun cyntefig. Dywed mai yn yr un dull, ac yn yr un modd yr adferasid yr eglwys yn ol i'r sefyllfa ogoneddus ag yr oedd hi yn y dechreu,—ie, i'r un sefyllfa ag y sefydlwyd hi hefyd gan Fab Duw ei hun; ac i'r un sefyllfa ag y mae yn rhaid iddi fod cyn y bydd hi byth yn eglwys i Dduw; ac i'r sefyllfa ag y mae yn rhaid iddi fod cyn y dichon dyn gael bywyd ynddi. Mewn gair, mae yn rhaid iddi fod etto fel y bu gynt, neu ynte ni ddichon dyn gael e berffeithio. Ond diolch i Dduw, y mae hi felly, ac wedi cael ei hadferyd yn ol ewyllys Duw, ac yn ei amser da ei hunan. Yr hyn y cyfeiriaf ato sydd fel y canlyn:—

“Yr oedd Zorobabel yn gysgod o Grist, Zech. iv, 9. Yn

“1. Yr oedd Zorobabel wedi ei ddewis a'i apwyntio gan Dduw i arwain Israel o Babilon i Ganaan: felly mae Crist wedi cael ei apwyntio i ddwyn y Saint yn ol o bob crwydriadau, eu gwaredu o bob caethiwed, a'u harwain i'r Ganaan nefol.

“2. Fe adeiladodd Zorobabel yr ail deml yn Jerusalem; ei ddwyllaw ef a'i sylfaenodd, a'iddwyllaw ef a'i gorphenodd: felly fe adeilada Crist ei eglwys, ac fe fydd yn sicr o ddwyn yr holl adeilad i ben, er mai trwy foddion gwael, a llawer o wrthwynebiadau. Yr oedd yr ail deml hefyd

F

[CYF. III.]

yn bortread-neillduo' o adferiad crefydd a'r eglwys yn y mil blynyddoedd yn ol y cynllun-apostolaidd.

"(1.) Fe gafodd y deml gyntaf ei llychwino, a'i thynu i lawr hefyd gan y Babiloniaid: felly fe gafodd y cynllun apostolaidd o grefydd ei llychwino gan y Pabyddion.

"(2.) Fe gafodd yr ail deml ei hadeiladu mewn amseroedd blinion: felly, mewn amseroedd blinion, y caiff yr eglwys ei hadferyd i'r cynllun apostolaidd.

"(3.) Fe gafodd yr ail deml ei hadeiladu gan y rhai a fuont yn hir iawn yn y caethiwed: felly fe gaiff yr eglwys ei hadferyd yn ol i'r cynllun apostolaidd gan y rhai a fu yn hir mewn caethiwed o ddynol ddychymmygion, a dynol draddodiadau.

"(4.) Yr oedd gan y rhai ag oeddynt yn adeiladu yr ail deml llawer o sorod i symud oddiar y ffordd: felly, fe fydd yn rhaid symud llawer o goelgrefyddau a gweddill Pabyddiaeth, a dynol ddychymmygion, oddiar y ffordd, cyn yr adferir yr eglwys i gynllun yr eglwys apostolaidd.

"(5.) Dynion tylodion a diystyrlyd yn ngolwg llawer o ddynion oedd y rhai oeddynt yn adeiladu yr ail deml: felly y bydd hi etto wrth adferyd crefydd i'r cynllun apostolaidd.

"(6.) Yr oedd llawer o ddynion yn farwaidd a difater iawn yn nghylch adeiladu yr ail deml, gan ddywedyd, 'Ni ddaeth yr amser etto:' felly y mae llawer etto yn nghylch adeiladu yr eglwys, a'i hadferyd yn ol i'r cynllun apostolaidd.

"(7.) Yr oedd llawer o wawdio ar y rhai hyny ag oeddynt yn adeiladu yr ail deml: felly, y mae llawer o wawdio ar y rhai sydd am adferyd yr eglwys i'r cynllun apostolaidd.

"(8.) Er fod llawer am rwystro Israel y pryd hyny i adeiladu yr ail deml; etto yn blaen yr aeth y gwaith, er iddo gael ei rwystro dros ychydig.

"(9.) Nid trwy sail-na gallu dynol yr aeth yr ail deml yn y blaen; ond trwy Ysbryd y Duw byw: felly, yr un modd yr adferir yr eglwys i'r cynllun apostolaidd. Duw a brysur o'r boreu pan elo Seion yn ben moliant ar y ddaear. A dywedwed yr holl bobl Amen."

Yr wyf yn hyderu y cyhoeddwrch yr uchod; ac efallai y bydd yn fuddiol er dangos i garwyr y gwir un prawf ychwanegol o adferiad yr eglwys.

Ydwyf, eich cyd-wasanaethwr yn Nghrist,

Nantyglo.

ABEDNEGO WILLIAMS.

CAMGYHUDDIADAU Y BEDYDDWYR AR Y SAINT ETTO!

MR. GOL.—Mae y *Bedyddiwr* enllibus wedi bod yn ddyfal iawn, er's blynyddau, fel y gwyddoch, ac fel y gwyr Cymru hefyd, i ddrwg-liwir, erlid, a chyhoeddi pob peth ond y gwir am y Saint mewn manau o'eill; ac o'r diwedd metha ei genfigen a'n gadael ninnau yn llonydd yn Pont Yates, a'r cylchoedd. Yn y rhifyn diweddaf o'r *Bedyddiwr*, geilw rhyw "Anthony Chwareu Teg" ei gyd-ddynion crefyddol yn "gethern dwyllodrus," &c., heb gynnyg dangos dim o'u twyll. Beth, a feddylir o'r fath gymmydog dideimlad? Ac etto, cyhudda y Saint o anwiredd, heb gynnyg un prawf o hyny ychwaith, yr hyn a brofi nad gwerthfawr ganddo ei eirwiredd ei hun. Dywed fod fod "y Saint yn dywedyd fod eglwys y Meinciau y rhan fwyaf, os nad oll, wedi dyfod atynt hwy."

Yn awr, Mr. "Anthony," nad pwy ydych, atebwch pwy o'r Saint a ddywedodd y fath beth? Enwch y person, neu y personau, a ddywedodd yr hyn y cyhuddwch y Saint o hono, fel y delo y cyfryw o dan gerydd eglwysig; canys methwn i'na a chael allan, er chwilio, pwy yw y celwyddwr yn ein plith; a'w y mae yn rhaid eich bod chwi yn ei adnabod cyn y meiddiwch gyhoeddi y fath beth i'r byd; ac os na ddywedwch ei enw, pwy na wel, Mr. "Anthony," mai chwychwi eich hunan yw tad y celwydd yna? Os dymuno lles dynion yr ydych, y mae gwell ffordd i'w diwygio na thrwy gyhoeddi celwyddau arnynt drwy'r *Bedyddiwr*. A ddywedasant hwy hyn yn mhell ac yn agos? Pamor agos? Os do; yna hawidach i chwi eu henwi, a mwyafeuog y'ch ystyrir os na wnwch. Ac etto, pe enog un o'r Saint o ddweyd hyny; ai cyfiawnder ynoch chwi yw cyhuddo y miloedd sydd o honynt yn y wlad o anwiredd? Y mae tua phedwar ugain o'ch cymmydogion chwi, y rhai a ystyrir mor eirwir â chwi (a mwy geirwir o hyn allan), yn dibynu am eu bywyd ar y grefydd a alwch chwi ("barnwr y byd," aie?) yn "gethern dwyllodrus," heb ei brofi gymmaint ag unwaith erioed. Beth, a phwy ydych? Nid rhyfedd i chwi gywilyddio rhoi eich enw priodol wrth y fath wrthuni, yr hyn a wnai pob dyn onest wrth y gwir.

Cyhuddiad arall maleisus iawn o eiddo y difenwr hwn yw fod gan y Saint ryw "*ingredient*" i effeithio ar ddynion sydd yn dwyllodrus. O ddyn! dywed beth yw yr "*ingredient*" hwnw, neu gad dy gym'dogion yn llonydd i addoli Duw yn ol yr ysgrythyrau, rhag cywilydd. Anwiredd arall o'i eiddo yw, nad oes ond tri o aelodau y Meinciau wedi dod at y Saint. Oes druan, y mae ychwaneg na hyny, a pha fodd na wyddech hyny? Rhaid mai anwiredd gwybodus o'ch eiddo chwi yw yr haeriad hwn hefyd. Beth! a allwch chwi wadu, pan y mae y bobl ar gael yn dystion byw drostynt eu hunain? Ymfrostiwech o'ch lluosogiad yn awr; ond ar addefiad rhai o'r cyfryw a fedyddiasoch, y rhai a alwch chwi yn "gethern dwyllodrus" a'u hargyhoeddasant o fedydd trwy drochiad; ac os ammheuwch hyn, y mae genym ni ffaith i'w brofi. A dywedwch a fynoch, y mae llawer etto ar ddyfod oddiwrth eich hudoliaeth brofedig chwi i oleuni y Saint. Amser a brawf hyny er eich gwaethaf. A chyn gynted ag y daw eich calon chwi eich hunan i garu gwirionedd, gwelir chwithau yn begian am gael bod yn un o honynt.

Ond ofer i mi, Mr. Gol., fanylu llawer ar haeriadau y fath ddyn ag "Anthony," canys gwyr pawb pwy, a pha fath ddyn, yw efe y ffordd

yma; ac y mae ei waith yn difenwi ei hen frodyr, ac yn ceisio dirmygu eu cymmeriad ar ol iddynt adael yr hen dwyll yr oeddynt yn ei broffesu cyn dyfod at y Saint, yn ei brofi ef yn eithaf eglur i baw o ddarllenwyr y *Bedyddiwr* yn annheilwng o'r grediniaeth leiaf. Cyfenwa efe un o'i hen brodyr yn "*Wandering Jew*," oherwydd iddo wneyd yr hyn a orchymyna Paul, sef "Profwech bob peth, a deliweh yr hyn sydd dda." Pa ddrwg yw hyn? Dyna fel y gwna pob carwr y gwir, hyd nes y casto afael ar wir grefydd. Yr egwyddor ardderchocaf a fedd gwirionedd a gondeimnir am egwyddor ddrwg gan yr "Anthony" hwn, fel y liwynog hwnw â'r "grawn surion." Dynion ag ydynt wedi profi crefydd y sectau ydyw y rhai mwyaf addas i farnu crefydd y Saint; ac y mae eu hymadawriad a'r lleill, a'u hymlynad wrth hon, yn dweyd yn uchel, mai hon yw y grefydd sylweddol ag yr ymchwiliant am dani. Gwyddai "Anthony," ebe efe, ar dderbyniad y dyn hwn i'w heglwys, mai egwyddor ddrwg fel hyn a feddai, ac etto gwada "Ysbryd y brophwydoliaeth," a chyd-gymunai â'r fath ddynt heb un gwrthwynebiad! Bernir wrth hyn na waeth gydag ef gyda pha fath ddynion yr eistedda efe wrth fwrdd yr Arglwydd. Mae ei egwyddor ddrwg yn dyfod i'r goleu fwyfwy, a'i enau ei hnn sy'n tystio i'w erbyn. Eiddor borstia, a rheda ei ymysgareodd i oleu dydd yn y frawddeg ganlynol:—"Ac am y trydydd, nid yw dda i ddiin ond i'r *domen*!" Beth! dyn a luniwyd ar ddelw lân ei Dduw—dyn ag sydd yn feddiannol ar enaid anfarwol—dyn ag sydd yn aelod cymdeithas—dyn ag sydd yn ddeiliad gwladwriaethol, ac yn gymmydog iddo;—ie, y dyn yna "yn dda i ddiin ond i'r *domen*!" Cywilyddied y dyn a feiddiodd gyhoeddi y fath eiriau o flaen dynion! Pwy a ddichon goelio gair a ddywed y dyn a ddywedodd y fath beth? Clod i'r Saint yw drygair y fath ddynt nwydog, medd pob dyn rhesymol. Gadawn ef ar hynyna ynte, i ddyoddef y gwarth a deilynga y dyn ag a allo haeru y fath gamgyhuddiadau ar ei gymmydogion, a hyny o genfigen at eu llwyddiant crefyddol.

Mr. Gol.—Da genyf eich hysbysu fod y gwirionedd yn eunill tir yma yn gyflym, er gwaethaf gwawd a chamgyhuddiadau ei wrthwynebwyr, a gwell gobeithion nag erioed. Y mae clustiau pobl y cylchoedd hyn wedi bod yn cael eu merwio gan y chwedlau maleisus ag a ehedant ar adenydd yr awel drwy bulpudau a chyhoeddiadau misol ein gwlad. Y maent o un i un yn suro ac yn diflasu, fel y mae y bobl resymolaf yn dyfod yn gyflym iawn i ddeall mai anwireddau ydynt, ac i'w ffeiddio hwy a'u dyfeiswyr. Yr ydym ni yma wedi bedyddio 74 er's llai na blwyddyn—un a-deugain o'honynt er y Gymmanfa ddiweddaf; ac y mae amryw etto wedi addaw ufyddhau yn fuan. Mae y Saint yn hynod o benderfynol a fflyddlon o dan yr holl erlid a'r gwawdio, ac yn cynnyddu mewn doethineb ddwyfol, a doniau ysbrydol, nes y mae yn bleser i'm calon gael bod yn eu plith; a'm gweddi barhaus yw, ar i'r Hwn a ddechreuodd ynddynt y gwaith da hwn ei orphen hefyd hyd ddydd dyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist. Amen. Ydwyf eich brawd yn yr efnngyl dragwyddol,

Pont Yates, Mai 26, 1848.

HOWELL WILLIAMS.

ENGHRAIFFT ARALL O GREULONDEB Y BEDYDDWYR,
AC O DIRIONDEB DUW, TUAG AT Y SAINT.

ANWYL FRAWD.—Hoff genyf eich hysbysu fod lluosogiad parhaus at rifedi y Saint yn y Sir hon, a'u bod yn cynnyddu yn mhob daioni ysbrydol yn helaeth; ac y maent oil hefyd mewn undeb a chariad brawdol mawr iawn.

Mae erlidigaeth yn poethi hefyd mewn rhai parthau o'r wlad hon yn gyflym, serch i chwi ddiffodd angerdd tân a brwinstan hunanymgynhyrfiol y Jenkyn Rees hwnw o Victoria, ac ereill. Mae hen chwedlau anwireddus hwnw, sef eich bod chwi yn twyllo arian y Saint, &c., &c., wedi achosi sawyr atiach ar ei enw a'i goffadwriaeth ef yn ffroenau pob dyn rhesymol, er yr amser ag y buoch chwi yno uwelben y dorf fawr hōno yn eu gwrthbrofi yn ei wyneb yntau; ac yn ei herio ef, a holl bobl Sir Fynwy, a'r byd, i brofi eich bod chwi, nac yn nyled neb o swllt; a'r amser ag y profasoch nad oeddych erioed wedi cael un math o gasgliad o gymmaint a swllt oddiwrth yr holl gannoedd o Saint ag sydd yn Sir Fynwy. Da iawn i ni oedd i chwi wneyd hyny: canys y mae llawer ag oeddynt yn elynion cas i ni, ac yn erlidwyr creulon, o achos eu bod wedi clywed y "Gweinidog duwiol" ac anwireddus hwnw yn haeru hyny, wedi dod yn ddynion llariaidd a dyngarol er pan y profasoch mai anwiredd oedd y cyfan; ac y mae y cyhoedd byth wedi'n wedi newid eu hymddogaad tuag atom yn hollol, a llaweroedd heblaw y Bedyddwyr yn gwybod pwy sy'n twyllo arian pobl dan gochl o grefydd—pwy sy'n myna *llyfrau siopau ei aelodau*.—a phwy oedd y dyn creulon hwnw a fynodd *lyfr siop yr hen weddw dlawd hōno, i dynu oddiarni hi, nes yr oedd hi a'i phlant bychain yn dyoddef eisieu bwyd o'r herwydd!* [Gwel y sylw ar ddiwedd y llythyr yma.—GOL.] Ydynt, y mae pethau yn dod i iawn drefn er pan y daeth y gwirionedd i'r amlwg; ac y mae y dyfeisiwr o'r celwyddau, a'r difenwr digywilydd, yn dyoddef y gwarth a deilynga ei weithredoedd ysgeler.

Nodaf un enghraifft i ddangos castiau y Bedyddwyr maleisus mewn lle arall, sef Llandover:—Fel yr oedd dau o'n pregethwyr yn pregethu yno wythnos i'r Sul diweddfaf, a channoedd o wrandawwyr wedi ymgasglu, gyda dechreu y bregeth dechreuodd rhyw rai o'r dorf floeddio, wban, a lleisio fel bleiddiaid braidd, er boddi llais y pregethwr; ac o'r diwedd tynasant y ddau i lawr o'r fan lle safent, ac a'u satirasant dan eu traed, gan geisio eu marchogaeth fel pe buasant anifeiliaid! Cafodd y pregethwyr hamdden i ddarllen eu trwyddedau, pa rai oeddynt yn rhoddi iddynt hawl i noddod ac amddiffyniad swyddogion ei Mawrhydi i bregethu; ond y cwbl yn ofer. Aeth dau bregethwr arall yno y Sul canlynol, a chawsant well gwrandawriad na'r rhai cyntaf a nodwyd; ac yr oedd y frad wedi dod i oleu dydd erbyn hyny, fel y deallwyd mai y Bedyddwyr oeddynt wedi cyflogi y terfysgwyr i wneuthur felly. Do, tystiodd rhai o'r rhai a gyflogesid, eu bod wedi derbyn arian gan y Bedyddwyr yno am derfysgu ein haddoliad!! ond fod y meddwon, a'r mwyafranghrefyddol o gwbl wedi arswydo rhag gormes a chreulondeb y *crefyddwyr* profsedig hyn. Mae y brodyr yn benderfynol i gyrchu yno, ac i draethu eu cenadwri, er gwaethaf y diafol a'i holl weision, hyd nes y byddo y rhai gonest eu calon wedi cael cyn-

nyg ar efengyl Mab Duw. Yr ydym wedi gorchfygu y cyffelyb rwystrau a chelwyddau y Peirch. a'r crefyddwyr yn Llanelly, Sir Frychein-iog, ac y mae dau wedi eu bedyddio yno yn ddiweddar, ac arwyddion gobeithiol y gwel y bobl y gwahaniaeth yn fuan rhwng traddodiadau dynol yr oes ag efengyl Iesu Grist.

Dywenydd mawr genyf eich bysbysu am ddaioni mawr ein Duw taag at y brawd Edward Roberts, Victoria, yr hwn a gafodd ei losgi yn anafus yn y gwaith glo. Nid oedd neb braidd yn credu fod yn bosibl iddo wella ar y cyntaf; ond daeth yn well drwy fendith Duw. Daeth y doctoriaid i'w weled, a dywedasant nad allai symud o'i wely cyn pen oddeutu pedwar mis o leiaf, yn ol eu tyb hwy; ond danghoswyd gallu Duw yn fawr arno, fel yr oedd wedi codi cyn pen mis; ac yr oedd yn rhodio oddiamgylch gyda mi dydd. Mawrth diweddar, ac y mae yn bwriadu myned i'r cwrdd y Sabboth nesaf! Addefa y meddygon, ac ereill laweroedd, na welsant y cyffelyb iachad erioed o'r blaen. Achosodd y peth hyn i rai o elynion y gwirionedd gyffesu mawr allu Duw taag at ei blant, ac i ereill wawdio, megys yn y dyddiau gynt. Ond yr wyf fi, a diau y bydd i'r holl Saint gydnabod daioni Duw yn ddiolhgar o galon am gyfranu y fendith fawr i'n hanwyl frawd. Ei enw Ef yn unig a gaffo y gogoniant. Amen.

Gallwn eich bysbysu am amryw hynodion ereill o allu Duw yn y cyfchoedd hyn; ond arbedaf ar hyn o bryd, rhag meithder. Mae y Saint a'r swyddwyr oll yn Merthyr mewn undeb a chariad. Yr oedd y Neuadd mor orlawn o wrandawwyr nos Sul diweddar ag arferol, a derbyniwyd naw i'r eglwys yma y cyfarfod eglwysig cyntaf wedi eich mynediad ymaith, a lluoedd ereill ar y drws. Yr Arglwydd grasol a brysuro ei waith i ben, yw gweddi barhaus eich brawd yn efengyl Crist,

Merthyr, Mai 28ain, 1848.

WILLIAM PHILLIPS.

[Mewn cyfeiriad at y dyn y sonir am dano yn nechre llythyr ein brawd, dywedwn ei fod wedi gwirio yr hen ddiareb a dd'wed mai "lleidr sy'n gwaeddi lleidr gyntaf," yn ddiwrthbrawf. Ydyw, a phrofasom yn ei wyneb drwy ugeiniau o dystion mai efe "yw y gwr" ag sydd yn euog o'r drygau ag y cyhudda y dieuog. Bernid fod yno dros fil o bobl, ac yr oedd yntau ei hunan hefyd, yn ein clywed yn gwrthbrofi ei holl gelwyddaa arnom ni a'n brodyr, o un i un, ac ni feiddiodd agoryd ei enau i'w amddiffyn ei hun a'i gyhuddiadau, er ini ei alw a'i feiddio i wneyd hyny; ond yn ofer y galwem, canys gwyddai efe mai anwriddau a draethasai am danom yn ein habsenoldeb: ac felly, deallwn, y mae y dyn maleisus hwn wedi bod yn taenu ei lysnafedd hunanddyfeisiol am danom y ffordd y cerddai, ar hyd Sir Gaerfyrddin, &c., gan geisio dadymchwelyd y newyddiaid yn y ffydd. Cofied ei gastiau yn Cydwely, a chywilyddied am ei ddigywilydd-dra at y benywod diniwed a diamddiffyn hyny, i.e. cofied fod dydd cyfrif yn dod cyn hir. Gwenwyn aspiaid sydd o dan wefusau y cyfryw, medd y gair dwyfol; a theimla pawb eu gwenwyn lle bynag yr ant. Mae i'r gwr hwn lawer o frodyr ag ydynt yn ffyddlon i ledaenu celwyddau arnom ni drwy'r wlad, yr hyn sy'n glod i ni, ac yn profi eiddigedd y cowards na allant ddod i'n wyneb i brofi eu celwyddau. Safwn etto at ein her.—GOL.]

GOFYNION, A'U HATEBION.

MR. GOL.,—*Beth a awgryma Paul yn Rhuf. xvi, 25, wrth y geiriau; "Dadguddiad y dirgelwch yr hwn ni soniwyd am dano er dechreuad y byd," &c. Atebiad buan a foddlon amryw heblaw yr eiddych.*—T. H.

Atebwn mai dilead y llen ag oedd rhwng Iuddewon a Chenedloedd, a throsglwyddiad yr efengyl i'r olaf, a awgrymai Paul, debygwn i, Ymfrostiai Paul mai apostol y Cenedloedd oedd efe. Gal. i, 11, 12, 16; ii, 7—9; iii, 14, 26—29. Galwyd Paul gan Grist drwy Ananias i fod yn "llestr etholedig i mi i ddwyn fy enw gerbron y Cenedloedd."

MR. GOL.,—*Beth a ddealkoch chw't wrth y frawddeg hono yn 1 Cor. iv, 9, sef, "Apostolion diweddaf?" Ceisia' ein cymmydogion sectyddol braf oddiwrth yr adnod hon nad oedd apostolion ereill i fod yn yr eghoys ar ol y deuddeg hyny.*—J. B.

Atebwn mai hollol groes y prawf yr adnod i ni. Nid oes yn y frawddeg ond dau air, ac y mae yr olaf o'r ddau naill ai yn profi ei hun yn air segur, neu ynte yn profi fod dau ddosparth o apostolion, sef y rhai blaenaf, a'r rhai diweddaf; ac os oes dau ddosparth, paham nad ychwaneg? Mor addas fyddai i'ch cymmydogion sectyddol haeru na bydd dynion byth ar eu hol hwy, oherwydd eu bod hwy yn ddynion diweddaf, ag ydyw haeru hyny am yr apostolion. Os nad oes gwell sail na hyna ganddynt i brofi eu pwnc, bydd byth heb ei brofi. Mae hyna yn gyffelyb i haeru mai dyddiau Paul oedd y dyddiau diweddaf, oherwydd iddo ddywedyd yn Heb. i, 1, "Y dyddiau diweddaf hyn." Ar yr un pryd arfero yr apostol y gair olaf "hyn" fel yn bwrpasol er profi i'r gwrthwyneb: felly y gwna yn yr uchod. Am ychwaneg ar hyn, sylwer ar yr *Eurgrawn*, dan y pen *Apostolion*, lle y ceir gweled fod ugeiniau o apostolion yn yr eglwys. Gwadu apostolion yw gwadu apostoliaeth, heb yr hon anmhosibl bod eglwys i Dduw.

GWAHODDIAD AT DDUW.

Mae Duw yn galw'n awr,
O gwrandewch;
Mae'n cynnyg rhoddion mawr,
O gwrandewch:
Er bod i Dduw'n anfydd,
Maddeuant gewch trwy fedydd,
A hawl i freintiau crefydd,
Os gwrandewch.

Mae Duw yn galw'n awr,
Pam na ddowch?
Mae'n cynnyg rhoddion mawr,
Pam na ddowch?
Cewch eglurhad yr Ysbryd,
Ynghyd â'i ddoniau hyfryd,
I'ch tywys tua'r bywyd,
Os gwrandewch.

J. D.

Y BEDYDDWYR YR BEDYDDIO "SATANIAID A CHYTHREULIAID!"

Nid ydym ni yn deall y gwahaniaeth sydd rhwng sataniaid a chythreuliaid; ond efallai y dealla y Bedyddwyr wahaniaeth, canys dyma yr enwau boneddigaidd ddyry y crefyddwyr duwiolfrydig hyny ar eu cyddynion. sef ar y Saint! Dyma yr enwau parchus a gyhoeddant o'u pulpudau ar eu cymmydogion crefyddol! Dyma yr enwau a roddir ar enwad o fobl grefyddol, drwy golofnau y cyhoeddiadau a hŏnant eu bod yn dysgu yr oes mewn moesoldeb, ac yn eu tywys i ostyngieddwydd, cariad, ac addfwynder Cristionogaeth yr Iesu addfwyn. "yr hwn pan ddifenwodd drachefn." Y mae y gweinidog duwiol—yr efengylwr parchus a charuaidd—y llariaidd was Duw hwnw ag sydd yn engylu efengyl tangnefedd y Bedyddwyr yn Dowlais, yn dysgu i blant ei Dduw ef waeddi "Sataniaid a chythreuliaid" ar ol eu cymmydogion ar hyd yr heolydd; i.e. ar ol dynion a luniwyd ar lŏn ddelw Duw, ac yn feddiannol ar ẽneidiau anfarwol—yn dadau a mamau serchus, a phlant anwyl—y rhai a fuont yn aelodau o'r un "eglwys Dduw" ag yntau—a'r rhai a'i porthasant ef a'i deulu mewn gwychder, &c., o'u mawr anghen! Ond wedi y cwbl, yr enwau priodolaf iddynt yn awr, ebe efe, pan na roddant ychwaneg iddo, ond cofleidio gwir efengyl Crist, yw "Sataniaid a chythreuliaid!" Ac y mae Golygyddion dysgedig y *Bedyddwr*, y *Tyst Apostolaidd*, y *Seren Gomer*, &c., o'r un feddwl ag yntau yn siwr cyn y cyhoeddent ei epistolau ag sydd yn cyfenwi crefyddwyr felly; canys "yr hwn a ddywedo Duw yn rhwydd wrtho sydd gyfranog o'i weithredoedd drwg ef."

Ysgrifennodd epistol hirfaith i'r *Tyst Apostolaidd*, i brofi mai "Sataniaid a chythreuliaid" yw yr enwau mwyaf priodol ar ei gymmydogion; a chymhella bobl y Gogledd i'w difenwi felly hefyd! Ai dyma beth yw pregethu efengyl y Bedyddwyr? Wel, ystyrir ef yn weinidog yr efengyl, a'r neb a allant gredu mai Sataniaid a chythreuliaid yw yr enwau cymhwysaf ar ddyynion ag sydd yn credu yn Nghrist yn ol yr ysgrhythrau, ac yn addoli Duw yn gydwybodol, a allant gredu hefyd peth mor anhygoel â bod y dyn hwn yn weinidog i'r Iesu addfwyn, serch bod hyny yn groes i bob ffaith. A ydyw yn bosibl i'r gwaethaf o ddyynion, tra yn y cnawd, deilyngu y cymmeriad o "Sataniaid a chythreuliaid?" Nac ydyw, medd pob perchen rheswm; ac y mae tystiolaeth pob dyn rhesymol am hyn yn profi ar unwaith fod hyd yn nod y Gweinidogion parchedig, y Golygyddion duwiolfrydig, a'r duwiol a'r selog grefyddwyr hyny ag a alwant y Saint yn Sataniaid ac yn gythreuliaid, yn ddifenwyr o'r fath waethaf, am y rhai y dywed yr ysgrhythyr na chânt etifeddu teyrnas Dduw. Wel, pa le yr aiff y difenwyr hyn, druain? Nid ydym ni yn barnu neb; ond tystied eu gweithredoedd hwy eu hunain, wrth eu cydmharu â gair Duw, pwyl sydd yn debyg o fod yn cadw cwmpeini i "Sataniaid a chythreuliaid," onid edifarhant.

Eithr syndod mwy fyth yw parodrydd y *Bedyddwyr*, a'u hawydd mawr, i gael bedyddio y rhai a alwert yn "Sataniaid a chythreuliaid!" Ie, ymdrechaut yn mhob dull, drwy ddywedyd chwyddedig eiriau gorwagedd, a rhith-ostyngieddwydd mewn ewyllys grefydd, i lithio yn ol

ambell fenyw wanaidd a newyddiad yn y ffydd, y rhai a ddiangasent uniwaith oddiwrth eu cyfeiliornadau hwy i ffordd y gwirionedd; ac o'r diwedd ysgrechia y *Bedyddiwr* drwy ei udgorn ysgrechlog y newyddion buddugoliaethus o fod dwy fenyw a fuasai gyda'r Saint wedi cael eu bedyddio gyda'r Bedyddwyr yn Maesteg, sef dwy *Satanes* neu *gythreules*, wrth gws! Hawyr bach! dyma y Bedyddwyr yn bedyddio "Sataniaid a chythreuliaid," sef y rhai a alwant hwy felly eu hunain!

Syned y byd! wele ddwy o'r Saint wedi troi yn ol at gibau difenwyr, a thybja'r difenwyr fod hyny yn arwyddo y try yr holl Saint yn fuan atynt hwy, a bod y fuddugoliaeth o'u hochr hwy yn siwr; pan, o'r ochr arall, y mae cannoedd o'r Bedyddwyr wedi dyfod i eglwys y Saint y flwyddyn ddiweddaf—llawer o gannoedd o gwbl—yehwaneg yn dod bob mis, a lluoedd ereill o honynt yn credu yr efengyl a bregetha y "Sataniaid," ac a fyddant tyn waethed "Sataniaid" ar fyrder ag yw eu brodyr a'u chwiorydd a aethant o'u blaen; ac er hyn oll, darfod mae y "Sataniaid," a diflanu, medd y Bedyddwyr, eu bod wedi cael yr *home stroke*, a bod ychydig yn ymuno â hwynt, a llawer yn eu gadael, &c. Wel, gwelir mai y Bedyddwyr, ac nid y Saint, sy'n profesu y fath wyrthiau â hyn.

Bedyddio "Sataniaid a chythreuliaid" sydd wyrth arall, a hollol newydd, debygem ni; ond cofier mai y Bedyddwyr sydd yn hōni y clod o'r wyrth hon hefyd! Dysga ein Beibl ni fod y cythreuliaid wedi eu rhoddi i gadw dan rŵynian hyd farn y dydd mawr; ond dywed y Bedyddwyr nad ydynt—mai celwydd yw hyna—bod y "Sataniaid a'r cythreuliaid" yn rhydd yn awr, ac wedi ymgnawdoli—eu bod wedi bod yn aelodau gyda hwy, yn ddiaconiaid, ac yn bregethwyr yr efengyl iddynt er's blynyddau, ac ni wyddent mai Satanïaid a chythreuliaid oeddynt yr holl amser yr eisteddent wrth ford yr Arglwyd gyda hwynt, y cyd-weddient gyda hwy, ac y carent hwy; ond y gwyddant yn awr mai "Sataniaid a chythreuliaid" oeddynt o hyd. Hawyr bach, meddant, "efallai bod yehwaneg o honom o'r un rhyw; ac efallai mai y cyfryw ydym ni ein hunain." Atebwn ninnau mai y cyfryw eu gelwir mor gynted ag yr ufyddhant i efengyl Mab Duw, ac y bydd Peirch. y Bedyddwyr yn gweiddi "Sataniaid a chythreuliaid" ar eu hol oddieithr iddynt droi yn ol atynt hwy; ac os troant, bedyddiant y "Sataniaid" eilwaith, bid siwr. Wele wyrth fwy anhygoel nag un a broffesodd y Saint erioed, canys nid yw yr efengyl a bregetha y Saint yn hōni achub "Sataniaid a chythreuliaid;" O na, efengyl y Bedyddwyr sydd yn gwneyd hyny, meddant hwy! Wel, rhaid i hyd yn nod y "Sataniaid" roi i fyny yn awr,—mae y Bedyddwyr ddigon tuhwnt iddynt. canys y mae ganddynt yr efengyl ryfedda ag y clywyd son am dani erioed, tebygaf! Gallant bregethu nes dwyn "cythreuliaid" i gredu—"Sataniaid" i edifarhau,—bedyddio "Sataniaid,"—"cythreuliaid" yn cael maddeuant yn rhad gyda'r Bedyddwyr! Ie, cymmerant "Sataniaid" a "Satanesau" yn frodyr ac yn chwiorydd yn Nghrist!—gweddiant ar i "gythreuliaid" dderbyn yr Ysbryd Glân!—cydfwyntant fara, a chydyfant o'r cwpan, gyda chythreuliaid addefedig yn y sacrament santiaid! Wel dyma beth yw gwneyd "bord yr Arglwyd yn ford cythreuliaid," onide? Ac yn mhellach etto, nid yn

unig cydgrefyddant yn anwyl yma, ond cyd-weddiant am gaef myned i'r un nefoedd â Sataniaid a chythreuliaid ar ol marw!

A allant hwy wadu un gair o hyn? Na allant ar eu geiriau eu hunain; ac nid oes ddiangfa i'r Bedyddwyr o'r *dilemma* dost hon ond yn unig drwy alw yn ol yr enwau drwg a roisant ar y Saint, ac addef na ddichon "Sataniaid a chythreuliaid" fod yn enw priodol arnynt. Nid oes un ffordd arall o ddiangfa i'w chael. Go dost i'w hucheldrem hwy fyddai addef hyn, canys dyna fyddai addef eu hunain yn ddifenwyr rhydd a chyhoeddus. Dewisant y canlyniad a fynont;—nid gwaeth genym ni pa un. Os dewisant y cyntaf, yna ânt i'w nefoedd ddychymyngol gyda "Sataniaid a chythreuliaid;" ond os yr olaf a addefant, na bydd hyny ond yr hyn a wyr pob dyn call eu bod eisoes, sef *dhfenwyr*. Wrth eich ffrwythau y'ch bernir fyth.

Yn awr, Fedyddwyr duwiolfrydig; yn awr Beirch. a Golygyddion mawreddig: beth a wnewch, a pha beth a ddewiswch? Cloddiasoch y ffos ddofn hon i'ch cyd-ddynion diniwed, ond wele chwi eich hunain yuddi, ac yn ddiagon-brwnt eich lliw! Adeiladasoch y crogbren er ochyll hwn i'r "Sataniaid a'r cythreuliaid," ond er hyny ni welir neb ond Bedyddwyr yn nghrog arno, oddieithr dwy "Satanes" neu "gythreules" fach yn unig, un o bob ochr i Mr. Davies, debygwyf, o glod iâdo am ddyfeisio y teitl boneddigaidd hwn. Yn awr gwelir chwi yn eich lluniau a'ch lliwiau priodol eich hunain, nes y cywilyddia Satan ei hun eich arddel, debygwyf.

Bedyddio "Sataniaid a chythreuliaid," aie! Gato pawb! wyddys- pa hyd y bydd uffern ei hun yn dod oll yn Fedyddwyr! Bid siwr mai i'r Bedyddwyr yr amlygwyd "dirgelwch" iachawdwriaeth cythreuliaid. Pwy sy'n pregethu i ysbrydion yn ngharchar? A ydyw y Bedyddwyr yn bedyddio dros y meirw? ynte a ganiateir i'r holl Sataniaid a'r cythreuliaid ddod i'r ddaear hon atynt hwy? Os felly y mae, dysgwylwch y bydd eigion y llys-obry yn wag ar fyrder; y bydd naill ai ei holl denantiaid wedi troi yn Fedyddwyr, neu *vice versa*, wyddis pa un! Ond y mae yn ddrwy genym hysbysu-fod Golygydd y *Bedyddior* yn *off-or* a'i gorn yn grwca fel arferol; nid yw efe nerth braich gyda'r bedyddio "Sataniaid a chythreuliaid," debygwn, wrth ei wynt ef; ond ei gynllun ef yw bedyddio gwallgofiaid y *madhouses* yn gyntaf, cyn dechreu ar y *madhouses* diwaelod. Nid yw efe llawn mor drugarog wrth y Sataniaid, drugin, ag yw ei frodyr; a phetrusa er frawd o Ddowlais, a'r llall o'r Felinfoel, pa un ai i'r *madhouses*, ynte ai at y cythreuliaid, yr anfonant eu cenadau gyntaf. Hawyr bach, onid yw y rhywogaeth hon o Fedyddwyr wedi myned yn selog a phoeth iawn i gyd ar unwaith. Pan y maent yn methu cael digon o ddynion i'w bedyddio, rhaid bedyddio rhywrai a geir, er eu bod yn wallgofiaid, a "Sataniaid a chythreuliaid!" Ond cofwn eiriau Crist, "Os galwasant hwy Arglwydd y ty yn Belzebug, pa faint mwy y galwant ei dylwyth?"

LLYTHYR Y LLYWYDD BRIGHAM YOUNG.

"Council Bluffs, Ionawr 23, 1848.

"B YRIEDIA i'r brawd Orson Pratt, ac amgwiol heu iaidd era ll, ymwelad â Phrydain tua dechreu yr haf nesaf. Arhosu George A. Smith

yma i drefnu materion perthynol, ac i gyfarwyddo yr ymfudwyr a ddeuant yma etto ar eu ffordd ar ein hol. Arosa Orson Hyde yma hefyd gydag ef.

Yn mis Rhagfyr diweddf, cynnaliasom Gymmanfa yn y ty helaethaf ag sydd yn y cychoedd hyn; ond buan iawn yr ymgasglodd cynnifer o Saint o'r cychoedd, fel nad oedd le iddynt, a barnwyd ynddoethach gohirio y Gymmanfa am dair wythnos, pryd y gellid cael ty helaethach i'w cynnwys. Yn ganlynol i hyny, ar y 24ain o'r mis, ymgasglasom drachefn mewn capel coed a adeiladwyd yn y cyfamer, yr hwn a gynnwysai le i dros fil o bobl eistedd yn gysurus, heblaw ar-eithfa yn y naill ben yn ugain troedfedd wrth ddeg. Adeiladwyd hwn mewn cynnifer o ddyddiau, er fod y tywydd hwn yr oeraf o'r gauaf. Hysbysais yn y Gymmanfa fod y Saint wedi aredig a hau cynnifer o erwau o dir yma yn y flwyddyn ag y buent yma yn yr anialweh, ag awnaethai yr holl Saint, ped arosasent yn Missouri, mewn deng mlynedd, oherwydd yr erlidigaethau; ac y mae yn ddiogon gwir ein bod wedi cynnyrchu cymmaint o gnydau eisoes yma ag awnaed yn flwyddyn yn Illinois. Yn y Gymmanfa hon sefydlwyd yr eglwys ar y cyllun a nodasom yn ein llythyr cyffredinol, sef dan awlygiaeth prif lywyddion a phatriarch, ac yr oedd yr holl Saintyn gweled yr aenghenrheidrwydd o hyny dan yr amgylchiadau presennol, fel yr oedd pawb yn ddiethriad yn gorfoleddu yn y peth; ac felly rhyddheir dwylaw y "deuddeg," fel y gallont fyned ac adeiladu y deyrnas drwy'r byd. Etholwyd Brigham Young yn brif lywydd ar yr eglwys; Heber C. Kimball, a Willard Richards, yn gynghorwyr iddo; yr hyn a gymmeradwywyd yn unfrydol. Etholwyd y tad John Smith yn batriarch ar yr holl eglwys yn yr un ystyr ag yr oedd Joseph Smith yr henaf, ac yna Hyrum Smith pan ei merthyrwyd. Ysbryd yr Arglwydd y pryd hyn a orphwysodd yn rymus anarferol ar yr holl gynnulleidfia, hyd nes y llanwyd calonau y Saint a llawenydd annhraethadwy. Dywedai y llywydd, "Dyma un o'r dyddiau dedwyddaf a welais yn fy mywyd: dyna gyflawniad o brophwydoliaeth y brawd Heber ddoe: mae pob dysgeidiaeth yn bynod o wirioneddol a blasus;—ni chlywais erioed well. Onid yw dedwyddwoh y nefoedd, ac awelon hyfryd Seion, yn ymgysarfod yma? Pwy a deimla gasineb, eiddigedd, nac un drwg? Pe deuch hyd y drws dan ddylanwad gau-ysbryd, ni allai ddyfod i mewn gyda chwi—ni allai ymgymysgu â'r Ysbryd ag sydd yn y lle hwn; eithr yn y fan ag y deuch i mewn, mae eich teimladau chwi mor siriol a charuaidd braid ag eiddo seraffiaid y baradwys. Teinlaf awydd yn fy nghalon i foliannu Duw. Ni wnaed yma heddyw ond yr hyn a wyddwn i cyn marw Joseph, a gaffai ei wneyd. Alltudiwyd ni yma o Nauvoo; ond y mae yn amlwg i mi fod llaw yr Arglwydd yn y peth hwn, ac yn mhob peth, ac y mae pob peth yn iawn. Pan y gwelwn y diwedd o'r oll, dysgwylaf, yn y sefyllfa hon o brawf, y gwelaf law oruwch lywyddol Duw yn mhob peth, ac y dywedaf Amen. Gwnawn i'r llusoedd fryadleisio a'u holl ganiadau; eithr y mae genym lawer i'w wneyd yn frydaf. Nid wyf yn dysgwyl myned tuhnt i gyffiniau yr eangderau pell lle na bydd gwrthwynebiadau—lle na bydd diafol i'w gwrthsefyll. Nid wyf i'w grwgnach rhag rhagluniaeth Duw, ac nid wyf am golli fy amser i feio llawer ar y bobl. Ewyllys yr

Arglwydd yw fy ewyllys innau; ac megys y cyn, hora efe, felly y gwnaf. Os Efe ni lywydda y llong, suddwn oll yn y llyn tro. Dywedodd Joseph wrth y deuddeg y flwyddyn cyn ei ferthyr. 'Nid oes na; allwedd na gallu ag sydd i gael ei gyflwyno i'r eglwys hon. ac sydd yn anghenrheidiol i'w harwain at y porthladd nefol. a'r na chyflwynwyd i chwi, ac a'r na ddysgais chwi ynddynt. Y mae genych y cynllun perffaith, a gallwch chwi adeiladu y deyrnas, a myned i mewn i'r pyth nefolaidd, a'r eiddoch gyda chwi.'

"Mewn gwirionedd, cawsom amser hyfryd; ac ar yr 16eg o Ionawr, cynnaliwyd cyfarfod arall gan y 'degau-a-thriugain,' yr hwn a alwent yn *Jubilee*: eithr dywedais i nad allai hon fod y Jubili ag y cyfeiriari y dudzuddiadau ati. oherwydd nad yw pob rhwymau wedi eu tori, ond gelwais ef yn *Jubilo!* Parhaodd y cyfarfod hwn am bedwar diwrnod, i drefnu materion ymfudol, cynghori, &c. Cysurwyd calonau y Saint drwy'r oll a ddywedwyd goruwch eu holl ddyoddefiadan, a mawr law-nhaem yn rhyddid a llawenydd efengyl y tangnefedd, a gweddiar ar i llynt gael eu cynnal goruwch pob gorthrymderau, a'u cysuro, a'u harwain i rodio canol llwybrau cyfiawnder, er mawl a gogoniant enw yr hwn a'u galwodd o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef, fel y cyfiawntont fesur eu dyddiau i adeiladu teyrnas yr Iesu dros y ddaear.

"Clywsom o'r dyffryn yn ddiweddar. Mae pawb yn iach a chalonog, wedi hau o ddau i dri chant o erwau o wenith gauaf, ac y mae llawnder o luniaeth yn y dyffryn.

"Mwynha y Saint yma lawer gwell iechyd nag erioed yn Nauvoo. Mae y mwyrif o'r brodyr yn darparu pedrolfeni. &c., i gychwyn yn mlaen yn y Gwanwyn tua'r Llyn Halen."—O'r *Milennial Star*.

HANES TAITH YR ORYMDAITH FORMONAIDD O COUNCIL BLUFFS HYD CALIFORNIA.

[*Dyfyniad o lythyr Thomas Bullock.*]

"*Council Bluffs, Ionawr 4ydd, 1848.*

"MEWN llythyr blaenorol darluniais yn fyr erlidigaethau y Saint yn Nauvoo, llosgiad eu tai a'u meddiannau, y fflangellu, a'r alitudiaeth greulon a diachos a ddyoddefasant, &c., fel eu porthwyd yn wyrthiol â soffieir, ynghyd â'u hynt ar eu taith oddiyno hyd yma, &c.; ond yn awr dechreuaf hanes ein taith oddiyma tua'r Mynydddoedd Creiglyd. Cychwynais, gydag wreth o'r deuddeg apostol, ynghyd â chant a thri a deugain o beronau ereill, i chwilio am drigle manteisiol i allu addoli Duw yn gydwybodol, lle y caffem seibiant rhag y gormes, y trais, a'r creulonderau a ddyoddefasom cyhyd oherwydd gair Duw a thystiolaeth yr Iesu—lle ag y gallem adeiladu tai, a chyfanneddu ynddynt, a phlanu gwinllanoedd, a hwyta o'u ffrwyth, heb neb i'n haslonyddu na'n dychrynu. Gwersyllasom ar lan afon Elk Horn, hyd onid pawb yn barod i gychwyn: yna teithiasom ar hyd yr ochr ogleiddol i'r afon yspenydd a elwir *Platte*. Croesasom anryw afonydd bychain cyn cyrhaedd y *Loup Fork*, yr hon afon yw'r swyaf anhawdd i'w chroesi o gwbl, oherwydd fod ynddi sugndraeth. Eithr trwy ddaioni Duw cyrhaeddasom drwyddi oll yn ddiogel, ynghyd â'n nwyfau; yna croesas-

om ucheldir, a daethom i'r pen uchaf i *Grand Island*, yn mba le ar y 30ain o Ebrill, y gwelwem o Buffalo cyntaf: a dydd i'w hir gofio oedd hwn, oherwydd yr helwriaeth gyntaf ar ol y Buffalo. Gyrodd amryw o'r brodyr ar eu cefylau ar eu hol. Dilynasant un fintai a gynnwysai oddeutu pump-a-tiriugain am amryw filldroedd; a chawsom lawn olwg ar eu hymgyrch ar hyd ochr y mynydd oddiwrti y gwersyll, nes y gorchuddid hwy gan y llwch a ddyrchafai traed y meirch a'r Buffalo, ac ni ddychwelasant nes dwyn yn ysglyfaeth gyda hwynt un ar-ddeg o deirw, gwartheg, a lloi. Ymddaugasai ein gwersyllfan yn awr mebygsgygyddfa fawr. Y modd ag y darfu i ni ddarparu y cig i gadw oedd drwy ei sychu.

Mai y 4ydd teithiasom bump o bedrolfeni ochr yn ochr mewn sefyllfa ainddiffynol, oherwydd i ni gael ein hysbysu fod byddin liosog o Indiaid rhyfelawg o'n blaen. Meddem fagnel, yr hon a saethasom droion er mwyn dychrynu yr Indiaid, yr hyn a gafodd yr effiaith ddymunol, ac aethom yn mlaen yn heddychol. Cynualiasom gyfarfod o ddiolchgarwch i'r Duw a'n hamddiffynodd. Boréu dranoeth, gwelsom amryw filoedd o Buffalo, heblaw llawer o *Antelopes*, *Elks*, &c. Yn mhen ychydig ddyddiau wed'yn, gwelsom wyneb y wlad wedi ei gorchuddo â Buffalo dros amryw filldroedd. Meddylwyf i mi weled o un i ddau cant o filoedd o'r anifeiliaid hyn mewn un dydd. Yr oeddynt mor lluosog yr ochr arall i'r mynyddoedd, fel y gorfu i'n gwersyll sefyll dan gwdith hyd nes yr elai y gyroedd o honynt heibio i ni. Troai amryw o honynt yn ol i syllu ar yr olygfa, fel pe buasant yn synu wrth yr olwg ar ein gwersyll. Daliasom amryw loi yn fyw: ond deallwch fod dala un o'r lloi hyn, a dala un o'ch lloi dofion chwi, yn ddau beth gwahanol. Y mae y rhai hyn mor gyflym â meirch buain; ac er hylled yw carlamiaid y creaduriaid hyn, etto ânt dros y tir gyda'r fath gyflymdra, fel y gadawant farchog buan i'w blyσιο yn y pellter; ac os cyrhaedda efe o fewn cyrhaedd ergyd dryll iddynt, diolched os nad achosant iddo gwanu ei fam ddaear.

"Tiriasom yn Fort John (Laramie) Mehefin Iaf. Yma dechreuai ein taith dros fryniau a mynyddoedd, ar hyd pa le y ceir digonedd o goed i gynneu tân, y rhai ydynt gan mwyaf y *pine*; eithr ar y gwaelodion, y rhywogaethau o goeddydd a geir fynychaf ydynt y *cotton wood*. Y mae wedy'n o'n blaen ddiolch o bum cant o filldroedd, trwy ddyffryu o'r llyisiau a elwir *sage*, yr hwn a dyfa hyd yr uchder o chwech modfedd hyd ddeg troedfedd, yn mhlith yr hwn nid oes llawer o laswylt yn tyfu. Oddeutu pedair milldir i'r dwyrain o Independia Rock, y mae llyn o *Saleratus*, o'r hwn y cynghorwn chwi i gasglu cant neu ddau o bwysau at wasanaeth teuluol, canys hwn a ddefnyddiwyd o hyn allan yn lle surdoes yn y bara; ac y mae *soda* hefyd yn yr un llyn, yr hwn a fyddai yn ddefnyddiol iawn i olehi dilladau. Byddwch sicr o gofio am hyn.

"Mae y creigiau yn awr yn serth ac uchel, y ffyrdd yn dywodlyd, a'r sypiau *sage* yn fwy lluosog; etto llawenychwch am eich bod po diwrnod yn nesu adref. Nid oes hynodrydd yn y South Pass, wrth ba un y gwyddoch eich bod ynddo, oddieithr hyn, sef fod y dwfr yn rhedeg y ffordd arall, sef i'r gorllewin. Oddiyma teithiwyd aml dd-

wrnod caled, heb weled nemawr ddwfr. oddieithr yn y manau hyny ag y gweryllwch ynddynt dros nos. Wedi y cyrhaeddoch heibio i Fort Bridger, gallwch wersyllu lle y mynoch yn gysurus. Cynnalïa y glaswellt ffordd hyn eich anifeiliaid ar bob tymhor o'r fwyddyn braidd; a phan sycha glaswellt y *musket*, ateba yn lle yd, gwair, a phorfa i'ch anifeiliaid. Y mae y mynyddoedd, rhwng Fort Bridger a'r dyffryn, yn dra uchel, a chylchdroa y ffordd drwy y dyffrynoedd rhyngddynt, pa rai ydynt yn hynod o gullion—mewn rhai manau yn nemawr dros ddeg llath o led, a'r creigiau yn serth o bob ochr, weithiau am oddeutu milldir o uchder. Uchder eithaf pen y mynydd uchaf ag sydd i'w groesi ar yr holl ffordd yw oddeutu 7300 o droedfeddi yn uwch na'r môr. Oddiar yr ucheldir hwn gwelwch y *Twin peaks*, pa rai a orchuddir ag eira tragwyddol. Cyrhaedda godrau y ddau fynydd hyn i'r dyffryn; a phan y gwelwch hwynt, gwaeddwch allan, 'Byddaf adref cyn bo hir.' Nid oes dim perygl colli y ffordd rhwng y mynyddoedd. Wedi croesi ffrwd fechan oddeutu un waith ar hugain mewn pellder pum milldir, a rhwng mynyddoedd tua milldir o uchder, ac wedi amgylchu twyn uchel ar drofa ddisymwth ar y ffordd, deuwch ar unwaith i gael cyflawn olygfa ar y "Llyn Halen," ynghyd â dyffryn harddwych oddeutu ugain milldir o led, a deg-ar-hugain o filldroedd o hyd; ac er na welwch ynddo lawer o goedydd, etto byddwch yn sicr o ddweyd, "Diolch i Dduw, cyrhaeddais adref o'r diwedd." Ar y fan hon ag y sonïaf am dano yn awr y tiriodd ein gorymdaith ar brydnawn dydd Iau, y 23ain o fis Gorphenaf. Boreu dranoeth symudasom i'r fan lle yr adeiledir y ddinas; canol y dydd cyssegrasom y lle i enw Arglwydd Dduw Israel; a chyn yr hwyr rhwygai pedair aradr wyneb y ddaear. Y dydd canlynol planasom pump erw â phytatws, ac a wlychasom yr holl dir. Y Sul oedd ddydd i orphwys—dydd i lawenhau gerbron yr Arglwydd, ac efe a dywalltodd ei Ysbryd arnom, a theyrnasai heddwch yn "nyffryn y mynyddoedd." Y Sabboth cyntaf ag a gadwyd yn y dyffryn lle yr adeiledir dinas i'r Arglwydd, a gedwir mewn coffadwrïaeth dragwyddol gan yr ychydig frodyr hyny a ganasant yno gyntaf, "Hosanna i Dduw ac i'r Oen."

"Mewn ystod mis a thri diwrnod wedi cyrhaedd yno, planasom a hauasom bedwar ugain a phedwar o erwau â phytatws, yd yr India, ffa, gwenith, erfin, a llyisiau gerddi. Mesurasom y ddinas, gosodasom ei heolydd i redeg yn union o'r dwyrain i'r gorllewin, ac o'r de i'r gogledd, yr hyn a wna i bob dosran rhyngddynt gynnwys deg erw, pa rai a ddosrenir wed'yn yn erw a chwarter, yn lleoedd adeiladu pob tu arno. Lled yr heolydd yw oddeutu tair llath a deugain, ynghyd ag ugain milldir o led yn mhob ochr i gerdded, yr hwn a mceinir ei addurno â choedydd cysgodol. Adeiledir y tai ugain troedfedd yn ol i hyny wed'yn, yr hwn le a fwriedir i fod yn ardd blodau, &c. Cadwyd un dosran i'r dyben o adeiladu teml arno, a dau ddosran arall i adeiladu adeiladau cyhoeddus arnynt. Rheda frydiau o ddwfr puraidd drwy bob dosran, a bwriedir eu haddurno â phob amrywiaeth o goedydd a blodau, &c. Dena un peth yma eich sylw chwi y Szeson [a'r Cymry hefyd] yn fawr, sef nad ellwch brynu tir yma, na gwerthu tir ychwaith, ac na bydd eisieu cyfreithwyr cyfrwys i ysgrifennu gweithredoedd, &c., na *stamps*, na *parchments*. Ond cawsom o'r diwedd afael

ar yr hyfryd wlad, lle y cânt eu gwala o'r tir ffrwythlonaf dan haul, cynmiant ag a allant lafurio o hono, yn rhad heb arian ac heb werth, hyd oni ddelo i'r farchnad wladwriaethol, ac yna costia oddeutu coron yr erw. Mae fy etifeddiaeth i ar yr ail ddostran, ar gyfer y deml, fel y gwyddoch pa le i'm cael. Adeiladasom hefyd yn yr amser rhag-gryhwylledig saith-ar-hugain o dai coed, a rhan fawr o restr o dai oddiamgylch i ddeg-erw o dir, pa rai a gynnwysant le cysurus i dros-gant a hanner o deuluoedd, hyd nes yr adeiladant dai ar eu hetifeddiaethau eu hunain. Gwnaethom hefyd gant a phump-ar-hugain o fwsheli o halen. Gwna pedair barilaid o ddwfr y llyn halen un farilaid o halen rhagorol. Mae y dwfr mor gryf fel y gallaf nofio ynddo yn hawdd iawn, er nad allaf nofio dim mewn dwfr croyw. Lle hyfryd i ymdrochi yw hwn; ac y mae ffrwd dwym ag-sydd yn berwi allan o'r ddaear oddeutu hanner milldir i'r gogledd o'r ddinas, ac y mae pawb ag sydd wedi ymdrochi, hyd yn hyn, wedi eu hiachâu, nad beth oedd eu hafiechyd. Gwelir wyth neu ddeg ynddi ar unwaith yn aml. Mae pawb a fuont ynddi yn awyddus am fyned iddi drachefn; poethder y dwfr sydd yn 109 o raddau *Fahrenheit*, a llawer o sulphur ynddo. Dwy filldir yn mhellach i'r gogledd, y mae ffynnon fwy a phoethach etto, yn 126 o raddau. Berwa y ffrwd allan o ganol craig fawr, ac nid allwn, gan ei boethder, ddala fy mysedd ynddo tra y rhifwn unarddeg. Y mae o gwbl dros hanner cant o'r cyffelyb ffynnonau, ac yn amryw- iol o ran natur eu dyfroedd, o fewn cylch tair milldir o dryfesur, amryw o honynt yn ddigon nerthol i droi melinau neu beiriannau mawrion. Fel "llyn-Siloam" gynt, iacha y ffynnonau hyn bob cleifion, nad beth a fo eu hafiechyd. Mae yr hinsawdd yn hynod o dymherus ac iachus, yn y mwynhad o'r hyn, ynghyd ag o'r ffynnonau, &c., gallwn ddweyd mewn gwirionedd, ein bod ni wedi cael gwlad iachus a pharadwysaidd. Profa hyn yn fendith fawr i'r Saint gweiniaid a nychlyd o bob cwr o'r byd. O, y fath fendith-fawr yw i'r rhai a gystuddir gan y gwynegon, coluddion, *scurvy*, a phob math o afiechyd: credaf yr iacheir pob math yma. Yn mis Hydref yr oedd dros dair mil o eneidiau yn y dyffryn! Bloeddiwch ac udgenwch, chwi feibion Seion, hyd yn mhell; deuwch alltudion, druenusion, a chleifion blant Seion, o gyrau y ddaear; deuwch, ac addolwch Arglwydd Dduw Israel, fel y byddo eich dyddiau a'ch blynyddoedd yn aml ac yn ddedwydd, y rhai a roddo efe i chwi yn y baradwys hyfryd, ffrwythlon, iachus, a heddychol hon.

"Annogwch bawb i ddwyn pob amrywiaeth o hadau, llyisiau coedydd, &c., ag a fyddant er defnyddioldeb, neu harddwch, gyda hwynt.

"Eich brawd yn efengyl Crist,

"THOMAS BULLOCK."

* * * *Taer ddysgwylion y bydd pob Dosbarthwr wedi ymbarotoi & settlo cyfrifon y llyfrau oll yn ddiffael, erbyn y Gymnansa nesaf, fel na ddyrser ein hamcanion.*

HYSBYSIADAU.**LLYFRAU AR WERTH.**

Yr ydym newydd dderbyu yn agos i gant o gyfrolau o "Capt. Jones ar Formoniaeth yn 1847," oddiwrth y Rhwymwr, ac wedi eu rhwymo yn rhagorol o dda, gwych, a rhad, am wahanol brisiau megys o'r blaen. Gobeithiwn yr ymdrecha y Saint feddu un gyfrol o leiaf o'r rhai hyn yn mhob teulu cyn y byddi yn rhy ddiweddar. Mae cyfrolau 1846 oll wedi eu gwerthu eisoes, a galwad mawr am ychwaneg, ond nis ceir hwynt.

CYMMANFA MORGANWG,

A gynnelir yn Merthyr, dydd Sul, Gorphenhaf 16eg, a dymunir ar i'r holl lywyddion perthynol, a chynnifer ag a allo o'r lleill, ddyfod yno i gynnyrionoli eu gwahanol canghenau, ac ausawdd y deyrnas yn eu plith. Hefyd,

TEA PARTY Y GYMDEITHAS GENADOL

A gynnelir y dydd Llun canlynol, sef y 17eg, yn Neuadd y Cymreigyddion, Merthyr, tocynau swllt yr un, ac i'w cael gan y gwahanol lywyddion drwy'r holl ganghenau. Gobeithiwn y gwelir ymdrech dyladwy a chyffredinol tuag at y Gymdeithas ddaionus hon, ac ymdreched y Saint i wertha tocynau i ereill, canys cynnyddu y mae y galwad am genadon drwy bob cwr o'n gwlad braidd, a chynnyddu yn gyferbyniol a ddylai ein hymdrechiadau ni gyda'r Gymdeithas hon, hyd nes y bo ein cyd-ddynion drwy'r Gogledd, a manau ereill, wedi coffeidio y gwirionedd, fel ag i gynnal eu hachosion eu hunain. Gobeithio na bydd ein chwirydd selog a ffyddlon yn ol eleni i'w parodwydd a'u ffyddlondeh campus y llynedd, yr hwn nis anghofir.

CYNNWYSIAD.

Asariah Shadrach yn Formoniad.....	81	Gwahoddiad at Dduw.....	87
Camgyhuddiadau y Bedyddwyr ar y		Bedyddio "Sataniaid a chythreuliaid" 88	
Saint etto.....	83	Llythyr y Llywydd Brigham Young..	90
Enghraifft arall o greulondeb y Bed-		Hanes taith yr Oryndiaith Formonaidd	
yddwyr, a thiriondeb Duw, tuag		o Council Bluffs hyd California....	93
at y Saint.....	85	Hysbysiadau.....	95
Gofynion, a'u batebion.....	87		

MERTHYR-TYDFIL:

**CYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH
HEFYD GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL.**

ARGRAFFWYD GAN JOHN JONES, RHYDYBONT.

PROPHWYD Y JUBILI,

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 25.]

GORPHENHAF, 1848.

[PRIS 2g.]

DESGRIFIAD O CALIFORNIA.

[*Dyfyniad o hanes Teithiwr Americanaidd.*]

“WRTH ddychwelyd i gylchoedd y Sacramento, a'r afonydd a ymarllwysant iddi hi, ac i gulfor San Francisco, cawn o'n blaen y parthau mwyaf golygus, ffrwythlon, ac ysblenydd, o'r California uchaf. Y dyffryn eangaf yn yr holl gylchoedd yw yr hwn ag y rheda y Sacramento drwyddo. Cyrhaedda y dyffryn harddwych hwn yn agos i bedwar cant o filldroedd i'r wlad o gulfor San Francisco, yn agos i waelodion mynyddoedd y Californias; a'i gyfartalwch lledrawg yw o 60 i 65 o filldroedd. Dyffrynoedd eang iawn yw y Del Plumas a'r American Fork, ac y mae dyffryn Tulare yn 250 o filldroedd o hyd, ac yn 35 o filltroedd o led. Y mae cyfartalwch da o goed o amryw rywogaethau yn y dyffrynoedd hyn, megys y *white oak, live oak, ash, cotton-wood, cherry, &c.*, ac ar hyd y bryniau cylehynol ceir coedwigoedd o'r *pine, cedar, fir, pinion, a spruce*. Mae y ddaear a'r hinsawdd yn gyfaddas iawn er cynnyrchu yr amrywiaeth o fyd, llysiau, ffrwythydd, &c., ag a dyfant yn yr Unol Daleithiau, heblaw llawer o ffrwythau y cylchoedd poethion a dyfant yma yn rhagorol.

Yn mhllith yr yd a'r gweiriau blaenaf yma ceir gwenith, rhyg, ceirch, clover, a llin, ynghyd ag amrywiaeth o rawnwin, pa rai a dyfant yn naturiol a thoreithiog. Weithiau gwelir yma ranau mawr o'r wlad yn cynnwys amryw filoedd o erwau o dan gnwd thoreithiog o geirch gwyllt, cyffelyb i'r ceirch a gynnrychir yn yr Unol Daleithiau, ac yn tyfu i'r uchder o ddwy neu dair troedfedd, ac nid anaml hyd saith troedfedd. Efelycha clover y dyffrynoedd hyn glover coch ein gwlad ni, ac mewn rhai manau ceir llawnder mawr o hono; a chyfartalwch ei uchder yw dwy droedfedd a hys-

ner, er y cyrhaedda yn aml cyn uchod arall a hyny, ac yn llanw wyneb y ddaear. Deugain bwshel yr erw yw cyfartalwch y gwenith a geir, ond mynych y ceir triugain neu gant o fwsheli oddiar ddernyn bychan iawn o dir. Addfeda yr yd lwn yn mhen oddutu tri mis o'r amser ei heuir.

"Ffrwythlona yd yr India yn rhagorol. Ceir o 50 hyd 60 bwshel yr erw, heb ychwaneg o drafferth gydag ef na'i hau a'i gynauafu. Cynnyrchir pytatws, wŷnwns, moron, &c., faint a fyner, heb newawr drafferth. Cynnyrchir tybacco yma hefyd gan rai o'r trigolion gyda gobeithion da. Nid wyf yn meddwl fod daear mor ffrwythlon mewn un wlad dan haul, ac nid oes un wlad a all gynnwedu y fath amrywiaeth o ffrwythau â dyffryn Sacramento a'r cylchoedd. Tyfa y ffrwythau rhag-grybwylledig yn y mwyaf o'r iseldiroedd drwy y wlad, ac ar hyd lanau pob afonydd braidd, tyfa grawnwin, y rhai a wnant winoedd rhagorol, a *raisins* da.

"Mae yr hinsawdd mor dymherus, fel nad oes eisieu tân i un dyben, ond yn unig i bobî bwydydd. Gydag ychydig o drafferth, cynnyrchir amrywiaeth o lysiau gerddi y tymhor o'r flwyddyn a fyner, a gellir cael dau gnwd yn flynyddol o yd. Nid anfynych y gwelir llyciau yn eu llawn flodau ganol y gauaf, a holl natur yn gwisgo ei harddwisg, yn enwedig yr iseldiroedd. Gall y teithiwr wrth ei fewllys, unrhyw dymhor o'r flwyddyn, fwynhau rhew ac eira tragwyddol, neu wleda ei lygaid ar ffrwythlondeb a gwycheder gwanwyn parhaus, neu wleda ei chwaeth yn y cyflawn fwynhad a frasder cynnyrch yr haf diddarfod; i.e, boddlonir ei lygaid, ei feddwl, a'i chwaeth yma, os boddlonir ef ag unrhyw hinsawdd, daear, a ffrwythydd.

"Yr unig wlawogydd braidd a geir yma a ddisgynant o ddechreu mis Ionawr hyd Fawrth, sef eu gauaf. Am oddeutu un ran o dair o'r cyfamser arllwysa y cymmylau eu gwlawogydd i lawr yn erwin, a'r gweddill o'r tymhor hwn sydd glir, hyfryd, a thymherus."

TYSTIOLAETH MORGAN DAVID, FELINFOEL.

Annwl Frawd.—Wele fi yn anfon y llinellau hyn atoch; ac os dewiswch wele hwytat eich gwasanaeth:—

Mi a fwm ddeunaw mlynedd gyda'r Bedyddwyr, ac yn lled wresog, tra yr oeddwn heb agor fy llygaid, ond derbyn pob peth fel yr oeddwn yn ei gael, heb gynnwys profi dim; ond pan y darfu i mi grafa ar ym-

ddygiadau pregethwyr, ynghyd â'u hegwyddor arianog, mi ddechreuais oeri, ac a sylwais yn fanylach ar bob peth yr oeddwn yn glywed o'r pwlpudau, sef fod mor anghenrheidiol i gael o'r Ysbryd Glân ag oedd i Grist farw, a chlywed gweddio am dano, a gweddio fy hunan, yn nghyda neillduo cyfarfodydd er gweddio am dywalltiad mwy helaeth o hono ar yr eglwysi; ond byth nid oeddwn yn gweled ei effeithiau, nac yn teimlo ei ddylanwadau, a'r canlyniad a fu i mi ddyfod i'r penderfyniad nad oedd yr Ysbryd Glân idd ei fwynbau mewn un modd yn yr oes hon. Yr oeddwn yn tybied nad oedd ond y gair yn unig i'w gael, etto yr oeddwn yn gwybod mai gwaith ysbrydol oedd addoli Duw; ac yn nghanol y dyrswch hwn yr oeddwn yn methu yn deg a mwynhau crefydd y Beibl. Bu chwant arnaf droion i roi fy aelodaeth i'fyny mewn anobaith wrth weled pawb fel finnau. Wel dyna'r modd yr oedd hi arnaf fi gyda'r Bedyddwyr. Ond yr wyf yn diolch i'm Tad nefol am na adawodd fi i ymbalfalu yn nghanol y tywyllwch yn hwy, ond efe o ddanfônodd ei weision, Saint y Dyddiau Diwedaf, â'r efengyl dragwyddol yn nghyflawnder ei bendithion i'r gymydogogaeth; ac er iddynt fod yn ddisylw genyf ar y cyntaf, yr wyf yn awr yn diolch i'm Tad nefol am iddo ganiatâu i mi gael hamdden i'w gwrando, canys er cymmaint a glywswn i'w herbyn gynt, mai "Sataniaid parod oedd-ynt," &c., etto gwelwn fod yr hyn a bregethent yn cydgorodio â'r Testament Newydd, ynghyd â'r dystiolaeth a roddent; ond yr oeddwn yn petruso ai gwirioneddol eu haddewid, sef y buaswn i yn cael y cyffelyb dystiolaeth gau Dduw wrth dalu ufydd-dod i'r drefn ag yr oedd-ynt hwy wedi ufyddhau iddi. Mi a edrychais yn fanwl ar y dynion ag oeddynt yn tystiolaethu, pa un a allasai fod ganddynt rhyw dwyll neu beidio. Yr oeddwn yn gweled nad oedd dim hudr elw yn eu cymhell, ond mai colledu eu hunain yr oeddynt. Yna ar ol i mi gael bod eu hathrawiaeth yn hollol ysgrythyrol, penderfynais ufyddhau i'r drefn drwy gael fy medyddio; ac yr ydwyf yn diolch i Dduw, adnabyddwr calonau, yr hwn a ddug i mi dystiolaeth trwy roddi i mi yr Ysbryd Glân megys ag iddynt hwythau. Yr wyf yn gwybod yn awr fy mod i yn aelod yn eglwys Iesu Grist. oblegid y mae yn cyfateb i'r eglwys ag y darfu i Grist ei gosod ar y ddaear: y mae ynddi apostolion a phrophwydi, ynghyd â'r holl swyddau a'r doniau ysbrydol, er perffeithio y saint, i waith y weinidogaeth, i adeilad corff Crist; ac erfyniaf ar fy holl hen frodyr a chwiorydd anwyl i wneyd yr un modd ag y gwnaethum ianau. Hyn yn bresennoll oddiwrth eich gostyngedig frawd,

MORGAN DAVID.

"TWYLL y MORMONIAID."

Mr. Gol.—Traddodwyd darlith ar y testyn uchod gan un o'r enw Mr. W. Jones, Liverpool yn Nghapel yr Anymddibynwyr, yn Rhosllanerchrugog, Ebrill 18fed, 1848. Gosodiadau y ddarlith oeddynt y rha canlynol; ac os byddwch chwi, neu ryw un o'ch gohebwy, yn ewyllysio adolygu rhywbeth ar y pynciau, wele hwy at eich gwasanaeth.

"1. Pfydd y Mormoniaid:—Credant fod Duw fel dyn yn meddu corff, aelodau, rhanau, &c.,—rhyw dduw ba h fel hyn a adlolant.

Credant y daw yr anifeiliaid i lesaru, ac i argyhoeddi dyn annuwid, ac i iachâu clefydat. Credant mewn breuddwydion, ac mai dyna yw y graig y sonia Crist am dani yr adeiledir ei eglwys arni. Credant nad yw y swyddogion gwladol presennol yn gyfreithlawn, ac na ddylid credu tystion o'r byd ar lw, os na byddant wedi eu hysbrydoli.

2. Blaenor y Mormoniaid :—“Dyn ffol, breuddwydiwr, un yn edrych i'w het am ddatguddiad. &c. Wedi iddo gael amryw ganlynwyr, dywedodd wrthynt am gymmeryd cleddyfau, a gweithio eu ffordd, fod Duw wedi rhoddi y wlad iddynt hwy, ac y byddaf yr Uol Daleithiau yn cael eu dyfetha yn y flwyddyn 1832.

3. Llyfr Mormon :—“Dywed y Mormoniaid mai hen ysgrif ydoedd hwn, wedi ei ysgrifenu gan yr hen Indiaid, a bod Joe wedi ei gyfieithu trwy allu dwyfol. Ond y gwir yw, mai S. Spaulding a'i gwnaeth. dyn duwiol dysgedig, a hyny o ran difyrwch. Collwyd 116 o dudalenau o'r cyfieithad, ac ni allai Joe eu hail wneyd.

4. Barn y darlithydd :—“Nid oes eisieu fod apostolion yn awr, am na bu erioed ond deuddeg gan Grist. Ni fwriadwyd erioed y gwyrthiau i argyhoeddi y byd, ond i sefydlu y grefydd. Mai addas galw y Mormoniaid yn Sataniaid, am mai yn y nos ac yn y tywyllwch y mae Sat. n yn gweithio, ac felly eu bod hwythau yn arfer y nos droch, a'u gwaith dirgel, ac na chaff neb ei wybod heb ymuno â hwy.”

Yn nesaf, wele rifres o'haeriadau y darlithydd anwireddus hwn,—“Ni fedd y Mormoniaid na rheswm na Beibl. Mai twyll yw crefydd y Mormoniaid i gyd. Nad oes dim o grefydd y Mormoniaid o Dduw. Ond cymmerasai ef wir gan Formon pe cawsai,” &c.

Adolygydd y ddarlith uchod nos dranoeth, sef Ebrill 19eg, yn Rhoslanerchrugog, i glywedigaeth ugeiniau o bobl, a hyny heb gau-iatau fod dim o'r gosodiadau uchod yn wirionedd (eithr yn gabledd anwireddus, yr hyn sydd yn profi nad oes gan ein gelynyon ddim gwir i'w ddywedyd i'n herbyn), ond yn unig fod Duw yn berson ysbrydol, fod Llyfr Mormon yn hen ysgrif, a bod 116 o dudalenau o'r cyfieithiad wedi ei ddwyn. Ni fwriadwyd y gwyrthiau i argyhoeddi y byd, ac am hyny na ofyned y byd am wyrth er mwya credu byth etto! Yna os twyll sydd gan y Mormoniaid i gyd, a'i fod yntau yr un farn yn y pethau hyn, onid yw yntau wedi llithro ychydig? Fy rhesymau dros beidio adolygu y pynciau uchod yn awr yw, 1. Eu bod yn anwireddau mor eglur. 2. Fy mod wedi gwneyd hyny yn y lle y traddodwyd y ddarlith. 3. Fod cymmaint o'r cyffelyb wedi eu hadolygu yn gamwrs ac anwrthwynebol, a'u cyhoeddi gan Capt. Jones. 4. Am fod genyf wers arall, yr hon mae llawn groesaw i rhywun ei hadolygu, os gall ar dir rheswm a Beibl; sef, Iaf, Adferiad gwir grefydd, trwy alw swyddogion, a'u hordeinio, a'u ddiffion i ddyngu y gyfraith, a gweinyddu yr ordinhadau. 5. Fod bendithion ysbrydol teyrnas Ddaw yn cael eu cyfranu i'r sawl a ufyddhao i'r gyfraith osodedig hon. 6. Ydd. Mai dyna barotod y nill blynyddoedd, ac adferiad pob peth, y rhai a lesarodd Daw er y dechreuad. Wrth ystyried helaethrwydd a gogoniant y gwaith hwn, nid oes geir ym amser i ddiu careg at bob ci a'n cyfartho,

R. EVANS.

O. Y. Os oes gan ryw un o'n Gohobwyr amser a chwaeth i amgodi-

ffyn ein crefydd a'n cydgrefyddwyr rhag yr enllibiau a'r camgybudd-
iadau gwarth uchod, cânt ymddangos drwy y *Prophwyd*, rhag ofn y-
ceir rhywun yn rhywle mor ddwled â'u coelïo, yr hyn sydd amheus
genym ni.—GOL.

LLYTHYR W. WOODRUFF, UN O'R APOSTOLION.

Council Bluffs, Ebrill 25, 1848.

ANWYL FRAWD CAPT. JONES.—Anghyflawnder a'm teimladau fy-
hun fyddai oed ysgrifenu atoch ddim yn hwy. Bwriadais y naill dro
ar ol y llallî gymdeithasu â chwi trwy gyfrwng llythyrâu, a chyflwyno
i chwi hanesion pethau gyda ni, a deisyf hysbysiad o'ch helyntion,
chwithau yn Nghymru, ynghyd â hynt yr achos dwyfol ag yr ydym ni
ein dau wedi cael yr anrhydedd o fod yn gydweithwyr i Dduw ynddo ;
ond hyd yn hyn fe'm lluddiwyd gan bwys y gwaith a ymddiriedwyd ar-
fy ysgwyddau i'w gyflawni. Ond o hyn allan, gan fy mod yn myned
i wlad "Gristionogol," fel y gelwir y taleithiau dwyreiniol, Canadas a
Nova Scotia, hyderaf y caf swy a amser i ysgrifenu atoch yn fynych-
ach. Treuliais y flwyddyn ddiweddar o'm hamser yn gyffelyb i'r
gweddill o'r "deuddeg,"—saith mis o honi a dreuliwyd ar daith i
California ac yn ol yma ; ac mewn gwirionedd, taith gyflawn o hy-
nodion ydoedd.

Y 500 milldiroedd cyntaf o'n taith, hyd amddiffynfa Laramie, oedd
ar hyd yr ochr ogleddol i'r afon Platte, lle na theithiodd erioed o'r
blaen ond erwydriaid cochion y goedwig. Gwnaethom ffordd newydd
ar hyd yr holl bellder hwnw, ac adeiladasom amryw bontydd, Ar hyd
y ffordd hon caffem lawnder mawr o wyddau, whiaid, *cranes*, elyrc'h,
deer, *antelope*, *elk*, a *buffalos*, wrth y degau o filoedd. Oddiyno teith-
iasom drwy y mynyddoedd duon am oddeutu 500 o filldroedd. Ar-
hyd y parthau hyn ni cheir y creaduriaid a nodwyd mor luosog ag yn
y parthau rhag-gryhwylledig, ond cyfarfyddem ag ambell arth yn ym-
lwybro drwy y goedwig am ysglyfaeth, pa rai a ellir saethu â drulliau
yn hawdd ond bod yn wylidwrus ; lladdasom amrai o honynt ar ein
taith, ond dibynem yn benaf ar y buffalo am gig ar hyd y daith. Mae
cig lloi y buffalo yn ymborth rhagorol. Cythsyhlwyd ni rai prydiau
gan ryw ddyhirod o Indiaid, y rhai a geisient yru ymaith ein cefylau,
ond llwyddasom i gael yr oll braidd yn ol drwy eu dilyn i'w gwersyll-
fan. Nid yw blaenoriaid yr Indiaid yn caniatâu i nebymosod arnom ;
ond o'r ochr arall, ymddygant yn gymmydogol iawn at y Saint, hyd
ag y gwelsom hwynt, oddieithr rhyw ddyhirod o honynt.

Ar ein dychweliad yn ol o California, cyfarfuom â 600 bedroffeni
llwythog o Saint, dan lywyddiaeth P. P. Pratt a J. Taylor, ar eu ffordd
tua'r Llyn Halen yn California. Dyffryn y Llyn Halen a arddengys
yr olygfa odidocaf, harddaf, a mwyaf paradwysaidd o un man a welais
erioed. Amgylchynir y dyffryn hwn â mynyddoedd tra uchel, ar uch-
afion pa rai yr arosa eira parhaus, tra y mae yr hinsawdd yn y dyffryn
yn agos i 100 o raddau, Rheda afonydd o ddwfr oer a phuraidd
lawr o honynt heibio drysau ein pebyll lle y gwersyllem, er ein di-
sychedu. Tiriodd yma dri o genadon yn ddiweddar, y rhai a gych-

wynasant o Ddinas y Llyn Halen canol mis Ionawr, a dygant oddiyno l weroedd o newyddion daionus, ac nid dim drwg. Yr oedd yno ar y pryd hyny 3000 o drigolion eisoes, ac yr oedd afiechyd a marwolaeth yn anadnabyddus braidd yn eu plith. Adeiladasent eisoes un felin i talu yd, a thair i lifio coed. Hauasent y pryd hyny 1500 o erwau o wenith, yr hwn a ymddangosai yn obeithiol iawn, ac ameanant hau oddeutu cymmaint a hyny yn ychwanegol y tymhor hwn, ynghyd â thair neu bedair mil o erwau o yd yr India, &c. Adeiladasant odd-eutu mil o dai anneddu. Wedi y cynnyrchant hender o yd yno er cynnaliaeth ymfudwyr, cynnydda yr ymfudiaeth tuag yno tua phum gwaith y nifer yn flynyddol. Mwynheir iechyd rhagorol drwy y sefydliadau hyn yn bresennol, ac ni bu nemawr farwolaethau nac afiechyd yn mhlith y Saint yma drwy y gauaf diweddf. Bwriada y Saint a'r nad ymfudant i California eleni ymsymud oddiyma i'r ochr arall i'r afon i wladychu yn nhir y Pottawatamie Indians, hyd nes y gallant ymbarotoi gogyfer â'r gweddill o'r daith.

"Dysgwyliais yn fawl ac awyddus ar redegfa y llong efengylaidd yn cyffimu yn mlaen dros eirwon dônau moroedd Cymru, a Capt. Jones wrth y llyw, a'r faner Formonaidd wedi cael ei hoelio yn mhen yr hwylybren. A da genyf ddweyd ei bod hi yn ymrwyfo yn mlaen tu-hwnt i bob dysgwyliaid, ac yr wyf fi yn cael fy moddioni yn fawr wrth weled fod y llong dan y fath lywyddiaeth ddiogel a medrus. Credwch fi y brawd Jones, yn dweyd fod fy enaid wedi ei lanw o lawenydd wrth glywed am y gwaith nerthol a wnaethoch eisoes er gwaethaf y gwrthwynebiadau o bob math a gawsoch ar y maes, ac y mae yn llawenydd diddarfod genyf glywed fod niiloedd yn derbyn iachawdwriaeth drwy eich offeryniolaeth. Caiff cenedl y Cymru achos i lawenhau hyd oesoedd diderfyn tragwyddoldeb, fod iddi un mab o leiaf yn feddiannol ar feddwl digon anymddibynol i gynnyg egwyddorion pur yr iechydwrriaeth i'w gydgenedl, pa rai a ddadguddiwyd o'r nef er achub y rhai gostyngedig o galon ag sydd ya ceisio y gwirionedd megys y mae yn yr Iesu, rhag y barnedigaethau a'r plâu ag sydd yn hongian uwchben annuwolion y ddaear; a'r hwn sydd yn alluog, yn ewyllysgar, ac yn awyddus i ledaenu ac amddiffyn egwyddorion puraidd efengyl Iesu Grist, ac i gynnyg iachawdwriaeth i'w gydgenedl, serch ei wnenthur trwy foroedd o rwystra, anfanteision, a gorthrymderau, a serch iddo ddyoddefllid, cynddaredd, ac anathemau y deillion ag y dymuna eu llesoli. Byddwch ffyddlon a phenderfynol yn eich galwedigaeth, canys sicr yw y daw y dydd ag y cyrhaeddwch ogoniant, anlygredigaeth, a hywyd tragwyddol, i orfoeddu gyda'r niiloedd o'r rhai dedwydd a dderbyniant iachawdwriaeth drwoch chi, pa ag y sudda eich holl erlidwyr a'ch gwrthwynebwyr yn eigion y pydewau ffaidd ag a gloddiasant i chi a'r gwirionedd, ac y byddant hwy wedi myned i ebgofiant.

Gwir fod eich cenadiaeth yn faith yn Nghamru, etto byddwch amyneddgar, canys yr ydych yn gosod i lawr seiliau i waith daionus a mawreddig, ac ymgysurwch, ni chollwch eich gwobr. Lawer gwaith y myfyriais yn bleserus ar y fordaith ar yr ymddyddanion melys a gawsom ar fwrdd y llong J. R. Skiddy, o Gaerefrog Newydd i Llynlleifiad. Yr wyf yn llawenhau am fod yr Arglwydd gyda chi, ac wrth

glywed am ffrwyth eich llafur. Eithr rhaid terfynu bellach am y tro hwn. Dymuna fy ngwraig a'm teulu eu cofio yn garedig at y Capt. Jones, a Mrs. Jones. Byddwch mor ddaed ag ysgrifenu ataf i Boston pan dderhynioch hwn, a rhoddwch eich hanes ynddo i mi.

"Nid yw y rhyfel rhwng Mexico a'r Taleithiau Unol wedi dyhenu hyd yn hyn, na gobaith o hyny yn suan, ond gwneir darpariadau rhyfelawg o bob ochr. Dywedir fod deiseb gerbron y Senedd am gael 30,000 yehwaneg o flwyr i fyned yno.

"Ydwys, anwyb frawd, yn eiddych yn rhwymyn y C. N..

"WILFORD WOODRUFF."

GOFYNIAD, A'E ATEBIAD:

Mr. Gos.—Beth a ddeallwch wrth y, "bwystfil arall," yn Dat. xiii. 11—14? Ai un i ddyfod ar ol oes yr apostolion yw efe? Os felly, a fydd ei "ryfeddodau mawrion" yn weledig i'r cyhoedd? Pa bryd, a phafodd, yr iacheir ei "glwyf marwol" ef? Atebiad buan a foddha amryw, ac a ddyry amlygrwydd o ffolineb y rhai sy'n dweyd fod hyn yn cyfeirio at Joseph Smith, a'r Saint, debygaf.

T. JEREMY.

Atebwn, y dynoda y "bwystfil," nid person unigol, ond cyfundaeth, yr hon a gynnwysai snith o amrywiaethau llywodraethol, pa rai rhyngddynt a deyrnasent dros ddeg o deyrnasoedd breiniol, megys yr oedd y bwystfil cyntaf (adn. 1). Yn adn. 2. dynodir cryfder a chreulonder y prif lywyddiaeth. Y "ddraig" yw ei dduw ef, sef duw y byd hwn. Gallu y "ddraig" oedd i wneuthur gwyrthiau, trwy ba rai ennillai bawb i addoli y bwystfil, a thrwy hyny i addoli y diafol yn ddiafwr bod iddynt eu hunain. Y modd y clwyfwyd un o'i benau megys yn farwol, oedd drwy iddynt gollu y gallu gwyrthiol am 1260 o flynyddoedd; i'r achos o hyny oedd oherwydd nad oedd gwir wyrthiau yn cael eu cyflawni gan Dduw drwy ei weision yn y cyfamser, ac yna ystyriai y diafol ei ffug wyrthiau yntau yn awr yn afreidiol i dwyllo dynion. Adn. 7 a brawf mai a'r saint yn oes yr apostolion y rhyfelai, yr hyn sy'n profi mai yn yr oesoedd hyny y cyfodai y bwystfil cyntaf, ac o ganlyniad y byddai i'r un dan sylw fodoli yn yr oesoedd diweddaraf. neu yn hytrach mai yn agos i ddiwedd teyrnasiad y bwystfil yr adfywid, neu yr adferid, adfeiliad yr hen ffurf i'w grym cyntefig trwy ddyfodiad yr ail bwystfil: "a holl allu [gwyrthiol] y bwystfil cyntaf y mae efe [sef y bwystfil arall] yn ei wneuthur ger ei fron [yn ol yr un gyfundaeth] ef," sef gerbron y bwystfil cyntaf, yr hyn a brawf na ddichon fod yr ail yn gyfundaeth newydd, ond mai adfywiad ydyw o'r hen ffurf a fyddai yn bodoli ar ol yr apostolion. Os atebir pa gyfundaeth grefyddol a gwladwriaethol a erludiodd y saint nes eu gorchfygu gynt, ac sydd yn bodoli etto ar eu hadfeiliadau hwynt, hyny a ateba eich gofyniad cyntaf a'r ail, a thebygaf fod ei enw yn rhy hysbys i ni ei enwi yma. Ond gwelir na ddichon fod yn "Joe Smith," na "Mormoniaeth."

Bydd, tebygw'n, "ei wyrthiau a'i ryfeddodau" yn gyhoeddus, yn llosgosog, ac yn rhyfedd iawn. Byddant mor nerthol fel az y proselytia efe yr holl rai na feddant y ddawn o "wahaniaeth ysbrydoedd;" ac y

mae efe wedi bod yn gweithio yn ddirgel er's oesoedd i barotoi yr holl fyd sectyddol i gredu gweision nerthol y bwystfil olaf hwn, drwy broselytio y byd i gredu "mai dyben gwyrthiau oedd profi gwirionedd crefydd, a danfoniad personau gynt," a'u dysgu drwy hyny i ofyn gwyrthiau ac arwyddion gan weision Duw, gan addunedu ond iddynt weled "gwyrth fach y credent yn y fan," nad beth fo eu hathrawiaeth; a phan wrthoda gweision Duw foddhau eu mympwyon, eithr pregethu Crist croeshoeliedig, a thraethu eu cenadwri i'r rhai gonest eu calon, yna daw yr *heralds* bwystfilaidd ar draws y byd gyda nerthoedd a chynnorthwy yr hwn a ofynodd i'n Tywysog ni yn yr anialwch gynt, droi y gareg hōno yn fara, ac a roddant arwyddion mawrion i'r sawl a geisia ganddynt, a diau y cyhoeddant gyfarfodydd, ac y gwahoddant yr holl wlad yno i weled eu gwyrthiau ar yr amser penodedig, ac ar ol cael yr edrychwyr i addaw eu eredu hwynt, cyflawnant bethau mawrion ac anhygoel, ac yna daliant y sectariaid ar eu cynnyg, ac ni allant eu grwthsefyll, oherwydd dyweda eu duwinyddion hwy eu hunain mai profi dwyfol ddanfoniad personau oedd dyben gwyrthiau, a dywedant y pryd hyn, "Dyma hwy; gweision i Ddaw yw y rhai hyn gwelwch eu gwyrthiau; ond am y Seintiau gwael, ni welson ni un o'u gwyrthiau hwynt erioed. Ac felly dyna hwy yn magl y diafol yn dynach na chynt, ac wedi rhyddhau gweision Duw o'r cyhuddiad, drwy haeru nad ydynt yn gwneyd arwyddion a rhyfeddodau; canys y gau, ac nid y gwir, sydd i wneyd felly i'r dyben hyny, ac ar arch y gwrandawwyr (gwel Mat. xxiv, 24). Gweled y rhyfeddodau a dwyllia y bobl i gredu mai crefydd y bwystfil yw yr un ddwyfol, pan y mae ffydd i gredu crefydd Crist yn dyfod, nid trwy weled â'r llygaid, eithr trwy glywed gair Duw, fel y dywed Paul.

Trwy gyfswyniad y diafol o'r gallu gwyrthiol hwn yn of i'w weision, yr "iacheir y elwyf marwol," canys dyma oedd y bywyd a'r nerth oedd ynddi gynt; a pha beth a allai archolli crefydd ddwyfol neu ddiestlig yn fwy na'i hamddifadu o'i gallu goruwchnaturiol? Ni ddichon y byddai yn gweddill o'r naill na'r llall ond yr ysgerbwdd diadefn dd. Gwel pob dyn llygad-graff ag a sylwo ar arwyddion yr amseroedd enbyd hyn, fod yr hyn sydd yn attal wedi cael ei dynu ymaith eisoes braidd, fel yr awgryma Paul drwy Ysbryd y brophwydoliaeth am y dyddiau diweddaf yn 2 The. ii, 3—12. Gwelir yr anfona Duw ei weision cyn adfywiad yr ail fwystfil, nid i wneyd gwyrthiau, ond i draethu eu cenadwri i'r byd colledig, i'w dysgu beth sydd raid iddynt wneyd i fod yn gadwedig, sef eu dysgu yn yr unrhyw orchymynion ac ordinhadau ag a ddysgai yr apostolion i'w cydoeswyr, gan addaw i'w hufyddion, ac nid i'r anghredinwyr, faddeuant pechodau trwy fedydd, ac y derbyniant "ddawn yr Ysbryd Glân," ac y byddai i'w *Duw*, ac nid *hwy*, gadarnhau eu cenadwri i'r credinwyr, ac nid i'w gelynyon, trwy arwyddion dwyfol, y rhai fyddai yn *sendithion canlynol*, ac nid yn *arwyddion rhagfaenol* i'w weision.

Y mae hyn oll yn amlwg yn yr uchod, ac hefyd y gwelai diafol nad allai gadw y cyhoedd yn y tywyllwch yn hwy trwy wadu gwyrthiau, a dweyd nad oes eu heisieu; ond neidia i'r ochr arall i'r berth, a bydd efe a'i weision yn hōnwyr gwyrthiau mor selog â neb yn y fan, er dallu y bobl rhag credu gwir wyrthiau, sef doniau yr Ysbryd Glân, pa rai a:

gyfrana Duw i'w blant, ac yna gwaedda gweision y bwystfil yn groch, "Dowch atom ni; nynt sydd yn gwneyd gwrthiau." A dywedant y pryd hyny, pob un am yr uwchaf, fod eisieu gwrthiau, gan ymrithio yn angel y goleuni. Ac ar eirwiredd y prophwydoliaethau uchod, a'r eiddom niunau, anturiwn gyhoeddi nad yw yr amser neppell pan y clywir awdurdodau a thywysogaethau ag sydd yn dala gallu mawr mewn lleoedd uchel yn nheyrnas y gelyn, yn hōni y parhad o'u gwrthiau, a'r anghenrheidrwydd am danynt yn yr oes hon mor selog â neb o'r Saint, ac yn haerneu bod hwy yn meddu y doniau ysbrydol; gweledigaethau, prophwydi, ydoniau iachâu, &c., a'u bod hwy wedi bod yn bleidwyr bob amser i'r athrawiaeth o barhad gwrthiau yn yr eglwys. Mae rhai o gewri sectariaeth eisoes flys blaenori vn y chwyldroad rhyfedd hwn i iachâu clwyf y bwystfil trwy wisgo y siaced wyrthiol yn ddirgel, ac yn gofyn i'w cyfeillion pa fodd y gwedda i'w gwisgo yn gyhoeddus. Yna gwaedda eu *hirelings* o'u pwlpuclau, "Deuwch atom ni; yr ydym ni yn credu mewn gwrthiau, &c.; ac yr ydym ni yn feddiannol ar yr offeiriadaeth er oes yr apostolion." Pryd hyny dyrchafed y Saint eu penau, a gwylant, canys dyddiau peryglus hyd yn nod i garwyr y gwir fydd y rhai dyfodol, pan y merwinir eu elastiaid yn clywed son am arwyddion gau a wnaed yma, ac y diflaso eu llygaid ar ryfeddodau y bwystfil draw; yna deailir y bydd clwyf y bwystfil wedi cael ei iachau, ac yu elyn penaf i "Formoniaeth."

DEDFRYD GOLLFARNOL IESU GRIST.

DYWEDA Golygydd newyddiadur Ffrancæg fel hyn:—"Damwain a roddodd yn ein dwylaw y *document* pwysicaf, a mwyaf difyrus i'r Cristionogion a fu erioed, h. y., y ddedfryd wreiddiol golffarnol a roddwyd ar yr Arglywydd Iesu Grist." *Cyfieithwyd yr hyn a ganlyn yu ofalus gan y golygydd, a sicrha ei fod yn llythrenol.*

"Dedfryd a roddwyd gan Pontius Pilat, tetrarch presennol dros Galilea Isaf, yn hyshysu y bydd raid i Iesu o Nazaraeth ddyoddef marwolaeth ar y groes.

"Yn y flwyddyn dwy-ar-bymtheg o deyrnasiad yr Amherawdwr Tiberias Cesar, ar y 25ain o fis Mawrth, yn y ddinas santuidd Jerusalem, Anna a Chaiaphas yn archoffeiriadid cynnychiolwyr pob Dduw. Pontius Pilat, tetrarch Galilea Isaf, yn eistedd ar gadairlywyddol y *Praetory*, sydd yn condemnio Iesu o Nazareth i farw ar y groes, rhwng dau leidr—tystiolaeth fawreddig ac unfrydol y bobloedd yn dywedyd;—

"1. Mae Iesu yn fradwrus.

"2. Mae efe yn dwyllodrus.

"3. Mae efe yn elyn i'r gyfraith.

"4. Cablenwa ei hun yn Fab Dduw.

"5. Cablenwa ei hun yn Frenin yr Iuddewon.

"6. Efe a aeth i'r deml, a thyrfa a'i dilynodd, gan ddwyn palinwydd yn eu dwylaw.

"Gorchymynir i'r prif ganwriad, Quillus Cornelius, ei arwain ef i'r dienyddle.

"Gwarafunir i unrhyw berson cyfoethog na thylawd i wrthrynebu marwolaeth Iesu."

Enwau y tystion a danysgrifiasant y ddeddfryd uchod yw,—**1.** Daniel Robani, Pharisead; **2.** Ioannus Rorobable; **3.** Raphel Robani; **4.** Capet, dinasydd.

"Aed Iesu allan drwy borth Struennus."

Darganfyddwyd yr nchod wedi ei gerfio ar gopr, a'i ddodi oddifewn i gist o farbl gwyn, yr hon a ddarganfyddwyd with dirio o dan adfeilion hen ddinas Abuilla yn nheyrnas Naples, yn y flwyddyn 1820, gan swyddwyr byddin oedd y Ffrancod. Yn gerfedig ar yr ochr arall i'r llafr copr, yr oedd y geiriau canlynol:—"Anrhegwyd pob llwyth â chopi o'r gollfarniad uchod."

ENWAU DEUDDEG APOSTOL "GORUCHWYLLIAETH CYFLAWNDER YR AMSEROEDD."

Ar ddymuniaid llawer o'r Saint yna a thraw cyhoeddwn enwau y dewrion cyfeiriadig, fel y caffom ateb y cwestiwn mynych hwn i'r oll ar unwaith, a theilwng o'u cofrestru ar lechau calonau holl garwyr y gwir, megys ag y maent ar ein calon ninnau, ydyw euwau y gwladgarwyr, y doethion, a'r mawrion ddyuniaid hyn, eanys mwynha y Saint ffrydiau o oleuni drwyddynt o'r ffynnonell oddifry; etto, nid dim megys yn gyferbyniol i'r hyn a ddeillia etto i'r neb a wrendy ar eu cynghorion dwyfol.

Brigham Young,
Heber C. Kimball,
Willard Richards,
Orson Hyde,
Parley P. Pratt,
John Taylor,

Wilford Woodruff,
George A. Smith,
Amasa Lyman,
E. T. Benson,
Orson Pratt,
Lyman White.

BETH A WNEIR I ERLIDWYR Y SAINT?

Sir Fynwy.

Anwyl Frawd,—Yn gymmaint a bod Mr. Rees, ac amrywïol o weinidogion ereill yn y Sir hon wedi bod ar y maes cyhyd yn erbyn Mormoniaeth, yn dweyd pob math o ystorïau a chelwyddau yn ei herbyn, yn awr mae eu hynfydrwydd yn dod i'r amlwg, nes achosi i'r dynion goreu yn eu plith i ddyfod atom, â dagrau ar eu gruddiau, ac yn gofyn, "Beth a wnawn am fod yn gadwedig?" Yr atebiad yw, "Edifarhewch, a bedyddier chwi er maddeuant pechodau, a chwi a dderbyniwch ddawn yr Ysbryd Glân;" ac yna y maent yn dod, ac yn awr yn llawenhau yn addewidion eu Duw. Yr ydyn yn dysgwyl gwled yr erlidwyr eu hunain yn dyfod â dagrau ar eu gruddiau, ac yn gofyn, "Beth a wnawn am fod yn gadwedig?" Ni allwn ni ddim a'u hateb, oherwydd fod eu pechodau gymmaint; ond dymunwn i chwi hysbysu drwy y **PROPHWYD** beth a wnawn ni iddynt?

Oedwn y peth yn awr hyd oni ddaw atebiad; ond yr wyf yn meddwl y bydd llawer o dagrau wedi llifo dros eu gruddiau cyn y delo, os oedwch.

Os oes modd eu hachub rhyw fodd, dymunwn gael gwybod mor fuan ag y medroch.

WILLIAM PHILLIPS.

[Rhaid i ni gael amser i ystyried peth, cyn ateb cwestiwn mor bwysig. Os yw ein herlidwyr uchod wedi syrhaedd y gammp uchel o fod yn "Santaniaid a chythreuliaid." Mr. Jones, Felinvoel, neu Mr. Davies, Dowlais, a allant ateb, efallai.—Goz.]

LLYTHYR D. ROBERTS, LLWYNYGELL.

Anwyl Frawd Jones.—Wele fi yn cyrrueryd y cyfleusdra hwn i'ch hysbysu am ein llwyddiant presennol gyda gwaith yr Arglwydd. Yr ydym wedi bedyddio tri er pan ysgrifennaiis o'r blaen atoch, ac y mae arwyddion am ychwaneg. Yr ydym yn pregethu mor egsiol ag y gallwn, ac yn cael gwrandawriad lled astud a lliosog yn fynych. Y mae y wlad megys yn deffroi o'i chysgadrwydd, a braidd yn dechreu llygadgythu ar arwyddion yr amser, rhwng pregethau y Saint, a gweryriad y march coch, ac ystoriau ein gelynon. Mae lluoedd yn barod i ofyn beth yw y mater, ac yn dechreu nesu i gael clywed y Saint yn ateb y gofyniad uchod, wedi methu bodloni eu hunain yn ei ateb.

Mae genym lawer o ddymuniad i'ch gweled yma yr haf hwn, a gobethiwn na angbofwrch mo honom yn y gogledd, er mor oered yr hinsawdd yr ydym yn byw ynddi yn bresennol, ond y mae ychydig dan wedi ei ddechreu yma, ac yr ydym am gadw y meginau ar waith hyd oni elo yn fflam enynol. Gweddwrch drosom, fel na ddiffygiom, ac nid ydym ninnau yn peidio ar eich rhan chwithau, ein hanwyl frawd. Mae'r holl Saint yn eich anerech yn garedig yn yr Arglwydd. Amen.

D. ROBERTS.

Llwynygell, Blaenau Ffestiniog.

GWIR EGLWYS IESU GRIST

Yn cael ei chyferbynu â chyfundraethau dynion.

Y Duw addola ereill, nid yw yn Ddaw i mi,

Ni fedda gortî na rhanau, ni chlyw, ni wel ayni;

Ond y mae genyf Ddaw sydd fry,

Sef Duw galluog, Duw sy'n gu,

A Duw sy'n rhoi dadguddiad,—O, dyna'r Duw i mi!

O, dyna'r Duw i mi!

O, dyna'r Duw i mi!

Pob eglwys heb apostol, nid eglwys yw i mi,

Mae fel rhyw long heb hwyliau yn nofio ar y Bî';

Ond eglwys d'wysir îs y nen

Gan ddeuddeg seren gylch ei phen,

Ac eglwys dda ei sylfaen,—O, dyna'm heglwys i! &c., &c.

Pob eglwys heb un prophwyd, nid eglwys yw i mi,

'Does ganddi ben i'w harwain, mae'n gwyro ar bob tu;

Ond eglwys nid o drefniad dyn,
Yr hon osododd Duw ei hun,
Sef eglwys a'r "arwyddion,"—O, dyna'm heglwys i! &c., &c.

Y gobaith fedd Cenedloedd, nid gobaith yw i mi,
Heb fydd ac heb wybodaeth, nid yw ond t'wyllwch du;
Ond gobaith ddeil tra'r ddaer a'r nen,
Ac un a wel tufewn i'r llen,
'Rlawn obaith sydd fel angor,—O, dyna'm gobaith i! &c., &c.

Y nefoedd fyn sectariaid, nid nefoedd yw i mi,
Mae h6no'n rhy anghysbys, mewn gwagle rhywle fry;
Ond nefoedd ar y ddaear hon,
Y gartref lle y sugnais fron,
Nef oleu, nef gwybodaeth,—O, dyna'm nefoedd i! &c., &c.

Pob eglwys heb gydgasgliad, nid eglwys yw i mi,
Ni wnelai yr lachawdwr fyth arddel un fel hi;
Ond eglwys wedi'i galw maes
O'r byd a'i draddodiadau cas.
Ac eglwys eydgynauiliad,—O, dyna'm heglwys i! &c., &c.

Mehafin 12, 1848.

Cyf. J. D.

CAN O ERFYNIAD

A gyfansoddodd chwaer o Lanybyddar, ar nos y 18fed o Ebrill, cymyned i'w gwely.

Gymry, Gymry, clyweh ti'n cwyno,
Ac yn griddfan ac och'neidio.
Am fy mod i'n drwm fy nghalon,
Ac yn cwyno mewn trallodion.

Nid oes gofid arna'i'n para
'Nawr am bethau y hyd yma:
Ond i'm gael fy holl berth'nasau
'Ganlyn Crist er maint y rhwystrau.

Mae im' fam a phriod anwyl
Ddim yn credu yr efengyl,
Yr hwn gynllun a ordeiniodd
Crist, Mab Duw, cyn myn'd i'r nefoedd.

O, fy mam! 'rwyf yn dymuno
Arnoch ddod i dddechreu gweithio;
Chwithau'm priod, gyda hyny,
(Mae'n llawn bryd) i winMan Iesu.

'Does addewid oni ddeuwch,
Lim ond galar byth a thristwch;
A'e'r rhan fydd yr ail farwolaeth,
Gyda'r rhai fydd yn amherffaith.

'Rwy'n gobeithio parai'n ffyddlon,
A chael myn'd i fynydd Seion,
At y teulu dedwydd hyny
'Sydd â'u bryd a'u serch ar Iesu.

Gwybod 'rwyf, os parai'n ffyddlon
Y caf wisgo'r auraidd goron;
Paluwydd i fy meddiant hefyd,
'Gyda Brenin Mawr yr hollfyd.

Mae'r enwadau'n pallu credu
'Böd rhaid myn'd i'r môr, a'i groesi,
Draw i'r fan mae Duw yn addo
Rhoi diddosfa, ond myn'd yno,

'Rhag y plâu mawr a'r heintiau
'Sydd i ddod am eu pechodau,
'Os na ddont hwy yn ffyddloniaid,
Gynt fel gwnaeth y Niufeaid.

'I'r holl ardal 'rwyf fi'n traethu
'Fod raid i'ch gael crefydd Iesu,
'Rhon a ddwg i chwi arwyddion,
'Dim ond cadw'i bar orch'mynion.

O, gym'dogion Llanybydder,
'Rwyf yn tystio yn ddibryder
Y gwnewch sicr gâfio'm geiriau,
Yn ddiddadl, yn y frawdle.

Os gwna'i farw tyrn ymadel,
Cofiwch draetbu hyu i'm eene'l,
'Mod i 'nawr yn tystio wrthynt,
Fod dydd dial yn dod arnynt,—

Dydd gwylofain, a dydd galar.
Dydd chwennyehaft fyn'd i'r ddawar,
Dydd bydd pob-dyn yn dychrynu,
'Ond rhai fydd â crefydd Iesu.

Mae tystiolaeth gyda'r Suintiau,
Er eu bod mewn teimasiynau;
Hwy gânt etto gyd-deyrnasu
'Gyda Christ a'r Brenin Iesu.

'R. yf yu awr yn canu farwel,
 I'm hea wlad, pan ar ymadael,
 Mewn llawn obaith groesi'r moroedd,
 'Nol gorchymyn Brenin Nefoedd.

LLYTHYR YR HENURIAD W. MORGAN.

Merthyr, Mehefin 21, 1848.

ANWYL FRAWD,—Yr ydym ni yma ôll, a'r swyddwyr yn enwedigol, yu parhau mewn undeb a ffyddlondeb yn y cyflawniad o'n dytedswydd, er pan ymadawsoch chwi oddiyma, ac y mae yr Arglwydd yn bendithio ein llafur yn enwedigol drwy iachau y cleision drwy yr ordinhadau a gweddiau y ffydd; a nodaf rai o lawer o'r enghreifftiau a gymmerasant le yna yn ddiweddar:—Un chwaer a darawyd yn glaf gan dwymyn dost tra ar ymweliad â'i pherthynasau yn Aberhonddu. Trwy lawer o drafferth dygwyd hi i Ferthyr mewn cerbyd, o'r hwn y gorfwyd ei chario i'r ty. Anfonodd am henuriaid yr eglwys yn lle meddygon; a myf ac un arall a aethom ati, ac a weinyddiasom yr ordinhad iddi, gan weddio ar i'r Arglwydd ei hiachâu, a'r canlyniad a fu, diolch i'r Cyfranwr o bob bendithion, derbyniodd iechyd uniongyrchol, cododd o'i gwely, a bwytaodd fwyd yn ngwydd rhai o'r byd. Aeth y swm am y peth hyn drwy'r gweithafeydd cylchynol, nes yr oedd llawer yn cynddeiriogi yn erbyn y Saint, gan haeru mai twyll a flug oedd yr afiechyd; ereill a haerent nad oedd y claf wedi gwella; a rhai o'r rhai a'i cariasant i'r ty, dan regu a ddywedent fod y fath dwyllwyr yn rhy ddrwg i'w gadael ya fyw. Beth a wneiri ddyinion a wrthodant gredu eu llygaid, eu teimlad, a'u clustiau eu hunain, meddweh chwi?

Enghraifft arall o ddaioni Duw a fu fel y canlyn:—Dyn o'r enw David Davies, gweithiwr yn ngwaith Pendaran, a orchuddiwyd dan gwympiad mawr o ddaear, fel na yddai ei gydweithwyr braidd pa le oedd i chwilio am dano, a syndod mawr oedd ei fod yn fyw. Wedi ei gael ef yn rhydd, carwyd ef allan mewn tram, ac ar gefyl i'w dy, a'i gydweithwyr yn cydymdeimlo ag ef yn fawr, ac yn dweyd nad allai ddychwelyd i'r gwaith am lawer o fisoedd, os deuai byth. Dranoeth aeth dau o'r henuriaid ato, ac a weinyddiasant iddo, gan weddio drosto, ac efe a gyfododd o'r gwely yn y fan, ac a gerddodd gyda hwynt i Ferthyr, ac i'r cwrdd Saint ya iach. Aeth i'r gwaith dranoeth, a gweithiodd fel arferol; eithr y mae barn ei gydweithwyr wedi cyfnewid yn bollol o feddwl iddo gael y fath ddolur, nes yr haerant yn awr nad oedd efe wedi cael nemawr niwaid, oddieithr ambell un o honynt, dyma eu barn er y cwbl; ac esto gofynant fwy-fwy am arwyddion er eu dwyn i greu.

Mae llwyddiant cyffredinol ar yr efengyl yn y cylchoedd hyn. Bedyddiwyd saith y Pontytypridd yn ddiweddar, ac amryw yn Dowlais, Caerdydd, Aberdar, &c. Clywais hefyd fod deuddeg wedi cael eu bedyddio yn Hirwaun yr wythnos ddiweddar. Mae lluosogiad mawr yn Sir Fynwy, ac yna, nis gallaf ddweyd pa nifer a fedyddiwyd er pan ymadawsoch, ond derbyniwyd naw i'r eglwys y cwrdd cyntaf wed'yn, a mwy neu lai bob wythnos er hynny, ac anturiaf ddweyd fod rhai ugeiniau wedi eu bedyddio ya y gaughen hon er eich ymadawiad, a gobeithion

am luosogiad mawr etto ar fyrder. Yr Arglwydd grasol a ganiatao mai felly y bo, yw gweddi barhaus eich brawd yn Nghrist,

WILLIAM MORGAN.

AT EIN DERBYNWYR.

Mae yn ofidus genym hysbysu nad allwn ddiwallu y galwadau mynych a thaer ag sydd arnom o wahanol fanau am yr "Hen Grefydd Newydd," yr "Atebydd," "Llyfr Hymnau," a'r "Adolygiadau." canys y mae yr oll a argraffwyd o'r uchod wedi eu dosbarthu; ac os medda ein dosbarthwyr rai ar law, gobettlawn na chadwant hwynt yn ddirgel, ond ymdrechu eu hedaenu tra y mae cymmaint o'u heisieu. Nid y'm yn bwriadu cyhoeddi ail argraffiad o'r uchod hyd nes y caffom dystiolaeth fod y lleill oll wedi eu gwerthu, na'r hyn dystiolaeth ni bydd dim yn fwy boddhaol na dychwelied yr arian i'n llaw.

Mae amryw o'r dosbarthwyr mewn dyled trwm i ni yn awr, a thros gan puwt o'n harian yn wasgaredig, lle y gallent heb nemawr ymdrech ond fyddlondeb fod wedi eu talu oll. Mae holl eglwysi y Saint, drwy Loegr, Scotland, a'r byd a'r wyddom, oddieithr y Saint Cymreig, yn cynnal breichiau a llogellau eu cyhoeddwy, ac yn rhoddi y mēr anghenrheidiol yn eu hegyrn, drwy fod y canghenau yn dewis eu dosbarthwyr, ac yn cyfranu arian yn nlaen llaw i dalu am y llyfrau a anfonant am davynt; ac felly y mae y dosbarthwyr yn gyfrifol iddynt hwy, a hwythau i'r swyddfa. Dyma yw rheol aefydlog y swyddfa yn Llyulleifiad, ac os gwna rhyw ddosbarthwr anghyfiawnder, nid yw hyn yn di-gyn oll ar yr un person i'w nychu, eithr ar y rhai a allant ragflaenu y drwg drwy fod yn ei ymyl. Eithr yr ydym ni sach hyd yn hyn wedi bod yn ymdrechu sefyll o dan yr holl bwn ein hun, heb un ysgwydd na chynllun cynnorthwyol, ac yn cyfranu yr ennill er cynnorthwyo ein cydweithwyr tylodion ar eu teithiau yn nghanol cenedlaeth drofaus a gwrthwynebus i bregethu efengyl Crist yn rhad. Tra yr ymfrostiwn yn nhab gallu i wneyd hyn, a thra y diolchwn a'n holl galon i rai o'n dosbarthwyr fyddlon ac anwyl am eu cydweithiad, nid yn unig i werthu, ond hefyd i dalu am y llyfrau a gawsant; etto nid ydym heb achos i ofidio fod ambell ddosbarthwr yn ein dyled o amryw bunnoedd er's blynyddau bellach, a dim gobaith o'i leihau. Beth a wneir i'r cyfryw sydd ofyniad pwysig i ni, a theilwng o ystyriaeth derbynwyr y cyfryw ddosbarthwyr! Ped ystyriant mor ddarud yw cyhoeddi, diau yr ymdrechent i dalu, oddieithr fod eu bryd am luddias yn hollol yr offerynoliaeth ddefnyddiol hon o ledaenu gwirioneddau dwyfol—o amddiffyn plant a chrefydd Duw, ac o lesoli eu cyd-ddynion. Ystyriwn ni y buasai yn anghyfiawnder o'r mwyaf ynom ddefnyddio arian heb at ein gwasanaeth personol heb ganiatad, ond buasai y drwg yn waeth fyth pe achosasai hyn rwystr i waith Duw. Bwrriadwn gyhoeddi ein cyfrifon gyda'n dosbarthwyr yn y *Prophwyd* ar ol y Gymmanfa fel y deallo y canghenau ragor rhwng y fyddloniaid a'r rhai y cyfeiriwn atynt uchod, os nad allwn lwyddo ffordd arall. Ffordd effeithiol i gael gan ambell un wrthgilio yn yr oes hon hefyd yw drwy ei roddi i gario y "gôd," fel Judas gynt.

Mae y 5ed Rhifyn a'r olaf o'r *Eurgrawn* aflan o'r wasg yn bwt, yr hyn hefyd a fydd y diweddaf a gyhoeddwn hyd onid uteba yr *hints* uchod y dyben, oddieithr y *Prophwyd*. Mae amryw ganuoedd o bob rhifyn o'r *Eurgrawn* ar law etto, a gobeithiwn yr ymdrecha pob un a brynodd ryw Rifyn o hono i brynu yr oll, neu ynte nuni a brynwn ei Rifyn ef yn ol, os bydd yn lan a threfnus. Ceir yr *Eurgrawn* yu galf-lawn mor gynted ag y gellir ei-rwymo, am wahanol brisiau cyferbyniol i'w rwymiad, o 4s. hyd 5s: 6d.

HYSBYSIADAU.

LLYFRAU AR WERTH.

Yr ydym newydd dderbyn yn agos i gant o gyfrolau o "Capt. Jones ar Formoniaeth yn 1847," o'ddiwrth y Rhwymwr, ac wedi eu rhwymo yn rhagorol o dda, gwych, a rhad, am wahanol brisiau megys o'r blaen. Gobeithiwn yr ymdrecha y Saint feddu un gyfrol o leiaf o'r rhai hyn yn mhob teulu cyn y bydd yn rhy ddiweddar. Mae cyfrolau 1846 oll wedi eu gwerthu eisoes, a galwad mawr am ychwaneg, ond nis ceir hwynt.

* * Yn nhudal. 94 o'r Rhifyn olaf o'r *Prophwyd*, a'r 10fed linell o'r gwaelod, yn lle "ugain milldir o led," darlener "ugain llath o led."—Tud. 93, llin. 23 o'r pen, yn lle, "sefyll *da* gwadith," darlener, "sefyll *da*ir gwaith."

CYNNWYSIAD.

Desgrifiad o California	97	Beth a wneir i erlidwyr y Saint?	106
Tystiolaeth Morgan David, Felinvoel	93	Llythyr D. Roberts, Llwynyngell....	107
Twyll y Mormoniaid	99	Gwreiglwys Iesu Crist	107
Llythyr W. Woodruff	101	Cân o Erfyniad	108
Gofyniad, a'i atebiad	103	Llythyr hend. W. Morgan	110
Dedfryd golffarnol Iesu Crist	105	At y derbynwyr	111
Enwau y deuddeg apostol	106	Hysbysiaidau	112

MERTHYR-TYDFIL:

CYHOEODWYD AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH HEFYD GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL.

ARWYDAFFWYD GAN JOHN JONES, RHYDYBONT.

PROPHWYD Y JUBILI,

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 26.]

AWST, 1848.

P RIS 2y.

AT DDARLLENWYR Y PROPHWYD.

ANWYL DDARLLENYDD,—

YN gymmaint a'n bod wedi dod i ben yn swr â'r dasg a gymmerasom arnom er's blwyddyn yn ol o gyhoeddi llyfr at wasanaeth y Saint yn fwyaf neillduol, a llyft ag sydd yn wasanaethgar i bwy bynag arall ag a ddewisio ddeall ein hegwyddorion fel yr ydym yn eu profesu mewn gwirionedd, cymerwn y cyfleusdra presennol o ddywedyd gair yn ei gylch wrth y rhai nad ydynt wedi ei bwreasu iddynt eu hunain hyd yn hyn. Y llyfr yw yr "EURGRAWN YSGRYTHYROL," yn yr hwn y cynnwysir crynodeb o adnodau dyfynedig, a nodiadau genym arnynt, i brofi prif bynciau crefydd Saint, y Dyddiau Diweddfaf.

Y mae yn ddiambheuol genym fod i'r *Prophwyd* bychan hwn lawer o ddarlennenwyr ag nad ydynt wedi ufyddhau i'r efengyl a bregethwn, a llawer o'r rhai hynny o bosibl yn ddynion rhesymol, ac yn rhai a addefant hefyd mai dyledswydd dyn yw ymdrech i iawn ddeall yr egwyddorion a broffesa. Cynnorthwyo ein darlennydd i hyn oedd un o'n prif ddybenion yn cyfansoddi a chyhoeddi yr *Eurgrawn Ysgrythyrol* ar y dull ag y mae. Er ei fod ar drefniad hollol wahanol i ddim a'r a welsom o'r blaen; etto, yn gymmaint ag mai ysgrythrau y gwirionedd yw ein rheolau dysgyblaethol, a'n safon crefyddol, hyderwn y bydd crynod o farnau yr awduron ysbrydoledig at eu gilydd, a'u gosod wyneb yn wyneb fel hyn o flaen llygaid ein darlennydd, yn fwy manteisiol er iddo iawn ddeall ac amddiffyn yr egwyddorion a broffesir gan y Saint, na phe buasai raid iddo chwilio yr holl gyfrol santaidd ar bob pwnc, megys ag y gwnaethom ni wrth ei gyfansoddi.

Mae yr *Eurgrawn* wedi costio i ni cryn lafur ac ymchwiliad, a llawer o weddiau taer am gyfarwyddyd yr Ysbryd Glân, fel y

gallem iawn ddeall drychfeddyliau ac amseryddiad prophwydoliaethau yr hen a'r newydd destamentau, yn nghylch y rhai y mae cynnifer o wahanol farnau; ac nid heb ystyried yn ddwys y canlyniadau tragwyddol o ddysgu y meddwl dynol, ac ymchwiliad treiddlgar i'w cyssylltiadau ol a blaen, y meiddiasom ddethol a chrynhoi yr ysgrythyrau fel y maent yma.

Mae pwysigrwydd a chyfrifoldeb y cylch ag ein gosodwyd ynddo, ynghyd a'n cariad at, a'n hawydd i ddysgu y rhai a ymddiriedwyd i'n gofal, yn egwyddorion pur yr efengyl, ynghyd â'r ystyriaeth fod dyledswyddau yn ein galw allan o wlad ein genediggaeth cyn hir, ac am ein hamddifadu o gymdeithas anwylaidd y Saint Cymreig am enyd, ac o ganlyniad o fanteision i'w gwasanaethu, yn ystyriaethau ag a'n symbylodd yn mlaen i dori drwy bob rhwystrau i gyhoeddi y gwaith hwn.

Mae y cynnyddiad rhyfeddol a roddes Duw eisoes ar yr enwad hwn ag y dywedir cymmaint i'w erbyn, heblaw y lluosogiad mwy rhyfeddol a wyddom y dyry efe eto cyn hir, yn dangos nad disail yw ein hofnau y daw i'r eglwys, wedi ein mynediad ymaith, ddynion hunan-ddoeth ac anianol, gan geisio llithio eneidiau anwadal, ac efallai ambell un o'r Saint gweiniaid ac anwybodus, ar eu hol at hen draddodiadau cyfeiliornus a mwy poblogaidd yr oesoedd diweddaraf. Dengys hyn ddefnyddioldeb yr *Eurgrawn* i'w rhagflaenu; canys sicr yw mai iawn ddealltwriaeth y Saint o egwyddorion y gwirionedd yw y caerau goreu i'w hamddiffyn ynddynt.

Ddarlennydd anwyl, chwilia, profa, pwysa, a myfyria yn ddwys, canys gwerthfawr yw gwirionedd i'th enaid; ac os cei fwy o hono gyda rhyw blaidd arall na chyda'r Saint, am dy fywyd dos atynt yn y fan, a glŷn wrthynt. Os cei well gwirioneddau yn rhyw athrawiaethau, nag a gynnwysa yr *Eurgrawn*, hysbysa ni er mwyn ein henaid, a rhedwn ar eu hol; ond cofia hyn yn gyntaf, na ddi-chon'neb fwynhau melys rin, na chymdeithas ddaionus Ysbryd y gwirionedd, na myned yn mlaen tuag at berffeithrwydd, ond i'r graddau ag yr iawn droedia lwybrau y gwirionedd.

Cymhelliad arall ag a'n gorfododd i ymosod ar y gwaith pwysig hwn yw, ddarfod i ni, o ddaioni Duw, gael mwy o fanteision i gymdeithasu yn bersonol â, i wrando ar, ac i sugno mêl o drysorau: gweision ysbrydoledig y Duw byw, sef apostolion a phro-

phwydi santaidd, y tudraw i'r moroedd, na neb arall a adwaenom yn Nghymru, a pha rai ni chyhoeddwyd erioed o'r blaen yn yr iaith Gymraeg; ac ni allem guddio y goleuni a dderbyniasom drwyddynt hwy oddiwrth ein cydgenedl anwyl.

Weithian gadawn yr *Eurgrawn*, a chyflwynwn ef i sylw y neb a welo yn dda roddi ei amser i'w ddarllen, tra yr ydym mewn gobaith na bydd teulu o'r Saint hebdo, a gweddiwn ar i Ysbryd y gwirionedd ei fendithio i ateb y dybenion o hono, fel y gogonedder Duw, ac felly cawn ninnau y pleser o obeithio ein bod drwyddo, yn gwasanaethu ein cenedl tra filoedd o filldroedd oddiwrthynt. Amen.

. Gellir cael yr *Eurgrawn* yn gyflawn, mor gynted ag y gellir ei rwymo, am wahanol brisiau cyferbyniol i'w rwywiad, o 4s. hyd 5s. 6d.

YR ERLIDIGAETH AR Y SAINT YN CWMBYCHAN A'R
BRYN!—NAW-AR-HUGAIN O SAINT YN CAEL EU
TROI O'U GWAITH OHERWYDD EU CREFYDD!!—
STEWARDIAID SECTYDDOL YN CEISIO NEW-
YNU TUA HANNER CANT O WRAGEDD A
PHLANT Y SAINT!!!

Y *Petition* cwynfanus a ganlyn a arddengys y dyoddefiadau a'r gormes a wna dynion rhith-grefyddol â phlant Duw pan y maent yn cael y gallu. Gwyddom nad yw y Saint wedi dweyd eu holl ddyoddefiadau yn yr hyn a ganlyn. Yn fuan wedi y weithred esgymunedig hon, trowyd y tri prif Steward o'r gwaith gan y Cwmni! "A pha fesur y mesuroch yr adfesurir i chwithau," ebe Crist. Mr. Bidolph a ddaeth yno yn brif Oruchwyliwr ar eu hol, yr hwn, er ei fod yn ddyd dibroffes, sydd yn llawer mwy dyngarol na'r lleill a nodwyd. Yma y canlyn y ddeiseb:—

"At John Bidolph. Ysw.,

"Yn gymmait a darfod i ni, y tanysgrifwyr isod, 29 o honom, gael ein troi ymaith o waith y Cwmbychan a'r Bryn heb un achos cyfreithlon, a chael ein hamddifadu drwy hyny o'n bywiolaethau;—

"Fod ein gwagedd anwyl, a'n plant diniwed (dim llai na hanner cant mewn rhifedi), wedi bod, ac yn parhau i fod, yn dyoddef newyn a mawr dylodi;—

"Ac yn mhellach, fod y Stewardiaid hyny a'n troisant ni o'n gwaith wedi penderfynu ein halltudio ni o'r wlad yma, anfonasant y *Bailiff* a'r *Policeman* i'n troi allan o'r tai, ac i werthu ein celfi, os na ddygid arian y rhent yn y fan; a thrwy hyny ein hamddifadu ni a'n teuluoedd yu y fan, nid yn unig o ymborth, ond hefyd o ddiddosrwydd na chys-

god rhag ystormydd geirwon mis Chwefror,—ac yn ngwlad ein genedigaeth;—

“Fod, mai yr unig drosedd ag y cynuddir ni, neu y dichon neb ein cyhuddo o fod yn euog o hono yw, ein bod yn meiddio addoli Duw ein tadau yn ol arweiniad ein cydwybodau ein hunain, yr ysgrythyrâu santaidd yn rheol buchedd ac ymarweddiad. Er profi y dywediad olaf hwn ag sydd i rai yn anhygoel, mae yn ein meddiant ffeithiau anwadadwy, heblaw cyfaddefiad ein herlidwyr. Cawsom, neu yr oll ag a'i ceisiasant, a meddwn yn awr i'w dangos i'r byf, ein cymmeriadau yn ysgrifenedig, ac wedi eu llaw-arwyddo gan ein cyflogwyr yn y gweithfeydd uchod am hir amser, y rhai a dystiant ein bod ni 'yn weithwyr diwyd, gonest, sobr, a da;’—

“A'n bod ni hefyd yn feddiannol ar dystiolaethau diwrthbrawf, pa rai a dystiant ddarfod i'r Stewardiaid (oddieithr ychydig eithriadau boneddigaidd) ffurfio, mewn cyngor a gynnaliwyd yn bwrpasol i hyny, gamgyhuddiadau yn ein herbyn ni, y rhai a alwn ein hunain yn 'Saiut y Dyddiau Diweddaf,' i'r dyben i ddylanwadu ar eu huwchafiaid i ganiatau iddynt ein troi o'r gwaith; ac yn mhlith enwau y Saint, gosodasant ychydig enwau ereill, a hyny i'r dyben o guddio eu gwir ddyben, a chafodd y lleill hyny ddychwelyd i'r gwaith yn fuan, pan yr ydym ni, a neb ereill, yn cael ein cau allan; a phan roddir lle i ddveithriaid yma, dywedir wrthym ni y naill dro ar ol y llall gan y Stewardiaid, pa rai ydynt naill ai yn sectwyr selog, neu ynte dan ddylanwad rhai,—‘Os gwadwch chwi eich crefydd, cewch chwithau waith, ac nid heb hyny.’

“Yn gymmaint a bod yr hanes uchod yn rhy wirioneddol, ac yn rhy hawdd ei brofi i neb ei wadu; a'n bod ninnau, ein gwragedd anwyl, a'n plant bychain a newynllyd, yn gofadeiliau byw hyd heddyw, ac yn alltudion, mewn 'gwlad rydd,' er mwyn cydwybod, i brofi yr uchod yn wirionedd;—

“Fod Stewardiaid caethiwus gweithiau cymmydogaethol yn dilyn esiamplau yr erlidwyr uchod, ac yn troi y Saint o'u gweithiau hwythau am yr un achos,—Taer a gostyngedig erfyniwn ar eich hynawsedd ymchwilio i mewn i'r anghyfiawnderau a'r gormes a ddyoddefa pobl ddiwed, ond dyoddefus, ac i ganiatau i ni, ynghyd ag i gannoedd ereill ag sydd yn y gweithfeydd uchod, pa rai a gredant, ond ni feiddiant goffeidio ein crefydd anwyl, y cyffelyb ryddid a breintiau ag a ganiateir i'ch holl weithwyr ffyddlon ereill; canys wedi hir ddy-gwyl, a deisyf yn ostyngedig ar ein herlidwyr, ymddengys fod ein holl appeliadau taerion a mynych atynt hwy mor aneffeithiol ag a fyddai ochenaid y haban yn erbyn y corwynt rhuthrol. A gweddiwn yn ostyngedig, barchus Syr, ar i chwi ganiatau i ni yr iawnderau hyny a sicrheir i ni fel i holl ddeiliaid ffyddlon ereill ei Mawrhydi, dros yr hon y gweddiwn yn barhaus; a thrwy hyny ennillwch i chwi eich hun yn ddiau y cymmeriad o dad y gorthrymedig, ac amddiffynwr rhyddid; ac felly bydd gweddiâu taerion rhieni alltudiedig, a phlant newynog, yn esgyn i fyny at Arglwydd Dduw yr holl ddaear am iddo eich bendithio chwi a'ch eiddo ar eich canfed. Amen.

“Gostyngedig erfyniwn arnoch dderbyn y llyfr hwn o law y dyg-

iedydd, yn yr hwn y gallwch ddarllen prif osodiadau ein crefydd, ac y'ch galluogir i farnu drosoch eich hun yn ngwyneb y cyhuddiadau a ddygir i chwi yn ei herbyn.

“Dros y Gymdeithas uchod dymunwn danysgrifio ein hunain
“Eich ufydd a'ch gostyngedig weision.”

Yna dilyna rhestr o enwau y dyoddefyddion.

Ystyried y darlennydd pwy yw Duw, a'r fath yw crefydd y gormeswyr hyn; ac nid yw eu creulonderau a'u drygioni hwy yn profi pa achos a'u cynhyrfodd, ddim amlyeach nag y profa hefyd ddwyfoldeb crefydd a duwioldeb y dyoddefyddion, ar eirwiredd Mab Duw. sef, “Chwi a fyddwch gas gan bawb er mwyn fy enw i;” hefyd, “Teyrnas wedi ymranu yn ei herbyn ei hun, ui saif h6no,” yr hyn sydd yn eglur brofi nad yw y Saint yn ddeiliaid o'r un deyrnas ysbrydol a'u gormeswyr creulon.

Rhag y dichon neb ammau mai erlidigaeth grefyddol yw yr uchod, ychwanegwn ychydig o lawer o'r tystiolaethau ag sydd ger ein bron. Gofynnodd Evan Rees, un o bregethwyr y Saint, i Thomas Jones, Steward, a gaffai efe ddychwyd i'r gwaith etto. Atebodd yntau fod y gwaith yn rhy lawn. Gofynnodd E. R. wed'yn, “A oes genych ddim yn fy erbyn fel gweithiwr?” Atebodd y Steward, “Nac oes ddim yn y mesur lleiaf.”

Gofynnodd E. R. i David Hopkin, Steward uwch, “A oes genych chwi wrthwynebiad i mi fel gweithiwr, neu rywbeth fel dyn?” Atebodd hwnw, “Peidiwch a'm plagio i; ni wn i ddim yn eich cylch; mae y gwaith yn rhy lawn.” Yna gofynnodd E. R. iddo, “Paham y cymmerasoch ugeiniau o ddeythrïaid i mewn ynte er pan y troisoch y Saint allan o'r gwaith? Dywedwch beth sydd genych yn fy erbyn.” Atebodd D. H., “Nid oes genyf ddim yn eich herbyn,” ac yna efe a aeth ymaith yn ddigllon.

Etto unwaith: dywedodd Mr. William Williams, Steward, wrth William Howell, un o bregethwyr y Saint, ei fod ef, a'r holl Stewardiaid yno braidd, wedi penderfynu na chaiff neb o'r Saint weio y gwaithfeydd hyny, hyd ag y gallant hwy eu rhwystro.

GALWAD AR BECHADUR.

Mae llais o'r Ne'n cyhoeddi ma's
Ar bawb yn gry' i dderbyn gras,
Trwy fedydd dwfr edifarhau,
Mae diwedd byd yn agosâu.

Caiff amser gwiw heb fod yn faith
Ei llyncu'n nhragwyddoldeb maith;
Gwyn fyd y rhai goffeidio'r fraint
Sy'n cael ei gynnyg gan y Saint.

Nac ofnwch w'g a gwawd y byd,
De'wch dan yr iau, mae yn llawn bryd;
Trowch at y Meddyg oll o'r bron,
Heb oedi'u hwy na'r fyuyd hon.

Fel Crist, eu herlid gaiff y Saint,
 Gan ddynton byd am gadw'u hraint,
 Wrth droedio'r llwybr tua'r Nef,
 Trwy'r unig ffordd agorodd Ef.

PREGETH GWRTH-FORMONAIDD.

AT Y PARCH. T. WILLIAMS, EBENEZER, GER CAERFYRDDIN.

BARCH. SYR.—Cefais y cyfeusdra o fod yn wrandawwr i chwi ar ddydd Sul, yr ail o Orphenhaf diweddaf, yn eich capel Ebenezer; ac y mae yn dda genyf i'ch hysbysu i chwi bregethu yn well, yn ol eich dull chwi, nag y dysgwyliais y gellech. Yr oedd eich pregeth yn arogli yn drwm o fyfyrddod dwfn, ac mor soniarus fel pe buasai wedi cael ei thraethu amryw weithiau yn gymmysg â sain hyfryd yr adar ar hyd eich maesydd. Yr oeddech wedi cyhoeddi y bregeth hon wythnos yn flaenorol, ac wedi dweyd mai trwyddi yr oeddech yn myned i olchi eich dwylaw oddiwrth waed pawb o'ch aelodau. Yr oedd y capel yn orlawn, a chefais innau gyfie i nodi i lawr y pethau mwyaf neillduol a lefarasoch. Eich testyn a welir yn Eph. iv, 14,—“Fel na byddom mwyach yn blant, yn bhwman, ac yn ein cylch-arwain â phob awel dysgeidiaeth, trwy hoced dynion, trwy gyfrwysdra i gynllwyn i dwyllo.” Wedi clywed eich testun, deallais yn union y gellech chwithau, “trwy gyfrwysdra, i gynllwyn i dwyllo.” yn gystal â'r rhai a ddesgrifiai yr apostol; oherwydd i chwi ddefnyddio geiriau ag oedd yn perthyn i eglwys ag ynddi “rai yn apostolion, a rhai yn brophwydi, a rhai yn efengylwyr, a rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon; i berffeithio y saint, i waith y weinidogaeth, i adeilad corff Crist; hyd oni ymgyfarfyddom ni oll yn undeb ffydd, a gwybodaeth Mab Duw, yn wr perffaith, at festur oedran cyflawnder Crist, fel na byddai” y saint i gael eu cylch-arwain mwyach (gwel adn. 11—13). Buasai y testyn yn gymhwys i chwi, pe bai apostolion a phrophwydi yn eglwys y Bedyddwyr, at berffeithio yr aelodau, at waith y weinidogaeth, ac at adeiladu corff Crist, a hyny hyd nes delo y corff yn “wr perffaith;” ond wft i chwi, cymmerasoch destyn perthynol i eglwys fel eiddo y Mormoniaid. Eithr gan na soniasoch am ddion mewn cyssylltiad â'r testyn, gwnaeth y tro yn burion i fod yn hoced dyn, “trwy gyfrwysdra, i gynllwyn i dwyllo” eich aelodau, i feddwl fod y testyn yn perthyn i'r Bedyddwyr! Wrth ddechreu eich pregeth, dywedasoch nad oeddech yn ddig wrth y Mormoniaid, ond eich bod yn casâu Mormoniaeth. Ystyriech fod galw “Saint” ar y Mormoniaid yn *gabled!* Paham hyny, Mr. Williams? A ellir galw y Bedyddwyr yn “Saint,” ynte? Os dywedwch y gellir, yn a mae eisieu apostolion a phrophwydi, &c., i'w perffeithio; canys os gellir perffeithio Bedyddwyr neu Independiaid hebddynt, ni ellir byth perffeithio “Saint” hebddynt. Dywedech hefyd eich bod chwi yn dysgwyl cael eich credu o flaen y Mormoniaid, oherwydd na allodd neb ddwyn cyhuddiad am anwiredd yn eich herbyn yr holl amser y buoch yn Ebenezer. Wel, os dywedwch chwi mai twyll yw Mormoniaeth, yna dylai eich holl aelodau eich credu! Ffordd wych i fwhman “plantos,” Mr. Williams! Nid cyfiawnder yw i chwi *farnu* dros

eich aelodau, canys y mae amryw o honynt wedi bod yn gwrandaw y Saint drostynt eu hunain cyn hyn, yr hyn na ddarfu i chwi erioed ei wneuthur. Nid yw athrawiaeth y Saint mor bell o fod yn hunanbrofiedydd, ag fod achos gosod ymddiried mewu personau. Pa fodd y credwyd yn och chwi ar y cyntaf, Syr, cyn i chwi sefydlu eich cymmeriad? A fu rhywrai yn annog y bobl i beidio eich credu? Chwi, yr hwn a enwir yn was Duw, byddwch gyfawn; gadewch i ereill gael amser i wneuthur eu cymmeriad yn hysbys fel y cawsoch chwithau; i.e. gadewch iddynt, a pheidiwch a gwahardd eich aelodau i w gwrandaw, ond gadewch iddynt "brofi pob peth, a dal yr hyn sydd dda."

Ni ddarfyddodd eich "cyfrwysdra" yn eich testyn, ond dilynodd chwi yn eich pregeth. Dywedasoeh y buasai i chwi farnu y Mormoniaid wrth yr hyn sydd yn eu llyfrau, ac fod y rhai hyny i'w gweled etto; ond hysbysech na fyddai i chwi eu hadrodd fel yr oeddynt ar lawr, eithr y rhoddech grynoded o honynt gerbron eich gwrandawwyr, fel y gallent hwy farnu drostynt eu hunain. Haerach fod y llyfrau yn dweyd fod yn rhaid credu y pethau canlynol, cyn y gellid bod yn un o'r Mormoniaid;—1. Fod Joseph Smith yn brophwyd. 2. Fod llyfr y *Môr* [*Mormon*, Mr. Williams; ai gwir nas gellwch ddarllen yn dda?] mor ddwyfol â'r Beibl. 3. Fod Iesu Grist wedi ymddangos yn yr America, ac iddo "bregethu i'r ysbrydion yn ngharchar" *uffern*. 3. Fod dwy Jerusalem. 4. Fod yr Iuddewon i gael eu casglu i Jerusalem Palestina, a'r Mormoniaid i Jerusalem America. 5. Fod gwrthiau, cyfeillachu ag angelion, gweledigaethau, tafodau dycyithr, yn yr eglwys. 6. Fod cleifion yn derbyn iechyd, a meirw yn cael eu cyfodi. 7. Fod yr "arwyddion yn canlyn y credinwyr" (gwel Marc xvi, 17, 18)! 8. Fod y ddaear i fod yn lle o ddedwyddwch. 9. Fod pob un oddiar amser yr apostolion, yr holl hen ddiwygwyr enwog, a'u tadau duwiol, yn *ngwaelod uffern*!! Dyna rai o'r pethau a *raid* eu credu, meddech chwi, cyn y gellid bod yn Formoniad; a dyna y pethau ddarfu chwi weled yn llyfrau y Mormoniaid eu hunain. Yn mhia llyfrau y darfu i chwi weled y pethau uchod, yn y cyssylltiad y mynech chwi eu bod? A wnaethoch chwi enwi pa le y gellid eu gweled yn argraffedig? Mae yn wir i chwi ddweyd eu bod genych yn eich ty, ond a gawsai y Mormoniaid ddyfod yno i'w gweled? Y gwirionedd yw, nid oes raid i neb gredu y pethau uchod cyn ymuno â'r Mormoniaid; nid yw y cyfan yn ddim amgen na haerriad o'ch eiddo chwi. Nid oes anghenrheidrwydd i neb gredu mwy na'i fod yn bechadur, ac y gall gael maddeuant o'i bechodau trwy fedydd; ac y bydd iddo dderbyn yr Ysbyrd Glân drwy arddodiad dwylaw, yn ol yr addewid o hono i "hawb yn mhell;" ac hefyd credu y dylai gadw holl orchymnion Iesu Grist hyd y diwedd. Os bydd rhywun yn ewyllysio credu rhywbeth yn vchwaneg wedi dyfod yn un o'r Mormoniaid, y mae at ei ryddid. Yr wyf fi yn ewyllysio credu hefyd fod Joseph Smith yn brophwyd, "Llyfr y *Môr*" yn ddiwyll—i Iesu Grist ymddangos i'w "ddefaid ereill" yn yr America, ac iddo bregethu (yn ol yr ysgrhythrau) "i'r ysbrydion yn ngharchar"—fod Jerusalem a Seion yn lleoedd o ymwardd i bobl Dduw, rhag y plâu a ddyweda yr ysgrhythrau am danynt—fod y Mormoniaid yn mawrhau yr holl ddoniau ysbrydol, ynghyd â bod yr holl "arwyddion yn canlyn"—fod cleif-

ion yn derbyn iechyd trwy arddodiad dwylaw a gweddi'r ffydd. Ond nid wyf yn ewyllysio credu fod yr holl grefyddwyr, oddiar amser yr apostolion hyd yn awr, yn *ngwaelod uffern!* O ua, Mr. Williams; y mae genyf well crediniaeth—y mae gan y Saint *oll* well crediniaeth. Genych chwi, ac yn eich myrwes ddrwg chwi yn unig y llettyr y fath grediniaeth erchyll. Mae y Saint yn credu mewn Duw cyflawn, yr hwn a dâl i bob yn yn ol ei weithredoedd, ac yn ol y goleuni a dderbyniodd. Mae yr hen ddaian wedi llafurio yn ddiwyd yn ol y wybodaeth a feddant, a chânt eu gwobrwyo am-eu daioni. Ond am danoch chwi, yr hwn ydych yn gwingo yn erbyn y symbylau, ac yn caru tywyllwch pan gynnigir golenni i chwi,—nis gwn pa beth i gredu am danoch. Y mae eich cyflwr yn ddrwg, ac yn beryglus. Gwell i chwi arafu, a dyfod i wrando y Saint drosoch eich hun, yn lle rhwystro eich aelodau i wneuthur hyny.

Ond i ddyfod yn nes yn nlaen, yr ydych yn cofio i chwi ddweyd tua dechreu eich pregeth nad oedd hanes fod y Mormoniaid wedi gwneuthur gymmaint ag un wrth; eithr cyn cwpla, dywedasoeh mai hwynt oedd y rhai a ddeuai yn y dyddiau diweddafi i wneuthur “arwyddion a rhyfeddodau;” ac hysbysech fod Duw yn caniatâu i Satan gyflawni pethau felly trwy ddnion, yr un fath ag y gwnaeth i ddeiniaid yr Aifft, y rhai, meddech chwi, a gyflawnt wyrthiau eglur, fel Moses! A ydych chwi, Mr. Williams, yn gweled eich cymmysgedd? Pale yr oedd y “cyfrwysdra” sydd yn y testun, bryd hyn? Yr ydych yn cofio hefyd i chwi ddweyd mai gwyrthiau cyhoeddus oedd gwyrthiau Crist, ond mai gwyrthiau “yn yr eglwys” yw gwyrthiau y Mormoniaid. Darllenwch, os gellwch, 1 Cor. xii, 28,—“A rhai yn wir a osododd Duw yn yr *eglwys*; yn gyntaf apostolion, yn ail prophwydi, yn drydydd athrawon; yna *gwyrthiau*,” &c. Os buont allau yn amser Crist, yr oeddent i mewn yn amser Paul. Clywch eich hunan etto:—“Os dywedant fod y gwyrthiau ‘yn yr ystafelloedd,’ na chredwch; os dywedant ‘yn y diffeithwch,’ na chredwch hefyd.” Ai tybied na welsoch lygoden wrth astudio y darn hwn, ac i hŏno eich dyrysu? Causynied dyfodiad Mab y dyn, am wyrthiau! [Gwel Mat. xxiv, 26.) Fe ddywedasoeh nad oedd eisieu gwyrthiau i brofi fod y Testament Newydd yn wir: os felly, nid oes eisieu gwyrthiau hefyd i brofi fod Duw wedi gosod “gwyrthiau” yn ei *eglwys*. Nac oes, siwr; gellir credu fod “gwyrthiau” yn yr eglwys yn gystal ag “athrawon.” Yr un adnod sy'n dweyd fod y gwahanol bethau ynddi. Ond dyweddech hefyd y buasai gwyrthiau yn awr yn warth ar “wyrthiau Crist.” Paham hyny, Mr. Williams? Ai nid Duw fuasai yn cyflawni gwyrthiau yn awr, yn gystal â phryd hyny? ac ai nid efe fuasai yn cael y gogoniant? Os yw mynychiad gwyrthiau yn eu gwneuthur yn ddirym, fel yr haerwch, yna fe ellir cyflawni ychydig yn yr oes hon, canys nid oes rhai wedi bod er amser yr apostolion; buasant yn beth eithaf newydd. Efallai y dywedwch mewn atebiad, “Gadewch weled rhai o wyrthiau y Mormoniaid, ynte; yna mi a gredaf.” Buasai lluoedd yn credu Crist hefyd, pe buasai yn disgyn oddiar y groes, fel y *gwelent*, sef cael prawf o'i fod yn gwneuthur gwyrthiau. Pe buasech chwi a hwythau yn cael gweled gwyrthiau, buasech eilwaith yn ammau pa uu-ai Duw nou Satan a'u gwnaeth. Os ydych am gael prawf o weith-

T edoedd Duw yn yr oes hon, dŵedaf wrthyich. "Pob peth a all fod i'r neb a *gredo*." Os ydych chiwi a'ch defaid am arwydd yn gyntaf, yna "cenedlaeth ddrwg a godinebus" ydych, ac arwydd nis rhoddir i chiwi.

Y mae llawer o bethau a lefarasoch yn ysgrifenedig genyf, ond nid allaf gael lle yn breseunol i'w hateb yn un ac un. Gallaf eich cyfarwyddo i'r llyfr u ag y mae y Saint wedi eu cyhoeddi, a chewch eu gwled yn cael eu hateb. os bydd i chiwi dynn ymaif y gwydrau seet-yddol sydd ar eich llygaid. Mae y rhai yna yn peri camsyniadau dy-chrynlyd,—maent yn troi Llyfr Mormon yn *Llyfr y Mŵr*,—Mab y dyn "yn yr ystafelloedd," yn *wyrthiau* ynddynt; a gwyrthiau yn yr eglwys, yn wyrthiau *allan*. Dyma y spectol a welodd yr holl hen dadau yn ngwaelod uffern, a phregethwyr Mormonaidd Caerfyrddin yn dyfod o "eithafoedd daer." Ond y mae un peth a ddywedasoch ynghylch fod y Mormoniaid yn bedyddio fwy nag unwaith, yn gofyn sylw neill-duol. Os yw yn anysgrhythrol i'r Mormoniaid fedyddio ar ol y Bedyddwyr, y mae yn anysgrhythrol hefyd i'r Bedyddwyr fedyddio ar ol y Mormoniaid, fel ag y gwnaethpwyd â dwy fenyw yn Maesteg, yn ol yr hanes a roddir mewn rhifyn diweddar o'r *Bedyddiwr*. Os dywedwch chiwi etto fod y Saint yn bedyddio fwy nag unwaith eu hunain, dywedaf fannau fod hyn yn rhesymol ac ysgrhythrol. Nid yw i chiwi ddywedyd i Pedr wadu Crist (yr hyn oedd yn hechod mawr), ac na ddarfu iddo gael ei fedyddio drachefn, yn profi dim; oherwydd fe ddarfu iddo wylo yn dost ac nid yw yn heth arferol i droi dyn edifeiriol o'r eglwys. Pe bua ai Pedr yn peidio editarhau, a thrwy hyn y gael ei droi yn ol i deyrnas y tywyllwch, yn yr hon deyrnas yr oedd ar y cyntaf, pa fodd y gallai efe yr ail waith gael ei dderbyn yn ol i deyrnas y goleuni, heb gael ei ail-eni o ddwfr, er cnel maddeuant o'i hechodau? Am bob pechod rhwng brodyr yn yr eglwys, y maent i faddeu i'w gilydd, a gofyn maddeuant Duw hefyd drwy yr Eiriolwr drostynt; ac yna ni fydd eisieu eu bedyddio drachefn. "Un bedydd," neu ddrws, sydd i deyrnas Duw, a gellir myned trwyddo fwy nag unwaith, os bydd eisieu. heb achosi iddo fod yn "*ddau fedydd*," neu ddau ddrws. Mae Paul yn anerch ei frodyr fel hyn:—"Am hyn, gan roddi heibio yr ymadrodd sydd yn *dechreu* rhai yn Nghrist, awn rhagom at berffheithrwydd, heb osod i lawr DRACHEFN sail i *edifeirwch* oddiwrth weithredoedd meirwon, ac i *fydd tung* at Dduw, i athrawiaeth *bedyddiadau*, ac *arddodiad dwyglow*." &c. (Heb. vi, 1, 2.) Y mae hyna, a'r adnodau dilynol, yn dangos y gellir ail-dddechreu gyda chrefydd yn y drefn uchod, os na fydd pechod y dyn yn rhy fawr, wedi iddo syrthio, "i ymadnewyddu *drachefn* i *edifeirwch*," ac, wrth reswm, i gymmeryd ei fedyddio. &c. Beth a feddylwch chiwi, Mr. Williams, am hyna? A all y "cyfrwysdra i gynllwyn i dwyllo" fod yn alluog i wydroi hyna i feddwl peth arall? Treiwch, bid fyno.

Bellach, Syr, yr wyf yn awyddus i gwpla y llythyr hwn. Efallai y cawn gyfle i ysgrifenu etto. Ond y mae un peth yn rhwym o gael ei ddweyd etto wrthyich. Chiwi wyddoch i chiwi draddodi pregeth bwrpasol iawn er cadw eich aelodau rhag rhoddi eu hunain yn rhydd i brofi y Mormoniaid drostynt eu hunain. Yr oeddech yn dangos y cerydd a gawsai pwy hynag a elai i'w gwrandaw, neu a roddai ei dŷ, ei aidd, neu ei faes iddynt i bregetha eu barn. Dywedech yn eu

dannedd y dylent eich credu chwi o flaen neb o'r Mormoniaid, cyn i chwi adnabod braidd un o honynt. Pe eiddoch chwi fnasai y gymydogaeath, ni chai y Saint, druain, sengyd o fewn ei chyffiniau. Pe chwi fuasai yn llywio y deyrnas hon, buasai yn dda i'r Mormoniaid fod y fath le â'u Jerusalem Newydd, fel y gallent ffoi yno. Diolch mai nid felly y mae. Diolch mai nid Bedyddiaeth yw y grefydd sefydledig, ac mai nid y Parch. T. Williams, Ebenezer, ger Caerfyrddin, yw Archesgob Caergrawnt. Chwi aelodau Ebenezer, a wyddoch chwi beth ydych? Mewn difrif yr wyf yn gofyn, a wyddoch chwi mai "ysbrydion yn ngharchar" ydych, a bod y Parch. Mr. Williams yn pregethu i chwi, ac mai ei fwriad yw eich cadw ynddo yn hir? O ffowch am ryddid at y Mormoniaid, "a chwi a fyddwch yn rhyddion yn wir." Ffarwel yn awr, Mr. Williams; Duw a'ch bendithio.

Yr eiddoch, Barch. Syr,

Yn ostyngedig ac isel,

Caerfyrddin, Gorph. 6, 1848.

J. DAVIS.

ADFERIAD YR EFENGYL.

DYMA y cyfammod newydd,
Sicrhawyd gan Iesu Grist;
Pawb gwrthodant, ac a'i torant,
' Nydd y farn cânt amser trist:
Duw oedd yn yr hen gyfammod
Gyda'i blant yn foreu iawn,
Gyda'r Iesu caed y newydd,
A'r bendithion ynddo'n llawn.

Daeth yr angel â'r efengyl,
A'r bendithion yn ei dydd,
Dyma'r "amser a'r amseroedd,
"A rhan amser," yn eu rhif:
Yr un angel welodd Ioan
Yn ehedeg yn y nef,
Dueth un arall i'w gyfarfod,
' Ni rhai gwael i gael o'r wledd.

Amryw ddoniau trwy'r un Ysbryd,
Duw addawodd yn ddiſſael;
I'n Tad nefol bo ni'n diolch,
Bod y doniau wedi'u cael.
Trwy'r un Ysbryd fe wneir gwyrthiau,
A phrophwydo gyda hyn,
Y tafodau a'r cyfieithiad,
Eglwys Dduw sydd 'nawr mewn grym.

Cas bydd gan y byd am danoch,—
D'wedodd Iesu hyn ei hun;
Y gwrthodwyr fydd y rhei'ny,
Na chânt brofi byth o'r rhû.

Mae'r Gehena'n ddigon eang,
 Cânt eu poeni am eu gwaith;
 Hwyl gânt fedd ffrwyth eu bywyd
 Yn y tragwyddoldeb maith.

CYMMANFA FLYNYDDOL CYMRU,

A GYNNALIWYD yn Neuadd y Cymreigyddion, yn Merthyr, Gorph
 16eg a'r 17eg.

Etholwyd Capt. Jones yn unfrydol i lywyddu y Gymmanfa. yr hwn
 a ddechreuodd y cwrdd boreuol am 10 o'r gloch, trwy ganu a gweddio.
 Yna cyfarchodd y dorf yn gymhwysiadol ac effeithiol iawn ar y pwys-
 fawrogrwydd, y canlyniadau, ynghyd â'r dybenion daionus, o'r gwaith
 ag oedd o'n blaen, gan ddangos yn eglur yr anghenrheidrwydd ag oedd
 am fod pob un yn ymysbrydoli yn ei feddwl, ac ymsanteiddio yn ei
 ysbryd, cyn y dichon fwynhau y llesâd ysbrydol a amcenir drwyddo.

Wedi hyn galwodd am gynnychiolaeth canghenau, yr llyn a roed
 fel y canlyn:—

<i>Canghenau.</i>	<i>Llywyddion.</i>	<i>Hen.</i>	<i>Off.</i>	<i>Ath.</i>	<i>Dia.</i>	<i>Bed.</i>	<i>Off.</i>
Merthyr	W. Phillips	13	17	19	7	153	757
Pendarran	T. Griffiths	2	4	2	2	6	58
Dowlais	A. Clark	7	10	7	2	41	164
Rymni	W. Davies	4	4	4	1	10	61
Cwmbach	J. Price	4	4	3	2	11	60
Aberdar	J. Davies	5	1	3	3	30	63
Hirwaun	D. Evans	1		1		16	35
Llanfabon	R. Humphreys		1		1	10	15
Caerdydd	W. Jenkins	3	4	4	2	68	100
Llwyni	S. Davies	1	5	3	2	31	43
Cwmbychan	T. Pugh	2	2	2	1	3	14
Bryn	do.		1	1		8	17
Treboth	J. Matthews	4	2	3	1	20	47
Peele	J. Bowen	2				9	13
Cyfyng	D. Williams	2	4	2	2	14	30
Cwmaman	J. Griffiths	1	4			2	12
Pont Yates	H. Williams	5	6	4	2	50	90
Llanelli	W. Hughes	7	11	8	3	67	166
Caerfyrddin	B. Jones	4	4	2	2	17	56
Llanybyther	T. Jeremy	1	4	3	1	25	51
Brechfa	D. Jeremy	1	5	3	2	27	56
Swydd Ffynnon	B. Evans	3				4	9
Pont-y-ty-pridd	J. Phillips	1	3			8	18
Diewyd	E. Morris	1	2	2		2	16
Cynnadl. Sir Fynwy	W. Phillips	24	30	18	11	197	404
Etto Sir Henffordd	W. Henshaw	9	11	8	4	50	194
Etto Sir Benfro	J. Morris	2	4			7	46
Siroedd y Gogledd	Abel Evans	18	19	9	2	52	152

Wedi ychydig sylwadau byrion a chynnwysfawr gan y llywydd o berthynas i lwyddiant rhyfeddol y gwaith, a'r anghenrheidrwydd ag sydd am ddylanwadau Ysbryd y gwirionedd er dysgu y Saint i fyned yn mlaen tuag at berffeithrwydd yn yr iawn ddealltwriaeth o, a'r ymferiad ag, athrawiaethau iachus, cyn y dichon fod gwir gariad yn cynyddu, a bod y Saint yn mwynhau llawenydd mawr yn yr Ysbryd Glân, galwodd ar henuriad A. Evans i fyny, yr hwn a roddes ganmoliaeth mawr i'r Saint ag svdd yn wasgaredig drwy y Gogledd, eu bod yn ymdrechgar iawn i gadw rhag y drwg, ac i fwy yn dduwiol, a'u bod yn mwynhau doniau yr Ysbryd Glân i raddau helaeth, yn enwedig dawn iachâu. Ac mai po fwyaf eu herlidir, cadarnaf oll y greddfant yn yr athrawiaeth, a'u bod hefyd braidd yn ddieithriad yn parhau yn undeb y ffydd, ac mewn cariad brawdol, a bod gwell gobeithion yao am luosogiad nag a fu erioed o'r blaen. Dywedai hefyd fod galwad mawr mewn llawer o fanau am ychwaneg o bregethwyr, a thaer erfyniai ar ei gydsyddwyr o'r parthau hyn ddyfod i'w gynnorthwyo yn y cyrau gogleddol o'r winllan Gymreig.

Yna sefydlwyd y manau canlynol yn ganghenau, a'r personau canlynol i arolygu drostynt;—Pont-y-ty pridd,—hend. John Phillips yn llywydd. Swydd Ffynnon.—hend. B. Evans yn llywydd. Trwyn-yrdyn, ger Caerdydd,—hend. William Thomas yn llywydd. Llanfabon,—hend. Robert Humphreys yn llywydd. Cefnmawr,—hend. John Davies yn llywydd. Nash Point,—hend. Thomas Llewelyn yn llywydd. Peel.—hend. John Bowen yn llywydd.

Yna galwodd y llywydd ar hwy bynag ag a feddai rhyw gyhuddiad yn erbyn unrhyw lywydd canghen, neu gynnadledd, i hysbysu hyny y pryd hwn, neu os oedd unrhyw gyhuddiad yn ei erbyn ef, am ddod ag ef yn mlaen i lygad haul, a pheidio celu dim: ac er galw am hyny lwer gwaith, ni ynganodd neb air yn ei erbyn ef, nac yn erbyn un o'r lleill. Yna gofynodd y llywydd am ddyrchafiad deheulaw yn arwyddocad o'u hoddlonrwydd i'r holl lywyddion gael eu cynnal yn mlaen yn eu gwahanol swyddi drwy ffydd a gweddiau y Saint, yr hyn e wnaed yn unfrydol.

Cynnygiodd y llywydd, ac eiliwyd, ein bod ni oll dros yr eglwys yn Nghymru yn cynmeradwyo, a thrwy ein ffydd a'n gweddiau yn cynnal, y Llwydd Brigham Young, ynghyd â'i gynghorwyr yn llywyddiaeth dros yr eglwys drwy'r byd,—a'r llywydd Spencer dros yr eglwys yn Mhrydain. Cynnygiwyd gan yr hend. W. Phillips ein bod ni yn cymmeradwyo y llywydd Jones ar holl faterion yr eglwys yn Nghymru, yr hyn a eiliwyd ac a gymmeradwywyd yn unfrydol. Yna gohiriwyd y cyfarfod boreuol hyd y prydawn. Hysbysodd y llywydd fod digonedd o luniaeth wedi ei barotoi yn rhad i'r dyeithriaid.

Dau o'r gloch, wedi dechreu y cyfarfod fel arferol trwy ganu a gweddi, gorfodwyd gadael heibio y sacrament am y tro hwn, oherwydd y buasai yn anhosibl ymwithio trwy y dorf i gyfrauu yr elfenau, Manylodd y llywydd ar brif ddybenion a dulliau gwaredigaethau tymhorol Duw i'w blant yn y gwahanol oesoedd o'r byd, rhag y barnau a dywalltai ar yr annuwiol; ac yn nodedig eglurodd y waredigaeth fwyaf yn y dyddian aiweddat, drwy ymgasgliad y Saint ynghyd mewn pryd o bedwar cwr y byd i Seion. Dangosodd nad gwaith yw hwn i'w

wneyd yn anystyriol, nac mewn brys, ond gwaith ag sydd yn gofyn ac yn teilyngu dwys ystyriaeth pob un; fod anghenrheidrwydd am fwy o ddoethineb, pwyll, a phenderfyniad, i'w ddwyn yn mlaen na dim a fu o'i flaen; ac mai prif arwyddair Ysbryd Duw, yr hwn sydd yn nerthol weithio yn ei Saint i yngasglu, ydyw, gyda'r rhan hwn fel gyda phob rhan arall o waith dwyfol;—"gwneier pob peth yn weddaidd ac mewn trefn." Hysbysodd y llywydd fod y ffordd o waredigaeth, ar oi hir ddysgwyl, yn agored—bod gwahoddiad i alltudiedig blant Seion i yngasglu i'w cartrefe eu hun, i'r wlad a ragdrefnodd Duw i fod yn Gosen waredol i holl druenusion daear ag a ufyddhant i'w orchymynion. Dywedodd ei fod ef, ynghyd â rhai cannoedd ereill o'r Saint, yn bwriadu ac yn darparu cychwyu fel blaenffrwyth o'r miloedd ychwanegol o hil Gomer etto a ddeuant yn waredol cyn hir ar fynydd Seion. Taer anogodd yr holl Saint, a'r Swyddwyr yn neillduol, i fod yn ddiwyd i gyflawni yr oruchwyliaeth bwysig a ymddiriedwyd iddynt o rybuddio eu cyd-ddynion o'r barnau a'r gyflafan ag sydd ar ddyfod fel dinystr disymwth a diatreg ar warthaf pawb oll a'r a wrthodant y genadwri ddwyfol hon, ac a wrthodant y waredigaeth hon. Terfynwyd y cwrdd hyfryd hwn trwy weddi, gan yr hend. W. Howells.

Am chwech o'r gloch yn yr hwyr, anerchwyd y dorf gan yr hend. W. Hughes o Lanelly. Dywedai ddarfod iddo er's ychydig gyda blwyddyn yn ol fyned yno yn bwrpasol er mwyn pregethu yr efengyl; a'r canlyniad a fu, ddarfod i Dduw ei alluogi, er gwaethaf holl gyndeiriog-rwydd y gelyn, a'i anallu ei hun. Cafodd darlithoedd, camgybuddiadau, a holl wg a gwawd, a'r rhwystrau, ag a allai gau-grefydd selog dros draddodiad dynol, eu rhoddi ar ei ffordd, etto llwyddodd i argyhoeddi dros wyth ugain o'r trigolion anwyl hyny; a mawr fel y llawenhant yn eu breintiau presennol, a'u gobeithion dyfodol,—y diolchiant eu bod wedi dyfod allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef,—ac fod ynddynt ymdrech fawr am fyw yn dduwiol, a chynnyddu yn mhob gwybodaeth o Dduw,—a'u bod yn hiraethu yn fawr am weled y dedwydd ddydd ag y cânt fyned i Seion.

Hend. W. Henshaw a dystiolaethodd yn Saesonæg am ei wybodaeth o ddwyfoldeb y gwaith mawr hwn, y mawr lawenydd a gafodd drwyddo yn mhob dull, ynghyd ag wrth weled ei lwyddiant; a'i benderfyniad oedd i wneyd ei oreu o'i blaid hyd ei fedd.

Hend. W. Phillips a ychwanegodd ei dystiolaeth yntau i'r un perwyl. Dangosodd o'r ysgrhythrau nad arferiad Duw yn unrhyw oes oedd i wneyd dim gwaith ar y ddaear a'r na ddaugosai ei gyfrinach i'w weision y prophwydi. Dangosodd yr anghenrheidrwydd anheggorol ag sydd am apostoliaeth a phrophwydoliaeth. &c., yn yr eglwys, cyn y gallai fod yn eglwys i Dduw. Tystiolaethodd fod y cyfryw swyddau yn yr eglwys yn awr, ynghyd â'r doniau ysbrydol ereill, ac mai gwadu y rhai hyny yw gwadu crefydd Crist, a dweyd nad oes eisieu yr uchod yw dweyd hefyd mewn ffaith nad oes eisieu eglwys Iesu Grist, gan fod yn amhosibl fod eglwys i Dduw ar y ddaear heb fod ynddi y cyfryw swyddau a doniau.

Hend. H. Williams, wedi datgan ei lawenydd wrth weled y fath luosogiad rhyfeddol at yr achos dwyfol hwn, a gweled ugeiniau o'i hen gyfoediou hynaws wedi ei chofleidio er pan y bu efe yma o'r blaen, ac yn

llawenhau ynddi; ac hefyd ei fod yntau wedi cael y fraint o fod yn offer-
yn yn llaw Duw i ddwyn yn agos i gant, ynghyd â'i gyd-lafurwyr, o
dywyllwch i oleuni yr efengyl, ac yn blant i Dduw, a'u bod oll yn ym-
drechu ymddwy yn gyferbyniol i'r cymmeriad godidog a gawsant. A
danghosodd hefyd ardderchogrwydd y cynllun dwyfol a ymddiriedwyd i
ni, yn gymmaint ag na ddichon dynion aninherffaith wneuthur cynllun
perffaith i berffeithio eu hunain, llawer llai i berffeithio ereill. Yn gy-
maint a bod cynllun perffaith wedi ei ymddiried i ni, erfyniai ar ei gyd-
swyddwyr o'r cylchoedd hyn i ddyfod i'w gynnorthwyo ef a'i frodyr yma
i lledaenu gwybodaeth o hono drwy Sir Gaerfyrddin,—fod yno alwad
i nawr am bregethu, ond y gweithwyr yn anaml iawn,—bod yno waith
a allasai amryw gael,—a bod miloedd o bobl onest eu calon yn awyddus
am gael y gwir, &c.

Hend. W. Evans, Rymny, a ddywedai ei fod ef newydd ddychwelyd
yn ei ol o'r Gogledd, lle y bu efe yn pregethu am yspaid, a hysbysai fod
y Siroedd gogleddol yn addfed i'r cynauaf, a galwad taer mewn llawer o
fanau am glywed yr efengyl ddwyfol hon. Danghosodd mai ei bender-
fyniad ef yw gwneyd a allo, er pob rhwystrau, i adeiladu teyrnas yr Im-
manuel; ac annogai yn daer bregethwyr y Deheudir i ddyfod i roddi
llaw o gymhorth i'w brodyr yn y Gogledd, fel y caffo yr onest ei galon
afael ar y gwir.

Dilynwyd ef gan y llywydd, yr hwn trwy gymhelliadau taerion a
berswadiai y swyddwyr i ymlledaenu tua'r Gogledd. Coffaodd hwynt
am "ddamweg y crymanau rhydlyd," yr hon a draddodwyd i'w clyw-
edigaeth y Gymmanfa flaenorol. Dywedai hefyd, fod Duw, a dynion
da, yn eu hystyried yn gyfrifol am y defnydd a wnant o'u talentau, &c.

Hend. W. Howells, yn Saesonaeg, a roddodd lawer o gynghorion
dyddorol a hyawdl ar wahanol faterion pwysig, ynghyd â'r uchod, ac
a ddatganodd ei orfoledd oherwydd ddarfod iddo, wedi bod yn preg-
ethu am flynyddau gyda'r Bedyddwyr, gael gafael ar wir eglwys, ar
wir efengyl, a gwir ddoniau yr Ysbryd Glân, yn ei lawenydd mawr.
Yna terfynodd yr henuriad A. Clark y cyfarfod hwyrol trwy weddi: y
cantorion a ganasant amryw anthemau mwynaid yn ystod y cyfarfod,
er mawr lawenydd i'r gwrandaawwyr, a mawl i'r Duw daionus ag sydd
yn unig yn deilwng o hono.

Dydd Llun yr 17eg, am ddeg o'r gloch y boreu, a'r Neuadd yn or-
lawn o bobl, dechreuodd yr henuriad A. Evans y cyfarfod, ac a ddang-
osodd wahanol ddyledswyddau yr offeiriadaeth, ynghyd â'r dull o alw
swyddwyr i'w llanw, yr anghenrheidrwydd a'r defnyddioldeb o honynt,
a dyledswyddau yr aelodau i ufyddhau iddynt. Dilynwyd ef gan y
llywydd ar yr un pethau, ac hefyd ar y gwahaniaeth ag sydd rhwng
doethineb ddynol a doethineb ddwyfol yn y galwad o bersonau i lanw
y gwahanol swyddau, a'r gwahaniaeth ag tydd yn eu dull a'u dybenion
o weinyddu mewn ordinadau dynol a dwyfol. Profodd hefyd ei bod
yn debyg yn awr i'r hyn oedd yn nyddiau Crist a'r apostolion, y
naill oes fel y llall yn dewis daethion colegawl, a Duw yn y naill oes
fel y llall yn "dewis ffol bethiau y byd, fel y gwaradwyddai y doethion."
Helaethodd ar amryw bethau yn addysgiadol, rhy faith eu nodi yma.
Galwyd i'r offeiriadaeth, hend. 15, offeiriad 33, athrawon 19, diacon-
iaid 6, oll i gael eu hordeinio yn eu gwahanol ganghenau,

TEA PARTY Y GYMDEITHAS GENADOL.

Terfynodd y cyfarfod boreuol erbyn oddeutu un o'r gloch, ac am hanner awr wedi dau yr oedd yr olygfa wedi ei chyfnewid yn hollol, fel yr oedd y Neuadd, yn lle ei bod yn orlawn o bobl, wedi ei llenwi â byrddau mawrion, a'r rhai hyny wedi eu haddurno â'r llestri gwyhaf, a'u llywtho â danteithion lawer; ac nid hyny yn unig, ond gwelid yn eu hamgylchynu lawer o'r rhywogaeth dŷg wedi ymloywi, ac wedi eu trwsio eu hẃzain a'u byrddau am y goreu, ac fel pe baent oll yn awyddus am ragori ar eu gilydd mewn glendid, sirioldeb, caredigrwydd, a phob peth rhinweddol a da. Wedi iddynt oll gael eu *Tea-pots* yn llawn o "am y goreu eu tea," gofynodd y llywydd fendith ar y wledd, gan daer weddio ain i Ysbryd cariad ac undeb lywyddu pob mynwes a phob ysgogiad. Wedi hyny y naill fyrddiad ar ol y llall a eisteddent yn rheolaidd, a fwytaent eu gwala, a gweddill ar ol, a phawb yn canmol ac yn caru, nes y cyfranogodd yn agos i fil a hanner o'r pryd hyny hyd wyth o'r gloch, pryd y symmudwyd y byrddau, ac y newidiwyd yr olygfa i gyfarfod cyhoeddus; a thraddodwyd amryw ddarlithoedd hyawdl a dyddorol gau wahanol bersonau; ac er mor hwyr y parhaodd y wledd genadol hon, etto ni welsom dim arwyddion o fod neb wedi blino; ac yn ystod yr holl Gymmanfa a'r wledd, ni chlywsom am na grwgnach, na chyhuddo, na beio un gair ar un dim o'r defnyddiau, y wledd, y dull, na'r ddysgeidiaeth, ac ni welsom ychwaith un argoel o fynwes drist, na gwyneb galarus, na golwg cuchiog, ond pawb o'r byd, a'r Saint, yn enwedig y chwiorydd llon a weinyddent, yn siriol wenu fel pe wrth eu bodd; ac am eu sirioldeb anghydmharol, eu trefnusrwydd, a'u boneddigeiddwydd digyffelyb, ennillasant ganmoliaeth unfrydol, serch, a diolchgarwch pob dyngarwr a fwynhaodd o'u danteithion.

Ar ddiwedd y cyfarfod darllenodd yr ysgrifenydd y derbynadau am y flwyddyn a aeth heibio, yr hyn oedd yn hollol foddhaol. Amlygwyd lawer o effeithiau daionus y Gymdeithas ragorol hon er lleadaenu yr efengyl drwy'r wlad, yr hyn sydd yn annogaeth gref i fod yn fwy ymdrechgar o'i phlaid yn y flwyddyn ddyfodol, yr hyn, gobeithiwn, a fydd pawb. Talwyd diolchgarwch y cyfarfod i'n cyfeillion hynaws o'r byd am eu boneddigeiddrwydd a'u sirioldeb. Yn fyr, dywedwn na welsom erioed o'r blaen y fath gariad, undeb, a threfnusrwydd, yn mhlith y fath luaws o bobl, na chynulleidfaoedd o ymddangosiad mwy boneddigaidd, nac ychwaneg o argoelion ychwaith o ddylanwad Ysbryd y Duw byw; ni allem feddwl am ddim a'i hefelychai yn fwy na'r nefoedd ag y sonia Ysbryd y brophwydoliaeth am dani, pan y gwna yr Arglwydd Dduw yn mynydd Seion wledd o basgedigion breision, ac o loyw-wîn puredig, pan y bydd holl blant Seion wedi ymgasglu ynghyd, ac y bydd y gorchudd ag sydd yn gorchuddio yr holl bobloedd wedi cael ei ddifa, pan na bydd poen mwyach, na neb o'r preswylwyr yn dywedyd, "Claf ydyf," na neb yn tynu yn groes, ond pawb yn canu caniadau Moses a pheraidd gân yr Oen, a "thelyn pawb mewn hwyl fel telyn Dafydd ar yr wyl." A brysiu wnelo y dedwydd amser yw ein gweddi. Amen.

WILLIAM DAVIES,
EDWARD EDWARDS, Ysgrifenydd.

SYLWCH, YR HOLL SAINT!

AR y 25ain o Orphenhaf, penderfynodd y Cynghor (tua thriugain o swyddwyr yn bresennol) yn unfrydol;—Fod, yn gymmaint a bod y Llywydd Jones yn bwriadu ymfudo o'n plith tua Seion yn y

gwanwyn;—Ei fod ef wedi argraffu llawer o lyfrau a thraethodau mor rhagorol a defnyddiol, pa rai y mae, ac y bydd, mawr anghen a galw am danynt. ar ol ei fynediad efymaith;—Fod hefyd yr holl ganghenau drwy Gymru (oddieithr dau neu dri o eithriadau) eisoes:—Fod i bob canghen gyfranau, trwy gasgliad, i'w wneyd bob wythnos o hyn i'r Gymmanfa nesaf, yn eu cyfarfod eglwysig; fod i'r canghenau ddewis eu dosbarthwyr trwy bleidlais, a'i fod ef yn gyfrifol i'r ganghen am ei oruchwyliaeth i ddosparthu y llyfrau, a rhoi cyfrif iddynt hwy am yr arian a dderbynia; ei fod ef i roddi cyfrif cyhoeddus i'r ganghen pa fodd y mae rhyngddo a'r dderbynwyr, pwy sydd yn ddyledus, a'u hannog i dalu eu holl ddyledion o hyn i hyn; fod iddynt ddewis eu trysorydd a'u hysgrifenydd i gadw y cyfrifon, a'r arian a dderbynuir trwy y casgliadau uchod; a bod pob canghen hefyd i gael cyflawn werth yr arian a gesglir felly o'lyfrau, i fod i'w gwerthu i'r rhai ymofynant am danynt wedi hyn; ac felly bydd gan y ganghen y drysorfa hyn ar law i'w defnyddio fel y cytunont hwy, at lesad y ganghen hono, ac nid i ddyhenion personol, ond drwy gydsyniad yr oll; ac felly galluogir yr holl ganghenau i dalu eu dyledion yn hawdd, ac ereill i gael llyfrau hefyd.

Hydera y cynghor y cydsyua yr holl Saint â hyn, megys ag yr ydym ni yn unfrydol yn ei gymmeradwyo, ac yn ei gymhell i'w hystyriaeth, a gobeithiwn y gofala yr holl lywyddion am osod y cynllun hwn mewn gweithrediad mor gynted ag y bo modd, ac yr arferant eu dylanwad i egluro yr anghenrheidrwydd a'r defnyddioldeb o hono.

Dros y cynghor,

EDWARD EDWARDS, Ysgrifenydd.

CYNNWYSIAD.

At ddarllenwyr y Prophwyd.....	113	Parch. T. Williams, Ebenezer, ger Caerfyrddin	118
Yr Eridigaeth yn Cwmbychan a'r Bryn.....	115	Adferiad yr efengyl.....	122
Galwad ar bechadur	117	Cymmanfa flynyddol Cymru.....	123
Prŷgeth Gwrth-Formonaidd. At y		Sylwch, yr holl Saint.....	127

MERTHYR-TYDFIL:

CYHOEODWYD AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH
HEFYD GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL.

ARGRAFFWYD GAN JOHN JONES, RHYDYBONT.

PROPHWYD Y JUBILI,

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 27.]

MEDI, 1848.

PRIS 2g.

DYSGRIFIAD O CALIFORNIA.

[*A ddyfynwyd o lythyr teithior diweddar yno, at ei gyfaill.*]

“MEWN atebiad i'ch llythyr diweddaf ataf, dywedaf mai pleser genyf yw rhoddi i chi unrhyw hysbysrwydd am yr hyn a welais ar fy nhaith ddiweddar trwy California. Ymdeithiais heibio tarddiad yr afon Platte, a chroesais yr afon werdd i'r deau i'r mynydd gwyntog, ac oddiyno yn orllewinol drwy y Mynyddoedd Creiglyd i ddyffrynoedd California.

“Mae California wedi ei dosranu yn ddwy ran. Mae y naill hanner o honi yn ddyffrynoedd breision a harddwych, a'r hanner arall yn fynyddoedd a brynau. Dechreuas y dyffrynoedd yn agos i'r Mor, a chyrrhaeddant am 80 neu 100 milldir; a rhai a gyrhaeddant hyd y mynydd mawr, ac ereill a dueddant i'r deau, ac a ymlodaent yn eang iawu. Mae y dyffrynoedd agosaf i'r Môr Tawel gan mwyaf o 10 hyd 50, ac weithiau 100, milldir o led, ac y maent yn ddaear hynod o fras; eithr y gweddill o'r wlad nid yw mor ffrwythlon, etto cynnyrcha laswellt, a Hysiau yn doreithiog. Rhagora y tir goreu yma ar ddim ag sydd ar y cyfandir am gynnyrchu gwenith; o 50 hyd 100 o fwsheili a geir ya gyffredin ar ol heuad un bwshel. Mae yr amaethwyr yma yn codi pys, ffa, a phob amrywiaeth o lysiau gerddi yn doreithiog, ac hefyd yd yr India, *meltons*, *pumpkins*; ac nid oes un wlad yn y byd mor addas i gynnyrchu grawnwin a California.

Mae yr ychydig drigolion ag sydd yma yn hynod o iachus, ac y mae yr hinsawdd yu hynod o dymherus a hyfryd; nid oes yma nemawr dywydd a ellir ei alw yn auaf; ond y mae yma ddau dymhor, sef gwlyb a sych. Nid oes nemawr wlaw yn disgyn yn yr haf, ond dechreuas y gwlawogydd tua dechreu mis Tachwedd a

pharhant ar brydiau hyd fis Ebrill. Pan ddechreu a gwlawogydd ymddangosa yr holl deyrnas lysieuol yn eu gwisgoedd goreu, gan gynyddu drwy'r gauaf megys y gwnant yn y gwanwyn yn ein gwlad ni. Tymhor hau yw mis Rhagfyr, ac yu Ebrill y mae y bryniau a'r dolydd wedi eu gordo; â phob amrywiaeth o lysiau a blodau harddwych a defnyddiol, yr olwg ar ba rai a lanwant feddwl y teithiwr â synodod, ac â drychfeddyliau paradwyssidd; a diwedd yr haf a'r hydref, mae pob llysiu a ffrwythydd yn addfed, a pharhant yn ymborth rhagorol i ddyn ac anifail hyd oni ddelo y gwlawogydd. Ceir yma bob ffrwythau a dyfant yn y cylchoedd poethion a'r tymherus. Y brif farsandiaeth a ddygir oddi yma yn bresennol ydyw, crwyu, gwêr, gwenith, furs, &c. Mae yma ddi-gonedd o frydiau ac afonydd yn rbedeg drwy y dyffrynoedd i ateb pob gofynion am ddwfr. Ceir yma laweroedd o ffynonau oerion, a phoethion, dwfr tar, hallt, a dyfroedd chwewon, i'r neb a' u dewiso, ac y maent yn feddyginiaethol iawn hefyd. Ymddyrchafa rhestri o fynyddoedd a bryniau yma a thraw, gan ymestyn tua'r môr; a gorchuddir rhan fawr o'r bryniau a'r dolydd yn mis Ebrill â cheirch a chloer, yr olaf o ba rai yw prif gynnyrch naturiol y wlad. Mae yma bump math o gloer, sef tri o ryw coch, a dau o wyn. Tyfa y blaenaf o ddir i bedair troedfedd o uchder, ond yr olaf yn fyrach. Mae had y cloer coch yma gymmaint o faintioli a had llin, ac y mae y trigolion yma yn byw arno, megys ag y gwna ceffylau.

Prif goedydd y dyffrynoedd yw derw, yr hwn a dyfa gan mwyaf yn llwyni ar lanau afonydd, ac y maent yn ddefnyddiol iawn yn ddodrefn, yn gelfi, ac yn danwydd, i ddwyn mês, a'u rbisgl i farcio crwyn. Ar y bryniau tyfa y coedydd harddaf a mwyaf a welais erioed, ac amrywiaeth mawr o honynt. Cyrhaedda y pren coch yn aml dros 300 o droedfeddi o uchder, Mesurnis un o honynt oddeutu pump milldir, oddiwrth y môr, ac yr oedd yn ychwaneg na 59 troedfedd o gwmpas, ac yn 337 o droedfeddi ei uchder. Ceir llawnder mawr o'r coed yma yn 200 o droedfeddi o uchder, heb un ganghen arnynt; a cheir y coed hyn fynychaf yn agenau y mynyddoedd.

Yn y rhan ddwyreiniol i California y sefydla y trigolion gan mwyaf, pa rai ydynt ychydig iawn o nifer mewn cyferbyniad i'r

wlad. Meddianna yr un ffermwr o 9 hyd 20 milldir ysgwar o dir. Preswylia y trigolion yn drefydd bychain gyda'u gilydd, a pherchennoga y ffermwyr yma yn aml o fil i ddeng mil o benau corniog, cyffylau, &c.

Nid yw caethfasnach yn oddefol yn California; etto nid yw yr Indïaid nemawr well eu cyflwr, yn eu plith na phe baent gaethion. Mae California yn wlad hyfryd, a hawdd iawn i fyw ynddi. Wrth fyned ol a blaen i California, gwelais 8 o lynoedd mawrion, 6 heblaw y Llyn Helen a Cutaw. Gorwedda y 6 ereill i'r deaur-orllewin o'r Llyn Helen, ac ymarflwysa afonydd mawrion iddynt, er nad oes dim yn rhedeg o honynt, a cheir ynddynt faint a fyner o bysgod. Cynnwysa y mynyddoedd lawer o drysorau a mwngloddiau, ac amrywiaeth mawr o ddyfroedd meddyginiaeth a chyffeiriol, megys *porter springs*, dwfr chwerw, hallt, chalk, clai gwyn rhagorol i wneyd llestri, *states* i doi, tai ceryg calch, ac mewn gair, pob peth braidd a feddylir yn ddefnyddiol. Mae llawer o "leoedd" rhagorol i'w cael yn yr holl ddyffrynoedd hyn heb neb yn eu hōni. Cynnwysa "Ile" o 12 hyd 18 milldir ysgwar.

"Ydwyf yr eiddoch yn serehus,

"JOHN BARTLESON."

TYSTIOLAETH REES PRICE, DOWLAIS.

Mr. Gol.—Crefaf eich hynawsedd i ymresyma ac i dystiolaethu ychydig trwy gyfrwng eich *Prophwyd* o'r gwirioneddau ag y cefais y fraint o'u gwybod yn ddiweddar, a'u gosod ger gwydd y rhai o'm hen frodyr a'r cyhoedd ag a fyddant yn ddigon rhydd i ddarllen y *Prophwyd*. Bum yn aelod gyda'r Bedyddwyr am yn agos i naw mlynedd, yn byw mor dduwiolfrydig a selog ag y gallwn, ac yn ymdrechu hyd eithaf fy ngallu i gael gafael ar ddyddanwech yr Ysbryd Glân, megys yr addawa yr ysgrythyrau. Cefais gyvagherion goreu y Parch. W. R. Davies, Dowlais, am flynyddau. Clywais ei erlid a'i gamgyhuddiadau parhaus ar "Saint y Dyddiau Diweddar," yn y gyfeillach, o'r pwlpudau, drwy y cyhoeddiadau, ac ar hyd y tai a'r heolydd, a manwl chwiliais iddynt mor ddiuedd ag y gallwn, hyd nes y'm hargyhoeddwyd o'r diwedd eu bod yn ddisall, ac yn tarddu oddiar egwyddor ddrwg, a deallais hefyd nad allai Mr. Davies wrthbrofi, i'm boddlonrwydd i, yr egwyddorion a broffesa y Saint. Nid oeddwn heb deimladau pleserus weithiau, ac yn gobeithio fy mod yn addoli Duw yn gymmeradwy tra gyda'r Bedyddwyr; eithr yr oeddwn i mor ddyeithr a'r holl rai ereill o'm brodyr a'm chworydd o *sicrwydd* ein bod yn eglwys Duw; a phan glywais y Saint yn tystiolaethu, ond i mi ufyddhau i'r ordinah-

au o'u gweinyddiad hwy, y rhoddai Duw i mi drwy ei Ysbryd Glân yr hyn sicrwydd a ddymunwn, ymroais i chwilio yr ysgrhythrau a oedd hyny i'w gael yn awr, ynte wedi darfod, a dim o'i eisieu, megys y'm dysgid gan Mr. Davies ac ereill. Tra yn yr ymchwiliad pwylllog hwn, mewn ufydd-dod i'r ysgrhythr a ddywed, "Profwch pob peth, a deliwech yr hyn sydd dda." daeth hyn i glustiau Mr. Davies. &c., sef fy mod yn gogwyddo a' farn, ac mewn perygl o ymuno a'r Saint, ac o herwydd hyn dysgyblwyd fi yn gyhoeddus, dan y cyhuddiad o esgauluso fy nghydgynnulliad; ond mewn gwirionedd dywedaf, mai chwilio am y gwirionedd yr oeddwn yn ddiudeud. Pan y daeth Mr. Roberts o Rymny i Dowlais i areithio yn erbyn y Saint, fe ddarfu i waeledd ei ystorïau, afresymoldeb ei haeriadau, ei dwyll, a'i annhegwch, fy arghoeddi fwy-fwy fod crefydd y dyoddefyddion yn well na'r grefydd a barai i'r ymosodwyr eu difenwi, eu herlid, a'u camgyhuddo fel y gwna y rhai'n. Clywais a darllenais amddiffyniad y Saint yn ngwyneb yr oll,—dymunais ar y Bedyddwyr fy niarddelu, a chymmerais fy medyddio gan y Saint, a'm tystiolaeth i wrth bawb yw yn awr, ddarfod i mi fwynhau graddau helaeth o ddylanwadau yr Ysbryd Glân yn y cyfarfod eglwysig cyntaf ag y bum ynddo gyda'r Saint, i.e. ddigon i brofi yn ddiammheul fod Ysbryd Duw yn y lle hwn, mai pobl Dduw yw y bobl ddirmygedig, etto bendigedig, hyn, a phrofodd Duw i mi lawer gwaith heblaw hyny, trwy eglurhad yr Ysbryd yn ol ei addewid, mai camgyhuddiadau yw braidd yr oll a glywswn yn erbyn y bobl ddiniwed a duwiol hyn.

Fy hen gyfeillion anwyl, ymbwyllwch, ac ystyriwch y dystiolaeth hon, canys gwirionedd dwyfol ydyw, i.e. gwirionedd yw a sylla yn eich wynebau o flaen y frawdle fanwl; a dyma ydyw,—Y mae Duw y nef-oedd wedi anfon cenadwri o hedd ar eich hol, drwy yr hon y mae yn eich galw oddiwrth draddodiadau dynol i ufyddhau i'w orchymynion dwyfol. Mae yn cynnygi i chwi "ddawn yr Ysbryd Glân," adnabyddiaeth o Dduw a bywyd tragwyddol, os ufyddhewch, yr hyn bethau nid oes genych addewid am danynt yn y man yr ydych. Ystyriwch eich diwedd, a chofiwch nad yw chwedlau eich bugeiliaid yn erbyn y Saint yn esgus ddigonol i beri i chwi ei gwrthod heb ei phrofi, canys felly y gwnaeth, ac felly y gwna, marsiandwyr crefyddol yn erbyn y gwirionedd yn mhob oes. Er yr ymddengys hyn yn ddywediad caled ar y cyntaf, etto mae yn eithaf gwir, a chewch chwithau brofion dwyfol o hyny os ufyddhewch.

Nis gallaf yn awr ddweyd y gwahaniaeth ag sydd eisoes yn weledig i mi sydd rhwng eglwys Dduw ac eglwys y Bedyddwyr; ond gwn fod cymmaint o wahaniaeth ag sydd rhwng swm a sylwedd, neu rhwng son am wledd a chyfranogi o honi.

Mae fy anwyl wraig hefyd, yr hon oedd gynt yn aelod selog gyda Mr. Davies, Dowlais, wedi ei adael ef, ac ufyddhau i drefn Duw; ac y mae hithau hefyd yn mawr lawenhau yn mreintiau eglwys Dduw. Yr ydym yn ddedwyddach yn ein teulu, ac yn mhob ystyriaeth, nag erioed, er ein bod yn nod i fysedd a chwerrthiniad gwawdwyr ar hyd yr heolydd, a bod ein hen frodyr a'n hen fugail yn ein dirmygu ac yn ein llysnafeddio a'n camgyhuddo yn gyhoeddus. Druain o honyt, boed rhyngddynt a'r Duw da y gwingant i'w erbyn.

Dymunaf ar i Saint y Llwyni ddangos ein tystiolaeth hon i'n perthynasau ag sydd yno yn selog gyda thraddodiadau dynion, ac yn profïus rhith o grefydd, gan wadu ei grym hi. Anwyl berthynasau, credwch fy nhystiolaeth. ac ufyddhewch i orchymynion Iesu Crist, megys ag y gwnaethom niunau, a sicrhaf i chwi, os gonest eich calonau, y derbyniwch ddawn yr Ysbryd Glân eich hunain, yr hyn ni ddichon y goreu o bregethwyr y Bedyddwyr ei haddaw i chwi, yr hyn a ddengys i chwi pwy yw gweision anfonedig Duw, a phwy nid ynt ond gweision o anfoniad dynol. Mae eich dedwyddwch tragwyddol yn dibynu ar ddeall y gwahaniaeth hwn, ac ymddwyn yn gyferbyniol. O na hae fy hen frodyr a'm chwiorydd anwyl yn ddoeth, na ddeallent hyn, nad ystyrient eu diwedd! Hyn yw dymuniad eich ewyllysiwr da,

REES PRICE.

[Dyma y dyn hwnw ag y dirmyga Mr. Davies gymmaint arno â'i lysnafedd drwy y cyhoeddiadau yn ddiweddar, yr hwn y gwada na fu yn dal un swydd yn ei eglwys ef, oherwydd nad allai ysgrifenu, &c., na bod yn addus i hyny! Ie, dyma y dyn ag y dywedai ac y cyhoeddai Mr. Davies "ei fod wedi derbyn yr Ysbryd Glân yn ngwaelod ei fola, ac iddo symud o dan ei gesail," &c., yr oll o'r hyn sydd gyffelyb i'w holl gahledd, ei gamgyhuddiadau gwybyddus, a'i lysnafedd, ar ddynion llawer duwioluch a doethach nag ef ei hun, a'u barnu ef a hwythau wrth eu gweithredoedd. Tystiolaeth pa un o'r ddau sydd fwyaf rheymol, mewn gwirionedd? Y naill wedi profi y ddwy eglwys, a'r llall heb feddu hyny o onestrydd erioed!

PAHAM YR WYF YN ANGHREDADYN?

At Olygydd y "Prophwyd."

SYR,—Mae gwahanol enwadau crefyddol yn y gymmydogaeth ag yr wyf fi yn byw ynddi, ac wrth eu cyfwynebu â'r Beibl, maen prawf crefyddau'r byd, nid wyf etto wedi cael fy moddioni yn un o honynt. Wrth i mi ddweyd fod chwech o wahanol sectau, sef Calfniaid, Annibynwyr, Bedyddwyr, Wesleyaid, Eglwys Loegr, a Saint y Dyddiau Diweddaf, yn yr ardal yr wyf yn byw ynddi, ac oll yn pregethu Crist yn Geidwad i bechaduriaid, a minnau yn eu gwrthod oll, y mae yn naturiol i ddywedyd am danaf mai creadur pengam ac hunanol ydwyf. Syr, pe dywedid felly, diau fod gormod o wir yn y dywediad. Ond os ydwyf yn bengam yn y pwynt uchod, yr ydwyf yn dywedyd mai y Beibl a'm gwnaeth felly. Yr wyf yn bengam, nid am na fynaf wybod, ond am na ddysgwyd fi yn well. Bellach, y mae yn naturiol i mi ddangos yr anghyssonderau, o leiaf fel y maent yn ymddangos i mi felly. Nodwn:—

"Os bu un farw dros bawb, yna meirw oedd pawb; ac efe a fu farw dros bawb,"—"Fel trwy ras Duw y profai efe farwolaeth dros bob dyn," medd y Beibl

"Fe fu farw dros rai,—yr etholedigion," medd y Calfniaid, y Bedyddwyr Calfniaidd, yr Annibynwyr, a rhai o offeiriaid Eglwys Loegr.

"Y cyflawn a fydd byw trwy ffydd; eithr o thyn neb yn ol, nid yw fy enaid yn ymfoddloui ynddo,"—"Os y cyflawn a ddychwel oddiwrth

ei gyfiawnder, a gwneuthur anwiredd, a marw ynddo,"—"Chwi a syrthiasoch ymaith oddiwrth ras," medd y Beibl.

"Os cyfiawn unwaith, cyfiawn am byth: 'does dim modd syrthio oddiwrth ras," medd y Caliniaid, Bedyddwyr, Annibynwyr, ac Eglwys Loegr mewn rhan; ac felly yn anghysson; felly hefyd y ddau enwad ereill.

"Ewch a dysgwch yr holl genedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân,"—"Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur; y neb a gredo ac a fedyddier a fydd cadwedig," medd y Beibl.

"Awn a bedyddiwn yr holl genedloedd, ac yna dysgw'n hwynt" medd y Wesleyaid, Caliniaid, Annibynwyr, Eglwys Loegr.

"A'r arwyddion hyn a ganlynant y rhai a gredant; yn fy enw i y bwrtaent allan gythreuliaid; ac â thafodau newyddion y llefarant," &c., &c., medd y Beibl.

"Nid ydynt i'w cael yn awr; ac nid oes mo'u heisieu yn yr oes hon," medd Wesleyaid, Caliniaid, Bedyddwyr, Annibynwyr, Eglwys Loegr.

"Ydynt; y maent i'w cael yn yr oes hon; ac y maent i'w cael yn awr gyda ni; ac yr ydym ni yn ateb yn gymhwys i'r saint cyntefig, ac yn sicrhau i bawb a'n clywant, fod y doniau gwyrthiol yn awr gyda ni, fel yr oeddynt gynt gyda'r apostolion; a phwy bynag a dry atom ni, ac a gymmer ei fedyddio er maddeuant pechodau, ynghyd ag arddodiad dwylaw yr henuriaid, yna caiff fod yn llygad-dyst ei hun o'r gwyrthiau, fel y mae y Beibl yn eu dal allan," medd Saint y Dyddiau Diweddaf.

Ie, ie, dyna yw yr achos fy mod i yn cael fy ystyried mor ffol, sef am fy mod yn gorfod gwahaniaethu oddiwrthy chwi yn y peth yna, fel ag y gorfus wahaniaethu oddiwrth y lleill mewn pethau ereill. Felly nid wyf yn cael neb i ateb i'r seintiau cyntefig. Pan y byddaf yn ymddyddan â phob un o'r enwadau uchod yn nghylch crefydd, ac yn gofyn paham y maent hwy yn gwahaniaethu oddiwrth y Beibl, rhai yn y peth hyn, ac ereill yn y peth arall; a chan na fydd ateb digonol wrth law, yna digiant yn gyffredin wrthyf, gan fy ngalw yn ffwl dwl, neu rywbeth cyffelyb. Ac yna yr ydwyf yn awr heb grefydd, am na eglurheir y rhanau hyn sydd yn dywyll. †

Yn awr, Syr, yr ydwyf yn cymmeryd fy nghanad am y tro cyntaf i ofyn a wnewch chwi, neu rai o'ch gohebwy'r caredig, ddywedyd wrthyf fi, ac ereill a allant fod yn dysgwyl yr un pethau, sef, Paham na byddai gwyrthiau cyhoeddus yn cael eu cyflawni gan eich gwahanol bregethwyr yn y Deau a'r Gogledd, lle y tramwyant, fel ag yr oeddynt gynt gan yr apostolion? Byddaf yn darllen yn awr ac eilwaith yn y *Prophwyd* am wyrthiau yn cael eu cyflawni, ond y mae y tystion yn brin iawn, a'r weithred, ond odid, wedi cael ei chyflawni mewn rhyw gornel tywyll. Nid felly yr oedd y saint gynt, Syr. Yr ydwyf fi yn wrandawwr ar y "Saint" ar droion, er's blynyddau bellach, ac wedi dysgwyl llawer am y peth yr ydwyf yn awr yn gofyn am dano. A go-beithio, Syr, na fydd fy ngofyniad ddim yn ddirmygus yn eich golwg, ac hefyd nad oes ynddo ddim a friwa deimladau neb o'r Saint, os caiff ymddangos yn y *Prophwyd*, canys sicrhaf chwi na fwriadwyd ef i friwo

teimlactau neb, ond yn hytrach i'm goleuo i, ac efallai ereill ag a allant fod yn dysgwyl yr un pethau.

CYFAILL Y BEIBL.

[Er mai gofyniad hen iawn, i.e. braidd mor hened â Iesu Grist, yw gofyniad ein cyfaill, ac er ein bod wedi ei ateb mewn llawer dull, a llawer gwaith, etto da genym weled dyn yn gollwng ei feddwl allan yn onest, ac mewn addfwynder, ac atebwn ef unwaith etto yn fyr fell y canlyn:—Y "Cyfaill" hawddgar, nid ffordd Duw yw argyhoeddi dynion drwy eu llygaid; ond y mae ffydd yn dyfod trwy glywed, a chlywed trwy *air* Duw. ac nid trwy *wyrthiau* Duw. Nid taflu y pwnc heibio yw hyn, ond treiddio i w'r raidd, yr hyn sydd amlwg pan ystyrion mai Duw yw awdwr gwyrthiau; ac yna, mor afresymol yw ceisio gwyrthiau gan ddynion ag na phroffesasant allu i wneyd y wyrth leiaf! Mae tystiolaeth y Saint yn ddigon o sail i ffydd pob carwr y gwir, i'w ddwyn i ufyddhau, canys addawa iddo wed'yn, ac nid cynt, fwynhau yr hyn a ofyna; ac onid oes i bob addewid ei hammodau? Onid rhesymol i bob deddfroddwr gael dewis ei ammodau ei hun? Nid yw yr eithriadau trwy ba rai y gwnaed gwyrthiau cyhoeddus gynt, yn cyfnewid yr egwyddor, sef mai *yn yr eglwys* y mae eu lle addawedig (1 Cor. xii, 30, 31). Oes, Syr, y mae cannoedd o fendithion yn cael eu mwynhau gan y Saint yn Nghymru, y rhai a alwch chwi ac ereill yn wyrthiol; eithr pwy heblaw y Saint a'u creda? Am ychwaneg ar hyn, darllenwch yr *Eurgrawn Ysgrythyrol*, dan y pen "*Arwyddgeinyr*."—GOL.]

Y RHYDDID MWYAF.

Ni all dyn fwynhau rhyddid perffaith hyd oni sicrheir iddo fwyniant cyflawn a rhad o'r holl elfenau ag y dibyna arnynt am gynnalïaeth. Oddieithr i ddyd gael digonedd i ddiwallu ei eisieu o awyr, daear, dwf, a thân, mae yn gaethwas i'r ofnau o newyn a thylodi, yr hon iau annyoddefol a dorir rywbyrd.

TRANCEDIGAETH CYBYDD-DOD.

SYMUDER ymaith bob ofn tylodi ac anghen, a derfydd dynion guddio eu haur yn y ddaear, a'u chwalu hyd wyneb y dyfroedd, er eu cael yn ol ar eu canfed, ac ni roddant hwy ychwaith ar usuriaeth. Dyry hyn fywyd ac ysgogiad yn mhob masnach, ac addurna yr aur a'r arian wyneb y ddaear, yn lle bod yn gladdedig yn ei pherfedd. Dystrywir yr ofnau y foment ag y rhoddir yr elfenau yn rhydd i'r dyn, ac y bo rhwymau cyndeithas yn unol â chyfraith Duw. "Gwreiddyn pob drwg yw ariangarwch." Pan y darfydda gormes, cyd-ddarfydda ariangarwch. Arian sydd yn agor ac yn cau drysau rhydlyd carcharau, a phob drysau oddiyno hvd ddrysau y synagogau, a drysau y *sanctum sanctorum* (pwlpuadau), i.e. arian sydd yn cau ac yn agor braidd bob ystafell a fedd y galon ddynol. Arian yw Duw y hyd hwn, yn lle Jehofa a'i gyfreithiau. Arian sydd yn gwneyd cyfreithwyr, offeiriad, a phregethwyr, yn gystal a lladron, llofruddion, a phutteinwyr, a phob peth ag sydd yn caru ac yn gwneuthur celwydd a thwyll.

IACHAD RHYFEDDOL O LOSGIAD TAN!

At Olygydd y Prophwyd.

ANWYL FRAWB,—Oherwydd bod cynnifer o groeshaeriadau ar led y wlad hon o barthed i'r anffawd a ddygwyddodd i mi yn y gwaith, dymuna amryw glywed yr hanes genyf fi fy hunan. Wel, yr hyn a ganlyn yw; gwnewch chiwi y defnydd a fynoch o hono, ac mi safaf finnau at ei eirwiredd:—

Tair wythnos yn ol, taniodd y *damp* yn y gwaith glo, a llosgodd fy nillad oddiamdanaf, a'm gwyneb a'm breichiau yn arw iawn. Yr oedd pedair llath ar ddeg o dân yno. Mid oedd neb gyda mi ar y pryd. Gyrodd y tân fi o'i flaen o chwech i saith llath, gan fy nghuro yn erbyn y glo a'r ceryg. Medrais wneyd fy ffordd yn mhen enyd i'r rhan o'r gwaith lle yr oedd pobl ereill yn gweithio, pa rai yn dirion iawn a roisant ddillad ereill am danaf, a orchuddiasant fy wyneb rhag yr awel, ac fe'm harweiniwyd i'r dref. Cwynai pawb a'm gwelsant yn y gwaith fy mod wedi llosgi yn ddrwg iawn, a'r un peth a ddywedai pawb yn y ty. Clwewn ambell un ar hyd yr heol yn dywedvd yn wawdus, "Dyna le i wneyd gwrth ar Dafydd," &c. Dodasant fi i orwedd ar wellt yn y gongl, a dwbiasant olew llosg tân arnaf, yr hwn a achosodd arteithiau aunyoddefol. Yr oeddwn i o hyd am gael rhai o henuriaid yr eglwys ataf, ond gwrthwynebai fy mberthynasau a'r gwyddfodolion oll yn greluon, gan fygwth na arhosent hwy gyda fi os deuai y Saint â'u holew yn agos ataf. Dywedais innau bod yn rhaid i mi eu cael, a fy mod yn credu y gwellwn yn y fan, yn ol addewidion Iesu Grist. Yn mhen oddeutu awr a hanner daeth rhai o'r Saint yno, ac er gwaethaf pawb o'r lleill, sychasant yr olew yn lân oddiarnaf, ac a'm beniciasant ag olew cyssegredig. Gorfuwyd troi y lleill o'r ty, er cael llonydd i weinyddu, a chloi y drws; a thra yr oedd y brodyr yn gweddio yn y ty, yr oedd y lleill o'r tu allan yn curo y drws nes bron ei dori, yn wban, ac yn gwneyd pob math o wawd a dirmyg. Yn y fan pan orphenodd y brodyr â gweddio, diffoddodd angerdd y tân, ac ni llosgodd ddim wed'yn; a chyfodais, ymolchais, a gwisgais fy nillad, gan ddiolch i Dduw am y fendith fawr bon. Yna agorwyd y drws, a daeth y cymmydogion i'r ty, ac a haerasant yn fy ngwyneb yn haerllug nad oedd y tân wedi dyfod allan o' fy nghnawd, ac mai fy nghelwydd a'm twyll oedd y cyfan; ac un o aelodau selog y Bedyddwyr a lefai yn fy ngwyneb, gan waeddi, twyll, twyll! Eithr myfi a dystiwn wrthynt, fel y dall hwnw gynt.—lle yr oeddwn i gynt mewn poen dirfawr, megys yn nghanol fflam dân, yr wyf fi yn awr yn iach a chysurus; a meddyliwn mai myfi oedd y galluocaf i farnu yn iawn pa fodd yr oedd pethau yn bod.

Yn fuan wedi hyn anfonodd thywun y meddyg i mewn ataf, yr hwn wedi gweled y llosgiadau a fu, a deall na wnawn i arferyd ei gyffyrtau, a aeth ymaith, ac a ddywedodd wrth rai y byddai yn dda genyf gael help ganddo ef cyn pen yr wythnos, yr hyn a'i profodd yntau besyf yn au-brophwyd, yr hwn ni choeliai ei lygaid ei hun! Ond wele *deir* wythnos er hyny, a dim o'i eisieu ef etto, na thebyg y bydd yn fuan. Gorchymynais i'm gwrnig fyned a'r gwellt a'r hen garpiâu oedd ag olew llosg tân arnynt, allan o'm golwg, yr hyn pan welodd y cymmyd-

ogion hi yn wneyd, rhuthrasant allan o'u tai i'r heol, gan wban ac ysgrechain fel gwallgofiaid. Gwaeddai rhai, "O, y mae'r Seintiau wedi gwella Dafydd!" a'r lleill yn uwch fyth a ysgrechent, "Nac ydynt,—twyll i gyd," &c. Fel hyn cynhyrfwyd y gymmydogaeth, nes y gorfuwyd ni i gloi y drws er cael heddwch, er na ddywedaawn air wrth neb i achosi hyny. Mor gvnted ag y chwalasant oddiwrth y drws, aethum i, ynghyd â brawd crefyddol oedd yn y ty, i weled rhai o'r Saint, a byth er hyny yr wyf wedi parhau yn ddiboen. Bo eu dranoeth, aethum i'r gwaith fel arferol. Crynhöodd y gweithwyr a af, fel na allwn gael llonydd i weithio. Yr oeddynt mor bell o weled na chydabod gallu Duw yn y peth, fel yr ysgyrygent ddanedd arnaf gan gynddeiriogrwydd, a rhai o honynt a'm galwent yn dwyllwr, ac ereill a ddywedent nad oeddwn wedi llosgi nemawr, tra yr haerai y trydydd dosparth nad oeddwn wedi gwella. Ond rhy faith fyddai i mi olrhain yn o gant o'r chwedlau disail a draethir am y peth hwn; ond hyn a wn, a hyn a dystiaf fi yn ddiolchgar i Dduw, sef fy mod i yn ddyn iach, ac mai gan Dduw y derbyniais y fendith. Traethwyd cynnifer o gamgyhuddiadan arnaf wrth y Steward o genfigen am hyn, nes y daeth hwnw ataf i'r gwaith, ac wedi fy holi pa fodd y bu y peth, cynddeiriogodd gymmaint nes dweyd wrthyf na chawn weithio yno ddim yn hwy! er mai yno y bum yn gweithio o'm hieuenctyd; a thra y dilynwn oferedd, a cholli'm gwaith, cyn dyfod at y Saint, cawn air da ganddo ef, a phob caredigrwydd gan ereill; ond oherwydd ddarod i mi gredu geiriau Iesu Grist, y rhai a ddywed—"Ar y cleifion y rhoddant ddwyllaw, a hwy a fyddant iach," wele fi heb na chyfaill, na pharch, na gwaith; ond ymgysuraf er hyn oll, canys dyma gynnysgaeth plant Duw yn mhob oes yn mhlith gau-grefyddwyr, a'm penderfyniad i yw ymlynu wrth y grefydd a ddwg i mi y fath fendithion dwyfol, er gwaethaf holl lid a chas y gelyn.

Abercanaid, ger Merthyr, Gorph. 20, 1848. DAFYDD RICHARDS.

[At y lluaws a gafwyd eisoes. dyma un dystiolaeth eglur etto o ddaioni Duw i'w blant—o atebiad gweddi y ffydd—o eirwiredd Iesu Grist, a dwyfol anfoniad Saint y Dyddiau Diweddaf i weinyddu ei ordinhadau; ac nid yw ddim amlycach tystiolaeth o hyny, nag ydyw o wrthwynebiad ysbryd y byd, a'i holl gau-grefyddwyr, i bob amlygrwydd o allu Duw, megys ag y gwrthwynebai y cyffelyb ysbrydion rhith-grefyddol y cyffelyb ffeithian yn nyddiau Crist a'i apostolion. Tra y dioloha y Saint i Dduw am y fath fendithion, cynddeirioga ereill fwy o'u herwydd; ac yn lle credu a rhoddi y clod i'r Duw a'i teil-ynga, os nad allant wadu y ffaith, gwell ganddynt fel y rhai hyny gynt roddi y clod i'r diafol, drwy haeru mai trwy ei allu ef y gwneir hyny, yr hyn a brofa eu hanonestrwydd, ac nad argyhoeddi y byd, ond beudithio y Saint, yw dyben gwrthiau, a phrofa hefyd plant i bwy yw y naill a'r llall, drwy fod y naill a'r llall am gael y clod i'w eu tad eu hunain.

Aneirif yw y tystiolaethau ysgrythyrol ac amgen, ynghyd â'r ffeithiau a geir i brofi mai ffordd y diafol yw ceisio argyhoeddi anghredinwyr, fel rheol gyffredin, trwy weled gwrthiau; tra yn hollol groes y gwelir fod trefn Duw, sef drwy bregethu Crist croeshoeliedig, a chy-

nhyrfu fydd y gwrandawwyr i weithrediaid ufydd-dod trwy glywed, ac nid trwy weled.—GOL.]

LLYTHYR THOMAS RICHARDS, O'R AMERICA.

Minersville, Gorphenhaf 15, 1847.

Anwyl Frawd yn yr Arglwydd, ymghyd â'r holl Saint.—Wele fi yn hala hyn o linellau atoch, gan obeithio y bydd iddynt eich cael, pan gyrhaeddont, mewn cyflawn iechyd, corfforol ac ysbrydol, fel ag y maent yn ein gadael ninnau yma. Yr ydym ni yn wresog yn yr yshryd, ac wedi dechreu ar y gwaith da o gyhoeddi yr efengyl yn Sabbothol er's pump wythnos, ac yr ydym yn pregethu unwaith heblaw hwy hefyd yn yr wythnos yn awr. Mae tri wedi ufyddhau yma i'r efengyl. Mynegwch i Hugh Jones fod Dafydd Davies y gwëydd wedi creda, ond ei fod heb ufyddhau. Mae yma ddigon o le i bregethu, ond bod y bobl yn arafaidd iawn yn dyfod i wrando. Mae yr hen fwbach yn eu perswadio hwynt mai dyn drwg oedd Joseph Smith. Hefyd, y mae y brawd Thomas Davies wedi bod yn Postville yn ddiweddar ddaw Sabboth yn olynol, a thorf fawr yn dyfod i wrando, yn lanw yr anedd, ac yn gwrando yn astud. Mae yma ddigon o le i hau yr "had da" yn y cylchoedd hyn, a mwy nag a allwn ni ei gyflenwi; ac y mae yma ddigou o le i lawer o weithwyr yn ychwaneg, heb iddynt fod ar ffordd eu gilydd. Credwyf fod llawer i ddryfod i maes o'r lle hwn, er bod yma lawer o rwystrau iddynt ddod drwyddynt, rhwng fod y pregethwyr Sectaraidd a'u deiliaid yn dywedyd wrth y bobl am beidio a'n gwrando, rhag ofn iddynt gael eu twyllo; ac y maent wedi treio cael ein penau ni i lawr mewn llawer dull a modd, ond trwy nerth Duw yr ydym yn cael nerth i sefyll yn ngwyneb pob ymosodiad yn gadarn, gan dystiolaethu iddynt yn ddibetrus mai hon yw teyrnas Dduw.

Mae y brawd Daniel Edwards, a'i wraig, wedi dyfod yma er's wythnos yn ol, ac yn hala eu cofio at yr holl Saint.

Mae dau frawd i Mary Evans, Cwmglo, yn y fan hyn, y rhai sydd yn tafu i'n gwynebau yn barhaus, mai rhyfys o'r mwyaf oedd son fod William Hughes wedi derbyn yr iachâd hwnw, a'u bod hwy wedi cael clywed mai anwiredd oedd y cyfan; ac y maent wedi danfon llythyr at eu tylwyth yna i gael clywed y gwir. Yr wyf yn deisyf arnoch am hysbysu i Mary Evans, a William Davies, ei brawd, a pheri iddynt hala y gwir yn ol yma i'w tylwyth.

Y mae ein brawd a'r chwaer yn yr Arglwydd, John a Margaret Edwards, yn hala eu cofio at Dafydd a John Roberts, a'u teuluoedd, ac at yr holl Saint. Dywedant eu bod yn llawen yn eich hysbysu chwi eu bod wedi cael y fraint o ufyddhau i'r efengyl dragwyddol yma, er eu bod wedi ei gwrthod yna gyda cnwi. Ond fe welodd yr Arglwydd yn dda rhoi ail gynnyg iddynt, trwy ddanfôn ei weision ar eu hol i'r parth hwn o'r byd, fel ag yr oeddynt hwy wedi bod yn hir ddysgwyl, a hwy a dderbyniasant y cynnyg yn llawen, ac y mae ganddynt dystiolaethau cedyrn eu bod yn nheyrnas Dduw. Y maent yn dymuno am gael llythyr oddiwrthyech, gan na dderbyniasant un atebiad i'r llythyr

a ddanfonasant oddiyma; ac y maent yn gobeithro cael cwrdd â chwi oll ar ol hyn ar fynydd Seion.

Rhif yr aelodau yn y ganghen fechan hon yw wyth, ac yr ydym yn llawen yn yr Ysbryd, ac yn dymuno am gael rhan yn eich gweddiau chwi, y Saint. Hyn yw ein cais a'n dymuniad, er mwyn ein Har-glwydd Iesu Grist. Amen. Ydwyf, eich brawd yn y cyfammod newydd,

THOMAS RICHARDS.

[Syndod mor hell a chyflym y teithia celwyddau fel yr eiddo "*Quick yn Dwr*" hwnw a gyhoeddwyd yn y *Bedyddiwr* am William Hughes. Dyry celwydd y byd ar dan tra bo y gwir yn goleu ei fatchen, yn enwedig pan y delo yn esbyn crefydd wirioneddol. Gwelwn yr anghenrheidrwydd am ddweyd y gwir, a chyfrifoldeb mawr y celwyddwyr crefyddol.]

CYSUR Y SAINT DAN ERLIDIGAETH.

Er cymmaint yw'r euro sydd gyda phob enwad,
Ni raid i ni fflao,—fel hyu gwnaed a'n Ceidwad;
Goddefodd bob'dirmyg, ac felly gwnawn ninnau,
A goddef yn ddiiddig, fel darfu 'ddo yntau.

Dywedodd y byddai i nisnau gael felly,
Am hyny ymdrechwn, na roddwn i fyny,
Nes cyrhaedd i Seion, lle ca'r Saint yniwared,
Pryd ni ddol gelynyon byth mwy i wneyd niwed.

CAN NEWYDD. GAN J. P.

HENFFYCH i'r dydd, y dydd y daeth
Yr angel â'r efengyl,
Yr angel ag a welodd Ioan,
Yn 'hedeg fry trwy ganol nef,
I draethu'r newydd anwyl.

I efengylu i'r holl fyd
Y newydd gwerthfawr hyfryd;
Cenedloedd pell, caiff rhai'n i gyd
Y newydd am Iachawdwr byd,
Yn dyfod i deyrnasu.

Caiff India, Affric, Asia fawr,—
Pob talaeth dan y nefoedd;
Cânt glywed son am Galfari,
A'r aberth dalwyd arni hi,
I'n hachub ni, y bobloedd.

Clodforwn am yr hyfryd sain,
Sef sain efengyl Iesu;

PROPHWYD Y JUBILI.

Banerau hon yn chwifio bo,
A'i hadsain hefyd dros y fro,
Nes cael o'r Saint deyrnasu.

Can's daeth yr oes, yr oes y bydd
I'r Seintiau gael teyrnasu ;
Ac hefyd, aiff teyrnasoedd byd
Yn eiddo'n Harglwydd ni i gyd,—
Cawn gydag ef deyrnasu.

Ar fyr cawn weled Mab y dyn,
Ar gwmwl gwyn yn dyfod,
Mewn rhwysg a mawredd nefol, gwiw,
A chydag ef holl feibion Duw,—
A'r byw ânt i'w gyfarfod.

Ac yna'r llo, a chenaw'r llew.
Mewn porfa tew gorweddant ;
Ni ddrygant ac ni ddfiant mwy,
Can's Ysbryd Duw fydd arnynt hwy,
A phoen na chlwy' ni phrofaunt.

Gwyn fyd y Saint, bydd mawr eu braint,
Pan fydd yr haint yn dyfod ;
Teyrnasant hwy ar ddaear lawr,
Ac arnynt hwy bydd nefol wawr,—
Cânt wel'd yn awr eu priod.

Pwy, pwy yn awr na fo yn Saint ?
Mor fawr fydd braint y teulu,
Yn gwledda ar fryn Seion draw.
Lle na ddaw'r gelyn byth gerllaw,
' Roi briw na braw ond hyay.

Yn awr adferir yr holl fyd
I'r cyflwr pryd y crewyd ;
Yr oen a'r blaidd a drig ynghyd,
Bydd melys ganu drwy'r holl fyd,
A phawb yn byw mewn gwynfyd.

O brysiwn, awn i Seion fryn,
Lle cawn yn wyn ein gwisgo,
Ac hefyd gadw deddfau'r Ior,
A'n dysgu gan y nefol gôr,—
Awn dros y môr, ac yno.

I California wlad yr awn,
Lle cawn ni fod yn rhuddion,
Ac yno mewn palasau gwych,
Cawn foli'r Oen heb unrhyw nych,—
A themalau gwych i'r cyfion.

ANNERCHIAD AT Y SAINT.

Anwyl Frodyr a Chwiorydd.—Y mae eich gostyngedig was yn awr yn nhy ein hanwyl a charedig lywydd, O. Pratt, yn Llynlleifiad, o dan gryn nychdod, oherwydd anmharu ei ysgyfaint drwy bregethu gormod dan anfanteision; ac y mae y llywydd uchod, ynghyd ag ereill, wedi cynghori na bydd i ni siarad dim yn gyhoeddus am beth amser, yr hyn a ystyrir yn anhegorol cyn y dichon i'r ysgyfaint gryfhau. Gwir fod i natur ei deddfau sefydlog, a bod ei chosp yn gyssylltiedig a'r troseddiadau o'i deddfau; ac felly, yr ydym ni yma etto yn ffyddiog yn yr ymarferiad a'r ordinhad ddwyfol a osododd Duw yn ei eglwys, er derbyn iechyd, ac yn benderfynuol i ymlyu wrthi, trwy nerth Duw, hyd farw. Taer erfyniwn ran yn ngweddiau y Saint, canys gwyddom yn ddios cyn hyn mai "lawer a ddichon taer weddi y cyfiawn;" a gwyddom mor sicr â hyny fod Duw yn bendithio ei blant ffyddiog a'r bendithion anghenrheidiol, yu ol y dydd. Nid ydym yn ofni ewyllys yr Arglwydd, boed a fyddo, ar ein rhan; etto, er mwyn y Saint anwyl, ein dymuniad yw cael hir einioes i'w gwasanaethu, eu dysgu, a'u cadw rhag bleiddiaid, ac i'w tywys oll i Seion allan o'r caethiwed blin. I hyn y dymunem fyw; wrth wneŷd hyn y nychasom ein cyfansoddiaid; ac i'r dyben hyn y gofynwn, a gobeithiwn y gofyna yr holl Saint, i'n Tad nefol ein hadferyd.

Ein briad yw ymfudo tua California yn mis Ionawr neu Chwefror nesaf (hysbyswn yn fanwl etto), a dymuwn i bawb wybod hyny, fel os oes gan rywrai ryw drosedd neu ryw ddyled yn ein herbyn, y byddo iddynt ddod yn mlaen tra y b'om yma. Digon teg yw y cynnyg hwn, onide? Cyhoeddwn yr her hon, nid am ein bod yn meddwl y meiddia neb ddwyn y cyhuddiad i'n wyneb, ond fel y gallo y Saint gau safnau yr enllibwyr a geisiant dduo ein cymmeriad, a niweidio teimladau ein brodyr anwyl, ar ol ein hymadawyer.

Coffawm y Saint am yr hyn a gyhoeddwyd yn y *Prophwyd* blaenorol o barthed i drwsorfa y llyfrau; a dysgwylir i lywyddion yr holl ganghenau edrych fod hyny yn cael ei roddi mewn gweithrediad. Er ein bod ni wedi dod o chwech i saith mil o filldiroedd, a'n teulu, a hyny ar ein cost ein hunain, heb ofyn un geiniog gan neb, da chodi treth na chasgliad unwaith yn Nghymru ar y Saint, ond gadael pob un yn ewyllysiwr rhydd i gyfranu neu beidio; ac er ein bod ni hefyd am ymfrostio o gael dychwelyd yn ol heb ofyn casgliad, na phlyso ar neb: etto, meddaf, er hyny oll, gobeithiwn yr ystyria ein dyledwyr mai cyfiawn a theilwng i ni fydd cael yr eiddom ein hunain, ac y cawn hyny erbyn y Gymmanfa nesaf drwy y cynllun uchod.

Mae genyf lawer o newyddion daionus i'w hysbysu i'r Saint drwy y *Prophwyd*, o'r ochr draw i'r môr, y rhai ni allwn yn awr eu cyhoeddi. Yn unig dywedwn, fod yr Arglwydd yn llwyddo ymdrechadau y Saint yn California yn rhyfeddol iawn, yn dymhorol ac yn ysbrydol. Mae cariad a heddwch diderfyn drwyddynt oll. Camgyhuddiad hollol oedd y stori gynffonog a ehedai drwy gyhoeddiadau ein gelynyon drwy Gymru yn ddiweddar, yr hon a ddywedai fod yr Indiaid wedi lladd rhai o'r Saint, &c. Nid oes dim gair o wir ynnddi mewn perthynas i'r Saint; ond dywedir ddarfod i'r Indiaid ladd amryw Sectariaid, yn

eu sefydliadau newyddion yn Oregon, a dyna'r cwbl. Caiff y Saint glywed mil o chwedlau cyffelyb ond odid, ac mor hollol ddisail. Na choeliwch eu chwedlau, canys y mae Duw yn gofi lu dros ei Saint.

Hefyd, da genym hysbysu fod llwyddiant cyffredinol ar bregethiad yr efengyl drwy Gymru, a thua 150 yn cael eu bedyddio yn y mis, ac weithiau ychwaneg, hyd nes y mae yr un fechan hon, ferch Mormon, wedi lluosogi yn dair mil mewn ychydig amser, ac er gwaethaf ei holl wrthwynebwyr. Ac nid yn unig y mae yn lluosogi, ond pwyl all byth draethu y llawenydd, y gobaith, y dauwldeb, a'r daioni, ynghyd â'r cariad brawdol ag sydd yn cynnyddu y Saint ar ddelw eu Duw? Mwynheir y doniau ysbrydol i raddau helaethach yn yr eglwysi yn awr nag erioed yma, yr hyn sydd yn ffaith i brofi fod y Saint yn ymdrechgu i ryngu bodd Duw. Po fwyaf yr amcanant at hys, mwyaf oll fydd eu bendithion.

Nid oes cyfle i gyhoeddi yma hanes Cymmanfa Manchester, ond yn unig fod yno dorf luosocach nag a welson erioed o'r blaen yno, areithiau a chynghorion rhagorol, ac Ysbryd Duw yn siriol pob calon drwy'r miloedd oedd yno. Parhaodd am ddau ddiwrnod. Y Llywydd O. Pratt, ua o'r deuddeg apostol, yr hwn a ddaeth drosodd yn ddiweddar o'r America, oedd y prif-lywydd yno. Cafwyd fod y cynnydd cyffredinol yn Mhrydain, er y Gymmanfa ddiweddar, yn mhell dros saith mil. Ond ychwaneg yn y rhifyn nesaf.

Weithian, anwyl Saint, byddwch ufydd i'r ddysgeidiaeth ddwyfol a gewch gan eich bugeiliaid; byddwch daer mewn gweddi, ac ymrous mewn pob gweithredoedd da; a Duw y tangnefedd a'eh cadwo yn ddiogel hyd ddydd ein Harglwydd Iesu Grist, yw gweddi eich ufydd wasanaethwr,
Y GOLYGYDD.

EDWICAETH.

HYN yw yr achos o bob gormes drwy'r byd braidd ar ddynolryw. Pan y rheoleiddiodd Duw yr elfenau, rhoddodd hwynt i'n tad Adda, neu yr "hen ddihenydd," i'w mwynhau yn gystadle ganddo ef a'i holl blant, hyd ddiwedd eu cenedlaethau. Ei gwyrup ef a ddygodd y dirwyriad yn yr elfenau, ynghyd â'r edwica ag sydd o barthedd iddynt; a phan ddelo eu perchenog yn ol, symuda ymaith y felldith edwicaidd, ac adfero gyfreithiau Duw, pa rai a sicrhant i bob un o'r preswylwyr ddigon o ddaear, ac elfenau ereill, er iddo fwynhau, o leiaf, ei "winwydden a'i ffygysbren ei hun." Ni bydd yno eisieu cyfreithwyr cyfrwys i wneyd gweirhedoedd, ewyllisiau, &c.

PA FODD I GYFARTALU CYNNYRCH YR ELFENAU DAEAROL.

GALWER Jubili bob seithfed flwyddyn, yn yr hon y settler pob cyfrifon a ellir yn gyfiawn, ac y maddeuir y lleill, ac y darfyddo pob cyfreithiau o genfigen at eu gilydd, ac y dyger pawb, yn frodyr a chwiorydd, yn awyddus i wneyd i ereill fel ag y dymunent i ereill wneyd iddynt hwy. Y pryd hyny y gallwn ddweyd mewn gwirionedd fod y "Jubili

wedi dyfod." Ni fydd dim gwaith i gyfreithwyr yno ychwaith. Y neb a ewyllysio gyrhaedd y sefyllfa hon, usyddhaed i'r efengyl, ac ymgasgled g. da'r Saintâ Seion, ac efe a'i mwynha, a'i blant ar ei ol.

I RWYSTRO LLADRADAU.

Er rhwystro y gonest a'r dŵair i gael eu tentio i hyny, symuder yr achos o hyny, drwy osod y dyn mewn cyflwr a sefyllfa ag y gall gael digonedd o'r hyn ag a ddarparodd ei Dad ar ei gyfer yn y dechreu, yr hyn ydoedd mwynhad rhyddid o'r pedair elfen. heb arian ac heb werth. A fyni di gynnyg ar hyn etto? Cadw orchymynion dy Dad, a dos i'w Seion; yno efe a'th anhega ag ef, ac yno y dyry y ddaear ei rwyth. Ac ni bydd anghen am gyfreithwyr yno ychwaith.

Y MILFLWYDDIANT.

Cen y dichon y milflwyddiant ddod, rhaid i bob un gael digon o dir i wneyd gwinllan, yn yr hon y gall blaw gwinwydden a ffigysbren, ac eistedd oddidanvnt, heb neb i'w aflonyddu, nac i'w ddychrynu. Dyma y fath *freeholders* a fydd y Saint hyny ag y dywedir eu bod yn myned i gael eu gwerthu yn gaethion. Ni bydd yno eisieu cyfreithwyr na Sectariaid i'w rhyddhau byth.

HYSBYSIADAU.

AT YMFUDWYR.

DYMUENIR ar y cyfryw o'r Saint ag sydd yn bwriadu ymfudo gyda ni dechreu y flwyddyn nesaf, i anfon eu henwau i ni mor fuan ag y gallant, ynghyd ag enwan eu plant, a'u hoedran. Deallwn yn awr fod cyfnewidiad wedi cymmeryd lle yn y gyfraith sydd yn rheoleiddio ymfudaeth, a bod hyny wedi peri peth codiad yn y prisiau blaenorol o gludiad. Y gwelliant amcanol yw, na byddai i'r llong gario cynnifer, ac felly caffai yr ymfudwyr ychwaneg o le, er fod y costau yn ddrutach am dano. O'r blaen, rhifid du blentyn dan 14eg oed, yn un; ond yn awr, cyfrifir pob un a fyldo dros flwydd oed yn *bassenger*, ac ni wneir ond deg swllt o wahaniaeth pris rhwng y rhai a fyddont dan, a'r rhai a fyddont dros, 14eg oed. Bwriadwn i'r *Prophwyd* hyfforddi yr ymfudwyr fwy o hyn allan na chynt. Mae rhai miloedd yn awr yn ymbarotoi

ymfudo o Loegr, a Sootland, tua California, a diau y cychwyna rhai miloedd dechreu y flwyddyn nesaf. "Fel colomenod i'w ffenestri," ebe'r prophwyd.

AT Y DOSBARTHWYR.

ANFONER pob taliadau yn bresennol i "William Morgans, Engineer, Tram Road, to be left at Capt. Jones', Wellington Street, Merthyr Tydvil." Ceir ganddo ef yr holl lyfrau a ddewier—y rhai rhwymedig, neu y lleill. Hefyd, ceir yr *Eurgrawn* wedi ei rwymo fel y dewiser, am o 4s. hyd 5s.

LLYFRAU AR WERTH.

YR ydym newydd dderbyn yn agos i gant o gyfrolau o "Capt. Jones ar Formoniaeth yn 1847," oddiwrth y Rhwymwr, ac wedi eu rhwymo yn rhagorol o dda, gwych, a rhad, am wahanol brisiau megys o'r blaen. Gobeithiwn yr ymdrecha y Saint feddu un gyfrol o leiaf o'r rhai hyn yn mhob teulu cyn y bydd yn rhy ddiweddar. Mae cyfrolau 1846 oll wedi eu gwerthu eisoes, a galwad mawr am ychwaneg, ond nis ceir hwynt.

CYNNWYSIAD.

Desgrifiad o California.....	129	Cân Newydd. Gan J. P.....	139
Tvatiolaeth Rees Price. Dowlais....	131	Anerchiad at y Saint.....	141
Paham yr wyf yn anghredadyn?....	133	Edwicaeth.....	142
Y Rhyddid mwyaf.....	135	Pa fodd i gyfartalu cynnyrch yr elfen- su daearol.....	142
Trancedigaeth Cybydd-dod.....	135	I rwystro lladradau.....	143
Iachâd rhvfeddol o losgiad tân....	136	Y Milfweddiant.....	143
Llythyr T. Richards, o'r America ..	138	Hysbysiadau.....	143
Cysur y Saint dan erlidigaeth.....	139		

MERTHYR-TYDFIL:

CYHOEODWYD AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH
HEFYD GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL.

ARGRAFFWYD GAN JOHN JONES, RHYDYBONT.

PROPHWYD Y JUBILI,

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 28.]

HYDREF, 1848.

PRIS 2g.

Y SECTARIAID YN CREDU GWYRTHIAU O'R DIWEDD!

HYSBYSIR ni ddarfod i'r gwahanol bleidiau Sectyddol drwy ein gwlad yn ddiweddar, yn ngwyneb yr argoel oedd, e'rs misoedd yn ol, am gynhanaf gwlyb, gyhoeddi dydd ympryd a gweddi, i geisio gan Lywydd yr elfenau, roddi iddynt dywydd sych. Nid y rhesymoldeb na'r afresymoldeb o hyn, nac ychwaith eu llwyddiant na'n hafwyddiant gyda'r gorchwyl, a dei'lynga lawer o'n sylw; ond yr hyn a ymddengys i ni yn rhyfedd iawn, yw pa fodd na fyddai atebiad i'r fath weddïau yn "wyrth!" Oni fyddai yn "oruwch-lywyddiaeth ar drefn natur?" Os byddai, dyna WYRTH yn ol eu deongliad poblogaidd hwy eu hunain; ac os felly, pahan y gwaediant ac y condemniant hwy eu hunain gymmaint ar y Saint am son am wyrthïau? Pahan y gwaedda yr un bobl mor uchel o'u pwlpuan, &c., fod oes y gwyrthïau wedi darfod, ac nad oes eixieu gwyrthïau yn yr oes hon? Pa fodd y mae yn rhesymol ac yn ysgrythyrol iddynt hwy i weddio am wyrthïau, ac i Dduw wneyd gwyrthïau iddynt hwy; tra y dywedant ei bod yn afresymol ac anysgrhythrol i'r un Duw ateb gweddïau eu cymmydogion crefyddol, yr un mor wyrthïol? Os nad yw yr atebiad i'r weddi hon goruwch deddfau anian, pa ddylanwad sydd gan eu gweddïau hwy drwy Grist am y peth? Pa fodd yr addefant atebiad i weddi Elias am wlaw yn wyrthïol? Etto, ni wyddom ni, ac ni ddirnada rheswm, pa fodd i gredu nac amgyffred fod eu Duw hwy yn clywed ac yn ateb eu gweddïau hwy am wlaw, na sychder, nac am ddim arall; tra yr haerant hwy wrthym nad oes gan eu Duw hwy na chlust i glywed eu gweddïau, na thafod i lefaru wrthynt, na

braich i wneyd dim erddynt, na llygaid i dosturio wrthynt? Ie, pan y maent hwy eu hunain yn dweyd nad oes gan eu Duw na "chorff, na rhanau, na nwydau!" Pa fodd y dichorff y fath ddyldim (cany's ni fedda rheswm well enw ar beth disylwcaid) eu elywed na'u hateb? Oni bai fod genym well paroh i'w cydwybodolrwydd a'u teimladau, a thosturi drostynt oherwydd eu tywyllwch dudew, eynghorem hwynt fel yr annogai Elias brophwydi Baal, i waeddi yn uwch, rhag ofn fod eu Duw dyddian yn eysgu, neu oddicartref, neu yn waeth fyth arno, sef heb yr un glust i'w elywed!

Mae yn ddiogon i beri syndod i bob dyn rhesymol, fod y diafol yn gallu dallu un creadur o ddyn, yn enwedig dyn a welodd feibl yn ei oes, i greda y fath anmbosibilrwydd â botloldeb unrhyw fôd "heb gorff, na rhanau, na nwydau!" Aa nid hai dwlai fydd i'r ymprydwy'r a'r gweddiwyr gwyrthiol hyn, i feiddio gwawdio eu cydoeswyr byth mwy am weddio am wyrthiau. Gobeithiwn, er mwyn dynoliaeth, nad y tylwyth hwn a glywir byth eto yn haesu, "fod gwyrthiau wedi darfod, ac nad oes eu heisieu," &c., onide nid all eu tad eu hunain beidio chwerrhin yn ei lawes am ben eu hanghyssondeb. Annoga hyn y Saint i beidio cywilyddio am broffesu y doniau gwyrthiol "yn yr eglwys," oherwydd y mae iddynt gyfeillion o'r tuallan ag sydd yn profesu yr un peth. Deuant yn nes eyn hir, ac yna bydd yn fwy poblogaidd i broffesu gwyrthiau!

EPISTOL CYFFREDINOL Y LLYWYDD ORSON PRATT AT YR HOLL SAINT YN MHRYDAIN, YN ANNERCH,—

ANWYL FROBYR,—

Mhyngodd bodd i'r cynghor llywyddol yn nheyrnas Dduw benodi i'ch wfydd wasanaethwr genadaeth i'r parthau hyn o'r ddaear, natur yr hon a hysbysir yn y llythys canlynol:—

"Etholwyd yr henuriaid Orson Pratt, yr hwn a berthyna i gynghor y deuddeg i fyned i Loegr, i bregethu yr efengyl, i gyhoeddi ac argraffu, i arolygu yr ymfadaeth, ac i lywyddu dros yr holl gynnadleddoedd, ynghyd â'r holl fatesion a berthyna i eglwys Saint y Dyddiau Diweddaf yn yr ynysoedd Prydeinig, a'r gwledydd cylchynol; ac annogwn yr holl Saint i wrando ar, ac ufyddhau i'w cynghorion yn mhob peth; canys wrth hyn yr bendithir. Eled teulu yr henuriaid Pratt gadael ef, os ewyllesiant, a gweddiwn am i'r Arglwydd eu bendithio."

Saint yn ymddwyn yn ol ein hepistol cyffredinol a ysgrifenydd Rhag-fyr 23ain, 1847.

"Ysgrifenydd yn ngwersyllfa y gauaf, llwyth Omaha, Gogledd America, yr 32ain o fis Ebrill, 1848, ac arwyddwyd dros y cynghor uchod gan

"BRIGHAM YOUNG, *Llywydd.*

"WILLIAM RICHARDS, *Ysgrifenydd.*"

Yn unol â'r cynghor uchod, cychwynis o wersyll y Saint, yr hwn sydd yn nhiriogaeth yr Indiaid ar yr ochr orllewinol i'r Unol Daleithiau, oddeutu canol mis Mai; a thrwy ddaioni a nodded y Goruchaf, daethum i, fy ngwraig, a'm tri phlentyn, yn ddiogel dros tua chwarter tryfesur y glôb, ar hyd camlasau, agerfadau cyflym, hyd afonydd mawrion, llynoedd, cledrffyrdd, ac yn ddiweddfaf dros y Môr Werydd hyd yma, lle y bydd weithian faes fy llafur am ysbaid.

Nid heb deimlo yn ddwys bwysfawrogrwydd a chyfrifoldeb y genadaeth hon, yr anturiaf ar gyflawni fy nyledswyddau mewn cyssylltiad â hi. Gwn trwy brofiad nad peth byehan yw bod yn wlydedydd dros, ac i gael fy ymddiried yn gynghorydd i fwy na deugain mil o Saint. Er cyflwyno i Saint, i bersonau, i deuluoedd, i ganghenau o'r eglwys, ac i gynnadleddoedd, *air y bywyd*, anghenrheidiol yw cael cyfarwyddyd amgen na doethineb ddynol,—dim llai nag ysbrydolrwydd y Goruchaf ni thycia. Pwy, heb y cymhwysderau anheggorol hyn, ddichon gynghori yn iawn—a ddichon iawn gyfranu gair y gwirionedd i gynnifer o wahanol bobl, dan gynnifer o wahanol gynneddfau ac amgylchiadau, ac yn ngwyneb cynnifer o draddodiadau ag sydd wedi greddfau mor ddwfn drwy ddylanwad y tadau ar y plant, oddiwrth yr hwn ddylanwad nid yw hyd yn nod y Saint yn hollol rydd hyd yn hyn.—Gofyna yr amrywiol amgylchiadau ag sydd beunydd yn gormesu eu hunain, ac mor gyfnewidiol ag ydynt, am gynghorion ac addysgiadau cyffaddas i'r fath gyfnewidiadau, fel y deallo y Saint yn mhob peth pa fodd i ochelyd y drwg, ac i wneuthur yr hyn betnau yn unig a ddwg iddynt y llesâd mwyaf. Yn awr, pwy sydd ddigonol i'r fath waith â hwn? Pwy a ddichon hysbysu meddwl ac ewyllys yr Ysbryd Glân o barthed i'r amgylchiadau lluosog ac annhraethadwy, etto pwysig ac anocheladwy, ag sydd yn amgylchynu y Saint, oddieithr ei fod wedi cael ei ysbrydoli i ddeall pethau *dyfodol*, heblaw pethau *mynedol*? O! y ffolineb yw i ddoethineb ddynol amcanu bod yn ddigonol i hyn oll, yn annibynol ar gyfarwyddyd Ysbryd y brophwydoliaeth! O, y fath wagedd yw i ddysgeidiaeth ddynol yn unig, tra yn gwadu dadguddiadau uniongyrchol, i hóni gallu ac addasrwydd i gyfarwyddo dynolryw yn holl dyledswyddau a llwybrau dyrys y bywyd!

Mae sefyllfa bresennol y Saint yn yr America yn wahanol iawn i'r hyn a fu erioed o'r blaen. Yn yr amser o aeth heibio, ymgasglasom drwy orchymyn dwyfol wrth y miloedd, ac gyffiniau ein gelynyon a'n herlidwyr, gan gael ein gyru o ddinas i ddinas, yn adeiladu i ereill gyfaneddu, ac yn llafurio yn galed, ac ereill yn cael mwynhau ffrwyth ein llafur; a hyn oll fel y cyflawnid prophwydolieithau hen a diweddar. Eithr yn awr, chwiliasom am orphwysfa yn nyffryn y mynyddoedd pell, yn nghanol y cyfandir gorllewinol. Yno, yn nghuddfeydd

"bryniau tragwyddoldeb" y gobeithiwn am gael llechu am enyd ferhan hvd onid el llid y Goruchaf fel cenllif ar genedloedd—yno y dysgwyl-iwn swynhau gorphwysfa am dymmor oddiwrth gynddaredd eiu gormeswyr—yno yr amcanwn adeiladu ty i Ddu Jacob, fel nud amddifadir ni yn fuan o'i freintiau—yno y gobeithiwn gael dechreu y gwaith mawr, yr hwn a wareiddia ac a adfero weddillion Joseph—ac, mewn gair, yno y gobeithiwn gael gwasanaethu Duw a'n holl galon, a'r hyn oll a feddwn, ac y cyflawnwn fwri dau ei ewyllys yn yr oruchwyliaeth ddiweddfaf hon. Mae tiriogaeth eang, hyfryd, a ffrwythlon, trwy ragluniaeth Duw, wedi ei roddi yn meddiant y Saint yn yr ochr orllewinol i Dalaeth Iowa. Mae y wlad hon gryn bellter oddiwrth bob sefydliadau ereill; nid oes yr un ar y gorllewin, gogledd, na'r dwyrain; ac y mae o ddeugain i hanner cant o filldroedd i'r deau rhyngddi a chyffiniau Missouri. Gelwir y wlad hon yn Pottawatomie. Trigianai llwyth o Indiaid o'r enw hwnw ynddi hyd y flwyddyn ddiweddfaf, pryd y symudwyd hwynt gan y llywodraeth, ac y gadawwyd y Saint yn unig herchenogion y tir hwnw. Nid yw y rhan o'r wlad wedi dyfod i'r farchnad hyd yn hyn, a phan y delo ar werth, bydd gan y Saint, oherwydd perchennogaeth gyntaf, hawl iddo, yn ol cyfraith y wlad, am goron yr erw.

Mae yn awr oddeutu 15,000 o Saint yn byw ar y tir hwn. Cyrhaedda eu sefydliadau am 50 neu 60 o filldroedd ar hyd yr ochr ddwyrainol i'r afon Missouri, ac yn cyrhaedd tua 30 o filldroedd i'r wlad oddiwrthi. Mae y ddaear yn hynod o fras a ffrwythlon—wyneb y wlad sydd yn anwastad, er nad yn fynyddig, ac y mae yn llawer iachusach nag yw gwastadtiroedd Illinois a Missouri. Mae y Saint wedi gwneyd tyddynod helaeth a gwych eisioes drwy y wlad; a diau y cynnyrehir ganddynt lawer mwy o fd, a phob math o nwyfau, nag a fydd anghen ar yr holl ymfudwyr a ddaw y ffordd hono i'r dyffryn. O'r fan hon, yn ystod misoedd Mai a Mehefin, gwerylloedd lluosog a ymfudant yn flynyddol tua dyffryn y Llyn Halen. Y ddau sis hyn yw yr unig amser ag y bydd yn ddiogel croesi y mynyddoedd creiglyd. Cymhellir y Saint ag sydd yn yr Unol Daleithiau, Canada, ynysoedd Prydeinig, ac Ewrop, i ymgasglu i'r fan hon i wnenthur darpariadau i ymfudo dros y mynyddoedd creiglyd. Mae tri o'r deuddeg, sef Orson Hyde, George A. Smith, ac Ezra T. Benson, yn aros yma i ofalu dros y Saint yn y cyhoedd hyny. Rhoddant hwy bob cynghorion a ystyrir yn ddyddorol ac anghenrheidiol o bartbed i bob peth a berthyn i wersylloedd a diriant yno o'r dwyrain, ac hefyd i'r gwerylloedd a ant oddiyno tua'r Llyn Halen.

Edryched llywyddyn y cynnadleddoedd ar fod yr holl Saint yn cael eu hiawn ddysgu yn mhob peth a berthyna i'r ymfudiad, mewn doethineb ac iawn drefn. Mae ymgasglad y Saint ynghyd i Seion yn egwyddor bwysig iawn yn athrawiaeth y Saint. Mae hon wedi ei sefydlu ar ddadguddiadau dwyfol, hen a diweddar. Prophwydodd Esau lawer, ac yn eglur iawn, y byddai i'r Arglwydd gasglu ei feibion o bell, a'i ferehed o eithafoedd y ddaear. Mae Dafydd yn ei Salmau yn profhyn yn ddiwrthbrawf, a chyda hoffder mawr iawn. Mae hon yn egwyddor ag yr ymddengys fod yr holl hen brophwydi yn hoffi son am dani, a'i dysgrifio. Denai y rhyfeddodau cysylltiedig a'r ymgasgliad

fydd a serch brophwydi y Nephiaid yn yr America hefyd. Manylas-ant lawer arnynt, nes yr ymddangosant yn blaen yn Llyfr Mormon. Mae y dudguddiadau nefolaidd a roddwyd i'n prophwyd merthyredig, Joseph Smith, pan yn cyfeithu Llyfr Mormon, yn arddangos nid yn unig sefydliad a chynnydd yr eglwys, ond hefyd ei hymgasgliad ynghyd o bedwar cwr y byd. Yn Iuis Mai, 1829, yr Arglwydd yn cyfeirio at y rhai a nfyddhant i'r efengyl hon a ddywedodd,—“Wele myfi a'u casglaf hwynt megys y casgl yr Iâr ei rhywion dan ei hadenydd, os hwynthwy ni chaledant eu calonau.” Yn Iuis Medi, 1830, yu mhen tua phum mis ar ol sefydliad yr eglwys, dywedodd yr Arglwydd wrth ei weision,—“Chwychwi a alwyd i ddwyn oddiamgylch yr ymgasgliad o'm hetholedigion, canys fy etholedigion a wrandawant ar fy llais i, ac ni chaledant eu calonau; am hyny, aeth allan orchymyn oddiwrth y Tad i'w casglu hwynt i'r un lle oddifewn i'r wlad hon, i ddarparu eu calonau, ac fel yr ymbarotoant yn mhob peth erbyn y dech dydd y brofedigaeth, a'r dydd anrheithiol ar y rhai anwir.” Llauer o ddadguddiadau cyffelyb eu natur sydd yn gynwysedig yn llyfr yr “Athrawiaethau a'r cyfammodau.” Ni ddichon neb o'r Saint fod yn anystyriol o'r pethau hyn, ac etto fod yn mwynhau llauer o ddyluwadau yr Ysbryd Glân. Bod yn esgeulus at yr ymgasgliad sydd mor anghymeradwy yu ngolwg Duw ag ydyw bod yn esgeulus o barthed i gymmeryd en bedyddio er maddeuant pechodau, neu ryw orchymyn dwyfol arall. Gwir yw fod tylodi rhai o'r Saint yn fawr yn y wlad hon, fel nad ydynt hwy yn alluog i ymfudo yn bresennol o'r herwydd; eithr ni ddylai hyny, na dim arall, achosi iddynt fod yn anystyriol o'r egwyddor ogoneddus hon, ond dylai yn hytrach greu ymddynt ddiwydrwydd ac ymrodd helaethach i wneyd pob parotoadau cyfreithlon a allant i ymfudo. Wrth wneuthur felly, hwy a fwynhant yr Ysbryd Glân—yr Arglwydd a wena arnynt, ac mewn amser cyfaddas, efe a drefna ffordd o waredigaeth iddynt. Cofed y cyfoethog am y thawd, i'w cynorthawyo o bryd i bryd i fyned adref, fel eu cynghorir, a'r Arglwydd a'u bendithia hwythau. Cynghorwn y cyfryw o'r Saint ag sydd ag arian mewn tiroedd, tai, nwyfau, cyndeithasau marsiantiol neu gelfyddydol, neu mewn rhywbeth arall yn y wlad hon, i ymosod ar y gorchwyl yn uniongyrchol, etto gyda doethineb a gweddeidd-dra, o wneyd iawn ddefnydd o'u heiddo, i ddwyn eu hanturiaeth i ben, ac i gasglu yr oll a allant o'u harian i'w dwylaw eu hunain. ac i fyned gyda hwynt i fynydd ty yr Arglwydd—i ddyffryn y Mor Haulen, ynghyd â phob nwyfau gwerthfawr, a'r oll a feddant, ac a fydd yn ddefnyddiol, yn ol cyfarwyddyd y deuddeg apostol yn eu hepistol, a ysgrifenuwyd y 23ain o fis Rhagfyr, 1847. Bydded i'r henuriaid a'r swyddwyr ereill ddwyn ar gof i'r Saint yn fynych yr hyfforddiadau llesiol a rheidiol ag sydd yn gynwysedig yn yr Epistol hwnw. Cynghorwch y cyfoethogion o'r Saint na byddont ariangar, na roddont eu hyder yn ormodol ar eu meddiannau; eithr yn hytrach, yn gymaint a'u bod yn dewis rhyngu bodd Duw, gofynant bris rhesymol rad am eu meddiannau, a gweddiant ar i'r Arglwydd dueddu calonau rhai o blant y byd hwn i'w prynu hwynt ganddynt; a chynghorwn hwynt i beidio a gwrthod y cyunyng cyntaf a roddir iddynt, os bydd yn rhesymol werth yr eiddo, neu yn agos i hyny, canys wrth wrthod gallant golledu eu hun-

ain yn fawr, a methu rhyddhau eu hunain cyn y dyddiau blin, y rhaif sydd yn cyflynu yn brysur ar genedloedd y byd hwn. Yn awr yw yr amser i fod yn effro ac yn ddiwyd! Yn awr yw dydd yr ymwardd! Mae y cleddyf mawr a chladarn eisoes wedi cael ei dynu allan o'r wain! Mae efe yn hongian yn ysgwydedig uwchben y cenedloedd! Ar fyrder y cwmpa, ac y dyfetha genedloedd cryfion hyd yn mhell! A pha beth sydd yn ei luddias yn awr? Sicr yw nad cyfiawnder y bobloedd, canys y mae eu hanwireddau, eu gormes, a'u trawsder hwynt yn galw yn uchel ac yn barhaus am farnedigaethau. Eithr y mae fydd y Saint—y gwael a'r diystyredig Saint—yn esgyn i fyny nos a dydd, gan ddywedyd, O Arglwydd, arbed nyni! Na thor ni ymraith gyda'r annuwiol! Yr ydym ni yn analluog! Yr ydym yn dylodion! Yr ydym yn orthrymedig! O achub ni! O gwared nyni! O dwg ni i fynydd dy santeiddrwydd, ac na ad ni i drengu yn nydd dy ddigter, pryd y cyfodi o'th drigle i ddial ar yr anwir—i chwyldroi cyfundri ethau—i ddinystrio teyrnasoedd—ac i osod y cenedloedd yn ddisfrod.

Chwi yw halen y ddaear. Er eich ywyn chwi y cedwir llifddorau y dystryw yn nghau dros enyd fechan. Deffrowch, gan hyny, O chwi Saint, deffrowch! Gosodwch eich wynebau tua Seion. Ewch allan o blith y cenedloedd. Na chyfrannogwch o'u pechodau, ac na chwenychwch o'u moethau; canys y mae y dydd drwg yn agos, i.e. wrth y drws. Fel corwynt y rhuthra efe i balasau y mawrion—i ystafelloedd y pennaethiaid. Eu gwleddoedd a beidiant, a'u cyfoeth a dderfydd rhwng eu dwylaw. Chwerwder ac adfyd a'u goddiwedda, ynghyd â blinder ysbryd. Hyn a ddaw o bob cwr, megys cyfarfyddiad elfenau gwrthdarawol—megys corwynt rhuthrol—cyfelyb i orlifiad dyfroedd cryfion. Ac O, pa le y bydd diogelwch y pryd hyny? Atebwn mai yn mynydd Seion. Yno yn unig yr adeilada merch heddwch ei phalasu, ac y bydd iddi breswylfa lonydd. Yno yn unig y bydd "gorphwysleoedd heddychol, a phreswylfa ddiogel," i'r cyfiawn a ddiangasant o blith y cenedloedd. O chwydychwi Saint y Goruchaf, nac ymdrowch. Gwnewch yn siwr o'ch ffordd cyn y bydd wedi ei chau i fyny. Yu awr yn unig yw yr amser ag na bydd raid i chwi "fyned allan ar frys, na thrwy ffoedigaeth." Trefnir pob darpariadau o'ch blaen gan yr hwn a ddechreuodd ynoch y gwaith da hwn—gan yr hwn a'ch galwa allan oddiyma—yn ol eich ffyddlondeb a'ch diwydrwydd.

Parhaed gweision Duw i bregethu edifeirwch, a bedydd er maddeuant pechodau, ac nac ymyrweh â dirgelion y deyrnas, canys nid yw y byd yn deilwng o honynt: ni ddeallant mo honynt, canys nid y'nt yn ddealladwy ond i'r sawl a feddant Ysbryd Duw, ac ni iawn brisir mo honynt ond gan blant y deyrnas. Aed y cyfryw o'r Saint ag sydd yn ewyllysio eu deall i fyny i fynydd yr Arglwydd, ac adeiladant dy i Dduw Jacob. Yno eich dysgir yn ei ffyrdd, ac eich cyfarwyddir yn ei lwybrau, i fwy o berffeithrwydd. Yna y llawenycha eich calonau, ac yr agorir eich dealltwriaeth; yna dysgleiria gogoniant yr Arglwydd arnoch chwi, ac yr amlygir dirgeledigaethau oesau mynedol a dyfodol i chwi; ac yna fe'ch iawn-ddysgir gan yr Ysbryd Glan mewn pethau ac amser cyfaddas. Y pryd hyny—yn y fan hono, y dysgwch ac y deallwch ddirgeledigaethau. Eithr yn awr gwacddcwch, ac uchel-

floeddiwch wrth y bobloedd yn eu dinasoedd, yn eu trefydd, a thrwy'r wlad, ar bob cyfle. Cyhoedddech yn eofu, ac nac arbeddech, gan ddywedyd, Edifarhewch, a bedyddier chwi drwy awdurdod dwyfol, er maddeuant pechodau, fel eich llanwer a'r Ysbryd Glân; canys wele, y mae awr bara Duw wrth y drws! Oddieithr i chwi wneuthur hyn, ni ddiengwch chwi mewn un modd. Hyn a fyddo eich llef yn mhob man; ac os bydddech ffyddlon, yr Ysbryd Glân a'ch hyfforddia yn mhob peth a wnelech; ac fe gadarnheir y gair i'r credinwyr yn mhob man trwy yr arwyddion pa rai fydd yn canlyn; a hwy a gânt wybod am y ddysegeidideth, canys y Tad a'i hâglura hi iddynt hwy: eithry rhai drygionus ni ddeallant, ond a d'engant yn eu drygion.

CYNGHORION I YMFUDWYR.

Gosodwyd fi i arolygu ymfudaeth y Saint, a dymnraf ar y dechreu i osod i lawr rai rheolau a chyfarwyddiadau eglur ar y mater hwn, fel y canlyn;—

Deallir mai yr amser i'r Saint i ymfudo o Liverpool i New Orleans, fydd o ddechreu mis Medi hyd fis Mawrth.

Dymunir ar bob person neu deulu o'r Saint ag sydd yn meddwl am fyned, ac yn alluog i hynny, i anfon i mi eu henwau, wedi eu hysgrifenu yn egiur ac yn gyflawn, ynghyd ag oedran pob gwr, gwraig, a phlentyn, a phob baban, ag a fydd yn myned, ac hefyd anfonant un bunt o arian gogyfer â phob un, hen ac ieuanc.

* * * * *

Dichon y gost o ymfudo yn y llong wahaniaethu rhyw ychydig o bryd bwy gilydd, yn ol amgylchiadau pethau cyssylltiadol. Nid tebygol y bydd yn nemawr is na 2l. 5s., na byth yn uwch na 5l., i'r oedranus. Cludir plant a fo dros flwyddyn, ac etto dan bedair blynedd ar ddeg, o oedran, am ddeg swllt yn llai na'r rhai henach; a babanod, heb gyrhaedd blwyddyn o oedran, a gludir yn ddigost. Achoswyd y gwahaniaeth yn ngludriad plant oherwydd y gyfraith Americanaidd, yr hon a ddaeth mewn grym er's ychydig wythnosau yn ol, a'r hon a effeithia i fwyhau cludiad nid yn unig plant, ond hefyd rai mewn oedran. Gwahardda y gyfraith gyfeiriedig i unrhyw long gario cynnifer o ymfudwyr ag a gariant gynt; a thrwy hynny, bydd ychwaneg o le, a mwy o gysur i bob un; ac ystyria hefyd bob plentyn dros flwydd oed yn ymfudwr cyflawn, a gofyna y cyffelyb ddarpariaeth lle a lluniaeth ar ei gyfer a phe bai oedranus. Oherwydd hyn gofyna llawer yr un bris am eu cludo hwy a'r oedranus.

Yn mhris y cludiad, nad beth a fyddo, cynnwysir y lluniaeth canlynol ar gyfer pob ymfudwr a fo dros flwydd oed, yn ol fel y gorfoda y gyfraith,—

Bara y-môr da, 33 o bwysau. Rice, 10 pwys. Blawd ceirch, 10 pwys. Blawd gwenith, 10 pwys. Pys a ffa, 10 pwys. Pytatws, 35 pwys. Finegr, 1 pint. Dwfr croew, 60 o alwyni. Cig moch da, 10 pwys. Hefyd, llawnder o danwydd i bob ymborth, &c.

Hyshyswn y cyfryw o'r Saint ag a fyddant eisieu prynu tê, coffi, siwgr, ymenyn, caws, ychwaneg o rai o'r pethau a nodwyd uchod, neu bethau ereill ag a fyddant yn anghenrheidiol ar y fordaith, os ymofniant â ni ar ol eu dyfodiad i Llynlleifiad, y diwallwn hwynt yn llawer

rhatach nag y gallant hwy brynu mewn unrhyw siopau, oherwydd fod genym ni y fantais fawr o brynu y cyfryw bethau o'r *Custom House* yn ddirreth. Bydd arnoch hefyd eisien llestri *tea*, llestri at wneyd bwyd, gwelyau, a dillad gwelyau, &c.

Gosodwyd arnaf hefyd i dderbyn degymau y Saint, a danfon yr uprhyw i'r prif lywyddion yn "Niwas y Llyn Halen," i'r dyben o ad-eiladu yn y mynyddoedd, dy i Dduw Jacob. Eglurwyd cyfraith y degwm trwy ddatguddiad er's amryw flynyddau, a hi a barha mewn grym yn mhlith yr holl saint drwy eu cenedlaethau. Gofyna y gyfraith hon gyfranu y degfed o eiddo y Saint, i gario yn mlaen deyrnas a gwaith y Goruchaf ar y ddaear, ac wedi hyny y degfed o'r cynnydd yn flynyddol. Diddadl fod llawer o Saint yn y wlad hon yn rhy dylawd i ufyddhau i'r gyfraith hon, megys gweithwyr tylodion, pa rai a ddi-hynant ar eu diwrnod gwaith am eu tamaid bara bennyddiol. Oddiar law y cyfryw ni ddsygwyllir degwm; canys byddai hyny yn ormes arnynt hwy a'u teuluoedd. Gwell fyddai i'r cyfryw dderbyn na chyfranu. Y mae ereill, nid mor dylawd â'r dosparth a nodwyd, ond yn gallu rhoi heibio swllt, neu ddau, neu dri yn yr wythnos o'u hennill, a hyny go-gyfer ag ymfudo, &c. Ni ofynir degwm gan y cyfryw. Mae dosbarth arall mewn gwell amgylchiadau, y rhai a allant gyfranu eu degwm, heb ddrygu eu hunain na'u teuluoedd, na dyrysu eu hamcanion i ymfudo; gan y cyfryw ei dyagwyllir ynte; ac ni allant fod yn esgusodol yn ngwydd Barnwr y calonau wrth esgeuluso ei dalu. Dichon y dywed rhywun, "Yr wyf fi yn foddion i'w dalu, ond y mae fy meddiannau yn y fath gyflwr, fel nas gallaf fwynhau y degfed o hono yn awr." Cyng-horant y cyfryw i brysuero i ddwyn eu hamgylchiadau i'r fath fodd ag y gallant fwynhau, nid yn unig y degfed, ond yr oll o hono. Ymdrech-wch ryddhau yr oll o hono, fel y galloch nid yn unig dalu eich degwm, ond myned eich hun gyda'r gweddill o'ch meddiannau, i flynyddoedd yr America—i ddnas y Saint—i le enw Arglwydd y lluoedd. Yn gwneuthur hyn chwi a fendithir. A dyma yr unig lwybr diogel i chwi ei droedio; hyn yw ewyllys Duw, a dyma ei gynghor. Gwyn fyd y rhai a wnant felly; hwy a fodeuant fel y lawrydd werdd mewn gwlad ffrythlon, ac ni wywant; eu plant a dyfant fel helyg wrth ffrydian dyfroedd, ac a fyddant yn anrhydeddus yn mhlith plant Duw. Eithr gwae i'r cybyddlyd, yr hwn a gara ei feddiannau yn swy nag y cara ufyddhau i orchymynion Duw; canys hwy a drengant, a'u cyfoeth a dderfydd, ac ni chânt etifeddiaeth yn mhlith y rhai a ddegymwyd; hwy a wywant ac a ddarfyddant yn gyffelyb i'r sofr ag sydd yn barod i'r llosgfa, ac ni cheir eu henwau yn nghronicleau y rhai cyfiawn.

Bydded i'r swyddogion eglwysig hyfforddi a dysgu i'r Saint iawn-ddealltwriaeth am gyfraith y degwm, fel nad arhoso y Saint yn anwybodus am hyny. Gellir anfon arian y degymau i mi drwy y *Post-office*, neu rywffordd arall a fernir yn ddiogel, ynghyd ag enwau yr anfonwyr, fel y cronicleu yn y llyfr.

* * * * *

Mae y Saint yn lluosogi yn rhyfeddol iawn yn y wlad hon, a miloedd yn dyfod i'r eglwys yn barhaus; a chan eu bod yn ddrych i bawb, dyledus arnynt ymdrechu profi i bawb, drwy eu gweithredoedd, da, eu

bod mewn gwirionedd yr hyn a broffesant fod, sef Saint Duw—plant y goleuni.

Gan fy mod yn awr yn anturio ar y maes eang a phwysig hwn, go beithiaf y byddaf, drwy gymhorth Duw, gweddiau y Saint, a'm hym drechiadau diwyd fy hun, yn ddefnyddiol i chwi, ac i achos Duw yn y wlad hon. Yn y cyflawniad o'm holl ddyledswydau dyfodol, ymdrechaf gael arweinyddiad yr Ysbryd Glân, a chynghoraf chwithau o hyd, megys ag y derbyniasf o'r ffynnonell. Bydded i Dduw yr Israel gyntefig, yr hwn a'u gwaredodd hwynt odditan ian gaethiwas, ac a'u gwnaeth yn genedl iddo ei hun, edrych hefyd ar ei Saint tylodion a chystuddiedig yn Mhrydain, a danfon iddynt waredigaeth fuan, a'u gwyn ar frys i'w ffynydd santaidd, a'u sefydlu yn bobl briodol iddo ei hun, yw gweddi barhaus eich ufydd was,

Llydellistad, Awst 15fed, 1848.

OSBON PRATT.

[Dymunwn hysbysu y Saint Cymreig, fod y Ilywydd Pratt wedi ymddiried i'n gofal ni ddarpariadau ymfudol y Saint o Gymru, a bwriadwn gael llongaid o Gymry i fyned gyda'u gilydd, os bydd odd-eutu tri chant yn barod erbyn mis Ionawr. Ni oes raid i mi eu hysbysu y bydd yn llawer mwy pleserus a manteisiol iddynt fyned gyda'u gilydd, oherwydd bydd hyn yn hunaneglur i bob dyn ystyriol ar amryw ystyriaethan, yn enwedig oherwydd yr iaith. Dymunwn ar i lywyddion y canghenau o ba rai y mae rhai yn bwriadu myned yn Ionawr nesaf tua California, i anfon i ni, mor gynted ag y bo yn gyfleus iddynt, enwau ac oedran pob un sydd yn myned—gwryw a benyw, hen ac ieuanc. Hysbyswn etto cyn hir pa bryd y bydd galwad am y bunt am bob un, yn rhan o'u cost. Mae hyn yn arferiad yn nhlith pawb ag sydd yn anfon ymfudwyr dros y môr, ac ni chymmerir llong ar gyfer neb heb hyn, canya gofyna perchennogion y llong yn gyffredin am hyn yn wylt ar y cytundeb, i sicrhau y daw yr ymfudwyr. Drwg genym ddeall, ar ryw ystyriaeth, am y gwfraith newydd ag sydd wedi achosi codiad yn mhirs yr ymfodiad; eithr bydd, o'r oehr agall, yn swy dymunol i'r ymfudwyr, oherwydd dyry iddynt ychwaneg o le a manteision ar y llong yn gyferbyniol.

Dywenydd mawr genym hysbysu i'r rhai a fyddant yn myned, fod ei gynghoriaid wedi caniatáu i'ch ufydd was gael gollyngfa, gyda'r llongaid gyntaf o Saint, o'r caelliwed blin ag y mae wedi bod ynddo er ys cryn amser—i gael myned allan am enyd o'r "Babilon butteinllyd," i anadlu awyr iach yn nffryu y mynyddoedd—i gael cwmni eu, a dysgeidiaeth nefolaidd, meibion Seion, yn lle bod yn amddiffyn y gwirionedd rhag chwedlau maleisus, haeriadau anwireddus, a gwenwyn a llysnafedd, y genedlaeth drofaus a gwargaled hon, neu y rhai o honynt ag sydd yn diystyru cynghor Duw, ac yn gwrthod a gwrthwynebu y genadwri ddwyfol hon, sef yr un o'goneddusaf a anfonwyd o'r nef i ddynion er's mwy na mil a hanner o ffynyddau. Maent wedi poeni ein hemid braidd hyd dranc, ac y mae ein cyfansoddiad bron wedi dadfeilio, dan hwys yr ymdrech i'w hargyhoeddi hwy, eu dwyn i'r iawn, ac addysgu carwyr y gwirionedd yn y wir ffordd i ddedwyddwch tymhorol a thragyddol. O mor hyfryd meddwl am y dydd pan y

cawn o'r caethiwed ddod yn rhydd, a blaenu, i ddarparu y ffordd i filoedd Cymru-ddilyn, i wawr-ddydd y Jubili!]

I RWYSTRO TRAIS A GODINEB.

RHONDER i bob un fodd i gynnal teulu (sef rhyddid yr elfenau), a chosper y treisiwr a'r godinebwr â marwolaeth, a darfyddai diweirdeb fod yn nwyfau masnachol. Dewisai dynion ymbriodi, a chadw cyfraith gyntefig eu Tad, sef, "Pfrwythwch ac amlhewch, a llenwch y ddaear," yn hytrach na dyoddef marwolaeth. Felly gwelir na bydd dim o'r trosedd hwn yn Seion, oherwydd ni bydd yno yr hyn a'i achosa, sef caethiwed dyn o'r elfenau; ac felly, ni bydd yno anghen cyfreithwyr i groes-bleidio cyfreithiau drys o'i blaidd nac i'w erbyn. Dyna un gyfran o Jubili, yute.

Y MOBB I GAEL LLYWODRAETH BERFFAITH, AC I'W CHYNNAL.

Ni ddichon y llywodraeth a esgora ar faban, heb allu ei gynnysgaethu â chyflawn ryddid i'r elfenau, fod yn deilwng o hono, na'i waexd yn ddedwydd, oherwydd ei fod ef yn gaethwas; ac ni ddichon hono fod yn llywodraeth Duw, yn ol gweddi Iesu Grist, sef, "Deled dy deyrnas: gwneleu dy ewyllys megys yn y nef, felly ar y ddaear hefyd." Ei ewyllys ef yw ar fod pob dyn yn gadwedig dymhorol ac ysbrydol, yr hyn a fwyntia yn unig drwy ryddid o gyfreithiau teyrnas Dduw yn Seion.

RHODDWCH EU TAD I'R AMDDIFAID, A'I PHRIOD I'R WEDDW.

A'ch dwylaw eich hunain agorwch ddrysan eich carcharau, a gadewch i'r lleidr ddychwelyd adref i gysuro calon doredig ei wraig anwyl, ac i weithio er diwallu plant ei ymysgaroedd â bara, ac yna i dalu yn ol ar ei bedwerydd; a rhoddwch iddo ryddid yr elfenau, yna ni elwir ef byth mwyach yn lleidr, ac ni welir o fewn muriau carchar, ond yn hytrach, ar ei aelwyd ei hun yn nghanol ei blant anwylaidd yn addoli ei Ddaw fore a hwy.

ARWYDDION YR AMSERAU.

I'r rhai deallgar, doeth yw sglw ar arwyddion yr amserau, canys wrth hyn y deallunt nesâd amser eu gwaredigaeth allan o Babilon; eithr i'r teulu Babilonaidd, nid oes dim arwyddion yn tyrio i'w hargyhoeddi, canys dryr eu doethineb ddynol hwy esgus a rheswm digonol iddynt hwy, mai canlyniadau naturiol o ryw achosion digon dealladwy iddynt hwy yw holl farnau Duw. Gwawrdiant a chwarddant am ben plant y deyrnas yn cydnabod llaw eu Duw, a chyflawniad ei brophwydolïaethau, drwy arwyddion hynod yr amserau terfysglyn hyn. Ac onid gdynt drwy hyn yn cyflawni y brophwydoliaeth a ddywed,—“Y cyf-

iawn a ddeallant, eithr y drygionus a ânt rhagddynt waeth waeth yn eu drygioni."

Ruagrybuddiodd Ysbryd y brophwydoliaeth gryn lawer ar drigolion y dyddiau diweddas y tywalltai Duw ei farnau arnynt oherwydd eu gwrtodiad o efengyl ei Fab.—y byddai iddynt drwy hyny ei ddigio Ef, nes y gollyngni yn eu plith y diwvstrydd. i'w cynhyrfu i ryfela â'u gilydd,—y tywalltai ei blaau arnynt mewn llawer dull a modd, ac ar ffrwyth y ddaear o'u herwydd llwynt. Pwy a all ddarllen helyntion gwledydd y byd, eu rhyfeloedd â'u gilydd, eu chwyldroadau, a'u rhyfeloedd cartrefol parhaus. Ieb goffo ddywedyd o'r ysgrvthyr mai felly y byddai yn y dyddiau diweddas? Pa bryd y hu y fath gyffroad cyffredinol ag sydd megys yn herwi crochan y cenedloedd yn awr? Nid yw yr Americanaid a'r Mexicanaid ddim braidd wedi golchi gwaed eu gilydd oddiar eu dwylaw. Mae miloedd meibion cochion coedwigoedd a myngddoedd Yucatan a Guatemala, a'r cylehoedd, yn hela trigolion y gwledydd hyny fel adar i'r rhwyd, ac yn sychedu am eu gwaed. Cofus yw y gyflafan erchvll a fu ar gyfandir Affrica, rhwng Abdel Cader â'r Ffrancod. Ac yn nes etto clywir gwelyriad y "march coch." Mae ei ganrau etto yn gorhion gan waed degau o filoedd o'n cymmydogion Ffrancaeg. Mae ei wehyriad wedi codi gweryt dros yr holl gyfandir, braidd, nes y maent o wlad hwy gilydd yn sychedu am ryddid o gaethiwed oesol, a phawb â'i gledd yd awchus i drywanu llyfftheiriau gaugrefyddol, pa rai sydd wedi cadw y meddwl dynol yn y llwch braidd erioed. Y bwystfil ei hun a ollyngodd yr awenau ar ei war, a roddes i'r march glâs ei spardynau i'w gychwyn, sydd yn awr medd hanesion, wedi methu a'i ddala, na dal ei hun ar ei gefn; ond y mae y march wedi mwned yn farchog, a'r marchog yn cael ei sathru o dan draed yr ysbryd rhyddid a gychwynodd efe o'i wersyll. Mae y Pah wedi colli ei holl boblogrwydd a'i ddylunwad, ac efallai ei goron erbyn hyn, oherwydd gwahardd i'w filwyr ryfela yn erbyn gwledydd cymmydogaethol; ac y mae chwyldroad hyd yn nod yn Rhufain yn hygwth ffurfio y taleithiau pabaidd yn werin-lywodraeth. Mae Amherawdwr Rwsia, er cryfed ei fyddinoedd, ofn ei gysgod, ac yn gyru ei fyddinoedd fel ser gwibiog ar draws y byd, fel pe dysgwyliai orliffiad Etna am ei ben o bob ochr ar unwaith, ac yn ofni y pethau sydd yn hongian uwch ei ben, ac y mae efe yn mynu saith dyn o hob mil yn filwr. Mae crochanau bychain Moldavia a Walachia yn herwi drosodd gan waed dynion, ac angerdd eu lliid yn esgyn i fyny etto. Mae yn debyg y llwydda Germany i gael rhyddid i addoli Duw yn y dull a ddewisant. Gobeithiwn y gwnant, a phawb ereill; ie, dylai Saint y Dyddiau Diweddas gael hyn o ryddid, yn lle gael eu troi o'u tai, eu tiroedd, a'u gweithfâau, &c., fel ag y cânt yn awr wrth y cannoedd gan Sectariaid selog, yn Nghymru rydd a goleu. Mae trigolion Austria, Prussia, a Bavaria, fel yn yspio eu mantais i dori eu hiau haiarn-aid, megys ag y gwnaeth eu cymmydogion; ac y mae eu llywodraethau mor wylwadrus o'r ochr arall i'w cadw i lawr nos a dydd, eithr nid i'w hoddioni drwy weinyddu oyslawnder iddynt. Mae amherawdwr Rwsia yn cadw pedair hyddin o 70,000 bob un o filwyr i gadw Poland fach o dan ei hawen. Mae y terfysgwyr yn Persia wedi cael goruchafiaeth ar fyddinoedd y llywodraeth drwy laddfa waedlyd. Mae

amryw frwydrau wedi cael eu hymladd yn ddiweddar yn Piedmont, Lombardy, Venice, &c., rhwng yr Awstriaid a'r Italiaid; i.e. mewn gair, gofynwn, Pa le, braidd, y mae heddwch? Pa le y mae cariad a brawdgarwch, y rhai oeddyntff rwythau gwreiddiol Cristionogaeth? Profesa yr holl wledydd rhyfelawg hyn, neu y mwyrif o honynt beth bynag, eu bod yn Gristionogion; ac y mae offeiriaid y naill fyddin mor aelog â'r llall yn gweddio ar "Dduw y tangnefedd" i'w cynnorthwyo hwy i ladd y teulu arall o'u cydgreaduraid! A rhyfeddach etto, diolcha y naill fel y llall, yn eu tro, am y fuddugoliaeth a roddodd yr un Duw iddynt oll! Pahw! Pa ryfedd fod y paganiaid yn gwrthod y fath Gristionogaeth waedlyd ag yw hon, pa un sydd yn diluio y byd â gwaed dynion! Onid yw yn llawn bryd i bawb weled nad yr iawn rywogaeth o Gristionogaeth yw yr un sydd gan yr oes hon, a gadael yr un waedlyd yma, a chofleidio efegydd yr hedd, fel y derbyniont gariad y gwirionedd, ac y delo y byd i gyd i garu eu brodyr megys ag y carodd Crist hwythau. Pe cymmerent eu bedyddio er niaddeuant pechodau, a phe cofleidient grefydd y Saint, sicr y'm y darfyddai rhyfel o'r byd yn gyferbyniol i hyuy, a byddai heddwch yn teyrnasu o fôr hyd fôr. Eithr onid oes rhyfelawg yw hon? Onid yw calonau breninoedd yn lleagu gan ofn? Onid oes coronau yn sathretig eisoes yn y llwch, a chyfundraethau cyfain wedi peidio a bodoli, fel y rhagdraethasom yn *Mhrophwyd* Ionawr diweddar? Atebed ffeithiau drostynt eu hunain. Pwy a'i rhagwelai oll heb ysbryd y brophwydoliaeth? Ac etto nid ydym wedi nodi ond ychydig o'r llawer o arwyddion rhyfelawg y dyddiau blaen hyn. Edrycher i hanesion llysoedd ein gwlad anwyl ein hun, yn nghyda threfydd mawrion Lloegr a Scotland; ac oni cheir yn eu holl gelloedd dylodi, newynau, truenusrwydd, a chyrlafan, ag sydd yn chwythu i fyny y fflam angherddol erbyn y dydd dial, pan nas gallant ddyoddef yn hwy. Beth a arwydda yr holl *factions* anghydfodol, a'r holl Siartiaeth ag sydd yn hau hadau marwol yn ngwythienau cyfundruethau gwladol ein teyrnas? Os na foddlonir etto, cymmerer taith i ororau yr Iwerddon, a syller arnynt hwy, a darlener yn eu hwynebaw arwyddion eu hamseroedd, ac yna gwaedded eu bugeiliaid hwy a ninnau, "heddwch, heddwch," yn hwy, os caniatu cywilydd iddynt! Deffrowch, chwi Saint, o gwag y byd, ac nac yfwech o'u phiol hwynt, ond coliwch mai yn mynydd Seion y bydd i chwi waredigaeth rhag yr holl bethau sydd ar y byd, er eu bod yn gwaeddi "heddwch" o hyd.

CLWYF Y PYTATWS.

MAE y newyddiadurwn yn addef yn gyffredinol fod y clwyf hwn yn waeth yn mhob man bron nag o'r blaen, er ei fod yn ddiweddarach yn gwneuthur ei ymddangosiad mewn rhai manau. Mae doethion a naturiaethwyr y gwledydd wedi chwilio i'w holl gelloedd dychymmygol am yr achos o'r clwyf hwn, yn nghyda'r feddyginiaeth oreu rhagddo. Ond hyd yn hyn mae y naill a'r llall mor ofer ag yw dychymygion dynol yn gyffredin gyda phethau dwyfol, neu y pethau ag y mae i ddwyfoldeb a wnelo â hwynt yn uniongyrchol, naill ai yn blaau, yn

farfau, neu yn fendithion, ac yn gyffelyb i esboniadau croeshaeriadol y duwinyddion ar air Duw, a chrefydd Crist, heb ei Ysbyrd ef. Er hyny, yr hyn a benderfynodd a wna efe yn ei bryd ac yn ei ffordd ei hun, a phwy a'i luddias?

Y CHOLERA MORBUS.

Bu yr haint hwn yn ffangell ddinystriol ar draws ein byd er's rhai blynyddau yn ol; ac ymddengys oddiwrth y newyddiaduron o'r gwledydd dwyreiniol fod yr ysgubell hon yn dod o'r newydd etto fel i ysgubo lluoedd o blant dynion i fyd yr ysbyrdoedd, parod neu heidio. Yr oedd yn cynnyddu yn Berlin, yn ol y newyddion sydd o'n blaen, ac yn lladd mor ddychrynllyd, nes yr oedd cyfartalech y marwolaethau yno yn bedwar o bob pump. Yn Constantinople y mae o hanner cant i driugain yn marw yn ddyddiol. Mewn rhai o drefydd Groeg ysgubwyd ymaith y hummed ran o'r trigolion ganddi. Yn yr Aist, torai y geri farwol hon allan yn mhliŷ *caravans* y marsiadwyr a ddaethent i Cairo gyda'u nwysfau o bell o ffordd. Yr oedd yn y flair tua 300,000 o bobl. Taffodd hyn y cyfan i'r fath ddyryswch, nes y chwalaŷ y bobl bob ffordd, rhag cael eu goddiweddŷ ganddi; ond er y cwbl, lladdodd 2900 o honynt mewn tridiau; a'r gweddill a'i cludasant hi gyda hwynt ffordd yr elent, nes lleadaenu o honi yn arswydus dros y wlad. Mewn un dref, yr oedd 300 yn marw mewn un dydd o honi. Yn Alexandria, mewn oddeutu tair wythnos, lladdodd 3229 o bobl. Dywedir ei bod yn ddinystriol iawn yn Trebisond a Smyrna. Ac y mae y pla anaele hwn wedi ymwithio, o'r diwedd, i Scotland, ac i Loegr hefyd. Nid ydym wedi clywed ei bod hyd yma, yn Nghyfaru. Mae bob dydd rai ugeiniau yn cael eu taro ganddo, a thros eu hanner yn meirw, yn Llundain, Hull, Birmingham, Edinburgh, Glasgow, &c. Gorphena ei orchwyl dinystriol ar rai mewn naw, a deuddeg, a deunaw, o oriau; ceidw ereill yn y boen ddardynol dros ddeuddydd; a gedy bob un a allo wella o'i gafael, yn egwan a thruan dros ben. Nid oes genym ni ddim i'w ddywedyd, ond mai dyma yr hyn oed di'w ddysgwyl, mai dyma yr hyn a ddadguddiwyd o'r blaen i weision Duw, ac mai dyma swm ein rhybudd dros amryw fisocdd, bellach.

Hyn a obeithiwn, y parotia cynnifer o'r Saint ag a allont, i ddiane o Gymru eyn hyny, i'r man lle y gwyddant fod gwaredigaeth i'w chael, ac y bydd i'r rhai na allant fyned yn awr, rodio yn weddus a difrych-elydd gerbron Duw, a gofalu am fod y deilwng o'a breintiau eglwysig, fel pan y delo y pla hwn, neu ryw bla arall, y gallo Duw gyflwyno hendithion iddynt gogyfer a'u hanghen, drwy ordinhadau ei Fab yn ei eglwys. O Saint, gwyliwch, canys nesáu y mae y dyddiau blin, yn y rhai y dywed eich erlidwyr, "darfu am dapom," a phwy a saif yn nydd mawr ei ddigter ef? Y sawl a gadwo ei orchymynion ef yn gwir, ac a sengo ei draed ar fynydd Seion, gwyn ei fyd ef hyd byth. Chwi Saint ydych yn deall arwyddion yr amserau, ac am hyny dyrch-efwch eich penau po fwyaf a welwch o honynt, canys y mae eich hym-warded chwi yn agosáu, ebe eich Brenin.

HENFFYCH CALIFORNIA.

[*I'w chom gan y Cymru wrth hwylio allan.*]

Pan fo'r haint yn medi'r gwledydd—
Medi dyn fel gwellt y maes;
Pan fo chwa ei afach awel
Yn diffaethio'r ddaear las,
California,
Draw i'r moroedd maeth, i mi.

Pan fo'r cleddyf awchus, gloyw
Yn yndrochi yn y gwaed;
Ie, gwaed—cynnes-waed dynion,
Yn y brwydrau gwaethaf gaed;
California—
Hwnt i'r creiglyd fryniau'r af.

Pan fa'n disgyn had yr hauwr,
Dan briddellau'r maes yn syth
Pan ddysgwyllo'r hauwr hwnw
Fedi—ond heb fedd byth;
California—
Eden byd yw'r wlad i mi.

Yno ceir y cnwd toreithiog;
Yno ceir y sffwythau per;
Diwedd Gauaf mellidith Eden;
Dechreu Haf bendithio! Ner;
California—
Dyna ben paradwys byd.

Yno ceir ynghyd y degwm;
A sylfaenu'r deml fawr;
Yno ceir eirgwych' gyssegru,
Gyda'r Ion pan ddel yr awr:
California—

Ti fydd Ganaan newydd byd.

Chwithau brodyr sydd yn aros,
Brysiwch ddyfod ar ein hol;
Cofiwch, byddwn yn eich dysgwyl
Gyda thwm hiraethus gôl;
California—

Cenwch nes dod iddi i gyd.

Doed y llestr hwyliawg anwyl,
Doed y brodyr ar ei bwrdd;
Ffarwel iti, fydd y fellidith,
Tithau'r awel, chwyth i ffwrdd;
California—

Din ond California mwy.

HYNT YR EGLWYSI, A'R BEDYDDIADAU.

DYWRNVD mawr genym yw clywed trwy gyfrwng llythyrâu a dderbyniadom o amryw ganghenau o'r eglwys drwy y Deheubarth, am lwyddiant yr efengyl, yr undeb a'r chariad brawdol ag sydd rhwng y Saint yn ddiethriad braidd. Diolchwn i'r Duw grasu a bia y gwaith am ddylanwad ei Ysbryd Glân a'i ddoniau i'w blant.

Merthyr.—Mae undeb diethriad yn y cyngor hwn, ac yn y ganghen luosog hon hefyd. Nid ydym wedi deall yn iawn nifer y bedyddiadau yn y mis diweddar, ond gwyddom fod yno gynnydd parhaus, a gwrandawriad lluosog.

Aberdare.—Hysbysa yr henuriad Howells 'nâ drwy lythyr, ei fod ef wedi bedyddio 56 hyd Awst 23ain, er nad oes braidd naw mis er pan ymunodd efe ag eglwys Dduw. Dyweda fod yn Aberdare yn awr ganghen fioduog iawn, fod yr hen addoldy wedi myneb yn rhy fychan, a'u bod wedi cael un mwy o lawer, ac yn bwr cysurus. Dywed hefyd fod yr holl Saint mewn undeb a chariad; a'u bod hwy yno wedi bedyddio 31 er y Gymmanfa, 22 o ba rai a feddydiwyd ganddo ef ei hun; ac y mae amryw ereill yn addaw ufyddhau yn fuan. Maent yn mwynhau y doniau ysbrydol yn wresog iawn yno; ac, wrth gwers, mae y bleiddiaid sectyddol yn chwyrnu, ac yn rhincian dannedd, pan yn colli eu deiliaid gonest eu calon mor gyflym. Ac efallai y ceisiant rhyw "Barch. Roberts o Rymny," neu ryw Barchedig humanol arall yno i yru ychwaneg o'u haelodau at y Saint cyn hir. Gobeithwn y gwnant, a goreu po cyntaf, meddwn ni, os agorant gymmaint ar lygaid y bobl i ganfod eir trwyll eu hanain ag a-ddarfu Mr. Roberts.

Pont Yates.—Ysgrifena henuriad H. Williams fod yno 18 wedi eu bedyddio er y Gymmanfa, bod undeb a chariad yn mhllith y Saint, ac amryw ereill wedi addaw ufyddhau ya fuan. Mae o'i gymmydegion craffus, medd efe, rai ag ydynt yn bendenfynol i ymfudo gyda'r Saint, ac yu canfod ardderchogrwydd yr ymagasgliad cyn deall egwyddowion cyntaf yr efengyl. Wrth y cyfryw, ac wrth bawb o garwyr y gwir ag sydd yn ewyllsio gwasanaethu Duw ya ol y goleuni sydd ynddynt, dywedwn, Deu-wch oll i Seion, a chwydhw i dderbyniwch waredigethau tynhorol rhag barnau dinystriol Duw; ac os nad allwch gydsynied â'r Saint yn mhob peth, deu-wch; ond oedid y goleuir eich dealltwriaeth, a chwi a gewch ynddynt galonau brodyr, ac ynddygiadau brodyr hefyd ya mhob peth, tu yma a thu-draw i foroedd, canys myned y maent i'r fam lle y mae cyfiawnder yn cartrefu.

Ysgrifena yr henuriad W. Menshaw fod cynnadledd Sir Henffordd yn fioduog iawn, ac yn cynnyddu yn barhaus mewn duwioldeb, grausau, a rhifedi, a bod gallu Duw yn cael ei amlygu yn eidd plith.

Yr oedd yn dda genym glywed trwy lythyr oddiwrth yr henuriad W. Morgans, Merthyr, fod yr henuriad Thomas Giles, Nantyglo, yn hwn a gafodd y fath anffawd yn y gwaith glo yn ddiweddar, nes ya oedd wedi cael tŷi amryw o fân esgyrn ei ben, ac wedi ei glwyfo mor drwm, fel yr oedd ei fywyd mewn perygl mawr yn ngolwg y cyffredin o'i gydnabod,—ei fod, drwy allu Duw, a'i fôndith ar ei ordnhadau, wedi gwella gymmaint, nes yr oedd yn alluog i bregethu yn selog a nerthol i dorf sawr o bobl, yn Neuadd y Cymreigyddion, y Sul cyntaf o Fêd. Diolchwn i'r Arglwydd am ei ddaioni mawr, a pharhawn i weddio yn ffyddiog bydoni bydd y brawd Giles yn hollol iach.

HYSBYSIADAU.

CYMMANFA SIR FYNWY.

CYNNELIR y Gymmanfa uchod yn NANTYGLO, ar ddydd Sul, Tachwedd 5ed, pryd y dysgwylir i lywyddion y gwahanol ganghenau fod yno yn eu cynnrychioli, ac yn dwyn hysbysiad o sefyllfaoedd a rhifedi eu gwahadol ganghenau.

AT LYWYDDION Y CANGHENAU.

HYDERWEN yr edrycha llywyddion yr holl ganghenau drwy Gymru am ymddwyn yn ol cynghorion y llywydd Pratt yn ei anerchiad yn y Rhifyn hwn o'r PROPHWYD yn mhob peth; ac os bydd rhywbeth yn ymddangos yn annealladwy o barthed i'r ymfudiad, gofynwr i ni drwy lythyr, os yn mhell, ac ymdrechwn foddloni y gofynwr.

Hefyd, adgoffawn llywyddion y canghenau i fod yn effro a ffyddlon i gario yn mlaen y cynllun a wnaeth pwyllgor Morganwg er i'r Saint gael llyfrau yn yr amser dyfodol, canys y mae yr amser yn nesau yn gyflym iawn.

CYMMANFA MANCHESTER.—*Yr oeddym wedi addaw cyhoeddi cryn-odeb o hanes y gymmanfa uchod yn y rhifyn hwn; ond y mae mithder Annerchiad y Llywydd Pratt yn ei gau allan o'r rhifyn hwn etto. Caiff ein darllenwyr y pleser a'r budd o ddarllen ar-aeth y Llywydd Pratt yn Manchester yn y nesaf, yr hon sydd yn gaffawn o ddiliau mel iddynt. Y cynnydd drwy fedyddiadau er y Gymmanfa Aenorgl, yw 8467. Cyfawrif, 17902.*

CYNNWYSIAD.

Y Sestariad yn credu gwythiau	145	Arwyddion yr Amserau	154
Annerchiad y llywydd Pratt at y Saint yn Mhrydain	146	Ciwyf y Pytatws	156
Cynghorion i Ymfudwyr	151	Y Cholera Morbus	157
I rwystru trais a gediab	154	Benfych California	158
Rhododwch es tpd i'r amddifaid, &c.	154	Hynt yr Eglwysl	159
		Hysbysladau	160

MERTHYR-TYDFIL :

CYHOEDDWYD AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH-HEFYD GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL.

ARGRAFFWYD GAN JOHN JONES, RHYDYBONT.

PROPHWYD Y JUBILI,

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 29.]

TACHWEDD, 1848.

[PRIS 2g.]

DARLITH YR APOSTOL O. PRATT YN NGHYMMANFA MANCHESTER.

“Dring rhagot, yr efengyles Seion, i fynydd uchel; dyrchafa dy lef trwy nerth, O efengyles Jerusalem: dyrchafa, nac ofna; dywed wrth ddinasoedd Judah, Wele sich Duw chwi.”—*ESAY XL, 9.*

MAE y geiriau uchod, yn mhlith ereill, yn perthyn i'r dygwyddiadau rhyfedd a gymmerant le ychydig o flaen dyfodiad ein Harglwydd, yr hwn ddyfodiad a grwbwylla yr adnodau canlynol:—“Wele yr Arglwydd Dduw a ddaw yn erbyn y cadarn, a'i fraich a lywodraetha drosto: wele ei wobr gydag ef, a'i waith o'i flaen. Fel bugail y portha efe ei braidd; â'i fraich y casgl ei wyn, ac a'u dwg yn ei fynwes, ac a goledda y mamogiaid.” Cawn ddostranu y gwahanol bynciau a gynnwysir yn ein testun dan dri o benau cyffredinol, neu gwestiynau.

I. Pwy oedd y bobl hyn i fod ag a enwai y prophwyd yn “Seion.”

II. Pa natur yw y newyddion da hyn a gyhoeddir gan Seion?

III. Paham y gorchymynir i Seion fyned “i fynydd uchel?”

Nid oes genym amser, mewn cymmanfa fel hon, i drin y gwahanol bynciau hyn yn helaeth iawn; o ganlyniad ni wnawn sylwi ond ar ryw bethau neill-duol ag sydd yn perthyn iddynt.

I. Pwy oedd y bobl hyn i fod ag a enwai y prophwyd yn “Seion.”—Pobl oeddynt ag a gyfodai yr Arglwydd i fyny ei hunan, ychydig cyn y “daw gyda llaw gadarn” i deyrnasu. Dywed Dafydd (yn Salm eii), “Pan adeilado yr Arglwydd Seion, y gwelir ef yn ei ogoniant.” Nis gall y Seion a ddesgrifia yr ymadroddion hyn fod yn meddwl y Seion hono ag oedd yn bodoli yr amser hwnw yn Jerusalem, ond Seion ag oedd i gael ei hadeiladu mewn amser dyfodol. Nis gallai fod yn cyfeirio at yr eglwys a sefydlwyd dan weinyddiad yr apostolion cyntefig; canys yr Arglwydd “ni welwyd yn ei ogoniant” yn teyrnasu â llaw gadarn yn yr amser hwnw. Nis gallai fod yn dâl perthynas ag unrhyw bobl a fodolent yn yspaid y ddwy ganrif ar bymtheg ddiweddaf: o herwydd, yn ol eu tystiolaethau hwy eu hunain, ni ddarfu i'r Arglwydd lefaru yn y tymmor hwnw, ac o ganlyniad ni alwodd efe y rhai hyn yn Seion. Ni ddarfu iddo ychwaith adeiladu unrhyw ddinas yn eu plith a elwid yn Seion; o herwydd pe gwnaethai, buasai yn sicr o ymddangos yn ei ogoniant. Ond, fel gwaith parotôawl erbyn ei ddyfodiad gogoneddus, y mae pobl a dinas a elwir Seion i gael eu cyfodi i fyny. *Yn awr* mae y bobl yn bodoli. Mae y ddinas i'w hadeiladu etto ganddynt, yn ol y cynllun a rydd yr Arglwydd trwy ddadguddiadau adnewyddol. Mae “Saint y Dyddiau Diweddaf”—y “*pur o galon*”—wedi eu cydnabod eisoes gan yr Arglwydd yn “Seion” (Ath. a Chyf.,

tud. 243). Ni fydd achos fod cenedloedd y ddaear yn anhysbys pa bryd yr adeilada yr Arglwydd Seion; canys fe fydd pob trigfa yn Seion â rhywbeth yn perthyn iddi ag na welwyd erioed yn un o ddinasoedd y cenedloedd. Y mae Esay yn dweyd, "A'r Arglwydd a grea ar bob trigfa o fynydd Seion, ac ar ei gymmanfaoedd, gwmwl a mwg y dydd, a llewyrch tân fflamlyd y nos." Gwna yr ychwanegiad neillduol hwn wahaniaethu rhwng trigfanau Seion â phob dinasoedd ereill. Nid ydym yn meddwl y gellir ffugio yr ychwanegiad hwn yn hawdd. Bydd yn beth newydd mewn saerniaeth, ag a fydd yn sicr o ddyrysu doethion Babilon. Aiff goleuni agerdd llewyrchiadau dyfeisiol yn hytrach allan o ffasiwn yn y dyddiau hyny, yn neillduol yn Seion. Pan y bydd i wyr mawrion y ddaear gael allan nad allant brynu na lledrata y *patent* am oleuo eu dinasoedd yn y modd hyn, mae yn ddiammau y teimlant yn lled awyddus i ymfudo. I'r perwyl yna y dywedai Esay, "Cenedloedd hefyd a rodiant at dy oleuni, a breninoedd at ddyscleirdeb dy gyfodiad." Ond rhai o'r breninoedd a ddychrynant yn enbyd pan y deuant yn agos at y ddinas, a chanfod fflam o dân uwchben pob trigfan. Deallant na fydd dinas o'r fath ardderchogrydd yn artrefe iddynt hwy, a bydd iddynt frysio ymaith mor fuan ag y bydd yn bosibl. Y mae Dafydd yn disgrifio hyn yn hyfryd yn y 48ain Salm; fe ddywed, "Mawr yw yr Arglwydd, a thra moliannus, yn ninas ein Duw ni, yn ei fynydd santaidd. Tegwch bro, a llawenydd yr holl ddaear, yw mynydd Seion, yr ystlysau y gogledd, dinas y brenin mawr. Duw yn ei phalasaau a adwaenir yn amddiffynfa. Canys wele y breninoedd a ymgynnullasant, aethant heibio yn nghyd. Hwy a welsant, felly y rhyfeddasant; brawychasant, ac aethant ymaith ar ffrwst. Dychryn a ddaeth arnynt yno, a dolur, megys gwraig yn esgor." Ymddengys, ynte, yr adeilada Duw ddinas cyn yr ymddengys yn ei ogoniant, yr hon a darawa ddychryn yn ddisymmwth i galonau breninoedd, pan yr ymgynnullant i'w gweled. Bydd ganddynt rywbeth arall i feddwl yn ei gylch yr amser hwnw, heblaw catecismau, credôau, ac athrawiaethau dynion anysbrodoledig. Eu Duw dychymmygol, "heb gorff, rhanau, na theimladau," a anghofir dros ychydig, pan y byddant yn edrych ar ogoniant rhyfeddol Seion. Un felly yw y ddinas, a rhai o'r fath hyny yw y bobl, y rhai a eilw Esay yn ein testun yn Seion, ac at y cyfryw y mae efe yn cyfeirio ei genadwri brophwydoliaethol.

II. Pa natur yw y "*newyddion da*" hyny a gyhoeddir gan y bobl hyny a elwir yn Seion? Mae yn ddiaddadl mai yr "*efengyl dragywyddol*" oedd i wneuthur i fyny y rhan benaf o'r genadwri hon o "*newyddion da*." Nid allai Duw gyfodi pobl i fyny a elwid Seion, heb adferu i'r ddaear yr efengyl a ddesgrifia Ioan yn ei brophwydoliaeth. Gwnai yr *efengyl* yna, wedi ei hadferu, ddwyn yr un bendithion i fysg plant Seion ag a feddiannid yn yr amser gynt, megys gweledigaethau, breuddwydion, dadguddiadau newyddion, prophwydoliaethau, gwelliadau, ac, yn fyr, yr holl ddoniau gwyrthiol addawedig i'r credinwyr. Yn awr, buasai hyn yn wir yn "*newyddion da*" i'r cenedloedd, y rhai am lawer o ganrifoedd oeddynt wedi bod yn amddifad o fendithion felly. Efengyl yn cynnwys newyddion felly, nis gallai fod yn fwy na llai nâ'r "*efengyl dragywyddol*," byny yw, efengyl anghyfnewidiol a'r un peth yn barhaus, yn dwyn yn mhob oes, ac yn mblith pob cenedl, yn yr ffrwythau, yr un bendithion, yr un doniau a galluoedd gwyrthiol, pryd bynag a lle bynag y pregethir hi gan y rhai hyny a ddanfônir gan Dduw, ac y derbynir ac yr ufyddheir iddi trwy ffydd. Ni phregethwyd efengyl felly gan un yn meddu awdurdod, yn y byd dwyreiniol hwn, yn ystod y ddwy ganrif ar bymtheg ddiweddar, nes yr adferwyd hi yn ddiweddar gan angel o'r nefoedd. Ond yn awr y mae yn cael ei phregethu mewn awdurdod a gallu am y tro diweddar, a'r rhai hyny sydd yn ei derbyn yw plant Seion, ac y maent yn ymgasglu allan wrth y miloedd o blith y cenedloedd, fel y gallant yn amser penodol Duw adeiladu dinas Seion, yn ol y prophwydi. Y bobl hyn, gan hyny, yw y bobl ag sydd yn dwyn "*newyddion da*" i'r cenedloedd. Ni ddadguddiwyd erioed newyddion gwel

i ddyd, nag a gynnwysir yn y genadwri bresennol. O, chwi breswylyddion yr ynysoedd Prydeinig, gorfoleddwch, o herwydd y mae Seion wedi danfon atoch "newyddion da" o lawenydd mawr. Y mae wedi danfon atoch genadon hedd, yn meddu y sêl fawr o awdurdod oddiwrth ei Brenin. Os bydd i chwi wrandaw ar eu llais, a derbyn eu newyddion da, fe gewch eich gwneuthur yn anwyliaid y Brenin, ac i gynnorthwyo adeiladu dinas arderchog iddo, ac efe a ddaw ac a drig yn eich mys, a chewch fyned mewn ac allan yn ei bresennoldeb, a'i ogoniant a fydd arnoch chwi ac ar eich plant, ac ar eich cynulleidfaoedd, ac ar bob trigfa yn eich dinas, yr hon a elwir yn "*berffeithrowydd hysfrydwch*," a bydd i'r Brenin mawr ei hanrhydeddu â'i bresennoldeb. Llawenyched tlodion yr ynysoedd yn y newyddion, o herwydd y mae dydd eu hymwared wrth law; canys hwy a gesglir i Seion, ac a flodewant yn nyffrynoedd breision Ephraim. Llawenyched y cyfoethogion hefyd, o herwydd cânt y fraind o ddwyn eu haur a'u harian gyda hwynt i addurno trigfa enw Arglwydd y lloedd—mynydd Seion. Gorfoledded breninoedd y ddaear, o herwydd cânt ddyfod i oleuni Seion, a'u dysgu mewn cyfundraeth berffaith o lywodraeth; canys fe â cyfraith berffaith allan o Seion, trwy yr hon y gall breninoedd a chenedloedd lawer ddyysgu doethineb. Gorfoledded holl drigolion y byd, canys y mae gwledd o basgedigion breision yn cael ei pharotî, a'r holl rai a ddeuant iddi, a gânt gyfranogi o honi yn rhad. Wele, yr ydym yn cyhoeddi "*newyddion da*" i genedloedd a theyrnasoedd, pobloedd ac ieithoedd, fod gogoniant parotîawl ail ddyfodiad ein Harglwydd ar gael ei amlygu. Gwynfyd y rhai hyny a gymmerant olew yn eu lampau ac a gasglant allan o fvsig y cenedloedd—o fvsig Babilon fawr, ac a ânt allan i gyfarfod â'r Priodfab—i'r lle apwyntiedig, ac yno i adeiladu iddo ddinas a chyssegr, fel y gwnelir lle i'w draed yn ogoneddus; o herwydd, cofiwch, ni ddaw y Priodfab hyd nes y bydd iddo "*adeiladu Seion*." Gwynfyd y rhai hyny a dderbyniant y newyddion da hyny, ac a ymdrechant â'u holl galon i adeiladu Seion, o herwydd hwy a lenwir â dawn a gallu yr Ysbryd Glân, ac a wnant wyrthiau, arwyddion, a rhyfeddodau yn enw Arglwydd Dduw Israel, ac a dderbyniant eu hetifeddiaeth yn mhlith rhai galluog Seion. Mae Seion yn awr yn swnio ei "*newyddion da*" yn nghlustiau y genedlaeth bresennol.

(*I'w orphen yn y nesaf.*)

IACHAD Y MUD A'R BYDDAR TRWY ALLU DUW!

DYWEDODD y prophwyd Esay (pen xxix) o barthed i'r mawr a'r dyeithr waith a wnelai Duw yn y dyddiau diweddaf, y defnyddiai Duw rhyw "*LYFR SELIEDIG*" yn gyfrwng cyflwynol i ddyd annysgedig, yr hwn a ddynodai ddechreuad y chwyldroad dwyfol a gwyrthiol hwn, ac y gwnelai Duw wyrthiau mor fawr nes y byddai "*i'r BYDDAR GLYWED GEIRIAU Y LLYFR*." Yr hanes yn canlynol a rodde un enghraifft ychwanegol o gyflawniad y brophwydoliaeth hon, ac a brofa mai *Llyfr Mormon* yw'r llyfr cyfeiriedig, o herwydd mai trwy ufydd-dod i orchymynion Duw, yn oly Llyfr hwnw, y daeth y byddar hwn i'w glywed. Gwrthwynebir tystiolaeth y Saint am wyrthiau Duw, o herwydd eu bod yn dygwydd yn mhell, meddant hwy; eithr y mae genym yr argylchiad hwn yn ein plith ni, y Cymry, o leiaf; ac o'n rhan ni, y mae y dyn cyfeiriedig wrth ein hochr pan yn ysgrifenu y llinellau hyn, ac y mae efe, nid yn unig yn darllen, ond yn clywed darllen geiriau y Llyfr seliedig hwnw, ac mewn oedran fel y gallo ateb drosto ei hun. Daeth Golygydd y *Merlin* ato yn bersonol i ymfyn yr hanes hwn, a chymmerodd ef gydag ef i'w Swyddfa.

"DYGWYDDIAD NEILLDUOL.—Nos Wener wythnos i'r diweddaf (yr 22ain o Fedi) rhwng un-ar-ddeg a deuddeg o'r gloch, cymmerodd dygwyddiad hynod iawn le yn Nghasnewydd. Yr oedd dyn ieuanc o'r enw Reuben Brinknow, yn 1840, yn Bermuda, ar fwrdd y *Terror*, Môr-raglaw Franklin, ar y fordaith

egleddol; a phan yn nghanol ystorom o fellt a tharanau, cafodd ei amddifadu yn ddisymmwth o'i glyw a'i lafar; ac yn y sefyllfa druenus hon dychwelodd i Stroud yn Lloegr, o'r hwn le yr oedd yn frodor. Wedi hynny y mae wedi bod yn byw gyda Mr. Nash, gwneuthurwr basgedi, Heol-y-Farchnad, yn Nghasnewydd, yr hwn ynghyd a llawer ereill sydd yn perthyn i gymdeithas o fobl a elwir yn "Formoniaid." Y mae rhai o'r bobl hynny wedi bod yn alluog i egluro eu hathrawiaethau i Brinkworth, trwy gyfrwng ysgrifenu, arwyddion, ac egwyddor y bysedd. Dywedent fod ei sefyllfa druenus yn eu gwneyd yn deimladwy dros ei sefyllfa ysbrydol yn gystal â thymmorol; a darfu i'w hathrawiaethau wneuthur cryn effaith arno—efallai, yn fwy neillduol, o herwydd fod eu crediniaeth y fath ag oedd yn dal allan fod Duw yn gwneuthur gwyrthiau yn y dyddiau gynt, ac y gallai un gael ei gwneuthur arno ef. Nos Wener wythnos i'r diweddaf, cafodd y dyn ieuanc ei gymmeryd gan ryw fath o lewyg, yn yr hon y bu am ryw amser; ac ar ol dyfod ato ei hun, galwyd arno, trwy arwydd, i gredu yn yr Iachawdwr, fel y gallai gallu gwellhâol Duw gael ei gyfranu iddo. Yn mhellach, ceisiwyd yn daer ganddo i ufyddhau i'r ordinhad o fedydd; ond gwrthwynebwyd hyn yn egniol gan ryw berson yn yr ystafell. Beth bynag, dangosodd y dyn mud a byddar ei gydsyniad—cymmerwyd ef i'r eamlawdd (*canal*), a beddyddwyd ef yn enw ein Hiachawdwr; ac yn y fan wrth ddyfod i fyny o'r dwfr, bloeddiodd allan, "Diolch i'r Arglwydd, gallaf lefaru a chlywed etto yn gystal ag un o honoch chwi!" Y mae yn awr yn medru siarad yn rhwydd, a chlywed yn dda. Priodolir y dygwyddiad hwn i allu Rhagluniaeth gan gyfeillion y dyn ieuanc, y rhai alwasant gydag ef yn ein swyddfa, aca roddasant i ni yr hanes. Yr ydym wedi clywed o le arall i'r cyfnewidiad hynod hwn ar y dyn ieuanc gael ei achosi gan weithrediad yr *electric fluid* arno ar amser y mellt a'r taranau nos Lun. Ni fydd i ni gymmeryd arnom i benderfynu y mater."—*Merlin*.

Llawer sydd wedi bod o waeddi ar ol y Saint am wyrthiau, ac am roddi iddynt gymmaint ag un arwydd, megys y byddar yn dod i glywed, neu y mud i lefaru, &c., gan addaw y credent ddwyfoldeb eu cenadwri yn y fan; pared yr uchod i'r cyfryw adnabod eu hunain yn well, er na'n siomir ni drwy eu bod hwy yn gwadu gallu Duw yn y peth; canys dysgodd profion chwerw ni lawer gwaith cyn hyn, mai felly y gwneleant, er gwaethaf eu llygaid a'u clustiau eu hunain; yr hyn a brofa nad argyhoeddi dynion i gredu yr efengyl oedd, nac yw, dyben gwyrthiau: a phaham gofyn am danynt i'r dyben hynny o hyd, ynte? Teilynga y Golygydd uchod y cymmeriad o ddyn rhydd a diragfarn, yn fwy o lawer nag a wna nemawr un o olygyddion Sectyddol Cymru a'r a wyddom etto. Teilynga y Rabbiniaid a'r Reverendiaid cryn glod gan yr eilau addolwyr, ffrwythlondeb eu dychymmygion a'u cywreinerwydd digyffelyb yn ceisio yspellio Duw o'r clod am y wyrth hon, gan ddewis yn hytrach roi y clod i'r mellt a'r taranau. Rhyfedd na fasant mor ddichelgar â gwadu y peth yn hollol, megys ag y gwnaethant â llawer o bethau cyffelyb! Mellten â'i iachaodd, aie? Wel, mellen rhyfedd o wyrthiol oedd hono, i ddygwydd dod ac adferyd y dyn yn y fan ar ol cael ei fedyddio gan y Saint! Paham na ddaethai yn gynt? Paham nad arosasai yn hwy? Paham dygwydd dod yn y fan ar ol iddo ufyddhau, am yr unig waith yn ei oes hyd hynny i ddefod ddwyfol. Addawa Mab Duw iachâu y cleiion drwy ei ordinhadau, ac yr y'm ni a miloedd ereill yn dystion o'i eirwiredd; eithr cyfaddefa y gwadwyr gwyrthiau hyn, trwy haeru mai y mellt a'i hiachâodd, y peth uchod yn wyrth ddigyffelyb; a pho mwyaf y gwadant y gwrth o honi yn y ffordd yna, mwyaf gwyrthiol yr ymddangosa. Pwy a glywodd son am fellten mor ddaionus, mor gymwynasgar a gwyrthiol â hono, o'r blaen? Eithr y mae un hynod-rwydd arall etto a berthyna i'r fellten yna, ac yn rhyfeddach etto, sef ddarfod iddi adferyd y claf mor dwyadl, ac yntau heb ei gweled, ebe efe; ac ni welodd neb arall fellten, na chlywed taran yno, ar y pryd, a'r a glyw som, nac o hynny hyd yn awr, a'r a wyddom. Cafed Duw y clod gan y Saint, ac ufyddhaer i'w efengyl.

LLYTHYR AR YR UN ACHOS.

ANWYI. FRAWD JONES.—Yr wyf yn cymmeryd yr hamdden i ysgrifenu atoch pa fodd y mae gwaith Duw yn llwyddo yn y lle yma, a pha fodd y mae gweddiâu y Saint yn cael eu hateb. Yr oedd dyn ieuanc o'r enw Reuben Brinkworth, ar fwrdd llong a elwid *Terror*, pan yn ynys Bermuda, a chafodd ei daraw yn fud a byddar mewn ystorom o felt a tharanau, tra y cafodd pump ereill eu lladd. Darfu iddo ef barhau felly hyd nes y cyfarfu â'r Saint yn y dref hon. Cafodd y Brawd Nash gyflusdra i ddangos iddo o'r yagrythyrau fod y Duw a addola y Saint yn Dduw y gwyrthiau, ac y gallai Efe drugarhau wrtho yntau. Dymunodd y dyn ieuanc, trwy gyfrwng ei fysedd, ar i'r Saint weddio drosto. Ar nos Wener, yr 22ain o Fedi, darfu i'r Saint weddio yn ol ei ddymuniad; a chymmerodd ei arwain gan y Brawd Nash i'r dwfr, lle y bedyddiwyd ef yn enw yr Arglwydd Iesu Grist, er maddeuant pechodau. Mor fuan ag y daeth i fyny o'r dwfr, dywedodd yn uchel, "Diolch i'r Arglwydd, yr wyf yn medru siarad a chlywed etto gystal â neb o honoch." Y mae'r Saint yma yn llawenhau o herwydd fod gallu Duw i'w weled mor amlwg yn eu plith. Dywedai llawer yn y lle yn flaenorol i hyny y byddai iddynt gredu, os deuai y dyn ieuanc i lefaru a chlywed; eithr dyweda y pregethwyr cyflogedig yn a'r na chredant hwy, os na wneir cyfodi y meirw. Llawer sydd yn rhyfeddu am y peth hyn, pan y clywant y mudan yn llefaru mor rhwydd yn eu clywedigaeth. Y mae meddyg cyfrifol yn y dref yn priodoli y cyfan i weithrediad ffydd, ac nid wyf fi yn methu cydweled ag ef. Bedyddir rhai yma bob wythnos, a llawer o'r bedyddiedigion wedi bod amryw flynyddau gan enwadau ereill. Nos Fawrth ddiweddaf, bedyddiwyd dau gadben llong, a dranoeth clywid hwy yn llawenhau ac yn tystiolaethu wrth eu cyfeillion morwrol. Bedyddiwyd pump dydd Gwener a dau dydd Sadwrn. Yr oedd yma gynulleidfa liosog iawn ar y Sabboth, ac ychwaneg yn ymofyn eu bedyddio. Y mae yma lawer o ddigllonrwydd yn cael ei ddangos tuag atom; er hyny, yn blaen y mae gwaith Duw yn myned. Yr oedd yn dda genyf glywed eich bod cystal. Bydded i Dduw eich bendithio â nerth ac iechyd i lanw eich swydd.

Yr eiddoch yn y gwirionedd,

Casnewydd, Hyd. 9, 1848.

WILLIAM HENSHAW.

CYNGHORION I YMFUDWYR I CALIFORNIA.

Mewn atebiad i'r mynych a'r amrywiol gwestiynau a ofynir i ni o barthed i'r darpariadau a'r draul ymfudol, os na foddlonir yr ymofynwyr yn y sylwadau canlynol, gofynent etto.

Yn y lle cyntaf, o barthed i'r ddarpariaeth am luniaeth gogyfer â'r fordaith, dywedwn fod y llywodraeth wladol yn gorfodi pob perchen llong i gario ar fwrdd y llong, y gwahanol ymborth a nodasom eisoes yn ein sylwadau blaenorol ar y mater hwn, yn y rhifyn diweddaf o'r PROPHWYD; sef o gwbl fod cyfartalwch o ran maeth, i bwys o fara gael ei gyfranu i bob ymfudydd dros flwydd oed bob dydd o'r fordaith, heblaw deg pwys o gig moch yr un am y fordaith, yr hyn ymborth a fydd yn gynnwysedig yn mhris y cludiad, sef yr hyn oedd, yn y llong ddiweddaf, yn £3 12s. 6c. i bob un oedd dros 14 mlwydd oed. Yn mhellach sylwn, na fydd y ddarpariaeth uchod yn ddigonol efallai i bawb, a'r gweddiâu a ddewisio yr ymfudwyr brynu sydd at eu dewisiad, o ran defnydd ac helaethrwydd. Y daffen a ganlyn a feddyliwn yn ddigonol i bob un, yn ychwanegol at ddarpariaeth y llong; ac felly gwela pob un yn ei gartref, nid yn unig y gost ychwanegol a fydd arno am luniaeth, ond hefyd pa un ai goreu fydd i'r rhai ag sydd yn feddiannol ar y cyfryw bethau gartref, ai eu casio gyda hwy, ynte eu prynu am y prisiau canlynol yn Llynlleifiad:—

YMBORTH.

	£	s.	c.
10 pwys o fara caled i bob un a fydd dros 14 oed, yn ol 3c. y pwys	0	2	6
2 pwys o Rice, yn ol 3c. y pwys	0	0	6
4 pwys o Siwgr, yn ol 3½c. y pwys	0	1	2
½ pwys o Dê, yn ol 2a. y pwys	0	0	6
2 pwys o Goffi, yn ol 6c. y pwys	0	1	0
4 pwys o Driagl, yn ol 2½c. y pwys	0	0	10
4 pwys o Raisins, neu Gurrants, yn ol 4½c. y pwys ...	0	1	6
3 pwys o Ymenyn, yn ol 1s. y pwys	0	3	0
3 pwys o Gaws, yn ol 8c. y pwys.....	0	2	0

£0 13 0

Craffer mai ychwanegiad at bris y cludiad a fydd hyn. Gwelir fod y prisiau uchod lawer yn is nag y gwerthir y cyfryw bethau yn y masgnachdai; yr achos o hyny yw, y fantais a ganiatêir i ymfudwyr wrth brynu swm mawr gyda eu gilydd o'r Custom House, heb drethi arnynt, o herwydd y bwriedir ei ddefnyddio ar y môr. I'r sawl a allant barotoi bara ceirch, ymenyn da o'u heiddo eu hunain, caws, *preserves*, *pickles*, neu bethau ereill a chwennychant, bydd yn dda iawn iddynt gymmeryd y cyfryw gyda hwynt o gartref. Mae y llywodraeth wladol yn gofalu ar fod pob ymborth a ddarperir gan y llong yn dda a blasus; pwysir allan bob wythnos i bob pen-teulu yr hyn a deilynga am y cyfamser, iddo ef a'i deulu, ac felly gallant ei ddefnyddio fel a'r pryd ag y dewisant eu hunain. I'r sawl a fedda blant o dan 14 mlwydd oed, dichon na bydd eisieu darparu ar eu cyfer hwy yr ychwanegiad uchod, gan y bydd darpariaeth y llong yn ddigonol, a'u cost hwythau yn llai o hyny. Dibyna ar bob un ddarparu ei ymborth ei hun hefyd ar hyd y ffordd i Lynlleifiad, ac yno hyd oni chychwyna y llong i'w mordaith.

GWISGOEDD DARPARIADOL.

Nid y'm yn cyngori y Saint i brynu rhyw lawer iawn o ddefnydd dilladau yma, yn fwy nag a barha iddynt am oddeutu dwy neu dair blynedd, i fod yn glud a chysurus; canys ennilliant fwy nâ'r gwahaniaeth prisiau yn y llog a ennilliant oddiar yr arian a warient am danynt; tra o'r ochr arall y gorwedda i cyfryw nwyddau yn adfeiliedig a diles yn eu hymyl. Tra y rhybyddiwn rhag eithafion ar yr ochr yna, cymbellwn bawb o'r ochr arall i ddarparu, hyd ag y gallant, ddilladau parhaus, clyd, a defnyddiol, yn enwedig darparer yn helaeth gogyfer â dilladau isaf, dillad gwlanen dywyll, yn neillduol i'r plant a'r benywod; canys ni ellir cael dwfr croyw i olchi dillad ar y môr. Darparer cyfartalwch o ddillad trwm ac ysgafn, neu ddillad haf a gauaf, megys y darperir i hinsawdd y wlad hon yn gyffredinol. Pe byddai gan yr holl fenywod a'u merched wisg o'r stwff cartref, neu y gwnau gwlanen Cymreig, fel a wisgir yn sir Gaerfyrddin, &c., ystyrir hyny yn werthfawr erbyn cyrhaedd pen y daith: pe gallai y gwrrywod gael pâr neu ddau o wisgoedd, heblaw sydd ganddynt yn gyffredin yma, byddai hyny yn llawnder iddynt i gychwyn, yn enwedig o ddillad uchaf; ond am ddillad isaf, goreu oll pa fwyaf o gyfartalwch, canys pwnc mawr yn nghredo y Saint yw glanweithdra, cysur a boddlonrwydd. Er y byddwn yn teimlo gwahanol hinsawdd yn ystod y daith, etto ni bydd y rhan flaenaf o honi yn rhy dwymn i wisgo gwisgoedd gauaf y wlad hon; a'r gweddill o'r dilladau, sef rhai y tywydd twymn, cyngorem bawb i gael cistau o ddêl o'r maintioli canlynol, os prynir rhai newydd, sef 3 troedfedd a 3 modfedd o hyd, tua 18 neu 20 modfedd o led, a dwfn, a rhoddi eu dillad yn sych a threfnus ynddynt, fel na byddo eisieu eu hagog am: hir amser, yn enwedig ar y môr, canys niweidia awel a dwfr y môr ddillad yn fawr, er eu gwigo yn awel arall wed'yn. Heblaw hyny, bydd cistau o'r maintioli uchod yn hwylusach nâ rhai mwy, i'w symud ol a blaen, ac wedi eu llanw â'r dillad

gweddill, gellir eu rhoi o'r ffordd yn y llong, a bydd ychwaneg o le i'r personau. Gwneled pawb yn ol y cynghor hwn cyn cychwyn o dref, onide cânt anhwylysdod ar y ffordd, os bydd pob dilladau blith draphlith yn gymyagedig drwy eu holl gistau. Gwisger y plant yn glud ac iachus, rhag llefain mwy na mwy o honynt gan anwyd nac un anghysur arall. Cymmered y sawl a feddant welyau plyf y cyfryw gyda hwynt, h.y., cynnifer ag a fydd eisieu at eu gwasanaeth ar y daith. Sylwer fod i bawb ddarparu eu gwelyau a dillad gwelyau iddynt eu hunain ar y llong, a phob lle arall; ac felly gofaler am ddigonedd o wrthbanau a dilladau gwelyau ereill, i fod yn gysurus. Nid yw y llong yn darparu ond prenau gwelyau yn unig, sef y lle i roi y gwelyau arnynt.

LLESTRI, CELFI, &c. DARPARIADOL.

Digon da fyddai i'r ymfudwyr fyned gyda hwy â chyfartalwch da gogyfer â gwasanaeth eu teulu wedi cyrhaedd adref, o'r pethau canlynol ag a fo ganddynt wrth law, sef plâts, cyllill, ffyracs, llwyau, llestri têt (*china*, os mynant), a'r pethau ereill a feddylia y benywod yn ofynol er eu cysur, canys ystyriwn eu cysur hwy fel, ie, yn fwy nâ'r eiddom ein hun; a gobeithiwn eu gwelod wedi cyrhaedd adref. Gallant eu cludo dros y môr, mewn cymmedroldeb, yn ddigost,—h.y., at eu gwasanaeth eu hunain; eithr os ystyria swyddwyr y llywodraeth lle y tiriwn yr ochr draw eu bod yn bwriadu gwerthu dim o'r cyfryw bethau, cyfodiant dreth arnynt, yr hyn efallai a'u gwnant yn ddrutach nag eu prynid yn Saint Louis. Eithr am y cyfryw bethau at wasanaeth, anaml y codant dreth yno. Gan na fydd eisieu y cyfryw lestri at wasanaeth gyffredin ar y fordaith, goreu fyddai eu rhoi i gadw yn ddiogel yn mhllith y dilladau gweddill rhag eu dryllio. Ni chynghorem neb i fyned â chelfi pwysfawr, nac yn wir nemawr ddim o ddodrefn ty, ond a nodwyd; ac ni chynghorem y gwahanol gelfyddyd-wyr i fyned â rhyw lawer o'u harfau cyffredin gyda hwynt, canys ond odid na chânt rai newyddion, gwell a rhatach, yn St. Louis. Am lestri tin at wasanaeth ar y daith, ceir hwynt yn Llynlleifiad yn oreu wrth gychwyn.

Y FFORDD YR ELIR, Y PELLDER, A'R GOST DYBIOL.

Yr ydym wedi bod yn siarad eisoes â chadben yr agerlong "Troubadour," am gymmeryd y cwmpeini cyntaf o ymfudwyr o Abertawy i Llynlleifiad; ac addawodd y boneddwr tirion hwnw wneyd pob darpariaeth er llesâd a chysur i'r mudolion, a'u cario yn llawer rhatach na chyffredin. Hysbyswn yr amser etto yn fanylach; eithr efallai nad ellir paratoi yr holl gwmpeini cyn diwedd Ionawr neu ddechreu mis Chwefror. Wedi cyrhaedd Llynlleifiad, eir i fwrdd y llong, yr hon a fydd wedi ei pharatoi gan y Llywydd O. Pratt, a'n hysbysu, fel y gellir bod yno dridiau neu bedwar cyn dydd ei hwyliad, a dyna yr amser y gwelir doethineb a gwerthfawrogrwydd y rhan hono o'r "*Mormon creed*," sef "pob un ei fusnes ei hun," rhag i'r *sharpers* a'r bleiddiaid eu cipio hwy a'u meddiannau, dan wenu yn eu gwynebau; eithr hyderwn y bydd praidd Cymru yn adnabod llais eu bugail yn rhy dda i gamsynied ysgrechiad blaidd yn ei le. O Llynlleifiad, amser cyffredinol mordaith i New Orleans yw o chwech i saith wythnos; y rhan fwyaf o'r daith, ar ol ymadael â chyffiniau y deyrnas hon, yn dymherus, a'r awelon yn hyfryd, a'r rhan fynychaf rhy fach o honynt. Yn New Orleans, ceir agerfadau mawrion, ar y tymmor hwnw o'r flwyddyn, i ddod i ymyl y llong, a chymmeryd yr holl orymdaith a'u nwyddau ar unwaith, mewn tua phum neu chwech diwrnod, ac am oddeutu deg swllt yr un, i fyny yr afon Mississippi fawreddig, am dros un cant ar ddeg o filltiroedd i ddinas fawr St. Louis. Yno ceir agerfad arall i'w cymmeryd hwy a'u nwyddau i fyny yr afon Missouri i Council Bluffs, tua wyth neu naw cant o filltiroedd, mewn

tuag wythnos, ac am oddeutu punt yr un. Bydd raid i bawb ddarparu llun-iaeth iddynt eu hunain ar hyd y rhan hon o'r daith, heblaw y prisiau a nodwyd; ac yn fyr, o hyd y ffordd o'r llong i ben eu taith, gofala pawb am eu hymborth ar eu cost eu hunain. Etto, bydd undeb a chariad anarferol y Saint yn fanteisiol iawn iddynt i brynu pob peth gofynol wrth y swmiau mawr; ac felly, daw pob peth a raid brynu, yn enwedig y *cludiad* ar hyd yr afonydd, yn llawer rhatach i bob un.

Wedi cyrhaedd Council Bluffs, byddis allan o gyffiniau gorllewinol Babilon, yn mhlith trefedigaethau yn cynnwys miloedd o Saint ymfudol i Ddinas y Llyn Halen, y rhai a wnant i'r anialwch flodeuo fel y rhosyn, ac a ymbarotöant yno gogyfer â'r gweddill o'r daith; felly yr orymdaith Gymreig a orphwysant yn Council Bluffs tra yn darparu pedrolfeni, lluniaeth, ac yn prynu anifeiliaid idd eu tynu yn y blaen; efallai y cymmer hyn rai wythnosau o amser cyn y bydd yr holl orymdaith yn barod i gyd-gychwyn, heblaw fod yn fwy na thebyg i chwech punt; yn mhellach i'r dwyrain oddiyno, ceir hwy yn rhatach, o herwydd fod y Saint eisoes wedi bod yn prynu cymmaint yn y cylchoedd hyn. Ni allwn gyfrif y gost o Council Bluffs yn mlaen i'n hoddlonrwydd, crystal ag oddiyno yn ol; eithr yr amcianaeth oreu a allwn wneyd yw yr hyn a ganlyn. Pe bai wyth o bersonau yn cyduno i brynu wagen, un iau o ychain, a phedair o wartheg, yr hyn a'u cludai hwy a'u dillad a'u bwyd yn gysurus, nid ydym yn meddwl y byddai eu cost yn fwy na £3 10s. neu £4 yr un, a byddai y wagen a'r anifeiliaid yn eiddo iddynt wed'yn. Y rhai sydd ganddynt deulu o bedwar, pump, neu chwech o blant, anghenrheidiol i'r cyfryw gael wagen iddynt eu hunain; eithr am deuluoedd o ddau neu dri o blant, gall dau deulu o'r cyfryw gyduno i brynu un wagen rhyngddynt, a rhanu y gost. Y pellder o Council Bluffs i Ddinas y Llyn Halen a ystyrir tua mil o filltiroedd, a cheir digon o helwriaeth ar y daith at gynnal:acth. Yr ychydig gynghorion hyn a ystyriwn yn ddiagon am y tro hwn ar y pethau uchod, a dymunwn ur bawb ag a allant welèd eu ffordd yn agored o'u blaen, i anfon i ni eu henwau, ac oedran pob un, a'r baband hefyd, mor gynted ag y bo modd. Cofiw'n mai amser casglu a diwrnod nithio yw y dyddiau hyn, fod galwad ar blant Seion i ddod allan o Babilon, rhag iddynt dderbyn o'i phlaau; a diau y tristâ pob un Ysbryd Duw a'r a esgeuluso ei ddyledswydd i ymfudo, pan yr agoro Duw ei ffordd, ac y darparo ei amgylchiadau i hyny. Gwyddom am rai ar y tir hwn a ddechreasant wywo, fel gwraig Lot gynt, nes iddynt fyned cyn hyn yn brenau crin, gan ddysgwyl cael eu casglu i'r tân.

Mae pob newyddion diweddar o California yn gysurus iawn. Hysbysa yr Apostol W. Woodruff ni drwy lythyr yn ddiweddar, fod dros 900 o wageni llwythog o Saint wedi gadael Council Bluffs, tua Dinas y Llyn Halen, yn ystod mis Mehefin diweddar, a lluoedd ereill yn darparu i'w dilyn. Mae pob cynyddau wedi cynnyrchu yn y dyffryn tu hwnt i bob dysgwyliaidau; mwynha y Saint yn gyffredinol well iechyd yno, nag yn un man arall lle y buont. Profa y dyfroedd meddyginiaethol ag sydd yn y ffynnonau yno yn fendith amhrisiadwy i'r cleifion hyd yn hyn, a gwynfyd pe gwelëm holl gleifion blant Duw o Gymru yn llamu o lawenydd ar eu glantau.

Mae ysbryd yr ymgasgliad wedi ymafelyd yn rymus yn y Saint yn Nghymru, a thrwy y byd, a da genym ddeall hyny. Mor drwyadl y gwirir geiriau Esay, pan y dywed, "Yn y dydd hwnw," nid yn unig "y rhai byddar a glywant eiriau y llyfr," eithr yn eglur etto dywed,—“A'r rhai llariaidd a chwanegant lawenyachu yn yr Arglwydd; a'r dynion tlodion a ymhryfydau yn Sant Israel.” Pa *hyfrydwch* mwy a allai tlodion llariaidd Cymru chwennycha

yn y bywyd hwn, na chael modd i ymfudo i wlad lle y mae, ac y bydd llawnder iddynt hwy, a'u hil ar eu hol, hyd genedlaethau y ddaear. Wel, y cyfryw ddarpariaeth sydd eisoes yn eu baros yn Seion, dim ond myned yno i'w mwynhau. Ac er cysur i'r Saint tlodion, hysbyswn fod genym ni ddigon o ffydd i gredu, nad faint fydd eu tlodi hwy, "y bydd i'r Hwn a ddechreuodd ynddynt y gwaith da hwn ei orphen," drwy ddarparu eu ffordd a dwyn modd i'w dwylaw yn gyferbyniol i'w ffyddlondeb, fel mai y ffordd rwyddaf i'r oll gyrhaedd adref, y w drwy lanw y cylch ag y maent ynddo yn bresennol. Eithr ni feddwn ni ddigon o ffydd i gredu y gadawa Duw i dlodi un o'i Saut ffyddlawn ei amddifadu o'r waredigaeth fendithiol hon. Ac oni "lawenychant yu yr Arglwydd" pryd hyny, nad faint eu tlodi blaenorol? Dysgwylw ni weled etto genedl o Gymry llariaidd, a chedyrn lu o ddewrion o foncyff Gomer yu preswyllo yn ddedwydd ac heddychol yn nghanolion y cyfandir gorllewinol, ac oll yn ufydd ddeiliaid nefol ddeddfau. Dysgwylw weled y tlodion yn eu cerbydau heirdd ar hyd lleoedd uchel y ddaear, yn mwynhan o'i llawnder eu gwala. A chlust-ymwrandawm cyn hir i glywed y mynyddoedd a'r brynau yn adleisio pêr-ganiadau gorfoledd plant Seion; a buan weithian dysgwylw weled breninoedd a breninesau yn hwyluso y mawr a'r rhyfedd waith hwn i ben. Gwynfyd y neb a'i gwnelo â holl egni, oblegid gwaith hwnw a crys yn glodfawr i'w enw drwy ei genedlaethau, tra y bo gwaith holl oreuon ereill y byd megys gwellt, soff, a chlai.

PETH ARALL A DEILYNGA SYLW YR HOLL SAINT!

Dymunem i'r Saint gofio, yn enwedig y cyfryw ag sydd yn bwriadu myned tua Seion, mai lle yw hwnw ag "y mae CYFIAWNDER yn cartrefu;" ac o ganlyniad, gweithredwyr cyfiawnder a ddylai plant Seion fod, hyd ag y gallant, hyd y nod tra mewn caethiwed yn Babilon. Ni chaniatâ cyfreithiau Seion i neb o'i phlant wneyd anghyfiawnder â neb o'r Babiloniaid; ac hyd ag y gwyddom ni, ni chydysniwn i neb a fyddant yn nyled neb o'r hyd, yn gyfiaw i ymfudo heb naill ai eu talu, eu boddloni, neu gael eu maddeuant, neu ryw fodd arall i weithredu cyfiawnder tuag atynt. Rhybyddiwyd y Saint o hyn o'r blaen, a choffawn eu meddyliau puraidd etto, fel yr ymdrechont i ymyrddhau yr oll a allant o'r caethiwed bliu hwn, erbyn y delo y gwahoddiad cysurus i'w galw adref. Ein hawydd am lesâd a rhyddhad y Saint, yn gystal ag am ogoniant Seion, a'n cymbella i alw sylw y Saint yn fynych at y mater pwysig hwn. Gwir yw tod y cyflogau yn isel, a'r amser yn ddrwg; etto, ni bu amser mor ddrwg erioed a'r nad ellid dangos egwyddor gyfiawn, drwy wneyd yr hyn a ellir; ac wed'yn pe gellid talu ond ceiniog o'r hen ddyled a grewyd pan yn un o'r Babiloniaid, byddai hyny yn dangos ceiniogwerth o gyfiawnder, ac felly po fwyaf hyd ag y galler; ac yna bydded ffydd i hōni bendith y Duw cyfiawn ar bob ymdrech gyfiawn i wneyd cyfiawnder, a diau y llwyddir.

CRAFFED POB UN O'R YMFUDWYR BLAENAF!

Yn ol arferion pawb ag sydd yn trosglwyddo ymfudwyr dros y môr, dysgwylia y Llywydd Pratt ar i bob un ddanfôn punt o arian ei gludiad yn mlaen, cyn y lloga efe long, yr hyn a sicrha i bob un gludiad yn y llong, ar ei waith yn dod yno mewn pryd erbyn yr amser yr hysbysir, drwy dalu y gweddill o bris ei gludiad yn unol â'r hyn a nodwyd uchod; ac o ganlyniad, dysgwylw ninnau, er arbed traul, colled, a chost, y gwna pob un, neu ryw un drostynt, ddwyn y bunt gyfeiriedig gyda hwynt i'r GYMMANFA NESAF a gynnelir yu Merthyr, yr hon a gymmer le ar y DYDD SUL DIWEDDAF O'R FLWYDDYN HON; ac yna, os galla y Llywydd Pratt fod yma y pryd hyny, fel ag yr addawodd, caiff yr oll gyda eu gilydd; neu os na all ddod yma, gellir eu trosglwyddo hwynt iddo, ac felly caiff yntau well mantais i logi llong yn rhatach, drwy gael ychwaneg o amser i dewis llong, na phe bai ond cymmeryd yr hon a fyddai yno ar y pryd, ac felly daw y cludiad yn rhatach i hawb. Sylwer na sicrheir lle yn y llong i neb, ond i'r rhai a wnelo yn ol y drefn hon.

DARGANFYDDIAD O GLODDFA MWN AUR YN CALIFORNIA!

"Y N LLE PRES Y DYGAF AUR."—Hysbysir ni drwy lythyr, dyddiedig San Francisco, California, Mehefin 1, 1848, yr hwn sydd yn gyhoeddedig yn y "New York Morning Herald," Medi 27, am ddarganfyddiad hynod o fwn aur, yn y geiriau canlynol:—"Mae y parthau hyn o Galifornia mewn cyffroad anarferol (a buan y bydd y deheubarth dan ddylanwad y cyffelyb gyffroad), o herwydd y darganfyddiad o'r Placera, neu wlad yr aur, a gafwyd ar hyd glanau cangenau afon Sacramento. Mae tair rhan o bedair o'r tai yn nhref San Francisco wedi eu gadael yn wag; hyd y nod y cyfreithwyr a gwasant eu llyfrau, ac a ymfudasant ar frys, a rhaw yn y naill law a phadell bren yn y llaw arall, i ymgyfoethogi trwy olchi allan aur o reian afon Sacramento. Gwasanaeth-ddynion a wrthodant y mawr bris o hanner cant o ddollars y mis am aros yn hwy yn eu gwasanaeth blaenorol. Cododd cyflogau clerkiad i fil o ddollars blyneddol. Seiri coed, gofiaid, a chelfyddydwr ereill, a weithient gynt am dri dollar y dydd, yn awr a wrthodant ddeg dollar; ychydig iawn o'r cyfryw sydd yn ngweddill yn y dref, pa rai ydynt nos a dydd yn gwneuthur ceibiau, rhawiau, ac arfau pwrpasol i hela yr aur, ac ennilliant wrth hyny tuag ugain dollar y dydd. Gwna un gof o ddeg i bymtheg o geibiau y dydd, y rhai a wertha am chwe dollar yr un. Am rawiau Lloegr, ceir deg dollar yr un. Nid oes yn awr yn y dref un rhaw newydd ar werth, nac un llestr tin na choed ag a fyddai yn ddefnyddiol i'r dyben uchod. Bydd bád bedwar diwrnod yn myned oddiyma i Sutter's Fort, gerllaw y lle y mae yr aur; ac y mae pris y cludid wedi codi o bedwar i ddeuddeg dollar i bob un. Llestri gwasanaethyddol i'r perwyl hwn ag a geir yn Nghaerefrog Newydd am bump neu chwe cheiniog, a gostiant yma yn awr tua phunt."

Dywenydd mawr genym hysbysu i'r Saint Cymreig, mai eu brodyr Mormonaidd a ddarganfyddasant y mwn-glawdd euraidd crybwylledig. Yr orymdaith hono a gychwynasant o Gaerefrog Newydd, o dan lywyddiaeth Hen. S. Brannan yw unig frodorion y wlad hono. Ceir yr aur yn ddarnau, o ran maintioli gronynau, hyd wns o bwysau, am dros gan milltir o wlad. Casgla un person tuag £20 y dydd.

Y DYN DALL A'I LYFR.

ANWYL FRAWD JONES,—Dymunaf arnoch roddi yr hanes gwirioneddol a ganlyn, drwy gyfrwng eich PROPHWYD, ger gwydd y cyhoedd. Gan fod dynion celwyddog yn ymdrechu drwgliwio ein crefydd, trwy eu bod yn myned ar hyd y wlad, ac hefyd y Gweithfâau, a gwerthu y llyfryn hwnw a elwir "*Y Drych Cywir*," yr hwn lyfrsydd wedi cael ei ail-argraffu; a dywed y rhai sydd yn ei werthu nad yw ei awdr wedi marw etto! sef Daniel Jones (Ddall), yr hyn sydd yn gulwydd hollol ddisail. Y mae yn beth rhyfedd fod dynion a luniwyd ar ddelw y geirwir Dduw yn ymollwng i ddylanwadau tad y celwydd gymmaint, ag i haeru ei fod (Daniel Jones) etto yn fyw. Os ydyw yn fyw, mae yn rhaid ei fod wedi cael rhan yn yr adgytodiad cyntaf. Pa le y mae, fel y ceir ei weled? canys byddai hyny yn wyrth fawr yn ddiau, fel y gallo y rhai sydd yn byw yma tua glan Teifi ei weled, y rhai oedd yn ei adwaen mor dda, ac yn ei glywed yn canu baledi yn y ffeiriau, a'r rhai hefyd a fu yn cario ei gorff i orwedd i fynwent Llanllwni. Pe gwir fod Daniel Jones (Ddall) yn awr yn fyw, byddai yn rhaid i gannoedd o ddynion tua Llanybydder a Llanllwni, a'r plwyfi nesaf, i gredu fod gwyrthiau yn awr yn cael eu cyflawni, neu wadu mai nid Daniel ydyw.

Gan fod celwyddau yn cael eu taenu tua'r Gweithfâau, &c., sef fod Daniel yn fyw, dyna yr achos fy mod yn ysgrifenu yr hanes hwn, ac hefyd ychydig o'i hanes cyn ei farwolaeth.

Cafodd ei fedyddio a'i dderbyn yn aelod yn Llanybydder, ar y 7fed o Orphenaf, 1846. Bu yn y cwrdd gyda ni y nos Iau a'r Sul canlynol, a thyna yr oll a fu yn ein cyfarfodydd. Yn fuan wed'yn aeth i'n herlid ar hyd y gynmydogaeth; ond ni lwyddodd ffordd hyn yn ei enllib, o herwydd adwaenent ef yma yn dda. Darfu i ni fedyddio amryw yn y misoedd canlynol i hyny.

Yn yr Hydref canlynol, daeth Capt. D. Jones y ffordd hyn; aeth ef a minnau tua chymmydogaeth Brechfa i bregethu; ac wrth ddechwyd yn ol tua Llanybydder, cyfarfuasom â Daniel Jones (Ddall) yn y mynydd, yn myned tua ffair Brechfa. Bu Capt. D. Jones yn ei holi, pa fodd yr oedd wedi myned yn fath erlidiwr i'r Saint? Ni roddodd Daniel un rheswm mewn atebiad, ond arwyddodd yn ddigon amlwg ei fod yn elyn i'r Saint. Dywedodd Capt. D. Jones wrtho, os y buasai yn erlid ac yn camgyhuddo y Saint, y byddai llaw Duw arno, ac y byddai ei dynged yn boethach nâ'r eiddo Cora, Dathan, ac Abiram. Dywedodd wrtho yn galed y perygl o erlid a camgyhuddo pobl yr Arglwydd. Wedi hyny y ffaith a brofodd yn amlwg mai gwir a ddywedodd Capt. Jones wrtho. Cafodd ei daro yn glaf iawn, hyd nes y teimlai ei goluddion yn cyneuo o'i tewr: yfai lawer o ddwfr oer er attal y tân tybiedig o'i fewn, ac hefyd rhuthrai allan o'r ty i ymdreiglo mewn dwfr er mwyn oeri; ond y cwbl yn ofer. Bu farw yn y cyflwr poenus hwn; er nad oeddwn i yn bresennol, clywais ei hanes. Yr ydwyf yn byw tua thair milltir o'r fan lle y bu farw. Yr ydwyf wedi bod gyda Mr. James Evans, y *Registrar*, yr hwn sydd wedi *registro* marwolaeth Daniel Jones, ac y mae ef yn foddllawn i roddi copi i bwy bynag a ewyllysio, trwy iddynt dalu 2s. 6c. a'r llythyrdoll.

Cyn terfynu rhoddaf air o gynghor i'r rhai sydd yn ein camgyhuddo ac yn ein herlid. Dyma yw; bydded iddynt i ymbwyllo, ac i ystyried eu bod yn ymladd yn erbyn y Duw da sydd yn eu cynnal; bydded iddynt edifarhau am eu holl bechodau, a chymweryd eu bedyddio gan weision Duw er maddeuant o honynt, a galw eu celwyddau yn ol mor ffyddlawn ag y buont yn eu llunio. Bydded yr hanes uchod am Daniel, druan, yn rhybydd i bawb i adael plant Duw yn llonydd.

Yr Arglwydd grasol a dosturio wrth yr holl rai gonest eu calon, trwy symud y rhwystrau o'u ffordd fel y caffont y fraint fawr o ddyfod mewn i Eglwys Iesu Grist, ac i gyd-lawenhau yn nyddanwch yr Ysbryd Glân gyda Saint y Dyddiau Diweddat, yw fy mharhaus weddi trwy Iesu Grist. Amen.

Yr eiddoch yn y gwirionedd,

Llanybydder, Hydref 24, 1848.

THOMAS JEREMY.

[Addefa rhai o'r dynion ag sydd yn gwerthu y llyfryn crybwylledig, mai y sectariaid sydd wedi talu am danynt, a'u cyfranu iddynt hwy yn rhad, yn enwedig y Bedyddwyr a'r Independiaid tua Llanybydder. Boed rhyngddynt hwy a'u bradwyr am y cyhuddiad, a bydded rhyngddynt hwy a'r Duw mawr ag y gwingant yn erbyn ei efengyl, am y gwaith yageler hwn. Cyhoeddason draethawd bach o'r enw "*Haman yn hongian ar ei Grogbren ei hun*," er ys talm, yn yr hwn y gwelir twyll a chelwyddau y truan dall hwnw; ac amlwg yw fod y crefyddwyr duwiolfrydig hyn a gefnogant y fath enllib a chelwyddau, yn caru ac yn gwneuthur, yn cyhoeddi ac yn lleadaenu, yr un celwyddau, er dallu llygaid eu cyd-ddynion rhag iddynt ganfod dyscleirdeb gogoniant efengyl Iesu Grist. Meddylid y buasai tad y celwydd ei hun yn cywilyddio dweyd yr hyn a gynnwysa y llyfryn cyfeiriedig; megys, dyn dall yn dywedyd, fel y gwelir yn y dudalen olaf,—"*Pan aethum i chwilio yn fanwl (ebe'r dall) yr ysgrythrau beunydd, fel y Bereaid gynt, canfyddais yn eglur [ebe dyn hollol ddall!]*" mai twyll oedd gan y Seintiau." Pwy a gredai ddim a ddywedai y fath ddynged, oddieithr ei fod yn caru celwydd o'i galon, ac yn casáu y gwirionedd; felly rhaid fod y rhai a gredant y llyfryn hwnw.

Llawer gwaith y gwaedda dynion gwaedwyllt a rhyfygus yn ein gwyneb ni, fel ag y gwnaeth y trengedig, gan ein herio i'w felldithio, gan goffau esiampl Elymas gynt—ie, weithiau estynant allan eu dwylaw, a begiant arnom eu

melldithio. Er nad ydym ni yn honi unrhyw allu i felldithio neb, etto sicr ydym ein bod yn addoli y Duw hwnw ag sydd yn tori rhai i lawr cyn eu hamser, o herwydd eu gelyniaeth at ei blant, a chrefydd ei Fab ef Iesu Grist. Pa un ai felly yma, barned y darllenydd, a chredwn ninnau a fynom am y peth. Gobeithio y bydd tystiolaeth y gwr parchus uchod yn ddigonol i yru y llyfr crybwylledig i'r lle a deilynga, ac y delo y gwirionedd yn fwy amlwg po fwyaf y treidrar iddo.—GOL.]

Y GYNNADLEDD DDWYREINIOL GYMREIG.

CYNNALIWYD y Gynadledd uchod, yn Mhontypool, ar y dydd Iaf o Hydref. Dechreuwyd trwy ganu a gweddio, a chynnygiwyd fod yr Hen. W. Henshaw i lywyddu. Hysbysodd y llywydd ddyben eu hymgynnulliad; ac wedi hyny galwodd am ddwyn yn mlaen faterion y gwahanol gangenau. Yr oedd un gangen wedi ei hychwanegu at gynadledd Sir Fynwy. Cynnwysai y Gynadledd hon wyth henuriad, pedwar-ar-ddeg o offeiriaid, chwech o athrawon, tri o ddiaconiaid, a 176 o aelodau. Bedyddiwyd er y gynadledd flaenorol, 34. Y cyfanrif oedd 202. Galwyd y brodyr Nash, Dallen, a Bowlding i fod yn henuriaid, tri ereill i fod yn offeiriaid, un yn athraw, ac un yn ddiacôn. Penderfynwyd fod y Saint yno i gydnabod swyddi Brigham Young, y deuddeg apostol, llywydd yr Ynysoedd Prydeinig, a'r llywydd dros Gymru. Penderfynwyd hefyd i gydnabod Wm. Henshaw yn llywydd ar y Gynadledd uchod. Tystiolaethodd amryw am waith Duw, ac yn eu plith y dyn ieuanc a ddaeth mor wyrthiol i lefaru a chlywed yn y Casnewydd, wrth ddyfod i fyny o ddyfr-oedd bedydd, wedi bod flynyddau yn fud a byddar.

WILLIAM HENSHAW, *Llywydd.*
URIAH RICKETTS, *Ysgrifenydd.*

CYMMANFA MORGANWG

A GYNNELIR yn Neuadd y Cymreigyddion (*White Lion*), y dydd diweddfaf o'r Flwyddyn, a'r dydd canlynol, pryd y dysgwylir i Lywyddion yr holl Gangenau fod yn wyddfodol i gynnychioli eu cangenau, ac y gofalent ar fod yr holl Ddosparthwyr ag sydd o dan eu gofal hwy yn barod i derfynu yn hollol bob cyfrifon ag sydd ganddynt am lyfrau. Dyma y galwad olaf a allwn wneyd, a thaer erfyniwn y bydd yn *effeithiol*.

D.S.—Dysgwylir Dyeithriaid i ymweled â'r Gymmanfa.

CYNNWYSIAD.

Darlith yr Apostol Pratt yn Nghymmanfa Manchester	161	Darganfyddiad o Gloddfa Mwn Aur yn California	170
Iachâd y Mud a'r Byddar trwy allu Duw	163	Y Dyn Dall a'i Lyfr	170
Llythyr ar yr un achos	165	Y Gynadledd Ddwyreiniol Gymreig	172
Cynghorion i Ymfudwyr	165	Cymmanfa Morganwg	172

↳ Rhoddwn y bedair dudalen sy'n eisieu, yn y neaf.

MERTHYR-TYDFIL:

CYHOEDDwyd AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH HEFYD GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL.

ARGRAFFwyd GAN J. DAVIS, CAEFTYRDDIN.

PROPHWYD Y JUBILI,

NEU

SEREN Y SAINT.

RHIF. 30.]

RHAGFYR, 1848.

[PRIS 2½g.

DARLITH YR APOSTOL O. PRATT YN NGHYMMANFA MANCHESTER.

(Parhad o'r Rhifyn diweddfaf.)

III. PAHAM y gorchymynir i Seion fyned “i *fynydd uchel*?” Pahan y darfu iddo ddweyd mor neillduol, “Dos rhagot, yr efengyles Seion, i *fynydd uchel*.” Mae yn rhaid iddo weled rhyw achos o natur bwysig, pahan yr oedd yn gorchymyn i Seion fyned i *fynydd uchel*, onide ni roddai byth orchymyn ag oedd i gael ei ufyddhau yn mhen oddeutu 3000 o *fynyddoedd* wedi hyny. Y prif achos pahan y rhaid i Seion fyned “i *fynydd uchel*” yw, fel y gall adeiladu tŷ i Dduw yno, mewn cyflawniad i brophwydoliaeth. Mae Micah (pen. 4) yn dweyd, “A bydd yn *niwedd y dyddiau*, i *fynydd tŷ* yr Arglwydd fod wedi ei sicrhau yn mhen y *mynyddoedd*; ac efe a ddyrchefir goruwch y brynian; a phobloedd a ddylifant ato. A chenedloedd lawer aânt ac a ddywedant, Deuwch, ac awn i fyny i *fynydd yr Arglwydd*, ac i dŷ Dduw Jacob; ac efe a ddyg i ni ei ffyrdd, ac yn ei lwybrau y rhodiwn, canys y gyfraith a â allan o Seion, a gair yr Arglwydd o Jerusalem. Ac efe a farna rhwng pobloedd lawer, ac a gerydda genedloedd cryfion hyd yn mhell; a thorant eu cleddyfau yn aychau, a'u gwayffyn yn bladuriau; ac ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl, ac ni ddygant ryfel mwyach. Ond eisteddant bob un dan ei winwydden a than ei ffigyfren, heb neb i'w dychrynu; canys genau Arglwydd y lluoedd a'i llefarodd. Yr oedd yr holl bethau hyn i gymmeryd lle yn y DYDDIAU DIWEDDAF. Yr ydym yn gwled, ynta, y priodoldeb o fod Esay yn galw ar bobl Seion y dyddiau diweddfaf, i fyned fyny “i *fynydd uchel*.” O herwydd yno y mae “tŷ Dduw Jacob i gael ei adeiladu.” O'r *mynyddoedd* y mae Seion i ddanfôn allan ei chyfraith berffaith i ddygu doethineb i freninoedd y dddear, a ffurf berffaith o lywodraeth i'r cenedloedd pellenig. Yn nhŷ Dduw, yr hwn a fydd yn ty *mynyddoedd*, y dysgir ffyrdd yr Arglwydd i “*genedloedd lawer*,” ac yno yr arweinir hwy “i *rodio yn ei lwybrau*.” Y mae yn rhaid fod rhywbeth mewn cysylltiad â thŷ Dduw yn y *mynyddoedd* ag sydd yn dra hynod, neu ni thynai sylw cenedloedd lawer. Mae lawer o filoedd o dai wedi eu hadeiladu yn y dyddiau presennol, yn profesu eu bod yn dai i Dduw. Gwelw ugeiniau o honynt braidd yn mhob dinas trwy America ac Ewrop; ond etto nid oes dim byd neillduol yn perthyn i un o honynt. Nid oes un tŷ yn mhlith y cyfan ag sydd wedi tynu sylw gymmaint ag un genedl. Y mae rheswm da dros hyn: o herwydd y mae pob cenedl wedi bod yn gwbl amddifad o “*dy i Dduw*” dros ddau cant ar bymtheg o *fynyddoedd*. Yn wir, nid oedd tŷ Dduw i'w adeiladu eilwaith cyn y DYDDIAU DIWEDDAF; a phan oedd i gael ei adeiladu, ei le oedd i fod ar y *mynyddoedd*, ac nid mewn cynnifer o gannoedd a leodd yn mysg y cenedloedd. Nis gellir adeiladu “tŷ Dduw” heb ddad-

guddiad adnewyddol ynghylch y cynllun. Heb ddadguddiad adnewyddol ni allai Seion wybod yr amser apwyntiedig iddi fyned "i fyny i fynydd uchel," —ni allai wybod pa fynydd penodol ag oedd Duw am adeiladu ei dŷ arno. Ni adeiladwyd "tŷ Dduw" erioed, ac ni wneir byth, heb i'r bobl a'i hadeilada dderbyn gorchymynion pwrpasol neu ddadguddiadau newyddion i'r dyben. Pan y caffo tŷ Dduw ei adeiladu yn yr amser priodol, ac yn y lle priodol, ac yn ol y cynllun priodol, a chan y bobl briodol, yna arddelir ef gan Dduw Jacob— yna ei ogoniant a orphwys arno, a'i bresenoldeb a ddaw iddo. Yna yr "eistedd efe rhwng y cerubiad," ac a deyrnasa yn nghanol Seion. Yna y drygionus a gryna, a thrigolion y ddaera a gyffroir. Y pryd hyny "cenedloedd lawer" a ddywedant, Deuwch, awn i fyny i Seion, o herwydd Duw sydd yno; ei dŷ sydd yno; ei bobl sydd yno; ei gyfraith sydd yno; ei ogoniant a'i allu ydynt yno; "perffeithrwydd hyfrydwch" sydd yno; pa beth bynag sydd fawr, a da, ac ardderchog, y mae yno! Deuwch, ynte, awn i fyny, "o herwydd efe a ddyoga i ni ei ffyrdd, a ni a rodiwn yn ei lwybrau;" ac ni fydd i ni mwyach godi ein cleddyfau yn erbyn cenedloedd, ond trawn hwynt yn offerynau heddychlaw amaethyddiaeth, ac o hyn allan ni a drigwn gyda phobl Dduw. I ddwyn oddiamgylch y gwaith mawr, hynod, a rhyfeddol hwn, y gorchymynir i Seion yn y dyddiau diweddar i fyned i fyny "i fynydd uchel." Y mae miloedd o'i meibion dewrion yn barod wedi teithio dros wastad-diroedd helaeth yr America Ogleddol, ac wedi esgyn i ben y gadwyn fawr o fynyddoedd ag sydd yn cyfansoddi, fel pe byddai asgwrn cefn y cyfandir; ac yn mblith ei chilfachau dyfnion, dirgel, ac unig, y maent wedi "ceisio" allan breswylfa i blant Israel. Yn ngwanwyn 1847, wyth o'r Deuddeg, yn nghwmniaeth 135 ereill a adawsant Council Bluffs ar afon Missouri, fel *pioneers*, i chwilio allan y rhan dufewnol o'r cyfandir, a threio cael lle addas i'r Saint i breswyllo ynddo. Darfu i ni gymmeryd genym offerynau astronomyddol a chelfyddydol o bob math; megys un *circle of reflection*, dau *sextant*, un *quadrant*, dau *artificial horizon*, un *refracting telescope* mawr, amryw o rai llai, dau bin-ddangoysydd, amryw wres-fesuryddion, heblaw almanaciau morwriaethol, llyfrau, *maps*, &c. Darfu i ni hefyd ddyfeisio rhyw beiriant bychan, i'w osod wrth olwyn mên, trwy yr hwn yr oeddym yn medru mesur yr holl bellder, yn gystal a'r pellerau o an lle i'r llall, yn hollol gywir. Trwy gynnothwyr yr offerynau hyn, yr oeddym yn dyfod yn wybodus o hŷd a lled y lleoedd mwyaf neillduol ar ein taith, ac hefyd o'u uchder o'r môr. Y mae disgrifiadau daearyddol o'r ffrydiau, afonydd, llynoedd, gwastad-diroedd, anialwch, mynyddoedd, a'r dyffrynoedd, i'w cael yn ein teith-lyfrau. Nid oedd sylwadau ar lysiau a chreaduriaid yn cael eu hesgeuluso gan y rhai celfyddydol yn ein plith; ac yn wir, yr oedd yr holl daith yn cael ei gwneyd yn bleserus i garwyr anian. Yr oedd golygfeydd newyddion, yn sawreddog tuhwnt i ddesgrifiad, yn dyfod yn barhaus o flaen ein llygaid ymhyfyddol. Ffynnonau metelaidd, ffynnonau twymn, ffynnonau pyg metelaidd, ogofeydd, a liawer o gywrain-bethau ereill mewn natur, a geid mewn cyflawnder, yr hyn a gadwai ein cyfeillion ymchwilgar mewn llawn waith.

Tua diwedd Gorphenaf, cyrhaeddasom y dyffryn, a elwir genym ni "*Duffryn y Llyn Halen Mawr*;" yma dewiasom le i adeiladu dinas, a elwir genym ni, "*Dinas y Llyn Halen Mawr*." Yn y ddinas hon gadwasom le i adeiladu "tŷ i Dduw Jacob"—enwasom y lle yn "*TEMPLE BLOCK*." Mae lled y terfyr gogleddol, yn 40° 45' 44"; a'i hŷd yn 111° 26' 34" y dwyrain i Greenwich. Ei uchder oddiwrth y môr yw 4300 o droedfeddi. Mae y dyffryn hwn wedi ei gau i fyny braidd gan gadwyni uchel o fynyddoedd ar y tu dwyreiniol, gorllewinol, a deheuol, a chan y Llyn Halen Mawr ar y tu gogleddol. Mae dau o'r clogwyni uchelaf yn y mynyddoedd cadwynog hyn ar y tu dwyreiniol o'ddentu 1½ milltir uwchlaw gwastadedd y dyffryn, ac wedi eu gwiago gan eira osol, yr awn, trwy ddyseleirio yn yr haul, a rydd i'r olygfa y darlun o awaf tragwyddol, wedi ymbriodi mewn undeb hyfyd â thymmorau mwynnaidd, teg,

cyfnewidiol, ac adnewyddol y dyffryn islaw. Mae yr olygfa fynyddig oddiam-gylch yn ardderchog a gogoneddus. Mae argraff gallu Dwyfoldeb yn ymddangos fel wedi ei stampio mewn dystawrwydd mawreddog ar bob ael mynyddig. Gallai un feddwl fod GORUCHLLEDD ei hun wedi tori allan drigfa dragwyddol yn y mynyddoedd aruthrol hyn.

Fe ganfyddir fod sefyllfa y ddinas yn gorwedd yn yr un lledred â dinas Caerefrog Newydd. Ac y mae yn eithaf tebyg y gellir codi yr holl wahanol ŷd a firwythau, ag sydd mewn cymmaint o gyflawnder yn Nghaerefrog Newydd, yn y dyffryn hwn. Yr oedd cyfartaledd yr hin, yn mis Awst, canol dydd, oddeutu 96 o raddau (yn ol Fahrenheit), yr hwn sydd gyffelyb i fel y mae yn yr un lledred ar y goror dwyreiniol i'r cyfandir. Mae y nosweithiau yn oer ac adfywiol. Yr awelon mynyddig dynt fywnaidd, ac yn gyffredin yn newid eu cyfeiriadau gyda'r haul, nes mewn pedair awr ar hugain mwynheir awelon hyfryd ac iachus o bob pwynt o'r cwmpawd. Y gauaf sydd yn swynaidd a dymunol; y glaewellt yn parhau yn wyrdd trwy y flwyddyn. Y mae'r da, defaid, ceffylau, mulod, &c., yn pori yn mhob tymmor. Mae lladd a chynanafu gwair yn gwbl afreidiol. Bydd yn anghenrheidiol dyrhau y tir, o herwydd nad oes llawer o wlaw yn diagyn i'r dyffryn. Mae y cawodydd o wlaw, a chenllysg, ac eira, yn diagyn fynychaf ar y mynyddoedd, lle mae y niwl yn troi yn ddwfr trwy ddyfod ar draws yr eira, ac yn ymduwallt yn union ar y gelltydd a'r brynau amgylchynol; ac felly yn darlunio rhag-ddywediad Essay (pen. xxxii), yr hwn a brophwydai y byddai i adfydau Israel barhau, "hyd oni thywallter arnom yr ysbryd o'r uchelder, a bod yr anialwch yn ddoldir, a chyfrif y dol-dir yn goed-tir. Yna y trig barn yn yr anialwch, a chyfiawnder a erys yn y doldir. A gwaith cyfiawnder fydd heddchw; ie, gweithred cyfiawnder fydd llonyddwch, a diogelwch, hyd byth. A'm pobl a drig mewn preswylfa heddychlawn, ac mewn anneddau diogel, ac mewn gor-phwysfaoedd llonydd: *pan ddisgyno cenllysg ar y coed, ac y gostyngir y ddinas mewn lle isel.*" Pan fyddom yn sefyll ar safle ein dinas, ac yn codi ein golygon tua'r lleoedd uchel o'n dentu, ac yn gweled cawodydd o *genllysg* ac eira yn diagyn ar ellydd tywyll y mynyddoedd, gallwn ddweyd gyda'r hen brophwyd, fod "*y ddinas wedi ei gostwng mewn lle isel!*"—nad yw'r ystormydd o'r mynydd yn effeithio dim arni!—nad yw "*cenllysg*" y gelltydd uchel ddim yn afonyddu ei "*gorphwysfaoedd llonydd!*"

Os bu dinas erioed wedi ei *gostwng* mewn lle *isel*, pan y cymherir hi â'r mynyddoedd yn ei chymmydogaeth, "Dinas y Llyn Halen Mawr" ydyw. Neu os bu dinas erioed yn *uchel* mewn lle *uchel*, pan y cymherir hi ag arwynebedd cyffredinol y ddaear, neu ag arwynebedd y môr, Dinas y Llyn Halen ydyw. Rhwydd ddigon y gallai yr hen brophwydi lesaru ynghylch fod Seion yn myned i fyny i fynydd uchel, ac o fod tŷ Dduw Jacob yn cael ei adeiladu yn y mynyddoedd, pan y ceir allan fod y "TEMPLE BLOCK" yn 4300 o droedfeddi yn uwch nag arwynebedd y môr. Nis gellir meddwl am fynydd yr âi Seion i ben rhyw glogwyn mynyddig, ac adeiladu dinas a Theml ar ei frig eiryog. Ond mae yn ddiau y meddylia y gair *mynydd*, yn yr ymadroddion hyn, ryw ranau uchel o'r ddaear, ac etto nid mor uchel ag i gael ei ddiiffrwytho gan rew ac eira tragwyddol, o herwydd gwnai hyn ef yn anaddas i ddyn i breawlyio. Dywed Essay (yn mhen. lxii), "Wele, yr Arglwydd a gyhoeddodd hyd eithaf y ddaear, Dywedwch wrth ferch Seion, Wele dy iachawdwriaeth yn dyfod, wele ei gyflog gydag ef, a'i waith o'i flaen. Galwant hwynt hefyd yn Bobl santaidd, yn Waredigion yr Arglwydd: tithau a elwir, YR HON A GEISIWYD, *Dinas nis gwrthodwyd.*" Y mae yn ymddangos oddiwrth y crybwylliad hyn nad myned i "fyny i'r mynydd" yn unig oedd gan ferch Seion i wneuthur, ond trigo mewn lle a "geisiwyd." Gallwn ddysgu oddiwrth hyn, hefyd, nad oedd Seion y dyddiau diweddaf i gael ei hadeiladu lle y safai y Seion gyntefig, hyn yw, yn Jerusaalem, lle a fu yn dra adnabyddus am oes-oes; ond yn "*y mynydd uchel,*" mewn lle adnabyddus, ag a gai ei "*geisio*"

neu ei chwilio allan; ac yno cawsent eu galw yn "*Bobl santaisidd*,"—" *Gwaredigion yr Arglwydd*,"—" *Dinas nis gwrthodwyd*." Yr oedd hyn yn rywbeth, hefyd, ag oedd i gymmeryd lle mewn cyssylltiad â'r gwaith mawr parotoawl i ddyfodiad yr Arglwydd; o herwydd fe welir yn yr ymadrodd uchod fod "eithaf y ddaear" tua'r amser hyn i glywed yr hysbysiad am ei ddyfodiad, "a'i gyflog gydag ef, a'i waith o'i flaen." "Mor hyfryd ar y *MUNYDDORION* yw traed y rhai hyny sydd yn efengylu" "newyddion da"—ag sydd yn dywedyd wrth Seion, "Wele, mae eich Daw yn teyrnasu." Bloeddied gweision Duw wrth blant gwasgareddig Seion, gan ddywedyd, Ewch chwi "i fynydd uchel," ac adeiladwch i chwi ddinas, a thŷ i Dduw Jacob; o herwydd "efe a ddaw yn ddisymmwth i'w Deml," ac a "*deyrnasa yn mynydd Seion*, ac yn Jerusalem, ac o flaen ei henuriaid mewn goniant."

SYLWADAU AR BREGETH YNGHYLCH "SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF A DONIAU GWYRTHIOL."

AWDWR a chyhoeddwr y bregeth uchod yw y Parch. David Evans, Curad Eglwys St. Dewi, Caerfyrddin; yr hwn agafodd ei ddwyn i fyny yn *Athrofa Bresbyteraidd Caerfyrddin*, ac a fu yn bregethwr gyda'r *Independiaid*; ond wedi hyny bu yn fyfyrwr yn Ngholeg Llanbedr, ac yn awr y mae yn offeiriad cymmeradwy. Yr enw sydd wrth y bregeth yw yr unig achos fy mod i yn meddwl gwneuthur sylwadau arni. Y mae y gwaith mawr ag sydd gan Capt. Jones i ofalu am oddeutu tair mil o Saint, yn rhwystr iddo wneuthur sylwadau ar bob peth a ddichon gael ei gyhoeddi yn erbyn ein crefydd; ond ryw fodd neu gilydd, dygwydda fynychaf fod y llyfrau a gyhoeddir yn erbyn y Saint, yn neillduol pregeth Mr. Evans, wedi eu hateb ganddo yn barod mewn gwabanol lyfrau. Yn awr, pe buasai ein gwrthwynebwyr mor gall a gonest â darllen ein llyfrau cyn cyhoeddi, arbedent lawer o drafferth iddynt eu hunain ac i binnau; o herwydd gallent gael eu rhesymau hwy, ynghyd â'u hatebion ninnau, wedi eu cyhoeddi yn barod. Meddyliais wrth roddi fy chwech am y bregeth ddeg-dalen hon, fy mod yn prynu cynnyrch gwreiddiol, a hwnw yn deilwng o'r urdd offeiriadol; ond pan welais fod defnyddiau mwyaf neillduol y cynnyrch wedi bod yn mhenglog W. R. Davies, Dowlais (Bedyddiwr) a lliaws o hereticiaid ereill yn ngolwg yr Eglwys Lan, cefais fy siomi yn aruthrol.

Wedi rhag-ymadroddi gymmaint â hyna, deauf yn fwy neillduol i sylwi ar gynnwysiad y bregeth. Y testun a ddewisodd ein pregethwr a welir yn *Marc xvi, 17, 18*, sef, "A'r arwyddion hyn a ganlynant y rhai a gredant; yn fy enw i y bwriant allan gythreuliaid; ac â thafodau newyddion y llefarant; seirff a godant ymaith, ac os yfant ddim marwol, ni wna iddynt ddim niwed; ar y cleision y rhoddant eu dwylaw, a hwy a fyddant yn iach." Dyna eiriau *Iesu Grist*; a rhaid i'r nef a'r ddaear fyned heibio cyn y palla un gair o honynt. Da fyddai genyf pe gallwn ddweyd hyny am bregeth Mr. Evans: hwyrach, efallai, cyn y bydd i adolygydd annysgedig fel myfi fyned heibio iddi, a'r *Beibl* o fy mlaen, y bydd pob sill o honi wedi dianc rhag cywilydd. Dechreu a ein cyf-aill trwy ddweyd fod "llawer o gau-brophwydi yn cyfodi, gan ddywedyd am *Grist*, Wele y mae efe yn y diffaethwch—sef draw gyda'r *Mormoniaid* yn niffaethwch America; neu wele y mae efe yma yn yr ystafelloedd dirgel zyda ni, ac nid yn yr eglwys a chapeli'r wlad;" ac yn nes yn mlaen yn ei bregeth, "rhybyddia y bobl yn iaith *Crist*. 'Nac ewch' (i'r anialwch, nac i benau'r heolydd, nac i'r ystafelloedd dirgel) 'ar eu hol, ac na chredwch hwynt.'" Pa le y dygodd Mr. Evans hyn? A glywodd efe fod y Saint yn dweyd fod *Iesu Grist* yn awr yn n'fflaethwch America, neu mewn rhyw ystafelloedd dirgel yn y wlad hon? Beth, Mr. Evans? ai nid clywed a wnaethoch fod y "*Princites*," (y dynion a fu yn offeiriaid fel eich hunan, ac yn yr un coleg hefyd â chwi), yn dweyd fod *Crist* wedi dyfod, a'i fod yn awr mewn capel ganddynt hwy yn *New Charlinch*, gerllaw *Bridgewater*; yr hwn gapel a elwir ganddynt hwy yn

“Ago Pamera”? (Gwel ‘Millennial Star,’ May 15, 1848.) Nid yw y Saint yn credu fod Crist wedi dyfod i ddifaethwch, nac ystafell, nac eglwys, nac chapel, nac Ago Pamera ychwaith hyd yn hyn, ac na ddaw byth; ond credant y bydd iddo ddyfod ar gymmlau y nef, ac y bydd i bob llygad ei weled, ac na fydd dadleu wedi hyny mai i ddifaethwch neu eglwys y daw, gan y profar y peth â than ffamlyd, i’r rhai hyny “nad adwaenant Dduw, ac nid ydynt yn ufyddhau i efengyl Iesu Grist.” Nid rhyfedd i Mr. Evans ddweyd y fath ffolineb, o herwydd y mae mor anwybodus o’r Saint a’u crefydd, fel na w’yr mai yr un bobl ydynt â’r Mormoniaid, ac mai nid yr un bobl yw canlynwyr Joseph Smith yn America, a’r Seintiau yn Nghymry. Er prawf o’r anwybod-aeth hon, darlener y ddwy dudalen gyntaf o’i bregeth. Pa beth a all fod yn fwy ynyd na gweled dyn yn myned i ddangos twyll pobl a’u crefydd, heb wybod braidd dim am y naill na’r llall? Dyna beth yw dyn dall yn ceisio dangos pwy sydd yn dywyll.

Yn mhellach, dywed Mr. Evans am y Saint fel hyn:—“Y mae y dynion hyn yn ymneillduo oddiwrtho eglwys Dduw, yn gystal ag oddiwrth holl grefyddolion ereill yr oes, ac fel hyn yn fath o Anghydfurfwyr dyblyg” (tud. 4). Pa eglwys, wyddys, yw “eglwys Dduw?” Os mai Eglwys Loegr, yna eglwys y diafol yw eiddo “holl grefyddolion ereill yr oes;” ac y mae ymneillduo y Saint oddiwrth y hwy, mor bell â hyny, yn dda; o herwydd y maent yn cilio oddiwrth y drwg. Y gwirionedd yw hyn;—os yw y Saint yn ymneillduo oddiwrth grefyddau yr oes hon, nid ydynt yn ymneillduo oddiwrth grefydd Crist a’i apostolion; ond am Eglwys Loegr y mae hi wedi ymneillduo oddiwrth Eglwys Rhufain, a holl grefyddolion ereill yr oes wedi ymneillduo oddiwrth Eglwys Loegr. Yn awr, os nad Eglwys Dduw oedd Eglwys Rhufain, yna nid oedd eglwys gan Dduw cyn i Eglwys Loegr fodoli: o ganlyniad, pwy bynag a ymneillduo oddiwrth Eglwys Loegr, y mae fel yr ethnig a’r publican. Yna, os yw y Saint wedi ymneillduo oddiwrth y byd, nis gallant fod wedi ymneillduo oddiwrth eglwys Dduw hefyd. Credaf mewn byd ac eglwys, ond dim purdan. Penderfyned Mr. Evans ynte, pa un ai oddiwrth y byd neu yr Eglwys y mae’r Saint wedi ymneillduo. Etto, meddai ein pregethwr, —“Credant eu bod yn wrthddrychau neillduol o ras ac ysbryd Duw, gwedi derbyn goleuni a doethineb o’r nefoedd, na w’yr y byd yn gyffredin ddim am danynt, a bod pawb heb berthyn i’w cyfrinach hwynt yn anianol ac heb yr Ysbryd.” Mae y dysgawdwr hwn mor ddaearol â Nicodemus. Mae y “byd” yn gwybod am ei holl oleuni a’i ddoethineb ef, wrth gwrs, cyn y rhyfedda am ddywediad y Saint; ac os nad yw efe yn derbyn o’r nefoedd, nac yn gwybod lawer fwy na’r byd, y mae “yn anianol ac heb yr Ysbryd.” Er cymaint o golegau sydd yn y wlad, y mae eisieu un yn rhagor—un at ddyagu synwyr cyffredin.

Yn nhud. 6, sylwa Mr. Evans ar yr addewid yn ei destun, fel hyn:—“Y mae’r Arglwydd yn addaw yma y byddai iddo ddwyn tystiolaeth i’r efengyl trwy wyrthiau; a’r addewid hon a gyflawnodd efe yn oes gyntaf yr eglwys.” Yn awr, cyn y gallwn gredu fod yr addewid wedi ei chyflawni yr amser hwnw, y mae eisieu gwybod i ba fath ddyinion y cafodd ei rhoddi; a rhydd Iesu Grist yr ateb hwn i ni—“A’r arwyddion hyn a ganlynant y rhai a gredant?” Os ydym ni yn credu yr efengyl fel y dynion gynt, y mae’r addewid i ninnau; ac os na ohredun, a chymmerd ein bedyddio fel y rhai hyny, yna nis gallwn fod yn gadroedig ychwaith. Hefyd, os ydym ni yn credu fel y rhai gynt, ac heb yr arwyddion yn ein canlyn, y mae yn rhaid fod Crist yn gelwyddog; neu ynte, os yw Crist yn eirwir, yna y mae Mr. Evans yn gelwyddog, o herwydd y mae efe yn dweyd eu bod wedi darfod. Efallai, pe byddai i ni edrych pa beth oedd dyben yr “arwyddion i ganlyn” y credinwyr, y caem allan pa un a oes eu heisieu yn awr ai peidio. Yr ydym yn cael fod bwrw allan gythreuliaid yn un peth; ac os oedd cythreuliaid yn rhyw rwystr i efengyl Crist y pryd hwnw, y maent felly etto, os ydynt yn meddiannu dynolryw yn awr, ac y mae eisieu eu

bwrw allan, wrth gwrs. Dywed Mr. Evans ar y pen hwn yn nhud. 18, "Ni welir yn awr y gallu gwrthiol yn bwrw cythreuliaid ffyrng o *gyrf* dynion; ond y mae cythreuliaid mor greulon ac atgas yn cael eu bwrw allan o *eneidias* pechaturaid yn barhaus." Y mae *enaid* dyn yn ei gorff; ac os oes cythreuliaid yn cael eu bwrw o'r enaid, y maent wrth raid yn cael eu bwrw o'r corff: a chan fod "cythreuliaid *mor greulawn ac atgas*" yn aflonyddu dynion yn awr, y mae cymmaint o eisieu yr addewid yn bresennol ag erioed. Peth arall mewn addewid i'r credinwyr yw "*llefaru â thafodau dyeithr!*" ond beth allai fod dyben hyny, tybied? Caiff Mr. Evans ateb yn gyntaf:—"Y mae'r gallu i lefaru â thafodau dyeithr er argyhoeddi y *diffydd*" (gwel tud. 13). Ai y tafodau oedd y peth goreu gynt i argyhoeddi y *diffydd*? Os mai, paham nad tafodau fuasai y peth goreu etto? Ni allai y tafodau hyn ond argyhoeddi y *diffydd* yr amser hwnw: pa fodd yr argyhoeddir y *diffydd* yn ein hoes ni? Os oes ffordd newydd, y mae hyny yn ychwanegiad at yr ysgrifthyf. Yn awr, caiff yr ysgrifthyf ateb pa beth yw "*llefaru â thafodau*;" pwy a wŷr na chytuna y ddwy blaid. Dywedir yn 1 Cor. xiv, 2, fel hyn—"Yr hwn sydd yn llefaru â thafod dyeithr, nid wrth *ddynion* y mae yn llefaru, ond wrth *Dduw*; canys nid oes neb yn gwrandaw [*understand*]; er hyny yn yr Yabryd y mae efe yn llefaru dirgeledigaethau." Os mai mewn ieithoedd dyeithr oedd yr apostolion yn pregethu, nid wrth "*bob creadur*" yr oeddynt yn llefaru, ond wrth *Dduw*, canys nid oeddynt hwy yn eu "*deall*;" a phe buasent yn eu deall, fel y gwyr bucheddol hyny ar ddydd y Pentecost, ni wnaent gredu, mwy na'r rhai hyny, o herwydd i Dduw ddweyd, "Trwy wefusau estronol y llefaraf wrth y bobl hyn, ac ni'm gwrandawant felly" (1 Cor. xiv, 21). Hwyrach na ddywedent oll eu bod yn "*llawn o win melys*," neu "yn ynyfydu." Cawd treial teg o'r tafodau er argyhoeddi ar y Pentecost; ond ni chredodd neb yno nes i Pedr bregethu ar ol hyny yn yr iaith gyffredinol (Act. ii, 14—40). Yr un fath dafodau a lefarwyd ar y Pentecost, ag yn Ephesus (Act. xix, 6); ond yn unig fod dynion yn dygwydd bod yn bresennol yn y lle blaenaf ag oedd yn deall yr ieithoedd, a dim yn yr olaf. Dyben y tafodau dyeithr i gaalyn y *rhai a gredant*, yw er adeiladu y personau a'u defnyddiant (1 Cor. xiv, 4), a thrwy eu cyfieithu, er adeiladu yr eglwys hefyd (adn. 5). Darlener y Testament oll, a phrofer i mi nad dyna eu dyben, ac nad oes eu heisieu etto i adeiladu y credinwyr. Os profa Mr. Evans fod yr apostolion wedi bod yn pregethu yr efengyl mewn tafodau dyeithr, yna fe brofaf finnau nad oedd neb yn eu "*deall*," os nad oeddynt yn "*cyfieithu*;" neu, os gwnai rhai eu deall, na wnaent eu credu. Y mae ein cyfaill yn benben â'r ysgrifthyrau ar y pen hwn, beth bynag, nad sut y bydd ynghylch yr addewid nesaf. Yr addewid hono yw, "*Seirff a godant ymaith, ac os yfant ddim marwol, ni wna iddynt ddim niwed*." Yn awr, beth allai fod dyben codi seirff ymaith? a pha un ai pan fyddai y seirff yn ymosod ar y credinwyr, neu y credinwyr arnynt hwy, y byddai y gallu i'w gorohygu yn cael ei roddi? Os gwnawn ddarllen (yn Act. xxviii, 3—5) am y creadur gwenwynig hwnw a neidiodd allan o'r tân, ac o lynnodd wrth law Paul, cawn ateb, feddyliwn, i'r ddau gwestiwn blaenorol. Etto, mewn perthynas i yfed gwenwyn heb dderbyn niwed; pa un ai er gwaredu y credinwyr rhag cynllwynion eu gelynyon, neu er dangos arwyddion i'r byd, oedd dyben yr addewid? Pa un ai "*os yfent*" mewn anwybodaeth, yn gymmysg â'u dioddydd, neu pam yfent mewn ufydd-dod i rywun a geisiai ganddynt, oedd meddwl ein Harglwydd? Barned y darlennydd drosto ei hun. Os oedd y credinwyr i gydio mewn seirff, neu yfed gwenwyn, ar archiad rhywun, buasai dysyblion yr Iesu yn debycach i swynwyr na dim arall; a phe buasai plant Daw yn ufyddhau i blant y fall, trwy gydio mewn sarff neu yfed gwenwyn er eu mwyn, buasai yr un peth yn gymhwys â phe buasai i Iesu Grist droi y ceryg yn fara er mwyn Satan. Yn awr, gan mai parhad yr addewid sydd mewn dadl fwyaf, ac nid ei dyben, cawn glywed pa beth a ddywed rheswm. Os mai dyben pethau felly oedd er argyhoeddi y *diffydd* ynghylch yr efengyl, paham nad oes eisieu

y cyfryw yn yr oes hon, gan nad oes dim arall at hyny yn yr eglwys yn awr, nag oedd ar y cyntaf? Etto, os dadleuir mai dyben yr arwyddion gynt oedd er planu Cristionogaeth, a thrwy hyny nad oes eu heisieu yn awr; paham, ynte, gan fod Cristionogaeth mor newydd yn China a gwledydd ereill, nad oes yr un faint o eisieu arwyddion i ganlyn yno, er ei phlanu, yn y dyddiau hyn, ag oedd yn y dyddiau gynt? O'r ochr arall, os mai dyben yr arwyddion oedd llesoli ac amddiffyn y credinwyr gynt, yn ngwyneb gelyniaeth a chyfrwysdra teyrnas y tywyllwch; paham nad oes eu heisieu hefyd yn yr oes hon, i'r un dyben? Caiff y darlennydd etto farnu o du pwy y mae rheswm, a chaf finnau fyned yn y blaen at beth arall. Yr addewid olaf a roddodd ein Harglwydd i gredinwyr ei efengyl, yw a ganlyn:—"Ar y cleifion y rhoddant eu dwylaw, a hwy a fyddant iach." Y rheol oedd gan y credinwyr i weithredu wrthi, sydd i'w gwled yn Iago v, 14—16,—“A oes neb yn eich plith chwi yn glaf? galwed ato henuriaid yr eglwys; a gweddiant hwy drosto, gan ei eneinnio ef ag olew yn enw yr Arglwydd: a gweddi y ffydd a iachâ y claf, a'r Arglwydd a'i cyfyd ef i fyny [os na fydd ei amser i farw, wrth gwrs]. Cyfseawch eich camweddau bawb i'ch gilydd, a gweddiwch dros eich gilydd, fel y'ch iachauer. Llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn.” Nid wyf yn meddwl fod un meddyg yn y wlad na chyfaddefa mai addewid oedd hon er llesoli y credinwyr; canys llesoli y claf sydd ganddo ef ei hun mewn golwg wrth roddi meddyginiaeth: felly Duw, ond fod ei foddion a'i reolau ef i'r claf yn wahanol i eiddo y meddyg. Pwy a feddylia mai hoffi rhoi arwydd i'r byd oedd Duw, pan yn cyfranu iechyd i'w blant? neu fod Duw yn ewylliaio gwneyd credu yn beth rhwyddach trwy arwydd, nâ phregethu? Fe addefa pawb, etallai, os na chredir trwy *gylwed* pregethu, na chredir hefyd ddim trwy *weddi* marw wedi adgyfodi. Os felly, ynte, nid er argyhoeddi y diffydd y mae yr arwyddion, ond at lesoli y credinwyr; canys yr efengyl yw yr offeryn mwyaf effeithiol a diogel er argyhoeddi, o herwydd wrth ymddibynu ar arwyddion, gellir ein hudo gan swynwyr, &c. Os mae rhywbeth etto er sefydlu Cristionogaeth oedd yr iachâu hyn, paham na fuasai yn bod ynte yn y gwledydd lle y dywedir y sefydlir Cristionogaeth yn ein hoes ni? “Pa fodd,” fel y dywed Mr. Evans yn nhud. 7, y mae “yn bosibl i ddadymchwelyd aml-dduwiaeth a phaganiaeth y byd, trwy bregethiad y groes, heb wyrthiau?” Wel, paham na welai efe fod cymmaint o eisieu gwrthiau ac arwyddion yn awr ar y gwledydd tramor, ynghyd â llawer o anfyddiaid yn y wlad hon, ag yn y dyddiau gynt? Ond, o'r ochr arall, os mai dyben yr arwyddion oedd llesoli y credinwyr, trwy eu hiachâu, &c.; paham nad felly etto, gan fod yr un anghen? Paham na “ddichon taer weddi y cyfiawn” lwyddo gyda Duw yn yr oes hon, i gael iechyd, yn gystal â rhywbeth arall? A ellir dim cael “beth bynag” a ofynir yn enw Iesu Grist yn awr? Os gellir, mae yr arwyddion yn canlyn. Ac os methwn gael iechyd, neu rywbeth arall, holwn ein hunain pa un a oes “camweddau” neu ddiffyg ffydd yn rhwystr i hyny; ac os bydd pethau felly, cyfsewn bawb i'n gilydd, a gweddiwn dros ein gilydd; canys nid yw methiad neu ddau yn un prawf nad yw Duw yn gwrandaw ar ei blant. Cofiw'n fod yn yr eglwys gynt “lawer yn weiniaid ac yn llesg, a llawer yn huno” (1 Cor. xi, 39), o herwydd troseddiadau; ac fe ddylem ni wneyd *allowance* gyferbyn â phethau felly yn yr oes hon, cyn condemnio gweddi am fethiant neu ddau. Hefyd, dylem gadw yn ein cof am Timotheus â'i fynych wendid, a Trophimus, druan, yn glaf yn Miletum, heb un o honynt, am a wyddom ni, wedi troseddu. Mae ffyrdd Duw weithiau tu hwnt i ddeall ei blant; ac am hyny, cymmerwn ef ar ei air bob amser, gan greu y cyfiawna bob peth a fyddo er ein lles.

Yn awr, Mr. Evans, dyna fi wedi bod yn siarad llawer ynghylch yr arwyddion, ac wedi profi eu bod mewn addewid i gredinwyr efengyl Iesu Grist, ac hefyd wedi dangos fy rhesymau dros eu parhad. Bellach y mae eisieu cael gwybod pa fodd oedd yr Arglwydd yn cydweithio â'i weision, a pha un a ydyw yn cydweithio yn awr? Atebir yr olaf yn nhud. 17 o'r bregeth fel hyn:—

“Y mae yr Arglwydd etto yn gweithio trwy a chyda ei efengyl;” a dywed hefyd, ond heb un prawf, “Yn awr *troedigaeth*, ac nid *guyrthiau*, yw'r prawf arosol o'r dylanwadau dwyfol yn eglwys Crist.” Beth dâl haeriad fel yna? Mae yn well genyf fi gredu yr haeriad yn yr ysgrythyr, yn yr adnod olaf o Marc; sef, “A hwythau a aethant allan, ac a bregethasant yn mhob man, a'r Arglwydd yn *cydweithio*, ac yn cadarnhau y gair, trwy *arwyddion* y rhai oedd yn canlyn.” Ble mae y prawf o fod Duw wedi newid ei ddull o weithio? Nid yw y diffyg o'r arwyddion yn Eglwys Loegr, a chapeli'r wlad, yn brawf yn y byd; o herwydd rhaid profi yn gyntaf eu bod hwy yn grëdinwyr. Cawn sylwi ar hyn yn nes yn mlaen. Y mae Mr. Evans, yn nhud. 13, yn dyfod â phrawf ysgrythrol, yn ei dyb ef, i brofi fod yr arwyddion wedi darfod. Wrth wneuthur hyny, y mae efe, fel llawer o'i flaen, yn anwybodus, yn cyfeirio at eiriau yn yr ysgrythyr ag sydd yn profi eu parhad. Y geiriau a welir yn 1 Cor. xiii, 8, ac fel hyn y maent:—“Cariad byth ni chwmp ymaith: eithr pa un bynag ai prophwydoliaethau, hwy a ballant; ai tafodau, hwy a beidiant; ai gwybodaeth, hi a ddiiflana.” Heb ddarllen mwy nâ hyna, y mae yn brawf gweddol iawn; ond etto nid yw yn hysbysu pa bryd yr oeddynt i ddarfod. O ran dim a ddywedir i'r gwrthwyneb, gallant fod heb ddarfod etto. Ond y peth ag ef yw, y mae Mr. Evans yn ddiogel yn magl Paul: rhydedd gymmaint o adar duon mae hon yn ddala. Yn awr, y mae yr apostol yn dweyd mwy nag sydd yn yr adnod uchod: y mae'r nawfed a'r ddegfed yn egluro y mater. Dywed yno, “Canys o ran y gwyddom, ac o ran yr ydym yn prophwydo: eithr pan ddelo yr hyn sydd *berffaith*, yna [nid cyn hyny] yr hyn sydd o ran a ddileir.” Os nad yw yr hyn sydd *berffaith* wedi dod, yna mae llefaru â thafodau, prophwydo, gwybodaeth, &c., i fod yn yr eglwys. Y mae yr eglwys i fwynhau y pethau bachgenaidd—i “lefaru,” deall, a meddwl yn fachgenaidd, hyd nes y delo yn “wr perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist,” pan y rhydd heibio bethau bachgenaidd, ac yn lle edrych trwy ddrych mewn dammeg, i weled wyneb yn wyneb, ac yn lle adnabod o ran, i adnabod megys ei hadweinir. (1 Cor. xiii, 11, 12; Eph. iv, 13.) Yn awr, bydd o werth i Mr. Evans, i geisio profi fod yr hyn sydd *berffaith* wedi dyfod: yna gall ddweyd fod yr arwyddion wedi darfod. Ymdrechaf wneyd hyny drosto, fel hyn:—Gellir golygu fod yr hyn sydd *berffaith* wedi dyfod, trwy fod yr ysgrythrau santiaidd wedi eu gorphen, ac fod genym reol ddigonol i grefyddu wrthi, ac nad oes eisieu dim yn ychwaneg. Ond odid nad ystyria Mr. Evans hyna yn reswm da; o leiaf, os nad ystyria efe hyny, y mae digon a'i gwna; canys nid dywedid o'm heiddo i ydyw, ond cawr o elyn i'r Sain. I'm cynnorthwyo yn hyn o orchwyl, dyfynaf eiriau Mr. Evans yn nhud. 14—“Os ydyw ysgrythrau santiaidd yr Hen a'r Newydd Destamentau yn ddigonol reol i'n ffydd a'n hymarferiad, ofnwn syrthio dan farn Duw trwy honi hawl i ryw ddadguddiad newydd o'i ewylls, megys y gwna dynion yn y dyddiau hyn, ‘Canys yr wyf yn tystiolaethu i bob un sydd yn clywed geiriau prophwydoliaeth y llyfr hwn, Os rhydd neb ddim at y pethau hyn, Duw a rydd ato ef y plâau sydd wedi eu hysgrifenu yn y llyfr hwn,’ &c.—Dad. xxii, 18.” Yn awr, dyna glo ar y cyfan, na all neb ei agor ond y sawl sydd â'r allwedd. Ond gadewch i ni ei dreio, beth bynag, heb un agoriad. Pa beth yw “geiriau prophwydoliaeth y llyfr hwn?” Dadguddiad Ioan yw yr unig lyfr prophwydoliaethol o'r Testament Newydd; o ganlyniad, ychwanegu at, neu dynu ymaith oddiwrth y Dadguddiad, yw yr hyn a waherddir. Ceir gwaharddiad cyffelyb yn Diar. xxx, 5, 6, a lleoedd ereill; ond ychwanegwyd y Testament Newydd wedi hyny. Nid yw gwaharddiad i *ddyn* ychwanegu, ddim yn rhwystr i Dduw ychwanegu. Gair Duw yw y Dadguddiad, ac nid gair dyn; ac o herwydd hyny, Duw yn unig sydd i ychwanegu, neu dynu ymaith. Wedi bod Ioan ar yny Patmos, y casglwyd yr ysgrythrau at eu gilydd, gymmaint ag a gasglwyd, oblegid y mae llawer yn eisieu. (Gwel 1 Cor. v, 9; Judas 3, 14; Luc i, 1, 2, &c.) Mae yr hyn a ddywed yr angel wrth Ioan (Dad. xxii, 10), sef, “Na

selia eiriau prophwydoliaeth y llyfr hwn," yn profi yn amlwg mai y Dadguddiad yn unig oedd yn feddwl; o herwydd yr oedd y llyfrau ereill o'r ddau Deastament wedi eu gwneyd yn hyabys i'r eglwysi cyn erioed i'r angel roddi a gwaharddiad dan sylw, os credir mai y Dadguddiad yw y llyfr diweddaf a ysgrifenydd. O'r ochr arall, os nad Ioan oedd y diweddaf, yna y mae rhywrai wedi ychwanegu yn groes i'r gwaharddiad. Ond, dyna ddigon, ond odid, ar hyna. Cawn ddweyd gair, ynte, ar yr hyn sydd *berffaith*. Os mai crynhoed o'r hyn a wyddai ac a ysgrifennai Paul ac ereill "o ran," yw'r hyn sy "berffaith;" yna, yn ol yr un resymeg, gallai llawer o anmherffeithderau gyfansoddi perffeithrwydd! Pob peth a wyddai Paul ac ereill, "o ran" yr oeddynt yn gwybod; ac os yw casgliad mewn llyfr o'r hyn a ddarfu iddynt hwy ysgrifenu, yn gwneyd yr hyn sydd "berffaith," yna dylem ni wybod a phrophwydo yn well nâ hwy, o herwydd fod yr hyn sydd berffaith genym ni. Yn wir, pe buasai crefyddolion yr oes hon yn gwybod o ran, cawsent wybod rhywbeth gan Dduw, er terfynu eu dadleuon anorphen; ond trwy eu bod yn hōni fod yr hyn sydd berffaith ganddynt, y mae Duw yn ddisylw o honynt, ac felly y bydd hyd nes y dysgont y wers nad ydynt yn gwybod dim. Yn awr, wedi olrhain cymmaint, mentrwn haeru gyda Iesu Grist fod yr arwyddion i ganlyn y rhai a gredant, tra byddo ei efengyl yn cael ei phregethu; a dywedwn gyda Phaul, y bydd y prophwydo a'r llefaru â thafodau o ran, i barhau hyd nes delo y perffeithrwydd hwnw pan y cawn weled wyneb yn wyneb.

Y mae ein cyfaill Mr. Evans, yn nhud. 11, yn ceisio ein hargyhoeddi, fod yr arwyddion wedi darfu, trwy wneuthur y sylwadau canlynol:—"A raid i ni gredu nad oes ffydd gadwedigol gwedi bod yn y byd er ya mwy na phymtheg cant o flynyddoedd, gan nad oes gwyrthiau gwedi eu cyflawni gan broffeswyr crefydd Crist yn yspaid yr amser hwnw? A gollarnwyd yr holl fyd dros gymmaint o amser? A syrthiodd y dynion ymdrechgar a defnyddiol a lafuriasant gymmaint yn enw yr Iesu yn y canrifoedd hyny i gollledigaeth dragywyddol! Na ato Duw i ni dynu casgliad mor ddychrynlyd! Ac etto, os rhaid ystyried y goiriau yn yr ystyr eang y mae'r Saint yn eu cymmyrd, dyma'r *unig gasgliad* sydd i'w dynu oddiwrth ddiwyg y ffydd wyrthiol yn yr eglwys." Dyna hi yn ardderchog, o'r diwedd; canys y mae Mr. Evans wedi profi naill ai fod yr arwyddion wedi peidio, neu ynte fod yr holl grefyddwyr a fu oddiar ddyddiau yr apostolion wedi myned i "gollledigaeth dragywyddol." Ond, gan bwyll; o herwydd "hyn yw y ddamnedigaeth, ddyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy nâ'r goleuni." A ydyw Duw yn myned i gondemnio dynion am wrthod y goleuni, pan na chwasant gynnwyo arno? Ai tybied yr â y paganiaid sydd heb erioed wedi clywed yr efengyl, i'r trueni? A ymddygai Duw trugarog yn y modd hyny? Na, "y neb ni *chredo*," meddai efe, "a gondemmir," ac nid y rhai na chwasant gyfleusdra i hyny. Y mae pawb, debygwn i, i gael eu barnu yn ol eu gweithredoedd, ac yn ol eu manteision. Credaf y bydd i'r "dynion ymdrechgar a defnyddiol a lafuriasant gymmaint yn enw'r Iesu yn y canrifoedd hyny," gael eu gwobrwyo gan Dduw am hob daioni. Ond y pwnc ag ef yw, a oeddynt hwy wedi ufyddhau i efengyl Iesu Grist, wedi eu "bedyddio er maddeuant pechodau" gan weision awdurdodedig Duw, ac wedi derbyn yr Ysbryd Glân hwnw ag sydd yn "dwyn ar gof y pethau sydd wedi myned heibio, ac yn mynegi pethau i ddyfod," ac hefyd sydd mewn addewid i "bawb yn mhell" (Act. ii, 39)? Ac a oedd Duw trwyddynt yn "cadarnhau ei air trwy yr arwyddion oedd i ganlyn? Os na ellir ateb yn gadarnhaol, yna nid yw yn debyg eu bod wedi derbyn yr efengyl, yr hon ni ddelai atynt "mewn gair yn uig, ond mewn *sicrwydd maur*, ac yn yr ysbryd Glân." Yr arwyddion, ynghyd â ffrwythau yr Ysbryd, oedd y nodau ar ddyscyblion Crist yn y dechreuad; a pha fodd y gellir eu hadwaen ar ol yr amser hwnw, ond trwy yr un nodau? Ai wrth fod "heb yr Ysbryd ganddynt," ac yn meddu llawer o ddoethineb ddynol, y mae eu hadnabod? Ai o herwydd eu bod "yn gwahardd llefaru â thafodau," neu "ddirmygu prophwydoliaeth,"

neu ynta "efengylu yn amgen nâ'r hyn a efengylodd" Paul, y mae i ni eu had-nabod? Hysbyswr i mi, allan o'r ysgrythyrau, mai nid yr un nodau ddylai fod ar y credinwyr yn yr oes hon, ag yn yr oes hono. Ni fwriadodd Duw gadarnhau gair y Pabyddion, nac ychwaith y rhai a ddiolodd oddiwrthyt, â'r "arwyddion," ond yn unig ei air ei hunan; ac o ganlyniad nid oedd yn syndod yn y byd nad oedd yr arwyddion yn y wlad hon pan oedd Pabyddiaeth yn ei gorchuddio, ac nid yw yn syndod etto, pan na welir braidd ond cangenau deilliedig o Babyddiaeth yn llanw ein tir. Mae "dirgelwch yr anwiredd" a welodd Paul yn dechreu gweithio yn ei amser ef (2 Thea. ii), yn sicr o fod yn ei lawn waith yn ein dyddian ni, ac wedi achosi "*ymadawiaid*" gaurifoedd yn ol; ond ni cheir gwared o'r cyfryw "Anwir," nes y bydd i'r Arglwydd ei ddyfetha "ag ysbryd ei enau, a'i ddilen â dyscleirdeb ei ddyfodiad." Pob un y pryd hwnw ag na fydd yn *adwaen* Duw, ac wedi uffyddhau i efengyl Iesu Grist, yr hon a adferwyd gan angel o'r nefoedd, efe a ddyfethir "â than ffiamllyd." Nid crefyddau a elwir wrth enwau dynion a wna y tro y pryd hwnw, ond efengyl yn dwyn *adnabyddiaeth* o Dduw, fel yr efengyl a broffesa Saint y Dyddiau Diweddf, neu yr un a broffesid gan yr apostolion. Fe wna Duw ddarparu cyfiawnder ar gyfer y rhai sydd wedi marw heb glywed yr "efengyl dragwyddol," a bydd iddo ddarparu barn ar gyfer y rhai sydd yn ei chlywed, ac yn peidio ei chredu? Yr oedd y pregethwyr doniol yn y blynyddau diweddfaf yn gymmaint o weision i Dduw, ag a fyddai rhyw ddyinion yn weision i'r Frenines, y rhai a feddylient eu hunain yn hedd-gaidwaid, ac yn gwneuthur llawer o les, pan heb eu danton erioed ganddi hi. Mae eisieu cymaint o awdurdod oddiwrt Dduw i weinyddu yn ei gyfreithiau, ag sydd eisieu oddiwrt Victoria er gweinyddu yn ei chyfreithiau hi. Nid yw Duw yn "galw ato," ond trwy ei weision, ac nid all y rhai hyny alw drosto, heb dderbyn *dadguddiad* o'i ewyllys. Gweision heb *dadguddiad* oedd "y dynion ymdrechgar a defnyddiol a lafuriant gymmaint yn enw yr Iesu yn y canrifoedd" diweddfaf, a gweision hefyd, wrth gwra, heb awdurdod i weinyddu. Un felly yn gymhwys yw Mr. Evans, yn ol ei addefiad ei hun; canys ni all hōni un awdurdod ond a ddeilliodd o Babyddiaeth. Os gall, profed hyny. Yn awr, fe welir nad yw y rhai a fuont feirw yn golledig, am beidio credu yr hyn ni chlywsant; ac nad oes un rheswm i brofi na chanlyna yr "arwyddion" y rhai a *gredant* yr un efengyl â chynt.

Bellach, er mwyn diweddu, cymmysgaf y gweddillion a welaf o resymau Mr. Evans, yn un pentwr, a drylliaf hwynt gyda'u gilydd. Dywed yn nhud. 17, mai "nid trwy weithredu gwrthiau y mae ail-enedigaeth:" nage, wrth gwra, ond trwy gael ein "geni o ddwfr ac o'r Ysbryd." Etto, yn nhud. 9, meddai, "Yr oedd yr apostolion yn apelio at ysgrythyrau yr Hen Destament am gadarnhad i'r athrawiaethau oeddynt hwy yn bregethu." Felly yr apelia y Saint at y Testament Newydd, ac nid at esboniadau a thraddodiadau yr oes oleu-dywyll hon; ond pwy ddaw allan i'r maes i'w profi, wyneb yn wyneb? Dywed Mr. Evans beth fel hyn hefyd:—"Gan mai rhyfeddodau yw gwrthiau, byddai'r dygwyyddiad o honynt bob dydd yn dileu'r effaith a fwriadwyd iddynt gael." Wel, gan nad oes un wedi dygwyyd er ys llawer o filoedd o ddyddiau, efallai y gellid cyflawni rhai yn bresennol heb ddileu yr effaith. A chan fod ein parchedig gyfaiil yn gwaeddi, yn nhud. 15, "Dangoswr y byddariaid, pyrth-clybod y rhai a agorwyd trwy allu y Saint? Pwy o honynt a ddatododd llynyau tafod y mudan, nes peri iddo lefaru clodydd Duw?"—yr ydym yn ateb y gall Mr. Evans gael gweled person a ddaeth i glywed a llefaru—ie, llefaru clodydd Duw, ar ol cael ei fedyddio gan y Saint, a hyny yn ddiweddar, ac hefyd yn Nghymru. Os oes rhywun am gael prawf, aed i'r Casnewydd, a gofyned am y dyn, sef Robert Brinkworth, yn nhŷ Mr. Nash, gwneuthurwr basgedi, yn Heol-y-Farchnad; a darllened yr hyn a gyhoeddodd golygydd y papyr newydd yno, sef y *Merlin*, yn un o rifynau mis Medi, 1848. Y mae pawb yn cyfaddef yno iddo fod yn fud a byddar, a'i fod yn llefaru a

chlywod yn awr ; ond pwy a ddywed mai "bys Duw" oedd hyny, ond y sawl a gredant ei air. (Gwel ragor yn y PROPHWYD am Dachwedd, 1848.) Etto, dyweda Mr. Evans, "Ac os yw rhai o honynt, fel Irving, yn meddwl fod ganddynt ddawn yr Ysbryd i lefaru â thafodau na ddygasant erioed, dangoer ganddynt pwy iaith ydyw, a pha ddynion ar y ddaear sydd yn ei siarad." Dened efe i'r eglwys i gael gweled, o herwydd yn yr eglwys y mae'r gorchymyn i arfer y doniau ysbrydol; ond na ddeued yno yn "ddigred," neu "annysgedig," onide dyweda mai ynfydu y maent, pan yn llefaru rhyw iaith a siaredir gan ddynion. Pe cawsai ein cyfaill arwydd da, credu yr wyf y gadawai yr Eglwys yn y fan, er ei fod yn dweyd nad oes arwyddion yn bod. Y mae crefyddwyr ein gwlad o'r bron yn ceisio arwydd, ond arwydd nis rhoddir iddynt gan Dduw; eithr efallai y tosturia y gau-brophwyd wrthynt pan ddelo, ac y tyna dân o'r nef yn eu gwydd, i'w boddioni, a'u hargyhoeddi oil o effeithioldeb ei grefydd. (Dad. xiii, 13.) "Dyagwyliwch ronyn bach trwy ffydd," canys daw y bwystfil ar ein gwarthaf o flaen dyfodiad Iesu Grist.

Yn awr, wedi bod mor faith, dystawaf gyda dweyd, Os myn neb wybod fod eglwys Iesu Grist ar y ddaear yn awr, ac fod Duw wedi gosod ynddi, "yn gyntaf apostolion, yn ail prophwydi, yn drydydd athrawon, yna gwyrthiau; wedi hyny doniau i iachân, cynnorthwyau, llywodraethau, rhywiogaethau tafodau," &c. (1 Cor. xii, 28)—os myn neb wybod hyny, meddaf, gwneled ewyllys Duw, "ac efe a gaiff WYBOD am y ddyseidiaeth."

Pa'm na chredwch ein tystiolaeth ?
 Pa'm na phrofwch bob-peth sydd ?
 Pa'm na fynwch gael goleuni,
 Tra mae 'nawr yn oleu ddydd ?
 Pa'm na charech feddu sicrwydd,
 Yn lle gobaiith gwan a chred ?
 Pa'm na chydiwch yn y sylwedd,
 Yn lle'r cysgod diddym red ?
 Pa'm na hoffech gael y doniau—
 Dawn i bawb fel myno Duw ?
 Pa'm na chredech 'nawr mewn gwyrthiau,
 Tra mae'r Hwn a'u gwnaeth yn fyw ?
 Pa'm na charech ddawn i wella,
 A mynegi peth i ddod,
 A llefaru mewn tafodiaith,
 Tra mae'r hyu "o ran" mewn bod ?
 Pa'm y credwch "rith duwioldeb,"
 A chan wadu'n llwyr ei "grym ?"
 Pa'm y dygwch chwi bob amser,
 Tra nas gellwch wybod dim ?
 Pa'm na roddwch lwyr ufydd-dod
 I holl eiriau Brenin nef,
 Fel y caffoch wir wybodaeth,
 Trwy ddadguddiad, ganddo Ef ?

Caerfyrddin.

J. DAVIS.

GWIRIONEDD YN ERBYN CELWYDD.

MR. GOL.,—Dymunol fyddai genyf pe gwelech yn dda i roddi yr ychydig llinellau hyn yn eich cyhoeddiad defnyddiol.

Ar ddydd Sul, y 27ain o Awst diweddaf, cefais y fraint o wrandaw dau o bregethwyr y Saint yn pregethu, yn mhlwyf Llansawel, mewn lle o'r enw Pyllau'r Gwrych, am ddeg o'r gloch. Am ddau, aethant hwy a minnau i

gapel yr Independiaid, o'r enw Esgerdawe, lle yr oedd yn bresennol weinidog y lle, ac un o ysgolheigion Athrofa Ffrwdyfal, mab i gribydd o Felingwm, yr hwn a fu yn pregethu yn lle y gweinidog. Pregethodd ynghylch doethineb, oddiwrth Diar. viii, 18 ; a dywedodd am ardderchogrwydd y grefydd efengylaidd, a dedwyddwch y sawl sydd yn ei meddu ; ond ni ddangosodd y ffordd i ddyfod i feddiant o honi. Cyn iddo ddiweddu, anerchodd y gynnulleidfa fel y canlyn :—" Fy ngwrandawyr anwyl, gochelwch y gau-brophwydi, y rhai sydd wedi dyfod i mewn i'r capel yma y prydawn hwn. Cymmerant arnynt i addaw pethau mawr i chwi, ond nid ydynt ddim ond y twyllwyr gwaethaf ; yr ydwyf fi yn eithaf adnabyddus o honynt." Yna, gan wylltu, rhoddodd allan air i ganu, a darfu iddo anghofio ei weddi ar ddiwedd y cyfarfod. Parodd hyn i mi ganu fel y canlyn :—

Pwy bynag fyddo'n ddibaid
Am gadw'i unig enaid,
Na fydded byth mor ffoled
A gwrthod deddfau Duw,
Trwy ddilyn gau-athrawon—
Y bleiddiaid rheibus, creulon,
Sydd trwy y byd yn gysson
Yn ngwisgoedd defaid gwiw.

BYRDWN.

Tydi, 'rhwn wyt yn cyagu
Mewn t'wyllwch, gwel oleuni ;
Yn awr mae yn llewyrchu
Yn danbaid yn ein tir.
Daeth angel o'r wlad nefol,
A'r 'fengyl fawr dragwyddol,
'N ei doniau pur ysbrydol :
Mae hyn yn ddigon gwir.

Pan yn eu synagogau
Pregethant draddodiadau
Sylfaenwyd er ys oesau,
Yn lle'r efengyl fwyn ;
Arweiniant eu gwrandawwyr
I arw wyr gam lwybyr ;
O reol bur ysgrythyr,
Sydd eglur, gwnant eu dwyn.
Tydi, 'rhwn wyt yn cyagu, &c.

Cyhoeddant weision Iesu
Yn dwyllwyr—gau-brophwydi,
A hen "Sataniaid" pygddu,
O'r fagddu wedi dod,
Am gynnyg dweyd fod doniau
I'w cael mewn oes mor oleu
O ddynol draddodiadau,
Yn awr, fel ceid erioed.
Tydi, 'rhwn wyt yn cyagu, &c.

Fe wada plant y sectau
Ddwyfoldeb y 'sgrythrau,
Trwy haeru nad oes doniau
I'w cael yn awr i ddyn ;

Nad oes dim eisieu'r Ysbryd,
 Na'i gyfraniadau hyfryd—
 Fod cnawdol ffordd i fywyd
 Yn llawer gwell nag un.
 Tydi, 'rhwn wyt yn cysgu, &c.

'Rym 'nawr yn gweled dynion
 Mewn cnawd yn troi'n elylllon,
 I wadu addewidion
 Y Tad, nefolaidd Iôr:
 A'i Fab grasusol, Iesu,
 Roes addewidion ini,
 A'i lwon nis gwnant laesu
 Tra paro tir a môr.
 Tydi, 'rhwn wyt yn cysgu, &c.

Amddifad yw'r eglwysi,
 Rhai ni ordeiniodd Iesu,
 O ddoniau'r Ysbryd mwngygu;
 Ac felly ânt yn mlaen,
 Mewn digter gwyllt a chynhen,
 Ac atgas, hell genügen:
 Gwnant gwyno yn eu hanghen
 Wrth gwrdd â'r diluw tân.
 Tydi, 'rhwn wyt yn cysgu, &c.

Duffryn Marles.

JOLYN MAI.

CLEDR-FFORDD O COUNCIL BLUFFS I DDINAS Y LLYN HALEN!

MAE yr ymgyrch fawreddig ac haiarnaidd ag y cyfeirir ati isod, yn newydd pwysig i'r Saint. Nid yn unig aiff heibio eu sefydliad, ond hwylusa yr ymgasgliad yn fawr, trwy leihau y costau a byrhau amser yr ymfudaeth. Agora hefyd farchnadfa helaeth i'r nwyddau, gwerthiadau, a'r cynnyrch gormodol ag a fedda y Saint yn y dyffryn bras hwnw, a chynnysgaetha filoedd o weithwyr a chelyfddydwyr â gwaith lawer. Ac os cyflawnir hi, teilynga yr enw, a gobeithiwn y llanwa y cymmeriad o'r "*brif ffordd*" hono ag a addawodd yr Arglwydd godi i waredigion ei bobl. Mewn ystod deuddydd neu dridiau, gellid cyrhaedd o Council Bluffs i'r Llyn Halen, yr hyn daith a gymmer yn awr gynnifer o fisoedd braidd.

"Mae y gleddrffordd, yn ol cynllun Mr. Whitney, yn dod o hyd yn fwy tebygol i gael ei chyflawni, ac y mae pob hysbysiad o barthed iddi yn ddyddorol. Pan y soniwyd gyntaf am gleddrffordd i California, gwawdid y meddyl-ddrych, a chyhoeddidd uwch ei phen y cyffelyb dryghed i bob ymgyrch newydd braidd gan y rhai sydd yn amddifad o ddealltwriaeth i ddirnad y posibilrwydd o'r cyfryw bethau. Diau fod etto lawer o ddynion na ddirnadant y posibilrwydd o wneuthur, na'r defnyddioideb o'r fath gleddrffordd; eithr perthynant i'r dosparth hwnw o bobl a anghredant y posibilrwydd i agerfadau groesi y Môr Werydd mewn deng niwrnod, a bod cerbydau tanlyd yn cyflymu yn ol 50 neu 60 o filltiroedd yr awr. A ganlyn yw desgriafiad Mr. Whitney ei hun o'r wlad lle yr amcana wneyd ei gleddrffordd:—

"Cychwynyr o Council Bluffs, a dilyner glanau yr afon Platte yn gymhwys; yna drwy y South Pass i Green River; yna i'r deau drwy Muddy Creek hyd Bear River; oddiyno heibio y Llyn Halen hyd afon Casha, ac yna yn ogleddol hyd gangen ddehenol yr afon Columbia, ac yna i lawr gyda'r afon hyd y môr. Hyd y gleddrffordd hon yw tua 2,200 o filltiroedd.

“*Desgrifiad o'r wlad.*—O Council Bluffs hyd yr afon Platte, mae y wlad braidd yn wastad, a'r ddaear yn galed, heb nemawr rwystrau mawrion, fel bryniau, afonydd mawrion, &c. ; o afon Platte hyd afon Green, mae y wlad yn weddol wastad, a'r ddaear yn gymmysgefig â thywod ; oddiyno hyd afon yr Arth, mae y wlad yn lled fynyddig, ac yma a thraw nentydd yn 100 troedfedd o led. Rheda y rhai hyn mor amrywiol, fel y maent mor fanteisiol i'r gledrffordd braidd, â phe buasai yn gymhwys. Tebyg y bydd rhaid croesi yr afon Muddy tuag ugain o weithiau cyn cyrhaedd afon yr Arth ; eithr y mae ei lled yn llai, ac nid byth braidd dros gant o droedfeddi. [Yna manyla am y wlad o'r Llyn Halen tuk.wnt, hyd afon Columbia.] Ceir eira yn y wlad hon weithiau diwedd mis Tachwedd, a pharha ar droion hyd ddechreu Mawrth. Y pellter o'r South Pass i'r Llyn Halen yw 250 o filltiroedd. Mae yr holl gynllun yn awr dan sylw cyfeisteddfod, drwy apwyntiad U. D. A., pa rai a ddysgwyh'r i ben-derfynu o blaid gwneyd y rheilffordd.”

OMEGA.

FFARWEL Y SAINT.

Yn iach ! i bawb yn awr ;
Gwnawn forio'r eigion mawr,
Mewn hiraeth llawn am Seion Duw ;
Can's gwell yw myn'd i'r wlad
Rowd ini gan ein Tad ;
Rhy hir, yn gaeth, y buom fyw.
Daeth in' ryddid, 'nol hir flinfyd,
Galwyd ni o Babel ma's ;
Wrth yr alwad, myn'd yw'n bwriad—
Myn'd er gwaetha'r gelyn cas :
Ein Duw, o'i ddirfawr rās,
A'n dwg ni'n glyd i'w Seion wiw.

Yn iach ! Brydeinig dir,
Ein gartref amser hir,
Mae gartref gwell o'n blaen yn awr ;
Caledi, ing, a thrais,
Sydd yma yn barhaus,
Ond gwynfyd hwnt i'r cefnfor mawr.
Pwy sy'n foddlon dod i Seion ?
Lle o lwyr ymwarded yw
Rhag y plâau a'r gofidiau
Ddaw i flino dynol-ryw ;
Mae'n ddiogel fan i fyw
Pan fyddo'r ddrycin dros y llawr.

Gwnawn hefyd ganu'n iach
I'r Saint, dros enyd fach,
Nes cawn eu gweled oll yn nhref :
Ein ffarwel sydd yn hir
I'r sawl sy'n gwadu'r gwir,
Can's nid ynt hwy o deulu'r Nef.
Awn dan ganu dros y weilgi,
Heb un ofn dan ein bron ;
Duw o'i fwynder wylia'n llester
Pan yn marchog ar y dôn ;
A'r Saint trwy'r ynys hon,
F'o hefyd dan ei ofal Ef.

J. D.

CAETHFASGNACH Y SECTARIAID!

MAR y byd Cristionogol yn llawn o brofion o'r fasgnach ysgeler a wna sectariaid o eneidiau dynion, fel na raid i ni ychwanegu dim. Ac er eu bod hwy yn gwadu ysbryd y brophwydoliaeth yn mhlith eu cydoeswyr, etto cyflawnant un brophwydoliaeth yn hollol, sef yr hyn a ddywed Pedr—"Ac mewn cybydd-dod, trwy chwedlau gwneuthur, y gwnant farsiaediaeth o honoch chwi." Eithr yr hyn a ganlyn a ddangosa eu cybydd-dod yn marsianda ar gyrff dynion, heblaw eu heneidiau, fel ar bris gwaed eu brodyr duon cynnorthwyr hwynt i wneyd rheffynau tragwyddoll am eu heneidiau hefyd yn dynach a chadarnach. Dyweda y *News of the World*, neu *Utico Christian Contributor*, fod y Methodistiaid yn meddu 250,000, y Bedyddwyr 226,000, a'r Presbyteriaid yn meddu 80,000. Ychwaneger 45,000 yn mhlith yr amrywiol sectau ereill, a cheir fod y sectariaid yn yr Unol Daleithiau yn honi eu hawl yn nghyrrff 600,000 o'u cyd-ddynion! Dyma farsiaediaeth waedlyd! Ac etto professant oll fod yn eglwysi i'r Duw grasol a greodd bawb yn rhydd, ac etto dim digon o ewyllys na gallu yn eu plith i ysgwrio o'u heglwysi yr hyn a ystyrir gan wledydd y byd cyn waethd â môr-ladrad; eithr y gwir yw fod eglwys Iesu Grist, sef Saint y Dyddiau Diweddaf, mor hollol ddiuenog o wneuthur marsiaediaeth o eneidiau ac o gyrff dynion duon na gwynion. Gobeithio y glanha y sectwyr gwaedlyd eu heglwysi o waed dynion, ac y gollyngant eu brodyr caethion yn rhydd wrth y cannoedd, cyn y gwaeddant etto fod y Saint i gael eu gwerthu yn gaethion tu hwnt i'r môr. Gyfeillion marsiaidiol! Feithiau fel yr uchod, a llawer a ellid ychwanegu, a brofant mai "chwychwi yw'r gwyr."

LLYTHYR AT Y GOLYGYDD.

MR. GOL.,—Crefaf eich hynawsedd i ymresymu a thystiolaethu mewn perthynas i'r gwirioneddau y daethym i wybodaeth am danynt, wedi hir chwilio. Bum dair-ar-ddeg o flynyddau gyda'r Bedyddwyr; ac yn yr yspaid hwnw, cefais y cynghorion a'r addysgiadau goreu ag oedd yn eu meddiant. Gwnaethym innau yn gydwybodol fel y'm dysgwyd; ond etto yr oeddwn yn ofni ar brydiau fod genyf ry fach o grefydd i fyw a marw wrthi, er hyny yn penderfynnw glynw wrthi nes marw, os na chawn gynnyg ar well. Ond mor fuan ag y daeth y Saint i'r ardaloedd hyn, dechreuodd ein dysgawdwyr, yn neillduol Mr. W. R. Davies, eu herlid a'u casâu, gan ddweyd pob drwg am danynt. Dywedai Mr. Davies unwaith yn ein ty ni, mai ei ddymuniad ef oedd gwneyd yr un peth â'r blaenoriaid ag a wnaed â Joseph Smith, sef eu lladd. Hyn, yn nghyd â llawer o bethau ereill, a'm cynhyrfodd i chwilio mewn i'w hegwydd-orion; ac wedi i mi gael y fraint o ymgyfeillachu â'r Saint, gwelais nad oedd ynt fel y dywedai Mr. Davies ac ereill yn eu cylch. Gwelais hefyd fod eu hathrawiaeth yn gydfynedol â'r athrawiaeth sydd yn yr ysgrythyrau; a phan glywais eu tystiolaeth, penderfynais yn ddioed mai gwir oedd, telais ufydd-dod iddi, a chefais wybodaeth sicr am wirionedd eu cenadwri. Yr wyf yn diolch i Dduw am y fraint fawr hon, ac am y dystiolaeth werthfawr a gyflwynodd fy Nhad nefod i mi trwy ei Ysbryd; ac yn awr yr wyf yn tystiolaethu mai gwir yw cenadwri y Saint, a bod Duw, adnabyddwr y calonau, yn rhoddi tystiolaeth yn awr fel cynt, trwy roddi yr Ysbryd i'r rhai sydd yn cymmeryd eu bedyddio gan weision Duw. Gwn hefyd fod y doniau ysbrydol yn eglwys Saint y Dyddiau Diweddaf, fel y sonia yr ysgrythyr am danynt; a'r pethau hyn a wn, trwy fod Ysbryd Duw yn cyd-dystiolaethu â'm hysbryd i. O, na allwn osod allan y llawenydd sydd yn parhau yn fy nghalon, am y fraint fawr o gael rhan gyda phlant Duw; canys gwn mai plant Duw ydynt, er eymmaint a ddywedir yn eu herbyn. Dymunwn yn fawr weled fy hen frodyr yn gadael y cibau gweigion, ac yn troi i ymofyn am wir grefydd Iesu Grist, ac i gael gafael ar

sylwedd, yn lle eu bol yn ymborthu ar swm, fel ag y maent. Dymunwn weled pawb yn ufyddhau i genadwri Saint y Dyddiau Diweddfaf; canys gwn fod cymmaint o wahaniaeth rhyngddi a chrefydd y Bedyddwyr, ag sydd rhwng goleuni a thywyllwch, neu swm a sylwedd. Yn awr, yr wyf yn terfynu, gan obeithio y gwelir miloedd etto yn ufyddhau i'r efengyl; hyn yw'm gweddi a'm dymuniad er mwyn Crist. Amen.

Dowlais.

JOB ROWLANT.

CAN MEWN ERLIDIGAETH.

TON—"Godlys."

O EILIA gân, fy enaid; gad heibio dy gwynfanau;
Daw iti lwyr ymwarded o wlad y galarnadau;
Gwna gadw'n lew dy ffydd i'r lân, cei'r Iesu dan dy groesau.

Rhai o ganiadau Seion, cân er dy fin gaethiwd;
Er fod it' gerth elynion i'th erbyn, mae a'th arbed,
Sef gwir Etifedd Daw digoll; rho arno'th holl ymddiried.

Gwel wlad dy etifeddiaeth, drwy'r dyrys faith bellderau,
Yr hylon froydd helaeth, lle bydd pendraw dy siwrnau,
Lle treiddia pob llawenydd gwiw, heb lysiant i'w phalasaau;

Lle y teyrnasa'th Frenin, mewn mawredd dihefelydd,
Lle trig pob brawd heb ddychryn, dan ei ffigysbren ddedwydd,
A phawb mewn hwyl heb boen na chur, trwy gariad pur tragwydd;

Lle bydd yr holl delynau, llon hylwydd, mewn llawn hwyliau,
A llu dirif o Seintiau, iach wrol yn eu chwareu;
Holl filwyr Iesu, cryf a gwan, geir yno dan goronau.

NATHAN DDU O HYWEL.

CYMMANFA SIR FYNWY.

CYNNALIWYD y Gymmanfa uchod yn Neuadd y Greyhound, Nantyglo, ar y 5med o Dachwedd diweddfaf. Agorwyd y cyfarfod boreuol gan William Phillips, llywydd y gynnadledd, trwy ganu a gweddio. Cynnygiwyd gan y brawd Phillips, ac eiliwyd gan y brawd D. Jones, fod y Capt. D. Jones i lywyddu yn y gymmanfa, yr hyn a gymmeradwywyd yn unfrydol. Yna y llywydd a anerchodd y gynulleidfa yn fyr ar yr achlysur, a'r cyfarfod ynghyd, sef helaethu terfynau teyrnas ein Harglwydd, &c.—hefyd annogaeth ddwys i undeb a chydweithred i'r dyben hyn. Yna cynnygwyd gan y llywydd fod i'r brodyr D. Jones a Wm. Davies fod yn ysgriftenwyr; yna galwodd y llywydd am gynrychiolaeth y cangenau, yr hyn a gymmerodd le fel y canlyn:—

Cangenau.	Llywyddion.	Hen.	Off.	Ath.	Dia.	Bed.	Oll.
Nantyglo.....	Thomas Giles.....	6	5	6	2	35	97
Penycae	David Jones	3	3	2	2	33	60
Coed-duon	Evan Evans	1	4	0	1	11	36
Tredegar	William Evans	2	2	2	0	4	28
Blaenau	Thomas Parry	1	1	2	0	5	27
Abersychan.....	John Jones.....	4	6	2	2	27	88
Blaenafon	William Lewis	2	0	0	1	3	13
Victoria	James James	4	3	3	1	21	87
Abercarn.....	William Parker	1	3	1	1	23	27
Bedwas	Evan Jones.....	0	1	0	0	5	8

Cyfanrif..... 24 28 18 10 167 471

Y llywyddion uchod a roddasant eu tystiolaeth yn unfrydol fod undeb a chariad yn gyffredinol yn mhllith y Saint yn y cangenau, ynghyd â thebygolrwydd o lwydd mawr ar yr efengyl o hyn allan. Yna dygodd y llywydd achosion y gwahanol lywyddion gerbron y Saint, trwy ofyn a oedd rhyw gyhuddiad yn eu herbyn. Wedi methu cael dim, cynnygiodd y llwydd gynnol y gwahanol lywyddion trwy eu ffydd a'u gweddiau, gan ddechreu ar lywydd y gynnadledd, yr hwn a gymmeradwywyd yn unfrydol; felly yr holl lywyddion ereill yr un modd. Penderfynwyd wedy'n i reoleiddio y cangenau canlynol, ynghyd â llywyddion arwnt:—Cwmteleri, Ed. Protheroe; Bedwas, Evan Jones; Rosau, Penycæ, William Rees; Brynmawr, Abednego Jones; Garneddifaith a'r Farteg, John Jones. Yna terfynwyd y cyfarfod trwy weddi gan y brawd Wm. Davies, Rhymini.

Am hanner awr wedi dau o'r gloch, daeth y Saint ynghyd, a dechreuwyd y cyfarfod trwy ganu a gweddio gan y brawd Wm. Henshaw. Wedi hyn, anerchodd y llywydd y Saint, mewn modd bywiol, am reol a threfn teyrnas Dduw, ac am ffrwythau yr Ysbryd Glân, &c. Yna cadarnhawyd pedwar o frodyr ac un chwaer, gan yr henuriaid William Phillips, William Howells, a Wm. Henshaw. Ar ol hyn dangosodd y llywydd mewn modd eglur, ddyledswyddau y Saint wrth fwrdd yr Arglwydd, &c.; ond o herwydd byrdra yr amser, rhoddwyd yr ordinhad heibio heb gyfranogi o honi, ac aeth y llywydd yn mlaen trwy alw y swyddwyr canlynol:—*Henuriaid*—David Watkins, Victoria; Evan Jones, Bedwas; William Jones a Charles Watts, Abersychan; John James, Coed-duon; John Rees, Nantyglo; a Griffith Davies, Penycæ. *Offeiriad*—Charles Probert, Victoria; William Davies, Abercarn; a Thomas Harries, Nantyglo. *Dysgwadwyr*—John Davies a David Jones, Victoria; Edward Rees, Bedwas; John Master, Coed-duon; John Harries, Penycæ; a James Williams, Nantyglo. Cymmeradwywyd y rhai hyn oll yn unfrydol. Yna cynnygwyd gan y llywydd, fod yr holl Saint yn gynnadledd hon yn cydnabod, ac yn dal trwy ffydd a gweddiau, y llywyddiaeth yn Seion, ac hefyd Orson Pratt yn Mrydain, a'i holl gynghorwyr, &c., yr hyn oll a gymmeradwywyd ag un llais. Ar ol hyn aeth y llywydd rhagddo, gan ddangos iachawdwriaeth dymmorol y Saint, trwy y casgliad i Ddyffryn y Llyn Halen, &c. Yna terfynwyd trwy weddi gan y llywydd, wedi cael boddlonrwydd neillduol yn yr ymgynnulliad.

Am hanner awr wedi chwech o'r gloch, agorwyd y cyfarfod hwyrol trwy ganu a gweddio gan y brawd John Jones, Abersychan. Wedi canu anthem gan y cantorion, anerchodd y llywydd y dorf yn fyr, gan roddi lle i swyddwyr ereill i wneyd yr un peth. Y cyntaf a alwyd oedd Wm. Howells (yn Saesneg), yr hwn a ddangosodd ragoroldeb Dyffryn y Llyn Halen ar wlad Canaan, neu Palestina, gyda dymuniad dwys y cai y fraint o gwrrdd â'r holl Saint yno. Yn nesaf, Wm. Evans, Rymni, a ddygodd egwyddorion cyntaf yr efengyl ger hron y gynnulleidfa mewn modd eglur a gonest, ynghyd â'i ddymuniad ar iddynt eu derbyn. William Henshaw wedi hyn, yn Saesneg, a osododd allan ardderchogrwydd a gogoniant goruchwyliaeth y dyddiau diweddfaf, yn rhagori ar yr holl rai ereill o'i blaen, gyda thystiolaeth fod yr angel a welodd Ioan (yn Dad. xiv, 6), yn ehedeg yn nghanol y nef, wedi dyfod â'r efengyl dragywyddol ganddo, ynghyd â'i genadwri, "Ofnwch Dduw, a rhoddwch iddo y gogoniant, canys daeth awr ei farn ef;" a dangosodd hefyd y ffordd y gallai pob un ddianc rhag y farn hon. Yna cyfododd y llywydd, ac a ddangosodd mai Duw yw yr unig wneuthurwr gwrthiau; ynghlyn â hyn dygodd achos y brawd Brinkworth o'r Casnewydd, yr hwn oedd yn bresennol. Galwodd y llywydd ef yn mlaen i ateb drosto ei hun. Safodd i fyny, a thystiodd yn hyf mai trwy ufydd-dod i'r efengyl y derbyniodd y fendith. "Yr oeddwn," meddai, "yn fud a byddar er ys blynyddau; ond trwy ufydd-dod i'r ordinhad o fedydd er maddeuant pechodau, yn enw Iesu Grist, gwelodd Duw y gwrthiau yn dda i ryddhau fy nhafod ac agor fy nghlustiau, fel y gallaf yn awr glywed a llefaru

megys chwithau. Fy nhystiolaeth sydd gywir, ac i Dduw y byddo'r gogoniant. Amen."

Talwyd diolchgarwch i wr y ty am ei garedigrwydd, ynghyd âg ereill yn dal perthynas â'r neuadd, ac hefyd y cariad gwresocaf tuag at y dorf siriol o wrandawwyr. Yna terfynwyd y cyfarfod trwy weddi gan y brawd W. Phillips.

PWY A A ?

HOLL bleidwyr Iesu gwiw,
Pwy a â ?

• Mynegi gallu Duw,
Pwy a'i gwna?
Sef, bod ei fraich rinweddol
Yn gweithio heddyw'n nerthol;
Clodfori Duw'n dragwyddol,
Pwy a'i gwna ?

Mae heddyw yn gwahodd,
Pwy a â ?

Gan gynnyg nefol rodd,
Pwy a â ?
Ni ddichon neb bregethu,
A hyny wrth fodd yr Iesu,
Heb iddo 'i awdurdodi;
Pwy a'i gwna ?

A'r genadwri hon,
Pwy a â ?

Dros barthau'r ddaear gron,
Pwy a â ?
Pregethu er tystiolaeth,
Gan roddi i bawb wybodaeth,
Fod iddynt waredigaeth,
Pwy a'i gwna ?

Mae llu o ddynol ryw,
Pwy a â ?

Heb ddod i adwaen Duw,
Pwy a â ?
Mae Duw ei hun yn foddlon
I roddi ei arwyddion,
I bawb o'i ufydd ddynion,
Pwy a'i gwna ?

'Does ond bywioliaeth wael,
Pwy a â ?

Heb fawr o aur i'w cael,
Pwy a â ?

Ma bara a dwr fydd sicr,
I bawb o'r gwir addolwyr,
Fel dywed yr ysgrythyr,
Pwy a'i gwna ?

Bydd "parchedigion" byd,
Pwy a â ?

Tuag at y rhai'n mewn llid,
Pwy a â ?

Fe'u gwawdir gan y doethion,
 Fel gwnaeth eu tadau deillion
 I Grist a'i apostolion ;
 Pwy a'i gwda?

NOAH.

GALAR A GWYNFYD.

GALARA llwythan'r ddaear,
 Pan ddelo Mab y Dyn ;
 Ac am na chredant iddo,
 Hwyr brofant ddial blin.

Ond, clywch ! gwynfyd y cyfryw
 Fo'n credu'n Iesu cu ;
 Pan ga y lleill eu poeni,
 Cânt hwyr eu cipio fry.

HELAETHIAD EIN CYHOEDDIAD MISOL !

BWRIEDIA i'n cyhoeddiad misol am y flwyddyn ddyfodol gynnwys 24 o dudalenau, deuddeg plyg, am yr un bris ag o'r blaen, sef *Dwy Geiniog* y Rhifyn ; a dibynwn ar sel ac ymrod ein derbynwyr a'n dosparthwyr i'n digolledu yn hyn, drwy eu hymdrechiadau i ledaenu ei werthiad ; ac annoga eu ffyddlondeb blaenorol i ni gredu nad ofer fydd ein dygwylid. Y mae cynnydd a llwyddiant rhyfeddol y gwaith dwyfol ag yr ymdrecha ein cyhoeddiad o'i blaid, yn gofyn helaethiad ei faintioli ; ac y mae cynnydd parhaus yn chwaeth ei dderbynwyr, yn gwaeddi yn uchel ac yn barhaus am yr un peth ; ac nid yn unig hyn, ond y mae amser ac amgylchiadau y dyddiau rhyfwrdd hyn a'u canlyniadau yn gorlwytho ein colofnau i redeg dros eu ceulannau yn eu perthynas â'r Saint, yr oll o ba rai a uchel annogant ledaeniad ein cyhoeddiad i sylw ein cydgenedl. Da genym allu dweyd fod y tystiolaethau a feddwn o'r llesâ! a wnaeth y PROPHWYD, yn fwy eisoes nag a lanwai un rhifyn o'i golofnau : a ganlyn yw tystiolaeth un adnabyddus i ni pan ddarllenodd y PROPHWYD :—

Bechen yw "Seren y Saint,"—ïe, a byr,
 I beri rhagorfrant ;
Dlws mawr, dylasai ei maint
 Yn gymwys fod saith gymaint.

UDGORN SEION !

PENDERFYNWYD cyhoeddi ein Cyhoeddiad ar yr enw hwn o hyn allan, a gobeithiwn na fydd newid ei enw yn un tramgydd i'n derbynwyr, nad par mawr fawr y carent yr enw blaenorol. Nid yw newid enw yn newid llais na chwaeth ; ac hyderwn yr udgana ein HUDGORN newyddion gwell, ac yn uwch am SEION a'i llwyddiant, o bell ac agos, nag a wnaeth y PROPHWYD, nac a sailai wneyd yn ei ddydd. Priodol iawn yr ystyriwn ni yr enw i'r gwaith a wna, canys ei brif amcan fydd cyhoeddi y newyddion rhyfeddol a'r cynghorion dyddorol a ddeilliant o'r ffynnonell ddwyfol hono yn Seion, fel y gallo ei holl blant gwasgaredig drwy Gymru ddrachtio o'i ffrydiau, er eu disychedu ar eu taith drwy anialwch Babilon tuag adref ; a gobeithiwn mai megys y sycheda y teithiwr blinedig am ddwfr y ffynnon oer ar y ffordd, yr hiraetha y Saint, a'i holl dderbynwyr, bob newydd loer am lais yr UDGORN i swnio helyntion Seion yn eu clustiau, a'i gyfarwyddiadau i'w camrau yn dymmorol ac yn ysbrydol. Taer erfynir ar bob dosparthwr ledaenu y tafeni a argraffwyd i'r dyben o gadw cyfrifon y derbynwyr, ac ymdrechu i'w llanw ag enwau derbynwyr cysson am

y flwyddyn; a dysgwylw'n i lywydd pob canghen ein hysbysu yn y Gymnanfa nesaf, pa nifer o **UDGORN SEION** a ellir werthu ganddo: nac anghofier hyn. Cynnwysa y daflen gyfarwyddiadau i'r perwyl, Hysbysawn ein derbynwyr mai Henuriad John Davis fydd Golygydd ac Argraffydd yr **UDGORN**, yn ein habseunoldeb: iddo ef anfoner pob gohebiaethau a thaliadau, i'r tŷ hwn, megys ag i ni o'r blaen; ac hyderwn ninnau gael y fraint o gyfarch ein derbynwyr drwyddo yn aml, er o bell.

CYMMANFA MORGANWG

A **GYNNELIR** yn Neuadd y Cymreigyddion (*White Lion*), ar y Sul olaf o'r flwyddyn, a'r Llyn canlynol, pryd yr hyderwn weled yr holl lywyddion yn brydlawn ac yn barod i gynrychioli eu canghenau; a chan mai hon fydd y gymnanfa olaf a gawn ni gyda ein hanwyl frodyr am yspaid, da fyddai genym weled yr oll a allo o'r Saint yma, yn *enwedig yr Ymfudwyr*, gan fod genym lawer o bethau i'w hysbysu ag sydd o bwys iddynt hwy. Dysgwylw'n hefyd ymweliad y Llywydd Spencer ar y pryd hwnw, yr hwn sydd yn ymweled â'r cynnadleddau i gasglu y degwm er adeiladu teml i enw Arglwydd y lluoedd yn Nyffryn y Llyn Halen; a gobeithw'n y parotoa y rhai a allant, i wneyd hyny y pryd hwnw. Nid y'm wedi cael addewid sicr y daw y Llywydd Orson Pratt hefyd.

AT EIN DOSPARTHWR.

ANWYL GYDWEITHWR.—Gweddoch weithian mai dyma yr alwad olaf a allwn roi i chwi am ddyledion y **PROPHWYD**, a'r cyhoeddiadau ereill a gawsoch, o herwydd ein bod yn bwriadu ymfudo tua Seion dechreu y flwyddyn, yr hyn a dystio drosom yr anghen fydd arnom am gael ein holl ddyledion cyn cychwyn — heblaw fod diwedd pob cyfrol yn gyfnod ag y dysgwylia pob cyhoeddwr settlo ei holl gyfrifod. Hyderwn y rhag-barotoa pob dosparthwr i wneyd hyr erbyn y Gymnanfa nesaf.

AT EIN DERBYNWYR, &c.

FE wel ein derbynwyr yr achos fod y Rhifyn hwn yn ddwy a dimai; canys y mae'r ddalen enwol, y rhagymadrodd, a'r cynnwysiad yn cael eu rhoddi yn ychwanegol, heblaw fod y rhifyn hwn a'r un blaenorol yn fanach a'r lleill. Ein gohebwy'r a foddlonir mor gynted ag y gellir yn yr **UDGORN**.

CYNNWYSIAD.

Darlith yr Apostol O. Pratt.....	173	Caethfasgnach y Sectariaid!	187
Serlwadau ar Bregeth ynghylch "Saint y Dyddiau Diweddfaf a Doniau Gwyrthiol	176	Llythyr at y Golygydd	187
Gwirionedd yn erbyn Celwydd	183	Can mewn Eridigaeth	188
Cledr-ffordd o Council Bluffs i Ddinas y Llyn Halen	185	Cymmanfa Sir Fynwy	184
Ffarwel y Saint	186	Pwy a?	190
		Helaethiad ein Cyhoeddiad Misol	191
		Udgorn Seion!	191
		Cymmanfa Morganwg	192

MERTHYR-TYDFIL:

**CYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES, AC AR WERTH HEPYD
GAN Y SAINT YN GYFFREDINOL.**